Hastated, } ellaidd, isarnaidd, rheinaidd; ar lun gwaew *neu* isarn; trionglog, trichonglog, trichornelog.
Haste, *s.* (Al., Sw., a D. *hast;* Is. *haast*) brys, ffrwst, dyfrys, prysurdeb, ffull, ffysg, pres, prest, arbres, crys, ymffrwst, ffwdan, ffrystellach, ffrystell, hawnid, cud.
In haste—ar frys, ar ffrwst, ar ffull, ar ddyfrys, &c.; ar redeg, dân frysio; mewn brys.
In great haste — ar frys gwyllt; mewn mawrfrys; mewn brys mawr; ar frys mawr; yn nerth ei draed; yn nerth y traed a'r gwadnau. [frys.
Headlong haste—brys dïymattal, grawth-
In all haste — cynted byth ag y gellir; cyntaf byth ag y gellir; cyntaf byth ag y galler; gyntaf byth ag y galler; gyntaf byth ag y gellir; yn gyntaf byth ag y gellir; gyda phob brys.
With all the haste that may be—cynted byth ag y gellir; cyntaf byth ag y gellir, &c.
To make haste—brysio, prysuro, ffullio, ffrystio, dyfrysio, ffysgio, crysio, dychrysio, cyflymu; estricio.
Make haste—brysia; brysiwch, &c.; hai.
Make more haste—ymsymmud yn gynt; chwanega dy frys; gwna chwaneg o frys; gwna fwy o frys; gwna fwy brys; brysia.
Why make you no more haste?—pa ham yr oedi? pa ham oedwch? pa ham nad ymsymmudi yn gynt? pa ham na wnai fwy o frys?
Make what haste you can back—dychwelwch gyntaf ag y galloch; nac oedwch ddychwelyd; nac oeda ddychwelyd; dewch yn ol cynted ag y galloch.
Why in such haste?—pa frys sydd arnoch? beth yw y brys sydd arnoch? pa frys sydd arnat?
For this I make haste—am hyn y mae brys arnaf; am hyn yr wyf yn brysio.
Make no more haste than good speed—gân bwyll a gyrhaedd yn mhell; gân bwyll a gerdd yn mhell.
The more haste, the worse speed—po mwyaf fo y brys, mwyaf fydd y rhwystr; mawr frys, mawr rwystr.
In post-haste—ar redegfrys, ar redeg, dân redeg, mewn mawrfrys, mewn gorffull, ar frys gwyllt.
He came post-haste—daeth ar redeg; daeth yn nerth traed ei geffyl; daeth ar redegfrys; daeth ar fawrfrys; daeth dân redeg; daeth mewn gorffull.
With post-haste—yn nerth traed y ceffyl; yn nerth traed ceffyl; yn nerth traed ei geffyl; yn nerth y traed; yn nerth ei draed; yn nerth y traed a'r gwadnau; ar ddwr ac ar wynt.
To make post-haste — rhedegfrysio, gorffullio, gwneuthur mawrfrys; brysio yn nerth traed a gwadnau.
Haste, } *v.* brysio, dyfrysio, ffrystio, prysuro,
Hasten, } ffullio, ffysgio, crysio, dychrysio;

cyflymu, buanu, ffestinio, ffestu, ebrwyddo, frysio; presu; ffwdanu, ffrystellu; cymhell; bod yn daer ar.

Haste ye—brysiwch, &c.; hai.

To hasten one's pace—cyflymu ei gerddediad; ymsymmud yn gynt; amlhau ei gamrau; tynu ei droed ato; tynu ei draed ato; rhoi y troed olaf yn mlaenaf.

To hasten one's journey — prysuro neu ebrwyddo ei daith.

To hasten work — prysuro gwaith, gorchwyl, neu beth; gwneuthur peth ar frys; peri gwneyd peth ar frys.

To haste a person, } prysuro un, cyflymu
To hasten a person, } un; anfon un yn gyflym.

To hasten one (to a person or place)—prysuro; cyrchu neu ddwyn ar frys.

To haste away—myned ymaith ar ffrwst; brysio ymaith, prysuro ymaith, &c.

To hasten one's escape—brysio i ddianc.

To hasten too much—trabrysio, tra phrysuro, traffullio, rhyfrysio; gwneuthur gormodd frys; ymdraffullio.

Hastener, *s.* brysiwr, prysurwr, prysurydd, fulliwr, brysior, ffrystiwr, ffysgiwr, ffysgiolyn, fysgiad; cymhellwr, cymhellydd.

Hastily, *ad.* (o *hasty*) ar frys, ar ffrwst, ar fall, ar ddyfrys, ar ffysg, yn ffysg; ar redeg, dan frysio, mewn brys; yn fyrbwyll, yn frysgar, yn brysur, &c.

Hastiness, *s.* (o *hasty*) brys, ffrwst, prysurdeb, brysgarwch, dyfrys, dyfrysgarwch, prysuredd, prysurder, cyflymder, cyflymdra, buander, buandra, buanedd, disyfydrwydd, sydynrwydd, disymmythder, ffullder, ffulldra, brysdra, ffestrwydd, ymffrwst, chwimmythdra; byrbwylldra, byrbwylledd, dibwylledd, hyddigedd, hyddigrwydd, hygoddedd, ffrom-der, anwesogrwydd, anwes, anynadrwydd, nawswylltedd, chwidredd, ehudrwydd, gwylltineb, gorwylltedd, anamynedd, anystyriaeth, anfyfyrdod, anfeddylgarwch, drwg arwyd, drwg anwydau, drygnwydau; trabrys, tra brys, rhyfrys, gormodd frys.

Hasting-pear, *s.* peren gynnar, peran gynnar, cynnarber.

Hastings, *s. pl.* (o *haste*) pys cynnar, cynnarbys; pys gleision: aeron cynnar, ffrwythau cynnar.

Hastive, *a.* (o *haste; Ff. hâtif*) brysiol, brys; cynnar, cynnarol.

Hasty, *a.* (o *haste*) brysiol, brysgar, dyfrysiol, dyfrysgar, brysiog, dyfrysiog, brys, ffysg, cyflym, buan, ebrwydd, chwai, chwyrn, (*f.* chwern), chwimmwth, ffysgiol, ffulliog, mwth, disymmwth, disyfyd, sydyn, prysur, prysurol, pres, prest, talmeithr, ffest, ffestin, byrbwyll, hyddig, hygawdd, byrbwyllig, from, anwesog, poeth, poethnaws, gwyllt, gorwyllt, poethwyllt, nawswyllt, nwydwyllt, terwyn, twym, tanbaid, tanllyd, ehud, chwidr, dibwyll, anhybwyll, anystyriol, anystyrus, anfeddylgar, difeddwl, dïystyr, diddarbod, anfyfyr, rhull, rhy frysgar, tra brysgar, digynghor, dïamynedd, anamynedd-gar, anamyneddus, anymarŏus; hawdd ei ddigio; nad erys wrth gynghor; nad erys i ymgynghori; rhy gynnar, rhagaddfed, cyn ei amser, anmhymmoraidd, cynnar; à wnaed ar frys neu ar redeg.

Hasty-work—gwaith brys, bryswaith, brys waith, gwaith hawnid.

Hasty person—dyn byrbwyll, &c.

Hasty counsel—cynghor byrbwyll, cynghor difyfyr, cynghor anaddfed, &c.

Hasty fruit—ffrwyth cynnar, ffrwyth rhy gynnar, ffrwyth rhagaddfed.

Hasty-minded—byrfrydig; byr ei feddwl, byr ei fryd; byr ei ymgynghor; byrbwyll, anhybwyll.

Hasty pace—cerddediad cyflym, cyflym gerddediad, camre cyflym, camrau brysiog.

Hasty step—brysgam, cam brysiog.

Be not hasty to go—na ddos ar frys; na frysia i fyned.

Let not thine heart be hasty to utter—na frysied dy galon i draethu.

Why is the decree so hasty from the king?—pa ham y mae y gyfraith yn myned ar y fath frys oddi wrth y brenin?

A bitter and hasty nation—çenedl chwerw a phrysur.

Be not hasty to credit him—nac ymddiried iddo ef ar frys.

He that is hasty to give credit, is light-minded—yr hwn sydd yn credu yn fuan, sydd ysgafn ei feddwl.

He that is hasty in spirit exalteth folly—y digllawn ei ysbryd a ddyrchafa ynfydrwydd.

Be not hasty in thy spirit to be angry—na fydd gyflym yn dy ysbryd i ddigio.

Hasty-pudding, *s.* brysboten, brysbwding, poten frys, gwynawd.

Hat, *s.* (D.; S. *hæt; Sw. hatt;* Al. *hut*) het, hed, toc, diddosben, cwlen, cwflen, cwcwll.

A little hat—hetan.

A high-crowned hat—het gopa hir, het gopa uchel, het goryn uchel.

Cocked hat—het walciog.

Festucous hat—het wellt.

Felt hat—het lawban, hed lawban, het frethyn, het wlan.

Hat-maker—hetiwr, gwneuthurwr hetiau, gwneuthurydd hediau.

Hats off—ymaith â'r hetiau; ffwrdd â'r hetiau.

Hatable, *a.* (o *hate*) casadwy, hygas; cas, adgas.

Hat-band, *s.* llinyn het, rhwymyn het, hetrwym, hetrwymyn.

Hat-box, } *s.* blwch hetiau, hetgist, hetgistan,
Hat-case, } hetgaes; caesflwch, blwch papyr.

Hatch, *v.* (Al. *hecken;* Is. *hekker*) deor, deori, gôri, deor ar, eistedd ar wyau; dyfeisio, dychymygu, llyfelu, llunio.

To hatch chickens—deor, deori, gôri, deorain; dyfod â chywion; dyfod â chywion i lawr neu i glawr.

To reckon one's chicken before they are hatched—cyfrif ei gywion cyn dyfod o honynt i glawr; cyfrif ei gywion cyn eu dyfod i glawr; cyfrif ei gywion cyn eu dyfod i lawr; cyfrif ei gywion cyn eu deor; cyfrif ei fael cyn ei gael; cyfrif ei fael yn rhy gynnar.

Birds newly hatched—adar newydd ddeor.

To hatch mischief — dyfeisio drygioni, dychymygu drygioni; deor drygioni; deor ar ddrwg.

Hatch, *s.* deoraid, nythaid, nythlwyth, nythal,

haid o gywion; deoriad, deorawd; dynoethiad, dadgudd, dadhuddiad.

Hatch, *v. a.* (Ff. *hacher*) llinwyllo; godywyllu â llinellau; cysgodi â llinau; byrhau yn drychau; byrhau bob yn drwch; byrhau o fesur trwch a thrwch.

Hatch, *s.* (S. *hæca;* Is. *hek*) gorddor, gorddrws, gwarddrws, clorddrws; dorig, drysan, doran, rhagddrws, rhagddor; cauad, gwerchyr, *neu* glawr bwrdd llong; drysglawr; lliddorau, llifddorau, argaeau.

To keep under the hatches — cadw dàn llaw.

To be under the hatches—bod dàn y dwr; bod yn isel ei gyflwr yn y byd; bod yn ol yn y byd; bod yn ddrwg ei gyflwr yn y byd; bod dàn law un; bod dàn y gorddorau; bod dàn y gwarddrysau; cael ei gau i mewn; bod yn gaeth; bod mewn caethiwed *neu* galedi.

He has him under his hatches—y mae efe ganddo dàn ei law.

To be under the hatches of a person—bod dàn law un.

Hatchel, *s.* (Al. *hechel;* Is. *hekel*) heisyllt, heislan, rhipai, trafel, crib llin, crib cywarch.

Hatchel, *v. a.* heisylltu, heislanu, breuanu, cribo, cribo llin.

Hackeller, *s.* heislanwr, heislanydd, heisylltwr, heisylltydd.

Hatcher, *s.* (o *hatch*) deorydd; dyfeisiwr, dyfeisydd, llyfelwr, dychymygwr, lluniwr.

Hatchet, *s.* (Al. *hacke;* D. *hakke;* Ff. *hache*) bwyell, bwyall; bwyellan, bwyellig; cymmynai: *pl.* bwyeill, bwyelli.

Hatchet-helve—coes bwyell, troed bwyell, menybr bwyell.

To take up the hatchet—codi y fwyell; cyhoeddi rhyfel; rhyfela.

To bury the hatchet—claddu y fwyell; gwneuthur heddwch; ymheddychu.

Hatchet-face, *s.* wyneb llym, wyneb hagr, gwyneb bwyell.

Hatchet-faced, *a.* wyneblym; âg iddo wyneb llym *neu* hagr; âg iddo *neu* â chanddo wyneb bwyell.

Hatchetine, *s.* (oddi wrth C. *Hatchet*, fferyll enwog) delidwer, gwer y mynydd, brasgwyr adwynaidd=math o sylwedd à geir yn mwn haiarn Merthyr Tydfil.

Hatchet-shaped, *a.* bwyellaidd; ar lun bwyell.

Hatchet-vetch, *s.* pys y fwyell.

Hatchet-work, *s.* gwaith bwyell, bwyell-waith.

Hatching, *s.* (o *hatch*) deoriad, deorawd, gôriad, gôri; ysgerfiad.

Hatchment, *s.* (llygriad o *achievement*) margwnsallt, marw gwnsallt, cwnsallt y marw, arfarwyddion y marw, trengachen; arfau bonedd, arwyddion bonedd, arfarwyddion.

Hatchway, *s.* (*hatch* a *way*) gorddorffordd llong, gorddorfa, gwarddrysfa, gwerchyrffordd, y ffordd drwy glorddrysau llong.

Hate, *v.* (S. *hatian*) casau; bod yn gas gàn; ffieiddio, digaru, disgaru, angharu, anhoffi, dygasau.

To hate very much, } casau yn ddirfawr,
To hate extremely, } tra chasau, trachasau, dygasau, rhygasau, dygn gasau, gorgasau; casau â chasineb dirfawr.

To hate one's self—casau ei hun; bod yn gas gàn un ei hun.

I hate him—cas genyf ef; y mae yn gas genyf ef; mae yn gas genyf fi ef; cas yw genyf fi ef; yr wyf yn ei gasau.

He is hated by every one—cas gàn bawb ef; y mae efe yn gas gàn bawb; cas yw efe gàn bawb; y mae pawb yn ei gasau.

He will not be slack to him that hateth him—nid oeda efe i'w gas.

Those that hate thee—dy gaseion.

Hate, } *s.* casineb, cas, casedd, dygasedd,
Hatred, } dygasrwydd, dygas, angharíad, disgaredd, anserch, anhoffedd; casad, cashad, ffieiddiad; casnur, llid, malais; gelyniaeth.

Extreme hate—trachas, rhygas, dygn gas, dygas, gorgasedd, achas; eithaf casineb, casineb eithaf.

Hated, *p. p.* cas, adgas, dygas, achas; casedig, casäedig, â gashëir, à gashäwyd; disgar, dïachar, dygasog, ffiaidd, disgarad.

Hateful, *a.* cas, adgas, dygas, achas, ffiaidd, hygas, cashaol, cashäus, casol, disgar, dïachar, disgarad; dygasog, casog, à gashao, yn cashau; llawn casineb, maleisus, anserchiadus, athryfar, tryfar.

Very hateful—trachas, rhygas, dygas, cas iawn, gorgas.

A hateful thing—casbeth, peth adgas.

A hateful person—casai, casddyn, casadai, dyn cas, cas: *f.* casogen: *pl.* caseion, dygasogion.

Hatefulness, *s.* adgasrwydd, casineb, casedd, dygasedd, dygasogrwydd, dygasrwydd, hygasedd, hygasrwydd, cashad.

Hater, *s.* cashäwr, casai, casnor; à gashao; ffieiddiwr, ffieiddydd; cas: *pl.* caseion.

Hater of women—cashäwr gwragedd; un à gashao fenywod; cashäwr y wreigol ystlen; un gwragedd-gas.

Hater of mankind—dyngashäwr, cashäwr dynolryw, annyngarwr.

Hatless, *a.* (o *hat*) dihet, dihed, heb het.

Hatred, } *s.* casineb, cas, casedd, dygasedd, dy-
Hate, } gasrwydd, dygas, angharíad, disgariad, anserch, anhoffedd; cashad, ffieiddiad; casnur, llid, malais; gelyniaeth.

Extreme hatred—trachas, rhygas, dygas, dygn gas, dygn gasineb, gorgasedd, achas; eithaf casineb, casineb eithaf.

Mortal hatred—casineb marwol, dygn gasineb.

Private hatred, } bŷn, casineb cudd, cas-
Secret hatred, } ineb cuddiedig, cas celedig.

Worthy of hatred—gwiwgas, hygas, dygas, adgas.

Full of hatred—dygasog, cas, casog, adgas, dygas, llawn casineb.

Hatred for my love—cas am fy ngharíad.

Hatted, *a.* (o *hat*) hetiog; â het am ei ben; yn gwisgo het.

Hatter, *s.* (*hat*) hetiwr, hetwr, gwneuthurwr hetiau.

Hatter,† *v. a.* blino, dygn flino, aflonyddu, dygnu.

Hattle, *a.* gwyllt, anwadal, gwamal.

Hattock, *s.* (Gw. a Gael. *adag*) hanner drefa; ystwcan *neu* ysgafn o yd yn cynnwys deuddeg ysgub.

Hauberk, *s.* (Ff. *haubergeon;* Al. *halsberge*) llurig, cadbais; dwyfroneg, bronfoll; llurig ddifraich.

Haugh, *s.* (Al. *hage*) gwaelottir, gwastattir isel, hel, marianedd.

Haught,† *a.* (Ff. *haut*) uchel, ban, dyrchafedig; balch, trahäus.

Haughtily, *ad.* yn drahäus, yn falch, &c.

Haughtiness, *s.* (o *haughty*) trahausder, trahausedd, trahausdra, balchder, balchedd, balchineb, traha, tra, uchder, uchder meddwl, sythfalchder, rhyfusedd, syberwyd, uchder ffroen, ffroenuchder, rhyfyg, gorhydri, amryfolder, cymmyredd, hewgrach.

Haughty, *a.* (o *haught*, Ff. *haut*) trahäus, balch, uchel, uchelfalch, ffroenuchel, uchel ei ffroen, uchelfryd, uchelfrydig, sythfalch, trahausfalch, coegfalch, tordyn, syberw, arsyberw, amryfus, amryfol, gorhydrus, cymmyreddus, rhydreegar, effrom, ffrom, diystyrllyd, dirmygol, tremygol; goruchel; †hyf, eofn.

To be haughty, } ymfalchïo; bod *neu*
To grow haughty, } fyned yn drahäus.

Haul, *v. a.* (Ff. *haler*; Is. *haalen*) llusgo, dylusgo, tynu; dragio, ysdragio, dirdynu.

To haul the wind—troi pen llong at y gwynt; tynu at y gwynt.

Haul, *s.* llusg, dylusg, tyn; llusgiad, tyniad, dylusgiad; tynfa, hwys, hwysg.

Haul of yarn—llusg o edafedd=tua 400 edefyn, wedi eu llaesdröi i'w pygu.

Haul-about, *s.* amlusg.

Hauler, *s.* llusgwr, llusgydd, dylusgwr, tynwr, tynydd.

Haulm, } *s.* (S. *healm*; Al., Is., Sw., a D. *halm*)
Haum, } gwellt; callod, calledr; gwlydd,
Halm, } gwrysg; cyrs; sofl; pelydr, celyf: *sing.* gwelltyn, callodryn, gwrysgen, corsen, sofyn, paladr, calaf.

Haunch, *s.* (Ff. *hanche*) ffolen, morddwyd, clun, pedrain, aelod ol, gwaneg;† bon, pen ol, diwedd.

Haunch of venison—gwaneg, morddwyd hyddgig.

Haunch of mutton—ffolen mollt.

Haunch of an arch—gwaneg bwa, crymal bwa=y gwagle rhwng camedd bwa a'i rychwant.

Haunt, *v.* (Ff. *hanter*) cynniwair, cynniweirio, mynychu, cyrchu, cynnyred, ymgyrchu, dygyrchu, hygyrchu, tramwy, mynych gyrchu, mynad yn fynych; helcu, helgyd; afionyddu, blino, cythryblu, trallodi, cymrawu; ymddangos i; cadw mewn lle; rhy ofwyo.

Haunted house—ty ellyll-gyrch, ty gwyllgyrch, ellylldy, ellyllfan, ellyllfod, ty hywyll; ty yn yr hwn y dywedir bod ysbryd yn cadw; cyrchfa ysbrydion.

Haunt, *s.* cyrchfa, cyrchfan, cyrchle, cynniweirfa, cynniweirfan, cyrchlam, cynniweirle; †arfer, defod.

He returns to his old haunt—mae efe yn ymchwelyd at ei hen arfer; mae ef yn ymchwelyd i'w hen arfer.

Haunter, *s.* ymgyrchwr, cyrchwr, cyrchydd, cynniweirydd, cynniweiriwr, mynychwr, mynych gyrchwr, dygyrchwr.

A haunter of taverns—ymgyrchwr i dafarndai; cynniweirydd tafarnau; mynych gyrchwr i defyrn; heliwr tafarnau, heliwr tafarndai; dilotwr; wttreswr, gloddestwr.

A haunter of great men's tables—Ieuan lygad y bwyd.

Haurient, *a.* (Ff.; Ll. *hauriens*) syth; â'i drwyn o'r dwr; yn ei union sefyll; â'i ben i fyny; yn anadlu, yn cymmeryd anadl; yn tynu anadl.

Hausmannite, } *s.* delidfaen à geir mewn maen
Haussmannite, } myldardd.

Haust,† *s.* (S. *hwasta*) peswch sych.

Haust,† *s.* (Ll. *haustus*) trafiwnc, trancell.

Haustellate, *a.* (Ll. *haustus*) sugneiog, sugnyddog; âg iddo sugnydd.

Hautboy, *s.* (Ff. *haut* a *bois*) rhibib, telgorn; mefusen hirian.

Hauteur, *s.* (Ff.) trahausder, balchder, balchedd, balchineb, hewgrach, balch ymddygiad, uchder ffroen, balchfoes.

Hautgout, *s.* (Ff.) gorflasbeth, peth uchelsawr.

Haut-ton, *s.* arfyd, gwychfyd, defodfyd, y byd dullweddus, arfuchedd, uchelfyd.

Hauyne, *s.* (oddi wrth *Haüy*, y mwnofydd) lledusfaen=enw delidfaen.

Have, *v. a.* (S. *habban*; Al. *haben*; Is. *hebben*; D. *haver*; Ll. *habeo*) bod gàn, bod i; cael, caffael, meddu, meddiannu, perchenogi, mwynhau; bod ar helw, bod ar ei helw, bod yn eiddo, bod yn berchen; mynu; dwyn, dygyd, arwedd, arwain, dyfod â; bod ar; bod yn; cynnwys; dàl; bod yn rhaid i.

I have—y mae genyf; mae genyf; y mae i mi; mae imi.

Thou hast—y mae genyt; mae genyt; y mae iti.

He has—y mae ganddo, &c.

I have been—bum, buais; mi a fum; yr wyf wedi bod.

I have not—nid oes genyf; nid oes imi; nid oes i mi; ni feddaf.

I have a father—y mae genyf dad; mae tad genyf; y mae tad i mi; y mae i mi dad.

I have a book—mae genyf lyfr; y mae llyfr genyf.

To have mercy — trugarhau, cymmeryd trugaredd.

Have mercy upon us—trugarha wrthym; cymmer drugaredd arnom.

To have compassion—tosturio, tosturhau, truanu, truanhau, trugarhau, gresynu, tirioni, tosturiannu; bod yn dosturiol.

To have hope—gobeithio; bod i *neu* gàn un obaith.

We have hope—mae gobaith genym; mae genym obaith; mae ganom obaith; mae ini obaith.

To have in derision—gwatwar, gwatwor, gwawdio; gwneuthur gwawdo; chwerthin am ben.

To have heat — ymgynhesu; cynhesu, gwresogi; cael gwres.

To have respect to—edrych ar; ystyried; troi at; cydnabod â; sylwi ar; dysgwyl ar.

To have respect of persons — derbyn wyneb; ystyried ansodion, ystyried personau.

To have a good heart—ymwroli; bod yn galonog; cymmeryd calon; bod gàn un galon dda.

To have a thing cried—mynu crio peth; mynu cyhoeddi peth.

To have after — erlyn, canlyn, dylyn, dilyd.

To have at — ymosod ar, rhuthro ar;

gwynebu, gwrthwynebu; ymdrechu, amryson, ymbrofi.
Have at you—hwdiwch atoch, hwriwch atoch, cymmerwch atoch: *sing.* hwde atat, hwre atat, cymmer atat.
To have in—cael i mewn; mynu i mewn; dwyn i mewn; cynnwys.
Have the men in—dygwch y gwŷr i mewn; dygwch y dynion i'r ty.
To have on—gwisgo; bod â pheth arno *neu* am dano; dwyn, arwedd; bod gàn.
To have out—cael allan, mynu allan; peri allan, gyru allan, peri ymadael.
To have away — dwyn ymaith, cludo ymaith; myned ymaith â.
Have me away—dygwch fi ymaith; ewch â mi ymaith.
To have a care—gochel, gochelyd, gwilio, ymogelyd, ymochelyd, gofalu, ymgadw rhag.
To have a care for—gofalu am *neu* dros; bod â gofal am *neu* dros.
To have the care of—cael gofal; cael gofal arno; cael llywodraeth arno; cael goruchwyliaeth arno *neu* iddo; bod gofal, goruchwyliaeth, *neu* lywodraeth arno.
Have care—gochel, gochela, ymochel, ymogela, cymmer ofal.
To have pleasure—mwynhau; cael mwyniant, hyfrydwch, *neu* bleser; ymhyfrydu, ymddigrifo; llawenychu, ymlawenychu; bod i un hyfrydwch *neu* ddyddanwch; bod yn hyfryd *neu* ddigrif gàn un.
To have pain—goddef, dyoddef, poeni, ymboeni, dolurio; bod mewn poen, dolur, *neu* ofid; gofidio, ymofidio; bod ar un boen.
To have sorrow — cael gofid, ymofidio, gofidio; bod i un ofid.
He would have—mynai; mynai gael; dymunai gael; yr oedd am gael; dymunai; yr oedd am.
He should have—dylai gael.
I should have told you—dylaswn ddywedyd i chwi.
Have you? Yes—A oes genych? Oes.
To have the length of one's foot—gwybod hyd troed un; gwybod hyd coes un; medru trin un fâl y myno; gwybod gwendid un; gwybod y ffordd ar un; cael gafael ar ochr wàn un.
To have in honour—anrhydeddu, enrhydeddu, parchu, perchi, gorpherchi, edmygu.
All that I have is thine—yr eiddof fi oll sydd eiddot ti.
Have your wits about you—bid eich cof genych; bydded eich cof genych; cedwch eich cof arnoch; bydded eich synwyrau yn effro; bid eich synwyrau yn barod; byddwch â'ch synwyrau yn barod *neu* yn effro.
While I have my being—tra byddwyf, tra byddof, tra y byddwyf, tra bwyf, tra byddwyf byw.
In him we have our being—ynddo ef yr ydym ni yn bod; ynddo ef y mae ein hanfod *neu* fodolaeth.
That the king should have no damage—fel na byddai y brenin mewn colled.
Have me excused—cymmer fi yn esgusodol; esgusoda fi.
They have their reward—y maent yn derbyn eu gwobr.
If he will have him—os efe a'i myn.
We will not have this man—ni fynwn ni hwn.
What wilt thou have me to do?—beth a fyni di i mi ei wneuthur?

Haveless,† *a.* (o *have*) heb ddim ganddo.
Haven, *s.* (Is.; S. *hœfan;* D. *havn;* Al. *hafen*) porthladd, porthle, porthfa, llongborth, hafn, porth, porthloedd; aber, angorfa, cilfach, ebach; noddfa, noddle, diogelfa, llechfa, llechfan, gwasgod, gwasgodfa.
The fair havens—y porthladdoedd prydferth.
Havener,† *s.* porthladdwr, pen-porthladdwr, meistr porthladd.
Haver, *s.* (o *have*) meddiannwr, meddiannydd, perchen, perchenog, perchenogwr, daliwr.
Haver, *s.* (Is.; Al. *hafer*) ffetur, gwyllgeirch; ceirch.
Haversack, *s.* (Ff. *havre-sac*) cod milwr, cwd milwr, ysgrepan milwr, milorgod, milorgwd.
Having, *s.* (o *have*) meddiant, perchenogaeth; meddiannau, moddion, da, daoedd, nwyddau.
Having, *p.* (o *have*) âg iddo, â chanddo; âg ynddo; âg arno; â; yn meddu, &c.: *f.* âg iddi, â chanddi: *pl.* âg iddynt, â chanddynt.
Having done that thing—gwedi gwneuthur hyny o beth; wedi gwneuthur y peth hwnw.
Having a desire to be dissolved—gàn fod genyf chwant i'm dattod; gàn fod arnaf chwant i'm dattod; â chenyf chwant i'm dattod; âg arnaf chwant i'm dattod.

Havins, } *s.* (Isl. *hœf*) ymddygiad, ymarweddHavings, } iad, ymarwedd, moes; moesau da.
Haviour,† *s.* (o *behaviour*) ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, arweddiad, moes.
Havock, } *s.* (C. *hafog*) difrod, anrhaith, hafog,
Havoc, } dystryw, dinystr, difrodaeth, difrodiant, difâedd, beli, gwastraff, afrad, dyfethiad, difrodiad, difrod cyffredinol, llanastr.
To make havock of—difrodi, anrheithio, llanastru, hafogi, difa; gwneuthur difrod, anrhaith, llanastr, *neu* hafog; gwneuthur yn ddifrod, anrhaith, llanastr, *neu* hafog; gwneyd hafog o.
Made havock of—difrodedig, anrheithiedig, llanastredig, difâedig; à wnaed yn ddifrod, &c.; difrodus.

Havock, } *v. a.* difrodi, anrheithio, hafogi,
Havoc, } llanastru, dinystrio, dystrywio, difa; gwneuthur yn ddifrod, anrhaith, llanastr, *neu* hafog; gwastraffu, afradu.

Havock, }
Havoc, } *in.* hafog! hai hafog!

Haw, *s.* (S. *hœg, hag;* Al. *heck;* D. *hek*) egfaen, (*sing.* egfaenen), crawel y moch, cyrawol y moch, criafol y moch, grawn yr ysbyddaid, grawn y ddraen wèn; gwelameg, gorasgwn, yr ongl, sychbilen, pilen ar lygad, croenen ar lygad, rhuchen, sychrwyd, sychgernyn.
Haw, *s.* (S. *haga*) maesan, gower, cadlas, bwra, talwrn; maes bychan wrth dy; †dôl.
Haw, *v. n.* (llygriad o *hawk*, neu *hack*, neu yn debycach o *ha*) dywedyd *ho*, gweyd *ho ho*.
Haw, *in.* ho! ha! ho ho! felly!
Hawfinch, *s.* (*haw* a *finch*) gylfinbraff, y gylfinbraff.
Hawhaw, *s.* (*haw* ddwywaith) ffosgae, moelglawdd, ffosglawdd.

Hawk, *s.* (S. *hafoc;* Is. *hawik;* Sw. *hök;* D. *høg, høög*) hebog, gwalch; cudyll, curyll, ysgutyll; hawg, ysgutell, astell gymrwd.
Male hawk—hebog gwryw, gwalch gwryw, hwyedydd, hwyedig.
Sparrow-hawk — llemysten, llymysten, gwipai, gwipia, pilan, gwalches, corwalch, cudyll, curyll.
Hobby hawk—hudwalch, hebog yr hedydd, hebog yr ehedydd.
Night-hawk—brân nos (*Lef.* xi. 16); noswalch.
Goe-hawk—gwyddwalch, hebog Marthin.
Like a hawk—gwalchaidd, hebogaidd.
A hawk of the first coat—hebog dwyflwydd; gwalch dwyflwydd oed.
To man a hawk—dysgu gwalch.
Hawk-boy—hawglanc, hawgwas; gweinydd ar blastrwr.

Hawk, *v. n.* heboca; hely adar â gwalch neu hebog; hedeg at; dâl ar yr adain.

Hawk, *v. a.* (o'r sain) hochi, hochio, carthu gwddf, carthu gwddwg, carthu ceg.
To hawk up—taflu i fyny; taflu, hochi, carthu, codi.

Hawk, *v. a.* (Al. *hocken, höcken*) crio, criwerthu, cylchwerthu, gwica; crio nwyddau ar werth.

Hawk-bit, *s.* peradyl, dant y llew lleiaf.
Rough hawk-bit—peradyl garw.
Autumnal hawk-bit—peradyl cynauafol.

Hawked, *a.* hwca, hwced, cam, crwca, bachog; can fel pig hebog; trwyn-hebog.
Hawked nose—trwyn hebog, trwyn hwca, trwyn hwced, &c.

Hawker, *s.* (o *hawk, v. a.;* Al. *hocker*) criwerthwr, criwerthydd, gwicwr, gwicor, cylchwerthwr, cylchwerthydd.

Hawker, *s.* (o *hawk, s.;* S. *hafcere*) hebogydd, hebogwr, hebocwr, gwalchydd, gwalchwr, gweilchydd.

Hawk-eyed, *a.* llygad-hebog; â chanddo lygad hebog; llygadgraff, llygadlym, llygadfain.

Hawk-headed, *a.* penhebog; â chanddo ben hebog; âg iddo ben fel pen hebog.

Hawking, *s.* hebogyddiaeth, gwalchyddiaeth, gwalchwriaeth, gweilchyddiaeth, hebogwriaeth; hely adar â gweilch.

Hawknosed, *a.* trwyn-hebog, trwyngam, trwynhwca; â thrwyn cefn-grwm iddo; trwyntilwg.

Hawk-nut, *s.* cneuen y ddaiar, daiarcneuen, bywien: *pl.* cnau y ddaiar, clor, cylor, bywi, daiarcnau.

Hawk-owl, *s.* gwalchenid.

Hawk's-beard, *s.* gwalchlys, llysiau y gwalch.
Smooth hawk's-beard—gwalchlys llyfn.

Hawkweed, *s.* heboglys, llysiau yr hebog, meleuydd.
Mouse-ear hawkweed—torllwyd, torllwydig, blewynog, heboglys torllwyd.
Wall hawkweed, Golden lungwort, } heboglys y muriau.
Wood hawkweed — heboglys y goedwig, heboglys y coed.
Shrubby broad-leaved hawkweed—heboglys llydanddail. [ddail.
Narrow-leaved hawkweed—heboglys culSmooth succory hawkweed — gwalchlys llyfn.

Hawse, *s.* (S., Al., Is., Sw., a D. *hals*) rhaffdwll, rhaffrwyll, ffluregrwyll; cyflead llong wrth ddau angor o'i ffluregs; ffluregfa.

Hawse-bags, *s. pl.* cydau y rhaffdyllau; cydau llawn o garth i lanw y rhaffdyllau.

Hawse-hole, *s.* rhaffdwll, rhaffrwyll; twll crwn yn ffluregs llong trwy yr hwn y rhed rhaffau yr angorion.

Hawse-piece, *s.* un o goed y ffluregs; un o goed pen blaen llong.

Hawse-plugs, *s. pl.* pillgynion y rhaffdyllau.

Hawser, Halser, } *s.* (S., Al., Is., Sw., a D. *hals*) tynraff, llusgraff llong, tynraff llong.

Hawses, *s. pl.* rhaffdyllau, rhaffrwyllau, ffluregrwyllau.

Hawthorn, *s.* (S. *hag-thorn;* Al. *hagedorn*) draenen wèn, ysbyddad, ysbyddaden, draenen ysbyddaid, egfaenwydden: *pl.* drain gwynion, drain ysbyddaid, drain ysbyddad, egfaenwydd.
Dwarf hawthorns—corddrain gwynion.
Hawthorn-berries—egfaen, (*sing.* egfaenen), egfain, crawel y moch, crawol y moch, criafol y moch, grawn yr ysbyddaid.
Hawthorn-fly—gwibedyn ysbyddaid, cylionen ysbyddaid.

Hay, *s.* (S. *heg, hig;* Al. *heu*) gwair, ffwyn; dolwellt, gweirwellt.
Hay of the second mowing, Rowen hay, } adwair, gwair attwf, gwair adladd, adladd.
Meadow hay—gwair gwaen, gwair rhos.
Lay hay, Hay off dry land, Hay off lay-ground, } gwair gwyndwn, gwair gwyndon, tonwair, gwair tòn.
Moor hay, Hard hay, } gwair morfa; corswair.
Hay off marshes overflowed by the sea—gwair hallt.
Hay off moist mountain ground—rhoswair, gwair rhos.
Hay newly cut—ffwyn; glaswellt.
Coarse hay—gwair bras, gwair garw.
Hay-grass—ffwynwellt, ffwynwair.
Hay-land—gweirdir, tir gwair, ffwynog, ffwyneg.
Hay-house—gweirdy, ty gwair.
Hay-field — gweirglawdd, gweirglodd, gweirlawd, cae gwair, maes gwair, gweirgae.
Hay-yard—cadlas wair, gweirglas, gweirglos, gweirlan, gardd wair.
Hay-garth — gardd wair, cadlas wair, gweirglas.
Hay-rake—cribyn, rhacai, rhaca.
Hay-collar, Horse-collar made of hay, } mynci gwair, mynegyn gwair, myngwair.
Hay in rows—rhibynau gwair, carfanau gwair, ystodau gwair, rhenciau gwair.
A spire of hay, A blade of hay, } gweiryn; blewyn o wair.
To become hay—gweirio; myned yn wair.
To cure hay—cyweirio gwair, sychu gwair.
To make hay—cyweirio, cynauafu, cynauafa, neu drin gwair; gweirio.
To make hay while the sun shines—cyweirio y gwair tra bo yr haul yn ymddangos; cyweirio gwair tra bo y tywydd yn deg.
It is good making hay while the sun shines—da, gwell, neu goreu cynauafa tra byddo y tywydd yn deg; gwell cyweirio gwair tra bo yr haul yn ymddangos.

To dance the hay — amddawnsio, gweddawnsio, pleth-ddawnsio, dawnsio mewn cylch.

Hay, *s.* (S. *hæg*) ffiogrwyd, rhwyd gwningod, magl gwningod, rhwyd milod; †clawdd.

Hay, *v. a.* (Al. *heuen*) cyweirio, trin, cynauafu, *neu* gynauafa gwair; gweirio.

Hay, *v. a.* rhwydo cwningod, maglu ffiogod; ffiogrwydo.

Haybote, *s.* rhyddid i dori cae-wydd; dogn o goed i gyweirio cloddiau a gwrychoedd.

Haycock, *s.* mwdwl gwair, mwdwl o wair: *dim.* mydylyn o wair.

Haydenite, *s.* delidfaen à gaed gàn y Dr. *Hayden* yn agos i Baltimôr.

Hayknife, *s.* cyllell wair.

Hayloft, *s.* taflod wair, taflod.

Haymaker, *s.* cyweiriwr gwair, cynauafwr gwair.

Haymaking, *s.* cynauafiad gwair, cyweiriad gwair; cyweirio gwair, cynauafa gwair, cynauafu gwair.

Haymaking time—cynauaf gwair; amser cynauafa gwair.

Haymarket, *s.* marchnad wair, gweirfarchnad, gweirfa.

The haymarket—marchnad y gwair.

Haymow, *s.* ysgafn o wair, ysgafn wair, beisgawn o wair, meisgawn o wair, beisgawn gwair.

The haymow—yr ysgafn wair.

Hayrick, *s.* das gwair, das o wair, tas wair, hirddas gwair, hirdas wair, gweirdas.

The hayrick—y das gwair, y das wair.

Haystack, *s.* das gwair, das o wair, tas wair; daswrn, dasgwrn, bera, *neu* gwrn o wair.

Haystalk, *s.* paladr, conyn, *neu* welltyn gwair; blewyn o wair; gweiryn.

Hayward, *s.* (*hay* a *ward*=hedge-ward) bugail tref, trefugail; caegeidwad, bidwart; un à edrycho ar ol cloddiau a chaeau.

Hazard, *s.* (Ff. *hasard*) perygl, enbydrwydd, pyd; antur; damwaen, hap, chwaen, dychwaen, darffawd; chware antur.

To run the hazard — anturio, peryglu, pydio; rhoi ar ddamwaen; bwrw ar ddamwaen; rhedeg y perygl, rhedeg perygl; anturio deued à ddelo.

Hazard, *v.* anturio, peryglu, pydio; rhoi ar ddamwaen; bwrw ar ddamwaen; bwrw ar dynged *neu* dyngedfen; gwneuthur prawf; gwneuthur cynnyg; profi; rhedeg y perygl, rhedeg perygl; enbydu, enbydio; arberyglu, llyfasu, arlyfasu, dargynnyg, cynnyg, ymgynnyg.

Hazardable, *a.* anturiadwy, perygladwy; agored i ddamwaen.

Hazarder, *s.* anturiwr, peryglwr, peryglydd.

Hazardous, *a.* anturus, peryglus, enbyd, enbydus, arberyglus, pydus, pydol, pydaidd, pyd, perygl; darostyngedig i ddamwaen; à saif ar ddamwaen; yn sefyll ar ddamwaen; angeuol, adwythig.

Hazardously, *ad.* yn beryglus.

Hazardry,† *s.* enbydrwydd, perygledd, ehudrwydd, pydusrwydd; chware, hapchware.

Hazards, *s. pl.* pelregodau, habgodau, llogellau bwrdd pelre.

Haze, *s.* (?) niwl, nifwl, ysmwcan, ysmwcach, tarth, nudd, nuddach, tawch, caddug, baddug, mygdarth, mwgan, mwcan, mwgen, nudden, niwlen: *pl.* niwlach.

Haze, *v. n.* bod yn niwlog.

Haze,† *v. a.* dychrynu, brawychu.

Hazel, *s.* (S. *hæsl*; Al. *hasel*; D. a Sw. *hassel*) coll; collen: *pl.* cyll, collwydd.

Hazelnut-tree—collen, pren collen, collwydden.

Hazel-grove—collwyn, llwyn cyll, llwyn o gyll, celli gyll, collwydd, collwig, cyllwig.

Hazel-hen—iar y cyll, cylliar, iar gyll.

Hazel, *a.* perthynol i goll; yn perthyn i gyll; perthynol i gollen; o liw y gollen; tebyg i'r gollen; llwydwyn, llwyd goleu, llwydoleu, goleulwyd, gwineu goleu.

Hazel-earth, *s.* collweryd=math o dywodglai coch.

Hazelnut, *s.* cneuen goll, cneuen gollen, cneuen coll, cneuen y cyll, coll-gneuen: *pl.* cnau cyll, collgnau.

Hazelly, *a.* o liw y coll; o liw y cyll; o liw y gollen; llwydwyn, llwyd goleu, llwydoleu, goleulwyd.

Haziness, *s.* niwlogrwydd, nifwlogrwydd, nuddogrwydd, tarthogrwydd.

Hazy, *a.* niwlog, nifwlog, tarthlyd, tarthog, tawchlyd, caddugol, caddugiyd, cymylog, nuddog; godywyll, anamlwg.

He, *pr.* (S.) efe, ef, e, fe, me, efo, fo, mo, o; yntau.

He also, } yntau, efyntau; efe hefyd.
And he, }

Even he—yntau, efyntau.

He that—yr hwn a, y sawl a, y neb a, yr un à; efe yr hwn; à.

He himself—efe ei hun, efe ei hunan; yntau, efyntau; efe.

Is this he?—ai hwn yw efe? ai hwn yw?

I am he—myfi yw efe; myfi yw; mi ydyw.

I have heard that he should say—clywais ddywedyd o hono; clywais iddo ddywedyd.

He (in composition)—gwryw, gwrywaidd.

He-ass—asyn.

He-goat—bwch geifr, bwch gafr, gwrafr, bwch.

He-cat—gwrcath, cath wryw.

He-bear—arth gwryw, arth.

Head, *s.* (S. *heafod, hefed, heafd*; Al. *hasupt*) pen; copa, clopa, iad, siâd; blaen, brig; talcen, tâl; top, tob, clob, clop; penaeth, blaenor, penadur, llyw, llywydd, ffelaig; uchder, pen uchaf, eithaf, uchafnod; twys, twysen; pendod, penawd; pendodiad; coryn, cwnwg, cŵn; pwnc, pennod, erthygl, prif bwnc; grym, nerth, dirni.

A little head—penyn, pen bychan.

Crown of the head, } coryn, copa, copa pen,
Top of the head, } caran, siòl, siâd, iad, gwarthaf pen, clol.

Side of the head—cern, lledben.

Bald head—pen moel; moelyn.

The forepart of the head—rhagran y pen; yr iad; tu blaen y pen.

The hinder part of the head—gwegil; y tu ol i'r pen; y rhan ol i'r pen; pillgorn y gwegil; tyllgorn y gwegil.

Having a head—âg iddo ben; â chanddo ben; âg arno ben; â phen arno; penog, peniog.

Having a round head—pengrwn, crynbenog; â phen crwn *neu* gyfrgrwn iddo; â phen crwn *neu* gyfrgrwn arno.

Having holes in the head, } pendwll,
Having a head full of holes, } pendyllog: *f.* pendoll.
Swimming in the head—pendro, penfrag, penddar, penddaredd, pendrondod, pendronedd, madrondod, pendreigledd, pendrofa, gysp, meigryn, dera, gwibwrn, penfeddwdod.
Confusion of the head—penbleth.
Head of a tribe — pen llwyth, penaeth llwyth, penllwyth, pencenedl, pencordd, pentylwyth, pencenal, gwaladr.
Head of a nation—pen cenedl, pencenedl, pen cenal: *pl.* penau cenedl, pencenedlcedd.
Head of a family—penteulu, pen teulu, penaeth ty, pendod ty, pentylwyth; pencenedl, pen cenedl, pencordd, penllwyth.
Head to head—bob yn ben; bob yn bwnc; o ben i ben; o bwnc i bwnc; bob yn ben a phen; benben.
Head of a cask—talcen baril.
Head of drink—micws dïod, ewyn dïod.
Head of a river—blaen afon; ffynnon afon; tardd afon, tarddiad afon.
Head of a brook — blaen nant, pen nant.
Head of a fountain, } llygad ffynnon,
Head of a spring, } tarddell ffynnon; brychen, tarddell, tardden.
Head of a stag—pen carw, cyrn carw.
Back of the first head—bwch yn ei bummed flwydd; bwch y cyrn cyntaf; bwch y pen cyntaf.
Gentleman of the first head—boneddig pendodi; boneddig difonedd, diwraidd, *neu* ddiwaed; drygfoneddig.
Head of a nail—clopa hoel, clob hoel.
A head of hair—penaid o wallt.
Axe's head—pen bwyell.
Twenty head of oxen—ugain o ychain, again eidion; ugain pen o ychain; deg iau o ychain.
Bird's head and neck—gwp, gwp aderyn; pen a gwddf aderyn.
Head of a lute—trumen dwsmel.
Head of an army—blaen y gad, talgad, cyncad, cadflaen, gwyneb y drin, gwyneb y fyddin, blaen y fyddin, y blaen-gis.
In the head of the army—yn mlaen y gad; yn mhen y gad; o flaen wyneb y drin.
From head to foot—o'r pen i'r traed; o'i ben i'w draed; o'i ben i'w sawdl; o'i goryn i'w sawdl; o'i gopa i'w sawdl.
Head and ears—ben a chlustiau; dros ben a chlustiau; pen a chlustiau.
He is over head and ears in debt—y mae efe dros ei ben a'i glustiau mewn dyled; y mae efe mewn dyled hyd ei lygaid; y mae efe yn llawn dyled.
He is over head and ears in love—y mae efe dros ei ben a'i glustiau mewn cariad; y mae efe yn ofidus mewn cariad.
Head and shoulders—gerfydd y pen a'r clustiau; o anfodd, o drais.
To drag one head and shoulders, } llusgo
To haul one by head and shoulders, } un gerfydd ei ben a'i glustiau; llusgo un o'i anfodd, yn drwsgl, yn annyben, yn annaturiol, *neu* yn lledchwith.
Head or tail, } na phen na chynffon; heb
Head nor tail, } na phen na chynffon; heb na dyben na dosbarth; heb na dechreu na diwedd; yn anair, yn annilys, heb un sicrwydd.
To make the head bare—ymbennoethi; pennoethi, noethi y pen.
Sharp head (of a weapon)—blaen, dyflaen, pig, blaen llym, blaen main.
To take head—rhuso, rhwysgo; gwrthod, llysu, *neu* ballu myned yn mlaen; bod yn anystywallt, anhydrin, *neu* anhywaith; anhyweithio.
To make head against—ymuno, ymgasglu, dyfod yn nghyd, *neu* ymfyddino yn erbyn; ymgynnal *neu* sefyll yn erbyn; gwrthsefyll, gwrthwynebu, gwrthladd, gwrthymdrech; ymosod yn erbyn.
To give one his head—rhoi ei ben, ei ffordd, *neu* ei ffrwyn i un; goddef *neu* adael i un wneuthur à fyno.
Of one's own head—o'i ben ei hun; o hono ei hun.
To beat about the head—cernodio, bonclustio, cobio.
Head of a discourse—pen, pwnc, *neu* brif bwnc ymadrodd.
To bring a discourse to a head—rhoi swm *neu* sylwedd araeth ar fyr eiriau; rhoi sylwedd *neu* swm ymadrodd ar fyr eiriau; crynöi y cwbl à ddywedpwyd yn dalgrwn; penu ymadrodd.
To bring (a bile) to a head—peri penu, peri addfedu, peri gôri; dwyn i benu, i addfedu, *neu* i ôri; tynu i benu, i addfedu, *neu* i ôri.
To come to a head, } penu, addfedu, gôri;
To draw to a head, } magu pen.
Brought to a head—addfed; wedi magu pen.
To put in one's head, } rhoi,rhoddi,dodi,
To put into one's head, } *neu* osod yn mhen un; dwyn ar gof i un; coffhau i un; annog, cynghori.
On one's own head—ar ei ben ei hun; ar ei gopa ei hun; ar ei warthaf ei hun.
To hit the nail on the head—taro yr hoel ar ei chlopa, ar ei phen, *neu* ar ei chlob; cyffwrdd â'r iawn bwnc.
Hand over head—yn ddigynghor, yn ddifyfyr, yn ddiystyr, heb ystyriaeth, heb ystyried; yn ddiofal, yn esgeulus, yn ddidoraeth.
He drew his forces to a head—casglodd ei wŷr, ei filwyr, *neu* ei fyddinoedd yn nghyd; tynodd *neu* dygodd ei gadluoedd i'r unfan.
They laid their heads together—rhoddasant, gosodasant, *neu* bwriasant eu penau yn nghyd; cydymgynghorasant.
It is out of my head—mae e wedi myned dros gof genyf; mae ef wedi myned mewn anghof genyf.
It never entered into my head—ni ddaeth efe erioed i'm cof, i'm meddwl, *neu* i'm pen i.
Snake's head—britheg.

Head, *a.* pen, pen-, penaf, prif, arbenig, blaen, blaenaf; penol, penaidd; perthynol i'r pen.
Head master—prif athraw, pen athraw, penathraw, prif feistr, penmeistr, meistr penaf.
Head governor—penllywydd, penllywadur, penllywodraethwr.

Head-ornament—pendel, addurn pen.

Head, *v.* blaenori, blaenu, arwain, tywys, tywyso, llywio, cyfarwyddo, hyfforddi; bod yn ben, yn flaenor, *neu* yn arweinydd i; myned o flaen; myned o'r blaen; bod *neu* sefyll o flaen; penu; rhoi, dodi, *neu* osod pen ar; gwneuthur pen i; dibenu, tori pen; tocio, brigladd, pendrychu; gwrthwynebu, gwrthladd; chwythu yn erbyn; dechreu, tarddu, hanu.

To head an army—blaenori, blaenu, tywys, tywyso, *neu* arwain byddin; blaenori llu; bod *neu* fyned yn flaenor llu; bod *neu* fyned yn ben i'r gad; bod yn benciwdod *neu* gadflaenor; myned o flaen llu.

To head a barrel—talcenu baril; rhoi talcen mewn baril.

To head a nail—gwneuthur clopa i hoel; gwneyd pen i hoelen; gwneyd clopa hoel.

To head trees—brigladd coed, tocio coed, pendocio coed.

The wind heads us—y mae y gwynt yn ein herbyn; mae y gwynt yn ein gwrthwynebu; y mae y gwynt yn wrthwyneb i ni; chwytha y gwynt i'n herbyn.

Headache, } *s.* (*head* ac *ache*) dolur pen, gwaew
Headach, } pen, cur pen.

I have the headache—mae dolur *neu* waew yn fy mhen.

Headband, *s.* penre, penrwym, penrwymyn, ffunen, ysnoden ben, talaith, rhwymyn pen.

Headborough, *s.* (*head* a *borough*) penbwrdais, pen bwrdeisdref, maer bwrdeisdref, maer, penfaeronydd, degtrefwr, pen degtref, penaeth degtref.

Head-dress, *s.* penwisg, gwisg pen; copa, cobyn aderyn; penwisgiad, trwsiad pen.

Headed, *a.* penog, peniog; penedig; â phen iddo, arno, ganddo, *neu* ganto: arferedig yn benaf mewn cyfansoddiad.

Headed (as an army)—tywysedig, blaenoredig; â blaenor *neu* dywysog iddi.

Two-headed, } deupen, deuben, deu-
Having two heads, } benog; â dau ben iddo, arno, *neu* ganddo.

Three-headed, } triphen, triphenog,
Having three heads, } tripheniog; â thri phen iddo, ganddo, *neu* arno; âg iddo, arno, *neu* ganddo driphen.

Hundred-headed, } canpen, can-
Having a hundred heads, } penog, canpeniog; â chân pen iddo, arno, *neu* ganddo; perchen canpen.

Headed with iron—â blaen haiarn iddo *neu* arno; â phen haiarn iddo, arno, *neu* ganddo; blaen-haiarn, penhaiarn.

Thick-headed—pendew, penfras, pengam, hurt.

Hot-headed—penboeth, pendwym, poethwyllt, poethnawe, chwidr, ffrom, hylid, hyddig, gwynafog, nwydwyllt, anwydwyllt, gorwyllt, gwyllt, byrbwyll, ehud.

Light-headed — penysgafn, penchwiban, chwibwrn, gwibwrn, penwan; ysgafn ei ben; gwân ei ben.

Large-headed—penfawr, penfras.

Heavy-headed—pendrwm; *f.* pendrom.

Soft-headed — penfeddal, penblydd, penfasw.

Hard-headed- pengaled.

Blunt-headed—penbwl, penbylaidd, penffol.

Wry-headed—pengam.

Bushy-headed—penffluwch.

Block-headed—penbwl, penbylaidd, penglogaidd, penffol.

Giddy-headed — penchwiban, penysgafn, penfeddw, chwidr, chwibwrn, pendrwm, penhoeden, penffol.

Red-headed—pengoch; â phen coch iddo, arno, *neu* ganddo; gwalltgoch.

Gray-headed—penllwyd, briglwyd; penlas, penfrith; llwyd ei ben; penwyn.

White-headed—penwyn; *f.* penwen.

Broken-headed—pendrwch, (*f.* pendroch), penfriw; pengoll, pengollawl.

Scabby-headed—pengrach.

Scurfy-headed—pengrest.

Round-headed—pengrwn; *f.* pengron.

Bare-headed—penfoel; pennoeth.

Curly-headed, } pengrych, (*f.* pengrech);
Curl-headed, } gwalltgrych, crychgud-
Rough-headed, } ynog; â gwallt crych iddo.

Header, *s.* clopäwr, clopanwr; penwr; blaenor, arweinydd, pen.

Headers—penogion, penolion, penfeini.

Headfast, *s.* penllegr, penlleg; rhaff i ddâl pen llong.

Headfirst, *ad.* llwrw ei ben; yn llwrw ei ben; yn wysg ei ben; bendramwnwgl, bendramwnwg, yn bendramwnwgl, bendraffollach, dibyn dobyn, ar ddibyn.

Headgargle, *s.* penhobwst.

Headgear, *s.* penwisg, penwisg benyw, gwisg pen, pendrec.

Headily, *ad.* yn fyrbwyll, yn chwidr, yn ehud.

Headiness, *s.* (o *heady*) chwidredd, ehudrwydd, byrbwylldra, anystyriaeth, gwylltineb; cyndynrwydd, cildynrwydd, ystyfnigrwydd, pengamrwydd, pengamedd, pengemi, pengaledwch, pengaledrwydd, anhydynrwydd, gwrthnysigrwydd; cryfder dïod.

Heading, *s.* peniad; penau; pen, sylfon; defnydd penau; penwaith; rhaglwybr ceuffordd, cegffordd.

Heading courses—penresi, pendeddi; cyfresi o benfeini.

Headland, *s.* (*head* a *land*) pentir, penarth, peniarth, penardd, penryn, morben; talar, talrwn.

Headledges, *s. pl.* penysgeffyll.

Headless, *a.* di ben, heb ben; heb ben iddo *neu* arno; wedi tori ei ben; pendrwch; diflaenor, dibenaeth, heb benaeth; byrbwyll, ehud, chwidr, diddeall, anneallus, cyndyn, cildyn, pengam. [linell.

Headline, *s.* briglinell, toplinell, toplin, pen-

Headlines, *s. pl.* brigraffau, penraffau.

Headlong, *ad.* yn llwrw ei ben, llwrw ei ben, yn wysg ei ben; bendramwnwgl, ben dramwnwgl, bendramwnwg, yn bendramwnwgl, dibyn dobyn, pendraffollach, yn bendraffollach, ar ddibyn; yn *neu* wrth ias ei ben; yn ddïymattal, yn chwidr, yn ehud, yn fyrbwyll, mewn byrbwylldra, ar frys, ar ffrwst.

To cast down headlong—bwrw *neu* daflu i lawr bendramwnwgl; bwrw *neu* daflu bendramwnwgl; taflu i lawr yn wysg *neu* yn llwrw ei ben; bwrw i lawr dibyn dobyn; torfynyglu, pendifadu, penddifadu.

To plunge headlong — grawthu; soddi bendramwnwgl.

Headlong, *a.* pendramwnwgl, pendramwnwg, pendraffollach, serth, dibyn, dibynaidd; dïymattal, chwidr, ehud, byrbwyll, chwyrnwyllt, rhull, brysgar, penchwidr.

A headlong river—afon ffrydwyllt, chwyrnwyllt, wylltred, *neu* gyflymred.

A headlong precipice — craig ddibyn, serth, *neu* ddiffwys; serthallt, clogwyn.

The headlong inclinations of men—rhuthrwyllt, gwylltruthr, dïymattal, *neu* chwidr dueddiadau dynion. [frys.

Headlong haste—brys dïymattal, grawth-

A running headlong—grawthiad.

Headman, *s.* pen, blaenor, penaeth, arweinydd, penaig, penog, pencun, alcun, cun, llyw, glyw, udd, rhwyf.

Headmould-shot, *s.* pensaethwniad; dirwasg yr ymenydd = math o anhwyldeb mewn plant.

Headmoney, *s.* treth penau, treth y penau, arian penau, arian pen, tâl pen.

Headmost, *a.* blaenaf; nesaf yn mlaen.

Headpan,† *s.* creuan, padell yr ymenydd.

Headpence,† *s. pl.* ceiniogau pen=math o dreth penau, à geeglid gynt yn Northumberland.

Headpiece, *s.* penial, penffestin, penor, helm, cynfael, cap dur, penwisg ddur; deall, deallturiaeth, deallgarwch, synwyr, gwybodaeth, cyfarwyddyd.

Wearing a head-piece—penialog, penffestiniog, helmog; yn gwisgo penial *neu* helm.

Headpiece of a bridle—penffrwyn, penffestr, penffestr ffrwyn, penlle ffrwyn, penffest ffrwyn; penfar *neu* benwar ffrwyn.

Headpiece of a cap—rhwyden cap, rhwydell cap, rhwyd cap, gwegil cap.

A person of a good headpiece — dyn â phen da iddo; dyn synwyrgall, dyn synwyrlym, dyn deallfawr.

Headquarters, *s. pl.* pencadlys, penlluestty, prif luestty, penlluest, prifluest, penlle y gaer, priforaf; gorsaf y penciwdod.

Headpost, *s.* post blaen, penpiler, penpost.

Headrails, *s. pl.* penreiliau, blaenreiliau, rheiliau blaen, cledr y ffliureg.

Headridge, *s.* talrwn, talar, pen tir.

Headrope, *s.* brigraff, blaenraff, rhaff flaen, penraff.

Headsail, *s.* blaenhwyl, penhwyl.

The headsails—y blaenhwyliau, y penhwyliau=yr hwyliau ar hwylbren blaenaf ac ar osghwyliar llong.

Headsea, *s.* penfor, blaenfor, penwenyg; tònau à darawant ben blaen llong.

Headshake, *s.* pensiglad, siglad pen, sigl pen.

Headship, *s.* blaenoriaeth, blaenafiaeth, pencgaeth, penaduriaeth, penaethyddiaeth; awdurdod, dyrchafedd; lle blaenaf, lle penaf.

Headsman, *s.* dibenwr, dibenydd, torwr pen, lladdwr pen, dïenyddwr.

Headspring, *s.* ffynnon, ffynnonell, tarddell, tardd; dechreuad, codiad.

Headstall, *s.* penffrwyn, penffestr, penffest, penlle; penwar, penfar.

Headstick, *s.* penbren=darn o bren trwy yr hwn y gellir rhoi brigraffau cyn eu gwnio.

Headstone, *s.* penfaen; pen-sylfaen; pen-conglfaen; careg talcen bedd, beddfaen; maen clo.

The stone which the builders refused, is become the headstone of the corner—y maen à wrthododd yr adeiladwyr a aeth yn ben i'r gongl.

Headstrong, *a.* cyndyn, cildyn, cildynus, cildynog, pengaled, pengam, gwrthnysig, ystyfnig, penffetus, penffetur, anhyblyg, cyndyniog, chwidr, ehud, byrbwyll, digynghor, anmhwyllog, dibwyll, anystyriol, dïystyr, gwaedwyllt, anystywallt, afreolus, ffrwys, ffrom, ffyrnig. [rwydd.

Headstrongness,† *s.* cyndynrwydd, cildyn-

Head-tire, *s.* penwisg, gwisg pen.

Headwall, *s.* penfur, penwal.

Headway, *s.* penffordd; ysgogiad yn mlaen.

Headway of stairs—penffordd grisiau; y pellder o ben y grisiau i'r nesaf wd.

Headwind, *s.* gwynt gwrthwyneb, gwynt blaen, gwynt yn erbyn.

Headwork, *s.* gwaith pen, penwaith.

Head-workman, *s.* pengweithiwr, prif weithiwr, prif weithydd, gweithiwr blaenaf, gweithydd penaf, blaenor gwaith.

Heady, *a.* (o *head*) ehud, chwidr, byrbwyll, anystyriol, digynghor, dïystyr, dibwyll, anhybwyll, anystyrus, gwyllt, gorwyllt, anfeddylgar; nawswyllt, nwydwyllt, anystywallt, afreolus, ffrom, ffrwys, cyndyn, cildyn, pengaled, pengam, penffetus; à ei wrth ias ei ben ei hun; à ei yn ol ias ei ben; à gyfyd i'r pen; à gyfyd yn y pen; à bair feddwdod *neu* frwysgedd; cryf, cadarn, brwysgol, brwysgaidd, meddwol.

Headyards, *s. pl.* penllathau, rhaglathau, llathau blaen.

Heal, *v.* (S. *hælan;* Al. *heilen;* D. *heeler*) iachäu; gwellhau, gwella, meddyginiaethu, meddygu; gwneuthur yn iach; myned yn iach; ymiachäu.

To heal thoroughly—cwbl iachäu, holliachäu, gwneuthur yn holliach; myned yn holliach.

To heal one's self, } ymiachäu; iachäu ei
To heal of itself, } hun; myned yn iach o hono ei hun; gwella, gwellhau.

To heal up—myned yn holliach; myned yn groengyfan; gwneuthur yn holliach; gwneuthur yn groengyfan; cau i fyny, cauad i fyny; cau, ymgau, cyfanu, ymgyfanu, cyfhau, ymgyfhau; croeni, ymgroeni, creithio, gwella, iachäu.

Not to be healed, } anfeddygol, di-
That cannot be healed, } feddyg, anfeddygadwy, anfeddyginiaethol, anwelladwy, aniachadwy; anaele; nad oes meddyg *neu* feddyginiaeth iddo; nas gellir ei iachäu.

Self-heal—craith unnos, meddyges las.

Heal, } **Hele,** } † *v. a.* (S. *helar;* Ll. *celo*) cuddio, celu.

Healable, *a.* iachadwy, gwelladwy, meddygadwy, meddyginiaethol, hywell; à ellir ei iachäu, ei wella, *neu* ei feddygu.

Healds, *s. pl.* brwydau, brwydau gwŷdd.

Healfang, *s.* (S. *half* a *pangen*) rhigod, cosp y rhigod; rhigottal; tâl yn lle myned i'r rhigod.

Healer, *s.* iachäwr, iechydwr, iachydd, iachawdwr, iachëydd, meddyginiaethwr, medd-

yginiaethydd, gwellwr, meddygwr; meddyg.

Healing, *a.* iachaol, iachol, iachedigol, iachusol, iachäedigol, iachäus, iechydol, iachwyol, gwellhaol, meddyginiaethol, meddygol, meddygin, iechin; eliol, eliaidd; llariaidd, mwyn, mwynaidd, tirion, heddychol, heddychlawn, tangnefus, tangnefeddus.

Thou hast no healing medicines—nid oes iechyd *neu* feddyginiaeth i ti.

Healing art, } celfyddyd iachäu, medd-
Art of healing, } ygiaeth, meddyginiaeth, iachofyddiaeth.

Healing, *s.* iachâd, iachad, meddyginiaethad, meddygiad, gwellhad, gwellad, meddyginiaeth, iachawd; †cuddiad, celiad.

Past healing—anaele, anfeddygol, anfeddyginiaethol; heb feddyginiaeth iddo.

My sore will be past healing—anaele fydd fy nolur.

The gifts of healing—doniau i iachäu; doniau iachaol.

He healed them that had need of healing—efe a iachaodd y rhai oedd arnynt eisieu eu hiachäu.

There is no healing of thy bruise—nid oes iachäu *neu* wellhau ar dy archoll; anaele yw dy ddolur; ni thynir dy archoll yn nghyd.

The leaves of the tree were for the healing of the nations — dail y pren oedd i iachäu y cenedloedd.

Health, *s.* (o *heal*) iechyd, iechineb, iachwy; pwynt; meddyginiaeth.

In health—iach, yn iach, mewn iechyd.

Well in health, } holliach, olliach, iach
In perfect health, } lawen, iach ddïanaf, iach ddïasgen, cwbl iach, perffaith iach, mewn cyflawn iechyd, mewn perffaith iechyd, gwych a llawen, hoenus, hwylus.

Good health—iechyd da, iechyd, hwyl dda, hwyl iechyd.

Saving health—iachawdwriaeth, iechydwriaeth, iechineb.

Your health (in drinking)—iechyd da i chwi.

I drink your health—dyma iechyd i chwi; mi a yfaf iechyd i chwi.

Let us drink six healths to the king—yfwn chwech gwaith iechyd i'r brenin; yfwn chwe-gwaith iechyd i'r brenin; yfwn chwech gwaith at iechyd y brenin; yfwn chwech gwaith er cofio y brenin; yfwn iechyd *neu* hawddammor i'r brenin chwech gwaith olynol; yfwn iechyd i'r brenin mewn chwech llawn gwpanaid.

I wish you much health—hir iechyd a fo i chwi; hir iechyd a fo ichwi.

To look poor in health—edrych yn anhwylus; edrych yn wael *neu* wywlyd ei wedd; bod â golwg glafaidd *neu* glefyca arno; edrych yn glafaidd *neu* glefyca; edrych yn wael *neu* wywlyd; edrych yn wael ei iechyd.

Our father is in good health—iach yw ein tad ni.

Pleasant words are health to the bones—geiriau teg sydd iechyd i'r esgyrn; iechyd i'r esgyrn yw geiriau teg; geiriau teg sydd iachus i'r esgyrn.

Art thou in health?—a wyt ti yn llawen (2 *Sam.* xx. 9)?

Healthful, } *a.* iach, iachus, mewn iechyd,
Healthy, } iachusol, iachol, iachwyol, iechydol, iachäus; hoenus, hawntus, bywiog; pwyntus; diglefyd, dïafiechyd.

The healthful Spirit of thy grace—iachol Ysbryd dy ras.

Healthfully, } *ad.* yn iach, yn iachus, mewn
Healthily, } iechyd, yn iachusol.

Healthfulness, } *s.* iachusrwydd, iacholdeb,
Healthiness, } iacholrwydd, iechineb, iechyd; pwyntusrwydd.

Healthless, *a.* afiach, afiachus, aniach, sal; gwàn, egwan, gwanaidd; afiachol, afiachusol.

Healthlessness, *s.* afiechyd, afiachusrwydd, aniechyd.

Healthsome,† *a.* iachus, iach, iachusol.

Heam, *s.* brych, y brych, olysgar, adysgar, y garw, y gwared.

Heap, *s.* (S.; Is. *hoop*) crug, cruglwyth, twr, swp, curt, twysg, trwl, tryfwl; carn (o geryg); cluder (o goed); carnedd, twlch, mwnt; daswrn, dasgwrn, dasyl, das, ysgrwth; casgl; twmpath; moel, pen.

A little heap—crugyn, crug bychan, sypyn, twysgen.

By heaps—yn dyrau, yn bentyrau, yn grugiau, yn gurtiau, yn garneddau, yn drylau; bob yn bentwr, &c.

Heaps upon heaps—pentwr ar bentwr.

Without a heap—heb foel.

You shall have which you like, a strike measure or a heap measure—cewch y mesur à fynoch, ai y cyfor ai y pen.

A heap (of corn)—ysgafn, beisgawn, meisgawn; ystwc, gweisgon.

A round heap—crynswp, cruglwyth, pentwr crwn.

A heap of ruins—crug *neu* bentwr o adfeilion; cantwn.

Heap, *v. a.* crugio, crugo, pentyru, tyru, cruglwytho, carneddu, athyru, dasyrnu, dasylu, carnu, cludeirio, sypio, twysgo, byrnu, byrnio, curtio, croni, deisio, ysgafnu, cyrnio, dasgyrnu; gwneuthur yn grug, &c.

To heap about—amdyru, amgrugio; tyru *neu* gludeirio amgylch ogylch.

To heap together—cyttyru; tyru, pentyru, crugio, *neu* gruglwytho yn nghyd.

To heap up arguments—hel, tyru, pentyru, *neu* grugio rhesymau.

He heapeth up riches—efe a dyra olud.

Heaper, *s.* pentyrwr, pentyrydd, tyrwr, tyrydd, crugiwr, carneddwr, athyrwr.

Heapy, *a.* pentyrog, crugiog, tyrog, cruglwythog, athyrol, carneddog; à fo yn bentwr.

Hear, *v.* (S. *heoran, hyran;* Al. *hören;* Is. *hooren*) clywed, erglywed, clybod, dyglywed; gwrandaw, gwrando, andaw, gwarandaw, gwrandaw ar; ewi, cyglyu, cyglew, degly, deglyu, oian, oiaw; clywed son.

Hear thou—clyw, dyglyw, erglyw, gwrandaw, gwrandawa, gwrando, andawa, degle, oia, oiana; dabre, debre, dabred, hai: *pl.* clywch, erglywch, gwrandëwch, &c.

Hear my voice, } clyw, erglyw, er-
Hear thou my voice, } glywa, gwrandaw, *neu* gwrando fy llais; gwrandaw ar fy llais.

To hear a little—goglywed, goeglywed; clywed ychydig; clywed o ran.

Hear me a little—rho *neu* dyro glust i mi ychydig ennyd; gwrando fi mewn byr eiriau.

I heard a voice — clywais lais, clybum lais.

He heard a voice—clywodd lais, clybu lais.

To hear of—clywed am; cael copinod am; clywed, arglywed.

To hear a cause—gwrandaw dadl, cwyn, achos, *neu* gynghawsedd; profi achos, cwyn, *neu* gynghawsedd; chwilio *neu* holi achos; chwilio *neu* holi mater; gwrandaw dadl er rhoi barn ynddi *neu* arni.

If we would hear the truth—os derbyniwn ni y gwir; os coeliwn y gwir; os y gwir a fynwn; os mynwn y gwir.

Let me hear—moes glywed, rho glywed, dyro glywed; moeswch glywed, rhowch glywed.

I have heard of thee by the hearing of the ear—mysi a glywais â'm clustiau son am danat.

He heard—clywodd, clybu; efe a glywodd, efe a glybu; clywodd son; cygle, cyglef.

He said he heard of it—dywedodd glywed o hono.

Hear with both ears—rho dy glustiau i wrandaw; rho dy ddwy glust i wrandaw; rho dy ddwy glust ar waith; rho dy glustiau ar waith.

Not heard, } ag na chlybüwyd, na chly-
Unheard of, } büwyd, na chlywyd; heb glywed son am dano; ag na chlybüwyd son am dano; na chlywyd am dano; dyeithr ei glywed; dison.

To hear say—clywed son; clywed pobl yn dywedyd; clywed dywedyd o bobl.

To hear a bird sing—clywed aderyn yn canu; clywed canu aderyn; clywed gân aderyn; cael copinod cyfrinachol.

Hearer, *s.* gwrandäwr, gwrandawydd, andawydd, gwarandawydd, gwarandäwr; clywedydd, clybodydd, clywiadur, clybodwr, clywedwr; dysgybl.

Hearing, *s.* clyw, clywedigaeth, clybod, clywed, clywad, clybodigaeth, arglyw, erglyw, erglywed; gwrandawiad, gwarandawiad, andawiad, clust-ymwrandawiad; achlust, gosteg.

The sense of hearing—y clyw, y clybod, y clywed, y clywad, clywedigaeth, clybodigaeth.

Hard of hearing, } trwm ei glywed; trwm
Thick of hearing, } ei glybod; trwm ei
Dull of hearing, } glyw; hwyrdrwm ei glustiau; trymglyw, trymglust, anhyglust, clustfyddar, clusttrwm.

In my hearing—a mi yn clywed; lle y clywais; lle y clywn; yn fy nghlyw; yn fy nghlywedigaeth.

Out of hearing—allan o glyw; i maes o glyw; maes o glyw.

He is within hearing—y mae efe o fewn clyw; mae efe o fewn i glyw; mae efe o fewn clywed.

In the hearing of the people—yn nghlyw y bobl; yn nghlywedigaeth y bobl; lle y clywai y bobl; lle y clybu y bobl; a'r bobl yn clywed.

To give the hearing to one—rhoi clust i un; rhoi gwrandawiad i un; gwrandaw un; clust-ymwrandaw âg un.

Not to give one the hearing—peidio â rhoi clust i un, &c.; troi y glust fyddar at un.

A hearing place—gwrandawle, clybodle, clybodfa, gwrandawfa.

Hearing trumpet—corn clyw, corn clywed, clywgorn, clybodgorn.

Diligent hearing—dyfal wrandawiad, manol wrandawiad.

To come to a hearing—dyfod ger bron yr holfainc; dyfod i'r holfa; dyfod i'r holiad; dyfod i'w holi; dyfod ger bron.

A good hearing—newydd da, newyddion da.

A bad hearing—newydd drwg, newyddion drwg.

It is a bad hearing — anhyfryd yw y chwedl; anhyfryd yw y'th chwedl; anhyfryd dy chwedl.

Hearken, *v.* (S. *heorcnian, hyrcnian*) gwrandaw, gwrando, andaw, gwarandaw; clywed, dyglywed, dyglyw, erglywed, clustfeinio; clust-ymwrandaw, rhoi clust-ymwrandawiad, oiaw, oian, oianu, ewi, dezly, deglyu.

Hearkener, *s.* gwrandäwr, gwrandawydd, gwarandawydd, andawydd, gwrandawur, clustfeiniwr, clustfeinydd, oianwr.

Hearsal,† *s.* = *Rehearsal.*

Hearsay, *s.* (*hear* a *say*) chwedl, son, adson, adchwedl, y son, y chwedl; siarad y wlad, siarad cyffredin; clyw; y son o ben i ben; siarad, swn, gair.

By hearsay—trwy glyw; trwy glywed; trwy glywed peth o ben i ben.

I know it only by hearsay—ni wn i mo hono ddim ond â glywais o ben i ben; nis gwn i ddim am dano ond â glywais gân hwn a'r llall.

It is only a hearsay story—nid yw ond chwedl o ben i ben; siarad y wlad ydyw; chwedl gwlad ydyw.

Hearsay evidence—tystiolaeth o ben i ben; prawf yn ol y son â fyddo ar led.

Hearse, *s.* (Ff. *herse*) elor feirch, gelor feirch, elorwydd, edenog, elorglud, elorgerbyd; beddadail amserol; ewig ddwyfliwydd.

Hearse, *v. a.* gosod mewn *neu* ar elor feirch; gosod mewn elorwydd; edenogi.

Hearsecloth, *s.* brethyn elor, llên elor, llian elor, cylliso, gortho elor, brethyn arwyl.

Hearselike, *a.* tebyg i elor feirch; eloraidd, arwyliannaidd; gweddus i arwyl.

Heart, *s.* (S. *heort;* Is. *hart;* Al. *herz*) calon; canol, craidd; rhuddin, rhudding; asgre.

The heart—y galon.

A little heart—calonig, calon fach, calon fechan.

The heart of a tree—rhuddin pren, rhudding pren, calon pren; mwydionyn pren, madruddyn pren.

Heart of oak—rhuddin derwen, rhudding derwen, derlin, calon derwen; calon dderwen: dewryn, dewrwas, dyn dewr.

He had a heart of oak—yr oedd iddo galon llew; yr oedd ganddo galon llew; yr oedd ganddo galon dderwen.

He is as hard as heart of oak—y mae efe cyn galeted a'r haiarn; y mae cyn galeted a maen mynor; y mae efe mòr galed a rhuddin derwen; nid oes dim â

. fena arno; nid oes dim yn menu arno. [môr.
In the heart of the sea—yn nghanol y
In the heart of the earth—yn nghalon y ddaiar; yn nghanol y ddaiar.
In the heart of the city—yn nghanol y ddinas; yn nghalon y ddinas.
The heart of a country—canol gwlad, calon gwlad, perfedd gwlad. [colled.
To the very heart of loss—i eigion calon
By heart—ar dafodleferydd; ar ei dafodleferydd; ar ei thafodleferydd; ar eu tafodleferydd; ar dafod; ar gof; ar ei gof; ar ei chof; heb y llyfr.
To learn by heart, } dysgu ar dafodlefer-
To get by heart, } ydd, &c.; dysgu ar ei dafod.
For my heart—pe trigwn, pe trengwn; yn fy myw; pe bai fy mywyd arno; pe bai fy mywyd i arno.
In heart, } mewn calon; â'i galon
In good heart, } gydag ef; cryf; ffrwythlawn; â bryw ynddo.
Out of heart—allan o galon; i maes o galon; gwàn, gwanaidd; wedi ei yru, ei wisgo, *neu* ei lafurio allan; diffrwyth, dignwd, digynnyrch, anffrwythlawn; digalon.
To put one out of heart—digaloni un.
To put one in heart } rhoi calon,
To put one in good heart, } arial, *neu*
To give one heart, } galondid mewn un.
To take to heart, } cymmeryd at ei galon;
To lay to heart, } gosod at ei galon; ymofidio *neu* ymflinaw o herwydd; ystyried, dwys deimlo; cymmeryd ynddo, cymmeryd ato.
Never take it to heart—na flina mo'th galon o'i blegid; na chymmer y peth at dy galon; na flinwch mo'ch calon o'i blegid.
To take heart—cymmeryd calon; cymmeryd cysur; gwroli; ymwroli, ymgysuro, ymloni, ymsirioli.
To lose heart—digaloni, llesghau, llyfrhau, gwangaloni, llaesu, ymlaesu, ymollwng; edwi, edwino, dihoeni.
Want of heart—anghalondid, digalondid, digalonrwydd, annewredd, annewrder, anwroldeb, annewrwychedd, anwychedd, anghalonogrwydd, ofnogrwydd, llyfrder.
To set the heart on *or* upon—rhoddi ei galon ar; rhoddi ei serch, ei fryd, *neu* ei fwriad ar; rhoi ei fryd gyda.
To set the heart at rest—bod yn dawel; ymdawelu, ymlonyddu; rhoi ei galon ar esmwythder; bod yn dawel ei fryd; bod yn llonydd ei galon.
To find in the heart—clywed ar ei galon; clywed ar galon; clywed ar; clywed, ymdeimlo; cael ar ei feddwl; tueddu.
I could find in my heart—mi a glywn ar fy nghalon; mi a allwn ar fy nghalon.
He could not find in his heart to quit—nid ymglywai âg ymadael; nid oedd yn ymglywed âg ymadael; ni chlywai ar ei galon ymadael.
To speak to one's heart—dywedyd *neu* lefaru wrth fodd calon un; llefaru yn dyner *neu* garedig wrth un; cysuro, calonogi.
To have in the heart—bod o galon; bod o'r galon; bod o'r bwriad; bwriadu, amcanu; bod ar feddwl; bod ar oddeu; bod yn nghalon un.
To have a heart to do a thing, } bod o
To have the heart to do a thing, } galon i wneuthur peth; bod o'r galon i wneuthur peth; bod â'r galon ganddo i wneuthur y peth.
Be of good heart—cymmer galon, cymmer gysur, bydd galonog; ymgysura, ymwrola, ymlona, ymsiriola; na lyfrha; na lyfrhaed dy galon.
At heart—yn ei galon; yn ei chalon; o'i galon; o galon.
Sick at heart—claf o'i galon; claf yn ei galon; claf ei galon; claf o galon; trymglaf, calon-glaf.
Glad at heart, } llawen ei galon; llon ei
Glad in heart, } galon; llawen yn ei
Glad of heart, } galon; â chalon lawen: *pl.* llawen eu calon.
Sound in heart—iach ei galon: *f.* iach ei chalon: *pl.* iach eu calon.
A stout heart—calon ddewr, calon wych, calon wech, calon ddewrwych, calon ddihafarch.
Stout of heart—calonwych; dewr o galon; dewr ei galon; calonog, dewrwych, gwrolwych, dihafarch, calonddewr; dewr ei fron.
Wise of heart, } doeth ei galon; doeth o
Wise in heart, } galon; synwyrol ei galon; â chalon ddoeth ganddo *neu* ynddo; â chanddo *neu* âg iddo galon ddoeth; â chalon ddoeth.
Full of heart—calonog, arialus, dihafarch, dewr, gwrol, dewrwych; llawn calon.
The broken in heart—y cystuddiedig o galon.
Those that are heavy of heart—rhai trymgalon; y rhai trwm eu calon.
With all my heart—o ewyllys fy nghalon; o wyllys fy nghalon; o wirfodd fy nghalon; o wir ewyllys fy nghalon; o lwyrfryd fy nghalon; o'm llwyrfodd, o'm gwirfodd; â'm holl galon.
He weeps from the very heart—y mae efe yn wylaw o eigion y *neu* ei galon; mae efe yn wylaw o ferion y *neu* ei galon.
Of little heart—gwàn ei galon, gwangalon, digalon.
He knew my very heart—efe a wyddai fy holl gyfrinach; gwyddai fy mwriadau dirgelaf; gwyddai eigion fy nghalon; gwyddai fy holl galon.
A hard heart—calon galed; creulondeb, calongaledwch, dideimladrwydd.
Their heart had failed—digalonasent.
Their heart failed them—digalonasant.
Broken heart—calon friw, calon dòn, calon doredig, &c.
To die of a broken heart—marw o dor calon; tori calon; marw yn dorgalonus.
What the heart thinks the mouth speaks—o helaethrwydd y galon y llefara y geneu.
At heart's ease—wrth fodd ei galon.
Next to one's heart—cuaf gàn un; anwylaf, anwyl iawn; nesaf at galon un: cyn bwyta yn y bore; â'r cylla yn wag; i gylla gwag; ar gythlwng, ar ei gythlwng.

That word went to his heart—y gair hwnw a gyffyrddodd â'i galon; y gair hwnw a fenodd ar ei galon; y gair hwnw a dreiddiodd i'w galon; y gair hwnw a aeth i'w galon; y gair hwnw a aeth at ei galon.

Heart, *v.* caloni, calonogi; gwneuthur canol mur; rhuddino.

Heart-ache, *s.* dolur calon, gofid calon, cysteg calon, gofid meddwl; bronwst, calonwst, haint calon, haint y galon.

Heart-alluring, *a.* yn llithio *neu* hudo y galon; serch-lithiol.

Heart-appalling, *a.* yn brawychu *neu* ddychrynu y galon; digalonol.

Heart-bond, *s.* calonrwym; careg rwymo (mewn mur.)

Heart-break, *s.* tor calon, briw calon, torgalon; gofid calon.

Heart-breaker, *s.* cudyn cariad, serchgudyn, serchlofnyn, cudyn tor calon; cudyn crych naturiol.

Heart-breaking, *a.* torgalonus, torcalonus.

A heart-breaking affair—mater, perwyl, *neu* orchwyl torgalonus; neges dorgalonus; mater gofidus *neu* afiwyddiannus; gorchwyl gofidus *neu* afiwyddiannus.

Heart-breaking, *s.* toriad calon, tor calon; gofid torgalonus, alcur, dir-ofid.

Heart-bred, *a.* à feithriawyd yn y galon.

Heart-broken, *a.* briwgalon; â'i galon yn friw; briw ei galon.

Heart-buried, *a.* à gladdwyd yn y galon; à roed i'w gelu yn y galon.

Heart-burn, *s.* llosg cylla, cyllagwst, ingloes, yr ingloes, y dwfr poeth, y dwr poeth.

Heart-burned, *a.* calon-losg, calon-lidiog; âg cannynfa yn ei galon.

Heart-burning, *a.* anesmwythol, aflonyddol, anfoddlonol; à bair anfoddlonrwydd *neu* anesmwythder.

Heart-burning, *s.* llosg cylla, cyllagwst, ingloes, y dwfr poeth; anfoddlonrwydd, anesmwythder, anesmwythdra, aflonyddwch, cilwg, bryn, cenfigen, gelyniaeth gudd.

Heart-chilled, *a.* à chanddo galon wedi oeri *neu* fferu; oer ei galon, oergalon.

Heart-consuming, *a.* yn difa y galon; à yso y galon; calon-ysol.

Heart-corroding, *a.* yn ysu y galon; calon-ysol.

Heart-dear, *a.* anwylgu; anwyl gàn y galon; à gerir yn ddiffuant; à gerir o'r galon; anwyl iawn, tra hoff.

Heart-deep, *a.* â'i wraidd yn y galon; dwfn yn y galon.

Heart-discouraging, *a.* gwangalonol, digalonol, yn digaloni; yn llyfrhau y galon.

Heart-ease, *s.* esmwythder, esmwythdra, *neu* esmwythyd calon; llonyddwch, tawelwch; tawelwch meddwl; byd wrth fodd calon.

He lives at heart-ease—y mae efe yn byw wrth fodd ei galon.

Heart-easing, *a.* yn esmwytho y galon.

Heart-eating, *a.* yn bwyta, yn difa, *neu* yn ysu y galon.

Hearted, *a.* calonog, calonus; à chanddo, âg ynddo, *neu* âg iddo galon; â chalon ganddo, iddo, *neu* ynddo: arferedig yn benaf mewn cyfansoddiad.

Hard-hearted—calongaled; creulawn, annhrugarog, didrugaredd, didosturi, dideimlad, annynol.

Tender-hearted—calon-dyner, tyner-galon, tynernwyf; tyner ei galon; hynaws, tirion; gwàn ei galon.

Faint-hearted—gwangalon, digalon, llwfr, llwrf, llesg, annewr, anwrol, meddalgalon, gwangalonus, diarial; anfilwraidd; gwàn ei galon.

Stout-hearted — calonwych, calonddewr, calonog, dewrwych, gwrolwych, pybyr; dewr ei galon; dewr o galon; dewr ei fron; cadarn ei galon.

The stout-hearted are spoiled—ysbeiliwyd y cedyrn galon (*Salm* lxxvi. 5).

Lion-hearted—âg iddo galon llew; à chanddo galon llew; ag y mae iddo galon llew; llew-galon; dewrwych, gwrolwych, dewr. [llew.

Lion-hearted Richard — Rhicard galon

Light-hearted—ysgafn ei galon; llawen ei galon; ysgafn ei fron; calon-ysgafn; llawen, hoenus.

Public-hearted — à chwennycho, à hoffo, à ewyllysio, *neu* à goleddo y lles cyffredin; à fo â lles y wladwriaeth yn ei galon; à fo o'r galon i gynnal *neu* i geisio y lles cyffredin yn ddihunangais.

Broken-hearted—gwedi tori ei galon; torgalon, briw-galon; briw ei galon; calon-friw, calon-doredig; drylliedig *neu* friwedig o galon; ysig ei galon; digalon.

To heal the broken-hearted—iachäu y rhai drylliedig o galon; rhwymo y rhai ysig eu calon.

False-hearted, } twyllodrus ei galon; twyll-
False-heart, } galon; rhagrithiol; dichellgar, ystrywgar, hocedus; anffyddlawn; anghywir; bradwrus, bradog, bradwraidd; coeg, gwag.

Hollow-hearted—rhagrithiol, twyllodrus.

Great-hearted—mawr-galon, mawr ei galon; mawrfrydig, mawrfrydus; uchel ei ysbryd.

Open-hearted — calon-egor; â chalon rwydd, rydd, *neu* hael ganddo; hael.

True-hearted—cywir-galon, cywir ei galon; cywir, ffyddlawn, pur, didwyll.

Heartedness, *s.* calonogrwydd, cywirdeb, cywiredd, diffuantrwydd, diragrithrwydd, cleuder; gwres, gwresogrwydd, brwdfrydedd: arferedig yn benaf mewn cyfansoddiad.

Hearten, *v. a.* calonogi, cefnogi, bywiogi, bywiocäu, bywioli, adfywio, annog, hawntio, arialu, gwrygio, gwroli, sirioli, cysuro; codi calon; rhoi calon, yni, arial, calondid, cysur, *neu* hawnt mewn.

Heartener, *s.* calonogwr, calonogydd, cefnogwr, cefnogydd, annogwr, bywiogwr.

Heart-enliving, *a.* yn bywiogi, yn bywiocäu, *neu* yn adfywio y galon; bywiocaol, bywiogol, adfywiol.

Heart-expanding, *a.* calon-agor; yn agor *neu* yn lledu y galon; yn agor y teimladau.

Heart-felt, *a.* à deimler yn y galon; à ddwys deimler; teimladig yn y gydwybod.

Heart-grief, *s.* gofid calon, cystudd calon, blinfyd calon; tor calon.

Hearth, *s.* (S. *heorth;* Al. *herd;* D. *haard*) aelwyd.

Hearth-ful—aelwydaid, llonaid aelwyd.

Hearth-money, } *s.* treth aelwydydd, tâl ael-
Hearth-penny, } wydydd; tâl *neu* dreth simneiau; arian aelwyd.

Heart-hardened, *a.* calongaled; caled, dideimlad; anedifeiriol, anedifarus, anedifar.
Heart-hardening, *a.* yn caledu y galon; calongaledol.
Heart-heaviness, *s.* trymder calon, trymder ysbryd, iselder ysbrydoedd, pruddglwyf, pruddineb.
Heartily, *ad.* yn galonog; â'r holl galon; â'i holl galon; o'r galon, o'i galon; o wraidd, o wreiddiau, o ferion, *neu* o eigion y galon; o wir ewyllys calon; yn ddiffuant, yn ddiragrith, yn groesawus, yn groesawgar, yn gywir, mewn gwirionedd; yn galonwych, yn galonddewr, yn arialus, yn bybyr; yn awchus, yn awchlym, yn llyminog, yn hawntus, yn gryf, yn helaeth, yn rhydd.
I am heartily sorry for him—y mae yn ddrwg gân fy nghalon drosto.
Antiochus was heartily sorry—Antiochus a dristaodd yn fawr yn ei galon.
I heartily forgive them—yr wyf yn maddeu o'm calon iddynt.
To eat heartily—bwyta yn galonog, yn gryf, *neu* yn awchus.
Heartily pleased — wrth fodd ei galon; dewrlon.
Heartiness, *s.* calonogrwydd, calondid, dihafarchedd, pybyrwch, cefnogrwydd; diffuantrwydd, diragrithrwydd, cywiredd, cleuder, gwresogrwydd calon; hawnt, hoen, yni, awch, bywiogrwydd, &c.
Heartless, *a.* digalon, anghalonog, gwangalon, difywyd, dïysbryd, llwfr, llwrf, annewr, anwrol, annewrwych, diarial, anwych.
Heartlessly, *ad.* yn ddigalon, &c.
Heartlessness, *s.* anghalondid, digalondid, gwangalondid, anghalonogrwydd, digalonrwydd, digalondra, annewredd, annewrder, anwroldeb, annewrwychedd, anwychedd, llyfrder; gwendid.
Heartlet, *s.* (o *heart*) calonig, calonen, calon fechan, calon fach.
Heart-medic, *s.* maglys amrywedd, meillionen gragenog, llysiau y myheryn.
Heart-offending, *a.* yn briwo *neu* archolli y galon.
Heart-paining, *a.* yn poeni y galon.
Heart-pea, } *s.* pysen y galon; calonhadog.
Heart-seed, }
Heart-piercing, *a.* yn trywanu y galon.
Heart-quelling, *a.* yn darostwng y galon; yn gorchfygu y serchiadau.
Heart-rending, *a.* yn rhwygo y galon; torgalonus.
Heart-robbing, *a.* yn ysbeilio y galon; yn dwyn *neu* ladrata y galon; perlewygol, perlesmeiriol, perfasol, mewn perlewyg.
Heart's-blood, } *s.* gwaed y galon; gwaedlin,
Heart-blood, } gwaedling; bywyd, hanfod.
Heart's-ease, *s.* deuwynebog, llysiau y Drindod, trilliw.
Heart-searching, *a.* yn chwilio y galon; yn chwilio y meddyliau dirgelaf.
Heart-shaped, *a.* calonaidd, calonwedd; ar lun calon; tebyg i galon.
Heart-sick, *a.* claf o'i galon; claf yn ei galon; claf ei galon; claf o galon; trymglaf, calonglaf.
Heart-sickening, *a.* yn gwneyd yn glaf o galon, &c.; peri i'r galon flino *neu* alaru.
Heartsome, *a.* llon, llawen, hylon, digrif, siriol, bywiog.
Heart-sore, *s.* dolur calon, poen calon.
Heart-sore, *a.* poenus *neu* flin i'r galon; wedi ei archolli yn ddwfn.
Heart-sorrowing, *a.* yn gofidio y galon; yn peri gofid blin i'r galon.
Heart-stirring, *a.* yn cyffröi y galon.
Heart-string, *s.* llinyn y galon, gewyn y galon, gïeuyn y galon.
Heart-struck, *a.* à darăwyd i'r galon; à yrwyd i'r galon; à darăwyd â braw *neu* ddychryn.
Heart-swelling, *a.* yn chwyddo y galon; calonchwyddol.
Heart-thrilling, *a.* yn treiddio y galon; yn myned drwy y galon; yn menu ar y galon.
Heart-wheel, *s.* calonrod; rhod *neu* olwyn ar lun calon.
Heart-whole, *a.* calon-gyfan.
Heartwood, *s.* rhuddin, rhudding, calon pren; madruddyn pren, mwydionyn pren.
Heart-wounded, *a.* calon-glwyfus; calonglwyfedig.
Heart-wounding, *a.* calon-glwyfol; yn clwyfo *neu* archolli y galon; yn trywanu â gofid.
Hearty, *a.* (o *heart*) calonog, cefnog, dihafarch, pybyr, cryf, dewr, dewrwych, glew, gwych, hydr, bywiog, hawntus, arialus, pybl, gwrdd, agwrdd; iachus, iach; o'r galon, diffuant, didwyll, cywir, diragrith, clau, ffyddlawn; siriol, llon, llawen; llawn, digonol, helaeth, ehelaeth, digrintach, dïarbed, dibrin, digyrrith; parhäus; gwresog.
Hearty thanks—dïolch ffyddlawn, ffyddlawn ddïolch; dïolch calonog.
Most humble and hearty thanks—dïolch gostyngeiddiaf a ffyddlonaf.
Hearty food—bwyd cryf.
A hearty meal—llawn bryd o fwyd; pryd digrintach, pryd dïarbed, pryd calonog.
A hearty glass—llawn gwpanaid, cwpanaid llawn, gwydraid llawn, cwpanaid calonog.
Hearty counsel—cynghor ffyddlawn.
Hearty timber — coed parhaol; coed â rhudding ynddynt.
I am not hearty—nid wyf hawntus; nid wyf galonog, &c.
Hearty-hale,† *a.* da i'r galon.
Heat, *s.* (S. *heat, hæt*) gwres, twymder, poethder, twymdra, twymedd, twymnedd; poethni, poethineb, poethdra, brydaniaeth, poethedd, graid, craid, twym, ath, crad, craell; mwygledd, cynhesrwydd, gwresogrwydd, clydwch, clydrwydd; tandde, brydaint, fflameg, gwrid, gwraid, cochni; chwyl, tro, gyrfa, rhedfa, ias, siâs, gyr; twymad; brydiant, poethias, angerdd; poethwyn, gwŷn poeth, gwŷn.
Burning heat, Parching heat, Scorching heat, Violent heat, } poethwres, gwres poeth, gwres angerddol, poethder angerddol, llosgwres, gwres llosg, tragwres, gwres dirfawr, gwres chwilboeth, gwres crasboeth, trachwres.
The heat of the sun—tes, moeldes, graid, gwres yr haul, heulyd.
Temperate heat—gwres tymmerus, gwres cymmedrol, clauar-wres.
Ardent heat—gwres angerddol, lluchwres, gorwres, taerwres, trachwres, gwir wres.
Fervent heat—gwir wres, gwres terwyn, gwres angerddol.
Sultry heat—myrnedd, myrnder, myrndra,

mwrn; mwygledd, myllni, myllder, myrnwres; gwres mwrn, mwll, mwygl, neu wygyl; moeldes.

Heat of anger, } poethder, angerdd,
Heat of passion, } gwyth, neu fwyth digllonedd; digllonedd llidiog; poethwyn.

Heats (in the face)—tandde, crugdardd, poethfa, posthfan, gwres, gwrid, gwraid.

A white heat—gwynias.

A red heat—cochias, gwres tanlliw.

Welding heat — gwynias, gwres iasau, gwres asio, poethias.

To be of a welding heat—gwyniasu; bod yn wynias neu boethias.

To get heat, } ennill gwres, cael gwres;
To have heat, } cynhesu, gwresogi; ymgynhesu.

To put one into a heat—llidio, digio, ennyn llid, cyffroi llid, cynhyrfu llid, peri gwytho, cythruddo, brydio.

To be in heat—bod yn boeth; bod â dyre neu desach arni.

The heat of battle—poethder y frwydr, gwres y frwydr; pres y frwydr.

In the heat of the day—yn ngwres y dydd.

In the heat of your business—yn nhrafferth eich gorchwyl; yn mhres eich gorchwyl; yn mhoethder neu wres eich gorchwyl.

In the heat of harvest—yn mhres cynauaf.

The heat of youth is over—darfu nwyfiant ieuenctyd; aeth nwyfiant neu wylltineb ieuenctyd heibio.

What meaneth the heat of this great anger—pa ddigder yw y digofaint mawr hyn (*Deut.* xxix. 24)?

Heat, *v.* poethi, twymo, twymno, brydio, gwresogi, greidio; gwneuthur yn boeth, yn dwym, yn frwd, neu yn wresog; cynhesu, dyfrydio; ymwresogi, ymgynhesu, ymdwymo; myned yn boeth, &c.; bod yn boeth; cyffroi.

To heat an oven—twymo ffwrn, poethi ffwrn.

To heat water—twymo dwfr, poethi dwfr, brydio dwfr.

Heater, *s.* poethwr, poethydd, twymydd; clamp, brydai.

Heatful, *a.* gwresog, llawn gwres, llawn o wres, twym, poeth.

Heath, } *s.* (S. *heath;* Is. ac Al. *heide*) grug,
Heather, } myncog, myncoch, eiddiar; grugos; grugyn, grugiwyn, grugle, grugdir, lle grugog.

Sea heath—grugeilun.

Cross-leaved heath—grug croesddeiliog.

Fine-leaved heath—grug lledlwyd.

Common heath—grug cyffredin.

Heath pea—pysen y coed, coedbysen: *pl.* coedbys.

Common heath pea, } pysen y coed gnap-
Common orobus, } wreiddiog, coedbysen gnapwreiddiog.

Heath-bell, } blodau y grug croesddeil-
Heather-bell, } iog, blodau grug.

Heath-berries—gruglus, gruglys, grugon, llus y llan, llus y brain.

Heath-game—grugieir, iehr y mynydd.

Heath-clad, *a.* grug-wisgedig; â wisgwyd â grug; â goronwyd â grug; grugog.

Heathcock, *s.* ceiliog y mynydd, ceiliog y grugieir, ceiliog y grug, grug-geiliog; ceiliog du y mynydd; ceiliog coch y mynydd, cochiad.

Heath-grass, *s.* grugwellt.

Heath-hen, *s.* grugiar, iar y mynydd, iar fynydd: *pl.* grugieir.

Heath-pout, *s.*=*Heathcock.*

Heathen, *s.* (S. *hathen;* Gr. *ethnos*) cenelddyn, cenedlddyn, cenedlyn, dyn cenedlig, pagan, un o'r cenedloedd, ethnig, dyn digred, dyn annuw, dyn didduw, dyn eilunaddolgar, anghristyn; cenedloedd, y cenedloedd, paganiaid, gwŷr anghred, pobl anghred; anwaryn, anwariad, (*pl.* anwariaid), anfoesyn, barbariad.

The heathen—y cenedloedd.

Heathen, *a.* cenedlig, digred, paganaidd, paganol, paganig; perthynol i'r cenedloedd.

The heathen world—y byd anghred; byd yr anghred; y byd cenedlig, &c.

A heathen country—gwlad anghred.

A heathen author — awdur cenedlig, awdwr paganaidd; un o awduron y cenedloedd.

Heathendom, *s.* gwlad anghred, gwlad baganaidd, bro anghred, anghred.

Christendom and Heathendom—Cred ac Anghred.

Heathenish, *a.* cenedlig, paganaidd, paganol, paganig, digred, ethnigaidd; anwar, anwaraidd, difoes, barbaraidd, gwyllt, ciaidd, creulawn.

Heathenishly, *ad.* yn ol moes neu arfer y cenedloedd; fel y cenedloedd; fel pagan, fel cenedlyn; yn genedlig, yn baganaidd.

Heathenishness, *s.* cenedligrwydd, paganeiddrwydd, paganigrwydd, anwaredd.

Heathenism, *s.* paganiaeth, cenedligaeth, anghred; eilunaddoliaeth, delwaddoliaeth, ethnigaeth, coelgrefydd y cenedloedd; anwariaeth, anwaredd, barbariaeth, anfoesogaeth, anfoesyniaeth.

Heathenize, *v. a.* paganeiddio, cenedligo; gwneuthur yn genedlig neu baganaidd; gwneyd yn genedlyn.

Heathenness, *s.* cenedligrwydd, paganeiddrwydd, anwaredd; y cyflwr o fod yn genedloedd.

Heather, } *s.* = { *Heath.*
Heath, } { *Heather.*

Heathery, *a.* grugos, grugle, grugdir, lle grugog.

Heathy, *a.* (o *heath*) grugog; llawn grug, myncog, neu eiddiar.

Heathy common—grugos, cyttir grugog.

Heating, *a.* (o *heat*) gwresol, gwresogol, gwresogol, poethol, poethiannol, twymol, cynhesol, brydiol.

Heatless, *a.* diwres, anwresog, diboeth, heb wres; oer, oeraidd.

Heave, *v.* (S. *heafan, hefan;* Is. *heffen;* D. *hæver*) dyrchafu, derchafu, codi, cyfodi, cwnu, derchu, dyrchafael, derchafael, arddyrchu; cyhwfan, cwhwfan, cwhwfanu, chwyfo, chwyfio, cychwyfan, chwyfan, cychwyfo, ymgodi, codi a gostwng; chwyddo, dychwyddo, codi yn chwydd, ymchwyddo; peri chwyddo; codi yn dònau neu wenyg; dyhëu, dyheuo, peuo, poncio, dyheued, peuannu, lluddedu, tynu anadl, dychlamu; taflu, bwrw, gyru; tynu; corndagu, cryndagu.

To heave ahead—tynu yn mlaen; tynu llong yn mlaen.

To heave astern—tynu yn ol; tynu tuag yn ol; dattynu, gwrthdynu.
To heave down—tafiu ar y naill ochr; tafiu llong ar ei hochr; goleddu, gogwyddo; tynu i lawr.
To heave away—tynu arni; troi dyrwynlath â gwiflon.
To heave out—tafiu allan, bwrw allan; arllwys, allwys; llaesu, lledu, *neu* ddadblygu hwyl.
To heave in stays—troi pen llong at y gwynt.
To heave short—tynu yn fyr; tynu cymmaint o'r rhaff i'r llong nes y bo hi bron ar ben ei hangor.
To heave a strain—dyrwyn yn ddigynnyg *neu* egnïol; ymröi yn egnïol i droi y ddyrwynlath.
To heave taught—tynu yn dyn; dyrwyn y rhaff nes y bo yn dyn.
To heave to—dwyn pen y llong at y gwynt ac attal ei hysgogiad; troi at y gwynt.
To heave up—dyrchafu, arddyrchafu, codi, codi i fyny; tynu i fyny; bwrw *neu* dafiu i fyny.
To heave in sight—ymddangos; dyfod i'r golwg; ymgodi i'r golwg.

Heave, *s.* dyrchafiad, derchafiad, codiad, cwnad, dyrchafael, derchafael, cerchafael, ymgodiad, arddyrchafad, arddyrchafael, derchawd, codiad i fyny; tafliad, tafl; ymchwyddad, chwyddad, ymchwydd, cyhwfan, cwhwfan, cychwyfan, chwyf, chwyfan; tyniad; peuad, dyheuad, dyhead, dyheueg, ponc, ponciad; ymgais i godi; ymgais i gyfogi.
Heave-offering—offrwm dyrchafael, dyrchafael-offrwm.
Heave-shoulder—ysgwyddog y dyrchafael, ysgwyddog dderchafael.

Heaven, *s.* (S. *heafan*, *hefen*, *heofen*) nef; nen: *pl.* nefoedd.
In heaven—yn y nef; yn y nefoedd.
Heaven and earth—nef a daiar; nef a llawr; nen a llawr.
The fowls of heaven—adar y nefoedd; adar y nef; adar yr awyr; ehediaid y nefoedd; ehediaid yr awyr.
None go to heaven on a feather-bed—ffordd Llan Faglan yr eir i'r nef; ffordd lân Faglan ydd air i nef: ni cheir y melus heb y chwerw.
Good heavens!—nefoedd anwyl! y nef a'n cadwo! O'r unig! gwarched pawb! Duw a'n gwarched!
Would to heaven!—gwŷn ei fyd! gwŷn fyd!

Heaven-aspiring, *a.* nef-ymgeisiol, nef-awyddus; yn awyddu, yn gorawyddu, yn ymgeisio, *neu* yn hiraethu am y nef.

Heaven-banished, *a.* à ddeolwyd o'r nef; nefddeoledig.

Heaven-begot, *a.* nef-genedledig; à grëwyd gàn un o'r nefolion; nefanedig.

Heaven-born, *a.* nefanedig, nefenedig; à aned o'r nef.

Heaven-bred, *a.* nefryw, nefrywiol; à gynnyrchwyd *neu* à feithrinwyd yn y nef.

Heaven-built, *a.* nef-adeiliog, nef-adeiledig; adeiledig gàn y duwiau.

Heaven-daring, *a.* nef-heriol, nef-feiddiol; yn beiddio *neu* herio y nef.

Heaven-directed, *a.* yn cyfeirio tua'r nef; à gyfeiriwyd *neu* à hyfforddwyd gàn y nef.

Heaven-gifted, *a.* nefol-ddawn, nef-ddoniog, nefol-ddoniog.

Heaven-guided, *a.* arweiniedig gàn y nef.

Heavenize, *v. a.* nefoleiddio, nefoli, nefoliannu.

Heavenliness, *s.* nefolder, nefoldeb, nefolrwydd, nefo'edd, nefoleiddrwydd, nefolusrwydd, nefoleiddrwydd, nefoliaeth.

Heaven-loved, *a.* nef-garedig; caredig gàn y nef.

Heavenly, *a.* nefol, nefolaidd, nefolain, nefolus, nefolig; paradwysaidd, gwynfaol, nwyfreawl.
Heavenly beings—nefolion, bodau nefol, hanfodau nefol, nefoliaid; trigolion nef.
Heavenly things—pethau nefol, nefolion bethau, pethau nefolion; nefolion.
A heavenly state of mind—nefolfrydedd, nefolrwydd bryd.

Heavenly, *ad.* yn nefol, yn nefolaidd.

Heavenly-minded, *a.* nefolfryd, nefolfrydig; à'i fryd *neu* serch ar bethau nefol.

Heavenly-mindedness, *s.* nefolfrydedd.

Heavenward, *ad.* tua'r nef; tua'r nefoedd; tua'r nen.

Heaven-warring, *a.* yn rhyfela yn erbyn y nef; nef-ryfelus.

Heave-offering, *s.* offrwm dyrchafael, dyrchafael-offrwm.

Heaver, *s.* (o *heave*) dyrchafydd, dyrchafwr, codwr.

Heaves, *s.* (o *heave*) dyheuwst, dyheuglwyf.

Heavily, *ad.* yn drwm, &c.
Heavily oppressing weather—hin drymluog.
Heavily laden—trymlwythog; dàn ei drymlwyth; llwythog.

Heaviness, *s.* (o *heavy*) trymder, trymdra, trymedd, amdrymder; dwysder, pwysfawredd, pwysigrwydd, pwys, pwysi, trymbwys, llawryd; trymfrydedd, tristwch, athristedd, tristyd, tristedd, pruddineb; dybryder, trymhyrddigrwydd, trymsyrthi, syrthni, trymluogrwydd, cysglydrwydd, musgrelli, hwyrdrymedd; gorthrymder, blinder; baich, llwyth; tewder.
The heaviness of old age—amdrymder henaint.
Heaviness of mind — trymder meddwl, trymfryd, trymfrydedd, trymfrydigrwydd.
To be full of heaviness — bod yn llawn trymder *neu* dristwch; bod yn athrist iawn.

Heaving, *s.* (o *heave*) codiad, dyrchafiad, ymgodiad, ymchwyddad; dyheuad, ponciad.

Heavy, *a.* (S. *hæfig*, *hefig*) trwm, pwysig, pwysfawr, gorthrwm, athrwm, dwys, amdrwm, trymaidd, plymaidd, trymllyd; trist, athrist, prudd, agro, allwynin, allwynig, trymdde, pruddaidd, aele, dybryd, dybryderol; hwyrdrwm, trymhyrddig, trymluog; cysglyd, swrth, musgrell, anheinif, marwaidd, marthig; poenfawr, poenus, llafurus, caled, anhawdd; gormesol, blin, gwasgedig; beichus, llwythog; mawr; tew; uchel.
Very heavy—trwm iawn, trathrwm, gorthrwm, gordrwm, athrwm, trymddwys; amdrwm.
Somewhat heavy—godrwm, llettrwm, go

drwm, llod drwm, go ddwys, trân drwm, go bwysig.
Heavy on all sides—amdrwm.
Heavy with old age—amdrwm gân henaint.
A heavy heart—calon drom, calon drist; tromfron, trymfron.
A heavy way—ffordd drom, ffordd drymaidd; ffordd domlyd, ffordd fawlyd, ffordd front.
A heavy countenance — gwyneb trist, gwyneb pruddaidd, gwyneb trymaidd, gwedd drom; gwyneb sarig, gwedd guchiog.
To make heavy—trymhau; gwneuthur yn drwm; dwyso; tristäu, pruddhau; gwneuthur *neu* beri yn drist.
To grow heavy, } trymhau; myned yn
To become heavy, } drwm; amdrymu, gorthrymu; tristäu, pruddhau; myned yn drist, athrist, *neu* brudd; ymofidio.
He grew heavy with old age—trymhaodd *neu* amdrymodd gân henaint.
He grew heavy at the saying—trymhaodd, pruddhaodd, *neu* tristaodd wrth yr ymadrodd.
Heavy dread—trymfraw, braw aele, oerfraw.
A heavy throb—trymgur.
A heavy day—dïwrnod trymaidd, dïwrnod trwm, dydd marthig.
A heavy cloud—cwmwl tew, cwmwl dudew, cwmwl du.
A heavy person—hurthgen, hurtyn, dyn pendrwm.
Heavy bread—bara plymaidd, bara trymaidd, bara trwm, bara digodiad.
Heavy eyes—llygaid trymion, trymaidd, *neu* gyseglyd.
Those that are heavy of heart—rhai trymgalon; y rhai trwm eu calon.
Heavy tidings—newydd trwm, newyddion caled.
Heavy thunder—taran drom; taran groch.
Heavy metal — delid trwm; cyflegrau mawrion, gynau trymion.
A heavy sea—môr mawr, môr tymhestlog; môr mawr ei dònau; tònau trymion.
Top-heavy—pendrwm.
To bear a heavy hand over—tra-arglwyddiaethu ar; gormes-lywodraethu ar; gorthrymu, gormeilio, gormesu ar, gorddwyo.
Why is thy countenance so heavy?—pa ham y mae môr drwm yr olwg arnat?
Menelaus, who bare worse than all the rest a heavy hand over the citizens — Meneläus, yr hwn oedd flinach i'r dinaswyr na'r lleill i gyd (2 *Mac.* v. 23).

Heavy-armed, *a.* trymarfog, trymarf, arf-drwm, trym-drec; trwm ei arfau; yn gwisgo arfau trymion.
Heavy-browed, *a.* aeldrwm, trymaeliog; trwm ei aeliau; cuchiog, cuwchiog; aelfawr.
Heavy-handed, *a.* llawdrwm, (*f.* llawdrom); trwm ei law; â llaw drom iddo; trwsgl, carbwl, anhylaw.
Heavy-headed, *a.* pendrwm, (*f.* pendrom); pendew, penfras.
Heavy-laden, *a.* trymlwythog; dàn ei drymlwyth; llwythog.
Heavy-spar, *s.* trymysger, ysger drom.
Heavy-stone, *s.* trymfaen; ceridfaen.
Heazy, *a.* cryg, gwichlyd, cegwichiol.
Hebdomad, *s.* (Gr. *hebdomas;* Ll. *hebdomada*) wythnos, seithnydd.
Hebdomadal, } *a.* wythnosol, wythnosig,
Hebdomadary, } seithnyddiol; bob saith niwrnod.
Hebdomadary, } *s.* wythnosog, wythnoswr,
Hebdomader, } seithnyddiog=math o swyddog mewn cabidwl neu gyfaint.
Hebdomatical, *a.* wythnosol, wythnosig.
Heben, *s.* (Gr. *ebenos;* Ll. *hebenus*) muchwydd, ebenwydd, ebonwydd, dugoed, ebenus, ebon.
Hebetate, *v. a.* (Ll. *hebeto, hebeo*) hurtio, pylu, ambylu, arbylu, hurthio, marweiddio, syfrdanu.
Hebetation, *s.* hurtiad, pylad, ambylad, hurthiad, marweiddiad; hurtrwydd, pylni, pyledd, syrthni.
Hebete,† *a.* hurt, dwl, pwl, penbylaidd, penblydd.
Hebetude, *s.* (Ll. *hebetudo*) hurtrwydd, dylni, pylder, pylni, pyledd, penfasder, ardrymedd.
Hebradendron, *s.* hebrwydd; *sing.* hebrwyddeen.
Hebraic, *a.* (Gr. *Hebraicos*) Hebrëig, Hebreig, Efröig, Hebreaidd, Efreiaidd, Ebrywig, Hebrywig.
Hebraically, *ad.* yn Hebrëig, &c.; yn ol dull yr Hebraeg; o'r dde i'r aswy.
Hebraism, *s.* (Gr. *Hebraios*) Hebreigiaeth, Ebrywiaeth, Hebrywiaeth, Efreiaeth, priodwedd Hebrëig, hepwedd Efrëig; dull ymadrodd priodol i'r Hebraeg; priodwedd yr Efrai.
Hebraist, } *s.* Hebreigwr, Hebreigydd, Heb-
Hebrewist, } rywydd, Ebrywydd, Efreiwr,
Hebrician, } Efreiydd, Efreigydd; un cyfarwydd yn yr Hebraeg a'i llenoriaeth.
Hebraize, *v.* Hebreigio, Efreigio, Efreio, Ebrywio, Hebrywio; troi yn Hebraeg; gwneuthur yn Hebraeg; siarad *neu* lafaru Hebraeg; cydymffurfio â'r Hebreaid.
Hebrew, *s.* (Gr. *Hebraios*, o'r H. *Eber*) Hebread, Hebrëwr; un o'r Hebreaid; Hebrëeg, Hebraeg, Ebryw, Hebryw, Efrai, Efreieg, Efreiaeg: *pl.* Hebreaid, Hebrewyr, Efrewyson, gwŷr Efrai.
Hebrew, *a.* Hebrëig, Hebreig, Efrëig, Hebreaidd, Efreaidd, Ebrywig, Hebrywig; perthynol i'r Hebräeg *neu* i'r Hebreaid.
Hebrew language — Hebräeg, Hebraeg, Ebryw, Hebryw, Efrai, Efreieg, Efreiaeg, yr iaith Hebraeg, yr iaith Efrai, yr iaith Hebrëig.

Hebrewess, *s.* Hebrëes, Hebräes, Efreies, Ebrywes; Iuddewes.
Hebrician, *s.=Hebraist*, &c.
Hecatomb, *s.* (Gr. a Ll. *hecatombe*) aberth càn anifail, canollboeth, canychaberth.
Hecatompedon, *s.* teml gàn troedfedd o hyd.
Hecatonstylon, *s.* (Gr. *hecaton* a *stulos*) canpillfa, canpilerfa; adeilad âg iddi gàn colofn.
Heck, *s.* (S. *hæc;* Is. *hek;* Al. *ecke*) offeryn i ddàl pysgod; pysgresel; rhesel; plyg ffrwd *neu* afon; clicied.
Heckle, *v. a.=Hackle.*
Hectare, *s.* (Ff. o'r Gr. *hecaton* a Ll. *area*) canralwrn=mesur Ffrengig yn cynnwys 2·471143 o erwau cyfreithiol.
Hectic, } *a.* (Gr. *hecticos*) greddfol, gnodol,
Hectical, } ansoddol, dyliol; arferol, gwastad-

ol, annysbeidiol; mallgrydiol, mallgrydus; sychmerol, crydwresog; â rhyw fallgryd dibaid arno; â rhyw gryd gân wres dibaid arno.

Hectic, *s.* mallgryd, mallgryd llaesedigol, mallfwyth, malldwymyn; twymyn gymmysg o oerder, gwres, a chwys.
Paroxism of a hectic—sychmer.

Hectically, *ad.* yn reddfol, &c.

Hectogramme, *s.* (Ff. o'r Gr. *hecaton* a *gramme*) cantram, canram=pwysi Ffrengig yn cynnwys 100 *gram*, neu tua 3½ unas hirbwys.

Hectolitre, *s.* (Ff. o'r Gr. *hecaton* a *litra*) cantlitron = gwlybfesur Ffrengig yn cynnwys 22·009668 o alwyni amherodrol.

Hectometre, *s.* (Ff. o'r Gr. *hecaton* a *metron*) canmeidr=mesur Ffrengig cyfartal i 3·2808992 o droedfeddi cyfreithiol Prydeinig.

Hector, *s.* (oddi wrth *Hector* ab Priam, cadfiaenor Caerdroia) bygylwr, bygylydd, bocsachwr, dwndrwr, ymgecrwr, ymgecrydd, coegryswr, ymffrostiwr, ffrostwalch, blinwr, brochwr.

Hector, *v.* bygylu, bocsachu, dwndro, ymgecru, ffrostio, ymffrostio; chwareu y bygylwr; cadw swn; bod yn ddadyrddus; bwgwth; sarhau.

Hectorism, *s.* bygyliaeth, bocsach, ymffrost, dwndwr, bwgwl.

Hectorly, *a.* bygylaidd, bocsachus, trystfawr, dadyrddus, bygythiol; sarhäus, argoddus.

Hedenbergite, *s.* (oddi wrth A. L. *Hedenberg*) Hedenbergith=delidfaen à geir yn Tunaberg yn Sweden.

Hedera, *s.* (Ll.) eiddew, eiddiorwg, iorwg.

Hederaceous, *a.* (Ll. *hederaceus*) eiddewaidd, iorygaidd; eiddewog; eiddewol; perthynol i eiddiorwg.

Hederal, *a.* eiddewol, eiddewog, eiddewaidd.

Hederiferous, *a.* (Ll. *hedera* a *fero*) eiddewfag, eiddewddwyn, eiddewog; yn cynnyrchu eiddew; yn dwyn eiddiorwg.

Hedge, *s.* (S. *hege*, *heag*, *hegge*) cae, gwrych, bid, clawdd, perth, gwydding.
Quickset hedge — perthgae, perth blan, perth fyw, cae byw, bid byw, gwrych byw, coedgae, gwydding, coedwrych, bid, gwrych.
A hedge of thorns — cae drain, perth ddrain, clawdd drain, draenberth, draengae.
A dry hedge—cae crin, cae marw, perth farw, crin-gae, clawdd crin; cae gwrysg.
A little hedge — perthan, perth fechan, clawdd bychan.
A hedge made with stakes—polgae, pawlgae, coedgae, cae polion.
In a ring hedge—berth yn berth, berth yn nherth.
In the bottom of a hedge—yn mon perth; yn nghlais clawdd; yn ffos clawdd; yn nhin perth.
To be on the wrong side of a hedge—ffusto *neu* bwyo gwrthwyneb y berth; camgymmeryd, camsynied; bod i maes o'i amcan; colli y ffwyl; bod allan o'i le.
To make a hedge—cau, bidio, gwneuthur cae; cloddio; amgylchu â chae *neu* glawdd.
To make up a hedge—cau cae; cau cae i fyny.
Jack by the hedge—garllegog, yr arllegog, troed yr asen, garllegferwr, garllegferwy.
Hedge (in composition)—gwael, dïystyr, distadl, dirmygus, sal, salw, diddym, dïelw, coeg, crach; dyeithr, allfroaidd, estronol; perthynol i'r cae *neu* i'r clawdd.
Hedge-alehouse—coeg dafarn, coeg ddïoty, coeg dafernyn.
Hedge-priest—offeiriad bol clawdd; offeiriad gwael, dïystyr, gorwag, diddym, *neu* adlawaidd; offeiriedyn sal a diddyg; offeiriad pren.
Hedge-marriage—priodas ddirgel, priodas wyllt, priodas guddiadan.

Hedge, *v.* cau, gwneuthur cae, bidio, cloddio; amgylchu â chae *neu* glawdd; gosod cae o amgylch, o gylch, *neu* oddi amgylch; cau â chae; amgau, argau, cadarnhau, amgylchu; ymguddio, llechu, dydechu, godechu, techu, lleigio; llechu yn nghysgod clawdd.
To hedge about, } cau o amgylch;
To make a hedge about, } amgylchu â chae *neu* glawdd; gosod cae o amgylch; gosod cae yn nghylch; cylchu *neu* gylchynu â chlawdd; amgau, amgylchu.
To hedge before—rhaggau, rhacgau, cau o flaen, cau yn mlaen llaw.
To hedge in—cau i mewn, cau ar; argau; diogelu.
To hedge in a debt—diogelu dyled.
To hedge up—cau i fyny.

Hedge-bill, } *s.* gwddi, gwyddi, gwyddif,
Hedging-bill, } cryman cau, hicell, ffonfilwg, cryman penffon.

Hedge-born, *a.* â aned yn mol *neu* glais clawdd; gwael, isel, distadl; estronol, dyeithr.

Hedge-bote, *s.* coed i adgyweirio caeau; coed cau.

Hedge-creeper, *s.* bidlechwr, llechwr dàn gloddiau, dydechwr dàn wrychoedd, llechwr dàn berthi; crwydryn, cardotai.

Hedge-fumitory, *s.* mwg y perthi.

Hedge-garlic, *s.* craf y perthi, garlleg y perthi, perth-arlleg.

Hedgehog, *s.* (*hedge* a *hog*) draenog, ballog, armell, draened, draen y coed; sarth: *pl.* draenogod.
Sea hedgehog—draenog y môr, morddraenog.
To hunt hedgehogs—draeneta, hel draenogod.
Hedgehog (in botany)—draenoglys, balloglys.
Hedgehog-thistle—ysgall y draenog.

Hedge-hyssop, *s.* isop y perthi, perth-isop, perth-isobl.

Hedgeless, *a.* digae, diglawdd, diwrych, diberth.

Hedge-mustard, *s.* arfog.
Garlic hedge-mustard — garllegog, yr arllegog, troed yr asen, garlleg-ferwr, garlleg-ferwy.
Common hedge-mustard—arfog meddygol, arfog cyffredin.
Hedge-nettle, *s.* briwlys y perthi.

Hedge-note, *s.* ysgrifen fol clawdd; ysgrifen ddirmygus *neu* ddistadl; crach ysgrifen.

Hedge-parsley, *s.* eilunberllys, troed y cyw.
Upright hedge-parsley — eilunberllys unionsyth.
Knotted hedge-parsley—clwm eilunberllys, troed y cyw clymog, eilunberllys clymog.

Hedgepig, *s.* (*hedge* a *pig*) draenogyn, draenog iseanc.

Hedger, *s.* (o *hedge*) caewr, cauwr; bidiwr, gwrychwr, plygwr perthi, plygydd perthi; cloddiwr, codwr cloddiau.

Hedgerow, *s.* (*hedge* a *row*) rhes, rhenc, *neu* restr o goed mewn perth; bidres, bidrestr, perthres; gwydding, gwrych, cae.

Hedge-sparrow, *s.* brych y cae, gwrach y cae, gwrachell y cae, llwyd y gwrych, gwrychell; gwas y gog, gwichell y gog, gwigyn y gog.

Hedge-stake, *s.* pawl cae, polyn cae; polyn i gynnal cae, perth, *neu* wrych.

Hedge-writer, *s.* crach ysgrifenydd, crach ysgrifenwr, ysgrifenwr bol clawdd, crach awdwr.

Hedysarum, *s.* (Gr. *hêdusaron*) codog.

Heed, *v.* (S. *hedan;* Al. *hüten*) ystyried, ystyrio, pwyllo, edrych, gwrandaw, gwrandaw ar, gofalu, gofalu am, malio, sylwi, edrych ar, dàl ar; rhoi clust i; dàl sylw, dàl sylw ar, gwneuthur sylw, cymmeryd sylw; cymmeryd gofal; rhoi coel i, rhoddi coel i; bod â chol ar; bod â'i goel ar; prisio am; gochel, gochelyd, gwachel, gwagelyd, gwagelu; ymogelyd, ymgadw, ymwrandaw; bod yn ofalus.

Heed, *s.* ystyriaeth, pwyll, gofal, rhagofal, sylw, pryder; gwrandawiad; gocheliad; gwyliadwriaeth.

To take heed, } ystyried, ystyrio, pwyllo,
To give heed, } edrych, malio, gwrandaw, gofalu, &c.

To give heed to—gwrandaw ar; dàl ar; dàl sylw ar; rhoi *neu* roddi coel i; ystyried, gwrandaw; rhoi clust i; bod â chol ar; bod â'i goel ar; gofalu am; gofalu ar; edrych am; rhoi ystyriaeth i; rhoi sylw i; talu sylw i; gwneuthur sylw o.

Give heed unto me—ystyria wrthyf.

To take heed to do a thing—gofalu ar wneuthur peth; edrych am wneuthur peth.

Jehu took no heed to—nid edrychodd Iehw am —.

Want of heed—diffyg ystyriaeth, pwyll, gofal, *neu* bryder; eisieu ystyriaeth, &c.; gwall edrych yn ei gylch; diofalwch, anofalwch, anmhwyll, esgeulusder, esgeulusdod, esgeulusdra.

Not to take heed—peidio âg ystyried, &c.; bod yn ddiofal, esgeulus, anystyriol, *neu* anofalus.

He hearkened diligently with much heed—efe a ystyriodd yn ddyfal iawn dros ben.

We ought to give the more earnest heed—y mae yn rhaid i ni ddàl yn well.

By taking heed thereto according to thy word—wrth ymgadw yn ol dy air di.

Heedful, *a.* ystyriol, gofalus, gwrandawgar, gwrandawus, ymwrandawgar, gwyliadwrus, darbodus, dyfal, diwyd, eorth; gochelgar, gochelog, gwagelog, ymogelgar, gochelus, amgelog, pwyllog, hirbwyll; yn cymmeryd sylw.

Heedfully, *ad.* yn ystyriol, yn ofalus, &c.

Heedfulness, *s.* ystyriaeth, gofal, rhagofal, sylw, pryder, pryderusrwydd, pwyllogrwydd; gwrandawgarwch, gwrandawiad, ymwrandawiad; gwyliadwriaeth, gwiliadwriaeth, gochelgarwch, gochelogrwydd, gwachelgarwch, ymogeliad, gocheliad, rhagochel, rhagddarbod.

Heediness, *s.* ystyriaeth, gofal, rhagofal, sylw; gochelogrwydd, gochelgarwch, gwagelogrwydd.

Heedless, *a.* anwrandawgar, diofal, anofalus, anystyriol, esgeulus, anochelgar, anochelog, anwagelog, difeddwl, difater, difraw, dibryder, anmhryderus, diddarbod, dïamwel, anymogelus, disylw, ehud, breiddig, byrbwyll, anystyrus, dïymdawr, ysmala.

Heedlessness, *s.* diofalwch, anystyriaeth, esgeulusdod, esgeulusdra, esgeulusder, esgeulusrwydd, diofaledd, diofaldod, diofalrwydd, anochelgarwch, &c.

Heel, *s.* (S. *hel, hela;* Is. *hiel;* D. *kæl*) sawdl; tap, tepyn, ffal; gwadn; ysbardun: *pl.* sodlau.

Heel of cheese—cilcyn cosyn, cilyn cosyn, cil cosyn; crofen cosyn.

The heel of a shoe—ffal, sawdl esgid.

At one's heels—wrth sodlau un; ar warthaf un; yn gyfagos, yn agos, ar bwys.

To kick up one's heels, } disodli, diwadnu,
To trip up one's heels, } didroedio; codi gwadnau un; dymchwelyd; bwrw, sodli, gwadnu i lawr; bachellu.

To show the heels—dangos y gwadnau; dïanc ar *neu* gàn un o nerth traed a gwadnau; cymmeryd y traed a'r gwadnau a ffoi oddi wrth un; ffoi ymaith, rhedeg ymaith.

To spring out with the heels—gwingo; tindaflu.

To take to the heels—cymmeryd y gwadnau; cymmeryd y traed a'r gwadnau; rhoi y traed yn y tir; ffoi, myned ar ffo.

I betook myself to my heels—cymmerais y traed; cymmerais y gwadnau; cymmerais y traed a'r gwadnau; rhoddais y traed yn y tir.

Let us take to our heels and escape—cymmerwn y traed a ffown; cymmerwn y traed a'r gwadnau a ffown.

To lay by the heels—llyffetheirio, hualu, gefynu; rhoi yn ddiogel; rhoi mewn cyffion, heiyrn, dalfa, *neu* garchar; carcharu.

To be out at the heels—bod â'r sodlau yn noeth; bod â'i sodlau trwy ei hosanau; bod yn fratiog; bod yn dlawd *neu* isel ei amgylchiadau.

Neck and heel—o'r pen i'r traed; o'r traed i'r coryn; holl hyd peth.

Heel of a rafter—sawdl ceibren, gwadn cledren.

Heel, *v.* sodli, tapio, tepynu, ffalu; dawnsio, taplasa, taplasu, corelwi; ysbarduno, arfogi; gwneyd sawdl i.

Heel, *v. n.* (S. *hyldan;* Is. *hellen*) gogwyddo; pwyso, gorwedd, *neu* droi ar ystlys.

Heeler, *s.* sodlwr, sodlydd; ceiliog â dery yn dda â'i ysbardunau.

Heeling, *s.* ffal hwylbren; y rhan ysgwâr o ben uchaf hwylbren.

Heelpiece, *s.* tepyn, tepyn esgid; sawdl, tepyn, ffal, sodlwisg, tapwisg.

Heelpiece, *v. a.* tapio, tepynu, ffalu; rhoi *neu* ddodi tepyn dàn.

Heelpost, *s.* olbost, ffalbost.

Heeltap, *s.* tepyn esgid, ffal esgid, tepyn.

Heeltap, *v. a.* tapio, tepynu, ffalu; rhoi *neu* ddodi tepyn dàn.
Heft,† *s.* (S. *hefe*) ymdrech, egni, ymroad, hwp, cais, codiad; pwys, pwysau.
Heft,† *s.* (Is.) carn, coes, menybr, said.
Hefted, *a.* codedig, dyrchedig, cyffröedig; cyffroawl, cynhyrfus.
Hegemonic, } *a.* (Gr. *hègemonicos*) llywiol,
Hegemonical, } llywiadurol, llywodraethol, llywedyddol, arweiniol, goruchafol; gorfodol.
Hegira, } *s.* (Ar.) y Ffoad, y Ffoawd=amser-
Hejira, } gyff y Mahometiaid, yn dechreu Gorph. 16, B. A. 622, pryd y *ffodd* Mahomet o Mecca i Medina.
Heifer, *s.* (S. *heafre, heafore*) anner, treisiad; meinioles: *pl.* anneirod.
Heigh-ho, *in.* hai ho! oio! ho ho! hai how!
Height, } *s.* (S. *heahtho, hihth, hyhthe*) uch-
Heighth, } der, uwchder, uchedd, uchdra, uchelder, ucheldra, uchdeb, uwchdra, uwchedd, ucheledd, goruchelder, aruchedd; entryoh, entyrch, nen; gwarthaf; uchafiaeth; brig, brigyn, cwnwg, blaen, top; eithaf; cyniad; hyd; talder, taldra.
The height of pleasure—eithaf, eithafradd, eithafnod, eithafed, uchelradd, *neu* gyflawnder digrifwch.
Height of a distemper—uchder, eithafnod, uchafnod, eithafradd, eithaf, eithafed, eithafris, eithafgyrch, *neu* addfedrwydd clefyd.
Above the heights of the clouds—yn uwch na'r mynyddau.
He raised it up a very great height—efe a'i cyfododd yn uchel iawn; efe a'i cododd i uchder mawr iawn.
Though she should fortify the height of her strength—er iddi gadarnhau ei hamddiffynfa yn uchel (*Ier.* li. 53).
Heighten, *v. a.* codi yn uwch; uchelu, uchäu, uwchäu, ucho, dyrchafu, derchafu, arddyrchafu, codi, dyrchu, aruchafu; mwyhau, mawrhau, chwanegu, cynnyddu; gwneuthur yn uwch; gwneyd yn fwy; gwellhau.
Heightener, *s.* dyrchafwr, dyrchafydd, codwr, aruchafydd; mwyhäwr, chwanegwr.
Heightening, *s.* ucheliad, ucheliant, dyrchafiad, aruchafiad, codiad, gwneuthuriad yn uwch; mwyhad, chwanegiad.
Heinous, *a.* (Ff. *haineux*) echryslawn, ysgeler, anfad, anfadus, echrys, echrydus, erchyll, ysgymun, esgymun, ofnadwy, dybryd, erch, drwg, creulawn, ffiaidd, adgas, gorthrwm, mawr, dirfawr, enfawr, anferth, anferthol, aruthrol.
A heinous sin—pechod ysgeler, pechod echryslawn, pechod anfad.
Heinous crimes—bciau gorthrwm, dybryd, ysgeler, dyfnliw, *neu* waradwyddus; ysgelerderau.
A heinous act, } gweithred ysgeler, ddy-
A heinous fact, } bryd, ysgeler, anfad *neu* ddiras; cyflafan; ysgelerder.
To make more heinous—gwneuthur yn fwy echryslawn; mwyhau, gwaethygu, trymhau; gwneyd yn waeth.
Heinously, *ad.* yn echryslawn, &c.
To take a thing heinously—cymmeryd peth yn ddrwg, yn drwm, *neu* yn chwith.
Heinousness, *s.* echryslonrwydd, echryslondeb, echryslonder, ysgelerder, ysgelerdod, ysgelerdra, anfadrwydd, drygedd, &c.

Heir, *s.* (Norm. *hier, here;* Ll. *hæres*) etifedd, edifedd, etifeddwr, treftadog, tifedd, tifeddwr.
Heir apparent—edlin, edling: *pl.* edlinoedd.
Heir apparent to the crown—etifedd cyfnesaf i'r goron; edlin y goron.
Heir presumptive—etifedd tebygol, etifedd tybiedigol, etifedd cyfrifedig; yr etifedd fel y tybir; yr etifedd fel y coelir; yr etifedd hyd y gwelir; etifedd cyswyn.
Heir at law—etifedd cyfreithiol, etifedd wrth y gyfraith, etifedd cyffredinol; dyledog, etifedd dyledog; nesaf etifedd.
Reputed hair—etifedd cyswyn.
Heir by devise, } etifedd ewyllys, etifedd
Heir by will, } gwyllys; etifedd gwneuthur.
Heir by adoption—etifedd dewis, etifedd cynuwys, etifedd mabwys.
Heir by conquest—etifedd goresgyn.
Heir by custom—etifedd arfer, etifedd wrth arfer.
Heir in reversion, } ail etifedd.
The next heir but one, }
Heir by hap—etifedd dygwydd.
That is not an heir—anetifedd.
I am heir at law to her estate—i mi wrth y gyfraith y daw ei thir ar ei hol; i mi yn ol y gyfraith y dygwydd ei thir ar ei hol.
I am heir to her estate by law—i mi wrth y gyfraith y daw ei thir ar ei hol; i mi yn ol y gyfraith y dygwydd ei thir ar ei hol.
A Welsh lady who is heir at law to an estate — Cymraes foneddig ddyledog; Cymraes foneddig âg etifeddiaeth iddi wrth y gyfraith.
Then shall Israel be heir to them that were his heirs—yna Israel a feddianna y rhai a'i meddiannasant ef (*Ier.* xlix. 2).
The son of this bondwoman shall not be heir with my son—ni chaiff mab y gaethes hon gydetifeddu â'm mab i (*Gen.* xxi. 10).
And an handmaid that is an heir to her mistress—a llawforwyn à elo yn aeres i'w meistres (*Diar.* xxx. 23).
Heir, *v. a.* etifeddu, tifeddu, etifo; meddiannu, meddu, perchenogi.
Heirdom, *s.* etifeddiant, etifiant, etifeddiaeth, treftadogaeth; olyniaeth wrth etifeddiaeth.
Heiress, *s.* etifeddes, treftadoges, tifeddes.
Heirless, *a.* dïetifedd, didifedd, didreftadog, anetifeddog.
Heir-loom, *s.* (*heir*, a S. *loma*) dodrefn ty à ddisgyn i'r etifeddion o lin i lin; dodrefn à ddisgyn trwy hen ddefod i'r etifeddion lin o lin; pethau à ddisgynant i'r etifedd gyda'r ty a'r dreftadaeth; tattrefolion.
Heirship, *s.* treftadogaeth, tattrefiaeth, etifiant, treftadogrwydd; cyfiwr, nodwedd, *neu* freintiau etifedd.
Hele,† *v. a.* (S. *helar;* Ll. *celo*) cuddio, celu.
Helenine, *s.* (*Ll. helenium*) llwyglysnur=sylwedd à geir o lwyglys neu farchalan.
Heliacal, *a.* (Ll. *heliacus*, o'r Gr. *hêlios*) heuligol; yn codi yn agos i'r haul; yn codi ychydig o flaen yr haul; yn machlud ychydig ar ol yr haul; yn gadael goleuni yr haul; yn dyfod i mewn i oleuni yr haul.

Heliacal emersion of a star—ymddangosiad seren â fuasai anweledig gân lewyrch yr haul; adymddangosiad heuligol seren; adymddangosiad seren o lewyrch yr haul.

Heliacally, *ad.* yn heuligol; yn agos gyda'r haul; yn codi *neu* yn machlud yn agos yr un amser a'r haul.

To rise heliacally—codi ychydig o flaen yr haul; codi gwedi adymsuddaw o belydr yr haul.

To set heliacally—machludo ychydig ar ol yr haul; machlud cyn ymsuddo yn mhelydr yr haul.

Helianthemum, *s.* (Gr. *hêlios* ac *anthos*) heulros; creigros, rhos y graig, corros.

Helianthus, *s.* (Gr. *hêlios* ac *anthos*) blodau yr haul, heulflodau.

Helical, *a.* (Gr. *helix*) nydd-droawl, nydddroëdig, nydd-droellog, dynyddol, griadroellog, sidin, nydd-droellawl; â nydd-dro ynddo; cogyrnol, sidrwyol, sidrychol; amdroawl, amddyrwynol, dyrwynol.

Helical line of a hand-rail—sidlinell llawgledr, sidlin canllaw.

Helicite, *s.* (Gr. *helix*) cogyrnith.

Helicoid Parabola, *s.* (Gr. *helix* ac *eidos*) sidgyrfen, sidgwrf, nyddgom, sidgrom.

Heling, *s.* (o *hele*; Ll. *celo*) to.

Heliocentric, } *a.* (Gr. *hêlios* a *centron*; Ff. **Heliocentrical**, } *heliocentrique*) heulgreiddig, heulganolaidd; megys pe'i gwelid o ganolbwynt yr haul.

The heliocentric place of a planet—lle heulgreiddig planed=lle neu sefyllfa planed, megys pe'i gwelid o ganolbwynt yr haul.

The heliocentric latitude of a planet—lledred heulgreiddig planed=gogwyddad llinell wedi ei thynu rhwng canolbwynt yr haul a chanolbwynt planed i wastad yr heulrawd.

Heliocometes, *s.* (Gr. *hêlios* a *comêtês*) heulronell, heulron, rhonser yr haul, heulronser.

Heliographic, *a.* heuldebol, heuldebus, heuldebaidd, heulgraffol; perthynol i heuldebiaeth.

Heliography, *s.* (Gr. *hêlios* a *graphê*) heuldebiaeth, heulardebiaeth, heuldeb, heulgraffiaeth.

Heliolater, *s.* (Gr. *hêlios* a *latreuô*) heuladdolwr, heuladdolydd, addolwr yr haul.

Heliolatry, *s.* (Gr. *hêlios* a *latreia*) heuladdoliaeth, heuladdoliad, heuladdoliant, addoliant yr haul.

Heliometer, *s.* (Gr. *hêlios* a *metron*) heulfesur, heulfydr, heulfeidyr; serfesur, serfeidyr=math ar offeryn neu ysbeiadyr i gywir fesuro tryfesur y cyrff nefol.

Helioscope, *s.* (Gr. *hêlios* a *scopeô*) heulsyllyr, heulsyllydd, heulddrych.

Heliostate, } *s.* (Gr. *hêlios* a *statos*) heulsaf, **Heliostat**, } heulsefydlor.

Heliotrope, *s.* (Gr. *hêlios* a *tropê*) heuldro, heuldrofai=offeryn, yn mhlith yr henafiaid, i ddangos dyfodiad yr haul i'r trofannau a'r cyhydlin.

Heliotrope (in mineralogy)—gwaedfaen, crenfaen, heuldro.

Heliotrope, } *a.* heuldro, huandro, blodau yr **Heliotropium**, } haul, blodeuyn yr haul.

Helispheric, } *a.* (*helix* a *sphere*) sidgrwn, **Helispherical**, } sidgrynaidd, sidgynghrwn, sidgrynol; nydd-droawl, sidin; osghwyliawl, osghwyliog.

Helispherical line, } llinell sidin, llinell Loxodromic line, } sidgron, &c.; osglinell.

Helix, *s.* (Gr.) sidlin, sidlinell, dynyddlin, nyddlin, llinell nydd-droawl; cogwrn malwen; peth nydd-droawl.

Helix family—tir-falwod cogyrnau, malwod cogyrnau y tir.

Hell, *s.* (S. *hell*, *helle*; Al. *hölle*) uffern; afagddu, y fagddu, annwn, annwfn, angar, alis, affwys, y tywyllwch eithaf.

The gates of hell—pyrth uffern.

The god of hell—duw uffern, uffernior.

Hellanodic, *s.* (Gr. *hellênodicês*) barnwr yn y Campau Groegaidd.

Hell-bender, *s.* affwysgam=enw â roir i danfil mawr Gogledd America.

Hell-black, *a.* uffernddu; cân ddued âg uffern; erchyllddu.

Hell-born, *a.* uffern-anedig; à aned yn uffern; uffernol, uffernaidd, diefig.

Hell-bred, *a.* à fager yn uffern; à faged yn uffern; uffern-fag.

Hell-brewed, *a.* darparedig yn uffern.

Hell-broth, *s.* uffern-gawl, cawl uffern.

Hell-cath, *s.* uffern-gath; dewines, gwiddan, gwrach, hen wrach.

Helleboraster, *s.* (Gr. *helleboros* ac *astêr*) crafanc yr arth, llewyg y llyngyr, troed yr arth.

Hellebore, *s.* (Gr. *helleboros*; Ll. *helleborus*) hylyf, hylithr.

Stinking hellebore—crafanc yr arth, troed yr arth, palf yr arth, pawen yr arth, llewyg y llyngyr, llun troed yr arth.

Black hellebore—pelydr du.

White hellebore—torgoes, torlaith.

Helleborine, *s.* (o *hellebore*) caldrist.

Broad-leaved helleborine—caldrist lydanddail.

Marsh helleborine—caldrist y gors.

Helleborism, *s.* cyffyr hylyf, cyffer hylithr; parotoad meddygol o hylithr.

Hellenism, *s.* (Gr. *hellênismos*) Groegiaeth, Grywiaeth, priodwedd Roeg, hepwedd Ryweig; dull ymadrodd priodol i'r Groeg.

Hellenize, *v. n.* arfer yr iaith Roeg; arfer Groeg, siarad Groeg, arferyd Gryw; Groegio, Grywio.

Hell-hag, *s.* uffernast, gwrach uffern, uffernwrach; diawles.

Hell-haunted, *a.* uffern-gyrch.

Hell-hound, *s.* ufferngi; anfadyn: *pl.* uffern-gwn, cwn annwn, gwaedgwn uffern: *f.* uffernast.

Hellier,† *s.* (o *hele*) töwr, töydd, llechdöwr.

Hellish, *a.* uffernol, uffernaidd, uffernig; dieflig, diawlig; erchyll, ofnadwy.

Hellish fiends—cethern uffern, cethern, y gethern, ellyllon uffernol, cethern uffernol, teulu uffern, uffernolion, cythreuliaid.

Hellishly, *ad.* yn uffernol, &c.; fel uffern.

Hellishness, *s.* uffernoldeb, uffernolrwydd, uffernigrwydd, uffernciddrwydd.

Hellward, *ad.* tuag uffern.

Helly, *a.* uffernaidd, uffernig, uffernol.

Helm, *s.* (Al.; S. *helma*) llyw, llyw llong.

To be at the helm, } bod wrth y llyw; dàl
To sit at the helm, } y llyw; bod â'r llyw yn ei law; eistedd wrth y llyw; hwylio y llyw; hwylio y llong; bod yn llywydd; llywio.

Who sits at the helm?—pwy sy'n llywio? pwy ydyw y llywydd? pwy sydd wrth y llyw? pwy sy'n dàl y llyw?

Helm, *v. a.* llywio, llywyddu, cyfarwyddo, cyfeirio; penorio, helmu.

Helm,† *s.* cloig, belys, cloigion, piliwn.

A bundle of helm†—cloigen, belysen.

Helm, } *s.* (S. *helm*) penial, penffestin, penor,
Helmet, } helm, cynfael, cap dur, penwisg ddur, cap maelan, cap haiarn.

Wearing a helmet—penialog, penffestiniog, penorog, helmog; yn gwisgo penial *neu* helm.

Helmet-pigeon—y golomen gopog, y golomen gribog, y golomen helmog.

Helmage, *s.* llywiaeth, llywiadaeth, cyfarwyddyd, arweiniad.

Helmed, } *a.* penialog, penffestiniog, penor-
Helmeted, } og, helmog; yn gwisgo helm *neu* benial.

Helmet-shaped, *a.* penialaidd, helmaidd; ar lun helm; ar ddull penffestin.

Helminthic, *a.* (Gr. *helmins*) llyngyrol, pryfedol, pyrionol, pryfig; perthynol i lyngyr *neu* bryfed; tarflyngyr, pryfettarf, pryfettarfol, pryfettarfus; yn tarfu llyngyr.

Helminthic, *s.* llyngyr-gyffer, cyffer tarflyngyr, tarflyngyrai; cyffyr i darfu llyngyr.

Helmintholites, *s. pl.* (Gr. *helmins* a *lithos*) llyngyrfain, llyngyrfeini.

Helminthologic, } *a.* pryfofyddol, pryfhan-
Helminthological, } esol, pryfyddol; pryfedol, pyrionol.

Helminthologist, *s.* pryfofydd, pryfhanesydd, pryfhaneswr, pryfedydd; un cyfarwydd yn hanes pryfed.

Helminthology, *s.* (Gr. *helmins* a *logos*) pryfofyddiaeth, pryfhanes, pryfedyddiaeth, pyrionaeth, pryfyddiaeth.

Helmless, *a.* dibenial, dihelm, dibenor; dilyw.

Helmsman, *s.* llywiwr, llywiedydd, llonglywiwr, llonglywydd, llywiwr llong.

Helmwind, *s.* llyw-wynt.

Helodes, *s.* (Gr.) yr haint chwys, haint y chwys, yr haint chwyslyd.

Helot, *s.* (Gr. *heilôtês*) caethwas yn Sparta gynt.

Helotism, *s.* caethiwed, caethwasanaeth, caethwasaeth; cyflwr Helotiaid Sparta.

Help, *v.* (S. *helpan*) cymhorth, cynnorthwyo, cyfnerthu, helpu, helpio, cannorthwyo, cannerthu, nerthu, cysborthi; rhoi porth i; bod yn borth; bod yn borth i; porthi â; noddi, achlesu; achub, gwaredu; cynnal; gochel, gochelyd, osgöi; peidio.

I cannot help it—nis gallaf fi oddi wrtho; nid yw ar fy llaw i.

To help forward—rhwyddhau, hyrwyddo, hylwyddo; cymhorth *neu* gynnorthwyo yn mlaen; dwyn yn mlaen.

To help one's self—ymadferth, ymadferthu; helpu ei hun, &c.

To help up—codi, cyfodi.

To help one to money—porthi un âg arian.

To help out—tynu allan; dwyn allan; helpu allan, cynnorthwyo allan.

I will help you out—mi a'ch dygaf allan.

To help one out of trouble—dwyn un allan o drallod *neu* flinder; tynu un allan o drallod *neu* flinder.

To help over — cynnorthwyo, cymhorth, *neu* helpu dros; dwyn dros, tynu dros.

To help on — dwyn, cynnorthwyo, *neu* helpu yn mlaen; hyrwyddo, rhwyddhau, hylwyddo.

To help off — cynnorthwyo i symmud; helpu i ffwrdd.

To help to—helpu â; porthi â; cynnysgaethu âg, anrhegu â; rhoi i, rhoddi i; cynnorthwyo i.

As God shall help me—fel y'm cynnorthwyo Duw.

So help me God—felly y'm cynnorthwyo Duw; felly Duw a'm cynnorthwyo; felly y cynnorthwyo Duw fi; fel yr ateb-af i Dduw.

I cannot help remarking—nis gallaf beidio â sylwi; nis gallaf lai na sylwi.

Who can help it?—pwy a eill oddi wrtho? pwy a eill beidio? pwy a eill ymgadw rhagddo? ar law pwy mae yn sefyll?

To help one to lift up a beast—codi anifail gydag un; cymhorth un i godi anifail.

I will make him an help meet for him—gwnaf iddo ymgeledd cymhwys iddo (*Gen.* ii. 18).

Help, *s.* cymhorth, cynnorthwy, help, porth, cannorthwy, cannerth, cannorth, porthyd, nerth, cyfnerth, ffrwy; amgeledd, nodded, achles; meddyginiaeth; rhwymedi; ymwared.

Without help=*Helpless.*

There is no help for it—nid oes meddyg iddo; nid oes help am dani.

By God's help—trwy nerth *neu* gymhorth Duw; â Duw yn borth (i mi); â Duw yn gymhorth (i mi).

With God's help—â Duw yn gynnorthwy *neu* yn gynnorthwywr (i mi); trwy gymhorth Duw; â Duw yn fy nerthu.

Helper, *s.* cynnorthwywr, cannorthwywr, helpwr, cymhorthwr, cannerthwr, cannorthydd, cynnorthwyydd, cyfnerthwr, cyfnerthydd, cymhorthydd, nerthwr; cydweithiwr, cydweithydd; help, cynnorthwy, cymhorth.

The Lord is my helper—yr Arglwydd sy gymhorth i mi; yr Arglwydd yw fy nghynnorthwywr.

The Lord being my helper—â'r Arglwydd yn gymhorth *neu* gynnorthwy i mi.

Helpful, *a.* cynnorthwyol, cannorthwyol, cymhorthol, cyfnerthol; cannorthol, cannerthol; defnyddiol; iachus, iach, iachol.

Helpless, *a.* digymhorth, digynnorthwy, digynnorth, digannorth, digannerth, diborth, digannorthwy; dinerth, digyfnerth; dïymadferth; dïymwared; dinodded, dïamgeledd, dinawdd; digarad; amddifad.

Helplessness, *s.* anghymhorth, anghynnorthwy, digymhorthrwydd, dinerthedd, dinerthrwydd, dïymadferthwch, dïymadferthrwydd; cyflwr digymhorth.

Helpmate, *s.* (llygriad o *help meet*, *Gen.* ii. 18) amgeledd cymhwys; cymhar, cydwedd; cynnorthwywr, cynnorthydd, cymhorthydd, cannerthydd, helpydd, helpwr, cydymaith.

Helter-skelter, *ad.* (Ll. *hilariter* a *celeriter?*) blith draphlith, ben draphen, yn ddidrefn, mewn annhrefn, allan o drefn.

Helve, *s.* (S. *helf*; Al. *helm*) coes, menybr, *neu* droed bwyell; coes, carn, said, gafael.
Helve, *v. a.* rhoi *neu* ddodi bwyell mewn menybr; rhoi *neu* ddodi bwyell ar fenybr; rhoi coes, carn, menybr, *neu* droed i *neu* mewn.
Helvin, } *s.* (o'r Gr. *hêlios*) heulfwn=math o
Helvine, } ddelidfaen.
Hem, *s.* (S.) gwrym, hem, haech, gwald, ymyl, ael, cylch, ymylgylch, min.
Hem, *v. a.* hemio, hemo, gwrymio, gwaldio, ymylu, minwnio; amgylchu.
To hem in—amgylchu, amgylchynu, cylchynu, cau i mewn; dygluddo, dychluddo; twyo.
To hem about, } amgylchu, amgylchynu,
To hem round, } cylchynu, cau i mewn.
Hem, *s.* (o'r sain; Ll. *hem*) hym, hem, ho; hoch.
Hem, *v. n.* hymio, dywedyd *hym*, gwaeddi *hym*.
Hem, *in.* hym! hem! ho! ha!
Hemachate, *s.* (Gr. *haima* ac *achatês*) gwaedfachem, agat gwaedrudd, muchem waedliw.
Hemadynamometer, *s.* (Gr. *haima*, a *dynamometer*) gwaedrymfesur, gwaednerthfesur=offeryn i fesur grym neu wasgiad y gwaed yn y rhedwelïau.
Hemastatical, *a.* (Gr. *haima* a *staticos*) gwaedbwysol, gwaedsafol, gwaedsafedigol.
Hematin, } *s.* (Gr. *haima*) creuwyddain, gwaed-
Hematine, } wyddain, lliwgoednur=dansawdd lliwiol lliwgoed neu waedwydd.
Hematite, } *s.* (Gr. *haimatitês*) gwaedfaen,
Hæmatite, } creufaen.
Red hematite—gwaedfaen coch.
Brown hematite—gwaedfaen llwyd.
Hematitic, *a.* gwaedfeinin, gwaedfeinig; perthynol i waedfaen.
Hematocele, *s.* (Gr. *haima* a *cêlê*) gwaedfreg, gwaedlwg; chwydd â gwaed ynddo.
Hematology, *s.* (Gr. *haima* a *logos*) gwaedofyddiaeth.
Hematope, *s.* (Gr. *haima* ac *ôps*) morbïogen, morbïoden: *pl.* morbïod.
Hematosine, } *s.* (Gr. *haima* a *chrôma*) gwaed-
Hæmachrome, } nur, gwaedne, creune; defnydd lliwiol y gwaed.
Hematosis, *s.* (Gr.) gwaedlif, gwaedred.
Hematoxyline, *s.* (Gr. *hema* a *xulon*) lliwgoednur, gwaedwyddain, creuwyddain.
Hematoxylon, } *s.* (Gr. *haima* a *xulon*) gwaed-
Hæmatoxylon, } wydd, creuwydd, lliwgoed.
Hemeralopia, *s.* (Gr. *hêmera* ac *ôps*) dyddwelwst.
Hemerobaptist, *s.* (Gr. *hêmera* a *baptô*) dyddymdrochwr, ymdrochydd beunyddiol; un o'r blaid yn mhlith yr Iuddewon â ymdrochai bob dydd.
Hemerocallis, *s.* (Gr. *hêmera* a *calos*) llygad y dydd, aspygan.
Hemi, (Gr. *hêmisus*) rhagddawd arferedig mewn cyfansoddiad, yn arwyddo *hanner*, *lled*, *go*.
Hemicrany, *s.* (Gr. *hêmisus* a *cranion*) lledbenwst; poen yn un ochr i'r pen; parlys lleol.
Hemicycle, *s.* (Gr. *hêmisus* a *cuclos*) hannercylch, hanner cylch.
Hemiditone, *s.* (Gr. *hêmisus* a *ditonos*) godrydydd, y trydydd lleiaf.
Hemigamous, *a.* (Gr. *hêmisus* a *gamos*) hannerweddog, hannerbriod.
Hemiglyph, *s.* (Gr. *hêmisus* a *gluphê*) hannercylch, hannercylchen, goeylchen, hanner rhigol.

Hemina, *s.* (Ll.) mesur Rhufeinig yn cynnwys tua hanner peint Seisonig.
Hemiologamous, *a.* (Gr. *hêmisus*, *holos*, a *gamos*) lledollweddog.
Hemiopia, *s.* (Gr. *hêmisus* ac *ôps*) hannerwelwst.
Hemiplegy, *s.* (Gr. *hêmisus* a *plêgê*) hannerbarlys, parlys unochrog; parlys mewn un hanner o'r corff.
Hemiprismatic, *a.* (*hemi* a *prismatic*) hanner rheiddyllig, lled-reiddellig.
Hemipter, *s.* (Gr. *hêmisus* a *pteron*) hannerednog.
Hemiptera, *s. pl.* hannerednogion.
Hemipteral, } *a.* hannerednogol, hanneredn-
Hemipterous, } ogaidd.
Hemisphere, *s.* (Gr. *hêmisphairion*) arddrych, hannergant, hannergrwn, hannergylch, hannerwybr, hanner cylch yr wybren, hannerbel, hannergronen, hannergronell.
Northern hemisphere—yr arddrych ogleddol, yr hannergrwn gogledol.
Southern hemisphere—yr arddrych ddeheuol, yr arddrych dde, yr hannergylch de, yr hannergant deheuol.
Upper hemisphere—yr arddrych uchaf, yr hannergant uchaf; hanner uchaf cronen.
Lower hemisphere — yr arddrych isaf; hanner isaf cronen.
Hemispheric, } *a.* hannergrynol, hannergrwn,
Hemispherical, } (*f.* hannergron), arddrychol, hanner crwn.
Hemispherule, *s.* hannergrynyn, hannergronen, hannerbelen, hannerbel.
Hemistich, *s.* (Gr. *hêmistichion*) hannerban, hanner ban, hanner gwers, hanner braich cerdd, hannerfraich, hanner pennill, mydr anghyflawn.
Hemistichal, *a.* hannerban, hannerbanol, hannerbanog; yn cynnwys hanner ban, braich, *neu* bennill.
Hemitone, *s.* (Gr. *hêmitonion*) hannersain, hannerdon, hanner tôn, lledsain, hanner llais.
Hemitrope, *s.* (Gr. *hêmisus* a *tropê*) hannerdro, llettröedig, hanner tröedig.
Hemitrope, *s.* hannerdro, llettro.
Hemlock, *s.* (S. *hemleac*) cegid, cecys: *sing.* cegiden, cecysen.
Water hemlock — cegid y dwr, cegid y dwfr, cegyr mawr, buladd, bumustl.
Common hemlock—cegid cyffredin, cecys cyffredin, cegid, cecys.
Lesser hemlock—geuberllys, coegberllys.
Hemlock water dropwort — gysplys, dibynlor cegidaidd, gysplys cegidaidd.
Hemlock spruce fir—cegidbyr, fleinidwydd cegidaidd, fleinidwydd Canada.
Hemmel, *s.* (D. *hemmelig*) penty anifeilaidd; pasgle, pasgell.
Hemoptysis, } *s.* (Gr. *haima* a *ptusis*) gwaed-
Hemoptoe, } boer, poer gwaed, gwaedboeriad.
Hemmorrhage, } *s.* (Gr. *haimorrhagia*) gwaed-
Hemorrhagy, } lif, gwaedlifiant, gwaedred, llif gwaed, gorddin gwaed, gwaedglwyf, dyferlif gwaed, tarddelliad gwaed.
Hemorrhagic, *a.* gwaedlifol, gwaedlifog, gwaedlifiannus; perthynol i waedlif.
Hemorrhoidal, *a.* perthynol i glwyf y marchogion; lledewigystol, marchogheintiol.
Hemorrhoids, *s. pl.* (Gr. *haimorrhoides*) clwyf y

marchogion, haint y marchogion, lledewigwst, lledwigwst.

Hemp, *s.* (S. *henep;* Al. *hanf;* Sw. *kampa;* D. *hamp*) cywarch, cas gàn fursen, meirion; carth: *sing.* cywarchen.
Fimble-hemp—cywarch benyw.
Tops of hemp—meirion; topynau cywarch.
To beat hemp—breuanu cywarch.
Hemp garden—gardd gywarch.
Hemp agrimony—byddon chwerw, bedwen chwerw, byddon.
Hemp nettle—penboeth.
Common hemp nettle—penboeth gyffredin.

Hempen, *a.* cywarchog, cywarchaidd, o gywarch; à wnaed o gywarch.
Hempen string—llinyn cywarch.
Hempen bag—cwd cywarch, cod gywarch.
He made a hempen bag—gwnaeth gwd o gywarch.

Hemp-seed, *s.* had cywarch.

Hempy, *a.* cywarchaidd.

Hen, *s.* (S.; Al. *henne*) iar, giâr, dicen.
A brood hen—iar orllyd, iar ddeor, iar ôri, iar ddeorllyd, mamiar, iar glwc, iar fflegain.
A fat hen—posiar, iar dew.
A young hen—cywen, cywenan.
A laying hen—iar ddodwyog.
A game hen—iar ymladdryw.
Guinea hen—iar yr India; iar Gini.
Moor-hen—corsiar, iar y gors; dyfriar, cotiar; grugiar, iar fynydd, iar y mynydd.
Water-hen—dyfriar, cotiar, cwtiar, iar y dwr.
Sea-hen—dybry, dybryan, dybrych, gwylog, gwilym, chwilog.
Sea-hen (a fish)—iar fôr, yr eurbysg benyw.
Pea-hen—paenes, iar baen, iar bawan, iar bawyn, paeniar.
Pheasant hen—coediar, iar goed, iar wŷdd, gwyddiar.
Heath-hen — grugiar, iar fynydd, iar y mynydd.
Friesland hen—iar ddragwm.
Hen-bird—aderyn benyw, adaren.
Hen-sparrow—adaren y to, golfan fenyw, aderyn y to benyw.
Hen and chickens—iar a chywion, yr iar a'r cywion=enw math o lygad y dydd.

Henbane, *s.* llewyg y iar, llewyg yr iar, bela, parfyg, crys y brenin, ffa y moch.
Common henbane=*Henbane.*

Henbit, *s.* marddanadlen goch gylchddail; marddanadl cylchddail.
Great henbit, } marddanadlen goch
Henbit archangel, } gylchddail; marddanadl cylchddail, marddanadl coch cylchddail.
Small henbit—rhwyddlwyn eiddewddail.

Hence, *ad.* (S. *heona;* Al. *hin*) oddi yma, odd yma, oddyma; o hyn, oddi wrth hyn, odd wrth hyn, o wrth hyn, o hyn; yn ol hyn, ar ol hyn; eto; er; o'r pryd hwn; rhagyma.
From hence=*Hence.*
A few days hence, } ychydig ddyddiau
Not many days hence, } ar ol hyn; ychydig ddyddiau yn ol hyn; yn mhen ychydig ddyddiau eto; ar ol ychydig ddyddiau eto; wedi ychydig ddyddiau eto; yn mhen ychydig eto; o fewn ychydig ddyddiau; ar fyr dro; cyn nemawr o ddyddiau eto; cyn nemawr o ddyddiau yn ychwaneg; cyn pen nemawr o ddyddiau eto.
Ten days hence—yn mhen deg diwrnod eto; yn mhen deng niwrnod eto; yn mhen deng niwrnod i'r dydd hwn; deg diwrnod eto.
A week hence—yn mhen wythnos; wythnos eto; wythnos yn chwaneg; wythnos odd yma; wythnos o'r pryd hwn; wythnos i heddyw.

Hence, *in.* ffwrdd! ymaith! hwnt! ymaith â thi! ymaith â chwi! ffwrdd â chwi! i bant â chwi! cerddwch a cherddwch yn fuan! ymaith os mynwch!

Henceforth, *ad.* (*hence* a *forth*) o hyn allan; o hyn i maes; rhag llaw; o'r pryd hyn allan; o'r pryd hwn allan; ar ol hyn; yn ol hyn; bellach, mwyach, mwy, weithian, rhagyma, rhag blaen; dros yr amser i ddyfod; byth ond hyny.
From henceforth=*Henceforth.*

Henceforward, *ad.* o'r pryd hwn allan; o hyn allan; o hyn i maes; rhag llaw; bellach, mwyach, &c.

Henchboy, } † *s.* (S. *hinc*) gwas, gweinidog.
Henchman, } gwesyn.

Hencoop, *s.* cwb ieir, cut ieir, ffronc ieir, iargwb, iargut.

Hend, } † *v. a.* (S. *hentan*) dàl, gafaelyd, ym-
Hent, } afiyd yn, cipio; gwasgu; tyru.

Hend, }
Hendy, } †. *a.* addfwyn, tirion, gwâr.

Hen-driver, } *s.* y bod tinwyn, bod tinwyn, y
Hen-harrier, } iar dinwen, yr iar dinwen, y
Hen-harm, } dinwen frech, gelyn yr ieir.

Hendecagon, *s.* (Gr. *hendeca* a *gônia*) un ochr ar ddeg, undegochr, undegongl, undegochron; dull âg iddo un ochr *neu* ongl ar ddeg.

Hendecasyllable, } *s.* (Gr. *hendeca* a *syllabê*)
Hendecasyllabic, } undegsill, mydr undegsill; mydr unsill ar ddeg; unsill ar ddeg, un sill ar ddeg; llinell un sill ar ddeg: *pl.* undegsillau, undegolion.

Hen-hearted, *a.* digalon, llwfr, llwrf, gwangalon, meddal, ofnog.

Hen-house, *s.* iardy, ty ieir.

Hendiadis, } *s.* (Gr.) undeueb=troell ymad-
Hendiadys, } rodd, pan fo dau sylweddair yn cael eu harfer yn lle sylweddair ac ansoddair; megys, '*pateris et auro,*' yn lle '*pateris aureis.*'

Hen-pecked, *a.* à fo dàn *neu* wrth lywodraeth ei wraig; à fo dàn lywodraeth y bais; à fo dàn gnwc gwraig; gwreiglywiog.

Henroost, *s.* clwyd ieir, esgynbren, iarglwyd, taflod ieir.

Hep, } *s.* egroes, ogfaen, mwcog, aeron y ciros,
Hip, } ffrwyth marchfieri.

Hepar, *s.* (Ll. a Gr.) afu, au, iau; ufelured.

Hepatalgia, *s.* (Gr. *hêpar* ac *algos*) afŵyst, afuad, poen yn yr afu.

Hepatic, } *a.* (Ll. *hepaticus*) afuol, afuaidd;
Hepatical, } perthynol i'r afu.
Hepatic flux—rhedlif yr afu, llifred afuol.
Hepatic pain—poen yn yr afu, poen afuol, poen afuaidd.
Hepatic gas—nwy afuol.

Hepatite, *s.* (o'r Gr. *hêpar*) afuem, eufaen.

Hepatitis, *s.* ennynfa yr afu, fflameg yr afu, eudandde.

Hepatization, *s.* (o'r Gr. *hêpar*) afueiddiad, afueiddiant; nawsiad âg ulnwy ufelureddig.

Hepatize, *v. a.* (Gr. *hêpar ;* Ll. *hepar*) afuo, afuciddio ; nawsio âg ulnwy ufeluredig.
Hepatography, *s.* (Gr. *hêpar* a *graphô*) darlunîad difyniadol o'r afu ; afugraffiaeth.
Hepatology, *s.* (Gr. *hêpar* a *logos*) afuofyddiaeth, traethawd ar yr afu.
Hepatoscopy, *s.* (Gr. *hêpar* a *scopeô*) afuarmes, dewiniaeth âg afu, armes âg au, afusylliad.
Heppen,† *a.* (S. *hæplic*) dillyn, tlws, cymhen.
Heps, *s. pl.* egroes, ogfaen, mwcog, aeron y ciros, ffrwythau marchfieri.
Heptacapsular, *a.* (Gr. *hepta*, a Ll. *capsula*) seithgellog.
Heptachord, *s.* (Gr. *hepta* a *chordê*) seithdant, seithgord.
Heptaglot, *s.* (Gr. *hepta* a *glotta*) llyfr seithieithog, llyfr seithiaith.
Heptagon, *s.* (Gr. *hepta* a *gônia*) seithochr, seithongl, seithor, seithochron, dull seithonglog, llun seithongl.
Heptagonal, *a.* seithochrog, seithochrol, seithonglog, seithongl, seithochr.
Heptagyn, *s.* (Gr. *hepta* a *gunê*) seithfenyw, seithbenyw, planigyn seithbenyw.
Heptagynia, *s.* seithfenyw, seithbenyw.
Heptagynian, *a.* seithfenywaidd, seithbenywaidd, seithfenyw, seithbenyw.
Heptahexahedral, *a.* (Gr. *hepta*, a *hexahedral*) seithchwechochrol, seithchweochrog = â chanddo saith o resi y naill oddi ar y llall, a phob rhes yn cynnwys chwech wyneb.
Heptamerede, *s.* (Gr. *hepta* a *meros*) seithranor, seithranydd.
Heptander, *s.* (Gr. *hepta* ac *anêr*) seithwryw, seithgwryw, planigyn seithwryw.
Heptandria, *s.* Seithwryw, Seithgwryw=enw y seithfed genedl o blanigion, yn ol trefn Linnæus.
Heptandrian, } *a.* seithwrywaidd, seithgwryw-
Heptandrous, } aidd, seithwryw.
Heptangular, *a.* (Gr. *hepta*, ac *angular*) seithonglog, seithongl.
Heptaphyllous, *a.* (Gr. *hepta* a *phullon*) seithdalenog, seithdeiliog, seithddalenog, seithddeiliog.
Heptarchic, *a.* seithbenig, seithbenog, seithbeniog, seithben, seithlywiol.
Heptarchist, *s.* seithbenadur, seithlywydd, seithlywiadur ; penaeth un ran o seithlywiaeth.
Heptarchy, *s.* (Gr. *hepta* ac *archê*) seithbenaeth, seithlywiaeth, seithlywyddiaeth, seithbenaduriaeth; llywodraeth seithben *neu* seithbenog.
The Saxon heptarchy — y seithbenaeth Sacsonig, y seithlywiaeth Sacsonaidd.
Heptateuch, *s.* (Gr. *hepta* a *teuchos*) seithlyfr, seithlyfr, seithrol ; saith llyfr cyntaf yr Hen Destament.
Hep-tree, *s.* ciros, egroeswydd, ogfaenwydd, ogfaenllwyn, marchfieri, merddrain, rhos y cwn, rhos gwyllt.
Her, *pr.* (S. *hire*) ei ; eiddi ; hi, eiddo hi.
She herself—hi ei hun, hi ei hunan ; hyhi.
Her also—hithau ; hi hefyd.
Her own—eiddi ; eiddo, eiddo hi.
By her—ganddi, ganddi hi, genddi, ganti ; wrthi, wrthi hi ; trwyddi, trwyddi hi, trwyi ; yn ei hymyl.
On her, } arni, arni hi.
Upon her, }
To her—ati, ati hi ; iddi, iddi hi ; wrthi, wrthi hi.
For her, } erddi, erddi hi ; er ei
For her sake, } mwyn ; iddi.
From her—oddi wrthi, odd wrthi, oddi wrthi hi ; rhagddi ; rhagddi hi ; ganddi, ganthi ; o honi, o hani ; oddi ganddi.
Under her—tani, tani hi, o dani, oddi tani.
Over her—trosti, drosti, trosti hi.
Through her—trwyddi, trwyddi hi, trwyi.
Out of her—allan o honi, allan o hani, i maes o honi, maes o hani ; o honi, honi, hani, honei.
About her—am dani, amdani, am dani hi, am deni ; yn ei chylch ; o'i chylch, o'i hamgylch, o'i chwmpas.
Without her—hebddi, hebddi hi, hebi.
All over her—ar hyd-ddi, ar hyd-ddi hi.
In her, } ynddi, ynddi hi, ynthi, yn-
Within her, } di, ynti.
Let her go forward—aed rhagddi.
In her possession—ganddi, ganthi, ganti ; yn ei meddiant, yn ei helw, ar ei helw.
Her face—ei hwyneb, ei gwyneb, ei hwyneb hi.
I have seen her—mi a'i gwelais hi ; gwelais hi ; mi a'i gwelais.
Of her own proper motion—o honi *neu* o hani ei hun.
Between her and me — rhyngddi a mi ; rhyngddi a myfi ; rhyngddi hi a mi ; rhyngthi hi a mi.
Heracleum, *s.* (o'r Gr. *Hêraclês*, Hercules neu Ercwlff) efwr, efyrllys, cron, moron y meirch.
Herald, *s.* (Ff. *héraut* am *hérault ;* Al. *herold*) herodr, herodydd, herodur, herodiad, herod ; arwyddfardd, achofydd, arfwyddwr, achwyddwr, achydd, achwr ; cyhoeddwr, cyhoeddiadur ; rhagflaenor, rhagflaenydd, rhagredegwr, rhagredwr, rhagredydd, rhagredor ; cadgenad ; rhingyll.
Herald bard—arwyddfardd.
Herald at arms—herodr, herodydd, herodur, herod, arwyddfardd, arfofydd, arfegwr, achofydd, eirfydd, achydd.
Heralds' College, } coleg herodron, clas-
College of Heralds, } gor heroduriaid, coleg achyddiaeth, achwyddfa, achyddfa, herodfa ; coleg arfarwyddion.
Cloak of a herald, } cwnsallt, pais ar-
Herald's coat of arms, } wyddfardd, tabar.
Herald, *v. a.* herodri, cyhoeddi, rhag-gyhoeddi ; dwyn i mewn megys gàn herodr.
Heraldic, *a.* herodrol, herodyddol, herodurol, herodol, herodrig, herodraidd, achofyddol, arfofyddol, achwyddol, achyddol, arwyddfarddonol ; perthynol i herodron *neu* herodraeth.
Heraldry, *s.* herodraeth, herodaeth, herodyddiaeth, heroduriaeth, arwyddfarddoniaeth, achofyddiaeth, arfofyddiaeth, achwyddiaeth, achyddiaeth, arfeg.
Heraldship, *s.* swydd herodr, swydd arwyddfardd, arwyddfarddoniaeth.
Herb, *s.* (Ll. *herba ;* Ff. *herbe*) llysieuyn, llysieuyn ; llys ; blaguryn, planigyn ; glaswelltyn : *pl.* llysiau, llysau, tyfolion.
Sweet herbs—perlysiau.
Small herbs—mân lysiau, briwddail, llysiau bychain.
Herb Bennet — llysiau Benned, llysiau Bennet, mabgoll, mabgoll bendigaid,

bendigeidlys, llysiau fy anwylyd, fy anwylyd.
Herb Christopher—llysiau Cristor, llysiau Christopher, llysiau Cristoffis.
Herb Paris, } cwlwm cariad, gwir gariad,
True-love, } llysiau Paris, llys Paris, llysiau ungronyn.
Herb Robert—troedrudd, llysiau y llwynog, llysiau Robert.
Herb Gerard, } llysiau y gymmalwst,
Herb Gerarde, } troed yr afr.
Herb of grace, } gorddawn, gorddon, tor-
Herb-grace, } wenwyn, rhud, rhut, rhutain, llysiau yr echryshaint, gras Duw.
Pot-herbs—llysiau gerddi, dail crochan, llysiau crochan, bresych, cawl, dail cawl; pob math o ddail à fwytäer.
A dinner of herbs—pryd o ddail (*Diar.* xv. 17).
Tender herb—irwellt (*Deut.* xxxii. 2).

Herbaceous, *a.* (Ll. *herbaceus*) llysieuaidd, llyseuaidd, llysieuol, llyseuol, llysieulyd, llyseulyd; llysieugar; perthynol i lysiau; o'r llysiau; porfaol.
Herbaceous plants—llysblanigion, planigion llysieuaidd; planigion à ddarfyddant yn flyneddol i lawr i'r gwreiddyn.

Herbage, *s.* (Ff. o *herb*) llysiau, llysau, amrylys; porfa, (*pl.* porfëydd), glaswellt, amrywellt, allwest, gwellt y ddaiar, amrywellt y ddaiar; degwm llysiau, degwm porfa; rhyddid i borfäu, i bori, *neu* i gydbori.
Fresh herbage—irwellt, glaswellt.

Herbaged, *a.* glaswelltog, porfaog, amrywelltog, gwelltog, llysieuog, llyseuog.

Herbal, *s.* (o *herb*) llysieulyfr, llyseulyfr, llyseuadur; sychardd, llyseufa sech, cynnulliad o blanigion sychion.

Herbal, *a.* llysieuol, llyseuol, llyseuaidd.

Herbalist, } *s.* llysieuydd, llyseuydd, llyseuwr,
Herbarist, } casglwr llysiau.

Herbar,† *s.* llyseuyn.

Herbarium, *s.* (Ll.) casgl o lysiau sychion, sychlysgrawn, llysgronfa; sychardd.

Herbarize, *v.* llysieua, llyseua, llyseuo, casglu llysiau; llunio, ffurfio; gwneyd lluniau planigion mewn delidfain.

Herbary, *s.* (Ll. *herbarius*) llysieuardd, llyseuardd, llysardd, gardd lysiau.

Herbelet, *s.* (o *herb*) llysieuig, llyseuig, llyseuan, llysieuyn bychan.

Herbescent, *a.* (*herbescens*) yn tyfu yn llysiau.

Herbid, *a.* (Ll. *herbidus*) llysieuog, llyseuog; gorchuddiedig â llysiau.

Herbiferous, *a.* (Ll. *herba* a *fero*) llysieuddwyn, llyseuddwyn, llyseufag; yn dwyn llysiau.

Herbist, *s.* llysieuwr, llyseuwr, llyseuydd; un cyfarwydd mewn llysiau.

Herbivora, *s. pl.* (Ll. *herba* a *voro*) llysbortholion, llysborthogion, tyfysolion; milod yn byw ar lysiau *neu* dyfolion.

Herbivorous, *a.* (Ll. *herba* a *voro*) llysborth, llysborthol, llyseuborth, llysymborthol, tyfysol; yn ymborthi ar lysiau *neu* dyfolion; yn byw ar wellt *neu* lysiau; porfaol.
Herbivorous animals — milod llysborth, tyfysllod; milod yn byw ar lysiau; creaduriaid yn ymborthi ar borfa.
Herbivorous tribe=*Herbivora.*

Herbless, *a.* dilysiau, anllysieuog, heb lysiau.

Herborist, *s.* (o *herb*) llysieuydd, llyseuydd, llysieuwr, llyseuwr, casglwr llysiau.

Herborization, *s.* (o *herborize*) llysieuad, llyseuad, casgliad llysiau, ymchwil am lysiau; llyseuwedd, llysieuwedd; llun llysiau mewn delidfain.

Herborize, *v.* (o *herb*) llysieua, llyseua, llyseuo, llysieuo, hel llysiau, casglu llysiau, chwilio am lysiau; llunio, llyseuweddu; gwneyd llun llysiau mewn delidfain.

Herbous, *a.* (Ll. *herbosus*) llysieuog, llyseuog, llawn llysiau; glaswelltog, porfaog.

Herbulent, *a.* (o'r Ll. *herbula*) llysieuol, llyseuol; yn cynnwys llysiau.

Herb-woman, *s.* gwerthwraig llysiau, gwerthyddes llysiau, llysieuwraig.

Herby, *a.* (o *herb*) llysieulyd, llysieuol, llyseuol, llyseuaidd, llysieuaidd, llawn llysiau.

Herculean, *a.* (oddi wrth *Hercules*) cawraidd, gorchestol, aruthrol; cryf anorfod, cryf anfeidrol, cryf aruthr; dihafarch, calonddewr, dewr arwraidd, dewr arwrol; gorfawr, dirfawr, tramawr, enfawr, mawr iawn; goranhawdd, gorddyrys, tra dyrys, gorberyglus, anhawdd; perthynol i Ercwlff *neu* Ercwlf; o'r eiddo Ercwlff; Ercylffaidd; yn gofyn grym *neu* ddewrder Ercwlf i'w gyflawnu.

Hercules, *s.* (Ll.; Gr. *Héracles*) Ercwlff, Ercwlf, Hercwlf, Ercwl=cydser yn yr arddrych ogleddol, yn cynnwys 113 o ser: hefyd, enw math o beiriant mewn llongarthau.
Columns of Hercules, } Colofnau Ercwlf,
Pillars of Hercules, } Colofnau Ercwlff.

Herd, *s.* (S.; Al. *herde*) gyr; myntai, haid; gre, grewys, cenfaint; deadell, praidd, cadw; haid, tŵr; haig, aig; gwerinos, gwaer.
A herd of swine—cenfaint o foch.
A herd of cattle—gyr o dda; buel; haid o wartheg.
A herd of horses—gre o feirch, grewys o feirch, haid o geffylau.
Maned herd—gre fyngog.
A fine herd of cows—gyr hardd o fuchod; buches hardd o wartheg.
The tithe of the herd or of the flock—degwm eidion neu ddafad (*Lef.* xxvii. 32).

Herd, *s.* bugaid, heusor, ceidwad anifeiliaid, grëwr: arferedig yn benaf mewn cyfansoddiad; megys, *shepherd, goatherd, swineherd.*

Herd, *v.* cyttyru, ymdyru, cydymdyru, ymgyttyru, heidio, ymgynnull, ymgasglu, cydymgynnull, ymddeadellu, deadellu, preiddio; ymgynnull yn fynteioedd; myned yn dorf, myned yn un dorf; cydgymdeithasu, cymdeithasu.
To herd together—cydymdyru, ymgyttyru, ymdyru yn nghyd, tyru yn nghyd, heidio yn nghyd, cydymgasglu, cydymgynnull; myned yn dorf; myned yn un dorf; ymgynnull yn fynteioedd; ymddeadellu; tynu i'r un lle.
To herd with — ymgyfeillachu â, cymdeithasu âg, ymwasgu â, cadw cymdeithas â, cynnal cymdeithas â; cydymdyru â, cyttyru â.

Herderite, *s.* (oddi wrth y Baron *Herder*) math o ddelidfaen llwydfelynwyn.

Herdess,† *s.* bugeiles, heusores.

Herdgroom,† *s.* (*herd* a *groom*) bugail, bugeilydd, heusor, grëwr.

Herdsman, } *s.* (*herd* a *man*) bugail, bugeiliwr,
Herdsman, } bugeilydd, heusor, grëwr, grëydd, greor, deadellwr, preiddiwr.

Here, *ad.* (S. *her*; Goth. *her*; Al. ac Is. *hier*) yma, yn y lle hwn, yn y fân hon, yman, yn y lle yma, yn y fân yma; dyma, llyma, llyman.

Here is, } dyma, llyma, wele yma, wele,
See here, } wela; wel dyma, wele dyma.
Behold here! } wele yma! wele dyma! wel
Lo here! } dyma! gwel yma! nycha! enycha!

Here—hwre, hwde, hwda, hwra, cymmer; hwdiwch, hwriwch.

As far as here—hyd yma, med yma; càn belled ag yma.

Here and there—yma ac acw; yma a thraw; hwnt ac yma; draw ac yma; mewn ambell fân; yn ambell fân.

One here and there—ambell un, ambell, ambellenig; un yma ac acw; un hwnt ac yma.

Neither here nor there—nac yma nac acw; nac yma na thraw; nac yma nac yna.

Come here, } tyred yma, dere yma,
Come hither, } dyre yma; dyred yma; dabre, debre, dere; dowch yma, &c.

From here—oddi yma, odd yma, oddyma, oddi ymaen, odd yman.

Here is to you—atoch chwi; dyma atoch chwi; atoch.

Here she is—dyma hi, llyma hi.

Hereabout, } *ad.* (*here* ac *about*) yn nghylch y
Hereabouts, } lle hwn neu yma; yn nghylch y fân hon neu yma; yn nghylch hyn o le neu fân; oddeutu yma; yn nghylch yma; tua'r lle hwn neu hyn; tua'r fân hon neu hyn; tua'r parthau hyn; tua'r parthau yma; tua'r fân yma; tua'r lle yma; o gwmpas y fân hon neu hyn; o ddeutu y fân hon neu hyn; nid yn mhell oddi yma; nid neppell oddi yma.

Hereafter, *ad.* (*here* ac *after*) ar ol hyn; yn ol hyn; gwedi hyn, wedi hyn; o hyn allan; rhag llaw, mwyach, mwy, bellach, rhagyma; mewn amser neu gyflwr i ddyfod.

Hereafter, *s.* amser i ddyfod; cyflwr i ddyfod; byd i ddyfod; sefyllfa ddyfodol; y dyfodiant; y byd à ddaw, y byd i ddyfod.

Hereat, *ad.* (*here* ac *at*) ar hyn; gyda hyn; wrth hyn.

Hereby, *ad.* (*here* a *by*) wrth hyn; trwy hyn, drwy hyn.

Hereditable, *a.* (o'r Ll. *hæreditas*) etifeddadwy; etifeddol.

Hereditably, *ad.* trwy etifeddiaeth, yn etifeddiaeth, yn etifeddadwy.

Hereditament, *s.* (Ll. *hæredium*) da etifeddol; y peth à ddel i un wrth etifeddiaeth; yr hyn a ddisgyn i'r etifedd drwy y gyfraith; etifeddiaeth, treftadaeth, treftadogaeth.

Hereditarily, *ad.* yn etifeddol.

Hereditary, *a.* (*Ff. hereditaire*; o'r Ll. *hæres*) etifeddol, treftadol, tifeddol, etifol, tifeddus; à ddel, à ddaw, neu à ddisgyn wrth etifeddiaeth.

Herein, *ad.* (*here* ac *in*) yn hyn; yma; i hyn.

Hereinto, *ad.* (*here* ac *into*) i hyn; i hyn yma.

Heremit, *s.*=*Hermit.*

Heremitical, *a.*=*Hermitical.*

Hereof, *ad.* (*here* ac *of*) ei; am hyn, yn nghylch hyn; o hyn.

I have seen the parts hereof—gwelais ei ranau.

Hereon, } *ad.* (*here* ac *on*) ar hyn; oddyma,
Hereupon, } oddi yma.

Hereupon grew great dissensions—ar hyn y cyfododd ymrysonau nid bychain; oddi yma y tarddodd ymrysonau nid bychain.

Hereout, *ad.* (*here* ac *out*) oddi yma, o hyn, allan o hyn; allan o'r lle hwn; allan oddi yma.

Heresiarch, *s.* (Gr. *hairesis* ac *archos*) blaenor geugred, penaeth geugred, pen camgred, pencamgredwr, arch-eulithiwr, pen geulithwyr.

Heresiarchy, *s.* prif gamgred, prif eugred, prif eulith, geugred benaf.

Heresiographer, *s.* (Gr. *hairesis* a *graphô*) ysgrifenwr ar gamgredau, geugredysgrifydd, camgredysgrifwr.

Heresiography, *s.* geugredysgrifiaeth, traethawd ar gamgred.

Heresy, *s.* (Gr. *hairesis*) camgred, geugred, geulith, geuffydd, camgoel, geugrefydd, gau grefydd, gwrthgred, geuddysg, cam gred, camgrediniaeth, geugrediniaeth, gwrthgrefydd, heresi.

Heresy and schism—geugred ac ymrwygiad, camgred ac ymraniad, geugred ac eagaredd, heresi a sism.

Heretic, *s.* (Gr. *haireticos*) geugredwr, camgredwr, geugredydd, camgredydd, geulithiwr, geuffyddiwr, gwrthgredwr, geugrefyddwr; un geugred, un camgred, un geuffydd, un gwrthgred; heretic; cyfeiliornwr.

Heretical, *a.* geugredol, geulithiog, geuffyddiog, camgredol, gwrthgredol, geugrefyddol.

Heretical sect—camblaid, geublaid, plaid gamgredol, plaid gamgred.

Heretically, *ad.* yn eugredol, &c.; mewn modd geulithiog.

Hereticate, *v. a.* camgredoli, geugredoli; penderfynu bod peth yn gamgred.

Hereto, } *ad.* (*here*, *to*, ac *unto*) at hyn; i hyn;
Hereunto, } wrth hyn; hyd yn hyn, hyd hyn, hyd yma; eto.

Heretofore, *ad.* (*here* a *tofore*) cyn hyn; cyn no hyn; o flaen hyn; gynt, cynt, o'r blaen, eisoes.

Hereunto add—at hyn chwanega; at hyn chwanegwch.

Hereunto join—wrth hyn cyssylltwch.

Heretog, } *s.* (S. *heretoga*) cadfiaenor (yn mysg
Heretooh, } yr hen Sacsoniaid).

Hereupon, } *ad.* (*here* ac *upon*) ar hyn; oddyma,
Hereon, } oddi yma.

Herewith, *ad.* (*here* a *with*) gyda hyn, â hyn, efo hyn; yn hyn.

Herewith I have sent you the book—gyda 'r rhai hyn mi a anfonais i chwi y llyfr.

Heriot, *s.* (S. *heregeat*) ebediw, obediw, abediw =anifail neu ddirwy, dyledus i'r meistr tir ar farwolaeth deiliad.

Heriotable, *a.* agored i dalu ebediw.

Herisson, *s.* (Ff.) piglath, draenoglath.

Heritable, *a.* (Ll. *hæres*) etifeddadwy, tattrefadwy, tifeddadwy; etifeddol, tattrefol, treftadol.

Heritage, *s.* (Ff. o'r Ll. *hæres*) etifeddiaeth, treftadaeth, treftad, tattref, etifeddiant, etifiant, tifeddiaeth, tifeddiant, priodoriaeth, meuedd; gwely; treftadol ddyled; dygwydd tir neu dda o etifeddiaeth.

Family heritage — gwely cenedl; treftadaeth teulu.
Heritage by escheat — etifeddiaeth ddygwydd.

Hermaphrodeity, } *s.* (Gr. *hermaphroditos*)
Hermaphrodism, } deurywiaeth, deurywogaeth, gwrfenywiaeth.

Hermaphrodite, *s.* (Gr. *hermaphroditos*) deurywiad, (*pl.* deurywiaid), un deurywiog, un deurywiol, deurywyn, deurywiog, deuryw, cydryw, gwrfenyw, gwrwraig, mabferch, hifyn hafog, catwrwraig; un à fo gwryw a benyw.

Hermaphrodite, *a.* deurywiol, deurywiog, deuryw, gwrfenywaidd, gwrfenyw; gwryw a benyw.
Hermaphrodite flowers—blodau gwrfenyw, blodau gwrfenywaidd, blodau deuryw.

Hermaphroditic, } *a.* deurywiol, deurywiog,
Hermaphroditical, } deuryw, gwrfenywaidd, gwrfenyw, gwrwreigiol; gwryw a benyw.

Hermaphroditism, *s.* deurywiaeth, deurywogaeth, gwrfenywiaeth.

Hermeneutic, } *a.* (Gr. *hermêneuticos*) de-
Hermeneutical, } ongliadol, esboniadol, eglurhaol, egluriadol, amlygiadol, eglurol.

Hermeneutics, *s.* deongliaeth, dehongliaeth, dehongliadaeth, esboniadaeth, egluriadaeth.

Hermetic, } *a.* (Ff. *hermétique*; o'r Gr. *Her-*
Hermetical, } *mês*, Merchur) fferyllaidd, fferyllig, fferyllol, fferyllawl; gorfferyllig; alfferyllig; tryddansoddol, trywyddorol.
Hermetic books—llyfrau gorfferyllig, trywyddorol, gorddansoddol, *neu* dryddansoddol=llyfrau yn trin egwyddorion cyffredinol, natur a graddau bodau nefol, meddyginiaeth, a phynciau ereill: llyfrau dewiniaeth yr Aifftiaid.

Hermit, *s.* (Ff. *hermite*; Gr. *erêmitês*) meudwy, didryfwr, didryfydd, didrefwr, didryf, elaig, unigwr, golochwydwr.
To lead the life of a hermit—golochwydo, meudwyo, golochwyta; byw yn feudwy; byw *neu* fucheddu fel meudwy.
A hermit's life, } meudwyaeth,
A hermit's way of living, } meudwyedd, didryfedd, buchedd meudwy.

Hermitage, *s.* meudwyfod, meudwyfa, meudwyan, didryfle, didryf; cuddigl, cufigl, cilfa, golochwyd, cil, *neu* geudwll meudwy; meudwygell.
Red hermitage — eleigwin coch, didryfwin coch.
White hermitage—eleigwin gwŷn, didryfwin gwŷn.

Hermitary, *s.* meudwygell, meudwygil, cuddigl meudwy, cell meudwy=cufig didryfwr, cysylltedig â rhai abattai.

Hermitess, *s.* meudwyes, didryfes, uniges, golochwydes, eleiges.

Hermitical, *a.* meudwyol, meudwyaidd, didryf, didryfaidd, didryfol, eleigiol, golochwydol, golochwydus, golochwydog; unigol, neilltugar.

Hermodactyl, *s.* (Gr. *Hermês* a *dactulos*) bys Merchur=math ar wreiddyn meddygol â ddygir o Twrci.

Hern, *s.*=*Heron.*

Hernhill, *s.* (*o hernia*) llysiau y fors.

Hernia, *s.* (Gr.) torgest, bolystyn, bolwst, torllengig, ysgigad llengig, bors.

Herniaria, *s.* (Gr. *hernia*) torgestlys, llysiau bolystyn, llysiau y fors, borslys.

Hernshaw,† *s.*=*Heronshaw.*

Hero, *s.* (Gr. *hêrôs*; Ll. *heros*) gwron, arwr, arwron, gorwas, arwrwas, cadgun, dewr, glew, drud, heron, gwrolddyn, dewryn, gwawr, rhyswr.

Heroic, } *a.* (Gr. *hêrôicos*) arwraidd, arwrol.
Heroical, } gwronol, gwronaidd, gorwraidd, gorwrol, gwrolwych, mawrwych, tragwrol, gorchestol, rhagorwych, mawrwraidd, mawrfrydig, dewrwych, dewr, gwrol, glew.
Heroic poem—cerdd arwraidd, cân arwraidd, cerdd arwrol, cân arwrol, pryddest arwrol, arwrgerdd; hanesgerdd, hanesgan.
Heroic actions — gwrolgampau, campau arwraidd, gweithredoedd arwrol: *sing.* gwrolgamp, gwronawd, gwrial.
Heroic virtue—arwriaeth, gwroniaeth, mawrwriaeth, gwroliaeth, arwryd.
Heroic person—arwr, gwron, arwrwas, gwronwas.
Heroic age—yr oes arwraidd, arwroes, oes y gwroniaid.

Heroid, *s.* llythyr arwrol, arwreg, gwronawdl.

Heroically, *ad.* yn arwraidd, &c.; fel arwr.

Heroicomic, } *a.* (*heroic* a *comic*) gwawd-arwr-
Heroicomical, } aidd, digrif-arwraidd, digrifarwrol, arwraidd a digrif, arwrol a digrifol.

Heroine, *s.* (Gr. *hêrôinê*) arwres, gwrones, arwraig, herones; gwraig *neu* fun fawrfrydig.

Heroism, *s.* (*o hero*; Ff. *héroïsme*) arwredd, arwriaeth, gwroniaeth, mawrwriaeth, arwryd, gwroliaeth, mawrwri, gwrhydri, gwroledd, heroniaeth; mawrfrydedd, gwroldeb, dewredd, dewrwychder.

Heroologist, *s.* (Gr. *hêrôs* a *logos*) gwrondraethwr, traethwr ar wroniaid.

Heron, *s.* (Ff.) crëyr, crëydd, crëyr glas, crychydd, crechydd.
Common heron—crëyr glas, crëyr, crëyr cam.
Crested heron—crëyr copog.
Great white heron—crëyr gwŷn.
A young *or* little heron—creyren.

Hern-hawk, *s.* creyrwalch.

Heronry, } *s.* creyrfa, crychyddfa, crech-
Heronshaw, } yddfa, magfa creyrod, creyrgoed, coed y creyrod.

Heroship, *s.* (*o hero*) gwroniaeth, arwriaeth, gwrondod; nodwedd gwron *neu* arwr.

Herpes, *s.* (Gr.) taroden, tarwyden, tarwden, gwreinnyn, tarddwreinnyn, gwraint, tarddwraint; yr eryrod, yr eryr; iddwf, tân iddwf; tardduant, brid.

Herpetic, *a.* perthynol i daroden, &c.; tarwydenol, tarddwreinniol, iddyfol; tarddol, bridol, croendarddol, taenol, ymlusgol.

Herpetologic, } *a.* sarthofyddol, sarddofydd-
Herpetological, } ol, creinfilodol; perthynol i ymlusgiaeth.

Herpetologist, *s.* sarthofydd, ymlusgofydd, hanesydd ymlusgiaid, creinfilodwr.

Herpetology, *s.* (Gr. *herpetos* a *logos*) sarthofyddiaeth, ymlusgiaeth, ymlusgioneg, creinfilodiaeth, sarddaniaeth, hanes ymlusgiaid.

Herring, *s.* (S. *hæring*; Al. *hering*) ysgadenyn, penwag, penweigyn: *pl.* ysgadan, penweig.
Herring cob—penwegyn, penweigyn; ysgadenyn ieuanc heb gyrhaedd ei lawn dwf.
Herringbone-work—gwaith fel esgyrn penweig.

Herring buss—llestr ysgadana, bad ysgadana, llong ysgadana, llestr pysgota.
To cure herrings—cyweirio ysgadan, cyweirio penweig.
Pickle-herring—crocsan, ysgentyn, digriffwas, ffwl y ffair.
Never a barrel the better herring—nid oes o honynt un da; nid oes o honynt mo'r un da; nid gwaeth pa un à gymmeroch, na pha un à adawoch; da y gweddai y bêr i'r golwyth.

Hers, *pr.* (o *her*) eiddi, eiddo; eiddo hi; ei heiddo hi, eiddi hi, eini.

Herschel, *s.* (oddi wrth Syr Gwilym *Herschel*, D.C.L.) y blaned Herschel, à elwir hefyd Uranus, a Seren Siôr.

Herschellite, *s.* math ar ddelidfaen.

Herse, } *s.* (Ff. *herse*) elor feirch, gelor feirch,
Hearse, } elorwydd, edenog, elorglud, elorgerbyd; beddadail amserol; oggwlas, pigoged.

Herse, } *v. a.* gosod mewn *neu* ar elor feirch;
Hearse, } gosod mewn elorwydd; edenogi; cludo i'r bedd.

Herself, *pr.* (*her* a *self*) ei hun, ei hunan.
She herself—hi ei hun, hi ei hunan; hyhi.
She washed herself—ymolchodd; hi a ymolchodd.

Hersillon, *s.* (o *herse*) ogiath, cethrastell.

Hesy,† *v. a.* (S. *heriax*) cyfrif yn santaidd; moli.

Hesitancy, *s.* (Ll. *hæsitantia*) petrusder, petrusdod, petrusdra, petrusedd, petrusdeb, petrusrwydd, ammheusaeth, ammheurwydd, ammheuedd, petrusgarwch.

Hesitant, *a.* (Ll. *hæsitans*) petrus, petrusol, ammhöus, ammheuol, petrusgar, arbetrus; âg attal dywedyd arno; afrugl ei ymadrodd.

Hesitate, *v. n.* (Ll. *hæsito*) petruso, ammheuo, ammheu, peuo, rhuso, rhusio, darammheu; bod yn betrus; oedi, gohirio, addoedi; bod âg attal dywedyd arno; siarad âg attal arno; cecian, cloffsiarad, yrthu, ffeigebu, geirdagu.

Hesitation, *s.* (Ll. *hæsitatio*) petrusad, petrusiant, petrusder, petrusrwydd, petrusdeb, petrusdod, petrusdra, petrusedd, ammheusaeth, ammheuad, ammheu, petrusawd, petrusgarwch, petrusi, petruswch, ammheugarwch, ammheusrwydd, ammheu, rhusiad, rhusiant, rhusaeth, rhusedd, rhus; attal dywedyd, attal dywediad, attal-ddywedyd, attal-ddywediad, afrugledd ymadrodd, rhwystr tafod, ffeigeb, geirdagiad, cecian, cociad; cloffiad rhwng dau feddwl; annilysrwydd meddwl; cyngyd, godrig, gohiriant, ymaros, pae.
Without hesitation—yn ddigyngyd, yn ddibetrus; heb gyngyd.

Hesitative, *a.* petrusol, ammheuol, petrusgar, petrus.

Hesper, *s.* (Ll. *hesperus*) Ucheron, Gweno, Gwener, Hesper, Hesperus; y seren hwyr, y seren hwyrol, seren yr hwyr.

Hesperian, *a.* (Ll. *hesperius*) gorllewinol, gorllewyddol, llewinol, llewin.

Hesperian, *s.* gorllewinydd, gorllewinwr: *pl.* gorllewiniaid, trigolion y gorllewin.

Hesperis, *s.* (Gr. *hésperos*; Ll. *hesperus*) disawr.

Hest,† *s.* (S. *hæse*; AL. *geheis*) gorchymyn, arch, archiad.

Hesternal, *a.* (Ll. *hesternus*) perthynol i ddoe; yr hyn oedd ddoe.

Hesychast, *s.* (Gr. *hésuchos*) gorphwysydd, llonyddwr.

Heterarchy, *s.* (Gr. *heteros* ac *archê*) allbendodaeth, allbenaeth, alltrodlywiaeth, allbenogaeth, llywodraeth estron.

Heterocephalous, *a.* (Gr. *heteros* a *cephalê*) eillbenaidd, eillbenog, gwahanbenaidd.

Heterochromous, *a.* (Gr. *heteros* a *chrôma*) eilltliwiog, eillne, gwahanliw, amgenliw.

Heteroclite, *s.* (Gr. *heteroclíton*) amrydreigliad, gair amrydreigl, enw amrydreigl, amrydreiglyn, amrydreiglair, anhydreigliad, enw afreol; enw, peth, *neu* un afreolaidd: *pl.* amrydreigliaid.

Heteroclite, }
Heteroclitic, } *a.* amrydreigl, amgendreigl, anhydreigl, afreolaidd, afreolus, direol.
Heteroclitical, }

Heteroclitous,† *a.*=*Heteroclite, Heteroclitic, &c.*

Heterodox, *a.* (Gr. *heteros* a *doxa*) geudybiog, geudybus, geudybiol, allfarn, arallfarn, geugredol, camgredol, geulithiog, geulithiol, gwrthgredol, gwrthdybiol, geuffyddiog, amgendybus, allgredol; o farn amgen na'r cyffredin; o farn anghywir *neu* anghymhwys; gau, gŵyr, *neu* anghywir ei farn; geuol, geuog.

Heterodoxness, *s.* geudybiogrwydd, geudybusrwydd, geudybioldeb, geulithiogrwydd, geuffyddiogrwydd.

Heterodoxy, *s.* allfarn, arallfarn, camgred, geugred, geudyb, geufarn, geugoel, camgoel, gwrthgred, geuffydd, geulith, geuddysg, amgenfarn, gwahanfarn, allgred, arallgred, camathrawiaeth.

Heterogamous, *a.* (Gr. *heteros* a *gamos*) allbriodol, eillbriodol, gwahanweddog.

Heterogene,† *a.*=*Heterogeneal, &c.*

Heterogeneal, } *a.* (Gr. *heteros* a *genos*) all-
Heterogeneous, } ryw, arallryw, allrywiol, allrywiog, brithrywiog, brithrywiol, brithryw, gwrthrywiol, gwahanrywiol, amryfeilryw, alltudryw; o ryw *neu* rywogaeth arall; cymmysg.
Heterogeneous attraction—attyniad arallryw, attyniad allrywiog; cyfuniad fferyllig.

Heterogeneity, *s.* allrywiaeth, arallrywiaeth, gwahanrywiaeth, allryw, arallryw, gwrthryw, alltudrywiaeth; anghyfathrwydd, amryfaledd.

Heterogeneousness, *s.* allrywiaeth, brithrywiaeth, arallrywiaeth, gwrthrywiaeth, alltudrywiaeth, allrywioldeb, allrywiogrwydd, brithrywiolrwydd, gwahanrywioldeb; anghyfathrwydd, anghymmathrwydd, annhebygrwydd, amryfaledd; gwahaniaeth.

Heteropathic, *a.* (Gr. *heteros* a *pathos*) allnawsol, allnawsig, gwrthnawsol.

Heteropathy, *s.* allnawsedd, allnawsaeth, allfeddygiaeth.

Heterophyl, } *s.* (Gr. *heteros* a *phullon*) gwa-
Heterophyllus, } handdeilyn, gwahanddeilbryf =math o forbryf.

Heterophullous, *a.* gwahanddeiliog.

Heterophyllus, *s.* gwahanddeilys.

Heteropoda, } *s. pl.* (Gr. *heteros* a *pous*) allbed-
Heteropods, } ogion, gwahanbediaid=cenedl o libogion bolbedogaidd.

Heteropod, } *s.* allbedog, gwahanbedog; un
Heteropode, } o'r allbedogion.

Heteropterans, } *s. pl.* (Gr. *heteros* a *pteron*)
Heteroptera, } alladeinogion, alladeinogiaid.

Heteropterous, *a.* alladeiniog; afreolaidd ei adenydd.

Heteroptics, *s.* (Gr. *heteros* ac *optics*) alltremyddiaeth, camdremyddiaeth, geudremeg.

Heteroscians, } *s. pl.* (Gr. *heteros* a *scia*) all-
Heteroscii, } gysgodogion, allgysgodiaid= y rhai y mae eu cysgod yn wastad yn gogwyddo yr un ffordd.

Heteroscian, *a.* allgysgodog, allgysgodaidd; â'u cysgod bob amser yr un ffordd.

A little hog—porchell, (*dim.* porchellyn, porchellan), parchell, tyrchyn, porchyn: *f.* porchelles, porchellig, parchelles, hychig, hychan.
A young hog—porchell; banw.
Autumn hog—cnyw, mochyn hydref.
Barrow hog—twrch, banw, mochyn dysbadd: *f.* banwes.
Bacon hog—pasgdwrch, mochyn pasgedig, mochyn pesgedig, twrch pasgedig, pasghwch, mochyn tew.
Hog's grease—bloneg, bloneg mochyn; melhin.
Hog's flesh—cig moch.
Hog's bread—bara yr hwch, llysiau y ddidol, egel, moch-wraidd.
Hog's trough—cafn moch.
Hog's wash—golchion y moch, golchion, agoloh, golchan.
I have brought my hogs to a fair market—dygais fy nhroed fy hun i'r fagl; dygais fy ngwddf i'r cebystr; mi a wnaethyn orchwyl anffodiog neu ddiles; mi a gymmerais boen nid bechan er penyd imi; mi a wnaethym orchwyl teg yn wir.
Hog, *s.* (Al. *hochen*) rhathysgub, crafysgubell morwyr.
Hog, *v.* hobblygu, plygu, camu; rhathysgubo, crafu gwaelod llong; dwyn ar gefn; byrdori.
Hogcote, *s.* (*hog* a *cote*) cut moch, cwt moch, twlc moch, cut mochyn, twlc mochyn, craw.
Hoggerel, *s.* (o *hog*) hespwrn: *f.* hespin.
Hogget, *s.* (Norm. *hoyet*) hespwrn, dafad ddwyflwydd; ebol blwydd; baedd dwyflwydd.
Hogging, *s.* (o *hog*) hobblygiad, hobblyg; plyg tebyg i gefn mochyn.
Hoggish, *a.* (o *hog*) mochynaidd, mochaidd, tyrchaidd; anifeilaidd, llydnaidd, mulaidd, barus, brwnt, budr, bawaidd, delffaidd, drelaidd, gwancus, glwth, ceulrwth, crintach, anghawr, trachwantus, hunangar.
A hoggish fellow—mochyn, twrch, tyrchyn, drel, neu ddrelyn o ddyn.
Hoggishly, *ad.* yn fochynaidd, &c.; fel moch-[yn.

Hoggishness, *s.* mocheiddrwydd, mochyneiddrwydd, mocheidd-dra, mochyneidd-dra, tyrcheiddrwydd; mileinrwydd, barusrwydd, brynti, &c.

Hogh,† *s.* (Al. *hoch*) bryn, uchelfa, rhiw.

Hogherd, *s.* (*hog* a *herd*) mychiad, bugail moch, heusor moch, ceidwad moch.

Hoglouse, *s.* horen : *pl.* horod, hôr, hôr y moch.

Hognut, *s.* mochgneuen, cneuen y moch, hobgneuen.

Hogo, *s.* (Ff. *haut* a *gout*) uchelsawr, chwaeth cryf, blas cryf, sawr cryf; adflas, adsawr, *neu* adchwaeth cryf.

Hogpen, *s.* cut, cwt, twlc, *neu* graw moch; twlc, cwt, *neu* gut mochyn; craw.

Hog-plum, *s.* hobeirin, mocheirin, eirin y moch.

Hog-ringer, *s.* modrwywr moch, gwyfrwr moch.

Hog's-bean, *s.* ffa y moch, parfyg, crys y brenin, bela, llewyg y iar; ffâen y moch.

Hog's-fennel, *s.* ffenigl y moch, ffenigl yr hwch, pyglys.

Hogshead, *s.* (Is. *oxhoofd;* Al. *oxhoft;* D. *oxehoved*) myddi; baril, pib=baril fawr yn cynnwys 52½ o alwyni amherodrol, neu 63 o hen alwyni gwin.

Hogshearing, *s.* (o *hog* a *shearing*) cneifio moch, cneifio mochyn; cynhwrf mawr yn nghylch dim; swn heb sylwedd.

Hog's-lard, *s.* bloneg, bloneg mochyn; mehin.

Hog's-mushrooms, *s. pl.* ffwng y moch, madarch y moch.

Hogsteer, *s.* (*hog* a *steer*) baedd gwyllt teirblwydd, gwyddfochyn teirblwydd.

Hogsty, *s.* (*hog* a *sty*) cut moch, cwt moch, twlc moch, twlc mochyn, cut mochyn, cwt mochyn; craw, twlc, cwt, cut.

Hogwash, *s.* golchion y moch, golchion, agolch, golchan.

Hogweed, *s.* efwr, efyrllys, cron, moron y meirch.

Hohlspath, *s.* (Al.) cengrisfaen, cengerfaen, ymgroesfaen, cengol pen.

Hoiden, *s.* (C. *hoeden*) hoeden, gwilhersen, hobi, rhonten, geneth chwareugar, geneth lamsachus; hoedyn, gwilhersyn, rhontyn, busach.

Hoiden, *a.* gwladaidd, gwledig, trwsgl, (*f.* trosgl), buachaidd, gwaer, gwerinaidd, hy, afiednais, anfoneddigaidd, llamsachus.

Hoiden, *v. n.* hoedena, gwilhersu, rhonta, hobïo, chwareu yr hoeden.

Hoidenhood, *s.* hoedendod, hoedenedd, hodenrwydd.

Hoidenish, *a.* hoedenaidd, hoedenol, gwilhersaidd, fel hoeden.

Hoise, *v. a.*=*Hoist.*

Hoist, *v. a.* (Al. *hissen;* Ff. *hisser*) codi, cyfodi, dyrchafu, derchafu, cwnu, derchu, arddyrchafu, dwyre, codi i fyny.

To hoist up the sails—codi yr hwyliau; lledu yr hwyliau; dyrchafael *neu* ddyrchafu yr hwyliau.

To hoist up on high, } dyrchafu *neu* godi
To hoist up aloft, } yn uchel.

Hoist, *s.* uchder, uwchder, codiad, uchder syth.

Hoit, *v.* (o *hight* neu *height*?) codi, cyfodi, cwnu, dyrchafu, arddyrchafu; llamu, llamsach, neidio; bod yn galonog.

Hoity-toity, *ad.* twt! twt twt! wfft! pw! pw pw! och och! ffei! hach! hai! haio! ha! wi!

Hoity-toity, *a.* dyrchafedig, uchel, derch.

Holcad, *s.* (Gr. *holcadion*) llong fawr yn Groeg gynt.

Holcus, *s.* (Gr. *holcó*) maswellt.

Hold, *v.* (S. *healdan;* Al. *halten;* D. *holder*) dàl, dala, daly, cynnwys, cynnwyso, gannu; gafaelyd yn, ymaflyd yn, cydio yn, gafaelu, gafaelio, cadw; cadw gyda; cynnal; cadw yn ei ddwylaw; meddu, meddiannu, mwynhau; cyfrif, barnu, bwrw, tybied, tybio, ystyried; cymmeryd; cymmeryd megys, cymmeryd yn lle; attal; dàl ynddo; parhau; bod heb dori; aros, sefyll; haeru, hòni; galw yn nghyd.

To hold back—dàl *neu* gadw yn ol; attal, ffrwyno, hybu.

To hold one's breath — dàl *neu* attal ei anadl.

To hold close together—cyngwasgu, cydwasgu, cydymwasgu, dàl yn nghyd; cadw *neu* ymgadw yn nghyd; cadw *neu* ymgadw gyda'u gilydd.

To hold a court—cynnal llys; galw llys yn nghyd.

To hold fast—dàl yn dyn, &c.

To hold a feast — cynnal gwledd, cadw gwledd; cynnal cyfeddach; cadw gŵyl.

To hold forth — dàl allan; estyn allan; pregethu; areithio; pregethu brygawthen; cyhoeddi; cynnyg; dangos.

To hold from—dàl oddi gàn; dàl oddi wrth.

To hold guiltless—barnu, cyfrif, *neu* fwrw yn ddieuog; bod yn ddieuog gàn; bod yn wirion gàn.

And hold themselves not guilty—heb dybied eu bod yn euog (*Sech.* xi. 5).

To hold hard — dàl yn dyn; gafaelu yn dyn yn mheth; ymaflyd *neu* gydio yn dyn mewn peth.

To hold the head—cyfattal y pen; cynnal *neu* ddàl y pen.

To hold with the hound and run with the hare—hys gyda'r ci a hai gyda'r cadno; hys gyda'r ci a hw gyda'r cadno; rhoi hys gyda'r ci a hai gyda'r cadno; gwaeddi hys gyda'r ci a hai gyda'r cadno; gwaeddi hys gyda'r ci a hw gyda'r cadno; rhoi hys gyda'r ci a hai gyda'r ysgyfarnog.

To hold in — dàl i mewn; attal; cadw i mewn.

To hold land—dàl tir.

To hold of—dàl oddi gàn; bod yn ymddibynol ar; derbyn ei hawl oddi wrth.

To hold off—cadw ymaith; cadw draw; cadw i ffwrdd; cadw o'r neilltu; tynu ymaith, tynu oddi wrth.

To hold on—parhau, para; dàl yn mlaen; sefyll; dàl arni.

To hold with one—dàl gydag un; bod o'r un farn *neu* ddaliad âg un; bod yn yr unfarn *neu* ddaliad âg un; bod yn gyfunfarn âg un; cyduno âg un; cydweled âg un; cydfyned âg un; sefyll dros un.

To hold one's peace, } tewi, tewi â son;
To hold one's tongue, } dystewi, bod yn ddystaw; bod heb yngan gair; gostegu, rhoi gosteg; cadw cyfrinach; dàl *neu* attal ei dafod.

Hold thy peace—taw; nac yngan air; ust.
To hold the plough—dàl yr aradr; dala yr arad.
To hold out—dàl allan; parhau, para; parhau hyd yr eithaf; para hyd y diwedd; estyn, ystyn, *neu* ledu allan; dàl *neu* gadw ar led; dàl allan hyd yr eithaf; dàl allan hyd y diwedd.
To hold to—dàl at, glynu wrth, ymlynu wrth.
To hold under—dàl dàn, dàl o dàn, dàl eddi tàn; dàl oddi gàn.
To hold up—dàl i fyny; cynnal i fyny; dàl i'r làn; cynnal, attegu; dyrchafu.
To hold in reputation—gwneuthur cyfrif o; prisio, brio, mawrhau; bod mewn bri, parch, cymmeriad, *neu* gymmeradwyaeth.
To hold a public sale—cynnal arwerth cyhoedd, cynnal arwerthiant.
I hold it to be so—yr wyf fi yn dala mai felly y mae.

Hold, *s.* gafael, daliad, dalfa, gafaeliad, ymafiad, gafaelfa, attalfa, atteg; meddiant; craff, caff; cadwraeth, carchar; lloches, llechfa, llech, cil, cilfa; caf; diffynfa, amddiffynfa, cadarnfa, cadarnfan, caer; ceudod, cest llong, cafle llong, geinfa llong, cellfa; saib, gorphwysmod.
To lay hold of—dàl, dala, daly, gafaelyd yn, ymafiyd yn, ymafaelu yn, gafaelio yn, cydio yn; goddiweddyd, dyfod ar; cael craff *neu* afael ar.
To take hold, } myned i loch-
To betake itself to a hold, } es; ymguddio, ymlechu; myned i berth *neu* ddyrysfwyn; ymddirgelu mewn dyrysle; myned i'w gilfa.
To take hold about—ymafael, ymafiyd, gafaelu, *neu* gydio am; amafaelu.
To catch hold—dàl, dala, gafaelu, gafaelyd, ymafiyd, ymafael, dàl gafael, cymmeryd gafael, cael gafael, cadw gafael, cydio yn.
A hold of land—gafael o dir.
Strong-hold—cadarnfa, cadarnfan, amddiffynfa, diffynfa, diogelfa, cadarnle, caer, caerfa, castell, lle cadarn; craig, caderniid, cryfder.
After-hold—ol-gest, ol-geudod, ceudod ol.
Fore-hold—blaen-geudod, ceudod blaen.
Main-hold—canol-gest, y ceudod canol, y ceudod mwyaf.
That holds fast—gafaelus, gafaelgar; glud, hylyn, hylud; tyn *neu* dda ei afael.
To renew one's hold, } gwella ei afael.
To mend one's hold, }
To let go one's hold—dadafaelu; gollwng ei afael; gollwng i fyned.
I cannot take hold of it, } yr wyf yn methu
I cannot get hold of it, } cael craff arno; yr wyf yn methu â chael craff arno; yr wyf yn methu cael gafael arno *neu* ynddo.
His head caught hold of the oak—ei ben ef a lynodd yn y dderwen.
They could not take hold of his words—ni allasant feio ar ei eiriau (*Luc* xx. 26).

Hold, *in.* dàl! attal! paid! dyt! dyt dyt! dyd! aros! aro! dàl dy law! ust!
Holdback, *s.* rhwystr, attalfa, llestair, lludd.
Holder, *s.* daliwr, daliedydd, deiliad; attaliwr, attalydd.
Holderforth, *s.* areithiwr, areithydd; pregethwr; cynnygydd.
Holdfast, *s.* dalfach, gafaelfach, dalbren, attalbren, caff, craff, bach.
Holding, *s.* daliad, gafaeliad; gafael, dalfa; cafad, cafaeth; cydgerdd, cydgan.
There was no holding of him—ni ellid mo'i attal; nis gellid mo'i ddàl; nid oedd ddichonadwy ei ddàl *neu* ei attal; annichonadwy ei ddàl; nid oedd modd i'w ddàl.
Holding fast—gafaelus, gafaelgar; yn dàl yn dyn; à ddeil yn dyn; gàn ddàl yn dyn; yn dàl yn lud; à ddeil yn lud; gàn ddàl yn lud.

Hole, *s.* (S. ac Is. *hol;* Al. *hōhle*) twll; bwt, rhwyll, gwach, agoriad; ceudod, ceule, caf, cafle, lloches, ffau; pwll, pannwl.
Arm-hole—cesail; pwll y gesail.
Peep-hole—ysbeiendwll, rhwyll, rhydwll.
A hole to peep out at—ysbeiendwll, rhwyll, rhydwll.
A hole to creep out at—lle i ffoi, dïangdwll, gochelfa, dïangfa, llechfa, cilfach, creplanfa; esgus, coeg-esgus, rhith-esgus.
To find a hole to creep out at—cael allan ddïangdwll; cael allan ffordd i ddïanc; cael allan goeg-esgus.
Coney-hole—twll cwningen, cloddfa cwningen.
Touch-hole—tandwll gŵn, tanwach gŵn.
Button-hole—twll *neu* rwyll botwm; twll botwm, bwt.
The hole of a hatchet—crai bwyell.
To make a hole through—trydyllu; tyllu trwodd, tyllu trwyddo.
Wherein holes are made—trydwll, (*f.* trydoll), tyllog.
Pock-holes—ol y frech; tyllau y frech.
Full of holes—tyllog, llawn tyllau; rhwyllog; amdwll, amrydwll; gogofog; pyllog; llogellog.
Full of small holes—mandyllog, chwysigog, llawn mandyllau.
Breathing-hole—awyrdwll, ffynell, ffynel, agerfa; twll yr awel *neu* yr ager.

Hole, *v.* tyllu, rhwyllo, trydyllu; myned i dwll *neu* loches; ymguddio, llechu.
Holibut, } *s.* lleden chwith, lleden chwithig,
Halibut, } lleden y môr, tafod yr hydd.
Holidam, *s.* (*holy* a *dame*) santeiddfam, boneddiges fendigedig.
Holiday, } *s.* (*holy* a *day*) gŵyl, dydd gŵyl;
Holyday, } *pl.* gwyliau, dyddiau gwylion, dyddiau gŵyl.
Holiday eves—noswyliau, mywyliau, ucherwyliau: *sing.* noswyl, mywyl, ucherwyl.
To keep *or* celebrate the eve of a holiday—noswylio, cadw ucherwyl, cynnal ucherwyl, cynnal noswyl, mywylio.
A high holiday—uchelwyl, uchel ŵyl, prifwyl, gŵyl arbenig.
A set holiday—cylchwyl; gŵyl à ddaw ar gylch bob blwyddyn.

Holiday, } *a.* gŵyl, gwyliawl; perthynol i
Holyday, } ŵyl; yn perthyn i ddydd gŵyl.
Holiday garment—pilyn dydd Sul, gwisg ddydd Sul.
Holiday garments, } dillad goreu, dillad
Holyday garments, } dydd Sul.

To put on one's holiday garments every day—gwisgo dydd Sul beunydd.

Holily, *ad.* (o *holy*) yn santaidd, &c.

Holiness, *s.* (o *holy*) santeiddrwydd, sancteiddrwydd; glwysder, glwysni, glwysedd, gleindid, glendid, llwysedd; santolaeth.
Holiness of life—glendid buchedd, santeiddrwydd buchedd, santeiddrwydd bywyd.
The spirit of holiness—ysbryd santeiddrwydd, ysbryd santeiddiad.
In the mountain of his holiness—yn mynydd ei santeiddrwydd; yn ei fynydd santaidd.
His holiness—ei santeiddrwydd; ei santolaeth.

Holing, *s.* tylliad, trydylliad; tyllu; tangloddio.

Holing-axe, *s.* bwyell dyllu, tyll-fwyell.

Holla, } *s.* (o'r sain) gwaedd, bloedd, croch-
Holloa, } waedd, crochlef, garm, galwad.

Holla, } *v. n.* gwaeddi, bloeddio, crochwaeddi,
Hollo, } crochlefain, garmio, galw, dïaspedain.

Holla, } *in.* clyw! gwrando! dyglyw! degle!
Hollo, } hai! hoi! ho! holô! debre! dabre!
Holloa, } iwbwb!

Holland, *s.* llian Holand, meinllin Hwlant; Hwlant.

Hollands, *s.* (o *Holland*) merywlyn, pereithwy, merywlyn Holand, pereithwy Hwlant.

Hollen, *s.*=*Holly*.

Hollow, *a.* (S. ac Is. *hol*; Al. *hohl*) cau, ceuol, ceuog, ceu-; cafnog; pannylog; tyllog, ceudyllog; mandyllog, chwysiglog; gogofog, ogofog; calondwll, (*f.* calondoll), rhonca; rhwth, (*f.* rhoth); coeg, gwag, gwagsaw; dwfn, isel; diwaelod; gau, ffals, twyllgar, twyllodrus, anghywir, rhagrithiol.
Hollow tree—ceubren, pren cau.
Hollow ball—pel gau, ceubel, ceubelen.
Hollow bank (of a river)—ceulan; torlan: *pl.* ceulanau, ceulenydd.
Hollow voice—llais cau, llais iselgryg.
Hollow place—lle cau, lle ceuol, ceule, cafle; ceudod, ceuedd; ceuffos; pannwl, pant; wm; ogof.
Hollow body—ceugorff, corff cau, corff ceuol, cofft, corff gwag, coff.
Hollow sphere—ceugant, ceugrwm, ceugronen, cronen gau.
Hollow heart—calon ddiwaelod, calon dwyllodrus, calon gau.
Hollow spar—ceugrisfaen, ceusgerfaen, ymgroesfaen.
Hollow (as a reed)—calondwll; *f.* calondoll.
To grow hollow—ceuo; cafnu; pantu, pannylu; rhoncäu; myned yn gau.
To make hollow—ceuo; ceudyllu; cafnu; gwneuthur yn gau, &c.

Hollow, *s.* ceule, ceufan; ceudod, ceuedd, cau, lle cau, ceudwll; ceuffos; pannwl, pant; gogof, ogof, caf; gwach, wm; cwm; pwll; rhigol, sylch, rhych.
The hollow of the hand—ceuedd y llaw; ceudod y llaw; cledr y llaw.
The hollow of the hoof—gwennol y carn.
A little hollow—gobant; ceule bychan, &c.
The hollow of the thigh—cyswllt y forddwyd (*Gen.* xxxii. 25).

Hollow, *v. a.* ceuo, ysgeuo; ceudyllu; cafnu, cafnio; pantu, pannylu; gwneuthur yn gau; peri yn gau.

Hollow, *v. n.* gwaeddi, bloeddio, crochwaeddi, crochlefain, garmio, galw.

Hollow, *ad.* (llygriad o *wholly*) yn hollol, yn llwyr, achlân, digon; yn ddidrafferth, yn rhwydd.
To beat hollow—maeddu yn ddigynnyg; curo yn ddigynnyg; maeddu o beth anferth; maeddu o lawer byd; maeddu ddigon; maeddu *neu* guro yn mheli.

Hollow-cheeked, *a.* bochlipa, bochlibin, bochlaes; â bochau llipa iddo.

Hollow-eyed, *a.* llygad-ronca, llygadronc; â llygaid rhonca iddo.

Hollow-hearted, *a.* twyllodrus ei galon; twyllodrus, anghywir, anffyddlawn, ffuantus, rhagrithiol, gau.

Hollowness, *s.* ceuedd, ceudod, ceuder, ceudeb; cychedd; ffuantrwydd, rhagrith, twyll, lledrith, anffyddlondeb.
A hollowness made in any thing by dashing a harder substance against it—tolc, pant, pannwl.
The hollowness of the eyes—ceuedd y llygaid; rhoncädd y llygaid.
Hollowness under ground—ogof, gogof, caf, ceudwll, ffau.

Hollow-newel, *s.* grisgylch ceuol, grisgant cau; agoriad yn nghanol grisiau.

Hollow-quoins, *s. pl.* cornelfain cau; canbyst; argaeau camlas.

Hollow-root, *s.* anfri; ceuwraidd.

Hollow-square, *s.* petryal cau, petryal ceuol, cau betryal, ysgwâr canolgau.

Hollow-wall, *s.* ceuwal, ceufur, bwtwal; gwâl â gwagle yn ei chanol.

Holly, *s.* (S. *holegn*; Is. *hulst*) celyn; *sing.* celynen.
Holly-tree—celynen, pren celyn, pren celynen.
Holly-wood—celyn, coed celyn.
Sea-holly—boglynon arfor, morgelyn, celyn y môr, ysgall boglynog.
Knee-holly—celyn Mair, celyn Ffrainc, pryseg, banadl pigog, gewynllys, gïeulys, llysiau y gïau.
Holly-grove—celyneg, celynog, llwyn celyn, celynllwyn, celynwig.
The great holly-grove—y gelynog fawr, y gelyneg fawr.
Abounding with holly—celynog, llawn celyn.
Made of holly—celynig; â wnaed o gelyn.

Hollyhock, *s.* (S. *hollihoc*) hocys bendigaid, hocys y gerddi.

Holly-rose, *s.* celynros, rhos celyn, creigros, corros.

Holm, } *s.* glasdonen, derwen anwyw, derwen
Holme, } fythddeiliog, derwen fythwyrdd.
Holme-oak=*Holm*, *Holme*.

Holm, } *s.* (S. *holm*) marian, maran, marian-
Holme, } edd, maranedd, tywyn, iseldir bras ar lân afon, hel; ynysig, ynysen, ynys mewn afon.

Holmite, *s.* (oddi wrth Mr. *Holme*) math ar ddelidfaen.

Holocaust, *s.* (Gr. *holocauston*) hollboeth, ollboeth, llosgaberth, posthoffrwm, aberth hollboeth, offrwm hollboeth.

Holograph, *s.* (Gr. *holos* a *graphô*) ollysgrif, ollysgrifen, hollysgrifen, cyfanysgrif=gweithred neu ewyllys ysgrifenedig oll â llaw y rhoddwr neu ewyllysiwr.

Holographic, *a.* ollysgrifenol, hollysgrifol, cyfanysgrifol; à ysgrifenwyd oll gân y rhoddwr ei hun.

Holometer, *s.* (Gr. *holos* a *metron*) ollfesur, hollfesur, ollfeidyr, ollfesurydd, ollfydrai; offeryn i fesur pob peth.

Holosteum, *s.* (Gr. *holos* a *costeon*) gwlydd llydanfrig; gwlyddyn llydanfrig, gwlyddyn briglydan.

Holpen, † *p. p.* (o *help*) cynnorthwyedig, &c.
They have holpen the children of Lot—buant fraich i blant Lot (*Salm* lxxxiii. 8).

Holster, *s.* (S. *holster*) gwain llawddryll, gynwain, gwain gynyn; gwain neu god wrth gyfrwy i ddâl llawddryll.

Holstered, *a.* yn dwyn gweiniau llawddryll; gynweiniog.

Holt, *s.* (S.) coed, coedwig, coedlan, coettir, gwig, argoed, fforest.

Holy, *a.* (S. *halig*; Al. ac Is. *heilig*) santaidd, sanctaidd, sant, glân, cyssegrlan, cyssegr, cyssegredig, santeiddlan, santeiddiol, santol, glwys, cyssegraidd, glanfucheddol, glain, pur, purlan, gawl, myg.
Holy Ghost—Ysbryd Glân, yr Ysbryd Glân, yr Ysbryd Santaidd, y Glân Ysbryd, y Santaidd Ysbryd.
Holy of holies—y cyssegr santeiddiolaf, y cyssegr santeiddiaf, y santaidd santeiddiolaf.
Holy place—cyssegr, santeiddfa, lle santaidd, lle cyssegredig, glwysfa, glwysle, seintwar.
Holy man—sant, gwr santaidd, dyn sanctaidd, glain: *pl.* saint, seintiau, gleinion, dynion santaidd.
Holy woman—santes, gwraig santaidd: *pl.* santesau.
Holy saints—gleinion seintiau, seintiau gleinion, seintiau glanfucheddol.
Holy life—buchedd santaidd, bywyd santaidd, cyssegrlan fuchedd, eirioes.
His most holy life—ei wir lanaf fuchedd.
Holy water—dwfr bendigaid, dwr bendigaid, dwr swyn, dwfr swyn, dwfr santaidd, dwfr cyssegredig.
The Holy One—y Sant, y Sanct; yr un santaidd.
The Holy One of Israel—Sant Israel.
Holy scripture—yr Ysgrythyr lân, yr Ysgrythyr santaidd.
Holy things—pethau santaidd, pethau cyssegredig, pethau cyssegr; dodrefn cyssegr.
Holy Land—y Tir Santaidd=Palestina.
Holy nature—anian santaidd, natur santaidd; nyfed.
The Holy Catholic Church—yr Eglwys Lân Gyffredinol; yr Eglwys Lân Gydolig; yr Eglwys Lân Gatholig.
Holy war—rhyfel santaidd; rhyfel y groes, crwysgad, croesawd.
Holy grass—glwyswellt, santwellt.
Holy father—y tad santaidd=y Pab.
To make holy—santeiddio, sancteiddio; cyssegru; bendigo; gwneuthur yn santaidd; gleinio, glwyso.
To make one's self holy—ymsanteiddio, ymgyssegru; santeiddio ei hun.
To the glory of thy holy name—i ogoniant dy santeiddiol enw; er gogoniant dy enw santaidd.
From his holy heaven—o'i nef santaidd; o nefoedd ei santeiddrwydd.

Holy-Cross Day, *s.* Gŵyl y Grog; Dydd Gŵyl y Grog; Dydd Gŵyl y Groes; Dydd y Groes Santaidd=Medi 14.

Holyday, } **Holiday**, } *s.* = { *Holiday.* *Holyday.*

Holy-office, *s.* swyddfa santaidd=enw à roid i ryw lysoedd Pabaidd yn y 12fed a'r 13ydd canrif.

Holy-Rood, *s.* y Groes Fendigaid, y Groes Santaidd, y Grog Fendigaid.

Holy-Rood Day, *s.*=*Holy-Cross Day.*

Holy-Stone, *s.* glwysfaen; careg i grafu bwrdd llong.

Holy-Thistle, *s.* ysgallen fendigaid.

Holy-Thursday, *s.* Dydd Iau Santaidd, Dydd Iau Dyrchafael, Dydd Iau y Dyrchafael, Iau Derchafael, Iou Dyrchafael, Dydd Iau Cyrchafael.

Holy-Week, *s.* yr wythnos santaidd; wythnos y grog; wythnos y dyoddefaint=yr wythnos cyn y Pasc.

Holy-Writ, *s.* yr ysgrythyr lân, yr Ysgrythyr santaidd; yr Ysgrythyrau santaidd; y Beibl cyssegrlan.

Homage, *s.* (Ff. *hommage*) gwriogaeth, gwarogaeth, gwrogaeth; ufydd-dod, ymostyngiad, ymddarostyngiad; dyledswydd, gwasanaeth; addoliant; gweddwys.
To do homage, } gwriogaethu, gwrog-
To yield homage, } aethu, gwarogaethu, gwriogi, gwarogi, gwrogi, gwrhau, talu gwriogaeth, talu ufydd-dod, ymostwng, gorestwng, gorestyngu, ymröi, ymblygu.

Homage, *v. a.* gwriogaethu, gwarogaethu, gwrogaethu, gwriogi, &c.

Homageable, *a.* tân wriogaeth, tân warogaeth; darostyngedig i wriogaeth; tân dalu gwriogaeth; y dylir gwriogaeth am dano neu o'i blegid; gwriogaethol, gwarogaethol.

Homager, *s.* gwriogaethwr, gwarogaethwr; deiliad dân wriogaeth; dyn gosgordd.

Home, *s.* (S. *ham*; Al. ac Is. *heim*) cartref; haddef, addef, annedd, trigfa, preswylfa, preswylfod, ty, tref, trefred, trefad, adef, mangre, ystref, anneddle, anneddfa; pabell.
At home—gartref, cartref; yn y ty; mewn ty; yn nhref; yn ei adlam.
From home—oddi gartref, oddi cartref, o dref; o'i gartref.
To be at home—bod gartref; bod yn gynnefin neu gyfarwydd; bod yn hyddysg; bod yn gartrefol.
He has a home—y mae iddo gartref, haddef, tref, ystref, ty, anneddle, trigfa, trefad, neu drefred; y mae ganddo gartref, &c.
He has no home—nid oes gartref neu haddef iddo; nid oes ganddo gartref.
He is gone to his long home—aeth i'w hir gartref; aeth i dy ei hir gartref; y mae efe wedi marw.
Is the man at home?—a yw y gwr gartref? a yw y gwr yn nhref? a ydyw y gwr yn y ty? a ydyw y gwr i mewn?
Tarry at home—aros gartref; eistedd yn dy dy.
A person without home—digarad, un digarad; un digartref, un heb gartref.
To make one's home—cartrefu anneddu;

gwneuthur ei gartref; gwneuthur yn gartref iddo.
Keeping at home—yn gwarchod gartref; yn cadw gartref.
Home is home, be it ever so homely—gwedi treiglo pob tref, teg edrych tuag adref.

Home, *a.* adref, hyd adref, i dref; agos, tyn; cyflawn; eithaf, diarbed, digryd; i'r eithaf; i'r byw; grymus, cryf, cadarn; llym, pigog, pigoglym, llymdost, gerwin, esgudlym, ergydlym; cartrefol, cartrefaidd.
A home argument—rheswm cadarn, cryf, cadarn-gryf, diymwad, *neu* anorfod.
A home blow—ergyd hyd adref; ergyd grymus, nerthol, gwrdd, agwrdd, *neu* ddiwrthladd.
A home charge—cyhuddiad llym, cyhuddied lem, cyhudd llym, achwyn ffraethlym; cyhuddiad hyd adref; cyrch esgudlym, ergydlym, taerddrud, *neu* angerddol.
A home thrust—gwth hyd adref.
Home stroke—ergyd pen, ergyd hyd adref, marchddyrnod.

Home, *ad.* adref, hyd adref, i dref, tuag adref, i'w gartref, i'w dy; yn gyflawn, i ben, i'r eithaf, yn ddiarbed, yn ddigryd, i'r byw; yn agos; yn llym, yn bigog, yn bigoglym; at y pwnc; i'r perwyl; i'r pen draw.
To come home—dyfod adref; myned adref; dyfod i dref; dyfod i adwedd; dyfod i'w adlam; dychwelyd i'w wlad ei hun; dychwelyd i dir ei wlad; adwedda.
To go home—myned adref, &c.
To return home—dychwelyd adref, dyfod adref, &c.
To bring home—dwyn adref; dwyn eilwaith; dwyn yn ol.
To come home, } bod yn gymhwys, yn
To be apposite, } addas, yn gyfaddas, yn gymmesur, yn cyfiadd, *neu* yn cyttaro; bod yn eglur, yn amlwg, yn ysbysol, *neu* yn bendant.
To come home from a digression—dychwelyd at y testyn; ail gydio llinyn *neu* edefyn yr ymadrodd.
To come home to one—dyfod adref at un; dychwelyd, syrthio, *neu* ddisgyn ar ei ben ei hun; dychwelyd, syrthio, *neu* ddisgyn ar ei gopa ei hun.
To strike home—taro adref; taro hyd adref; taro i dref; taro i'r byw.
To speak home—llefaru yn ddigryd, yn ddigryn, yn eofn, *neu* yn ddiarbed; llefaru yn rhydd ddiofn.
To hit home—taro i dref; taro hyd adref; taro adref; taro i'r byw.
To hit one home, } peidio âg arbed un;
To strike one home, } talu yr hen a'r newydd i un; trin un yn ddieiriach *neu* ddiarbed; bwrw *neu* wasgu ar un yn ddieiriach.
To charge home—rhuthro yn esgudlym *neu* ergydlym ar; rhuthro yn daerddrud ar.
To come short home—methu, pallu, *neu* ffaelu ar y ffordd; dyfod yn fyr o'i amcan.
To urge an argument home—gyru rheswm hyd adref; gyru rheswm i'r eithaf.
To drive the nail home—gyru yr hoel adref.
Come home with me—tyred adref gyda mi.
One that is come home from abroad—adlamwr; dychwelwr i'w adwedd.
What could be said more home?—pa beth cadarnach *neu* lymach à ellid ei ddywedyd?
My other instance comes nearer home—y mae fy anghraifft arall yn fwy pendant eto; y mae fy anghraifft arall yn gadarnach eto.
It will come home to you at last—daw dial arnoch am dano o'r diwedd; daw dial arnoch o'i blegid o'r diwedd.
The disciples went away again unto their own home—y dysgyblion a aethant ymaith drachefn at yr eiddynt (*Ioan* xx.10).

Homeborn, *a.* cartref-anedig; à anwyd gartref; naturiol, anianol, brodorol; cartrefol, cartrefig, cartrefaidd.

Home-bound, } *a.* rhwym adref; rhwym
Homeward-bound, } tuag adref; rhwym tua thref; cartref-rwym; adref-rwym.

Homebred, *a.* à fagwyd gartref; naturiol, anianol, genedigol; cartrefol, cartrefig, cartrefaidd; gwledig, gwladaidd, diaddurn, syml, annhaclus, annillyn, aflednais, difoes, gwaer, trwsgl.
A homebred slave—caethwas à aned ac à fagwyd yn y ty.

Homebuilt, *a.* à adeiladwyd gartref.

Homedriven, *a.* gyredig adref.

Homedwelling, *a.* yn trigo gartref; yn aros gartref.

Homefelt, *a.* à deimlir oddi fewn; à deimlir yn y galon; à deimlir yn y fonwes; à deimlir hyd adref; oddi fewn, oddi mewn, tufewnol.

Homekeeping, *a.* yn cadw gartref; yn gwarchod gartref; cartrefol.

Homeless, *a.* digartref, diannedd, dibreswyl, didy, didref.

Homelily, *ad.* yn gartrefol, &c.; mewn modd trwsgl, cartrefaidd, cartrefig, cartrefol, cyffredin, gwael, *neu* dlawd.

Homeliness, *s.* (o *homely*) cartrefwch, cartrefigrwydd, cartrefoldeb, cartrefolrwydd, cartrefeiddrwydd, trefigrwydd; gwledigrwydd, gwladeiddrwydd, symlrwydd; hagrwch, hagredd, hagrwydd, hacrwydd, gwrthuni, annhegrwydd, anmhrydferthwch, anharddwch, anosgedd, anolwg, anwympedd, annhelediwrwydd, trysgledd, annillynedd, annhaclusrwydd, gwaeledd, anghywreinrwydd, iangrwydd, carbyledd, afledneisrwydd.

Homelot, *s.* bwra, gower, beili, cae o gylch ty.

Homely, *a.* (o *home*) cartrefol, cartrefaidd, cartrefig, trefig, gwladaidd, gwledig; diaddurn, syml; trwsgl, gwael, garw, anghrefftwraidd, aflednais, annhaclus, annestlus, annillyn, iang, gwerinaidd, anghoethedig, anghaboledig, anmhrydferth, anhardd, anosgeddig, anolygus, hagr, dybryd, gwrthun, anwymp, annhelediw, carbwl; heb na phryd na thegwch iddo.

Homely, *ad.*=*Homelily.*

Homelyn, *s.* math ar bysg.

Homemade, *a.* (*home* a *made*) à wnaed gartref; cartrefig, cartrefol.
Homemade commodities — nwyddau cartref, nwyddau cartrefig, nwyddau cartrefol; nwyddau à wnaed gartref.

Home-news, *s.* newyddion cartrefol; hanesion cartrefol.

Homeopathian, **Homeopathitic**, **Homeopathic**, *a.* (o *homeopathy*) cyfalnawsol, cyfalnawsaidd, cyfalnawsig, gogydnawsol, gogydnawsig, gogyfnawsaidd.

Homeopathist, *s.* cyfalnawsydd, cyfalnawswr, gogydnawswr, cyfnawsiedydd.

Homeopathy, **Homœopathy**, *s.* (Gr. *homoiopatheia*) cyfalnawsaeth, cyfalnawsedd, gogydnawsedd, gogyfnawsaeth, cyfalansoddiaeth.

Homer, **Homor**, *s.* (H.) mesur Hebräig, yn cynnwys 75 galwyn, a 5 peint.

Homespeaking, *a.* yn llefaru adref; yn llefaru yn ddigryd neu ddiarbed; yn llefaru grymus.

Homespun, *a.* à nyddwyd ac à wnaed gartref; cartrefig, cartrefol, cartrefaidd, talpentan; à wnaed gartref; diaddurn, syml; gwledig, garw, trwsgl, aflednais, difoes, diddysg, anabelaid; anwych, cyffredin.

Homespun cloth—brethyn cartref, brethyn talpentan, brethyn gwŷn talpentan, brethyn ty, brethyn garw; llian garw.

Homespun, *s.* dyn difoes, anhyfoes, cartrefol, cartrefig, neu drwsgl; anfoesyn, taiogddyn.

Homestall, **Homestead**, *s.* cartref, cartrefle, haddef; lle ty; trefred, trefad, mangre, crefan.

Homeward, **Homewards**, *ad.* (*home* a *ward*; S. *ham* a *weard*) adref, tuag adref, tua thref.

Homeward-bound, **Home-bound**, *a.* rhwym adref; rhwym tuag adref; rhwym tua thref; cartref-rwym, adref-rwym.

Homicidal, *a.* (o *homicide*) llofruddiog, llofruddiol, llofruddaidd, llawruddiog, llofrudd, llawrudd, murniol; gwaedlyd.

Homicide, *s.* (Ff. o'r Ll. *homicidium*) llofruddiaeth, llawruddiaeth, murn, lladdiad dyn, dynladdiad, galanas; llofrudd, llawrudd, un llofruddiog, un llawruddiog, lleiddiad dyn, lladdwr dyn, dynladdwr, lladdwr celain, murniwr.

Homiletic, **Homiletical**, *a.* (Gr. *homiletikos*) cyfarwedd, cyfarweddol, cymdeithasol, cymdeithgar, siaradus, cyfeillachus; pregethol; bucheddol.

Homiletic theology—duwinyddiaeth bregethol, duwinyddiaeth gyfarwedd, dwyfyddiaeth fugeiliol, duwinyddiaeth fugeiliaidd, dwyfyddiaeth weinidogol, dwyfyddiaeth fucheddol, dwyfyddiaeth gyfarweddol.

Homilist, *s.* pregethwr, pregethydd.

Homily, *s.* (Gr. *homilia*; Ff. *homélie*) pregeth, ymadrodd bucheddol, byrdraith bucheddol, homili, (*pl.* homiliau).

Hommoc, *s.* (llygriad o *hummock*, Ll. *humus*) cnol, twyn, poncyn, poncen, banc, cnwc, crugfryn.

Hommony, *s.* (gair Indiaidd) rhynion gwenith India wedi eu berwi mewn dwr.

Homocentric, *a.* (Gr. *homos* a *centron*) cymherfeddol, cymherfeddig, cymherfedd, cydgymherfedd, cydgymherfeddol, cysbellus, cysgbreiddig, cydgreiddig, cydgreiddiol, creiddiol; âg iddynt neu à chanddynt yr un canolbwynt; yn tueddu i'r un peth neu i'r un lle.

Homochromous, *a.* (Gr. *homos* a *chrôma*) cyfliwiog, cyfliwaidd, cyfliw.

Homodromous, *a.* (Gr. *homodromos*) cyfredol, cydredol, cydred, gogyfredol, gogyfred.

Homœomeric, *a.* (Gr. *homoiomeria*) cymmathranog, gogydran, cydranog, cydranol; âg iddo unrhywdeb rhanau; yn dysgu athrawiaeth unrhywdeb rhanau.

Homœomeria, *s.* cymmathraniaeth.

Homœopathic, **Homeopathic**, *a.* cyfalnawsol, cyfalnawsaidd, cyfalnawsig, gogydnawsol, gogydnawsig, gogyfnawsaidd.

Homœopathy, **Homeopathy**, *s.* (Gr. *homoiopatheia*) cyfalnawsaeth, cyfalnawsedd, gogydnawsedd, gogyfnawsaeth, cyfalansoddiaeth.

Homogamous, *a.* (Gr. *homos* a *gamos*) cydbriodol, cydbriodasol, cyfalbriod.

Homogeneal, **Homogeneous**, *a.* (Gr. *homogenès*; Ff. *homogène*) cydryw, cydrywiol, cydrywiog, gogydryw, unrhywiol, cyfrywiol, gogydrywiol, cyfnaws, cydnaws, cyfanian, cyfanianol, cydnawsaidd, cydnawsol, unnaws, gogydnaws, gogyfanian, cyttrasol, unrhyw, cyfryw, cyfunryw, hunrywiol, hunanryw, dïamrywiol; o'r un rhyw neu rywogaeth; o'r un rhyw ac anian.

Homogenealness, **Homogeneity**, **Homogeneousness**, *s.* cydrywiaeth, cyfrywiaeth, cydrywogaeth, cydrywiolaeth, cydrywioldeb, unrhywioldeb, unrhywiaeth, cydrywdeb, cydnawsoldeb, cyfanianaeth, cyfanianedd, gogydrywiaeth, hunrywiaeth, hunanrywiaeth.

Homogeny, *s.* cydanian, cydnatur, cydrywiaeth, cyfrywiaeth, hunanryw, gogydryw.

Homoioptoton, *s.* (Gr. *homoios* a *ptôtos*) cynhebygawdl.

Homoiousians, *s. pl.* (Gr. *homoiousios*) gogydhanfodiaid, cyfalhanfodiaid=enw à roid i'r Ariaid yn y 4ydd canrif.

Homologous, *a.* (Gr. *homos* a *logos*) gogymmedr, gogyfartal, gogymmeinniol.

Homonyms, *s. pl.* (Gr. *homônumos*) geiriau cyssain anghyfystyr; mwyseiriau, amwyseiriau, mwysebion, mwysogion, geiriau mwys, mwysystyron.

Homonymous, *a.* gogyfystyr; cyssain anghyfystyr; mwys, amwys, amwysol, mwyseiriol, mwysol, ammhëus; yn arwyddo amryw bethau dàn yr un enw.

Homonymy, *s.* (Gr. *homonumia*) mwysystyr, mwysedd, amwysedd, mwysder, amwysder, mwysiaith.

Homoousians, *s. pl.* (Gr. *homoousios*) cydhanfodiaid, unhanfodiaid=enw à roid i wrthwynebwyr Arius yn y 4ydd canrif.

Homophagy, *s.* (Ll. *homo*, a Gr. *phagô*) breuadaeth, bwyta dynion.

Homophonous, *a.* (Gr. *homophônos*) unseiniol, unsain, cysseiniol, gogydsain, cyfundon, cyfunllef, unllais; o'r un uchder.

Homophony, *s.* (Gr. *homophônè*) unseinedd, cydseinedd, cysseinedd, gogydseinedd, unseinedd, unsain, cydsain, gogydsain.

Homoptera, **Homopterans**, *s. pl.* (Gr. *homos* a *pteron*) gofyfadeiniaid, cyfaladeiniaid.

Homopterous, *a.* gogyfadeiniol, gogyfadeiniaidd, cyfaladeiniol; perthynol i'r gogyfadeiniaid.

Homotonous, *a.* (Gr. *homos* a *tonos*) unsain, unseiniol, cydsain, cyssain, gogydsain, gogydseiniol, cyfunsain, amhafal, o'r un sain, cyfunllais, unllais; cyfartal, cyfiol.

Homotropal, *a.* (Gr. *homotropos*) gogynhroawl, cydgyfeiriol.
Homousian, *a.* (Gr. *homousios*) o'r un hanfod, cydhanfodol, cyfhanfodol; hanfodol.
Hone, *s.* (Sw. *hen;* S. *hænan*) llymedras, hogalen ellyn, hogfaen ellyn, ellynfaen, hogalen, hogal, agalen.
Hone, *v. a.* hogi; hogi â llymedras; teg hogi.
Hone,† *v. n.* (C. *hawn ?*) edwino, dedwino, hiraethu; gwywo *neu* edwi gàn hiraeth.
Honest, *a.* (Ll. *honestus*) cyfiawn, cywir, uniawn, gonest, addwyn, didwyll, diffuant, dihoced, dinam, diragrith, diddichell, annichellgar, ffyddlawn, clau, cleufryd, gwirion, pur, teg, da, mad, rhydd; diladrad, rhydd oddi wrth ladrad, anlladradgar; o air ac enw da; diwair, dihalog; gweddaidd.
An honest man—gwr cyfiawn, gwr gonest, gwr addwyn, gwr da, cywiriad, (*pl.* cywiriaid), cywirddyn, cleuddyn.
A downright honest man — gwr cywir gonest.
Men of honest report—gwŷr da eu gair.
A right honest and virtuous woman—gwraig onest rinweddol.
An honest fellow—dyn ymddiriedus; dyn gonest.
A very honest fellow—dyn tra gonest; un ymddiriedus iawn, un ymddiriedgwbl.
Honest things—pethau gonest, pethau da.
That which is honest—yr hyn sy dda; yr hyn sy rinweddol.
As became his most honest education—fel y gweddai i'w rinweddol fuchedd.
Not honest—anonest, anghyfiawn.
To make honest — gonestu; gwneyd yn gyfiawn, &c.
Honest,† *v. a.* addurno, harddu.
Honestate,† *v. a.* anrhydeddu, edmygu.
Honestation,† *s.* addurniad, harddiad, addurn.
Honestly, *ad.* yn gyfiawn, &c.
Honesty, *s.* (Ll. *honestas*) gonestrwydd, uniondeb, unionder, uniondra, cyfiawnder, cywirdeb, cywirdra, cywiredd, addwynder, addwyndra, tegwch, iawnder, didwylledd, purdeb, dinamedd, diladradedd.
Honesty is the best policy—goreu cyfrwysdra gonestrwydd; goreu nawdd diniweidrwydd; cywirdeb yw y callineb goreu.
Without honesty—yn anonest.
Honesty, *s.* gonestlys.
Honewort, *s.* githran, githrog, githrag.
Honey, *s.* (S. *hunig;* Al. ac Is. *honig*) mêl; melusder.
My honey—fy anwylyd, fy nghalon anwyl, fy ngwir galon; fy mêl.
Clarified honey — mêl ter, mêl teredig, terfel.
Sweet as honey—fel y mêl yn felus; melus fel y mêl; fel y mêl; melusber.
To sweeten with honey—melu; melusu â mêl; melusu; rhoi, dodi, *neu* fwrw mêl yn mheth.
Live honey, } mêl pur digymmysg; mêl
Virgin honey, } megys y dyferodd o'r diliau; mêl y gynhaid *neu* gyntaid; mêl y gwenyn ieuainc.
To gather honey — mela, melota, casglu mêl.
Full of honey — melog, melain, melaid, llawn mêl.
Of honey, } o fêl; perthynol i
Belonging to honey, } fêl; yn perthyn *neu* berthynu i fêl; melus, melaidd.
Honey-pore — meldwll, twll mêl (mewn blodyn).
Honey-scales—melgen.
Honey-spots—melfanau, ysmotiau mêl.
A flowing of honey—melred, melrediad.
A honey tongue, a heart of gall—angel pen ffordd a diawl pen tân; mêl ei dafod, bustl ei geudod.
Honey,† *v. a.* melu, melusu, meluso; gwenieitho, glafru.
Honey-bag, *s.* melgod, melgoden, melgwd, cod y mêl, cylla gwenynen.
Honey-bear, *s.* melarth=y Potto.
Honey-berry, *s.* melrawn, melfagon, melfacon, melaeron.
Honey-buzzard, *s.* bod y mêl, bwncath y mêl.
Honeycomb, *s.* dil mêl, crwybr, cwybr, melgell, melgorn, crib.
Cell of a honeycomb—melgell, melgorn.
A little honeycomb—dilyn mêl, melgellan.
Honeycombed, *a.* melgellog, melgorniog.
Honey-cup, *s.* melgib, melgell blodau, cwpan mêl.
Honeydew, *s.* melgafod, melgawod, melgawad, melwlith, cawod fêl, cafod fêl.
Honeyed, *a.* melog, melain, melaid; melus, melusber, melusig, peraidd, hyfryd; llwythog gàn fêl; cymmysgedig â mêl; tafodber, gwenieithus, llithiog.
Honey-flower, *s.* melflodyn, melflodeuyn; blodau y gwynwydd.
Honey-gnat, *s.* mel-wibedyn, mel-wiban, gwibedyn y mêl.
Honey-guide, *s.* melgog, cog y mêl=math o gwcw, à geir yn Affrig, yr hon a arwain ddynion at nythod o fêl gwyllt.
Honey-harvest, *s.* mel-gynnull, mel-gasgl, melgynauaf, cynhauaf mêl.
Honeyless, *a.* difel, heb fêl; difwyn.
Honey-locust, *s.* melddraenen; *pl.* melddrain.
Honey-moon, } *s.* mis yr afiaeth, y mis difyr,
Honey-month, } y lleuad fêl, melfis, mis mabiaith; y mis cyntaf ar ol priodi.
Honey-mouthed, *a.* meleneu, meldafodiog, meldafod, tafodber, tafodlyfn, mwyndafod; â geneu mêl iddo; geirber, melusieithog; mwyn ei ymadrodd.
Honey-stalk, *s.* melgoes, meillflodyn.
Honey-stone, *s.* melfaen.
Pertaining to honey-stone—melfeinin, melfeinig.
Honey-suckers, *s. pl.* melsugnyddion.
Honeysuckle, *s.* gwyddfid, gwynwydd, melog, gwyddwydd, crydnydd, sugn y geifr, llaeth y geifr, tethau y gaseg.
Honeysuckled, *a.* gwyddfidog, gwynwyddog; llawn gwyddfid, &c.
Honey-sweet, *a.* fel y mêl yn felus; fel y mêl; mòr felus a'r mêl; melusber, melusig, melfaws.
Honey-tongued, *a.* meldafodiog, meldafod, meleneu, tafodber, mwyndafod, tafodlyfn; geirber, geirfelus; yn arfer geiriau teg.
Honeywort, *s.* llysiau y mêl.
Hong, *s.* cymdeithas o fasnachwyr Chineaidd yn Canton, i'r rhai yn unig gynt y perthynai y rhagorfraint i drafnidio âg Ewropiaid.
Honied, *a.*=*Honeyed.*

Honiedness, *s.* melogrwydd, melusogrwydd, melusder, melusni; llithiogrwydd.

Honorary, *a.* (Ll. *honorarius*) mygedol, myged, mygedog, anrhydeddus, cymriol, urddasol, briaidd; à wneler er urddas *neu* anrhydedd yn unig; à rodder er urddas *neu* anrhydedd yn unig.

Honorary degree — gradd fyged, gradd fygedol, mygedradd.

Honorary gift—rhodd fyged, rhodd fygedol, mygedrodd, cyfarwys.

Honorary members—aelodau mygedol, aelodau anrhydeddus.

Honorary, *s.* mygobrwy, mygedrodd, gwobr mygedol, gwobr myged, tâl mygedol.

Honour, } *s.* (Ll. *honor, honos*; Ff. *honeur*) an-
Honor, } rhydedd, enrhydedd, parch, bri, urddmiant, arddmiant, urddoniant, erbarch, cymriedd, cymmyredd, cymmyraeth, cymmyred, edmygedd, myged, mygredd, enw, clod, gair da, edmyg, ermyg, ceinmyged, urddas, urddiant, cyfrif; uniondeb, cleuder, cleufrydedd, gonestrwydd; diweirdeb; syberwyd; addurn, harddwch, prydferthwch, gogoniant; anrhydeddau, anrhydeddiaeth, arlwyddiaeth; ffaw; mawrfrydedd.

A man of honour—gwr cleufryd, gwr addwynfryd, gwr o anrhydedd, gwr urddasol, gwr anrhydeddus; gwr ni wna ond yr hyn a fyddo cymhwys ac addwyn er achub ei einioes.

A lady of honour—pendefiges urddasol.

Maids of honour—llawforwynion y freninesa; morwynion mygedog, morwynion mygedol, llawforwynion myged, parchforwynion.

To do one honour—anrhydeddu un; gwneuthur anrhydedd i un; rhoddi anrhydedd i un; parchu un.

Titles of honour—enwau urddas, urddenwau, enwau urddasol.

To do the honours—gwneuthur gweithredoedd o foesgarwch; gwneyd y moesau; gwneyd y moeswychderau; gwneuthur mynogaeth.

To be had in honour of—bod mewn parch gyda *neu* gàn; cael ei anrhydeddu gàn *neu* gyda; cael ei barchu gàn *neu* gyda; cael ei berchi gàn *neu* gyda; cael ei egoneddu gàn *neu* gyda.

The seat of honour—cader anrhydedd, cader gogoniant.

To have the honour of the second place in the kingdom—cael yr ail anrhydedd yn y deyrnas.

Without honour—dianrhydedd, anmharchus, dibarch, diurddas, dibris.

Honour (at cards)—carden fraith, sethlen fyg.

Honours — anrhydedd; anrhydeddau; gweithredoedd o foesgarwch.

Without honour—dibarch, dianrhydedd.

Court of honour — llys anrhydedd; llys marchogradd.

Laws of honour—cyfreithiau anrhydedd, mygreithiau.

On *or* upon my honour—ar fy anrhydedd; myn fy anrhydedd; ar fy llawgair.

An affair of honour — pwnc o anrhydedd, mater o anrhydedd, amgylchiad o anrhydedd; dadl à benderfynir drwy ornest.

Debts of honour—dyledion anrhydeddus, dyledion o anrhydedd; dyledion à dyner ac à daler yn unig ar seiliau anrhydeddus.

Fame and honour—clod ac enrhydedd, clod ac edmyg.

Deserving honour — haeddbarch, gwiwbarch; teilwng o anrhydedd.

I have the honour to be—mae genyf yr anrhydedd i fod; mae i mi yr anrhydedd i fod; mae genyf yr anrhydedd o fod.

As became his age, and the honour of his grey head—megys y gweddai i'w oedran, a'i wallt llwyd parchedig (2 *Mac.* vi. 23).

Honour, } *v. a.* anrhydeddu, enrhydeddu,
Honor, } parchu, perchi, gorpherchi, edmygu, ceinmygu, cymmyreddu, ermygu, arddun, urddasu, urddoni, urddo, mawrhau, cymmyru, brio, cymrio, anrhydeddocäu; dangos, talu, rhoddi, *neu* wneuthur anrhydedd i; dangos, talu, rhoddi, *neu* wneuthur parch i; talu urddas i; addoli; gogoneddu, addurno; cymmeradwyo.

To honour a bill of exchange—cymmeradwyo dyl cyfnewid; dilysu dyl cyfnewid; anrhydeddu llythyr cyfnewid; talu dyl cyfnewid; derbyn dyl cyfnewid yn gymmeradwy.

To honour with some order *or* degree—urddo; urddasu, urddoni; anrhydeddu â gradd *neu* urdd.

Who also honoured us with many honours—y rhai hefyd a'n parchasant ni â llawer o urddas.

Honourable, } *a.* (Ll. *honorabilis*; Ff. *honor-*
Honorable, } *able*) anrhydeddus, enrhydeddus, urddasol, parchus, parchedig, parchadwy, gwiwbarch, haeddbarch, hybarch, anrhydeddog, enrhydeddog, cymriol, edmygol, mygedog, myged, myg; urddedig; hyglod, ardderchog, godidog; mawr, mawreddog, uchelradd, pendefigaidd; boneddigaidd, cleufryd, rhieddog.

Right honourable — gwir anrhydeddus, gwirfyg.

Honourable men—gwŷr anrhydeddus, &c.; dyledogion, mygedogion, anrhydeddusion, anrhydeddogion, pendefigion.

Honourable women — gwragedd anrhydeddus, &c.; pendefigesau, dyledogesau.

Worthy of honourable memory — yn haeddu cof ardderchog; gwiw *neu* deilwng o gof anrhydeddus.

Honourableness, } *s.* anrhydedddusrwydd, en-
Honorableness, } rhydedddusrwydd, parchusrwydd, urddasolrwydd, edmygrwydd, hybarchedd, &c.

Honourably, } *ad.* anrhydeddus, &c.; mewn
Honorably, } modd anrhydeddus, mewn anrhydedd, gydag anrhydedd.

Honoured, } *p. p.* yn anrhydeddedig, &c.; an-
Honored, } rhydeddog, urddol, urddog, urddain, madiain; cymmeradwy.

Honourer, } *s.* anrhydeddwr, enrhydeddwr,
Honorer, } parchwr, parchydd, gorpherchydd, perchydd, urddaswr.

Honouring, } *s.* anrhydeddiad, enrhydeddiad,
Honoring, } parchiad, gorpherchiad, rhoddiad anrhydedd.

Honourless, } *a.* dianrhydedd, dienrhydedd, di-
Honorless, } barch, anmharchus, difri, dibris, diurddas.

Hood, *s.* (S. a C. *hod*) cwfl, cwcwll, hwf, hod,

hotan, hwd, cwflen; hug, mwgwd; penguwch, penwisg, gorchudd.
A hawk's hood — hug . gwalch, mwgwd gwalch.
Monk's hood—cwfl y mynach.

Hood, *v. a.* cycyllu, mygydu; gwisgo cwfl, &c.; gwisgo â chwfl, &c.; rhoi *neu* ddodi mwgwd ar; gorchuddio; dallu.

Hooded, *a.* cycyllog, cwfliedig, cycylledig, hwfog, hodog; â hug *neu* fwgwd arno.
She went out hooded and scarfed—hi a aeth allan yn ei hwf a'i hysgablar.
Hooded milfoil—chwysigenwraidd, chwysigwraidd.

Hoodless, *a.* digwfl, digwcwll, difwgwd, diorchudd.

Hoodman Blind,† *s.* bwbach dallan, mwgwd y dall, mwgwd y ieir, bwmbwr.

Hoodwink, *v. a.* (*hood* a *wink*) mygydu; enhuddo, cuddio, *neu* orchuddio llygaid; bwmbro; rhoi gorchudd ar lygaid; dallu, cuddio, gorchuddio, twyllo.

Hoof, *s.* (S. a Sw. *hof;* Al. *huf*) carn, bau, ewin, carnewin, ewingarn.
A young and tender hoof—gorewin.
Having a hollow hoof, } carngragen.
That has a hollow hoof, }
The hollow of the hoof—gwennol y carn.
The tender *or* inner part of the hoof—mabgarn, mwydion y carn.
Bony hoof—carn esgyrnog.
The fore part of the hoof—carnewin.
Having hoofs—carnog, carniog, carnol.
Formed like a hoof—carnaidd.

Hoof, *v. n.* carnio; cerdded.

Hoof-bound, *a.* carnrwym, ewinrwym, rhwym ei garnau.

Hoof cast, *a.* carn-goll; wedi bwrw ei garnau.

Hoofed, *a.* carnog, carniog, carnol; ewinog.
Round-hoofed—carngrwn, crwn ei garn, beugrwn.
Hoofed animal—ceirniad, carnwyd, anifail carnog: *pl.* carnolion, carnogion, ceirniaid, carnwydon.

Hoofless, *a.* digarn, angharnol.

Hoof-loosened, *a.* carnrydd.

Hoof-tread, *s.* carnial, carndrawd, trawd carn; ol, brisg, ol traed.

Hook, *s.* (S. *hoc;* Is. *haak*; Al. *haken*) bach, bachyn, crybach, crwbach, hwg, crwcyn; cryman; craff, creffyn; caff, gafael, mantais; magl, telm.
Reaping hook—cryman, cryman medi, gylyf: *dim.* crymenyn.
Weeding hook—chwynogl, bach chwynu.
Pot-hooks—bachau crochan.
Grappling hook—tynfach, gafaelfach, dalfach, crap.
Fishing hook—bach pysgota.
The fin, barb, *or* beard of a fishing hook—adfach, gwrthfach.
Hook and eye—bach a llygad; bach a dolen; crwcyn a meilyn; bach a derbyniad.
Tenter hook—bach deintyr, gwanas.
Pruning hook—cryman ysgythru, gwyddif, gwddi, gwyddi bach.
Hook and butt—bach a bauol.
Hook of a door—bach drws, colyn drws, colfach drws.
Off the hooks—oddi ar y bachau; cael ei aflonyddu; cael ei annhrefnu; bod allan o hwyl *neu* dymmer.
To catch with a hook—bachu, dyfachu; dàl â bach.
Chariots armed with hooks — cerbydau bachog (2 *Mac.* xiii. 2).

Hook, *v. a.* bachu, dyfachu; dàl â bach; dàl, baglu, maglu, bachellu, byddaglu; plygu, camu.
To hook in—maglu, byddaglu, bagiu; tynu *neu* ddyrwyn i mewn.
To hook on—bachu ar; bachu; cyssylltu *neu* gydio wrth; bachu yn nghyd.
To hook together—cydfachu, bachu yn nghyd.
He is hooked as sure as can be—daliwyd ef yn ddïau.

Hookah, } *s.* (gair dwyreiniol) mygwybib=
Hooqqu, } pibell fyglys Dyrcaidd, yn yr hon y perir i'r mwg fyned drwy ddwfr er ei oeri.

Hooked, *a.* bachog; cam, crwca, dolystumiog, cyrfog, hwced, hwca; adfachog; â bachau arno *neu* iddo; bachedig.
Hooked chariot—cerbyd bachog.
To make hooked—plygu yn fach, &c.; camu, bachu.
Hooked nose—trwyn crwca, trwyn bachog, trwyn hwced, trwyn cam, trwyn bwa.

Hookedness, *s.* bachogrwydd; camder, cemi, camedd, camni, gwyrgemi, crwcanedd, bachedigrwydd.

Hooker, *s.* (Al. *hucker*) math o long briodol i'r Iseldiroedd.

Hooknosed, *a.* trwyn-grwca, trwyn-gam, trwyngrwm, trwynbwa, trwynfachog; â thrwyn crwca iddo.

Hooky, *a.* bachog, bachaidd, bachol.

Hoop, *s.* (Is. *hoep*, *hoepel*) cylch, cant, cylchyn; modrwy; peisgylch.
Lady's hoop—peisgylch, peisgant, cylch boneddes.
Clasp-hoop—clymgant hwylbren, clymgylch hwylbren.
A little hoop — cylch bychan, cylchig, cylchyn, cylchen.
A hoop of gold—modrwy aur, eurgylch.
Hoop-ash—cylchonen.

Hoop, *v. a.* cylchu, cantio; amgylchu, cylchynu, amglymu.

Hoop, *v.* (S. *heafian*, *heofian*, *hweopian*) gwaeddi, bloeddio, banllefain, crochlefain, garmio, crochalw, galw; gyru dàn waeddi *neu* floeddio hwi.
To hoop like an owl—gwaeddi *neu* ganu hwhw; lleisio fel dylluan.

Hoop, *s.* (Sw. *hof*) y gopog.

Hooper, *s.* cylchwr, cylchydd, cylchur, cylchlestrwr.

Hooping-cough, *s.* pas, y pas.

Hoopoe, } *s.* (Ff. *huppe;* Ll. *upupa;* Gr. *epops*)
Hoopoo, } copog, y gopog.

Hoot, *v.* (C. *hwt*, *hwd*, *hwtio*) hwtio, hwtian, gwaeddi hwt; drygnadu, ffeio, migio, micio, migian, garmio; lleisio fel dylluan; gwaeddi *neu* ganu hwhw.

Hoot, *s.* hwt, mig, hwtwaedd, hwta; hw, hwhw.

Hooting, *s.* hwtiad, hwtwaeddiad, migiad, miciad; hwt, hwtwaedd; hw, hwhw.
Hooting owl—dylluan fig.
The hooting of an owl—hwhw, hw, hwtiad dylluan.

Hop, *v. n.* (S. *hoppan;* Al. *hüpfen;* D. *hopper*) llamu, llemain, golamu, golemain, go-

neidio, darneidio, crychneidio, darlamu, dylamu, neidio, hobelu, hwbian; hecian, hercian, clunhecian, llamu ar y neill-droed, llamu ar y neill-glun; adlamu, dadlamu, rhoi adlam, taagu; dawnsio; rhonta.

Hop, *s.* llam, naid, golam, gonaid, darnaid, darlam, dylam, hobel, llwf, hwb; hec, heg, herc, llam untroed, llam â'r neill-droed, llam ar y neill-glun; dawns, goddawns, darddawns, darchware.

Hop, skip, and jump—herc, a cham, a naid; hwb, a cham, a naid.

Hop, *s.* (Is.; Al. *hopfen*) pensag, pensoeg, llewyg y blaidd, hopys: *dim.* hopysyn, hopysen.

To pick hops—hopysa, pigo pensag, hel hopys.

To impregnate with hops—hopysu, pensagu, hopyso; rhoi pensag *neu* hopys mewn peth.

Hop, *v.* pensagu, hopysu, hopyso, hopysa.

Hopbind, *s.* pensagrwym, hopysarwym, coes pensag; y callodryn y tyf pensag arno.

Hope, *s.* (S. *hopa;* Ia. *hoop*) gobaith, gwobaith; goglud, gofynag, gofynaig, ymddiried, hyder, dysgwyliad.

To have hopes of—bod â gobaith o *neu* am; bod gân un obaith o *neu* am.

To have hope in, } gobeithio yn; bod â
To hope in, } gobaith yn; ymddiried yn *neu* mewn.

To hang in hope—ymddibynu wrth obaith; bod yn bwhwman *neu* ansicr yn ei obaith.

Past hope—tu hwnt i bob gobaith; allan o bob gobaith; anobeithiol, dïobaith.

To conceive hopes—cael o un ei feddiannu gân obaith; profi gobaith yn ymgodi ynddo; tyfu *neu* fyned mewn gobaith; cael gobeithio; cael lle *neu* sail i obeithio.

To be in hope—gobeithio; bod mewn gobaith; ymddiried, hyderu.

Forlorn hope—tamaid angeu; antur anobeithiol; enbydlu, enbydrawd=myntai o filwyr â oeoder ar y gorchwylion enbytaf.

Prisoners of hope—carcharorion gobeithiol.

When they were in no hopes to attain—pan nad oedd ganddynt mo'r gobaith y cyrhaeddent.

It is past all hope—deryw *neu* darfu pob gobaith am dano; nid oes gobaith am dano mwy; nid oes gobaith o hono mwy.

I have great hopes of him, } y mae genyf
I have good hopes of him, } fi obaith da *neu* gryf am dano.

I have very great hopes of that, } yr wyf
I am in great hopes of that, } mewn gobaith cryf *neu* fawr iawn o hyny; yr wyf mewn gobaith mawr *neu* gryf iawn mai felly y bydd; yr wyf yn fawr *neu* gryf iawn fy ngobaith am *neu* o hyny.

I have great hopes that it will come to pass—y mae i mi obaith cryf y daw i ben; y mae genyf obaith cryf y daw i ben; y mae fy ngobaith yn gryf y daw i ben.

He had firm *or* unshaken hopes of eternal glory—yr oedd efe mewn sicr obaith o'r gogoniant tragywyddol.

They conceived hopes of recovering their liberty—meddiannwyd hwy gân obaith o gyrhaedd eu rhyddid drachefn; meddiannwyd hwynt gân obaith y caent *neu* y cyrhaeddent eu rhyddid drachefn.

To be out of hope—bod yn ddïobaith; bod tu hwnt i obaith.

Hope, *v.* gobeithio, gwobeithio; gobeithio am; bod mewn gobaith; hyderu, ymddiried, dysgwyl.

To hope for—gobeithio am, gobeithio.

To hope in—gobeithio yn; bod â gobaith yn; ymddiried yn *neu* mewn.

Hoped for—gobeithiedig, gwobeithiedig; y gobeithiwyd *neu* y dysgwyliwyd am dano.

That may be hoped for—gobeithiadwy, gwobeithiadwy, gobeithiol; â ellir ei obeithio; dysgwyliadwy.

Things hoped for—y pethau yr ydys yn eu gobeithio; y pethau y gobeithiwyd am danynt. [oedd.

Hope,† *s.* llechwedd rhwng trumiau mynydd.

Hope-deserted, *a.* dïobaith.

Hopeful, *a.* gobeithiol, gobeithlawn, gwobeithiol, gobeithiog, gobeithfawr, llawn gobaith, llawn gwobaith, gobeithus; da y gobaith *neu* yr argoel am dano; llawn gobaith am; llawn ei obaith am; hyderus, golygus; athrylithus, athrylithgar.

Hopefully, *ad.* yn obeithiol, &c.

Hopefulness, *s.* gobeithiolrwydd, gobeithioldeb, gobeithlonrwydd, gobeithlondeb, gobeithusrwydd, gobeithfawredd, &c.; hyder; golygusrwydd.

Imbalm, *v. a.*=*Embalm.*

Imban, *v. a.* (*im* neu *in* a *ban*) cegymuno (mewn ystyr gwladol); amddifadu o freintiau cyffredin dynoliaeth.

Imband, *v. a.* (*im* a *band*) byddino, mynteio; gwneuthur yn fyddinoedd, yn dorfoedd, *neu* yn fynteioedd; llunio yn dorf *neu* fyddin.

Imbank, } *v. a.* (*in* neu *en* a *bank*) argloddio,
Embank, } amgloddio, cloddio, byrchio,

ebyrnu, gobio; amgau *neu* argau â chlawdd; amgau, argau.

Imbanking, } *s.* argloddiad, amgloddiad, clodd-
Embanking, } iad, byrchiad; codiad clawdd, bwrch, *neu* argae.

Imbankment, } *s.* argloddiad, amgloddiad,
Embankment, } cloddiad, byrchiad, gobiad; arglawdd, argae, gob, bwrch, ebyrn.

Imbannered, *a.* (o *banner*) banerog, banierog, llumanog.

Imbargo, *s.*=*Embargo.*

Imbargo, *v. a.*=*Embargo.*

Imbark, *v.*=*Embark.*

Imbarn, *v. a.* (o *barn*) ysgubori, gosod mewn ysgubor.

Imbarren, } *v. a.* (o *barren*) diffrwytho, an-
Embarren, } ffrwythloni; gwneyd yn ddiffrwyth *neu* anffrwythlawn.

Imbase, *v. a.*=*Embase.*

Imbastardize, *v. a.* (o *bastardize*) basdarddu, bastarddio.

Imbathe, *v. a.* (o *bathe*) llwyr drochi, amdrochi, damdrochi; trochi, baddo, *neu* olchi drosto i gyd.

Imbattled, *a.*=*Embattled.*

Imbecile, *a.* (Ll. *imbecilis;* Ff. *imbécile*) gwàn, egwan, gwanaidd, dinerth, dirym, lleg, eiddil, diallu, llyferthin, gwanllyd, llesgar, llegach, llegus, llyth, gwecry, pilaid, analluog, analluol; gwan o gorff, gwàn o feddwl; penwan.

Imbecile, } † *v. a.* gwanhau, gwanychu, di-
Imbecilitate, } nerthu, egwanu.

Imbecility, *s.* (Ll. *imbecilitas*) gwendid, gwander, egwander, llesgedd, annerth, annerthedd, eiddilwch, dinerthwch, anallu, analluedd, dialluedd, egwanaeth, eiddiledd, eiddildra, llesgarwch, methiant, llythiant, analluogrwydd; gwendid corff; gwendid meddwl, gwanbwyll, penwendid.

Imbed, *v. a.* (*in* neu *im* a *bed*) rhoi *neu* osod mewn gwely; daiaru, soddi; gwelyo.

Imbellic, *a.* (Ll. *imbellis*) anrhyfelgar, afryfelgar, anfilwraidd.

Imbenching, *s.* (o *bench*) meinciad, meincwaith; gwaith wedi ei godi fel mainc.

Imbibe, *v. a.* (Ll. *imbibo;* Ff. *imbiber*) sugno, llyncu, derbyn, tynu ato; yfed, cymmeryd, *neu* sugno i mewn; yfed, cymmeryd, *neu* sugno iddo; yfu, yfed, sugo, tarnu; derbyn a chadw; dysgu.

To imbibe good principles—ymseilio mewn egwyddorion da.

Imbiber, *s.* sugnwr, sugnydd, llynowr, llyncydd, eddeifniad.

Imbibing, } *s.* sugnad, llynciad, yfad, tarniad,
Imbibition, } sugad; derbyniad.

Imbitter, *v. a.* (*im* a *bitter*) chwerwi, trachwerwi, gorchwerwi, peri chwerwi, bustlo.

Imbitterer, *s.* chwerwydd, trachwerwydd.

Imbody, } *v. a.* corffori, corffoli, cydgorffori,
Embody, } cydgorffoli, cynghorffori, crynöi, cydgynnull, uno; cymherfeddu; tewychu, tochi.

Imbolden, } *v. a.* hyfhau, cryfhau, calonogi,
Embolden, } cefnogi, gwroli; gwneuthur yn hyf; rhoi arial, calon, *neu* yni yn; rhoi arial, calon, *neu* yni mewn; rhoi calon; eoni, hyfiadu.

Imbonity,† *s.* (Ll. *in* a *bonitas*) annaioni, diffyg daioni.

Imborder, *v. a.* (*in* a *border*) ymylu, eirionynu, hemio, cyriogi; harddu âg ymylwaith; ffinio, terfynu.

Imbosk, *v. a.* (It. *imboscare*) cuddio, celu, dylechu, techu.

Imbosom, *v. a.* monwesu, mynwesu, cofleidio, caredigo; rhoi *neu* ddodi yn mynwes; cuddio, celu; amgylchu, amgylchynu.

Imbound, *v. a.* amgau, argau, cylchynu, cylchu; cau i mewn; cau o fewn terfynau.

Imbow, } *v. a.* bwäu, mydu, nenfydu, gwneuth-
Embow, } ur yn fwa, cromnenu, crymweithio.

Imbower, } *v. n.* celyddu; bod mewn deildy,
Embower, } cysgotty, *neu* wasgodlwyn; ymguddio *neu* ymgelu mewn deildy.

Embowment, *s.* bwa, mwd, mwdd, cromnen.

Imbox, *v. a.* blychu, cistio; cau *neu* roi mewn blwch; caesu.

Imbrangle, *v. a.* dyrysu, nidro, afrwyddo, methlu.

Imbreed, *v. a.* hilio, epilio, magu, *neu* genedlu oddi mewn.

Imbricate, } *a.* (Ll. *imbricatus*) crombeithyn-
Imbricated, } aidd, cafnbeithynaidd; ar ddull peithynau; yn gorwedd y naill dros y llall fel llechau *neu* beithynau ar ben ty.

Imbrication, *s.* peithyniad, peithynawd, crombeithyniad, cafnbeithynawd; bwlch ceuol, ceufwlch.

Imbroglio, *s.* (It.) cymhlethawd; traffaith cymhleth rhamant *neu* chwaryddiaeth.

Imbrown, *v. a.* llwydo; tywyllu, gwyllu, gyrmu, llwydwineuo; melynu; peri yn felynddu.

Imbrue, *v. a.* (Gr. *embrechô*) trochi, gwlychu, mwydo, sicio, tochi, swgio; trochi mewn gwaed; †heilio dïod.

They imbrued their hands in blood—trochasant eu dwylaw mewn gwaed; halogasant eu dwylaw â gwaed.

Imbrute, *v.* (*in* a *brute*) anifeleiddio, mileiddio, anifeileiddio, anifeilhau; gwneuthur yn anifail; myned yn anifail, ymanifeleiddio.

Imbue, *v. a.* (Ll. *imbuo*) tryliwio, tryliwo, dyfnliwio, dwfn liwio, lliwio, lliwo; rhoi dyfnliw i; ystaenio; mwydo, trwytho, nawsio, trynawsio; peri greddfu yn; athrawiaethu, egwyddori, hyfforddio, hyfforddi, athrawu, dysgu, addysgu, meithrin; peru sugno, llyncu, *neu* gymmeryd.

Imbument, *s.* tryliw, tryliwiad, tryliwad, dyfnliwiad, lliwiad.

Imburse, *v. a.* cyflenwi *neu* ddiwallu âg arian; talu, costio, dwyn cost, dwyn traul; cyttrysori, cyd-drysori.

Imbursement, *s.* taliad, tâl, cost, traul; arian mewn trysorfa.

Imbution, *s.* tryliwiad, tryliwad, dyfnliwiad, lliwiad, lliwedigaeth; mwydiad, trwythiad.

Imitability, *s.* (o *imitable*) efelycholdeb, dynwaredoldeb, eilfyddadwyaeth, efelychadwyaeth, efelychedd; dichonoldeb efelychu *neu* ddynwared; bod peth yn ddynwaredadwy *neu* efelychadwy.

Imitable, *a.* (Ff.; Ll. *imitabilis*) efelychadwy, hefelychadwy, dynwaredadwy, canlynadwy, dylynadwy, arddulliadwy; à ellir ei efelychu, ei ddynwared, *neu* ei ganlyn; dylynwiw, teilwng o efelychiad.

Imitate, *v. a.* (Ll. *imitor*) efelychu, hefelychu, dynwared, hefelyddu, efelyddu, eilfyddu; dylyn, canlyn, arddullio, tebygu, cyffelybu; gwneuthur fel y gwna *neu* y gwnaeth arall; gwneuthur ar ol arall; ffugio, ffuantu, rhithio;

cydymagweddu â *neu* âg; gwneuthur cyffelyb i; gwneuthur cyffelyb, gwneuthur eilun.
To imitate the Greeks — Groegeiddio; dynwared y Groegwyr; efelychu y Groegiaid; gwneuthur fel y gwnaeth y Groegiaid.

Imitation, *s.* (Ff.; Ll. *imitatio*) efelychiad, hefelychiad, dynwarediad, efelyddiad, eilfyddiad, hefeliad, arddulliad, efelychedigaeth, hefelychedigaeth, tebygiad, canlyniad, dylyniad, dynwared; rhith.

Imitative, *a.* efelychol, hefelychol, hefelyddol, eilfyddol, eilfyddog, efelychiadol, hefelychiadol, dynwaredol, dynwaredigol, arddulliog; dynwaredgar, efelychgar, hefelyddgar; tueddol i efelychu; yn ymgais at efelychu.

Imitator, *s.* efelychwr, hefelychwr, efelychydd, hefelychydd, dynwaredwr, dynwaredydd, arddulliwr, eilfyddwr.

Imitatorship, *s.* efelychyddiaeth, efelyddiaeth; swydd *neu* sefyllfa efelychwr.

Immaculate, *a.* (Ll. *immaculatus*) difrycheulyd, difrychau, difrych, difan, dihalog, dilwgr, dinam, difai, difeft, dïanaf, dïamliw; pur, glwys, glân, purlan; addwyn; dïenllib, dïogan, dihort.

Immaculateness, *s.* purdeb difrycheulyd, difrycheulydrwydd, difrychedd, dihalogrwydd, dinamedd; purdeb, glendid, puredd, glwysder.

Immailed, *a.* (o *mail*) llurigog.

Immalleable, *a.* anforthwyliadwy; nas gellir ei forthwylio.

Immanacle, *v. a.* gefynu, hualu, llyffetheirio, cloffrwymo; caethiwo, rhwymo, dargaethu.

Immanation, *s.* dylifad, ffrydiad, *neu* fynediad i mewn.

Immane, *a.* (Ll. *immanis*) dirfawr, gorfawr, enfawr, erfawr, amrosgo, anferthol; creulawn.

Immanency, *s.* tufewnolrwydd, tufewnoldeb, mewnoldeb, cynhenidrwydd, cynnwynoldeb, mewndrigiant.

Immanent, *s.* (Ll. *in* a *manens*) tufewnol, mewnol, oddi fewn, o'r tu mewn; cynhenid, cynnwynol; hanfodol, priodol, priod, anianol, naturiol.

Immanifest, *a.* anamlwg, aneglur, ammheuol.

Immanity, *s.* (Ll. *immanitas*) creulondeb, creulonedd, creulonrwydd, dïeidd-dra, annynoliaeth; anferthedd.

Immanuel, *s.* (H.) Immanuel, Emmanuel; Duw gyda ni.

Immarcessible, *a.* (Ll. *in* a *marcesco*) anniflanol, anniflan, annifan, anedwin, anniflanedig, diddiflanedig, anhywyw, anllygradwy, anllygredig.

Immarginate, } *a.* dïymyl, heb ymyl; dad-
Emarginate, } ymylog, dadymyledig.

Immartial, *a.* anrhyfelgar, anrhyfelus, afryfelgar, anfilwraidd, anwraidd.

Immask, *v. a.* mygydu; cuddio, celu, huddo, gorchuddio; ffugio.

Immatchable, *a.* digymhar, anghymharol, anghymharadwy.

Immaterial, *a.* (Ff. *immatériel*; *in* a *material*) annefnyddiol, diddefnydd, diŷlwedd, ansylweddol, diŷlweddol; na wnaed o ddefnydd; anghorfforol, digorff, digorfforol; ysbrydol; dibwys, diwerth, ysgafn, ddiddym, gwael.

Immaterialism, *s.* annefnyddiodraeth, annefnyddiaeth, ansylweddiaeth, ansylweddoliaeth; anghorffeg.

Immaterialist, *s.* annefnyddiawdr, annefnyddiawdwr, annefnyddiolwr.

Immateriality, *s.* annefnyddioldeb, annefnyddiolrwydd, annefnyddiolder, ansylweddoldeb, ansylweddolrwydd, anghorffoldeb, anghorffolaeth.

Immaterialness, *s.* annefnyddioldeb, annefnyddiolrwydd, annefnyddiolder.

Immateriate, *a.* annefnyddiol, ansylweddol, diddefnydd, diŷlweddol, anghorfforol.

Immature, *a.* anaddfed; cyn ei amser, cyn yr amser, rhy gynnar, rhygynnar; anmhrydlawn, annhymmoraidd, anamserol; byrbwyll, anymaröus; anmherffaith; anaddas; anhaw.

Immatured, *a.* anaddfed; rhygynnar; anmhrydlawn, annhymmoraidd.

Immatureness, } *s.* anaddfedrwydd, anaddfed-
Immaturity, } wch; anmhrydlonedd, annhymmoreiddrwydd, anamseroldeb; rhygynnarwch, anhawedd; anmherffeithrwydd.

Immeability, *s.* (Ll. *in* a *meo*) anhydreiddrwydd, anhydreiddwch, anhydreiddedd, anhydrwyedd, anhydreiddioldeb, annhreiddioldeb.

Immeasurable, *a.* anfesuradwy, anfesurol, difesur, tra mesur, tu hwnt i fesur; anfeidrol, gorfawr.

Immeasurableness, *s.* anfesuroldeb, anfesurolrwydd, anfesurolder, anfesuredigaeth, anfesuri.

Immeasurably, *ad.* yn anfesuradwy, &c.; tu hwnt i fesur.

Immeasured, *a.* anfesuredig, difesur, anfesurol.

Immechanical, *a.* anallofyddol; anghysson â gallofyddiaeth.

Immediacy, *s.* (o *immediate*) anghyfryngaeth, anghyfryngdod, annibyndod.

Immediate, *a.* (Ff. *immédiat*; Ll. *in* a *medius*) digyfrwng, dïgyfwng, anghyfryngol; didor, dïattreg, dïaros, dïoed, disyfyd, uniongyrchol, uniongyrch, ebrwydd, dïymaros, chwai, chwipyn, swta, diannod, cythrymol, presennol; difyfyr.
Through immediate inspiration — trwy ysbrydoliaeth oddi uchod; trwy ysbrydoliaeth ddigyfrwng.

Immediately, *ad.* yn ddigyfrwng, &c.; chwap, chwaff, chwipyn, yn chwepyn, yn union, yn y fân, yn y màn.
Immediately before—nesaf o flaen.
Immediately after—nesaf ar ol.

Immediateness, *s.* anghyfryngoldeb, anghyfryngrwydd, digyfryngrwydd, anghyfryngdod; uniongyrchedd, diattregrwydd.

Immedicable, *a.* (Ll. *immedicabilis*) anfeddyginiaethol, anfeddygol, anfeddygadwy, anwelladwy, anaele, anesgorol, anesgor.

Immelodious, *a.* anmherseiniol, anmherorawl, digynghanedd, anfelus, anfelusber, anhyfryd.

Immemorable, *a.* (Ll. *immemorabilis*) anhygof, anwiwgof, anghofiadwy, anghofwiw; na thâl mo'i gofio; anhydraeth.

Immemorial, *a.* (Ff. o'r Ll. *in* a *memoria*) cyn cof, dros ben cof, tu hwnt i gof; cyn cof neb byw; anghofiadol; hen.
Time immemorial, } er cyn cof; er
From time immemorial, } amser anghof; er cyn cof gàn yr hynaf yn fyw; er cyn cof neb byw.
An immemorial custom—defod er amser

anghof; defod hŷn na'r dyn hynaf yn fyw; defod er cyn cof.

Immense, *a.* (*Ff.* o'r *Ll.* *immensus*) anfeidrol, diderfyn, annherfynol, anfesuredig, difesur, anfesurol, dirfawr, tramawr, mawr byd, mawr dros ben, gorfawr, erfawr, enfawr, anferth, anferthol, amrosgo, abrwysgl.

Immensely, *ad.* yn anfeidrol o faint; yn anfeidrol, &c.

Immenseness, } *s.* anfeidrolder, anfeidroldeb,
Immensity, } anfeidroledd, anfeidredd, anfesuredigaeth, anfesurediqrwydd, anfesuri, anfesuroldeb, dirfawredd, dirfawrder, gorfawredd, tramawredd, enfawredd, maint gorfawr, anferthedd maint, anferthedd.

Immensurability, *s.* anfesuroldeb, anfesurolder, anfesurolrwydd, anfesurediqaeth, anfesuri, anfeidrolder, gorfawredd.

Immensurable, *a.* (*Ll.* *in* a *mensurabilis*) anfesuradwy, anfesurol, difesur, tra mesur, tu hwnt i fesur; anfeidrol, gorfawr. [ol.

Immensurate, *a.* anfesuredig, difesur, anfesur-

Immerge, *v.* (*Ll.* *immergo*) trochi, soddi, suddo, cleigio, grawthu, plyngu, tansuddo, damsoddi, boddi; claddu mewn dwfr; ymsoddi, ymsuddo, soddi, suddo, *neu* fyned i oleuni yr haul *neu* seren; mynedd *neu* giliaw o'r golwg.

Immerit,† *s.* anhaeddiant, anhaedd, annheilyngdod, anwiwdeb.

Immerited,† *a.* anhaeddedig, anhaeddiannol, dihaeddiant.

Immeritous,† *a.* anhaeddiannol, anhaeddol.

Immerse, *v. a.* (*Ll.* *immersus*, o *immergo*) trochi, soddi, suddo, cleigio, grawthu, plyngu, tansoddi, tansuddo, damsoddi; claddu mewn dwfr; gorlifo, gorlifeirio, gorchuddio.

Immerse,† *a.* soddedig, trochedig, claddedig.

Immersion, *s.* trochiad, trochiant, trochfa, soddiad, soddedigaeth, trochedigaeth, cleigiad, grawthiad, plyngiad, tansoddiad, troch, sawdd, grawth, plwng; ymsoddiad, suddiad, ymgleigiad; mynediad *neu* giliad o'r golwg; arguddiad.

Immesh, *v.* rhwydo, maglu, dyrysu, methlu, bachellu, byddaglu, byddagu.

Immethodied,† *a.* annhrefnedig, annhrefnus.

Immethodical, *a.* annhrefnus, didrefn, direol, diddosbarth, annosbarthus, anhybarth, heb drefn, annyben; dyrys.

Immethodically, *ad.* yn annhrefnus, yn ddidrefn; heb na rheol na threfn.

Immethodicalness, *s.* annhrefnusrwydd, annhrefnusedd, annhrefn, afreolaeth; dyryswch.

Immigrant, *s.* (*Ll.* *immigro*) dyfodiad, ymddyfodiad, arddyfodiad, ymfudwr, ymfudydd; mudwr i wlad: *pl.* dyfodiaid, ymddyfodiaid, arddyfodiaid.

Immigrate, *v. n.* ymddyfod, dyfod, dyfod i, ymfudo, ymmudo, mudo i.

Immigration, *s.* dyfodiaeth, dyfodedigaeth, ymddyfodiaeth, ymfudiad; mynediad i wlad.

Imminence, *s.* (*Ll.* *imminentia*) certhrwydd; niwed à fo yn crogi uwch ben un; perygl bygythiol.

Imminent, *a.* (*Ll.* *imminens*) yn crogi *neu* hongian uch ben un; yn nibyn uch ben un; parod i ddisgyn ar ben un; à fo ar ddyfod *neu* ddisgyn ar un; bygythiol; à fo yn bwgwth un; cyfagos, ymwng; à fo ger llaw; à fo yn agos; certh, cyngherth; pres, presol; sorth; dibynol.

Immingle, *v. a.* cymmysgu, mysgu, cydfysgu, uno.

Imminution, *s.* (*Ll.* *immunitio*) lleihad, lleiad, treiad, toliad, toliant, bychaniad.

Immiscibility, *s.* anhyfysgedd, anghymmysgoldeb, anfysgadwyedd.

Immiscible, *a.* (*Ll.* *immisceo*) anghymmysgadwy, anfysgadwy, anhyfysg.

Immission, *s.* (*Ll.* *immissio*) anfoniad, gyriad, *neu* dafliad i mewn; iddyriad, mewndafliad.

Immit, *v. a.* taflu *neu* yru i mewn; iddyru.

Immitigable, *a.* anesmwythadwy, annhawseladwy, anysgafnadwy, annyhuddadwy; nas gellir ei esmwytho *neu* linaru.

Immix, *v. a.* cymmysgu, mysgu, cydfysgu; uno.

Immixable, *a.* anghymmysgadwy, anfysgadwy, anhyfysg.

Immixed, } *a.* anghymmysg, anghymmysgedig,
Immixt, } digymmysg.

Immobility, *s.* (*Ll.* *immobilitas*) anysgogrwydd, dïysgogrwydd, dïymmodrwydd, anymmodrwydd, anysgogiad, anymmodiad, ansymmudoldeb, ansymmudedd, disymmudedd, anghychwyniad, disigledd, ansigledigrwydd, anysgogoldeb.

Immoderacy, *s.* anghymmedroldeb, anghymmesuredd, gormodedd, rhysedd.

Immoderate, *a.* (*Ll.* *immoderatus*) anghymmedrol, anghymmesur, anghymmesurol, anghymmes, anghymmesol, gormodol, gormoddol, gorddigon, anweddol, anferthol; afresymol.

Immoderately, *ad.* yn anghymmedrol, &c.; heb na meidr na mesur.

Immoderateness, } *s.* anghymmedroldeb, a-
Immoderation, } nghymmedrolder, anghymmedrolrwydd, anghymmesuredd, gormodedd, rhysedd, gormod.

Immodest, *a.* (*Ll.* *immodestus*) aflednais, diwyl, anful, diful, dïorchwyledd, digywilydd, anweddaidd, anweddus; anniwair, anllad; serth, serthus, anmhur, budr; gwagsaw; anfoesgar, anfoesol, anniweirfoes.

Immodesty, *s.* (*Ll.* *immodestia*) afledneisrwydd, anorchwyledd, diwylder, diwyledd, anfuledd, difuledd, diffyg gwylder, anweddeidd-dra, anwedduswydd, anwedduader, digywilydd-dra; anniweirdeb, anniweirdod, llodineb; serthedd, serthusrwydd; gwagsawrwydd; anfoesgarwch.

Immolate, *v. a.* (*Ll.* *immolo*) aberthu, offrymu.

Immolation, *s.* aberthiad, offrymiad, aberthedigaeth; aberth, offrwm.

Immolator, *s.* aberthwr, offrymwr, offrymydd.

Immoment, *a.* dibwys, diwerth.

Immomentous, *a.* dibwys, ysgafn, diwerth, dïystyr, iselwerth.

Immoral, *a.* anfoesol, anfucheddol, drygfoesog, drygfoesol, drygfucheddol; drwg ei foesau; drwg ei fuchedd; drwg, drygionus, dyhir, anaddwyn, gwarthus.

Immorality, *s.* anfoesoldeb, anfoesolrwydd, anfoesolder, anfoes, anfucheddoldeb, anfucheddolrwydd, anfuchedd, drygfuchedd, drygfoes, drwgfuchedd, mallymddygiad; drygioni, dyhirwch, anaddwynder.

Immorigerous, *a.* (*Ll.* *immoriger*) trwsgl, trwstan, anfoesgar, anfoesog.

Immorigerousness, *s.* anfoesgarwch, anfoesogrwydd, trysgledd; anufydd-dod.

Immortal, *a.* (*Ll.* *immortalis*) anfarwol; di-

dranc, dïangeu, difarw; diddiwedd, tragwyddol, bythol, didawl, tragyfythoes.

Immortality, *s.* anfarwoldeb; anfarwolaeth; tragwyddoldeb.

Immortalize, *v. a.* anfarwoli; gwneuthur yn anfarwol; tragwyddoli.

Immortalize,† *v. n.* myned yn anfarwol.

Immortalization, *s.* anfarwoliad.

Immortally, *ad.* yn anfarwol; yn dragywydd, byth, dros fyth, hyd dragwyddoldeb.

Immortification, *s.* anfarweiddiad, annarostyngiad.

Immould, *v. a.* llunio, ffurfio.

Immovability, } *s.* anysgogrwydd, anysgog-
Immoveability, } edd, dïysgogrwydd, dïymmodrwydd, disigledd, ansigledigaeth, anymmodrwydd, anhyfudedd, ansymmudoldeb, ansymmudrwydd.

Immovable, } *a.* ansymmudadwy, ansymmud-
Immoveable, } ol, dïysgog, dïymmod, anysgog, anysgogol, anysgoged, disymmud, digyffro, disigl, ansigladwy, ansyfladwy, anghychwynol, anhyfud, anghyffroadwy, anghyffre, dïeglyd, dianwadal, safadwy, anhylithr.

Immoveable goods—da anghyffro, da digyffro, da ansymmudol, da anghyfoddedyn, da anghyffröedig, da anghychwyn.

Immovableness, } *s.* ansymmudoldeb, ansym-
Immoveableness, } mudolrwydd, anysgogrwydd, anysgogedd, dïymmodrwydd, anymmodrwydd, anhyfudedd, dïysgogrwydd, &c.

Immund, *a.* (Ll. *immundus*) aflan, budr, brwnt.

Immundicity, *s.* aflendid, budredd, brynti.

Immunity, *s.* (Ll. *immunitas*) rhyddid, rhyddineb, rhydd-did, rhydd-deb, rhyddfraint, rhydid, braint, rhagorfraint, gorfraint, breiniolaeth, breinioldeb, breinioledd, trwyddedd.

Immure, *v. a.* (Norm. *immurer;* Ll. *in* a *murus*) amgaeru, ammurio; rhoi *neu* ddodi mewn caer; rhoi o fewn mur *neu* furiau; carcharu, caethiwo; rhoi *neu* ddodi yn ngharchar; cau i fewn; murio; amgylchu â muriau.

Immure,† *s.* mur, caer, gwàl, cae.

Immusical, *a.* anmherorawl, anghynghan, anghynghaneddol, digynghanedd, anghyddseiniol, anghysson, anghordiol, angherddgar.

Immutability, } *s.* (Ll. *immutabilitas*) anghyf-
Immutableness, } newidioldeb, anghyfnewidioldeb, anghyfnewidiolrwydd, anghyfnewidrwydd, annewidioldeb; dianwadalwch, dïanwadaledd, gwastadrwydd, gwadalwch; anghyfnewidiad.

Immutable, *a.* (Ll. *immutabilis*) anghyfnewidiol, digyfnewid, dinewidiad, dinewid, annewidiol, dinewidiol, anghyfnewidiadwy; dïanwadal, gwadal, gwastad, sicr.

Immutate, *a.* (Ll. *immutatus*) anghyfnewidiog, annewidiedig, dinewid.

Immutation, *s.* (Ll. *immutatio*) cyfnewidiad, newidiad, cyfnewid.

Immute, *v. a.* (Ll. *immuto*) cyfnewid, newid, newidio, arallu.

Imp, *s.* (C.; Sw. *ymp;* D. *ympe*) impyn, imp, prionyn, plentyn, hil, epil, hiliogaeth; drygfab, plentyn y fall, mab y fall, dieflyn, diawlyn, gwas y diawl, cyw diawl; adfodrydaf.

Imp, *v. a.* (C. *impio;* S. *impan;* D. *ymper*) impio; estyn, ystyn, estynu, hwyhau; rhoi *neu* ddodi estyn wrth; planu mewn peth i'w estyn.

To imp a feather in a hawk's wing—planu asgell yn adain hebog; planu asgell i hwyhau adain hebog.

Impacable, *a.* (Ll. *in* a *paco*) anheddadwy, diheddadwy, annyhuddadwy, annyhuddol, anesmwythadwy, anghymmodadwy, anghymmodlawn, anhyfodd, annhyner.

Impact, *v. a.* (Ll. *impactus*) talmyrthu; gyru yn dyn, gyru yn agos, taer yru, taer wasgu, tynwasgu, tyn yru; taro, cyfergydio.

Impact, *s.* talmyrth, ergyd, cyfergyd.

Point of impact—pwnc talmyrth, pwynt talmyrth.

Impaint, *v. a.* arliwio, paentio; addurno â lliwiau.

Impair, *v.* (Ff. *empirer*) gwaethygu, gwaethu, gwaethäu, drygu, niweidio; gwanhau, methu, gwaelu.

Impair, *a.* (Ll. *impair*) anghyfartal, anghynnifer.

Impair, } † *s.* gwaethygiad, gwaethiad,
Impairment, } niwed; lleihad; methiant.

Impairer, *s.* gwaethygwr, gwaethygydd.

Impalatable, *a.* anflasus, drwg ei flas, diflas.

Impale, *v. a.* (Ff. *empaler;* Ysp. *empalar*) amgledru; amgylchu, amgylchynu, *neu* amddiffyn â pholgae; amgau, argau, ambolioni, cylchgau, polgauad, polgau; cau i mewn; polioni o amgylch; cau i mewn â choedbolion; polioni, pawlwanu, polio; trywanu â phawl; gyru pawl drwy; amgylchu, amgylchynu.

An impaled piece of ground—coedgae, polgae.

Impalement, *s.* amgledrad, amgledr, aohwre, polgauad, cylchgauad; amgylchiad *neu* amddiffyniad â pholgae; polionad, pawlwaniad, trywaniad â phawl; amgledren, gwullamdo; polraniad.

Impaling, *s.* polraniad, sythraniad; rhaniad oddi fyny hyd i waered.

Impallid,† *v. a.* gwelwi, gwneyd yn welw.

Impalm, *v. a.* (Ll. *in* a *palma*) gafaelu, gafaelyd, ymaflyd yn, cydio yn; cymmeryd yn y llaw.

Impalpability, *s.* anhydeimledd, annheimladwyaeth.

Impalpable, *a.* (Ff. o'r Ll. *in* a *palpo*) annheimladwy, anhydeiml; nas galler ei deimlo *neu* balfalu; annirnadwy.

Impalsy, *v. a.* (*in* a *palsy*) parlysu; taro â'r parlys; marweiddio.

Impanate, *a.* (Ll. *in* a *panis*) corfforedig yn fara; â wnaed yn fara; cydsylweddu.

Impanate, *v. a.* corffori â bara; troi yn fara.

Impanation, *s.* cydsylweddiad, cyssylweddiad; corfforiad yn fara.

Impannel, *v. a.* (*in* a *pannel*) rheithresu, rheithrestru; rhestru rheithwyr wrth eu henwau; tyngu rheithwyr; gwysio rheithwyr.

Inpanelling, *s.* rheithresiad, rheithrestriad.

Imparadise, *v. a.* (*in* a *paradise;* It. *imparadisare*) rhoi mewn hawddfyd, gwynfyd, *neu* wynfa; dedwyddu, dedwyddoli, hawddfydu, gwynfydoli.

Imparalleled,† *a.* digyffelyb, anghymharol.

Imparasyllabic, *a.* (Ll. *in, par,* a *syllaba*) anghyssilliog, anghynnifersill; anghynnifer ei sillau.

Impardonable, *a.* anfaddeuol, anfaddeuadwy.

Imparipinnate, *a.* (Ll. *impar,* a *pinnate*) anghyfadeiniog, anghyddeiliog.

Imparity, *s.* (*in* a *parity*) anghyfartaledd, anghyfartalwch, anghyfartalrwydd, anghymhariaeth, anniferwch, anniferedd; anhyraniaeth; anghydradd.

Impark, *v. a.* parcio; cau mewn parc *neu* geufas; amgylchu â chae *neu* wâl; cau i mewn, amgan.

Imparl, *v. n.* (Norm. *emperler*) cynnadleddu, cyflafareddu, cylafareddu, parlio, ymbarlio; cael oed i benderfynu cynghaws.

Imparlance, *s.* ymbarliad, ymbarlawd, oedgais, oedeb; cais am oed dydd; eidduned am oed hawl; rheithgylafaredd, rheithgynnadledd, rheithgynnadl, rheithymgom; cyflafaredd y rheithwyr; gohir dadl, oed hawl; cynnadledd, cyflafaredd, parliant.

Imparsonee, *a.* (o *parson*) â fo mewn goresgyn; â fo mewn llwyr feddiant o bersoniaeth *neu* fywoliaeth.

Parson imparsonee—person mewn goresgyn; periglor mewn goresgyn.

Impart, *v. a.* (LL. *impertior*) cyfranu, cyfroddi, rhoddi, rhoi, rhanu, caniatâu; mynegu; dangos; hysbysu; dysgu; gwneuthur yn hysbys *neu* wybyddus.

He imparted his mind to her—dangosodd ei feddwl iddi; mynegodd ei ofeg iddi.

To impart to—cyfranu i, cyfranu â, rhoi i.

Impartance, *s.* cyfraniad; rhodd, anrheg.

Impartation, *s.* cyfraniad, cyfranogiad, cyfroddiad, rhoddiad, dyroddiad.

Impartial, *a.* (*in* a *partial*) diduedd, anmhleidgar, anmhleidiol, anmhleidiog, dibleidiol, dibleidiog, anmhlaid; annhueddol, annhueddgar, annhueddog, didueddog; clau, diragfarn, cyfiawn, uniawn, teg, di dderbyn wyneb.

Impartialist, *s.* anmhleidgarwr, gwr anmhlaid, annhueddwr, didueddwr, anmhleidiolwr.

Impartiality, *s.* anmhleidgarwch, didueddrwydd, annhueddgarwch, anmhleidioldeb, didueddgarwch, anmhleidiogrwydd, didueddogrwydd; cleuder, cyfiawnder, uniondeb, cywirdeb, tegwch.

Impartially, *ad.* yn ddiduedd, &c.; yn gywir ac yn union.

Impartibility, *s.* anhybarthedd, anrhanadwyaeth, anghyfranadwyaeth, anghyfranoldeb, anrhanoldeb; cyfranoldeb, cyfranadwyaeth.

Impartible, *a.* (Ysp.; *in* a *partible*) anrhanadwy, anmharthadwy, anhybarth, anghyfranadwy; nas gellir ei ranu.

Impartible, *a.* (o *impart*) cyfranadwy, cyfroddadwy, cyfranogol, hysbysadwy; â ellir ei gyfranu.

Impartment, *s.* cyfraniad, cyfroddiad, rhoddiad; hysbysiad, hysbysiaeth.

Impassable, *a.* anhyffordd, anhylwybr, anllwybradwy, anhydraidd, annhrywanadwy, annhramwyadwy, anmhasiadwy; nas gellir myned drwyddo, drosto, *neu* ar hyd-ddo.

Impassableness, *s.* anhyffordddedd, anhylwybredd, anhydreiddrwydd, anhydreiddwch.

Impassibility, **Impassibleness,** **Impassiveness,** } *s.* annyoddefedd, anoddefedd, anhyboenedd, anmhoenadwyaeth; rhyddid oddi wrth boen *neu* ddyoddefaint; rhydd-did greddfol *neu* anianol oddi wrth boen.

Impassible, **Impassive,** } *a.* (Ff.; Ll. *impassibilis*) anmhoenadwy, anhyboen, annyoddef, anhyoddef, heb ddyoddefiadau; rhydd anianol oddi wrth ddyoddefiadau; rhydd oddi wrth oddefaint; nas dichon ddyoddef; anoddefus.

Impassion, **Impassionate,** } *v. a.* effeithio yn rymus ar; cyffröi, cynhyrfu, ennynu, dygreidio.

Impassionate, *a.* cyffröedig, cynhyrfedig, ennynedig; dideimlad, dïanwyd, anhyddig.

Impassionated, *a.* cyffröedig, cynhyrfedig, ennynedig; bywiog, eidiog, nwydlawn; tanllyd, poeth, dygreidiol, terwyn; anwydwyllt, poethwyllt; anwydglaf.

Impassive, *a.* (Ll. *in* a *passus*)=*Impassible.*

Impassiveness, *s.*=*Impassibility,* &c.

Impassivity, *s.* anhyboenedd, annyoddefedd, annyoddefrwydd, anoddefoldeb.

Impastation, *s.* (*in* a *paste*) glyfysgiad, glyfysg.

Impaste, *v. a.* (Ff. *impâter*) tylino, peilludio, glyfysgu; gwneuthur yn does *neu* beillud; lliwo yn dew.

Impasted, *a.* toesedig, toesog; wedi ei guddio â pheillud *neu* â phaent tew.

Impatible, *a.* (Ll. *impatibilis*) anoddefadwy, annyoddefadwy, annyoddefol, anoddefol; nas gellir ei oddef.

Impatience, *s.* (Ff.; Ll. *impatientia*) anoddefgarwch, annyoddefgarwch, anoddef, annyoddef, anoddefedd, annyoddefedd, anamynedd, anymaros, anorbeidrwydd, anamyneddgarwch, dïamyneddgarwch, anymattal, dibwylledd, drygamynedd, anoddefiant, anoddefusrwydd.

Impatiens, *s.* (Ll.) ffromlys.

Impatient, *a.* (Ll. *impatiens*) anoddefgar, annyoddefgar, annyoddefus, anoddefus, dïamynedd, anamyneddgar, anamyneddus, anamyneddol, anorbaid, anymarŏus, dïymaros, dïymarbed, anymarbedus, anymarbedgar, dïymattal, anymattalgar; nas gallo ddyoddef, ymaros, ymarbed, *neu* ymattal; annyoddefol, anoddefol, anoddefadwy, annyoddefadwy; dibwyll, byrbwyll, awyddus, hyfrys, rhyfrys, dyffestin, gwyllt.

Impatient, *s.* un anoddefgar, &c.

Impatronization, *s.* arglwyddiaeth annibynol, llwyrfeddiant, meddiant annibynol.

Impatronize, *v. a.* (Ff. *impatroniser*) ennill iddo ei hun arglwyddiaeth; ennill meddiant annibynol *neu* hollol.

Impawn, *v. a.* gwystlo, arwystlo, adneu; rhoi yn *neu* ar wystl.

Impeach, *v. a.* (Ff. *empêcher*) cyhuddo, argyhuddo, achwyn ar, cwyno ar, achwyn, cwyno; bwrw *neu* roddi cwyn yn erbyn; rhoi cyhudded yn erbyn; beio, ceryddu, senu, ammheu; galw i gyfrif; †rhwystro, attal.

Impeach,† *s.* rhwystr.

Impeachable, *a.* cyhuddadwy, argyhuddadwy, cyhuddiw, hygyhudd; â haeddai achwyn arno; cyfrifol; beiadwy.

Impeacher, *s.* cyhuddwr, argyhuddwr, achwynwr; cyhuddwr awdurdodol.

Impeachment, *s.* cyhuddiad, cyhudded, cwyn, argyhuddiad, cyhudd, cyhuddedigaeth, achwyniaeth, achwyniad, achwyn, cyhuddgwyn; achos; sen; senawd, beiad; galwad i gyfrif; †rhwystr, attalfa.

Impearl, *v. a.* gemu; llunio ar ddull gemau; harddu â gemau *neu* fyrierid.

Impeccability, **Impeccance,** **Impeccancy,** } *s.* anhybechedd, anmhechadwyaeth; cyfiwr anhybech; cyfiwr annarostyngedig i bechod; anhylygredd, anllygredigaeth anian; perffeithrwydd.

Impeccable, *a.* (Ff.; Ysp. *impecable;* o'r Ll. *in* a *pecco*) anhybech, anmhechadwy, dibechod, dibech, anmhechodol, na allo bechu; rhydd anianol oddi wrth bechod; heb fod yn agored i bechu; anhylwgr, anllygredig, perffaith.

Impede, *v. a.* (Ll. *impedio*) rhwystro, lluddias, lluddio, attal, llestair, llesteirio, dyor, cyfluddio, achluddo, achludd, goluddio, arluddio, argyfluddio, nidro, yrthio; attal rhag myned rhagddo; dàl *neu* gadw yn ol.

Impedible, *a.* rhwystradwy.

Impediment, *s.* (Ll. *impedimentum*) rhwystr, attalfa, attal, lludd, llestair, lluddias, lluddiant, cyfludd, goludd, lluddiad, achluddiad; anach; attaliaith, ffeigeb, cyfluddeb, lluddeb, yrthwch.

An impediment in speech—attal dywedyd, rhwystr tafod, tramgwydd geiriau, attalwedyd, ffeigeb, dywedwst, deilen ar dafod.

To have an impediment in one's speech—bod âg attal dywedyd arno; bod â rhwystr tafod arno; bod â ffeigeb arno; cecian; siarad yn yrth.

An impediment (to carry on an affair)—anach; attalfa, rhwystr.

Impediment,† *v. a.=Impede.*

Impedimental, *a.* rhwystrol, rhwystrus, lluddiol, attaliol, cyfluddiol, rhwystredigol, llesteiriol, lluddiannol.

Impedite,† *v. a.=Impede.*

Impedite, *a.* rhwystredig, rhwystrog, llesteiriog.

Impedition,† *s.* rhwystrad, lluddiad, attaliad.

Impeditive, *a.* rhwystrol, rhwystrus, llesteiriol, lluddiol, attaliol.

Impel, *v. a.* (Ll. *impello*) gyru *neu* wthio yn mlaen; gyru, gwthio, hyrddu, hyrddio, annog, cymhell, dirgymhell, dychymhell, dirio, dyru, ffwyro, ysgethru, gorddwyo, eddëu.

Impellent, *a.* gyrol, hyrddol, hyrddiannol, gwthiol, dyrol, diriol, cymhellol, dirgymhellol, hyrddin, gorddwyol, gyriadol, gorddinol.

Impellent, *s.* gyrnerth, annogrym, cymhellrym, hyrddallu, gwthrym, gorddyr, gorddin; gallu gyrol, hyrddol, *neu* wthiol; nerth cymhellol.

Impeller, *s.* hyrddiedydd, hyrddiwr, gwthiwr, gwthiedydd, cymhellwr, gorddwr, gorddur, diriwr, diriedydd.

Impen, *v. a.* (o *pen*) llocio, corlanu, cutio, ffroncio; cau i mewn; argau, cau ar, gwarchäu.

Impend, *v. n.* (Ll. *impendo*) crogi uwch ben; bod yn nghrog uwch ben; hongian uch ben; ysgrogi, dibynu, ymddibynu; bod ar ddisgyn, cwympo, *neu* syrthio ar; bwgwth; gobwyso; bod ger llaw; bod yn agos; bod ar ddyfod; dynesu, agoshau, gonesu.

Impendence, } *s.* y cyflwr o fod yn crogi uwch
Impendency, } ben, &c.; bygythioldeb, agwedd fygythiol, ystum bygythiol; ysgrogoldeb, dibynoldeb, dibynolrwydd, prwysgedd, prwysgledd.

Impendent, *a.* yn nghrog uwch ben; crog uwch ben; yn crogi uwch ben, &c.; yn ysgrogi, &c.; ar ddisgyn ar, ar syrthio ar, ar gwympo ar; yn bwgwth, bygythiol, trwm fygythiol; ysgrogol, dibynol, ymddibynol, prwysgl, prwysg; ger llaw, agos, cyfagos, ar ddyfod; ymwng, certh.

Impenetrability, } *s.* (o *impenetrable*) anhy-
Impenetrableness, } dreiddedd, anhydreiddrwydd, anhydreiddwch, annhreiddiadwyaeth, annhreiddioldeb.

Impenetrable, *a.* (Ll. *impenetrabilis*) annhreiddiadwy, anhydraidd, annhrywanadwy, anwanadwy, annhrywan; nas gellir ei dreiddio *neu* drywanu.

Impenetrably hard—caled anhydraidd.

Impenitence, } *s.* (Ff.; Ll. *in* a *pœnitens*) an-
Impenitency, } edifeirwch, anedifarwch, diedifeirwch, anedifeiriad; calongaledwch, caledwch calon, caledwch, cyndynrwydd.

Impenitent, *a.* (Ff.) anedifeiriol, anedifarus, diedifar, diedifeiriol, diedifarus, anedifar, anedifeiriog; calongaled, anhyblyg, gwargaled.

Impenitent, *s.* un anedifeiriol, anedifarhäwr.

Impennous, *a.* (*in* a *pennous*) anadeiniog, anasgellog, diedyn, diesgyll.

Impeople, *v. a.* pobli, poblogi; gwneuthur yn gyfundeb.

Imperant, *a.* (Ll. *impero*) gorchymynol, archedigol, archiadol, yn erchi.

Imperate,† *a.* (Ll. *imperatus*) gwirfoddol; à wnaed gàn gyfarwyddyd y meddwl.

Imperative, *a.* (Ll. *imperativus*) gorchymynol, archedigol, archiadol, gorchymynedigol, archadwy.

Imperative mood — modd gorchymynol, modd archedigol, modd archadwy.

Imperatively, *ad.* yn orchymynol, &c.; ar wedd gorchymynol; yn awdurdodol; yn y modd gorchymynol *neu* archedigol.

Imperatoria, *s.* poethwraidd, poerlys, sinsir y gors, llysiau y ddannodd, pelydr gau Yspaen.

Imperatorial, *a.* (Ll. *imperatorius*) gorchymynol.

Imperatorine, *s.* poerlysnur, poethwreiddain.

Imperceivable, *a.=Imperceptible.*

Imperceivableness, *s.=Imperceptibleness.*

Imperceptible, *a.* (Ff.; *in* a *perceptible*) annirnadwy, anneallադwy, anhyddeall, anhyddallt; amsyniadwy; anweladwy, anhywel, anweledig, anghanfyddadwy, anghanfodadwy; annheimladwy, anhydeiml; anghraffadwy; anhysyn, ansyniol, annirnadol; nas gellir ei ddeall, ei weled, *neu* ei deimlo; nas gellir ei ganfod gàn ei leied; diarwybod; tra bychan, gorfychan, mân.

Imperceptible, *s.* peth annirnadwy, &c.

Imperceptibleness, *s.* anhyddealledd, anhyddallтrwydd, annirnadwyaeth, annirnadoldeb; anhyweledd, anweledigrwydd; anhydeimledd; ansynioldeb, ansyniolrwydd, anhysynedd; ansawdd anhydeiml *neu* anhysyn peth.

Imperceptibly, *ad.* heb ei ganfod, ei weled, ei deimlo, *neu* ei synio; heb synio *neu* sylwi arno; heb ddàl sylw arno; heb wybod i un; yn ddiarwybod i un; yn annirnadwy, &c.

Impercipient, *a.* ansyniol, annirnadol, anghanfyddol.

Imperdibility, *s.* anhyddinystredd, anninystredd.

Imperdible, *a.* anninystradwy, annystrywiadwy, annyfethadwy, anhyddinystr.

Imperfect, *a.* (Ll. *imperfectus*) anmherffaith, diffygiol, anghwbl, anorphen, anorphenol, anghyfan, anghyfa, anghryno, anghyflawn, gwallus, aballus, anafus, anelwig, aflwyr; gwàn, llyth.

Imperfect tense—amser anorphenol, amser anorphen, amser anorphenedig, amser

anghyflawn, amser gogyflawnedig, amser gogyflawn.

An imperfect work—gwaith anmherffaith, anorphen, anorphenol, *neu* anorphenedig; adwaith.

Imperfect is every want—anghwbl pob eisieu.

Imperfect,† *v. a.* anmherffeithio.

Imperfection, *s.* (Ff.; Ll. *imperfectio*) anmherffeithrwydd, anmherffeithder, anmherffeithdod; diffyg, bai, anaf, gwall, nam, aball, meth, gwallwg: *pl.* anmherffeithion.

Imperfectness, *s.* anmherffeithrwydd, anmherffeithder, anmherffeithdra, anmherffeithdod.

Imperforable, *a.* annhrydylladwy, annhrywanadwy, annhylladwy; nas gellir ei dyllu drwodd; annhreiddiedig, cauedig.

Imperforate, } *a.* (Ll. *in* a *perforatus*) annhry-
Imperforated, } dwll, (*f.* annhrydoll), annhrydyllog, annhyllog, annhrydylledig, annhylledig.

Imperforated St. John's wort—godwllon, eurinllys mawr.

Imperforation, *s.* annhrydylliad, annhylliad, annhrydwll, annhreiddiad; annhrydylledd, annhyllogrwydd, cauedigaeth.

Imperial, *a.* (Ff.; Ll. *imperialis*) amherodrol, ymherodrol, amherodraidd, ymherodraidd; breninol, unbenol, ymbenol, penadurol, penrheithiol, teyrnol, gyrn; perthynol i amherawdwr *neu* i amherodraeth.

Imperial parliament—senedd ymherodrol.

Imperial crown—coron amherodrol, coron ymherawdwr.

Crown imperial—peuroe=math ar flodeuyn.

Imperial, *s.* gyrnnen, nen amherodrol, crongl wyd ymherodraidd.

Imperial of a diligence—gyrn prysurglud; eisteddleoedd y tu allan i brysurglud.

Imperialist, *s.* ymherodrolwr, amherodroliad; un perthynol i amherawdwr; deiliad *neu* filwr ymherawdwr: *pl.* ymherodrolwyr, amherodroliaid, gyrnogion, milwyr amherodraidd.

The imperialists—milwyr *neu* fyddinoedd amherawdwr yr Almaen; milwyr amherawdwr Awstria; yr amherodroliaid, gwŷr yr ymherawdwr.

Imperiality, *s.* amherodroldeb, gyrnogaeth, amherawdwriaeth, ymherawdwriaeth; gallu amherodrol; hawl amherodraidd; breninoleth.

Imperialized, *a.* à wnaed yn amherodrol; ymherodrog.

Imperil, *v. a.* peryglu, pydio; dwyn i berygl.

Imperious, *a.* (Ll. *imperiosus*) ymherodraidd, arglwyddaidd, tra-awdurdodol, tra-awdurdodaidd, tra-arglwyddaidd, tra-arglwyddol, tra-arglwyddiaethol, tra-arglwyddiaethus, meistrolgar, meistrolaethus, meistrolaidd, rheolgar, gorchymyngar, awdurdodol, gyrn, rhwysadurol; trahäus, trawsfalch, trahausfalch, trahausgar; gormeilus, gorthrymus; diriol, taer, anhebgor; galluog, nerthol; effrom; rhwysus; à fyn fod ei air yn air ar bawb; yn dwyn mawr rwysg; yn gorchymyn yn dost ac yn drawsfalch.

An imperious whorish woman—puteinwraig yn llywodraethu (*Esec.* xvi. 30).

Imperiousness, *s.* arglwyddeiddrwydd, ymherodreiddrwydd, meistrolgarwch, rheolgarwch, trahausgarwch, &c.; trahausder, trahausdra; tra-arglwyddiaeth, trarheolaeth, trallywodraeth, awdurdod, rhysg.

Imperishable, *a.* (*in* a *perish*; Ff. *imperissable*) diddarfod, annifan, didrane, anhysfeth, annarfodadwy, annarfodus, annysfethadwy; nas derfydd; annifian; parhäus.

Imperishableness, *s.* anhysfethedd, anhysfethrwydd, annarfodusrwydd, annifanrwydd.

Imperiwigged,† *a.* (Ff. *emperruqué*) yn gwisgo penguwch.

Impermanence, *s.* anmharhad, anmharhausder, ansefydlogrwydd, anwadalwch, ansadrwydd, gwamalder.

Impermanent, *a.* anmharhäus, dibara, dibarhad, ansefydlog, anarosol, ansafadwy, ansad.

Impermeability, } *s.* anhydreiddedd; anhyd-
Impermeableness, } reiddrwydd i hylifau *neu* awon.

Impermeable, *a.* (Ll. *in* a *permeo*) anhydraidd i hylifau; anhydraidd, annhreiddiadwy, anhydreiddiol, annhrwyadwy, didrwyol, anhylifred.

Imperscrutable, *a.* annhrychwiliadwy, anchwiliadwy, anolrheinadwy.

Imperscrutableness, *s.* anchwiliadwyaeth; yr ansawdd o fod yn anolrheinadwy.

Impersonal, *a.* (Ll. *impersonalis*) annynsodol, anansodol, annynsoddol, annynweddiadol, anmhersonol, diddynsawd, diansawd, diberson.

Impersonality, *s.* annynsodoldeb, annynsoddoldeb, annynsawdd, annynsawd, anansodoldeb, anmhersonoldeb, anghorffolaeth.

Impersonate, *v. a.* dynsodi, ansodi, dynsoddi, dynsodweddu, personoli, personogi.

Impersonation, *s.* dynsodiad, dynsodiant, ansodiad, ansodiant, dynweddiad, dyniedigaeth.

Imperspicuity, *s.* aneglurdeb, aneglurder, anamlygrwydd, anghlaerder.

Imperspicuous, *a.* aneglur, anamlwg, anoleu; tywyll.

Impersuasible, *a.* annarbwylladwy, anhybwyll; nas gellir ei ddarbwyllo.

Impertinence, } *s.* (Ff.; Ll. *impertinens*) an-
Impertinency, } mherthynas, diberthynasedd, anmherthynasedd, anmherthynoldeb; peth anmherthynasol, gair anmherthynasol; coegymraeth, anfoesgarwch, anhyfoesedd, anfoes, coeghyfder, haerllugrwydd; ffoledd, ynfydrwydd, coegair, coeg ymadrodd, cymhendod, chwaldod, ffiloreg, coegedd, gwagedd, gwegi; anober, ffril, peth dibwys, coegbeth, gwaelbeth; nwyth; gormes, gormedd.

Impertinences — pethau *neu* eiriau anmherthynol; anmherthynolion, anmherthynion; ffol eiriau ffiloreg.

Impertinent, *a.* (Ll. *impertinens*) anmherthynasol, anmherthynol, diberthynas, anneiryd; dyeithr i'r achos *neu* i'r peth mewn llaw; estronol, anghyfachos; ymyrgar, ymyrus, ymyrol, rhydresgar, rhydresus, cymmyreddus, negesgar, coeg-ymyrgar, coeg-ymofyngar, haerllug, digywilydd; anfoesog, anfoesgar, difoes; ymwthiol; à ymyro â'r hyn ni bo yn perthyn iddo; à ddywedo yr hyn ni pherthyn iddo; ffol, ynfyd, annoeth, anffur; coeg, ofer, dibwys, diddefnydd, gwag, gorwag, gwagsaw, nwythus.

An impertinent fellow=*Impertinent*, *s.*

Impertinent, *s.* ymyrwr, ymyrydd, rhydreswr, rhodreswr, prysurwas; dyn ymyrgar, &c.;

un â'i fys yn mrywes *neu* yn mhotes pawb; un â roddo ei lwy yn nysgl pawb; un â fwrio ei gryman i yd pawb.

Inpertransibility, *s.* annhrwyadwyaeth, anhydrwyedd.

Impertransible, *a.* (Ll. *in* a *pertranseo*) annhrwyddadwy, annhrwyadwy, anhydrwy, annhreiddiadwy.

Imperturbable, *a.* (Ll. *in* a *perturbo*) ansyfladwy, anysgogadwy, anghyffroadwy, anghythrybladwy; nas gellir ei aflonyddu; llonydd, tawel.

Imperturbation, *s.* anghyffro, anghythrwfl, annherfysg; llonyddwch, tawelwch, tanc, dystawrwydd.

Imperturbed,† *a.* digynhwrf, anghyffröedig, llonydd.

Imperviable, *a.* (Ll. *impervius*) annhreiddiadwy, anhydraidd, annhrywanadwy; anhyffordd, anhygyrch.

Imperviableness, } *s.* anhydreiddrwydd, anhy-
Imperviability, } dreiddwch, anhydreiddedd; anhygyrchedd.

Impervious, *a.* (Ll. *impervius*) anhydraidd, annhreiddiadwy, annhrywanadwy; anhyffordd, anhylwybr, anhygyrch, annhramwyadwy, annhrwyddadwy.

Imperviousness, *s.* anhydreiddrwydd, anhydreiddwch, anhydreiddedd; anhygyrchedd, anhylwybredd.

Impester,† *v. a.* blino, poeni, gofidio.

Impetiginous, *a.* (Ll. *impetigo*) clafrllyd, tarddwreinaidd; â tharddwreinyn arno; crestlyd, cenog.

Impetigo, *s.* (Ll.) tarddwreinyn.

Impetrable, *a.* (Ll. *impetro*) hygael; à ellir ei gael drwy ddymuned.

Impetrate, *v. a.* (Ll. *impetro*) cael drwy *neu* ar ddymuned; cael peth ar ei ddymuniad; cael yr hyn a archo; cael drwy erfyn; arddeisyf, arddeisyfu, argaffael, ymhwedd ar.

Impetration, *s.* caffaeliad drwy erfyn *neu* ddymuno; hygaeledigaeth; arddeisyfiad; rhagerfyniad: rhaggaffaeliad bywoliaethau eglwysig oddi wrth Eglwys Rhufain, a hwythau yn rhodd rhywun arall.

Impetrative, *a.* â gaffo drwy ddymuned; arddeisyfol, hygaeledigol; yn cael.

Impetratory, *a.* deisyfol, erfyniol, arddeisyfol; yn cynnwys erfyniad.

Impetuosity, } *s.* tanbeidrwydd, angerddol-
Impetuousness, } deb, angerdd, egni, gwylltineb, gwylltineb rhediad, gwylltineb rhuthr, trachwylltrwydd, trywylltrwydd, gorwylltineb, chwyrnwylltrwydd, trenusrwydd, trenusdeb; ffyrnigrwydd, ffromwylltrwydd, cynddeiriogrwydd; chwyrnder, rhuthredd; chwidredd; ffroch, ffysg; dir-egni; taeredd.

Impetuous, *a.* (Ll. *impetuosus*) angerddol, angerddus, gwyllt, gorwyllt, rhuthrwyllt, chwyrnwyllt, trachwyllt, trywyllt, brywyllt, ffrychwyllt, ethrywyllt, ethrychwyllt, rhychwyllt, enwyllt, ffromwyllt, nawswyllt, gwaedwyllt, chwidr, chwyrn, ffysgiol, ffysgiolin, ffysg, ffyrnig, egnïol, egnïus, tanbaid, tren, trenus, trenig, rhuthrog, brysgar, ffrom, ffwyrol, dibwyll, poethlym, poethlyd; taer, ewn; gwyllt ei ruthr *neu* rediad; â ruthro yn wyllt.

Impetus, *s.* (Ll.) hypynt, ysgogrym, ysgogneth, egni, ysgogiad; lluchynt, hyrddhynt, rhysgyr, rhuthr.

Impictured, *a.* paentiedig, arluniedig, darluniedig.

Impierce, *v. a.* trywanu, treiddio.

Impierceable, *a.* annhrywanadwy, annhreiddiadwy.

Impiety, *s.* (Ll. *impietas*; Ff. *impiété*) annuwioldeb, annuwiolder, annwyfolder, annwywolder, anghrefydd, anghrefyddolder, drygfuchedd, anfadrwydd, anras, anraslondeb, afraslonrwydd, afraslonedd, dirasrwydd.

Impieties without number—drygioni aneirif (2 *Esd.* iii. 29).

Impignorate,† *v. a.* (Ll. *in* a *pignus*) gwystlo, adneu.

Impignoration,† *s.* gwystlad, gwystledigaeth, gwystleidiaeth.

Impinge, *v. n.* (Ll. *impingo*) gwrthdaro, taro wrth, taro yn erbyn, taro ar, syrthio ar, taro, cyttaro.

Impingement, *s.* gwrthdarawiad, tarawiad.

Impinguate,† *v. a.* (Ll. *impinguo*) brashau, tewhau, tewychu, pesgu.

Impious, *a.* (Ll. *impius*) annuwiol, didduw, annwyfol, annwywol, anghrefyddol, digrefydd, anfucheddol, anrasol, afrasol, anraslawn, afraslawn, diras, anfad, anfadus, ysgeler; afiwys, drwg, drygionus, gwydlawn, anwir.

Impiousness, *s.* annuwioldeb, anghrefyddoldeb, anghrefyddolder, anfadrwydd, anraslondeb, afraslonrwydd, drygfuchedd.

Impish, *a.* (o *imp*) cythreulig, cythreulaidd, dieflig; fel mab y fall.

Implacability, } *s.* annyhuddoldeb, annyhudd-
Implacableness, } older, annyhuddolrwydd, annyhuddiant, anghymmodlonedd, anghymmodolrwydd, annyhuddgarwch, anfoddogrwydd.

Implacable, *a.* (Ll. *implacabilis*) annyhuddol, annyhuddadwy, anghymmodadwy, anghymmodol, anghymmodlawn, annyhuddgar, diheddog, anheddog, anheddadwy; anhyfodd, anfoddog; anhawdd ei ddyhuddo, ei heddychu, *neu* ei gymmodi; nas galler ei ddyhuddo *neu* heddychu; anfaddeugar.

Implant, *v. a.* planu, planu yn; gosod, gosod yn, sodi; impio; greddfu, gwreiddio.

Implantation, *s.* planiad, planawd; gosodiad; impiad.

Implausibility, *s.* annhebygolrwydd, annhebygrwydd, annhebygoldeb, afresymoldeb.

Implausible, *a.* (*in* a *plausible*) annhebygol, annhebyg; anweddol, anolygus, annangoeiadus; annhebyg i wir; afresymol, gwrthun; annaturiol, anghysson.

Impleach,† *v. a.* (*in* a *pleach*) cydblethu, cymhlethu, cydwau.

Implead, *v. a.* rhoddi hawl *neu* gwyn yn erbyn; rhoi *neu* ddodi cyfraith ar; cwyno ar, rhoi cwyn ar; cyffröi *neu* gychwyn hawl yn erbyn; cyhuddo, argyhuddo, holi, hawlgwyno.

Impleader, *s.* cwynwr, cyffrowr hawl, cychwynwr hawl.

Impleasing,† *a.* anhyfryd, anfoddhaol.

Impledge,† *v. a.* gwystlo, adneu.

Implement, *s.* (Ll. *implementum*) offeryn, trecyn, peiriant, peirian, ermig, arf, diler, ceryn, peiriennyn, celfïyn; llestr, dodrefnyn: *pl.* offer, trec, treciau, taclau, peiriannau, offerynau, cêr, arfau, eirf, dilerau, celfi, ermigion, llestri, dodrefn, trefnau.

Implements of husbandry — offer llafurwaith, offer amaethyddiaeth.

Implementing, *s.* cynnysgaethu âg offer.
Impletion, *s.* (Ll. *impleo*) llenwad, cyflenwad, llenwedigaeth, llawnad; ymlenwad; llawnaeth.
Implex, *a.* (Ll. *implexus*) cymhleth, cymhlyg, cymhlethedig, cymhlygedig, cymhlethog, cymhlith, cydblethedig; dyrys, astrus, nidrog, afrwydd, rhwystrus, dyrysedig, anhawdd.
Implexion, *s.* cymhlethiad, cymhlygiad; cymhleth, cydymbleth, cymhlethogrwydd, cymhlethedigrwydd, dyryswch, astrusi.
Implicate, *v. a.* (Ll. *implico*; Ff. *impliquer*) cymhlethu, cydblethu, cymhlygu, goblygu; cynnwys, cynnwyso, cydgynnwys, cymmeryd i mewn; cyffred; dyrysu, maglu, ffeigio.
Implication, *s.* (Ll. *implicatio*) cymhlethiad, cydblethiad, cymhlygiad, goblygiad, plygiad i mewn, ymblygiad, cydymblygiad, cydymbleth, ymblyg, ymbleth, penbleth; dyrysiad, nidrad, cynghafiad, nidredd; cynnwysiad, cydgynnwysiad, cydgynnwys, casgliad cudd, cudd-gasgliad, casgliad anghasgledig, dirganlyniad, cydgasgliad; peth â ellir ei gasglu; arwyddocâd, argoeliaeth, argoeliad.
Implicative, *a.* casgliadol, cudd-gynnwysol; yn cynnwys casgliad cudd; arwyddocaol.
Implicit, *a.* (Ll. *implicitus*) cudd-gynnwysol, dirgel-gynnwysol, cynnwysedig, cudd-gasgledig, cudd-gasgliadol; casgliadol, canlyniadol, canlynol; i'w gasglu o *neu* drwy ganlyniad yn unig; dibynol ar arall; ymddibynol, dihoiliad, dïolrhain, dïymchwil, dïymchwiliad, ymbwysol; â orphwyso ar farn, ar ddaliad, *neu* ar awdurdod un arall; â gymmerir i fyny, â dderbynir, *neu* â goleddir ar air un arall heb chwilio *neu* ymofyn yn mhellach; llwyr, hollol, trwyadl; heb ymchwiliad, heb ymofyniad, dïwrtheb; ymröus, ymroddus; dyrys, cymhleth, rhwystrus, afrwydd, nidrog, cynghafog, plethedig, dyrysbleth, tywyll, anegiur, dirgel, cuddiedig, anhyddeall, anhyddallt.
Implicit faith—ffydd ymröus; ffydd heb sail amgen na gair un arall; ffydd â goelio yn ddïwrtheb yr hyn a ddyweto ereill; ffydd ddïymholiad.
Implicit belief—llwyrgred, gorgred; crediniaeth hollol *neu* drwyadl; cred ddïymholiad; crediniaeth heb ymholi.
Implicitly, *ad.* yn ddirgel-gynnwysol, yn gudd-gynnwysol, yn gudd-gynnwysedig, o gudd ganlyniad, trwy gasgliad cudd; ar awdurdod, gair, *neu* ddywediad un arall; heb ymchwiliad, heb ymofyniad, yn ddïymofyn, yn ddïymchwiliad, yn ddïolrhain; heb geisio sail amgen na gair un arall; o ganlyniad; yn hyderus.
Implicitness, *s.* y cyflwr o fod yn gudd-gynnwysol, &c.; dibynoldeb, ymddibynoldeb, ymrousrwydd, ymroddusrwydd, llwyrder, llwyrdeb.
Imploration, *s.* (Ll. *imploratio*) taer ddeisyfiad, taer ymbiliad, taer ymbil, ymbil, deisyfiad, taergais, atolygiad, erfyniad, archiad, dymuneb, ymddifregiad.
Implore, *v.* (Ll. *imploro*) atolygu, atolwg, erfyn, deisyf, deisyfu, ymbil, ymbilio, adolwg, erdolwyn, erdolwg, erfynied, erfynio, crefu, arddeisyfu, taer ofyn, taergeisio, taer ddeisyfu, ymddifregu, ymioli, amhŵedd, erchi, damuno, dymuno, adduno, eidduno, eiriol, ioli, ymneddu, ymnedd.

Implore,† *s.*=*Imploration.*
Implorer, *s.* ymbiliwr, ymbilydd, atolygwr, atolygydd, erfyniwr, deisyfwr, deisyfydd, taer ddeisyfwr, ymneddwr.
Implumed, } *a.* (o *plume*) diblu, dibluf, an-
Implumous, } mhluog.
Implunge, *v. a.* trochi, soddi, tansoddi, tansuddo, grawthu, plyngu.
Imply, *v. a.* (Ll. *implico*; Ff. *impliquer*) cynnwys, cynnwyso; arwyddo, arwyddocäu, arwyddhau, arddangos, argoeli; cudd-gynnwys; dàl allan mewn canlyniad; dàl allan fel y galler ei gasglu o ganlyniad; casglu; awgrymu.
To imply one thing from another—casglu y naill beth oddi wrth y llall; tynu peth megys canlyniad oddi wrth beth arall.
What you say implies a contradiction—y mae eich geiriau yn ymwrthladd; cynnwys eich geiriau wrthddywediad.
Impocket,† *v. a.* llogellu.
Impoison, *v. a.* (Ff. *empoisonner*) gwenwyno; chwerwi.
Impolarly, *ad.* heb fod yr un ffordd â'r pegynau; heb fod yn llwrw y pegynau.
Impolicy, *s.* anghallineb, annoethineb, annoethedd, anghyfrwysdra, anghyfrwyddiant, anghyfreidiant, annarbodaeth, diffyg callineb, ffoledd, anaddasrwydd, anfuddioldeb.
Impolished, *a.* anghaboledig, anghabol, anghoethedig, anghoeth, aflathr, aflathrog, anllathrog, aflathraid, heb ei gaboli, annhrwsiedig, dilyfn; gwladaidd, trwsgl, afllednais.
Impolite, *a.* difoes, anfoesog; anfoesgar, anhyfoes, anfoeswych, anfoesaidd, anfoneddigaidd, anfoneddig, afledneis; garw, gwladaidd, taiog.
Impoliteness, *s.* anfoesgarwch, anfoesogrwydd, anhyfoesedd, anfoeswychder, anfoeswychedd, anfoes, difoesedd, ansyberwyd, afledneisrwydd, anfoneddigrwydd, diffyg moesau da.
Impolitic, *a.* diddarbod, annarbodus, annarbodol; anghall, annoeth, anghyfrwys, anmhrudd; diragweliad; annedwydd; anaddas, anghyfaddas; anwladyddol.
Impolitical,† *a.*=*Impolitic.*
Impolitically, } *ad.* yn ddiddarbod, &c.; yn
Impoliticly, } anghytûn â rheolau darbodaeth a phrudd-deb; yn wrthwyneb i reolau darbodaeth a challineb.
Imponderability, } *s.* anmhwysigrwydd, an-
Imponderableness, } mhwysineb, anhybwysedd, annhrymder, anmhwysedd, dibwysedd, ysgafnder hollol.
Imponderable, } *a.* anmhwysig, dibwys, anhy-
Imponderous, } bwys; heb ddim pwys yndddo; ysgafn.
Imponderables, *s. pl.* anmhwysigion, sylweddau anmhwysig=goleuni, gwres, trydan, a'r cyffelyb.
Imponderousness, *s.* anmhwysigrwydd, anmhwysineb, anmhwysedd, dibwysedd, ysgafnder.
Impoor,† *v. a.* tlodi, rheiduso, tloduso.
Imporosity, *s.* annhyllogrwydd, annhylledd, afrwylledd, didyllrwydd, afrwyllogrwydd, anamrydylledd; dwysder, durfingder, durfingrwydd, clynder, clynrwydd.
Imporous, *a.* annhyllog, didwll, afrwyllog, anamrydwll; durfing, clwn, dwys, caled, ffyrf, cyfan, fferdd.

Import, *v. a.* (Ll. *importo*) dwyn i mewn, trosglwyddo i mewn, atgludo, dadfori; arwyddo, arwyddocäu, arwyddhau, arddangos, argoeli, argoelio; bod o feddwl *neu* ystyr; golygu, meddwl; cynnwys; perthyn i, perthynu i, deiryd i; bod o bwys i; dori, dyddori, dawr.

It imports thee—e berthyn i ti; e ddawr i ti; e'th ddawr; mae yn perthyn i ti; mae o bwys i ti; y mae â fyno â thi.

Import, *s.* ystyr, arwyddocâd, arwyddhad, meddwl, pwyll, llawn ystyr; cynnwysiad; defnydd, gwasanaeth peth; y da à wnel peth; pwys, canlyniad; atgludiad, dadforiad, atglud.

Insertion, *s.* (Ff.; Ll. *insertio*) gosodiad, rhoddiad, dodiad, bwriad, *neu* wthiad i mewn; seidiad, ynddodiad, ynsodiad; impiad; yr hyn a osodir *neu* a roddir i mewn; y peth *neu* y mater à osodir i mewn; yr hyn à osodir *neu* à roddir yn; gorymddwyn; said.

Inserve,† *v. a.* bod o ddefnydd i.

Inservient, *a.* gwasanaethol, gwasanaethgar,

defnyddiol, o wasanaeth; atebol i ddyben; cymorthwyol, cyffrwyol, tueddol.
Insessor, *s.* (Ll.) eisteddwr, à eisteddo; clugaderyn, clwydaderyn.
Insessores, *s. pl.* (Ll.) clugadar, clwydadar, clugednod.
Insessorial, *a.* clugiol; perthynol i'r clugadar.
Inset, *v. a.* gosod yn, gosod mewn, ynddodi, ynsodi, gosod, sodi, planu.
Inset, *s.* ynddodiad; nod mewn nod.
Inseverable, *a.* anwahanadwy, annydoladwy, anesgaradwy, anmharthadwy, anwahanol, anesgarol.
Inshaded, *a.* amrygysgodog, cysgodog, huddog.
Inshell, *v. a.* rhoi *neu* guddio mewn cragen.
Inshelter, *v. a.* cysgodi, gwasgodi, diddosi, amnoddi.
Inship, *v. a.* llongi; gosod, rhoddi, *neu* ddodi mewn llong; dringo i long.
Inshore, *ad.* ger y làn, ger llaw y làn.
Inshrine, *v. a.* creirio, creirgadw; rhoddi i gadw *neu* yn nghadw mewn creirgell; rhoi i gadw *neu* yn nghadw mewn cyssegrfa; creirgellu, tlysgellu, ysgrino, coffri.
Insiccation, *s.* (Ll. *insicco*) sychiad, ynsychiad, sychiad o fewn.
Inside, *s.* (*in* a *side*) y tu mewn, tu mewn, y tu oddi mewn, y rhan oddi mewn, y rhan dufewnol; ceudod; gwaly.
On the inside—o'r tu mewn, oddi mewn, oddi fewn.
Insidiate, *v. a.* (Ll. *insidior*) cynllwyn, cynllwyno, cyfragod.
Insidiator, *s.* (Ll.) cynllwynwr, cynllwynydd.
Insidious, *a.* (Ll. *insidiosus*) dichellgar, twyllgar, twyllodrus, dichellus, bradwrus, bradus, cipgar, cyfrwys, cynllwyngar, bachellgar.
Insidiousness, *s.* twyllgarwch, dichellgarwch, twyllodrusrwydd, bradusrwydd, twyll, dichell, brad.
Insight, *s.* (*in* a *sight*) edrychiad i mewn i beth; golwg i'r tu mewn i beth; gwybodaeth yn mheth; cydnabyddiaeth â pheth; cyfarwyddyd, deall, gwybodaeth, *neu* drachraffder yn mheth; cymmedr ar beth; cydnabyddiaeth â rhanau oddi mewn peth; edrychiad i mewn; cyfarwyddyd, medrusedd, tryolwg, tryolygiad.
To have an insight into, } bod gàn un gym-
To have an insight in, } medr ar beth; bod yn hyddysg, yn ddeallus, yn wybodus, *neu* yn hysbys mewn peth; deall *neu* wybod peth yn dda ac yn hysbys; medru; gweled y tu mewn i beth; gweled *neu* ganfod i mewn i beth.
To get an insight into a thing—cael *neu* gyrhaedd cymmedr ar beth.
Having an insight into *or* in—gwybodus, deallus, cyfarwydd, hyddysg, *neu* hysbys mewn peth; hyfedr ar beth.
Having an insight in many things—lluoswybod; â chanddo gymmedr ar lawer o bethau.
Insignia, *s. pl.* (Ll.) arwyddnodau, arwyddion, nodau, rhagornodau; arwyddion swydd *neu* swyddogaeth; arwyddion anrhydedd.
Insignificance, } *s.* anystyr, anarwyddocâd, an-
Insignificancy, } mhwyll, ansawdd dïystyr, ansylwedd, annefnydd, anmhwys, dibwysedd, ysgafnder; anwerth, gwagsawrwydd; ofer-edd, diesarwydd; anfudd, anfuddioldeb, afles, dilesrwydd, dilesedd; gwaelder, anenwogrwydd, dirmygedigrwydd.
Insignificant, *a.* dïystyr, dibwyll; heb bwyll *neu* ystyr ynddo; dibwys, anmhwysig, anmhwysfawr; disylwedd, ansylweddol, diwerth, diddefnydd; ofer, anolo, dirym, dinerth, dïeffaith, gwagsaw, disas; na thalo ddim; difudd, diles, anfuddiol, afiesol; diganlyniad; gwael, dirmygedig; dïarwyddocâd.
Insignificant, *s.* peth dibwys, &c.
Insignificative, *a.* anarwyddocaol, anarwyddol, anarwyddedigol.
Insincere, *a.* anghywir, rhagrithiol, ffuantus, ffugiol, anonest, anniffuant, anghlau, anffyddlawn, anmhur, twyllodrus, ffals, gau, ansicr.
Insincerity, *s.* anghywirdeb, rhagrith, ffuant, ffuantrwydd, ffuantusrwydd, ffug, anghleuder, anonestrwydd, ffugioldeb, anffyddlondeb, twyll, hocsed, geudeb; annhegwch.
Insinew, *v. a.* (*in* a *sinew*) cryfhau, nerthu, gwrygio, ynïo, arialu.
Insinuant, } *a.* (Ff.; Ll. *insinuans*) hudfodd-
Insinuating, } iol; yn ymlithro i mewn yn araf; yn dwyn i mewn yn araf; yn dirgel ddwyn ar gof, &c.; gwenieithiol, gwenieithus; lledfynegol, gogyfeiriol; cyfrwys; ensyniol.
Insinuate, *v.* (Ll. *insinuo*; Ff. *insinuer*) dwyn i mewn yn araf, yn arafaidd, gàn bwyll, *neu* yn lladradaidd; dirgel ddwyn ar gof; peri i un ddeall drwy arwydd *neu* awgrym; lledawgrymu, lledarwyddo, lled-ddywedyd, lledwedyd, lledfynegu, lledhysbysu, gogrybwyll, gogyfeirio, lledgyfeirio, goarwyddo, lleddangos, ensynio, ensonio, awgrymu, lledgynnyg; ymlithro i mewn heb ei ganfod, yn ddystaw, yn ddirgel, *neu* yn lladradaidd; ymlusgo i mewn heb ei ganfod, yn ddystaw, yn ddirgel, *neu* yn lladradaidd; ymlithro, ymlusgo; ennill yn raddol; ennill ewyllys da yn ddïarwybod i un; gweithio ei ffordd i mewn; bwrw i mewn bob yn ychydig; taflu i mewn o fesur ychydig ac ychydig; dwyn i mewn yn gyfrwys *neu* gynnil; gweniseitho, truthio, sidanu, hudfoddio; dyhidlo i mewn; ynferu.
To insinuate one's self—ymlithro *neu* ymlusgo i mewn heb ei ganfod, yn ddystaw, yn ddirgel, *neu* yn lladradaidd, &c.
To insinuate one's self into another's favour—ceisio ymlusgo i ffafr *neu* gyfeillach un; ceisio ymlithro i ffafr *neu* gyfeillach un; cynffonioni ar un; ymerlyn am fodd *neu* ffafr un; ymlusgo i ffafr un; ymbil *neu* ymgeisio âg wyneb un; ymrwbio wrth un; ennill bodd, ffafr, *neu* gariad un; llygadloni ar un.
To insinuate some overtures towards a peace—lledgynnyg ammodau heddwch.
Insinuation, *s.* (Ff.; Ll. *insinuatio*) ymlithrad *neu* ymlusgiad i mewn; dygiad arafaidd *neu* ladradaidd i mewn; gwaith un yn ymlusgo *neu* ymlithro yn ddirgel i serchiadau *neu* ewyllys da un; cyfrwys ymlithrad *neu* ymlusgiad i ffafr un; lledawgrymiad, lled-ddywediad, lledhysbysiad, lledgrybwylliad, gogrybwylliad, gogyfeiriad, ensyniad; awgrym, lledarwydd, lledfynag, amnaid, llettem, goarwydd; lledsen, lledogan, gogan cudd, gogan hannerog; gogan ar *neu* mewn hanner geiriau; gogan dàn y dannedd; gogan dàn

ei ddannedd; trawsdrem; truth *neu* weniaith am fodd un.

Insinuative, *a.* à fedr dynu serch un; à fedr ymddyrwyn i serch un; llithrog, ensyniol, gwenieithus, hudfoddiol; yn cyfrwys ennill serch un.

Insinuator, *s.* lledawgrymwr, gogrybwyllwr; llettemydd; ensyniwr; lledoganwr, lledoganydd, cudd oganwr; ymlithrwr i mewn.

Insipid, *a.* (Ll. *insipidus*) diflas, merf, dichwaeth, anflasus, adflasus, merfaidd, ofaidd; marwaidd, marw; ffladr; mall.

Insipidity, } *s.* diflasrwydd, diflasder, diflas-
Insipidness, } edd, diflasdod, merfedd, merfdra, anflasusrwydd, adflas, adflasdod, ofeiddrwydd, mallder, melli.

Insipience, *s.* (Ll. *insipientia*) annoethineb, anghallineb, annoethder, ffolineb, ffoledd, penwendid, hurtrwydd, synwyrball.

Insist, *v. n.* (Ll. *insisto*) sefyll, gorsefyll, gorphwys, pwyso, gorphwyso; arsefyll, dibynu, ymddibynu.

To insist on, } sefyll ar, gorsefyll ar,
To insist upon, } gorphwys ar, pwyso ar, arsefyll; aros ar; cadw at; haeru, taeru, hòni, mynu; sefyll ar *neu* wrth ei chwedl; parhau yn ddiysgog yn ei chwedl; dàl ar ei chwedl; dàl arni; bod yn daer ar; parhau yn lud yn ei arch *neu* ofyn; dirgymhell; dàl haer; bod a: ei haer.

Insistent, *a.* arsafol, yn gorphwys ar, yn pwyso ar, yn sefyll ar, yn gorsefyll ar.

Insistent wall—mur yn pwyso *neu* orphwys ar ryw beth; gwàl arsafol.

Insisture,† *s.* arsafiad, gorphwysiad ar, safiad ar; sefydlogrwydd.

Insitiency, *s.* (Ll. *in* a *sitio*) ansyched, disychedrwydd.

Insition, *s.* (Ll. *insitio*) impiad, ynddodiad, ynsodiad; seidiad; rhoddiad y naill beth yn y llall.

Insnare, *v. a.* (*in* a *snare*) maglu, rhwydo, byddaglu, byddagu, bachellu, bagellu, carfaglu, telmu.

Insnarer, *s.* maglwr, rhwydwr, byddaglwr, bachellwr, bagellydd.

Insobriety, *s.* ansobrwydd, anghymmedroldeb, ansyberi, meddwdod.

Insociable, *a.* anghyfeillgar, anghymdeithgar, anghydymeithgar, anghydymdeithgar, anghymdeithasgar, anghymdeithasol, digyfeillach, anghymrodol; anfwyn, anhynaws, anfoesgar; †anghyssylltadwy.

Insolate, *v. a.* (Ll. *insolo*) heulo, heuliadu; sychu *neu* gànu yn yr haul; heulsychu, heulganu.

Insolation, *s.* heuliad, heulsychiad, heulganiad, heulawd; sychiad *neu* gàniad yn yr haul; heuldraw.

Insolence, *s.* (Ff.; Ll. *insolentia*) traha, trahausder, tra, trawsfalchder, trawsfalchedd, balchder trahäus, balchder taiog, balchder, balchedd, gorhydri, gorhyfder, rhyfyg, rhydres; haerllugrwydd, digywilydd-dra, hewgrach, hewcri, sariant, sar, herder; anfoes.

Insolence,† *v. a.* trin yn drahäus.

Insolent, *a.* trahäus, trawsfalch, trahausfalch, balch, rhyfygus, taiog, haerllug, talgryf, digywilydd, hewgr, ffroenuchel, ffrom, effrom, gorhëwg, anfoesgar, sarig; †anghynnefin.

Insolidity, *s.* annurfingder, annurfinder, anfferder, anfferddineb, annwysder, anghaledrwydd, ansadrwydd, anghryfder; gwendid.

Insolubility, *s.* anhydoddedd, anhydoddrwydd, annhoddoldeb; annattodoldeb.

Insoluble, *a.* (Ff.; Ll. *insolubilis*) annhoddadwy, anhydawdd; anhylif; annattodadwy, annattodol, annattod, annadglymadwy; nas gellir ei ddattod *neu* ddadglymu; anhyrydd, dyrys, rhwystrus, nidrog; anegluradwy.

Insolvable, *a.* (Ff.; Ll. *in* a *solvo*) annattodadwy, annattod, annattodol; nas gellir ei ddattod *neu* egluro; anegluradwy, anamlygadwy; annhaladwy, anhydal; nas gellir ei dalu.

Insolvency, *s.* (Ll. *in* a *solvens*) talfeth, methdal, talfethiad, methdaliad, toredigaeth; anallu i dalu ei ddyled.

Act of insolvency—cyfraith methdalwyr, cyfraith methdal; torgedraith.

Insolvent, *a.* (Ll. *in* a *solvens*) analluog i dalu; nas gall dalu ei ddyled; methdalus, talfethol; toredig, wedi tori.

Insolvent debtor—dyledwr analluog i dalu; methdalwr, talfethwr, methdalawdr, toredigwr, annhalwr.

Insolvent law—cyfraith methdalwyr, cyfraith methdal; torgedraith.

Insolvent, *s.* methdalwr, talfethwr, methdalawdr, toredigwr, annhalwr; dyledwr analluog i dalu.

Insomnious, *a.* (Ll. *insomnious*) breuddwydiog; anesmwyth yn ei gwsg.

Insomuch, *ad.* (*in*, *so*, a *much*) yn gymmaint, gàn, càn; hyd oni; fel, fâl, màl, nes, fel ag; i'r fath raddau.

Insomuch that—yn gymmaint ag, hyd oni, fel.

Inspect, *v. a.* (Ll. *inspicio*, *inspectum*) edrych i mewn i; edrych i fewn; edrych i mewn; edrych ar; chwilio, chwilied, dyfal ystyried; craff edrych; rhoi, bwrw, *neu* gymmeryd golwg ar; golygu, arolygu, goruchwylied, goruchwylio, goruchwylio, edrych dros.

Inspect,† *s.*=*Inspection.*

Inspection, *s.* (Ll. *inspectio*) edrychiad i mewn; dyfal edrychiad ar beth; chwiliad, manwl chwiliad, arolygiad, arolygiaeth, golygiadaeth, goruchwyliad, golygiad, goruchwyliaeth, goruchwyliaeth ar, llywodraeth, llywodraeth ar; golygiad ar waith *neu* orchwyl; gwyliadwriaeth; darswyddiad.

Inspective, } *a.* arolygol, goruchwylygol; yn
Inspecting, } edrych i mewn, &c.

Inspector, *s.* arolygwr, arolygydd, goruchwylygwr, golygwr, goruchwyliwr, golygiedydd, chwiliwr, chwiliedydd; ymwelwr; darswyddwr; peithiedydd.

Inspectorship, *s.* arolygiad, goruchwylygiaeth, peithiedyddiaeth, swydd arolygwr.

Inspersed,† *a.* (Ll. *inspergo*) taenelledig ar.

Inspersion, *s.* (Ll. *inspersio*) taenelliad, ardaenelliad.

Inspeximus, *s.* (Ll.) cyfysgrif, cyfysgrifen.

Insphere, *v. a.* cronellu; gosod mewn rhod *neu* gylch.

Inspirable, *a.* anadladwy; à ellir ei dynu i mewn gyda'r anadl; ysbrydoladwy.

Inspiration, *s.* (Ff.; Ll. *inspiratio*) anadliad, anadliad i mewn, chwythad i mewn; tyniad i mewn gyda'r anadl; ysbrydoliaeth, ysbrydoliad.

By divine inspiration—trwy ysbrydoliaeth

Duw; trwy ddwyfol ysbrydoliaeth; trwy ysbrydoliaeth ddwyfol.

Poetic inspiration—awen.

Inspiratory, *a.* anadliadol, analiadol, anadledigol, anadlog; perthynol i anadlu.

Inspire, *v. a.* anadlu; i anadlu *neu* chwythu i mewn; chwythu *neu* anadlu i mewn i; anadlu *neu* chwythu yn; tynu yr anadl i mewn; tynu ei anadl ato; analu, chwythu; ysbrydoli, ysbrydoliaethu, ysbryduso, ysbrydloni; cyfranu rhyw ddawn i un mewn modd goruchnaturiol *neu* ysbrydol; cynnysgaeddu â rhyw ddawn mewn modd goruchnaturiol *neu* ysbrydol; awchu, cynhyrfu, cyffröi.

To inspire with some quality—peri, cyffröi, *neu* greu rhyw gynneddf mewn un.

He inspired them with courage—parodd yni ynddynt.

Divinely inspired—cynhyrfedig gàn Ysbryd Duw; cynhyrfedig gàn yr Ysbryd Glân; à gynhyrfwyd gàn Ysbryd Duw; à gynhyrfwyd gàn yr Ysbryd Glân; à roddwyd gàn ysbrydoliaeth Duw; gwedi ei roddi gàn ysbrydoliaeth Duw; gwedi ei ddwyfol ysbrydoli.

Inspired with pride—wedi ei chwythu gàn falchder.

Inspirer, *s.* ysbrydolwr; anadlwr.

Inspiring, *a.* bywiocaol, bywiogol, bywiocäus, calonogol, cyffroawl; yn ysbrydoli.

Inspirit, *v. a.* bywiogi, bywiocäu, bywioli, bywhau, ediogi, eidio, arialu; rhoi ysbryd *neu* fywyd mewn; ysbrydoli; gwrygio, ynïo.

Inspissate, *v. a.* (Ll. *in* a *spissus*) tewychu, tewhau, gwneyd yn dew, tewychiannu.

Inspissation, *s.* tewychiad, tewhad, tewychiant.

Instability, } *s.* (Ll. *instabilitas*) ansefydlog-
Instableness, } rwydd, anwadalrwydd, anwadalwch, anwastadrwydd, ansadrwydd, gwamalder, syfaldod; cyfnewidioldeb, newidiolder.

Instable, *a.* (Ll. *instabilis*) ansefydlog, anwadal, anwastad, gwamal, ansad, ansafedig, syfal; cyfnewidiol.

Install, *v. a.* (Ff. *installer*; o'r Al. *stall, stellen*) ystelio, gorseddu; urddo, graddio; rhoi *neu* osod mewn côr; gosod mewn swydd, gradd, *neu* urdd; sefydlu.

Installation, *s.* ysteliad, ysteliaeth, gorseddiad; urddiad, graddiad; sefydliad; gosodiad mewn swydd, &c.

Instalment, *s.* ysteliad, gorseddiad, &c.; ystelfa, gorseddfa; rhandal, cyfrandal; rhandaliad, cyfrandaliad; dogn, rhan, cyfran.

By instalments—bob yn hyn a hyn; bob yn ddogn; bob yn rhan; bob yn gyfran; o dipyn i dipyn; bob yn dipyn; yn rhandalion, trwy randaliau.

Instance, } *s.* (Ff. *instance;* Ll. *instans*) anghraifft,
Instancy, } enghraifft, engraff, cynllun, sampl; cais, gofyn, taergais, taer ofyniad, eirioled, eiriolaeth, taerineb, taerni, deisyfiad, dymuniad; amser, pryd, achlysur, achos; crybwyll; †dylanwad.

For instance—er dangos, er enghraifft, er anghraifft, er engraff, er mwyn dangos, er cynllun; i roddi cynllun *neu* enghraifft; er rhoddi engraff *neu* enghraifft; i wneuthur hyn yn eglur; er gwneuthur hyn yn eglur; er dangos hyn yn eglur *neu* yn eglurach; er mwyn enghraifft; er sampl: mal, fal, fel, megys.

In every instance of duty—yn mhob achos *neu* achlysur dyledswydd; yn mhob gweithred *neu* ran o ddyledswydd.

At the instance of the defendant—ar gais yr amddiffynydd.

Instance court — engrafflys = cangen o'r morlys.

Crucial instances — croes enghreifftiau, anghreifftiau croes, anghreifftiau croesol.

Instance, *v.* rhoddi enghraifft, anghraifft, engraff, drychnod, *neu* sampl; rhoi cyffelybiaeth, rhoi cynllun; son am, crybwyll am, crybwyll, enwi; crybwyll yn enghraifft; dwyn awdurdod dros ddadl; profi drwy anghraifft; dwyn yn engraff.

I need not instance the—nid rhaid i mi son *neu* grybwyll am y; afraid son *neu* grybwyll o honof am y.

Instant, *a.* (Ff.; Ll. *instans*) presennol, digyfrwng, diattreg, diannod, disyfyd, disymmwth, ebrwydd, chwai; cyfagos, ger llaw, ger; taer, dyfal, dibaid, difrif, difrifol, taergeisiol; à fo yn cerdded, rhe, cyfisol.

On the tenth instant—ar y degfed o'r mis hwn; ar y degfed cyfisol; ar y degfed o'r mis presennol; ar y degfed o'r mis sy'n cerdded; ar y degfed rhe.

On the first of May instant—ar y cyntaf o Fai presennol; ar y cyntaf o'r Mai sy'n cerdded.

To be instant—bod yn daer; taer ymgais â; taer grëu ar.

Continuing instant in prayer — yn dyfal barhau mewn gweddi.

Instant, *s.* mynyd, mynydyn, meityn, meidyn, eiliad, cythrym, cyttrym, cyttryn, origyn, cythrymedd, chwipyn, haiach, haiachen, rhŷn; dim o amser; y dim lleiaf o amser; diddym amser; amrentyn, amrant, amrantiad; pryd, amser; y mis presennol, y mis hwn, y mis sy'n cerdded.

In an instant, } mewn mynydyn, mewn
At an instant, } mynyd; mewn dim o amser, &c.; ar darawiad amrant; ar darawiad llygad; yn ddisymmwth ddiattreg; yn ddisymmwth heb attreg; yn ddisymmwth, yn ddiattreg, heb attreg, yn ddiaros, yn ddiannod, yn ddisyfyd, yn ddiymaros, yn y màn, yn y fân, yn gyttrymol, chwaff, chwap, yn chwepyn, yn chwipyn, yn chwip.

At that instant—yn yr awr hòno; ar y mynyd hwnw; yn y mynyd hwnw.

At this instant—ar *neu* yn yr awr hon; ar *neu* yn y mynyd hwn; yn y mynyd.

At the very instant—ar y mynydyn; ar yr origyn; ar yr unig fynyd.

At what instant—ar ba fynyd; pa bryd bynag; pa fynyd bynag; pa awr bynag.

Thou wilt not be an instant going there—ni byddi haiach yn myned yno.

Instantaneity, *s.* cynnyrch difyfyr, cyfansoddiad diragfyfyr, rhygomwaith.

Instantaneous, *a.* (Ff. *instantané;* It. ac Ysp. *instantaneo*) disymmwth, diattreg, disyfyd, diannod, talmeithr; à wnaed mewn mynydyn, &c.; cythrymol, cyttrymol, cyttrym, cyttryn, chwap, chwipyn, chwip.

Instantaneously, *ad.* yn ddisymmwth, &c.; mewn mynydyn, mewn mynyd; mewn dim o amser; mewn eiliad; ar darawiad amrant; ar darawiad llygad; heb attreg, yn y màn, yn y fân, chwaff, chwap, yn chwepyn, yn

chwipyn, chwip, toc, yn ebrwydd, haiachen, haiach.

Instantaneousness, *s.* disymmythder, disyfydrwydd, dïattregwch, cyttrymedd, cyttrymoldeb, cyttrynoldeb.

Instanter, *ad.* (Ll.) yn ddïattreg, yn ddïaros, yn ebrwydd, yn ddïoed, yn uniongyrch, yn uniongyrchol; ar y pryd hwn.

Instantly, *ad.* yn ddisymmwth, yn ddïattreg, &c.; mewn mynydyn, mewn mynyd, mewn eiliad; mewn dim o amser; mewn cyttrym; mewn origyn; yn ddisymmwth ddïattreg, yn ddisymmwth heb attreg, heb attreg, heb oedi; yn ebrwydd; ar darawiad llygad; ar darawiad amrant; yn y màn, yn y fàn, chwaff, chwap, yn chwipyn, yn chwip, yn chwepyn, chwip, toc, haiach, haiachen; yn daer, yn ddyfal.

Go instantly — dos yn chwipyn, dos yn chwepyn, dos chwap, dos chwaff, &c.

I will do it instantly—mi a'i gwnaf ef chwap; mi a'i gwnaf mewn mynydyn; mi a'i gwnaf fo chwaff, &c.

Instar, *v. a.* seriglo, seirianu, serenu, dyserenu; gosod à ser *neu* glaeremau.

Instarred, *p. p.* seirian, serigl, serig; serigledig, seirianedig.

Instate, *v. a.* rhoi, gosod, *neu* gyflëu mewn swydd, anrawdd, *neu* sefyllfa; gosod, gosodi, sefydlu; graddosod, graddosodi, urddosod; †gwisgo.

Instaurate, *v. a.* (Ll. *instauro*) adgyweirio, adnewyddu, cyweirio, adferu, diwygio.

Instauration, *s.* (Ff.; Ll. *instauratio*) adgyweiriad, adferiad, adnewyddiad, adgywair, diwygiad, adsefydliad; ail-adeilad.

Instaurator, *s.* adferwr, adgyweiriwr, adgyweirydd, adnewyddwr.

Instead, *ad.* a *prep.* (*in* a *stead*) yn lle; tros, dros.

Instead of—yn lle; tros, dros; cystal a; megys; yn nghyferyd, yn nghyfeiryd.

This consideration is instead of a thousand arguments—y mae yr ystyriaeth hon gystal a mil o resymau.

Insteep, *v. a.* mwydo, trwytho, gwlychu, swgio, sicio, gwlychu mewn, rhoi yn wlych.

Instep, *s.* (*in* a *step*) mwnwgl troed, gwàr troed, arsang, arsangai.

The instep — mwnwgl y troed, gwàr y troed.

High in the instep — balch, sythfalch, uchelfalch.

Instigate, *v. a.* (Ll. *instigo*) cynhyrfu, annog, cyffröi, cymhell, dirio, ystuno, annos, hysio, ergyrio, ysmudo.

Instigation, *s.* (Ll. *instigatio*) cynhyrfiad, annogaeth, annogiad, cyffroad, annosiad, ystunad, cynhyrfedigaeth, ysmud, ysmudiad, ergyr, ergyriad, cymhelliad, diriad, gorddwyad; profedigaeth.

Instigator, *s.* (Ll.) annogwr, annogydd, cynhyrfydd, cynhyrfwr, ystunwr, cymhellwr, ysmudai, cymhellai.

Instil, *v. a.* (Ll. *instillo*) defnynu i mewn; hidlo *neu* ddyhidlo i mewn; ynferu; tywallt *neu* fwrw i mewn; bwrw *neu* dywallt i mewn bob yn ddyferyn; tywallt i mewn bob yn ddafn *neu* ddeigryn; bwrw i mewn bob yn ychydig; bwrw i fewn o fesur ychydig ac ychydig; dysgu *neu* addysgu yn raddol; athrawiaethu, addysgu, dysgu, egwyddori, hyfforddi.

To instil into the mind—tywallt o fesur ychydig ac ychydig yn y meddwl; meithrin un mewn egwyddorion; dysgu peth yn raddol i un; addysgu un yn raddol mewn peth; peri defnynu *neu* ddyferu yn y meddwl; dyferu, ynferu, hidlo, *neu* ddyhidlo i'r meddwl; athrawiaethu, addysgu, dysgu, egwyddori, hyfforddi.

Instillation, *s.* (Ll. *instillatio*) defnyniad i mewn; tywalltiad i mewn bob yn ddefnyn *neu* ddeigryn; tywalltiad i mewn o fesur ychydig ac ychydig; ynferiad, deigryniad; graddol gyfraniad gwybodaeth *neu* egwyddorion; cyfraniad addysg; addysg, athrawiaeth, egwyddoriad, hyfforddiad; y peth à ddefnyner i mewn.

Instiller, *s.* defnynwr *neu* ddyhidlwr i mewn; ynferwr.

Instilment, *s.* peth à ddefnyner; unrhyw beth à ddyhidler; defnyniad.

Instimulate,† *v. a.* (Ll. *instimulo*) cynhyrfu, cyffröi, annog, annos, gyru yn mlaen.

Instimulation, *s.* cynhyrfiad, cyffroad, annogiad, annosiad.

Instinct, *s.* (Ff.; Ll. *instinctus*) greddf, cyngreddf, anian, cynneddf, gwŷn anianol, anianwyn, anian-duedd, anian-ddeddf; cyffrawd, cyffro, ymgyffro, cyffroad, cynhwrf, ymgynhwrf, cynhyrfiad; ysbrydoliaeth.

Natural instinct—anian, greddf.

Instinct, *a.* cynhyrfedig, cyffröedig, cymhelledig; bywiog, calonog, hawntus.

Instincted, *a.* cyngreddfedig, cynhyrfedig gàn

Instinction,† *s.*=*Instinct.* [reddf.

Instinctive, *a.* greddfol, anianol, cyngreddfol; hun-annogol.

Instinctively, *ad.* yn reddfol, yn gyngreddfol, yn anianol, o wŷn anianol, o anianwyn.

Institute, *v. a.* (Ll. *instituo*) gosod, sefydlu, gosodi; deddfu, rheithio, ordeinio, appwyntio; egwyddori, hyfforddi, addysgu, dysgu; gwneuthur, gwneyd; sylfaenu, seilio; dechreu, cychwyn, gosod ar droed.

To institute a suit — gwledychu hawl, cyffröi hawl, cychwyn hawl.

To institute to a living—gosod *neu* sefydlu mewn bywoliaeth eglwysig; derbyn *neu* gymmeradwyo un gàn yr esgob i fwynhad bywoliaeth *neu* berigloriaeth.

Institute, *s.* deddf, cynraith, arddeddf, cynddeddf, rhaith; gosodiad, gosod, deddfawd, gosodiaeth, gosodedigaeth; defod, arddefod; egwyddor, arwiredd, arwiredd; llyfr egwyddorion; sefydliad; cymdeithas: *pl.* gosodau, gosodiadau, gosodiaethau, egwyddorion, elfennau, seiliadau, ystatynau, deddfau, cyfreithiau, ordinhadau, deddfodau, cynreithiau.

Institution, *s.* (Ff.; Ll. *institutio*) sefydliad, gosodiad, trefniad, gosod, gosodiaeth; y peth *neu* yr hyn à sefydlwyd; addysgiad, addygiad, hyfforddiad, egwyddoriad, addysgiaeth, dysgeidiaeth; deddfiad, rheithiad, deddfodiad; deddf, deddfawd; cymmeradwyad: *pl.* egwyddorion, sefydliadau, &c.

Human institutions—gosodiadau, gosodau, sefydliadau, *neu* ordinhadau dynol; gosodau dynion.

Educational institutions — sefydliadau addysg, sefydliadau dysg, sefydliadau addysgiadol; dysgeidfau, dysgeidfaoedd, addysgfaoedd.

Polytechnic institution—sefydliad amgelfyddol, sefydliad amrygelfyddol, sefydliad amrygelf, amgelfyddfa.

Institution to a living—gosodiad *neu* sefydliad mewn bywoliaeth eglwysig; derbyniad *neu* gymmeradwyad un gàn yr esgob i fwynhad perigloriaeth *neu* fywoliaeth; gosodiad mewn meddiant o bersoniaeth.

Institutional, *a.* gosodiadol, gosodedigol, sefydledig; egwyddorol, elfenol, elfyddol.

Institutionary, *a.* elfenol, egwyddorol, cynegwyddorol; dechreuol, sylfaenol.

Institutist, *s.* egwyddorwr, elfenwr; ysgrifenydd ar elfenau *neu* egwyddorion dysg; gosodiedydd.

Institutive, *a.* gosodiadol, gosodol, gosodedigol, gosodedigaethol, sefydliadol; à sefydlo, à osodo; sefydledig, gosodedig; yn dibynu ar sefydliad.

Institutor, *s.* (Ll.) sefydlwr, sefydlydd, gosodwr, gosodydd, deddfodwr, deddfodydd; sylfaenwr, sylfaenydd, seiliwr, seilydd; addysgydd, addysgwr, addygwr, dysgawdwr, athraw, egwyddorwr.

Instop, *v. a.* attal, rhwystro; cau; sicrhau.

Instratified, *a.* ynhaenedig, haenedig mewn peth arall.

Instruct, *v. a.* (Ll. *instruo, instructum*) addysgu, dysgu, hyfforddi, egwyddori, athrawu, athrawiaethu; trawiadu; cyfarwyddo, hysbysu i, hysbysu, gorchymyn; †llunio.

To be instructed—cael ei addysgu; cael ei ddysgu; bod wedi ei ddysgu *neu* addysgu.

Easily instructed, } hyddysg; hawdd
Easy to be instructed, } ei ddysgu; hawdd i'w ddysgu; dysgadwy; deallgar.

Instructible, *a.* galluog i addysgu.

Instruction, *s.* (*Ff.*; Ll. *instructio*) addysg, dysg, dysgeidiaeth, athrawiaeth; hyfforddiad, cyfarwyddiad, cyfarwyddyd, cyfarwyddawd, dysgad, egwyddoriad; gorchymyn.

Simultaneous instruction — addysg cydweithredol, addysg cyweithredol; addysg cyfadroddol; addysg ar yr un pryd; addysg cyd ar unwaith.

His instructions were—archwyd, gorchymynwyd, gorchymynasid, *neu* archasid iddo; ei hyfforddiadau oeddent.

These were my instructions—dyma y gorchymynion à roddwyd i mi; fel hyn y gorchymynwyd i mi.

According to the king's instructions—yn ol gorchymyn y brenin.

Instructive, *a.* (*Ff. instructif*; Ysp. *instructivo*) addysgiadol, addysgol, dysgol, dysgedigol, addysgedigol, athrawus, athrawaidd, athrawgar, athrawiaethus, hydraw.

Instructiveness, *s.* addysgoldeb, dysgoldeb, addysgiadolrwydd, hydrawedd; gallu i addysgu.

Instructor, *s.* (Ll.) addysgwr, addysgydd, dysgedydd, dysgawdwr, dysgawdur, dysgawdr, dysgwr, dysgydd, athraw; hyfforddwr, hyfforddydd, cyfarwyddwr, trawiedydd, trawiadur.

Instructress, *s.* dysgodres, athrawes, addysges, dysgedyddes, dysgawdures.

Instrument, *s.* (Ll. *instrumentum*) offeryn, peiriant, ermig, peirian, teclyn, tacl, ceryn, arf, (*dim.* erfyn), diler, dilyr, celfyn, celfyn; dodrefnyn; gweithred, ysgrifen, llythyr: *pl.* offer, offernau, peiriannau, trec, treciau, taclau, celfi, arfau, dilerau, dilyrau.

Musical instrument, } offeryn cerdd: *pl.*
Instrument of music, } offer cerdd, offernau cerdd.

Stringed instrument—offeryn tannau: *pl.* offer tannau.

Wind instruments — offer chwyth, offer gwyntio, offer cerdd chwyth.

Keyed instruments — offer cywair, offer cyweirgyrn, offer cyweirdannau, offer cyweiriog, offer allweddog, offer ebilliog; offer âg allweddau *neu* ebillion iddynt.

Percussion instruments—offer taraw, offer dargnith, offer cnithio.

Case of instruments—cistan offer; caes o gelfi; offergist, offergaes.

Mathematical instruments — celfi mesuronol, offer gwyddonol.

Instruments of war — peiriannau rhyfel, offer rhyfel, rhyfeloffer, rhyfelbeiriannau, arfau rhyfeledig.

Instruments of death — arfau angeuol, offerynau angeu, offer dïenyddol.

An instrument in writing—ysgrifen, gweithred, llythyr: *pl.* ysgrifeniadau, ysgrifenadau, gweithredoedd.

Instrument-maker—peiriannwr, gwneuthurwr offer, offerynwr.

Threshing instrument — peiriant dyrnu, offeryn dyrnu; ffust.

Instrumental, *a.* offerynol, peiriannol, peiriannus, offerol, offeriannus, offeriannol, ermigol; ar offer cerdd; à fo yn offeryn i ddwyn peth i ben *neu* yn mlaen; à fo yn foddion i ddwyn peth i ben *neu* yn mlaen; defnyddiol, gweinyddol; gwasanaethgar, buddiol.

Instrumental music—cerdd offerynol, cerdd dannau, cerdd dant, cerdd offer; peroriaeth ar offer cerdd; cerddoriaeth offerynol.

Music vocal and instrumental—cerdd dafod a thannau; cerdd dafod a thant; cerdd arwest a cherdd dannau.

I was no ways instrumental in it—nid oedd genyf fi law yn y byd ynddo; ni bu i mi na llaw na bys ynddo.

Instrumentally, *ad.* yn offerynol, &c.; ar wedd offeryn; fel offeryn; yn offeryn.

Instrumentally he was the cause of our ruin—efe oedd yr offeryn à arferodd Duw i'n dinystrio; efe oedd yr achos offerynol o'n dinystr; yn offerynol efe oedd yr achos o'n dinystr.

Instrumentality, } *s.* offerynoldeb, offerynol-
Instrumentalness, } rwydd, offerynoliaeth, offeroldeb, periannoldeb, peiriannusedd, peiriannusrwydd, peiriannoledd, peiriannolder, peiriannedd, offeriant, offeriannoldeb, offeriannusrwydd; defnyddioldeb, gwasanaethgarwch.

Instyle,† *v. a.* enwi, cyfenwi, galw.

Insuavity, *s.* (Ll. *insuavitas*) ansirioldeb, anhyfrydwch, anhyfrydedd, annhiriondeb, anfwynder, dyfrydwch, dyfrydedd.

Insubjection, *s.* annarostyngiad, annarostyngiaeth, annarostwng, anwarogaeth, anwriogaeth, anufydd-dod i lywodraeth, afiywodraeth.

Insubmission, *s.* anymostyngiad, anymddarostyngiad, anymostwng, anymddarostwng,

diffyg ymostwng, anufydd-dod, anufyddhad.

Insubordinate, *a.* anymostyngol, afreolus; yn peidio âg ymostwng i awdurdod; anisraddol.

Insubordination, *s.* afreolaeth, afreoledd, annhrefn, terfysg; anymostyngiad, anymostwng, diffyg ymostyngiad, gwall ymostyngiad; anufydd-dod; anufyddhad i awdurdod cyfreithlawn; anisraddiad, anisraddoliaeth, anisraddiant.

Insubstantial, *a.* ansylweddol, disylwedd.

Insuccation, *s.* (Ll. *insucco*) mwydiad, mwydiant, swgiad, siciad.

Insufferable, *a.* anoddefadwy, anoddef, anoddefol, annyoddefol, annyoddefadwy; nas gellir ei oddef; anwiw ei oddef; anrheith-oddef, anrhaith ei oddef; adgas.

Insufficiency, *s.* annigonoldeb, annigonolrwydd, annigonedd, annigonawd; anallu; diffyg.

Insufficient, *a.* annigonol, annigon; analluog; anghyfreidiol, anghyfraid; diffygiol; anghyfaddas.

To render insufficient—gwneuthur yn annigonol; annigoni.

Insufflation, *s.* (Ll. *in* a *sufflo*) archwythad, archwythiad, aranadliad, chwythad ar, chwythiad i mewn.

Insuitable, *a.*=*Unsuitable.*

Insular, } *a.* (Ll. *insularis*) ynysol, perthynol
Insulary, } i ynys.

Insular, } *s.* ynyswr, ynysydd: *pl.* ynyswyr,
Insulary, } ynysolion.

Insularity, *s.* ynysoldeb, ynysolrwydd, ynysolder; sefyllfa ynys; y cyflwr o fod yn ynys.

Insulate, *v. a.* (Ll. *insula*) gosod ar ei ben ei hun; gosod *neu* roddi wrtho ei hun; neilltuo, gwahanddodi, monadu, unigoli, unigo, anghysbellu; ynysu, ynysoli, gwneyd yn ynys.

Insulate, *a.* ar ei ben ei hun; wrtho ei hun; yn sefyll wrtho ei hun; gosodedig ar neilltu; *neu* arwahan; monadedig, neilltuedig, unigedig; heb gyssylltiad rhyngddo a dim arall; anghyssylltedig, anghysbell, diarffordd; ynysedig.

Insulation, *s.* monedigaeth, monad, unigiad, neilltuad; gosodiad ar ei ben ei hun; cyflead wrtho ei hun; ynysedigaeth, ynysedigrwydd, anghysbellder, anghysbelledd.

Insulator, *s.* monadyr; anarweinydd; annhrydan.

Insulous, *a.* ynysog, llawn ynysoedd.

Insulse,† *a.* (Ll. *insulsus*) diflas; swrth, marwaidd, dwl.

Insult, *s.* (Ll. *insultus;* Ff. *insulte*) sarhad, dirmyg, tremyg, tra, traha, dirdra, argawdd, cawdd, casgawdd, coddiant, sar, arsar, sarhäed; rhyfyg; gwatwar sarhadus, dïystyrllyd, *neu* ryfygus; rhuthr, ymgyrch; ymffrost à wneir ar un; ymgodiad yn erbyn un.

Extreme insult—tra dirmyg, rhygoddiant, rhygawdd.

Insult, *v.* sarhau, anmharchu, anmherchi, argoddi, sarhadu, dirmygu, tremygu, anfrïo, difrïo; dïystyru; trin yn anmharchus, yn ddïystyrllyd, *neu* yn edliwgar; ymgodi, ymfawrygu, *neu* ymryfygu yn erbyn un; gwneuthur ymffrost ar un; gwawdio, gwatwar, gwatwor; gosod ar, ymosod ar, rhuthro ar, ymruthro ar, cyrchu ar.

To insult over—gorfoleddu dros, ymorfoleddu dros; gwneuthur ymffrost ar.

Insultation, *s.* sarhad, anmharchiad, anmherchiad, dirmygiad, argoddiant, argoddiad; ymgodiad yn erbyn; gwneuthuriad ymffrost ar un; gwawdiad; gorfoleddiad *neu* ymorfoleddiad dros un.

Insulter, *s.* dirmygwr, sarhäwr, anmharchwr, argoddwr.

Insulting, *a.* sarhäus, sarhadus, dirmygus, tremygus, dïystyrllyd, anfrïol, difrïol, trahäus, argoddus, edliwgar, enllibus, anfoesgar, gwawdus, gwatwarus.

Insultingly, *ad.* yn sarhäus, &c.; yn llawn dirmyg; gyda dirmyg, gyda sarhad; gyda dirmyg a dïystyrwch.

Insume,† *v. a.* (Ll. *insumo*) cymmeryd i mewn.

Insuperability, } *s.* anorfodedd, anorfodrwydd,
Insuperableness, } anorchfygoldeb, anorchfygolrwydd.

Insuperable, *a.* (Ll. *insuperabilis*) anorfod, anorchfygol, anoresgynol, anorfodol, anorfodadwy, anorchfygadwy, annhrechadwy; anesgor, anesgorol; nas gellir cael y goreu arno; nas gellir myned drosto gàn ei anhawsed.

Insuperably, *ad.* yn anorfod, &c.; mewn modd anorfod *neu* anorchfygol.

Insupportable, *a.* anoddefol, annyoddefol, anoddefadwy; nas gellir ei oddef; nas gellir ei ddwyn *neu* gynnal; rhy drwm i'w ddwyn; anhyddwyn; gorthrwm.

Insupportableness, *s.* anoddefoldeb, anoddefolrwydd, anoddefedd, annyoddefoldeb.

Insuppressible, *a.* anattaladwy, afluddiadwy, anghyfarsengadwy, anllethadwy, aflethadwy, anfygadwy; nas gellir ei gyfarsengu; anghuddiadwy.

Insuppressive, *a.* anattaliol, afluddiol, anghyfarsengol, anghyfarsangol, aflethol.

Insurable, *a.* (o *insure*) diogeladwy, digolledadwy, yswiriadwy.

Insurance, *s.* (o *insure*) diogeliad, digolledïad, yswiriant, digolliant; yswirdal, llog digolledu.

Insurance office—digolledfa, diogelfa, yswirfa, dilysfa, swyddfa digolledïad, swyddfa yswiriant.

Policy of insurance—yswireb, digolledeb, digolledrwym, digolledlen.

Life insurance—digolledïad bywyd, yswiriant bywyd, diogeliad bywydau, oes-yswiriant.

Fire insurance — tân-yswiriant, tân-ddiogeliad, digolledïad rhag tân, yswiriant tân.

Insurancer,† *s.* digolledwr, diogelwr.

Insure, *v.* (*in* a *sure;* Ff. *assurer*) diogelu, digolledu, yswirio, digolliannu, gwarantu; ymrwymo ar ddiogelu *neu* ddigolledu.

Insurer, *s.* digolledwr, digolledydd, diogelwr, digolliannwr, yswirianwr.

Insurgent, *a.* (Ll. *insurgens*) terfysgol, terfysgus, terfysgaidd, terfysglyd, ymderfysgol, ymgodol, gwrthryfelgar, gwrthryfelog, gwrthryfelus; à ymgodo yn erbyn yr awdurdodau.

Insurgent, *s.* terfysgwr, terfysgydd, ymderfysgwr, gwrthryfelwr; ymgodwr, gwrthgodwr; un à ymgodo yn erbyn y llywodraeth.

Insurmountable, *a.* anorfod, anorchfygol, anorfodadwy, anorchfygadwy, anoresgynadwy, annhrechadwy; nas gellir cael rhagor arno; nas gellir cael y goreu arno; nas gellir myned drosto gàn ei uched *neu* anhawsed.

Insurrection, *s.* (Ll. *insurrectio*) terfysg, gwrthryfel, gwrthgodiad, cyffro, gwrthryn, ymgodiad, traweniad; ymgodiad yn erbyn llywodraeth.
To make insurrection against—ymgodi yn erbyn; cyfodi yn erbyn; codi i fyny yn erbyn; gwneuthur terfysg yn erbyn; ymddyrchafu yn erbyn.

Insurrectionary, *a.* terfysgaidd, terfysgus; gwrthryfelus, gwrthryfelog, gwrthryfelaidd; perthynol i derfysg *neu* ymgodiad.

Insusceptibility, *s.* annerbyngarwch; anmharodrwydd i dderbyn argraff; analluedd i deimlo *neu* synio; ansynioldeb, anhydeimledd, annheimladrwydd.

Insusceptible, *a.* annerbyngar, annerbynadwy; na ell dderbyn *neu* gymmeryd argraff; na ddichon dderbyn *neu* gymmeryd argraff; nas gellir gwneyd argraff arno; anmharod i gymmeryd *neu* dderbyn argraff; aneffeithiol, anysgogol.

Insusurration, *s.* (Ll. *insusurro*) ymhustingiad, ymsisial; hustingiad *neu* sisialad i rywbeth; husting, sisial, sibrwd.

Intact, *a.* (Ll. *intactus*) digyffwrdd, anghyffyrddedig, diymyr; heb gyffwrdd âg ef.

Intactable, } *a.* (Ll. *intactum*) anhydeiml, an-
Intactible, } nheimladwy, anghyffyrddadwy; anghlywadwy.

Intagliated, *a.* arfathedig, cerfiedig, crifedig.

Intaglio, *s.* (It.) crifen, crifon, crifed; peth cerfiedig; crifedfaen, trychem: *pl.* crifonau, crifedigion.

Intangible, *a.* annheimladwy, anhydeiml, anghyffyrddadwy; nas gellir cyffwrdd âg ef.

Intangibleness, } *s.* anhydeimledd, anghyffyrdd-
Intangibility, } adwyedd; ansawdd anghyffyrddadwy peth.

Intangle, *v. a.*=*Entangle.*

Intastable, *a.* anchwaethadwy, anflasadwy, anarchwaethadwy, anmhrofadwy.

Integer, *s.* (Ll.) cyfanrif, sym; peth cyfan, y cyfan: *pl.* cyfanion, symion, cyfanrifau.
Addition of integers—attodiaeth symion, cynnodiaeth symion, cynnodiad symion, cynnodiaeth cyfanion, attodiaeth cyfanrif, attodiaeth cyfanrifau.

Integral, *a.* (Ff. o *integer*) cyfan, cyfa, cyfoll, didwn, symiol, cyfanol; cyflawn, cwbl, cyfangwbl, llwyr, cyflwyr, allwyr, digoll, difwlch, perffaith, dinam.
Integral calculus — rhifoniaeth symiol, rhifioneg gyfanol.

Integral, *s.* y cyfan, y cyfoll, y cyfa, peth cyfan, cyfanbeth, cydol.

Integrality, †*s.* cyfander, cyfanedd, cyfanrwydd.

Integrant, *a.* (Ll. *integrans*) cyfanol, cyfaol; yn ffurfio rhan o'r cyfan; rheidiol i wneyd peth cyfan; cyfansoddol.

Integrate, *v. a.* (Ll. *integro*) cyfanu; adferu, adnewyddu; perffeithio; gwneuthur yn gyfan.

Integration, *s.* (Ll. *integratio*) cyfaniad; adferiad, adnewyddiad; unoliant, unoliad.

Integrity, *s.* (Ll. *integritas*) cyfander, cyfandra, cyfanrwydd, cyfanedd; uniondeb, unionder, cywirdeb, gonestrwydd, purdeb, puredd, perffeithrwydd, cleuder, cleufrydedd, anllygredigaeth meddwl, addwynder, cyfiawnder, dinamedd, symledd, symlrwydd.

Integumation, *s.* (Ll. *integuo*) tuddedaeth, taddedogaeth; traethiad ar wisg *neu* groen anifeiliaid a phlanigion.

Integument, *s.* (Ll. *integumentum*) gwisg, gorchudd, tudded, twyg, croen, croenen, croenyn, pilen, pilionen.

Intellect, *s.* (Ff.; Ll. *intellectus*) deall, y deall, deallt, dealltwriaeth, dyall, dyallt, dallt, dalltwriaeth, synwyr, y synwyr, synwyr naturiol; llafanad, menwyd, menw.
Men of intellect—gŵyr deallus, gŵyr deallfawr, deallwyr.

Intellection, *s.* (Ff.; Ll. *intellectio*) dealliad, dyalliad, dealltiad, dealledigaeth, dyalltiad, llafaniad, llafanad, menwad; gwybodaeth.

Intellective, *a.* (Ff. *intellectif*) deallol, dyallol, deallus, dyallus, dealledigol, dealltol; llafanol, menwol, menwydus; gwybyddol.

Intellectual, *a.* (Ll. *intellectualis;* Ff. *intellectuel*) deallol, dyallol, dealltol, deallus, dyallus, dealledigol; perthynol i'r deall; synwyrol, dealltwriaethol, meddyliol.
Good intellectual parts—synwyr naturiol da; synwyrau naturiol da.
Intellectual philosophy—athroniaeth ddeallol, athroniaeth feddyliol, athroniaeth y deall; meddyleg.

Intellectual, *s.* deall, dyall, deallt, dealltwriaeth, synwyr: *pl.* synwyrau, cynneddfau deallol.

Intellectuallist, *s.* dealltwr, dyalltwr; un à orbrisio y deall.

Intellectuality, *s.* dealloldeb, deallolrwydd, dealltoldeb.

Intelligence, *s.* (Ff.; Ll. *intelligentia*) deall, dyall, dealltwriaeth, dealltwri; gwybodaeth, gwybyddiaeth; pwyll; hysbysrwydd, copinod, hanes, hysbysiaeth, hysbysiad, addysg; cystlynedd; elaeth, bod ysbrydol, bod deallol, el, ener, elen, elfod, angel, ysbrydiad, gwybeddydd: *pl.* deallolion, elod, eloedd, ysbrydolion, ysbrydiaid.
To get intelligence—mynu gwybodaeth, mynu hysbysrwydd, mynu copinod; ymhysbysu; cael copinod, cael hysbysrwydd; clywed am beth.
To have intelligence with—bod â dealltwriaeth *neu* wybodaeth rhyngddo âg; ymgynghori â.
To give intelligence—hysbysu; hysbysu peth i un; rhoi copinod *neu* hysbysrwydd i un am beth.
Having intelligence of, } wedi cael
Having had intelligence of, } hysbysrwydd, copinod, clyw, hanes, *neu* wybodaeth am.
To hold intelligence together—cynnal cyfeillach âg un; ymgynghori â'u gilydd; cydymgynghori.
Intelligence-office — copinodfa, swyddfa copinod (yn y Taleithiau Cyfunol).

Intelligencer, *s.* newyddwr, hanesydd, hysbyswr, rhoddwr copinod, copinodwr, copinoddydd; cwd yr hanesion, cwd y newyddion; newyddiadur; ysbïwr.

Intelligencing, *a.* copinodol, hysbysol.

Intelligent, *a.* (Ff.; Ll. *intelligens*) deallus, dyallus, deallgar, dealltwrus, deallol, synwyrol, gwybodus, hywydd, medrus, cywraint.
Intelligent man—dyn deallus, dyn hywydd.

Intelligential, *a.* deallol, deallus, llafanol, menwol, mewydol, menwin, meddyliol.

Intelligibility, } *s.* hyddalltedd, hyddallt-
Intelligibleness, } rwydd, hyddealledd, hyddeallrwydd; eglurdeb; hawddineb deall peth.

Intelligible, *a.* (Ff.; Ll. *intelligibilis*) dealladwy, dyalladwy, dalltadwy, hyddallt, hyddeall; à ellir ei ddeall; hawdd ei ddeall, hawdd i'w ddeall; eglur.

Intelligibly, *ad.* yn ddealladwy, &c.; mewn modd dealladwy.

Intemerate,† *a.* (Ll. *intemeratus*) pur, dilwgr, dihalog, glân.

Intemerateness,† *s.* purdeb, dilygredd, anhalogrwydd, dihalogrwydd.

Intemperament, *s.* annhymmer, annhymmyr, anardymmer, annhymmeredd, anardymmeredd, anghyttymmeredd, drwg ansawdd.

Intemperance, *s.* (Ff.; Ll. *intemperentia*) anghymmedroldeb, anghymmedrolder, anghymmedroledd; ansobrwydd; annhymmer.

Intemperate, *a.* (Ll. *intemperatus*) anghymmedrol, anghymmesur; annhymmerus, anardymmerus, annhymmyrol, annhymmeraidd; meddw, glwth, glythig; nwydus, nwydwyllt, drygnwydus; annhirion, anfwyn; rhy dwym; rhy oer; garw.

Intemperate,† *v. a.* annhrefnu, annhymmeru.

Intemperateness, } *s.* annhymmerusrwydd, an-
Intemperature, } nhymmerusedd, annhymmereiddrwydd; annhymmer, anardymmer, annhymmyr, anardymmyr, annhymmyroldeb; anghymmedroldeb, anghymmedrolder, anghymmedroledd, anghymmedrolaeth; dryganiaeth, nwydusrwydd.

Intempestive,† *a.* (Ll. *intempestivus*) annhymmoraidd, annhymmorol, anamserol, anmhrydlawn.

Intempestivity,† *s.* annhymmoreiddrwydd, annhymmoroldeb, anmhrydlonrwydd.

Intenable, *a.* anniffynadwy, annaliadwy, anhyddal; nas gellir ei ddàl *neu* amddiffyn.

Intend, *v. a.* (Ll. *intendo*) bwriadu, amcanu, arfaethu; arofyn; meddylied, meddylio, meddwl; bod â'i fryd ar; arfedd, arfeddu, gofrydu; ewyllysio; estyn, ystyn; golygu; angerddu, grymusu; lledhyntio, lletyntio.

Intended wife—darpar wraig.

I intend for Britain—yr wyf yn arofyn myned i Brydain; yr wyf ar oddeu *neu* ar fedr myned i Brydain; yr wyf yn arofyn i Brydain; yr wyf yn bwriadu *neu* amcanu myned i Brydain.

Intendancy, } *s.* arolygiaeth, golygiaeth, golyg-
Intendency, } iad, arolygiad, goruchwyliaeth; talaeth.

Intendant, *s.* (Ff. o'r Ll. *intendo*) arolygwr, arolygydd, golygwr, golygydd, goruchwyliwr.

Intender, *s.* bwriadwr, amcanwr, arfaethwr.

Intendiment,† *s.* (Ff. *intendement*) ystyriaeth, sylw, deall.

Intendment, *s.* (Ff. *intendement*) amcan, bwriad, arfaeth, arfeddyd, arfedd, gofryd, cyngyd, goddeu, amcaniad; meddwl, ystyr, tuedd, gofeg, pwyll.

Intenerate, *v. a.* (Ll. *in* a *tener*) tyneru, meddalu, meddalhau.

Inteneration, *s.* tyneriad, tyneriant, meddaliad, meddalhad, tynerhad.

Intenible,† *a.*=*Intenable.*

Intensate, *v. a.* (Ll. *intensus*) angerddu, angerddoli, grymusu, cryfhau, nertholi; gwneyd yn angerddol; gwneuthur yn rymusach *neu* angerddolach; dwyshau.

Intense, *a.* (Ll. *intensus*) angerddol, angerddus, terwyn, tanbaid; dwys, gorddwys, tradwys, mawr, tramawr, dirfawr, tost; tyn, ar dyn; graid, oeth, awchus, gwrdd, egniol; eithafol, eithaf; tra-, gor-, dir-.

Intenseness, } *s.* angerddolder, angerddoldeb,
Intensity, } tanbeidrwydd, terwynder; dwysder, tradwysder, gorddwysder, mawredd, dirfawredd; athoestedd; hawnid; ainc, awchlymder, awchusrwydd; tynder, tyndra, athyndra; gorddyfalwch, tra dyfalrwydd; yngder.

The intenseness of a cord—tynder tant.

Intensify, *v. a.* dwyso, dwyshau; gwneuthur yn ddwysach; gwneyd yn fwy angerddol; grymusu, cryfhau.

Intension, *s.* (Ll. *intensio*) tynhad, tyniad, athyniad; gosodiad ar dyn, gosodiad ar annel, tyn anneliad; estyniad allan i'r eithaf; pariad angerdd, pariad ymangerddu, angerddiad, grymusiad, dwysiad, darddwysiad.

Intensive, *a.* tynadwy, estynadwy; tynhaol, tynedigol; grymusol, cryfhaol, dwyshaol, dwysol, dwysedigol, nerthiannol, hyrym; dyfal, tra dyfal, dwys ddyfal, astig, ystig, astud, llwyrfrydig, brydlawn, didor, dwys.

Intent, *a.* (Ll. *intentus*) dyfal, diwyd, astud, astig, ystig, prysur, tra dyfal, dwys ddyfal, llwyrfrydig, brydlawn, bwriadlawn, arfeddol, arfeddog, cyngydus.

Intent on, } â'i fryd ar, â'i fwriad ar, â'i
Intent upon, } feddwl ar, â'i lwyrfryd ar; dyfal mewn, &c.; cyngydus.

To be intent on doing a thing—bod yn ddyfal *neu* astud mewn peth; gwneuthur peth yn ddyfal, yn ddiwyd, yn astud, yn fanwl, *neu* yn astig; ymroi yn ystig i wneyd peth; bod â'i lwyrfryd ar wneuthur peth; rhoi ei fryd ar wneuthur peth.

Intent, *s.* bwriad, amcan, meddwl, bryd, dyben, medr, gofryd, arfaeth, arfedd, arfeddyd, arofyn, goddeu, cyngyd, addug, lletynt, lledhynt; tuedd, gogwydd, gofeg; ystyr, arwyddocâd.

To all intents and purposes—yn gyflwyr, yn gwbl, yn llwyr, achlân, yn hollol; yn mhob rhyw fodd; i bob dyben ac amcan; yn mhob ystyr.

For this intent—er mwyn hyn; i'r dyben hwn.

For that intent—er mwyn hyny; i'r dyben hwnw.

For what intent—am ba achos; i ba beth; i ba ddyben; am ba ddyben; pa ham.

To the intent that—fel, fâl, màl, fel y, fâl y, màl y, modd y; er mwyn; i'r dyben i; i'r dyben o.

Intention, *s.* (Ff.; Ll. *intentio*) bwriad, amcan, meddwl, bryd, dyben, gofryd, arfaeth, arfedd, arfeddyd, goddeu, cyngyd, addug, arofyn, lletynt, lledhynt; tuedd, gogwydd, gofeg; amcaniad, arofyniad; difrifoldeb, astudrwydd, tradyfalwch, llwyrfryd; dwysder, tynder; ystyr.

Full intention of mind—llwyrfryd calon; gwirfodd calon.

Full of intention — llawn addug, llawn bwriad.

Evil *or* bad intention—bwriad drwg, drwg fwriad, drygfwriad.

First intention — cynarfaeth; cynystyr, ystyr blaenaf, ystyr cyntaf, prif ystyr, ystyr penaf, cynaddug, prif addug.

It is my intention to proceed to London—yr wyf ar oddeu *neu* ar fedr myned i Lundain; yr wyf yn arofyn myned i Lundain; yr wyf yn bwriadu, yn meddwl, *neu* yn amcanu myned i Lundain; fy mwriad, fy mryd, *neu* fy amcan yw myned i Lundain.

Intentions void of deed will not avail—amcanion diweithred ni ryngant fodd.

Intentional, *a.* bwriadol, amcanol, arfaethol, gofrydol, arofynol; bwriadedig, amcanedig; â fwriadwyd; â wnaed o *neu* drwy fwriad; cyngydus; o fwriad; o wir fwriad.

Intentionally, *ad.* yn fwriadol, &c.; o wir waith goddeu; o'r gwaith goddeu; o wir waith goddeu; o wir fwriad; o wir berwyl; o lawnfryd; o ragfwriad; o fwriad; trwy fwriad; o'i fodd; yn wirfoddol.

Intentioned, *a.* bwriadedig, amcanedig: arferedig mewn cyfansoddiad.

Ill-intentioned — drygfwriadol, drygfwriadedig; drwg ei fwriad; drwg ei amcan; amcan-ddrwg; â chanddo fwriadau drwg.

Intentive, *a.* (o *intent*) dyfal, astud, diwyd, ystig, gofalus, eorth, dichlyn; brydlawn, bwriadlawn, llwyrfrydig; dwys.

Intentively, *ad.* yn ddyfal, &c.; o lwyrfryd calon; yn wresoglym, yn wresog, yn dra dyfal.

Intentiveness, *s.* dyfalwch, astudrwydd, diwydrwydd, ystigrwydd, dichlynrwydd, llwyrfrydigrwydd, brydlonedd; gofal; dwysder.

Intentness, *s.* dyfalwch, dyfalrwydd, astudrwydd, ystigrwydd, diwydrwydd, dichlynrwydd, eorthedd, llwyrfrydigrwydd, brydlonedd.

Inter, (Ll.) rhagddawd, yn arwyddo *rhwng, rhyng-, cyfrwng; yn mhlith, yn mysg, plith, mysg; cyd-, cy-, cym-.*

Inter, *v. a.* (Ff. *enterrer;* Ll. *in* a *terra*) claddu, daiaru.

Interact, *s.* (*inter* ac *act*) rhyngweithred, chware cyfrwng, rhyngchware.

Interaction, *s.* rhyngweithred, gweithred gyfrwng.

Interagent, *s.* rhyngweithredydd.

Interamnian, *a.* (Ll. *inter* ac *amnis*) rhyngafonol; â fo rhwng afonydd.

Interanimate, *v. a.* cydfywiogi, cydfywiocäu.

Interbastation,† *s.* (Ysp. *bastear*) clytwaith.

Intercalar, } *a.* (Ll. *intercalarius;* Ff. *inter-*
Intercalary, } *calaire*) ymsangol, gorymddygol; cyflenwol; â roer yn nghyfrwng; i'w roi yn nghyfrwng; â osodwyd i mewn; dyddsodol.

Intercalary days—dyddiau gorymddwyn, dyddiau ymsang, dyddiau ymsangol.

Intercalary month — mis gorymddwyn, mis ymsang, mis gorymddygol.

Intercalary stanza—gair cyrch, gair llusg, gair ymsang.

Intercalate, *v. a.* (Ll. *intercalo*) rhoi i mewn; cyflenwi, gorymddwyn; dyddsodi; rhyngosod, rhyngosodi, rhyngddodi.

Intercalation, *s.* gorymddygiad, ymsangiad, cyflenwad, rhyngosodiad, dyddsodiad; gosodiad y gorymddwyn *neu* y dyddiau gorymddwyn mewn blwyddyn; gosodiad gair cyrch *neu* llusg mewn cân; y gorymddwyn, yr ymsang.

Intercede, *v. n.* (Ll. *intercedo*) cyfryngu; eirioli, eirioli, arioli, erfyn, erfynio; myned, cerdded, dyfod, sefyll, *neu* fod rhwng; gwneuthur cyfrwng; rhyngu; cyfryngu rhwng dau; cyfryngu rhwng dwy blaid; ymyru, ymyryd; eirioli, eiriachu.

To intercede for—eiriol dros, erfyn dros; dadlu dros.

Intercede for the devout female sex—cyfrynga dros yr ofunedol wreigol ystlen.

I remembered the great kindness that had ever interceded between us—cofiais y mawr garedigrwydd â fuasai rhyngom erioed.

Intercedent, *a.* cyfryngedigol, cyfryngol, cyfryngaidd, rhyngol; eiriolus, ariolig, erfynol; yn dadlu dros.

Interceder, *s.* cyfryngwr, cyfryngydd; eiriolwr, eiriolydd; canolwr, canolydd.

Intercellular, *a.* rhyng-gellog; rhwng celloedd; rhwng rhywbeth.

Intercept, *v. a.* (Ff. *intercepter*; Ll. *interceptus*) dàl, cymmeryd, *neu* attal ar y ffordd; rhwystro *neu* luddias dyfod i'r lle gosodedig; rhwystro dyfod i ben y daith; tori ymaith ar y ffordd; attal oddi wrth; rhagflaenu, rhagachub, rhagod, rhwystro, lluddio, arluddio, attal, diebreidio, diebrydu; cymmeryd *neu* gynnwys rhwng.

Interceptor, *s.* daliwr, cymmerwr, *neu* attaliwr ar y ffordd; rhagflaenydd, rhagachubwr, rhwystrwr, rhagodwr.

Interception, *s.* (Ll. *interceptio*) daliad *neu* gymmeriad ar y ffordd; rhagod, rhagodiad, rhagddaliad, rhagflaeniad, arluddiad, attaliad, diebreidiad.

Intercession, *s.* (Ll. *intercessio*) cyfryngiad, cyfryngdod, cyfryngedigaeth, eiriolaeth, eirioledd, eirioled, eiriolwch, ariolwch, eiriolad, eiriol, ariol, ymbil, deisyfiad.

To make intercession for — eiriol dros, erfyn dros; cyfryngu dros; ymbil â.

To make intercession to a person for a person—eiriol *neu* erfyn ar un dros un.

Intercessional, *a.* eiriolus, cyfryngol, ariolig; yn cynnwys eiriolaeth.

Intercessionate,† *v. n.* eiriol, ymbil, deisyf, erfyn.

Intercessor, *s.* (Ll.) cyfryngwr, cyfryngydd; eiriolwr, eiriolydd; canolwr, canolydd.

Intercessory, *a.* eiriolus, ariolig, eiriachus, cyfryngol, cyfryngedigol.

Interchain, *v. a.* cydgadwyno, cynghadwyno, cadwyno.

Interchange, *v. a.* cyfnewid, cyfnewidio, cydgyfnewid, cydnewid, cydymnewid, cylchgyfnewid; dyfod *neu* fyned un yn lle y llall ar gylch; gwneuthur peth ar gylch; gwneyd peth bob eilwers.

Interchange, *s.* cyfnewid, cydgyfnewid, cydymnewid, ymgyfnewid, cylchgyfnewid; cyfnewidiad; masnach, trafnid.

Mutual interchange—ymgyfnewid, cydymnewid.

Interchangeable, *a.* cydgyfnewidiol, cylchgyfnewidiol, cyfnewidiol; i'w cyfnewid y naill yn lle y llall; â wneler ar gylch; â wneler bob yn ail.

Interchangeableness, *s.* cydgyfnewidioldeb, cydgyfnewidioldeb, cyfnewidioldeb, cylchgyfnewidioldeb.

Interchangeably, *ad.* yn gydgyfnewidiol, &c.; bob un yn ei dro; ar gyfnewid; ar gylch, cyf-

newid; bob eilwers; y naill ar ol y llall; y naill yn gystal a'r llall.

Interchangement, *s.* cydgyfnewidiad, cydgyfnewid, cylchgyfnewid, cylchgyfnewidiad, cydnewidiad, newidiad, cydaralliad.

Interchapter, *s.* rhyngbennod, pennod ffugiol.

Intercident, *a.* (Ll. *intercido*) rhyng-ddygwyddol; yn dyfod, yn dygwydd, *neu* yn syrthio rhwng.

Intercipient, *a.* (Ll. *intercipiens*) rhwystrol, rhagodol, lluddiol, arluddiol, attaliol; à rwystro *neu* à attalio beth ar y ffordd; à rwystro beth rhag ei fyned yn mlaen.

Intercipient, *s.* rhagodydd, rhagodwr, rhwystrwr, rhwystrydd; un *neu* beth à rwystro ar y ffordd.

Intercision, *s.* (Ll. *intercido*) rhwystr, lluddias, llestair, godor, attal.

Interclude, *v. a.* (Ll. *intercludo*) cau allan, cau y ffordd, rhwystro y ffordd; cau i mewn, gwarchau; rhwystro, nadel, *neu* luddias yn mlaen; rhagod, attal, lluddio, dyor.

Interclusion, *s.* (Ll. *interclusio*) rhagodiad, rhagod, rhwystrad, attaliad, lluddiad, arluddiad, rhagddaliad, gwarchau, attal; lluddiad rhag myned yn mlaen; cauad i mewn; cyfyng-gae.

Intercolumniation, *s.* (Ll. *inter* a *columna*) cyfrwng colofnau, cyfrwng dwy golofn, y pellder rhwng dwy golofn, colofrwng, colofryngiad, pilergyfrwng, pill-gyfrwng.

Intercome, *v. n.* (*inter* a *come*) cyfryngu, dyfod rhwng, myned rhwng.

Intercommon, *v. n.* cydymborthi, cydfwyta; cydbori, cydborfelu, cydborfäu, cydymbori.

Intercommonage, *s.* cydborfraint, rhyddid cydbawr, rhyddid cydymbawr, cydborhawl, hawl cydymbawr, cydborfelaeth.

Intercommunicable, *a.* cydgyfranadwy, cydgyfranol, cydgyfranogol, cydgyfrinachadwy.

Intercommunicate, *v. n.* ymgyfeillachu, ymgyfrinachu, cydgyfrinachu, cydgymdeithasu, cydgystlynu, cydgyfathrachu, cydgyfranogi, ymgyfranogi, cydgymuno.

Intercommunication, *s.* cydgyfranogiad, cydgyfraniad; cydymddyddan, ymgomiad, ymgom, ymgyfeillach, cydgyfrinach.

Intercommunion, *s.* cydgymuniad, ymgymuniad, cydgymundeb, ymgymundeb.

Intercommunity, *s.* cydgyfundod, cydgyfundeb, cydgymundeb; cydgyfranogiad; cydfeddiant.

Intercostal, *a.* (Ff.; Ll. *inter* a *costa*) rhyngeisol, rhyngasenol; yn gorwedd rhwng yr asenau; à fo rhwng yr ais.

Intercostal, *s.* rhyngeisran; rhan *neu* barth rhwng yr asenau.

Intercourse, *s.* (Ll. *intercursus*) cyweithas, ymgystlwn, ymgystlynedd, cystlwn, trafodiaeth, ymdrafodiaeth, trafod, ymgyfeillach, cyfathrach, cymdeithas, cydymdeithas, cyfeillach, cydgyfeillach, cysmeriaeth, ymgyfathrach, ymgyfrinach, masnach, trafnid, trafnidiaeth, maeleriaeth, cydfasnach, ymdriniaeth, ymdriu; cynniwair; rhyngrediad, rhyddrediad.

Mutual intercourse—cydgyfeillach, cydfasnach, ymgystlwn, ymgystlynedd, cydgysmeriaeth, ymddygyfranc.

Social intercourse—brodre, brodyrdde, cyfanneddrwydd, ymgystlwn cyfeillgar, cyfathrach addwyn.

Interour, *v. n.* (Ll. *intercurro*) cyfryngu, myned rhwng, rhedeg rhwng, rhyngredeg; dyfod yn y cyfrwng *neu* gyfamser; dygwyddo.

Intercurrence, *s.* (Ll. *intercurrens*) rhyngrediad, rhyngred, rhyngdrwyddyd, rhyngfynediad; mynediad *neu* rediad rhwng dau beth; dyfodfa rhwng; dygwyddiad.

Intercurrent, *a.* rhyngredol, rhyngrediadol; cyfryngol; à ddel yn y cyfrwng *neu* gyfamser; dygwyddol, damweiniol.

Intercutaneous, *a.* (Ll. *inter* a *cutis*) à fo rhwng y croen; à fo dàn y croen; isgroenol, isgroenaidd.

Interdeal, *s.* cydfasnach, cyttrafnid, cydfaeleriaeth, ymdrafod, masnach.

Interdentel, } *s.* cyfrwng deintellion, y pellder
Interdentil, } rhwng deintellion, cyfrwng deintwaith, deintryngiad, deintrwng.

Interdependence, *s.* cydymddibyniaeth, cydddibyniaeth, cyd-ddibyniad.

Interdependent, *a.* cydymddibynol, cyd-ddibynol; yn ymddibynu y naill ar y llall.

Interdict, *v. a.* (Ll. *interdico*, *interdictum*) gwahardd, gwarafun, gwaharddu, gwardd, gwarddu, gorafun, gwarafuno, lluddio, gwrthio; esgymuno; gwahardd cymundeb i *neu* â; rheithwahardd, rheithwardd.

Interdict, *s.* (Ll. *interdictum*) gwaharddiad, gwaharddedigaeth, gwardd, gwarddiad, gwarafuniad, gwarafuniaeth, gwarafun, gwrthbariad; gwarafuneb, gwarddysgrif, cyfraith warafun, rheithwardd, rheithwahardd, esgymundod, esgymuneb.

Interdiction, *s.* (Ff.; Ll. *interdictio*) gwaharddiad, gwarddiad, gwaharddiaeth, gwarafuniad, gwarafuniaeth, gwaharddedigaeth, gwarafunedigaeth, gwardd, gwarafun; gwaharddiad drwy ddeddf; gwarafuneb, rheithwardd; esgymundod; melltith.

Interdictive, *a.* gwaharddus, gwarddus, gwaharddol; à chanddo hawl i wahardd.

Interdictory, *a.* gwaharddol, gwarafunol, gwarddol, gwaharddedigol, gwarddedigol, gwarafunedigol; à waharddo dàn boen cosp *neu* esgymundod; yn cynnwys gwaharddiad.

Interequinoctial, *a.* (*inter* ac *equinox*) à fo rhwng y cyhydeddau; à ddygwyddo rhwng y cyhydnosau; rhwng alban eilir ac alban elfed.

Interess,† *s.*=*Interest.*

Interest, *v. a.* (Ll. o *inter* ac *esse*; Ff. *interesser*) bod à fyno â; bod à wnelo â; dori, dyddori, dyddawr, dawr, gofalu, gofalu am; perthyn i, deiryd i, perthynu i; bod mewn gofal am; dwyn dàn ofal; bod â gofal am; peri gofal; malio; effeithio ar; bod o bwys i; cyffröi, cynhyrfu; bod o ddyddordeb i; bod yn gyfranog o; cyfranogi o; cyfranu i; bod â chyfran yn; ennill, rhwymo, tynu; ymdrin â; ymyru â, ymyryd â.

To interest one's self in—gofalu am, dori am; ymofalu am *neu* yn nghylch; cymmeryd gofal am *neu* i; cymmaryd dyddordeb mewn; cymmeryd rhan *neu* gyfran yn; ymddori yn; ymddyddori yn; bod à fyno â; ymyryd â; ymdrafferthu am *neu* yn; ymdrafferthu yn nghylch; ymflino am; ymofidio yn nghylch.

To interest one in our favour—dwyn, denu, *neu* dynu un i fod o'n plaid.

I do not interest myself about it—nid wyf yn ymdrafferthu o'i blegid; nid wyf yn

gofalu am dano *neu* yn ei gylch; ni'm dawr am dano.

Interested in—â chanddo law *neu* neges yn mheth; âg iddo law *neu* neges yn mheth; cyfranog yn mheth; dyddorgar mewn peth.

It interests me not—ni'm dawr; nid gwaeth i mi; nid gwaeth genyf fi; ni'm dyddawr; ni'm dyddora; nid yw yn perthyn i mi; nid wyf yn malio *neu* yn gofalu am dano.

I should not be interested—ni ddorwn, nis dorwn; nis gofalwn; ni byddai waeth genyf; ni faliwn.

Interest, *s.* budd, lles, elw, oed, cyfles, mael, buddiant, llesiant, buddred, lleshad; llog; rhan, cyfran; hawl, braint; braint perchenogaeth; awdurdod, gallu, cymmeriad; dylanwad; dyddordeb, dawr, dyddawr, ymdawr, dyddoriant; y peth sydd â fyno un âg ef; da; achos.

Simple interest—cyallog, llog syml, llog unigol.

Compound interest—adlog, arlog, llog ar log; adlogaeth, arlogaeth.

To borrow at compound interest—adlogi, arlogi; benthycio ar adlog.

Interest money—arian llog; ocraeth, ocr, ocri.

Out at interest—allan ar log; allan ar ocraeth.

To place out at interest, } llogi; rhoi yn
To put out at interest, } llog; rhoi allan
To lend out at interest, } ar log; rhoi allan er llog; rhoi ar log; rhoi er llog; rhoi allan ar ocraeth; rhoi allan er ocraeth; rhoi ar ocraeth; rhoi er ocraeth; llogi arian.

A lender at interest—llogwr, llogydd; oerwr, ocrydd; rhoddwr arian ar log.

To take up at interest—cymmeryd yn llog; cymmeryd ar log; cymmeryd er llog.

Capital and interest—argyffre a llog, cyfalaf a llog, prifsum a llog, cyn-eiddo a llog, cynsum a llog.

Principal and interest—prifsum a llog, cynsum a llog; y corff a'r llog; yr hawl a'r llog; corff y da a'r llog arno; y sum â roddir yn llog a'r llog arno.

The interest is as much as the principal—y mae y llog gymmaint a'r hawl.

Interest (as a rule in arithmetic)—llogaeth.

Compound interest (as a rule)—adlogaeth, arlogaeth.

Private interest—priod elw, hunanles, hunanfudd.

Public interest—lles y wlad; y lles cyffredin; lles y cyhoedd; lles y wladwriaeth.

A thing wherein one has full interest—yr hyn y bo un yn berchenog arno, ac y dichon ei roi i'r neb y myno.

To bring *or* draw one over to his interest—dwyn, denu, *neu* dynu un i'w blaid.

To have interest in one, } bod yn fawr ei
To have interest with one, } allu, ei awdurdod, ei gymmeriad, *neu* ei ddylanwad gydag un.

To make interest for an office—swyddymgais, swyddymgeisio; ymerlyn am swydd.

Our interests are the same—eich budd chwi yw fy mudd i, a'ch anfudd chwi fy anfudd i.

To feel an interest—teimlo dyddordeb; bod gàn un ddyddordeb *neu* ofal; malio; teimlo pryder.

I feel an interest in his welfare—dyddoraf am ei lwyddiant; pryderaf am ei lwydd; y mae gofal genyf am ei lwydd; yr wyf yn gofalu am ei lwydd; ewyllysiaf yn dda iddo; teimlaf ddawr am ei lwydd; teimlaf ddyddordeb yn ei lwydd; teimlaf aidd er ei ddaioni; y mae genyf ddyddordeb yn ei les.

A man knowing his interest—dyn yn gwybod ei dda; un yn gwybod beth sy dda er ei les; dyn yn nabod ei dywydd; un yn adwaen ei dymmor.

He advances his own interests—mae yn gwneyd lles iddo ei hun; mae yn llesoli ei hun; mae yn gwellhau ei amgylchiadau; mae efe yn ymlesoli.

I have an interest in it—y mae â fynwyf âg ef; y mae à wnelwyf âg ef; y mae dyddordeb genyf ynddo; e ddawr i mi.

To take an interest in—gofalu am; ymdrafferthu yn nghylch *neu* oblegid; cymmeryd dyddordeb mewn *neu* yn; dyddori mewn *neu* yn; ymhyfrydu yn.

Interest,† *v. a.* cyffröi, cynhyrfu, effeithio ar.

Interested, *a.* cyfranog; dyddorus, dyddorog, dyddorgar; â chanddo law *neu* neges yn mheth; âg iddo law *neu* neges yn mheth; âg y mae à fyno â pheth; dyddoredig.

An interested witness—tyst y mae à fyno y peth âg ef; tyst y mae y pwnc yn perthyn iddo; tyst y dawr y pwnc iddo; tyst dyddorgar.

Self-interested—à fo â'i fryd ar ei les ei hun; à fo â'i fryd ar ei briod elw; hunan-ddybenog, hunan-ddybenol, hunanddybenus, hun-ddybenog; hunanlesog.

Interesting, *a.* dyddorol, dyddorus, dyddorfawr, hyddawr; pwysfawr, pwysig, cyffröus; ennillgar; boddhaol; buddiol; yn tynu sylw.

Interfere, *v. n.* (Ll. *inter* a *fero* neu *ferio*) cyfryngu, myned rhwng; ymyryd, ymyru, ymyraeth, amyru, ymhela, ymhel; gwrthdaro; gwrthwynebu; bod yn groes *neu* wrthwynebol; anghyttaro, anghytuno, croesi; ymwthio; swrn-daro.

To interfere with—bod ar ffordd peth; bod yn rhwystr i beth; dyfod, myned, *neu* daro yn erbyn peth; gwrthladd, gwrthwynebu; gwrthdaro â; anghytuno â, ymyryd â, ymhel â.

To interfere with each other—croesi *neu* ragod eu gilydd; taro yn erbyn eu gilydd; ymwrthladd.

To interfere in an affair—ymyru â pheth er rhwystr iddo; rhoi ei fys yn mheth i'w rwystro yn mlaen; ymyryd â pheth; amyru yn mheth.

Apt to interfere—ymyrgar, ymhelgar.

Interference, } *s.* ymyraeth, ymyriad, amyr-
Interfering, } aeth, ymheliad; cyfryngiad, cyfryngiaeth, rhyngiad; anghytundeb, gwrthdarawiad, tarawiad yn nghyd; swrn-darawiad.

Interferer, *s.* ymyrwr, ymyrydd, amyrwr, ymhelwr; prysur heb ddioloh; un â'i fys yn mrywes pawb.

Interfluent, } *a.* (Ll. *interfluo*) rhynglifol,
Interfluous, } rhynglifeiriol; yn llifeirio

rhwng dau beth; yn llifo yn y cyfrwng; yn llifo rhwng.

Interfoliaceous, *a.* (Ll. *inter* a *folium*) rhyngddeiliog, rhyngddeilliar, rhyngddalenog; à fo rhwng dail.

Interfoliate, *v. a.* cydwau, cydweu, cyfrestru, gwau yn nghyd, cydblethu.

Interfretted, } *a.* cymhleth, cydblethedig, cyd-
Interlaced, } weuedig, cymhlethedig, cyfrestredig.

Interfulgent, *a.* rhynglewyrchol, rhynglethrifawr, rhynglethridog, rhynglathraid, rhyngddysgleiriol.

Interfused, *a.* (Ll. *interfusus*) rhyng-doddedig; rhyng-dywalltog, rhyng-dywalltedig, rhyngdaenedig, rhyng-wasgarol.

Interim, *s.* (Ll.) cyfamser, y cyfamser, cyfrwng amser, cyfrwng.

In the interim—yn y cyfamser; yn nghyfrwng hyny.

Interior, *a.* (Ll.) mewnol, oddi mewn, oddi fewn, tufewnol; nes i mewn; nesaf i mewn; ynnhirog; cartrefol.

Interior, *s.* y tu mewn, tu mewn, y tu oddi mewn, y rhan oddi fewn; canoldir, perfeddwlad, canolbarth, angorwlad, canol gwlad, rhan fewnol gwlad.

Minister of the interior—gweinidog cartrefol; gweinidog perwylion cartrefol.

The interior of Africa — canolbarth Affrica, canoldir Affrig, canol Affrica.

Interiorly, *ad.* oddi mewn, oddi fewn, yn fewnol; yn nes *neu* nesaf i mewn.

Interjacency, *s.* (Ll. *interjacens*) rhyngorweddiad; gorweddiad rhwng dau beth; bod rhwng; rhyngad; yr hyn a orwedd rhwng dau beth; peth yn y cyfrwng; rhyngfa.

Interjacent, *a.* rhyngorweddol; yn gorwedd rhwng dau beth; yn gorwedd yn y cyfrwng; yn gorwedd rhwng; yn bod rhwng; cyfryngol, rhyngol.

Interjacent isles—rhagynoesoedd, rhyngynysoedd.

Interject, *v.* (Ll. *interjicio, interjectum*) taflodi, rhyngdaflu, cyfryngdaflu, taflu rhwng; cyfryngu, rhyngu; gosod i mewn; dyfod *neu* fyned rhwng pethau.

Interjection, *s.* (Ll. *interjectio*) taflodiad, rhyngdafliad, cyfryngdafl, cyfryngddawd, cyfryngiad; ebychiad, ebychair, cyfryngair, rhyngair; taflediqaeth.

Interjections (in grammar) — taflodiaid, ebychiadau, ebycheiriau, cyfryngiaid.

Interjectional, *a.* taflodol, rhyngdafliadol, tafledigol; cyfryngedigol; ebychiadol; à dafiwyd i mewn rhwng pethau ereill.

Interjoin, *v. a.* cydgyssylltu, cyssylltu; cydbriodi, cydymbriodi; cydymglöi.

Interjoist, *s.* cyfrwng distiau, y pellder rhwng distiau, distryngiad.

Interjunction, *s.* cydgyssylltiad, cyssylltiad, cyfymgload.

Interknit, *v. a.* cydwau, cydweu, gwau yn nghyd; cydglymu, cydgyssylltu.

Interknowledge, *s.* cydwybodaeth, ymwybodaeth.

Interlace, *v. a.* (*inter* a *lace; Ff. entrelacer*) cydgymmysgu, cymmysgu â, cymhlitho, cydblitho; cymmysgu yn nghyd; cymmysgu â'u gilydd; cyfrestru, cydblethu, cymhlethu, cydwau, cydweu; rhyngsideru; rhwyllo; cyfryngu, gosod rhwng.

Interlaced work — rhwyllwaith, rhwylwaith; gwaith cymhleth, gwaith cymhlith.

Interlacing arches — bwâu cymhlethol, bwâu cymhleth.

Interlacement, *s.* cymmysgiad, cymhlithiad; cymhlethiad, cydblethiad, cyfrestriad; cymmysgedd, cymhlithedd.

Interlaminated, *a.* rhynglafnog, rhyngddalenog; à osodwyd rhwng llafnau.

Interlapse, *s.* cyfamser; ysbaid *neu* gyfrwng rhwng dau bryd; rhyng-chwaen.

Interlard, *v. a.* (*Ff. entrelarder*) brasfysgu; cymmysgu *neu* gydgymmysgu peth â mehin; cymmysgu mehin *neu* fraster â pheth; cymmysgu, cydgymmysgu, cymhlitho; cymmysgu yn nghyd â pheth; rhoi peth yn mysg; dodi yn mhlith; gosod rhwng; cymmysgu yn mhlith; britho, brasfritho, tryfritho; brithresu.

Interleaf, *s.* rhyngddalen; dalen wedi ei gosod rhwng dail argraffedig.

Interleave, *v. a.* rhyngddalenu; gosod dail gwynion rhwng dail llyfr; cydrwymo â dail gwynion; cydrwymo dail gwynion â llyfr.

Interline, *v. a.* rhynglinellu, rhynglino, rhyngysgrifo, rhyngysgrifenu; ysgrifenu rhwng y llinellau; ysgrifenu bob yn ail linell.

Interlinear, } rhynglinellawl, rhynglinellog;
Interlineary, } à ddodir *neu* à roddir i mewn rhwng y llinellau; ysgrifenedig rhwng y llinellau.

Interlinear, *s.* llyfr rhynglinellog, llyfr rhynglinellawl.

Interlineation, *s.* rhynglinelliad; rhyngysgriflad, rhyngysgrifeniad; yr hyn à roer rhwng y llinellau.

Interlining, *s.* rhynglinelliad, rhynglinad.

Interlink *v. a.* cydgadwyno, cynghadwyno, cydrwyo, cyd-ddolenu, cydfachu, cyddorchi; cyssylltu, cydgyssylltu.

Interlobular, *a.* rhynglabedog; rhwng llabedau *neu* ddalenau.

Interlocation, *s.* rhynglead, rhyngosodiad, rhyngddodiad, cyflead rhwng, gosodiad rhwng.

Interlocution, *s.* (Ll. *interlocutio*) ymddyddan, cydymddyddan, cymddyddan, cydsiarad, ymgom, cychwedl, arddysmeg, cynnadledd, cynnadl, cyfymbwyll, ymsiarad, ymddywedyd, chwedleuaeth, cychwedleuad, cylafaredd, parliant, cydymddadwrdd; barn gychwedl, dedfryd gychwedl, rhagbenderfyniad.

Interlocutor, *s.* (o'r Ll. *interloquor*) ymddyddanwr, cydymddyddanwr, cymddyddanwr, cymddyddanydd; cychwedleuwr, cydchwedleuwr, ymatebwr, arddysmegydd, ymchwedleuwr, cydsiaradydd, cydymgomiwr; barn gychwedl.

Interlocutory, *a.* cydymddyddanol, ymddyddanol, cymddyddanol, arddysmegol, cynnadleddol, cylafareddus, ymatebol, cydsiaradol; cyfryngol, cyfryngaidd; rhagderfynol.

Interlocutory decree — barn gychwedl, dedfryd gychwedl; dosbarth rhwng pleidiau tra bydder yn aros barn *neu* wrth farn.

Interlope, *v. n.* (*inter*, a'r Is. *loopen*, Al. *laufen*) rhyngymyru, rhyngymyryd; rhagod y farchnad, rhagbrynu, rhagachub; rhagfaelu; rhedeg rhwng pleidiau; ymwthio i beth na pherthyn iddo; ymwthio i mewn; ymredeg rhwng

pleidiau gân ragachub yr elw à fyddai i'r naill oddi wrth y llall; rhagachub marchnad; ymwthio *neu* ymredeg rhwng prynwr a gwerthwr; rhedfasnachu, rhedfaelera, lladrad-fasnachu, treisfasnachu; masnachu heb drwydded briodol; dyfod i le heb na gwahoddiad na chroesaw; rhwystro hawl; gormesu, hyruthro, trawsormesu, ymyru, ymyryd.

Interloper, *s.* rhyngymyrwr, rhyngymyrydd, ymwthiwr, rhyngymwthiwr; ymwthiwr i beth ni pherthyn iddo; rhagodydd y farchnad, rhagachubwr y farchnad, rhedfasnachwr, masnachwr didrwydded; lladrad-fasnachwr, masnachwr gormes; trawsgipiwr, trawsreibiwr, hyruthrwr, gormeswr; gwill.

Interlucate, *v. a.* (Ll. *inter* a *luco*) rhyngoleuo; gollwng goleuni i mewn drwy drychu ymaith gangau coed; gwneuthur adwy oleu mewn coed.

Interlucation, *s.* rhyngoleuad; gwneuthuriad adwy oleu mewn coed.

Interlucent, *a.* (Ll. *interlucens*) rhynglewyrchol, rhyngoleuol, rhyngddysgleiriol, rhynglathraid, rhynglethridfawr; yn dysgleirio *neu* dywynu rhwng.

Interlude, *s.* (Ll. *inter* a *ludus*) chware cyfrwng, rhyngware, rhyngwareu, rhyngchwareu; ysmaldodeg, ysmalawd; coegchware, coegware: *pl.* ysmalodion.

Interluded, *a.* rhyngwareuol; à wnaed fel rhyngware.

Interluder, *s.* rhyngchwareuwr, rhyngwarëydd, coegchwareuwr.

Interluency, *s.* (Ll. *interluens*) rhynglifad, rhynglifiant, rhynglif.

Interlunar, } *a.* (Ll. (*interlunium*) rhyngleu-
Interlunary, } adol, rhyngloerol, cyfryngloerol; perthynol i gyfrwng dwy leuad; rhwng yr hen leuad a'r newydd; à fo rhwng dwy loer.

Intermarriage, *s.* cydbriodas, cydymbriodas.

Intermarry, *v. n.* cydbriodi, cydymbriodi, ymbriodi; ymbriodi â'u gilydd; ymbriodi rhyngddynt â'u gilydd; priodi â'u gilydd.

Intermean,† *s.* peth à wneir yn y cyfamser; rhyngweithred.

Intermeation,† *s.* rhynglifad, rhynglifiant.

Intermeddle, *v. n.* ymyryd, ymyru, ymyraeth, amyru, ymhela, ymhel; ymgymmysgu; trafodi; bod yn brysur heb ddïolch.

Intermeddle,† *v. a.* cymmysgu, cydgymmysgu.

Apt to be intermeddling—ymyrgar, amyrgar, ymhelgar.

Intermeddler, *s.* ymyrwr, ymyrydd, amyrwr, ymhelwr, rhodreswr; prysur heb ddïolch; prysurwas; dyn ymyrgar, ymyrus, rhydreggar, rhydresus, *neu* gymmyreddus; un â'i fys yn mrywes *neu* yn mhotes pawb.

Intermeddling, *s.* ymyraeth, ymyriad, amyriad.

Intermediacy, *s.* cyfryngiaeth, cyfryngiad, cyfryngedigaeth, cyfryngedd, rhyngedd, rhyngawd, rhwng.

Intermedial, *a.* cyfryngol, cyfryngedigol, cyfryngaidd, cyfryngedig.

Intermediary, *s.* (o *intermediate*) cyfryngiad, cyfryngiaeth, cyfryngedd, cyfryngdod; peth cyfrwng, peth cyfryngedig, cyfryngbeth.

Intermediate, *a.* (Ff. *intermédiat*; Ll. *intermedius*) cyfryngol, cyfryngaidd, cyfryngedigol, cyfryngedig, canolig, canolaidd; yn gorwedd yn y canol rhwng; à fo yn y cyfrwng.

Intermediate space — cyfrwng, cyfwng, rhyngle.

Intermediate, *s.* rhyngog, rhyngai, cyfryngnwydd.

Intermediate,† *v. n.* cyfryngu.

Intermediation, *s.* cyfryngiad, cyfryngiaeth, cyfryngdod; moddion cyffredin.

Intermedium, *s.* (Ll.) cyfrwng, y cyfrwng, cyfwng, rhwng; cyfryngydd.

Intermell,† *v.* (Ff. *intermêler*) cymmysgu, mysgu.

Interment, *s.* (o *inter*) claddiad, claddedigaeth, daiariad, daiarawd.

Intermention,† *v. a.* cydgrybwyll; crybwyll gyda phethau ereill; cynnwys.

Intermication, *s.* (Ll. *intermico*) rhynglewyrchiad, rhyngddysgleiriad, rhynglethridiad; dysgleiriad rhwng, dysgleiriad yn mysg.

Intermigration, *s.* cydymfudiad cydsymmudiad, cydymsymmud, cydfudiad, cydnewidiad trigle; symmudiad y naill i le y llall.

Interminable, *a.* (Ll. *in* a *terminus*) annherfynadwy, diderfyn, annherfynol, didran, diddiwedd.

Interminable, *s.* un diderfyn, yr annherfynadwy.

Interminableness, *s.* annherfynoldeb, annherfynolrwydd, diderfynrwydd.

Interminate, *a.* (Ll. *interminatus*) diderfyn, annherfynol, annherfynedig, diddiwedd, didraw.

Interminate,† *v. a.* (Ll. *interminor*) bwgwth, bygythio, bygylu.

Intermination,† *s.* bygythiad, bwgwth, bygyliad, bwgwl.

Intermingle, *v.* cydgymmysgu, cymmysgu, mysgu, cydfysgu; cymmysgu yn nghyd; cymmysgu â'u gilydd; rhoi *neu* fwrw yn nghymmysg; bwrw am ben; bwrw yn mysg; plitho, bloffi, bloffied; ymgymmysgu, cydymgymmysgu.

Intermission, *s.* (Ff.; Ll. *intermissio*) dysbaid, dysbeidiant, dysbeidiad, paid, ysbeidiad, ysbaid, peidiad, hamdden, seibiant, gorphwysiad, toriad, tawl; anarferiad.

Without intermission—yn ddibaid, yn ddidor, yn ddidawl, yn ddidrai, yn ddiseibiant, yn wastadol, yn ddïorphwys, yn ddiball, heb orphwysdra.

Without either ease or intermission—heb na rhwyf na gorphwys.

Intermissive, *a.* dysbeidiol, ysbeidiol.

Intermit, *v.* (Ll. *intermitto*) dysbeidio, ysbeidio, peidio; peidio dros amser; peidio â; oedi, gohirio; rhwystro, lluddias, tori ar, attal.

Intermitting spring—ffynnon ddysbeidiol, ffynnon ddysbaid.

Intermittent, *a.* (Ll. *intermittens*) dysbeidiol, ysbeidiol; yn peidio yn awr ac eilwaith.

Intermittent fever, } cryd ysbeidiol,
Intermitting fever, } twymyn ddysbeidiol, cryd a mwyth.

Intermittent, *s.* cryd dysbeidiol, twymyn ddysbeidiol, cryd a mwyth.

Intermix, *v.* cydgymmysgu, cymmysgu, cydfysgu, mysgu; cymmysgu yn nghyd; cymmysgu â'u gilydd; rhoi *neu* fwrw yn nghymmysg; bwrw am ben; bwrw yn mysg; plitho, bloffi, bloffied; ymgymmysgu, cydymgymmysgu.

Intermixture, *s.* cymmysgedd, cydgymmysgedd, cydfysgedd, mysgedd, cymmysgiad, cyd-

gymmysgiad, plithiant, bloffiad, ymgymmysgiad; amrywiogaeth.

Intermodillion, *s.* cyfrwng deintellion, cyfrwng deintarnau, deintryngiad; y pellder rhwng dau ddeintarn.

Intermontane, *a.* (Ll. *inter* a *montanus*) rhyngfynyddol; rhwng mynyddau; à fo rhwng mynyddoedd.

Intermundane, *a.* (Ll. *inter* a *mundanus*) rhyngfydol; rhwng bydoedd; rhyngrodol; rhwng byd a byd; deufyd-gyfryngol.

Intermural, *a.* (Ll. *inter* a *muralis*) rhyngfuriol; à fo yn nghyfrwng deufur; deufur-gyfryngol; rhwng muriau.

Intermuscular, *a.* rhwng y cyhyrau; cyhyr-gyfryngol.

Intermutation, *s.* cydgyfnewidiad, cydgyfnewid, cyfnewiad, cyfnewid, ymgyfnewid, cylch-

Intermutual, *a.*=*Mutual.* [gyfnewid.

Intern, *a.*=*Internal.*

Internal, *a.* (*internus*) tufewnol, mewnol, oddi fewn, oddi mewn, o'r tu mewn, o fewn; à fo oddi mewn; cartrefol; canolbarthol; gwir.

Internal purity—purdeb calon, purdeb y galon, purdeb tufewnol, purdeb oddi fewn; purdeb yn y dyn oddi mewn.

Internally, *ad.* oddi fewn, oddi mewn, o'r tu mewn, o fewn, yn fewnol, yn dufewnol; i'r tu mewn; yn y galon.

International, *a.* rhwng gwahanol wledydd; rhwng cenedloedd; rhyngwladwriaethol.

Internecine, *a.* (Ll. *internecinus*) marwol, angeuol, dinystriol.

Internecion, *s.* (Ll. *internecio*) cydladdiad, cydladdfa, cyfladdedigaeth, cyflafan, lladdfa, lladdedigaeth, galanasdra.

Internecive, *a.* cydladdol, lladdol, lladdiadol, yn lladd; à dueddo i ladd.

Internection, *s.* (Ll. *inter* a *necto*) cydgyssylltiad, cyssylltiad, cydiad.

Internodal, *a.* (*inter* a *node*) rhyngysglinol, clymgyfryngol; rhwng cygnau.

Internode, *s.* (*internodium*) rhyngysglin, rhyngysglinen, clymgyfrwng, cyfrwng dan gwgn= y pellder rhwng cygnau planigyn, neu y pellder à fo rhwng dail neu flodau.

Internuncio, *s.* (Ll. *internuncius*) rhyngnegesydd, rhyngnegeswr; cenad rhwng pleidiau; rhyngenad, cenad gyfrwng, rhyng-genadwr.

Interosseal, } *a.* (Ll. *inter* ac *os*) rhwng esgyrn,
Interosseous, } rhwng yr esgyrn, rhyngesgyrnol.

Interpeal,† *v. a.* (Ll. *interpello*) rhwystro, attal, lluddio.

Interpellation, *s.* (Ll. *interpellatio*)) gwŷs, dyfyn, llythyr dyfyn, dyfyniad, gwysiad, galwad; rhwystr, lluddias, godor, attal; eirioliaeth, eirioled, ymbil.

Interpenetrate, *v. a.* treiddio rhwng, rhyngdreiddio.

Interpetiolar, *a.* rhwng deilgoesau.

Interpilaster, *s.* cyfrwng adbilerau; y pellder rhwng dau bedrybiler.

Interplead, *v. n.* rhyngddadleu, rhyngddadlu, rhyngymddadlu, rhyngymddadleu, rhyngbleidio.

Interpleader, *s.* rhyngddadlydd, rhyngymddadlor.

A bill of interpleader — rhyngddadleb, rhyngymddadleb, ysgrif rhyngymddadl.

Interpledge, *v. a.* cydwystlo, cyngwystlo, cydymwystlo.

Interpoint, *v. a.* gwahannodi, attalnodi, gwahanu à nodau; rhoi nodau gwahan *neu* wahannodau mewn gwers.

Interpolate, *v. a.* (Ll. *interpolo*) ffugddodi, ffugwthio, geuddodi, geuchwanegu, ffuglenwi, geufysgu; llygru; chwanegu peth yn lladradaidd mewn llyfr *neu* ysgrifen; gosod *neu* ddwyn i mewn yn lladradaidd; †adnewyddu.

Interpolation, *s.* ffugddodiad, geuddodiad, geuchwanegiad, ffuglenwad, geuddawd, ffugddawd; chwanegiad à roer yn lladradaidd mewn llyfr *neu* ysgrifen; llygriad: *pl.* geuddodion, ffugddodion, geuddodiadau, &c.

Interpolater, *s.* (Ll.) geuddodwr, ffugddodwr, ffugwthiwr, geuchwanegwr, llygrwr llyfrau; newidiwr ystyr; ffug-gymmysgwr.

Interpolish, *v. a.* rhynglugeinio, rhynglathru, caboli rhwng, cydgaboli, cydlathru, cydluganu, cydlugeinio.

Interpone,† *v. a.* (Ll. *inpono*) gosod rhwng, gosod i mewn.

Interposal, *s.* (o *interpose*) cyfryngiad, cyfryngiaeth, rhyngad; gosodiad rhwng, mynediad rhwng, rhoddiad yn nghyfrwng; ymsang, cyfrwng; ymyraeth, ymyriad.

Interpose, *v.* (Ff. *interposer*; Ll. *interpono*, *interpositum*) cyfryngu; myned, dyfod, rhedeg, ymwthio, ymosod, *neu* ymfwrw rhwng; myned, dyfod, rhedeg, ymwthio, ymosod, *neu* ymfwrw yn nghyfrwng; rhyngu, dygyfrano; rhoi, gosod, dodi, *neu* fwrw rhwng *neu* i mewn; rhoi yn nghyfrwng; rhyngosod, rhyngosodi, rhyngddodi; rhoi, gosod, *neu* sengu yn mysg; ymyru, ymyryd, amyru, ymyraeth; gwahansangu; cynnyg; gwthio i mewn, ymwthio i mewn.

Interpose,† *s.*=*Interposal.*

Interposer, *s.* cyfryngydd, cyfryngwr; à ei rhwng dau.

Interposit, *s.* rhyngaddodfa, cydaddodfa, rhyngystorfa, cydystorfa; cysdodfa rhwng dwy ddinas *neu* ddwy wlad.

Interposition, *s.* (Ff.; Ll. *interpositio*) cyfryngiad, cyfryngiaeth, cyfryngoliaeth, cyfryngdod, rhyngad, rhyngiad, rhyngosodiad, dygyfrano; gosodiad rhwng, gosodiad yn nghyfrwng; mynediad, dyfodiad, rhediad, *neu* ymwthiad rhwng *neu* yn nghyfrwng; ymsang, gwahansang, cyfrwng.

Interposure,† *s.*=*Interposal.*

Interpret, *v. a.* (Ll. *interpretor*; Ff. *interpréter*) deongli, dehongli, deonglyd, deongl, esbonio, esboni; egluro; lladmeru, lladmer; cyfleithu; rhoi ystyr; hysbysu arwyddocâd; dirnad.

To interpret dreams—deongli breuddwydion.

Which being interpreted—yr hyn o'i gyfeithu; yr hyn o'i ddeongli.

Interpretable, *a.* deongladwy; i'w ddeongli; à ellir ei ddeongli.

Intepretation, *s.* (Ff.; Ll. *interpretatio*) deongliad, dehongliad, deonglawd, dehonglawd, deongl, deongledigaeth, esboniad, lladmeriaeth, egluriad; cyfleithad; dirnadaeth.

Interpretive, *a.* deongliadol, deonglawl, deongledigol, deonglog, esboniadol.

Interpretatively, *ad.* yn ddeongliadol, &c.; ar wedd deongliad; mewn ffordd ddeongliadol; er deongl.

Interpreter, *s.* deonglwr, dehonglwr, deongl-

ydd, lladmerydd, lladmer; cyficeithwr, cyfieithydd; esboniwr, esboniedydd; golwst.

Interpunction, *s.* (Ll. *interpunctio*) gwahannodiad; gosodiad gwahannodau rhwng geiriau; attalnodiad; rhyngnodiant, rhyngnodiad.

Interquarter, *s.* cyfrwng ceibr, y pellder rhwng ceibr.

Interreceive, *v. a.* derbyn rhwng, derbyn i mewn, rhyng-dderbyn.

Interregnum, } *s.* (Ll. *interregnum*; Ff. *inter-*
Interreign, } *regne*) rhyngdeyrnasiad, rhyngdeyrnedd, rhyngdeyrnasiaeth; y cyfrwng rhwng dau frenin; cyfrwng dau deyrn; y cyfrwng rhwng diwedd teyrnasiad y naill frenin a dechreu teyrnasiad y llall.

Interrer, *s.* (o *inter*) claddwr, claddiedydd.

Interrex, *s.* (Ll. *inter* a *rex*) rhyngdeyrn, mechdeyrn, rhaglofydd, rhaglyw, rhaglywydd, rhaglaw, rhynglywydd.

Interrogate, *v.* (Ll. *interrogo*) holi, gofyn, ymholi â, ymofyn â, arholi, holiadu, ymholi, ymofyn; rhoi gofyniad; posio, posiannu.

Interrogation, *s.* (Ll. *interrogatio*) holiad, holiant, holedigaeth, holiaeth, arholiad, holawd, hawl, gofyniad, gofyn, ymofyniad; gofyniaith, holiaith; holnod, gofynneb, gofynnod.

Note of interrogation—holnod, gofyneb, gofynnod, nod holiad, nod gofyniad, nod holi=?

Interrogative, *a.* (Ll. *interrogativus*) holiadol, holiannol, holedigol, gofyniadol, ymofynol; perthynol i holiad.

Interrogative, *s.* holiedydd, holiadair, gair holiadol, holiad, holiadeb; rhagenw holiadol= *pa? pwy? beth?* a'r cyffelyb.

Interrogatively, *ad.* yn holiadol, &c; ar wedd holiad.

Interrogator, *s.* (Ll.) holydd, holwr, holiedydd, arholydd, arholwr, arholiedydd, holiannydd, holiannwr, ymofynwr, gofynwr.

Interrogatory, *s.* holiad, holiant, holedigaeth, arholiad, arhawl, gofyniad.

To examine by interrogatories—holi ar ofyniadau; profi drwy holiadau.

Interrogatory, *a.* holiadol, holedigol, holiannol, gofyniadol; yn cynnwys holiad.

Interrupt, *v. a.* (Ll. *interrumpo, interruptus*) rhwystro, lluddio, lluddias, goluddio, llestair, attal; rhwystro un i wneuthur *neu* ddywedyd peth; tori ar waith *neu* chwedl un; attal rhag myned yn mlaen; tori peth yn yr hanner *neu* yn y canol; rhanu, anghyfuno, gwahanu; symmythu; aflonyddu; trawsattal; galw ar un pan fo wrth beth.

Interrupt not men in the midst of their talk—na fwrw air yn mysg ymadroddion rhai ereill (*Eccles.* xi. 8).

Interrupt, } *a.* toredig, godoredig, rhwystr-
Interrupted, } edig, &c.

Interrupter, *s.* rhwystrwr, lluddiwr, goluddiwr; torwr ar waith *neu* chwedl un; torwr peth yn yr hanner; un à luddio i beth fyned rhagddo.

Interruption, *s.* (Ll. *interruptio*) rhwystr, lluddias, lludd, llestair, attaliad, rhwystrad, rhwystredigaeth, godoriad; rhwystr ar neges, gorchwyl, gwaith, *neu* chwedl un; toriad ar waith *neu* chwedl un; tor, godor, breg, attal, attalfa; symmythiad; paid, dysbeidiad; cyfryngiad; aflonyddiad, toriad; bwlch, adwy, hollt.

Interruption of proceedings in the law—godor cyfraith, twrf cyfraith.

Without interruption—didor, dïodor, dirwystr, dïattal; yn ddidor, yn ddïodor, yn ddirwystr, yn ddïattal, heb odor.

Interruptive, *a.* rhwystredigol, rhwystradol, rhwystrus, llesteiriol, lluddiol.

Interscapular, *a.* (Ll. *inter* a *scapula*) rhyngysgwyddol, rhwng yr ysgwyddau; rhwng y palfeisiau.

Interscalme, *s.* (Ff.; Ll. *interscalmium*) cyfrwng y rhwyfau (yn y rhwyflongau gynt).

Interscind, *v. a.* (Ll. *interscindo*) tori ymaith, tori ffwrdd, tori, trychu.

Interscribe, *v. a.* (Ll. *interscribo*) rhyngysgrifenu, rhyngysgrifo, ysgrifenu rhwng; rhynglinellu.

Interscendent, *a.* (Ll. *inter* a *scando*) rhyngoriannol.

Intersecant, *a.* (Ll. *intersecans*) cynghroes, cynghroesol, cydymgroesol, cydymdorol, croes, cyfwlch.

Intersect, *v.* (Ll. *interseco*) cynghroesi, cydymgroesi, cydymdori, cydymdrychu, croesi eu gilydd, ymgroesi, croesdori, trawsdori, cyttori; tori yn groes.

To intersect each other—croesi eu gilydd, cydymgroesi, ymgroesi, cydymdori, cydymdrychu, cynghroesi.

Intersection, *s.* (Ll. *intersectio*) cynghroesiad, cydymgroesiad, cydymdoriad, cydymdrychiad, ymgroesiad, croesdoriad; toriad yn y canol; canoldrwch, canoldor; cyfwng; cynghroesbwnc, cynghroesfan.

The point of intersection—y cynghroesbwnc, yn gynghroesfan; y pwnc *neu* fân lle croesa llinellau eu gilydd.

Interseminate, *v. a.* (Ll. *interseminatus*) hau rhwng, hau yn mysg, hau yn mhlith, rhynghau, mysghau.

Intersert, *v. a.* (Ll. *intersero*) rhyngosod, rhyngosodi; gosod i mewn, gosod yn mhlith, gosod yn mysg, gosod rhwng, dodi rhwng, yn mysg, *neu* yn mhlith.

Intersertion, *s.* rhyngosodiad, gosodiad i mewn, yn mhlith, yn mysg, *neu* rhwng; rhyngddodiad.

Interspace, *s.* (*inter* a *space*) rhyngofod, rhyngystod, rhyngysbaid, cyfwng, cyfrwng; lle, gofod, *neu* wagle rhwng pethau ereill.

Intersperse, *v. a.* (Ll. *interspersus*) gwasgaru yn mysg, yn mhlith, *neu* rhwng pethau ereill; rhyngwasgaru, cyfryng-wasgaru; gwasgaru, cyngwasgaru; gwasgar yma ac acw; britho.

Interspersion, *s.* gwasgariad yn mhlith, yn mysg, *neu* rhwng pethau ereill; rhyngwasgariad, cyfryngwasgariad, cyngwasgariad, rhyngwasgar, mysgwasgariad.

Interspinal, *a.* (Ll. *inter* a *spina*) rhyngysbinol, rhwng asgwrn y cefn, rhwng cambylau asgwrn y cefn.

Interstellar, *a.* (Ll *inter* a *stella*) rhwng y ser, yn mhlith y ser; rhyngserol; tu hwnt i ddosbarth yr haul.

Interstice, *s.* (Ff.; Ll. *interstitium*) cyfwng, cyfrwng; yr encyd *neu* ennyd à fo rhwng y naill beth a'r llall; rhil, rhwyll.

Interstinctive,† *v.* (Ll. *interstinctus*) gwahanaethol.

Interstitial, *a.* (o *interstice*) cyfryngol; perthynol i gyfrwng *neu* gyfwng; rhwyllog, rhwyllus, rhwyllaidd, rhiliog.

Interstratified, *a.* rhyngwanafog, rhynghaenedig.
Intertalk,† *v. a.* ymgomio, cychwedleua.
Intertangle, *v. a.* dyrysu, cydnidro, cymhlethu, cynghafu.
Intertexture, *s.* (Ll. *intertextus*) cydwead, cydweuad, cydweawd, cymhlethiad, cydblethiad, cyfrestriad, rhyngwead, cyfryngwead; cydwe, cymhleth; cydweoldeb.
Interties, *s. pl.* rhyngrwymau, rhyngrwymgoed, cydrwymgoed.
Intertissued, *a.* rhyngresog, rhyngweog.
Intertranspicuous, *a.* rhyngdryloew, rhyngloew; tryloew oddi mewn.
Intertropical, *a.* rhwng y trofanau, o fewn y trofanau, rhyngdrofanol, rhyngdrofaol.
Intertwine, } *v. a.* cyfrodeddu, cydblethu, cyd-
Interwist, } gordeddu, cordeddu, cydffillio.
Intertwined, } *p. p.* cyfrodedd, cyfrodeddig,
Intertwisted, } cordeddig.
Interval, *s.* (Ff. *intervalle;* Ll. *intervallum*) cyfwng, cyfrwng; ennyd, encyd, ystod, ysbaid; hamdden, gorsaf, gorphwys, saib, seibiant; bwlch *neu* adwy amser; bwlch, cyfamser; talm, gwagle, gwagder; rhwng; yr amser *neu* y pellder rhwng dau beth; gorphwysfa (mewn cerdd).
An interval of fair weather—breith-hinon.
At intervals—ar brydiau, ar amserau, ar droion; yn awr a phryd arall; yn awr ac eilwaith; ar adegau.
At lucid intervals—ar adegau pwyllog; ar adegau pwyll; ar oriau pwyllog; ar awr *neu* ennyd o bwyll; ar awr oleu.
Interveined, *a.* rhyngwythog, rhyngwythenog, rhyngwythiog.
Intervene, *v. n.* (Ll. *intervenio*) cyfryngu; dyfod rhwng dau beth; bod rhwng dau beth; rhyngu; dyfod ar ddamwaen; damweinio, dygwyddo, dywanu; dyfod yn y cyfrwng *neu* y cyfamser; gwahanu; ymyryd, ymyru.
Intervene,† *s.* cyfryngiad.
Intervenient, } *a.* cyfryngol, cyfryngedigol,
Intervening, } cyfryngaidd, rhyngol; à ddelo yn y cyfrwng *neu* y cyfamser; dygwyddol, dygwyddiadol, damweiniol; cyfamserol; à fo rhwng.
Intervention, *s.* (Ff.; Ll. *interventio*) cyfryngiad, cyfryngiaeth, cyfryngoliaeth, cyfryngdod, cyfryngedigaeth, rhyngad, rhyngiad; rhyng-ddyfodiad; dyfodiad rhwng dau beth; ymyraeth, ymyriad; cyfrwng, cyfwng.
Intervenue,† *s.* (Ff. *intervenu*)=*Interposition.*
Intervert, *v. a.* (Ll. *interverto*) gwyrdröi, troi; troi y ffordd arall.
Intervertebral, *a* (Ll. *inter* a *vertebra*) rhyngdumonol, rhwng gleiniau y cefn.
Interview, *s.* (*inter* a *view;* Ff. *entrevue*) ymgyfarfod, cyfarfod, cyfrwch, ymwel, cydymwel, ymgydwel, cydymweliad; cynnadl, ymddyddan; golwg ar eu gilydd; cyttremyn.
Private interviews—cyfrychau dirgel, cyfrychau neilltuedig, cyfarfodau cyfrinachol.
To have an interview—cyfrychu, cyfrwch, ymgyfarfod, cyfarfod, ymgydweled; cael ymgyfarfod, &c.
Intervolve, *v. a.* (Ll. *intervolvo*) troi yn eu gilydd; troi y naill yn y llall; cyd-ddyryau.
Interweave, *v. a.* cydweu, cydwau, gwau yn nghyd, gweu yn nghyd, cyfrestru, cymhlethu, cydblethu, masgu, rhyngweu, cyfryng-blethu; cymmysgu, cydgymmysgu, cydosod.
A shield made of pieces interwoven—ysgwyd gledrwy, tarian gledrwy.
Interweaving, *s.* cydwead, cydweuad, cydweawd, cymhlethiad, cydblethiad, rhyngwead.
Interwish, *v. a.* cyd-ddymuno; dymuno i'w gilydd; dymuno i'r naill y llall.
Interworking *s.* cydweithiad, cydweithad.
Interwreathed, *a.* cydblethedig, cyttorchedig, cydnyddedig.
Intestable, *a.* (Ll. *intestabilis*) analluog i wneyd ewyllys; nad gwiw iddo wneyd ei ewyllys; na thâl iddo wneyd ewyllys; nad gwiw iddo wneyd llythyr cymmyn; nad yw gyfreithlawn iddo wneyd llythyr cymmyn *neu* ewyllys; nas gall wneuthur gwyllys; heb allu i wneyd llythyr cymmyn; anghymmynadwy, anwyllysiadwy.
Intestacy, *s.* (o *intestate*) anghymmyn, anghymmyniaeth, diwyllysiaeth, anewyllys; marw heb wneuthur llythyr cymmyn.
Intestate, *a.* (Ll. *intestatus*) diewyllys, diwyllys, digymmyn, heb ewyllys, heb wyllys, heb lythyr cymmyn, anghymmynol, anghymmyn; heb wneuthur ei ewyllys; heb wneyd llythyr cymmyn.
He died intestate—bu farw heb ewyllys; bu farw heb wneyd ei ewyllys.
Intestate, *s.* un anghymmyn, dyn digymmyn, dyn diewyllys, gwr anghymmynol, dyn anghymmynog; un à fo farw heb ewyllys.
Intestina, *s. pl.* (Ll.) llyngyr.
Intestinal, *a.* (o *intestine*) perfeddol, coluddol.
Intestine, *a.* (Ll. *intestinus;* Ff. *intestin*) mewnol, tufewnol, o fewn, oddi mewn, oddi fewn, o'r tu mewn; dirgel, cuddiedig; cartrefol; gwladol.
Intestine war—rhyfel cartefol, rhyfel teisban, rhyfel ciwdodol, rhyfel cydgenedl.
Intestine, *s.* (Ll. *intestinum*) coluddyn, perfeddyn, paneg, penygen, monochen: *pl.* coluddion, coludd, perfedd, perfeddion, ymysgaroedd, ymysgar, elanedd, penyg, monoch.
Small intestines—glasgoludd, mân goludd, mân goluddion.
Large intestines—brasgoludd, brasgoluddion, y coludd mawrion.
Intextured, *a.* cydweog, cydweuedig, cydblethedig, cymhlethedig, cymhleth.
Inthirst,† *v. a.* peri syched ar; gwneyd yn sychedig.
Inthral, } *v. a.* (*in* a *thrall*) caethiwo, caethu;
Inthrall, } gorthrymu; llyffetheirio; dwyn i gaethiwed; dwyn yn gaeth; gwneuthur yn gaeth.
Inthralment, } *s.* caethiwed; caethiwad, caeth-
Inthrallment, } iad; dygiad i gaethiwed; dygiad yn gaeth; llyffetheiriad; caethfyd, blinfyd, caethnawd, caethrawd, caethwasaeth.
Inthrone, *v. a.* gorseddu, gorseddogi; rhoi *neu* osod ar orsedd; rhoi *neu* osod i eistedd ar orseddfainc; penseddu, gorfeinclo; uchafu.
Inthronization, *s.* gorseddiad, gorseddiant, gorseddogiad; gosodiad ar orsedd *neu* orseddfainc.
Inthronize, *v. a.*=*Inthrone.*
Intimacy, *s.* (o *intimate*) cyfeillgarwch, cyfeillach, cydgyfeillach, cydnabyddiaeth, adnabyddiaeth, cyfrin gyfeillach, cyfeillach agos; cudeb; carwriaeth.
Intimate, *a.* (Ll. *intimus*) cyfeillgar, cyfeillaidd,

cyfeilliol, cydnabyddus, adnabyddus; cyfrinschol; cyfneſaf; mewnol, tufewnol; neſaf i mewn; mynwesol, anwyl, cu; agos.

Intimate impulse — cyffrawd tufewnol, cyffroad oddi mewn, cyffrawd mewnol.

Intimate, *s.* cyfaill, cyfaill mynwesol, cydgyfaill, anwylyn, cyfeillachwr, cymdeithaswr, cydnabod, cyfaill cyfrin, cyfaill cyfrinschol, cyfaill agos.

Intimate,† *v. n.* ymgyfranogi, ymgyfranu.

Intimate, *v. a.* (Ff. *intimer;* Ll. *intimo*) awgrymu, arwyddo, rhoi awgrym, rhoi arwydd, yngan, ynganu, yngenyd, lledarwyddo, lledgrybwyll, gogrybwyll, lledhysbysu, gohysbysu, gofynegu, rhoi ar ddeall, crybwyll, corbwyll, crybwyllo, rhoi amnaid, lledgoffhau.

Intimately, *ad.* yn gyfeillgar, &c.; yn neilltuol, yn enwedigol, yn nodedig, yn dra.

Intimately acquainted — yn dra chydnabyddus, yn neilltuol gydnabyddus, yn gydnabyddus neilltuol, yn gydnabyddus iawn.

Intimation, *s.* (Ff. o *intimate*) awgrym, arwydd, lledarwydd, amnaid, awgrymiad, lledhysbysiad, lledgrybwyll, gogrybwyll, lledgrybwylliad, ynganiad, lledargoel, lledhysbysrwydd, arwyddiad, crybwylliad.

Intime,† *a.* (Ll. *intimus*) mewnol, tufewnol.

Intimidate, *v. a.* (Ff. *intimider*) brawychu, dychrynu, peri ofn ar, peri braw ar, peri arswyd ar, rhoi braw yn, hylldrawu, peri arswydo, digaloni, ofnhau, ofni, gyru ofn ar, bwbachu, bygylu, orni, darswydo, tarfu, ofnogi, ofnocáu, aryneigio, cilioni.

Intimidation, *s.* brawychiad, drychryniad, dychrynedigaeth, hylldrawiad, aryneigiad, darswydiad, bygyliaeth, orn, pariad ofn ar, &c.; dychryndod, brawychusrwydd.

Intinctivity, *s.* (Ll. *in* a *tinctus*) afliwioldeb, afliwiolrwydd, afliwiannedd.

Intire, *a.*=*Entire.*

Intitle, *v. a.*=*Entitle.*

To be intitled to a thing—bod i *neu* gàn un hawl i beth.

Intituled, *a.* à elwir, à enwir, à gyfenwir; o'r enw, dàn yr enw.

Into, *prep.* (o *in* a *to*) i, i mewn i, idd, i mewn; yn, mewn.

Into me—i mi, imi, i fi, i myfi, im'.
Into thee—i ti, iti, it'.
Into him—iddo, iddo ef.
Into her—iddi, iddi hi.
Into us—i ni, ini, in'.
Into you—i chwi, ichwi, iwch.
Into them—iddynt, iddynt hwy.
Into my—i'm, i fy, i fym.
Into thy—i'th, i dy.
Into his—i'w, idd ei.
Into her—i'w, idd ei.
Into our—i'n, idd ein.
Into your—i'ch, idd eich.
Into their—i'w, idd eu.
Into the—i'r, idd y, idd yr.
To convert into water—troi yn ddwfr.
To translate into Welsh — cyfleithu i'r Gymraeg; troi i *neu* i'r Gymraeg; troi yn Gymraeg.
To look into a letter—edrych i lythyr; edrych mewn llythyr.

Intolerable, *a.* (Ff.; Ll. *intolerabilis*) anoddefadwy, anoddefol, anoddef, annyoddefol, annyoddefadwy; nas gellir ei oddef; anwiw ei oddef; anrheith-oddef, anrhaith ei oddef; anguriol, enguriol, engur, enddrwg.

Intolerableness, *s.* anoddefoldeb, anoddefolrwydd, anoddefedd, anoddefrwydd; ansawdd anoddefadwy; enguriioldeb, enguredd.

Intolerance, } *s.* (o *intolerant*) anoddefgarwch,
Intoleration, } annyoddefgarwch, anoddefiaeth, anoddefedd, anghydoddefedd, anoddefiant, anoddefiad, anghydoddef, anghydoddefgarwch, anoddefaint, anghyd-ddygiad.

Intolerant, *a.* (Ff.; Ll. *in* a *tolero*) anoddefgar, annyoddefgar, anghydoddef, anghydoddefgar, anghydoddefol, anghydoddefus, anoddef, anghyd-ddygol, anoddefus; nas geill oddef barn wahanol i'w farn ei hun.

Intolerant, *s.* un anoddefgar, &c.; anghydoddefwr, anoddefwr, anoddefydd, anoddefiannwr.

Intomb, *v. a.* claddu, daiaru, beddrodi, beddu; rhoi mewn bedd *neu* feddrod; rhoi yn y bedd; rhoi *neu* osod mewn gwyddfa.

Intonate, *v. n.* (Ll. *intono*) seinio, synio, swnio; taranu, trystio.

Intonation, *s.* seiniad, seiniant, seiniedigaeth, seiniadaeth, seiniawd, syniad, swniad, cydganiad; taraniad.

Intone, *v. n.* (Ll. *intono*) cyttoni, cydleisio, hirdoni, hirseinio.

Intorsion, } *s.* (Ll. *intorqueo, intorsum*) nyddad,
Intortion, } nyddiad, dynyddiad, torchiad, troad, ffilliad, ystumiad, nydd, dirdroad, dyrwyniad.

Intort, *v. a.* (Ll. *intortus*) nyddu, dynyddu, torchi, troi, ffillio, dyrwyn, dyrynu, ystresu, cymhlethu, cordeddu, dirdröi, trowasgu.

Intoxicate, *v. a.* (Ll. *in* a *toxicum*) meddwi, brwysgo; gwneuthur yn feddw *neu* frwysg; peri yn feddw *neu* frwysg; pensyfrdanu, penfeddwi, darfeddwi; gwneyd yn bensyfrdan, yn benfeddw, *neu* yn ynfyd.

Intoxicate, } *a.* meddw, brwysg, abrwysg,
Intoxicated, } brwysgaidd, meddwedig, brwysgedig.

Intoxicatedness, *s.* meddwdod, meddwaint, brwysgedd, abrwysgedd, meddwawd, brwysgedigrwydd, brwysgeiddrwydd.

Intoxicating, *a.* meddwol, brwysgol, abrwysgol; à feddwa; à bair yn feddw.

Intoxicating liquors—diodydd meddwol, gwlybyron meddwol.

Intoxication, *s.* meddwdod, meddwaint, brwysgedd, abrwysgedd, meddwawd, meddwad, meddwedigaeth, abrwysgiad, brwysgiad; pensyfrdandod, lledfrydedd.

Intra, rhagddawd Lladin, yn dynodi *o fewn, oddi fewn, oddi mewn, tu mewn; yn, mewn.*

Intractable, *a.* (Ll. *intractabilis*) anhydrin, anhywaith, anhywedd, anhydyn, afreolus, anystywallt, anhawdd ei drin, cyndyn, cyndyniog, cildyn, anhyffrwyn, anhyweddus, aflywodraethus; anhyddysg, anhawdd ei ddysgu; garw.

Intractableness, } *s.* anhydrinedd, anhydyn-
Intractability, } rwydd, anhydynder, anhyweithder, anhyweithdra, anhyweithrwydd, anhyweddrwydd, cyndynrwydd, cildynrwydd, derdri.

Intrados, *s.* (Ysp.) gwyneb bwa, tanwyneb bwa, isgyrfen, isgomell, gwyneb isaf bwa.

Intrafoliaceous, *a.* (Ll. *intra* a *folium*) yn tyfu

y tu mewn i ddalen; ar du mewn dalen; deilfewnol.

Intramarginal, *a.* o fewn yr ymyl; tu mewn i'r ymyl.

Intrance, *s.*=*Entrance.*

Intranquility, *s.* aflonyddwch, annhawelwch, annhangnefedd, anesmwythder; cyffro, terfysg.

Intransient, *a.* annifanol, annifanus, anniflan, parhaol; nad yw yn myned heibio.

Intransitive, *a.* (Ll. *intransitivus*) annhrofiadol,annhrofiannol,annhrofiannus, annhrofawl, annhrofus, anarchfenedig, anerchwynedig, annhrawsfynedigol, anweithredol, didrosiad.

Intransitive verb — perwyddiad rhydd, berf rydd, berf annhrofiadol, peryfiad annhrofiannol, perwyddiad annhrofiannus, &c.; perwyddiad canolig, berf ganolig, berf ddiwrthrych.

Intransitively, *ad.* yn annhrofiadol, &c.; heb wrthrych; heb wrthrych ar ei ol; fel perwyddiad rhydd.

Intranslatable, *a.*=*Untranslatable.*

Intransmissible, *a.* annhrosglwyddadwy, annhrosiadwy; nas gellir ei droglwyddo.

Intransmutability, *s.* annewidadwyaeth, annewidadwyedd, annhrawsnewidioldeb.

Intransmutable, *a.* (*in* a *transmutable*) annewidadwy, annhrawsnewidadwy, anghyfnewidadwy; nas gellir ei drawsgyfnewid.

Intrant, *a.* (Ll. *intrans*) yn myned i mewn; treiddiol.

Intreasure, *v. a.* trysori; gosod mewn trysorfa.

Intreat, *v.*=*Entreat.*

Intreatful, *a.* llawn deisyfion, ymbiliog.

Intrench, *v. a.* (*in*, a Ff. *tranchcr*) amgloddio; bwrw clawdd o amgylch; dargloddio, gwarchgloddio; gormesu, gormeddu, goreilidio.

To intrench on—gormesu, gwasgu, dywasgu, cyfyngu, pwyso, goreilidio, *neu* ormeddu ar; rhuthro, ymwthio, ymlusgo, *neu* ymlithro i gyffiniau *neu* feddiant un arall; goresgyn; camoresgyn, treisfeddiannu.

Intrenchant,† *a.* anrhanadwy, anhyran; anarcholladwy.

Intrenchment, *s.* amglawdd, clawdd, clawdd amddiffyn, darglawdd, clawdd amgylch gwersyll, amglawdd gwersyll, gwarchglawdd, diffyn-glawdd, bwrch, bwr; amgloddiad; dargloddion; amgaer, caer, amddiffynfa, diogelfa, bardel; gormesiad.

Intrepid, *a.* (Ll. *intrepidus*) diofn, digryn, digryd, diarswyd, diergryd, digyswr, gwrol, eofn, eon, hyf, hy, dewr, glew, drud, aerlew, dewrwych, dihafarch, hydr, gwychr, llyfasol, arlefasol, erfain, arfeiddiol, gwrdd, pybyr.

Intrepidity, *s.* (Ff. *intrépidité*) eofndder, eonder, gwroldeb, gwrolder, dewrder, dewredd, glewder, anofn, dihafarchedd, hyfder, dewrwychedd, anofnogrwydd, anarswyd, annychryn.

Intricable,† *a.* dyrys, astrus.

Intricacy, *s.* (*o intricate*) dyryswch, dyrysrwydd, dyrysni, dyrysi, dyrysedd, astrusi, astrusrwydd, afrwydd-deb, nidredd, nidri, nidrad, didri, nidr, methledd, cynghawogrwydd, cynghaw, cymhlethrwydd, penbleth.

Intricate, *a.* (Ll. *intricatus*) dyrys, astrus, afrwydd, dyrysedig, rhwystrus, cynghaw, cynghafog, cynghawog, cynghafaidd, nidrog, nidrol, cymhleth, cymhlethedig, achwlwm, hyfagl; anhawdd ei ddattod; anhawdd ei egluro; anhawdd, caled.

The intricate points of the law—dyrysglymau cyfraith, cynghawog cyfraith, cynghawogion cyfraith, cynghafogion cyfraith, mân droion cyfraith.

Intricate, *v. a.* dyrysu, nidro; gwneuthur yn ddyrys, &c.; tywyllu.

Intricateness, *s.*=*Intricacy.*

Intrication,† *s.* dyrysiad, nidrad, nidri, nidredd.

Intrigue, *s.* (Ff.) cuddamcan, cuddneges, cuddwaith, dichellwaith, cuddymdrin, cyfrinwaith, cyfrin neges, cudd fasnach, celfasnach, celfwriad, dirgel fasnach, dirgel fwriad, dirgel gysmeriaeth, cuddymgystlwn; nwyfneges, nwyf-gyfrinach, dirgel nwyfneges, ymgyfarfod cyfrinachol, ymgynnull cyfrinachol; cysswyn gyfarfod serchogion, cyfrwysgudd gyfarfod cariadon; cyttwng, ystryw, traffaith; cynllwyn; †dyryswch.

Intrigue, *v. n.* cuddnegesa, cuddnegeseua, cuddamcanu, cuddymdrin, celfwriadu; llunio celfwriadau *neu* guddamcanion; ymyryd â chuddnegesau; gosod dirgel fasnach ar droedyn; ymdrin â rhyw neges yn gyddiadan *neu* gyfrinachol; cyfrinachu; llunio dychymygion er dwyn cuddnegesau yn mlaen; ymröi i lunio dirgel ddychymygion; ymgyfarfod yn gyfrwysgudd; traffeithio; cydfradu, cyttyngu.

Intrigue,† *v. a.* dyrysu, nidro, methlu.

Intriguer, *s.* cuddamcanwr, cuddnegeswr, cuddnegesydd, cuddnegesai, celfwriedydd, cuddweithydd, cyfrinweithydd; lluniwr dirgel fwriadau; ymyrwr *neu* ymyrydd â chuddnegesau; negeswr cyfrwysgudd *neu* ystrywgar; cyfrinachydd, cyfrinachwr.

Intriguing, *a.* cuddnegesgar, cuddweithgar, nwyf-negesgar; ystrywgar, cyfrwysgudd; hoff o guddnegesau *neu* guddamcanion; hoff o lunio dychymygion ystrywgar *neu* gyfrwysgudd; â'i fryd ar guddamcanion.

Intrinsecate,† *s.* dyrys, astrus, nidrog.

Intrinsic, } *a.* (Ll. *intrinsecus*; Ff. *intrin-*
Intrinsical, } *sèque*) tufewnol, mewnol, o'r tu mewn, oddi fewn; ynddo ei hun; hanfodol, priodol, priod, anianol, naturiol, cynnwynol, cynhenid; gwir-berthynol; gwirioneddol, gwir.

Intrinsically, *ad.* yn dufewnol, &c.; mewn gwirionedd.

Intro, rhagddawd Lladin, yn arwyddo *i mewn, oddi fewn, tu mewn; yn, i.*

Introduce, *v. a.* (Ll. *introduco*) dwyn i mewn, arwain i mewn, tywys i mewn, tywyso i mewn, dygyd i mewn, dwyn i fewn; rhagarwain, cyfarwain, rhagddarwain, tryddwyn, tryddygyd; cynnyrchu, peri; dechreu; dwyn i sylw; dwyn ger bron; dwyn i gydnabyddiaeth *neu* adnabyddiaeth; dwyn i fod yn gydnabyddus; cydnabyddu; dwyn; cyflwyno.

I was introduced to the bishop—cyflwynwyd fi i'r esgob; bu ymgydnabod rhyngof a'r esgob; dygwyd fi i gydnabyddiaeth â'r esgob; dygwyd fi i sylw *neu* ger bron yr esgob; cyfarweiniwyd fi at yr esgob; tryddygwyd fi ger bron yr esgob.

Introducer, *s.* rhagarweinydd, rhagarweiniwr, cyfarweinydd; arweiniwr, arweinydd, dyg-

wr, *neu* ddygydd i mewn; à ddygo *neu* à ddyco i mewn; arweinydd, arweiniwr; cyflwynwr, cyflwynydd; fforddoliad.

Introduction, *s.* (*Ff.*; Ll. *introductio*) rhagarweiniad, rhagweiniad, rhagddarweiniad, arweiniad i mewn, dygiad i mewn, tywysiad i mewn; arweiniad, tryddygiad; rhaglith, rhagymadrodd, rhagdraeth, rhagdraith, rhagdraethawd, rhagdreithawd, rhagaraeth, rhaglwybr, cychwyniad araeth.

Letters of introduction, } llythyrau cyfan-
Introductory letters, } erch, llythyrau anerch, llythyrau cyfarch, llythyrau o gyflwyniad, llythyrau cyflwyn, llythyrau cyfarweiniol, llythyrau cyfarchiadol, llythyrau cyfarwain.

Introductive, } *a.* rhagarweiniol, arweiniol,
Introductory, } cyfarweiniol, rhagddarweiniol, rhaglithiol, rhagymadroddol, rhagadroddol; rhaglwybraidd, rhaglwybrol, rhagflaenorol; cychwynol, dechreuol.

Introductory discourse—rhagaraeth, cynaraeth, rhaglith, rhagdraethawd, rhagdraeth, rhagdraith, cynarawd, rhagarawd, treithawd rhagarweiniol, araeth ragweiniol, araith ragarweiniol.

Introductory, *s.*=*Introducer.*

Introductorily, *ad.* yn rhagarweiniol, &c.; mewn ffordd o ragarweiniad, &c.; mewn rhaglith.

Introflexed, *a.* tröedig *neu* blygedig tuag i mewn.

Introgression,† *s.* mynediad, dyfodiad, *neu* ddyfodfa i mewn; trydded.

Introit, *s.* (Ll. *introitus*) tryddedgan.

Intromission, *s.* (Ll. *intromissus*) anfoniad i mewn; gollyngiad i mewn; gyriad i mewn; derbyniad i mewn; derbyniad, caniatâd; iddyriad; ymyraeth.

Intromit, *v.* (Ll. *intromitto*) anfon i mewn; gollwng i mewn; gyru i mewn; derbyn i mewn; derbyn, caniatäu; iddyru; creiddio; ymyru, ymyryd, ymyraeth, ymhel.

Introreception, *s.* derbyniad i mewn; derbyniad, caniatâd.

Introrse, *a.* (Ll. *introrsum*) tröedig i fewn; tröedig tua'r echel *neu* 'r paladr.

Introspect, *v. a.* (Ll. *introspicio, introspectum*) edrych i mewn i; edrych i mewn; edrych i'r tu mewn i; edrych i; edrych mewn; cymeryd golwg ar y tu mewn i beth; edrych o fewn i.

Introspection, *s.* edrychiad i mewn; edrychiad i'r tu mewn; golwg ar y tu mewn i beth.

Introsusception, } *s.* syrthiad un ran o berfedd-
Intussusception, } yn i'r llall; mynediad un rhan o goluddyn i mewn i'r llall; ymgymeriadaeth.

Jewishly, *ad.* yn Iuddewig, yn Iuddewaidd; yn null yr Iuddewon.
Jewishness, *s.* Iuddewigrwydd, Iuddeweiddrwydd; defodau yr Iuddewon.
Jewry, *s.* (o *Jew*) gwlad yr Iuddewon, gwlad Iudah, Iudaia, Iwdaia, Iudea.
The other parts of Jewry—cyrau ereill Iudah (1 *Esd.* v. 8).
He would not walk in Jewry—nid oedd efe yn chwennych rhodio yn Iudea (*Ioan* vii. 1).
Jheel, *s.* llagad; llŷn bas *neu* gorsog (yn yr India Ddwyreiniol).
Jib, *s.* (?) cynhwyl, y gynhwyl, yr hwyl flaenaf.
Jib of a crane—blaen cambill, twddf cambill.
Jib, *v. a.* symmud *neu* newid y gynhwyl o'r naill ochr i'r llall.
Jib-boom, *s.* cynhwylbawl, trostlath y gynhwyl.
Flying jib-boom—y cynhwylbawl gwyllt *neu* hedegog.
Jib-door, *s.* drws minfin â'r mur; drws cydwastad â'r wàl; drws cel, drws cudd.
Jiboya, *s.* sarff Americaidd o'r maintioli mwyaf.
Jickajog, } *s.* (dychymygair o *jog*) siglad, ysgydJigjog, } wad, sigl, ysgwyd, tero, gwth, hwp.
Jiffy, *s.* mynydyn, cyttrym, cyttryn, cythrym, mynyd, origyn.
In a jiffy—mewn mynydyn, &c.; mewn dim o amser; ar darawiad amrant; ar darawiad llygad; yn ddiattreg, yn ddioed, yn ddiannod, yn chwipyn, chwaff, chwap.
Jig, *s.* (It. *giga;* Ff. *gigue*) llamddawns, chweiddawns, crychddawns; chwimalaw, chweiddygan; croesaren.
Jig, *v. n.* llamddawnsio, chweiddawnsio, crychddawnsio, crychlamu.
Jigger, *s.* llamddawnsiwr, crychddawnsiwr, crychlamydd.
Jiggish, *a.* cyfaddas i lamddawns; prjodol i chwimalaw; chwimalawaidd.
Jiggling, *a.* dawnsiol, corelwawl.
Jiggumbob, *s.* (dychymygair) tegan, ffrilyn, coegbeth.
Jigmaker, *s.* chweiddyganwr; cyfansoddwr chweiddyganau *neu* chwimalawon; dyrifwr; llamddawnsiwr.
Jigpin, *s.* pin trolathau mwnwyr.
Jill, *s.* (gwel *Gill*) nwyfes, nwyfusen, nwyfoges, ffiloges, ffilog, anllades, anlladferch, trythylles, hoeden, llances, mwygten, cymmones, cyffoden, gwilff.
Jill-flirt—ffiloges, ffilog, nwyfes, &c.
Jilt, *s.* (anhysbys) hoeden, croesen, murwen, chwidwen, penhoeden, chwidren, ffiloges, ffilog, gwilff, mursogen, twyllodres, coegen dwyllodrus, twyllen; cariadferch dwyllodrus, somgar, *neu* dwyllgar; twyll-gariad; twyll i'w chariad.
Jilt, *v.* chwareu yr hoeden, &c.; hoedena, chwidwena, coegena, mursena, rhithgaru, twyll-garu; twyllo *neu* somi ei chariad; chwareu castiau wrth garu; peri seithug i'w ffyddlawn gariad a phriodi arall.
Jimmers, *s. pl.* colfachau cymmalog.
Jimp, *a.* (o *gimp,* C. *gwymp?*) dillyn, tlws, del, hardd, destlus, gwymp, pefr, pert, lluniaidd.
Jingle, } *v.* (o'r sain; Pers. *zangl*) tincian,
Gingle, } tincio, tincial, rhincian, rhincio, clecian, darsteinio, darstain, toncio; cydseinio, cydleisio, cyttaro.
The words jingle—y mae y geiriau yn taro; mae y geiriau yn clecian.
To jingle in words—dewis geiriau i glecian; dewis geiriau cydsain *neu* gydseiniol; peri i eiriau glecian *neu* gyttaro; clecian geiriau; tincian geiriau.
Jingle, } *s.* tinc, tincian, tinciad, tinclais, dar**Gingle,** } stain, clec, cleciad, rhinc, tonc; cydsain, cyssain, cydseinedd, cydseiniad; clochig, clochan, cloch fechan.
A mere jingle—sain a dim ond sain.
Jippo, *s.* (Ff. *jupe*) gwasgod benyw; math o ystywaws arferedig gàn fenywod.
Job, *s.* (anhysbys) gorchwylyn, gorchwyl; tasg; gorchwyl o waith; darn o waith; swydd, swyddan; siâs; hapwaith; hur; † brath, gwân.
A job of work—gorchwyl, gorchwylyn, tasg, *neu* siâs o waith.
A good job, } gorchwyl ennillfawr.
A lucrative job, }
To work by the job—gweithio ar dasg; gweithio wrth y gorchwyl.
Job-horses—hurfeirch, llogfeirch, ceffylau hur, ceffylau llog.
Job, *v.* gorchwylio; gweithio wrth y gorchwyl; gweithio ar dasg; hapweithio; tasgu; hurio, llogi; brathu, gwanu; edwica, maeliera, masnachu; prynu a gwerthu; rhyngfaelio; masnachu yn yr ariansoddion cyhoeddus; marchnata yn y dylgedion cyhoedd.
Jobber, *s.* hapweithiwr, hapweithydd, gorchwylwr, gorchwylydd, gweithiwr hur; prynwr a gwerthwr; porthmon, edwicwr, maelotyn, maclieryn, maelotai.
Stock-jobber—porthmon llog; masnachwr yn nyled y deyrnas; porthmon dyledsoddion; prynwr *neu* werthwr dyled y wlad; soddfaelier, dyledfaelier, edwicwr y dylgedion cyhoedd; masnachwr arian, arian-fasnachwr.
Land-jobber—porthmon tir, edwicwr tir, tir-faelotyn, masnachydd tir.
Jobbernowl, *s.* (o'r Fflemaeg *jobbe,* a S. *knol,* meddir) hurthgen, penbwl, penllorcan, llelo, brebwl, ffwlcyn, hurtyn, cadafael, delff, llob, pendew, clwpa, pen clwpa, clopa.
Jobbing, *s.* hapweithiad; hapweithio, gorchwylio; maeleriaeth, maeleriad, maelierad, porthmona, edwica.

Job's Tears, *s. pl.* dagrau Iob, deigr Iob, dagrau Io=enw planigion.

Jocantry, *s.* (Ll. *jocans*) cellweirgarwch, cellweiriad, cellwair, arabedd.

Jockey, *s.* (llygriad, meddir, o *Jackey*, y bychanig o *Jack* neu *John*) marchogwr, marchogydd, marchgāwr, gyrwr, gyrydd, marchwr; porthmon meirch, porthmon ceffylau; dofwr meirch, torwr meirch, torwr ceffylau; twyllwr, twyll-fasnachwr, hocedydd.

Jockey, *v. a.* chwareu y marchogwr â; chwareu y porthmon â; twyllo, coegio, somi; castio; chwareu castiau â; gwthio, gwasgu ar.

To jockey one—gwthio un mewn gyrfa; gwasgu ar un mewn gyrfa; cadw y llaw *neu* y tir uchaf ar un.

Jockeyism, *s.* arfer marchogwyr; arfer porthmyn meirch; porthmonaeth.

Jockeyship, *s.* marchwriaeth, marchogwriaeth; porthmonaeth meirch; yr arfer o farchogaeth ceffylau.

Jocose, } *a.* (Ll. *jocosus, jocularis*) cellweirgar,
Jocular, } cellweiriog, cellweirus, gwrhewcrus, llon, hylon, llawen, digrif, difyr, ysmala, arab, arabeddus, digrifion, digrifian, difyrgar, hoenus, chwarĕus.

Jocose person—dyn gwrhewcrus, dyn cellweirgar, &c.; cellweiriwr, cellweirydd, cellweirgarwr.

Jocoseness, } *s.* cellweirgarwch, cellweiriog-
Jocularity, } rwydd, cellweirusrwydd, ysmaldod, ysmalder, ysmalrwydd, gwrhewcri; llonder, llawenydd, digrifwch, hylonrwydd, hylonder, llonedd, arabedd, difyrgarwch.

Joco-serious, *a.* rhwng digrif a difrif; rhwng difyr a digrif; difyr-ddifrif, digrif-ddifrif, difyr-brudd.

Jocularly, *ad.* yn gellweirgar, &c.; mewn cellwair, dān gellwair, o ddigrifwch, mewn digrifwch, o gydgam, mewn difyrwch.

Joculary,† *a.*=*Jocular.*

Joculator, *s.* (Ll.) cellweirydd, cellweiriwr, cellweirgarwr, digrifwr, digrifwas; clerwr, amgeiniad.

Joculatory, *a.* digrif, digrifol, ysmala, cellweirus, difyr.

Jocund, *a.* (Ll. *jocundus*) llonwych, llawen, llon, hylon, ysmala, digrif, digrifol, arab, difyr, digrifion, gwrhewcrus; nwyfus, hoenus, gorawenus, bywiog, chwarĕus, atre.

Jocundity, } *s.* llonder, llawenydd, llonedd,
Jocundness, } hylonrwydd, hylonder, llonwychder, digrifwch,; ysmaldod, arabedd, difyrgarwch, gwrhewcri; hyfrydwch, boddlonrwydd.

Jog, *v.* (C. *yagogi?* Is. *schokken?*) lledwthio, lledysgwyd, ysgytio, ysgytian, ysgwyd, rhoi ysgwd i, gwthio; cilgwthio, penelino; goduthio, araf duthio, tuthio, tuthian, haldian, honcian, hwntian; siglo, crynu.

To jog on—goduthio yn mlaen; myned yn mlaen dān oduthio; myned yn o hwyrdrwm yn mlaen.

To jog with the elbow — penelino; rhoi penelinawd; gwthio â phenelin.

To be jogging—goduthio; myned ymaith; myned i'w ffordd; ymadael, ymadaw.

It is time to be jogging—madws yw ymadaw.

Jog, *s.* gwth, lledwth, cilgwth, ysgwd, ysgwth, ysgydfa, ysgytfa, hergwd; penelinawd, penelinad; ysgytiad, siglad, sigl; rhwb, rhath, rhwbiad, rhathiad; goludd, lledrwystr; goduth, hald, goduthiad.

Jog-trot—goduth, hald; tuth; goduthiad; tuthiad.

Jogger, *s.* lledwthiwr, ysgytiwr, cilgwthiwr; goduthiwr, cerddedwr goduthiog; march tuthiog, tuthfarch, troterth.

Jogging, *s.* lledwthiad, lledysgytiad, ysgytiad, siglad, ysgydfa, ysgytfa; goduthiad, goduth, hald.

Jogging-trot—goduth, hald; goduthiad; tuthiad.

Joggle, *v. a.* lledwthio, lledysgwyd, lledysgytio, gosiglo, lledsiglo, ysgwyd, ysgytio, crynu, siglo.

Joggles, *s. pl.* ysgytreddau, deintreddau; cyd-iadau ysgytiog.

Joggle joints, } =*Joggles.*
Joggled joints, }

Joggled, *a.* deintreddog, ysgytreddog.

Joggles, *s. pl.* eiddunwyr neu ddiofrydwyr Hindwaidd.

Jogues, *s.* (San.) cyfnodau neu oesoedd hirfeithion, yn amseryddiaeth yr Hindwys.

Johannes, *s.* (*Ioan*, yn y Lladin) darn aur perthynol i Portugal, gwerth £1. 16s.; à elwir weithiau *Joe.*

John-Dory, *s.* (Ff. *jaune dorée*) yr eurgefn, yr eurbysg, y pysg eurgefn.

John-Apple, *s.* afal Ioan, afal Ieuan.

Join, *v.* (Ff. *joindre*; Ll. *jungo*; Ysp. *juntar*) cyssylltu, cydio, cydgyssylltu, cyssylltu yn nghyd, uno yn nghyd, uno, cyfuno, cyduno, cyplysu; asio; cymmalu; paru; cydrwymo; ymgyssylltu, ymgydio, ymgyplysu, ymuno, ymgyduno; glynu, ymlynu; cydieuo; cydwnio; bod yn cyffwrdd.

To join to *or* unto—cyssylltu wrth, cydio wrth, dodi wrth, cyplu wrth, cyssylltu â, cydio â; chwanegu at; cyssylltu peth at beth.

To join one's self to—glynu wrth, ymlynu wrth, ymgyssylltu âg, ymgyplysu âg, ymuno â.

To join hard to—bod yn cyffwrdd â; cyffwrdd â; bod yn agos at.

To join together—cydgyssylltu, cyssylltu yn nghyd, cyduno.

To join with—cytuno â, cyduno âg, ymuno â.

To join battle—brwydro, ymladd; taraw yn nghyd; ymgyfarfod o'r gad; cydio â'r gelyn; myned y rhyfel yn nghyd; myned yn nghyd â'r gelynion; ymwrio.

To join fellowship—ymgyfeillio, ymgyfeillachu, uno, ymuno.

To join fellowship with one—ymgyfeillio âg un.

To join in affinity, }
To join affinity, } ymgyfathrachu.

To join issue—gosod *neu* roddi yr ymrafael ar y gyfraith; gosod *neu* ddodi yr ymrafael ar farn *neu* ddosbarth y gyfraith; gwneuthur cyfraith.

I will join issue with you—mi a'ch cymmeraf i fyny ar eich cynnyg eich hun.

To join by joints—cymmalu, rheddu.

Not to be joined — anghyssylltadwy, anghydiadwy; nas gellir ei gyssylltu; anghyswllt.

To join one to another—cyssylltu y naill wrth y llall; cyssylltu â'u gilydd; cydio y naill wrth y llall.

They were joined by volunteers in hopes of plunder—wrthynt yr ymlynodd, atynt y chwanegwyd, *neu* â hwynt yr ymgyssylltodd ereill o'u gwirfodd, dàn obaith ysbail.

There were joined unto them volunteers in hopes of plunder—wrthynt yr ymlynodd, atynt y chwanegwyd, *neu* â hwynt yr ymgyssylltodd ereill o'u gwirfodd, dàn obaith ysbail.

To him that is joined to all the living—i'r neb a fo yn nghymdeithas y rhai byw oll (*Preg.* ix. 4).

Joinder, *s.* cyssylltiad, cydiad, ymgyssylltiad, asiad, cysswllt, cwplws, cyd.

Joined, *p. p.* cyssylltedig, cyssylltiedig, cydiedig; â gyssylltwyd; wedi ei gyssylltu; unedig, cyfunedig.

Ill-joined—drwg ei gysswllt *neu* gyssylltiad; â gyssylltwyd yn ddrwg *neu* anghelfydd; wedi ei gyssylltu yn ddrwg *neu* anghelfydd.

Well-joined — wedi ei hardd gyssylltu; hardd gyssylltiedig; hardd ei gysswllt.

Joiner, *s.* cyssylltwr, cyssylltydd, asiwr, asiedydd; coedasiwr, coedasiedydd, asiwr coed, asiedydd coed; saer, saer dodrefn, saer coed, asweithiwr, assaer.

Joinery, *s.* asiedyddiaeth, coedasiaeth, celfyddyd asio coed, celfyddyd coedasio, cywreinwaith saer coed, aswaith; saernïaeth, coedsaernïaeth, assaernïaeth, coedgelfwaith, coedaswaith.

Joinhand, *s.* cyssylltlaw, llaw gydiedig, ysgrifen gydiedig, cydysgriflaw.

Joint, *s.* (Ff.; Ll. *junctura*) cysswllt, cyssylltiad, cydiad, cymmal, rhedd, pencnaw, cwgn, cygnyn; glin; clwm; migwrn; aelod.

Joint (in stalks)—cymmal, cwgn, glin.

Joint of meat—aelod, chwarthor, golwyth, dryll, *neu* ddarn o gig *neu* gigfwyd.

Joint of the body—y cwbl o'r aelod â fo rhwng y cymmalau.

Mucilage of the joints—llŷn y cymmalau.

Having tottering joints, } ansedyrn.
Infirmly jointed, }

Out of joint, } dadgymmaledig,
Put out of joint, } anghymmaledig,

&c.; â ddadgymmalwyd, wedi ei ddadgymmalu; disle; dadgymmalus, anghymmalus; anghyssylltedig; wedi llaesu o'r cysswllt; wedi ymwahanu o'r esgyrn; wedi tyrfu; annhrefnus.

To put out of joints—dadgymmalu, anghymmalu, disgymmalu, digymmalu, dadreddu; tynu y naill gymmal oddi wrth y llall; tynu bob yn gymmal; dislëu.

Having joints, } cymmalog, cygnog, cys-
Full of joints, } sylltog; clymmog, gliniog (fel pelydr llysiau).

Dovetail joint—cymmal peusyth, cysswllt peusyth.

Longitudinal joint—cysswllt hydred.

Neck joint—chwilfwnwgl, chwilfynwgl, cymmal y gwddf.

Joint, *a.* cyd, cyd-, cy-, cys-, cym-, cyf-; o'r cyd; cyssylltedig, cydiedig, unedig, cyfunol.

Joint heir—cydetifedd, etifedd cyd.

Joint house—cytty, ty cyd.

Joint possessors of land—cyttirogion, cydberchenogion tir.

Joint pasture—cyttir pawr, tir cydbawr, tir cydymbawr, cydborfeldir, cyttir, tir cyd.

Joint chair—cadair gysswllt (ar reilffordd).

With joint consent—o fodd y ddwyblaid; o fodd y ddwyliw; trwy gydgenad; trwy gydsyniad.

Joint, *v. a.* cymmalu, rheddu; cydio, cyssylltu, cydgyssylltu, rhoi yn nghyd, rhoi yn nghysswllt, rhoi yn nghymmal; chwarthorio, dadgymmalu, aelodi; trychi *neu* dori yn gymmalau.

Jointed, *a.* cyssylltedig, cyssylltiedig, cydiedig, asiedig, cydgyssylltedig; cymmaledig, cymmalog, cygnog; chwarthoriog.

Jointed glasswort — llyrlys llysieuaidd, chwyn hallt.

Jointed charlock—rhuddygl gwyllt, heddig gwyllt, bysedd yr iar.

Jointedly, *ad.* yn gymmalau; bob yn gymmal; yn gyssylltedig, &c.

Jointer, *s.* asganwyr, cyssyllt-ganwyr, canwyr cysswllt; cyssylltor = canwyr i wastadhau ymylau estyll fel y cyfladdont ac yr ymgyssylltont o ben bwygilydd iddynt.

Jointing, *s.* cymmaliad, rheddiad, pencnawiad; cyssylltiad, cydiad, asiad.

Jointing plane=*Jointer*.

Jointly, *ad.* yn nghyd; y naill gyda'r llall; gyda'u gilydd; yn gyssylltedig, yn nghysswllt, o'r cyd; yn gydunol, yn gytunol; yn gyd.

Joint-stock, *s.* da cyd, eiddo cyd, cydgyff.

Jointstool, *s.* ystol gysswllt, ystol gymmalog.

Joint-tenancy, *s.* cyd-ddaliadaeth, cyd-ddeiliadaeth, cyttirogaeth.

Joint-tenant, *s.* cyd ddeiliad, cyd-ddeiliad, deiliad cyd; cyttirog, (*pl.* cyttirogion).

Jointure, *s.* (Ff.) traian; agweddi, egweddi; gwaddol gwraig weddw=tir â sefydlir ar wraig, i'w fwynhau ganddi, os bydd y gwr farw o'i blaen.

Jointure, *v. a.* sefydlu traian ar.

Jointuress, } *s.* gwraig waddolog, gwaddoles;
Jointress, } gwraig â thraian ganddi.

Joist, *s.* (Ff. *gésir*? Ysg. *geist*, *gest*) dist, ceibren, cebr, rheswydden, ysburlath, trawst: *pl.* ceibr, rheswydd.

Joist, *v. a.* distio, ceibro, rheswyddu, trawstio.

Joke, *s.* (Ll. *jocus*; Al. *schäkern*) cellwair, cymmŵedd, gair o gellwair, digrifair, cellweirair, gair digrif, cydgam, ysmaldod, ysmalder, digrifwch, gair o gymmŵedd, arabedd, gwawdair: *pl.* ysmalion, cellweiriau, digrifion.

In joke—dàn gellwair, o gellwair, o ddigrifwch, o gydgam, o gymmŵedd, mewn cellwair; mewn digrifwch, mewn difyrwch.

Practical joke—cellwair ymarferol; cast; rhywbeth gwaeth na chellwair.

To play jokes upon one—chwareu gwrhewcri âg un; cellwair âg un.

Joke, *v.* (Ll. *jocor*) cellwair, cellweirio, cydgam, cydgamu, cymmŵedd, saethyta, ysmalio, arabeddu, digrifo; cellwair â, cydgam â, cymmŵedd â, ymddigrifo â; chwerthin am ben; dywedyd ysmalion wrth; chwareu gwrhewcri â; dyfalu, gwatwar, gwawdio.

Joker, *s.* cellweiriwr, cellweirydd, digrifwas, gwas digrif, gwalch digrif, ysmaldodwr, digrifyn, un gwrhewcrus.

Jokingly, *ad.* yn gellweirus, dàn gellwair, o

gellwair, o ddigrifwch, o gydgam, o gymwedd, mewn cellwair, mewn digrifwch, mewn difyrwch.

Jole, } *s.* (S. *ceole;* Gw. *gial*) cern, boch,
Joll, }
Jowl, } bochgern, lledben; pen pysgodyn.

Cheek by jole—penben, pen yn mhen, ben yn mhen, bochfoch, grudd yn ngrudd, rudd yn ngrudd, ochr yn ochr, ystlys yn ystlys.

Jole, } † *v. a.* taro y pen yn erbyn peth; gwrth-
Joll, } daro.

Jollily, *ad.* (*o jolly*) yn llonwych, yn llon, yn llawen, yn hylon, yn orllawen, yn nwyflawen, yn nwyflon, yn nwyfus lawen, yn hoew; yn dda *neu* wych ei wedd; yn hoew yr olwg arno.

Jolliment,† *s.*=*Jollineas, Jollity.*

Jolliness, } *s.* llawenydd, llawenwch, sarllach,
Jollity, } hylonrwydd, gorfoledd, llonder, llonwychder, hoenusrwydd, hoenwychder, hoewedd, hoewder, gwychedd, nwyflonder, nwyflawenydd, gorllawenydd, gorllonder; digrifwch, difyrwch; llawenydd cyfeddach, llonder cyfeddach; cyfeddach, rhysedd; tewder gwedd.

Jolly, *a.* (Ff. *joli;* It. *giulivo*) llonwych, llawen, llon, hylon, hoenus, gorhoenus, gorawenus, hoenwych, nwyflon, nwyflawen, nwyfus lawen, llawenwych, gorllawen, digriflan, digriflon; llawen gàn gyfeddach; hoewych, hoew, gwych, golygus; da, gwych, *neu* deg ei wedd; gwych yr olwg arno; tew; tirf, gwyrenig, siriol; sionc, heinif, brysg; pwyntus; boliog.

A jolly companion—cyfeddachwr digriflan, glân gydymaith, cydymaith glân, cydymaith llonwych.

Jolly-boat, *s.* (o *pawl*, Sw. *julle*) iolfad, ysgwyddfad.

Jolt, *s.* (?) hald, tero, ysterc, llam, crychlam, dadlam, sigl, siglad, cysgog, ysgydwad, ysgwydfa, ysgwyd, ysgytiad, ysgydfa, ysgytfa, haldiad, honc, herc, tolc, hergwd.

Jolt, *v.* haldian, honcian, honcio, honco, hwntian, adlamu, dadlamu, tercu, ystercio, hercian, hercianu; ysgytio, ysgytian, ysgwyd, ysgydwyd, tolcio, hergydio, siglo, cysgogi, ysgydio, ysgydw.

Jolter, *s.* ysgytiwr, ysgytydd, ysgytor, cysgogydd, siglydd, honciedydd, honciwr, haldiwr, terciwr, tercydd, ystercydd.

A jolting coach—cerbyd ysgytiol, cerbyd llamsachus.

Jolthead, } *s.* penllorcan, pendew, penbwl,
Jolterhead, } brelbwl, penglogyn, llelo, hurthgen, hurtyn, hurtan, hurt, hurth, cuall, delff, ulldn, llob, llobyn, penfras, cadafael, ffwlcyn, clwpa, clopa, hwgwd, hyrmer, siolyn.

Jonquil, } *s.* (Ff. *jonquille*) gylfinog frwyn-
Jonquille, } ddail=math o flodau Mawrth.

Jordan, *s.* (S. *gor* a *dan*, yn ol y Dr. *Johnson*) troethlestr, trosthai, troethbot, cellbot, llestr ystafell.

Joram, *s.* llestr yfed; llestraid o ddiod.

Joseph, *s.* (oddi wrth y Patriarch *Joseph*, mab Iacob) cób farchogneth, llaesbais, llaesgob, llaeswisg fotymog.

Joso, *s.* math o bysgodyn bychan.

Joss-sticks, *s. pl.* addolgyrs, addolgoed=cyrs wedi eu gorchuddio â blawd coed perarogl, à losgir o flaen eilunod, yn China.

Jostle, } *v.* (Ff. *jouster*, am *jouster;* Ysp. *justar*)
Justle, } gwthio, eilgwthio, hergydio, hyrddio, ysgytio; rhuthro, rhedeg, *neu* daro yn erbyn un; ymhyrddu, ymhyrddio, ymwthio, *neu* ymwrio âg un; ymwthio, ymhyrddio; taro.

To jostle with the elbow—penelino; gwthio â phenelin.

Jostling, } *s.* gwthiad, eilgwthiad, hergydiad,
Justling, } ysgytiad, hyrddiad, gwasgiad; rhuthriad yn erbyn; gwth, ymwth, ymhwrdd.

Jot, *s.* (Gr. *iôta;* Heb. *iod*, sef, enw y llythyren י) mymryn, tipyn, ticyn, dim, y dim lleiaf, y tipyn lleiaf, y ticyn lleiaf, diddym, chwythryn, ffyloryn, eflyn, efnyn, rhithyn, bychanigyn, tip; iot, iod; pwnc, pyncyn.

He cares not a jot for his credit—nid yw efe yn gofalu mymryn am ei air da; nid yw efe yn gofalu mo'r mymryn lleiaf am ei air da.

Every jot of it—y cwbl oll; pob mymryn o hono; pob tipyn o hono; pob ticyn o hono; pob chwythryn o hono.

Jot, *v. a.* cofnodi, coflyfru; gosod i lawr; llyfru.

Jotting, *s.* cofnod, cofnodiad.

Journal, *s.* (Ff.; Ll. *diurnum*) dyddiadur, dyddlyfr; cyfnodur, cyfnodiadur, cyfnodlyfr, cofnodlen; peunyddiol hanes; newyddiadur.

Critical journal — beirniadur, cyfnodur beirniadol.

Literary journal — lleniadur, cyfnodiadur llenorol, dyddiadur llenorol.

Journal,† *a.* dyddiol, dïwrnodol, peunyddiol, beunyddiol.

Journalism, *s.* dyddlyfraeth, dyddiaduriaeth, dyddlyfryddiaeth, cyfnoduriaeth, newyddiaduriaeth; ysgrifeniad dyddlyfrau *neu* newyddiaduron.

Journalist, *s.* dyddlyfrwr, dyddlyfrydd, dyddiadurydd, dyddnodydd, cyfnodurydd, newyddiadurwr; ysgrifenwr dyddlyfr, cyfnodur, *neu* newyddiadur.

Journalize, *v. a.* dyddlyfru, dyddiaduro, cyfnodlyfru, dyddnodi; gosod hanes gweithrediadau peunyddiol mewn llyfr.

Journey, *s.* (Ff. *journée;* It. *giorno;* o'r Ll. *diurnus*) taith, ymdaith, gorymdaith; hynt, dyhynt, hytynt, helynt, helhynt, trawd, hwyl, treigl, ffordd; † taith dïwrnod.

A prosperous journey—rhwydd hynt, taith lwyddiannus, taith hyffordd.

An easy journey—taith rwydd, hawdd, esmwyth, *neu* hyffordd.

To begin a journey, } cychwyn, dechreu
To enter on a journey, } taith, cychwyn taith; cychwyn i daith; dechreu ar daith.

Provisions for a journey—gosymmaith, gosymdaith, bwyllwrw.

To furnish *or* supply one with provisions for a journey—gosymmeithio un, gosymdeithio un, rhoi bwyllwrw i un.

In my journey—ar fy nhaith; ar fy hynt; wrth fyned heibio.

To bring one on a journey—hebrwng un, hebryngu un.

Take thy journey—dos i'th daith.

When I take my journey—pan elwyf, pan yr elwyf, pan elof, pan yr elof; pan af i'm taith.

This tedious journey—y daith hirfaith hon.
Journey-choppers—manwerthwyr edafedd, adwerthyddion edafedd.

Journey, *v. n.* teithio, ymdeithio, ymdaith, hyntio, gorymdaith, teithiannu, ymdeithiocâu, gorymdeithio; dwyn hynt i le; cychwyn rhagddo; mynedsymmud; trodi.

Journeyer, *s.* teithiwr, teithydd, ymdeithiwr, ymdeithydd, ymdreiglwr.

Journeying, *s.* teithiad, ymdeithiad, teithiant; taith, ymdaith, gorymdaith.

Journeyman, *s.* hurweithiwr, hurweithydd, gweithiwr hur, dïwrnodwr, dyddweithydd, dyddweithiwr, gweithiwr wrth y dydd; gweithydd er *neu* ar hur dïwrnodol; gweithiwr ar hur y dydd.

Journey-weight, *s.* dyddbwys (yn y Bathdy).
Journey-weight of gold—dyddbwys o aur =15 byrbwys, yr hyn a fathir yn 701 penadur, neu 1402 hanner penadur.
Journey-weight of silver—dyddbwys o arian=60 byrbwys, yr hyn a fathir yn 792 o goronau, neu 1584 o hanner coronau, neu 3960 o sylltau, neu 7920 o chwechein iogau.

Journey-work, *s.* hurwaith, gwaith hur, dïwrnod-waith, gwaith wrth hur y dydd; gwaith dïwrnodol â wneir er hur.
To work journey-work — dïwrnodio, gweithio dïwrnod-waith; bod ar, er, *neu* wrth hur y dydd.

Joust, *s.* (Ff. *juste, jouste;* Ysp. *justa*) rhithymladd, rhithymladdfa, gware paled, paledgamp, chware argae coed, chware gwŷr Troia, hergydfa; ymornest *neu* ymgyrch ffynwewyr ar feirch; rhithymladd marchogion â phaledau a chleddyfau.

Joust, *v.* rhithymladd, chwareu paled, chwareu paledgamp, chwareu argae coed, chwareu gwŷr Troia, chwareu brwydr argae coed, chwareu ymladd; gwthio, cilgwthio, hergydio, gyru, gwasgu, ymhyrddio.

Jovial, *a.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *jovialis*) llonwych, digrifion, digriflan, llawen, llon, hylon, digrif, difyr, difyrgar, hoenwych, hoenus, gorhoenus, nwyfion, nwyflawen, llawenwych, hoenlon, gorllawen, hoewych, hoew, gwych, golygus: dân ddylanwad y blaned Iau, Ieuol.
A jovial fellow—gwas digrif, digrifwas; glân gydymaith, cydymaith glân, cydymaith llonwych, cyfeddachwr digriflan.

Jovialist, *s.* cyfeddachwr digrifian, glân gydymaith, cydymaith glân, cydymaith llonwych, gloddestwr digrifian, bucheddwr nwyflawen.

Joviality, } *s.* llawenydd, llawenwch, sar-
Jovialness, } llach, hylonrwydd, llonder, llonwychder, hoenwychder, hoenusrwydd, hoenusder, hoewedd, hoewdeb, hoewder, hoewineb, nwyflonder, nwyflawenydd, hoenlonder, gorllawenydd; digrifwch, difyrwch; llawenydd cyfeddach, llonder cyfeddach.

Jovially, *ad.* yn llonwych, &c.

Jovialty,† *s.*=*Joviality, Jovialness.*

Jowassa, *s.* draenen y camel.

Jowl, *s.*=*Jole,* &c.

Jowler, *s.* (o *howler,* hwyrach) helgi; udgi.

Jowter, *s.* (llygriad, efallai, o *jolter*) pysgwerthwr teithiol, gwerthwr pysgod.

Joy, *s.* (Ff. *joie*) llawenydd, llawenwch, llonder, llondra, llondeb, llonder, llonedd, llonwch, dywenydd, gorfoledd, hyfrydwch, elwch, gorhoen, digrifwch, difyrwch, menwyd, hoen.

Mutual joy—cydlawenydd, cyd lawenydd, llawenydd o'r cyd, &c.
To give one joy, } dymuno llawenydd i
To wish one joy, } un; llwyddo un; cydlawenhau âg un, cydlawenu âg un, cydloni âg un; hawddammori, hawddammor, cyfloddi, llongyfarch.
God give you joy—Duw a'ch llwyddo; llwydded Duw chwi *neu* chwychwi; rhodded Duw lawenydd i chwi.
There is no joy without annoy—ni cheir y melus heb y chwerw.
To leap for joy—llamu, llemain, *neu* neidio gân lawenydd; llamu, llemain, *neu* neidiaw o lawenydd; llawenychu gân lawenydd mawr dros ben; ymorfoleddu.
Traveller's joy—cudd y coed, barf y gwr hen, dringiedydd.

Joy, *v.* llawenhau, llawenychu, llawenu, lloni, llonychu, lloneiddio, lloniannu, hyfrydu, hoeni, sirioli, dyddanu, darloni; ymlawenu, ymlawenhau, ymlawenychu; bod yn llawen; gwneyd yn llawen; gorfoleddu, ymorfoleddu; cydlawenu â, cydlawenhau â, cydlawenychu â, cyfloddi; dymuno llawenydd i; mwynhau, cael mwynder, cael mwyniant, meddiannu.

Joyance,† *s.* (hen Ff. *joiant*) llawenydd, llonwychder, sarllach.

Joyful, *a.* llawen, llon, hylon, gorfoleddus, gorllawen, trallawen, tra llawen, llawen iawn; cyflawn o lawenydd; hyfryd, hyfrydlon, dyddan, difyr, llonwych, hoenus, gorawenus.
To be joyful—gorfoleddu, llawenhau, ymlawenhau, ymlawenu; bod yn llawen, &c.
Be joyful—llawenhëwch, gorfoleddwch, byddwch lawen.
Joyful voice—llais gorfoledd, llais gorfoleddus, hyfrydlais; gorfoledd.
Joyful sound—hyfrydlais, hyfryd lais, llais hyfryd.
To make joyful—llawenhau, llawenychu, llawenu, lloni, llonychu, lloneiddio, sirioli; gwneuthur yn llawen, &c.
To make a joyful noise—llawen floeddio, bloeddio yn llawen.
Joyful lips—gwefusau llafar (*Salm* lxiii. 5).

Joyfully, *ad.* yn llawen, &c.; yn gyflawn o lawenydd.

Joyfulness, *s.* llawenydd, llawenwch, gorfoledd, llonder, llondeb, llondra, llonwch, lloniant, llawenydd mawr, mawr lawenydd, gorllawenydd, trallawenydd, hyfrydwch, elwch.

Joyless, *a.* aflawen, dilawenydd, annyddan, ansiriol, anhylon, annifyr, anhoenus, digalon, prudd, trist, athrist; aflawenychol.

Joylessness, *s.* aflawenydd, aflonder, annyddanwch, anhylonrwydd, pruddineb.

Joyous, *a.* (Ff. *joyeux*) llawen, llon, hylon, gorfoleddus, gorllawen, trallawen; cyflawn o lawenydd; dyddan, difyr, hyfryd, arlon, dyddanus, gorhoenus, gorawenus, digrifion, arab; llawenychol, llawenhaol, llonychol, llonedigol, gorawenol.

Joyousness, *s.* llawenydd, llawenwch, gorfoledd, hylonder, hylonrwydd, llonder, &c.

Jub,† *s.* potel, llestr.

Juba, *s.* (Ll.) rhawn; mwng, myngen.

Jubilant, *a.* (Ll. *jubilans*) gorfoleddus, gorfoleddol, gorfoleddog, orcianus; yn bloeddio gân lawenydd.

Jubilate, *s.* (Ll.=llawenhëwch) llawenawd= enw â roir ar y trydydd Sul wedi y Pasc.

Jubilation, *s.* (*Ff.*; *Ll. jubilatio*) gorfoleddiant, gorfoleddiad, oroian, uchel orfoleddiad, uchel orfoledd, caniad oroian, cyhoeddiad gorfoledd.

Jubilee, } *s.* (*Ff. jubilé*; Ll. *jubilum*; o'r H. **Jubile**, } *iobel*) Iwbili, Iubili, Iwbil; blwyddyn gollyngdod, gwŷl gollyngdod, bloddestwyl, ebargofwyl.

Jucundity, *s.* (Ll. *jucunditas*) hyfrydwch, hyfrydedd; difyrwch, digrifwch, llawenydd.

Judaic, } *a.* (*Ff. judaique*; o *Judah*) Iudd-
Judaical, } ewig, Iddewig; Iuddewaidd, Iddewaidd.

Judaically, *ad.* yn Iuddewig, &c; yn ol dull, defod, *neu* arfer yr Iuddewon.

Judaism, *s.* (*Ff. judaïsme*) Iuddewiaeth, Iuddewaeth, Iddewiaeth; Iuddeweiddiaeth.

Judaization, *s.* Iuddeweiddiad, Iddeweiddiad, Iddeweiddiaeth; cydymffurfiad âg Iuddewiaeth.

Judaize, *v. n.* (*Ff. judaïser*) Iuddeweiddio, Iddeweiddio; cydymffurfio âg Iddewiaeth; canlyn *neu* ddynwared moesau ac arferion yr Iuddewon; cydymffurfio â moesau ac arferion yr Iuddewon; troi at Iuddewaeth.

Judaizer, *s.* Iuddeweiddiwr; cydymffurfiwr âg Iuddewiaeth; cydymagweddwr â chrefydd yr Iuddewon.

Judas-tree, *s.* pren Suddas, y pren Suddas.

Juddock, *s.* ynid, ysniten, giach, giach fechan.

Judge, *s.* (*Ff. juge*; *Ll. judex*) barnwr, barnydd, brawdwr, beirniad, ynad, yngnad, barnor, barnodydd; barnwr ar beth; un â ŵyr beth â dâl pethau; un â fedr brisio pethau.

Chief judge — penbarnwr, penbrawdwr, penynad, prif ynad, prif farnwr, arfrawdwr.

Puisne judge — isfarnwr, isfarnydd, isel farnwr, isfeirniad, barnwr ieuaf.

Judge lateral, } cyfeisteddwr, cydeis-
Judge's assistant, } teddwr, cyfeisteddog; barnwr cynnorthwyol.

Judge of criminal matters—ynad mewn achosion cosp a cherydd.

Itinerant judges—ynadon teithiol, ynadon teithio, ynaid teithio, teithynadon, teithyngnadon, teithynaid, teithyngnaid, barnwyr amdeithiol, barnwyr cylchdeithiol.

The office of a judge—yngneidiaeth, ynadaeth, swydd barnwr.

Judge's seat—holfainc, brawdfainc, brawdfa, gorsedd, gorseddfa, gorseddfainc, brawdle, gorsedd barnwr, gorsedd barn.

To take upon one the functions of a judge —cymmeryd diofryd brawd; cymmeryd arno swydd barnwr.

Judge, *v.* barnu, rhoi barn; tybied, tybio, tybygu, meddylied, meddwl, cyfrif; penderfynu; dirnad; gwahaniaethu, dosbarthu; bwrw.

To judge wrongfully, } camfarnu; barnu
To judge falsely, } ar gam; rhoi camfarn, rhoi camfrawd, rhoi geufarn, geufarnu; rhoi barn anghywir.

As I judge—i'm tyb i; yn fy nhyb i; yn fy marn i; yn ol fy marn i; i'm barn i.

Judger, *s.* barnwr, barnydd, barnodydd, â farno.

Judgeship, *s.* yngneidiaeth, ynadaeth, barnyddiaeth, swydd barnwr.

Judgment, } *s.* (*Ff. jugement*) barn, barnedig-
Judgement, } aeth, brawd, dedfryd, barnawd; tyb, meddwl, bryd, tybiant, tybiaeth; penderfyniad; barn dda, iawnfarn, iawn ddeall; gallu, medrusrwydd, *neu* gyfarwyddyd i farnu; cyfraith.

Wrong judgment — camfarn, camfrawd, geufarn, barn anghywir.

Nugatory judgment—barn dremyg.

Judgment that may be reversed — barn dremyg.

Judgment that may be laid aside—barn dremyg.

Reversed judgment — dadfarn, adfarn, brawd ymchweledig, barn ddymchweledig.

To revoke judgment, } dadfarnu, dattröi
To reverse judgment, } barn, dymchwelyd brawd, adfarnu.

Contempt of judgment — tremyg barn, tremygiad barn.

To give judgment—rhoi barn, bwrw barn, barnu, dadgan barn, mynegu barn, hysbysu barn; bwrw.

To deliver one's judgment, } dadgan, myn-
To give one's judgment, } egu, rhoi,
To pass one's judgment, } ysbysu, *neu* hysbysu ei farn *neu* dyb; amlygu ei feddwl.

To give *or* pass judgment in a lawsuit—barnu y ddadl; barnu yr hawl; rhoi barn yn *neu* ar y ddadl; dosbarthu cynhen.

To give away by judgment—rhoi drwy farn cyfraith; rhoi i un drwy farn cyfraith.

To pronounce judgment—rhoi barn, rhoi brawd, cyhoeddi barn, brawdio, dadgan barn.

To pervert judgment—gwyro barn, trawsgwyro barn.

Public judgment — barn gyhoedd, barn gyhoeddus, brawd gyhoedd.

The last judgment—y farn ddiweddaf, y farn olaf, y frawd ddiweddaf.

Day of judgment—dydd barn, dydd brawd, dydd y farn, dydd y frawd.

In arrest of judgment—er attal barn.

To sit in judgment—eistedd i farnu; eistedd ar orsedd barn; eistedd ar holfainc; eistedd mewn barn; gorseddu.

To enter into judgment with one—myned i farn âg un; myned i gyfraith âg un.

Statute of judgment—deddf farnedig.

Joint judgment — cydfarn, cydfarnedigaeth, barn gyd.

In my judgment—i'm tyb i; yn fy nhyb i; yn fy marn i; yn ol fy marn i; yn fy mryd i; yn ol fy meddwl i; i'm barn i.

Of a correct judgment—cywirfarn; cywir ei farn; â barn gywir ganddo.

Of good judgment, } da ei farn; craff ei
Of quick judgment, } farn; â barn dda ganddo; craff *neu* gyflym ei ddeall; parod ei synwyr; synwyrgall, synwyrbell, synwyrlym, parodbwyll, deallgar.

My four sore judgments—fy mhedair drygfarn (*Esec.* xiv. 21).

Judgment-hall, } *s.* dadleudy, dadleufa,
Judgment-place, } brawdle, llys barn, gorsedd barn, gorseddfa barn, llys brawd, llys.

Judgment-seat, *s.* brawdle, gorsedd barn,

gorseddfa barn, gorseddfainc barn, holfainc, hawlfainc, brawdfainc, brawdfa, llys, gorseddfa, gorsedd.
The judgment-seat of Christ — brawdle Crist.

Judicable, *a.* barnadwy, hyfarn.

Judicative, } *a.* (o'r Ll. *judico*) barnol, barn-
Judicatory, } edigol, gorseddfaol, brawdog; â chanddo awdurdod i weinyddu barn.

Judicatory, *s.* (Ll. *judicatorium*) brawdle, llys barn, gorsedd barn, gorseddfa barn, gorseddfainc barn, holfainc, hawlfainc, brawdfainc, brawdfa, rheithlys, dadleudy; cyfraniad *neu* weinyddiad cyfiawnder.

Judicature, *s.* (Ff.) ynganeidiaeth, ynadaeth, barnyddiaeth, brawdwriaeth; gallu ac awdurdod i wneuthur barn a chyfiawnder; brawd, barn, barnedigaeth; brawdle, llys barn, gorseddfa barn, brawdfa, brawdfainc, holfainc, hawlfainc.
Court of judicature—llys barn, llys brawd, llys cyfiawnder, brawdlys, brawdle, brawdfainc.
Seat of judicature—gorsedd barn, gorseddfa barn, gorseddfainc barn, brawdfainc, holfainc, brawdfa, brawdle, gorseddfa, gorsedd.
Session of civil judicature — gorsedd gwlad ac arglwydd.

Judicial, *a.* (Ll. *judicialis*) ynganeidiol, ynadol; barnol, barnedigol, brawdwraidd, brawdog, brawdol, cyfreithiol; brawdlysol, rheithlysol, bradfaol; perthynol i lysoedd barn; yn deilliaw o lys barn.
Judicial proceedings—erlyniadau, erlynadau, gyriadau, cyffroadau, hwyliadau, cychwyniadau, *neu* symmudiadau cyfreithiol; trefniad *neu* yriad hawl.
Judicial process — cyfraith, cwyn, cynghawsedd, cynghawsaeth, cynghaws; rheol cyfraith, trefn cyfraith; erlynwaith.
In his judicial capacity—yn ei swydd, ei sefyllfa, *neu* ei fraint ynganeidiol; fel yr oedd efe yn farnwr *neu* yn ynad; fel y mae efe yn farnwr *neu* yn ynad; yn ei swydd fel barnwr.
Judicial astrology—serddewiniaeth farnol, serddewiniaeth dyngedfenol.
In a judicial way=*Judicially.*

Judicially, *ad.* yn farnedigol, yn farnol, yn gyfreithiol; yn ol rheol a threfn cyfraith; yn ol rheol a threfn barn; mewn modd barnol; mewn ffordd o farn *neu* farnedigaeth; mewn ffordd o gosp; yn gospedigaeth.

Judiciary, *a.* (Ll. *judiciarius*; Ff. *judiciaire*) ynganeidiol, ynadol; barnol, barnedigol; cyfreithiol; brawdlysol, rheithlysol, gorseddfaol, brawdfaol.

Judiciary, *s.* ynganeidiaeth (yn y Taleithiau Cyfunol).

Judicious, *a.* (Ff. *judicieux*) synwyrgall, synwyrol, synwyrus, call, doeth, ffel, callwyddus; da, cymhwys, *neu* gwir ei farn; cywrain, cywraint, medrus, cyfarwydd; rhesymol, ffelgall, medrusgall.

Judiciously, *ad.* yn synwyrgall, &c; yn dda ei farn *neu* bwyll; yn gynghorus; gyda barn dda.

Judiciousness, *s.* callineb, doethineb, doethder, synwyroldeb, ffelder, ffelrwydd, ffelgalledd, synwyrgalledd, synwyrgallder, cymhwysder barn, medrusrwydd.

Juffers, *s. pl.* darnau o goed pedair neu bum modfedd bob ffordd.

Jug, *s.* (D. *jugge*, yn ol *Junius*) cunnach, crothogen, crothlestr, marchog, diodlestr crothog, costrel bridd; piser.
A great jug—ysten bridd, piser, cunnach fawr.

Jug, *v.* ffrillio; cunnachu; coginio drwy osod mewn cunnach, a'r gunnach mewn dwfr berwedig.

Jugal Bone, *s.* (Ll. *jugum*) asgwrn y rudd, granasgwrn, yr asgwrn ieuol.

Jugated, *a.* (Ll. *jugatus*) cydgyssylltedig, cyssylltedig, cydiedig, â gydgyplyswyd.

Juggle, *v.* (Al. *gaukeln*; D. *gögler*; Is. *guichelen*) chwido, chwidogi, lledrithio, castio, hudgastio; hwrw hud; bwrw hud ar; ymarfer o'r gelfyddyd hudolawl; gwneuthur hudoliaeth; dangos hud a lledrith; bwrw hug *neu* niwl dros lygaid un; hocedu, twyllo, twyllodri, somi, hudo; gwneyd castiau, chwareu chwid, chware hug.
To juggle one out of a thing—dwyn peth oddi wrth ddyn drwy hud a hoced; tynu peth oddi wrth un yn ddichellgar; dwyn peth oddi ar un drwy hud a hoced; tynu peth oddi ar un yn ddichellgar.

Juggle, *s.* hud, lledrith, hud a lledrith, chwid, chwidogaeth, hudoliaeth, cast, hudgast; twyll, twyllofaint, hoced, som, dichell.

Juggler, *s.* (o *juggle*; Ysp. *juglar*; Ff. *jongleur*) chwidog, chwidw, hudol, hudolwr, gwr lledrithiog, hudgastiwr, â fwrio hud, â wnel hudoliaeth; â ei oddi amgylch gân wneuthur hudoliaeth; twyllwr, twyllydd, twyllawdr, hocedwr, hocedydd, somwr, castiwr; hudofydd.
She-juggler—chwidoges, hudoles.
Juggler's wand—hudlath.

Jugglery, *s.* chwidogaeth, hud a lledrith, hudoliaeth, cynnildeb llaw, cyfarwyddyd llaw, hudgastiau, castiau chwidog, castiau hudol.

Juggling, *s.* chwidogaeth, hudoliaeth, gwneuthuriad hudoliaeth, dangosiad hud a lledrith, lledrithiad, ymarferiad o'r gelfyddyd hudolawl, bwriad hud; gwneuthuriad twyll *neu* hoced; hoced, twyll.
Juggling language—chwidiaith, hudiaith, iaith chwidogion.
Juggling term—gair hudol, gair hudolawl, gair hud, hudair, chwidair; gair mwys, gair amwys, mwysair.
Juggling tricks—chwidogaethau, hudoliaethau, hud a lledrith, hocedion, lledrithion, chwidion, castiau hudolawl, hudgastiau, munudiau ystrywgar lladradaidd.
Full of juggling tricks, } lledrithiog,
Full of juggling, } chwidog; llawn hudoliaethau.
The art of juggling, } celfyddyd chwidog-
The juggling art, } aeth, celfyddyd hudoliaeth, y gelfyddyd hudolawl; chwidogaeth, hudoliaeth, hudofyddiaeth.

Jugglingly, *ad.* yn hudolaidd, yn hudolawl; yn lledrithiog; yn hocedus, yn ystrywgar, yn ddichellgar; trwy hud a lledrith.

Jugular, *a.* (Ll. *jugulum*) gyddfol, cegol; perthynol i'r gwddf; yn perthyn i'r geg; perthynol i'r oslef; goslefol.
Jugular vein—gwythen y gwddf, gwythïen

y gwddwg, gwythen y geg, y wythen yddfol, cegwythen, gwythen yr oslef.

Jugular, *s.* cegwythen, cegwythïen, gwythen y gwddf, gwythïen y geg, gwythen y geg.

Jugulate, *v. a.* (Ll. *jugulo*) lladd; tori gwythen y gwddf; tori y wythen fawr.

Juice, *s.* (Is. *juys;* Ff. *jus*) sudd, nodd, sug, sugn, rhwyth, irder, llŷn.

Gastric juice—sudd y cylla, rhwyth y cylla, nodd y cylla, cyllnodd, y sudd cyllaol, y sudd cylläig.

Juice of apples—sudd afalau, llŷn afalau.

Destitute of juice=*Juiceless.*

Full of juice=*Juicy.*

Juice, *v. a.* gwlychu, lleithio; peri nodd neu sudd mewn peth.

Juiceless, *a.* disudd, dinodd, disug, disugn; sych.

Juiciness, *s.* irder, irdra, iredd, ireidd-dra, ireidd-deb, llawnder o sudd, llawnder o nodd, amledd o sudd, ireiddiant, ireiddedd, noddlydrwydd, rhwythogrwydd, sugoldeb.

Juicy, *a.* llawn sudd, nodd, sug, neu sugn; ir, iraidd, noddlyd, sugol, rhwythog, suddlawn, noddlawn.

Juise,† *s.* (Ll. *jus*) barn; cyfiawnder.

Jujub, } *s.* (Ll. *zizyphum;* Per. *zizafon*) enw

Jujube, } math o blanigyn, a'i aeron.

Juke,† *v. n.* (Ff. *jucher*) clugio, clwydo, eistedd.

Julep, *s.* (Ff.; Ar. *julabon*) ffrwygyffer, melyslyn, meddyglyn melus=llŷn melus i'w gymysgu â chyfferi nas gellir eu cymmeryd heb hyny.

Julian Account, *s.* (oddi wrth *Julius Cæsar*) y cyfrif Iwlaidd, cyfrif Iwl, cyfrif Iwl Caisar; yr hen gyfrif.

Julian Epoch, *s.* y prifnod Iwlaidd, yr amsernod Iwlaidd, yr amsergyff Iwlaidd.

Julian Period, *s.* y cyfnod Iwlaidd, yr ysbaid Iwlaidd, yr amsergylch Iwlaidd=cylch o 7980 o flyneddoedd olynol, â ddyfeisiwyd gan *Julius Scaliger.*

Juliform, *a.* (*Julius* a *forma*) tebyg i genawon coed; ar lun cenawon coed.

Julis, *s.* (Ll.) y cefnwyrdd, y pysg cefnwyrdd.

Julus, *s.* (Ll.; Gr. *ioulos*) cathronell; cenawon coed, cynffon y gath, goflew coed ac aeron; plucan.

July, *s.* (oddi wrth *Julius Cæsar*) Gorphenaf, mis Gorphenaf; mis Iwl=y seithfed mis.

July-flower, *s.* blodau Gorphenaf, archmain.

Sea July-flower—archmain, clustog Fair, clustog Mair.

Clove July-flower—penigan cigliw.

Queen's July-flower—disawr.

Jumart, *s.* (Ff.) bufarch, mulych=epil tarw a chaseg.

Jumble, *v.* (yn Chaucer, *jombre;* o'r Ff. *combler,* yn ol y Dr. *Skinner*) dyfysgu, cymmysgu, cydgymmysgu, mysgu, tryfysgu, amryfysgu, mwchlo, mwchno, didrefnu; bwrw blithdraphlith, ben draphen, neu blith drachymmysg; bwrw allan o drefn; bwrw yn nghyd yn un clamp didrefn; plithdyru, tryblitho; bod blith draphlith.

To jumble together—cydgymmysgu, cymmysgu yn nghyd, &c.; dyfysgu, cymmysgu, mwchlo, mwchno.

Jumble, *s.* cymmysg, cymmysgedd, cymmysgfa, mwchwl, mwchwn, talp amrygymmysg, crug amrygymmysg, talp amryblith, dyfysgi, tryfysg, mysgedd.

Jumblement,† *s.* cymmysgedd, clamp cymmysg, clamp amryfysg.

Jumbler, *s.* dyfysgwr, cymmysgwr, cydgymmysgwr, cydgymmysgydd, cymmysgydd, mwchlwr, amryfysgwr.

Jument,† *s.* (Ff.; Ll. *jumentum*) anifail gwaith, ysgrubl, pynfil, byrnfil, llwythfil.

Jumma, *s.* (gair Indiaidd) y cyfan, y cwbl, y cyfoll; tirgyllid; yr holl gyllid.

Jump, *v.* (It. *zampillare!* Is. *gumpen,* yn ol *Johnson*) neidio, llamu, llemain, llamsach, llamsachu, darlamu, crychneidio, crychlamu, darneidio, ysboncio, tasgu, rhipio; cytuno, cyduno, cydfyned.

To jump about—pystyled, pystylo; neidiaw o amgylch.

To jump with one in judgment *or* opinion—bod o'r un farn, o'r un meddwl, neu o'r un tyb ag un; cydfarnu âg un; cydfeddylio âg un; cytuno, cydaynio, neu gydgordio âg un mewn barn; cydfeddylio âg un mewn barn.

Apt to jump, } llamsachus, neidgar,

Given to jumping, } llamgar.

The noise of the jumping chariot—swn y cerbyd yn neidio (*Nah.* iii. 2).

Jump, *s.* naid, llam, darlam, crychnaid, crychlam, ysbonc, llwff, llamid; damwaen ffodus.

Jump, *s.* (Ff. *jupe;* It. *giubba*) gwasgod laes, ystywaws laes.

Jump,† *ad.* yn fanwl, yn gywir; yn nais, yn ddel.

Jumper, *s.* neidiwr, llamwr, llamydd, llemydd, llamsachwr, darlamwr; llamidydd.

Jumpingly, *ad.* dân neidio, dân llamu, dân lemain, llam dy lam; yn llamsachus.

Juncate, } *s.* (It. *giuncata*) ammeuthyn, am-

Junket, } moethyn, almes, moeth, melusfwyd, ancwyn; teisen gaws; pardeisen.

Juncous, *a.* (Ll. *juncus, junceus*) llafrwynog, tostfrwynog, corsfrwynog, brwynog, pabwyrog, llawn llafrwyn, llawn o lafrwyn, llawn corsfrwyn, llawn pabwyr.

Junction, *s.* (Ff.; Ll. *junctio*) cyssylltiad, cydiad, cyfuniad, uniad; cysswllt; cymmal; todiad; cnuchiant, cyd; cymmer; undeb; cydle.

Junction of rivers—cymmer, aber, aber afonydd, cydiad afonydd.

The junction of two hills—cyfarthfa.

Juncture, *s.* (Ll. *junctura*) cydiad, cyssylltiad, cysswllt, cynghyd; cymmal; gwrym; cyfwng, cyfwlch, cyfrwng, cyfnod, argyfnod, cyfamser, dwthwn, adeg, tymmor, achlysur, amgylchiad cyssellt; ansawdd, cyflwr, amgylchiad, sefyllfa, safiad, gosodiad, neu ystum pethau, materion, gorchwyliou, neu negesau; arfod, cyfle, chwyl, tro; ymgyfarfod neu ymgyfred dygwyddiadau; cyfuniad, uniad, undeb; agwedd, cyfwedd.

Juncus, *s.* (Ll.) brwynen; brwyn.

June, *s.* (Ll. *Junius;* Ff. *Juin*) Mehefin, Myhefin=y chweched mis.

Jungermannia, *s.* (oddi wrth L. *Jungermann,* llysieuwr Almaenaidd) cynglenydd, cynglynydd, Iungermannia, Iwngermannia.

Jungle, *s.* (gair Hindwaeg) coedwal, prysgoed, gwyddeli, prysgwydd, tewgoed, ffyllon, prysglwyni, pryseldir, preseldir, prysel, prysgyll, clŷn, brycini, gwyddwal, sinach; coedwig, coedwigfa; anialdir, anialoedd.

Jungly, *a.* (o *jungle*) llawn gwyddeli, &c; yn

cynnwys gwyddeli, &c.; prysgoedog, pryselcg, gwyddelog, tewgoedog, coedwysog.

Junior, *a.* (Ll.) iau, ieuangach, ieuengach, ieuach, ifancach; ieuaf (o ddau), ieuengaf (o ddau), ieuangaf (o ddau); bychan.

John Walters, junior—Ioan Walters ieuaf, Ioan Walters yr ieuaf, Ioan Walters ieuangaf, Ioan ab Gwallter yr ieuangaf, Ioan Walters fychan.

Junior, *s.* un iau, un ieuengach; un ieuaf, un ieuengaf, un iau nag arall; iewydyn; ieuafiad.

He is my junior—y mae efe yn iau *neu* ieuangach na myfi.

I have four juniors—y mae i mi bedwar ieuangach na myfi.

My juniors—rhai iau *neu* ieuangach na myfi; fy ieuafiaid.

Juniority, *s.* ieuangach oedran, ieuangeiddrwydd, ieuaint, ieuangedd, ieuafiaeth.

Juniper, *s.* (Ll. *juniperus*) meryw, beryw, berywydd, merywen, berywen, pren meryw, eithinen ber, eithin y cwrw.

Juniper wood—coed meryw, meryw, merywydd.

Juniper tree—pren meryw, merywen, berywen.

Juniperus Sabina, Savine, } eithinfyw.

To give one a juniper-lecture—dwrdio, ceryddu, anghreifftio, sardio, *neu* argyhoeddi un yn dost, yn llym, *neu* yn llymdost.

Junk, *s.* (Ll. *juncus*; Ff. *jonc*) darnau o hen raffau; breisgion, carthion; talp, llaprwth.

Junk, *s.* (gair Dwyreiniol) llong China, llong Sina, llong Gataiaidd.

Junket, } *s.* (It. *giuncata*) ammeuthyn, am-
Juncate, } moethyn, almes, moeth, melusfwyd, ancwyn; teisen gaws; perdeisen.

Junket, *v. n.* gwledda, preinio, cael ammeuthyn; dirgel wledda, gwledda yn lladradaidd; ammeuthyno.

Junto, *s.* (Ysp. *junta*, o'r Ll. *junctus*) cydgyfrinach, celgyfrinach, ymgyfrinach, cabidwl; cydgyfrinachwyr, celfwriadwyr, cuddamcanwyr, cnud o drawsamcanwyr, nythaid o gydfwriadwyr; cydbleidwyr; plaid, ymblaid, terfysgblaid.

Juppon, *s.* (Ff. *jupon*; It. *giubbone*) berdwyg, bergoban, cobenig, tynhugan fer.

Jurat, *s.* (Ff.; o'r Ll. *juratus*) tyng-ynad; henadur, henefydd; seneddwr; swyddog bwrdeisdref.

Juratory, *a.* (Ff. *juratoire*) tyngedigol; yn cynnwys llw.

Juridical, *a.* (Ll. *juridicus*) cyfreithiol; à berthyn i'r gyfraith; brawdfaol, brawdlysol, rheithlysol, brawdleol, llysol, brawdwrol; perthynol i farnwr; perthynol i lys barn.

Jurisconsult, *s.* (Ll. *jurisconsultus*) rheithofydd, cynghorwr o'r gyfraith, cynghorwr cyfreithiol; cyfreithiwr; un hyddysg yn rheithofyddiaeth Rhufain.

Jurisdiction, *s.* (Ff.; Ll. *jurisdictio*) awdurdod, llywodraeth, arglwyddiaeth, rhaglawiaeth, swyddogaeth, penswyddogaeth, ynganeidiaeth, brawdwriaeth, barn, swydd; rheolfraint, swyddfraint; swydd ac awdurdod barnwr *neu* ynad; ardal, talaeth, tiriogaeth, parthed, goror; cyrhaedd *neu* gyrhaeddiad awdurdod a llywodraeth; yr hawl i ddefnyddio awdurdod; cylch awdurdod.

Parish jurisdiction—plwyfogaeth.

To be under a person's jurisdiction—bod dàn awdurdod a llywodraeth un.

Jurisdiction of a county—swyddogaeth; awdurdod a llywodraeth swydd.

Supreme jurisdiction—penrheithiant, penswyddogaeth.

Jurisdictional, } *a.* perthynol i awdurdod a
Jurisdictive, } llywodraeth; taleithiol; swyddogol, swyddfreiniol.

Jurisprudence, *s.* (Ff.; Ll. *jurisprudentia*) rheithofyddiaeth, rheithwyddiaeth, ynganeidiaeth, ynadaeth; gwybodaeth *neu* gyfarwyddyd yn y gyfraith.

Jurisprudent, *a.* gwybodus yn y gyfraith; cyfarwydd à'r gyfraith; rheithofyddus.

Jurisprudential, *a.* rheithofyddol; perthynol i reithofyddiaeth.

Jurist, *s.* (Ff. *juriste*; o'r Ll. *jus*) rheithofydd, bydreithiwr, cyfreithiwr gwladol, gwladreithiwr, gwr o gyfraith fyd; cyfreithiwr.

Juristical, *a.* rheithofyddol, bydreithiol, cyfreithiol; yn hanfod yn unig drwy ffug cyfreithiol.

Juror, } *s.* (Ll. *juro*, *jurator*) rheithiwr; un
Juryman, } dàn dwng, gwr twng: *pl.* rheith-

Petty juror, } iselreithiwr. [wyr.
Petty juryman, }

Grand juryman, } uchelreithiwr.
Grand juror, }

Jury, *s.* (Ff. *jure*; Ll. *juro*) rheithwyr; gwŷr twng, gwŷr dàn raith; rhaith.

Grand jury—uchelreithwyr, uchel reithwyr, dandyngwyr penaf, cynreithwyr; uchelraith, yr uchelraith.

Petty jury, } iselreithwyr, isreithwyr, y
Petit jury, } dandyngwyr gwreng; iselraith, yr iselraith.

Empanelled jury—talais, rheithwyr tyngedig, rheithwyr rhestredig.

The verdict given by the jury—rheithfarn, dedfryd rheithwyr; dedfryd y deuddeg didras.

Party jury — cymmysgraith hannerog, rhaith ddau hanner, rhaith hannerog.

Special jury—rheithwyr arbenig, rheithwyr neilltuol; rhaith neilltuol.

Coroner's jury—trengreithwyr.

Jurymast, *s.* (Ff. *jour*, *jouré*, a *mast*) rhithhwylbren, rhithwernen, hwylbren dirprwy, gwernen ddirprwy, hwylbren amserol.

Jus, *s.* (Ll.) rhaith, cyfraith, deddf, iawn, cyfiawnder, uniondeb; brawdfa, brawdle; rheithlyfr; ystatyn.

Just, *a.* (Ll. *justus*; Ff. *juste*) cyfiawn, iawn, uniawn, iawnweddog, cywir, gwir, gonest, teg, cyfartal, cymhwys, cymmedrol, priodol; ffyddlawn, didwyll, clau; llawn; dyledus; teilwng.

The just—y cyfiawn; y cyfiawnion, y rhai cyfiawn.

Just persons—cyfiawnion, rhai cyfiawn, dynion cyfiawn; cywiriaid, ffyddloniaid.

With just cause—o wir haeddiant.

A just petition—arch gyfartal, deiseb gyfartal.

It is just and meet—iawnweddog yw; y mae yn iawnweddog; cyfiawn ac addas yw; y mae yn addas ac yn gyfiawn.

It is just that we should do this—mae yn iawn i ni wneuthur hyn; iawn yw i ni wneuthur hyn.

To be just—bod yn gyfiawn, &c.
How should a man be just with God—pa fodd y bydd dyn gyfiawn gyda Duw? pa fodd y cyfiawnhëir dyn gyda Duw?

Just, ad. yn agos, ger llaw, yn mron, ar fin, o fewn ychydig, bron, ar, ar bwynt, ar bwys; yn nghylch; prin, braidd, yn brin, o braidd; dim ond; yn gywir, yn gymhwys, yn iawn, yn gyfiawn, yn union; newydd.
Just as—yn gymhwys fel, &c; fel, fâl, mâl, megys; ar y mynyd, yn y mynyd, ar y mynydyn, yn y mynydyn, ar y cythrym, ar y cyttrym; yn ddiannod, yn ddisymmwth, &c.
Just as it ought to be—yn gymhwys fel y dylai fod.
Just at noon—ar lygad hanner dydd.
Just as I was going away—a mi yn myned ymaith; ar fy ngwaith i yn myned ymaith.
Just as I was opening my mouth—a mi yn agor fy ngeneu; ar fy ngwaith yn agor fy ngeneu; gyda'm gwaith yn agoryd fy ngeneu.
Just so many (and no more)—i gyd; ac nid ychwaneg; ac nid un yn ychwaneg; heb gymmaint ag un yn ychwaneg.
They were just five, } pump oeddynt i
They were but just five, } gyd.
He had just three children—yr oedd iddo dri o blant ac nid ychwaneg; tri o blant oedd ganddo yn gymhwys.
Just so much (and nothing more)—i gyd; a dim yn ychwaneg; ac nid dim yn ychwaneg; ac heb ddim yn ychwaneg; hyny a dim ychwaneg.
Just going to—ar fyned i.
I was just going to do it—yr oeddwn ar fyned i'w wneuthur; ni bu ond y dim lleiaf rhyngof a'i wneuthur; nid oedd ond y dim lleiaf rhyngof a'i wneyd.
Just now—yr awr hon, yr awron, yn awr, yr awran, y mynyd hwn, ar y mynyd hwn, yn y mynyd hwn, yn y mynyd, ar yr awr hon, yn yr awr hon, yn awr hyn; ar hyn; toc.
But just now—yn awr fach, gynneu fach.
He is but just come, } gynneu fach y daeth
He is but now come, } efe; newydd ddyfod y mae efe; nid yw ond newydd ddyfod.
I have but just got in—ni wnaethym ond dyfod i mewn; newydd ddyfod i mewn yr ydwyf.
Just then—ar y mynyd hwnw; yn y mynyd hwnw; yn *neu* ar yr awr hono; ar hyny o bryd.
Just in the nick of time—ar yr unig fynyd; ar y mynydyn; ar yr adeg; ar y mynyd prydlawn; ar yr iawn bryd; mewn pryd ac amser.
Just as many as—cynnifer a *neu* ag—ac nid ychwaneg; cynnifer a *neu* ag—ac nid un yn ychwaneg.
Just as much as—cymmaint a *neu* ag—a dim yn ychwaneg; cymmaint a *neu* ag—ac nid dim yn ychwaneg.
I know just as much as you—mi a wn gymmaint a chwithau, ac nid dim yn ychwaneg; gwn gymmaint a chwithau yn union; gwn gymmaint yn llawn ag a wyddoch chwithau.
Just enough—digon heb ddim dros ben; digon a dim ond digon.
Just at the point of death—ar farw, ar drengu, yn mron marw, ar dranc, ar drancedigaeth; ar fin angeu; yn safn angeu; ar ddarfod am dano.
To just mention—gosonio, gosod, gogrybwyll; dim ond crybwyll.
Just so—felly, efelly, fel hyny; ïe felly, ïe, yn wir; fel, fâl.
To be just such another as—bod yn gwbl gyffelyb i; bod yn gwbl debyg i.
He is just such another as his father—mab ei dad yn llwyr ydyw; ni bydd ei dad farw tra y byddo efe byw.
He is just such another as his grandfather was—cyffelypaf ydyw o holl ddynion y byd i'w daid; y tebycaf ydyw o holl ddynion y byd i'w dad cu; nid oes dyn ar y ddaiar debycach i'w daid.
Just published—newydd ei gyhoeddi.
[*Just*, o flaen *as*, *so*, a'r cyffelyb, nid yw yn gyffredin ddim amgen na gair llanw, heb ddim yn cyfateb iddo yn y Gymraeg.]

Just, *s.* = *Joust.*

Joust, *v.* = *Joust.*

The knag of a deer's horns—osglau cyrn hydd; blaen cyrn hydd.

Knaggy, *a.* cygnog; oddfog, clymog, cylymog; osglog; cnapiog; garw, gerwin.
Knap, *s.* (S. *cnap;* C. *cnap*) cnap, crug, twmpath, twyn, taren, bryncyn, cnol, crugfryn, pen crug, pen bryn, crib mynydd, trum mynydd: *dim.* cnepyn, crugyn, twmpethyn, telpyn.
Knap, *v.* (Is. ac Al. *knappen*) cnoi, byr-gnoi, cipgnoi; cnoi ymaith yn fyr; cymmeryd byr damaid; tori ymaith yn fyr; tori *neu* gnoi ymaith; cnapio; tori gnap, cras-dori, cras-daro, byr-dori; crinellu, clecian, tincian.
To knap asunder—tori yn ddau; tori yn ddarnau; tori.

Knapbottle, *s.* pabi cooch yr yd, pabi gwyllt, llygad y cythraul.
Knappia, *s.* eiddilwellt; eiddilwelltyn.
Early knappia—eiddilwelltyn cynnar.

Knapple, *v. n.* tori gnap, tori gnec, tori ymaith, cnoi ymaith, tori ymaith yn gras-fyr, cras-dori, cnecu, clecian, clec-dori, tori.
Knappy, *a.* cnapiog, twmpathog, bryncynog, tarenog, cnyciog.

Knapsack, *s.* (Al. *knappsack ;* Is. *knapsak*) ysgrepan milwr, cod milwr, cwd deupenog milwr, cnapsach, ysgrepan.

Knapweed, *s.* (*knap* a *weed*) cramenog, pengaled, madfelen.

Greater knapweed—cramenog fwyaf, pengaled fwyaf, llysiau y tarw.

Knar, *s.* (Al. *knor, knorren*) cwgn, cwlwm, clwm, cwgn coed, glin.

Knarled, *a.* cygnog, clymog, cylymog.

Knarry, *a.* cygnog, clymog, cylymog, gliniog.

Knave, *s.* (S. *cnapa, cnafa ;* Al. *knabe*) dyhiryn, dyhirwr, dyhirwas, diffaethwr, anfadyn, crogyn, rhempyn, twyllwr, drelgi, drel, dyn cyfrwyddrwg anonest ; † gwas, llanc : *pl.* dyhirod.

Knave (at cards)—carden y milwr, carden y marchog, cerdyn y milwr, cerdyn y marchog.

A base knave—crogyn o ddyn, dyhiryn gwael.

A crafty knave—dyn dichellgar cyfrwyddrwg ; dyhiryn dichellgar ; hocedydd.

A saucy knave—difriyn, sarigyn, dyhirwas sarig.

A knave in grain—dyhiryn o'i galon ; dyhiryn o'i fodd.

Knaves well met—dyhir a diffaeth ; drwg un drwg arall.

A pack of knaves—cnud, clwm, cwlwm, crug, *neu* haid o ddyhirwyr.

Knavery, *s.* dyhirwch, anfadrwydd, anonestrwydd ; diffaethder, diffaethdra, dyhirwaith ; cast, ystryw, dichell, twyll ; castiau, troion brwnt, troion cas.

Knavish, *a.* dyhir, dyhirog, anonest, anfad, anfadus, dichellgar, twyllodrus, ystrywgar, castiog, ffals, bawaidd.

Knavishness, *s.* dyhirwch, dyhirogrwydd, anonestrwydd, anfadrwydd, ystrywgarwch, baweiddrwydd.

Knawel, *s.* dinodd.

Annual knawel—dinodd blyneddol.

Knead, *v. a.* (S. *cnædan ;* Is. *kneeden*) tylino, moldio ; maeddu, baeddu, *neu* weithio toes ; pobi.

To knead together—cyttylino, cydfaeddu, tylino yn nghyd ; cymmysgu.

Kneading, *s.* tylinad ; tylino.

Kneading-trough, *s.* cafn tylino, llestr tylino, noe bobi, noe, cafn pobi, toeseg.

Knebelite, *s.* (oddi wrth y Milwriad *Von Knebel*) math ar ddelidfaen.

Knee, *s.* (S. *cneow ;* Al. *knie ;* Ll. *genu ;* Gr. *gonu*) glin, penlin, pen glin, pen y glin, pen y lin.

The knees—y gliniau, y penliniau, y deulin.

Knee by knee—lin-lin, glin yn nglin.

On ones knees—ar ei liniau ; ar ei ddeulin ; ar ei benliniau.

On my bended knees—ar dàl fy ngliniau ; ar dàl fy neulin ; ar fy ngliniau.

With bended knees—ar liniau ; ar ei liniau ; ar ei gliniau ; ar fy ngliniau, &c.

To fall on one's knees—penlinio ; syrthio *neu* gwympo ar ei liniau ; syrthio *neu* gwympo ar ei ddeulin ; deulinio.

To beat with the knee—glinio.

The bend of the knee—camedd gar.

One whose knees bow inward—un glin-gul, un gargul, un gargam, un gar-gyfyng, un glin-gyfyng.

Knees of a ship, } ais llong, glin-
Knee-timber of a ship, } wydd llong.

Knee of a plant—cymmal, cwgn, glin, *neu* gwlwm planigyn.

Knee, † *v. a.* erfyn ar liniau ; deisyfu dàn benlinio.

Knee-crooking, *a.* yn plygu *neu* gamu y glin ; ufydd, ufyddgar, gwasannaethgar.

Kneed, *a.* (o *knee*) gliniog ; clymog, cymmalog.

Knock-kneed—glin-gam, gargam, gargul, glin-gul.

Knee-deep, *a.* hyd y penliniau, hyd y gliniau, hyd at y penliniau, hyd ben y gliniau, hyd at ben y gliniau, cyfuwch a'r gliniau.

Knee-high, *a.* cyfuwch a'r gliniau, cyfuwch a phen y gliniau, cyfuwch a'r penliniau, hyd y penliniau.

Kneeholly, } *s.* celyn Mair, celyn Ffrainc, prys-
Kneeholm, } eg, banadl pigog, gewynllys, gleullys, llysiau y glau.

Kneel, *v. n.* (Is. *knielen*) penlinio ; gostwng, syrthio, *neu* fyned ar liniau ; myned, gostwng, *neu* syrthio ar y ddeulin ; deulinio, glinio, dylinio.

All kneeling—a phawb ar eu gliniau ; a phawb yn gostwng ar eu gliniau.

Kneeler, *s.* penliniwr, penlinydd ; ymostyngwr ar ei liniau.

Kneepan, *s.* padell penlin, padelleg, padellig penlin, padell pen y glin, afal gar, afal yr ar, padell y glin.

Knee-strings, *s. pl.* gardasau, gardyson, gardysau, llinynau penlin, llinynion penlin.

Knee-timber, *s.* ais llong, glinwydd llong.

Knee-tribute, *s.* teyrnged y glin, glin-dreth ; glin-addoliaut, addoliad glin ; addoliad drwy benlinio.

Knell, *s.* (S. *cnyll*) cnull, cnul, clul.

Knick-knack, *s.* tegan, teganwaith.

Knife, *s.* (S. *cnif ;* Sw. *knif ;* D. *knie*) cyllell ; twca.

A little knife—cyllellan.

A cut with a knife—cyllellawd ; archoll â chyllell.

Pruning-knife—cyllell ysgythru.

Bowie-knife—cyllell frathu, brath-gyllell.

Knife-maker—cyllellwr, cyllellydd, gwneuthurwr cyllyll.

Knife-seller—cyllellwr, cyllellydd, gwerthwr cyllyll.

Knight, *s.* (S. *cniht, cneeht ;* Al. a Sw. *knecht*) marchog ; rheidyr ; rhyswr ; macwy.

Knight of Garter—Marchog y Gardas, Marchog y Gardas Aur.

Knight of the Bath—Marchog y Baddon, Marchog y Badd.

Knight of St. Patrick—Marchog Sant Padrig, Marchog o urdd St. Padrig.

Knight of St. George—Marchog Sant Siôr, Marchog St. Georg.

Knight of the Thistle—Marchog yr Ysgallen.

Knight Banneret — Marchog y Faner, Marchog y Faniar ; Cadfarchog.

Knight Commander — Marchog Lywydd, Marchog-Lywydd, Marchoglyw.

Knight Commander of the Bath—Marchog Lywydd y Baddon.

Knight of the Round Table—Marchog y Ford Gron ; Marchog y Bwrdd Crwn ; Marchog llys Arthur.

Knights Hospitallers—Marchogion yr Ysbytty.
Knights of St. John of Jerusalem — Marchogion St. Ioan o Ierusalem; Marchogion St. Ioan o Gaersalem.
Knights Templars—Marchogion y Deml.
Knight of the Crescent—Marchog y Cilgant.
Knight Marshal—Marchog Gyfrestrydd, Marchog brawd y llys = swyddog à wrendy gwynion ac à ddosbartha gynhenau y goron, gan holi a barnu pob trosedd à wneir o fewn y llys a'i amgylchedd.
Knight Baronet — Marchog Faronig, Marchog Farwnig; Baronig.
Knight Bachelor — Marchog Febydd, Mebydd-Farchog.
Knight Grand Cross—Marchog y Groes Fawr.
Knight of the shire—marchog y sir, marchog y swydd, marchog sir, marchog y rhandir.
Knight Companion—Marchog Gydymaith, Cydfarchog.
Knight of battle—cadfarchog.
A knight's lady — marchoges, cydwedd marchog, gwraig marchog, arglwyddes marchog.
The wandering knight—y marchog crwydrad, y marchog crwydr, y gwibfarchog, y marchog treigl, marchog y bendro, y marchog lledrithiog.
Knight of the post—crogyn o ddyn à dyngo anudon er gwobr; dyhiryn à dyngo anudon er gwobr; gwr gwobr a gwerth; tyst gwobr a gwerth; anudonwr; marchog y rhigod, marchog y post.
To make a knight=*Kwight, v. a.*

Knight, *v. a.* urddo yn farchog; gwneuthur yn farchog.

Knight-errant, *s.* marchog crwydr, marchog crwydrad, gwibfarchog, marchog treigl, marchog y bendro, marchog lledrithiog.

Knight-errantry, *s.* gwibfarchogaeth, gwibfarchogiaeth, gwib-reidyriaeth, galwad marchog crwydr, crwydrfarchogaeth, marchogwibiaeth.

Knight-heads, *s. pl.* marchogwydd llong.

Knighthood, *s.* gradd, urdd, *neu* urddas marchog; marchogiaeth, marchogaeth, rheidyriaeth, marchogradd, marchogurdd, marchogurddas; yr urdd farchogol, urdd y marchogion.

Knightless, *a.* anfarchogaidd, anfarchogol; anweddus i farchog.

Knightliness, *s.* dyledswyddau marchog; marchogoldeb; marchogeiddrwydd.

Knightly, *a.* marchogaidd, marchogol; perthynol *neu* weddus i farchog.

Knight's-fee, *s.* tyddyn marchog, maenor marchog, maenol marchog.

Knight-service, *s.* cadweini, cadweinid, cadwasanaeth, gwasanaeth milwraidd.

Knit, *v.* (*S. cnyttan;* Sw. *knyta*) gwau, gweu; clymu, cylymu, cylmu, rhoi clwm ar, achlymu, achlwm; rhwymo; uno, cyssylltu, asio; ymglymu; rhithio, ymrithio, ymffurfio, ymlunio; ymgyfnerthu, ymwneuthur; ennynu, ymgynneu.
To knit together—cydglymu, cydgyssylltu, clymu yn nghyd, cydrwymo, cyfrwymo, cydweu, cydblethu, cymhlethu.
Knit together, } cydglymedig, cydgys-
Knitted together, } sylltedig, cydrwymedig, à gydgyssylltwyd, wedi eu cydgyssylltu, cymhlethedig; gweuedig; cytûn.
To be knit to, unto, *or* with—ymglymu wrth; bod yn nglŷn wrth; bod yn un â.
To knit one's self to, unto, *or* with—ymgyssylltu wrth *neu* âg; ymglymu wrth *neu* âg; ymuno âg, ymwasgu â.
To knit stockings—gwau hosanau.
To knit the brows—talgrychu, cuchio, crychu aeliau, crychu talcen, gwneuthur cilwg, sarigo, cibo, aeldrymu, trwynsori.
That may be knit, } hyglwm, hyrwym,
Easy to be knit, } clymadwy cylymadwy, rhwymadwy, cyssylltadwy.
The broken bone was knit again—yr asgwrn à dorasid a glymasai drachefn.
The bees are knit—y mae y gwenyn wedi clymu; clymodd y gwenyn; ymglymodd y gwenyn.
The blossoms fall, and the fruits begin to knit—y mae y blodau yn syrthio, a'r aeron yn dechreu ymrithio.
They are knit—y maent wedi ymrithio.

Knit, *s.* gwead, gweuad, gweawd, gwau.

Knitch, *s.* ffagod, ffagoden, cidysen, cedysen, baich o goed.

Knittable, *a.* gweadwy, clymadwy, hyglwm, hyrwym.

Knitter, *s.* gweadur, gweuwr, gwëydd, gwëwr, gweuydd, gweawdr; clymwr, clymydd: *f.* gweadures, gweuyddes, gwëyddes, gweodres, gwewraig, gweuwraig.

Knitting, *s.* gwead, gweuad, gweawd, gweuedigaeth, gweadigaeth; clymiad, cylymiad, rhwymiad, cydiad, cyssylltiad.
The knitting of the brows—talgrychiad, cuwch, cuch, cuchiad, cuchiant, cuchiaint, crychiad talcen, gwg, cilwg, cuwg.
Knitting the brows—aeldrwm, talgrych, cuchiog, cuwchiog, cuwchdrwm, sarig, garw-guchiog, gygus, ffroensur, trwynsor.
A knitting together—cydgyssylltiad, cydglymiad, cydgylymiad; cydwead.

Knitting-needle, *s.* gwaell, gwäell, gwachell: *pl.* gweill, gwëyll, gwechyll.

Knittle, *s.* (*o knit*) llinyn rhedeg, llinyn crychu, rhedlinyn; llinyn alwar.

Knob, *s.* (*S. cnáb;* Al. *knopf;* D. *knop*) cnap, cnwc, cwgn, oddf, oddfyn, cnwb, clob, clopa, cnwpa, hwrwg, cnycyn, pwmpl, pothon, ysgwl, ysglin, boglyn, boglwm, cwrn, chwydd, talp, telpyn.
Knob, } *s.* swp o flodau, dail, neu gyffelyb
Knot, } addurniadau, arferedig mewn ad-
Knottle, } eilyddiaeth; cnap, twff, deilglwm,
Knoppe, } blodeuglwm.

Knob, *v. n.* cnapio, oddfi, cnycio, cygnu, boglymu; ymsypio; myned yn gnapiau, &c.

Knobbed, *a.* cnapiog, cnapog, cnyciog, cnycog, oddfog, boglynog, pwmplog, cnycynog.

Knobbiness, *s.* cnapiogrwydd, cnyciogrwydd, cnycogrwydd, oddfogrwydd, cnycynogrwydd.

Knobby, *a.* cnapiog, cnapog, cnyciog, cnycog, oddfog, talpiog; llawn cnyciau, &c.; caled.

Knock, *v.* (*S. cnucian*) cnocio, taraw, taro, curo, pwyo, dulio, ffusto, cobio, ffatio, chwatio, baeddu.

To knock down—taro, curo, bwrw, *neu* ffusto i lawr.
To knock out—taro, curo, ffusto, *neu* gnocio allan.
To knock on the head—taro yn ei ben; taro un yn ei ben; taro ar ei ben; lladd ar un ergyd; lladd ar unwaith; cwympo.
To knock one's head against a post—pwyo ei ben wrth y pentan.
To knock up—gorphen, cwblhau, dybenu; rhoi ergyd marwol i; lladd, dyfetha; curo i fyny; curo allan; gweithio allan.
To knock under—ymostwng, ymddarostwng; addef ei gamsyniad *neu* gamgymeriad; cyfaddef ei gamsyniad *neu* gamgymmeriad; rhoddi i fyny ei ddadl.
To knock together—cydbwyo, cymhwyo, cydguro, curo yn nghyd, pwyo yn nghyd.
He stands at the door and knocks—y mae efe yn sefyll wrth y drws ac yn curo; mae efe yn sefyll wrth y drws ac yn cnocio.
Who knocks the door? } pwy sydd yn
Who knocks at the door? } curo *neu* yn cnocio y drws? pwy sydd yn curo *neu* yn cnocio wrth y drws?

Knock, *s.* cnoc, ergyd, dyrnod, llab, paff, chwap, chwepyn, ffat, dul, pwy, cŏb.

Knocker, *s.* cnociwr, cnociedydd, tarawydd, tarăwr, curwr; ystwffwl, morthwyl drws, cnocell.
The knocker of a door—ystwffwl, morthwyl drws, dor-glap, dor-glecai, drysglap.

Knocking, *s.* cnociad, tarawiad, curiad, duliad; pwyad; cnoc, ergyd, cnith.

Knock-kneed, *a.* glin-gam, gargam, gargul, glingul.

Knoll, *s.* (S. *cnoll*; Sw. *knöl, knyl*) cnol, crugfryn, bryncyn, twlch, cryndwyn, crugyn, taren, crug, cnwc, pen crug, copa bryn, cnap: *pl.* tylchau.

Knoll, *v.* (S. *cnyllan*) canu cnul, canu cnull, cnulio cloch, canu clul, cnulio; canu cloch, toncio.

Knoller, *s.* canwr cnul, canwr cnull, cnuliwr.

Knop, *s.* (orgraff wahanol o *knap* neu *knob*) cnap, cnwc, siobyn, siob, sob, cobyn, twff, soban, soba, topyn, swba, cnwb, boglyn, pwmpl, cna, botwm.
Gold knop, } peneuraid, peneuraidd.
Gold knap, }

Knopped, *a.* cnapiog, sobynog, tyffog, cobynog, topynog, boglynog, botymog.

Knoppern, *s.* (Al.) dargneuen, darafal.

Knot, *s.* (S. *cnotta*; Al. *knoten*) cwlwm, clwm, cwlm; cymmal, cwgn; glin, ysglin, ysglinen; cnap; magl; byddag; rhwym; crug, twr, haid, haib, bagad, cnud, cyttwr; ysgwyddarn; gwely; anhawsder, anhawsdra, peth rhwystrus, peth afrwydd, peth anhawdd ei ddattod.
Bow-knot—cwlwm dolen, clwm dolen.
Love-knot, } clwm cariad cywir,
True-love-knot, } cwlwm cariad cywir.
Hard knot, } clwm llinglwm, llymglwm,
Close knot, } llwm gwlwm, clwm tanglwm.
Running knot — cwlwm rhedeg, cwlwm tagu, clwm rhedegog, byddag, byddagl; magl.
Gordian knot, } clwm annattod, cwl-
Indissoluble knot, } wm annatodol, dyrysglwm; anhawsder annattodadwy.
To cut the Gordian knot—tori y dyrysglwm; tori y clwm annattod; tori y clwm diddattod.
Nuptial knot—cwlwm priodas, clwm priodas, y cwlwm priodasol.
Top-knot — penclwm, plethglwm, plethrosyn, corynbleth; siobyn.
A little knot — clymyn, cygnyn, cwlwm bychan.
Knot (in a tree)—ysglin, ysglinen, cwlwm, clwm, bonglwm, clofen, cwgn, cymmal, cnwc, cnap.
Knot-work, } clymwaith, cylmwaith,
Knotted work, } gwaith clymog.
A knot of rogues—cnud, cwlwm, clwm, *neu* grug o ddyhirwyr.
There is a knot of them—y mae clwm *neu* fagad o honynt.
Without knots—diglymau, diglwm, anghylymog, anghlymog, heb glymau arno, heb glymau ynddo; rhwydd, llathraidd.
To seek a knot in a bulrush—ceisio anhawsder lle nis oeffir; o hawdd geisio anhawdd.
Knot (in ornithology)—cnut, y cnut.
Knot (in botany)—byddaglys.

Knot, *v.* cylymu, clymu, cylmu, darglymu, clymu yn gwlwm, clymu yn glwm, lladd cwlwm; byddaglu; rhedeg *neu* fyned yn gwlwm; myned *neu* redeg yn grych gwlwm; crychgylymu; gweithio clymau ar, gwneyd clymwaith ar; harddu *neu* addurno â chlymwaith; dyrysu, ymddyrysu, ymglymu, dyrysglymu, dyrysblethu; myned yn un bleth; cygnu, cnapio; tyru, ymdyru, cyttyru.

Knotberry, *s.* mwyaren glymog.

Knotgrass, *s.* clymog, clymlys, canclwm, gwaedlys, berw yr iar, berwy yr ieir.
Amphibious knotgrass — pengoch, canwraidd goch, beidiog goch, beidiog rudd.
Spotted knotgrass—elinog goch.
Pale-flowered knotgrass — costog y dom, llysiau y dom, llysiau y domen.
Biting knotgrass—tinboeth, llysiau y din.
Creeping knotgrass — treigledlys, clymog bychan.
Whorled knotgrass — clymogyn troellog, clymogyn.
Mountain knotgrass—clymogyn.
Common knotgrass=*Knotgrass.*

Knotless, *a.* diglymau, diglwm, anghlymog, heb glymau arno, heb glymau ynddo, anghygnog, dignap; rhwydd, llathraidd.

Knotted, *a.* clymog, cylymog, cylmog; cygnog, cymmalog, gliniog; rhwystrus gàn glymau; clymedig, dyrysedig; wedi myned yn un geden; wedi myned yn gyttwf.
Knotted oak—derwen gygnog.

Knottiness, *s.* clymogrwydd, cylymogrwydd, clymedd; cygnogrwydd; dyryswch, dyrysni, anhawsder.

Knotting, *s.* clymgaeniad; caeniad y cygnau (wrth baentio ar goed).

Knotty, *a.* clymog, cylymog, cylmog, darglymol; cygnog, cymmalog, gliniog, cnapiog; rhwystrus gàn glymau; dyrys, astrus, afrwydd, caled; clogyrnog, clogyrnaidd.
The knotty points of the law—dyrysglymau cyfraith, cynghawog cyfraith, cynghawogion cyfraith, cynghafogion cyfraith, mân droion cyfraith.

Knout, *s.* math ar ffrewyllu (arferedig yn Rwssia); ffrewylliad; ffrewyll.

Know, *v.* (S. *cnawan*) gwybod; ymwybod; adnabod, adwaen, nabod, nabyddu, gwybyddu; deall, dyall, dirnad; medru gwyddiadu.

To know beforehand—rhagwybod, rhagddeall; gwybod yn mlaen llaw; gwybod o'r blaen; deall yn mlaen llaw.

To know of—gwybod am, gwybod.

To know by inquiry—cael, cael allan, olrhain, olrheinio.

To know how to do a thing, } medru, medr-
To know to do a thing, } yd; gwybod pa fodd i wneuthur peth.

Not to know—bod heb wybod; bod heb adnabod; peidio â gwybod.

I know—gŵn, yr wyf yn gwybod, mi a ŵn, mi ŵn, adwaen.

Partly to know—gowybod, lledwybod, gwybod o ran, gwybod mewn rhan, gwybod yn rhanol.

I partly know—gogwn; yr wyf yn gowybod; gŵn o ran, &c.

To come to know—dyfod i wybod; cael clywed, cael gwybod; cael hysbysrwydd o; dyfod i wybodaeth o.

To let one know—hysbysu un, hysbysu i un; gwneuthur yn hysbys i un; mynegu i un; peri i un wybod; rhoi gwybod i un.

To know (carnally)—adnabod; gorwedd gyda.

I know him very well—mi a'i hadwaen ef o'r goreu; mi a'i hadwaen ef yn dda ddigon; yr wyf yn ei adnabod yn burion.

God knows—Duw a ŵyr; gŵyr Duw.

I know what to do—mi a wn beth a wnaf; gwn beth i'w *neu* i wneuthur.

What to do I know not—beth i'w wneuthur nis gŵn; beth i wneuthur ni ŵn.

Know for certain, } gàn wybod gwyb-
Know for a certainty, } ydd; gwybydd yn
Know of a surety, } ddïau.

To know one from another—gwahaniaethu, gwahanu, *neu* wahanredu rhwng y naill a'r llall; gwybod rhagor *neu* wahaniaeth rhwng y naill a'r llall; gwneuthur rhagor *neu* wahaniaeth rhwng y naill a'r llall.

He knows on which side his bread is buttered—efe a ŵyr ar ba wyneb i'r bara y mae yr ymenyn; e ŵyr y gath pa farf a lyf.

He that knoweth all things knoweth her—yr hwn a ŵyr bob peth a'i hedwyn hi.

He that knoweth the knowledge of the Most High — gwybedydd gwybodaeth y Goruchaf.

I know him not—nid adwaen i mo hono.

No man alive knows where to have him—nid oes dyn à ŵyr pa le i'w geisio; y mae efe yn fwy ansefydlog na cheiliog y gwynt.

Know thyself—adnebydd dy hun; adnebydd dy human.

He knew her again no more—ni bu iddo ef à wnaeth â hi mwy (*Gen.* xxxviii. 26).

Be thou diligent to know thy flock—edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid (*Diar.* xxvii. 23).

Knowable, *a.* gwybodadwy, gwybyddadwy; à ellir ei wybod.

Knower, *s.* gwybedydd, gwybodydd, gwybodwr, gwybyddwr, gwybyddiad, gwyddiad; adnabyddwr, adwaenwr.

Knowing, *a.* gwybodus, gwybyddus, gwybyddol, gwybodol, deallus, deallgar, medrus, cyfarwydd, hyfedr; nabyddus, adnabyddus, adnabodus; honaid; cyfrwys, ffel; yn gwybod, yn medru.

A man knowing his interest—dyn yn gwybod ei dda; gwr yn gwybod ei les.

A thing worth knowing—peth à dâl ei wybod; peth gwerth ei wybod.

Knowing, *s.* gwybodaeth, gwybod, gwyddawd.

Knowingly, *ad.* yn wybodus, &c.; trwy wybod; nid heb wybod; o'r gwaith goddeu.

Knowledge, *s.* (*know*, a Ll. *lego*) gwybodaeth, gwybod, gwybyddiaeth; adnabyddiaeth, nabyddiaeth, adnabodaeth, nabodaeth, adnabod, nabod; deall, dealltwriaeth; cyfarwyddyd, medr, cymmedr, tryw; dysg, dysgeidiaeth; gwyddawd, gwyddyd, gwyddiant, gwyddiad, copinod, ffesawd; gwybodaeth.

Knowledge of—gwybodaeth am, adnabyddiaeth o, cydnabyddiaeth â, adnabyddiaeth, gwybodaeth.

Slight knowledge—gowybod, gowybodaeth, lledwybodaeth, lledwybod, gosbrawf, gwybodaeth brin.

Self-knowledge, } ymwybyddiaeth,
Knowledge of one's self, } ymwybodaeth, ymwybod, hunan-adnabyddiaeth, hunadnabyddiaeth; adnabyddiaeth o hono ei hun; gwybodaeth am dano ei hun.

Saving knowledge—gwybodaeth achubol, iachwydd.

Without knowledge—heb wybodaeth, diwybodaeth, diwybod, anwybod, yn annoeth.

Without one's knowledge—heb wybod i un; yn ddïarwybod i un; yn anhysbys i un; heb fod un yn gwybod; heb wybod o un.

Without my knowledge—heb wybod i mi; yn ddïarwybod i mi.

Certain knowledge—edrybedd.

Knowledge of letters—llythyrddysg; gwybodaeth ar lythyr.

To have knowledge—bod i *neu* gàn un wybodaeth; gwybod; bod yn gwybod.

To have knowledge of—adnabod, nabod; bod i *neu* gàn un wybodaeth am; bod yn gwybod am.

To have knowledge of, } medru oddi wrth;
To have knowledge in, } bod yn medru oddi wrth; bod yn gyfarwydd *neu* hyfedr ar.

Having knowledge, } âg iddo wybodaeth;
That has knowledge, } â chanddo wybodaeth; y mae iddo *neu* ganddo wybodaeth; âg iddo fedr; â chanddo fedr; y mae iddo *neu* ganddo fedr; gwybodus medrus, synwyrol.

Having no knowledge, } na ŵyr, ag na
That has no knowledge, } ŵyr, nas gŵyr; na fedr, nas medr, ni fedr; ag nad oes iddo *neu* ganddo wybodaeth *neu* fedr; anwybodus, anfedrus, anhyfedr.

Having a little knowledge—lledwybodus, gowybodus; lledfedrus; â chanddo ychydig o wybodaeth.

Not to my knowledge—nid drwy fy ngwybodaeth i; nid drwy wybod i mi; (na ddo) er dim à wn i.

To the best of my knowledge—hyd itnaf

fy ngwybodaeth; hyd yr eithaf o'm gwybodaeth; càn belled ag yr wyf yn gwybod.
To gather knowledge—casglu *neu* gynnull gwybodaeth; ymwybod, ymwybodi; gwyddoni.
To come to one's knowledge, } dyfod
To come to the knowledge of one, } o beth i wybodaeth un; dyfod o un i wybod peth; dyfod o un i wybod am beth.
To come to the knowledge of a thing—dyfod i wybod; cael clywed, cael gwybod; cael hysbysrwydd o; dyfod i wybodaeth o.
To come to the knowledge of one's self—dyfod i'w adnabod ei hun; dyfod i adnabyddiaeth o hono ei hun.
To take knowledge of—adnabod, cydnabod; cymmeryd cydnabod ar; gwybod; mynu gwybod.
In knowledge—mewn gwybodaeth.
In wisdom and in knowledge—mewn doethineb ac mewn gwybodaeth; yn bwyllog ac yn synwyrol.
Knowledge beforehand—rhagwybodaeth, rhagwybod, rhagddeall, cynwybodaeth, rhagadnabod.
To attain the knowledge of a thing—cael cymmedr ar beth.
Through the knowledge of God—trwy adnabod Duw; trwy wybodaeth o Dduw.
I must have a care it come not to my father's knowledge—rhaid i mi edrych nas gwypo *neu* nas clywo fy nhad hyn; rhaid i mi edrych, gochelyd, *neu* ofalu na ddel hyn i glustiau fy nhad; rhaid i mi ofalu nas delo hyn i glyw fy nhad.
A man of understanding and knowledge—gwr pwyllog synwyrol (*Diar.* xxviii. 2); gwr deallus a gwybodus.

Known, *p.p.* (o *know*) gwybodedig, gwybedig, à wyddys, à wŷs; hysbys, gwybodus, gwybyddus, nabyddus, adnabyddus, gwybodol, adweinig, adnabodedig, nabodedig, nabyddedig; honaid, diargel, cyhoedd, cyhoeddus, rhugl.
Be it known — gwyper, gwybydder, bid hysbys, bydded hysbys, bid hysbysol, bydded hysbysol, boed hysbys.
Well known—hysbys, honaid, hynod; à wyddys yn dda; à wŷs yn dda; enwog, hyglod; eithaf adnabyddus.
Openly known, } hysbys i bawb; cyhoedd,
Publicly known, } cyhoeddus; wedi myned ar gyrn a phibau.
Not known—anhysbys, anhonaid, anghyhoedd, anadnabyddus, annabyddus, annabodus; na wyddys, ag na wyddys, nas adwaenir.
To make known—gwneuthur yn hysbys, yn gyhoedd, *neu* yn honaid, &c.; taenu ar led; hau ar led; gyru ar gyrn a phibau; gyru ar led; rhoi y gair *neu* y son allan; taenu ar ledled byd.
To be known abroad—bod yn gyhoedd; bod yn rhugl; bod yn hysbys i bawb; bod o'r gair allan; bod wedi myned ar led.
To make one's self known—gwneuthur ei hun yn hysbys *neu* honaid; ymhysbysu, ymenwogi; peri ei adnabod; ymgydnabod à; bod yn gydnabyddus i.
To become known, } myned yn gyhoedd,
To come to be known, } yn hysbys, yn honaid, *neu* yn wybodol; dyfod i wybodaeth; cael o beth ei wybod; myned *neu* ddyfod yn adnabyddus.
It is a known saying—gair cyffredin ydyw; gair rhugl ydyw; diarebair ydyw; y mae yn air yn ngenau pawb.
It is become known all the world over—efe a aeth ar gyrn a phibau; mae e wedi myned ar gyrn a phibau.
The like was never known—ni chlybüwyd *neu* ni wybüwyd erioed mo'r cyffelyb; ni wybüwyd *neu* ni chlybüwyd erioed mo'r fath beth.
It is not known—ni wyddys, ni wŷs; nid yw hysbys; anhysbys yw.
To seek to be known—ceisio bod yn gyhoedd; ceisio bod yn honaid.
Known for a rogue—y gwyddys mai anonest, mai dyhir, *neu* mai dyhiryn ydyw; dyhiryn cyhoedd; dyhiryn fel y gŵyr pawb; dyhiryn à phawb yn ei adnabod; dyhiryn à'i dyngu.
Thy footsteps are not known—nid adwaenir dy ol.

Knub, } † *v. a.* curo à'r cymmalau wedi cau
Knubble, } y dwrn; curo, dulio.
Knuckle, *s.* (S. *cnucl*; Al. *knöckel*) cymmal bys; cwgn, cyguyn, cymmal, hwrwg cymmal; migwrn; pencnaw asgwrn; cogwrn; glin llysieuyn.
A knuckle of veal—coesgyn o gig llo.
Knuckle, *v. n.* migyrnu, cygnu; ymostwng, ymddarostwng, plygu, ymröi, ymroddi.
To knuckle down—rhoi *neu* osod y cymmalau ar, *neu* wrth, *neu* gàn lawr; ymostwng i lawr; ymostwng, plygu.
Knuckled, *a.* cymmalog, cygnog; âg iddo gygnau *neu* gymmalau.
Knuff, † *s.* lleban, delff, drel, buach, llabwst, llabi, delbren, penhyrddyn (*pl.* penhyrddod).
Knur, } *s.* (Al. *knorren*) clwm, cwlwm, cwlm,
Knurl, } cnap, talp, cwgn, cwgn caled.
Knurled, } *a.* clymog, cylmog, cylymog, cnap-
Knurly, } log, cygnog; llawn cnapiau;
Knurry, } caled.
Kob, } *s.* Cob, Coba=math o afrewigod per-
Koba, } thynol i Ganoldir Affrig.
Koh, *s.* (Per.; Al. *kuh*) tprwe, tprwi, tprue=gair arferedig wrth alw gwartheg.
Kokob, *s.* Cocob=un o seirff gwenwynig America.
Kollyrite, *s.* (Gr. *collurion*) eliglai, purglai.
Komisdars, *s. pl.* Comisdariaid; goruchwylwyr *neu* ardrethwyr taleithiau (yn yr India Ddwyreiniol).
Kommanic, *s.* hedydd copog yr Almaen.
Koniga, *s.* (oddi wrth C. *König*, o'r Gywreinfa Brydeinig) cydlin arfor=tylwyth o blanigion.
Konilite, *s.* (Gr. *conos* a *lithos*) ffylorfaen.
Konite, *s.* (Gr. *conos*) llychfaen, llychddelid.
Kopeck, *s.* (Al. *kopeke*) copec, ceiniog Rwssia =gwerth o ddeutu dimai.
Kool, *s.* llwyth, ciwdod (yn yr India Ddwyreiniol).
Koolibies, *s. pl.* diwyllwyr, diwyllodrwyr, amaethwyr (yn yr India Ddwyreiniol).
Koran, *s.* (Ar.) Coran, y Coran, Alcoran=Beibl y Mahometiaid.
Korst, *s.* Coret=pysg danteithiol yn y Ddwyreiniol Ind.
Korin, *s.* Corin=math o grychgorn, priodor o Ganoldir Affrica.
Kourriss, *s.*=*Kumiss*.

Koupholite, *s.* (Gr. *couphos* a *lithos*) ysgafnem =math o ddelidfaen à geir yn y Barwynion.
Kraal, *s.* pentref; cynnulliad o fythod *neu* gutiau; pentref Hottentotaidd.
Krag, *s.* math o gleidir.
Kraken, } *s.* cracen=mor-anghenfil dychym-
Kraaken, } ygol, anferthol ei faint.
Krameric Acid, *s.* (oddi wrth y Drd. I. G. H. a G. H. *Kramer*) sur Cramerig, sur rhatanig.
Kreasote, } *s.* (Gr. *creas* a *sôsô*) cigachubai, cig-
Creasote, } achubwy=math ar hylif o ufelai,
Creosote, } ulai, ac ulyfai.
Krokidolite, *s.* (Gr. *crocis* a *lithos*) gwefaen.
Krout, *s.* (Al. *kraut;* Is. *kruid*) surgawl, surfresych; llfresych; cawl, bresych.
Kruka, *s.* gwrych y cae (yn Rwssia a Sweden).
Kruller, *s.* (Is. *krullen*) crychletrog=math o deisen wedi ei berwi mewn brasder.
Kryolite, *s.* (Gr. *cruos* a *lithos*) rhewfaen.
Kullace, *s.* ffa yr India.
Kumiss, } *s.* llaethwirod, Cwmiss=dïod neu
Koumiss, } wirod à wneir gàn y Tartariaid o laeth caseg.
Kupferschiefer, *s.* (Al.) efyddlech.
Kuril, *s.* cas gàn longwr.
Kyanite, } *s.* (Gr. *cuanos*) glasith=math o ddel-
Cyanite, } idfaen.
Kyanize, *v. a.* (oddi wrth Mr. *Kyan*) ysgoethodi; gosod coed yn wlych mewn coethawd ysol i'w cadw rhag braenu; Cyaneiddio.
Kye, † *s. pl.* (Al. *kuh*) gwartheg.
Kyriological, *a.* (Gr. *curios* a *logos*) arwyddluniol, rhanarwyddol, bathluniol, cyforddwynol.
Kythe, } † *v.* (S. *cythan;* Al. *zeigen*) hysbysu,
Kyd, } dangos; ymddangos.

L.

L, fel rhifnod, a saif am hanner cant, deg a deugain, neu bumdeg=50.

La, *in.* (S.) wele! wela! nycha! enycha! wel! och fi! ow! O! A!

Lab,† *s.* baldorddwr, bragaldiwr, dwndrwr, siaradydd.

Labarum, *s.* (Ll.) baner Cystenyn Fawr; baner, baniar, lluman.

Labdanum, } *s.* (o'r Ar.) mwythystor, ystor
Ladanum, } Creta.

Labefaction, *s.* (Ll. *labefactio*) gwanhad, adfeiliad, dadfeiliad, gwaethygiad, gwaethiad, dirywiad, palliad; pall, meth, methiant, dadfail, adfail, dinystr, cwymp.

Labefy,† *v. a.* (Ll. *labefacio*) gwanhau, gwaethygu, dadfeilio, adfeilio, gwaethygu, drygu, niweidio.

Label, *s.* (Ll. *labellum*) llabed, llabedyn, llab, dibynydd, lleineb; llafn *neu* dafod à fo yn nibyn wrth beth; carai ddibyn.

Label, *v. a.* llabedu, lleinebu; gosod llabed wrth *neu* ar.

Labellum, *s.* (Ll.) gwefusan (mewn llysieuaeth).

Labent, *a.* (Ll. *labens*) llithrol, llithrog, hylithr, llithrig, llithredig, eddeiniol.

Labia, *s. pl.* (Ll.) gwefusau, gwefiau, gwëusau.

Labial, *a.* (Ff.; Ll. *labium*) gwefusol, gwëusol, gwefiawl.

Labial consonants—gwefusolion, cydseiniaid gwefusol, cysseiniaid gwefusolion, gwefusolion gydseiniaid.

Labial, *s.* un o'r gwefusolion, llythyren wefusol: *pl.* gwefusolion.

Labials—gwefusolion=*b*, *f*, *ff*, *m*, *p*, *ph*, yn y Gymraeg.

Labiatæ, *s. pl.* (Ll. *labium*) gwefl ys; y mintys.

Labiate, } *a.* (Ll. *labium*) gwefusog, gwefus-
Labiated, } aidd, gwefiaidd.

Labile,† *a.* (Ll. *labilis*) agored i gyfeiliorni, syrthio, *neu* wrthgilio.

Labiodental, *a.* (Ll. *labium* a *dens*) gwefusddeintol; à seinier gàn y gwefusau a'r daint.

Labiodentals—gwefusddeintolion=*f*, *ff*.

Labium, *s.* (Ll.) gwefus, gwëus, gwefl, min; gwefl isaf (trychfilod); min nesaf i mewn (i gragen).

Laborant,† *s.* (o *labor*) fferyll, fferyllydd.

Laboratory, *s.* (Ff. *laboratoire*; o'r Ll. *labor*) fferyllfa, fferylldy, gweithdy fferyll; gweithfa, llafurfa, gweithdy.

Laborious, *a.* (Ll. *laboriosus*; Ff. *laborieux*) llafurus, llafuriol, llafurgar, gweithgar, poenfawr, llafurfawr, poenus, trafferthus, caled, blin, dygn, trafaelus, blinderog, cystog, cystol, ardresol; à gymmero boen *neu* fawrboen; yn cymmeryd poen *neu* fawrboen; yn gofyn poen a llafur; à wnaed drwy boen a llafur; ystig, diwyd, diflin · gorchestol.

Laboriously, *ad.* yn furus, &c.; trwy boen, trwy ddygn boen, trwy fawrboen, trwy fawr boen, trwy lafur, trwy boen a llafur.

Laboriousness, *s.* llafurusrwydd, llafurioldeb, poenusrwydd, poenusedd, llafurgarwch, gweithgarwch, trafferthusdra; gnif; anhawsdra, caledwch; diwydrwydd.

Labour, } *s.* (Ll. *labor*; Ff. *labeur*) llafur, llafur-
Labor, } waith, gwaith, poen, llafurboen, trafod, trafael, trafferth, lludded, trin, tres, ardres, cysteg, cwst, blinder, angenwaith, gorchwylwaith, gorchwyl, llafuriant, llafuriaeth; gwewyr esgor, gloesion esgor, esgor, esgorfa.

Hard labour—caledwaith, gwaith caled, llafur caled, trymwaith, gwaith dygn.

Light labour—golafur, llafur ysgafn, ysgafnwaith.

Sore labour—llafur blin, dygn boen, trybestod.

Painful labour—llafur poenus, llafurboen, cysteg.

Labour (of a woman in childbirth)—gwewyr esgor, gloesion esgor, trafael; esgor, esgorfa.

She had hard labour—bu galed arni wrth esgor; cafodd wewyr caled.

A lover of labour—un llafurgar, un poengar, poengarwr.

Companion in labour—cydlafurwr, cydlafuriwr, cydweithiwr, cydweithydd, cydlafurwas.

I have lost my labour—ni chefais ond y drafael am fy mhoen; mi a lafuriais yn ofer.

It is worth labour—fe a dâl ei wneuthur; fe a dâl am ei wneuthur.

To bestow labour upon—poeni wrth, llafurio wrth, ymboeni wrth.

My labour will be well bestowed—buddiol fydd fy mhoen; ni bydd fy llafur yn ofer; nid ofer fydd fy llafur.

With much labour—gyda mawr boen *neu* lafur; yn boenfawr, yn boenus.

To live by one's labour—byw wrth ei lafur; byw wrth ei waith a'i orchwyl; byw wrth ei waith *neu* orchwyl; byw wrth ei ddeg ewin; byw wrth ei ddeng ewin.

Labour, } *v.* llafurio, gweithio, poeni, ymboeni,
Labor, } cymmeryd poen, trafaelu, trafferthu, ymdrafferthu; dygnu, ymegnïo, egnïo, ymorchestu, ymdrechu; bod mewn llafur, poen, trafael, *neu* wewyr; gweithio wrth; diwyllio; curo, baeddu.

To labour with child, } bod yn ngwewyr
To be in labour, } esgor; bod yn ngloesion esgor; bod à gwewyr esgor arni; bod yn esgor; trafaelu; bod ar ei thrafael; bod yn ei thrafael; esgor ar etifedd; gruddfan (fel gwraig yn esgor).

To labour in vain—llafurio, poeni, *neu* ym-

boeni yn ofer; llafurio, poeni, *neu* ymboeni mewn oferedd.
To labour for—llafurio am; ymgeisio âg, ymgais âg, ymgais am; ymgyrhaedd *neu* ymgyrhaeddyd ar ol.
To labour a thing—poeni *neu* ymboeni wrth beth; poeni *neu* ymboeni yn mheth; llafurio wrth beth; gwneuthur peth yn dra chywraint; cywreinio.
To labour under a difficulty—bod mewn cyfyngder, gofid, trallod, *neu* drybestod; llafurio dàn anfantais *neu* anhawsder.
To labour hard—llafurio *neu* weithio yn galed; caledweithio, erddygnu.
To labour together, } cydllafurio, cydweith-
To labour with one, } io, cydymegnïo, cydymboeni, llafurio yn nghyd.
A laboured composition—cyfansoddiad llafurfawr, poenfawr, llafurus, *neu* weithfawr; cyfansoddiad cywrain, cynnil, cyfrdlws, *neu* gelfydd; cyfansoddiad à wnaed drwy boen a llafur; cyfansoddiad âg ol llafur arno.

Labourer, } *s.* llafurwr, llafuriwr, llafurwas,
Laborer, } gweithiwr, gweithydd; un yn byw wrth ei lafur, ei waith, *neu* ei lafurwaith; gwr gwaith a gorchwyl; un yn byw wrth ei orchwyl gwaith; gorchwyliwr; cloddiwr; ceibiwr: *f.* llafurwraig, gweithwraig, gorchwylwraig, llafures.
Fellow-labourer—cydweithiwr, cydweithydd, cydlafurwr, cydlafuriwr, cydlafurwas.

Labouring, *p.* yn llafurio, gàn lafurio, dàn lafurio, &c.; llafurus, llafuriol.
Labouring man—llafurwr, gweithiwr, gweithydd, dyddweithiwr, llafurwas; gwr gwaith a gorchwyl; un yn byw wrth ei waith a'i orchwyl; un yn byw wrth ei waith, ei lafur, *neu* ei lafurwaith.
All women labouring of child—pob gwraig wrth esgor plant.
Labouring beast—anifail gwaith, ysgrubl.
A labouring for an office—swyddymgais; swyddymgeisio.

Labourless, *a.* dilafur, heb lafur.

Laboursome,† *a.* llafurus, llafurfawr, poenus, poenfawr.

Labradorite, *s.* maesgrisfaen Labrador.

Labridans, } *s. pl.* (Ll. *labrum*) gwrachod,
Labridæ, } y gwrachod = enw llwyth o
Labroides, } bysgod.

Labrose, *a.* (Ll. *labrum*) gweflog, gwefusdew, gwefldew.

Labrum, *s.* (Ll.) gwefus, gwëus, gwefl; gwefl uchaf (trychfilod); min neaf allan (i gragen).

Labrus, *s.* gweflbysg.

Laburnum, *s.* (Ll.) euron, pyswydden.

Labyrinth, *s.* (Gr. *laburinthos*; Ll. *labyrinthus*) bachdrofa, dyrysfa, dyrysle, dyrysdy; lle bachdroiog, lle dyrysfachog; nidras; dyrys-lwyn; astrusi; dyryswch, dyrysni, anialwch.

Labyrinthian, *a.* bachdroiog; dyrysfaog, dyrysfachog; llawn o ddyrysfaoedd *neu* fachdroion; dyrys, dyryslyd, astrus, dyrysedig.

Labyrinthic, *a.* bachdroiog, bachdroawl, dyrysfachaidd; fel dyrysfa; dyrys, astrus, dyryslyd.

Labyrinthiform, *a.* ar ddull bachdrofa; ar wedd dyrysfa; dyrys, dyryslyd, astrus.

Labyrinthine, *a.* bachdroawl, dyrysfaol, bachdroiog; â llawer o fachdroion ynddo; perthynol i fachdrofa; tebyg i fachdrofa.

Lac, *s.* (Ysp. *laca*; Al. *lack*; D. ac Is. *lak*) llaethlud, llaethystor, ffigystor, lliwlud; glud.
Shell-lac—crestlud, llaethlud crawenol.
Gum-lac—ystorlud.
Lac-dye—gludliw, gludne, llaethludliw.
Stick-lac—llaethlud glynol.

Laccic, *a.* (o *lac*) perthynol i laethlud; llaethludig, llaethystoraidd, lliwludiol.
Laccic acid—sur llaethlud, sur llaethludig.

Laccine, *s.* (o *lac*) llaethludain, lliwludnur = sylwedd à geir mewn crestlud.

Lace, *s.* (Ysp. *lazo*; Ff. *lacet*) rhwydronell, eirionwe, eirionen, ysnoden, addurnwe, siderwe, ymylwe, addurnbleth, ysnoden harddrwyllog; sider, amaerwy; llinynwe, plethlinyn, llinyn cyfrodedd, llinyn pleth, llinyn crynbleth, llinyn cyrff, pwynt cyrff; llinyn, carai, ffunen, pwyntl; magl, telm.
Gold lace—ysnoden aur, eirionwe aur, eurwe, addurnwe aur, sider aur.
Silver lace—ysnoden arian, &c.
Galloon lace—ysnoden ffreinig, ysnoden Ffrengig, amaerwy ffreinig.
Lace-work—ffunenwaith, eirionwaith.

Lace, *v. a.* ysnodenu, sideru, amaerwyo; rhoi eirionwe, addurnwe, *neu* amaerwy ar; addurno âg ysnoden *neu* eirionwe; addurno, eirioni; clymu âg ysnoden, ffunen, pwyntl, pwynt, carai, *neu* linyn; cau â llinyn *neu* bwynt; llinynu, ffunenu, pwyntio, careio; curo, llachio, dygaboli; rhoi golchfa i.
To lace all over—gorthöi â siderau aur *neu* arian; gorthöi âg ysnodenau aur *neu* arian.
To lace with galloon—ymylu âg ysnoden ffreinig; rhoi ysnoden ffreinig ar ymylau dilledyn; addurno âg ysnoden ffreinig.
Laced mutton†—puteiniaid, puteiniaid llys.

Lacemaker, *s.* gwëydd ysnodenau, gwëydd siderau, eirion-wëydd, sider-wëydd, addurn-wëydd, ysnodenwr, ysnodenydd, siderwr, siderydd, rhwydronellwr.

Laceman, *s.* gwerthwr ysnodenau, gwerthydd ysnodenau, gwerthwr siderau, ysnodenwr, siderwr, siderydd, siderwerthwr, eirionwerthwr.

Lacerable, *a.* (Ll. *lacero*) rhwygadwy, toradwy, llarpiadwy, hydor, hyrwyg, hawdd ei dori, hawdd ei rwygo.

Lacerate, *v. a.* (Ll. *lacero*) rhwygo, llarpio, dryllio, cinynio, darnio, erthrychu; tori yn ginynion.

Lacerate, } *a.* rhwygedig, llarpiedig, llarpiog.
Lacerated, }

Laceration, *s.* rhwygiad, llarpiad, drylliad, cinyniad, toriad; rhwyg.

Lacerative, *a.* rhwygol, llarpiol, rhwygedigol.

Lacertian, *a.* (Ll. *lacerta*) perthynol i'r madfeillod; llostrwyaidd, ethrychwilaidd, madfilaidd, geneugoegaidd.

Lacertine, *a.* (Ll. *lacertus*) tebyg i fadfall, gwedresi, *neu* ethrychwil; fel madgall; madfallaidd, madgallaidd, madfilbysg, llostrwybysg.

Lacertus, *s.* (Ll.) y cornbig mwyaf, mornodwydd; madfallbysg, llostrwybysg.

Lace-winged, *a.* sider-adeiniog, sider-asgellog, eirion-adeiniog; â'i aden fel ysnoden *neu* eirionen.

Lacewoman, *s.* ysnodenwraig, eirionwraig, siderwraig; gwëyddes ysnodenau; gwerthyddes ysnodenau.

Lache, } *s.* (Norm. *lachesse, lache*) esgeulusdod,
Laches, } esgeulusdra, gwall.

Lachrymable, } *a.* (Ll. *lachrymabilis*) hyddeigr,
Lacrymable, } dagreuol, galarus, wylofus, alaethus.

Lachrymal, } *a.* (Ff.; Ll. *lachryma*) dagreuol,
Lacrymal, } deigrol, deigrynol, degrynol; perthynol i ddagrau; yn peri dagrau.

Lachrymal gland — deigriden, chwaren ddeigrol, cilchwyrnen ddagreuol, cilchweryn y dagrau.

Lachrymary, } *a.* dagreuog, deigrynog; yn
Lacrymary, } cynnwys dagrau.

Lachrymary vessels—llestri y dagrau, deigrlestri, y llestri dagreuog.

Lachrymation, *s.* (Ll. *lachrymatio*) dagreuad, deigriad, deigryniad, tywalltiad dagrau, hidliad dagrau.

Lachrymatory, *s.* (Ff. *lachrymatoire*) deigrynog, deigrlestr; llestr i ddala dagrau.

Lachrymose, *a.* (Ll. *lachrymosus*) dagreuaidd, deigraidd, dagreuol; yn peri *neu* yn tywallt dagrau; hidlddeigr.

Lacing, *s.* (o *lace*) ysnodraff, ysnodrwym.

Laciniate, } *a.* (Ll. *lacinia*) siderog, eddïog,
Laciniated, } amaerwyog; sitrachog.

Lack, *v.* (Is. *leeg*; D. *lak*) bod mewn eisieu *neu* angen; bod âg eisieu *neu* angen ar; dwyn eisieu; bod diffyg *neu* eisieu peth ar un; bod â diffyg ar; bod mewn diffyg; bod heb beth; bod peth yn eisieu i un; eisiwo; † beio.

To lack to see one—hiraethu am weled un; chwennychu *neu* ddymuno gweled un; bod ar un eisieu gweled un.

It lacked moisture—nid oedd iddo wlybwr.

Yet lackest thou one thing—y mae un peth eto yn ol i ti.

Neither was there any among them that lacked — nid oedd un angenus yn eu plith.

He shall not lack—ni bydd eisieu arno.

What lack I yet?—beth sydd yn eisieu i mi eto?

Let thy head lack no ointment—na fydded diffyg olew ar dy ben.

Peradventure there shall lack five of the fifty righteous—ond odid bydd pump yn eisieu o'r deg a deugain cyfiawn.

Lack, *s.* eisieu, angen, diffyg, gwall, eisiwed, eisiw.

To find lack of—gweled *neu* brofi diffyg peth; gweled *neu* brofi eisieu peth.

Lack, } *s.* 100,000 rhiwpi=£10,000.
Lac, }

Lackadaisical, *a.* (o *lackadaisy*) ffug-athrist, ffug-allwynin.

Lackadaisy, *in.* (o *lack-a day*)=*Lack a-day.*

Lack-a-day, *in.* och! ow! O! A! och fi! ha!

Lackbrain, *s.* (*lack* a *brain*) un dïymenydd, penbwl, hurthgen, symlyn, cuall, ynfyd, un disynwyr, penhyrddyn (*pl.* penhyrddod).

Lacker, *s.* (o *lack*) un âg eisieu *neu* angen arno; angenwr, angenog.

Lacker, } *s.*= { *Lacquer.*
Lacquer, } { *Lacker.*

Lackey, *s.* (Ff. *laquais*; It. *lacchè*) gwastrodyn, gweseyn traed, gwas traed, gwas trawd, trotwas, trodwas, troedwas, troediog, pedwesyn.

Lackey, *v.* bod yn wastrodyn, &c.; bod yn wastrodyn i; gwastrodi; canlyn un fel troediog *neu* wastrodyn; gweini yn wasaidd.

Lacking, *p.* âg eisieu *neu* angen arno; rheidus, angenus, angenog; amddifad o; â diffyg arno *neu* ynddo; rhy fychan.

To be lacking — bod yn eisieu; bod yn niffyg; bod yn ol; pallu.

Lacking but a little—agos; o fewn ychydig; heb fod ond ychydig yn niffyg *neu* yn eisieu; bron, yn mron.

To be lacking from—pallu o fod ar.

But lacking time, they returned — ond am fod arnynt eisieu amser, hwy a ddychwelasant.

That which was lacking on your part—eich diffyg chwi.

Lacklinen, *a.* heb lian, di lisin, heb grysau.

Lacklustre, *s.* annysgleirdeb, afloewder, anghlaerder; peth annysglaer.

Lacmus, *s.*=*Litmus.*

Laconic, } *a.* (Ll. *laconicus*, o *Laconia*, neu
Laconical, } *Lacones*) byreiriog, byr, talfyr, cryno, dwyseiriog, synwyrwersog; yn cynnwys llawer mewn ychydig; cynnwysfawr; yn ol dull y Laconiaid *neu* Spartiaid.

Laconics, *s. pl.* byregion.

Laconics and didactics—byregion ac addysgolion; byrebion ac addysgion.

The Laconics of Pausanias—llyfr Pausanias yn nghylch Laconia, Sparta, neu Lacedæmonia; Laconigion Pausanias.

Laconism, } *s.* (Ll. *laconismus*) byreiriog-
Laconicism, } rwydd; byreiriad, byrieithad, byrebiad, byriaith, beriaith, byrieithwedd, byr ymadrodd, byrair, ymadrodd dwys-gryno.

Lacquer, } *s.* (Ff. *laque*) eurolch, llebolch, mel-
Lacker, } ynolch, eurgaen, barnais eurliw, barnais felen; barnais, arliw, eurliw, eurne.

Lacquer, } *v. a.* eurolchi, llebolchi, barneisio,
Lacker, } arliwio, eurliwio.

Lacquering, } *s.* eurolchiad, llebolchiad, bar-
Lackering, } neisiad, eurliwiad.

Lactage, *s.* (Ll. *lac*) blith.

Lactant, *a.* (Ll. *lactans*) blith, blithog, llaethog; yn rhoi llaeth; yn rhoi sugn; llaethol.

Lactarium, *s.* (Ll.) llaethgell, llaethdy.

Lactary, *a.* (Ll. *lactarius*) llaethog, llaethaidd.

Lactary, *s.* llaethdy, blithdy.

Lactate, *s.* (o *lac*) llaethludaint, llaethludhal: *pl.* llaethludhalion.

Lactation, *s.* (Ll. *lacto*) llaethiad; rhoddiad sugn; amser sugno *neu* ddyfnu.

Lacteal, } *a.* (Ll. *lacteus*) llaethol, llaethlyd,
Lacteous, } llaethaidd, llaethliwiog, llaethliw; yn cludo llaeth *neu* gaul.

Lacteal vessel, } =*Lacteal, s.*
Lacteous vessel, }

Lacteal, *s.* llaethlestr, llaethbib, llaethbibell, llaethwythen, llestr llaeth: *pl.* llestri llaeth, llaethlestri, ceulgludion.

Lactescence, *s.* (Ll. *latescens*) llaethlydrwydd, llaetheiddrwydd, llaethedd, llaethogrwydd, blithogrwydd; llaethliwiogrwydd, llaethwynder.

Lactescent, *a.* llaethog, llaethlyd, blith, blithog.

Lactic, *a.* (Ll. *lac, lactis*) llaethig; perthynol i laeth; â geir o laeth sur *neu* faidd.

Lactic acid—sur llaethig, sur llaeth.

Lactiferous, } *a.* (Ll. *lac* a *fero*) llaethog, blith-
Lactific, } og; yn dwyn llaeth *neu* gaul; llaethddwyn.

Lactine, *s.* (Ll. *lac*) llaethsugr, sugr llaeth.

Lactometer, *s.* (Ll. *lac*, a Gr. *metron*) llaethfydr, llaethfesur, llaethfeidyr.

Lactuca, *s.* (Ll. o *lac*) gwylaeth, llaethygen, golaeth, cw.
Lactucella, *s.* (Ll.) llaethysgall, mochysgall, ysgall y moch, ysgall llaethog, lymeidfwyd.
Lactucic, *a.* (o *lactuca*) gwylaethig.
Lactucic acid—sur gwylaethig, sur gwylaeth.
Lactucine, *s.* gwylaethain, gwylaethnur.
Lactumen, *s.* (Ll. o *lac*) llaethgrach, llaethysgwl.
Lacuna, *s.* (Ll.) pannwl, pyllyn, pannelyn, pent-
Lacunar, *s.* (Ll.) pannylfwd, pyllfwd. [yn.
Lacunars, } *s. pl.* pannylfydau, pedroglau nen-
Lacunaria, } fwd.
Lacunette, *s.* ffosan, ffos fechan, clawdd bychan.
Lacunose, } *a.* (Ll. *lacunosus*) pannylog, pant-
Lacunose, } og, pyllog, rhychog, sylchog, rhigolog, ffosog.
Lacustral, } *a.* (o'r Ll. *lacus*) llynaidd; llynol,
Lacustrine, } perthynol i lyn.
Lad, *s.* (C. *llawd, llodes;* S. *leod,* Al. *leute,* pobl) llanc, llencyn, herlod, hogyn, bachgen, glaslanc, hoglanc, gwas ieuanc, gwas, crwt, rhocyn.
A little lad—llencyn, herlotyn, bachgenyn, hoglencyn.
Ladanum, } *s.* (o'r Ar.) mwythystor, ystor
Labdanum, } Creta.
Ladder, *s.* (Ia.; S. *hlædder*) ysgol, llettring; dringfa, esgynfa, graddau dring.
Rundle of a ladder, } ffon ysgol, gwerthyd
Round of a ladder, } ysgol: *pl.* ffyn ys-
Step of a ladder, } gol.
Companion ladder—grisysgol.
Jacob's ladder — llawethan, llywethan, ysgol Iacob.
Lade, *v. a.* (S. *ladan, hladan;* Al. *laden*) llwytho; rhoi, gosod, *neu* ddodi llwyth ar; pynio, pynorio, pynu; cyfodi llwyth ar; tywallt, gwalloñ, dywallaw, gwehynu, gwahenu; ceriain; taflu i mewn ac allan.
Lade-pail—ystwc gwallaw.
You may as well bid me lade the sea with a nutshell—cystal y gellwch beri *neu* erchi i mi ehedeg i'r awyr; yr un peth fyddai i chwi beri *neu* erchi i mi ehedeg i'r awyr; cystal y gallech geisio genyf yfed y môr.
Lade,† *s.* ceg afon, aber.
Laded, } *p. p.* llwythedig, &c.; llwythog, pyn-
Laden, } oriog, pynog; dàn ei lwyth; dàn ei bwn.
Heavy laden—trymlwythog; dàn ei drymlwyth; llwythog.
Sore laden—tàn orellid.
Laden in bulk—â'r llwyth yn rhydd yn y ceudod; yn rhydd-lwyth.
Ladies, *s. pl.* (o *lady*) rhianod = llechan bychain, yn mesur yn nghylch 15 modfedd o hyd ac 8 o led.
Lading, *s.* (o *lade*) llwyth, llwyth llong, llonglwyth, carg; baich.
Ladkin, *s.* (o *lad,* a'r terfyniad bychanig *kin*) herlotyn, llencyn, bachgenyn, hoglencyn, rhocyn, crwtyn.
Ladle, *s.* (*hlædle*) lledwad, lletwad, lledwed, lledfed, lledffed; modbren, ymmodbren, mwndill.
Ladles of a mill-wheel—llwyau rhod melin; codau rhod melin; llwyerau rhod melin.
A little ladle — lledwadllwy, lledwatllwy, lledwad fechan.
Ladleful, *s.* lledwadaid, lletwadaid; llonaid lled wad, llwyaid.
Lady, *s.* (S. *hlafdig, hlæfdiga, hlæfdia*) arglwyddes, arlwyddes; pendefiges; barynes, barones, breyres; boneddiges, boneddes, rhian, rhiain, rhies, penes, gwraig foneddig, merch foneddig, bun foneddig; meistres.
A young lady—merch foneddig, geneth foneddig, bun foneddig, morwyn foneddig, rhian, boneddiges ieuanc, boneddes ieuanc, penesig, boneddesig.
A smart little lady—penesig.
The finest lady in the land—y decaf yn y dyrfa lle del; y rhian harddaf yn y wlad.
No, my lady—na, fy arglwyddes; nage, fy arglwyddes; nac ydyw, fy arglwyddes; na, fy mhenes, &c.
Our Lady—ein Harglwyddes; ein Rhianon=Mair Forwyn.
Ladies and gentlemen — boneddigesau a boneddigion; boneddesau a boneddion.
Faint heart never won fair lady—y dewr biau 'r byd; i'r dewr yr â'r da; nid oes i'r annewr ond annawn; hap Duw, ddewryn.
Lady-bird, } *s.* (o *lady* a *bird,* &c.) y fuwch
Lady-bug, } goch gota, y fuwch goch = enw
Lady-cow, } math o drychfil bychan.
Lady-fly, }
Lady-Chapel, *s.* capel ein Harglwyddes, capel y Forwyn, capel Mair.
Lady-day, *s.* Gŵyl Fair y Cyhydedd; Cyfarchiad Mair; Cyfarchiad ein Harglwyddes; y 25med o Fawrth.
Lady-like, *a.* rhianaidd, rhieinaidd, rhieiniol, boneddesaidd, boneddigesaidd, rhiesaidd, penesaidd, fel boneddiges; boneddigaidd, boneddig, mocsog, hyfoes, moeswych; tyner, tirion, masw, mwyn, llednais.
Lady's Bedstraw, *s.* briwydd felen, briger twynau, ceulon, ceulion, llysiau y cywer, cywer y llaeth.
Lady's Bower, *s.* cudd y coed, dringiedydd, barf y gwr hen.
Lady's Comb, } *s.* crib Mair, crib Gwener,
Venus' Comb, } nodwydd y bugail, creithig.
Lady's Cushion, *s.* tormaen mwsoglaidd; clustog Fair.
Lady's Finger, *s.* plucen, plucan, meillionen felen.
Ladyship, *s.* (o *lady*) urddas arglwyddes; arglwyddesiaeth, arlwyddesiaeth, penesiaeth, rhianaeth, rhiesaeth; arglwyddiaeth.
Lady's Mantle, *s.* mantell Fair, mantell Mair.
Common lady's mantle—mantell Fair gyffredin, simwr y còr, palf y llew, troed y llew.
Field lady's mantle—troed y dryw.
Lady's Seal, *s.* afal Adda, afal Addaf, gwinwydden ddu, coedrwym, coedgwlwm, coedglwm, clwm y coed, cwlwm y coed, rhwymyn y coed, cwlwm y gwŷdd, paderau y gath, grawn y perthi.
Lady's Slipper, *s.* esgid Fair, esgid Mair, llopan Fair.
Lady's Smock, *s.* hydyf, hydwf.
Hairy lady's smock—hydyf blewog, berwr y maesydd.
Bitter lady's smock—berwy chwerw, berwr chwerw, berw chwerw.
Meadow lady's smock — hydyf y waen,

blodau y gog, blodeuyn y gog, blodyn y gwcw.

Lady's Thistle, *s.* ysgallen Fair, ysgallen wèn, ysgallen fraith, cribau Mair.

Lady's Tresses, } *s.* teircaill, caineirian nydd-
Lady's Traces, } drŵedig.

Lag, *a.* (C. *llag, llac;* Goth. *laggs,* hir) olaf, diweddaf; à ddel ar ol dàn lercian; à fo yn dyfod ar ol dàn lercian; dylwr, ol; dyhair, llag, llercynol, dïog, musgrell; à erys *neu* à drig ar ol; à erys *neu* à drig yn ol; na ddel yn mlaen.

Lag, *v.* aros ar ol, aros yn ol, dyfod yn olaf, aros yn olaf, sefyll yn ol, llercian, llercio, llercyna, gohirio, dyheirio, dyhirio, lleigio, hirdrigo, oedi, ystelcian, sefyllian, llegu, dïogi; myned *neu* gerdded yn araf; llacio, yslacio, llaesu.

Lag,† *s.* y peth gwaethaf *neu* olaf; cynffon, y gynffon, godre; y dosbarth isaf; llega, llegach, llercyn, dïogyn.

Laggard, *a.* (o *lag*) araf, arafaidd, dïog, dïoglyd, musgrell, hwyrfrydig, llegus, lleigus, dyhair, dyhir, llag, llercynol; à ddel ar ol dàn lercian; ol.

Lagger, *s.* llercyn, llercynwr, llercwr, ystelciwr, dyheiryn, dïogyn, seguryn, segurwr, oedwr, addoedwr, dydechwr, godechwr, lleigiad, clauaryn; un à erys ar ol: *f.* dyheiren, clauaren.

Laggins, *s. pl.* hurtrau mewn ceuffordd.

Lagomys, *s.* (Gr. *lagos* a *mus*) ceinachlyg.

Lagoon, } *s.* (It. ac Ysp. *laguna*) llagad, mor-
Lagune, } lyn, cors, morfa, merfa, merllyn, llŷn bas.

Marine lagoon—morllyn, morlyn, llagad morawl, morlagad.

Lagophthalmia, *s.* (Gr. *lagos* ac *ophthalmos*) llygad ysgyfarnog=anhwyldeb yn yr hwn nis gellir cau y llygad.

Lagostoma, *s.* (Gr. *lagos* a *stoma*) gwefus folch, gwefus fylchog, bylchfin, adfant; gwefus â bwlch ynddi (fel gwefl ysgyfarnog).

Lagrimoso, *a.* (It.) cwynfanus, galarus, wylofus.

Lagurus, *s.* (Gr. *lagos* ac *ouros*) cwt ysgyfarnog =math o blanigion.

Laic, } *a.* (Gr. *laicos;* Ll. *laicus;* Ff. *laïque*)
Laical, } llëyg, lleygol, lleygiol; heb fod mewn urddau eglwysig.

Laic, *s.* llëyg, gwr llëyg, gwr lleygol, lleygwr: *pl.* lleygion, gwŷr llëyg.

Lair, *s.* (Al. *lager*) gwâl, llooches, llechfod, llechfa, gorweddle, gorweddfa; porfa; y llawr.

Laird, *s.* (S. *hlaford*) uchelwr, gwrda, arglwydd maenor.

Laity, *s.* (o *Lay, a.:* gwel *Laic*) gwŷr llëyg, lleygion, lleygwyr; y rhai na bônt mewn urddau eglwysig; †lleygiaeth.

Clergy and laity—gwŷr llên a gwŷr llëyg; llên a llëyg; clerigion a lleygion.

The clergy and laity—y gwŷr llên a'r gwŷr llëyg; yr offeiriaid a'r bobl.

Lake, *s.* (Ll. *lacus;* Ff. *lac;* S. *luh*) llŷn, llwch: *pl.* llynau, llynoedd, llychau.

Lattice, *s.* (*Ff. lattis*) dellt, (*sing.* dellten), delltwaith, rhwyllwaith, cledrwy, masg; gwaith, pared, *neu* rwyllau dellt.
Wrought like lattice—delltog, rhwyllog, rhwyd-dyllog; à wnaed ar wedd delltwaith.

Lattice, *a.* delltog, rhwyllog, delltenog, rhwyddyllog, cledrwyog, delltol, delltaidd; à wnaed ar wedd delltwaith.
Lattice work — delltwaith, rhwyllwaith, cledrwy; rhwydwaith.
Lattice window—ffenestr ddellt, ffenestr ddelltog, ffenestr rwyllog.

Lattice, *v. a.* delltu, delltenu, eisio, cledrwyo, cledru; cau à delltwaith.

Latticed, *a.* delltog, delltenog, cledrwyog, rhwyllog; delltedig.

Laud, *s.* (Ll. *laus, laudis*) mawl, moliant, molawd, clod, clodforedd, canmoliaeth, moledd; clodeb.

Laud, *v. a.* (Ll. *laudo*) moli, moliannu, clodfori, canmawl, darfoli; mawrygu, mawrhau, dathlu.

Laudable, *a.* (Ll. *laudabilis*) canmoladwy, clodadwy, hyglod, gwiwglod, hyfawl, moleddiw, moladwy, gwiwfawl, clodwiw, moleddus, clodforus, moliannus; iachus, iach; addfed.

Laudableness, *s.* hyfoledd, hyglodedd, gwiwfoledd, moleddusrwydd, molediwrwydd, clodforusrwydd.

Laudably, *ad.* yn ganmoladwy, &c.

Laudanum, *s.* (talfyrad o'r Ll. *laudandum*) cysgwy, pabidrwyth, sudd y pabi.

Laudation, *s.* canmoliaeth, mawl, moliant, clod, clodforedd.

Laudative, *s.* (Ll. *laudativus*) canmoliaeth, molawd, arwyrain, clod, moliant, ceinfolawd, mawl, iolwg.

Laudatory, *a.* canmoliaethol, canmoliaethus, clodforus, canmoliadol.

Laudatory, *s.* yr hyn a gynnwys fawl; molawd, canmoliaeth.

Lauder, *s.* molwr, molydd, moliannwr, moliannydd, moliannor, clodforydd, clodforwr.

Laugh, *v. n.* (S. *hlihan*; Al. *lachen*; H. *laag*) chwerthin, chwerthinio, chwerthinial, chwarddu, enchwarddu, dychwerthin, ychwarddu, dirwenu.
To laugh aloud—crechwenu, chwerthin yn groch, croch chwerthin, uchel chwerthin, crechwen-floeddio, enchwarddu.
To laugh a little — glaschwerthin, gochwerthin, lledchwerthin.
To laugh heartily—chwerthin yn iachus; chwerthin o wir ewyllys calon; chwerthin â'i holl galon; chwerthin yn galonog.
To laugh at—chwerthin am ben; chwerthin wrth; chwerthin yn; gwatwar, gwawdio.
To laugh to scorn—chwerthin am ben; chwerthin gwatwar; chwerthin wrth; chwerthin yn; gwatwar, gwawdio.
To laugh in one's sleeve—chwerthin yn ei lawes; chwerthin ynddo ei hun; chwerthin rhyngddo ac ef ei hun; chwerthin yn nghil ei foch; chwerthin dàn ei ddannedd; chwerthin yn nghil ei ddwrn; chwerthin yn ei fynwes; ymloni yn ddirgel.
To laugh one out of countenance—peri i un gywilyddio, gwrido, *neu* wladeiddio drwy chwerthin am ei ben; chwerthin am ben un nes cywilyddiaw o hono.
To laugh from the teeth outwards—chwerthin yn y golwg ac nid yn y galon; cymmeryd arno chwerthin; ffugio chwerthin.
To laugh together — cydchwerthin, cychwerthin; cychwarddu, chwerthin yn nghyd.

Laugh, *s.* chwerthin, chwardd, dychwardd, enchwardd, dirwen; crechwen, crechwen o chwerthin.
Loud laugh — crechwen, crechwen o chwerthin, crechwen-floedd, chwerthin croch, croch chwerthin, uchel chwerthin.
A half laugh—glaschwerthin, gochwerthin, gochwardd.
Horse-laugh—crechwen, croch chwerthin, crechwen o chwerthin, crechwen-floedd, mawr chwerthin, march-chwerthin.
To keep up a laugh — dychwerthin, chwerthinial.

Laughable, *a.* chwerthinus, hychwardd, chwarddus; à bair chwerthin; cymhwys i chwerthin am ei ben; digrif, digrifol.

Laughableness, *s.* chwerthinedd, chwerthinusrwydd; hychwarddedd, chwarddusrwydd; digrifwch.

Laugher, *s.* chwarddwr, chwerthinwr, chwerthinydd, chwerthwr.
A great laugher—crechwenwr, crechwenydd, chwarddwr croch; dyn chwerthinog, chwerthingar, *neu* chwerthinllyd; chwarddwr mawr.

Laughing, *s.* chwerthiniad, chwerthin, chwarddiad, chwarddedigaeth.
To fall a laughing—dechreu chwerthin; myned yn nghyd à chwerthin; taro i chwerthin.
Loud laughing, } crechweniad, crechwen,
Great laughing, } croch chwerthin, chwerthin croch, uchel chwerthin.
Given to laughing, } chwerthingar,
Apt to laugh, } chwerthinog, chwerthinllyd.
To burst with laughing—hollti, ymholltì, *neu* ymdori gàn chwerthin; marw gàn chwerthin.
To burst out a laughing—codi crechwen; crechwenu.
Never-laughing — dichwerthin; diwen, anhywen; difrif bob amser.

To forbear laughing—peidio â chwerthin; ymattal rhag chwerthin.
A mutual laughing — cychwardd, cychwerthin, cychwarddiad.

Laughingly, *ad.* dàn chwerthin; ar ei chwerthin; ar ei wên.

Laughing-stock, *s.* gwatwargyff, gwatwarnod, gwatwornod, cyff gwawd, nod y gwatwar, nod y gwatwor, cyff cler, gwawdgyff, gwawdnod; dyn *neu* beth i chwerthin am ei ben; gwatwargerdd; gwawd, gwatwar.

Laughter, *s.* (o *laugh*) chwerthin, chwerthiniad, chwardd, enchwardd, chwarddiad, chwarddedigaeth.
Excessive laughter — rhychwerthin, rhychwardd, trachwerthin, trachwardd, chwerthiniad y dannedd.
Loud laughter—crechwen, croch chwerthin, chwerthin croch, uchel chwerthin, chwerthin mawr.
To burst out into laughter—tori allan o chwerthin; tori allan i chwerthin; tori allan yn grechwen; crechwenu; chwerthin yn grechwen.

Laughterless, *a.* dichwerthin; diwen, anhywen; difrif bob amser; nad yw yn chwerthin.

Laugh-worthy, *a.* teilwng i gael chwerthin am ei ben; cymhwys i chwerthin am ei ben; chwarddwiw.

Laumonite, *s.* (oddi wrth *Laumont*, ei ddarganfyddwr) math ar ddelidfaen.

Launch, *v.* (o *lance*; Ff. *lancer*) ergydio, taflu, bwrw, picio, lluchio, chwyrnellu, saethu; taflu ar fraich; neidio; hyffio, llonghyffio, llonglithro; gwthio, disgyn, *neu* gychwyn i'r môr; gwthio *neu* fwrw i'r dwfn; cynnofio, morelu, morhau; ymollwng; cychwyn; ymfwrw, hwylio.
To launch a ship—gwthio *neu* fwrw llong i'r môr; disgyn llong, hyffio llong, llonghyffio, llonglithro, llongwthio; gwthio *neu* fwrw llong i'r dwfn; morelu llong, cynnofio llong.
To launch forth, } hwylio allan; hwyliaw
To launch out, } o'r porthladd; ymadaw â'r porthladd; ymollwng o'r porthladd; myned allan o'r porthladd; gwthio i'r dwfn; gosod allan; cychwyn; codi hwyliau; diangori.
To launch into the sea, } hwylio allan;
To launch into the deep, } hwyliaw o'r porthladd; ymadaw â'r porthladd, &c.
To launch into eternity—hwylio i dragywyddoldeb; ymfwrw i *neu* ar fôr tragywyddoldeb; hwylio i fyd yr ysbryd-oedd; ymadaw â'r byd; myned o'r byd; myned allan o'r byd.
To launch out *or* forth into a long detail of things—manol adrodd pethau; bod yn fanol am bob peth; rhoi hanes faith a helaeth am bethau; bod yn faith ac yn helaeth wrth adrodd pethau; ymhelaethu ar destyn; myned yn ddwfn mewn hanes *neu* ystori i son am bob peth.
To launch forth in the praise of a person—canmawl un yn faith ac yn ddyfal; dadganu clod un yn faith ac yn ddyfal; rhoddi aml glod *neu* ganmoliaeth i un; ymhelaethu ar glod *neu* rinweddau un; traethu clod un yn helaeth; gosod allan glod un yn helaeth.

Launch, *s.* hwff, hyffiad, llonghyffiad, llonglithrad, llongwth, llongwthiad; gwthiad, llithrad, *neu* ddisgyniad llong i'r môr; morel; cynnawf; morelfad, gwthfad, bad mwyaf cadlong.

Laund, †*s.* (C. *llan*; Ysp. *llano*) llawnt, llanerch.

Launder, *s.* (o'r Ll. *lavo*) golchuries, golchyddes, golchwraig; golchydd; cafn llwch mwn; cafn golchi, golch-gafn; dyfergafn.

Launder, *v. a.* golchi, gwlychu.

Launderer, *s.* golchydd, golchur, golchwr.

Laundress, *s.* (Ff. *lavandière*) golchyddes, golchuries, golchwraig; llieinwraig; caboldyddes.

Laundress, *v. n.* golchi; chwareu yr olchyddes.

Laundry, *s.* (o *launder*; Ys. *lavadero*) llieindy, lliandy, llieinfa; golchdy, golchfa, golchfan, golchle; caboldy, cabolfa; golch, golchiad.
Laundry-maid—morwyn y llieindy, morwyn olchi.

Laureate, *a.* (Ll. *laureatus*) llawryfog, llorwyddog, llawrwyddog; coronedig *neu* addurnedig â llawryf; llawrwydd-goronog.
Poet laureate — bardd llawryfog, bardd llorwyddog, bardd llawrwyddog, prydydd llawryfog; teyrnfardd, bardd y brenin, y bardd llys, bardd y llys, y bardd teulu, breninfardd.

Laureate, *s.*=*Poet laureate.*

Laureate, *v. a.* coroni â llawryf; llawryfo, llawrwyddo, llorwyddo; llawryfraddio; graddoli mewn prifysgol ac anrhegu â choron lawryf.

Laureateship, *s.* llawryfogaeth; swydd bardd y brenin.

Laureation, *s.* llawryfiad, llawryfiant.

Laurel, *s.* (Ysp.; Ll. *laurus*, *laurea*; Ff. *laurier*) llawryf, llawrwydd, llorwydd, dïodwydd, diawdwydd, pren y gerwyn, dail y cwrw, llawraint.
Laurel-tree — llawrwydden, llorwydden, llawryfen, dïodwydden, y pren llawryf, pren y gerwyn.
Spurge laurel—clust yr ewig, glas y gauaf.
Laurel water—llawryflyn; dwfr dystylledig o ddail llawryf.

Laurelled, *a.* = *Laureate.*

Lauriferous, *a.* (Ll. *laurifer*) â ddygo lawrwydd; yn dwyn *neu* arwain llawryf.

Laurine, *s.* (o *laurel*) llawryfain; danawdd llymsur, bras, chwerw, â geir yn ngrawn y llawryf.

Laurustin, *s.* (Ll. *laurustinus*) math o wifwrnwydd.

Lauskraut, *s.* (Al. *läuskraut*) lleulys, llysiau y llau.

Lautu, *s.* ffunen gotwm â wisgir am eu pen gàn Incwys Periw.

Lava, *s.* (It.; *Ff. lave*) llosgwy, ufelwy, llifwy llosgfal, llosgfalwy, chwydion mynydd tanllyd.

Lavalike, *a.* llosgwyaidd, fel llosgwy, tebyg i ufelwy.

Lavatera, *s.* (er anrhydedd i I. C. *Lavater*) hocyswydd; morhocys: *sing.* hocyswydden, morhocysen.

Lavation, *s.* (Ll. *lavatio*) golchiad, golchedigaeth, ymolchiad, golch, glanhad.

Lavatory, *s.* (Ll. *lavo*) golchfa, golchfan, golchle, golchdy; ymolchfa, ymdrochle, baddon; golch, trwyth; meddygolch.

Lave, *v.* (Ll. *lavo;* Ff. *laver*) golchi; ymolchi, ymdrochi; dyfrhau, dyfru.

Lave,† *v. a.* (Ff. *lever*) oeriain, arllwys, tywallt.

Lave-eared,† *a.* clustlipa; â chlustiau mawrion llipa iddo.

Laveer, *v. a.* (Is. *laveeren;* Ff. *louvoyer*) plyghwylio, gwyrhyntio; plygdeithio; hwylio yn ol ac yn mlaen.

Lavender, *s.* (Ll. *lavandula;* Ff. *lavande*) llafant, lafant=llwyth o blanigion peraroglus.
Sea lavender—llemyg, llafant y môr.
Lavender cotton—llwyn cotymog.
French lavender—llwyn cotymog Ffrengig.
Lavender thrift—llemyg, llafant y môr.
Lavender water—llafantwy, dwfr llafant.
To lay up in lavender—rhoi yn nghadw *neu* i gadw yn ofalus megys amguedd; rhoi *neu* ddodi i gadw yn barchus; rhoi yn ngwystl; rhoi ar wystl; dodi yn ngwystl; dodi ar wystl; gwystlo, pridio.

Laver, *s.* (Ff. *lavoir*, o *laver*) noe, noe olchi, golch-noe, noe ymolchi, golchlestr, osged, osgyd, pilig.
By the laver of regeneration in baptism—trwy olchiad yr adenedigaeth yn medydd (*Lyfr Gweddi Gyffredin*).
Small laver—cawg, mail, basarn, osged fechan.

Laver, *s.* llafan, yslafan; llysiau y môr.
Laver bread—bara llafan, bara llawr, bara yslafan, bara llawfan.

Laverock, *s.* (Ysg.; S. *laferc*) hedydd, ehedydd, uchedydd.

Lavish, *a.* (o *lave?*) afradlawn, afradus, gwastraffus, treulgar, treulfawr, rhyhael, trahael, cedfawr, rhyged, cedrwys, rhydreulgar, difrodus, afradwy, hael, hael byrllawiog; anllywodraethus; anghymmedrol; afreidiol, gormodd; brac; gwyllt.
A lavish spendthrift—mab yr afrad; wtreawr, gloddestwr, dyn rhydreulgar, dyn wttresgar.
Foolishly lavish—hael-ffol.
Very lavish—tra gwastraffus, afrad iawn, &c.; gorthrain.

Lavish, *v. a.* gwastraffu, afradu, afradloni, rhydreulio, trathreulio, camdreulio, ofer-dreulio, treulio yn wastraffus, taflu ymaith, dywalltrain, ystraffu, dyfetha, difrodi, ofera; bod yn hael ar.
To lavish away all one 's substance—gyru y swch yn swmbwl.

Lavisher, *s.* gwastraffwr, gwastraffydd, afradwr, rhydreuliwr, ystraffwr, oferwr, corodyn.

Lavishly, *ad.* yn wastraffus, &c.
To spend lavishly—gwastraffu, afradu, afradloni.

Lavishment, *s.* gwastraffiad, rhydreuliad, &c.; gwastraff, afrad, afradlondeb.

Lavishness, *s.* afradlondeb, afradlonedd, afradlonrwydd, afrad, gwastraff, gwastraffedd, gwastraffusrwydd, rhysedd, rhyhaeledd, trahaelder, haelioni byrllawiog, rhydraul, rhydreulgarwch, athraul, treulgarwch, anghynnildeb, corawd, gorthrain; difrod ar dda *neu* feddiannau; wttres.

Lavolta, } *s.* (It. *la volta*) troddawns, llam-
Lavolt, } ddawns, dawns llamsachus.

Law, *s.* (S. *laga, lag, lah;* Ff. *loi;* Ll. *lex*) cyfraith; deddf; rhaith; rheol, trefn, gosod.
Canon law, } cyfraith eglwys, cyf-
Ecclesiastical law, } raith yr eglwys, rhaith eglwys, y gyfraith eglwysig, cyfraith crefydd, glwysraith, glwysddeddf, eglwysraith.
Civil law—cyfraith wladol, cyfraith lëyg, cyfraith fyd, cyfraith y byd, bydraith, gwladraith; y gyfraith Rufeinig.
Civil and canon law—rhaith gwlad ac eglwys; cyfraith gwlad ac eglwys; y gyfraith wladol a'r eglwysig; cyfraith y byd a'r eglwys; rhaith byd ac eglwys; cyfraith lëyg a llên.
Common law—cyfraith y wlad, cyfraith rym, y gyfraith anysgrifenedig, y gyfraith gyffredin, cyfraith gyffredin gwlad; cyfraith draddodiadol.
Statute law—y gyfraith osodol, y gyfraith ystatynol, cyfraith seneddol, y gyfraith ysgrifenedig.
Criminal law—troseddraith, cyfraith troseddau; cyfraith berthynol i droseddau.
Municipal law—cyfraith freiniol, cyfraith ddinesig; cyfraith wladol.
Moral law—deddf foesol, cyfraith foesol, moesraith.
Ceremonial law—cyfraith ddefodol, cyfraith gynnefodol, deddf ddefodol, cyfraith defodau, defodraith.
Mosaic law—cyfraith Moesen, cyfraith Moses, y gyfraith Foesenaidd.
Laws of nations—deddf *neu* gyd-ddeddf cenedloedd; cyfraith y byd; cyfraith cenedloedd.
Laws of nature—deddfau anian, deddfau natur.
Physical laws—deddfau anianyddol, deddfau anian, deddfau naturiol.
Martial law, } cyfraith rhyfel, cyfraith arf-
Law martial, } au, rhyfelraith; cyfraith filwraidd.
Military law—cadraith; cyfraith filwraidd.
Commercial law, } cyfraith masnach, cyf-
Law-merchant, } raith trafnid, cyfraith drafnidiol, trafnidraith, masnachraith.
Poor law—cyfraith y tlodion, cyfraith y tlawd, tlodraith.
Law of marque—cyfraith attrais, cyfraith adgipiad, adgipraith; cyfraith *neu* drwydded i gipio da y neb a wnaeth gam âg un pa amser bynag y caffo hwynt o fewn ei derfynau ei hun.
Marine law—cyfraith fôr, cyfraith forol, cyfraith moryddiaeth.
Lynch law—cyfraith y pastwn; trechaf treisied.
Original law—cynddeddf, cynneddf, cynraith, deddf gyssefin.
Fundamental law—deddf hanfodol, cynraith, cynddeddf.
Doctor of Laws—Doethor Cyfreithiau.
Point of law—pwnc o gyfraith.
The knotty points of the law, } dyrys-
The intricate points of the law, } glymau cyfraith, cynghawog cyfraith, cynghawogion cyfraith, cynghafogion cyfraith, mân droion cyfraith.
Cause at law, } cynghaws, cynghawsedd,
Process at law, } gyr cyfreithiol; erlyniad; cyfraith.
Issue at law—cynghaws, cynghawsedd, cynghawsaeth.
Law pleadings—cynghawsaeth; dadlau, dadleuon, *neu* ddadleuadau cyfreithiol.

Law proceedings—erlyniadau, erlynadau, gyriadau, symmudiadau, cyffroadau, cychwyniadau, *neu* hwyliadau cyfraith; trefniad *neu* yriad hawl.

Parties at law—cynhemusion, pleidiau, dadleuwyr.

To go to law—ymgyfreithio; myned i gyfraith.

To go to law with one—ymgyfreithio *neu* gyfreithio âg un; myned i gyfreithio *neu* ymgyfreithio âg un; myned i *neu* i'r gyfraith âg un.

To be at law with one—bod yn cyfreithio *neu* ymgyfreithio âg un; bod mewn cyfraith âg un.

To take the law of, on, *or* against one—rhoi, rhoddi, gosod, bwrw, *neu* gymmeryd cyfraith ar un; rhoi *neu* roddi cyfraith i un.

To sue at law—cwyno ar; rhoi cwyn ar; cwyno yn erbyn; rhoi cwyn yn erbyn; rhoi *neu* ddodi cyfraith ar un; cychwyn *neu* gyffröi hawl yn erbyn un; rhoi cyfraith i un; ymgyfreithio âg un.

The rigour of the law—eithaf cyfraith, eithaf y gyfraith, y gas gyfraith, llymder y gyfraith.

To practise the law—cyfreithwra, cyfreithwrio, cyfreithyddu; dylyn y gyfraith; trin y gyfraith; ymröi i'r gyfraith.

To follow the law—cyfreithwra, cyfreithwrio; dylyn y gyfraith; astudio *neu* fyfyrio y gyfraith; ymröi i'r gyfraith; astudio *neu* fyfyrio yn y gyfraith; trin y gyfraith; erlid *neu* erlyn y gyfraith; ymerlid *neu* ymerlyn â'r gyfraith; ymgyfreithio.

Ever at law, } cyfreithgar.
Given to law, }

What is contrary to law—anghyfraith; peth croes i gyfraith.

A transgression of the law—anghyfraith, troseddo'r gyfraith.

A law that contradicts *or* opposes another—gwrthgyfraith, gwrthraith.

A contradictory law—gwrthgyfraith.

Without law—diddeddf, digyfraith, heb ddeddf, heb gyfraith.

Law language—iaith gyfreithiol, iaith y gyfraith.

Law-book—deddflyfr, llyfr cyfraith, llyfr y gyfraith.

Law days—dyddiau cyfraith; dyddiau llys, dyddiau hawl, dŵrnodau llys, llysddyddiau; dyddiau coll a chaffael; dyddiau ar y rhai y cynnelir cyfraith.

Barrister at law—dadleuwr cyfreithiol, dadleuwr o'r gyfraith, cynghawsydd, barofydd cyfreithiol, dadleuwr, cynghorwr o'r gyfraith.

To give laws to—rhoi deddf, deddfau, *neu* gyfreithiau i; gorchymyn pa beth a pha fodd y gwneir; meistroli ar; deddfroddi i.

Lawbreaker, *s.* torwr cyfraith, troseddwr cyfraith.

Lawful, *a.* cyfreithlawn; deddfol, cyfreithiol, cyfreithus; addwyn; rhydd (i'w wneuthur); lawn.

It is lawful—mae yn gyfreithlawn; mae yn rhydd; gellir.

Not lawful—anghyfreithlawn, anneddfol, anghyfreithiol; nid rhydd i'w wneuthur; nid rhydd ei wneuthur; gwaharddedig; anaddwyn.

It shall not be lawful—ni bydd gyfreithlawn; nis gellir, ni ellir; ni bydd rydd; nid rhydd.

To make lawful, } cyfreithloni, cyf-
To cause to be lawful, } reithioli; addwyno; gwneuthur yn addwyn *neu* gyfreithlawn; peri yn gyfreithlawn *neu* addwyn.

To make not lawful, } anaddwyno; anghyf-
To prove not lawful, } reithloni; gwneyd *neu* brofi yn anghyfreithlawn.

Lawfulness, *s.* cyfreithlondeb, cyfreithlonrwydd, cyfreithlonedd, cyfreithiolrwydd; addwynder; deddfoldeb.

Lawgiver, *s.* (*law* a *give*) deddfroddwr, deddfwr, deddfroddydd, gosodwr cyfraith, gosodydd cyfraith, rhoddwr cyfraith, gwneuthurwr cyfraith, rheithroddwr.

In a portion of the lawgiver—yn rhan y cyfreithwr (*Deut.* xxxiii. 21).

Lawgiving, *a.* deddfroddol; yn rhoddi, gosod, *neu* wneuthur cyfreithiau.

Lawing, *s.* pettrychiad, pettoriad; tori ewinedd a gwadnau traed cwn i'w rhwystro i redeg ar ol danas.

Lawless, *a.* digyfraith, diddeddf, anghyfraith, anneddfol, diraith; afreolus, aflywodraethus, penrydd; anghyfreithlawn, anghyfreithiol, anneddfol.

Lawless enemies—gelynion digyfraith.

A lawless person—un digyfraith; un yn byw heb gyfraith; herwr.

Lawlessly, *ad.* yn ddigyfraith, &c.; heb na chyfraith na threfn; heb na rheol na threfn.

Lawlessness, *s.* digyfreithedd, anghyfreithedd, afreolusrwydd, afreoledd; penrhydd-der.

Law-lore, *s.* rheithlenoriaeth, hen ddysg cyfreithiol.

Lawmaker, *s.* deddfroddwr, deddfwr, gwneuthurwr cyfraith, gosodwr cyfraith, gosodydd cyfraith, rhoddwr cyfraith.

Law-monger, *s.* cecryn y cyrtiau, crach-gyfreithiwr, coeg-gyfreithiwr, coegyn o gyfreithiwr, cynffon y gyfraith, cyfreithiwr ail law; cecryn cyfreithgar, cyfreithgarwr; crach- *neu* goeg- gyfreithiwr cynhengar.

Lawn, *s.* (C. *llan*; Ysp. *llano*) llawnt, llanerch, gwastadfaes, gweling.

Lawn, *s.* (Ff. *linon*; Ll. *linum*) bliant, sindal, llian main, meinwe.

Lawn, *a.* â wnaed o fliant.

Lawny, *a.* gwastad, fel llawnt; â wnaed o fliant.

Lawsuit, *s.* (*law* a *suit*) cwyn cyfraith, cynghaws, cyfraith, cwyn, hawl gyfreithiol, hawl, dadl.

Lawyer, *s.* (o *law*, malpai *lawer*) cyfreithiwr, cyfreithwr, gwr o gyfraith, gwr y gyfraith.

Lawyerlike, *a.* cyfreithwraidd, fel cyfreithiwr; fel cyfreithiwr mewn gwirionedd.

Lawyerly, *a.* cyfreithwrol, cyfreithiol.

Lax, *a.* (Ll. *laxus*) rhydd, llac, llaes, ysiac, llag, llibin, llipa, llymsi; annhyn, anghaeth, digaeth; anghryno, anghywraint, anghywrain; chwal; darymredol, pibreawl, â'r dolur rhydd arno, â rhyddni arno, bolrydd, piblyd.

Lax, *s.* rhyddni, rhyddglwyf, y bib, pibre, pibred, darymred, dolur rhydd.

Lax, † *s.* (S. *læx*) math o bysgodyn.

Laxation, *s.* (Ll. *laxatio*) rhyddhad, llacâd, ys-

lacâd, llaesiad, gollyngiad yn rhydd; rhyddder, rhydd-did, llacrwydd.

Laxative, *a.* (Ff. *laxatif;* o'r Ll. *laxo*) rhyddhaol, llacaol, bolegor, llaesedigol, dadrwymol.

Laxative, *s.* rhyddgyffer, rhyddgyffyr, cyffyr rhyddhaol; carthai, gogarthai.

Laxativeness, *s.* rhyddhaoldeb, rhyddhaolrwydd, llaesedigolrwydd.

Laxly, *ad.* yn rhydd, &c.

Laxity, } *s.* (Ll. *laxitas*) llacrwydd, ysla-
Laxness, } rwydd, llaesder, llaesedd; rhyddder, rhyddni; rhyddni bol, rhydd-der bol, bolryddni, pibre, darymred; llibindod, llibinrwydd; anghrynoder, anghrynodeb, digyssylltedd; llesgedd.

Lay, *v.* (S. *legan, lecgan;* Al. *legen*) gosod, dodi, gosodi, rhoddi, arddodi, llëu, cyflëu; sefydlu; bwrw, taflu; gostegu, tawelu, llaesu, gostwng; dâl, dala; dâl cyngwystl, cyngwystlo; dyfeisio; dodwy, dodwi.

To lay about—gosod, dodi, rhoi, *neu* fwrw o amgylch; gosod, dodi, rhoi, *neu* fwrw yn nghylch.

To lay about one—gwneuthur â'i holl egni; ymröi i wneuthur peth; gweithio â'i holl egni; gweithio yn ddïymarbed: dygaboli, curo, ffusto, maeddu, tresio.

To lay about one (in fighting)—taflu ei ddyrnau o amgylch; cyfranu ei ddyrnodiau o amgylch; amddyrnodio, amddyrnu; ymröi i ymladd *neu* ddyrnodio.

To lay about one (in eating) — ymröi i fwyta; bwyta ar frys ac yn wancus.

To lay abroad—gosod, dodi, rhoddi, rhoi, *neu* fwrw ar daen; gosod, dodi, rhoi, rhoddi, *neu* fwrw ar led; taenu ar led; taenu.

To lay against—gosod, dodi, rhoddi, *neu* fwrw yn erbyn.

To lay one's self against—ymosod yn erbyn; gosod ei hun yn erbyn.

To lay along—bwrw o'i hyd gyhyd; bwrw o'i hyd gyhyd; rhoi, bwrw, *neu* osod yn ei orwedd; rhoi, bwrw, *neu* osod yn ei hyd; bwrw i lawr yn hollol; dymchwelyd; taenu, gwasarnu.

To lay an ambush—cynllwyn, cynllwyno, cyfragod, gosod cynllwyn, rhagod.

To lay apart—gosod o'r neilltu; gosod ar wahan; gosod ar ei ben ei hun; rhoddi heibio, bwrw heibio, dodi heibio; dïosg oddi am dano; bwrw ymaith.

To lay aside—gosod o'r neilltu; gosod ar wahan; gosod ar ei ben ei hun; rhoddi heibio, bwrw heibio, dodi heibio, taflu heibio; bwrw o'r neilltu; gwrthod, llysu, neilltuoli; diddymu, dirymu, dirymio, dilëu, diswyddo.

To lay at—taraw, taro; cynnyg taraw, ceisio taraw, ymröi i daraw.

To lay asleep, } rhoi yn nghwsg; rhoi i
To lay to sleep, } gysgu; suo i gysgu; gosod i gysgu.

To lay away—rhoi i gadw; rhoi yn nghadw; gosod i gadw; gosod yn nghadw.

To lay a bait for—abwydo; rhoi abwyd ar fach i; llithio, hudo, denu.

To lay bare—noethi, dynoethi, dihatru, llymhau, moeli.

To lay before—gosod, dodi, dwyn, rhoddi, bwrw, *neu* daflu ger bron; gosod, dodi, dwyn, rhoddi, bwrw, *neu* daflu o flaen; darlunio o flaen; darlunio ger bron; arddangos, dangos.

To lay blame on—beio ar; bwrw bai ar; bwrw y bai ar; gosod y bai ar.

To lay a branch, } brigblanu, blaenblanu,
To lay a sucker, } brig-gladdu.

To lay by—gosod o'r neilltu; gosod ar wahan; gosod ar ei ben ei hun; rhoddi, bwrw, taflu, *neu* ddodi heibio; bwrw *neu* daflu o'r neilltu; rhoi yn nghadw; rhoi i gadw; gosod i gadw; gosod yn nghadw; rhoi heibio yn ei ymyl; diswyddo.

To lay a cable—plethu rhaff angor; cyfrodeddu ceinciau rhaff angor.

To lay to one's charge—rhoi, rhoddi, bwrw, gosod, *neu* daflu yn erbyn un; bwrw, taflu, *neu* osod ar un; edliw i un; edliwio i un; cyfedliw i un; lliwied i un; ymliw i un; dannod i un; cyhuddo un; cyhuddo un o; argyhoeddi un o; achwyn ar un; cwyno ar un; beio ar un; cyfrif i un; rhoi yn maich un.

To lay claim to—arddelwi, arddelw, arddel, hawlio, hawlu, holi, hôni hawl, hôni hawl i, rhoi hawl ar, gofyn, ceisio, ymaddelwi o, hôni o, hôni, mynu.

To lay the cloth—taenu y llian; hulio y llian; taenu y llian ar y bwrdd; rhoi y llian ar y fordd; hulio bwrdd; hulio y bwrdd; hwylio bwrdd; gosod y ford; gosod y llian bwyd.

To lay a complaint before the king—dwyn achwyn at y brenin; rhoi *neu* osod cwyn ger bron y brenin.

To lay corn—lladd yd, taro yd, lladd llafur, taro llafur; taflu yr yd i lawr; curo yr yd i lawr; rhoi *neu* fwrw yr yd yn ei orwedd; gwasarnu yr yd.

To lay a country desolate—gosod gwlad yn ddiffaethwch; gwneuthur gwlad yn anghyfannedd; gwneuthur gwlad yn anrhaith; gosod gwlad yn anrheithiedig; anrheithio, diffaethio, difrodi, *neu* anghyfanneddu gwlad.

To lay down—gosod, dodi, rhoi, rhoddi, bwrw, *neu* daflu i lawr; dodi *neu* roddi ar y llawr; dodi *neu* roddi ar lawr; rhoi, gosod, *neu* fwrw yn ei orwedd; bwrw i lawr yn ei hyd gyhyd; rhoi *neu* roddi i fyny; ymddïosg o; ymwrthod â; gadael i lawr; rhoi heibio; cynnyg.

To lay down arms—taflu, dodi, *neu* roddi arfau i lawr; rhoi heibio eu harfau; peidio â rhyfela.

To lay down the cudgels—rhoi i fyny yr ymdrech, y ddadl, *neu* y chwarae; peidio â'r ymdrech; cyfaddef cael o hono ei orchfygu; cyfaddef ei orchfygu; taflu ei arfau i lawr; ymröi, ymroddi, ymostwng; rhoi y chware i fyny.

To lay down one's life—rhoddi *neu* ddodi ei einioes i lawr; rhoddi *neu* ddodi ei einioes.

To lay one's self down, } gorwedd; rhoddi,
To lay one down, } rhoi, *neu* osod ei hun i lawr; gorphwys.

To lay down an office—rhoi i fyny ei swydd; rhoi ei swydd i fyny; ymadael â'i swydd; rhoi ei swydd heibio; ym-

ddïosg o'i swydd; bwrw ei swydd oddi wrtho; ymddiswyddo.

To lay the dust—gostwng y llwch; cadw y llwch i lawr; cadw y llwch rhag esgyn *neu* godi.

To lay eggs, } dodwy, dodwi.
To lay an egg, }

To lay even *or* level with the ground—gwneuthur yn gydwastad â'r llawr; gwneuthur yn un â'r llawr.

To lay exceptions against—bwrw *neu* ddodi yn erbyn; bwrw arhawl yn erbyn; penodi nam ar; llysu, gwrthod, gorsafu, eithro, bwrw ymaith.

To lay flat—rhoi yn ei orwedd; rhoi yn ei hyd gyhyd; bwrw *neu* dafiu i lawr; dymchwelyd, dadymchwelyd, dadymchwel; gwneuthur yn unwedd *neu* yn gydwastad â'r llawr.

To lay for an excuse—gosod, dodi, bwrw, *neu* gymmeryd yn lle esgus; gwneuthur lliw ac esgus o beth; cymmeryd yn esgus.

To lay forth a corpse=*Lay out a corpse.*

To lay a foundation—sylfaenu, seilio; gosod sail, &c.; sylu, goseilio, seiliannu.

To lay hands on—gosod dwylaw ar; dodi dwylaw ar; dodi llaw ar; rhoddi llaw ar; estyn llaw ar; arddodi llaw; bwrw dwylaw ar; dàl, dala; cymmeryd yn ei law; estyn llaw yn erbyn.

To lay violent hands on—lladd; gosod dwylaw trawsion ar; dodi dwylaw gorthrechol *neu* dreisiol ar; dwyn *neu* gymmeryd drwy drais; dwyn ymaith drwy drais; cipio, ysglyfaethu, treisio, anrheithio.

To lay violent hands on one's self—lladd ei hun.

To lay on heaps—gosod yn garneddau; tyru, pentyru, crugio, cruglwytho.

To lay hold of, } dàl, dala, daly, gafaelyd
To lay hold on, } yn, ymafiyd yn, ymafaelu yn, gafaelio yn, cydio yn; goddiweddyd, dyfod ar; cael craff *neu* afael ar.

To lay in—trysori, ystorio; rhoi i gadw; rhoi yn nghadw; gosod i gadw; gosod yn nghadw; dodi yn nghadw; rhaggddarparu, rhagbarotöi, rhagddarbod; rhoddi mewn.

To lay in for—cynnyg am, gwneyd cynnyg am; sicrhau meddiant o.

To lay in lavender—rhoi yn nghadw *neu* i gadw yn ofalus megys amguedd; rhoi *neu* ddodi i gadw yn barchus; rhoi yn ngwystl; rhoi ar wystl; dodi yn ngwystl; dodi ar wystl; gwystlo, prido.

To lay in pawn—rhoi yn ngwystl; dodi *neu* roddi ar wystl; gwystlo.

To lay in provisions—rhoi ymborth *neu* luniaeth i gadw erbyn yr amser i ddyfod; rhoi yr heiniar i gadw; parotöi bwyllwrw; gwneuthur rhagddarbod.

To lay the land—gostwng y tir; colli golwg ar y tir.

To lay low—gosod yn isel; gostwng; iselu.

To lay a net—gosod rhwyd.

To lay on—gosod ar, dodi ar, rhoi ar, bwrw ar; arddodi; taraw, curo; ymosod ar; ymröi yn egnïo.

To lay on blows thick and threefold—dyrnodio yn fân ac yn aml; dyrnodio yn faith ac yn aml; rhoi aml ddyrnodiau i un.

To lay one's self at a person's feet—bwrw *neu* dafiu ei hun wrth draed un.

To lay an oath on one—gofyn rhaith gàn un; rhoi un dàn lw; rhwymo â llw.

To lay open—agor, agoryd, egor, egori, dynoethi, amlygu, arnoethi, dadguddio, digelu, annirgelu, dïorchuddio; rhoi mewn golwg; rhoi mewn goleuni; dwyn i'r goleu, i'r goleuni, i'r golwg, *neu* i'r amlwg; gwneuthur yn amlwg; dangos ar gyhoedd; gwneuthur yn agored; cyhoeddi.

To lay in order—gosod, dodi, *neu* roi mewn trefn; gwneuthur trefn ar; trefnu, lluniaethu, dosbarthu, gosod; ysgafnu.

To lay over—taenu ar; taenu dros; ardaenu; taenu ar hyd.

To lay over with gold—goreuro, euro; gorthöi *neu* orchuddio âg aur; gwisgo âg aur; taenu aur dros beth.

To lay over the back—ffonodio, llachio, ffrewyllio, *neu* ffiangellu ar draws ei gefn.

To lay out—gosod allan; treulio, gwario, costio, talu; llunio, cynllunio, darlunio, tori allan, llinynio allan, llinellu allan; amcanu, bwriadu; ymröi, ymdrechu, ymegnïo; arddangos.

To lay out a corpse—trin corff marw; gwisgo corff marw; estyn corff allan; gosod dàn ei grwys.

To lay out of the way—rhoi *neu* ddodi heibio; rhoi *neu* ddodi allan o'r ffordd.

To lay out for a thing—ymröi, ymegnïo, *neu* ymdrechu i gyrhaedd peth; ymröi, ymegnïo, *neu* ymdrechu i ddyfod o hyd i beth.

To lay out for a man—uno *neu* ymuno âg ereill er dàl un; gwneuthur cynllwyn i ddàl un; hela *neu* olrhain un i'w ddàl.

To lay one's self out—ymröi, ymegnïo, ymdrechu.

To be laid out—myned allan; cael ei osod allan.

To lay a plot—llunio cydfrad, llunio bradfwriad, llunio brad.

To lay siege to, unto, *or* against—gwarchae yn erbyn; cynllwyn yn nghylch.

To lay snares—gosod maglau *neu* hoesynau; taenu rhwydau.

To lay at stake—rhoi ar lawr; rhoi yn wystl *neu* gyngwystl; rhoi *neu* osod mewn perygl; peryglu; rhoi *neu* fwrw ar ddamwaen; rhoi mewn perygl o'i golli.

To lay stakes with one—dàl cyngwystl âg un; dàl âg un.

To lay a spectre—darostwng ysbryd, ellyll, *neu* ddrychiolaeth; anfon *neu* yru i'r Môr Coch; anfon *neu* yru i'r pwll diwaelod.

To lay to, } rhoi, gosod, *neu* ddodi wrth;
To lay unto, } cyfrif i; bwrw ar, tafiu ar, gosod ar, rhoi ar; rhoddi, bwrw, gosod, *neu* dafiu yn erbyn; ymosod ar; cyssyllta wrth, cyssylltu at; gosod at, dodi at; cydio y naill beth wrth y llall; attal, rhwystro; peri i long orwedd wrthi.

To lay to heart—cymmeryd at ei galon; gosod at ei galon; ymofidio *neu* ymflinaw

o herwydd; ystyried, dwys deimlo; cymmeryd ynddo, cymmeryd ato.

To lay together—gosod, dodi, rhoi, bwrw, *neu* ddwyn yn nghyd; cywain i'r unman; cynnull, casglu; cyssylltu; cymmoni, cyfansoddi; cymharu.

To lay under—gostwng, darostwng, dwyn danodd; gosod, dodi, *neu* fwrw dan beth.

To lay unto=*To lay to.*

To lay up—rhoi, rhoddi, dodi, *neu* osod i gadw; rhoddi, rhoi, dodi, *neu* osod yn nghadw; ystorio, trysori; gosod i fyny; gosod; casglu trysor; rhoi yn nghudd; tyru, pentyru; rhoi yn gaeth *neu* yn orweiddiog; cadw, dàl, *neu* attal gartref; cadw rhag myned allan; cadw i mewn.

To lay up in store—rhoi i gadw *neu* yn nghadw erbyn yr amser â ddel, &c.; ystorio, trysori; cynnilo.

To lay up treasures—trysori trysorau.

To lay upon †—pwyso ar; bod yn daer ar; dirio, cymhell.

To lay a wager—dàl cyngwystl; dàl, dala.

To lay wait for—cynllwyn am, cynllwyno am; dysgwyl am, gwylio am.

To lay wait against—cynllwyn wrth.

To lay waste — anrheithio, diffaethio, anghyfanneddu, difrodi, difwyno; gwneuthur yn ddifrod *neu* anrhaith.

To be laid up in store—cael ei osod i gadw, &c.; bod yn nghadw; bod yn ystôr; bod yn ughudd.

Laying hen—iar ddodwyog; iar à ddodwyo; iar à fo yn dodwy.

Lay thy hand on thy breast—dod dy law ar dy fron.

Lay, *s.* haen, gwanaf, rhes, rhestr, taen, to, gwely, tedd; cyngwystl; †gradd, sefyllfa.

A lay of corn—seldrem o yd.

Lay, *s.* (S. *leag, leah*) gwyndwn, llaethdwn, tondir, tyndir, tir tòn, tòn, gwyndon, tir gwŷdd; gwaen, gweirglawdd, gwyrlawd, dôl.

Lay land=*Lay.*

Land in lay=*Lay.*

Lay, *s.* (S. *legh, ley, leoth;* Al. *lied*) cân, caniad, cathl, cywydd, cowydd, canu.

Lay, *a.* (Fr. *lai;* Ll. *laicus;* Gr. *laicos*) llëyg, lleygol, lleygiol; heb fod mewn urddau eglwysig.

Lay clerk—clochydd, ysgolor llëyg, atebydd llëyg, llenwas eglwys, gwr llëyg.

Lay preacher—pregethwr llëyg; pregethwr heb fod mewn urddau; pregethwr cynnorthwyol.

Layer, *s.* (o *lay, v.*) haen, gwanaf, rhes, rhestr, ystod, taen, to, gwely, tedd; claddbill, planbill, plan-frigyn, plan-gyff, claddgyff; iar ddodwyog, iar à ddodwyo, iar à fo yn dodwy, dodwyiar, dodwy-wraig.

Layerboard, } *s.* haenfwrdd, teddfwrdd; estyll
Learboard, } i gynnal cafnau plwm.

Layering, *s.* (o *layer*) claddbilliad, planbilliad.

Laying, *s.* haeniad, gwanafiad, caeniad; gosodiad, dodiad.

Layland, *s.* =*Lay.*

Layman, *s.* (*lay* a *man*) gwr llëyg, llëyg, gwr lleygol, lleygwr: *pl.* lleygion, gwŷr llëyg.

Laystall, *s.* (*lay* a *stall*) tomen, teilfa, tomle, crug o dail.

Lazar, *s.* (o *Lazarus, Luc* xvi. 20; Ysp. *lazaro*) clafryn; un heintus, clafrllyd, *neu* wahanglwyfus.

Lazaretto, } *s.* (Ysp. *lazareto;* It. *lazzeretto;*
Lazaret, } Ff. *lasaret;* oddi wrth *Lazarus*)
Lazar-house, } clafrdy, heintty, clafdy; ysbytty.

Lazarlike, } *a.* clafrllyd, clafraidd, gwahan-
Lazarly, } glwyfus; cornwydlyd, cornwydog.

Lazarwort, } *s.* (Ll. *laser* a *wort*) llasarwydd.
Laserwort, }

Laze, *v.* (o *lazy*) dïogi, ofera, mewyda, mewydo, mewyduso; byw yn ddïog.

Lazily, *ad.* (o *lazy*) yn ddïog, &c.

Laziness, *s.* (o *lazy*) dïogi, musgrelli, musgrellni, mewyd, mewydedd, mewydrwydd; segurdod, seguredd; llesgedd, syrthni; annybendod, hwyrdrymedd.

Lazing, *a.* dïog, musgrell, mewydus, mewydol, ofer, segur.

To lie lazing—llercyna, segura, ofera, chwareu y llercyn, chwareu y seguryn; gorwedd gàn ddïogi mewn seguryd.

Lazulite, } *s.* (Ar. *al azul?*) asurfaen, llasar-
Lapis Lazuli, } faen, glasarfaen, maen balasar, maen asur = math o ddelidfaen gwyrddlas neu nefliw.

Lazy, *a.* (Al. *laes, läsig;* C. *lleg*) dïog, musgrell, dïoglyd; swrth, llegach, llegus, mewydus, mewydol, mewydaidd, llyferthin, llesgenaidd, llesgeddain, llesg, merydd, llwfr, llwrf, anesgud, hwyrdrwm, anfywiog, llibin, trwm, trymaidd, dibryder.

A lazy fellow—dïogyn, musgrellyn, llegach, merydd, dïoberwr.

To grow lazy—dïogi, ymddïogi, mewyda, myned yn ddïog.

Lazzaroni, *s. pl.* (It. oddi wrth *Lazarus*) y bobl dlotaf yn Naples; tlodynos, rheidusion; gwehilion y werinos.

Lea, *s.* (S. *leag, leah*) gwyndwn, llaethdwn, tondir, tyndir, tir tòn, tòn, gwyndon, tir gwŷdd; gwaen, gweirglawdd, gwyrlawd, dôl.

Leach, *s.* = *Letch.*

Letch, *v.* = *Letch.*

Lead, *s.* (S. *læd*) plwm; plymen.

White lead—plwm gwŷn, gwynblwm.

Red lead—plwm coch, mwn coch.

Black lead — plwm du, dublwm, muchblwm.

Lead ore—mwn plwm, mwyn plwm.

Sugar of lead—plymsugr, sugr plwm, plymsur.

Lead colour—plymliw, lliw y plwm; dulas.

Lead ball—plymen, pelen blwm; plwm y morwyr i blymio dwfr.

Carbonate of lead—plwm gwŷn, gwynblwm.

Lead vessel—llestr plwm, llestr o blwm; plymen.

Leads—plymdo, to plwm; nen wastad wedi ei thoi â phlwm.

Deep-sea-lead—plymen ddyfnfor = plymen â chaen o wer o'i hamgylch, i godi graian o'r gwaelod.

To cover with lead—plymu; toi â phlwm.

A worker in lead—plymwr, plymiwr, gweithiwr plwm, gweithydd plwm, plymweithiwr.

Lead nails—hoelion plwm, hoelion clopa blwm.

Like lead, } plymaidd, plymlyd; trymaidd,
Lead-like, } trymhyrddig, pwl, hurt, dwl.

Lead, *v. a.* plymio; toi, gorthöi, *neu* orchuddio â phlwm.

Lead, *v.* (S. *lædan;* Al. *leiten*) arwain, tywys, tywyso, darwain, darweinio, arweddu â gyfarwyddo; tueddu; tynu; blaenori; myned o flaen; myned o'r blaen.

To lead about—arwain, dwyn, tywys, *neu* dywysaw o amgylch; amarwain; cylcharwain, amdywys, amdywyso; gwneuthur i un amgylchu ffordd.

To lead along—arwain, dwyn, *neu* dywys ar hyd y ffordd; arwain, dwyn, *neu* dywys yn mlaen; arwain.

To lead an army—arwain llu, tywys llu, arwain byddin; myned o flaen llu; bod yn ben *neu* flaenor ar lu.

To lead aside—dwyn, tywys, tywyso, *neu* dynu o'r neilltu; cildywys, cildywyso, camdywys; camarwain; twyllo, denu, *neu* hudo allan o'r ffordd.

To lead astray—camarwain, camdywys; arwain ar gyfeiliorn; tywys o'r ffordd; tynu ar ddidro.

To lead away—dwyn ymaith, arwain ymaith.

To lead back—arwain, tywys, *neu* ddwyn yn ol; gwrtharwain, attywys, attywyso, dattywyso, dattywys.

To lead before—rhagarwain, rhagdywys, rhagdywyso; arwain, tywys, *neu* dywysaw o'r blaen.

To lead captive — caethgludo; dwyn i gaethiwed.

To lead into captivity—caethgludo; dwyn i gaethiwed.

To lead a dance—arwain y dawns, blaenori y dawns, blaenu y dawns.

To lead one a dance—arwain *neu* dynu un drwy y dawns; amdywys *neu* gylcharwain un o amgylch ogylch.

To lead forth—arwain allan, arwain; gyru.

To lead gently—arwain yn dirion, &c.; coledd.

To lead in—tywys, dwyn, *neu* arwain i mewn; cywain i.

To lead a life, } byw, bucheddu, buch-
To lead one's life, } eddocâu, bucheddogi, ymfucheddu; ymwarweddu, ymarwedd; ymfydio; bydio; byw bywyd; arwain ei fywyd; treulio ei oes; oesi, hoedli.

To lead a quiet and peaceable life—byw yn llonydd ac yn heddychol.

He leads a good life—y mae efe yn arwain *neu* yn byw bywyd da; y mae efe yn bucheddu yn dda.

To lead one by the nose—arwain un gerfydd ei drwyn; gwneuthur â fyner âg un; gwneuthur i un wneuthur â fyno un.

To lead off, } blaenori; dechreu, cychwyn;
To lead out, } myned yn flaenaf.

To lead on—tywys, arwain, *neu* ddwyn yn mlaen; arwain; dyfod; tynu, denu, llithio, hudo.

To lead out of the way—arwain *neu* dywys allan o'r ffordd; camdywys, camdywyso, camarwain, cildywyso, cildywys.

To lead to, } arwain i; myned âg un i.
To lead unto, }

To lead the way—arwain ar y ffordd; arwain un ar y ffordd; myned o flaen; myned o'r blaen; dangos y ffordd; hyfforddio; blaenu, blaenori, rhacu, rhacio.

He will neither lead nor drive—nid â efe nac i'r rhyd nac i'r bont; ni chymmer efe na'i arwain na'i yru.

He leadeth counsellors away spoiled—efe sydd yn gwneuthur i gynghoriaid fyned yn aurhaith (*Iob* xii. 17).

Lead, *s.* blaen, blaenoriaeth, blaenafiaeth, arwain, tywys, arweiniad, tywysiad, traw; cyniant.

To take the lead—cymmeryd y blaen, cymmeryd y flaenoriaeth; rhagflaenori, blaenori, arwain, rhacu, rhagu, rhacio.

Lead (at cards)—y llaw henaf.

Leaded, *a.* (o *lead*, plwm) gwahanedig gân deneu lafnau plwm; plymog, plymedig; gofodlinog, plymlinellog.

Leaden, *a.* (o *lead*) â wnaed o blwm; plymaidd, plymlyd, plymog; trymaidd, trwm, dwl, hurt, swrth.

Leaden ball—pelen blwm, plymen.

Leaden-hearted—calon-blwm, plym-galon; â chanddo galon blwm; cuall, hurt, pendew; dideimlad.

Leaden-heeled — plym-sodlog; â chanddo sodlau plwm; araf, hwyrdrwm; araf ei gamrau.

Leaden-stepping—yn cerdded *neu* symmud yn araf; araf *neu* drymaidd ei gamrau.

Leader, *s.* arweinydd, arweiniwr, tywysydd, tywyswr, blaenor, blaenorwr, tywysog, arweiniawdwr, tywysor, arweinior, darweiniwr, bleiniad, hyfforddwr, cyfarwyddwr, cun, cuniad, cuniedydd, cornor, gwaladr, dragon, llyw; erthygl arweiniol, prif erthygl.

Chief leader—pendragon, pencun, pentywysydd, pentywysog, pentywyswr, prif arweinydd, prif ddarweiniwr.

Leaders and followers—blaeniaid ac oliaid, bleiniaid ac oliaid; arweinwyr a chanlynwr; blaenoriaid a dylyniaid.

Leader of a dance—arweinydd y dawns, blaenor y dawns, blaen y dawns; blaenor y dawnswyr; pendawnsiwr, pencorelwr; blaenor *neu* arweinydd chware.

Leader of the way—arweinydd ar y ffordd; hyfforddwr, hyfforddydd, cyfarwyddwr.

Leader of battle—cadflaenor, cadfridog, pen cad, aergun, cadgun, cadner.

Leader of a band—blaengeiniad, blaenor perorion, arweinydd seindorf.

Leader of a faction—corn y gynhen, blaenor terfysgblaid; cornor yr adlawiaid.

Leading, *a.* arweiniol, tywysol, arweinig, cyfarwyddol, hyfforddol, prif, penaf, pen-, blaenaf, blaen-; blaenorol; yn tywys, â dywyso, &c.

A leading man—blaenor, arweinydd, arweinydd, blaenorwr, gwr arbenig; un o'r blaenoriaid; un o arbenigion lle, gwlad, *neu* ddinas; pendefig, pendeddig; tywysog.

A powerful and leading people—pobl alluog a phendefigaidd; pobl alluog a thywysogaidd.

Leading wind — gwynt hwylus, gwynt rhwydd.

Leading, *s.* arweiniad, tywysiad, arweinid, hyfforddiad, cyfarwyddiad; dygiad.

Leading-note, *s.* nod arweiniol, arweinnod.

Leading-strings, *s. pl.* llinynau arwain, llin-

ynion arwain; llinynau i gynnal plant wrth ddechreu cerdded.

Leadman, † *s.* (*lead* a *man*) arweinydd *neu* flaenor y dawns.

Leads, *s. pl.* llinellau plwm, gofodlinau, plymlinellau, plymlinau, tydlinau; y plwm.

Lead's-man, *s.* (*lead*, plwm, a *man*) plymgodwr, codwr y blymen.

Leadwort, *s.* plymwydd.

Leady, *a.* (o *lead*) plymliw, plymliwiog, o liw y plwm; plymaidd; fel plwm, fel y plwm.

Leaf, *s.* (S. *leafe;* Is. *loof*) dalen, deilen, dâl: *pl.* dail, dalenau.

Mixed leaves—deiliach.

Bearing leaves—deiliog, deiliar, dalenog.

The fall of the leaf—cwymp, syrthiad, *neu* gwympad y dail; hydref, mesyryd, elfed, dyhewydd.

The falling of the leaves—cwymp, syrthiad, cwympiad *neu* ddisgyniad y dail; anneiliad.

To bring forth leaves, } deilio.
To shoot out leaves, }

The leaf of a goose—blonegen gŵydd, arffedog gŵydd.

The leaf of a swine—blonegen mochyn.

Gold leaf—eurddalen, eurddeilen, dalen aur; aur dalenog: *pl.* eurddail, eurddalenau, dalenau aur, dail aur.

To turn over a new leaf—troi dalen newydd; cymmeryd *neu* arwain buchedd newydd; byw buchedd *neu* fywyd newydd.

Leaf, *v. n.* deilio.

Leafage, *s.* deiliadaeth, deiliant, deiliogrwydd; digonedd *neu* gyflawnder o ddail.

Leaf-bridge, *s.* deilbont.

Leaf-bud, *s.* deilflagur, deilflaguryn.

Leaf-crowned, *a.* deil-goronog.

Leafed, *a.* deiliog, deiliar, dalenog.

Many-leafed — amryddail, amryddeiliog, amlddeiliog, amddeiliog, amlddalenog; âg aml ddail iddo *neu* arno.

Leafiness, *s.* deiliogrwydd, dalenogrwydd.

Leafing, *s.* deiliad, deiliawd, agoriad dail.

Leafless, *a.* anneiliog, diddail, diddalen; heb ddail iddo *neu* arno.

Leaflessness, *s.* anneiliogrwydd, diddeiliogrwydd.

Leaflet, *s.* deilen, dalenan, dalen fechan: *pl.* deilios.

Leaf-stalk, *s.* deilgoes, deilbed, deildroed; y goes y tyf y ddalen arni.

Leafy, *a* deiliog, deiliar, dalenog; âg aml ddail iddo *neu* arno.

League, *s.* (Ff. *ligue;* It. *lega;* Ll. *ligo*) cynghrair; cyfammod, cytundeb, cyfundeb, dygymmod; cyfaddawd.

To enter into a league, } cynghreirio, ymTo make a league, } gynghreirio, gwneuthur cynghrair; myned mewn cynghrair; ymgyfeillachu, ymgyfammodi.

To be in league with—bod mewn cynghrair â.

League, *v. n.* cynghreirio, ymgynghreirio, gwneuthur cynghrair; myned i gynghrair; cyfuno, ymgyfammodi, ymgyfeillach.

League, *s.* (o wraidd Celtig, yn ol *Webster;* C. *llech;* Gw. *leac;* Ll. *leuca;* It. *lega*) milltir Ffrengig, milltir Ffreinig, gwennod; 3 milltir.

Sea-league—milltir fôr, mor-wennod, gwennod fôr,=3 milltir ddaiaryddol, neu $\frac{1}{20}$ o radd, neu tua 3.45 o filltiroedd Seisonig.

German league—milltir yr Almaen=4 milltir ddaiaryddol.

French league—milltir Ffrengig.

Leaguer, *s.* cynghreiriwr, cynghreirydd, cynghreiriad; cyfammodwr, cyfammodydd.

Leaguer, *s.* (Is *beleggeren;* Al. *belagern*) gwarchae, gwarchâedigaeth.

Leak, *s.* (Is. *lek;* Al. *leck*) agen, hollt, dyferfa, dyfragen, dyferhollt; agen *neu* hollt yn gollwng dwfr trwodd.

To spring a leak—ymagenu, dyfragenu, dyferhollti, dyferagenu; dechreu gollwng dwfr i mewn; ymagor hyd oni redo y dwr i mewn *neu* allan; ymegori hyd oni ddarweinio y dwr i mewn; dechreu gollwng dwr.

To stop a leak, } diddosi llestr, cau dyfrTo stanch a leak, } agen; cau *neu* gyweirio agen; attal darwain; attal dyferlif *neu* ddyferlifiad dwr.

Leak, *v. n.* dyfergolli, dyferu, ymagenu, dyfragenu, dyfer-ollwng, gollwng dwr, colli dwr; gollwng i redeg allan drwy agen.

To leak out, } dyferlifo, dyferu, darTo leak through, } wain; rhedeg, sio, *neu* nawsio allan; rhedeg, sio, *neu* nawsio drwodd; hifflaid, dystyllio.

That does not leak—diddos.

Free from leaking—diddos.

Leak, † *a.* anniddos, dyferllyd, agenog.

Leakage, *s.* dyferiad, dyfrageniad; dyferfa, darweinfa; dyferdal; iawn am golled â geir drwy ddyferholltau.

Leaky, *a.* anniddos, dyferllyd, dyferog, agenog, dyfragenog; hyred; parod i ollwng allan.

Leam, *s.* (o'r Ff. *lien*) cynllyfan, llinyn arwain ci, llinyn ci.

Leamer, *s.* cynllyfangi; helgi baedd gwyllt= math o fytheuad.

Lean, *v.* (S. *hlinian;* Al. *lehnen*) gogwyddo, pwyso, gorphwys, gorphwyso, gobwyso, tueddu, ochri, ystlysu; bod â'i ogwydd; pwyso ar, troi at; plygu; † celu.

To lean on, } pwyso ar; bod â'i bwys ar;To lead upon, } rhoi *neu* fwrw ei bwys ar; gorphwys ar, gobwyso ar; rhoi ei goel, ei oglud, *neu* ei ymddiried ar; rhoi ei ymddiried yn *neu* mewn; ymddibynu ar; glynu *neu* ymgynnal wrth.

To lean against—pwyso ar; pwyso yn erbyn; rhoi *neu* fwrw ei bwys ar; bod â'i bwys ar; gorphwys ar *neu* wrth; pwyso yn erbyn.

To lean to, } pwyso, gogwyddo, tueddu,To lead unto, } ochri, *neu* ystlysu at; ymddiried i.

Lean, *a.* (S. *læne, hlæne*) cul, teneu, achul, truan, culwan, goachul, digig, dignawd; diffrwyth, anffrwythlawn; tlawd, gwael; irad, girad; esgyrn-llwm.

A lean person—gewai, gewach, culwas, ysbeilyn, (*f.* ysbeilen), cyhyraeth o ddyn, un cul.

Lean jades—meirch culweinion, ceffylau culweinion.

A lean and poor soil—tir tlawd, methedig, llwm, dignwd, didoraeth, *neu* newynllyd.

To be lean—bod yn gul, &c.; bod yn curio; curio.

To grow lean, } culhau, teneuo, curio,
To become lean, } truanu, truanhau; myned yn gul, &c.; meinhau, addfeinio.
To make lean, } teneuhau, teneuo,
To cause to be lean, } culhau; peri i un gulhau *neu* deneuo; gwneuthur *neu* beri yn gul *neu* deneuo; peri *neu* wneuthur i un gurio.
Leaning-stock—atteg, atteg-bawl, annel.
Lean-fleshed—cul o gig, teneu o gig; truan, cul, teneu.
As lean as a rake—dim ond y croen a'r esgyrn.
Lean meat=*Lean, s.*

Lean, *s.* cyhyrgig, cyhyryn, cig teneu, cig coch, cig cul, teneugig.

Leange, *s.* darn bath yn China, gwerth tua 6*s.* 6*c.*

Leanness, *s.* culni, culedd, culi, culder, culdra, teneuder, teneudra, teneurwydd, teneudeb, teneuedd, truanedd; tlodi; gwagder; llymder.

Leanto, *s.* (Ysp.) adail ã'i cheibr yn pwyso ar *neu* yn gogwyddo at adeilad arall.

Leany,† *a.* bywiog, heini, hoew, gwyliadwrus.

Leap, *v.* (S. *hleapan;* Is. *loopen*) neidio, llamu, llemain, llamsach, llamsachu, arlemain, hobelu, crychneidio, crychlamu, darneidio; rhoi naid i, marchogaeth, rhidio, cyfebru, toi; curo, crynu, ysboncio, tasgu.
To leap back, } adlamu, gwrthneidio;
To leap backwards, } neidio yn ol; neidio i'w wrthol; neidio yn ei wrthol.
To leap often—llemain, dylamu, dychlamu.
To leap for joy—neidio *neu* lamu gân lawenydd; neidio *neu* lamu o lawenydd.
To leap over—neidio dros, gorlamu, trosneidio.
Full of leaping, } llamasachus, neidgar,
Given to leaping, } llamgar.

Leap, *s.* naid, llam, darlam, crychnaid, crychlam, ysbonc, llwff, llamid; † crywyn pysgota, neidfa pysgod.
Flying leap—hedlam, hednaid.
Running leap—rhedlam, rhednaid, naid redegog, naid redegfa, naid redeg.
A great, prodigious, monstrous, *or* gigantic leap—cawrnaid, gorlam; carwnaid.
Leap by leap—llam dylam, lam dylam; bob yn llam; o fesur llam a llam.
By leaps—ar y naid; ar y llam; dân neidio *neu* lamu; o naid i naid; o lam i lam; bob yn llam; o fesur llam a llam.

Leaper, *s.* neidiwr, neidydd, llamwr, llamydd, llamsachwr, llamidydd.

Leap-frog, *s.* llamchware, neidchware.

Leap-Year, *s.* blwyddyn naid, y flwyddyn naid.

Learboard, } *s.* haenfwrdd, teddfwrdd; estyll
Layerboard, } i gynnal cafnau plwm.

Learn, *v.* (S. *leornian;* Al. *lernen*) dysgu; cymmeryd dysg, cymmeryd ei ddysg; deall; caffael; cael gwybod, mynu gwybod; gwybod.
Learn of me—dysgwch genyf.
Let him learn of me—dysged genyf.
Let them learn from us—dysgant oddi wrthym ni; dysgant genym; cymmerent nyni yn gynllun *neu* anghraifft.
I have learned a little Greek—dysgais ychydig Roeg.
I am not to learn—nid wyf fi i wybod.
Apt to learn—hyddysg; hawdd ganddo ddysgu; à gymmer ddysg yn hawdd.
Aptness to learn—hyddysgedd, hyddysgrwydd, natur hyddysg; parodrwydd i ddysgu; parodrwydd *neu* gymhwysder i gymmeryd dysg.
To learn superficially—goddysgu, lleddysgu; dysgu yn arwynebol.
Dull to learn, } hwyrddysg; hwyrfrydig i
Slow to learn, } ddysgu.
To learn before—rhagddysgu; rhagddeall.
To learn by heart—dysgu ar dafodleferydd; dysgu ar ei dafodleferydd; dysgu ar ei gof; dysgu ar dafod; dysgu ar ei dafod.
To learn together—dysgu yn nghyd, cydddysgu.
That learns not until he is old—hwyrddysg.
To be learned, } dysgadwy; à ellir
That may be learned, } ei ddysgu.
Not to be learned, } annysgadwy.
That may not be learned, }

Learned, *a.* dysgedig; llenog, llythyrenog; gwybodus, cyfarwydd, medrus; à wypo lên; athrylithiog.
A learned man—dyn dysgedig, gwr dysgedig, gwr o ddysg; ysgolâig; gwr llên, llenor, llenwr; dysgawdwr, dysgawdr; gwyddon: *pl.* dysgedigion, gwŷr dysgedig, dysgeidion.
The learned—y dysgedigion, y dysgeidion, y llenorion, y llenoriaid, y llenogion, y llenyddion, yr ysgoleigion, y gwybodolion.
Very learned, } tra dysgedig, gor-
Extremely learned, } ddysgedig, dysgedig iawn, dysgedig dros ben, trylen.
Not learned, } heb ganddo fawr ddysg;
Nothing learned, } heb fawr ddysg ganddo; annysgedig, anllythyrenog, aflenog; heb ganddo haiach o lên.
Thoroughly learned—trylen, tryddysgedig.

Learnedness, *s.* dysgedigrwydd, llenogrwydd; dysgeidiaeth.

Learner, *s.* dysgwr, dysgydd, dysgadur; un à fo yn dysgu; un yn dysgu; ysgolâig, dysgybl.
A learner of the alphabet—egwyddorig, dysgwr yr egwyddor.

Learning, *s.* dysg, dysgeidiaeth, ysgoleigdod, llên, llenoriaeth, llenyddiaeth, llenogaeth, llenaeth, lleoriaeth, dysgaeth.
Men of learning—gwŷr llên, gwŷr o ddysg, gwŷr dysgedig, dysgedigion, llenorion, llenogion.
Of learning, } llên, llenol, llen-
Belonging to learning, } yddol, llenorol; perthynol i lên *neu* ddysgeidiaeth; yn perthyn i ddysg *neu* ddysgeidiaeth.
Profound learning—ucheldysg, rhyddysg, tryddysg, dyfn-ddysg, dofn ddysgeidiaeth.
Classical learning—arddysg, arddysgeidiaeth, arlenoriaeth, arlenyddiaeth, dysgeidiaeth uchawdurol, llenoriaeth arddysgaid, &c.
Commonwealth of learning—y byd dysgedig, y byd llenorol, y byd llenyddol.
Want of learning—annysg, annysgeidiaeth, aflenogaeth, aflenoriaeth, diffyg dysg, gwall dysg.

A smatterer in learning—goathraw, coeg athraw, crachathraw, eilun ysgoliig, coeglenor, crachlenor, goddysgawdwr, dysgedigyn.
Half learning—goddysg, lled-ddysg, hanner dysg.

Leasable, *a.* (o *lease*) à ellir ei osod ar edring; edringadwy, gosodadwy.

Lease, *s.* (Ff. *laisser*) edring, dalysgrif, dalysgrifen, ammodrwym, gafaeleb, gafaelrwym, goresgyn, dring, ammodysgrif, prydles; ammod-weithred rhwng arglwydd a deiliad.
Lease for a term—edring am dymmor; gafaelrwym am derm.
Lease parole, } edring ar eiriau yn unig;
Verbal lease, } dalysgrif eiriawl.

Lease, *v. a.* gosod ar edring, &c.; rhentu dàn ammodrwym; rhoi *neu* ollwng allan ar ddalysgrif *neu* afaelrwym; gafaelrwymo, prydlesu, ammodrwymo, gosod, edringo; gosod dros amser penodol.

Lease,† *v. n.* (S. *lesan;* Al. *lesen*) lloffa.

Leasehold, *s.* (*lease* a *hold*) gafael rhwym, rhwymafael, daliad ar edring, gafael ar ammodrwym, gafael ysgrif, gafael edring, rhwymddaliad.

Leasehold, *a.* ar afael rhwym, ar ammodrwym; à ddelir ar edring; à ddelir wrth ddalysgrif; edringol, prydlesol.

Leaseholder, *s.* deiliad dàn edring, &c.; dalysgrifiad, (*pl.* dalysgrifiaid), rhwymddeiliad, edringai.

Leaser,† *s.* (gwel *Leasing*) celwyddwr, un celwyddog.

Leaser, *s.* lloffwr, casglwr.

Leash, *s.* (Ff. *laisse, lesse;* Is. *letse*) cynllyfan, llinyn arwain, carai arwain, llinyn tywyso, carai dywyso; rhwymyn, hoenyn, llinyn, carai, trawlinyn; tri, (*ƒ.* tair).
A leash of dogs—tri o gwn, tri chi.
A leash of greyhounds—tri o filgwn, tri milgi.
A leash of hares—tair o ysgyfarnogod, tair ysgyfarnog, tair o geinych.

Leash, *v. a.* cynllyfanu; arwain wrth linyn *neu* hoenyn; rhwymo, llinynu, hoenynu.
To leash dogs—cynllyfanu cwn; cydio cwn yn drioedd; cydio cwn bob yn dri; rhwymo cwn yn nghyd yn driocdd; rhwymo cwn yn nghyd bob yn dri; cyplu cwn.

Leashing, *s.* (S. *leasunge,* o *lease, leasa*) celwydd, celwyddau, geudeb, twyll.
To speak leasing—dywedyd celwydd.

Leasow,† *s.* (S. *læswe*) porfa, glaswellt, porfel.

Least, *a.* (eithafradd y S. *læs,* talfyredig o *læsest*) lleiaf; bychanaf, bychanicaf, bychdicaf; anamlaf.
The least—y lleiaf.
In the least—yn y lleiaf; yn y mesur lleiaf.
Not in the least—nid yn y mesur lleiaf; dim yn y mesur lleiaf; ddim yn y mesur lleiaf.
At least, } o leiaf, o'r lleiaf; o'r hyn
At the least, } lleiaf; anllai.
There is not the least difference between them—nid oes mo'r dim lleiaf o wahaniaeth rhyngddynt; nid oes mo'r gwahaniaeth lleiaf rhyngddynt; nid oes mymryn o wahaniaeth rhyngddynt; nid oes maint y mymryn o wahaniaeth rhyngddynt.
He will not give us the least assistance—ni rydd efe i ni ronyn o gymhorth; ni rydd efe i ni gymhorth yn y byd; ni rydd efe i ni mo'r cynnorthwy lleiaf.
I have not heard the least of him—ni chlywais i as am dano; ni chlywais i mo'r dim lleiaf am dano.
The least esteemed—y rhai lleiaf eu cyfrif; y rhai a gyfrifir leiaf; y rhai gwaelaf.
At leastwise†=*At least.*

Leasy,† *a.* gwlanenaidd, masw, llymsi, llipa, teneu.

Leat, *s.* (S. *læt*) pynfarch melin, dyfrffos melin, pynfarch, ffos, dyfrle.

Leather, *s.* (S. *lether;* Al. ac Is. *leder*) lledr; croen, cen.
A small piece of leather, } lledryn; dernyn
A slip of leather, } o ledr.
Upper leather (of a shoe, &c.)—lledr uchafed, lledr uchafedd.
Under leather, } lledr gwadnau.
Sole leather, }
He cutteth large thongs out of other folk's leather—hael Hywel o bwrs y wlad.
His shoes are made of running leather—y mae efe ar redeg yn wastad; y mae efe ar ei redeg yn wastad; nid oes byth orphwys iddo.

Leather, *a.* lledrin, o ledr; à wnaed o ledr; o groen.
Leather bag, } cod ledr, cwdr lledr, cod
Leathern bag, } groen, cwd croen, bolgan groen, bwlgan groen.
Leather girdle, } gwregys croen, gwregys
Leathern girdle, } o groen, gwregys lledrin.
Leather girth—cengl ledrin, cengl ledr, cengl o ledr.

Leather, *v. a.* llachio, dygaboli, golchi, rhoi coesfa i; ffrystio, dyfrysio.

Leathercoat, *s.* afal lledr-gen, afal croenwydn.

Leatherdresser, *s.* cyffeithiwr crwyn, cyweiriwr crwyn, cyweiriwr lledr, crwynwr.

Leather-jacket, *s.* lledrhugyn: *pl.* lledrhugod= pysg priodol i'r Môr Tawel.

Leather-mouthed, *a.* lledr-eneu, lledr-eneuog, geneu-ledr.
Leather-mouthed fish — pysg lledr-eneu; pysg â'u dannedd yn eu ceg.

Leathern, *a.* (o *leather*) lledrin, o ledr; à wnaed o ledr; o groen.

Leather-seller, *s.* lledrwr, gwerthwr lledr, gwerthydd lledr, lledrwerthwr, lledrwerthydd.

Leather-winged, *a.* lledr-adeiniog, lledr-adenog.

Leathery, *a.* lledraidd, fel lledr; gwydn fel lledr; gwydn.

Leave, *s.* (S. *læfan, lefan*) cenad, caniatâd, trwydded, rhyddid, rhydd-did, cynnwys, cenadiad, cynnwysiad, caniad, goddefiad, gad; ymadawiad, ymadeb.
To give leave—rhoi cenad, rhoi caniatâd, caniatâu, cenadu, ceniadu, cenatâu, caniadu, gadael, cynnwys.
To take leave of—canu yn iach i; cymmeryd ei genad oddi wrth; ymadael â; ymiachâu â.
To take leave of one another—ymiachâu â'u gilydd; ymgyfarch â'u gilydd; canu yn iach i'w gilydd; ymadael â'u gilydd.
I have leave—mae i mi genad; mae genyf genad; cefais genad; mae yn rhydd i mi; caniatëir i mi.

By your leave—gyda'ch cenad; trwy'ch cenad; trwy eich cenad; gydag eich cenad.

Without leave—heb genad, heb ganiatâd, yn ddigenad; yn anghyfarch; heb na chenad na chyfarch.

I have free leave given me—rhoddwyd i mi rwydd *neu* rydd genad; rhoddwyd i mi genad ddiwarafun.

If thou will grant leave—os caniatâi di, os caniatëi di, os caniedi, os cenadi; os rhoddi di genad.

Leave, *v.* gadael, gadaw, gadu, gado, gatâu, ymadael âg, ymadaw â; ymadael, ymadaw; peidio; peidio â; rhoddi i fyny; goddef; gadael i; gadael ar; gweddillio, gadaw yn ngweddill; maddeu.

To leave off—peidio â, gadael, gadael ymaith; peidio, dysbeidio, gorphwyso.

To leave out—gadael heibio, gadael allan; myned dros beth; eageuluso.

To leave by will—cymmynu; rhoi *neu* adael mewn gwyllys; gwyllysio, gwyllysgedu.

To leave one's old habit—gado ei arfer; newidio ei arfer; peidio â'i arfer.

Leave that to me—gedwch, gadwch, gadëwch, rhoddwch, *neu* fwriwch hyny arnaf fi.

Leave your railing—paid â'th ddifenwi.

Leave weeping, Leave your weeping, Leave thy weeping, } paid âg wylo; paid â'th wylo; gad dy wylo.

What they leave the beasts of the field shall eat—bwytäed bwystfilod y maes eu gweddill hwynt (*Ecs.* xxiii. 11).

Leave, † *v. a.* (Ff. *lever*) codi, cyfodi, cynnwyre.

Leaved, *a.* (o *leaf*) deiliog, deiliar, dalenog; âg iddo ddail *neu* ddalenau.

Broad-leaved--llydanddail; llydan ei ddail; â dail llydain iddo *neu* arno.

Narrow-leaved—culddail; cul ei ddail; cul ei ddalen; â dail culion iddo *neu* arno.

Many-leaved—amryddail, amryddeiliog, amlddeiliog, amddeiliog, amlddalenog; âg aml ddail iddo *neu* arno.

Two-leaved--dwyddeiliog, dwyddalenog.

Leaveless, *a.* diddail, anneiliog, annalenog; heb ddail iddo *neu* arno.

Leaven, *s.* (Ff. *levain*) surdoes, eples, heples, llefain, lefain.

Leaven, *v. a.* eplesu, heplesu, surdoesi, llefeinio, lefeinio; trwytho; codi.

Leavened, *p. p.* eplesedig, heplesedig, surdoesedig, llefeiniedig; surdoesog, eplesog, heplesog, llefeiniog, llefeinllyd, lefeinllyd.

Leavening, *s.* eplesiad, heplesiad, surdoesiad; peth â eplesa; eplesydd; surdoes, eples.

Leavenous, *a.* surdoesog, eplesog, heplesog, surdoesyd, llefeiniog, llefeinllyd.

Leaver, *s.* (o *leave*) gadawydd, gadwr, gadydd, gadâwr, ymadawydd, ymwrthodwr, gwrthodydd.

Leaves, *s. pl.* (lluosog o *leaf*) dail, dalenau, deilion.

Mixed leaves—deiliach, dail cymmysg.

Exterior leaves—gorddail, dail allanol, dail neasf allan.

Bearing leaves—deiliog, deiliar, dalenog.

Tender leaves—addail, dail tyner.

Two leaves of a door—dwy ddalen drws; dwy ddor drws.

Two turning leaves—dwy ddor blygedig (*Esec.* xli. 24).

Park-leaves—creulys benddiged, creflys benddiged, dail y benddiged, dail penddiged, dail y twrch, llysiau perfigedd.

Leaviness, *s.* deiliogrwydd, dalenogrwydd.

Leaving, *s.* gweddill, gwarged, sarid.

Leavings, *s. pl.* gweddillion, gwargedion, olion; adborion; sarid, rhelyw.

Leavy, *a.* (o *leave*)=*Leafy.*

Leck, † *v. a.*=*Lick.*

Lecher, *s.* (It. *lecco*; Al. *lecken*) anlladwr, anlladwas, anlladfab, trythyllfab, trythyllwas, trythyllwr, hocrellwr, hocrellydd, gwrageddwr, merchetwr, gordderchwr, anlladyn; puteiniwr, godinebwr, llodinebwr.

To play the lecher=*Lecher, v. n.*

Lecher, *v. n.* gordderchu, bod yn anllad, bod yn drythyll, chwareu yr anlladwr, anlladu, trythyllu, rhewyddu, gwrageddu, merchetа, dyrain, puteinio, godinebu, llodinebu.

Lecherous, *a.* anllad, trythyll, tranwyfus, anlladus, rhewyddus, rhewydd, rhewys, cnawdwyllt, godinebus, llodinebus, anniwair, serth, chwantus; â dyre *neu* desach arno; à bair ddyre *neu* desach; à bair un yn anllad; rhewyddol.

Lecherousness, *s.* anlladrwydd, trythyllwch, trythyllwg, chwant, dyre, rhewyddusrwydd, rhewysrwydd, gornwyfiant, serthedd.

Lechery, *s.* anlladrwydd, anlladedd, trythyllwch, trythyllwg, dyre, tesach, chwant, dyrain, rhewydd, rhewyddusrwydd, tranwyfiant, trachwant, gwŷn cnawdol, chwant y cnawd, godineb, llodineb, anniweirdeb, serthedd.

Lectern, } *s.* (Ff. *lutrin*; Ll. *lego, lectum*) dar-**Lettern**, } llenfa, darllensaf, darllenfwrdd, dalfwrdd=math ar astyllen ledbai neu lethrog i ddal llyfr tra darllener ef.

Lection, *s.* (Ll. *lectio*) darllen, darlleniad, darllead, darlleawd, darllenawd, lleawd, darllëedigaeth; llith.

Lectionary, *s.* (o'r Ll. *lectio*) darlleniadur, llyfr llithiau, llithlyfr.

Lector, *s.* (Ll.) darllenydd, darllenwr, darlleor, darlleawdr, darllëwr.

Lecture, *s.* (Ff.; Ll. *lectura*) darlith, llith; darlleniad, darllead, darlleawd; gwers; pregeth; adroddiad; sen, cerydd: *pl.* darlithiau.

Curtain lecture—darlith y cortyn; darlith y groglen; llenlith; ymremial *neu* ymserth gwraig â'i gwr yn y gwely.

To read *or* give one a lecture—rhoi gwers i un; rhoi darlith i un; rhoi sen i un; ceryddu un, dwrdio un.

Lecture, *v.* darlithio, llithio, gwersu, gwersio, darllen, darlleain, darllenu, darllëu, llëu; pregethu; rhoi gwers *neu* bregeth i; darllen llith i; dwrdio, ceryddu, senu.

Lecturer, *s.* darlithwr, darlithiwr, darlithydd, llithwr, darlleawdr, darllenwr, darllenydd, lleadur, darlleor, darllëydd, darllëwr, lleawdr, lleor; gwerswr; pregethwr.

Lectureship, *s.* llithwriaeth, darlithwriaeth, darlithiaeth, lleaduriaeth, darlleodraeth, darllenyddiaeth, darllenedigaeth, gwerswriaeth.

Lecturn, † *s.*=*Lectern, Lettern.*

Led-captain, *s.* ufydd was; un à arweinier lle y mynir; un à dywyser gerfydd ei drwyn.

Leden, † *s.* (S. *lyden*) iaith; gwir ystyr, iawn ystyr.

Ledge, *s.* (S. *leger*) haen, gwanaf, taen, rhes, rhestr, tedd, to; trum, trumen, cefnen, cegair, tap, cripell, crimell, grân; ysgaffell, ymyl, cilffed, ymylfa, asel; ystanc, ystencyn; dellten, peithynen, gorysgwydd, ysgwyddfa; cleddyf, oleddeu; creigres.

The ledge of a cliff—asel rhiw, ffrin, ffring; grân.

Ledgement, } *s.* taeniad, haeniad, gwanafiant;
Liggement, } ysgaffell, cilffed, ymyl.

Ledger, *s.* (S. *leger*) gorsaflyfr, gorlyfr, argyfriflyfr, prif gyfriflyfr; gorsafiech; gorsafydd; peth anhyfud *neu* orsafol; cleddyf, oleddeu, ystanc.

Ledger, } *s.* gorsafiech; ystanc, cleddyf, cleddLigger, } eu = pren croes âg un pen iddo yn y mur, i ddâl esgynlawr.

Ledger-line, *s.* atlin, atlinell, chwaneglin, llinell chwanegol, gorlinell.

Led-horse, *s.* march anrhydedd, march preswyl, gweinidfarch, gweinifarch, gweinyddfarch, march bidwoseb.

Lee, *s.* (Ff. *lie*) gwaddod, gwaelodion, llwrwg, rhwtws, ffles.

Lee, *s.* (Sw. *lä*; D. *læ*) tu y gwynt; y tu cyferbyn â'r gwynt; y tu cyfeiryd â'r gwynt, y tu cyfarwyneb â'r gwynt; yr ochr gyferbyn â'r gwynt; à fo ar gyfer *neu* yn wyneb y gwynt.

Helm a-lee, } tro y llyw gyda'r gwynt;
A-lee the helm, } trowch y llyw gyda'r gwynt.

Under the lee—dân y gwynt; yn nghysgod *neu* waagod y gwynt.

Under the lee of the land—dân gysgod *neu* wasgod y tir; yn nghysgod y lân à dyr rym y gwynt.

To be under the lee of a shore—bod *neu* orwedd dân y gwynt; bod *neu* orwedd yn nghlais y lân; bod *neu* orwedd yn ngwasgod y lân; bod *neu* orwedd yn nghysgod y tir.

Under the lee of a ship—ar yr ochr gyferbyn â'r gwynt i long; yn nghysgod y gwynt.

A tide under the lee—anghydred llif a gwynt; anghydred dwr a gwynt; morlif yn rhedeg yn groes *neu* wrthwyneb i'r gwynt; ffrwd yn rhedeg yn erbyn y gwynt.

To come off by the lee—bod yn afiwyddiannus mewn gorchwyl; bod ar ei golled oddi wrth orchwyl; cael y gwaethaf; cael y rhan waethaf; ymdaro yn ddrwg; ymdaro yn wân.

Lee,† *v. n.* gorwedd.

Lee-board, *s.* gwyntfwrdd.

Leech,† *s.* (S. *læc*; D. *lâege*, *læger*) meddyg.

Cow-leech—buchfeddyg, biwfeddyg, bufeddyg, meddyg gwartheg.

Leech, *s.* (S. *læccan*) gele, gel, gelen, geloden, geleu.

Horse-leech—gelen bendoll, gel bendoll, gele y meirch, gel y meirch, gelen y meirch, geloden y meirch; marchfeddyg.

Leech, *v. a.* gosod gelod wrth, gelodi; iachâu, meddyginiaethu.

Leech, *s.* ymyl hwyl, godre hwyl, ymylan hwyl.

Leech-craft,† *s.* celfyddyd meddyg, meddyginiaeth.

Leechee, } *s.* math o ffrwyth Cataiaidd.
Litchi, }

Leech-line, *s.* ymyl-linyn, ymylgord.

Leech-rope, *s.* ymylraff.

Leef, †*a.* (S. *leof*; Al. *lieb*) anwyl, hoff, caredig, carnaidd; gwyllysgar.

Lee-gage, *s.* mwy pellder nag y bo llong arall o fon y gwynt; mwy pellder oddi wrth y gwynt.

Leek, *s.* (S. *leac*; Al. *lauch*) ceninen; *pl.* cenin.

Leek-pottage, } cawl cenin, potes cenin.
Leek-porridge, }

Leek-green—lliw y geninen; gwyrddlas.

Lee-lurch, *s.* treigl disymmwth llong oddi wrth y gwynt ar fôr tymhestlog; treigl cyferwyntol.

Lee-shore, *s.* glân y môr à fo yn mon y gwynt; glân nas deuir ati gân y gwynt; glân à fo dân ergyd y gwynt; glân à fo allan o ergyd y gwynt.

Lee-side, *s.* y tu cyferbyn â'r gwynt; yr ochr gyferbyn â'r gwynt; y tu pellaf oddi wrth y gwynt; yr ochr bellaf oddi wrth y gwynt; y tu pellaf o fon y gwynt.

Lee-tide, *s.* morlif yn rhedeg yr un ffordd a'r gwynt; cydred llif a gwynt; cydred dwr a gwynt.

Leer, *v.* (Is. *gluuren*, *begluuren*; *S. kleare*) cildremio, cildremu, cilolygu, ciledrych, cilwenu, aeldremio, gogernu; edrych â chil y llygad; edrych â chil ei lygad; tafiu cilolwg, tafiu cilwen, tafiu cilolwg ar; tafiu cil y llygad; edrych yn flysig â chil y llygad; edrych yn gilwenus; cildremio ar, cilwenu ar.

To leer on, } cildremio ar, ciledrych ar,
To leer at, } cilwenu ar; edrych â chil y llygad ar, &c.

Leer, *s.* cildrem, cilolwg, cilwen, ciledrych, ciledrychiad, golwg gilwenus, aeldrem, gogern; edrychiad *neu* olwg â chil y llygad; tarawiad cil y llygad ar beth; blys- *neu* nwyf-olwg â chil y llygad; blysig *neu* nwyfus gilolwg; golwg *neu* edrychfa drythyll gilwenus; †boch; †hoen; †gwyneb.

An amorous leer—cilwen nwyfus, sercholwg gilwenus.

Leer, † *a.* (S. *gelær*) gwag; dibwys, ofer.

Leering, *p.* yn cilwenu, dân gilwenu, gân gilwenu, &c.; cilwenus, cilwenog.

Leeringly, *ad.* yn gilwenus, yn gilwenog, dân gilwenu; dân wneuthur cilwen; dân droi cil ei lygad; dân edrych â chil ei lygad; dân droi cil ei lygad yn flysig ar un.

Lees, *s. pl.* (o *lee*) gwaddod, gwaddodion, gwaelodion, llorion, rhytion, rhwtion, rhwtws, llwrwg, ffles, sorod.

Leese,† *v. a.* = *Lose.*

Leese,† *v. a.* (Ll. *læsus*) niweidio, dolurio.

Leet, *s.* (S. *leod*; Al. *leute*) cynnullfa, cymmanfa, dygynnull, cydfa; pentrefiys, llys pentrefol, cantrefiys; llys, llysddydd, dydd llys, dydd hawl.

Court-leet—pentrefiys, llys pentrefol, llysfawr, cantrefiys, llys cantref.

Leet-ale—gwledd bentrefiys.

Leeward, *a.* (*lee* a *ward*) cyferbyn â'r gwynt; cyfarwyneb â'r gwynt; perthynol i'r parth y bo y gwynt yn chwythu tuag ato; cyferwyntol; à fo ar gyfer y gwynt; cyfer y gwynt.

Leeward tide = *Lee-tide.*

Leeward Islands—yr Ynysoedd Cyferwynt-ol; yr Ynysoedd dàn y Gwynt.

Leeward, *ad.* tua'r gwynt; gyferbyn â'r gwynt; ar gyfer y gwynt; yn nghyferyd y gwynt; yn gyfarwyneb â'r gwynt; oddi wrth y gwynt.

To fall to leeward—cilio, gwyro, gogwyddo, troi, *neu* ledbeiaw oddi wrth y gwynt; cefnu ar y gwynt; gochel y gwynt.

Leeway, *s.* cyfeiriad *neu* fynediad llong lwrw ei hochr gyda'r gwynt; cyfeiriad ochrol o flaen y gwynt; ffordd y gwynt.

Left, *a.* (Ll. *lævus*) aswy, chwith, chwithig, asw.

Left hand—llaw aswy, llaw chwith, llaw asw, cleddlaw, cledd; tu aswy, ochr aswy, ochr chwith.

On the left hand—ar y llaw aswy; ar y llaw chwith; ar yr aswy.

On the chancellor's left hand — ar law aswy y canghellydd; ar gledd y canghellor.

Left side—ochr aswy, ochr chwith, ystlys aswy, ystlys chwith; tu aswy, tu chwith.

On the left side—ar yr ystlys *neu* yr ochr aswy; ar y tu aswy.

The left bank of a river—glàn *neu* geulan aswy afon; ochr chwith afon=y làn ar law aswy dyn â fo yn sefyll â'i wyneb gyda rhediad y ffrwd neu tua'r aber.

Left, *p.p.* (*oleave*) gadawedig, àadàwyd, àadwyd, wedi ei adael, &c.; yn ngweddill, ar ol; wedi ei adael yn ol *neu* yn ngweddill; à adàwyd yn ol *neu* yn ngweddill.

This is all that is left—dyma i gyd sydd yn ngweddill.

There is but little of it left—nid oes yn ol ond ychydig o hono; nid oes ond ychydig o hono yn ngweddill.

What is left—y gweddill, gweddill, gwarged; yr hyn sydd yn ol *neu* ar ol.

There is left—y mae yn ol; mae ar ol; mae dros ben; mae yn ngweddill.

Left destitute — amddifad, ymddifad, digarad; gwedi ei adaw; à adàwyd yn unig *neu* amddifad, &c.

The thing is as you left it—mae y peth fel y gadawsoch ef.

Neither is there breath left in me—ac nid arhôdd ffun ynof (*Dan.* x. 17).

So that two of them were not left together—fel na thrigodd o honynt ddau yn nghyd (1 *Sam.* xi. 11).

Neither shall the sacrifice of the feast of the passover be left unto the morning—ac nac arhôed aberth gŵyl y Pasc dros nos hyd y bore (*Ecs.* xxxiv. 25).

Left-handed, *a.* llawchwith, llawchwithig, dyrnchwith, cleddlawiog; chwithig, anneheuig, anneheu, aswy, chwith.

A left-handed person—dyn llawchwith, &c.; cleiddiad, (*pl.* cleiddiaid).

Left-handedness, *s.* llawchwithrwydd, llawchwithder, llawchwithigrwydd, cleddlawiogrwydd; arfer y llaw aswy.

Left-handiness, *s.* llawchwithrwydd, trysgledd, trwstaneiddwch, trwstanwch.

Leg, *s.* (D. *læg;* It. *lacca*) coes, esgair, llorp, gomach, bèr, hegl, ffod; clun; troed; coesgyn.

The small of the leg—main, meinedd, *neu* feinder coes; main, meinedd, *neu* feinder y goes; meilwn, deilw; egwyd, egwydled, egwydle.

The lock of the leg—meilwn, deilw.

A little leg—coesan, coesig, llorpyn, coes fechan; bèr.

A lame leg, A limping leg, } heri, coes gloff.

Wooden leg—coes bren.

Leg bone—ysberygl, asgwrn y goes, coesgyn.

The leg of a stool—troed ystol, coes ystol.

Leg of mutton—morddwyd mollt, morddwyd myharan, coesgyn mollt, coesgyn myharen, clun myharan, clun mollt, clun dafad; aelod ol maharan.

Having long legs—hirgoes, coeshir, hirheglog; â choesau hirion iddo; hir ei goesau; garanhir, garhir, garanog.

Having short legs—coesfyr, (*f.* coesfer), byrgoes, berfyr, byrheglog; â choesau *neu* ferau byrion iddo; byr ei goesau.

Having large legs—coesfawr, coesbraff; â choesau mawrion iddo; â choesau preiffion iddo; heglog, esgeiriog, llorpog, ffodog.

Having slender legs — coesfain, berfain; â choesau *neu* ferau meinion iddo.

Having white legs—coeswyn: *f.* coeswen: *pl.* coeswynion.

To make a leg—ymgrymu, plygu.

To stand on one's own legs—sefyll ar ei draed ei hun.

Legacy, *s.* (Ysp. *legado;* Ll. *legatum*) cymmyn, cymmynrodd, gwyllysgeg, gwyllysrodd, rhodd ewyllys, rhodd gwyllys, rhodd mewn ewyllys, cymmyneg.

Legacy-hunter—cymmyn-geisiwr.

To leave one a legacy—rhoddi *neu* adael i un beth drwy lythyr cymmyn; rhoi *neu* adael i un beth yn ei ewyllys; cymmynu peth i un.

Legal, *a.* (Ff.; Ll. *legalis*) cyfreithiol, deddfol, cyfreithlawn, cyfreithus; perthynol i gyfraith *neu* ddeddf; yn perthyn i ddeddf *neu* gyfraith.

Legal process—gyr cyfreithiol; erlyniad, cynghaws, cynghawsedd.

Legal witness—tyst addwyn, tyst cyfreithiol.

To prove *or* show one to be no legal witness—anaddwyno un; profi un yn dyst anghyfreithiol.

Legality, *s.* cyfreithlondeb, cyfreithlonrwydd, cyfreithlonedd, cyfreithiolrwydd, cyfreithioldeb, deddfoldeb, deddfolder, deddfolrwydd.

Legality (in theology)—deddfoldeb.

Legalize, *v. a.* cyfreithloni, cyfreithioli, deddfoli; addwyno; gwneuthur yn gyfreithlawn; awdurdodi.

Legally, *ad.* yn gyfreithiol, &c.; yn ol y gyfraith; yn ol y ddeddf.

Legate, *s.* (Ll. *legatus;* Ff. *légat*) cenadwr y Pab, cenad y Pab; cenad, cenadwr, arnegesydd, llysgenadwr.

Legatee, } *s.* (Ll. *legatarius;* Ff. *légataire*) cym-
Legatary, } mynai, gwyllysgedai, gwyllysroddai, derbyniwr cymmynrodd; un à gaffo beth drwy lythyr cymmyn; y neb y gader peth iddo mewn ewyllys.

Legateship, *s.* cenadwriaeth, cenadwri, cenadaeth, arnegesiaeth; swydd *neu* swyddogaeth cenad y Pab.

Legatine, *a.* (o *legate*) cenadwrol, cenadol, llysgenadol; perthynol i genad; yn perthyn i genadwr; â wnaed gàn genadwr.

Legation, *s.* (Ll. *legatio*) cenadwriaeth, cenadwri, cenadaeth, cenadiaeth, arnegesiaeth, cenadogaeth.

The divine legation of Moses — dwyfol genadwri Moses.

Legato, *s.* (It.) llegryn, llegr, creffyn, craff.

Legator, *s.* (Ll.) cymmynwr, cymmynydd, gwyllysgedwr, gwyllysgedydd, gwyllysroddwr.

Legatura, } *s.* (It. *legatura*) rhwymyn, cyfrwym,
Legature, } ffasnod; gyrnodau.

Lege,† *v. a.* hòni, haeru.

Legend, *s.* (Ll. *legenda*) llithlyfr, llyfr y llithiau; ffuglith, ffuglyfr; chwedl, hen chwedl, ffugchwedl, coegchwedl, oferchwedl, dychymyg; ffugdraith, ffughanes; seintlyfr, bucheddlith, eurlith; llyfr bucheddau y saint (yn Eglwys Rhufain); darlleniad, y darlleniad (ar arian bath), arysgrifen, aryagrif, argraff, cylchysgrif.

The Golden Legend—yr Eurlith, y Llith Euraid, y Seintlyfr Aur; Traethawd y Celwyddau.

Legend, *v. a.* chwedlu, ffuglithio, adrodd chwedlau, ffugdraethu, ffugdreithu.

Legendary, *a.* ffugiol, ffuglawn, ffuglithiol, ffuglithiog, celwyddog, chwedlaidd, chwedlog, llawn chwedlau, dychymygol, disail, ffughanesol; dyeithr, hynod.

Legendary, *s.* llyfr ffuglithiau, llyfr ffugion, llyfr chwedlau, ffuglyfr; adroddwr chwedlau, chwedlydd, ffughanesydd.

Leger, *s.* (S.; Is. *leggen*) unrhyw beth anhyfud *neu* orsafol; gorsafydd, gorsaflyfr.

Leger book—gorsaflyfr, gorlyfr, gorsafydd, argyfriflyfr, prif gyfriflyfr.

Leger-line, *s.*=*Ledger-line.*

Legerdemain, *s.* (Ff. *léger* a *de main*) hudgastiau, cynnildeb llaw, cyfrwyddyd llaw, castiau llaw ysgafn, hud, lledrith, hud a lledrith, hudoliaeth, chwidogaeth, hudolawl gelfyddyd, celfyddyd hudoliaeth, hoced, rhodreswaith, chwidogwaith.

Legerity,† *s.* (Ff. *légèreté*) ysgafnder, esgudrwydd.

Legge, † *v. a.* (S. *leegan*) gosod, dodi.

Legged, *a.* (o *leg*) coesog, esgeiriog, berog, heglog, llorpog, ffodog; â choesau iddo *neu* iddi; â choesau ganddo *neu* ganddi: arferedig mewn cyfansoddiad.

Long-legged—hirgoes, coeshir, hirheglog, hirgoesog; â choesau hirion iddo; hir ei goesau; garanhir, garhir, garanog.

Long-legged spider—hirheglyn.

Short-legged—coesfyr, (*f.* coesfer), byrgoes, berfyr, byrheglog; â choesau *neu* ferau byrion iddo; byr ei goesau.

Bow-legged, } coesgam, gargam, bergam,
Wry-legged, } gafl-gam, bongam, troettraws, troedgam, bawdgam.

Bandy-legged—coesgam, gargam, bergam.

Slender-legged—coesfain, berfain; â choesau *neu* ferau meinion iddo.

White-legged—coeswyn; *f.* coeswen.

Bare-legged—coesnoeth, esgeirnoeth, llymgoes, llymgoesog.

Strong-legged—coesgryf, (*f.* coesgref); â choesau cryfion iddo.

Thick-legged — coesfawr, coesbraff; â choesau mawrion iddo; â choesau preiffion iddo; heglog, esgeiriog, llorpog, ffodog.

See there a thick-legged runt—dyna bwtan ffodog.

Three-legged stool—ystol drithroed, ystol driffod.

Two-legged—dwygoes, dwygoesog.

Legged (in heraldry)—coesog, â'i goesau o liw gwahanol.

Leggers, *s. pl.* coeswyr, coesyddion=y rhai a weithiant fadau drwy geuffyrdd ar gamlasau, trwy wthio â'u coesau yn erbyn yr ochrau.

Leggiardo, *ad.* (It.) yn fywiog, yn llonwych.

Leggin, } *s.* (o *leg*) amgoes, coesarn, coeswisg,
Legging, } socas.

Legibility, } *s.* (o *legible*) rhwyddineb *neu*
Legibleness, } hawddineb darllen peth; ansawdd darllenadwy peth; bod o beth yn gyfryw ag y gellir ei ddarllen; darllenoldeb, darlleoldeb, eglurdeb.

Legible, *a.* (Ll. *legibilis*) darllenadwy, darlleadwy, lleadwy; hawdd i'w ddarllen; hawdd ei ddarllen; â ellir ei ddarllen; dealladwy; eglur; darllenol.

Legibly, *ad.* yn ddarllenadwy, &c.; fel y gellir ei ddarllen; fel y galler ei ddarllen; yn y fath fodd ag y gellir ei ddarllen.

Legion, *s.* (Ll. *legio*) lleng; catyrfa, torf, lluaws, myntai—byddin o dair i bum mil.

Legion of Honour—Lleng Anrhydedd= urdd teilyngdod yn Ffrainc, o sefydliad Napoleon Bonaparte.

Legionary, *a.* (o *legion*) llengol.

Legionary, *s.* un o leng.

Legionry, *s.* corff o lengoedd; llengoedd.

Legislate, *v. n.* (Ll. *lex, legis,* a *fero, latum*) deddfroddi, deddfu, gwneuthur deddfau, gwneyd cyfreithiau; rheithiadu, rheithroddi, rheithio; darddeddfu.

Legislation, *s.* (Ff.) deddfwriaeth, deddfyddiaeth, deddfroddiad, deddfroddiaeth, deddfiad, deddfedigaeth, darddeddfiad; rhoddiad, gosodiad, *neu* wneuthuriad cyfreithiau *neu* ddeddfau; celfyddyd llywodraethu gwlad; llywodraeth gwlad; llywodraethiad.

Legislative, *a.* (Ff. *législatif*) deddfroddol; yn rhoddi, gosod, *neu* wneuthur cyfreithiau; darddeddfol, rheithroddol; deddfyddol; âg awdurdod ganddo i wneuthur *neu* i osod cyfreithiau, deddfwriaethol.

Legislator, *s.* deddfwr, deddfroddwr, deddfroddydd, deddfydd, rheithroddwr; gosodwr, rhoddwr, *neu* wneuthurwr cyfreithiau; rhoddwr, gosodwr, *neu* wneuthurwr deddfau; gwneuthurwr *neu* osodwr cyfraith.

Legislatorship, *s.* deddfwriaeth, deddfyddiaeth, swydd deddfroddwr.

Legislatress, } *s.* deddfyddes, deddfwraig, gos-
Legislatrix, } odwraig cyfreithiau, deddfroddes.

Legislature, *s.* (Ysp. *legislatura*) llywodraeth, y llywodraeth; deddfwriaeth; deddfwyr, deddfroddwyr, rheithroddwyr; rheithiadaeth; yngneidiaeth; gallu *neu* awdurdod i wneuthur cyfreithiau.

Legist, *s.* (Ll. *lex, legis*) cyfreithiwr, cyfreithydd, un hyddysg yn y gyfraith.

Legitimacy, *s.* (o *legitimate*) cyfreithlondeb, cyfreithlonrwydd, cyfreithlonedd, cyfreithiolder; cyfreithlondeb genedigaeth, addwyn-

der genedigaeth ; genedigaeth gyfreithlawn ; cywirdeb, iawnedd, cyfiawnedd.

Legitimate, *a.* (Ll. *legitimus ;* Ff. *legitime*) cyfreithlawn ; deddfol ; cyfreithlawn, deddfol, *neu* addwyn o ran ei enedigaeth ; genedig *neu* anedig o briod; à anwyd o briod ; priodanedig ; addwyn-anedig ; iawnryw, o'r iawn ryw, cywir, gwir, gwirioneddol, pur.

Legitimate, *v. a.* cyfreithloni, deddfoli, addwyno, breinioli, hawlfreinio ; cyfreithloni, deddfoli, addwyno, breinio, *neu* freinioli genedigaeth un ; gwneyd yn etifedd cyfreithlawn.

Legitimateness, *s.* cyfreithlondeb, cyfreithlonrwydd, deddfoldeb ; addwynder *neu* gyfreithlondeb genedigaeth ; cywirdeb.

Legitimation, *s.* (Ff.) cyfreithloniad, deddfoliad, addwyniad, gwneuthuriad yn gyfreithlawn ; cyfreithloniad genedigaeth un.

Legitimist, *s.* pleidiwr awdurdod cyfreithlawn ; pleidiwr ffurflywodraeth ; ffurflywodydd.

Legless, *a.* (o *leg*) digoes, heb goes.

Legume, } *s.* (Ll. *legumen ;* Ff. *legume*) paisg,
Legumen, } cod, coden, plisg, ponar ; peisgrawn, plisgrawn, ffaon ; ydrawn.

Legumes—plisgrawn, peisgrawn, ffaon= pys, ffa, a'r cyffelyb.

Legumine, } *s.* (Ll. *legumen*) peisgain, pysnur,
Legumin, } pysbaill.

Leguminosæ, *s. pl.* peisgwydd, pysonwydd, llwyth y ffa.

Leguminous, *a.* (Ll. *leguminosus*) pysaidd, ffaonaidd, peisgrawnol, plisgrawnol, peisgronaidd, plisgronaidd ; ydrawnol ; fel pys, fel ffa.

Leguminous plants—peisglysiau, plisglysiau, planigion ffaonaidd, planigion peisgrawnol=pys, ffa, &c.

Leipothymic, *a.* (Gr. *leipothumia*) llewygol, llewygus, llesmeiriol ; parod *neu* dueddol i lewygu.

Leipothymia, } *s.* (Gr. *leipothumia*) llewyg,
Lipothymia, } llesmair, mas.

Leisurable, *a.* (o *leisure*) hamddenol, seibiol, seibiannol.

Leisurably, *ad.* yn hamddenol, gàn bwyll, yn chwarian, mewn hamdden.

Leisure, *s.* (Ff. *loisir*) hamdden, seibiant, oedfa, odfa, ennyd, arfod, arseibiant ; ysgyfalhäwch, ennyd ysgyfala, amser ; amser cyfaddas ; seguryd.

At leisure—mewn hamdden, mewn arfod, mewn odfa ; yn cael ennyd ; hamddenol, ysgyfala, didres ; yn hamddenol, yn chwarian ; âg amser ganddo *neu* ganddi ; heb ddim ganddo i'w wneuthur ; pan geir ennyd *neu* seibiant ; pan gaer ennyd *neu* odfa ; wrth ei bwys.

To be at leisure—bod mewn hamdden, &c. ; bod â hamdden ganddo.

To have leisure—bod i un hamdden, &c. ; bod gàn un arfod, &c.

To take leisure—cymmeryd hamdden, ennyd, arfod, *neu* seibiant ; hamddenu, chwarienu.

To get leisure—cael ennyd, cael arfod, cael seibiant, cael hamdden.

I am not at leisure now—nid oes mo'r arfod genyf ar hyn o bryd ; nid oes mo'r odfa genyf ar hyn o bryd ; nid oes genyf hamdden *neu* amser ar hyn o bryd.

If you be at leisure—od oes odfa *neu* ennyd genych ; os ydych yn cael ennyd.

He will look out another at leisure—efe a gais un arall pan gaffo arfod *neu* odfa ; efe a gais un arall pan fyddo ganddo arfod.

They had no leisure so much as to eat—nid oeddynt yn cael ennyd cymmaint ag i fwyta.

Wait for the Lord's leisure—aros amser hamddenol yr Arglwydd ; aros wrth amser hamddenol yr Arglwydd.

At leisure hours—pan gaer ennyd ; pan gaer hamdden ; ar oriau hamddenol ; ar amser hebgor.

Leisurely, *a.* hamddenol, seibiol, seibiannol ; â hamdden *neu* seibiant ganddo ; chwarian.

Leisurely, *ad.* yn hamddenol, gàn bwyll, yn chwarian, yn araf deg, yn bwyllog, wrth ei bwys, yn esmwyth.

Leman,† *s.* (talfyriad, tebygol, o *lifman*, *leveman ;* S. *leof*, a *man*) cariad, cywely, gordderch.

Leme,† *s.* (S. *leoma*) pelydryn, paladr goleuni, godywyn.

Leme,† *v. n.* dysgleirio, tywynu.

Lemma, *s.* (Gr. *lêmma*) rhagosodiad, rhagosawd, gosodiad rhagarweiniol.

Lemming, } *s.* twrlla Lapland, twrlla Llapia.
Leming, }

Lemna, *s.* llinos y dwr, llinhad y dwr, bwyd yr hwyaid, bwyd hwyaid.

Lemnian Earth, *s.* (o *Lemnos*, yn Ynysfor Groeg) pridd Lemnos, daiar Lemnos, pridd Lemnain, daiar Lemnaidd.

Lemniscate, *s.* (Ll. *lemniscat*) camen *neu* gyrfen ar lun y rhifnod 8.

Lemon, *s.* (Ff. ac Ysp. *limon ;* It. *limone*) afal melynhir, afal melyn hir, afal hirfelyn, egrafal, llemwn ; llebafal.

Acid of lemons—sur llebronig, sur egrafalau.

Lemon-tree—egrafallen, egrafalwydden, egrafallwydden, pren afalau melynhirion, pren llemwn : *pl.* egrafalwydd, egrafallon, egrafallau, coed afalau hirfelynion.

Lemon-grass—egrafalwellt.

Lemonade, *s.* (Ff. *limonade*) egrafalwy, llebafalwy ; diod o sudd egrafalau wedi ei gymysgu â dwr a'i felusu.

Lemur, *s.* (Ll.) llemur, gwyllepa, gwyllab= math ar epa, yn cyfanneddu Madagascar, ac ynysoedd yr India Ddwyreiniol.

Lemures, *s. pl.* (Ll.) gwyllon, gwyllion, ellyllon, ysbrydion, bwciod, bwbachod, coblynod, seri, ysbrydion drwg.

Lend, *v. a.* (S. *lænan ;* Al. *leihen ;* Is. *leenen*) benthycio, benthygio, benthyca, rhoddi benthyg, rhoddi yn menthyg, rhoi echwyn, echwyna, echwyno, echwyna i, echwyno i, rhoi echwyn, rhoi yn echwyn, banddygio ; rhoddi, caniatäu.

To lend one a thing—benthycio peth i un, &c. ; rhoddi peth yn menthyg i un ; rhoi *neu* roddi benthyg peth i un ; echwyna peth i un ; rhoddi peth yn echwyn i un.

To lend at interest, } llogi ; rhoi *neu*
To lend upon interest, } ddodi ar log ; rhoi er llog ; gosod ar log ; llogi arian ; rhoi ar ocraeth ; rhoi er ocr ; dodi ar ocraeth.

I have neither lent on usury, nor have men lent to me on usury—ni logais ac ni logwyd i mi.

To lend an ear to one—rhoi clust i; gwrandaw ar un; rhoi benthyg clust i un; rhoi benthyg ei glust i un.

To lend assistance to one—rhoi porth, cymhorth, *neu* gynnorthwy i un; cymhorth *neu* gynnorthwyo un.

The loan that thou hast lent me—y benthyg à fenthyciaist i mi; yr echwyn à echwynaist i mi.

Lend me three loaves—moes i mi dair torth; dyro i mi dair torth; rho i mi fenthyg tair torth; dyro dair torth yn echwyn i mi.

Lend me your help a little—dyro i mi ychydig gymhorth.

Lendable, *a.* benthyciadwy, echwynadwy.

Lender, *s.* benthyciwr, benthygiwr, rhoddwr benthyg, rhoddwr yn menthyg; y neb a roddo yn fenthyg *neu* yn menthyg; echwynwr; llogwr.

A lender at interest—llogwr, llogydd; ocrwr, ocrydd; rhoddwr arian ar log.

Lending, *s.* benthyciad, benthygiad, rhoddiad benthyg; benthyg, echwyn.

Lends,† *s. pl.* (S.) llwynau, llyfenau.

Length, *s.* (S. *lengthe*, o *leng*=long) hyd; hirder, hiredd, hirdra, hiriant, hydedd; meithder, meithdra; pellder; helaethrwydd: *pl.* hydoedd, hydau.

At length—o'r diwedd; yn y diwedd; weithian, weithion, bellach; yn mhen ennyd; ar dalm; yn llawn, yn gyflawn; yn ei lawn hyd; yn ei hyd, ar ei hyd, ar hyd, o hyd, ar estyn.

Now at length—bellach, weithian, weithion; ryw amser bellach.

Full length—hyd gyd, hyd gyhyd, llawn hyd, cyflawn hyd.

At full length—yn ei lawn hyd; yn ei gyflawn hyd; yn ei hyd gyd.

In length—o hyd, ar hyd, ar ei hyd, yn ei hyd, ar estyn.

To draw out at length—estyn *neu* dynu allan i'r eithaf; tynu *neu* estyn allan o hyd.

Equal length—cyhydedd, cyhydrwydd, hyd cyfartal.

Of equal length, } cyhyd, gogyhyd, gohyd-
Equal in length, } ol, gohyd, unhyd, cyfunhyd, cyd.

To make of equal length—cyhydeddu; cyhydu, gogyhydu; gwneuthur yr un hyd.

Mean length—gohyd, gogyhyd.

Mean equality of length—gogyhydedd.

Length of time—hirder, hiredd, hirdra, hirfod, *neu* hyd amser; hir amser, amser hir.

In length of time—yn mhen ennyd, encyd, talm, *neu* ysbaid o amser; mewn hir amser; yn mhen hir amser.

Length of days—hir ddyddiau; hirder dyddiau; hiroes, hir hoedl.

The length of thy days—estyniad dy ddyddiau (*Deut.* xxx. 20).

Of a considerable length—cryn hir, syrn hir, swrn hir; cryn faith; o hyd cyfrifus *neu* annirmygus.

The length of a way—meithder, meithdra, pellder, pellenigrwydd, maint, *neu* hyd ffordd.

The length of a journey—meithder, meithdra, pellder, pellenigrwydd, maint, *neu* hyd taith.

To lie at one's length—gorwedd yn ei hyd; gorwedd yn ei hyd gyhyd; gorwedd yn ei hyd gyd.

To run *or* go all the lengths of a corrupt administration—cydymagweddu yn hollol â gwladwriaeth lygredig; cydymagweddu yn hollol â gweinidogion gwladwriaeth lygredig.

To have the length of one's foot—gwybod hyd troed un; gwybod hyd coes un; medru trin un fâl y myno; gwybod gwendid un; gwybod y ffordd ar un; cael gafael ar ochr wàn un.

He has the length of his foot to a hair—efe a fedr y ffordd arno i'r blewyn.

Length,† *v. a.* estyn, helaethu.

Lengthen, *v.* hwyhau, estyn, ystyn; gwneuthur yn hwy; gyru o hyd; hirio, gohirio, hirhau, hiriannu; estyn *neu* ystyn allan; ymestyn, myned yn hwy.

To lengthen out—hwyhau, estyn, estyn allan; gwneyd yn hwy.

Lengthening, *s.* estyniad, hwyhad; ymestyniad; parhad.

Lengthful, *a.* hydfawr, mawr ei hyd, hiriain.

Lengthiness, *s.* hirder, hirdra, hiredd, hydedd, hyd.

Lengthwise, *ad.* gyda 'r hyd, yn ei hyd, ar ei hyd, ar hydfed, ar hyd, o hyd, ar estyn.

Lengthy, *a.* hir, maith; cryn hir, syrn hir, cryn faith; lled hir; birfaith; hiriain; o gryn hyd; o hyd cyfrifus *neu* annirmygus.

Leniency, *s.* (o *lenient*)=*Lenity*.

Lenient, *a.* (Ll. *leniens*) tyner, tynerol, llinarol, esmwythol, esmwythaol, tynerhaol.

Lenient, *s.* llinarydd, tynerydd, cyffer llinarol, llinargyffyr, llinargyffer, mwythgyffer, mwythor, mwyllor.

Lenify, *v. a.* tyneru, llinaru, lliniaru, esmwytho, esmwythäu, llareiddio, llaryeiddio, llarieiddio, gwareiddio, dofi, dylofi, meddalhau, meddalu, meddfu.

Leniment,† *s.* (Ll. *lenimen*) tynerydd, llinarydd.

Lenitive, *a.* (It. *lenitivo*; Ff. *lenitif*; o'r Ll. *lenio*) tynerol, llinarol, lliniarol, esmwythaol, esmwythol, tynerhaol, llinar, meddfol, blyddol, llonyddol, llonyddgar, mwyll.

Lenitive, *s.* llinarydd, tynerydd, esmwythydd, esmwythai, llinarai, llinargyffer, mwythor, mwyllor, cyffer esmwythaol, mwythgyffer, dylofydd.

Lenity, *s.* (Ll. *lenitas*) tynerwch, tiriondeb, tirionder, tirioni, tyneredd, tyneriant, tynerusrwydd, llinaredd, gwarder, hynawsedd.

Lenocinant, *a.* (Ll. *lenocinans*) llodinebus, anlladgar, trythyllgar, serthgar, serth.

Lens, *pl.* **Lenses**, *s.* (Ll.) ffawydryn, llygwydryn, llugwydr, llugell, crymlain, cromlain, crymwydr, crymwydryn, ffoc: *pl.* ffawydrau, llygwydrau.

Convex lens—crymlain, cromlain, llugell argrom.

Concave lens—ffawydryn ceuol, llugell geuol, ceulain, cromlain geuol.

Spherical lens—ffawydryn cynghrwn, llygwydryn cynghrwn, crynwydryn, gwydr cynghrwn.

Crystalline lens of the eye—crisbilen y llygad; llugell grisial y llygad; crisnawa y llygad.

Lens-shaped, *a.* llugwydraidd; ar ddull ffa-

wydryn deugrwm; ar lun llugwydryn crymgrwm; crymgrwm, crymgrwn, deugrwm.

Lent, *p. p.* (o *lend*) benthyciedig, à fenthyoiwyd, &c.

A thing lent—benthyg, peth benthyg.

Lent, † *a.* (Ll. *lentus*) hwyrfrydig, afrys.

Lent, *s.* (S. *lencten*) grawys, garawys, y grawys, y garawys.

Lente, **Lento**, **Lentemente**, } *a.* (It.) arafrydd, arafaidd, goaraf, lledaraf.

Lenten, *a.* (o *lent*) grawysol, garawysol; perthynol i'r grawys, yn perthyn i'r garawys; ymarbedol, dirwestol.

Lenticular, *a.* (Ll. *lenticularis*) manbysaidd, ffugbysaidd; tebyg i ffugbysen; deugrwm, deugrynol, crymgrwm, crymgrwn; ar ddull ffawydryn deugrwm; ar lun llugwydryn crymgrwn.

Lenticularly, *ad.* ar ddull ffawydryn; yn grwn, yn grwca.

Lenticulite, *s.* pysgragen, cragen faenedig.

Lentiform, *a.* (Ll. *lens* a *forma*) ar ddull ffawydryn; ar lun llugwydryn; ffawydrynaidd, llugwydrynaidd, llugellaidd; crwm.

Lentiginous, *a.* (Ll. *lentiginosus*) brychlyd, brych, brechdarddol, brechlyd, mardonog, crugynog.

Lentil, *s.* (Ff. *lentille*; o'r Ll. *lens*) corbysen, manbysen, pysen y llygod, ffugbysen, ffabysen: *pl.* corbys, manbys, pys y llygod, llygbys, ffugbys, ffacbys, pys melyn, ffabys.

Lentigo, *s.* (Ll.) brech, brychni, brechdardd, clafr-frech, tarddiant.

Lentisk, **Lentiscus**, } *s.* (Ll. *lentiscus*) llentysg, llentysgbren, pren mastig.

Lentitude, † *s.* (Ll. *lentitudo*) arafwch, hwyrfrydigrwydd.

Lentner, *s.* math ar hebog.

Lentor, *s.* (Ll.) gwydnedd, gludrwydd, gludiogrwydd, glynoldeb; tewder, tewded, tewdra; arafedd, arafwch, hwyrfrydigrwydd, hwyrdrymedd.

Lentous, *a.* (Ll. *lentus*) gwydn, gludiog, glud, gludaidd, glynol.

Lenvoy, *s.* (Ff. *l'envoi*) clo cywydd, clo cân, y pennill clo.

Lenzinite, *s.* (o *Lenzius*, mwnofydd Almaenig) math ar ddelidfaen.

Leo, *s.* (Ll.) y Llew, arwydd y Llew=pummed arwydd y sidydd (♌).

Cor Leonis, Lion's Heart, } Calon y Llew, Calon Llew.

Leo Minor, Little Lion, } y Llew Lleiaf, y Llew Bychan, y Llew Bach=cydser yn yr arddrych ogleddol, yn cynnwys 53 seren.

Leod, *s.* (S.) pobl, maon, lleon, gwerin; cenedl; [gwlad.

Leof, † *s.* (S.) cariad, serch.

Leonine, *a.* (Ll. *leoninus*) llewaidd, llewig.

Leonine verses (oddi wrth *Leo*, neu *Leoninus*, y dyfeisydd) mydrau Leoninaidd; mydrau â'u diwedd yn cyfodli â'u canol; mal hyn:—

'Gloria *factorum* temere conceditur *horum*.'

Leoninely, *ad.* yn llewaidd, fel llew; yr un fath a llew.

Leontiasis, *s.* (o'r Gr. *leôn*) llewglwyf, gwahanglwyf y llew.

Leontodon, *s.* (Gr. *leôn* ac *odous*) dant y llew.

Leonurus, *s.* (Gr. *leôn* ac *ouros*) mamoglys, mamlys, llysiau y famog, llysiau y fam, llysiau y galon.

Leopard, *s.* (Ll. *leopardus*; Gr. *leôn* a *pardos*) llewpart, llewpard.

Leopard's bane—llewpard-dag, llewparttag, llysiau y llewpard.

Lepadites, *s. pl.* (Gr. a Ll. *lepas*) gwyrain, adar gwyrain.

Leper, *s.* (Gr. a Ll. *lepra*; Ff. *lèpre*) gwahanglaf, un gwahanglwyfus, clafryn, claf gwahanol, un claf gwahanol: *pl.* gwahangleifion.

Leperous, † *a.* = *Leprous*.

Lepict, *a.* (Ll. *lepidus*) hyfryd, dyddan, difyr, llon, bywiog, cellweirus.

Lepidium, *s.* (Gr. *lepis*, cen) pybyrllys, pupyrlys.

Lepidodendron, *s.* (Gr. *lepis* a *dendron*) cenwydd; *sing.* cenwydden.

Lepidoids, *s. pl.* (Gr. *lepis* ac *eidos*) censeiddogion=math o bysg diflanedig.

Lepidolite, *s.* (Gr. *lepis* a *lithos*) cenfaen, cenfwn, delidfaen cenog.

Lepidopters, **Lepidoptera**, } *s.* (Gr. *lepis* a *pteron*) cenadeinogion, cenadenogod, cenednogod=math o drychfilod.

Lepidopteral, **Lepidopterous**, } *a.* cenadeinogol, cenadenogaidd, cenednogaidd; perthynol i'r cenadeinogion.

Lepidote, **Lepidoted**, } *a.* (Ll. *lepidotus*) cenog, clafrog, clafrllyd, crestog.

Lepis, *s.* (Gr.) cen.

Leporine, *a.* (Ll. *leporinus*) ysgyfarnogaidd, ceinachaidd; ysgyfarnogol, ceinachol; perthynol i ysgyfarnog neu geinach.

Leprosity, *s.* clafrllydrwydd, clafrogrwydd, crachlydrwydd, gwahanglefni.

Leprosy, *s.* (Ll. *lepra*, *leprosus*) gwahanglwyf, y gwahanglwyf, clefri, clafr, clefryd, clwyf gwahanol, clwyf mawr, tardd gwahanol, gwahanglefyd, crach cynddeiriog, brech yr Iuddewon.

Ill of the leprosy—gwahanglwyfus, gwahanglaf; â'r gwahanglwyf arno; claf o'r gwahanglwyf.

Leprous, *a.* (Ll. *leprosus*; Ff. *lèpreux*) gwahanglwyfus, gwahanglwyfol, gwahanglaf; clafrllyd, clafrog; cenog, brych, brychlyd.

Leprous liverwort—clafrgen, cen y ceryg.

Leprousness, *s.* gwahanglwyfedd, gwahanglefni, gwahanglwyfusrwydd; clafrllydrwydd, clafrogrwydd, clafrwch; crachlydrwydd, brychni, brychi, cenogrwydd.

Leptodactyl, *s.* (Gr. *leptos* a *dactulos*) meinfys, creadur bysfain.

Leptology, *s.* (Gr. *leptos* a *logos*) bychodlith, miloreglith; traethawd manwl a hirfaith ar goegbethau.

Lere, † *s.* (S. *lare*; Al. *lehre*) dysg, dysgeidiaeth, llên, llenoriaeth.

Lere, † *v. a.* gwag, coeg.

Lere, † *v. a.* dysgu, addysgu.

Lesion, *s.* (Ll. *læsio*) niwed, niwaid, eniwed; cam.

Less, † *c.* = *Unless*.

Less, *a.* (S. *læs*) llai; lleiaf; bychan; ychydig.

Much less—llai o lawer, llawer llai.

Less and less—lleilai, leilai.

James the Less—Iago Fychan, Iago Leiaf.

Less, *s.* llai; lleiaf; ychydig.

Less, *ad.* llai, yn llai.

The less—po lleiaf.

Much less—chweithach; llai o lawer; chwaith.

So much the less—chweithach.
Let no man do evil, much less a child of God—na wnaed un dyn ddrwg, chweithach plentyn i Dduw.
Though the more abundantly I love you, the less I be loved—er fy mod yn eich caru yn helaethach, ac yn cael fy ngharu yn brinach (2 *Cor.* xii. 15).

Less, (S. *leas;* Al. *los;* Goth. *laus*) terfyniad *neu* olddodiad difeddedigol, yn arwyddo *di-, an-, heb, amddifad o;* megys, *childless,* diblant, heb blant, anmhlantadwy; *endless,* diddiwedd; *lawless,* digyfraith; *fatherless,* didad, amddifad o dad.

Less,† *v. a.* lleihau.

Lessee, *s.* (o *lease*) dalysgrifiad, (*pl.* dalysgrifiaid), edringai, prydlesai; deiliad dân edring; ammod-ddeiliad; yr un y rhodder edring iddo.

Lessen, *v.* (o *less*) lleihau, bychanu, gwneuthur yn llai, lleiadu, tolio, toli, bychanigo; treio; myned yn llai; myned ar drai; crebachu.

Lesser, *a.* (o *less;* S. *læssa, læsse*) llai, lleiach; lleiaf; bychan.
Lesser cattle—defaid; da bychain.

Lesses, *s. pl.* (Ff. *laissées*) tom baedd, tail baedd, tom gwyddfaedd.

Lesson, *s.* (Ff. *leçon;* Ll. *lectio;* Al. *lesen*) gwers, llith, llithen, darlleawd.
A short lesson, } gwersig, gwersan.
A little lesson, }
To give one a lesson—gwersu un, gwersio un; rhoi gwers i un; addysgu un.
To give one his lesson—rhoi ei wers i un; rhoi ei wers yn mhen un.
To learn a lesson—dysgu gwers.

Lesson, *v. a.* gwersu, gwersio; rhoi gwers i; addysgu, dysgu.

Lessor, *s.* (o *lease*) edringwr, edringydd, prydleswr, ammodrwymwr, rhoddwr dalysgrif, rhoddwr ammodysgrif, ammod-osodwr, gafael-roddwr.

Lest, *c.* (S. *leas;* Goth. *laus*) rhag, rhag i, rhag ofn; fel na; ac na; rhag y.
Lest any—rhag i neb; fel na bo i neb.
Lest ye die—rhag eich marw.
Lest at any time—rhag un amser.
Lest by any means—rhag mewn un modd.

Let, *v. a.* (S. *lætan, leten;* Goth. *letan*) gadael, caniatäu, gollwng, goddef, dyoddef; gadael i, goddef i; gosod, rhoddi; rhentu; hurio, llogi; rhwystro, attal, lluddio, arluddio.
Let it be—bydded, boed, bid, poed.
Let there be—bydder, bydded, boed, bid.
Let it be so—bydded, boed, *neu* bid felly; felly bydded; felly boed; poed felly; felly y bo; gadwch iddi fod felly.
Let that be—gad i hyny fod; boed hyny; bydded felly; gad iddo.
Let be—paid, peidiwch; gad *neu* gadëwch yn llonydd; na chyffyrddwch.
Let him love—cared; cared ef, cared efe; boed iddo garu.
Let them love—carant; carant hwy; gad *neu* gadëwch iddynt garu.
Let us love—carwn; carwn ni.
Let us—bid i ni, boed i ni, bydded i ni, moes i ni.
Let him go—aed, eled, cerdded.
Let us go—awn; gadëwch, gadwch, *neu* moeswch i ni fyned.
Let us pray—gweddïwn.
Let me hear—moes i mi glywed; moes glywed; rho *neu* dyro glywed; dywed imi; moeswch glywed; moeswch i mi glywed.
Let me see—moes weled; dangos i mi; gad i mi weled; rho weled.
Let me know—par, moes, gad, rho, *neu* dyro i mi wybod; hysbysa i mi.
Let us relate—moeswch i ni adrodd; gadwch, gedwch, *neu* gadëwch i ni adrodd.
Let me hear if thou canst say the Lord's prayer—moes i mi glywed a fedri di ddywedyd gweddi yr Arglwydd.
Let me die—marw a wnelwyf; marw bwyf.
Let me die the death of the righteous, and let my last end be like his—marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau.
Let God arise, let his enemies be scattered—cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion.
Let me never budge, if I saw him—byth na syflwyf, os gwelais i ef; byth nad elwyf o'r fân, os gwelais i ef; byth na chyffrwyf, os gwelais i ef.
Let the heart be bold—bid lew calon; boed y galon yn lew.
To be let—ar osod, i'w osod; i'w rentu; i gael ei osod *neu* rentu.
To let alone—gadael, gadaw; gadael *neu* roddi heibio; gadael *neu* adaw yn llonydd; peidio â pheth; gadael llonydd i beth.
Let me alone—gad i mi; paid â mi; gad fi yn llonydd; gad lonydd i mi; gad i mi lonydd.
Let him alone—gad iddo; paid âg ef; gad ef yn llonydd; gad lonydd iddo; gad ef; gadëwch iddo, gadwch iddo, peidiwch âg ef.
Let it alone this year—gad ef y flwyddyn hon.
To let blood—gwaedu; gollwng gwaed, taro gwaed.
To let down—gollwng i lawr; gostwng.
To let down an instrument—llaesu tannau, llacäu tannau; llaesu, llacäu.
To let fall—goddef, gadaw, *neu* ollwng i syrthio; goddef, gadaw, *neu* ollwng i gwympo; gollwng.
To let go—gollwng i fyned; gollwng ymaith; gollwng yn rhydd; gadaw i fyned; gadael yn rhydd; rhyddhau, gollwng; peidio â, peidio âg.
To let one go free—gollwng un yn rhydd.
To let go a hold—dadafaelu; gollwng gafael; gollwng yn rhydd.
To let in—gollwng i mewn; gollwng i mewn i; gadaw i ddyfod i mewn; gadaw i ddyfod i mewn i; goddef i ddyfod i mewn.
Let the old man come in—gad i'r hen wr ddyfod i mewn.
Let him in—gollwng ef i mewn; gollwng ef i'r ty.
To let one into his secrets—gollwng un i'w gyfrinach; gwneuthur un yn gyfranog o'i gyfrinach; dadguddio ei gyfrinach i un; gwneuthur un yn gydnabyddus â'i gyfrinach.
To let loose—gollwng yn rhydd; gorddyllwng, llacäu, llaesu; gollwng yn llac, gollwng yn llaes; gollwng, dattod, dad-

glymu, dadwregysu; dad-annelu; dadfachu; rhyddhau.
To let off—saethu, ergydio, gollwng, gollwng ymaith.
To let off a gun—gollwng ergyd, saethu; gollwng ergyd o ddryll.
To let out—gollwng allan; gadaw *neu* oddef i fyned allan; llogi, hurio, cyflogi; rhoi *neu* osod dân ardreth; rhoi allan ar hur, er hur, *neu* er cyflog; gosod.
To let pass, } goddef *neu* adaw i ddïanc;
To let slip, } goddef *neu* adaw i lithro ymaith.

Let, † *v. n.* peidio, gadael.

Let, *s.* rhwystr, attal, attalfa, lludd, llestair, rhagod, nidr.

Letch, *s.* (Sw. *laka;* D. *lekker*) twrnel purhidlo, twrnel hidlo, twba golchi lludw; mignen hirgul.
Letch-tub—twrnel purhidlo, &c.

Letch, *v. a.* purhidlo, terhidlo, trwytholchi, hidlo, golchi.

Letch, *s.* dogn o goedludw, golchludw.

Lethal, *a.* (Ll. *lethalis;* o'r Gr. *lêthê*) angeuol, marwol.
Lethal weapon — erfyn angeuol, erfyn marwol; offeryn à baro angeu.

Lethality, *s.* marwoldeb, angeuoldeb.

Lethargic, } *a.* (Ll. *lethargicus*) hunglaf, hun-
Lethargical, } glwyfus, hunheintus, hunheinnus; â'r hunglwyf *neu* hunhaint arno; cysglyd, trymllyd, marwaidd, swrth.

Lethargicalness, } *s.* hunglefni, hunglwyfus-
Lethargicness, } rwydd, cysgadrwydd annaturiol; cysgadrwydd, cysglydrwydd.

Lethargied, *a.* mewn llesmair; yn nghwsg.

Lethargy, *s.* (Gr. a Ll. *lethargia*) hunglwyf, hunhaint, marwgwsg, margwsg, y clefyd cysglyd, cwsg marwol; gorhun, gorchwsg, rhygwsg, cysglydrwydd, cysgrwydd, cysgadrwydd, syrthni, difaterwch.

Lethargy, *v. a.* gwneuthur yn gysglyd *neu* drymllyd; peri yr hunglwyf.

Lethe, *s.* (Gr. *lêthê*) afon anghof, Lleddai, Lleddwy, Lleithwy; anghof, ebargof; tranc, marwolaeth, marw, llaith.

Lethean, *a.* (o *lethe*) Lleddig, Lleddain, Lleithain; à bair anghof; anghofiol, ebargofiol, anghofus.

Lethiferous, *a.* (Ll. *lethifer*, o *lethum* a *fero*) angeuol, marwol, à laddo; à ddyco angeu *neu* ddinystr.

Letter, *s.* (o *let*) gadäwr, goddefwr, rhwystrwr, attaliwr, gosodwr, gollyngwr.
A letter out to hire—huriwr; à hurio allan; à ollyngo allan ar hur; llogwr.
Blood-letter—gwaedwr, gwaedydd, gollyngwr gwaed, gollyngydd gwaed.

Letter, *s.* (Ll. *litera;* Ff. *lettre;* It. *lettera*) llythyren; llythyr, (*pl. t.* au, on), llythyr anfon; teb, coel.
Letters—dysg, dysgeidiaeth, llên, llenoriaeth, llenyddiaeth, llenogaeth, lleoriaeth, llythyriant, llëyddiaeth, llythyr.
A man of letters—gwr dysgedig, gwr llenog, gwr llên, llenor, llenwr, llenydd, gwr llythyrog, gwr llythyrol, dyn llythyrenog: *pl.* llenorion, llenoriaid, llenogion, llenyddion, dysgedigion, dysgeidion, llenwyr, gwŷr llên, llythyrogion.
Republic of letters—y byd dysgedig, y byd llenorol, y byd llenyddol; y dysgedigion.
Letter missive—llythyr anfon, llythyr.
Letters-patent — breintlythyrau, breintlythyr, insail agored, insel agored, breintysgrif, llythyr braint a nodded.
Letter of attorney—llythyr dirprwy, gwarant dirprwywr, llythyr attyrnai.
Letters of recommendation—llythyrau canmoliaeth.
Letters dimissory—llythyrau cenad, llythyrau gollyngdod, llythyrau anfon, llythyrau rhyddhad, llythyrau gollyngol.
Letters of introduction—llythyrau cyfanerch, llythyrau anerch, llythyrau cyfarch, llythyrau o gyfiwyniad, llythyrau cyflwyn, llythyrau cyfarweiniol, llythyrau cyfarchiadol, llythyrau cyfarwain.
Letters of marque, } llythyrau attrais, llyth-
Letters of mart, } yrau tâl pwyth, llythyrau adgipiad; treiswarant=gwarant yn awdurdodi dyn i ddwyn oddi ar elyn, drwy nerth arfau, yr hyn nis dichon mewn un modd amgen ei gael yn ol.
Circular letter—cylchlythyr, llythyr cylchynol.
Letter of guarantee — llythyr gwarant, llythyr gwaesaf.
Dead letter—llythyr dïarddel, llythyr dïarddelw; llythyren farw.
Dead-letter office—swyddfa llythyrau dïarddel.
Letters used in printing—argraff-lythyrenau, llythyrenau argraffu, llythyrenau, tebau.
Capital letters—priflythyrenau, prif lythyrenau, llythyrenau penigol, penigolion, penigoliaid.
Small capital letters—priflythyrenau mân *neu* fychain; prif lythyrenau mân; penigolion bychain *neu* fân; mân lythyrenau penigol.
Black letter—llythyren ddu.
Gothic letters—llythyrenau Gothig, llythyrenau Gothaidd.
Italic letters—llythyrenau Italig, Eidalig, Italaidd, *neu* Eidalaidd; Italigion, Eidaligion; lleddflythyrenau, lledbeilythyr.
Lower-case letter—llythyren fechan.
Numeral letter—rhiflythyren, llythyren rifol.
Mute letters — mudseiniaid, llythyrenau mudion, llythyrenau mudsain, llythyrenau mud, cydseiniaid mudion=llythyrenau na wnânt sain heb lafariaid.
Sunday letter—llythyren Sul.
Letter learning—llythyrddysg; gwybodaeth ar lythyr.
Letter paper—papyr llythyrau.
Font of letters—cyff llythyrenau; cyff o debau; nifer cyfrdo o lythyrenau argraff; toddas o lythyrenau=oddeutu 100,000 o argraff-lythyrenau, o'r un maintioli, gydag acenion, attalnodau, &c.
Letter-carrier—dygiedydd, dygiadur, dygiawdr, cludwr, *neu* gariwr llythyrau; llythyrddygwr, llythyrgariwr, un llythyrddwyn.

Letter, *v, a.* llythyrenu, llythyru.

Letterbag, *s.* llythyrgod, cod llythyrau.

Letterboard, *s.* llythyrenfwrdd, bwrdd y llythyrenau, llythyrfwrdd.

Letterbox, *s.* llythyrgell, llythyrgist, llythyrgloer.

Lettercase, *s.* llythyrgloer, llythyrgaes, llythyrgist, cloer llythyrenau; llythyrgod, cod llythyrau; llogellgod.

Lettered, *a.* llythyrog, llythyrenog, llythyrol, llenog, llên, dysgedig, llenyddol, llenorol, deifniog, dysgaid, llythyriannol; llythyredig, llythyrenedig; wedi ei lythyrenu *neu* lythyru; â'i enw ar ei gefn.

Letter-founder, *s.* llythyrenydd, llythyrenwr, llythyrenor, toddwr llythyrenau, bwriwr llythyrenau, tebluniwr.

Letterless, *a.* anllythyrenog, anllythyrog, aflenog, annysgedig, diddysg.

Lettern, } *s.* (Ff. *lutrin;* Ll. *lego, lectum*) dar-
Lectern, } llenfa, darllensaf, darllenfwrdd dalfwrdd=math ar ystyllen ledbai neu letherog i ddâl llyfr tra darllener ef.

Letterpress, *s.* argraff, print; argraffwaith, tebwaith; darlleniad.

Lettuce, *s.* (Ll. *lactuca;* Ff. *laitue;* Al. *lattich*) gwylaeth, llaethygen, golaeth, cw.

Lamb's lettuce—gwylaeth yr oen, gwylaeth yr ŵyn, llysiau yr oen, diadwyth, gwylaeth gwyllt.

Ivy-leaved lettuce—gwylaeth y fagwyr.

Leucin, } *s.* (Gr. *leucos*) llinedwyn=math o
Leucine, } ddefnydd fferyllol.

Leuciscus, *s.* (Gr. *leucaino*) gwynbysg.

Leucite, *s.* (Gr. *leucos*) canithfaen, gwynithfaen, ithfaen gwŷn.

Leucitic, *a.* canithfeinig, canithfeinin, gwynithfeinig, gwynithfeinin.

Leuco-Ethiopic, *a.* (Gr. *leucos* ac *aithiops*) gwynddu, gwŷn a du; yn dynodi creadur gwŷn o rywogaeth ddu.

Leucojum, } *s.* (Gr. *leucos* ac *ion*) eiryaidd.
Leucoium, }

Leucoma, *s.* (Gr. *leucos*) gwynwyllni, gwynwylledd; niwlen wèn ar olwg; tywyllni gwŷn cornbilen y llygad.

Leucophlegmasia, *s.* (Gr. *leucos* a *phlegma*) blythwynwst, blythwynedd; tuedd i fod yn ddyfrglwyfus.

Leucophlegmatic, *a.* blythwynaidd, blythwynig; dyfrglwyfaidd.

Leucorrhœa, *s.* (Gr. *leucos* a *rheô*) gwynred, y gwynion.

Leucothiop, *s.* (Gr. *leucos* a *aithiops*) dyn gwŷn o rieni duon; gwynan, (*pl.* gwynwys).

Leuthrite, } *s.* (o *Leuthra,* yn Sacsonia) delid-
Leuttrite, } faen Leuthra.

Levant, *a.* (Ff. o'r Ll. *levo*) dwyreiniol, dwyrain, yswyrain, dwyreinig.

Levant and couchant—gwedi gorwedd a chodi.

Levant, *s.* (Ff.; It. *levante*) Dwyrain, y Dwyrain; y gwledydd tua chodiad haul; arfordiroedd Dwyreiniol Môr y Canoldir; Dwyreindir.

Levanter, *s.* (o *levant*) dwyreinwynt, dwyrwynt: un â gynghwystlo mewn rhedegfa meirch, ac a redo ymaith heb dalu y cyngwystl à gollwyd.

Levantine, *a.* dwyreiniol; perthynol i'r Dwyrain.

Levantine, *s.* sidan y Dwyrain.

Levator, *s.* (Ll.) cyfodydd, cyfodyr, codiedydd, ucheddyr, cyfodgyhyr.

Levee, *s.* (Ff. o'r Ll. *levo*) cynnwyre, boreugylch, brigyfarch; gosgordd gynnwyre; codiad, cyfodiad, amser codi.

They too were at the king's levee—yr oeddynt hwythau yn nghynnwyre y brenin.

Level, *a.* (S. *lœfel*) gwastad, gwastadlyfn, gwastadwedd, cydwastad, cyngwastad, unuchedd, llaned; didolc; cywir; cyfartal; cyfladd, cyfladdol; cydradd, cyfradd; llorwedd; llyfelus, llyfelog; llyfn.

Level country—gwlad wastad, gwastadedd, gwastattir, tir gwastad, gwaent.

Level ground—tir gwastad, gwastattir, lle gwastad, màn wastad, gwastadfan, gwastadfa, gwastadfaes, gwastadle.

Level with the ground — cydwastad â'r llawr; un â'r llawr.

To lay level with the ground—gwneuthur yn gydwastad â'r llawr; gwneuthur yn un â'r llawr.

To lie level to, } gorwedd yn gydwastad,
To lie level with, } yn ogyfuwch, *neu* yn gyfochr â *neu* âg; bod yn gyfladd â.

To make level—gwastadhau, gwastatu, gwastadu, gwastatäu, llyfnhau; cyfartalu, cystadlu; didolcio; gwneyd yn wastad, &c.; llyfelu, llyfeluso.

This knowledge lies level to human understanding—y mae yr wybodaeth hon o fewn cyrhaedd deall dyn; y mae yr wybodaeth hon yn cyfladd â deall dyn.

Level, *v.* gwastadhau, gwastatäu, gwastatu, gwastadu, gwastata, llyfnhau, llyfnu; cyfartalu, cystadlu, cyfraddio; gwneuthur yn wastad, yn gydwastad, yn gyfladd, *neu* yn gyfartal; llyfelu, llyfeluso; didolcio; annelu, cyfeirio; amcanu, cynnyg; cyfladd, cyttaro, cytuno, gweddu.

To level at—cyfeirio at, annelu at, llyfelu at.

To level mountains—gwneuthur mynyddoedd yn dir gwastad; llyfelu mynyddoedd.

To level with the ground—gwneuthur yn gydwastad â'r llawr; gwneuthur yn un â'r llawr.

Level, *s.* (S. *lœfel*) gwastadfa, gwastadfan, gwastadedd, gwastattir; gwastadlin; lledd; safon, mesur; cyfartaledd, cyfradd, cydradd; uchder cyffredin *neu* arferol; gwastedydd, cyfleddyr, gwastatyr, gwastadyr, cyfartelydd, llyfal, lyfelydd; cywirblwm, ysgwâr blwm; annelfa, cyfeirfa; cyfeirffos, cyfeirdwll; rheol, cynllun; gwyneb, arwyneb.

Spirit level—gwirod-lyfal, llyfal gwirod, gwastadyr gwirod.

Water level—dyfr-lyfelydd, dyfr-wastedydd, llyfal dwfr, cyfeirgafn dwfr.

Carpenter's level—gwastedydd, cyfleddyr, gwastadyr, *neu* gyfartelydd saer; plwm a llinyn saer; llyfal *neu* lyfelydd saer.

Water-courser's level — cyfeirgafn, dyfrgafn cyfeirio, dyfr-lyfelydd.

Level belonging to a coaliery—heol y dwfr, llyfal globwll, cyfeirdwll glofa.

The level of a gun — annelfa, cyfeirfa, llyfelfa, cyfeirdwll, *neu* olygfa gŵn saethu.

On a level with, } cydradd â, gogydradd
Upon a level with, } â, cyfradd â; cyfurdd â, gogyfurdd â; cyfuwch â, gogyfuwch â; unfri â; yn gydradd â, &c.; yn gyfladd â; yn cyfladd â.

To be on a level with—bod yn cyfladd, yn cydladd, yn cyttaraw, yn cyttaro, *neu* yn cydweddu â; bod yn gydradd â; cyfateb i.

To put one's self on a level with—ymgyfar-

talu â, cystadlu âg, ymgystadlu âg, ymgyfuchio â; gwneuthur ei hun yn gystal *neu* yn ogyfuwch â.

This is on a level with my capacity—y mae hyn yn cyfladd, yn cydladd, *neu* yn cyttaro â mesur fy synwyrau i; y mae hyn yn cyfateb i'm deall *neu* i'm synwyr i.

Leveller, *s.* gwastatäwr, gwastedydd, gwastadhäwr, gwastatwr, gwastatydd, llyfelwr, llyfelydd.

Levellers—Gwastatwyr, Llyfelwyr, Cydwastatwyr=plaid o derfysgwyr â gyfodasant yn myddin y Senedd Hir yn nghylch y flwyddyn 1647, y rhai a ddïystyrent lywodraeth, a haerent na ddylai fod graddau yn y byd, ac a fynent wneuthur pawb yn gydwastad â'u gilydd.

Levelling, *s.* gwastadhad, gwastatâd, llyfeliad; llyfelu; llyfeliaeth.

Levelling staves—saf-erwydd, polion llyfelu, polion gwastatu.

Levelness, *s.* gwastadrwydd, cydwastadrwydd, cyngwastadrwydd, gwastadolrwydd, gwastadedd, llyfnder; cyfartalwch.

Leven, *s.*=*Leaven*.

Leven, † *s.* (S. *hlifan*) mellten, llucheden.

Lever, *s.* (Ff. *levier*; o'r Ll. *levo*) gwif, trosol.

Wooden lever—trosolwydd, trosolbren.

Lever-beam—trosolwaew.

One that handles a lever—trosoliwr, gwifiwr.

One that works with a lever—trosoliwr, gwifiwr.

To give purchase to the lever—rhoi gafael i'r gwif; rhoi colpes i'r gwif.

Leverage, *s.* (o *lever*) gwifrym, gwifallu, gwifnerth; grym *neu* allu gwif.

Lever-boards, **Luffer-boards**, **Louvre-boards**, *s. pl.* (Ff. *l'ouvert*) estyll llumon, dellt llumon, ais llumon =dellt ar osgo mewn ffenestri a'r cyffelyb.

Leveret, *s.* (Ff. *levràut*, *lièvre*) glasdorch, ceinachen, ysgyfarnog ieuanc.

Leverock, *s.* (Ysg. *laverock*; S. *lafere*) hedydd, ehedydd, uchedydd.

Levet, † *s.* (Ff. *lever?*) sain udgorn, udganiad.

Leviable, *a.* (o *levy*) codadwy; trethadwy; â ellir ei godi fel treth.

Leviathan, *s.* (H.) Lefiathan; morfil mawr.

Levigate, *v. a.* (Ll. *lævigo*) pylori, ffylori, malurio, llychu, manfalu; malurio hyd yr eithaf; malurio i'r eithaf; malu yn fân dros ben; malu yn llwch; llyfnhau, caboli, gorllyfnu, gwastadhau; gwneuthur yn llyfn, yn gabol, *neu* yn wastadlyfn.

Levigate, *a.* (Ll. *lævigatus*) cabol, caboledig, llyfn.

Levigation, *s.* pyloriad, ffyloriad, maluriad, llychiad, manfaliad; caboliad, llyfnhad.

Levitation, *s.* (Ll. *levis*, *levitas*) ysgafnder, ysgafnedd, ysgafnrwydd, ysgawnrwydd; ysgafnhad.

Leviticus, *s.* (o *Levi*, *Levite*) Lefiticus, Lefitig=trydydd llyfr Moses.

Levity, *s.* (Ll. *levitas*) ysgafnder, ysgawnder, ysgafndra, ysgafnedd, gwagsawrwydd; anwirfrifwch, ysmalhäwch, ysmalwch, maldod, gwagedd, gwegi, maswedd, simer, anmhruddder, anmhruddedd; gwamalrwydd, anwastadrwydd, anwadaledd, anwadalwch.

Levy, *v. a.* (Ff. *lever*; Ll. *levo*) codi, cyfodi; trethu; casglu.

To levy men—codi gwŷr, cyfodi gwŷr, codi milwyr; cyfodi treth *neu* deyrnged o wŷr.

To levy money—codi arian; codi *neu* gynnull treth; cyfodi teyrnged.

To levy a fine—codi dirwy.

To levy by distress—codi drwy attafael.

To levy war—dechreu rhyfel; codi rhyfel; ymosod ar.

Levy, *s.* codiad, cyfodiad, casgliad, *neu* gynnulliad gwŷr; y nifer o wŷr â goder *neu* â geisier; codiad, cyfodiad, casgliad, *neu* gynnulliad o arian; y swm o arian â goder *neu* â geisier; treth, tasg, ardreth, dofraeth, cyllid, teyrnged; cynnull, casgl.

Levyne, *s.* (o *Levi*, y crisialydd) delidfaen â geir yn Ngwerddon, Ffaroe, a rhai lleoedd ereill.

Lew, † *a.* (Is. *laauw*) clauar, llugoer; gwelw.

Lewd, *a.* (C. *llodig*; Al. *luder*) anllad, trythyll, anniwair, llodinebus, serth, afian, llawd, brwnt, budr; anfad, diffaeth, diras, ysgeler, anwir, drygionus.

A lewd fellow—dyhiryn, dyhirwr, dyhirwas, llodinebwr.

A lewd slut—dyhiren, dyhirog, llodinebes.

Lewd songs—anlladganau, anlladgerddi, canau anllad, cerddi anllad: *sing.* anlladgan, anlladgerdd.

Lewd women—gwragedd anllad, gwragedd ysgeler.

Lewd fellows of the baser sort—dynion drwg o grwydriaid (*Act.* xvii. 5).

Thy lewd way—dy ffordd ysgeler (*Esec.* xvi. 27).

Lewd, † *a.* (S. *læwed*) lläyg, lleygol.

Lewdly, *ad.* yn anllad, &c.; mewn ysgelerder.

Employing his labours lewdly — trwy ddrygionus boen (*Doeth.* xv. 8).

Lewdness, *s.* anlladrwydd, anlladedd, trythyllwch, trythyllwg, llodineb, anniweirdeb, tesach, dyre, arddyre; serthedd, diffeithder, anfadrwydd, dirasrwydd, ysgelerder, dryganiaeth; penrhyddid.

Lewdster, † *s.* (o *lewd*) anlladwr, anlladfab, trythyllwr.

Lewis, **Lewisson**, *s.* math ar wellaif; math ar beiriant i godi ceryg.

Lex, *s.* (Ll.) cyfraith, rhaith.

Lex-terræ—cyfraith y tir.

Lexical, *a.* (o *lexicon*) geiriadurol, geirlyfrol.

Lexicographer, *s.* (Gr. *lexicon* a *graphô*) geirlyfrwr, geirlyfrydd, geiriadurwr, geiriadurydd, awdwr geirlyfr.

Lexicographic, **Lexicographical**, *a.* geirlyfryddol, geirlyfrol; aethol; perthynol i eirlyfraeth; yn perthyn i ysgrifenu geiriadur; geirlyfrol, geiriadurol.

Lexicography, *s.* geirlyfraeth, geiriaduriaeth, geirlyfryddiaeth; celfyddyd ysgrifenu geirlyfr *neu* eirlyfrau; ysgrifeniad geiriadur.

Lexicology, *s.* (Gr. *lexicon* a *logos*) geirofyddiaeth.

Lexicon, *s.* (Gr.) geiriadur, geirlyfr.

Lexiconist, *s.* geirlyfrwr, geiriadurwr.

Lexigraphy, *s.* (Gr. *lexis* a *graphô*) geirddosbeniaeth, geirddeffiniaeth, geirystyriaeth; celfyddyd dosbenu geiriau.

Lexipharmic, *s.* (Gr. *alexô* a *pharmacon*) daddwenwyn, gwrthwenwyn, gwenwyndarf.

Ley, *s.*=*Lay*; *Lea*.

Leyden-Phial, **Leyden-Jar**, *s.* costrel Leiden, costrel Leyden, costrel drydanol.

Lexe-Majesty, *s.* (o'r Ll. *crimen læsæ majestatis*) trosedd yn erbyn brenin; trosedd yn erbyn mawrhydi.

Liable, *a.* (Ff. *lier*, rhwymo; Ll. *ligo*) rhwym, rhwymedig, darostyngedig, tàn rwymedigaeth; agored, yn agored; yn mherygl; heb fod yn rhydd; anesgusodol.

Liable to—rhwym i, &c.; yn mherygl o; heb fod yn rhydd oddi wrth.

To be liable to—gorwedd dàn rwymau i wneuthur peth; bod yn gorwedd dàn rwymau i wneyd peth; bod yn rhwym i wneyd peth; bod yn agored i.

Liableness, } *s.* ateboldeb, atebolrwydd; bod yn
Liability, } rhwym *neu* agored; darostyngedigrwydd, agoredrwydd; dyled.

Liabilities—atebolrwydd, ateboldeb, atebolder; y gofyn *neu* y gofynion ar un; dyledion, dyled.

Liar, *s.* (o *lie*) celwyddwr, un celwyddog, dyn celwyddog, celwyddgi, geuwr, un geuog, un minffug.

Liard,† *a.* llwyd, blawr.

Lias, *s.* lleddres, gwaelodres, sylres.

Lib,† *v. a.* (Is. *lubben*) dysbaddu, ysbaddu, cyweirio.

Libation, *s.* (Ll. *libatio*) dïodoffrwm, dïod offrwm, y gwin offrwm, y gwin i'w offrymu, gwinoffrwm, gwin-aberth, cynaberth; dïodoffrymiad, tywalltiad y ddïod offrwm, tywalltiad y gwin-aberth, tywalltiad aberth y gwin, offrymiad y gwin, aberthiad y gwin; rhagarchwaethiad, rhagflasiad.

Libbard,† *s.*=*Leopard.*

Libbard's bane†=*Leopard's bane.*

Libel, *s.* (Ll. *libellus*) athrawd, enllib, cabldraith, gogandraith, hortlith, athrodlith, athrodeg, athrodiaeth, athrodgwyn, cablair, gwarthair, cabl, enllibiaeth, cabledd; duchan, gogan; traethiad hawl, adroddiad hawl.

Libel, *v.* enllibio, athrodi, difenwi, hortio, cablu, goganu, duchanu, gwartheirio; rhoi drygair i un; ysgrifenu *neu* gyhoeddi cabldraith yn erbyn un; enllibio *neu* oganu un ar gyhoedd; rhoi cwyn yn erbyn; taenu enllib.

Libeller, *s.* enllibiwr, enllibwr, enllibydd, hortlithiwr, athrodwr, cabldreithydd, goganwr, duchanwr, cablwr.

Libellous, *a.* enllibus, enllibiol, enllibaidd, athrodus, athrodol, athrodaidd, goganus, difenwol, hortiol, cablus, cablaidd.

Liber, *s.* (Ll.) rhisgyn isaf, rhisglyn nesaf i'r pren, haen isaf y rhisg; llyfr.

Liberal, *a.* (Ff.; Ll. *liberalis*) hael, haelionus, hyrodd, hyged, cedrydd, cedfawr, rhwyddged, rhull, ffrawddged, rhoddgar, hyddawn; rhydd, rhwydd; rhyddedog, rhyddidog; haelfrydig, rhyddfrydig, rhyddgarol, rhyddgar; haelwych, boneddig, boneddigaidd, rhywiogaidd, syberlan; rhydd *neu* anghaeth ei feddwl; rhydd *neu* anghaeth ei ysbryd; diragfarn, cleufryd, anghaeth, digaeth; breiniol, breiniog; cedol, lladol; syber, syberw; penrydd.

Liberal arts—celfyddydau breiniol, celfyddydau rhyddedog, celfau rhyddedog, celfau breiniol, celfyddydau rhydd.

The seven liberal arts—y saith gelfyddyd freiniol=gramadeg, rhesymeg, areitheg, rhifyddiaeth, meidrofyddiaeth, seryddiaeth, a cherddoriaeth.

Liberal education—dygiad i fyny ar fonedd; dygiad i fyny mewn dysg a moesau da; dygiad i fyny mewn dysg a moes; addysg breiniol, rhyddedog, rhyddedus, rhydeddus, *neu* foneddigaidd.

To give children a liberal education—dwyn plant ar fonedd; dwyn plant i fyny ar fonedd.

A liberal person—dyn hael, un hael, dyn haelionus, hael, bronheilyn, dyn haelfrydig: *pl.* haelion, haelon.

Liberal without means—hael byrllawiog.

Liberal things—haelioni, pethau hael.

Liberal translation—cyfieithad anghaeth, cyfieithad rhydd, rhydd gyfieithad.

Extremely liberal—gorhael, gorhaelionus, tra haelionus, hael iawn.

Too liberal—rhy hael, rhyhael, rhy haelionus.

Liberal hand—llaw hyged, llaw hael, &c.

Liberal-handed — llawroddiog, llawegor, llawagor, llawgar, llawryddog, llawarian, hael ei law.

Liberal-hearted — haelfron, rhyddgalon, rhwyddgalon, calonrydd, calonrwydd, bronheilin; rhydd *neu* rwydd ei galon; hael, haelionus; hael ei galon.

Liberal-minded—haelfrydig, rhyddfrydig, rhydd ei feddwl.

Liberal-souled — rhydd-eneidiog, rhydd ei enaid, rhydd ei ener.

Liberal, *s.* rhyddgarwr, hael, haelwr.

Liberalism, *s.* rhyddgarwch, egwyddorion rhydd, egwyddorion haelfrydig.

Liberalist, *s.* rhyddfrydigwr, haelfrydigwr; rhyddfeddyliwr, rhydd-dybiwr, anffyddiwr: *pl.* rhyddfrydigion.

Liberality, *s.* (Ll. *liberalitas*) haelioni, haeledd, haelder, haelionusrwydd, haelusrwydd, haelgarwch, haelonedd, haelionedd, hygedrwydd, rhoddgarwch, haelged, buddged; haelfrydedd, haelfrydigrwydd, rhyddfrydigrwydd; tegwch, cleufrydedd; boneddigrwydd, syberwyd; haelrodd, ciried, cirwn.

Excessive liberality, } rhyhaeledd, rhy-
Too great liberality, } haelioni, gormod haelioni.

Liberalize, *v. a.* rhyddhau, helaethu, digaethiwo; gwneuthur yn haelfrydig *neu* ryddfrydig; rhyddfrydigo, haelfrydigo; rhyddhau oddi wrth gulfarn a rhagfarn.

Liberally, *ad.* yn hael, &c.

Liberate, *v. a.* (Ll. *libero*) rhyddhau; gollwng, tynu, *neu* ddwyn yn rhydd; gollwng, dadgaethu, digaethu, anghaethu, digaethiwo, digarcharu, anhualu, maddeu, dyllwng, gwaredu.

Liberation, *s.* (Ll. *liberatio*) rhyddhad, rhyddiant, gollyngdod, dadgaethiad, digaethiad, anghaethiad, gwared, gollyngiad yn rhydd.

Liberator, *s.* (Ll.) rhyddhäwr, gollyngwr, dadgaethwr, gwaredwr, maddeuwr.

Libertarian, *a.* (Ll. *liber*, *libertas*) perthynol i ryddid; perthynol i wyllys rhydd; rhyddidol, rhyddedol; rhyddwyllysiol.

Libertarian, *s.* rhyddidwr, rhyddedwr, rhyddgredwr; un à ddeil ewyllys rhydd.

Libertarianism, *s.* rhyddidwriaeth; athrawiaeth rhyddid ewyllys; egwyddorion y rhyddidwyr.

Liberticide, *s.* (*liberty*, a Ll. *cædo*) rhyddidladd, rhyddidladdiad, dinystr rhyddid.

Liberticide, *a.* à laddo *neu* à ddinystro ryddid; rhyddidladdol.

Libertinage, *s.*=*Libertinism.*

Libertine, *s.* (Ll. *libertinus*) gwr rhydd, gwr breiniol; penryddyn, rhyddwas, rhyddfucheddwr; un penrydd, un rhyddfucheddol, un anfoesol, un anghrefyddol, un digrefydd, un anfucheddol, oferddyn: *pl.* penryddion, penryddiaid.

Libertine, *a.* penrydd; rhyddfucheddol, anfucheddol, anfoesol.

Libertinism, *s.* penrhyddid, penrhydd-der, penrhyddni, penrhyddiaeth, penrhydded; anfoesoldeb, drygfuchedd, llodineb; rhyddedogaeth.

Liberty, *s.* (Ll. *libertas*; Ff. *liberté*) rhyddid, rhydd-did, rhydid, rhydded, rhyddineb, rhyddyd, rhydd-deb; trwydded, cenad, cynnwys, braint; hyfder, hyfdra; esgaeth, eangder; esmwythdra; cyfryddid, cyffin, terfyn.

At liberty — rhydd, yn rhydd, mewn rhyddid, mewn eangder.

To set at liberty—rhyddhau; gollwng yn rhydd; gollwng mewn rhydd-deb; rhoi mewn rhyddid; rhoddi mewn rhydd-did; anghaethu, digaethu, anghaethiwo, digaethiwo, esgaethu.

To be at liberty—bod yn rhydd; bod mewn rhyddid, &c.

To live at liberty—byw fel y myno un ei hun; byw yn y modd y myno un ei hun; byw wrth ei ewyllys, ei feddwl, *neu* ei fympwy ei hun.

To leave one at liberty to do or not to do a thing—gadael ar ddewis un i wneuthur peth ai peidio.

You are at your liberty to do it—mae i chwi genad i'w wneuthur os mynwch; y mae i chwi ryddid i'w wneyd os mynwch.

I am not at my liberty in this matter—nid yw fy newis genyf yn hyn o beth; nid oes i mi ryddid i wneyd fel y mynwyf yn y peth hwn.

Within the liberties of the university—o fewn cyfryddid y brifysgol; o fewn terfynau *neu* gyffiniau y brifysgol; o fewn rhyddid y brifysgol.

Civil liberty—rhyddid gwladol.

Religious liberty—rhyddid crefyddol.

Mutual liberty—cydryddid, rhyddid o'r cyd.

To take liberty to—cymmeryd cenad i; cymmeryd rhyddid i; bod yn hyf i.

Improper liberties—rhyddid anmhriodol; hyfder anweddus.

Libidinist, *s.* (Ll. *libido*) llodinebwr, anlladwr, anlladfab, anlladwas, trythyllwr.

Libidinous, *a.* (Ll. *libidinosus*) anllad, trythyll, llodinebus, llawd, anniwair, rhewyddus, rhewys, anlladgar, chwantus, chwantaidd, cnawdwyllt, nwyfus, gordderchol, serth, penrydd.

Libidinousness, *s.* anlladrwydd, anlladedd, trythyllwch, llodineb, anniweirdeb, anniweirdra, chwantusrwydd, serthedd.

Libra, *s.* (Ll.) y Fantol, arwydd y Fantol=seithfed arwydd y sidydd (♎)

Libra, *s.* (Ll.) pwys Rhufeinig (=12 unas): punt Rufeinig (=12 unas, a gwerth o ddeutu £3.)

Libral, *a.* (Ll. *libra*) yn pwyso pwys; yn bwys o bwysi; pwysol; unpwys.

Librarian, *s.* (Ll. *librarius*) llyfrgellydd, llyfrgellwr, llyfrwr, ceidwad llyfrgell, ceidwad llyfrfa, ceidwad llyfrdy; †adysgrifiwr, ysgrifenydd.

Librarianship, *s.* llyfrgellyddiaeth, llyfrgellaeth, swydd llyfrgellydd.

Library, *s.* (Ll. *librarium*, *libraria*) llyfrgell, llyfrfa, llyfrdy, llyfrgrawn, llyfreugell.

Circulating library—lloglyfrgell, cylchlyfrgell, llyfrgell gylchredol, llyfrfa dreigl, llyfrgell gylchynol.

Librate, *v.* (Ll. *libro*) mantoli, clorianu, cydfantoli, cyfantoli, cydbwyso, pwyso, taflo, cyttaflo.

Libration, *s.* mantoliad, mantoliaeth, cydfantoliaeth, cydfantoliad, cyfantoliad, cydbwysiad, cydbwysedd, cysbwysiad, cyttafliad.

Libratory, *a.* cydbwysol, cydbwysedigol, mantoledigol, clorianol, mantolaidd; yn myned i fyny ac i lawr fel mantol; yn chwareu fel mantol.

Lice, *s. pl.* (S. *lys*; Al. *läuse*) llau; *sing.* lleuen.

Sheep-lice—heuslau: *sing.* heusleuen.

Hog-lice—horod, hôr, hôr y moch: *sing.* horen.

Lice-bane, lleullys, llewyg y llau, llysiau y llau.

Licensable, *a.* (*o license*) trwyddedadwy.

License, } *s.* (Ff. *licence*; Ll. *licentia*) trwydd-
Licence, } ed, cenad, cynnwys, rhyddid, rhydd-did, cynnwysiad, caniatâd, braint, goddefeb, breinteb, breintysgrif, llythyr trwydded, ysgrifen drwydded; penrhyddid, trarhyddid, gormod ryddid.

Poetical license—rhyddid prydyddol, rhyddid barddonol, rhyddid prydyddion.

To have license—cael cenad, cael rhyddid, &c.; cael lle.

License, *v.* trwyddedu, trwyddedogi, cenadu, caniatäu; rhoi cenad, trwydded, rhyddid, cynnwys, *neu* gynnwysiad i; cynnwys; cenadu drwy freintysgrif; cenadu drwy drwydded; awdurdodi; † gollwng ymaith.

Licensed, *p. p.* trwyddededig, cenadedig, &c.; à gafodd genad, trwydded, *neu* gynnwys; trwyddedog, cenadog, rhyddedog, rhyddidog.

Licenser, *s.* trwyddedwr, ceniadwr, caniatäwr; à ganiatao drwyddedau, &c.

Licensure, *s.* trwyddediad, cenadiad, caniatâd, rhoddiad trwydded.

Licentiate, *s.* (o'r Ll. *licentia*) trwyddedog.

Licentiate of medicine—trwyddedog meddyginiaeth, trwyddedog meddygiaeth.

Licentiate in divinity — graddog mewn duwinyddiaeth, trwyddedog mewn dwyfyddiaeth.

Licentiate, *v. a.* trwyddedogi, trwyddedu, rhoi trwydded i, caniatäu.

Licentious, *a.* (Ll. *licentiosus*) penrydd, afreolus, afradlawn, rhydraul, ofer, rhyddwyllt, anfoesol, anfucheddol, drygfucheddol, aflywodraethus, diraith, rhydd, nwyfus.

Licentiousness, *s.* penrhyddid, penrhydd-did, penrhydd-der, penrhydded, afreolusrwydd, afreolaeth, anfoesoldeb, afradlonedd.

Lich, † *a.* (S. *lic*, *lics*) corff marw, celain, celan.

Lichen, *s.* (Ll.; Gr. *leichên*) cen, cip, callawdr, mwswn, mwsogl; gwreinyn, tarddwreinyn, tarddwreinen, taroden, tarwden, tarwyden.

Tree-lichen — barfau y derw, rhedegog y derw, coedgen.

Cup-lichen—ffiolgen, clych y ceryg, cwpanau 'r ddaiar.
Lichenic Acid, *s.* sur cenig, censur.
Lichenin, *s.* (o *lichen*) censyth, censythi.
Lichenographic, } *a.* (Gr. *leichên* a *graphô*)
Lichenographical, } cenofyddol; perthynol i genofyddiaeth.
Lichenographist, *s.* cenofydd, darluniwr cen.
Lichenography, *s.* cenofyddiaeth.
Lichgate, *s.* (*lich* a *gate*) porth y cyrff, porth y fonwent.
Lich-owl, *s.* aderyn y corff.
Licit, *a.* (Ll. *licitus*) cyfreithlawn.
Licitly, *ad.* yn gyfreithlawn.
Licitness, *s.* cyfreithlondeb, cyfreithlonder, cyfreithlonrwydd, cyfreithlonedd.
Lick, *v. a.* (S. *liccian;* Al. *lecken*) llyfu, llyo, llyu; lleibio, llepian, llepio, lleipio.
To lick one's self—ymlyfu, ymlyo, ymlyu, llyo ei hun.
To lick one's self whole—llyfu ei hun yn groen-gyfan; ymlyfu yn groen-gyfan; gwneuthur ei hun yn groen-gyfan; gwneuthur i fyny ei golledion.
To lick one another—cydymlyfu; llyfu eu gilydd; llyo y naill y llall.
To lick about—amlyfu, amlyo, amlyu; amleibio, amlepian.
To lick again—adlyfu, adlyo, llyfu drachefn.
To lick away, } llyfu, llyo, *neu* lyu ymaith.
To lick off, }
To lick the dust—llyfu y llwch.
To lick often—mynych lyfu, llyo yn fynych, dylyfu.
To lick softly—golyfu, golyo, ysgafn lyo.
To lick up—lleibio, lleipio, llepian; lleibio i fyny; sychu i fyny; difa.
Lick, *s.* llyf, llyad, llyfad, llyfiad, lly; llaib; dwbiad; llyfle.
Lick,† *s.* (C. *llach*) llach, ergyd, cis, ffonawd, golchfa, cosfa.
Lick, *v. a.* llachio, dygaboli, curo, dulio, ffusto, llyo.
Licker, *s.* llyfwr, llyfydd, llŷwr; lleibiwr, llepiwr.
Lickerish, } *a.* (Is. a D. *lekker;* Al. *lecker;* Sw.
Lickerous, } *läcker*) moethus, mwythus, melusig, dantfelus, minfelus, minflysig, minfoethus, danteithiol, ammoethyn; blysig, awyddus.
Lickerishness, } *s.* moethusrwydd, moethineb,
Lickerousness, } mwythusrwydd, dantfelusrwydd, minflysigrwydd.
Lickspittle, *s.* (*lick* a *spittle*) poerlyfwr, poerlyfyn, truthgi; truthiwr *neu* wenieithwr o'r fath ddirmygedicaf.
Licorice, *s.* (It. *liquirizia;* Ll. *glycyrrhiza;* Gr. *glucurrhiza*) gwylys, chwegwraidd, perwraidd, melwraidd, meluswraidd, gwreiddber.
Wild licorice—geuberwraidd.
Licorous,† *a.*=*Lickerish, Lickerous.*
Licorousness,†*s.*=*Lickerishness, Lickerousness.*
Lictor, *s.* (Ll.) rhingyll *neu* ferllysgwr Rhufeinig; ffasgor.
Lid, *s.* (D. ac Is.; S. *hlid*) clawr, cauad, caead, hulier, gwerchyr, gwarchar.
Pot-lid—clawr crochan, hulier crochan, gwerchyr crochan.
A small lid—cloryn, clawr bychan.
Lidless, *a.* diglawr, digaead.

Lie, *s.* (S. *lig, lyge*) celwydd, anwiredd; gau, geuair.
You tell a great lie—dywedi gelwydd yn dy ddannedd; dywedi gelwydd yn dy en; dywedwch gelwydd yn eich gen.
To give one the lie—taflu y celwydd i ddannedd un; cyhuddo un o gelwydd; dannodd ei gelwydd i un; dywedyd bod un yn dywedyd celwydd; rhoi y celwydd ar un; taflu y celwydd ar un.
To tell a lie—dywedyd celwydd, celwyddu; ffugio, twyllo.
Given to lie, } celwyddog, celwyddus.
Given to lying, }
That cannot lie—digelwyddog; nas geill ddywedyd celwydd.
Lie, *v. n.* dywedyd celwydd, celwyddu; ffugio, twyllo.
You lie in your throat—dywedi gelwydd yn dy ddannedd; dywedi gelwydd yn dy en; dywedi gelwydd yn dy geg.
Lie, *v. n.*(S. *ligan;* Al. *liegen*) gorwedd; bod, sefyll, aros, gorphwys, arbwyso; bod gosodiad peth; bod â'i osodiad; gogwyddo, wynebu, edrych; bod yn gynnwysedig.
To lie about—bod ar wasgar; bod yn wasgaredig; gorwedd o amgylch.
To lie along—gorwedd yn ei hyd gyd; gorwedd yn ei hyd gyhyd; gorwedd o'i hyd gyhyd.
To lie along the sea—bod gyfochr *neu* gyfarystlys â'r môr; gorwedd gyfochr *neu* gyfarystlys â'r môr; gorwedd gyda glàn y môr; gorwedd gyda'r môr.
To lie in ambush, } cynllwyn, cynllwyno,
To lie in wait, } gwneuthur cynllwyn, cyfragod, rhagod, gwneuthur dichellion i ddàl, rhagod ffordd, rhagod pen ffordd.
To lie at—bod wrth, dirio ar, cymhell, pwyso ar, gwasgu ar, crefu ar, bod yn daer ar.
To lie at the heart—gorwedd yn y galon; bod yn y galon.
To lie before—gorwedd o flaen, rhagorwedd.
To lie by—bod, sefyll, *neu* orwedd ger llaw; gorphwys, gorphwyso, cymmeryd hoe.
To lie desolate—bod yn anghyfannedd; bod yn ddiffaethwch.
To lie down—gorwedd i lawr; rhoi ei hun i lawr; bwrw ei hun i orwedd; bwrw ei hun yn ei orwedd; myned i orphwys; gorwedd, creinio; gorwedd i mewn.
A place to lie down in—gorweddfa, gorweddle; gorphwysfa; lle i orwedd *neu* orphwys.
To lie down to sleep—gorwedd i gysgu.
To lie flat—gorwedd yn ei hyd; gorwedd yn ei hyd gyhyd; gorwedd â'i wyneb i waered; gorwedd â'i wyneb yn isaf; gorwedd yn llorwedd; yswatio; bod yn ei orwedd.
To lie hard, } gwasgu, pwyso ar, gor-
To lie heavy, } thrymu; bod yn pwyso ar; beichio, llwytho.
To lie hid—llechu, godechu, godech, godechial, techu, dydechu, dydach, bachu; bod *neu* orwedd yn nghudd; bod dàn gudd; bod dàn gel; bod yn llech; bod dàn lech; ymgelu.
To lie in—gorwedd i mewn; bod yn ei gwelyfod; bod ar ei gwely; bod yn *neu*

ar wely esgor; bod ar ei hetifeddwely; gwelyfodi, gwelyodi; esgor, esgori.

To lie in—bod mewn; bod yn gorwedd mewn; bod yn gynnwysedig mewn *neu* yn; sefyll yn; bod yn sefyll mewn; bod yn gorwedd yn; sefyll ar.

To lie often—gorweddial, mynych orwedd.

To lie on, } gorwedd ar, sefyll ar; gor-
To lie upon, } phwys ar; bod *neu* orwedd ar law.

To lie over—gorwedd dros, gorwedd drosodd; bod heb ei dalu pryd y byddo yn ddyledus.

To lie open—bod yn agored, bod yn egored, &c.

To lie in state—bod *neu* orwedd dàn ei deyrn-grwys; bod *neu* orwedd dàn ei eurgrwys.

To lie to—gorwedd wrth, gorwedd wrthi; bod *neu* aros yn yr unman.

To lie together—cydorwedd; gorwedd *neu* gysgu yn nghyd.

To lie with—cydorwedd â, gorweddial gyda, gorwedd gyda; godinebu; perthyn i, bod gyda.

To lie waste—bod yn anghyfannedd; bod yn ddiffaethwch; gorestu.

Thus the matter lies—y peth a saif yn llŷn; yn llŷn y mae y peth yn sefyll; fel hyn y mae y peth yn sefyll; dyma fel y mae y peth yn bod.

Here the matter lies hitherto—yma y gorphwys y mater hyd yn hyn; yma y saif y peth hyd yn hyn.

The difficulty lies in this—yn hyn y mae yr anhawsdra.

As much as lies in you—hyd y mae ynoch; hyd y galloch; hyd y mae yn eich gallu; hyd y mae ar eich llaw.

If it lay in me, } pe bai ar fy llaw i; pe
If it did lie in me, } byddai ar fy llaw.

If my life should lie on it—pe bai fy mywyd i arno.

There lies the chief point—dyna y pwnc penaf *neu* galetaf; dyma yr anhawsdra.

It lies him in more—y mae yn sefyll iddo mewn ychwaneg.

As I lay on my bed—a mi yn gorwedd ar y gwely; fel yr oeddwn yn gorwedd ar fy ngwely.

The island lies north and south, } y mae
The island lies from north to south, } gosodiad *neu* ystum yr ynys o'r gogledd i'r deheu; y mae ystum *neu* osodiad yr ynys o'r gogledd tua'r deheu; mae yr ynys yn gorwedd o'r gogledd i'r de.

Thy wrath lieth hard upon me—y mae dy ddigofaint yn pwyso arnaf.

The camps that lie on the east parts—y gwersyllioedd y rhai a wersyllant tua'r dwyrain.

He shall lie all night betwixt my breast—rhwng fy mronau yr erys dros nos.

She is ready to lie down—y mae hi yn barod i orwedd; y mae ei thymp yn agos *neu* ger llaw.

Lief, † *a.* (S. *leof;* Al. *lieb*) anwyl, hoff, cu.

Lief, *ad.* yn ewyllysgar, yn wyllysgar, yn foddlawn, yn ufydd, o wirfodd, yn wirfoddol, yn barod, yn llon.

I had as lief—cystal fyddai genyf; yr un peth fyddai genyf.

I had as lief go as stay—cystal genyf fyned ag aros; yr un màn genyf fyned ag aros; nid gwaeth genyf fyned nag aros; yr un peth genyf fyned ag aros; gwyllysgar wyf i fyned neu i aros.

Liefraught, *a.* (*lie* a *fraught*) llawn celwyddau, celwyddog.

Liege, *a.* (It. *ligio;* Ff. *lige;* o'r Ll. *ligo*) ffyddlawn, cywir, ufydd, tanlwydd, ufyll, gostyngedig; rhwymedig; tàn warogaeth, tàn wriogaeth; à fo rwym i wneuthur gwarogaeth; gwarogaethol; goruchel, goruchaf, penadurol, penarglwyddol.

Liege people, } deiliaid, deiliaid cywir,
Lieges, } ufydd ddeiliaid, gwarogion, gwarogiaid.

Liege lord—penarglwydd, arglwydd goruchel, arglwydd goruchaf.

Liege, *s.* deiliad, ufydd ddeiliad, ufyddwas, dyn gosgordd; penarglwydd, arglwydd goruchel, arglwydd goruchaf, penadur, unben, teyrn, arglwydd: *pl.* deiliaid, gwarogion, gwarogiaid.

Liegeman, † *s.* deiliad, ufyddwas.

Lieger, *s.* (o *liege*) cenadwr trigiannol.

Lien, † *p. p.* (o *lie*) gorweddedig, wedi gorwedd, &c.

See where thou hast not been lien with—edrych pa le ni phuteiniaist (*Jer.* iii. 2).

Lien, *s.* hawlrwym, hawl gyfreithiol; hawl i ddàl eiddo arall nes cael o un ei ofyn.

Lien, *s.* dueg, y ddueg; y boten ludw.

Lienteric, *a.* (o *lientery*) annhreulredol; perthynol i'r bibre anmrwd.

Lientery, *s.* (Ll. ac It. *lienteria;* Gr. *leion* ac *enteron*) y bibre anmrwd, y bib anmrwd, y darymred annhraul, annhreulred.

Lier, *s.* (o *lie*) gorweddwr, gorweddydd; gorphwyswr.

A lier in ambush, } cynllwynwr, cynllwyn-
A lier in wait, } ydd, cyfragodwr, llechwr.

Lieu, *s.* (Ff.) lle.

In lieu of—yn lle; yn nghyferyd.

Lieutenancy, } *s.* rhaglawiaeth, cadraglaw-
Lieutenantship, } iaeth, cadweinyddiaeth; dirprwyaeth; rhaglawiaid.

Lieutenant, *s.* (Ff.; o'r Ll. *locum tenens*) rhaglaw, cadweinydd, cadraglaw; isgadben; ialywydd; eilben; dirprwywr; swyddog à leinw le uchradd yn ei absennoldeb: is-.

Lord lieutenant—arglwydd raglaw, rhaglywiawdr; rhaglywiadur.

Lieutenant general—isgadfridog, adgadfridog, rhaggadfridog.

Lieutenant of the Tower—penceidwad *neu* raglaw y Tŵr Gwŷn (yn Llundain).

Lieve, † *ad.* = *Lief.*

Lievrite, *s.* delidfaen, à elwir hefyd *yenite.*

Life, *s.* (S. a Sw. *lif;* D. *liv;* Al. *leben*) bywyd; einioes, oes, hoedl; buchedd, buchwedd, ymarweddiad; bywoliaeth, bywiolaeth; bywdeb, bywiogrwydd, nwyf, arial, yni, aid; buch, bu; ysbryd; ffun, chwyth, anadl; bydiaeth, bydiant, byd; cofiant, hanes bywyd.

A long life—hir oes, hir hoedl, hiroes, hirhoedl, hir einioes, oes hir, hir ddyddiau, llawer o ddyddiau, dyddiau lawer.

A short life—beroes, bèr oes, oes fèr, einioes fèr, &c.

Manner of life—buchedd, buchwedd, ymarweddiad, ymarwedd, ymddygiad.

Course of life, } buchedd, buchwedd, hel-
Way of life, } ynt, hynt, buchedd-iad, ymarwedd, ymarweddiad, bydiaeth; ystod bywyd; hwyl a threfn bywyd; oes, oesdaith, oesdrawd, oesred.
Conduct in life—buchedd, bywyd, ymarweddiad, ymarwedd, ymddygiad, bywoliaeth.
This life—y bywyd hwn; y byd hwn.
Life (the animating principle)—bywyd, einioes; enaid, ysbryd, ffun, chwyth, anadl.
Holy life—buchedd santaidd, bywyd santaidd, cyssegrlan fuchedd, eirioes.
Time of life, } bywyd, oes; ystod bywyd;
Life-time, } oedran, oesran.
To give life—bywiocâu, bywio, bywseiddio, bywhau, bywiogi, bywioli, eidiogi, eidio, arialu, rhoi bywyd.
Giver of life—bywiawdwr.
To lead a life, } byw, bucheddu, buchedd-
To live a life, } ocâu, bucheddogi, ymfucheddu, ymarweddu, ymarwedd; ymfydio, bydio; byw bywyd; arwain ei fywyd; treulio ei oes; oesi, hoedli.
Single life—anweddogaeth, bywyd unig, buchedd unig, bywyd anweddog, gweddwdod, buchedd anmhriod, annyweddiaeth.
Pain of life—poen bywyd, oesboen.
Affliction of life—oesgur, cystudd bywyd, cur bywyd, trallod bywyd.
Misery of life—trueni bywyd, gresyndod oes, oesdru.
Of short life—byrhoedlog, oesfyr.
That has had a long life—hirhoedlog, hiroesog, hoedlog, oesog, oesbraff, oesbell.
Decline of life—methoed, meth-oedran, henoed; meth-flyneddoedd, blyneddoedd methiant.
High life—arfuchedd, arfyd, buchedd ddullweddus, buchedd uchelwych, uchelfyd.
Duration of life—oedran, oesran, ystod bywyd, oes.
Second life—eiloes, ail oes, ail fywyd.
Joint life—cydfuchedd, cydfywyd.
Transitory life—bywyd darfodedig, beroes, bywyd anmharhâus.
Seafaring life—bywyd mordwyol, bywyd ar y môr.
Sedentary life—bywyd eisteddog.
Recluse life—bywyd meudwy, bywyd meudwyaidd, buchedd feudwyol, meudwyad.
Economy of life—trefnidedd oes, oesdrefn, oesdraw.
Animal and vegetable life—bywyd mil a thwf; bywyd anifeilig a llysieuol; bywyd milaidd a thyfol.
During life only—oesfoddog.
Granted during life only—oesfoddog.
To the life—i'r bywyd; i'r byw.
In all one's life—erioed.
In all my life—ermoed, er ym oed, erioed.
All my life long—trwy gydol fy mywyd; trwy gydol fy oes.
I never saw such a thing in all my life—ermoed *neu* erioed ni welais i mo'r fath beth.
All my life long unto this day—er pan yr ydwyf hyd y dydd hwn.
For my life—pe trigwn, pe trengwn; yn fy myw; pe bai fy mywyd arno; pe bai fy mywyd i arno.
I cannot for my life—nis gallaf pe trigwn; nis gallaf pe trengwn, &c.
To cost one's life—bod yn angeu i un; bod yn golled bywyd i un; bod yn achos i un golli ei fywyd; costio i un ei fywyd.
With safety of life—heb berygl bywyd.
To put life into—bywhau, bywiocâu, bywiogi, &c.; calonogi, cefnogi, arialu.
In danger of life—mewn perygl bywyd; mewn perygl am ei hoedl; ar antur bywyd.
To be in danger of one's life—bod mewn perygl bywyd; bod mewn perygl am ei hoedl; bod â'i fywyd mewn perygl *neu* enbydrwydd; bod ar antur bywyd.
Loss of life by the law—dïenydd.
One condemned *or* worthy to lose his life by the law—eneidfaddeu, un eneidfaddeu, un dywynfaddeu, un dïenydd.
Tending to deprive of life—dïenyddol.
Come to life again, } eilfyw, adfyw,
That is come to life again, } adfywiedig; â ddaeth i ail fywyd.
To come to life again—adfywio, eilfywio; dyfod i ail fywyd.
To restore to life again—adfywhau, eilfywhau, bywhau; adferyd i fywyd.
His life is despaired of—y mae efe yn wàn, yn llesg, *neu* yn glaf dïobaith; nid oes gobaith am ei fywyd.
To take away one's life—dïeneidio un; dwyn bywyd un; dwyn einioes un; lladd un.
A cause of life and death—achos, hawl, *neu* fater bywyd; mater bywyd ac angeu.
To sit upon life and death—eistedd ar fywyd un; eistedd yn farnwr ar fywyd un; holi *neu* brofi un am ei fywyd.
To be tried for one's life—cael ei holi *neu* brofi am ei fywyd; bod mewn hawl *neu* dàn holiad am ei fywyd.
Having life, } byw; perchen bywyd;
That hath life, } perchen enaid; ag y mae anadl einioes ynddo; â byw ynddo; â bywyd ynddo; eneidiol.
Full of life—bywiog, llawn bywyd, eidiog.
With the life of the author—gyda chofiant, buchedd, *neu* fywyd yr awdur; gyda hanes bywyd yr awdur.
Turn of life—troad bywyd.

Life-afflicting, *a.* oesgur; yn cystuddio bywyd.
Life-annuities, *s. pl.* blwyddladau bywyd, blwyddosebion bywyd, blwydd-dalion bywyd, bywyd-ladau.
Life-blood, *s.* gwaed y bywyd, gwaed yr einioes, gwaed y galon.
Life-blood, *a.* rheitied a gwaed i fywyd; mòr anghenrheidiol a gwaed i gynnal bywyd; hanfodol, anhebgorol, bywydol.
Life-boat, *s.* bywydfad, diogelfad.
Life-buoy, *s.* nofnod bywyd, morarwydd bywyd, bywydnawf.
Life consuming, *a.* oesdraul; yn difa bywyd.
Life-devotedness, *s.* dïofrydedd bywyd, ymroddgarwch bywyd.
Life-ending, *a.* yn terfynu einioes; oesdrwch.
Life-estate, *s.* treftadaeth dros fywyd; tir dros fywyd.
Life-everlasting, *s.* bywyd tragywyddol=math o edafeddog.

Life-giving, *a.* oesrodd, bywhäus, bywiocäus, à rydd fywyd, yn rhoddi bywyd, yn bywhau.
Life-guard, *s.* nawddosgordd, corffosgordd, diffyngor, diffynwys, gosgordd, gosgorddlu, llyfilwyr, teyrnosgordd, gwŷr mael; gosgordd y brenin *neu* y frenines; teyrnward, teyrndrus; gwylwyr *neu* warcheidwaid corff y brenin; gwylgor brenin, &c.
Life-insurance, *s.* digolledlad bywyd, yswiriant bywyd, diogeliad bywydau, oes-yswiriant.
Lifeless, *a.* difywyd, marw, marwaidd, difyw; diysbryd, dienaid, anfywiog; swrth, dïog, trymllyd; oerllyd.
Lifelessness, *s.* difywydedd, difywydrwydd, marweidd-dra; anfywiogrwydd, syrthni, anweithgarwch.
Lifelike, *a.* fel dyn byw; bywydaidd.
Lifeline, *s.* bywyd-lin, bywyd-raff, rheffyn bywyd.
Lifelong, *s.* oes, ystod bywyd, hyd bywyd, cydol oes, cydol bywyd.
Life-preservers, *s. pl.* cadwadogion bywyd, ceidwaid bywyd.
Life-rent, *s.* bywyd-rent, ardreth bywyd.
Lifespring, *s.* ffynnon bywyd, tarddell bywyd.
Lifestring, *s.* llinyn bywyd, edaf bywyd.
Lifetime, *s.* oes, bywyd, ystod bywyd, amser bywyd, tymmor bywyd, einioes, hoedl.
In her lifetime—yn ei byw hi; yn ei hoes.
Lifeweary, *a.* oesflin; blin ar fywyd; wedi blino ar ei fywyd *neu* einioes; blin ganddo fywyd.
Lift, *v.* (Sw. *lyfta;* D. *löfter*) codi, cyfodi, dyrchafu, derchafu, dyrchu, derchu, dyrchafael, cwnu, codi i fyny, arddwyre, arddyrchafu; ceisio *neu* gynnyg codi; † lladrata.
To lift up—codi i fyny, codi, &c.
To lift up again—ail godi, ail ddyrchafu.
To lift up one's self—ymgyfodi, ymgodi, ymddyrchafu; ymuniawnu, ymsythu, ymddadgrymu.
To lift upright—codi yn ei sefyll.
To lift up high—arddyrchafael, ardderchafael, arddyrchafu, ardderchafu, arddyrchu; dyrchafu *neu* godi yn uchel; codi *neu* ddyrchafu i'r uchelder.
To lift up the hand—codi *neu* dderchafu y llaw; dyrchafu *neu* godi dwylaw; tyngu wrth; gwrthryfelu; ymosod; gorthrymu.
To lift up the head—codi *neu* ddyrchafu y pen; codi ei ben; dyrchafu, codi; llawenhau.
To lift up the eyes—codi *neu* dderchafu y llygaid; codi *neu* ddyrchafu y golygon; edrych, syllu, craffu.
To lift up the face—dyrchafu yr wyneb; edrych gyda hyder a sirioldeb.
To lift up the heel against—codi y sawdl yn erbyn; ymddwyn yn drahäus tuag at; trin yn ddirmygus a thrahäus.
To lift up the horn—dyrchafu y corn; ymddwyn yn drahäus.
To lift up the feet—dyrchu y traed; brysio i gynnorthwyo *neu* wared un.
To lift up the voice—dyrchafu y llais; codi y llais; llefain yn groch; gwaeddi yn groch; crochlefain, crochwaeddi, banllefain, bloeddio â llef.
They shall lift up a shout against thee—hwy a ganant floddest i'th erbyn.
Lift, † *v. n.* lladrata, lledrata.
Lift, *s.* codiad, dyrchafiad, derchiad, cyfodiad, cwnad, ymgodiad; hwp, hwb, hwbiad, ymwr, egni; tafliad (ar geffyl), chwyl o farchogaeth; cymhorth, cynnorthwy, help.
Dead-lift—trymbwysi, pwysi; angen, angenoctyd; dygn angen, dygnedd, cyfyngder, cyfyng-gynghor, eithaf perygl; y cynnyg diweddaf; y weddi ddiweddaf; angen diobaith; yr hwp olaf.
At one lift—ar unwaith; ar un egni, ymegniad, hwp, *neu* ymwr.
To give one a lift—cynnorthwyo un yn mlaen; rhoi codiad i un; rhoi tafliad i un ar geffyl.
Lifts of a sail—rhaffau wrth ddeupen yr hwyl-lath i godi *neu* i ostwng yr hwyl; rhaffau codi.
Lift, † *s.* (S. *lyft;* Sw. *luft*) yr awyr, y ffurfafen, yr wybr.
Lifter, *s.* codwr, codydd, dyrchafwr, derchafydd, dyrchefydd.
Lifters and Anti-Lifters—Dyrchafwyr a Gwrth-ddyrchafwyr.
Lifter-up—codwr i fyny, dyrchafwr, &c.
Lifting, *s.* codiad, dyrchafiad, derchiad, cwnad; cymhorth, cynnorthwy, cannerth.
Lift-wall, *s.* codwal, codfur, gwàl godi, gwàl groes argae.
Lig, † *v. n.*=*Lie.*
Ligament, *s.* (Ll. *ligamentum*) rhwymyn, rhwym, cyfrwym, cyfrwymyn; gewyn cysswllt, gewyn cymmal, gieuyn cymmal, gewyn, gaw; cadwyn.
Ligamental, } *a.* cyfrwymol; rhwymol,
Ligamentous, } rhwymynol, gewynol.
Ligation, *s.* rhwymiad, cyfrwymiad, rhwymiant, tidiad, ffasgiad.
Ligature, *s.* (Ff.; Ll. *ligatura*) rhwymyn, rhwym, cyfrwym, cyfrwymyn, ffas, amrwym, achrwym, rhefog, lleg, llegr; rhwymiad, cyfrwymiad; rhwymedigaeth; creffyn.
Ligatures (in typography)—llythyrenau dyblyg, argraff-lythyrenau dyblyg, cyfrwymiaid, llythyrenau cyfrwym, rheflythyrenau, =*fl*, *ffi*, *fl*, *ffl*, &c.
Ligature on the tongue—deilen ar dafod.
Light, *s.* (*leoht*, *liht;* Is. ac Al. *licht*) goleuni, goleu, gwawl, llewyrch, llewych, lleufer, lleuer, llug, gawl, tywyn; goleuad, llugas, llygas; llugorn; canwyll; ffenestr; goleurwydd, lleurwydd, tywynwg; dydd.
A glance of light—llygedyn, llygaden, lluchedyn.
The light of the eye—lleuer y llygad, lleufer y llygad, llewyrch y llygad, llewych y llygad.
First light—cynwawl, cyn-oleuni, goleuni cyntaf.
Small light—goleuyn, goleu bychan, goleu gwàn.
Reflection of light—adlewyrchiad *neu* adlewychiad goleuni; adlewyrchiant, adlewyrchiad; llugant.
Reflected light—gwrthwawl, gwrthdywyn, goleuni adlewyrchedig, goleu adymrithiog.
Northern lights—y goleuni gogleddol, y wawr ogleddol, gogleddwawr, gogleddwawl.
Day-light—goleuni dydd, goleu dydd, goleu y dydd, dydd goleu, dyddwawl, gwawl dydd.

By day-light—wrth liw dydd; liw dydd; wrth oleu y dydd; yn ngoleuni dydd.
With the light—gyda'r dydd, gyda'r wawr, gyda'r goleuad, gyda'r goleuni.
To give light—goleuo, llewychu, llewyrchu, rhoddi goleu, rhoddi goleuni, lleuferu, lleuerու.
To be light—bod yn oleu; bod yn oleuni; bod yn ddydd.
To stand in one's own light—bod yn ei oleu ei hun.
To come to light—dyfod i oleuni, i'r goleuni, i'r goleu, *neu* i'r amlwg; bod yn amlwg; dyfod i fod yn amlwg; myned yn amlwg; dyfod *neu* fyned yn weledig, yn weladwy, yn honaid, *neu* yn hysbys; ymddiargelu, ymegluro, ymddadguddio.
To bring to light—dwyn i'r goleu; dwyn i oleuni; dwyn i'r goleuni; dwyn i'r golwg; dwyn i'r amlwg; dygyd i'r goleuni; dwyn i glawr.
The light of the countenance—llewyrch yr wyneb; llewych yr wynebpryd; ffafr, gwyllys da; gwên, gwenau.
In the light of the king's countenance—yn siriol wynebpryd y brenin (*Diar.* xvi. 15).
Morning light—goleuni y bore, gwawr y dydd; toriad y wawr; gwawl y bore.
By the morning light—erbyn goleuo y bore.
Until the morning light—hyd oni oleuo y bore.
It is morning light—mae hi yn oleu; mae hi yn ddydd.
Till it was light—hyd oleuni y dydd (*Barn.* xix. 26).
That has no light, } dïoleu, anoleu, di-
That gives no light, } lewych, tywyll.

Light, *a.* goleu, dysglaer, canaid, claer, eirian, cain, glain, anhywyll, lleuferog, lleuerog; ar y gwŷn, lledwyn, gwynaidd.
A light cloud—cwmwl goleu.
Light brown—llwyd goleu, llwydoleu, goleulwyd.
Light-coloured—gwynlliw, ar y gwŷn, goleuliw, goleu.
Light-grey—llwydwyn, gwynllwyd, llwydoleu, lliw yr onen, rhwng gwŷn a du, gwineu goleu, gwineulwyd.
To grow light—goleuo, goleuannu, goleunnu, myned yn oleu.
To make light—goleuo; gwneuthur *neu* beri yn oleu.

Light, *a.* (S. *liht;* Ff. *léger*) ysgafn, ysgawn, ysgon, annhrwm; dibwys; disylwedd, gwagsaw, masw, maswy; dibris, diwerth; ysmal, mâl; isel, gwael; hawdd, rhwydd, esmwyth; gweisgi, gwiagi, gwaisg, sionc, esgeiddig, bywiog, buan, cyflym; llawen, difyr; hoenus; hynwyf, nwyfus, anniwair, hoedenol; anwadal, gwamal, ansefydlog, penysgafn, hydro, ysgoewain, chwidr, gwantan; bychan, bach, bychydig; coeg, gwag; ofer; chwâl; arwynebol, diddyfnder, nid dwfn, diwreiddyn; dilwyth, anllwythog; arfysgafn, ysgafndrec, ysgafndrefn; wedi codi yn dda.
To make light—ysgafnhau, ysgafnu, ysgawnu, ysgoni; gwneyd *neu* beri yn ysgafn.
To make light of—bychanu, dirmygu, dibrisio, tremygu, dïystyru; gwneyd yn fach o.
To set light by—tanbrisio, iselbrisio; prisio yn rhy isel; prisio dàn à dalo; bychanu, dibrisio, dirmygu, dïystyru.
Light of foot—ysgafndroed, troedysgafn, buandroed, troedfuan, cyflymdroed, troed-weisgi; ysgafn ei droed; ysgafn ar ei droed; ysgafn ar ei draed; buan ar ei draed; gweisgi, gwisgi, esgeiddig.
Vain and light persons—oferwyr gwamal.
Light housewife—hyswy glauar, symlogen.
Light of belief—hygoel, hygoelus, ofergoelus, coelgar, hygred.
Light soil—gweryd ysgafn, tir ysgafn; pridd chwâl.
Light bread—bara ysgafn; bara wedi codi yn dda.
It is no light matter—nid peth bach ydyw; nid mater bach ydyw.
Is it a light thing with you to neglect Divine worship?—ai bychan genych chwi esgeuluso addoliad Duw?
To take a light taste of a thing—ysgafn brofi peth; min-brofi peth, min-flasu peth; prin-brofi blas peth.

Light, *v. a.* ennyn, cnnynu, cynneu; goleuo, goliannu, lleuferu; †ysgafnu.
To light a candle—goleuo, ennyn, *neu* gynneu canwyll.
To light one—goleuo un; rhoi goleu i un; goleuo i un; dwyn canwyll *neu* oleu o flaen un; dàl canwyll i un.

Light, *v. n.* (G. *lihtan, alihtan*) disgyn; dygwydd, damweinio; disgyn, myned, dyfod, *neu* neidio i lawr; disgyn, myned, dyfod, *neu* neidiaw oddi ar; llorio; gorphwys; eistedd i lawr.
To light on—disgyn ar, syrthio ar, taro wrth, dygwydd ar, dygwyddo ar, dyfod ar, damweinio ar, cael, caffael; cael o ddamwaen; dyfod o ddamwaen ar; dyfod o ddamwaen am ben; dygwyddo *neu* ddamweinio am ben; cyfarfod â; dywanu ar; taro wrth beth drwy ddamwaen; cyrhaeddyd; rhuthro ar.
A mischief light upon you—tynged ddrwg a ddel i chwi; tynged ddrwg a'ch caffo; tynged ddrwg a'ch dylyno.
To light from—disgyn oddi ar; disgyn o; dyfod i lawr o.
He lighted down from the chariot—efe a ddisgynodd oddi ar y cerbyd.

Light-armed, *a.* arfysgafn, arfysgawn, ysgafndrefn, ysgafndrec, ysgafn-arfog; ysgafn ei arfau; yn gwisgo *neu* ddwyn arfau ysgafn.
Light-armed infantry—peddyd arfysgafn, milwyr traed arfysgafn, pedwys arfysgafn; gwŷr traed yn gwisgo arfau ysgafn.

Light-bearer, *s.* goleuwr, goleuydd, goleuawdr; dygiawdr goleuni, ffagl, *neu* ganwyll; ffagl-enwas, goleu-ddygwr.

Lightbrain, *s.* chwidryn, chwidrwr, un penysgafn, dyn penchwiban, dyn penwan; un ysgafn ei ymenydd.

Lightbrained, *a.* penysgafn, penwan, penchwiban, chwidr, chwibwrn, gwibwrn, difeddwl; ysgafn ei ymenydd.

Lighten, *v.* (o *light*, goleuni) goleuo, llewyrchu, llewychu, goleuannu, goliannu; melltenu, lluchedu, ffflachio, mellt'o, mellto, lluchedenu, saethu mellt, taflu mellt, goleuo mellt, cynneu dreigiau, cynneu mellt; gwibio; †syrthio, disgyn.
Lighten our darkness—goleua ein tywyllwch.

The Lord will lighten my darkness—yr Arglwydd a lewyrcha fy nhywyllwch.
A light to lighten the Gentiles—goleuni i oleuo y Cenedloedd.
The Lord lighteneth both their eyes—yr Arglwydd a lewyrcha eu llygaid hwy ill dau.
Let thy mercy lighten upon us—poed dy drugaredd à ddel arnom.

Lighten, *v. a.* (o *light*, ysgafn) ysgafnhau, ysgafnu, ysgawnu, ysgoni; gwneuthur yn ysgafn *neu* ysgafnach; peri yn ysgafn *neu* ysgafnach; lloni, sirioli.
To lighten one's self—ymysgafnhau, ymysgafnu.

Lighter, *s.* goleuwr, goleuydd, cynneuwr, ennynwr.

Lighter, *s.* bad dilwytho, cwch dadlwytho, bad ysgafnu, ysgon-fad, ysgafn-fad; bad llwytho a dilwytho llong; bad, cwch.

Lighterage, *s.* tâl am ddadlwytho llong â bad; tâl dilwytho; dilwythiad llong â badau; dadlwythiad, dilwythiad.

Lighterman, *s.* badwr, cychwr.

Lightfingered, *a.* llawysgafn; ysgafn ei law; â llaw ysgafn iddo; lladronaidd, lladronig, chwiwgar, chwiwladradaidd, anonest.

Lightfoot, } *a.* ysgafndroed, troedysgafn,
Lightfooted, } buandroed, cyflymdroed, troedfuan, troed-weisgi; gweisgi, gwisgi; ysgafn ar ei droed; ysgafn ar ei draed.

Lightheaded, *a.* penysgafn, penchwiban, chwibwrn, gwibwrn, penwan; ysgafn ei ben; gwàn ei ben.

Lightheadedness, *s.* penysgafnder, penysgafnrwydd, penysgafndra, penysgafnedd, penwendid, penchwibandod, chwibwrn.

Lighthearted, *a.* ysgafn ei galon; llawen ei galon; ysgafn ei fron; calon-ysgafn; llawen, hoenus, llonwych, siriol, hylon.

Lightheartedly, *ad.* yn ysgafn ei galon, &c.; gyda chalon lawen; gydag ysgafn fron.

Lightheartedness, *s.* ysgafnder *neu* lawenydd calon; calon-ysgafnder; hoenusrwydd, sirioldeb, llonwychder, llonder.

Lightheeled, *a.* ysgafndroed, troedysgafn, troedfuan, buandroed; gwisgi, gweisgi, gwaisg, esgeiddig, sionc, chwimmwth.

Light-horse, *s.* marchoglu arfysgafn, marchlu arfysgafn, marchlu ysgafndroed, marchwys ysgafndrefn, marchlu ysgafn; marchrawd yn dwyn arfau ysgafn; gwŷr meirch ysgafn eu harfau.

Light-house, *s.* goleudy, goleudwr, lleufordy.

Light-infantry, *s.* peddyd arfysgafn, pedwys arfysgafn, pedyd arfysgawn, peddytos ysgafn, gwŷr traed ysgafndroed; milwyr traed yn dwyn arfau ysgafn.

Lightlegged, *a.* ysgafndroed, troedysgafn, troedysgawn, buandroed, cyflymdroed, troedfuan; gweisgi, esgeiddig, sionc, chwimmwth, mwth.

Lightless, *a*, dïoleu, dilewych, dilewyrch, dïoleuni, anoleu, diwawl; tywyll, gwyll.

Lightly, *ad.* yn ysgafn, &c.; yn ddiofal, yn esgeulus.
Lightly come, lightly go—ysgafn y daeth, ysgafn yr aeth.
To esteem lightly—dïystyru, bychanu, dibrisio, dirmygu.
One of the people might lightly have lien with thy wife—hawdd y gallasai un o'r bobl orwedd gyda'th wraig di (*Gen.* xxvi. 10).
All the hills moved lightly—yr holl fryniau a ymysgydwent (*Jer.* iv. 24).
That can lightly speak evil of me—ac a all yn y fân roi drygair i mi (*Marc* ix. 39).

Lightminded, *a.* ysgafn ei feddwl; ysgafn ei fryd; ysgafn-fryd; ansefydlog, anwadal, gwamal, anhysaf.

Lightness, *s.* (o *light*) ysgafnder, ysgafndra, ysgafnrwydd, ysgafnedd, ysgawnder, ysgawnedd, ysgondra, ysgonrwydd; anwadalwch, anwadaledd, gwamalrwydd; sioncrwydd; gwagsawrwydd; maswedd; anniweirdeb, nwyfusrwydd, anlladrwydd, hoedeneiddrwydd; hoenusrwydd, &c.
Lightness of foot—ysgafnder troed.
Lightness of the head—penysgafnder, penysgafnrwydd, penwendid, penchwibandod, ysgafnder pen, chwibwrn.

Lightning, *s.* (o *lighten*) mellten, lluchedeu, tân mellt: *pl.* mellt, lluched, lluchedenau, llachau.
Silent lightnings—dreigiau, mellt dystaw.
Heat lightnings—mellt gwres, dreigiau.
Lightning-glance—fflach mellt, lluchedyn mellt, llethrid mellt.

Lightning, } *s.* (o *lighten*, ysgafnu) ysgafnhad,
Lightening, } lleihad, hawshad, esmwythâd, esmwythyd; ymysgafnhad.
A lightening before death — dadebriad, dadmerth, dadlewyrchiad, dadlewych, *neu* ddadlewyrch cyn marw; gwawr marwolaeth, gwawr angeu.

Lightroom, *s.* goleugell (mewn cadlong).

Lights, *s. pl.* (o *light*, ysgafn) ysgyfaint, yr ysgyfaint.

Lightsome, *a.* (o *light*) goleulawn, lluglawn, llawn goleu, lleuerog, lleuferog, goleudeg, goleulon, goleu, dysglaer, goleufawr, goleuog; hylon, llon, llonwych, siriol, bywiog, hoenus, llawen; ysgafn.

Lightsomeness, *s.* goleulonder, goleulonedd, goleuder, goleurwydd, lleuerogrwydd, lleuferogrwydd, lluglawnder, dysgleirdeb; hylonder, siriolded, llonwychder, bywiogrwydd, hoenusrwydd, hoewedd; ysgafnder.

Lightspirited, *a.* ysbrydlon; ysgafn ei ysbryd.

Lign-aloes, alöewydd, coed elyw, elywydd, pren aloes.

Ligneous, } *a.* (Ll. *ligneus*) prenaidd, coedaidd,
Lignous, } gwyddin, o goed, o bren; à wnaed o goed; yn cynnwys coed; tebyg i goed.

Ligniferous, *a.* (Ll. *lignum* a *fero*) yn dwyn *neu* gynnyrchu coed; coedfag.

Lignification, *s.* (o *lignify*) coedeiddiad, coedeiddiant, preneiddiad; troad yn goed; troad yn bren; gwneuthuriad *neu* fynediad yn bren.

Ligniform, *a.* (Ll. *lignum* a *forma*) coedfal, coedaidd, prenaidd; fel coed; tebyg i goed.

Lignify, *v.* (Ll. *lignum* a *facio*) coedeiddio, preneiddio; troi yn bren; troi yn goed; myned yn bren *neu* goed; ymgoedeiddio.

Lignin, } *s.* (Ll. *lignum*) coednur, coedlin,
Lignine, } coedlined, tyflin, tyflined.

Ligniperdous, *a.* (Ll. *lignum* a *perdo*) yn difa coed; coed-ddifaol.

Lignite, *s.* (Ll. *lignum*) coedfaen; llwydlo, coedlo, glo llwyd, coedlo duglistaidd.

Lignitic, *a.* coedfeinin, coedfeinig, coedfaenaidd, coedithig.

Lignum-vitæ, *s.* (Ll.=pren y bywyd) bywydwydd, brechwydd: *sing.* bywydwydden, brechwydden.

Ligulate, } *s.* (Ll. *ligula*) careiaidd, rhwymyn-
Ligulated, } aidd, lleinaidd.

Ligule, *s.* (Ll. *ligula*) tyflain, llysgarai.

Ligure, *s.* (Gr. *ligurion, liguron?*) lligur, llygur, ligur=math o faen gwerthfawr.

Ligurite, *s.* (o *Liguria* yn yr Ital) delidfaen Liguria.

Ligusticum, *s.* (oddi wrth *Liguria*) llwfach, marchberllys, perllys y meirch.

Ligustrum, *s.* (Ll.) yswydd, yswydden, gwyros, priallen, priellyn, rhyswydd, gwewydd.

Like, *a.* (S. *lic, gelic;* Is. *lyk, gelyk;* Al. *gleich*) tebyg, tebig, cyffelyb, cynhebyg, tebygol, ail, eilfydd, hafal, hefelydd, cyhafal, cynhafal, eisor, cyfal, cyfeisor, cywala, hefal, hefelig; bath, math; cyfryw; unwedd, unfath, unddull, unffurf, cyflun, gogyflun, cyfunyd, unyd, cyfunsawdd; cyfagweddus; tebyg i, cyffelyb i; -aidd.

Like to—tebyg i, cyffelyb i, eilfydd i, ail i, &c.; fel, fâl, màl, megys.

He is like his father—y mae efe yn debyg i'w dad.

There is none like him in all the earth—nid oes cyffelyb *neu* debyg iddo ar y ddaiar; nid oes ail *neu* hafal iddo ar y ddaiar; nid oes mo'i debyg, mo'i gyffelyb, mo'i ail, *neu* mo'i hafal ar y ddaiar; nid oes un fath ag ef ar y ddaiar.

Like will to like—adar o'r unlliw a dynant i'r unlle.

They both have like terms—y mae yr un ammodau iddynt ill dau.

Like cover, like cup—da y gweddai y bêr i'r golwyth.

Like father, like son—màl y bo y dyn y bydd ei lwdn.

To be like one's father—tebygu i'w dad; bod fel ei dad; bod yn wir fab ei dad.

They are perfectly like one another—gwir frodyr ydynt.

In like manner—yr un modd; yn yr un modd; felly; mewn cyffelyb fodd; mewn modd cyffelyb; yn gyffelyb.

In like manner as—fel ag, megys ag.

In like manner as if—fel pe, megys pe.

Like to be—tebyg i fod; yn debyg i fod.

Like to die—tebyg, yn debyg, tebygol, agos, *neu* yn agos i farw; ar farw.

Like a child — plentynaidd, fel pleutyn, tebyg i blentyn.

Such like—cyfryw; cyffelyb; o'r fath yma; o'r un fath; cyfrai; felly.

Such like things—y cyfryw bethau.

Not like—annhebyg, anghyffelyb, anhafal.

We are like to have war—mae yn debyg y cawn ni ryfel; yr ydym yn debyg i gael rhyfel; tebygol y cawn ryfel; mae yn enbyd y cawn ni ryfel.

You are never like to see me more—nid yw debygol y gwelwch fi mwy; nid tebyg y gwelwch fi mwyach.

There shall be, like people, like priest—bydd yr un fath, bobl ac offeiriad.

Of each there shall be a like weight—yr un faint o bob un.

Neither shall there any after thee have the like—ac ni bydd y cyffelyb i neb ar dy ol di.

Like, *s.* peth cyffelyb, peth tebyg, un cyffelyb, un tebyg; cyfeisor, cydradd, cyfeilydd, hefelydd, cyfiad; y cyffelyb, y tebyg, y fath.

Like for like—tâl pwyth; y naill dros y llall; cast am gast.

He had like to have been lost among them—bu agos ei golli yn eu plith.

Like, *ad.* fel, fâl, màl, megys, yn debyg, yn gyffelyb, yn debygol, yn debyg i, yn gyffelyb i; yn yr un modd; yr un fath, &c.

Like as—fel, fâl, màl, megys.

Like a child—fel plentyn; yn blentynaidd; yn debyg i blentyn.

Like a gentleman—yn foneddigaidd; fel gwr boneddig; yn debyg i wr boneddig.

Like a dog—yn gïaidd; fel ci.

Like as a father pitieth his children—fel y tosturia tad wrth ei blant.

Quit yourself like men—byddwch wŷr.

Like the dust of the earth for multitude—mòr lluosog a llwch y ddaiar.

Like, *v.* (S. *licean, lician;* Goth. *leikan*) hoffi, caru, serchu, serchu yn; cymmeradwyo; bod yn gymmeradwy gàn un; bod yn gymmeradwy gàn un wneuthur peth; bod un yn foddlawn i beth; bod un yn foddlawn i wneuthur peth; bod peth wrth fodd *neu* chwaeth un; ymfoddloni mewn peth; bod peth yn rhyngu *neu* ryglyddu bodd un *neu* i un; bod peth yn boddhau, boddio, *neu* boddloni un; cymmeryd difyrwch o beth *neu* yn mheth; bod yn dda gàn; bod yn hoff gàn; bod yn chwaethu peth; gweled yn dda; mynu; dewis.

If you like it—os da genych chwi ef; os ydyw efe wrth eich bodd chwi; os ydych yn ei hoffi.

As you like it—fel y mynoch; fel y bo da genych.

He may do as he likes—gwnaed fel y myno; gwnaed fel y byddo da yn ei olwg; gwnaed fel y dewiso; gwnaed fel y bo da ganddo; gwnaed fel y gwelo yn dda; gwnaed à fyno.

It liketh me †—boddlawn wyf; mae yn rhyngu bodd i mi; mae wrth fy modd; boddlawn yw genyf; mae yn dda genyf; da genyf.

Where it liketh him best——lle byddo da ganddo (*Deut.* xxiii. 16).

As it liketh you—fel y gweloch yn dda (*Est.* viii. 8).

For this liketh you—canys hyn a hoffwch (*Am.* iv. 5).

To like of † — bod wrth fodd; boddio; cael ei foddio.

Likelihood, } *s.* (*likely*, a'r terfyniad *hood*)
Likeliness, } tebygoliaeth, tebygolrwydd, tebygoldeb, tebygrwydd, tebygaeth, cynhebygrwydd, cyffelybrwydd; †ymddangosiad.

In all likelihood—wrth bob tebygolrwydd; wrth bob tebygoliaeth; wrth bob tebyg; yn ol pob tebygolrwydd.

Likely, *a.* tebygol, tebyg, cyffelyb, cynhebyg; tebygol i fod; prydweddol, golygus, prydus, lluniaidd, telediw, hardd; teg, glân, *neu* hardd o bryd a gwedd.

A likely man—dyn golygus, dyn pyw.

A likely story—chwedl debygol; chwedl debyg i fod yn wir; ystori gredadwy.

Likely, *ad.* yn debygol, yn debyg, yn gyffelyb; yr un fath; yr un modd.

Likely enough—digon tebyg, tebyg ddigon; yn eithaf tebyg, yn eithaf tebygol; acatoedd.

Like-minded, *a.* unfryd, unfrydol, unfrydig; yn synied *neu* feddwl yr un peth; o gyffelyb feddwl.

Liken, *v. a.* (o *like*; Sw. *likna*; D. *ligner*) cyffelybu, cymharu, tebygu, tebygoli; cyfalhau, eisori, arfelu.

Likeness, *s.* tebygrwydd, tebygoliaeth, tebygolrwydd, tebygoldeb, tebygolder, cyffelybiaeth, cyffelybrwydd, tebygiaeth, tebygiant, cymhariaeth, cyfelwch, tebed, cynhebygrwydd, llun, ffurf, darlun, arlun, ardeb, adlun, delw, bath.

Likening, *s.* tebygiad, cyffelybiad, cymhariad, cyfaliad.

Likewise, *ad.* (*like* a *wise*) felly, efelly; yr un modd; yn yr un modd; mewn cyffelyb fodd; yr un fath; hefyd; a, ac; yn mhellach.

I likewise—minnau, myfinnau, innau; minnau hefyd; myfi hefyd.

Thou likewise — tithau, tydithau; tithau hefyd; tydi hefyd.

He likewise—yntau, efyntau; yntau hefyd; efe hefyd.

She likewise—hithau, hyhithau; hithau hefyd; hi hefyd.

We likewise—ninnau, nyninnau; ninnau hefyd; nyni hefyd.

You also—chwithau, chwychwithau; chwithau hefyd; chwychwi hefyd.

They likewise—hwythau, hwyntau, nhwythau; hwythau hefyd; hwy hefyd.

Liking, † *a.* llyfnwedd, golygus, tew, cnodig, cnydus; llawn; da ei wedd.

Liking, *s.* diwyg, gwedd, sut; llyfnder gwedd, gwedd dda, pwynt, golygusrwydd, tewedd, cnodigrwydd, cnydusrwydd, efras; bodd, chwaeth, tuedd, gogwydd, hyfrydwch, hoffder, dymuniad, hoffedd, hoffiant, cariad, serch; cariad ar *neu* at; serch ar *neu* at; boddlondeb yn mheth; cymmeradwyaeth; † prawf, profiad.

To one's liking—wrth fodd un; wrth chwaeth un; i'w fodd.

To have a liking to—bod gàn un gariad *neu* serch at; bod yn ymhoffi yn; bod gàn un hoffder *neu* hoffedd yn.

Good liking—cymmeradwyaeth, cymmodlonedd, cymmodlonrwydd, cymmeradwyad.

In good liking—da ei wedd, ei ddiwyg, *neu* ei ddull; mewn diwyg da; da yr olwg arno; pwyntus, diwygus, tew, cnodig, tirf.

To conceive a liking to—cwympo, syrthio, *neu* fyned mewn cariad â; bwrw *neu* roddi ei serch ar; serchu yn, hoffi.

On liking—ar brawf, ar ymbrawf, ar brofiad.

Worse liking—culach (*Dan.* i. 10); gwaeth ei wedd; gwaeth y wedd arno.

Lilac, *s.* (Ysp.; Ff. *lilas*) pibwydd, (*sing.* pibwydden), ysgaw Yspaen.

Lilac dye—lliw y pibwydd; lliw y bibwydden.

Lilac dress—gwisg o liw pibwydd; gwisg liw pibwydd; gwisg o liw y bibwydden.

Lilolite, *s.* (*lilac*, a Gr. *lithos*) cenfaen, cenfwn, delidfaen cenog, pibwyddfaen.

Liliaceous, *a.* (Ll. *liliaceus*) alawaidd, elestraidd, liliaidd; perthynol i alaw; yn perthyn i'r lili.

Lilied, *a.* alawog, elestrog; addurnedig â lili.

Lilium, *s.* (Ll.)=*Lily.*

Lill, † *v. a.*=*Loll.*

Lilt, *v. a.* (Goth. *lulla*) chwareu ar godbib; chwareu offeryn cerdd.

Lilt, *v. n.* gwneuthur yn hylaw *neu* gyflym.

Lily, *s.* (Ll. *lilium*; Gr. *leirion*; Ysp. *lirio*) alaw, elestr, lili.

White lily—alaw gerddi, alaw gwŷn.

Water-lily—alaw y dwfr, alaw y dwr, lili y dwfr, lili y dwr, alaw, yr alaw.

White water-lily—alaw y dwfr, alaw y dwr, magwyr wèn, lili y dwfr, lili y dwr, alaw, yr alaw.

Yellow water lily—bwltys, godowydd, myltys.

Blue water-lily—alaw glas.

Eatable water-lily—alaw bwytadwy, alaw yr Ind.

Sweet-scented water-lily—alaw perarogl.

Lily of the valley, } gwenonwy, alaw cre-
May-lily, } wyll, clych Enid, lili y dyffrynoedd, lili 'r maes, lili 'r mai, lili Mai.

Lily-handed, *a.* llofwen; â chanddo ddwylaw gwynion fel y lili.

Lily-livered, † *a.* digalon, llwfr, anwrol, anwraidd, ofnus.

Limation, *s.* (Ll. *limo*) durlifiad; caboliad.

Limature, *s.* (Ll. *limatura*) durlifiad; durlifion, llifion durlif, blawd durlif.

Limb, *s.* (S. *lim*; Ll. *limbus*) aelod; pyw; esgair; darn, dernyn, cetyn, cat; ymyl, y rhan nesaf allan, y rhan eithaf, min, godre; cangen.

Limb by limb—bob yn aelod; o'r naill aelod i'r llall.

A limb of the law—darn, dernyn, cat, *neu* getyn o gyfreithiwr; aelod o'r gyfraith.

The limb of the sun—ymyl yr haul; y rhan nesaf allan i'r haul.

Having large limbs—aelodfawr, aelodog.

Limb, *v. a.* aelodi; tynu bob yn aelod, dïaelodi, dryllio, darnio.

Limbat, *s.* cyfnod-wynt yn Ynys Cyprus, yn chwythu o'r gogledd-orllewin, o wyth o'r gloch y bore hyd ganol dydd.

Limbeck, *s.* (talfyriad o *alembic*) llynorai, dystyllyr, llestr dystyllio.

Limbeck, *v. a.* dystyllio, dystyllu.

Limbed, *a.* aelodog; ag y mae iddo aelodau: arferedig mewn cyfansoddiad.

Large-limbed — aelodfawr, aelodog; âg aelodau mawrion iddo; aelodfras.

Slender-limbed — aelodfain; âg aelodau meinion iddo.

Short-limbed—aelodfyr, byr-aelodog; âg iddo aelodau byrion.

Clean-limbed—esgeiddig.

Well-limbed—aelodwych; lluniaidd ei aelodau; â chanddo aelodau lluniaidd.

Limber, *a.* (ysgatfydd o'r C. *llibin*, yn ol *Webster*) ystwyth, hyblyg, llibin, llipa, masw, blydd, plydd.

To grow limber—ystwytho; myned yn ystwyth, &c.

Limberness, *s.* ystwythder, ystwythdra, ystwythedd, ystwythrwydd, hyblygedd, llibinrwydd, plyddedd.

Limbers, *s. pl.* cadfen, càr cyfreidiau; llorpiau.

Limbers, } tyllau petryal yn nghoed
Limber-holes, } gwaelod llong, i ollwng dwfr i bydew y sugnedydd.

Limbilite, *s.* delidfaen o Limburg yn Swabia.
Limbless, *a.* diaelod, anaelodog, heb aelodau.
Limbo, *s.* (Ll. *limbus;* Ff. *les limbes*) canolfan *neu* gyfryngle dychymygol rhwng nef ac uffern; carchar, dalfa; purdan; uffern; gwynfa yr ynfydion, gwenfro y gwirion.
Limbus, *s.* (Ll.) llafon blodeuddail, llafn blodeuddail.
Lime, *s.* (S. *lim, lime;* Ll. *limus*) calch; glud, adarlud.
Quick lime, } calch brwd, calch poeth,
Quicklime, } calch annhawdd, calch heb ei doddi, calch heb doddi.
Slaked lime, } calch tawdd, calch todd-
Hydrate of lime, } edig, calch wedi ei doddi, calch wedi toddi.
Chloride of lime—calch brwd, canlwch, canffylor, pylor cànu, hal cànu.
Carbonate of lime—marm, ulyfaint calch, ulyfhal calch.
Muriate of lime—halas calch.
Sulphate of lime—glyfaen, cleifynor, mynorglai, plastfaen, ufelgris calch.
Lime-pit—pwll calch.
Lime, *v. a.* calchu, calcho; gludio, adarludio, ysgrolingo; rhoi *neu* ddodi glud ar; iro â glud; trochi mewn glud; cymrydu; maglu, rhwydo, dyrysu.
To lime land—calchu tir, bwrw calch ar dir, bwrw calch.
To white-lime—gwyngalchu, calchwynu.
Lime, } *s.* (Ff. *lime*) gwaglwyfen, gwag-
Limetree, } lwyf, pisgwydden, plisgwrn, plisgyrnen, pisgen, eurwernen, palalwyf, palwyf: *pl.* pisgwydd.
Lime, *s.* llebronwydd, chwigronwydd, egrafalwydd; chwigrawn; egrafal.
Limeburner, *s.* calchwr, calchydd, llosgwr calch.
Limehound, *s.* (o *leam* a *hound*) helgi baedd gwyllt; gwaedgi.
Limekiln, *s.* odyn galch, cylyn calch.
Limestone, *s.* careg galch, calchfaen, calchen: *pl.* ceryg calch.
Limetree, *s.*=*Lime, Limetree.*
Lime-twig, *s.* gludwydden, gludfrigyn, gludosglen; *pl.* gludwydd.
His fingers are lime-twigs—mae glud ar ei ddwylaw; mae glud ar ei fysedd; mae bachau ar ei fysedd; mae bach wrth bob bys iddo; nid oes dim â ymâd â'i ddwylaw; mae pob peth yn glynu wrth ei ddwylaw.
Lime-twigged, *a.* gludwyddog; â glud arno; gludiog.
Limewater, *s.* dwr calch, dwfr calch, dwr oddi ar y calch, calchwy.
Limit, *s.* (Ll. *limes;* Ff. *limites*) terfyn, cyffin, ffin, cyffinid, ffinedd, gorffin, ffinfa, terfynfa; cwr, ymyl, or, orch, goror, gorwy, rhimp, meidr; rhwystr, attalfa; penod, penawd.
Limit, *v. a.* terfynu, cyffinio, ffinio, gosod terfyn; gosod terfyn i; gosod terfynau i; penodi, penu; cyfyngu, caethiwo, rhwystro, attal; cadw o fewn terfynau; cyrio, ymylu, meidroli.
They limited the Holy One of Israel—gosodasant derfyn i Sant yr Israel.
Limitable, *a.* terfynadwy, &c.
Limitaneous, *a.* (Ll. *limitaneus*) cyffiniol, ffiniol.
Limitarian, *a.* terfynedigol, terfynol, ffiniol, cyffiniol, ffiniadol.
Limitarian, *s.* cyffinydd, cyffiniwr, cyffinidwr, terfynwr, cyfyngwr; un â gredo mai dim ond rhan o ddynolryw sydd i gael eu cadw.
Limitary, *a.* gosodedig ar y terfyn *neu* cyffin; â fo ar y terfyn; cyffiniol, ffiniol.
Limitation, *s.* (Ll. *limitatio*) terfyniad, cyffiniad, terfynawd, ffiniad, cyffini; gosodiad terfyn, gosodiad terfynau; cyfyngiad, attaliad, cwtogiad, lleihad; rhagod, attalfa, attal; terfyn, cyffin, meidr.
Without limitation or restriction—heb na rhagod na rhwystr; heb nac ymyl nac eithaf.
Without limitation or measure—heb na meidr na mesur.
Statute of limitation—cyfraith terfynawd, cyfraith terfyniad, cwtograith, attalraith.
Limited, *a.* terfynedig, &c.; cyfyng, cul, terfynol, dàn derfyn; o fewn terfyn *neu* derfynau; penodol; meidrol, meidredig.
Limited monarchy—unbenaeth derfynol, unbenaduriaeth gyfyngedig, unbenaeth dàn derfyn, yn benaeth ymddibynol.
Limitedness, *s.* terfynedigrwydd, terfynoldeb, culder, cyfyngrwydd.
Limiter, *s.* terfynydd, terfynwr, terfynai; gosodydd terfyn *neu* derfynau; cyffinfrawd.
Limitless, *a.* diderfyn, annherfynol, didran, heb derfyn.
Limmer, *s.* (o *leam*) gwaedgi, gwaedhuad, huadgi, cadgi; cymmysggi; ci cymmysgryw rhwng bytheuad a gwaedgi; llorp; ceffyl ol.
Limn, *v. a.* (Ll. *lumino;* Ff. *enluminer*) paentio, ardebu, eilunio, arlunio, manddarlunio, manddylunio, tynu llun, tynu llun â, arfelyddu, delweddu; tynu llun peth â *neu* mewn lliwiau; eilunio â *neu* mewn lliwiau; lliwio allan lun *neu* ddelw dyn; arliwio.
Limner, *s.* paentiwr, ardebydd, ardebwr, llunieydd, arluniwr, eiluniwr, eilunydd, delweddwr, arliwydd, ardebluniwr; hwn a dyno ddelw, llun, eilun, *neu* wedd dyn â lliwiau; manddarluniwr; celfadur; addurnwr; eirionwr.
Limniades, *s. pl.* (Gr. *limnê*) Llynesau, Llynelod, Duwiesau y Llynoedd.
Limning, *s.* (o *limn*) paentio, arlunio, ardebu; paentiad, arluniad, tyniad, manddarluniad, manddyluniad; arluniaeth, darluniaeth, darluniodraeth; manddarluniaeth, manarluniaeth, ardebiaeth.
Limosis, *s.* (Gr. *limos*) newyn marwol.
Limosella, *s.* (Ll. *limus*) lleidlys.
Limous, *a.* (Ll. *limosus*) lleidiog, lleidlyd, llawn llaid; gludiog; tew.
Limp, *v. n.* (S. *lemp-kealt*) cloffi, hecian, clunhecian, gogloffi; bod, myned, *neu* gerdded yn gloff; myned dàn glunhecian.
Limp, *s.* cloffni, cloffi, hec, heg, heri, heciad, cloffiad.
Limp, *a.* ystwyth, llipa, llibin, hyblyg, masw, maswaidd, llimp, llipry naidd; †gwàn, gwag.
Limper, *s.* cloff, un cloff, clunheciwr, heciwr.
Limpet, *s.* (Gr. a Ll. *lepas*) brenigen, llygad myharan, llygad myharen, cogwrn: *pl.* brenig, llygaid myheryn, cogyrnau, cogyrnod.
Limpid, *a.* (Ll. *limpidus;* Gr. *lamptô*) gloew, tryloew, claer, ter, pur.
Limpidity, } *s.* (Ff. *limpidité*) gloewder,
Limpidness, } gloewedd, gloewi eb, tryloewder, claerder, dysgleirdeb, ter i id, purder.

Limping, *s.* cloffiad, heciad, clunheciant, cloffi, cloffni.
Limping, *p.* cloff, asgloff, gogloff, clunlaes, garllaes.
Limpingly, *ad.* dàn glunhecian, yn gloff, yn ogloff, dàn gloffi.
Limpness, *s.* ystwythder, ystwythdra, hyblygedd, llibindod, llipryndod.
Limy, *a.* (o *lime*) gludiog, gwydn; calchog, calchaidd.
Limy soil—tir calchog, tir calch, calchdir.
Lin,† *v. n.* (Isl. *linna*) ymostwng, ymroddi.
Linaria, *s.* (Ll. *linon*) llin y llyffant, llin y forwyn, y gingroen fechan.
Linch, *s.* ysgaffell, cilffed, ymyl, asel.
Linchpin, *s.* (S. *lynis*, Al. *lunse*, a *pin*) gwarbin, gwarllost, echelbin, pin yr echel, hoel echel; yr hoel *neu* y pin à ddeil yr olwynion ar yr echel.
Lincoln-green, *s.* gwyrdd Caerlwydgoed.
Linclure, *s.* (Ll. *lingo*, *linctus*) llyfgyffer, llygyffer, lleibgyffer, cyflaeth; cyffer à gymmerir drwy ei lyfu.
Linden, *s.* (S. *lind*; Al. *linde*, *lindenbaum*) gwaglwyfen, gwaglwyf, pisgwydden, plisgwrn, plisgyrnen, pisgen, eurwernen, palalwyf, palwyf: *pl.* pisgwydd.
Line, *s.* (Ll. *linea*, *linum*) llinell, llin; llinyn, ffunen, cordyn, cortyn, corden; llain; rhes, rhestr, rhenc, rhill; amlinell, cynllun; braich, ban, gwers; gwedd, gweddnod, llinwedd; llinach, llinyn, achlin; nodyn; ymyl, ffin, cwr, terfyn; cadres; amglawdd; olyniant, olyniaeth, dylyniad; cydhydlin; llinon, lluniodr; y 10fed *neu* 12fed ran o fodfedd; gorchwyl, galwad, galwedigaeth; hwyl, ystod, trefn, rhediad, dull, cylch; dosbarth; cangen.
Line of battle—cadres.
Ships of the line—llongau y gadres.
Line of circumvallation—amglawdd.
Line of contravallation—gwrthglawdd.
Perpendicular line—sythlin, llinell uniongyth.
Horizontal line—llorlin, llinell lorwedd, llinell lorweddol.
Oblique line—osglin, osglinell, llinell agwyr, llinell ŵyr.
Equinoctial line—llinyn y cyhydedd, llinyn cyhydedd, cyhydlin, cyhydlinell, llinell y cyhydedd.
Parallel line—cyflinell, cyfredlin, cyfredlinell, cyflin; llinell ogysbell, ogyhyd, *neu* ogyfartal; llinell gyfochrog, llinell gyfochrol.
Versed line — croeslinell, llinell groes, llinell wrthdröedig.
Curve line—cyrflin, cyrflinell, cromlinell, crymlinell, comlinell, com, comell, llinell grom.
Ledger line—atlin, atlinell, chwaneglin, llinell chwanegol, gorlinell.
Line of descent—llinach, llinys, achlin, llin; hil, hiliogaeth, tylwyth, gwelygordd.
The male line—llin y meibion, y llin wrywaidd.
Line of kings—teyrnach, teyrnlin, llywodlin, breninlin, llin breninoedd, llinach breninoedd.
Fishing line, } llinyn pysgota, llinyn gen-
Angling line, } wair, ffunen bysgota, llinyn middi, ffunen.
Carpenter's line—llinyn saer; plwm a llinyn saer; llinyn a phlymen saer.
A little line—llinellan, llinell fechan, llein-ell.
Right line—llinell uniawn, llinell gywir, llinell uniongyrch.
Line *or* flax—llin.
Line of direction—llinell cyfeiriad, llinell y cyfeiriad, cyfeirlin.
Vertical line—llinell nensyth, llinell nenol, nenlin.
Ground line, } clorlin, daiarlin, tud-
Fundamental line, } lin, tudlinell, llinell sail.
Station line—gorsaflin, llinell orsafol.
Line of the front—rhaglin, gwyneblin, llinell y gwyneb.
Line a-head—cadres.
To form a line—bwrw, llunio, *neu* wneuthur clawdd, gwrthglawdd, *neu* amglawdd; llinellu.
By line—wrth reol a llinyn; yn gywir, yn ffaith.
In what line of business is he?—pa drafnidiaeth sy ganddo? pa alwedigaeth sy ganddo? beth yw ei alwad, ei alwedigaeth, ei swydd, ei orchwyl, ei grefft, *neu* ei gelfyddyd.

Line, *v. a.* llinellu, llinio, tynu lliniau, tynu llinau, llinynu, llinynio, llinyno, lleinio, lleingio, ishulio, gwrthleinio, gwrthlunio, isleinio, gwynebleinio, gwynebu; dyblygu, dyblu; amresu, rhesu, rhillio; cuddio, hulio; cadarnhau; torogi, cyfebru, cydio à, ymgyplu à, ymglymu à, bod yn nghwpl à, bod yn nghynglyn à.
To line with soldiers—rhoi *neu* osod milwyr o fewn lle i'w amddiffyn; cadarnhau *neu* ddyblu à milwyr; rhoi, gosod, dodi, *neu* blanu milwyr o'r tu cefn i glawdd *neu* berth; rhesu *neu* amresu milwyr mewn lle; llinellu à milwyr.
To line men—rhesu, amresu, llinellu, rhencio, *neu* linynio gwŷr.
To line with a fortification—cadarnhau, amgaeru, caeru; amddiffyn, diogelu, *neu* amgylchu à chaer; amddiffyn, diogelu, *neu* amgylchu à chlawdd.
To line a wall—hulio, gwisgo, *neu* wynebu gwàl.

Lineage, *s.* (Ff. *lignage*) llinach, ach, llin, llinys, achlin, achen, achwedd; hil, hiliogaeth, epil, tylwyth, gwehelyth, gwelygordd, helyth, essill, essillt, essillydd, essillyd, addon, addonwy, bonedd, disgyniaid.
Lineal, *a.* (Ll. *linealis*) llinellol, llinellawl, llinol, llinellog; unionlin, llinlin, llinolin, llinachol, olynol, uniongyrch; etifeddol, tifeddol, treftadol; yn perthyn o dad i dad; à fo yn perthyn o dad i dad; à fo yn etifedd unionlin i.
Lineal measure—hydfesur, mesur hyd; mesur llinellol.
Lineally, *ad.* yn unionlin, linlin, linolin, lin o lin; o dad i dad; o dad i fab; yn olynol; mewn llinell uniawn.
Lineament, *s.* (Ff.; Ll. *lineamentum*) pryd, gwedd, prydwedd, llunwedd, gwynebwedd, gweddnod, agwedd, ffurf, llun, ffriw, minbryd, minwedd, dull, arddull, gosgedd, llinelliad, gwneuthuriad.
Lineaments (in painting)—lliniau yr eilunyddion, llunweddion, llunweddau.

Linear, *a.* (Ll. *linearis*) llinellol, llinellaidd, llinellog; yn llinyn; llinaidd, main.
Linear-shaped—llinellaidd.
Lineate, *a.* llinellog, lliniog; â chyflinell yn rhedeg ar hyd-ddo.
Lineation, *s.* llinelliad, arlinelliad, arliniad, darlinelliad, llunweddiad, dyluniad, arluniad, darluniad, tyniad, lluniad, tyniad llun.
Lined, *p. p.* lliniedig, lleiniedig; wedi ei wynebu *neu* wynebleinio; dybledig; â dyblygedd ynddo; huliedig o'r tu mewn.
Well lined—goludog, cyfoethog; arianog.
Linen, *s.* (Ll. *linum;* Gr. *linon;* Al. *lein*) lliain, llian; llin; dillad llian, llieinwisg, llianwisg; crysau, crys, iswisg.
Fine linen—llian main, lliain main, llian teg, llian meinwe, llian manweaidd, llian meinllin, bliant.
Unbleached linen—llian cri, llian crai, llian heb ei gànu.
Bleached linen—llian càn, lliain cànedig, llian wedi ei gànu.
Coarse linen—llian bras, llian garw.
Homespun linen—llian cartref, lliain talpentan.
Linen-weaver—gwëydd lliain, llian-weuwr.
Fossil linen—llian cloddedig=math o urael neu ystinos.
Linen, *a.* (Ll. *lineus*) o liain, o llian; â wnaed o liain; llieinaidd, llinin; gwÿn, gwelw.
Linen cloth—llian, lliain, llieinwe.
Fine linen cloth—lliain main, &c.
Linen garment — llieinwisg, gwisg llian, gwisg o liain, gwisg fliant.
Linen-draper, *s.* llieinwr, llieinydd, gwerthwr llieiniau, llianwerthwr, llieinwerthwr, masnachwr llieiniau.
Linen-drapery, *s.* llieinyddiaeth, llieinwriaeth, llianwerth; masnach lliain, marchnadaeth lliain; celfyddyd llieinwr.
Linener, **Linen-man**, † *s.*=*Linen-draper.*
Ling, *s.* (Is. *leng;* Gw. *long*) breninbysg, lling, honos.
Ling, *s.* (Ial.) grug, myncog, eiddiar.
Linger, *v.* (o wraidd *long*, S. *leng*) gohirio, oedi, aros, ymaros, cyngydio, llercian, llercyna, llercio, ystelcian, ystelcio, sefyllian, gohytian, gohoetial, gorhirio, gohiriannu, addoedi, dyheirio, dyhiro, ymdröi, godechial, dydechu, dydach, techu, techialu; bod yn hwyrfrydig; nychu, hirnychu, curio, bod yn hirglaf; bod yn segur, diogi; bod ar gyngyd; bod ar ei gynghor; petruso.
To linger in a distemper, } nychu o *neu* gàn
To linger of a distemper, } glefyd; hirnychu, nychu, bod yn hirglaf.
Lingerer, *s.* llercyn, llercynwr, llerciwr, gohiriwr, oedwr, sefylliwr, cyngydiwr, dydechwr, techwr, addoedwr, sefylliog, dyheiryn, (*f.* dyheiren).
Lingering, *a.* afrys, annyfrys, anhyfrys, hwyrfrydig, araf; gohiriog, gohiriol, gohiriadol, gohiriannol, gohoetiol, gohytiol, llercynol, llercianol, cyngydiol; yn oedi, gàn oedi, dàn oedi; nychlyd, nychol, hirnychol, hirnychlyd; llesg, arosol, hirdrig; hir, maith, hirfaith.
Lingering distemper, } nych, hirnych,
Lingering disease, } nychdod, hir nychdod, hirglefyd, hirglefni, hirwst.
Lingering death—angeu hirboenus, nychlyd, anhyfrys, annyfrys, afrys, *neu* hwyrfrydig; nych-ddïenydd.
To die a lingering death—marw o hirnych *neu* nychdod; marw o farwolaeth hirboenus.
To put one to a lingering death—nych-ddïenyddu, nych-ddïenyddio; rhoi i farwolaeth hirboenus; rhoi i angeu hirboenus, &c.
Lingering look—llusgdrem.
Lingering, *s.* gohiriad, gohiriant, oediad, cyngydiad, llercian, llerc, dyheiriad, hwyrder, hwyredd, hwyrfrydigrwydd, afrysedd, gwaradrig, gwaradrigiant, gwaradrigiad; musgrellni; nychdod, hirnych.
Lingeringly, *ad.* yn gyngydiol, yn ohiriog, &c.; dàn sefyllian, dàn lercian, dàn oedi, &c.; yn chwarian, gàn bwyll, yn raddol.
Linget, *s.* (Ff. *lingot*) tafoden, tafodyn, telpyn o fettel.
Lingle, † *s.* (Ef. *liqueul*) edaf y crydd.
Lingo, *s.* (Ll. *lingua*) iaith, ymadrodd, arawd; ffregod, ffregodiaith, ffrec.
Linguacious, *a.* (Ll. *linguax*) tafodrydd, tafodiog, siaradus, dywedgar, siaradgar, geiriolus, amleirog, ffraeth, chwedleugar, baldorddus, gwagsiaradus.
Linguadental, *a.* (Ll. *lingua* a *dens*) tafoddeintiol; â seinir gàn y tafod a'r dannedd.
Linguadental, *s.* llafar tafod a dannedd; sain daint a thafod.
Linguaform, } *a.* (Ll. *lingua* a *forma*) tafodaidd,
Linguiform, } tafodwedd, tafod-ddull; ar lun *neu* ddull tafod.
Lingual, *a.* (Ll. *lingua*) tafodol; perthynol i'r tafod.
The lingual muscle—cyhyr y tafod, y cyhyr tafodol.
Linguist, *s.* (Ll. *lingua*) ieithydd, ieithwr, ieithofydd; un hyddysg *neu* hyfedr mewn ieithoedd.
Linguistics, *s.* ieithofyddiaeth, ieithyddiaeth.
Lingulate, *a.* (Ll. *lingulatus*) tafodynaidd, tafodaidd, tafodlun; carciaidd, lleinaidd.
Lingwort, *s.* llysiau yr angel.
Lingy, *a.* tàl, hir; main; ystwyth, hyblyg; gweithgar, bywiog, cryf.
Liniment, *s.* (Ff.; Ll. *linimentum*) enaint, eli, enaint meddal.
Lining, *s.* (o *line*, *v.* a.) gwrthlain, gwrthlaing, gwrthwe, tenlli, tenllif, dwbl, y dwbl, islaing; caen, caenen.
Link, *s.* (Al. *gelenk;* D. *lenke*) torch, dolen, silltaeren, cyden, tresddolen, rhwy, tidrwy, modrwy, torchrwy; cadwyn, tid, syg, silltaer, rhau, rhae; cyfres: *pl.* silltaerau.
Link of a chain—torch, dolen, rhwy, *neu* rau cadwyn; torch, dolen, rhwy, *neu* rau syg.
Link, *v.* rhwyo, cydrwyo, dolgydio, dolenu, cydenu, cydfachu, cydgadwyno, cydrwymo, cydio, cyssylltu, cydgyssylltu; cydio *neu* gyssylltu ddolen yn nolen; cydio *neu* gyssylltu dorch yn nhorch; rhwyo yn nghyd; cyssylltu yn nghyd; cymhlethu; bod ddolen yn nolen, dorch yn nhorch, *neu* gengl yn nghengl; bod yn nghyswllt, yn nghwpl, yn nghwplws, *neu* yn nghyfrwym.
To link together—cydrwyo, cydfachu, cydgadwyno, cynghadwyno; rhwyo yn nghyd; cydio *neu* gyssylltu ddolen yn nolen, &c.

To link together in friendship—cyssylltu *neu* ymgyssylltu mewn cyfeillach.

Link, *s.* (Gr. *luchnos;* Ll. *lychnus*) canwyll byg, ffaglen, ffagl, goleuaff, tewyn.

Linkboy, } *s.* ffaglenwas; dygiawdr *neu* gariwr
Linkman, } canwyll byg; goleuwr, goleuydd.

Linnæa, *s.* (oddi wrth C. *Linnæus,* y llysieuwr clodfawr) Linnea, Linnæa=enw tylwyth o blanigion.

Linnet, *s.* (Ff. *linot;* S. *linetwege;* o'r Ll. *linum,* C. *llin*) llinos, llinosen, aderyn y llin.
Red-headed linnet—llinos bengoch.
Greater red-headed linnet—llinos bengoch fwyaf.
Lesser red-headed linnet—llinos bengoch leiaf.
Mountain linnet—llinos fynydd, llinos y mynydd.
A little linnet—llinosen, llinos fechan.

Linseed, *s.* (S. *linsæd;* Al. *linsaat*) llinhad, had llin.
Linseed oil—olew llinhad, olew had llin, llinolew.
Linseed milk—llinlaeth.

Linsey, *s.* (o *linen*) llian, lliain.

Linsey-woolsey, *s.* tenlli, gwe o lin a gwlan, llinwlanen, cymmysgwe.

Linstock, *s.* (*lint* a *stock*) tanffon, ffon danio, ffon i danio cyflegr, tewynffon, tewyn.

Lint, *s.* (Ll. *linteum;* S. *linct*) llieinrwd, nadd lliain, nadd llian, naddion lliain, llisin nadd, naddion, nadd; llin.

Lintel, *s.* (Ff. *linteau;* Ysp. *lintel*) gwarddrws, capan drws, cap drws, gwarddarn, gwarddarn drws, gorhiniog, hiniog uchaf, rhiniog uchaf; gwarddarn ffenestr.

Linteseed, *s.*=*Linseed.*

Linum, *s.* (Ll.; Gr. *linon*) llin.

Lion, *s.* (Ff.; Ll. *leo;* Gr. *leôn*) llew; *pl.* llewod.
She-lion—llewes.
Lion (in astronomy)—y Llew, arwydd y Llew=pummed arwydd y sidydd (♌).
The lion is not half so fierce as he is painted -- nid cymmaint Bleddyn a'i drwst.

Lionced, } *p. p.* (Ff. *leonceau*) addurnedig â
Leonced, } phenau llewod; âg arno *neu* iddo benau llewod; llewbenog.

Lioncel, *s.* (o *lion*) llewyn, cenaw llew, llew ieuanc, llew bychan.

Lioncelles, *s. pl.* llewynod, llewod bychain, cenawon llewod, corlewod.

Lioness, *s.* llewes; *pl.* llewesod.

Lion-hearted, *a.* âg iddo galon llew; â chanddo galon llew; ag y mae iddo galon llew; llewgalon; dewrwych, gwrolwych, dewr.
Lion-hearted Richard — Rhicard galon llew; Rhicart lew-galon.

Lionlike, *a.* llewaidd, llewig, lleweilun, fel llew; eofn, cadarn, dewr, dewrgalon.
Two lionlike men of Moab—dau o gedyrn Moab (2 *Sam.* xxiii. 20).

Lionly,† *a.*=*Lionlike.*

Lion-mettled, *a.* â chanddo galon a gwroldeb llew; dewrgalon, dewrwych, gwrolwych.

Lion's-ear, *s.* clust y llew.

Lion's-foot, *s.* crafanc y llew.

Lion's-Heart, *s.* Calon y Llew, Calon Llew=enw seren yn arwydd y Llew.

Lion's-leaf, *s.* dail y llew.

Lion's-share, *s.* rhan *neu* gyfran y llew; y rhan fwyaf *neu* orau; y cwbl.

Lion's-tail, *s.* mamoglys, mamlys, llysiau y famog, llysiau y fam, llysiau y galon.

Lip, (S. *lippa, lippe;* Al. a D. *lippe*) gwefus, gwëus, bus, min, gwefl; ymyl.
A little lip—minws, mentyn.
The lip of a beast—gwefl, (*pl.* gweflau), gwefl anifail.
The human lip—gwefus, gwëus, gwefus dyn, y wefus ddynol.
Pouting lips—gweflau treflog, estynwefiau.
Lip to lip—minfin, finfin.
The lips of a wound—ymylau *neu* weflau archoll; ymyl *neu* weflau gweli.
Without lips, } diwefus, diwefl, diwëus;
Void of lips, } dïymyl; heb wefusau iddo.
Hare-lip—gwefus folch, gwefus fylchog, bylchfin, adfant, gwefus adwyog, gwefl adwyog; gwefus â bwlch ynddi; gwefus â hollt ynddi; gwefl â bwlch ynddi; trychfant.
To hang the lip—llaesu gwefl.
Hanging the lip, } gwefl-lipa, gwefl-laes;
That hangs the lip, } llaes ei wefl; yn llaesu gwefl.
That has a hanging lip—gwefl-lipa, gwefl-laes; llaes ei wefl.
To move the lips—minial, minialu; symmud y gwefusau.
To move the lips in imitation of speaking—minial, minialu.
Having lips—gwefusog; âg iddo *neu* â chanddo wefusau.
Relating to the lips—gwefusol; perthynol i'r gwefusau.
To smack the lips—gwefusglecian.
A smack of the lip — gwefusglec; poc, pocyn.
A pop with the lips—mincog; poc, pocyn, pocan.
To pop with the lips—mincoca.
A dash on the lips—gweflod, gweflawd.
To dash one on the lips—rhoi gweflod i un; gweflodio un; taro un ar ei eneu; taro un ar *neu* yn ei ddannedd.
The beard on the upper lip—trawswch.
Blubbered lip — gwefl dew, gwefus dew, gwefl dreflog, gwefl fawr, clug-wefl.
One with blubbered lips—gweflyn, un gweflog.
To make a lip—llaesu gwefl, estyn gwefl, gwneyd gwefl.
The lip of a vessel—ymyl llestr.
Lip-salve—eli gwefusau.

Lip, † *v. a.* cusanu, minial, minialu; llefaru.

Lip-devotion, *s.* addoliad gwefus, addoliad y wefus, addoliant y gwefusau, rhith-addoliad.

Lip-good, *a.* da ar dafod; rhith-ddaionus; da ar air ac nid ar weithred.

Lip-labour, *s.* llafur y gwefusau, gwefus boen.

Lipless *a.* diwefus, diwëus, diwefl; dïymyl; heb wefusau iddo; heb ymylau *neu* ymylon iddo.

Liplet, *s.* (o *lip*) minws, gwefusan, gwëus fechan.

Lipogram, *s.* (Gr. *leipô* a *gramma*) llythyrgoll, unllythyrgoll; ysgrifen yn yr hon y gadewir un llythyren yn hollol allan.

Lipogrammatic, *a.* llythyrgoll, llythyrgollawl, unllythyrgoll.
Lipogrammatic writings — ysgrifeniadau llythyrgoll, ysgrifau unllythyrgoll = cyfansoddiadau yn y rhai y gadewir rhyw lythyren neilltuol yn gyfiwyr allan.

Lipogrammatist, *s.* llythyrgollwr; un à ysgrifeno beth gàn adael heibio un lythyren.
Lypothymous, *a.* llesmeiriol, llewygol, llewygus.
Lipothymy, *s.* (Gr. *leipothumia*) llewyg, llesmair, mas, llewygfa, llymhun, llesmeiriad.
Lipped, *a.* gwefusog; gweflog; à chanddo wefusau *neu* weflau; gwefusaidd.
Thick-lipped—gwefusdew, gwefidew, mindew.
Blubber-lipped—gweflog, gwefidew, trefiog.
Large-lipped — gwefifawr, gwefusfawr; gweflog.
Black-lipped—minddu.
Lippitude, *s.* (Ll. *lippitudo*) cibddellni, coegddellni, llygadbyledd, llygadgochni, tostrwydd llygaid.
Lip-wisdom, *s.* doethineb gwefusau=doethineb yn y geneu neu yr ymadrodd yn unig heb fuchedd ac ymarweddiad cyfatebol.
Liquable, *a.* (Ll. *liquo*) toddadwy, hydawdd; à ellir ei doddi.
Liquate, *v. n.* (Ll. *liquo*) toddi, ymdoddi, dadmer, llyneiddio.
Liquation, *s.* (Ll. *liquatio*) toddiad, ymdoddiad, dadmeriad, llyneiddiad; tawdd; toddoldeb.
Liquefaction, *s.* (Ll. *liquefactio*) toddiad, toddiant, toddedigaeth, dadmeriad.
Liquefiable, *a.* (Ff. *liquéfier*) toddadwy, hydawdd; hylif.
Liquefier, *s.* toddydd, toddiedydd, toddai.
Liquefy, *v.* (Ff. *liquéfier*; Ll. *liquefacio*) toddi, toddiannu; ymdoddi; dattod, dadmer, dadleithio, dadlaith, llyneiddio, meirioli; ymloewi.
Liquescency, *s.* (Ll. *liquescentia*) hydoddedd, hydoddrwydd; parodrwydd *neu* chwannogrwydd i doddi.
Liquescent, *a.* toddaid, toddedigol, toddol, toddiannol, toddiadol.
Liqueur, *s.* (Ff.) gwirodwy, gwirodlyn; sirwy, sirlyn, ffaethlyn.
Liquid, *a.* (Ll. *liquidus*) gwlyb, (*f.* gwleb), hylif, llynol, llynaidd, gwyol, hylifol, hylifaidd, hyred, hyffrwd, lliol, llifiannaidd; toddedig, tawdd, toddaid; hylaib; llaith; ter, pur, gloew, teneu-glaer; meddal, esmwyth, mwyn, tyner, llyfn, rhwydd, rhugl, toddber, croewber, rhedegog, melusber, claerber, lleddy; hysain.
A liquid letter—llythyren dawdd, tawddlythyren: *pl.* toddedigion.
To grow liquid—llyneiddio; myned yn llynaidd; toddi; ymdoddi.
Liquid, *s.* llŷn, gwlyb, gwlybwr, gwlybor, hylif, gwy, aw, yf, peth hylif, llifiod, peth hyred, peth hylaib, lliant, nofant, gwlybaniaeth; llythyren dawdd, tawddlythyren, toddlythyren, llythyren doddedig: *pl.* llynoedd, gwlybyroedd, gwlybyrau, gwlybyron, gwlybion, gwlyborion, gwyon, gwyolion, llynolion, awon, hylifau, hylifoedd, lleithion, pethau hylaib, pethau hylif.
Liquids (in Grammar)—toddedigion, toddiaid, llythyrenau tawdd, tawddlythyrenau, toddlythyrenau, tawddlythyr, llythyr tawdd, toddolion, llythyrenau toddedig, llythyrenau toddaid, toddyddion.
Liquidamber, *s.* lliwefr, ulwefr.
Liquidate, *v. a.* (Ll. *liquido*) toddi, llyneiddio, peri llyneiddio; peri *neu* wneuthur yn hylif; glanhau; egluro, eglurhau; talu; cywiro, cymmedru, iawnu, cynnogni; meddalu, meddalhau.
To liquidate a debt—toddi dyled, talu dyled; lleihau dyled.
To liquidate (a bill, &c.)—peri *neu* wneuthur yn gymmeradwy; peri *neu* wneuthur yn dderbyniol; peri yn ddyladwy; cymmeradwyo.
Liquidation, *s.* toddiad, toddiant, toddedigaeth; taliad, taliad dyled.
Liquidator, *s.* toddwr, toddiedydd, toddydd; talwr, talawdr.
Liquidity, *s.* (Ff. *liquidité*) llynolrwydd, llynoldeb, llyneiddrwydd, gwyoldeb, hylifrwydd, hylifedd, gwlyborwch; teneuder, teneuedd, teneurwydd.
Liquidly, *ad.* yn wlyb, &c.
Liquidness, *s.* llynolrwydd, llynoldeb, llyneiddrwydd, gwyoldeb, hylifrwydd, hylifedd, &c.
Liquor, *s.* (Ll.; Ff. *liqueur*) llŷn, gwlyb, gwlybwr, gwlybor, gwy, aw, yf, peth gwlyb, hylif, peth hylif; diod, gwirod, gwirodlyn, cwrw, medd, gwin; lleithder, merolaeth.
Spirituous liquor—gwirod, poethlyn: *pl.* gwirodau, poethlynoedd, llynoedd poethion.
Good liquor—diod dda, cwrw da.
Liquor shop—gwirodfa, gwirotty, gwerthdy gwirod, diotty.
To serve liquor, } trullio, gwirodi,
To serve out liquor, } heilio gwirod.
To tipple liquor—gwirota.
A drawer of liquor—gwallofwr, gwallofydd, gwallofiawdr, trulliad, trulliwr.
One who hunts after liquors—gwirotyn, gwirotai.
Full of liquor—llawn gwirod, llawn diod; meddw.
He is fond of liquors—mae efe yn hoff o wlybion; mae yn hoffi gwirod; mae yn hoff ganddo boethlynoedd.
Fuming liquor—myghylif, hylif mygol, myglyn, mygwy, gwlybwr mygol.
Thou shalt not delay to offer the first of thy liquors—nac oeda dalu y cyntaf o'th bethau gwlybion (*Ecs.* xxii. 29).
Liquor, *v. a.* gwlychu, gwlybhau, gwlybu, gwlybio, lleithio.
Liquorice, *s.* (It. *liquiriza*; Ll. *glycyrrhiza*; Gr. *glucurrhiza*) gwrylys, chwegwraidd, perwraidd, melwraidd, meluswraidd, gwreiddber.
Wild liquorice—geuberwraidd, llaethwyg.
Liquorice juice—chwegrwyth, sugr du, sudd Ysbaen, sudd gwrylys.
Liquor Silicum, *s.* celltwy, callestrwy, llŷn cellystr.
Lira, *s.* bathell Italaidd, gwerth tua 1*s.* 6*c.*
Liricon-fancy, *s.* gwenonwy, alaw crewyll, lili y dyffrynoedd.
Liriodendron, *s.* (Gr. *leirion* a *dendron*) y pren Tiwlip, elestwydd.
Liripoop, *s.* (Ff. *liripipion*) cwfl graddog, hwf graddor.
Lirocone, *a.* (Gr. *leiros* a *conia*) llychwynaidd, pylorwyn; ar ddull pylor gwynaidd *neu* ledwyn.
Lisbon, *s.* (=prif ddinas Portugal) gwin Lisbon.
Lish,† *a.* cryf, pybyr, gweithgar.
Lisne,† *s.* ceuedd, ceudod, ceule, ceudwll, twll.
Lisp, *v.* (Is. *liepen*; Al. *lispeln*; S. *vlisp, vlips*)

dywedyd yn floesg; bloesgi; bod â bloesgi arno; llefaru *neu* siarad yn floesg.
She lisps—mae bloesgi arni; y mae bloesgni arni.
She lisps a little—mae peth bloesgi arni; mae arni beth bloesgi.

Lisp, *s.* bloesgi, bloesgni, bloesgedd, bloesg.

Lisper, *s.* bloesgyn, bloesgwr, dyn bloesg, un bloesg; un â bloesgi arno.

Lisping, *p.* bloesg; â bloesgi arno; yn dywedyd yn floesg.
To grow lisping—bloesgi, myned yn floesg.

Lisping, *s.* bloesgi, bloesgni, bloesgedd.

Lispingly, *ad.* yn floesg; dân floesgi.
To speak lispingly—dywedyd yn floesg; bloesgi.

Lissom, *a.* (S. *lesan?*) ystwyth, hyblyg; rhydd, rhwydd.

List, *s.* (S; D. *liste;* Is. *lyst*) cofrestr, cofres, llechres, rhes, rhestr, rhifres, rhifrestr, rhestreb, rhol, rheng, achres; ymyl, eirionyn, hoech, hem, aal, gwald, or, cwr, min, mined, llain, ysleinged; terfyn, ffin, cyffin, ffinfa; ffunen, taleithen ysgwâr; midlan, mid, ymdrechfa, ymorchestfa, cadfa, ymladdle, ymornestfa; cemmaes; argae, chwareule.
Civil list—cynnaliaeth y goron, traul y goron; brenindraul, teyrndraul; y rhes wladol, traul y wladwriaeth, talion gwladol.
Subscription list—cofres tanysgrifion, cofrestr tanysgrifion, cofres tanysgrifiadau, cofres cyfroddion, cydroddres, cyfroddres, tanysgrifres, enwau tanysgrifwyr.
To enter the lists—myned i'r ymdrechfa; ymgystadlu; tynu y dorch.
To enter the lists with *or* against one—myned i'r ymdrechfa gydag un; myned i'r ymdrechfa yn erbyn un; ymgystadlu âg un; tynu y dorch âg un.
From the lists to the goal—o'r gychwynfa i ben yr yrfa; o'r dechreu i'r diwedd.

List, *v.* cofrestru, cofresu, coflyfru, rhestru, rhesu, llythyru, rhestriadu; ymrestru, ymresu, ymgofresu, ymgofrestru, ymlyfru, ymrwymo; rhoi ei enw i mewn; rhwymo *neu* sicrhau gwasanaeth; ymylu, ffinio, hemio, gwrymio, eirionynu, gwaldu, gwalteisio, gwaltysu.
To list soldiers—cofrestru milwyr, &c.; codi milwyr, cwnu milwyr, codi gwŷr, cwnu gwŷr; ysgrifenu enwau rhai yn nghofrestr y milwyr; rhoi enwau rhai i lawr yn nghofres y milwyr.
To list one's self among—rhoi *neu* ysgrifenu ei enw yn mhlith; gosod, cyfrif, *neu* fwrw ei hun yn mhlith; myned yn un o; cymdeithasu âg, ymuno â.
Listed man—gwr rhif, gwr rhestredig.

List, *v. a.* (talfyriad o *listen*) gwandaw, gwrando, andaw, clustfeinio.

List, *v. n.* (S. *lystan;* Al. *lüsten*) mynu, ewyllysio, gwyllysio, gwyllysu, chwennychu, chwennych; gogwyddo, tueddu.
The wind bloweth where it listeth—y mae y gwynt yn chwythu lle y myno.

List, *s.* gogwydd; gogwydd ar y naill ochr.
The ship has a list to port—mae y llong yn gogwyddo at y porthladd; y mae gân y llong ogwydd at y porthladd.

Listel, } *s.* ymoden, ffunen, colofrwy, pillrwy,
List, } ffunen colofn, ysnoden piler.

Listen, *v.* (S. *lystan, hlystan*) gwrandaw, gwrando, gwrandaw ar, gwarandaw, gwarendaw, andaw, endaw, clustfeinio, dyglywed, dyglyw, ewi, oiaw, oianu; clust-ymwrandaw.

Listener, *s.* gwrandäwr, gwrandawydd, andawydd, clustfeiniwr, clustfeinydd.

Lister, *s.* (o *list*) cofrestrwr, cofrestrydd, cofreswr, rhestrwr.

Listful,† *a.* gwrandawgar, astud.

Listring, *s.* (Ff. *lisière*) tori y gwyning oddi ar ddwy ochr astell; trychiad y gwyning.

Listless, *a.* (o *list* neu *listen*) anwrandawgar; diofal, anofalus, anystyriol, esgeulus, difeddwl, difater, disylw, difraw, dibryder, dïymdawr, diddarbod, difryd, difrydol, difrydus; anhawntus, dïawch, dihawntus, dihawnt, hafarch.

Listlessness, *s.* diofalwch, anystyriaeth, esgeulusdod, esgeulusdra, dihawntrwydd, anhawnt, hafarchedd, difrydaeth, difrawder, &c.; annyddordeb; lledfrydedd, lledfryd; syrthni, llesgedd.

Lit, *p. p.* (o *light*) disgynedig; goleuedig, &c.

Litany, *s.* (Gr. *litaneia;* Ff. *litanie*) Litani, y Litani; ymbiliau cyffredinol, gweddi gyffredin; ffurfweddi, deisyfeg, erfyneg.

Lite,† *a.* bach, bychan.

Liter, } *s.* = { *Litre.*
Litre, } { *Liter.*

Literal, *a.* (Ff. o'r Ll. *litera*) llythyrenol; llythyren am lythyren; gair am air; yn cynnwys llythyrenau cywir.
The literal sense of an expression—ystyr llythyrenol gair *neu* ymadrodd; llythyrenol ystyr gair *neu* ymadrodd.
Literal translation—cyfieithad llythyrenol; caeth gyfieithad, cyfieithad caeth.
In a literal sense—mewn ystyr llythyrenol; yn llythyrenol; gair am air; air am air; yn ol y llythyren.
Literal notation — nodiant llythyrenol; nodiant cynnwysedig o lythyrenau.

Literal,† *s.* ystyr llythyrenol.

Literalism, *s.* yr hyn a gydwedda â'r llythyren; llythyrenoliaeth.

Literality, *s.* ystyr llythyrenol, llythyrenoldeb, llythyrenolrwydd.

Literalist, *s.* llythyrenolwr; ymlynwr wrth y llythyren; dylynwr y llythyren.

Literally, *ad.* yn llythyrenol; mewn ystyr llythyrenol; gair am air; air am air; air yn ngair; yn ol y llythyren.

Literalness, *s.* llythyrenoldeb, llythyrenolrwydd; ystyr llythyrenol.

Literary, *a.* (Ll. *literarius*) llenorol, llenyddol, llên, llythyrog, llythyrol, llenol, llythyrenog, llythyriannol, dysgedig, dysgaid, dysgeidiol, athrylithiog.
Of a literary nature—llenaidd.
A person of literary fame—gwr hynod am ddysg a gwybodaeth; dyn â gair mawr iddo am ddysg a gwybodaeth; gwr âg iddo enw mawr mewn llenoriaeth; gwr mawr ei glod llenorol; un mawr ei glod llenyddol; un enwog yn y byd dysgedig.
Literary man—llenor, llenydd, gwr llên, gwr llenog, llenwr, gwr dysgedig, gwr llythyrog, &c.

Literate, *a.* (Ll. *literatus*) llenorol, llenyddol, llên, llenog, dysgedig, dysgaid, llythyrog, llythyrenog, llythyrol, llythyriannol, deifniog.

Literati, *s. pl.* (Ll.) dysgedigion, dysgeidion, llenorion, llenoriaid, llenyddion, llenogion, llenwyr, gwŷr llên, llythyrogion, gwŷr dysgedig, gwŷr llythyrog, &c.; ysgoleigion, gwŷr o ddysg, dysgawdwyr, dysgodron.

Literator, *s.* (Ll.) coegathraw, goathraw, lledathraw, crach athraw, ysgolfeistryn, dysgedigyn.

Literature, *s.* (Ll. *literatura*) llenoriaeth, llenyddiaeth, llên, dysgeidiaeth, dysg, llenogaeth, llythyriant, lleoriaeth, llëyddiaeth, llythyr, arddysg, arddysgiad.

Welsh literature—llenoriaeth Gymreig, llenoriaeth Cymru, llenyddiaeth y Cymry.

Lith,† *s.* (S.) cymmal, cyswllt; aelod.

Lithagoge, *a.* (Gr. *lithos* ac *agô*) maendarf; â rhinwedd ynddo i wella *neu* i darfu y maen tostedd.

Lithagoge, *s.* maendarf; meddyginiaeth i wellhau *neu* darfu y maen o'r arenau *neu* o'r bledren.

Lithanthrax, *s.* (Gr. *lithos* ac *anthrax*) maenlo, careglo, glo maen, glo careg.

Litharge, *s.* (Ff. o'r Gr. *litharyuros*) gorferw plwm, ewyn plwm, sorod plwm; gorferw *neu* ewyn arian.

Litharge plaster—plastr plwm.

Lithate, *s.* (Gr. *lithos*) maenhalan.

Lithe, *a.* (S.; C. *llyth*) ystwyth, hyblyg, llyth, plydd, blydd, llibin, llipa.

Lithe,† *v. a.* llyfnu, meddalu, tyneru, ystwytho; lleihau; gwrandaw.

Litheness, *s.* ystwythder, ystwythdra, ystwythedd, hyblygedd, hyblygrwydd, llibindra.

Lither,† *a.* (S. *lyther*) ystwyth, hyblyg, plydd, meddal, hydraidd; drwg, llygredig; dïog, musgrell.

Litherly,† *ad.* yn araf; yn ddïog, yn segur.

Litherness,† *s.* segurdod, dïogi, mewyd.

Lithesome, *a.* (o *lithe*) ystwyth, hyblyg, plydd, blydd; gweisgi, gwisgi, bywiog, sionc, esgud, brysg, chwai.

Lithia, *s.* (Gr. *lithos*) math ar alcali newydd.

Lithic, *a.* (Gr. *lithos*) perthynol i'r maen *neu* gareg; perthynol i'r maen tostedd; arenfeinig.

Lithic acid—sur arenfaen, sur maen tostedd, sur y maen, sur y gareg, sur arenfeinig, sur troethig.

Lithium, *s.* (Gr. *lithos*) sawd delidaidd *Lithia*.

Lithobiblion, *s.* (Gr. *lithos* a *biblion*) llyfrfaen, maenlyfr, maenddalen; dail *neu* lun dail ar gloddedigion.

Lithocarp, *s.* (Gr. *lithos* a *carpos*) maenffrwyth, maenaeron, ffrwyth maenedig, ffrwyth wedi ymgaregu.

Lithochromics, *s.* (Gr. *lithos* a *chrôma*) maenarliwiaeth, maenliwiaeth = y gelf o baentio mewn olew ar faen, a chymmeryd argraffiadau ar lian.

Lithocolla, *s.* (Gr. *lithos* a *colla*) maenlud, careglud, glud maen; ysgrawling â una geryg.

Lithodendron, *s.* (Gr. *lithos* a *dendron*) gwylar; maenbren.

Lithodom, *s.* (Gr. *lithos* a *domos*) maendyfil= meddalogion à dyllant geryg, cregyn, &c.

Lithodomi, Lithodomes, Lithodoms, *s. pl.* maendyfilod, maendyogion.

Lithodomous, *a.* maendyfilaidd; perthynol i'r maendyfilod.

Lithogenesy, Lithogenesia, *s.* (Gr. *lithos* a *genesis*) maenenidas=athrawiaeth neu ofyddiaeth dechreuad delidfain.

Lithogenous, *a.* (Gr. *lithos* a *gennaô*) gwylarfilaidd; perthynol i'r gwylarfilod.

Lithoglyph, *s.* (Gr. *lithos* a *gluphô*) maengerfiad, maengerfiaeth, maengerfiadaeth, gemgrifiaeth.

Lithoglyphite, *s.* cloddion cerfiedig.

Lithograph, *v. a.* (Gr. *lithos* a *graphô*) maenargraffu; maengrifio, maengerfio.

Lithograph, *s.* maenargraff, argraff ar faen.

Lithographer, *s.* maenargraffydd, maenargraffwr.

Lithographic, Lithographical, *a.* maenargraffol; perthynol i faenargraffiad.

Lithography, *s.* maenargraffyddiaeth, maenargraffiaeth, maenargraffiad; maengerfiadaeth, maengrifiadaeth, maengrifiaeth.

Lithoidal, *a.* (Gr. *lithos* ac *eidos*) maenaidd, caregaidd.

Lithologic, Lithological, *a.* (Gr. *lithos* a *logos*) maenofyddol; perthynol i faenofyddiaeth.

Lithologist, *s.* maenofydd; un hyddysg mewn maenofyddiaeth.

Lithology, *s.* maenofyddiaeth.

Lithomancy, *s.* (Gr. *lithos* a *manteia*) maenarmes, maenogan, maenddewiniaeth; dewiniaeth meini *neu* geryg.

Lithomarga, Lithomarge, *s.* (Gr. *lithos*, a Ll. *marga*) meinfarl, cistfarl.

Lithonthriptic, Lithontriptic, *a.* (Gr. *lithos* a *thruptô*) tormaenol; da i dori *neu* dreulio y maen yn y corff; da i dori *neu* dreulio y gareg.

Lithonthriptic, Lithontriptic, *s.* cyffyr tormaenol, maendrwyth; cyffyr i dori *neu* dreulio y maen tostedd: *pl.* gwrthgaregion.

Lithophagous, *a.* (Gr. *lithos* a *phagô*) maenysol, careglwnc; yn bwyta ceryg *neu* raian; yn llyncu ceryg.

Lithophosphor, *s.* (Gr. *lithos* a *phôsphoros*) ffoddfaen, llosnurfaen.

Lithophosphoric, *a.* ffoddfeinin, ffoddfeinig, llosnurfeinig.

Lithophyl, *s.* (Gr. *lithos* a *phullon*) maenddalen, maenddeilen, llyfrfaen; dail *neu* lun dail ar gloddedigion.

Lithophyte, *s.* (Gr. *lithos* a *phuton*) maenwylar, maenfil.

Lithophytic, Lithophytous, *a.* maenwylaraidd, maenwylerin, maenfilaidd; perthynol i faenfilod; yn cynnwys maenfilod; maenwyddol.

Lithospermum, *s.* (Gr. *lithos* a *sperma*) maenhad.

Lithotome, *s.* (Gr. *lithos* a *tomê*) trychfaen= maen wedi ei ffurfio yn naturiol yn y fath fodd ag i ymddangos fel wedi ei dori yn gelfyddydol.

Lithotomic, *a.* maendrychol, maenddeotawl.

Lithotomist, *s.* maendrychwr, maendrychydd, maenddeotwr; llawfeddyg â drycho *neu* â doro allan y maen o gorff dyn; trychwr maen tostedd.

Lithotomy, *s.* (Gr. *lithos* a *tomê*) maendrychiad, maendrwch, maenddeota; toriad *neu* drychiad y maen tostedd; trychiad *neu* doriad y maen *neu* gareg allan o'r bledren.

To practise lithotomy—maenddeoti, maendrychu.

Lithotripsy, Lithotrity, Lithontripty, *s.* (Gr. *lithos* a *thruptô*) tor- maenaeth, maendreuliad; treuliad *neu* faluriad y maen tostedd.

Lithotriptist, Lithontriptist, Lithotritist, *s.* (Gr. *lithos* a *thruptô*) tor- maenwr, tormaenydd; un hyfedr ar dori a thynu y maen o'r bledren.

Lithotriptor, Lithontriptor, *s.* maendreulor; offeryn i dreulio *neu* falurio y gareg yn y bledren.

Lithoxyle, *s.* (Gr. *lithos* a *xulon*) maenwydd, caregwydd, maengoed, coed wedi ymgaregu.

Lithy, *a.* (o *lithe*) ystwyth, hyblyg, plygadwy, plygol.

Litigant, *a.* (Ll. *litigans*) cyfreithgar, ymgyfreithiol, yn ymgyfreithio, cyfreithiol; à fo mewn cyfraith; cynghawsol.

Litigant, *s.* ymgyfreithiwr, ymgyfreithydd; un à fo mewn cyfraith; un à fo yn ymgyfreithio; cecryn, cecrwr, cynhenwr.

Litigate, *v.* (Ll. *litigo*) ymgyfreithio, cyfreithio; profi dadl mewn cyfraith; profi dadl drwy gyfraith; dwyn i'r hawl *neu* holiad; cecru, ymgecru.

Litigation, *s.* ymgyfreithiad, cyfreithiad, ymgyfraith; prawf dadl mewn cyfraith; ymddadl; hawl, dadl, cynghaws.

Litigious, *a.* (Ll. *litigiosus*) cyfreithgar, ymgyfreithgarwch; chwannog i'r gyfraith; yn caru ymgyfreithio; à garo ymgyfreithio; cecrus, tringar, ymrysongar, cynhenllyd, cwerylus.

A litigious person—un cyfreithgar, dyn cyfreithgar, cyfreithgarwr; cecryn y cyrtiau, cecryn cyfreithgar; cecryn, cynhenwr, dyn ymrysongar.

Litigiousness, *s.* cyfreithgarwch, ymgyfreithgarwch; tringarwch, ymrysongarwch, cynhengarwch, cecri.

Litmus, Lacmus, *s.* (Al. *lackmuts*) ciplas, cenlas=math ar baent glas.

Litorn, *s.* math o fronfraith.

Litotes, *s.* (Gr.) bychaneb=troell ymadrodd.

Litre, Liter, *s.* (*Ff.*; Gr. *litra*) llitr=mesur Ffrengig, yn cynnwys 61.028 o fodfeddi cyfain.

Litter, *s.* (*Ff. litière;* Ll. *lectus*) cludai, polfen, elorglud, cludwely, cludwal; llaesodr, llaesod, sarn, gwasarn; annhrefn, anghymhendod, annybendod.

Horse-litter—elor feirch, gelor feirch, march-gludai, polfen; cludai à ddygir ar bolion rhwng dau geffyl.

To make a litter in—annhrefnu, annybenu, anghymmoni, sarnu, gwasarnu; gwneyd sarn *neu* wasarn yn.

What a litter is made about nothing!—pa annhrefn *neu* gynhwrf a wneir am ddim! pa derfysg a gyfodir am ddim!

Litter, *s.* (Isl. *lider*) torllwyth, toraid, âl, ael, gwaling.

The first litter—yr ael gyntaf, yr âl gyntaf, y torllwyth cyntaf; y perchyll cyntaf (i hwch).

The last of the litter—corbedwyn, cardodwyn, cardydwyn, cordydwyn, bach y nyth, tin y nyth: *f.* corbedwen, cardodwen, cardydwen: *pl.* corbedw.

A litter of pigs—torllwyth, toraid, *neu* âl o foch; torllwyth *neu* doraid o berchyll.

Litter, *v. a.* gwasarnu, sarnu, rhoi sarn, rhoi gwasarn, rhoi llaesodr, llaesodri, llanastru, gwasarnu dàn, sarnu dàn, gosod sarn dàn, dodi sarn dàn; gwneuthur yn sarn *neu* wasarn; annhrefnu, annybenu, anghymmoni, distarnu.

Litter, *v. a.* dwyn *neu* fwrw torllwyth; bwrw *neu* ddwyn perchyll; dyfod â pherchyll; porchellu; alu; bwrw; bwrw *neu* ddwyn cwn; dyfod â chwn *neu* â chenawon.

Littered, *a.* gwasarnog, sarnedig, llaesodrog.

Little, *a.* (S. *lytel, lytle*) bach, bychan, (*f.* bechan, *pl.* bychain); mân; ychydig; pitw. mein, eiddil: go-, cor-; -yn, -an, -en, -ig.

Very little—bach iawn, bychan iawn, tra bychan, bychan bach, pitw bach, gorfychan, bach dros ben, bychan dros ben; ychydig iawn, ychydig bach, bychydig, ychydigyn, bachigyn, bychanigyn, syrnyn.

A very little thing—bychanigyn, bachigyn, ychydigyn, bychydigyn; peth bach iawn, &c.: *pl.* ychydigynau, bachigynau, &c.

Little one—un bach, un bychan, un ieuanc; plentyn: *f.* un fechan, un fach, bechan, bechanigen.

Little ones (of the human species)—rhai bychain, rhai bach, rhai ieuainc; plant, plantos, plant bychain.

Little ones (of birds)—cywion, rhai bychain, rhai bach; adar bach.

Little ones (of some beasts)—llydnod, (*sing.* llwdn); cenawon, (*sing.* cenaw, cenau); rhai bychain, rhai bach, rhai ieuainc.

A little man—dynyn, dynan, crynwas, crynddyn, gwr mân, dyn bychan, dynionyn: *pl.* dynos, dynionos.

A little woman—dynan, dynen, dynesan, dynesig, benywen, bechan, merchan, gwreigen, gwreigan, benyw fechan, benyw fach, dyn fechan, dyn fach.

A very little woman, A very little female, bechanigen, dynan fechan fach, benyw fechan iawn.

A pretty little woman — benywen dlos, dynan befr, tlosen, pefren, perten, baches, dyn faches, gwreigan, gwreignith.

A little old woman—gwrachan; hen ddynan, hen ddynesan.

A little girl—genethig, genethan, llancesan, llancesig, morwynig, hoorell, croten, crotes, crotesan, hogenig, bechan, merchan, geneth fechan, llodesan.

A little hill—bryncyn, gofryn, gofron, corfryn, mynyddyn, cefnen, twyn, poncyn, poncen.

A little valley—gobant, dyffryn bychan.

A little drop—defnyn, dafn bychan.

A little horse—merchyn, corfarch, crynfarch, marchilyn, march bychan, ceffyl bychan.

A little dish—dysglan, dysgl fechan.

A little ship—llongan, llongig, corlong, llong fechan, llong fach.

A little box—blychyn, cistan.

Little (in quantity)—ychydig.

A little water—ychydig ddwfr, ychydig o ddwfr.

A little honey—ychydig fêl, ychydig o fêl.

A little piece—dernyn, cetyn, darn bychan.

So little — cyn lleied, càn lleied, mòr fychan, mòr ychydig.

Ever so little—y tipyn lleiaf, y gronyn lleiaf, y mymryn lleiaf, y peth lleiaf, y

maint lleiaf, y dim lleiaf, yr ychydig lleiaf; syrnyn; er lleied.

Be it ever so little—er lleied fo; er lleied fyddo; bid mòr fychan ag y bo; bydded cyn lleied ag y byddo; er lleied y byddo; pa gàn lleied bynag y byddo; bynag pa mòr fychan *neu* ychydig y byddo.

A little while—ychydig ennyd, ychydig amser, ennyd bach, ennyd bychan, rhynawd o amser, encyd o amser, ychydig bachigyn, hetys, origyn, orig, ennyd.

A little while ago—ychydig bach yn ol; ychydigyn yn ol; ennyd yn ol; yn awr fach; ychydig yn ol; gynneu fach, gynneu.

A little way—ychydig ffordd, ychydig o ffordd, encyd o ffordd.

A little time—ychydig amser, ennyd, hetys.

In a little time—ar fyr, ar fyrder; ar fyr amser; mewn byr *neu* ychydig amser; yn mhen ychydig amser; yn mhen ennyd; mewn amser byr *neu* fychan; ar frys, yn fuan, yn ebrwydd, toc, chwap, chwipyn.

For a little time—am ychydig amser, &c.; dros ychydig.

How little—pa leied; pa fychaned; pa gyn lleied; pa mòr fychan; pa mòr ychydig; mòr fychan; cyn lleied.

How little soever—pa mòr fychan bynag; pa leied *neu* fychaned bynag; er bychaned *neu* leied fyddo; er lleied *neu* fychaned y bo.

For how little?—er pa gyn lleied? am ba mòr fychan *neu* ychydig?

How little it is!—leied yw! mòr fychan yw! fychaned yw! pa gyn lleied yw!

But how little a portion is heard of him!—mòr fychan ydyw y peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef!

How little certainty there is!—beth am leied o sicrwydd sydd! beth am leied y sicrwydd sydd! mòr ychydig o sicrwydd sydd!

Little and pretty—bychan a dillyn; bach a phert; pinc, pert, pefr, cryno.

To be little worth, } bod heb dalu ne-
To be but little worth, } mawr; bod heb dalu ond ychydig.

He counts himself little worth—ni thâl efe nemawr yn ei dyb *neu* gyfrif ei hun; nid yw efe ond gwael yn ei dyb *neu* gyfrif ei hun.

Little of stature—bychan o gorffolaeth; byr.

Little of heart—gwàn ei galon; gwangalon, digalon, llwfr.

He that is little of heart will be little of hope—à fo gwàn ei galon a fydd gwàn ei obaith.

To make little—eiddilo, bychanu, lleihau.

No little kindness — caredigrwydd nid bychan; caredigrwydd nid ychydig.

If he will go awry ever so little—os gwyra efe y tipyn lleiaf.

He taketh up the isles as a very little thing—fel brycheuyn y cymmer efe yr ynysoedd i fyny.

A little matter serveth my turn—ychydig beth a'm gwasanaetha i; ychydig a'm gwasanaetha i.

As if that were a very little thing—megys petai hyny ychydig bach; megys petai hyny beth bychan.

In a very little—yn y lleiaf; mewn ychydig iawn.

Little, *s.* ychydig, ychydigyn, tipyn, ticyn, bychod, bachigyn, bychodedd, rhynawd, tachwedd, gronyn; peth; rhan; syrnyn; ennyd, ychydig ennyd.

Stay a little—aros ronyn; aros dipyn.

Give me a little of it—dyro i mi dipyn, ychydig, *neu* dachwedd o hono.

Give me little—dyro i mi ond ychydig; rho i mi ddim ond ychydig.

By little and little—bob yn ychydig; bob ychydig ac ychydig; bob ychydig; o fesur ychydig ac ychydig; bob yn ronyn; bob yn dipyn; o fesur cam a cham; gàn bwyll; yn chwarian; chwyf a chwyf; o dipyn i dipyn; bob yn dipyn bach.

Little said is soon amended—ni ddaeth drwg erioed o dewi.

A little or nothing is his rest—ychydig neu beth heb ddim yw ei esmwythdra ef; ychydig neu ddim yw ei esmwythdra ef.

Lacking but little, } o fewn ychydig; heb
Within a little, } nemawr yn eisieu *neu* ddiffyg; rhy fach ond o ychydig; agos i ddigon; heb ond ychydig yn eisieu; bron digon.

He was within a little of being killed—prin *neu* braidd na laddwyd ef; ni bu ond ychydig rhyngddo a chael ei ladd; ni bu ond y dim lleiaf rhyngddo a chael ei ladd.

It was but a little that I passed from them—nid aethwn i neppell oddi wrthynt.

A portrait in little—manddarlun.

Little, *ad.* ychydig, yn ychydig, o ychydig; tràn, crỳn; lled-, go-; nid llawer; i ryw raddau.

He is a little fearful—y mae efe yn dràn ofnus, yn grỳn ofnus, *neu* yn lled ofnus; y mae arno ef grỳn ofn; y mae arno led-ofn; y mae efe yn lled-ofni; y mae peth ofn arno.

These things are a little troublesome to me—y mae y pethau hyn yn o flinderus *neu* yn o drallodus i mi; y mae y pethau hyn yn peri i mi beth blinder *neu* drafferth.

He is not a little wiser—y mae efe yn gallach nid o ychydig; y mae efe yn gallach o lawer.

He is a little too much given to the world—y mae efe ychydig yn rhy fydol; y mae efe yn rhoi ychydig ormodd o'i fryd *neu* fwriad ar y byd.

He drinks a little too much—y mae efe yn yfed ychydig fwy nag a ddylai; y mae efe yn yfed ychydig fwy na digon; y mae efe yn yfed ar y mwyaf.

A little lower than the angels—ychydig is na'r angelion; ychydig yn is na'r angelion.

Littleness, *s.* bychander, bychandra, bychanedd, bychanrwydd; ychydigrwydd, ychydigder, ychydigdra; eiddilwch; bychodedd, bychodrwydd; salwedd.

Littoral, *a.* (Ll. *littoralis*) perthynol i draeth *neu* forlan; glanol, morlanol.

Littorella, *s.* (Ll. *littus* neu *litus*) beisdonell.

Liturgic, } *a.* (o *liturgy*) perthynol i ffurfwas-
Liturgical, } anaeth, &c.; ffurfweddïol, golychegol.

Liturgics, *s.* goluchaeth, goluchddysg.

Liturgy, *s.* (Gr. *leitourgia*; Ff. *liturgie*) ffurfwasanaeth, golucheg, golycheg, ffurfweddi, ffurfweddïau, gwasanaeth cyffredin, gweddïau cyffredin; ffurfweddïau arferedig yn nghyhoedd wasanaeth *neu* addoliad Duw.

The liturgy—y ffurfwasanaeth, yr olucheg, y gwasanaeth cyffredin, y gweddïau cyffredin, y weddi gyffredin.

Live, *v.* (S. *liban, leofan, lifian*; Al. *leben*; Is. *lieven*) byw; bod yn fyw; bucheddu, buchaddogi, bucheddocäu; oesi, hoedli, bywio; bydio; bod; aros, trigo, preswylio; dwyn bywyd, dwyn ei fywyd.

As I live—fel mae byw fi; fel yr wyf fyw; fel yr wyf byw; fel yr wyf yn fyw; càn wired a'm geni; os byw wyf; od oes bywyd ynof.

While I live—yn fy mywyd; yn fy myw; tra byddwyf; tra bwyf yn fyw; a mi yn fyw.

To live a country life—byw yn wledig *neu* wladaidd; byw buchedd wledig; byw bywyd gwledig; byw fel taiog; byw yn y wlad.

To live delicately—byw yn foethus, &c.; arfer moethau.

To live deliciously—byw yn foethus; byw mewn moethau; byw yn fwythus.

To live in exile—bod yn wr deol; bod yn alltud; byw yn alltud; byw mewn alltudiaeth; herwa; bod ar herw; bod yn ffiemor.

To live from hand to mouth—byw o'r llaw i'r geneu; dàl y llygoden a'i bwyta; byw wrth fin y gyllell; byw o braidd; byw yn drafferthus; cael ei lawn waith i fyw.

To live high—byw yn foethus, yn ddanteithiol, yn ddeintaidd, *neu* yn finfelus; bwyta yn foethus, yn ddanteithiol, yn ddeintaidd, *neu* yn finfelus; cymmeryd byd da yn helaethwych; ymborthi *neu* ymbesgu ar ddanteithion; ymborthi *neu* ymbesgu ar foethau.

To live by one's labour—byw wrth ei lafur; byw wrth ei waith a'i orchwyl; byw wrth ei waith *neu* orchwyl; byw wrth ei ddeg ewin; byw wrth ei ddeng ewin.

To live by—byw wrth, byw ar.

To live of—byw ar, byw wrth.

To live of the things of the temple—bwyta o'r cyssegr (1 *Cor.* ix. 13).

To live on, } byw ar, byw wrth; ym-
To live upon, } gynnal wrth; cael ei gynnaliaeth oddi wrth; ymborthi ar, ymbesgu ar.

To live at rack and manger—cael ymborth cyfuwch a'i en; bod â'i ymborth cyfuwch a'i en; cael ei wala wèn; cael ei wala a'i weddill.

To live together—cydfyw, cyttrigo, cydfydio, cydfucheddu, cydoesi, cyttal, cyttyn, byw yn nghyd.

To live with a person—cydfyw âg un, &c.; bod yn gytty âg un.

To live well—byw yn dda; byw yn helaethwych; byw mewn amledd *neu* ddigonedd; bod â byd da arno; bod â byd gwr da arno; byw yn brydd.

To live well with one—cydfod *neu* gytuno âg un; byw yn gytûn *neu* heddychol âg un.

Well to live—cyfoethog; clyd; cynhes yn y byd; da ei amgylchiadau.

He is well to live—y mae efe yn wr cynhes; y mae efe yn byw mewn amledd; y mae efe â byd da arno.

To live up to one's income—byw cyfuwch a'i foddion *neu* feddiannau; byw hyd eithaf ei foddion *neu* feddiannau; byw cyfuwch a'i ystâd.

To live up to one's profession—byw at ei broffes; byw yn ol ei broffes; byw yn ol manylaf reolau ei broffes; cydymffurfio *neu* gydymagweddu â'i broffes; byw yn gyson â'i broffes; bod i fyny â'i broffes.

To live at what rate one lists—byw yn y modd y myno un; byw yn y modd y myno un ei hun; byw fâl y myno un ei hun; byw fel y myno; byw wrth ei ewyllys, ei feddwl, *neu* ei fympwy ei hun.

To live at the same time—cydoesi, cyfoesi.

As long as I live—tra byddof byw; tra byddwyf byw; tra byddwyf fyw; tra bwyf byw; tra byddwyf, tra bwyf; dros fy nyddiau; tra bo bywyd, chwyth, *neu* anadl ynof; yn fy myw; yn fy mywyd.

Remember how short a time thou hast to live—cofia fyred yw dy amser.

While he lived—yn ei fywyd; yn ei fyw; tra yr oedd yn fyw.

He shall surely live—gàn fyw y bydd efe byw; gàn fyw efe a fydd byw.

Two of the veriest villains that ever lived—dau ddyhiryn o'r penaf à anwyd; dau o'r dyhirod penaf yn fyw.

Never while he lives, } nid tra byddo ei
Not while he lives, } ddau lygad ef yn agored; nid tra bo efe byw.

God send he live—rhodded Duw iddo einioes.

Would I might never live, if—na bo einioes i mi, os—; trengu *neu* farw a wnelwyf, os—

As good a man as liveth—cystal gwr ag a aned; nid oes gwell gwr yn fyw; cystal dyn a neb sy'n fyw.

How long have I to live?—pa faint yw dyddiau blyneddoedd fy einioes i (2 *Sam.* xix. 34)?

I have lived in all good conscience before God—mi a wasanaethais Dduw mewn pob cydwybod dda (*Act.* xxiii. 1).

Live, *a.* byw; â bywyd ynddo; bywiol, bywiog; tanllyd; gwyrenig.

The live ox—yr ych byw.

A live coal—marworyn, rhysodyn, glo byw: *pl.* marwor, marwar, marwydos, rhysod, marwor tanllyd.

Lived, *a.* hoedlog, oesog; â bywyd ynddo.

Long-lived—hirhoedlog, hiroesog, hoedlog, oesog, oesbraff, oesbell, hirfyw, hir ei oes, hir ei hoedl; hen.

Short-lived—byrhoedlog, oesfyr, byr ei oes, byr ei hoedl, hoedlfyr, byroesog; dibara.

Liveless,† *a.* = *Lifeless.*

Livelihood, *s.* (*lively*, a'r terfyniad *hood*; S. *lifehode*) bywoliaeth, bywiolaeth, bywioliaeth, bydiaeth, bydiant; cynnaliaeth, cynneiliaeth, cynnaliawd; ymborth; modd i fyw.

Livelily, *ad.* yn fywiog, &c.
Liveliness, *s.* (o *lively*) bywiogrwydd, bywiogder, bywioldeb, hawnt, eidiogrwydd, hawntusrwydd, hawntrwydd, brywusder, brywusdra, bryw, hoen, nwyf, arial, cyfarial, awch, afwch, rhwysdod, baid.
Livehode,† *s.* = *Livelihood.*
Livelong, *a.* (*live* a *long*) maith, hirfaith; †hirbarhäus, parhäus.
The livelong day—ar hyd y dydd; trwy gydol y dydd; trwy y dydd.
Livelong, *s.* canewin, bywydog lydanddail, llysiau Taliesin, berwy Taliesin, berwr Taliesin, ffäen Taliesin.
Lively, *a.* (o *live*) bywiog, bywiol, eidiog, heini, hawntus, hoew, gweisgi, gwisgi, hynwyf, nwyfus, gwaint, brywus, bryw, arialus, rhwys, beidiog, gwrygiannus, gwrygiol, gwrygiog, gwyrenig, anfarwaidd; llon, llonwych, llawen, erf; gwresoglym, egnïol, ynïol.
To be lively—bod yn fywiog, &c.; gwrygio, gwrygiannu.
To grow lively—myned yn fywiog, &c.; gwrygio, gwrygiannu, ymfywhau.
To make lively—bywiogi, bywocäu, bywioli, bywhau, eidiogi, arialu, adfywio, eidio; gwneyd yn fywiog, &c.
A lively hope—gobaith bywiol.
Lively colour—lliw gwyrenig; lliw bywiog, lliw bywiol.
Fresh and lively—teg a gwyrenig; tirf ac iraidd.
To represent in lively colours—darlunio i'r bywyd; darlunio i'r byw; darlunio yn hoewych, yn glaerwych, *neu* yn flodeuog; darlunio mewn lliwiau gwyrenig a bywiol; gosod allan yn fywiog ac eglurlawn; dwfn baentio, dwfn ddarlunio.
Mine enemies are lively—y mae fy ngelynion yn fyw (*Salm* xxxviii. 19).
Lively, *ad.* yn fywiog, &c.
Liver, *s.* (o *live*) bucheddwr, oeswr; un à fo yn byw *neu* yn bucheddu.
A bad liver—un drwg ei fuchedd; dyn drwg ei fuchedd; un drygfucheddol, bucheddwr drwg, drwg fucheddwr, anfadwr, drygddyn, dyhiryn, oferwr, oferddyn.
A good liver—un da ei fuchedd *neu* fywyd; dyn da ei fuchedd *neu* fywyd; bucheddwr da, glân fucheddwr; un glanfucheddol; un yn arwain buchedd dda; un yn arwain bywyd da; mad fucheddwr.
The longest liver—yr hwyaf ei einioes; yr hwyaf ei oes; à fo byw ar ol arall *neu* ereill; à fo byw hwyaf; yr hwyaf *neu* olaf à fo byw; y gorfucheddwr.
Which of them should be the longest liver—pa un o honynt a fyddai byw hwyaf.
Liver, *s.* (S. *lifer, lifre;* Al. *leber*) afu, au, iau.
The liver—yr afu, yr au.
Affection of the liver, Disease of the liver, } auad, afuad, haint yr afu.
Liver disease (in children)—llech, y llech, y llechau.
Liver-clung—â'r llechau arno; â'r llech arno; claf o'r llech; claf o'r llechau; claf o'r afu.
Worms in a sheep's liver—cuod.
Overgrowth of the liver (in sheep)—llederw.
The vein of the liver—gwythen yr afu.
Livercolour, *a.* dugoch; o liw yr afu.
Livered, *a.* afuog; â chanddo afu; âg au ganddo.
White-livered—gwŷn ei afu; gwelw, glaswelw, gwelwlas, gwân; llwfr, llwrf, gwangalon, digalon, ofnus, cachgiaidd; cenfigenus, maleisus, athryfar, dryganianol.
Livergrown, *a.* â'r llechau arno; â'r llech arno; claf o'r llechau; claf o'r llech; claf o'r afu; mawr ei afu; âg afu mawr ganddo.
Livergreen, *s.* (*liver* a *green*) afuad, llysiau yr afu, llysiau yr au, goferllys.
Liverstone, *s.* (*liver* a *stone;* Al. *leberstein*) eufaen, maen afu.
Hemispheric livergreen—ysgenllys.
Conic livergreen—clust yr asen.
Liverwort, *s.* (*liver* a *wort*) cen, cip; llysiau yr afu, llysiau yr au, afuad.
Dusty liverwort, Powdery liverwort, } llychgen.
Leprous liverwort—clafrgen, cen y ceryg.
Tiled liverwort—cip y coed, coedgip.
Cup liverwort—ffiolgen, cwpanau 'r ddaiar, clych y ceryg.
Shrubby liverwort—manwyddgen.
Stringy liverwort—gweryd.
Foliaceous liverwort—callod, callodr, callawdr.
Umbilicated liver-wort—bogeilgen.
Coriaceous liverwort—croeneiddgen.
Lettered liverwort—ysgrifgen.
Ground liverwort—maesafuan, clustiau 'r ddaiar.
Tree liverwort—rhedegog y derw, barfau'r derw.
Ash-coloured ground liverwort—clustiau'r ddaiar, maesafuan.
Livery, *s.* (Norm. o'r Ff. *livrer*) goresgyn, goresgynaeth, meddiant, meddiant ar dir, estyn; rhoddiad; rhyddhad, gollyngdod; goresgyneb; gosgorddwisg, cosgorddwisg, swyddwisg, nodwisg, nodebwisg, trymwisg, llifrai, dillad, dilladwisg, anmreintwisg, dillad gwasanaeth, dillad anmraint, trwsiad; gwisg; gynogion, breiniolion, llifreiwyr, dinaswyr nod; cadwad meirch i'w llogi; gogorfa.
Livery and seisin, Livery and seizin, Livery of seisin, } goresgyn, goresgyn ar dir, estyn, ystyn, gorgynaeth, goresgyn a gafael.
To give livery and seisin—rhoi goresgyn, rhoi goresgyn ar dir, estyn tir, rhoi meddiant.
A giving livery and seisin—rhoddiad goresgyn, estyn, ystyn, rhoddiad meddiant, rhoddiad mewn meddiant.
To receive livery—cael goresgyn; cymeryd goresgyn; cael goresgyn ar dir; cael meddiant ar dir.
The livery of London—gynogion Llundain, breiniolion Llundain, llifreiwyr Llundain, dinesyddion Llundain; yr holl ddinaswyr nod yn Llundain.
To keep horses at livery—cadw meirch ar eu gogor; cadw gogordy, cadw gogorfa; cadw meirch gogor.
To stand at livery—bod ar eu gogor; bod mewn marchdy llog; bod mewn gogorfa *neu* ogordy.
Livery of oats and hay—rhoddiad allan

ddogn penodol o geirch a gwair i ebranu meirch.
Livery-servant—nodwas, gwas nod; gwas mewn gosgorddwisg, &c.; llifreiwas, llifreiwr, gwas llifrai, gwr llifrai, trymwas; gwisgedydd llifrai *neu* nodwisg.

Livery, *v. a.* gwisgo *neu* drwsio mewn gosgorddwisg; gwisgo, dilladu, nodwisgo.

Liveryman, *s.* nodwas, gwas nod, llifreiwr, llifreiwas, gwr llifrai, gwas llifrai, gwisgedydd llifrai, trymwas; un mewn gosgorddwisg, &c.; dinesydd nod, dinaswr nod, gwr breiniol.
Liverymen of London—gynogion Llundain, breiniolion Llundain, llifreiwyr Llundain, gwŷr breiniol Llundain, dinesyddion nod Llundain, gwŷr nod dinas Llundain.

Livery-stable, *s.* gogorfa, gogordy, marchdy llog, cyflogdy meirch, cyflogfa meirch, hoeddaman, marchdy cyffredin.

Lives, *s. pl.* (*o life*) bywydau; bucheddau; cofiaint, cofiannau.

Livestock, *s.* (*live* a *stock*) da byw, da bywiol; anifeiliaid.

Livid, *a.* (Ll. *lividus*) dulas, llur, glasddu, cleisiog, duwelw, plymliw, echlur, canwelw, du a glas, glasawg.
To make livid—llurio, dulasu, cleisio; gwneyd yn ddulas, &c.

Lividness, } *s.* dulesni, dulasder.
Lividity, }

Living, *a.* (*o live*) byw, bywiol; yn fyw, yn byw; â byw ynddo; â bywyd ynddo; eneidiol; bywhaol.
A living creature—creadur byw; milyn, anifail.
A little living creature—milionyn.
Any man living—neb byw, un dyn byw, undyn byw.
Living force—ysgogrym, ysgognerth, hyppynt, egni byw.
Within living memory—o fewn cof rhai sy'n awr yn fyw; o fewn cof y dydd heddyw; yn nghof yr oes hon.

Living, *s.* byw, y byw; un byw; rhai byw.
The living—y byw, y rhai byw.
In the land of the living—ar dir y byw; yn nhir y byw; yn nhir y rhai byw; ar dir y rhai byw.

Living, *s.* bywoliaeth, bywiolaeth, bydiant; bywyd; modd i fyw; byw; cynnaliaeth, cadwraeth; bywoliaeth eglwysig, eglwysfudd, glwysfudd.
Riotous living—afradlondeb, afradlonrwydd, glythineb; byw yn afradlawn, byw afradlawn; buchedd afradlawn.
There is no living with her—nid oes dim byw gyda hi; nid oes byw gyda hi; nid oes modd byw gyda hi; nid oes modd i fyw gyda hi.
He lost his living—collodd ei fywoliaeth; collodd ei fywoliaeth eglwysig; collodd ei eglwys; collodd ei bersoniaeth.
A living together—cydfywoliaeth, cydfywyd, cydfuchedd; cydymborth; cyttyaeth, cytty, cytteuluedd.
The rule of holy living—rheol buchedd santaidd.

Livingly, *ad.* yn fywiol, yn fyw.

Livraison, *s.* (Ff.) rhan o lyfr â argreffir ac â ddosberthir cyn gorphen y gwaith; rhifyn.

Livre, *s.* (Ff.; Ll. *libra*) swllt Ffreinig gynt, gwerth o ddeutu 10*c.*

Lixivial, } *a.* (Ll. *lixivius*) trwythol, trwyth-
Lixivious, } aidd, lleiswaidd; llytrodwyaidd; perthynol i drwyth coedludw; yn cynnwys hal coedludw; â gynnwys hal lludw coed.

Lixiviate, } *a.* trwythol, llytrodwyol, trwythog,
Lixiviated, } trwythaidd, trwythedig, llytrodwyog; nawsedig â halion lludw coed.

Lixiviate, *v. a.* trwytho, llytrodwyo, lleiswo; trwytho â halion coedludw; nawsio â halion o ludw coed.

Lixiviation, *s.* trwythiad, llytrodwyad; tyniad halion croew o ludw coed.

Lixivium, *s.* (Ll.) trwyth, lleisw, lleisw coed, llytrodwy; dwfr nawsedig â halion croew o ludw coed.

Lizard, *s.* (Ff. *lézard*; Ll. *lacertus*) madfall, madgall, gwedrasi, geneugoeg, geneu goeg, madrwy, madfil, llostrwy, modrwyfil, ethrychwil, brydychwil, llysard.
The lizard—y lysard (*Lef.* xi. 30).
Lizard-tail, } cynffon y fadfall=enw plan-
Lizard's-tail, } igyn.

Llama, *s.* (gair Periwaeg) llama, camel Periw: *pl.* llamaod.

Llanos, *s. pl.* (Ysp.) gwastattiroedd Deheudir America; gwastattiroedd, gwastadfaoedd; gwastadedd.

Lo, *in.* (S. *la*) wele! wela! nycha! enycha! wel! ycha!
Lo here—llyma, dyma, wele yma, wel dyma, wele dyma, gwel yma, cyma.
Lo there—llyna, dyna, wel dyna, wele dyna, gwel acw, wele acw, wel dacw, wele dacw, gwel oco, gwel raco; sylla raco, sylla di raco.
Lo below—wele diso, wel diso, gwel diso, gwel isod.
Lo above—wele ducho, wel ducho, gwel uchod, wele uchod.
Lo, here is Christ, or there—wele, llyma Grist, neu llyna.

Loach, } *s.* (Ff. *loche*) barfwyniad, gwyniad
Loche, } barfog=math o bysg dwr croew.

Load, (S. *klad*, *lade*) llwyth, baich, pwn, hwys, sawch; pwys.
Horse load—llwyth ceffyl, llwyth march, pwn ceffyl, pwn march, marchlwyth.
Cart-load—cartaid, certaid, menaid, trolaid, benaid; llwyth cart, men, ben, *neu* drol.
Load (among miners)—llwyth=o ddeutu 500 pwys o fwn.

Load, *v. a.* llwytho, beichio, pynio, pyniori, pynorio, pynu; cargu; llenwi; hwyso, sawchu, crugio.
To load heavily—llwytho yn drwm, trymlwytho; gorthrymu.
To load together—cydlwytho, llwytho yn nghyd.
To load a gun—llwytho dryll, llwytho gŵn; rhoi ergyd mewn dryll; rhoi ergyd *neu* lwyth mewn gŵn; ergydio dryll, llenwi dryll.

Loaded, *p. p.* llwythog, llwythedig, pyniog, pyniedig; dân ei lwyth; dân ei bwn; dân ei faich.

Loader, *s.* llwythwr, llwythydd.

Loading, *s.* llwyth, baich, carg; llwyth llong, llonglwyth.

Loadmanage, †*s.* llonglywiaeth, llywiaeth llong; cyflog llywydd llong.

Loadsman, † *s.* llonglywydd, llywydd llong.

Loadstar, } †*s.* (*lead* a *star*) seren y morwyr,
Lodestar, } cyfarwyddyd y morwyr, seren arwain, seren y pegwn; rhonell y ci.

Loadstone, } *s.* (*lead* a *stone*) ehedfaen, tynfaen,
Lodestone, } hedfaen, maen tynu, maen ehed, llithfaen, tryfaen, tywysfaen, attynfaen.

Loaf, *s.* (S. *hlaf, laf*) torth; *pl.* torthau.
A small loaf—torthan, torthig, torth fechan, torth fach.
A brown loaf, } torth o fara gwenith
A household loaf, } trwyddo; torth eilfiawd.
Sugar loaf—torth sugr, torth o sugr.
Loaf sugar—sugr torth; sugr gwŷn.
Half a loaf is better than no bread—gwell bychod yn nghod na chod wag.

Loam, *s.* (S. *lam;* Al. *lehm*) tywodglai, priddglai, marldir, marlbridd, cleibridd, gludbridd; tir cymmysg o glai a thywod; clai, marl.

Loam, *v. a.* cleio, rhoi clai ar, tywodgleio, priddgleio.

Loamy, *a.* priddgleiog, tywodgleiog, marlog, marlaidd, cleibriddog.
Loamy soil—tir priddgleiog, tir marlaidd, marldir, marlbridd, cleibridd.

Loan, *s.* (S. *læn, hlæn;* Is. *lœn*) benthyg, echwyn.
To put out to loan—rhoi yn menthyg; benthycio, benthyca, benthygio.

Loan, *v. a.* echwyna, benthycio, benthygio, rhoi yn menthyg.

Loan-office, *s.* benthygfa, echwynfa, swyddfa fenthyg, swyddfa echwyn, swyddfa fenthycio (yn America).

Loath, *a.* (S. *lath*) anfoddlawn, anfoddlon, anfodlon, anwyllysgar, anewyllysgar, anhawdd ganddo, nid o'i fodd, anfoddog, anfoddgar; yn erbyn ei ewyllys; anhydyn, annhueddol.
I am loath—mae yn anhawdd genyf, &c.
I am very loath to do it—mae yn anhawdd iawn genyf ei wneuthur.
Half loath and half consenting—rhwng bodd ac anfodd.

Loathe, *v. a.* (S. *lathian*) ffieiddio, cashau; bod yn gas, yn adgas, *neu* yn ffiaidd gàn; diflasu ar, alaru ar, llaru ar, blino ar; bod yn ddiflas gàn; ffinioni; bod yn ffinion gàn; bod yn flin gàn; ymwrthod â pheth o wir gas arno; ymwrthod â pheth o wir gasineb ato; gwrthneu, llysu.
To loathe one's self—ffieiddio ei hun; ymffieiddio; bod yn ffiaidd gàn un ei hun *neu* hunan; alaru ar un ei hun; alaru arno ei hun; cael digon arno ei hun.

Loathe, † *v. n.* alaru.

Loathed, *p. p.* ffieiddiedig, &c.; ffiaidd, cas, adgas.

Loather, *s.* ffieiddiwr, ffieiddydd, cashäwr, alarwr; un à ffieiddio beth; un à alaro ar beth.

Loathful, *a.* ffieiddlawn, llawn casineb, gwrthneugar, ffieiddiol, cashaol, cas, ffiaidd, yn cashau, yn ffieiddio; alarllyd, ffinionllyd.

Loathing, *s.* ffieiddiad, ffieiddiant, cashad, alariad, alar, gwrthwynebrwydd, gwrthneu, gwrthwyneb, gwrthedd; tuedd *neu* chwant i ymgyfogi; gorchwyd, gloesygdod, gloesyndod.
I have a loathing—y mae gwrthneu *neu* wrthwyneb arnaf.
Loathing of food—llysfwyd.
It begets *or* creates a loathing in me—y mae yn peri gwrthwyneb, gwrthwynebrwydd, gorchwyd, *neu* wrthneu arnaf.
To the loathing of thy person—i ffieiddio dy einioes (*Esec.* xvi. 5).

Loathingly, *ad.* yn wrthneugar, yn alarllyd, &c.

Loathly, *ad.* yn anfoddlawn, &c.; o anfodd; yn erbyn ewyllys.

Loathness, *s.* anwyllysgarwch, anewyllysgarwch, anfoddlonrwydd; anhawddineb.

Loathsome, *a.* (o *loath;* S. *lælesam*) ffiaidd, cas, adgas, ffieiddgas, hygas, achas; à bair wrthwyneb ato; alarllyd, ffinionllyd.
Loathsome disease—ffieiddglwyf (*Salm* xxxviii. 7).

Loathsomeness, *s.* ffieiddrwydd, ffieidd-dra, ffieiddwch, ffieidd-dod, adgasrwydd, hygasedd, casedd.

Loathsomely, *ad.* yn ffiaidd, &c.

Loaves, *s. pl.* (o *loaf*) torthau.

Lob, *s.* (C. *llob*, yn ol y Dr. *Webster*) llob, llobyn, hurtyn, lleban, llabwst, llabi, llelo, penbwl, penllorcan, drel, clwpa, clopa, hult, brebwl.

Lob, *v. a.* gadael i beth syrthio yn farwaidd *neu* ddïog; gadael i beth gwympo yn llanastr.

Lobate, } *a.* o *lobe*) llabedog, dalenog, tipynog,
Lobated, } llabog; hadgibog.
Lobed, }

Lobby, *s.* (Al. *laube?*) cyntedd, cynteddfa.
Lobby-member—aelod o'r cyntedd, cynteddwr; llercyn yn nghyntedd y senedd-dy.

Lob-cock, *s.* = *Lob.*

Lobe, *s.* (Ff.; Ll. *lobus;* Gr. *lobos.*) dalen; tipyn, llipryn, llipyn; llabed, llab; dernyn; hadgib, hadgod, hadgoden, cib, ciben, bul, llest; rhaniad.
The lobes of the lungs—dalenau yr ysgyfaint.
The lobe of the ear—tipyn y glust, llabed y glust, llipyn y glust, llibyn y glust, cwr isaf y glust, clustlab.

Loblets, *s. pl.* (o *lobe*) llabedanau, llabedynau, llabedau bychain.

Lobelia, *s.* (oddi wrth Matthew *Lobel*, meddyg a llysieuwr i Iago I.) bidoglys, bidawglys, Lobelia.
Water lobelia—bidoglys dyfrdrig, bidawglys dyfrdrig.

Loblolly, *s.* saig mordwywyr.
Loblolly-tree—math ar bren perthynol i'r India Orllewinol.

Lobsided, *a.* ystlysgam; âg un ochr yn drymach na'r llall.
To be lobsided—ystlysgamu; bod yn ystlysgam.

Lobspound, *s.* (*lob* a *pound*) carchar; y cyffion; y ffald.

Lobster, *s.* (S. *loppestre, lopystre*) ceimwch, llegest, gafr y môr.

Lobule, *s.* (o *lobe;* Ysp. *lobulo*) llabedyn, llabedan, llabed fechan.

Local, *a.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *localis*) lleol; perthynol i le; cyfleol; manawl, llefodol; sefydlog, diymmod; cartrefol.
Local habitation—llefod, lle.

Localism, *s.* lleoliaeth; serch ar le, llegarwch.

Locality, *s.* lleoliaeth, lleolder, lleolrwydd; llefod, argyfle; sefyllfa; lle; lleol gynnrychiolder, lleol hanfod.
Localities—lleoedd, manau.

Localize, *v. a.* lleoli, cyflëu, argyflëu, llëu, llehau; gwneuthur yn lleol.

Locally, *ad.* yn lleol, &c.; mewn perthynas i le; o ran lle.

Locals, *s. pl.* lleolion, pethau lleol (mewn newyddiadur).

Locate, *v. a.* (Ll. *loco*, *locatus*) gosod, gosodi, cyflëu, argyflëu, llëu; gosod, dodi, *neu* roddi mewn rhyw le neilltuol.

Location, *s.* llead, llehad, cyflead, argyflead, manawd, lleoliad; gosodiad, sefydliad; sefyllfa, llefod; llogiad; gosodiad allan, gosodiad yn llog, rhoddiad yn llog, gosodiad ar rent.

Loch, *s.* (Gael.) llwch, llŷn; ebach, morebach, mornant.

Loch Lomond—Llwch Llumon, Llwch Llumonwy, Llŷn Llumonwy.

Loch, } *s.* (Ar.) cyflaeth, lleibgyffer, llygyff-
Lohoch, } er, cyffyr hylaib, meddyginiaeth hylaib.

Lochage, *s.* (Gr. *lochagos*) blaenor catrawd neu fyntai, yn Groeg gynt.

Loche, *s.* (Ff.)=*Loach*, *Loche*.

Lochia, *s.* (Gr. *locheia*) esgorgothion, esgorgythion, ysgothion ar ol esgor.

Lochial, *a.* perthynol i esgorgothion; esgorgythol.

Lock, *s.* (S. *loc*, *loce*; Al. *locke*) clo; cloig, cloigyn; lloc, argae, dyfrgae, argaeddor. Illiddor, argae camlas; cudyn, llofn, llofyn, amgudyn, amgud, llyweth, dylofyn, tweg, casnodyn; gafael, coflaid.

The lock of the leg—deilw, meilwn, egwyd.

The lock of a gun—clo dryll, clo gŵn, clo gŵn saethu.

To be under lock and key—bod dàn glo; bod dàn glo ac allwedd.

Lock of water—argaeaid o ddwfr; llocaid o ddwfr.

Fire-lock—dryll, gŵn, dryll saethu, gŵn saethu.

Lock, *v.* cloi; cau; diogelu; cofleidio, tyn gofleidio; bod yn dyn.

To lock in—cloi i mewn.

To lock out—cloi allan.

To lock up—cloi ar, cloi i mewn, rhoi dàn glo, dodi dàn glo, cloi i fyny.

To lock one out of doors—cloi un allan.

To lock in one's arms—cofleidio, breichcidio, tyn gofleidio; myned ddwylaw yn mwnwgl; cloi yn mreichiau un.

Locked jaw—gen glo; mant clödeig, ymgauad gen.

Lockage, *s.* defnyddiau argaeau *neu* liddorau camlas; argaeau, dyfrgaeau; gwaith argae, llocwaith; toll argae, lliddordal; uchder *neu* godiad à wneir gàn argaeau camlas.

Lock-bonds, *s. pl.* rhes o glofeini, gwanaf o rwymfeini.

Locked, *p. p.* clödeig; wedi ei gloi; yn nghlo, dàn glo.

Locker, *s.* (o *locker*) cloer, llogawd, llogell, nester, cilgell; twll colomen.

Lockers for pigeons—tyllau colomenod.

Locket, *s.* (Ff. *loquet*) cne, argae, addurnglo, lloced, cloigyn, dalfach, cipen, clo bychan.

Locking-plates, *s. pl.* llafnau cloawl.

Lockless, *a.* diglo, heb glo.

Lock-pit, *s.* pwll argae.

Lockram, *s.* twli, brasliân, math ar liain garw.

Lockron, *s.* math o egyllt, egyllt crwn.

Lock-spit, *s.* (Ll. *locus*, a *pit*?) lleffos; ffos *neu* gwys i ddangos llinellau gwaith.

Locksmith, *s.* gof cloion.

Locky, *a.* (o *lock*) cudynog, llofnog, llofynog, topynog.

Locodescriptive, *a.* (Ll. *locus*, a *descriptive*) lleddarluniol; yn darlunio lle *neu* leoedd neilltuol.

Locomotion, *s.* (Ll. *locus* a *motio*) ymsymmudiad, symmudiad, ysmudiad, ymsymmud, hunansymmudiad; ymsymmudiad o le i le; gallu i ymsymmud o le i le.

Locomotive, *a.* ymsymmudol, symmudleol, symmudlëig, symmudol, ysmudol, ymmodol; yn symmud o le i le; à newidio ei le; à fo yn newid ei le; à fo rhyw iddo newid ei le; à ddichon *neu* à eill ymsymmud o le i le; âg iddo *neu* â chanddo allu i ymsymmud o le i le; hunansymmudol.

Locomotive power—symmudrym, symmudnerth, ysmudrym, gallu symmudol.

Locomotive faculty—gallu i ymsymmud o le i le; gallu ymsymmudol.

Locomotive, *s.* peiriant ymsymmudol, agerbeiriant ymsymmudol, peiriant symmudleol.

Locomotivity, *s.* gallu i ymsymmud o le i le; ymsymmudoldeb, symmudolder, ymmodoldeb.

Loculament, *s.* (Ll. *loculamentum*) hadgell, hadle.

Locus, *s.* (Ll.) lle, màn.

Locust, *s.* (Ll. *locusta*) llindys yr yd, pryf y gwellt, ydlindys, llocust, locust, llosbryf, llindys.

Locust, *s.* llindyswydd=math o goed a phlanigion tramor.

Honey-locust — melddraenen; *pl.* melddrain.

Locust-tree—llindyswydden, y pren llocust: *pl.* llindyswydd, llindysgoed.

Locution, *s.* (Ll. *locutio*) llafariaeth, llafarddull, dywediad, ymadrodd.

Locutory, *s.* (Ll. *locutorium*) siaradfa, ymddyddanfa=ystafell mewn mynachlog, yn yr hon y caniatëid i'r mynachod siarad, pryd y perid gosteg mewn lleoedd ereill.

Lode, *s.* (S. *lædan*) gwythen ŵn, mwnwythen, mwnwyth, gwythen, gwythïen.

Lode-stone, *s.* alcanfaen (yn Nghernyw).

Lodge, *v.* (Ff. *loger*; It. *loggia*). llettya, llettyu; aros, trigo, trigiannu; gwesta, dofri; rhoi lletty i; derbyn i dy, i letty, *neu* i lettya; cymmeryd lletty, cymmeryd ei letty; gosod, rhoi, dodi, cyflëu, llëu; rhoi *neu* ddodi i gadw; sefydlu; planu; derbyn, cynnwys; achlesu, llochesu, llochi; cuddio, ymlechu, ymlochesu, llechu; rhoi lle i; gosod, rhoddi, *neu* ddodi i lawr; gorwedd; rhoi i orwedd; gwersyllu, lluesta, pebyllio, pabellu; eistedd i lawr, eistedd; glynu, glynu yn; gorphwys; llorio; nythu; aros tros nos.

To lodge one's self—ymlettya; gwneuthur ei letty; gwneuthur ei sefyllfa; ymsefydlu, ymlynu.

To lodge with a person—llettya gydag un; gwneuthur *neu* gymmeryd ei letty gydag un.

To lodge corn—taflu *neu* guro yr yd i lawr; rhoi *neu* fwrw yr yd yn ei orwedd; rhoi yr yd i orwedd; gwasarnu yr yd; llorio yd.

The oats lodge—y mae y ceirch yn gorwedd.

To be lodged in one, } bod yn meddiant un;
To be vested in one, } bod yn nwylaw un; bod yn aros gydag un.

To be lodged in one, } bod yn ngallu un;
To be lodged with one, } bod ar law un;
bod ar ddwylaw un.
Well lodged—mewn lletty da; da ei letty.
Ill lodged—mewn lletty drwg; drwg ei letty.
The supreme power is lodged in the king—y brennin biau yr uchafiaeth; y brenin biau yr oruch-lywodraeth.
If she have lodged strangers—os bu lettygar (1 *Tim.* v. 10).

Lodge, *s.* lletty, llettyfa, lluest, lluestty, lluestfa, bwth, bwthyn, hafotty, maesdy; parc-dy, fforestty, prysordy; porthordy, porthdy; ty yn nghanol gwlad; gorweddle, gorweddfa, gwâl, ffau, llοches; godref; cyfrinfa, cyfrindy.
Odd Fellows' lodge—cyfrinfa Odyddion, llettyfa Odyddion.
Porter's lodge—porthordy, porthdy, ty y porth, cynhordy, cynnordy.
Lodge of a house—cynhordy, cynnordy, porthdy.
Lodge of a stag—gorweddfa, gorweddle, *neu* wâl carw.

Lodgeable, † *a.* llettyadwy, à eill lettya.

Lodged, *p. p.* llettyedig, &c.; yn ei orwedd, yn gorwedd, gorweddol, gorweddog.

Lodger, *s.* llettŷwr, gwestai, dofreithiwr; cyttŷwr.
Woman lodger—llettywraig, gwestai, llettyes.

Lodging, *s.* lletty, llettyfa, gwestfa, gwestle, gwest, gwelyfan, rhandy, dofraeth; llettyad, arosiad, trigfa; nawdd, nodded, achles; to.
Lodgings—lletty, (*pl.* llettai, llettyau, lletteiau,) gwesti, gwestleoedd.
Lodging house—lletty, llettyfa, gwestty, gwest.
Lodging place—llettyfa, lletty.
A common lodging place—iletty cyffredin, gwestty cyffredin; tafarn.
A night's lodging—lletty noswaith, lle noswaith; lle *neu* letty dros nos.
Without lodgings—diletty.
The practice of lodging—llettyaeth, llettŷwriaeth.
To take one to lodging—cymmeryd *neu* dderbyn un i lettya.
To take up one's lodging—llettya; cymmeryd ei letty.
Having a lodging—llettyog; â lletty ganddo.

Lodgment, *s.* (Ff. *logement*) llettyad, llettyaeth; cronfa, gwaddod, gweddill; casgl, ymgasgl, casgliad; lle y glŷn, y saif, yr erys, y trig, y casgla, *neu* yr ymgasgla pethau; sefydliad; gwersyll, gwersyllt, gwersyllfa, lluarth, lluest, bidwal, garth, garthan, llystyn; sefyllfa, gorsaf, arosfa, lle i sefyll, safle, godref.

Loess, *s.* (Al.) llorion marianog trydyddol, à geir yn glytiau rhwng Cwlen yn yr Almaen a Basil yn Switserland.

Loffe, † *v. n.*=*Laugh.*

Loft, *s.* (D.; S. *lyfte*, awyr; cyfathrach i *lift*) llofft, taflod, hurtr, hurtyr, llwyf; ystafell, arystafell, uchelfa.
Hay-loft—taflod wair, taflod.

Loftily, *ad.* yn uchel, &c.
To speak loftily—dywedyd yn uchel; llefaru yn uchelfalch.
To carry it loftily—ymddwyn yn falch, yn drahäus, yn drahausfalch, yn drawsfalch, yn ucheldrem, yn uchel, yn warsyth, *neu* yn wynebsyth.

Loftiness, *s.* uchder, uchelder, uwchder, uchdra, ucheldra, uchdeb, uchedd, uwchdra, uwchedd, uchafedd, goruchedd, gorucheledd, arucheledd; taldra; uchelwychder; balchder, balchineb, argonedd, trahausder; arddunіant.

Lofty, *a.* (o *loft*, neu *lift*, yn ol *Johnson*) uchel, goruchel, uchelfawr, ban, banog, aruchel, dyrchafedig, derchog, derch; tâl; uchelwych, mawrwych, mawreddog, mawrydig, mawreddus; chwyddedig, balch, ffroenuchel, effrom, penuchel, syberw, ucheldrem, uchelfalch, uchelsyth, trahäus, trahausfalch; arddunol, arddun.
Lofty words—geiriau mawreddog, uchelwych, *neu* uchelfalch; geiriau chwyddedig *neu* drahausfalch.
A lofty style—ucheliaith, ieithwedd uchelwych, ieithwedd oruchel; dull mawreiriog *neu* uchelwych ar ymadrodd; dull chwyddedig ar ymadrodd; ieithwedd chwyddedig.
A lofty expression—mawrair, uchelair; ymadrodd uchelwych.
The high and lofty one—y goruchel a'r dyrchafedig.
To grow lofty—myned yn uchel, yn falch, *neu* yn uchelfalch; balchïo, ymfalchïo, ymddyrchafu.
He has a lofty mind—y mae efe yn uchel ei fryd *neu* feddwl; y mae ganddo feddwl uchel; un uchelfryd ydyw.
The lofty looks of man shall be humbled—ucheldrem dyn a iselir.

Log, *s.* (Is. *log, logge?* Ll. *lignum?*) cyff, boncyff, cippill, pill, cyffyn; morbill, rhifrill, cyfrifbill, pill y morwr, pill y llongwr.

Log, *s.* (H.) gwlyb fesur Hebrëig, yn cynnwys tua ¾ o beint.

Log, † *v. n.* ymsymmud yn ol ac yn mlaen.

Logarithm, *s.* (Ff. *logarithme;* Gr. *logos* ac *arithmos*) dirprwyn, rhif dirprwyol, prwyrif: *pl.* dirprwynion, prwyrifau.
The science of logarithms—dirprwyniaeth, prwyrifyddeg, prwyrifyddiaeth, rhifyddeg ddirprwyol.

Logarithmetic, } *a.* (o *logarithm*) dirprwynol,
Logarithmetical, } prwyrifol; perthynol i
Logarithmic, } ddirprwynion; yn perth-
Logarithmical, } yn i brwyrifyddiaeth.
Logarithmic arithmetic, } dirprwyn-
Logarithmetical arithmetic, } iaeth, prwy-
rifyddeg, prwyrifyddiaeth, rhifyddeg ddirprwyol.
Logarithmic curves, } cyrfau dirprwynol,
Logistic curves, } comau dirprwynol.

Log-board, *s.* pillfwrdd, astell y morbill.

Log-book, *s.* llyfr y morbill, llyfr y cyfrifbill, llonglyfr.

Loggats, † *s.* ceilys, chware ceilys.

Loggerhead, *s.* (*log* a *head*) hurthgen, penbwl, pendew, penllorcan, hurtyn, clwpa, clopa, cadafael, delff, brebwl, cuall, catffwl, llelo, penhyrddyn, llob; haiarn pendew; math o grwban.
To fall to loggerheads, } myned benben;
To go to loggerheads, } myned ben yn nghad; myned ben yn erfid; ymryson, ymdynu, ceintachu, ymgiprysu.

To be at loggerheads—bod ben yn nghad; bod ben yn erfid; bod benben.
To be at loggerheads with one—bod ben yn nghad âg un.
Loggerhead duck—hwyad bendew.

Loggerheaded, *a.* penbwl, penbylaidd, pendew, penfas, penblydd, delffaidd, cuall, hurt, dwl.

Logheap, *s.* pentwr o gyffion, cluder gippill-ion.

Loghouse, } *s.* cyffdy, cippilldy, ty cippillion, ty
Loghut, } o gyffion.

Logic, *s.* (Gr. *logicé*; Ll. *logica*; Ff. *logique*) rhesymeg, arbwylleg, arbwylleb, amresymeg; rhesymegyddiaeth, dadlyddiaeth.
To chop logic—dadleu, dadlu, ymddadleu, ymgomio, ymresymu, rhesymegu, argymhenu.

Logical, *a.* rhesymegol, rhesymegaidd, arbwyllegol, arbwyllegaidd, arbwyllig.

Logically, *ad.* yn rhesymegol, &c.; yn ol rheolau rhesymeg; yn ol rhesymeg; wrth resymeg.

Logician, *s.* rhesymegwr, rhesymegydd, arbwyllegwr, arbwyllebwr, arbwyllydd; rhesymwr rhesymydd, ymresymwr, ymresymydd; un hyfedr, hyddysg, cynnil, *neu* gelfydd mewn rhesymeg *neu* ddadlyddiaeth; rhesymwr da.

Logistic, } *a.* (Gr. *logicé*) chwedegrifol;
Logistical, } perthynol i chwedegrifiaeth.
Logistical arithmetic=*Logistics*.
Logistic logarithms—dirprwynion chwedegol *neu* drigeiniol.

Logistics, *s.* chwedegrifiaeth, chwedegrifyddiaeth, rhifyddeg chwedegol, rhifyddiaeth drigeiniol, rhifyddeg drigeiniol, swlliadaeth drigeiniol.

Logline, *s.* (*log* a *line*) cyfriflin, llinyn y cyfrifbill, llinyn y morbill.

Logman, *s.* (*log* a *man*) boncyffiwr, cippillwr, cariwr cippillion.

Logodædalist, *s.* (Gr. *logos* a *Daidalos*) geirddyfeisiwr, geirddyfeisydd, dyfeisiwr geiriau.

Logographic, } *a.* (*logos* a *graphô*) geirdebol,
Logographical, } geirdebus, geirargraffol, geirargraffyddol; perthynol i eirdebiaeth.

Logography, *s.* geirdebiaeth, geirargraffiaeth, geirargraffyddiaeth, cyffdebiaeth.

Logogriph, } + *s.* (Gr. *logos* a *griphos*) geiram-
Logogryph, } eg, dychymyg.

Logomachist, *s.* geirddadlydd, geirddadlwr, geirddadleuwr; ymrysonydd *neu* ddadleuwr yn ngylch geiriau.

Logomachy, *s.* (Gr. *logos* a *machê*) geirddadl, geirymryson; ymryson *neu* ddadleu yn ngylch geiriau; rhyfel geiriau.

Logometric, *a.* (Gr. *logos* a *metron*) punfesurol, punfydrol, dogn-fesurol.

Logreel, *s.* cyngrod y cyfriflin, cyngrod y morbill, cengliadyr y cyfriflin, ceingyll llinyn y cyfrifbill.

Logwood, *s.* lliwgoed, gwaedwydd, creuwydd.

Lohoch, } *s.* (Ar.) cyfiaeth, lleibgyffer, llygyff-
Loch, } er, cyffyr hylaib, meddyginiaeth hylaib.

Loimic, *a.* (Gr. *loimos*) plaol, cowynol; llynwysol, mallheintiol; perthynol i'r pla.

Loin, *s.* (S. *lend*; Al. ac Is. *lende*; C. *llwyn*; Gw. *luan*) llwyn, llyfen, archlen; aren: *pl.* llwynau, llyfenau, archlenau, arenau.

Loiter, *v. n.* (Is. *leuteren*) gohirio, oedi, aros, ymaros, llercian, llercio, llercyna; ystelcian, ystelcio, sefyllian, cyngydio, dyheirio, dyhiro, gohytian, gohoetial, ymdröi, gorhirio, gohiriannu, addoedi, godechial, dydechu, dydach, techu, techialu; bod yn hwyrfrydig; bod ar ei gyngyd.

Loiterer, *s.* llercyn, llercynwr, llerciwr, gohiriwr, oedwr, sefylliwr, ystelciwr, cyngydiwr, dydechwr, techwr, sefylliog, dyheiryn, (*f.* dyheiren), dyhiryn, (*f.* dyhiren), dïoberwr, dïogyn.

Lok, } *s.* yr ysbryd drwg (yn chwedlofydd-
Loke, } iaeth Dulychlyn.)

Lolium, *s.* (Ll.) efr, efrau, efre, llèr, yd meddw, efrwellt.

Loll, *v.* (C. *llolio*, *llolian*; Gr. *laleô*; Al. *lallen*) tordaen, ymdordaen, tordaenu, ymdrolio, ymddïogi; lledorwedd gân anhawnt *neu* ddïogi; ymddihoeni o ddïogi; bwrw ei ledbwys ar; dïog orwedd ar; bwrw ei hyd ar; llyferthu, lludded u; estyn y tafod allan; estyn allan, gwthio allan.
To loll out the tongue—llyferthu, lludd-edu; estyn *neu* grogi ei dafod allan; llolian ei dafod.
To loll on one's bed, } tordaen ar ei wely;
To loll in one's bed, } tordaen yn ei wely.

Lollard, *s.* (Al. *lallen*, *lollen*? C. *llolian*?) Llolard, Llolardiad: *pl.* Llolardiaid=llysenw à roid i ganlynwyr Wicliff yn Lloegr, ac i rai o gyffelyb ddaliadau yn yr Almaen.

Lollardy, *s.* Llolardiaeth, athrawiaeth y Llolardiaid.

Lombard, + *s.* (o *Lombardy*, yn Italia) ariandydd, echwynwr arian.

Loment, } *s.* (Ll. *lomentum*) hirgaen, tog-
Lomentum, } wisg.

Lomentaceous, *a.* (Ll. *lomentum*) hirgaenog, togwisgog.

Lomonite, } *s.* (oddi wrth *Laumont*, y dargan-
Laumonite, } fyddwr) enw delidfaen.

Lomp, *s.* math o bysg lledgrwn, llwmp.

Londoner, *s.* (o *London*) Llundeinydd, Llundeinwr; un o frodorion *neu* drigolion Llundain.

Londonism, *s.* Llundeiniaeth; dull ar ymadrodd priodol i Lundain.

Londonize, *v. a.* Llundeinio, Llundeineiddio; gwneuthur fel pobl Llundain.

London Pride, *s.* balchder Llundain=planigyn o dylwyth y Tormaen.

London Rocket, *s.* berwy Llundain, berwr Llundain=planigyn o dylwyth y Berwy.

Lone, *a.* (D. *lön*) unig, unigol, neilltuol; wrtho ei hun *neu* hunan; ar ei ben ei hun *neu* hunan; didrain, didryf; anweddog; ysgyfala.

Loneliness, } *s.* unigrwydd, unigolrwydd,
Lonesomeness, } unigoldeb, unigedd, unigder, neilltuolrwydd, neilltuedd; ymneilltuedd, neilltugarwch.

Lonely, } *a.* (o *lone*; Sw. *lönlig*, *lönnlig*) unig,
Lonesome, } unigol, neilltuol; wrtho ei hun *neu* hunan; ar ei ben ei hun *neu* hunan; didrain, didryf; disathr, didramwy; anhyfryd, annifyr; diamgeledd.

Loneness, *s.* unigrwydd, unigedd, unigolrwydd.

Long, *a.* (S. *long*, *lang*, *leng*; Ll. *longus*) hir; maith; nid byr; hwyedig; llaes, hirllaes; hair, dyhair; hirfaith; parhäus; helaeth, ehelaeth; hiraethus, awyddus, chwannog; hwyr, gohiriog.
Long and narrow—hirgul.
Long and round—hirgrwn, (*f.* hirgron), hirgrynol.

Long and short—hir a byr; trwm ac ysgafn.
Long and slender—hirfain,
Very long—hir iawn, tra hir, hirfaith, tra maith.
Long hair—gwallt llaes, gwallt hir, llaes wallt, llaeswallt, gwallt pabwyrog; hirflew, blew hirion, hwyn.
Having long hair—gwalltlaes, gwallt-hir, llaeswallt; hir *neu* laes ei wallt.
A long garment—gwisg laes, (*pl.* gwisgoedd llaesion), gwisg hir.
A long white garment—gwisg wenllaes, gwisg laeswen.
A long life—hir oes, hir hoedl, hiroes, hirhoedl, hir einioes, oes hir; hir ddyddiau, llawer o ddyddiau, dyddiau lawer.
A long note—hirnod, nod hir, nod hirllaes; hirsain, hirdon, sain hir, hir dôn, tôn hir; nod hirsain, nod hirdon.
A long tale—hir chwedl, hirchwedl, chwedl faith.
Long possession—hir feddiant, hirfeddiant, hen feddiant.
A long disease—hir glefyd, hirglefyd, hirglwyf, hir glefni, hirwst.
Long line—llinyn hir.
Long furrows—cwysau hirion, cwysi hirion, hir gwysau.
A long journey—taith faith; ffordd bell; taith bell.
Long hours—oriau hirion, oriau meithion.
Three long hours—tair awr faith; tair o oriau hirion; tair o oriau meithion.
Long day—hirddydd, hir ddydd, dydd hir, dïwrnod maith.
A long day, / A tedious day, } dydd maith.
A long night—hirnos.
A bench three yards long—mainc o dair llath o hyd; mainc deirllath o hyd; mainc dair llath o hyd; mainc deirllath ei hyd.
Children of a span long—plant o rychwant o hyd.
Somewhat long—gohir, go hir, lled hir, trân hir, crŷn hir, syrn hir.
As long—cyhyd, cyd, mòr hir, càn hired, cyn hired, hired.
To grow long, / To become long, } myned *neu* dyfu yn hir; ymestyn, hwyhau, hirio, hirhau.
To be long, / To be tedious, } bod yn hir; bod yn faith; bod yn hirfaith.
Long enough—hir ddigon, digon hir; digon o hyd.
Long continuance—hirbarhad, hir barhad, hirbara, hir bara.
Of long continuance—hirbarhäus, parhäus; o hir barhad; o hir bara; hir ei bara; à bery *neu* à barhaodd yn hir.
Long continuance of time assuages the greatest grief—amser *neu* hir amser a dawl y dygn ofid; derfydd hiraeth gàn hir amser; amser a dawl ofid.
Long season, / Long while, / Long time, } amser hir, amser maith, hir amser; llawer o amser; talm; dyddiau lawer; llawer o ddyddiau; talm o ddyddiau; cwrs o amser.
After a long time—wedi llawer o amser; gwedi talm o ddyddiau; wedi llawer o ddyddiau.
After so long a time—gwedi cymmaint o amser; ar ol cymmaint o amser.
Very long time since—er ys talm byd; er ys hirfyd o amser; ers amser hirfaith yn ol; ers amser maith yn ol; yr hawg byd.
Have I been so long time with you?—a ydwyf gyhyd o amser gyda chwi?
Long home—hir gartref.
That thy days may be long—fel yr estyner dy ddyddiau; fel y bo hir dy ddyddiau.
When they make a long blast—pan ganer yn hirllaes.
By reason of the very long journey—rhag meithed y daith; gàn feithed y daith; gàn feithder y daith.
To make long prayers—hir weddïo, hirweddïo.
He was desirous to see him of a long season—yr oedd efe yn chwennych er ys talm ei weled (*Luc.* xxiii. 8).
They had not done it of a long time—ni wnaethent er ys talm (2 *Cron.* xxx. 5).
Long, *ad.* yn hir, yn faith, &c.; hir; dros hir amser; yn llawer; llawer; yn mhell.
Long (in composition)—hir-, -hir.
As long, / So long, } cyhyd, cyd, mòr hir, cyn hired, càn hired, hired.
As long as—cyhyd a, cyhyd ag, cyd a, cyd ag, mòr hir a, càn hired a, cyn hired a, hired a; tra; un hyd ag, un hyd a, gogyd a, gogyd ag.
As long as I live—tra byddwyf byw; tra byddof byw; tra byddwyf fyw; tra bwyf byw; cyd y bwyf fyw; cyhyd ag y byddof byw; tra byddwyf, tra bwyf; dros fy nyddiau; tra bo bywyd, chwyth, *neu* anadl ynof; yn fy myw; yn fy mywyd.
Long after—yn mhell, yn hir, *neu* lawer ar ol; yn mhell, yn hir, *neu* lawer wedi.
Not long after—cyn nemawr; nid llawer wedi; nid yn hir wedi; nid llawer ar ol; nid yn hir ar ol; cyn pen nemawr; cyn pen llawer o amser.
Long before—yn mhell, yn hir, *neu* lawer cyn; yn mhell, yn hir, *neu* lawer o flaen.
He is long before—y mae efe yn mhell o'r blaen.
Not long before day—ychydig cyn dydd; nid llawer cyn dydd.
Long ago, / Long since, } er ys talm, ers talm; er ys talm o amser; er ys cryn dalm; yn mhell cyn hyn; er ys hirfyd o amser, er ys hirfod o amser.
Not long since, / Not long ago, } yn ddiweddar; yn hwyr; yn hwyr o amser; gynneu, cynneu; er ys dim llawer; ychydig yn ol.
So long ago—er cyhyd o amser; er cyd o amser; ers cyd o amser; er ys cyhyd, ers cyhyd, ers cyd; ers cymmaint o amser.
How long—pa hyd; er pa hyd; er pa bryd; hyd ba bryd; pa gyhyd, pa gyd; pa amser; yn mhen pa amser; pa faint.
How long soever—pa hyd bynag; er cyhyd fyddo; er cyhyd y bo.
How long ago?—er pa hyd? er pa bryd? beth sydd er hyny? er pa amser? er pa hyd o amser? beth o amser? beth sydd oddi ar hyny?

All the day long—trwy gydol y dydd; trwy y dydd; ar hyd y dydd; yn hyd y dydd; trwy gydol faith y dydd.
All my life long—trwy gydol fy mywyd; trwy gydol fy oes.
Long enough—yn hir ddigon, yn ddigon hir; yn ddigon o hyd.
To pray long—hir weddio.
To enjoy long—hir fwynhau.
To mark (a syllable) long—hirnodi.
I shall not be long doing it—ni byddaf haiach yn ei wneuthur; ni byddaf ennyd yn ei wneuthur; ni byddaf dro llaw yn ei wneuthur.
Why is his chariot so long in coming?—pa ham yr oeda ei gerbyd ddyfod (*Barn.* v. 28)?
Remember that death will not be long in coming—cofia nad oeda angeu (*Eccles.* xiv. 12).

Long, † *ad.* (S. *gelang*) trwy, o achos, o herwydd, trwy waith, o waith, o ethryb, trwy wall, o wall.
It is long of you that I am punished †—o'ch herwydd, o'ch achos, *neu* o'ch plegid chwi y'm cospir; eich gwaith chwi yw cael o honof fi fy nghospi; trwy eich gwaith chwi y'm cospir.

Long, † *s.* hirnod (mewn alawiaeth).

Long, † *v. n.* perthyn, perthynu, deiryd.

Long, *v. n.* hiraethu, awyddu, dymuno, blysio, chwennych, chwennychu, chwantu, neuo, dyfrydu.
To long after, } hiraethu am, blysio am;
To long for, } bod yn hiraethus am; bod yn awyddus i; awyddu i; awyddu am; chwennychu, chwennych, chwantu; chwennych yn ddirfawr; sychedu am.
I long—y mae hiraeth arnaf; yr wyf yn hiraethu; hiraethaf, &c.

Longanimity, *s.* (Ll. *longanimitas*) hirymaros, hiramynedd, hiroddef, amynedd, goddefgarwch, goddefedd, hirfrydigrwydd, hirfryd.

Long-armed, *a.* hirfraich, hirfreichiog, breichhir; â breichiau hirion iddo.

Longboat, *s.* hirfad, hirgwch, cwch mawr, y cwch mwyaf.

Longbow, *s.* bwa hir, hir fwa.

Longe, *s.* (Ff. *alonger*) gwth, engwth, hergawd, hergwd, burth, arfwth, cais, cynnyg.

Longe, *v. n.* hergydio, engwthio, arfwthio, rhoi gwth, gwneuthur cynnyg.

Long-eared, *a.* hirglust, clust-hir, hirglustiog, hirglyw; â chlustiau hirion iddo.

Longer, *a.* (y ganolradd o *long*) hwy, hirach, mwy hir; meithach; hwyach.

Longer, *ad.* yn hwy, yn hirach, yn feithach; mwyach, yn mhellach; eto.
Longer and longer—hwy hwy, yn hwy hwy.
Any longer—yn hwy, mwy, mwyach; yn mhellach; ond hyny.
No longer—nid...yn hwy; ni *neu* na...yn hwy, &c.; dim yn hwy.
Ye shall stay no longer—nid aroswch yn hwy.
Drink no longer water—nac yf ddwfr yn hwy.
Thou mayest be no longer steward—ni elli fod yn oruchwyliwr mwy.
That there should be time no longer—na byddai amser mwy.
No longer pipe, no longer dance—o deryw y gainc e dderyw y chware.

Longest, *a.* (yr eithafradd o *long*) hwyaf, hiraf, mwyaf hir, meithaf.

Longest, *ad.* yn hwyaf, yn hiraf, yn feithaf.

Longeval, } *a.* (Ll. *longævus*) hirhoedlog,
Longevous, } hiroesog, oesog, hoedlog, oesbraff, oesbell, hirfyw, hir ei oes, hir ei hoedl; oedranus, hen.

Longevity, *s.* (Ll. *longævitus*) hirhoedledd, hoedlogrwydd, hirhoedlogrwydd, oesogrwydd, hiroesogrwydd; hirhoedl, hiroes, hir einioes; henaint.

Long-footed, *a.* troedhir, hirdroediog, hirdroed, hirbediog.

Long-headed, *a.* penhir; â phen hir iddo *neu* ganddo; meddylfawr.

Longicorn, *a.* (Ll. *longus* a *cornu*) hirgorniog, hirgyrnig, cornhir.

Longicornes, } *s. pl.* hirgornogion, hirgyrn;
Longicorns, } chwilod cyrnhirion.

Longimanous, *a.* (Ll. *longus* a *manus*) llawhir, hirlawiog; â chanddo ddwylaw hirion.

Longimetry, *s.* (Ll. *longus*, a Gr. *metron*) hirfesuriaeth, hydfesuriaeth; celfyddyd mesur hyd *neu* bellder.

Longing, *s.* (o *long*) hiraeth, argyllaeth, argyllwch, afar, chwant, blys, awydd, neued, neuad, neuant, neuawd, puchiant, blysiad, dyfryd, addiant, addiad, puch, puchiad.
Extreme longing—gorhiraeth, trahiraeth, rhyhiraeth.
To save one's longing—tori chwant un.
To lose one's longing—colli ei chwant; methu gàn un gael à chwennycho.
Women's longing—blys *neu* chwant gwraggedd beichiogion.

Longing, *a.* hiraethus, hiraethlawn, hiraethol, hiraethog, neuol; blysgar; dyfrydog, dyfrydol; yn hiraethu, gàn hiraeth, dàn hiraethu.
Longing soul—enaid sychedig (*Salm* cvii. 9).

Longingly, *ad.* yn hiraethus; dàn hiraethu, dàn chwantu.

Longinquity, *s.* (Ll. *longinquitas*) traphellder, gorbellder, pellder mawr, mawr bellder.

Longipennes, *s. pl.* (Ll. *longus* a *penna*) hiradeinogion, hiradeiniaid, adar hiradeiniog.

Longirostres, } *s. pl.* (Ll. *longus* a *rostrum*) hir-
Longirosters, } ylfiniaid, hirylfinogion, adar pighirion, y pighirion.

Longish, *a.* (o *long*) gohir, go hir, trân hir, lled hir, syrn hir.

Longitude, *s.* (Ll. *longitudo*) hydred; hyd, hirder, hydedd, hirdra, hydbellder.
Longitude (in geography)—hydred=pellder lle tua'r dwyrain neu'r gorllewin, oddi wrth gylch hanner dydd.
Longitude (in astronomy)—hydred=pellder seren yn yr heulrawd oddi wrth arwydd yr Hwrdd.
Longitude east—hydred i'r dwyrain; hydred dwyreiniol.
Longitude west — hydred i'r gorllewin; hydred gorllewinol.
Heliocentric longitude — hydred heulgreiddig.
Geocentric longitude—hydred daiargreiddig.

Longitudinal, *a.* hydredol, hydol, hydfesurol; ar ei hyd, yn ei hyd, o'i hyd; hydfed.

Longitudinally, *ad.* ar ei hyd, yn ei hyd, o'i hyd, yn hydredol, ar hydfed.

Long-legged, *a.* hirgoes, coeshir, hirheglog, hirgoesog; â choesau hirion iddo; hir ei goesau; garanhir, garhir, garanog.
Long-legged spider—hirheglyn.
Long-lived, *a.* hirhoedlog, hiroesog, hoedlog, oesog, oesbraff, oesbell, hirfyw, hir ei oes, hir ei hoedl; hen.
Long-lost, *a.* hirgoll, hirgolledig.
Long-loved, *a.* hirgar, hirgaredig.
Longly,† *ad.* dàn hiraethu, yn hiraethus.
Long-measure, *s.* mesur hir, hirfesur, hydfesur.
Long-necked, *a.* gyddfhir; hir ei wddwg; â gwddf hir ganddo.
Longness, *s.* hirder, hirdra, hyd, hydedd.
Long-plane, *s.* hirganwyr, canwyr hir, plân hir.
Long-primer, *s.* prifen hir, hir brifen, llythyren hir y cynllyfr=math o argraff-lythyren.
Long-run, *s.* y diwedd, y pen draw; hîr redeg.
In the long-run—yn y diwedd, o'r diwedd; yn y pen draw; wrth hir redeg *neu* ddyllyn; o hir redeg *neu* ddylyn.
Long-shanked, *a.* garhir, garanhir, hirgoes, coeshir, hirheglog, garanog.
Long-sight, *s.* hirdrem, hirwel, pellwel, pellweled, pellweledd, hir olwg, pell olwg.
Long-sighted, *a.* hirwel, hirwelog, hirdrem, hirdremiog, pellwel, pellwelog, pelldremiog; pell ei olwg; yn gallu gweled *neu* ganfod yn mhell.
Long-sightedness, *s.* hirweled, hirwelogrwydd, pellweled, pellwelogrwydd, hirdrem, pelldrem, pell-ganfodiaeth, pellweledd; y gallu i weled pethau yn mhell yn well nag yn agos.
Longsome, *a.* hirfaith, maith, rhyhir; blin gàn ei feithed.
Longsomeness, *s.* hirfeithder, meithder, meithdra, dygn feithder.
Longsufferance, } *s.* hirymaros, hiramynedd,
Longsuffering, } ymaros, amynedd, hiroddef, hiroddefedd, goddefedd, goddefgarwch, hiroddefiaeth, goddefiaeth, hwyrddigrwydd; tynerwch, hynawsedd, gwaredd.
Longsuffering, *a.* hirymaröus, ymaröus, amyneddus, amyneddgar, hiroddefus, hiramyneddus, goddefgar; da ei amynedd; hir ei ymaros; hwyrfrydig i ddig, hwyrfrydig i lid, hwyrfrydig i ddigofaint; hwyrddig.
Long-tail, *s.* cynffon hir, cwt hir, hirgwt, ci cynffonhir=enw à roid gynt i gi gwr boneddig, am fod ei gynffon heb ei thori.
Cut and long tail—y gwych a'r gwael; pawb o bob gradd.
Long-tarrying, *a.* hirdrig, hirdrigol, hirdrigiannol.
Long-timbers, *s. pl.* hirgoed llong.
Long-tongued, *a.* tafodhir, tafodiog, hirdafodiog, hirdafod, hir ei dafod; tafodrydd, dywedgar, siaradgar.
Longways, † *ad.*=*Longwise.*
Long-winded, *a.* hiranadlog; hir ei anadl; âg anadl hir iddo; hirwyntiog; maith, hirfaith, hir, hirchwedlog, hir anorphen, hir diddarfod, annybenus; hwyrdrwm; hir ei araeth; hir ei chwedl.
Longwise, *ad.* ar ei hyd, yn ei hyd, o'i hyd, ar hydfed, gyda'r hyd.
Lonicera, *s.* (oddi wrth Adam *Lonicer*, llysofydd o'r Almaen) gwyddfid, gwynwydd, melog, gwyddwydd.
Lonish, †*a.* (o *lone*) unigaidd, lled unig, tràn unig.
Loo, *s.* chware ar gardiau.
Loo-table—bwrdd crwn, bord gron.
Loo, *v. a.* trechu y gwrthwynebwyr wrth y cyfryw chware ar gardiau.
Loobily, *ad.* (o *looby*) fel llabwst, yn llabïaidd, yn llebanaidd, yn llabystaidd, yn ddelffaidd, yn ddrelaidd; yn drwstan.
Looby, *s.* (C. *llabi*, *llob*) lleban, llabwst, llabi, hurthgen, hurtyn, delff, drel, drelyn, cabrotyn, hudlath, penbwl, penllorcan, brebwl, llelo, delbren, llob, llobyn.
Loof, *s.* (Ff. *lof*; Is. *loeven*) uchedd llong parth ol fflureg.
To keep the loof — cadw y llong at gwynt.
Keep your loof—cedwch y gwynt; cedwch (y llong) at y gwynt.
Loof, *v. n.*=*Luff.*
Loofed,† *a.* (o *all* ac *off*) pell, yn mhell.
Look, *v.* (S. *locian*) edrych, syllu, syllio, tremio, tremu, bwrw golwg, taflu golwg, selu, dysgwyl; chwilio, ceisio; edrychu ar, syllu ar, tremio ar; ymddangos; gweled; gwynebu.
To look about, } amdremio; amdremu,
To look around, } edrych o amgylch; bwrw golwg o amgylch; ysbeithio.
To look about one—edrych yn ei gylch.
To look idly about—llygadwibio.
To look after—edrych am; edrych ar ol; gofalu am, gofalu dros; cymmeryd gofal am, dros, *neu* o; cadw, gwarched, gwarchod, gwarchodi, amgeleddu, areilio, golygu, gwylio, cyfarchwylio, goruchwylio, eryl; dysgwyl.
To look back—edrych yn ol; gwrthdremio, gwrthdremu, gwrthedrych; edrych drach ei gefn.
To look big—edrych yn sur *neu* flwng; edrych yn fras *neu* fawr.
To look as big as bullbeef—bod yn barod i ymdori gàn falchder; bod ar ymdori gàn falchder; edrych yn drahäus.
He looks as big as bullbeef—y mae efe yn barod i ymdori gàn falchder; y mae efe ar ymdori gàn falchder.
To look down upon—edrych i lawr ar.
To look down with contempt upon—edrych yn ddïystyrllyd, yn ddirmygus, *neu* yn drahausfalch ar.
To look earnestly, } edrych yn graff; syllu
To look intently, } yn graff; edrych yn ddifrifol; craff edrych, arsyllu, gorselu, syllu.
To look one in the face—gwynebu un, wynebu un; edrych yn wyneb un; sefyll yn wyneb un; syllu *neu* graffu ar un; edrych ar un yn ei wyneb; syllu yn wyneb un.
To look for—edrych am; dysgwyl; chwilio am, ymofyn am, dysgwyl am; ceisio.
To look forward—rhagsyllu, rhagedrych, rhagdremio, edrych yn mlaen.
To look ill—edrych yn ddrwg, yn wael, *neu* yn anhwylus; ymddangos yn ddrwg, yn wael, *neu* yn anhwylus.
To look in—edrych i mewn; synio yn.
To look into—edrych i mewn i; syllu i; chwilio.
To look like, } edrych, ymddangos, *neu*
To look to be, } ddysgwyl fel; edrych, ymddangos, *neu* ddysgwyl yn debyg; eilfyddu, tebygu.
To look on, } edrych ar; tremio ar;
To look upon, } craffu ar; dysgwyl ar;

ardremu; gweled; ystyried, cyfrif, cymmeryd; golygu.
To look on as—cymmeryd un fel; cymmeryd un yn lle; edrych ar un fel *neu* megys; ystyried un fel; barnu bod un yn; cyfrif un yn.
To look staringly upon—llygadrythu ar, llygadu ar; taenu llygaid ar; amchwelyd ei lygaid ar.
Very fair to look upon—teg odiaeth yr olwg; teg *neu* lân iawn i edrych arni, &c.
A fair woman to look upon—gwraig lân yr olwg; gwraig deg i edrych arni.
To look out—edrych allan; dysgwyl allan; edrych; syllu; ceisio, ymofyn am, chwilio am, edrych am; chwilio, pigo, *neu* ddewis allan; gwylio; eryl; bod ar yr wylfa; bod ar y ddysgwylfa.
To look out at a window—edrych drwy ffenestr.
They are bound to look out sharp—y maent yn rhwym i wylio yn graff *neu* yn ofalus; y maent yn rhwym i edrych *neu* edrych allan yn wyliadwrus; rhaid iddynt wylio yn graff.
To look sadly—edrych yn drist *neu* athrist; bod yn drist yr olwg; bod yn drist yr olwg arno.
To look to, } edrych at, edrych ar;
To look unto, } dysgwyl at; gwynebu at, golygu at; cyfeirio ei olwg at; troi ei wyneb at.
To look towards—edrych tuag at; edrych tua; wynebu at, golygu at, cyfeirio at; edrych parth â.
To look well to—edrych yn ofalus ar *neu* at; gwylio yn ofalus dros.
To look up—edrych i fyny; mynu.
To look up a thing—edrych am beth a'i gael; chwilio am beth a'i gael; mynu gafael mewn peth; mynu peth i glawr; mynu peth.
To look well—edrych yn dda; edrych yn iach; edrych yn hoenus; ymddangos yn iach; bod yn dda yr olwg arno.
To look wildly—hylldremio, hylldremu, gwyllttremu; edrych yn wyllt.
Look there—llyna, dyna, nycha, enycha, edrych yna, gwel yna, ycha.
To look how one fares—gweled *neu* edrych pa fodd y mae un; mynu gweled pa fodd y mae un; edrych pa sut y mae un; edrych pa fodd y mae un yn ymdaro.
See how I look—gwel fy ngwedd; gwel fy nrych; gwel pa olwg sydd arnaf.
They looked one another in the face—gwelsant wynebau eu gilydd (2 *Bren.* xiv. 11).
They looked when he should have swollen—yr oeddynt hwy yn dysgwyl iddo ef chwyddo (*Act.* xxviii. 6).
There looked out to him two or three eunuchs—dau neu dri o'r ystafellyddion a edrychasant arno (2 *Bren.* ix. 32).
Wherefore look ye so sadly to-day?—pa ham y mae eich wynebau yn ddrwg heddyw (*Gen.* xl. 7)?
Look how thy brethren fare—ymwêl â'th frodyr a ydynt hwy yn iach (1 *Sam.* xvii. 18).

Look, is. (y modd gorchymynol o'r ferf) gwel! edrych! edrycha! wele! wela! nycha! enycha! sylla! ycha! *pl.* gwelwch! edrychwch!

Look, *s.* golwg, golygiad, edrychiad, trem, tremyn, edrych, gwedd, gwynebpryd, wyneb, ffriw, agwedd, semlant, pryd, ymddangosiad, tremiad, drych, gweledigaeth, gweled; yr olwg ar un *neu* beth; gwyliadwriaeth, gwylfa.
A proud look—golwg falch, ucheldrem, golwg uchel, golwg uchelfalch; llygaid beilchion.
A stern look, } golwg deryll, golwg
A piercing look, } dren, golwg dryn, golwg lem, golwg egr, golwg dreiddiol; gwg.
A keen look—golwg graff, &c.; arsylw.
Lingering look—llusgdrem.
Mutual look—cyttrem.
To cast a look—bwrw golwg, taflu golwg, bwrw trem; edrych, tremio, tremiannu.
Lofty looks—ucheldrem, edrychiad uchelfalch.
Having an earnest look—tremgraff; craff ei olwg; arsyllog, arselog.

Looked, *p.p.* edrychedig, &c.
Looked at—yr edrychwyd arno; à edrychwyd arno.
Looked for—dysgwyledig, dysgwyliedig, à ddysgwyliwyd.
To be looked for—dysgwyladwy, dysgwyliadwy, i'w ddysgwyl.
Not looked for, } annysgwyledig, annys-
Unlooked for, } gwyl, diddysgwyl; heb ei ddysgwyl; heb ddysgwyl *neu* edrych am dano; disymmwth, disyfyd, dirybudd.
Looked to—yr edrychwyd ato; y dysgwyliwyd ato; y gofalwyd *neu* y gofelir drosto; y gofalwyd *neu* y gofelir am dano.
His manners ar to be looked to—dylid gwylio ar ei foesau; e ddylid edrych at ei foesau; dylid edrych ar ei foesau.
Ill looked too, } esgeulusedig, à esgeul-
Ill looked after, } uswyd; wedi ei esgeuluso; na ddyfal edrychwyd ato.
Well looked to, } yr edrychwyd yn ofal-
Well looked after, } us ato; à iawn ofalwyd drosto; wedi iawn ofalu drosto.
Sour-looked—sur ei olwg; â golwg sur arno; cuchiog, cuwchdrwm, blwng.

Looker, *s.* edrychwr, edrychydd, syllwr, syllydd, tremiwr, tremydd, selwr, golygwr.
Looker on—edrychwr, edrychydd, syllwr, syllydd, tremiwr, tremydd, gweladur, dysgwyliwr, dysgwylydd; un à edrycho yn unig ar bethau; edrychwr a dim ond edrychwr.

Looking, *s.* edrychiad, dysgwyliad, golygiad, tremiad, dysgwyl.
Well looking, } yn edrych, yn ymddangos,
Good looking, } *neu* yn dysgwyl yn dda; da ei olwg; da yr olwg arno; da ei bryd; da ei wedd; da ei bryd a'i wedd; golygus, prydweddol.
Dismal-looking—hyll yr olwg arno; yn edrych yn hyll; hyllwedd.
A certain fearful looking for of judgment—rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedigaeth (*Heb.* x. 27).

Looking glass, *s.* drych.

Look-out, *s.* gwyliadwriaeth, gwylfa, dysgwylfa, dysgwyl, dysgwyliad gofalus, edrychiad gofalus, edrychiad allan, eryl, golwg.
They are bound to keep a sharp look-out—y maent yn rhwym i wylio yn graff *neu*

yn ofalus; y maent yn rhwym i edrych *neu* edrych allan yn wyliadwrus; rhaid iddynt wylio yn graff.

Lool, *s.* llestr i dderbyn golchion mwn; llestr golchion mwn.

Loom, *s.* (S. *loma*) gwŷdd; peithyn;† dodrefn.

Power-loom — gwŷdd ager, gallwydd; gwŷdd à weithier gàn ager.

Hand-loom—gwŷdd llaw; gwŷdd à weithier â llaw.

Heir-loom—dodrefn ty à ddisgyn i'r etifeddion o lin i lin; dodrefn à ddisgyn trwy hen ddefod i'r etifeddion lin o lin; pethau à ddisgynant i'r etifedd gyda'r ty a'r dreftadaeth; tattrefolion; treftadaeth.

Loom of an oar—croes rhwyf; cymmaint o'r rhwyf ag a fo tu fewn i'r ymyl *neu* estyll.

Loom, *s.* (D.; Al. *lohme*) aderyn tua chymmaint a gŵydd.

Loom, *v. n.* (S. *leomian?*) ymddangos, edrych, ymrithio, ymddrychu, dysgwyl; ymddangos yn aneglur *neu* anamlwg; bod â'r olwg arno *neu* arni; ymddangos uwch law gwyneb y môr *neu* y tir; ymddangos o beth yn fwy nag y byddo; codi, ymddyrchafu.

She looms a great sail—mae yn ymddangos, yn edrych, *neu* yn dysgwyl yn llong fawr; mae hi yn llong fawr yr olwg arni.

Looming in the future—yn ymrithio *neu* yn ymddrychu yn y dyfodiant.

Loom-gale, *s.* awel gref nerthol; chwa angerddol; awel frysg.

Looming, *s.* ymddangosiad, edrychiad, golwg; ymddangosiad anamlwg a mwyedig pethau; yr olwg ar beth; hudwy, hudwel, twyll-olwg.

The looming of a ship—yr olwg ar long.

Loon, *s.* (S. *lun?* Gw. *luin?*) bawddyn, bawai, adyn; dynyn; lleban, delff, gwirionyn, brebwl, sybidyn; dyhiryn: *pl.* bawach, dynionach.

Loon, *s.* (Isl. *lunde*) math o for-aderyn.

Loop, *s.* (Gw. *lub, luba, lubam?*) dolen, arwestr, olp, terch, tytmwy, meilyn, pwylldid, llygad; modrwy; olpai, ffenestrig gul; talp o haiarn bwrw.

Looped, *a.* dolenog, arwestrog, terchog, dolfachog, llawn olpau.

Loop-hole, *s.* olp, olpen, twll olp, twll olpai, dolendwll, meindwll, cloerdwll; ffenestrig, coeg ffenestr, ffenestr saethu; dïangdwll; twll i edrych, i fyned, *neu* i ffoi allan; twll i ddïanc trwyddo; bwlch; esgus.

Loop-holed, *a.* olpenog; llawn tyllau *neu* agorion i ddïanc; dïangdyllog.

Looping, *s.* (Is. *loopen*) cyttalpiad mwn tawdd.

Loord, † *s.* (Ff. *lourd;* Ysp. *lerdo;* Is. *loer*) hurthgen, cuall, hurtyn, penbwl; seguryn.

Loose, *v.* (S. *lysan, leosan;* Al. *lösen*) dattod, dattodi, rhyddhau, gollwng yn rhydd, llaesu, llacäu, llacio, yslacio, tynu yn rhydd, gorddillwng, gollwng yn llac, gollwng yn llaes, dadrwymo, dadwregysu; dadennylu, dadfachu; dadieuo; hwylio, oddi hwyliau, ymadaw; engu; maddeu.

To loose one's self—ymddattod, ymryddhau.

Or ever the silver cord be loosed—cyn tori y llinyn arian (*Preg.* xii. 6).

Loose, *a.* (Al. *los;* Goth. *laus*) rhydd, llaes, llac, yslac, annhyn, dirwym, digyssylltiad, dattodol, dattodedig; chwâl, chwaldar; rhwth, (*f.* rhoth); penrydd, afreolus, afreolaidd, afradlawn; anniwair, anllad, anwaer, gwantan, llygredig; gwibiol, gwasgarog, gwasgar, anghryno, annyben.

To grow loose—ymlaesu, ymlacäu, ymryddhau; myned yn llac, myned yn llaes, myned yn rhydd; ymlygru; myned yn benrydd.

To let loose—gollwng yn rhydd, rhyddhau, llacäu, llaesu, &c.

To get loose—myned yn rhydd, tori yn rhydd, dyfod yn rhydd, ymryddhau, ymddirwydo, ymddirwyllo, ymrwyllo, ymddirwystro; tynu ei ben yn rhydd; cael ei ben yn rhydd.

To break loose—tori *neu* fyned yn rhydd; tori allan; tynu peu yn rhydd; ymryddhau; dïanc; dïanc *neu* ymryddhau o fagl; ymddirwydo, ymddirwyllo, ymddirwystro.

To hang loose—bod yn llaes; eistedd yn llaes; disgyn yn llaes; crogi yn llaes.

Loose soil—pridd chwâl, tir chwâl, pridd chwaldar, daiar chwâl.

Loose crumbling soil—tir mwrl.

Loose style—ieithwedd anghryno, wasgar, wasgarog, *neu* wasgaredig; gwasgariaith; ieithwedd laes, ieithwedd llac.

Loose, *s.* rhyddid, rhydd-did, cwbl ryddid, llawn ryddid.

To give a loose to—ymroddi i, ymollwng i.

To give a loose to sorrow—ymroddi i ofid; porthi gofid.

Loosely, *ad.* yn rhydd, &c.

Loosen, *v.* (*o loose*) dattod, dattodi, rhyddhau, gollwng yn rhydd, tynu yn rhydd, llaesu, llacäu, llacio, yslacio, gollwng, gorddillwng, gollwng yn llac, gollwng yn llaes, dadrwymo, dirwymo; chwalu; myned yn rhydd, yn llaes, *neu* yn llac; ymryddhau, ymddattod, ymlaesu, ymlacäu.

Looseness, *s.* rhyddni, rhydd der, llacrwydd, llaesder, llaesedd, anghaethder, chwalder, chwalrwydd; penrhyddid, penrhydd-did, afreoledd, afradlonrwydd; dirywiaeth, llygredigaeth; anniwcirdeb, anwaeredd, anlladrwydd; pibre, pipre, darymred, y bib, dolur rhydd, rhyddglwyf, rhyddineb y bol, bolryddineb.

To be troubled with a looseness—bod â rhyddni, pibre, *neu* ddarymred arno; cael ei flino gàn rydd-der *neu* ddarymred; bod â'r bib, â'r bipre, â'r bibre, *neu* â'r darymred arno; pibo.

Loosestrife, *s.* (*loose* a *strife*) trewynyn.

Creeping loosestrife—canclwyf, dwygeinioglys.

Yellow loosestrife—trewynyn cyffredin.

Tufted loosestrife—trewynyn sypflodeuog.

Wood loosestrife—trewynyn y goedwig, gwlydd melyn Mair.

Hyssop-leaved loosestrife—urddon.

Purple loosestrife—llysiau y milwr, gwyarllys.

Looty, *s.* ysbeiliwr (yn yr India Ddwyreiniol).

Lop, *v. a.* (anhysbys: C. *llabio?*) ysgythru, tocio, brigladd, digeincio, dadosgli; tori ymaith; gollwng i syrthio; gollwng i lawr; llipäu.

Lop, *s.* ysgwthr, toc; tociad; torgainc; brigyn *neu* ysgewyn wedi ei dori; yr hyn a

ysgythrir: *pl.* ysgythrion, tocion, briwfrig, brigladdion.

Lop,† *s.* (S. *loppe*) chwanen.

Lophius, *s.* (Gr. *lophos*) morddiawl, llyffanbysg, pysglyffant, cythraul y môr.

Lopper, *s.* (o *lop*) ysgythrwr, ysgythrydd, tociwr, tociedydd, digeinciwr.

Lopping, *s.* ysgythriad, tociad, digeiniad; ysgwthr, toc; brigyn *neu* ysgewyn toredig: *pl.* ysgythrion, tocion, briwfrig, briwfrigau, torgeinciau, brigladdion, manwydd, osglau.

Loquacious, *a.* (Ll. *loquax*) siaradus, dywedgar, siaradgar, geiriolus, gwagsiaradus, baldorddus, baldorfus, dadyrddus, dadyrddol, clebarddus, chwaldodus, tafodrydd, chwedlog, chwedleugar, chwedlgar, ymeirgar, amleiriog, soniarus, soniawr, llafar, llafarus, annystaw; ffladr; rhuadus, rhuadwy.

Loquaciousness, } *s.* (Ll. *loquacitas*) dywedgar-
Loquacity, } wch, siaradgarwch, siaradusrwydd, geiriolusrwydd, &c.; llafarder, llafarwch, annystawrwydd; siaradach, gormod siarad, baldordd.

Lorate, *a.* (Ll. *lorum*) careiaidd, ar lun carai; hirfain.

Lord, *s.* (S. *klaford*) arglwydd, arlwydd, ner, naf, ion, ior, por, meistr, rhi, rhiawdr, muner, modur, gwanar, udd, hên, gwaladr, peryf, perydd, peron, addon, adon, adwn, rhwyf; perchen, perchenog; baron, brëyr, pendefig; gwledig; brenin, teyrn, unben; eiddigor.

Lord God—Arglwydd Dduw, Arglwydd Ior.

The Lord Jehovah—Arglwydd Ion, Arglwydd Ior, Duw Ion, Duw Ior, Arglwydd Iehofah.

The Lord of heaven—Arglwydd nef, muner nef.

My lord—fy arglwydd, fy arlwydd.

Lord of the manor—arglwydd y faenor, arlwydd y faenor, arglwydd maenor, arglwydd faenorydd, arlwydd faenorydd, yr arglwydd tir, arglwydd y cyfoeth, perchen y faenor; arlwydd.

Lords temporal and spiritual—arglwyddi tymmorol ac ysbrydol.

House of lords—ty yr arglwyddi; y ty uchaf.

Lords in waiting—arglwyddi preswyl; arglwyddi at alwad.

Lord paramount—penarglwydd, arglwydd benrhaith, arglwydd benrhaeth, arglwydd penbaladr; arglwydd goruwch arglwyddi ereill; goruchlyw, goruchdeyrn, unben.

Lord bishop—arglwydd esgob.

Lord lieutenant—arglwydd raglaw.

Lord mayor of London—uchelfaer Llundain; arglwydd faer Llundain.

Lords marchers—arglwyddi y bargodion, arglwyddi y cyffindiroedd, arglwyddi cyffindirol, arglwyddi y terfynau, arglwyddi y cyffiniau, pennethiaid gorwlad, arglwyddi y mers, ardalyddion.

Lord's day—dydd yr Arglwydd; y Sabbath; y Sul.

Lord's supper—swper yr Arglwydd, cwynos yr Arglwydd; y cymun.

Lord's prayer—gweddi yr Arglwydd, yr arglwyddol weddi; y pader.

The great Lord of the world—Penadur mawr y byd (2 *Mac.* xii. 15).

Lord, *v.* arglwyddiaethu, arlwyddiaethu, arglwyddo, arglwyddio, rhwysgo, dwyn rhwysg; breintio yn arglwydd.

To lord it over—arglwyddiaethu ar.

Lordlike, *a.* arglwyddaidd, arlwyddaidd; uchelfalch; uchel, balch, trahäus, trawsfalch, sythfalch, uchelfrydig.

Lordliness, *s.* arglwyddeiddrwydd; mawreddusrwydd, mawreddigrwydd, mawrwychedd, mawrwychder, gwychedd, urddas, bonedd, derchafedd; mawrfrydigrwydd; uchelfrydedd, uchder meddwl, uchelfalchedd, gorfalchedd, trahausder, balchder, rhwysg, rhyfyg.

Lordling, } *s.* (o *lord*) arglwyddyn, arlwyddyn,
Lording, } eilun o arglwydd: *pl.* arglwyddach.

Lordly, *a.* arglwyddaidd; arglwyddol; arglwyddiaethus, arglwyddiaethol; mawrwych, ardderchog; uchelfalch, sythfalch, ffroenuchel, balch, trahäus, trawsfalch, uchel, uchelfrydig, effrom.

Lordly, *ad.* yn arglwyddaidd, &c.

Lordship, *s.* arglwyddiaeth, arlwyddiaeth; maenor; baroniaeth.

Your lordship—eich arglwyddiaeth.

Lore, *s.* (S. *lar*; Is. *leer*; Al. *lehre*) llên, llenoriaeth, llenyddiaeth; dysgeidiaeth, dysg; athrawiaeth, addysg; gwers, llith.

Lore, *s.* (Ll. *lorum*) piglain=y llain neu ofod rhwng y big a'r llygad, mewn adar.

Lorel,† *s.* (S. *leoran*) crwydryn, gwibiwr, dyhiryn; adyn wedi ei adael.

Loresman,† *s.* (*lore* a *man*) addysgwr, addysgydd.

Lorica, *s.* (Ll.) llurig, cadbais, cynddyl, curas.

Loricate, *v. a.* (Ll. *lorico*) llurigo, dalenwisgo, dalenu, taenu dros, dalenu dros, llafnu dros, gorthöi, crawenu, crestynu.

Lorication, *s.* llurigad, daleniad, dalenwisgiad, crestyniad, craweniad.

Lorimer, } † *s.* (Ff. *lormier*; Ll. *lorum*)
Loriner, } gwneuthurwr genfäu, ysbardunau, a'r cyffelyb; genfäwr; cyfrwywr.

Loring,† *s.* traethawd *neu* ymadrodd addysg-
Loriot, *s.* (Ff.) cegid, y gegid. [iadol.

Lorn, *a.* (S. a D. *forloren*) colledig, gadawedig; amddifad, unig, dïamgeledd; truan.

Love-lorn—cariadgoll; à adwyd gàn ei gariad; à gollodd ei gariad.

Lory, *s.* math o barot.

Lorymer, *s.*=*Larmier.*

Losable, *a.* colladwy; à ellir ei golli.

Losange, *s.*=*Lozenge.*

Lose, *v.* (S. *losian*) colli; cael colled; bod ar golled; bod mewn colled; methu.

To lose one's self—colli ei hun; colli ei hunan; colli arno ei hun (mewn lle dïarffordd); ymddyrysu (mewn anialwch); ymdröi mewn dyryswch; dyfetha ei hun; ymgolli; hepian.

To lose one's labour—myned llafur un yn ofer; myned o lafur un yn ofer; llafurio yn ofer.

To lose ground—colli tir; cilio yn ol; rhoi lle; rhoi ffordd; myned yn ei wrthgefn; myned yn wysg ei gefn; ymadaw â'i orsaf; cilio.

To lose utterly—cyfrgolli, llwyrgolli.

To lose its saltness—colli ei halltedd; bod *neu* fyned yn ddihallt.

To lose its savour—colli ei flas; bod *neu* fyned yn ddiflas; diflasu.

To lose the use of one's limbs—colli grym *neu* ffrwyth ei aelodau; myned yn efrydd.

All covet, all lose—yn ceisio'r cyrn, colli'r clustiau.
That we lose not all the beasts—fel na adawom i'r holl anifeiliaid golli.

Lose,† *s.* (o *loose*) afradlonwr, un afradlawn, dyn gwastraffus, oferwr; dyhiryn.

Losel,† *a.* gwastraffus, afradus, afradlawn; diog.

Losenger,† *s.* (S. *leas, leasunge*) twyllwr.

Loser, *s.* collwr, colledwr; y neb a gollo.

Losing, *a.* colledus, colledol, colledain; à bair golled.
A losing bargain—coll-fargen, gwall-fargen.

Loss, *s.* colled, coll, colliant, colledigaeth, colledaint; afles, niwed, sarhad, dadfudd, adles; dyfeth, difrod; meth, ffael.
Extreme loss—rhygoll, rhygolled, difancoll.
At a loss—ar goll; heb wybod; mewn cyfyng-gynghor.
To be at a loss what to do—bod heb wybod beth i'w wneuthur.
I am at a loss to know—nis gwn beth i'w wneuthur; nis gwn; yr wyf mewn cyfyng-gynghor beth i'w wneyd.
Profit and loss—ennill a cholled; mael a choll; mael a cholled; ennill a cholli.
To cause *or* occasion loss to—colledu; gwneyd colled i; peri colled i.
Total loss—cyfrgoll, llwyrgoll, llwyr golled.
Causing loss—colledol, colledus; à bair golled; niweidiol.
To bear the loss of a thing—dwyn y golled; sefyll yn y golled; digolledu; gwneuthur colled yn dda; gwneuthur yn dda ryw golled; gwneyd i fyny golled; goddef colled; ymddwyn yn amyneddgar dan golled; bod yn amyneddus dan golled o beth.
For whom I have suffered the loss of all things—er mwyn yr hwn y'm colledwyd yn mhob peth.
To go by the loss—bod ar golled; bod mewn colled.
Without the loss of one man—heb golli gwr; heb golli cymmaint a gwr.
Loss by neglect—gwallgoll.
Loss (of parents, &c.)—amddifedi, amddifadrwydd, ymddifedi.

Lostful,† *a.* colledus, niweidiol.

Lostless,† *a.* digolled.

Lost, *p. p.* (o *lose*) colledig, coll, à gollwyd, wedi ei golli, ar goll, ar gyfrgoll, colledus; ofer, difudd, dieffaith; dyrysedig; dideimlad.
Paradise Lost—Coll Gwynfa.
Lost hope—gobaith palledig, coll-obaith, gobaith coll.
Having lost—amddifad o; gwedi colli.
Utterly lost—cyfrgolledig, llwyr golledig, ar gyfrgoll.
Like lost sheep—fel defaid ar gyfrgoll; fel defaid cyfrgolledig.
Better lost than found—da y golled; colled dda o hono.
That is not lost that comes at last—gwell gwr a ddaeth yn mhen y flwyddyn na'r gwr ni ddaeth byth.
A person lost to all sense of goodness, honesty, *or* shame—crogyn o ddyn; dyhiryn, dyhirwr, dyhirwas; un hollol ddideimlad o ran daioni, gonestrwydd, *neu* gywilydd; un hollol amddifad o ddaioni, &c.
She is lost to all sense of shame—hellgre ddigywilydd ydyw; maeden haerllug ydyw; dyhiren *neu* ddyhirog ydyw; nid oes ganddi mo'r syniad lleiaf ar gywilydd.
Argument is lost on their prejudices—y mae ymresymiad yn ddieffaith ar eu rhagfarnau; llwyr ofer yw ymresymu yn erbyn eu rhagfarnau.
A lost thing, } collbeth, peth colledig, peth
A thing lost, } ar goll.
The children thou shalt have, after thou hast lost the other—plant dy ddiepiledd (*Esa.* xlix. 20.)

Lot, *s.* (Is. a Ff.; S. *hlot*) coelbren, cwtws; damwaen, tynged, tyngedfen, dygwyddiad, syrth, chwaen, damchwaen; rhan, cyfran, dogn; rhandir; swmp, (*pl.* sympau, swp, (*pl.* sypiau); cytysyn.
To draw lots—tynu coelbreni, tynu cytysau; bwrw coelbren.
To cast lots—bwrw coelbren, bwrw coelbreni.
His lot was—daeth o ran iddo.
It may come to our lot—dichon ddygwydd i ni; dichon ddyfod i'm rhan i; dichon ddyfod i'n dysgl ni.
It is not my lot to be conversant in those matters—ni ranodd Duw i mi ymarfer â'r materion hyny; ni ddaeth ymarfer â'r pethau hyny i'm rhan i.
To pay scot and lot—talu yr hyn a ddel i'w ran; talu yr hyn a syrthio *neu* a fwrir arno; gildio.

Lot, *v. a.* dogni, rhanu, cyfranu, dosbarthu, penodi, cymmathu, cofrestru, cofresu; trosi, trosiadu.

Lote, } *s.* (Gr. *lôtos;* Ll. *lotus*) pysen y ceirw;
Lotus, } y pren lotos, y pren lotus: pysgodyn bychan.

Loth, *a.*=*Loath.*

Lothe, *v. a.*=*Loathe.*

Lotion, *s.* (Ll. *lotio*) golchiad; golch, agolch; trwyth; meddygolch.

Lottery, *s.* (Ff. *loterie*) damweiniaeth; coelbrenaeth; coelbrenfa, cytysfa; chwareu coelbreni, chwareu cytysau, chwareu damwaen; damwaen, chwaen, cwtysi; † dogn.
Lottery-ticket — coelbren damweiniaeth, tocyn damwaen, cytysyn.
Lottery-wheel — coelbren-droell, troell ddamwaen, damwein-droell.
To draw a lottery—tynu coelbreni, tynu cytysau; dadlwytho coelbren-droell.
The lottery is drawing—mae y goelbren-droell ar gerdded.
State-lottery—coelbrenfa gwlad.
It is all a lottery—nid yw y cwbl ond damwaen a dygwydd; mae yn sefyll *neu* yn gorwedd yn hollol ar ddamwaen a dygwydd.

Loud, *a.* (S. *hlud;* Al. *laut*) uchel, croch, ban, aedd, seinfawr, uchelsain, soniarus, soniawr, crochlais, brefer, eichiog, trystfawr, bloeddgar, garmus, hyswn, hyson, didaw, iewin; mawr; dyrchafedig.
A loud voice—llef uchel, llais uchel, llais cryf, llais croch, banllef.
A loud cry—banllef, crochlef, crochwaedd,

crochlais, gwawch, llef uchel, gwaedd fân, dolef groch, gwaedd groch, gawr fân, llef fân, gorfloedd, dirwaedd, arwaedd, arddolef, dysgri, baich, gorlef, garm, ysgarm, anglef, diaspad fân.

A loud noise—sain uchel, swn mawr, trwst mawr.

A loud laugh — crechwen, crechwen o chwerthin, crechwen-floedd, chwerthin croch, uchel chwerthin, croch chwerthin.

A loud and bitter cry—chwerw lef uchel (*Esth.* iv. 1.)

Loud of sound—seinfawr, uchelsain, uchel ei sain, hyson.

To make a loud noise—gwneuthur uchel drwst, uchel-swn, *neu* uchelsain; banllefain, uchelseinio, llefain, crochleisio.

Louder—uwch, uch, uchelach; mwy uchel, &c.

Louder and louder—uwch uwch, uchelach uchelach, &c.

To wax louder and louder—cryfhau fwyfwy; myned uwch uwch.

Loud, *ad.* yn uchel, &c.

Loudly, *ad.* yn uchel, yn groch, &c.; â llef uchel.

Loudness, *s.* uchder, uwchder, uchdra, crochder, uchder llais, crochder llais, seinfawredd, soniarusrwydd, &c.; dadwrdd, trwst, terfysg, sedd, gwaedd, dolef, diaspad, cri.

Loud-voiced, *a.* crochlais, crochleisiog; â chanddo lais *neu* lef uchel; uchel *neu* groch ei lais.

Lough, *s.* (Gw. a Gael. *loch*) llwch, llŷn; ebach, morebach, mornant.

Louis d'or, *s.* (Ff. oddi wrth *Louis* XIII.) Lewis aur=bath aur Ffrengig, gwerth o ddeutu £1.

Lounge, *v. n.* (Ff. *longis*) ofera, segura, sefyllian, llercyna, llercian, llercio, dydach, dydechu, techu, llechu, oedi, gohirio, mewydu, dïogi, ystelcian, ymdröi.

Lounge, *s.* ystelc, llerc, crwydr, gwib, oferwib, ofergrwydr, dydach, llech; oferfa, segurfa, segurfan, mewydlle, mewydfa.

Lounger, *s.* seguryn, segurddyn, segurwas, oferddyn, oferwas, llercyn, llerciwr, llercynwr, ystelciwr, dïogyn, mewydwr.

Lounging, *a.* segur, segurllyd, mewydus, mewydol, ofer.

Lounging chair—cadair ddïogi, cadair ymdordaen.

Lour, *v.*=*Lower.*

Louse, *s.* (S. *lus;* Al. *laus*) lleuen, lleuan: *pl.* llau.

Hog-louse—horen: *pl.* horod, hôr, hôr y moch.

Sheep-louse—heuslеuen; *pl* heuslau.

Wood-louse—gwrach y lludw, gwrach y coed, gwrach y twca, mochyn y coed, tyrchyn llwyd.

Sue a beggar and catch a louse—ni cheir gân y llwynog ond ei groen; ni cheir gân y ci ond ei groen.

Louse, *v. a.* lleua, hela llau, hel llau, dâl llau.

To louse one's self—ymleua.

Lousewort, *s.* (*louse* a *wort*) melsugn, balog fân.

Marsh lousewort—mêl y gwaenydd, melog y waen.

Pasture lousewort—melog y borfa, mêl y cwn, llysiau y cwn, llysiau yr eglwys, melsugn y borfa.

Lousily, *ad.* yn lleuog, &c.

Lousiness, *s.* lleuogrwydd; bod yn lleuog; bod yn llawn llau; baweiddrwydd.

Lousy, *a.* lleuog, llawn llau; bawaidd, bawlyd, brwnt, budr; tlawd, gwael, gorwael, brwnt; disas.

The lousy disease—haint y llau, clwyf y llau, y clwyf lleuog.

Lout, *s.* (S. *leod;* Al. *leute?*) lleban, llabi, llabwst, dyn llwrf, dyn llwfr, dyn llebanaidd, delff, ystelff, drel, trysglyn, buach.

Loutish, *a.* llebanaidd, llabïaidd; trwsgl, trwstan, taiog, gwladaidd, drelaidd, delffaidd, iangaidd, dengaidd, llwfr.

Loutish, *ad.* yn llebanaidd, &c.

Louvre, **Loover,** **Lover,** *s.* (Ff. *l'ouvert*) twll y llumon, llumon, simnai, mygdwll, sawell.

Louvre-boards—estyll llumon, dellt llumon, ais llumon=dellt ar osgo mewn ffenestri, a'r cyffelyb.

Louvre-windows—ffenestri llumon.

Lovable, *s.* (o *love*) caradwy, hygar, hawddgar, cariadwiw.

Lovage, **Loveage,** *s.* (Ll. *levisticum*) llwfach, perllys y meirch, marchberllys.

Love, *v. a.* (S. *luſian, luvian;* Is. *lieven;* Al. *lieben*) caru, hoffi, gorhoffi, serchu; rhoi serch ar; bod yn dda, yn gu, *neu* yn hoff gân un; anwylo.

To love excessively—tracharu, rhygaru, gorhoffi; caru yn ormodol; caru i ormodedd.

To love one ardently, dearly, *or* exceedingly—caru *neu* hoffi un yn fawr dros ben; bod yn fawr dros ben ganddo un; rhoddi mawrserch ar un; bod â mawrserch *neu* fawr gariad at un; tracharu, trahoffi, gorhoffi, dirgaru.

I would love her—carwn hi; mi a'i carwn.

I loved her—cerais hi; mi a'i cerais.

We will love her—carwn hi; ni a'i carwn.

Worthy to be loved—hawddgar, hygar, achar.

Love every body—câr bawb, cara bawb; cerwch bawb.

Love, *s.* cariad, serch, hoffder, hoffedd, hoffaint, cudeb, cuedd, anwylwch; anwylyd, cariadfab, (*f.* cariadferch), carwr; carwriaeth.

Love of God, Love to God, duwgarwch, cariad ar Dduw, serch ar Dduw, cariad at Dduw, duwiol serch.

For the love of God—er mwyn Duw; er cariad ar Dduw.

Love of mankind—dyngarwch; cariad ar ddynion, cariad ar ddynolryw.

Brotherly love — brawdgarwch, cariad brawdol, brawdserch.

Love of country, Love of one's country, gwladgarwch, brolwydd; cariad at ei wlad; cariad gwladol; cariad at *neu* serch ar ei wlad enedigol.

Love of hospitality—llettygarwch.

Love of money—ariangarwch; cybydd-dod.

Love of wisdom—cariad *neu* serch ar ddoethineb; doethgarwch, doethinebgarwch.

Love of fame—clodgarwch.

Love of liberty—rhyddgarwch, rhyddidgarwch; serch ar ryddid.

Love of pleasure—plesergarwch, difyrgar-

wch; cariad at ddifyrwch, serch ar ddifyrwch.
Love of truth—gwirgarwch; cariad ar wirionedd; serch ar wirionedd.
Self-love—hunanserch, hunangarwch, hunangariad, priodserch, hunserch, hungariad; cariad *neu* gudeb arno ei hun; serch ar un ei hun; cariad ato ei hun.
Love, Sweetheart, } cariad, anwylyd, cariadfab, (*f.* cariadferch), carwr.
God of love—duw cariad, duw y cariad, serchior=Cupid.
Goddess of love—duwies cariad, duwies y cariad, duwies serch=Gwener, Dwynwen.
First love—cariad cyntaf, cynserch.
Love-charm, Love-potion, } swyn serch, diod swyn serch.
Mutual love—cydserch, cyfymserch.
Love-language—cariadiaith, maldod, mysygandod, iaith cariad, iaith serch, siarad caru, cariaith, coriaith; afiaeth, gweniaith.
Love-fit—cariadloes, pang cariad, gloes cariad.
Without love, Void of love, } digariad, diserch, anghariadus.
Love-message—llateiaeth.
Love-messenger — llatai, lladai, cenad cariad.
Sick of love—claf o gariad, cariadglaf.
In love—mewn cariad; yn caru.
In love to—o gariad ar; mewn cariad at.
To fall in love with—cwympo, syrthio, *neu* fyned mewn cariad â; bwrw *neu* roddi ei serch ar; serchu, hoffi.
To make love to one—caru un; ymerlyn am gariad un; ymganlyn am serch un; ymerlyn am ewyllys da un; cynnyg caru un.
To be over head and ears in love—bod dros ei ben a'i glustiau mewn cariad; bod yn ofidus mewn cariad; bod yn ymdrallodi mewn serch.
To be in love with a thing—bod mewn cariad â pheth; ymhoffi yn mheth.
To be much in love with a thing—bod mewn mawr gariad â pheth; bod yn caru peth yn fawr; bod yn mawr garu peth.
To be out of love with a thing—angharu peth.
To be out of love with one's self—bod yn anfoddlon wrtho *neu* iddo ei hun; bod heb fod yn foddlon *neu* foddlawn iddo ei hun.
Free of love—diserch=enw math o blaigyn.
Love in idleness—segur serch=math o fill neu wiolydd.
Love lies a bleeding, Love lies bleeding, } ammor llosgyrnog =math o flodau.
Love,† *s.* sidanwe deneu.
Love-apple, *s.* carafal, serchafal; mochlys.
Love-favour, *s.* cofrodd serch, cariad-rodd.
Love-feasts, *s. pl.* cariad-wleddoedd.
Love-knot, *s.* cwlwm cariad, clwm cariad, clwm cariad cywir, cwlwm cariad cywir, cwlm cariad cywir.
Love-lass, *s.* cariad, cariadferch, cariades.
Loveless, *a.* digariad, diserch, disyrch.
Love-letter, *s.* llythyr caru, llythyr cyfymserch, serchlythyr.
Lovelily, *ad.* yn hawddgar, &c.
Loveliness, *s.* hawddgarwch, hygarwch, cariadusrwydd, anwylwch, hygaredd, arguedd; tiriondeb, tirionwch, caraint, careugarwch; tegwch, harddwch.
Love-lock, *s.* cudyn serch, serchgudyn, serchlyweth.
Lovelorn, *a.* (*love* a *lorn*) cariadgoll; à adwyd gàn ei gariad; à gollodd ei gariad.
Lovely, *a.* hawddgar, hygar, achar, cariadus, cariadusol, anwylaidd, cariadlon, caredigol, cariadaidd, cariadusaidd, carain, argu, hoffaiu, hoffus, hoff, cun, cu, addfwyn, tirion, mwyn, ammoraidd, serchol, arguaidd, ampwy, llon.
Lovemonger,† *s.* (*love* a *monger*) masnachwr yn materion cariad; serch-faelier.
Lovepined, *a.* curiedig gàn serch *neu* gariad; cariadguriog.
Lover, *s.* cariad, carwr, cariador, hoffwr, hoffydd, carodyn, cariadfab, gwr caru, mab caru, carüwr, un serchog, serchddyn, serchogddyn; cyfaill, cár; un yn caru, yn hoffi, *neu* yn dewis: *pl.* cariadau, cariadon, caredigion.
She-lover—cariadferch, cariadwraig, cariades, merch garu; cariad.
Lover of children—un mabgar, mabgarwr.
Lover of his country — gwladgarwr, un gwladgar, carwr ei wlad.
A lover of himself—un hunangar, hunangarwr, hunanserchwr; un â'i serch arno ei hun.
Lover of mankind—dyngarwr, un dyngar.
Lover of money—un ariangar, ariangarwr; cybydd.
Lover of wine—un gwingar, gwingarwr, carwr gwin.
Lover of quarrels—un ymrysongar, tringar, *neu* gynbengar; tringarwr.
Lover of truth—un gwirgar, carwr gwirionedd, carwr gwir, à garo y gwirionedd.
Lover of wisdom—carwr doethineb, à garo ddoethineb, un doethinebgar, un doethgar, doethgarwr.
Lover of women—un gwrageddgar, un benywgar gwrageddgarwr, carwr benywod.
Lover of books—llyfrgarwr, un llyfrgar, un hoff o lyfrau.
Lover's messenger—llatai, lladai, cenad cariad: *pl.* llateion.
Lover of religion—un crefyddgar, carwr crefydd.
A general lover—carwr y merched; Harri caru cant.
To be a lover of—bod yn caru; bod yn hoffi.
Hiram was ever a lover of David—hoff oedd gàn Hiram Dafydd bob amser.
Many are the lovers of the rich—llawer sydd yn caru y cyfoethog.
All thy lovers—y rhai oll a'th garant; dy holl gariadau.
Lovers of evil things—rhai yn hoffi *neu* yn caru pethau drygionus.
Lovers of pleasures—plesergarwyr, rhai plesergar; rhai yn caru meluschwant.
Lover, Loover, } *s.*=*Louvre*, &c.
Love-secret, *s.* rhin cariadon, cyfrinach cariadau, rhin serch.
Loveshaft, *s.* saeth cariad, picell cariad, saeth Cupid.
Lovesick, *a.* claf o gariad, cariadglaf.
Lovesome, † *a.* hawddgar, cariadus.

Lovesong, *s.* cân serch, cân cariad, carol, canu caru, serchgan, serchgerdd, cân gyfymserch; rhleingerdd, rhiangerdd.

Lovesuit, *s.* carwriaeth, caru, ymgaru.

Love-tale, *s.* chwedl serch, chwedl gyfymserch, traith serch.

Love-token, *s.* cofrodd serch, cofrodd cariad, serch-rodd, rhodd gyfymserch, arwydd serch; rhodd yn arwydd o gariad.

Love-toy, *s.* tegan cyfymserch, serch-degan, tegan serch; rhodd *neu* anrheg fechan oddi wrth gariad.

Love-trick, *s.* cast serch, cast cariad; un o gastiau cariadon.

Loving, *a.* serchog, serchus, caruaidd, cariadus, caredigol, cariadol, cuaidd, cu, hoff, caredig, hynaws, hoffain, hoffus; tirion, mwyn, addfwyn.

Loving words—geiriau serch, geiriau serchog, &c.; geiriau heddychlawn (*Esth. Ap.* xv. 8).

Loving favour—ffafr dda (*Diar.* xxii. 1).

Wisdom is a loving spirit—ysbryd yn caru dyn yw doethineb (*Doeth.* i. 6).

Loving-kindness, *s.* trugaredd, trugarogrwydd, caredigrwydd, rhadlonedd, tynerwch, ffafr.

Lovingness, *s.* serchogrwydd, serchusrwydd, carueiddwch, cariadusrwydd, caredigrwydd, serchusedd, hawddgarwch, hygaredd, hygarwch, cuaint, hoffaint; addfwynder; prydferthwch; serch.

Low, *a.* (S. *loh;* Is. *laag;* Al. *leg*) isel; gostyngedig, gostyngaidd; gwael, iselwael, salw, sal, difraint, difri, gwreng, tlawd, truan, gwàn, llyth; bas, gwŷs; iselbris; byr; diweddar; dystaw, ansoniarus; llaes, llwfr, llwrf, llesg; cymmedrol; syml.

A low country—iseldir, doldir, dyffryndir, gwastadedd, bro, gwalas, gwlad isel.

The Low Countries—yr Iseldiroedd, yr Isdiroedd.

Low water—trai, dystyll; iseldrai, isel drai.

Low ebb—isel drai; isel drai, moreb isel; meth, methiant.

To be at a low ebb—bod ar iseldrai; bod yn isel *neu* yn wàn yn y byd; byw mewn tlodi *neu* ofid; bod mewn gofid *neu* dlodi.

Low estate—iselradd, isel radd; cyflwr isel, gwael, salw, sal, distadl, tlawd, *neu* ddisas; salwedd, gwaeledd, tlodi.

Low bottom—dôl, doldir, dyffryndir, pantle, panttir, llawrbant.

Low and watery ground—corsdir, tir corsog, gwaelottir gwlyb, llawrbant gwlyb, cors.

Low in the world—isel yn y byd; isel ei amgylchiadau; tlawd.

Low in price—iselbris, isel ei bris, isel o bris; rhad.

The low parts of the earth—iselderau y ddaiar.

Of low stature, } isel o dwf, isel-dwf; byr,
Low of stature, } bychan, bach; cor-.

Of a low birth—lledrywiog, lledachog, adlawaidd, gwerinaidd, gwreng, o'r werin, adlaw, iselradd.

Of low degree—iselradd.

Men of low degree—meibion dynion (*Salm* lxii. 9); gwŷr iselradd, dynion iselradd; rhai isel eu gradd.

To make a low murmuring noise—iselgyngian, selgyngian.

Low look—iseldrem, golwg isel.

Low in spirits, } isel ei ysbrydoedd; isel ei
Low-spirited, } ysbryd; isel ei feddwl; pruddglwyfus, hudgyllig, prudd, athrist.

Low-pressure engine—peiriant iselwasg.

Low latitude—lledred isel, lledred bychan; lledred agos i'r cyhydedd; lledred heb fod yn neppell o'r cyhydedd.

Low Latin — Lladin ddiweddar, Lladin drosgl, Lladin isel, Lladin anmhur.

Low, *ad.* yn isel, &c.

To bring low—darostwng, gostwng, iselu, iselhau; dwyn yn isel; tynu, taflu, *neu* fwrw i lawr; lleihau, culhau, prinhau, gwanychu, gwanhau, gwaethu, gwaethygu.

To keep low—cadw yn isel; cadw yn iselwedd; cadw yn isel ei wedd; cadw i lawr; cadw tanodd; cadw dàn llaw; cadw dàn lywodraeth; ffrwyno, meistroli.

To make low—darostwng, iselu, iselhau.

To run low—rhedeg yn isel; digynnyddu, treio, cilio, lleihau; myned ar feth; darfod; bod ar ddarfod.

To be brought low in the world—dyfod i dlodi; cael ei ddwyn i dlodi; myned yn dlawd; cael ei ddarostwng yn y byd; myned yn isel yn y byd; myned yn isel ei amgylchiadau.

To speak low—dywedyd yn isel *neu* ddystaw; mwngial, myngial, manson.

As low down as Abraham's time—mòr bell i lawr ag amser Abraham; mòr ddiweddar ag amser Abraham.

Low,† *v. a.* iselu, suddo.

Low, *v. n.* (S. *hleowian;* Is. *lœijen*) brefu, buguned, bugunad, buguno, breferu, brëu, buchio, beichio.

To low again—adfrefu, adfuguned, ail frefu; ateb drwy frefu *neu* fugunad.

Lowbell, *s.* cloch adarwr, cloch adar, nosgloch.

Lowbell, *v. a.* tarfu â chloch adarwr.

Low-born, *a.* isel-anedig; lledrywiog, lledachog, adlawaidd, iselradd, isel ei radd.

Low-bred, *a.* iselfag; à fagwyd yn isel; gwerinaidd, gwerinol, adlawaidd, lledrywiog, lledachog, gwreng, iselradd, difoes, anfoesog.

A low-bred fellow—dyn difoes iselradd.

Lower, *v.* (o *low*) iselu, iselhau, gostwng, gostyngu, gystwng, gystyngu, gestwng, gestyngu, darostwng; dwyn *neu* beri yn is; bwrw *neu* ddwyn i lawr; gollwng, gollwng i lawr, disgyn; lleihau, tolio, bychanu; gwneuthur yn llai; myned yn llai; syrthio, cwympo, suddo, soddi; cuchio, cymylu, caddugo, tywyllu, duo, gordduo, gygu, blynghau, blyngu; bod yn dywyll a chymylog; bod yn guchiog; edrych yn sarug, yn gibog, *neu* yn guchiog.

To lower one's courage—digaloni, gwanhau, tori awch, llyfrhau, *neu* wangaloni un; llaesu dwylaw un.

To lower one's pride, }
To bring one a peg lower, } darostwng *neu* dolio balch-
To take one a peg lower, } der un; tori peth ar falchder un; peri trai ar falchder un; tori crib un.

Lower, *s.* mwrllwch, caddug, gwyll, cymylogrwydd, gwylledd, gwyllwch, muchiant, muchaint, cuchiogrwydd, gygusrwydd, cuwch, cuch, blwng, golwg sarig.

Lower, *a.* (y ganolradd o *low*) is, iselach, isach, gwaelach; isaf (o ddau); mwy isel, &c.

To bring lower, } dwyn *neu* beri yn is; is-
To make lower, } elu, iselhau; gostwng, darostwng; bwrw *neu* ddwyn i lawr; disgyn.
The lower parts of the earth—iselderau y ddaiar; gwaelodion y ddaiar.
Lower case type—llythyrenau mân, mân lythyrenau.
Lower chalk—y marm isaf, is-farm.
Lower Empire—yr Ymherodraeth Isaf= yr Ymherodraeth Ddwyreiniol, Ymherodraeth Bysantium.
With lower, second, and third stories shalt thou make it—o dri uchder y gwnai di hi (*Gen.* vi. 16).

Lowering, *s.* iseliad, iselhad, gostyngiad, darostyngiad, lleihad; gwaethygiad.

Lowering, } *a.* cuchiog, gygus, cymylog, cadd-
Lowery, } ugol, pruddaidd, cuwchdrwm.

Lowermost, } *a.* (yr eithafradd o *low*) isaf, isel-
Lowest, } af; gwaelaf; dyfnaf; mwyaf isel, &c.
The lowermost parts of the earth—goriselderau y ddaiar; iselderau y ddaiar; gorddyfnderau y ddaiar.
The lowest of the people—gwehilion y bobl, adlawiaid.
The lowest hell—uffern isod, uffern isaf, uffern eithaf; uffern affwys; alis.

Lowing, *s.* brefiad, breferad, bugunad, bugunawd, buchiad, beichiad, bref.
Lowing cattle—da brefol, biw brefer, biw brifwer.

Lowland, *s.* (*low* a *land*) iseldir, doldir, dyffryndir, tir isel, gwastadedd, gwastattir, bro, gwalas.
The Lowlands—yr Iseldiroedd, yr Isdiroedd.
The Lowlands of Scotland—Iseldiroedd yr Alban.
Lowland and upland—iseldir ac ucheldir, bro a gwrthdir, iseldir a gorthir; tir isel a thir uchel.
The Lowland Hundred—Cantref y Gwaelod.

Lowlihood,† *s.* iselder, iselni, iseldod.

Lowliness, *s.* gostyngeiddrwydd; iselder, iseldra, iseledd, isder, iselrwydd, iseldod; iselfrydedd; gwaelineb, gwaeledd, salwedd, dïelwedd.

Lowly, *a.* gostyngedig, isel; llariaidd, llaryaidd.

Lowly, *ad.* yn ostyngedig, yn isel.

Lown, *s.* (S. *lun?* Gw. *luin?*) bawddyn, bawai, adyn, dyhiryn, lleban, llabi, llabwst, delbren, hurthgen, penhyrddyn.

Lowness, *s.* iselder, isder, iselrwydd, iseledd, iseldra, iselni, iseldod; gwaelder, gwaeledd, gwaelni.

Low-priced, *a.* iselbris; isel ei bris, isel o bris; rhad.

Low-roofed, *a.* nenisel, isel-nenog, isel ei nen.

Low-spirited, *a.* isel ei ysbryd; isel ei feddwl; pruddglwyfus, hudgyllig, prudd, athrist.

Low-spiritedness, *s.* iselder ysbrydoedd, iselder ysbryd, isder ysbryd, iselder meddwl.

Low-Sunday, *s.* Sul Pasc bychan, dydd Pasc bychan, Pasc bychan; y Sul nesaf ar ol y Pasc.

Low-thoughted, *a.* gwael ei feddwl; â'i feddwl ar bethau gwael ac isel; gwael-feddylgar.

Low-water, *s.* trai, dystyll; isel drai, iseldrai.

Low-wines, *s. pl.* isel-winoedd, gwinoedd isel.

Loxodromic, *a.* (Gr. *loxos* a *dromos*) osghwyiog, osghwyliawl, gwyrhyntiol, osgredfaoll; sidgrwn, sidgrynol.

Loxodromics, *s.* osghwyliad, osghwyliawd, lleddhwyliad, osghwyliedigaeth, osghwyliaeth.

Loyal, *a.* (Ff.) ffyddlawn (i'w frenin, &c.) teyrngar, teyrngarol; cywir, ufydd; difrad.
Loyal subjects—deiliaid ffyddlawn, cywir, *neu* ddifrad.
Loyal wife—gwraig ffyddlawn.
If ye will keep yourselves loyal to the state—os cedwch chwi yr ewyllys da hwn yn y materion hyn (2 *Mac.* xi. 19).

Loyalist, *s.* teyrngarwr, cywiriad, cywirddyn; un ffyddlawn i'w frenin: *pl.* teyrngarwyr, cywiriaid.

Loyally, *ad.* yn ffyddlawn, &c.

Loyalty, *s.* teyrngarwch, teyrngaredd, ffyddlondeb, cywirdeb, ymlyniad.

Lozenge, *s.* (Ff. *losange;* Gr. *loxos* a *gônia*) lleddfbetryal, lleddfbedror, pedryleddf, dis oleddf, agwyrddis, gwyrbetryal, hirbetryal gwyronglog; sugen, afrlladen, chwiogen feddygol, teisen feddygol, afrlladen ar lun lleddbedror.

Lozenged, *a.* ar lun lleddfbetryal, &c.; ar ddull dis oleddf; gwyrbetryal, lleddfbetryal.

Lozengee, } *a.* gwyrbetryalog, agwyrddisiog
Lozengy, } (mewn herodraeth).

Lubbard,† *s.*=*Lubber.*

Lubber, *s.* (C. *llabi*, yn *Webster*) llabwst, llabi, lleban, hudlath, buach, cabrotai, delbren; clamp o ddyn segurllyd; dïogyn.

Lubberly, *a.* llebanaidd, llabïaidd, llabystaidd; mawr anesgud, mawr anhylwyth; dïog, musgrell, swrth, hwyrdrwm, trwsgl, trwstan, lledchwith, carnbwl.
A lubberly fellow=*Lubber.*

Lubberly, *ad.* yn llebanaidd, fel lleban.

Lubric, } *a.* (Ll. *lubricus*) llithrig, llithrian-
Lubricous, } nol, llithrigol; llyfn; anwadal, anwastal, gwamal, ansefydlog, syfal; anllad, llodinebus, trythyll.

Lubricant, } *s.* llithrigydd, llithriannydd, à
Lubricator, } llithrico.

Lubricate, *v. a.* (Ll. *lubrico*) llithrigo, llithrico, llithriannu; peri *neu* wneuthur yn llithrig.

Lubricity, *s.* (Ff. *lubricité*) llithrigrwydd, llithrigder, llithrigdra, llithrigedd, llyfnedd, llyfnder, llithriant; anwadalwch, anwastadrwydd, gwamalder; anlladrwydd, anlladedd, llodineb, anniweirdeb.

Lubrifaction, } *s.* (Ll. *lubricus* a *facio*) llithrig-
Lubrification, } iad, llyfnhad; gwneuthuriad yn llithrig.

Lucarne, *s.* (Ff.) ffenestr nenawr, nen-ffenestr, tormwnt.

Luce, *s.* (?) penhwyad tyflawn, rhwyad cyfandwf.

Lucent, *a.* (Ll. *lucens*) dysglaer, dysgleiriol, gloew, claer, ysblenydd, llachar, eirian, llathraid, llathr, ffloew, goleu.

Lucerne, *s.* (o *Lucerne*, yn Switzerland?) maglys rhuddlas.

Lucernal, *a.* (Ll. *lucerna*) llugornol, llugernol, erllenol; perthynol i lygorn *neu* lamp.
Lucernal microscope—mwyadyr llugernol, mwyadyr llugernaidd.

Lucid, *a.* (Ll. *lucidus*) dysglaer, gloew, claer, llathraid, llathr, dysgleiriol, ysblenydd,

llachar, ffloew, tryloew, trybelid, canloew, seirian, canaid, eirian, efflan, ysblan, dysgywen, llewyrchus, dysgleirwych; goleu, eglur, amlwg, eglurlawn, trywel; hyddeall, hyddallt.

At lucid intervals—ar adegau pwyllog; ar adegau pwyll; ar oriau pwyllog; ar awr *neu* ennyd o bwyll; ar awr oleu.

Lucidity, *s.* = *Lucidness.*

Lucidness, *s.* dysgleirdeb, dysgleirder, claerdeb, claerder, gloewder, gloewineb, gloewedd, ffloewineb, tryloewder, ysblander, ysblanedd; eglurdeb, eglurder, goleurwydd.

Lucifer, *s.* (Ll. o *lux* a *fero*) Gwawlddwyn, Goleuddwyn, Lleuferddwyn, y seren ddydd, seren y dydd, y seren fore, seren y bore, llugan, llugas, golean; Lucifer.

Luciferian, *a.* perthynol i Wawlddwyn; Gwawlddygol, Lucifferaidd.

Luciferous, *a.* (Ll. *lucifer*) goleuddwyn, gwawlddwyn, lleuferddwyn; à ddyco wawl; à ddygo oleuni.

Lucific, *a.* (*lux* a *facio*) goleuddwyn, goleufag.

Luciform, *a.* (Ll. *luxa* a *forma*) tebyg i oleuni; ar wedd goleuni.

Lucimeter, *s.* (Ll. *lux*, a Gr. *metron*) golfesur, golfydr, llugfesur=cyfarpar i fesur dwysder goleuni.

Luck, *s.* (Is. *luk*; Al. *glück*) ffawd, damwaen, hap, chwaen, damchwaen, dychwaen, dygwydd, llwydd, ffynniant, llwyddiant, hab, dofawd.

Good luck—ffawd, cynrabad, coelferth, tynged dda, tynged fad, llwydd, llwyddiant, ffynniant, gorffawd, hawddammor, tro da, damwaen dda, dygwydd da.

Ill luck, } anffawd, tynged ddrwg, drwg
Bad luck, } dynged, drwg ddamwaen, afiwydd, anhap, tro drwg.

Luckiness, *s.* ffodusrwydd, ffodiogrwydd, ffodusdra, hyffodedd, hapusrwydd; ffynniant, llwyddiant, llwydd, hap, ffawd, coelferth, tynged dda, tro da.

Luckless, *a.* anffodiog, anffodus, diffawd, dilwydd, anhyffawd, afiwyddiannus, annhyciannus, anhylwydd, anhapus, dihap, annedwydd.

Lucky, *a.* ffodus, ffodiog, hylwydd, llwyddiannus, tyciannus, ffynniannus, hyffawd, llwyddus, llwyddog, hapus, dedwydd.

Lucrative, *a* (Ll. *lucrativus*) ennillfawr, ynnillfawr, buddfawr, llesfawr, elwog, llesol, darlesol, llawn elw.

Lucre, *s.* (Ff.; Ll. *lucrum*) elw, ennill, ynnill, elwant, budd, buddiant, mael.

Filthy lucre—budrelw, budrelwant, budr elw.

Not given to filthy lucre—nid yn budrelwa.

Lucriferous, *a.* (Ll. *lucrum* a *fero*) ennillfawr, buddfawr, llesfawr; yn dwyn mawr elw.

Lucrific,† *a.* (Ll. *lucrificus*) ennillfawr.

Luctation, *s.* (Ll. *luctatio*) ymdrech, ymdrechfa, ymdrechiad, amdrechiad, ymorchest, ymdrin, ymhwrdd, ymdyniad, ymdyn, ymryson, ymgais, egni, ymafliad, ymafael.

Luctual,† *a.* (Ll. *luctus*) gofidiol, tristaol, galarus, alaethus, gresynol, athrist; à bair ofid.

Lucubrate, *v. n.* (Ll. *lucubro*) nosefrydu, nosfyfyrio, nosastudio; myfyrio, astudio, *neu* efrydu wrth oleu canwyll; myfyrio, astudio, *neu* efrydu yn y nos; gweithio yn y nos; gweithio wrth ganwyll; gwylio wrth waith.

Lucubration, *s.* (Ll. *lucubratio*) myfyrdod nos, efryd nos, gwaith nos, nosefryd, nosfyfyrdod, nosfyfyr, nosfyfyriaeth, nosefrydiad, nosastudiaeth; yr hyn a wneir wrth ganwyll; gorchwyl wrth ganwyll; peth à wnaed wrth fyfyrio mewn neilltuedd.

Lucubratory, *a.* à wnaed *neu* à gyfansoddwyd wrth ganwyll; à wnaed *neu* à gyfansoddwyd yn y nos; à wnaed wrth oleu canwyll; nosfyfyr; à wnaed mewn neilltuedd.

Luculent, *a.* (Ll. *luculentus*) dysglaer, gloew, ffloew, tryloew, claer, claerwych, gloewych; goleu, eglur, amlwg, goleulawn, goleufawr.

Luculite, *s.* math o farm.

Ludibrious, *a.* (Ll. *ludibriosus*) chwareugar, chwarëus, chwerig, rhontus, gwantan.

Ludicrous, *a.* (Ll. *ludicer*) digrif, digrifol, ysmala, digriflon, digriflan, digriflawn; chwarëus, chwareuol, chwerig, chwareol, chwareugar; perthynol i chware; à wneir o *neu* mewn chware; gwatworgar, arab, ysgafn; à wneir o ddigrifwch; à wneir er difyrwch; à bair chwerthin am ei ben gàn ei ddigrifed; difyrlon, cellweirig, hoenus, llawen, chwerthinus.

Ludicrousness, *s.* digrifwch, digrifedd, digrifder, digrifoldeb, ysmaldod, ysmalwch, ysmaledd, ysmalder, ysmalrwydd, ysmallhäwch, chwerigrwydd, chwerthinedd; ansawdd peth i beri chwerthin am ei ben.

Ludification, *s.* (Ll. *ludificor*) cellweiriad, gwatwariad.

Ludificatory, *a.* gwatwarus, gwatworus, chwerthinllyd; à dueddo i gyffröi gwawd *neu* watwar; à baro wawd.

Lues, *s.* (Ll.) pla, haint, llynwys, cowyn; gwenwyn.

Luff, *s.* (Goth. *lofa*; Gw. *lamh*; C. *llawf, llaw*) cledr y llaw, tor y llaw, llawf, palf y llaw.

Luff, *s.* (Ff. *lof*; Al. *loof*) y parth tua'r gwynt; y parth nesaf i'r gwynt; gwynt-fantais.

Keep your luff—cedwch y gwynt; cedwch y llong at y gwynt.

Luff, *v. n.* (Is. *loeven*) cadw llong at y gwynt; troi pen llong at y gwynt; hwylio yn agos at y gwynt.

Luff up the ship—cedwch y llong at y gwynt; cedwch y gwynt.

Lug, *v.* (S. *lyccan*) llusgo, tynu, dylusgo, dirlusgo, ymlusgo.

To lug out—tynu, dwyn, *neu* lusgo allan.

Lug, *s.* llusg, tyn, llusgiad, dirdyniad; math o bysg; † llabed y glust; † mesurlath, gwialen fesur.

Luggage, *s.* (o *lug*) clud, cludlwyth, cludgelfi; baich anhydwyth, baich diles, baich rhwystrus, beich-lwyth.

Lugger, *s.* (Is. *loger*) math o long dri hwyliar; llusghwylen.

Luggs, *s.* math o amwyd.

Lug-sail, *s.* llusghwyl, hwyl lusg.

Lugubrious, *a.* (Ll. *lugubris*) galarus, alaethus, athrist, tristlawn, trist, prudd, gresynol, gofidus.

Lukewarm, *a.* (S. *vlaco*, D. *lunken*, a *warm*) clauar, llugoer, llugdwym; rhwng brwd ac oer; na brwd nac oer; mwygl, gwygl, mwll, (*f.* moll), llettwym, lledfrwd, anwresog.

To make lukewarm—clauaru, mwyglo, llugdwymo, llettwymo; gwneuthur yn glauar.

To grow lukewarm—clauaru, llugoeri, llugdwymo; myned yn glauar *neu* lugoer.

Lukewarmness, *s.* clauarwch, clauarineb, clauaredd, clauarder, llugoeredd, llugoerder, llettwymder; anwresogrwydd.

Lukewarmness of mind—llugfrydedd, clauarineb meddwl.

Lull, *v.* (Al. ac Is. *lullen;* D. *luller*) suo, sïo, susganu, hysuo, canu i gysgu, canu hûw, siganu, llwlian; llonyddu, lloddi, tawelu, ymdawelu; peidio; dyfod *neu* fyned yn dawel.

Lulled to sleep, } à sïwyd i gysgu; wedi ei
Lulled asleep, } suo i gysgu.

Lull, *s.* llawdd, lloddiad; su, sï; susgan, llwl.

Lullaby, *s.* (o *lull* a *by*) susgan, hun-gan, hûw, cân hûw, cân hunddwyn, cysgan, cân i beri cysgu, sigan; suad, sïad, sï; peth à lonyddo.

Luller, *s.* sïwr, sïedydd, susganwr; llonyddwr; maldodwr, anweswr.

Lumachel, } *s.* math o galchfaen gwylaraidd.
Lumachella, }

Lumbaginous, *a.* (o *lumbago*) llwynystol, llyfenystol; perthynol i lwynwst.

Lumbago, *s.* (Ll.) llwynwst, llyfenwst, poen yn y llwynau.

Lumbal, } *a.* (Ll. *lumbus*) llyfenol, llwynol;
Lumbar, } perthynol i'r llwynau.

Lumber, *s.* (S. *leoma;* D. *lumperie, lumpe;* Sw. *lumper*) hen gelfi, hen gelfiach, hen lestr ïach, llanastrau, llanastr, hen ddodrefn methedig, hen ddodrefn diddefnydd; trwm bethau diles *neu* ddiddefnydd.

Lumber, *v.* llanastru; pentyru yn annhrefnus *neu* yn llanastr; llenwi à hen gelfi; llanw à hen bethau diddefnydd; ymsymmud yn hwyrdrwm, ymlusgo.

Lumber-room, *s.* ystafell lanastr, llanastr, ystafell hen gelfi, cell hen gelfiach, ystafell llanastrau, ofer-ystafell, ofergell, arllwysgell.

Lumbric, *s.* (Ll. *lumbricus*) pryfyn, pryf, llyngyryn, abwydyn.

Lumbrical, *a.* pryfaidd, pryfynaidd; tebyg i bryf *neu* bryfyn; pryddulliog. [aidd.

Lumbrical muscle—prygyhyr, cyhyr pryf-

Lumbrical, *a.* (o'r Ll. *lumbus*) llwynol, llyfenol; perthynol i'r llyfenau.

Lumbrical, *s.* prygyhyr, cyhyr pryfaidd; cyhyr y bysedd.

Lumbriciform, *a.* (Ll. *lumbricus* a *forma*) ar lun pryfyn, ar ddull pryf, pryfynaidd.

Luminary, *s.* (Ll. *luminare*) goleuad, goleugorff, arwawl, ardywyn, llygorn, llugas, llugai, lleuerydd, lleuferydd, lleuferog, lleuerog=haul, lleuad, seren, &c.

Lumination, *s.*=*Illumination.*

Lumine, † *v. a.*=*Illumine.*

Luminiferous, *a.* (Ll. *lumen* a *fero*) goleuddwyn, goldwyn, gwawlddwyn; à ddyco wawl.

Luminous, *a.* (Ll. *luminosus*) goleu, llawn goleuni, goleufawr, goleulawn, dysglaer, goleuol, claer, gloew, trybelid, tryloew, lleuferog, lleuferol, lleuerog, lleuerol, ysblenol; eglur.

Non-luminous—anoleu, annysglaer, afleuferog, afloew, tywyll.

Luminousness, *s.* goleurwydd, dysgleirdeb, goleufawredd, lleuferogrwydd, claerder.

Lump, *s.* (Al., D., a Sw. *klump;* Is. *klomp*) talp, clamp, clap, swp, swmp, crynswth, crynswdd, cnwff, cwlff, palff, clobyn, mwl, cnap, hergod, torp, torpell, twrll, twrllach, twlff; y cyfan.

A little lump—telpyn, clempyn, cnepyn; sypyn.

In the lump—yn gyfan, yn grynswth, yn ei grynswth, yn y crynswth, yn y talp, yn y cyfan.

By the lump—yn gyfan, yn grynswth, yn ei grynswth, yn y crynswth, yn y talp, wrth y talp, wrth y swmp, wrth swmp, dân swmp, wrth y crynswth, yn y cyfan, y cyfan drwyddo, dân swmp, wrth y llaw.

To buy by the lump—prynu wrth y talp; prynu wrth y swmp; prynu yn y crynswth, &c.

All in a lump—yn ei grynswth, yn swp, yn un swp; dân swmp.

The lump of a thing—y cyfan, y crynswth.

A lump of butter—brefan, breian, talp o ymenyn.

A lump of a fellow—tylffyn, twlffyn, clamp o ddyn, cnwff o ddyn, palff o ddyn, palffyn.

A lump of dough—toesyn, clamp toes, clamp o does, talp toes, toes-dwr.

The lump of dough—y clamp toes, y toesyn.

A lump of figs—swp o ffigys.

A little leaven leaveneth the whole lump—y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does (*Gal.* v. 9).

Lump, *v. a.* talpio, clapio, clampio, sypio, torpellu; prynu *neu* werthu dân swmp; cymeryd yn grynswth.

To lump a thing—prynu peth dân swmp; prynu peth yn ei grynswth; gwerthu peth dân swmp, &c.

Lumpen, *s.* clampyn=math ar bysg.

Lumpers, *s. pl.* (o *lump*) talpwyr, clampwyr=gweithwyr à ddefnyddir i lwytho a dadlwytho trafnidlong mewn porthladd.

Lumpfish, *s.* morenid, morguan, morddylluan, morhwan=math o bysg tew.

Lumping, *a.* trwm, trymaidd, mawr, tew, clampaidd.

A lumping pennyworth — ceiniogwerth wèn, ceiniogwerth lân, ceiniogwerth iach, llawn geiniogwerth.

Lumpish, *a.* trwm, trymaidd, trymhyrddig; hwyrdrwm; mawr, praff, praffaidd, corffol; clampaidd, clobynaidd, talpaidd; dwl, hurt; musgrell; dilun.

Lumpishness, *s.* trymder, trymeiddrwydd, trymhyrddigrwydd, clobyneiddrwydd, talpeiddrwydd, hwyrdrymder, marweidd-dra, musgrelli, trymluogrwydd; hurtrwydd, dylni; penbylni, cualldra.

Lumpy, *a.* talpiog, clapiog, clampiog, talpynog, cnapiog, torpellog; llawn talpiau, &c.; trwm.

Luna, *s.* (Ll.) y lleuad, y lloer, llun, lluned; arian.

Luna cornea—lleuad gyrnig=llasnur arian tawdd.

Lunacy, *s.* (o'r Ll. *luna*) lloerigrwydd, lleuadigrwydd, lleuadgleifni; gorphwyll, gorphwylledd, gwallgofrwydd; gorphwyll à ddel ar gylch.

Lunar, } *a.* (Ll. *lunaris*, o *luna*) lleuadol,
Lunary, } lloerawl, lloerin; perthynol i'r lleuad; yn perthyn i'r lloer; ciddo y lleuad *neu* y lloer; lloerawg; rhodog, crwn.

Lunar cycle—cylch y lleuad, cylch y lloer,

y cylch lleuadol, lloergylch, y rhif euraid, y prif, y cylch Metonig=ysbaid à gwblhêir yn mhen pob 19 mlynedd, pan y dychwel y lleuadau newydd a llawn i'r un dyddiau o'r mis ag o'r blaen, ac y dechreu y lloer ei gyrfa drachefn gyda'r haul.

Lunar observations—sylwadau ar y lleuad; arsylliadau lleuadol, &c.

Lunar year—blwyddyn y lleuad, blwyddyn y lloer, blwyddyn leuadol.

Lunar bone—yr asgwrn lloerin=un o esgyrn yr arddwrn.

Lunaria, *s.* (Ll. *luna*) lleuadlys, lloerlys, lloerredyn, dibedoliad y meirch.

Lunarian, *s.* lleuadwr, un o drigolion y lleuad: *pl.* lleuadwyr, lloerwys.

Lunars, *s. pl.* lloerbellderau, pellderau lloerawl.

Lunate, } *a.* (Ll. *luna*) lleuadaidd, lloeraidd;
Lunated, } fel hanner lleuad; ar lun cilgant; cilgantaidd.

Lunatic, *a.* (*Ll. lunaticus*) lloerig, lleuadig, lleuadglaf, lloerglaf; gorphwyllog, gorphwyllus, gwallgofus, gwallgof, ynfyd, iwin.

Lunatic, *s.* lloerigyn, (*f.* lloerigen), un lloerig, lleuadglaf, un gorphwyllog: *pl.* lloerigion, lleuadigion, lleuadgleifion.

Lunatic asylum—lloerigfa, lloerigdy, gwallgofdy; noddle *neu* noddfa lloerigion.

Lunation, *s.* (Ll. *lunatio*) lleuadiad, lloeriad; mis. rhygylch, *neu* gyfrdro y lleuad; yr amser o newydd loer i newydd loer; lleuad.

Lunch, } *s.* (C. *llwnc; Llyd. lounqua, lon-*
Luncheon, } *gein*) byrbryd, gobryd, rhagbryd, cynnwysfwyd, bwyd ambor; cnwff *neu* gwlff o fwyd.

A luncheon of bread and cheese—gaing o fara a chaws.

Lunch, *v. n.* byrbrydio, gobrydio, cymmeryd byrbryd, cymmeryd bwyd ambor, cymmeryd cynnwysfwyd, cnyffio.

Lune, *s.* (Ll. *luna*) peth ar wedd hanner lleuad; lluned; lloerddull; cynllyfan, llinyn;† lloerni, lloerigrwydd.

The lune of a hawk—cynllyfan hebog.

Lunet, } *s.* (Ff. *lunette*) lloeren, lloeran, han-
Lunette, } nerlloer, hanner lleuad, lledloer; caerwaith ar wedd hanner lleuad.

Lunet, *s.* (Ff. *lunette*) lloeren, lloeran, lleuad fechan.

Lung, *s.* (S. *lungen;* Al. *lunge*) ysgyfaint.

The lungs—yr ysgyfaint. [aint.

The lobes of the lungs—dalenau yr ysgyf-

Affection of the lungs, } ysgyfeinwst, clef-
Disease of the lungs, } yd yr ysgyfaint.

Lunge, *s.*=*Longe.*

Lunged, *a.* ysgyfeiniog; âg iddo ysgyfaint.

Lung-grown, *a.* â'i ysgyfaint yn glynu wrth yr eisles; â'r llechau arno.

Lungis, *s.* (Ff. *longis,* o *long*) hurthgen llebansâdd, lleban hurt, llabi trymhyrddig, llabwst, llabi, lleban; llercyn, oferddyn, seguryn; breuddwyd o ddyn.

Lungless, *a.* dïysgyfaint, heb ysgyfaint.

Lungwort, *s.* (*lung* a *wort*) llysiau yr ysgyfaint.

Common lungwort—llysiau yr ysgyfaint, llaeth bron Mair.

Sea lungwort—gleyn y moriau, llysiau yr ysgyfaint arfor.

Tree lungwort—clustiau y derw, callod y derw.

Golden lungwort—hebogiys y muriau.

Luniform, *a.* (Ll. *luna* a *forma*) ar lun y lleuad, ar ddull y lleuad; lleuadaidd, lloeraidd, lloerwedd.

Lunisolar, *a.* (Ll. *luna* a *solaris*) lloerheulog, lloerheulawl, lloerheulaidd, lloerheulig; perthynol i'r haul a'r lloer; yn cynnwys treigladau yr haul a'r lloer.

Lunisolar year — blwyddyn loerheulog; blwyddyn yr haul a'r lloer=532 o flynyddoedd cyffredin.

Lunistice, *s.* (Ll. *luna* a *sto*) lloerorsaf, lleuadorsaf, lloersaf, alban y lloer=pwynt pellaf neu eithafnod y lleuad i'r de a'r gogledd, yn ei threiglad misol.

Lunt, *s.* (Is. *lont;* D. *lunte*) tân-gord, tângordyn, magdan cyflegrau.

Lunular, *a.* (Ll. *lunula*) lloerenol, lloeranol; fel y lleuad newydd; ar lun cilgant bychan; crymasol.

Lunulate, } *a.* (Ll. *lunula*) lloerenaidd, lloer-
Lunulated, } anaidd; fel y lleuad newydd; tebyg i newydd loer; ar lun cilgant bychan; crymasaidd.

Lunule, *s.* (Ll. *lunula*) lloerenig, lloeranig; lloernodyn=nod ar lun newydd loer ar gregyn.

Lunulet, *s.* lloerenig, lloeranig, lloernodyn=ysmotyn ar lun hanner lleuad ar rai trychfilod.

Lupercal, *a.* perthynol i'r Lupercalia, neu wleddoedd y Rhufeiniaid er anrhydedd i Pan.

Lupercal, *s.* gwledd neu gofwyl Pan.

Lupine, *s.* (Ll. *lupinus;* Ff. *lupin*) bleiddlys, ffa y blaidd, bleiddbys.

Lupinite, *s.* bleiddlysnur=rhyw sylwedd chwerw â dynir o ddail y bleiddlys.

Lupuline, } *s.* (o *lupulus,* pensag) pensagnur,
Lupulin, } hopysnur=dansawdd chwerw, ar-
Lupulite, } ogiber, mewn pensag neu hopys.

Lupus, *s.* (Ll.) y blaidd: math o gancr: cydser deheuol.

Lurch, *s.* (C. *llerc,* yn ol *Webster*) dalfa, magl, dyryswch; treigl sydyn *neu* ddisymmwth.

To leave in the lurch—gadael un yn ei drallod *neu* gyfyngder; troi ei gefn ar un yn ei drallod *neu* gyfyngder.

Lurch, *v.* cynllwyn, cynllwyno, dala, trawsfaglu, twyllo, somi, disodli, castio; lladrata, chwiwio, chwilota; myned *neu* ymdreiglo yn ddisymmwth.

Lurch,† *v. a.* (Ll. *lurco*) gwancio, difa, glythu; bwyta yn llyminog.

Lurcher, *s.* cynllwynwr; llechwr, dydechwr; herwr; cynllwyngi, llechgi, techgi, ci llech.

Lurcher, *s.* (Ll. *lurco*) bolrythwr, glwth, glythwr, gloddestwr, bwytäwr diwala.

Lurdan,† *a.* penbylaidd, pendew.

Lurdan,† *s.* penbwl, hurthgen, busch.

Lure, *s.* (Ff. *leure*) hud, llith, arhud, arlith; abwyd; llithiad, llithiant, deniad, hudiad, hudoliaeth; som; peth â hudo; llithle.

A falconer's lure—llith hebogydd, llithgyff; llith-edn.

Bird of the lure—hudwalch, llithwalch.

To bring to one's lure—dwyn, denu, llithio, *neu* hudo un i gytuno â'i amcanion.

Lure, *v.* llithio, hudo, denu, arhudo, arlithio; twyllo, maglu, rhwydo; galw gweilch *net* hebogau.

Lurid, *a.* (Ll. *luridus*) tywyll, cethin, gwrm,

gwyll, caddugol, caddugaidd, gell, dulwyd, gwrmwn, llur, ffyll; hyll, erchyll, erch, irad, girad.

Lurk, *v. n.* (C. *llerc, llercian;* Al. *lauern*) llechu, dydechu, techu, techial, dydach, techialu, godechial, godech, godechu, golechu, ymguddio, ymlechu, ymgelu, llercian, llercio, llercyna, ystelcian, ystelcio, sefyllian, lleigio; cynllwyn, cynllwyno; bachu; bod yn nghudd, dàn gel, *neu* dàn gudd; segura.

To be lurking about—llercian, llercyna, ystelcio, llechwibio, lleigio; dydach o fàn i fàn.

Lurking hole—llechfa, llechfan, cynllwynfa, dydechfa; twll i ymlechu.

Lurker, *s.* llechwr, llechydd, dydechwr, godechwr, godechydd, techwr, lleigiad, lleigiwr, llechiad, ystelciwr, llercyn, llerciwr, gwill; seguryn, diogyn.

A lurker in corners—gwill, gwilliad, lleigiad, lleigiwr; noswibiwr; aderyn y nos; un o adar y nos.

Lurking-place, *s.* llechfa, llechfan, techfa, llechfod, cynllwynfa, godechfa, dydechfa, ymguddfa, ymgelfa, dirgelfa, lloches, ffau, llech.

Luscious, *a.* (?) rhy-felus, tramelus, gorfelus, mychweg; chwydog, gwrthwynebus, *neu* anhyfryd gàn ei felused; melus, chweg, maws; hyfryd; mwythus; gwenieithus; anllad.

Lusciousness, *s.* rhy-felusder, rhy-felusedd, rhy-felusni, tramelusrwydd, gorfelusrwydd, &c.; mychwegrwydd, melusder, melusdra, melusni, meluswedd, melusi.

Lusern, } *s.* y lyncs.
Luserne, }

Lush,† *a.* noddlyd, iraidd, suddlawn, sugol.

Lusk,† *a.* (Ff. *lasche*) diog, musgrell, swrth, diddefnydd.

Lusk,† *s.* diogyn, seguryn.

Luskish, *a.* dioglyd, segurllyd, diog.

Luskishness,† *s.* diogi, segurdod, mewydedd.

Lusorious, } *a.* (Ll. *lusorius*) chwareuol, chwar-
Lusory, } eol, chwarëus, chwerig, ychwerig, cellweirus, digrif; arferedig mewn chware; y chwareuir âg ef; perthynol i chwareu.

Lust, *s.* (S., Al., Is., a Sw.) chwant, blys, trachwant, gwŷn, awydd, ainc, meluschwant, chwantach, drygchwant, dyre, tesach, rhewydd, chwantwch, chwannwg, chwantrwydd, serth, serthedd;† yni, grym.

The sinful lusts of the flesh—pechadurus chwantau y cnawd.

Unlawful lust—camchwant, chwantanghyfreithlawn.

Youthful lusts—chwantau ieuenctyd.

Their lust one toward another—eu hawydd i'w gilydd (*Rhuf.* i. 27).

They were not estranged from their lusts—nid omeddwyd hwynt o'r hyn a flysiasant (*Salm* lxxviii. 30).

Lust, *v. n.* chwantu, chwanta, trachwantu, chwennychu, chwennych, blysio, gwynio; bod â chwant, dyre, *neu* desach arno; hiraethu.

To lust after—chwennychu, chwantu; bod mewn chwant i.

Lust not after her beauty—na chwennych ei phryd hi.

The spirit lusteth to envy—at genfigen y mae chwant yr ysbryd.

Luster, *s.* chwennychwr, chwantwr, blysiwr.

Lustful, *a.* chwantus, chwantol, chwantaidd, nwyfus, cnawdwyllt, anllad, anniwair, llodinebus, rhewydd, rhewyddol, rhewys, serthus, llawd; â chwant arno; pybyr, cryf, grymus, dihafarch, ynïol.

Lustfulness, *s.* chwantachrwydd, chwantusrwydd, chwantolrwydd, nwyfusrwydd, anlladrwydd, anlladedd, serthedd, anniweirdeb, llodineb, rhewysrwydd.

Lustihood,† *s.* pybyrwch, yni, grym.

Lustiness, *s.* pybyrwch, cryfder, grymusder, glewder, glewdid, glewid, dihafarchedd, calonogrwydd, corffogrwydd, grym corfforol, cadarnwch.

Lusting, *s.* chwant, blys, drygchwant, dyre, awydd.

Lustless, *a.* anmhybyr;† anewyllysgar.

Lustral, *a.* (Ll. *lustralis*) arferedig mewn puredigaeth; puredigol, pureiddiol, puredigaethol, puriannol.

Lustral days—dyddiau puredigaeth, dyddiau puro, dyddiau puredigol.

Lustral water—dwfr puredigaeth.

Lustrate, *v. a.* (Ll. *lustro*) puro, pureiddio, puredigaethu, glanhau; edrych, edrych ar, golygu, arolygu, cyfarchwylio.

Lustration, *s.* (Ll. *lustratio*) puredigaeth; glanhad drwy aberth; glanhad, purad, purawd; defodau puredigaeth.

Lustre, *s.* (Ff.; Ll. *lustrum*) gloewder, gloewedd, gloewineb, dysgleirdeb, dysgleirder, claerder, llewych, llewyrch, glawdd, ysblander, ysblandra, dysgleindra, athwyn, eirianwch, gleindid, gleinder, effiander, air; enwogrwydd, godidogrwydd; canwyllbren adlewyrchol, canwyllyr gwydr; ysbaid pum mlynedd; purdyd.

Lack-lustre—annysglaer, afloew.

Lustreless, *a.* dilewych, dilewyrch, annysglaer, afloew.

Lustrical, *a.* puredigol.

Lustring, *s.* math ar sidan dysglaer.

Lustrous, *a.* (o *lustre*) dysglaer, gloew, dysgleiniol, llewychol, llewyrchol, ffloew, claer, goleu, effian, efflanol.

Lustrum, *s.* (Ll.) ysbaid pum mlynedd (yn mhlith yr hen Rufeiniaid); purdyd.

Lustwort, *s.* chwantlys.

Lusty, *a.* (o *lust;* Is. *lustig*) pybyr, cryf, cadarn, grymus, heinif, calonog, dihafarch, cydnerth, cyhyrog, efrais, corffol, cadr, dewr, glew, erddrym, gwrdd, agwrdd, gwrol, gŵraidd, gwrolwych, nerthol; iach, holliach, iachus, hawntus, hoenus, arialus, gwrygiannus; mawr, braisg; helaeth, llawn, ffiwch; beichiog, trwm; †hardd, hyfryd.

A lusty fellow—un dihafarch, dyn dihafarch, un cydnerth.

A lusty child—plentyn gwrol, plentyn gwrygiannus.

Lusty age—oedran grym.

In his lusty age—yn ei ddewredd; yn mlodau ei ddyddiau; yn ngrymus oed ei flodau.

To grow lusty, } myned yn bybyr, &c.;
To become lusty, } gwrygio, gwroli.

Lusus Naturæ, *s.* (Ll.) difyrwch natur, chwareu anian; anghenfil.

Lutanist, } *s.* (o *lute*) dwsmelwr, dwsmelydd;
Lutenist, } chwarëydd ar y dwsmel; un â chwareuo ar ddwsmel.

Lutarious, *a.* (Ll. *lutarius*) lleittrig, lleittrigol;

yn byw *neu* drigo mewn llaid; lleidiol; lleidliw, lleidliwiog.

Lutation, *s.* (o *lute, lutum*) cleiad; cauad *neu* gaeniad â chlai.

Lute, *s.* (Ff. *luth*; It. *liuto*; Al. *laute*) dwsmel =math o offeryn cerdd dannau.

Lute, } *s.* (Ll. *lutum*) clai, llaid, lleidglai;
Lutum, } caen.

Lute, *v. a.* cleio, lleidio; cau *neu* gaenu â chlai; cau genau costrelau â chlai; caenu.

Luteoline, *s.* (Ll. *luteolus*) melynain=defnydd lliwiol melyn à geir mewn banadlos neu eurfanadl.

Luteous, *a.* (Ll. *luteus*) llwydfelyn, gofelyn; lleidliw; o liw y clai.

Luter, } *s.* (o *lute*) dwsmelwr, dwsmelydd;
Lutist, } chwarëydd ar y dwsmel; un à chwarëuo ar ddwsmel.

Lutestring, *s.* tant dwsmel; math o sidan claerlyfn.

Luthern, } *s.* nen-ffenestr, ffenestr nenawr,
Lutheran, } tormwnt, torment.

Lutose, *a.* (Ll. *lutosus*) lleidlyd, lleidiog, cleilyd, cleiog.

Lutulent, *a.* (Ll. *lutulentus*) lleidlyd, lleidiog, plwca, llaceilyd; afloew, trybylog; tew; aflan.

Luxate, } *v. a.* (Ll. *luxo*) dadgymmalu, di-
Lux, } gymmalu, disgymmalu; dislëu; rhoi *neu* symmud o'i le.

Luxation, *s.* dialead, dadgymmaliad, digymmaliad; bwriad *neu* symmudiad o'i le; y peth à symmuder o'i le; dattodiad, ymddattodiad, ymollyngiad, *neu* ryddhad yn y cymmal.

Luxe,† *s.*=*Luxury.*

Luxuriance, } *s.* (Ll. *luxurians*) gorthyfiant,
Luxuriancy, } gorthwf, gordwf, gordyfiant, trathyfiant, trathwf, brasdyfiant, brasdwf, rhydyfiant, rhydyfiad, rhydwf, hydyfiant, brwysedd, rhwysdra, brygedd, brygaint, rhysedd, gormodedd, arddigonedd, rhylawndiid, gorlawndid, rhullder, ffaethder, ireiddiant, iriant, pryddineb, pryddedd, twf gwryggiannus, gormodd dwf, cymrwysiant.

Luxuriant, *a.* gorthyfol, gordyfol, brasdyfol, rhydwf, trathyfol, rhydyfol, brwys, bras, rhonca, rhonc, cymrwys, rhwys, ffrwm, ffrymaidd, brolig, brolaidd, prydd, ffaeth, ffaethus, rhwsg, rhwys, tirf, irain, ffrwythlawn, hydwf; gormodol, gormod, gormodd; helaeth, haflug, toreithiog, toreithus, llawn, rhylawn, gorlawn, dibrin, rhyseddog, arddigonol.

To grow luxuriantly—hydyfu, brasdyfu; tyfu yn fras, &c.; rhydyfu, gordyfu.

Luxuriate, *v. n.* gorthyfu, gordyfu, brasdyfu, rhydyfu, hydyfu, brwyso, cymrwyso, ffrymio; tyfu yn fras, &c.; tyfu *neu* gynnyddu gormod.

Luxuriation, *s.* brasdyfiad, rhydyfiad, trathyfiad, gorthyfiad, brwysiad, cymrwysiad; tyfiad yn fras.

Luxurious, *a.* (Ll. *luxuriosus*) wttresgar, rhyseddgar, gloddestgar, gwleddgar, bolgar; moethus, moethgar, ammoethgar, mwyth, mwythus, minflysig, minfelus, rhyfoethus, glwth; bras; rhydyfol, gorthyfol, tra-gormodd, gormodol; rhynwyfus, anllad, trythyll, aniwair, rhy wresog, chwantus, rhewys.

A luxurious person—wttreswr, gloddestwr, moethyn, dyn wttresgar.

Luxuriousness, *s.* wttresgarwch, rhyseddgarwch, gloddestgarwch; moethusrwydd, glythineb; anlladrwydd, trythyllwch.

Luxurist, *s.* wttreswr, gloddestwr, un wttresgar, moethyn, moethwas.

Luxury, *s.* (Ll. *luxuria*) wttres, rhysedd, gloddest, cynrysedd, gormod rysedd, gormod rhysedd; moethineb, moethusdra, moethusder, moethusrwydd; moeth, ammoethyn, ammeuthyn, dantaeth, almes; rhydraul ar fwyd a dïod; gormodd draul ar fwyd a dïod; gormodedd, arddigonedd, gorlawndid; gorhaeledd; †chwant, anlladrwydd, trythyllwch; † gorthwf, brasdyfiant: *pl.* moethau, danteithion.

Luxula, *s.* coedfrwyn.

Lyam, *s.* cynllyfan, llinyn ci.

Lycanthropy, *s.* (Gr. *lucanthrôpia*) bleiddorphwyll, bleiddanmhwyll = math o wallgofrwydd yn yr hwn y tybia dyn mai blaidd ydyw.

Lyceum, } *s.* (Gr. *luccion*) llugeion, llenorfa,
Lycæum, } addysgfa, dysgeidfa, arysgol.

Lychnis, *s.* (Gr.) lluglys.

Lycoperdon, *s.* (Gr. *lucos* a *perdô*) coden hyred, coden euraid, coden eurych, cwd y mwg.

Lycopodium, *s.* (Gr. *lucos* a *pous*) cnwpfwsogl, palf y blaidd.

Lycopsis, *s.* (Gr. *lukos* ac *ôps*) bleidd-drem, tafod yr ych gwyllt.

Lycopus, *s.* (Gr. *lucos* a *pous*) llysiau yr hudolesau, llysiau yr Aifftwys, llysiau yr Aifftesau, llysiau y gwiblu.

Lydian, *a.* (o *Lydia*, yn Asia Leiaf) mwyth, masw, masweddgar; Lydiaidd.

Lydian stone—maen Lydia.

Lye, *s.* (S. *leah*; Ll. *lix*) trwyth, lleisw, lleisw coed, llytrodwy; dwfr nawsedig â halion croew o ludw coed; trwnc, golch, troeth.

Chamber lye—golch sur.

Lye, *s.*=*Lie.*

Lying, *p.* (o *lie*) yn gorwedd, gàn orwedd, dàn orwedd; gorweddol.

Lying along, } yn gorwedd yn ei hyd; yn
Lying flat, } gorwedd yn ei hyd gyd; yn gorwedd o'i hyd gyhyd; yn ei orwedd.

Lying open—yn agored, yn egored; yn gorwedd yn agored; yn sefyll yn egored.

Lying hid—dàn gudd, dàn gel, dàn lech, yn nghudd; yn anamlwg.

Lying to—gorwedd wrthi.

Lying in—yn gorwedd i mewn; yn ei gwelyfod; ar ei gwely esgor; ar ei gwely.

A lying in wait—cynllwyn, cyfragod.

Lying-in, *s.* gorweddiad i mewn; gwelyfod, gwelyawd; esgorfa, esgoriad, esgorediganeth.

She is near her lying-in—y mae ei thymp yn tynu yn agos; y mae hi yn tynu at ei thymp; y mae ei hamser i esgor yn tynu yn agos.

Lying-in hospital—ysbytty gwelyfod, ysbytty gwelyawd, ysbytty esgor, ysbytty gorwedd i mewn.

Lying, *p.* (o *lie*) celwyddog, geuog, gau, celwyddus, anwir, anwireddus; yn dywedyd celwydd, &c.

Lying vanities—ofer wagedd (*Salm* xxxi. 6).

Lyme-grass, *s.* amdowellt.

Lymph, *s.* (Ll. *lympha*) dyfrlyn, dyfrnaws, corfflyn, gwaedlyn=dwfr, neu wlybwr diliw, mewn cyrff.

Lymphate, } *a.* gorphwyllog, cynddeiriog,
Lymphated, } gwallgofus, gwallgof, anmhwyllog; gorfrawychus.

Lymphatic, *a.* dyfrlynol, gwaedlynol, corfflynol; perthynol i gorfflyn; †penboeth, gorphwyllog.

Lymphatic, *s.* llestr y dyfrlyn; †un gorphwyllog, penboethwr gwallgofus, lloerigyn: *pl.* dyfrlynolion, corfflynolion, tarnyddion, tarneion, tarnolion.

Lympheduct, *s.* (Ll. *lympha* a *ductus*) pibell y dyfrlyn, llestr y dyfrlyn, llynbib, llynbibell: *pl.* dyfrlynolion, corfflynolion.

Lymphography, *s.* (Ll. *lympha*, a Gr. *graphô*) darluniad o'r dyfrlynolion, dysgriflad o'r gwaedlynolion, corfflynaeth.

Lymphy, *a.* dyfrlynaidd, corfflynaidd, gwaedlynaidd.

Lyncean, *a.* (o'r Ll. *lynceus*) perthynol i'r lyncs.

Lynch, *v. a.* (oddi wrth un *Lynch*, amaethwr yn Virginia, America) cospi â chyfraith y pastwn; arfer cyfraith y pastwn; cospi heb gyfraith; cymmeryd y gyfraith yn ei law ei hun.

Lynch-law, *s.* cyfraith y pastwn; cyfraith y dwrn; trechaf treisied.

Lynx, *s.* (Ll.; Gr. *lugx;* oddi wrth *Lynceus*, un o'r Argonautiaid) lyncs, danasflaidd, danysflaidd=math o fwystfil brith llygadgraff, tebyg i gath, â chlustiau hirion topynog iddo.

Lynx-eyed, *a.* llygadgraff, craff ei olwg.

Lyra, *s.* (Ll.) Telyn Arthur, y Delyn=enw hen gydser.

Lyrate, } *a.* (o *lyre*) telynaidd, ar lun telyn,
Lyrated, } ar ddull telyn.

Lyrate leaf—dalen ar lun telyn, dalen delynaidd.

Lyre, *s.* (Ff.; Ll. *lyra;* Gr. *lura*) telyn, telan.

Lyre-shaped—ar lun telyn, telynaidd.

Lyric, } *a.* (Ll. *lyricus;* Ff. *lyrique*) telynol,
Lyrical, } telynaidd; i'w ganu gyda'r delyn; i'w canu gyda'r delyn.

Lyric poems—telynegion, caniadau telynol, canau telynol, cerddi telynaidd; cywyddau gân dant, canau gyda thelyn.

Lyric poetry—prydyddiaeth delynol, barddoniaeth delynol, prydyddiaeth delynaidd.

Lyric poet—telynfardd, prydydd telynol, telynegwr; â wnel gywyddau gân dant.

Lyric, *s.* telyneg, cân delynol, cerdd delynol; cân gyda thelyn, cywydd gân dant; *pl.* telynegion.

Lyricism, *s.* cyfansoddiad telynol, cân delynol; telynegiaeth.

Lyrist, *s.* telynor, telynwr, telynior, telyniwr, teleiniwr, telynai: *pl.* telynorion: *f.* telynores, telynes.

Lys, *s.* hydfesur Chineaidd=533 llath.

Lysimachia, *s.* (Gr. *lusis* a *machê*) trewynyn, canclwyf, ocinioglys.

Lyssa, *s.* (Gr. *lussa*) cynddaredd, y gynddaredd.

Lyterian, *a.* (Gr. *lutêrios*) â derfyno olefyd; yn terfynu olefyd; terfynol.

Lythrode, *s.* delidfaen â geir yn Norwy.

Lythrum, *s.* (Gr. *luthros*) gwyarllys, llysiau y milwr.

M.

M, fel rhifnod, a saif am fil=1000.
Maam, *s.* (talfyriad o *madam*)=*Madam*.
Maar, *s.* (Al.) llosgorel â llynoedd ynddo; llŷn llosgfal.
Maasha, *s.* darn bath yn yr India Ddwyreiniol.
Mab, *s.* (C. *mab*) brenines y tylwyth teg, brenines yr elod, chwimpleian, chwibleian, arellylles, ellylles, gorwylles; budrog, budrogen, ysiebren, hafnai, llaesen.
Mab, *v. n.* gwisgo yn anghryno, yn annyben, yn annhaclus, yn annestlus, *neu* yn esgeulus.
Mac, *s.* (Gw. a Gael.) mab, ab, ap.
David Mac Fergus—Dafydd ab Ffergus.
John Mac Grigor, } Ioan ab Gregor.
John M'Grigor, }
Macadamise, *v. a.* (oddi wrth I. C. *Macadam* neu *Mc Adam*, y dyfeisydd) mân gerygo; cuddio â briw geryg mân; tori ceryg ar; cyweirio â cheryg wedi eu briwo; taenu mân geryg dros; Macadameiddio.
Macadam-road, *s.* ffordd wedi ei chyweirio â cheryg wedi eu briwo; ffordd wedi taenu mân geryg briwedig ar hyd-ddi; ffordd wedi tori ceryg ar hyd-ddi; ffordd Macadam; ffordd yn ol dull Macadam.
Macaroni, *s.* (Ff.; It. *maccheroni*) brithfwyd, cordfwyd, peillud Italaidd; brithyn, coegyn, ysgoegyn, ysgentyn, digrifwas, ffrilyn, ffrityn, cymmysg, cymmysgedd, brithodbeth.
Macaronic, *a.* brithieithig, brithieithog, brithieithol, briwieithig; cymmysg, brith, (*f.* braith); coeg, gwag, gorwag, ofer, oferwag, penchwiban, mursenaidd, coegaidd, coegynaidd.
Macaronic poem—brithgan, breithgan, cân gymmysgiaith, cân frithiaith, cân friwieithig.
Macaronic, *s.* brithgan, breithgan, digrifeg frithiaith; brithiaith; cymmysgedd, cymmysg, brithodbeth.
Macaroon, *s.* (Ff. *macaron*) perfwyd; perdeisen âg almonau ynddi; teisen almon; †brithyn, coegyn.
Macaw, } *s.* rhywogaeth o barotiaid.
Macao, }
Macaw-tree, *s.* math o balmwydden.
Maccoboy, } *s.* math ar drewlwch wedi ei ber-
Maccouba, } arogli â rhosnur.
Mace, *s.* (It. *mazza*; Ff. *masse*) berllysg, byrllysg, brysgyll.
Mace, *s.* (Ll. *macis*) pergib, pergibyn, chwegring, mas; cibyn peraroglus y bergneuen.
Mace-ale, *s.* cwrw pergib, dîod berlysieuog.
Mace-bearer, *s.* berllysgwr, byrllysgwr, brysgyllwr, dygiawdr y brysgyll, arweddawdr y brysgyll, dygiawdr y ferllysg; un yn dwyn brysgyll *neu* ferllysg o flaen uchelswyddog.
Macerate, *v. a.* (Ll. *macero*) teneuo, teneuhau, culhau, truanu, truanhau; gwneuthur *neu* beri i un gurio; gwneuthur yn gul *neu* deneu; peri i un gulhau; mwydo, sicio; rhoi *neu* ddodi yn mwyd; rhoi *neu* ddodi yn wlych; dyfrhau.
Maceration, *s.* culhad, teneuad, teneuhad; pariad yn gul ac yn deneu; mwydiad, siciad; rhoddiad *neu* ddodiad yn mwyd; rhoddiad *neu* ddodiad yn wlych.
Mace-reed, } *s.* rhodell, cynffon y gath, ffon y
Reed-mace, } plant, ffynwewyr y plant, ffynwewyr ellyllon, hesgen felfedog, penmelfed, calfelfed, rholbryn.
Great mace-reed, } cynffon y gath fwyaf,
Great reed-mace, } hesgen felfedog fwyaf.
Lesser mace-reed, } cynffon y gath leiaf,
Lesser reed-mace, } hesgen felfedog leiaf.
Machiavelian, *a.* (oddi wrth N. *Machiavel* neu *Machiavelli*) cyfrwysgall, cyfrwysddrwg, cyfrwys, ystrywgar, ffel, ffalst; cyfrwys mewn llywodolion; ystrywgar mewn pynciau gwladwriaethol: perthynol i Machiavel *neu* i'w egwyddorion.
Machicolated, *a.* âg ynddo dyllau i arllwys hylif poeth ar ben y gelyn.
Machicolations, *s. pl.* (Ff. *mâchicoulis*, *mâchecoulis*) tyllau i dywallt plwm brwd, a'r cyffelyb, ar ben y gelyn.
Machinal, *a.* (o *machine*) peiriannol, ermigol; perthynol i beiriant.
Machinate, *v. a.* (Ll. *machinor*) dyfeisio, llunio, dychymygu, dychymyg; llunio *neu* ddychymyg yn ystrywgar; cynllunio; dichellu.
Machination, *s.* dyfeisiad, lluniad, dychymygiad, ystrywiant, dyfeiswaith, dichellwaith, dychymyg, dyfais, ystryw, dichell, mais, dychymyg ystrywgar, dychymyg ystrywgar, dychymyg ystryw.
Machinator, *s.* dyfeisiwr, dyfeisydd, dychymygwr, dychymygydd, meisiwr, dichellydd, cynlluniwr ystrywgar.
Machine, *s.* (Ff.; Ll. *machina*; Gr. *machana*, *mêchanê*) peiriant, ermig; offeryn.
Weighing machine—peiriant pwyso, pwysiaden.
Machine, *v. a.* argraffu âg argraff-beiriant.
Machinery, *s.* peirianwaith, peiriannaeth; dychymygwaith peiriant; peiriannau.
Machinist, *s.* peiriannydd, peiriannwr, ermigydd, ermigwr.
Macigno, *s.* (It.) math o gareg.
Macilency, *s.* culder, culdra, culni, teneuder.
Macilent, *a.* (Ll. *macilentus*) cul, teneu, truan, achul.
Mackerel, *s.* (Is. *mackreel*; Al. *mackrels*) macrell: *pl.* mecryll, macrelliaid: *dim.* macrellyn.
Mackerel-sky—wybr fraith fel macrell.
Mackerel, *s.* (hen Ff. *maquerel*) llatai, llotai, bryntwas.
Macle, *s.* (Ll. *macula?*) ymgroesfaen, ceusgerfaen, maglem.
Maclurite, } *s.* (oddi wrth Gwilym *Maclure*)
Maclureite, } math ar ddelidfaen.

Macrocosm, *s.* (Gr. *macros* a *cosmos*) y byd mawr, y bydysawd, y bedyssawd, y byd.
Macrodactyles, } *s. pl.* (Gr. *macros* a *dactulos*)
Macrodactyli, } hirfysogion=enw teulu o adar, yn nhrefniant Cuvier.
Macrology, *s.* (Gr. *macros* a *logos*) hirchwedledd, hirchwedl, hirymadrodd; gormodedd geiriau.
Macropodians, *s. pl.* (Gr. *macros* a *pous*) hirbedogion; morgopynod.
Macropus, *s.* (Gr. *macros* a *pous*) hirdroed, hirdroediaid; y Cangarŵ.
Macrostomata, *s. pl.* (Gr. *macros* a *stoma*) hirfantogion.
Macrotypous, *a.* (Gr. *macros* a *tupos*) hirffurf, hirffurfiog; âg iddo lun hir.
Macroura, } *s. pl.* (Gr. *macros* ac *oura*) hir-
Macrourans, } lostogion=teulu o feddalogion.
Macrourous, *a.* hirlostog, hirgynffonog; perthynol i'r hirlostogion.
Mactation, *s.* (Ll. *macto*) lladdiad aberth, aberth-laddiad.
Macula, *s.* (Ll.) màn, brycheuyn, brychyn, brych, ysmotyn, magl, ysmot: *pl.* manau, brychau, ysmotiau.
Maculate, *v. a.* (Ll. *maculo*) mànu, brychu, ysbrychu, ysmotio; diwyno, llytrodi, llychwino.
Maculate, } *a.* manog, ysmotiog, brych, brych-
Maculated, } lyd.
Maculation, *s.* màniad, ysbrychiad, ysmotiad; màn, ysmotyn, brych.
Macule, *s.* (Ll. *macula*) màn, ysmotyn, brych, magl.
Mad, *a.* (S. *gemaad*) ynfyd, gwallgofus, gwallgof, gorphwyllog, cynddeiriog, cynneiriog, cynddeirus, iwin, gorwyllt, chwibwrn, gwibwrn, ffol, ffyrnig.
A mad person—un ynfyd, un gorphwyllog, &c.
A mad dog—ci cynddeiriog, ci cynneiriog.
As mad as a March hare—yn ynfydwyllt, yn ynfyd gwyllt.
Raving mad, } cynddeiriog gwyllt, cyn-
Stark mad, } ddeiriogwyllt, ynfyd gwyllt, ynfydwyllt, tra ynfyd, pur ynfyd, ynfyd iawn, ynfyd dros ben, ynfyd hollol, hollol ynfyd.
He is stark mad—y mae efe yn ynfydwyllt; y mae efe yn wyllt chwibwrn; y mae efe yn hwdwl.
If he were not stark mad—oni bai ei fod ef yn ynfyd cynddeiriog *neu* gynnwynol; pe na bai ef yn ynfyd cynddeiriog; oni bai ei fod yn ynfyd gwyllt; oni bai ei fod yn ynfydwyllt; pe na bai ef yn ynfydwyllt.
To run mad—myned *neu* redeg yn gynddeiriog; myned yn ynfyd; myned allan o'i gof; myned i maes o'i gof; ynfydu; myned yn waened.
Half-mad — lledynfyd, hanner gwallgof, lledhurt, lled hurt.
Mad on doing a thing— ar dân i wneuthur peth; ar dân am wneuthur peth; yn dân am wneuthur peth.
To be mad—bod yn ynfyd, &c.; ynfydu, ymgynddeiriogi, anmhwyllo, gorphwyllo, gwallgofi, ansynwyro, ymlefeiydd.
To make mad—gyru yn ynfyd, &c.; peri gorphwyllo, gwallgofi, *neu* ynfydu; gwallgofi, pendifadu.
To run madding after a thing—rhedeg yn wyllt ar ol peth; rhedeg yn dân ar ol peth.
Have I need of mad men, that ye have brought this fellow to play the mad man in my presence?—ai eisieu ynfydion sydd arnaf fi, pan ddygech hwn i ynfydu o'm blaen i (1 *Sam.* xxi. 15)?
Mad, *v.* ynfydu, cynddeiriogi, gwallgofi, gorphwyllo; gwneuthur yn ynfyd *neu* gynddeiriog; myned yn ynfyd *neu* gynddeiriog.
Mad, } *s.* (S. *matha*; Goth. *matha*) amwydyn,
Made, } abwydyn.
Madam, *s.* (Ff. *madame*, o *ma* a *dame*) meistres, arglwyddes, arlwyddes, madon, rhies, unbenes; fy meistres, fy arglwyddes, fy arlwyddes, fy rhies, fy unbenes.
Madapple, *s.* chwidrafal.
Madbrain, } *a.* penboeth, penwan, penchwib-
Madbrained, } an, penffol, chwidr, chwibwrn, gwibwrn, chwidrog, nwydwyllt, ehud, penysgafn, penfrag, byrbwyll.
Madcap, *s.* (*mad*, a *caput* neu *cap*) un chwidr, penboeth, penwan, penffol, *neu* benchwiban; chwidryn, chwidrogyn, ffwlcyn, (*f.* ffolcen), catffwl, ynfydwas, ynfydyn, ynfyd.
Madden, *v.* ynfydu, gwallgofi, gorphwyllo, cynddeiriogi, cynneiriogi, creuloni, gwylltio, llerthu; gwneuthur yn ynfyd *neu* gynddeiriog; myned yn ynfyd *neu* gynddeiriog; colli ei gof.
Madder, *s.* (S. *mæddere*) gwreiddrudd, cochwraidd; lliw coch.
Wild madder—gwreiddrudd gwyllt, madr.
Field-madder — gwreiddrudd gwyllt, gwreiddrudd y maes, cochwraidd y maes, maesgoochwraidd.
Little field-madder—corwreiddrudd, Sherardia glas.
Madefaction, } *s.* (Ll. *madefacio*) gwlychad,
Madefication, } gwlybhad, mwydiant, gwlybiant.
Madefy, *v. a.* (Ll. *madefio*) gwlychu, gwlybhau, lleithio, gwlybiannu, gwlybu, gwlybio, ynystäu, mwydo; gwneuthur yn wlyb.
Madeira, *s.* (=ynys yn y Môr Atlantig) gwin Madeira.
Mademoiselle, *s.* (Ff.) meistresan, meistresig, penesan, penesig; fy meistresan, fy mhenesau.
Madheaded, *a.* penffol, penwan, penchwiban, chwidr, ehud, nwydwyllt, byrbwyll.
Madhouse, *s.* ynfytty, gwallgofdy, gorphwylldy, gorphwyllfa, ty gwallgofiaid.
Madid,† *a.* (Ll. *madidus*) gwlyb, llaith, ynwst.
Madly, *ad.* yn ynfyd, &c.
Madman, *s.* dyn ynfyd, gwallgofus, gorphwyllus, *neu* orphwyllog; ynfyd, ynfydyn, gorphwyllyn, un gorphwyllog, un gwallgofus, ynfydwas.
Madness, *s.* ynfydrwydd, gorphwyll, gwallgof, gwallgofrwydd, cynddaredd, cynddeiriogrwydd, ynfydrwydd cynddeiriog, anmhwyll, gorphwyllni, lledfryd, lledfrydigrwydd, gwall synwyr; llerthedd, llerthwch, ffroch, ffyrnigrwydd.
Madness of dogs—cynddaredd.
Madonna, } *s.* (It. *madonna*; Ysp. *madona*)
Madona, } Rhianon; arglwyddes, arlwyddes; fy arglwyddes; darlun Mair Forwyn.
Madrepore, *s.* (Ysp. *madre*, a *pore*) cellwylar, serwylar.

Madreporite, *s.* serwylarith=math o esgyrn maeneiddiedig.
Madreporite, *s.* serwylarith=math o galchen.
Madrigal, *s.* (Yap. a Ff.; It. *madrigale*) bugeilgan, meigerdd, hoenusgan; hoenalaw.
Madwort, *s.* cynghafan mwyaf.
Maestoso, *a.* (It.) mygreddus, mawreddig; grymus.
Maffle,† *v. a.* cecian, yrthio; bod âg attal dywedyd arno.
Maffler,† *s.* ceciwr, yrthiwr, bloesgwr.
Magazine, *s.* (Ff. *magasin*) ystorfa, ystordy, ystorgell, trysorfa, trysorgell, cronfa, percell, cludlan; greal, cylchgrawn, eurgrawn: *pl.* grealon, cylchgronau.
Magazine of arms—arforsaf, arfdy, gorsaf arfau, gorsaf arf, arfle, arfystorfa, arfgell, ty arfau, ystordy arfau, cronfa arfau.
Monthly magazine—greal misol, cylchgrawn misol, trysorfa fisol; misgrawn.
Magaziner, *s.* grealwr, cylchgronwr; ysgrifenydd i real *neu* drysorfa.
Mage,† *s.* (Ll. *magus*) swynwr, hudol, dewin.
Magellanic Clouds, *s. pl.* cymylau Magelanig, cymylau Magalhaens, ser-gymylau (ger pegwn y De).
Maggot, *s.* (C. *macai, maceiod*) cynronyn, macai, maceiad, magïen, maceien, chwilioryn, chwileryn, chwiler, bwcai; mympwy, asbri, nwyth, chwidredd, chwilen pen, penchwilen: *pl.* cynron, maceiod, maceiaid, magïod.
To breed maggots—cynroni, magu cynron.
Maggottiness, *s.* cynronllydrwydd, cynronogrwydd.
Magotty, *a.* cynronllyd, cynronog; llawn cynron; anwadal, oriog, gwamal, penchwiban, nwythig; â chwilen yn ei ben.
Magotty-headed, *a.* penchwiban, penysgafn, penchwilog, mympwyol, oriog, anwadal, gwamal; â chwilen yn ei ben; â magïen ar ei ymenydd.
Magi, *s. pl.* (Ll.) Doethion y Dwyrain, y Doethion o'r Dwyrain; Magiaid, Dwyrathronwyr, Doethofyddion, Dwyrofyddion.
Magian, *a.* (Ll. *magus;* Gr. *magos*) perthynol i Ddoethion y Dwyrain; yn perthyn i'r Doethion o'r Dwyrain; doeth; dwyrathronaidd, dwyrofyddol.
Magian, *s.* Dwyrathronydd, Dwyrofydd; un o Ddoethion y Dwyrain; Magiad.
Magianism, *s.* athroniaeth, ofyddiaeth, *neu* athrawiaeth Doethion y Dwyrain; Dwyrofyddiaeth, Dwyrathroniaeth, Magiaeth.
Magic, *s.* (Ll. *magia;* Gr. *mageia,* o *Magos*) swyn, dewiniaeth, hudoliaeth, swyngyfaredd, swynyddiaeth, swynoliaeth, dewindeb, dewindebiaeth, celfyddyd swyno, celfyddyd hudoliaeth, swynofyddiaeth, rhin, llygattyn, gorcheiniaeth.
Magic, *a.* swynol, hudol, hudolaidd, hudolus, cyfareddus, cyfareddol, swyngyfareddus, rhiniol; lledrithiog, lledrithiol, lledrithaidd, hudlawn, rhinfawr; perthynol i swynion a rhiniau; rheibiol; denol, hyfrydlawn, swynedigol; hyfryd diwrthladd; â dyn serch un yn anorchfygol; yn tynu *neu* ennill serch un yn anorchfygol; yn gweithio drwy swyngyfaredd; gorcheiniol; hyfryd.
Magic wand—hudlath.
Magic lantern — hudlygorn, hudlugern, llusern ledrith, llugorn lledrith.
Magic art—swynyddiaeth, swynofyddiaeth, celfyddyd swyno, celfyddyd hudoliaeth, dewiniaeth, dewindebiaeth, swyngyfaredd.
By magic numbers and persuasive sound—trwy odlau ter a hudlawn, a seiniau lu swynol iawn.
Magically, *ad.* yn swynol, &c.; trwy swynion a rhiniau.
Magician, *s.* swynwr, swynydd, dewin, dewinwr, cyfareddwr, swyngyfareddwr, hudol, gorcheiniad, rhinwr, rhiniwr, llygattynwr, chwidw, chwidog, swynoglwr, hudwr, hudolwr, darswynwr, swynofydd.
Magician's wand—hudlath. [iaid.
Master of the magicians—penaeth y dewin-
Magilp, *s.* cymmysg gludaidd, arferedig gan gelfaduron.
Magisterial, *a.* (Ll. *magister*) meistrolaidd, meistrol, meistraidd, awdurdodaidd, awdurdodol, meistrolaethus, meistrolgar, meistrolaethgar, arglwyddaidd; awdurdodol fel meistr; ffroenuchel, trahäus, balch, uchelfalch, chwyddedig, effrom; doethoraidd; rheolgar; yn perthyn i ysbylor.
Magisterialness, *s.* meistrolgarwch, meistroledd, meistroldeb, meistrolrwydd, arglwyddeiddrwydd, awdurdodeiddrwydd, tra-arglwyddiaeth; balchder, ffroenuchder, trahausder.
Magistery,† *s.* (Ll. *magisterium*) math o ysbylor.
Magistracy, *s.* (o *magistrate*) swyddogaeth, penswyddogaeth, uchelswydd; swydd, rheolaeth, awdurdod, llywodraeth, llywyddiaeth; heddynadaeth, heddyngneidiaeth; y penswyddogion, yr heddynadon, yr heddyngnaid, y corff o heddyngnaid.
Magistral,† *a.* heddynadol, heddyngnadol; yn gweddu i benswyddog; awdurdodol; cyfrwys; cywrain, celfyddol.
Magistral,† *s.* prif feddyginiaeth.
Magistrality,† *s.* tra-awdurdod mewn tyb *neu* farn.
Magistrally,† *ad.* yn awdurdodol, yn dra awdurdodaidd.
Magistrate, *s.* (Ll. *magistratus*) penswyddog, heddynad, heddyngnad, ynad heddwch, ynad, barnwr, gorseddog, swyddog, swyddwr; llywodraethwr, llywiawdwr; maer; ardwyad.
Magistratic, *a.* penswyddogol, heddynadol; â chanddo awdurdod penswyddog *neu* heddynad.
Magistrature, *s.* penswyddogaeth, swyddogaeth, uchelswydd, heddynadaeth; y penswyddogion, yr heddynadon.
Magma, *s.* (Gr.) cymmysgedd llymrig o ddefnyddiau delidaidd neu gyfluniol mewn ansawdd gwydn teneu.
Magna Charta, *s.* (Ll.) y Freintlen Fawr, y Ddeffen Fawr, Gorfreintlen.
Magnanimity, *s.* (Ll. *magnanimitas*) mawrfrydigrwydd, mawrfryd, mawrfrydedd, gorfrydedd, gwrolfryd, mawrwriaeth, mawrwri, gwroredd, mawrbwyll, mawredd bryd a meddwl, mawredd meddwl, hirfrydigrwydd, mawredigrwydd, dewrder, gwroldeb.
Magnanimous, *a.* (Ll. *magnanimus*) mawrfrydig, mawrfrydus, hirfrydig, gorfrydig, mawrwraidd, glewfryd, mawr ei fryd, uchelfryd, ehydr; dewrwych, gwrolwych, dewr, gwych; arddorchog, godidog, uchelwych; mawreddog, mawrydig.

Iagnate, *s.* (Ll. *magnas, magnatis*) pendefig, pendeddig, uchelwr, dyledog, boneddig: *pl.* pendefigion, dyledogion, gorchoddion, goreugwyr.

Magnesia, *s.* (Ff. *magnésie;* oddi wrth *Magnesia,* lle ei caed gyntaf?) math o sylwedd daiaraidd, gwŷn, diflas, a gwrthsur; tudbaill, crilysnur.

Sulphate of magnesia—hal Epsom, halan Epsom, ufelgris Magnesia, ufelawd tudbaill.

Magnesian, *a.* Magnesiaidd; yn cynnwys Magnesia; tudbeillaidd.

Magnesian limestone — calchen dudbeillaidd, calchfaen Magnesiaidd.

Magnesite, *s.* Magnesia ulyfedig; Magnesia yn gymmysg â challestr.

Magnesium, *s.* sawd delidaidd Magnesia.

Magnet, *s.* (Ll. *magnes,* o'r Gr. *magnês,* a hwnw o *Magnesia,* yn Asia Leiaf) ehedfaen, tynfaen, hedfaen, maen ehed, maen tynu, tryfaen, attynfaen, llithfaen, tywysfaen.

Magnetic, } *a.* perthynol i'r ehedfaen; yn
Magnetical, } perthyn i'r tynfaen; tynfeinin, tynfeinig, hedfeinin, ehedfeinin, ehedfeinig, tryfeinig, ehedfaenol, tryawchol, tryawchaidd, tryfaenol, tynfaenol, tynfaenaidd; o rinwedd a gwyrth yr ehedfaen; attynol, dymgyrchol.

Magnetically, *ad.* trwy dynwyrth, trwy dryawch; trwy rym attyniad; yn dynfeinin, &c.

Magneticalness, *s.* tynfeinigrwydd, tryfeinigrwydd, tryfaenolrwydd, tryawchei ldrwydd.

Magnetiferous, *a.* yn cynnyrchu *neu* arwain tynwyrth; ehedfaenog, tynwyrthiog.

Magnetics, *s.* tynfeineg, tynwyrtheg; gwyddor *neu* egwyddorion tynwyrth.

Magnetism, *s.* tynwyrth, tryawch, rhinwedd yr ehedfaen; attyniaeth.

Animal magnetism—mildynwyrth, mildryawch, milattyniaeth; Mesmeriaeth.

Magnetization, *s.* tryawchiad, tryawchiant, tynfaeniad.

Magnetize, *v.* tryawchu, tryfaenu, tynfaenu; attynu.

Magnetizer, *s.* tryawchwr, tryawchydd, tryfaenwr.

Magneto-electricity, *s.* hedfaen-drydan, tynfaen-drydan.

Magnetometer, *s.* (*magnet,* a Gr. *metron*) tryawchfesur, tryawchiadyr.

Magnetomotor, *s.* (Ll.) tryawchfodyr, tryfaenchwyfydd.

Magnifiable, *a.* (o *magnify*) mawrygadwy, à ellir ei fawrhau; yn haeddu ei fawrhau.

Magnific, } *a.* (Ll. *magnificus*) mawrwych,
Magnifical, } mawreddog, mawreddig, gorwych, ardderchog, godidog, enwog, hyglod, mawr, urddasol, urddedig.

Magnificat, *s.* (Ll.) CÂn Mair Forwyn, CÂn y fendigedig Fair Forwyn (*Luc* i. 46—55).

To correct the Magnificat—cyweirio y cywair; cywiro y cywîr; cymhwyso y cymhwys; myned yn nghylch gwellhau *neu* ddiwygio yr hyn nid oes eisieu gwellhad na diwygiad arno; cynnyg, chwennych, ceisio, anturio, *neu* brofi perffeithio perffeithrwydd ei hun.

Magnificate,† *v. a.* mawrhau, mawrygu.

Magnificence, *s.* (Ll. *magnificentia*) mawrwychder, mawrwychedd, mawrwychdra, mawredd, gorwychder, gorwychedd, mawreddigrwydd, mawreddogrwydd, mawreddusrwydd, mawrhydi, mawryd, ardderchogrwydd, gwychder, argoniant.

Magnificent, *a.* mawrwych, mawreddus, mawreddog, mawreddig, mawrydig, gorwych, ardderchog, godidog, gwych, harddwych, diwael, prydfawr, erfawr, ysblenydd.

A magnificent tower on the brow of the hill—tŵr diwael ar ael yr allt.

A magnificent feast—gwledd ddestlus ddiamdlawd; gwledd fawrwych, &c.

Magnifico, *s.* (It.; Ll. *magnificus*) pendefig (yn Ngwenethia neu Venis).

Magnifier, *s.* mawrygwr, mawrygydd, mawrhäwr, molydd, moliannwr; chwyddwydr, chwyddwydryn, mwyedydd, crymlain fwyhaol, syllwydr mwyhau.

Magnify, *v. a.* (Ll. *magnifico*) mawrhau, mawrygu, mawreddu, mawrio; gwneuthur yn fawr o; moli, moliannu, clodfori; mwyhau, mwyadu, gwneyd yn fwy; peri i beth ymddangos yn fwy nag y bo.

To magnify one's self—ymfawrygu, ymfawrhau.

Magnifying power — chwyddall, chwyddallu, gallu mwyhaol, grym mwyhaol, grym mawrhaol.

Magnifying glass—chwyddwydr, chwyddwydryn, mwyadyr, syllwydr mwyhaol, gwydr mwyhaol, syllwydr mwyhau, gwydr mwyhau.

This glass magnifies objects very much—y syllwydr hwn a fwyha wrthrychau yn ddirfawr.

Tending to magnify — mawreddol, mawrygol, mawredigol, mawrygus.

Magniloquence, *s.* (Ll. *magniloquentia*) uchelaith, mawriaith, rhodresiaith, chwyddiaith, mawreiriogrwydd, mawrair, geirfawredd.

Magniloquent, } *a.* (Ll. *magniloquus*) mawr-
Magniloquous, } eiriog, mawrieithog, uchelieithog, chwyddieithog, geirfawr, chwyddedig.

Magnitude, *s.* (Ll. *magnitudo*) maint, maintioli, maintiolaeth, meintiolaeth; mawrder, mawredd; helaethder; sum.

Magpie, *s.* (C. *pi, piog;* Ll. *pica*) pioden, piogen, pi, pia: *pl.* piod, piogod.

Maguey, *s.* math ar elyw Americaidd.

Mahal, *s.* talaeth, rhandir, parth (yn yr India Ddwyreiniol).

Mahlstick, *s.* (Al. *mahlen-stock*) atteglath paentiwr, attegffon paentiwr, ffon atteg paentiwr.

Mahogany, *s.* y pren Mahogani.

Mahound, *s.* (o *Mahomet* neu *Mohammed*) un drwg galluog; Andras; dieflyn.

Mahwa, } *s.* math o goed perthynol i'r India
Mohwa, } Ddwyreiniol.

Maid, } *s.* (S. *mægth*) morwyn, gwyryf, geneth,
Maiden, } eigr, bun.

A little maid—morwynig, genethig, genethan, eigren.

An old maid—henferch, hen ferch.

Maids of honour—llawforwynion y freninesi; morwynion mygedog, morwynion mygedol, llawforwynion myged, parchforwynion.

Waiting maid—llawforwyn, morwyn bres.

Nursery-maid—morwyn fagu. [wyl.

Betrothed maid—morwyn-wraig; morwyn wedi ei dyweddïo; merch wedi ymgredu â gwr.

Maid, *s.* rhaien, rhwchws, morgath.
Maiden, *s.* morwyn, torben=math ar offeryn torfynyglu.
Maiden, *a.* morwynol, morwynaidd, gwyryfol, gwyryfaidd, gwyrydd, eigraidd, morwynain; gwyryf, gwyrf, gwyra, ter, pur, dihalog, diwgr, diwair; newydd; ieuanc.
Maiden fee—cowyll.
Maiden rent — gobr, gwobr, *neu* wobr merch; amobr, amobrwy, amwobr.
Maiden speech — araeth wyryf, araeth werf; araeth gyntaf.
Maiden, *v. n.* morwyno; llefaru ac ymddwyn yn wylaidd.
Maidenhair, *s.* (*maiden* a *hair*) briger Gwener, briger Gweno, gwallt Gwener, diwlith, diwlydd, gwallt y forwyn.
Common maidenhair—gwallt y forwyn.
True maiden hair—briger Gwener, briger Gweno, gwallt Gwener, diwlith, diwlydd.
Black maidenhair—dugoesog, duwallt y forwyn.
Common maidenhair spleenwort—duegredyn, gwallt y forwyn.
White maidenhair—duegredyn y muriau, rhuw y muriau.
Black maidenhair spleenwort—duegredyn duon, duegredyn du, dugoesog, duwallt y forwyn.
Maidenhead, } *s.* (S. *mægdenhad*, *mædenhad*)
Maidenhood, } morwyndod, gwyryfdod; purdeb gwyryfaidd, gwyryfedd, gwyryfoldeb, eigraeth.
Maidenlike, } *a.* morwynaidd, gwyryfaidd, gen-
Maidenly, } ethaidd, eigraidd; fel morwyn, fel gwyryf; gwyl, gwylaidd, yswil, gweddaidd; diwair; gwâr.
Maidenliness, *s.* morwyneiddrwydd, gwyryfeiddrwydd; ymddygiad gweddus i wyryf; gwylder, gwarineb.
Maidenlip, *s.* mant y forwyn.
Maidenly, *ad.* yn forwynaidd, fel morwyn.
Maiden-plum, *s.* eirinen y forwyn=planigyn perthynol i'r India Orllewinol.
Maidenmarian, † *s.* bachgen mewn dillad merch; ysgentyn; math o ddawns.
Maidpale, *a.* gwelw (fel geneth glaf), glaswelw.
Maidservant, *s.* morwyn weini, gweinyddes, gweinidoges, gwasanaethferch, gwasanaethyddes, gwasanaethwraig, gwasanaethes, morwyn.
Maildse, } *s. pl.* (oddi wrth *Maia*, merch Altas a
Maians, } Pleione) Maiaid, morgorod, morgopynod.
Mail, *s.* (Ff. *maille;* Ysp. *malla*) rhyfelwisg, cadwisg, cadfael, aerwisg, crudr; llurig, cadbais, curas; arfau, arfogaeth.
Coat of mail—llurig, cadbais, pais ddur, durbais, cynddyl, crys mael, crys dur, llurig emog; curas.
Wearing a coat of mail, } llurigog; dur-
Armed with a coat of mail, } gaen, durgaenog, durgaenedig, cynddylog.
To put on a coat of mail—llurigo, gwisgo llurig, ymlurigo; ymwisgo â *neu* mewn llurig.
To strip one of his coat of mail—dadlurigo un, dilurigo un; dihatru un o'i lurig.
Chain mail—tidlurig, rhwylurig, cadwisg fodrwyog, rhyfelwisg dorchog, cadwisg gadwynog.
Shirt of mail—crys mael, crys dur.
Mail, *s.* (Ff. *malle;* It. *mala*) llythyrgod, cod llythyrau, cod lythyrau, bwlgan, bolgan, bwlan; llythyrgodaid, codaid o lythyrau, y godaid lythyrau.
Mail-car—càr llythyrau, llythyr-gar.
Mail, *v. a.* llurigo, gwisgo llurig am, ymwisgo â llurig; ymarfogi â, ymarfu â; gosod mewn llythyrgod, gosod llythyrau yn y god, llythyrdyo.
Mail,† *s.* (S. *mal;* C. *mâl*, *mael*) ardreth, rhent, treth, mâl; mân, ysmotyn, magl; dolen.
Mail-clad, *a.* llurigog, cadfaelog, durgaen, durgaenog, durgaenedig, cynddylog, cadbeisiog.
Mail-coach, *s.* llythyrglud, llythyrgerbyd, cerbyd llythyrddwyn, cerbyd llythyrau.
Mailed, *a.* llurigog, cadfaelog, durgaen, cynddylog, cadbeisiog; manog, ysmotiog, magliog.
Mail-sheathed, *a.* wedi ei wisgo â llurig; llurigog, cadfaelog.
Maim, *s.* (hen Ff. *mahemer* neu *mahaigner*, â ysgrifenir *Mayhem*, yn iaith y gyfraith) anaf, nam, anafod, enaeleu, enaele, niwed; cloffni; efryddiad; briw.
Maim, *v. a.* anafu; rhoi *neu* ddodi anaf ar un *neu* beth; rhoi *neu* ddodi nam ar un *neu* beth; tori aelod un; briwo; niweidio, myanafu, efryddu, cloffi.
Maimed, *p. p.* anafus; â nam *neu* anaf arno; efrydd, cloff; anafedig; trwch; anmherffaith; anafol.
Not maimed, } dinam, dïanaf; heb nam
Without maim, } *neu* anaf arno.
Maimedness, *s.* anafusrwydd, anafawd, anafoldeb.
Main, *a.* (S. *mægn*) penaf, prif, mwyaf; pwysig; mawr.
Main sea—cyfanfor, cefnfor, cenfor, y môr mawr, y dyfnfor; y weilgi.
The main thing, } y peth penaf, mwyaf,
The main business, } rheitiaf, *neu* angenrheitiaf; y mater penaf, mwyaf, rheitiaf, *neu* angenrheitiaf.
The main chance—y peth penaf *neu* reitiaf.
Main gallop—llawn garlam, llawn bedwarcarniad.
By main force—o wir drais; trwy wir drais; trwy ddirdra; o lwyr anfodd; o anfodd ei galon; trwy wir gryfder; trwy nerth arfau; trwy rym arfau; trwy nerth braich ac ysgwydd.
The main battle—y dromgad, y fargad.
The main body—y corff cyfan.
The main body of an army—corff byddin; y fyddin ganol; y dromgad; canolrenc byddin; rhes ganol byddin.
Main, *s.* y rhan fwyaf; y corff; y cyfan, y cryn-swth, y crynswdd, y sum, yr oll; y prif beth, y prif bwynt; grym, nerth, dirnerth; cyfanfor, cefnfor, y môr mawr; cyfandir; cawell, crowyn; rhedfa; pibell fawr.
With might and main—â'i holl egni; â'i holl allu; â'i holl rym; â'i holl nerth; âg eithaf egni; ddim ag a allai; ddim a'r a allai; yn egniol; ar lawn hwda.
For the main, } ar y cyfan; gan mwyaf;
In the main, } yn benaf, yn amlaf.
The main of them—y rhan fwyaf o honynt.
Main, *s.* (Ff.; Ll. *manus*) llaw ar gardiau; ymladd ceiliogod.

Mainland, *s.* cyfandir.
Mainly, *ad.* yn benaf, yn fwyaf, gàn mwyaf; yn fawr, yn fawr iawn, yn ddirfawr.
Main-mast, *s.* yr hwylbren mawr, yr hwylbren mwyaf, yr hwylbren penaf, y pen-hwyliar, y prif hwylbren, y wernen fawr, y wernen fwyaf, yr hwylbren pen, y wernen ben, y pen-hwylbren, y ben-wernen.
Mainour, *s.* (hen Ff. *manoevre, meinour*) gwaith, gweithred, gorchwyl.
With the mainour—wrth y gwaith, wrth y weithred, ar y weithred.
Mainpernable, *a.* meichiadwy, mechniadwy.
Mainpernour, *s.* mach gorfodog, mach ar gyfraith; mach à ymrwymo tros un ar ddyfod o hono ger bron yr ynad ar y dydd penod; mach, meichiai, meichai.
Mainprize, *s.* (Ff. *main* a *pris*) mechni gorfodog, mechniaeth orfodog; mechwys, machygrif; mechni, mechniaeth; mach.
Mainprize, *v. a.* gadael un yn rhydd ar feichiau; rhwymo dàn feichiau *neu* feicheion; cymmeryd mach *neu* feichiau gàn un; cymmeryd mach gorfodog gàn un.
Main-sail, *s.* yr hwyl fawr, yr hwyl fwyaf.
Main-sheet, *s.* rhaff yr hwyl fawr.
Mainswear, *v. n.* (S. *manswerian*) tyngu anudon, anudoni.
Maintain, *v.* (Ff. *maintenir;* o'r Ll. *manus* a *teneo*) cynnal, dàl, dala, cadw, amddiffyn, diffyn, diffynu, amddiffynu, amwyn, diffred, diffwyn, muneru, myntumio; porthi, darborthi; rhoi ei gynnaliaeth i; arail; gwneuthur yn dda; haeru, taeru, hòni, sicrhau; cyfiawnhau; profi.
To maintain one's character—cadw *neu* gynnal ei air da; cadw ei air da arno; cadw *neu* gynnal ei nodwedd.
To maintain peace—cadw *neu* gynnal heddwch.
To maintain truth—amddiffyn y gwir; myntumio y gwir.
To maintain the privilege of a court—cynnal braint llys.
To maintain a battle *or* fight—cynnal cad, cynnal ymladd; parhau, para, *neu* ddàl yn ymladd.
To maintain one's cause—dadleu dros un; dadleu dadl un; amddiffyn hawl, achos, cwyn, *neu* gweryl un; pleidio achos un; gwneuthur barn i un; dïal cam un.
To maintain one's ground—cadw ei dir, ei le, ei orsaf, *neu* ei sefyllfa; sefyll ar ei dalwrn; dàl ati.
To maintain one in a thing—cynnal *neu* gadw un mewn peth; cynnal, digoni, *neu* ddiwallu un â pheth; rhoddi i un ei wala *neu* ei gyfraid o beth; darparu cynnaliaeth *neu* luniaeth i un; gweini i un mewn peth.
I will maintain it—mi a'i gwnaf ef yn dda; mi a'i gwnaf yn dda; mi a'i profaf.
To maintain good works—blaenori mewn gweithredoedd da (*Tit.* iii. 8).
Maintainable, *a.* cynnaladwy, diffynadwy; à ellir ei gynnal *neu* amddiffyn.
Maintainer, *s.* cynnaliwr, cynneiliad, cynnaliawdr, cynneilydd, myntumiwr, diffynwr, dyborthwr.
Maintenance, *s.* cynnaliaeth, cynneiliaeth, cynnaliawd, cadwraeth, munerawd, myntumiaeth, myntumiad, cynneilyddiaeth; amddiffyn, diffyn; porthawd, porthid; cynnaliad i fyny.
Cap of maintenance—urddasgap, cap cynnaliaeth.
Statute of maintenance—deddf *neu* osodedigaeth na byddo i neb ymyryd âg achos, dadl, *neu* gweryl un arall.
For the maintenance of their sanctuary—er cynnal eu cyssegr (1 *Mac.* xiv. 29).
Main-top, *s.* pen yr hwylbren mawr; llwyfan ar ben yr hwylbren mwyaf; brig-lwyfan.
Main-yard, *s.* yr hwyl-lath fawr, yr hwyl-lath fwyaf, llath yr hwyl fawr.
Maister,† *s.*=*Master.*
Maistress,† *s.*=*Mistress.*
Maize, } *s.* (Gw. *maize*, ymborth?) yd yr India,
Maise, } gwenith yr India, gwenith India, grawn Ind.
Majestic, *a.* (o *majesty*) mawreddog, mawreddus, mawreddig, mawryddig, mawrydig, mawr, mawrwych; ardderchog, godidog, mygr, myg, gwymp; tywysogaidd, breninaidd, breninol; uchelwych, dyrchafedig.
Majestical, *a.*=*Majestic.*
Majestically, *ad.* yn fawreddog, &c.; mewn mawrhydi, gyda mawrhydi, mewn mawredd.
Majesticalness, *s.* mawreddogrwydd, mawreddusrwydd.
Majesty, *s.* (Ll. *majestas*) mawrhydi, mawredd; ardderchogrwydd, ardderchrwydd, mygredd, mygedd, gwychedd, gwympedd, bri, urddas, uchelder; uchelfraint.
The king's majesty—mawrhydi *neu* fawredd y brenin; gras y brenin.
Sacred majesty—gras a mawredd y brenin; cyssegr fawrhydi, cyssegrlan fawredd.
Her most gracious majesty—ei rhadlonaf fawrhydi, ei rhadforaf fawrhydi, &c.
Most catholic majesty—cydolicaf fawrhydi, catholicaf fawrhydi=senw breninoedd yr Yspaen.
Most Christian majesty—Cristianusaf fawrhydi, cristioneiddiaf fawrhydi, Cristionocaf fawrhydi=senw à ddygid gynt gàn freninoedd Ffrainc.
Most faithful majesty—ffyddlonaf fawrhydi=senw breninoedd Portugal.
Major, *a.* (Ll.) mwy; mwyaf; hŷn; hynaf (o ddau).
Major and minor—mwyaf a lleiaf.
The major part—y rhan fwyaf, y pendogn.
Major (in music)—crasalaw.
A major number—y nifer mwyaf, y rhifedi mwyaf; y rhan fwyaf.
Major, *s.* un à gyrhaeddodd oedran gwr; un mewn oed: *pl.* oedogion.
Major, *s.* uchgadben, argadben; maer.
Major-general—meigadfridog, catrodfridog, israglaw cadfridog=y swyddog milwraidd nesaf mewn gradd is yr adgadfridog.
Drum-major—prif dabyrddwr, pen-tabyrddwr.
Aid-major—argadben cynnorthwyol, uchgadben ochlysurol.
Fife-major—prif gadbibydd, pen-cadbibydd, y cadbibydd penaf.
Major, *s.* y rhan fiaenaf (mewn cyfreswm); y rhan *neu* fraich gyntaf (mewn cyfreswm); y gosodiad cyntaf.
Majorat, *s.* hawl olyniaeth i feddiannau yn ol oed.

Majoration,† *s.* cynnydd; helaethiad, mwyhad, cangiad.

Major-domo, *s.* (Ll. *major* a *domus*) rheolwr, goruchwyliwr, meistr, *neu* benaeth ty; dystain; gweinidog penaf.

Majority, *s.* (Ff. *majorité*) y nifer mwyaf, y rhifedi mwyaf, mwyafiaeth, mwyafiant, mwyrif, gorfodrif, trechaf o rif, mwyafrif, rhan fwyaf, mwy rhan, mwy na'r hanner; oedran gwr, llawn oedran, llawn oed; bod un wedi cyrhaedd oedran gwr; †hynafiaid.

To come to one's majority—dyfod i'w gyflawn oed; dyfod i'w oed.

Majority, *s.* (*o major*) uchgadbenaeth, argadbenaeth.

Majusculæ Literæ, *s. pl.* (Ll.) prif lythyrenau, llythyrenau penigol.

Make, *v.* (S. *macian;* Al. *macken*) gwneuthur, gwneyd, gwneuthyd, gwnelyd, gwneddyd, gorugo, gwneuthuro; peri, peru, achosi, effeithio, ffeithio; creu; llunio, ffurfio; tueddu, cyfeirio; myned, codi.

To make account—cyfrif, gwneuthur cyfrif; bwriadu.

To make account of—parchu, prisio, brio, gwneyd cyfrif o, rhoddi pris ar, cyfrif.

To make no account of, } dibrisio, bych-
To make of no account, } anu, diystyru, dirmygu.

To make great account of—mawr brisio; gwneuthur mawr gyfrif o; rhoddi mawr fri ar; gorhoffi.

To make amends—dadolychu; gwneuthur iawn, talu iawn, rhoddi iawn; talu y pwyth.

To make after—rhedeg ar ol; cymmeryd y ffordd ar ol.

To make again—adwneuthur, adwneyd, ailwneuthur, ail-wneyd, gwneuthur drachefn.

To make against—bod yn erbyn; tueddu yn erbyn; gwneuthur yn erbyn; tueddu i niweidio.

To make ashamed—cywilyddio; peri *neu* yru cywilydd ar.

To make as if—ymddangos, ffugio, ffuantu; gwneuthur malpai, gwneuthur mal pe bai; gwneuthur lliw o beth; cymmeryd arno.

To make at one, } myned, cerdded,
To make towards one, } neshau, cyrchu, tynu, *neu* gyfeirio at un; myned, cerdded, neshau, tynu, *neu* gyfeirio tuag at un; rhedeg *neu* hwylio at un; rhedeg *neu* hwylio tuag at un.

To make one acquainted with a thing—hysbysu *neu* fynegu peth i un; peri *neu* wneuthur i un wybod peth; gwneuthur un yn gydnabyddus â pheth.

To make away—lladd, dinystrio; †myned ymaith, cilio ymaith; † trosi, trosglwyddo.

To make away with one's self—lladd ei hun; lladd ei hunan; dybenu ei hun.

To make a bed—taenu, gwneuthur, gwneyd, *neu* gyweirio gwely.

To make free with—bod yn hyf *neu* eofn ar; gwneuthur yn hyf *neu* eofn ar; bod yn rhydd ar; cymmeryd yn rhydd ar; cymmeryd rhyddid ar; trin yn ddiddefod; ymddwyn yn ddiddefod tuag at.

To make for one—bod o ran *neu* blaid un; bod yn fuddiol i un; gwneuthur dros *neu* er un.

To make friends—cymmodi, adgymmodi; ymgymmodi; gwneuthur cymmod, cydfod, *neu* heddwch rhwng; ennill cyfeillion, gwneuthur cyfeillion.

To make men friends—cymmodi dynion, adgymmodi dynion; gwneuthur cymmod, heddwch, *neu* gydfod rhwng dynion; cymmodi, adgymmodi, ymgymmodi, dygymmodi, heddychu, cylafareddu, *neu* dangnefeddu rhwng dynion.

To make friendship with one—ymgyfeillachu *neu* ymgyfeillio âg un; gwneuthur cyfeillach âg un; myned *neu* ymrwymo mewn cyfeillach âg un.

To make haste—brysio, prysuro, ffullio, ffrystio, dyfrystio, ffysgio, crysio, dychrysio, cyflymu; estricio.

Make haste—brysia; brysiwch, &c.; hai.

Make more haste—ymsymmud yn gynt; chwanega dy frys; gwna chwaneg o frys; gwna fwy o frys; gwna fwy brys; brysia.

Why make you no more haste?—pa ham yr oedi? pa ham yr oedwch? pa ham nad ymsymmudi yn gynt? pa ham na wnai fwy o frys?

Make what haste you can back—dychwelwch gyntaf ag y galloch; nac oedwch ddychwelyd; nac oeda ddychwelyd; dewch yn ol cynted ag y galloch.

For this I make haste—am hyn y mae brys arnaf; am hyn yr wyf yn brysio.

Make no more haste than good speed—gân bwyll a gyrhaedd yn mhell; gân bwyll a gerdd yn mhell.

To make post-haste—rhedegfrysio, gorffullio, gwneuthur mawrfrys; brysio yn nerth traed a gwadnau.

To make good—cyflawnu; cadarnhau, profi, sefydlu, sicrhau, gwirio; gwneuthur yn dda; gwneuthur i fyny; talu am; gwneuthur colled i fyny; gwneyd i fyny golled; dwyn y golled; sefyll yn y golled; gwneuthur yr hyn a gollwyd yn dda; amddiffyn, cynnal, diogelu, myntumio; dwyn i ben.

To make the head bare—ymbennoethi; pennoethi, noethi y pen.

To make a judgment of a thing—barnu yn nghylch peth; llunio barn yn nghylch peth; rhoi *neu* ddadgan ei farn yn nghylch peth; rhoi *neu* ddadgan ei feddwl yn nghylch peth; bwrw barn ar beth.

To make the land, } gweled tir, canfod tir,
To make land, } gweled y tir, canfod y tir.

To make light of—bychanu, dirmygu, dibrisio, tremygu, diystyru; gwneyd yn fach o.

To make love, } caru; bod am garu; ym-
To make suit, } erlyn am gariad; ymganlyn am serch; ymerlyn am ewyllys da.

To make less—lleihau; gwneuthur yn llai, &c.

To make a merit of a thing—cymmeryd *neu* dynu clod iddo ei hun oddi wrth ryw beth â wnaeth; ymglodfori *neu* ymogoneddu o herwydd rhyw beth; ymarddelwi o glod ar gyfrif rhyw beth.

To make merry — llawenychu, llawenu, llawenhau, ymlawenychu, gorfoleddu,

ymhyfrydu; bod yn llawen; gwneuthur yn llawen; gwledda.

To make a mock of one—gwatwar un, gwatwor un; chwerthin am ben un, &c.

To make money—gwneyd arian; gwneuthur arian o beth; gwerthu *neu* newidio am arian; troi yn arian; ennill, elwa, *neu* faelio ar beth; ennill, elwa, *neu* faeliaw oddi wrth beth; gwerthu peth er ennill, mael, *neu* elw.

To make the most of—gwneuthur y goreu o beth; gwneyd y goreu o beth; gwneuthur yr eithaf o beth; gwneuthur y goreu ag a allo o beth; gwerthu er y geiniog eithaf; gwerthu peth cyn ddruted *neu* brited ag y gallo.

To make a mountain of a molehill—gwneuthur mynydd o'r malur; gwneuthur moel o'r malur; gwneuthur mynydd o'r myrdwyn; trymhau peth, mawrhau peth; gwneuthur deu-ddrwg o'r un.

To make much of—gwneuthur yn fawr o; mawrhau, parchu, prisio, brio.

To make much of one's self—mawrhau ei hun; ymfawrhau; gwneuthur yn fawr o hono *neu* am dano ei hun; byw yn foethus; byw mewn moethau; ymborthi *neu* ymbesgu ar fwythau; porthi ei fwythau ei hun.

To make a nest—nythu, gwneuthur nyth.

To make a noise—cadw swn, trystio, swnio, synio, seinio, cadw ystŵr, gwneuthur swn, peri swn, gwneuthur trwst, peri trwst; dadwrdd, dadyrddu, dwndro; lleisio; nadu; dadseinio, darstain.

To make nothing of—bod yn afiwyddiannus mewn gorchwyl; methu llwyddo *neu* ffynnu mewn gorchwyl; bod heb allu cyflawnu gorchwyl; methu gàn un ddwyn peth i ben; bod heb elwa *neu* ennill ar; bod heb elwa *neu* ennill oddi wrth; bod heb gael mael *neu* ennill oddi wrth; methu gwneuthur dim o beth: gwneuthur yn hawdd *neu* ddïorchest; gwneuthur heb orchest yn y byd; gwneuthur cyn esmwythed a'r tes.

To make of—gwneuthur o; deall, ystyried, cyfrif.

To make off — myned, rhedeg, *neu* ffoi ymaith; cilio.

To make one, } uno; gwneuthur yn
To make into one, } un.

To make one (amongst a company)—uno; uno â chymdeithas; bod *neu* fyned yn un o'r nifer; gwneuthur yn un o honyn't; gwneuthur yn un yn eu mysg.

To make out—gwneuthur allan; medru, dysgu, deall; cael cymmedr ar; profi; gwneyd yn amlwg; gwneuthur yn dda; llwyddo, ffynnu; llwyddo *neu* ffynnu o'r diwedd; bod yn llwyddiannus o'r diwedd; cynnysgaethu, diwallu.

To make out after one—cyrchu ar ol un; cyrchu gàn geisio un; hwylio, canlyn, *neu* erlyn ar ol un; olrhain un.

To make over—trosglwyddo, trosi; arallu.

To make peace—tangnefeddu, heddychu, gwneuthur heddwch, gwneuthur tangnefedd.

To make a port, } cyfeirio i borthladd;
To make a harbour, } llywio tua phorthladd; troi i borthladd; troi i mewn i borthladd; gwneuthur am borthladd.

To make a present to one—cyflwyno *neu* anrhegu un â pheth; rhoddi anrheg *neu* gyflwyn i un; rhoddi peth yn anrheg i un.

To make a price—gosod, dodi, *neu* roddi pris ar beth; enwi *neu* sefydlu pris peth; gwneyd pris.

To make ready—parotöi; gwneuthur yn barod; gosod, dodi, *neu* roddi ar bâr; darparu, parodi, parodhau; arlwyo, darmerthu.

To make one's self ready—ymbarotöi, ymddarparu; ymwregysu.

To make ready for war—ymbarotöi i ryfel; ymwregysu i ryfel; ymarfogi.

To make room—rhoi lle, gwneuthur lle; myned, troi, *neu* giliaw o'r ffordd; myned, troi, *neu* giliaw oddi ar y ffordd; symmud o'r ffordd; symmud allan o'r ffordd; symmud oddi ar y ffordd.

To make room for—gwneuthur lle i; rhoi lle i; eangu ar.

To make sale of — gwerthu, arwerthu; gwneuthur gwerth *neu* werthiad ar.

To make a show of—gwneuthur lliw o beth; dangos, arddangos.

To make a show of religion—ymddangos yn grefyddol; cymmeryd arno fod yn grefyddol; gwneuthur lliw o grefydd.

To make sure—sicrhau, diogelu; gwneuthur yn sicr *neu* ddiogel.

To make sure of—mynu gafael sicr ar beth; mynu gafael sicr yn mheth; mynu peth yn ddiogel i'w ddwylaw *neu* feddiant; edrych ar beth megys yn sicr; bod heb ammheu yn nghylch peth.

To make towards a person—myned, cerdded, neshau, nesu, cyrchu, tynu, cyfeirio, *neu* hwylio at un; myned, cerdded, neshau, nesu, tynu, cyfeirio, *neu* hwylio tuag at un.

To make up—gwneuthur i fyny; gwneuthur; cyflawnu, cwblhau; gwneuthur yn dda; cymmodi, heddychu; cyweirio, diwygio; cyfansoddi; llunio, ffurfio; penderfynu; neshau, dynesu.

To make up an account—bwrw cyfrif.

To make up accounts of mutual credit—mantoli, cyfartalu, *neu* gymharu cydgyfrifon; cydfantoli cyfrifon.

To make up a letter—plygu llythyr.

To make up a loss—diwygio colled; gwneuthur colled i fyny; gwneyd i fyny golled; digolledu.

To make up one's mouth—gwneuthur min, gwneyd gwep; crynöi *neu* grynhau ei ên.

To make up a match *or* marriage—gwneuthur priodas rhwng mab a merch; dwyn mab a merch yn nghyd a pheri priodas rhyngddynt; gwneyd priodas i fyny.

To make up one's want of parts by diligence—diwygio pylni ei synwyrau drwy gyflymdra *neu* wresogrwydd ei gais *neu* ymroadau; cyflawnu diffyg *neu* fyrdra ei ddoniau â dyfalwch a diwydrwydd.

To make up a quarrel—penu ymrafael *neu* ymryson; gwneuthur pen ar ymryson *neu* ymrafael; cymmodi dau yn ymrafaelio;

gwneuthur cymmod rhwng dau yn ymrafaelio.
To make up with—gwneuthur i fyny âg; ymgymmodi â.
To make use of—defnyddio, arfer, arferu; gwneuthur defnydd o.
To make verses—gwneuthur pennillion; prydu, prydyddu, cywyddu, mydru.
To make war—rhyfela, rhyfelu, gwneuthur rhyfel, llüydda.
To make war upon—dwyn rhyfel ar; myned i ryfel â; myned i ryfel yn erbyn.
To make water—troethi, gwneuthur dwr, gollwng trwnc, piso; gollwng dwfr.
To make way—rhoi ffordd, ciliaw o'r ffordd, troi o'r ffordd, cilio yn ol.
To make way for one—rhoi ffordd i un; ciliaw o ffordd un; ciliaw oddi ar ffordd un; rhoi lle i un; arloesi *neu* arlloesi y ffordd o flaen un; gwneuthur ffordd i un; gwneuthur ffordd rydd i un.
To make words—amlhau geiriau.
To make words about a thing—amlhau geiriau yn nghylch peth; ymeirio yn nghylch peth; gwneuthur geiriau yn nghylch peth.
To make with—cydsynio, cytuno.
To make sail (in seamen's language)—chwanegu yr hwyliau; lledu mwy o hwyliau.
To make sternway—myned *neu* hwylio â phen ol y llong yn mlaen; hwylio â'r llyw yn mlaen; hwylio *neu* symmud yn llwrw y llyw.
This makes for me—y mae hyn o'm plaid, o'm rhan, *neu* o'm hochr i.
This makes nothing against me—nid yw hyn ddim i'm herbyn; nid yw hyn ddim yn fy erbyn; nid oes yma ddim i'm herbyn; nid oes yma ddim yn fy erbyn.
I make no question of it—nid wyf yn ammheu mo hono; nid wyf yn ammheu mo hyn *neu* hyny.
He makes it his study—rhydd ei fryd ar hyn; rhy ei fryd ar hyn; mae ei fryd ar hyn; ar hyn y mae ei fryd a'i fwriad; meddylfryd ei galon ydyw; ei holl fwriad ydyw.
Make no tarrying *or* delay—nac oeda, (*pl.* nac oedwch); na hir drig, na hirdrig.
He knows how to make his market—efe a fedr ymddwyn yn ol yr achos; efe a fedr gydymagweddu â'r amseroedd *neu* â'r tymmorau; edwyn ei dymmor.
He knows how to make the best of a bad market — medr wneuthur y goreu o'r gwaethaf.
He does not make that his business—nis gwna hyny yn orchwyl iddo; nid ymrydd i hyny; nid ymry i hyny.
Make a virtue of necessity — cymmer gyngher gàn angen; tro raid yn rheswm; dwg yn ddyoddefgar y baich ni elli ei ochelyd *neu* wrthod.
I will make her angry with you—paraf iddi ddigio wrthych; gwnaf iddi ddigio wrthych.
What makes you so merry?—beth sy'n peri eich bod mòr llawen? beth sy'n peri i chwi fod mòr llawen? beth a'ch pair mòr llawen? beth sy'n eich gwneuthur mòr llawen?
I made nothing of it—ni wnaethym ddim o hono *neu* o honi; ni ennillais *neu* ni elwais i arno ddim; ni chefais i fael oddi wrtho; ni bu i mi fael oddi wrtho.
Thou shalt be made much of—gwneir yn fawr o honot; cei wneyd yn fawr o honot.
I make sure of him—y mae ef yn sicr genyf; y mae yn ddïammheu genyf y bydd ef gyda mi *neu* o'm plaid i.
We may be sure of them—nid rhaid i ni unon na byddant hwy drosom *neu* o'n plaid ni; yr ydym yn sicr o honynt hwy.
He made out to reconcile them—llwyddodd i'w cymmodi hwynt.
He made up to us with boldness—neshaodd atom yn hy; daeth tuag atom yn hy.
He made him a knife—gwnaeth iddo gyllell; gorug iddo gyllell.
He makes a show of religion—efe a ymddengys yn grefyddol; efe a gymmer arno fod yn grefyddol.
I will make but one word with you about it—ni wnaf â chwi ond un gair yn ei gylch.

Make, *s.* gwneuthuriad, cyfansoddiad; llun, ffurf, gwedd, dull.
Make,† *s.* (S. *maca;* D. *mage*) cydymaith, cymhar.
Makebate, *s.* (*make* a *bate*) heuwr ymryson, pwt y gynhen, ysgwt y gynhen, mam y drwg, cecryn, cecrusyn, etewyn annysgymmod, gyrwr pobl benben, gwneddwr hys, crïwr hys.
Makeless,† *a.* digymhar, heb gymhar.
Makepeace, *s.* tangnefeddwr, heddychwr, trywynwr, athrywynwr, cymmodwr, cymrodeddwr.
Maker, *s.* gwneuthurwr, gwneuthurydd; Creawdwr, Creawdydd, Creawdur, Crëwr; peryf, perydd, periedydd, periadur, peridydd, perwr; lluniwr, ffurfiwr.
Maker of heaven and earth—Creawdwr nef a daiar; gwneuthurwr nef a llawr.
Makeweight, *s.* tro y dafol, tro y fantol; peth i wneuthur pwys; peth i wneyd pethau yn gydbwys *neu* gyfartal.
A makeweight candle—canwyll y fantol.
Maki, *s.* math o greadur pedeirllaw.
Making, *s.* gwneuthuriad, pariad, cyfansoddiad; gwaith; cerdd.
Mal, } (Ll. *male, malus;* Ff. *mal*) rhagdawd
Male, } yn dynodi *drwg, dryg-, mall-, camm-, af-.*
Malachite, *s.* (Gr. *malachê*) glyfrwd, glas y mynydd, mwn gwyrdd copr; meddalfwn.
Malacia, *s.* (Ll.) blys anghymmedrol *neu* annaturiol; chwant beichiogion.
Malacoderms, } *s. pl.* (Gr. *malacos* a *derma*)
Malacodermi, } cenfeddalion, croenfeddalion, chwilod croenfeddal.
Malacolite, *s.* (Gr. *malachê*) glyfliwem=math o ddelidfaen.
Malacologist, *s.* meddalogwr, meddalogydd; hanesydd meddalogion *neu* libogion; llibofydd.
Malacology, *s.* (Gr. *malacos* a *logos*) meddalogaeth, llibofyddiaeth; hanes, gwyddor, *neu* ofyddiaeth meddalogion; hanes creaduriaid â chyrff meddal iddynt.
Malacopterygians, } *s. pl.* (Gr. *malacos* a *pter-*
Malacopterygii, } *ugion*) mwythasgelliaid, mwythasgellogion, mwythasgellbysg.
Malacopterygious, *a.* mwythasgellaidd.

Malacosteon, *s.* (Gr.) meddaliad esgyrn, meddalhad yr esgyrn.

Malacostomous, *a.* (Gr. *malacos* a *stoma*) mantfeddal; â chanddo eneu meddal heb ddannedd.

Maladjustment, *s.* (*mal* ac *adjustment*) camgymhwysiad, camdrefniad, gwall-drefniad, trefniad drwg.

Maladministration, *s.* (*mal* ac *administration*) camweinyddiaeth, camdriniaeth, camlywodraeth, dryglywodraeth, drwg lywodraeth, camrwysg, camlywiad, camreolaeth, mall lywodraeth.

Maladroitness, *s.* camddeheurwydd, anneheuder, lledchwithder.

Malady, *s.* (Ff. *maladie;* It. *malatia*) clefyd, afiechyd, dolur, haint, clefni, anhwyl, anhwyldeb, anhwylder, gwst, selni, salder, saldra, salwch, echur; mall.

Malaic Acid, } **Maleic Acid**, } *s.* (o'r Ll. *malum*) sur afaleiddig=math o sur afalig.

Malaga, *s.* gwin Malaga (yn yr Yspaen).

Malanders, *s.* (*mal*, ac It. *andare*) egwydfall=sech grachen ar egwyd neu fwydle ceffyl.

Malapert, *a.* (*mal* a *pert*) haerllug, sarig, cras, craseiriog, crasaren, crasarain, tafodgras, gorhewg, coeglyd, cymhen, traws; talgryf, digywilydd, taerddrwg, byf.

Malapertness, *s.* haerllugrwydd, sarigrwydd, craseiriogrwydd, crasder, gorhewgdra, crasder tafod; talgryfder, taerddrygedd.

Malapropos, *ad.* (Ff. *mal* ac *apropos*) yn anamserol, yn ddrygamserol, yn anmhrydlawn, mewn anmhryd; yn anghymhwys, yn anaddas; heb fod i'r perwyl *neu* yr amcan.

Malar, *a.* (Ll. *mala*) bochawl, bochaidd; perthynol i'r foch.

Malaria, *s.* (It.) mallawyr, drygawyr.

Malarious, *a.* mallawyraidd; afiach, afiachus.

Malate, *s.* (Ll. *malum*) afalawd, hal sur afalau: *pl.* afalodion.

Malaxate,† *v. a.* (Ll. *malaxo;* Gr. *mallasso*) malledigo, meddalu, meddalhau, tyneru, mwydo.

Malaxation, *s.* malledigaeth, meddaliad, meddalhad, mallawd, mallaint.

Malaxis, *s.* (Ll. *malaxo*) gefellys y gors.

Malconformation, *s.* anosgedd, dryglun; anghyfartalwch *neu* anghymmedredd rhanau.

Malcontent, *s.* un anfoddog, un anfoddlawn, dyn anfoddlawn, deiliad anfoddog; drygwyllysiwr; gwrthryfelwr: *pl.* anfoddogion, anfoddiaid, deiliaid anfoddlonus; rhai angharedig *neu* anfoddlawn i'r llywodraeth.

Malcontent, } **Malcontented**, } *a.* anfoddog, anfoddlawn, anfoddlon, anfoddlonus, anfoddgar, anfoddlongar; angharedig, anfoddlawn, *neu* ddrygwyllysiol i'r llywodraeth; yn ewyllysio yn ddrwg i'r llywodraeth; heb ewyllysio yn dda i'r llywodraeth.

Malcontentedness, *s.* anfoddogrwydd, anfoddlonrwydd, anfoddlondeb; angharied at y llywodraeth.

Male, *a.* (Ff. *male* neu *masle;* Ll. *masculus*) gwryw, gwrywol, gwrywaidd, gŵrain, gŵraidd; o ryw *neu* rywogaeth gwr.

Male child—plentyn gwryw; mab; mab bychan.

Male screw—arsidrych, arsidrwy, troellhoel, sidrych gwryw.

Male-ash—marchonen, marchon.

Male, *s.* gwryw; gwr, mab: *pl.* gwrywod, gwrywaid.

The male—y gwryw.

Maledicency, *s.* (Ll. *maledicentia*) goganair, gogan, enllib, iaith waradwyddus; tuedd i warthruddo; melltith.

Maledicent, *a.* goganus, enllibus, goganawl, melltithiol, rhegol.

Malediction, *s.* (Ll. *maledictio*) melltith, rheg, rhegfa, ymreg; gogan, enllib; melltithiad, rhegiad.

Malefaction, *s.* (Ll. *malefacio*) drygweithred, drygwaith, drwg weithred, gweithred ddrwg, trosedd, camwedd.

Malefactor, *s.* (Ll.) drygweithredwr, drygweithredydd, drwg weithredwr, drygddyn; camweddwr, troseddwr.

Malefic, } **Maleficent**, } *a.* (Ll. *maleficus*) drygiog, drygionus, drwg, drygeddus; â wnel ddrwg; â'i fryd ar ddrygioni; niweidiol.

Malefice,† *s.* (Ll. *maleficum*) drygweithred, drygwaith, gweithred ddrwg; cyfrwysdra; swyn.

Maleficence, *s.* (Ll. *maleficentia*) drygweithred, drygwaith, drwg weithred, gweithred ddrwg; gwneuthuriad drwg, drygweithrediad.

Maleficiate,† *v. a.* swyno, hudo, rheibio, llygattynu.

Maleficiation,† *s.* swyniad, hudoliaeth, llygattyniad.

Maleficience, *s.* (Ll. *maleficientia*) drygweithred, drygwaith, drwg weithred, gweithred ddrwg; gwneuthuriad drwg, drygweithrediad.

Malengine,† *s.* (Ff. *malengin*) twyll, dichell, drygfwriad. [ynddo.

Male-spirited, *a.* gwrolfrydig; â gwroliaeth

Malet,† *s.* (Ff. *malete*) cydan, cod, coden, bwlgan, bolgan.

Malevolence, *s.* (Ll. *malevolentia*) drygwyllys, dryg-ewyllys, drwg ewyllys, dryganiaeth, dryganian, drygan edd, ewyllys drwg, dymuniad drwg, dygasedd, cas, gelyniaeth calon, cenfigen.

Malevolent, *a.* drwg ei ewyllys, drwg ei wyllys, dryganianol, dryganianus, drygnawsus; yn dwyn drwg ewyllys; cenfigenus, dygasog, athryfar, maleisus, gwenwynig; anhylwydd.

Malevolently, *ad.* o ddrygwyllys, trwy ddrygwyllys; trwy ddrwg ewyllys, yn ddrygwyllysiol, yn ddrwg ei ewyllys, &c.

Malevolous,† *a.*=*Malevolent.*

Malexecution, *s.* drygweinyddiaeth, camweinyddiaeth, drwg gyflawniad, drwg wneuthuriad.

Malfeasance, *s.* (Ff.) camweithred, drygweithred, camwedd, cam; gweithred anaddwyn *neu* anghyfreithlawn.

Malformation, *s.* camffurfiad, drygluniad, drygffurfiad, lluniad drwg, ffurfiad drwg.

Malgoozars, *s. pl.* tirddalwyr yn talu cyllid i'r llywodraeth (yn yr India Ddwyreiniol).

Malic, *a.* (Ll. *malum*) afalig; perthynol i afalau; afalaidd.

Malic acid—sur afalig, sur afalau.

Malice, *s.* (Ff.; Ll. *malitia*) dryganian, dryganiaeth, dryganedd, drygfwriad, drygfryd, bwriad drwg, drwg fwriad, malais, cynddrygedd, drygwyllys, casineb, dygasedd, casedd, cas, cenfigen, cynghorfynt, gelyniaeth, gelyniaeth calon, dygen, cawdd, gwyth, digofaint, llid, drygioni, tragelyniaeth; gwenwyn.

Of very malice, } o wir elyniaeth; o wir
Of mere malice, } wenwyn.
Malice prepense—drygioni rhagluniedig, drygioni rhagddychymygedig, drygioni rhagfwriadol.
To bear malice to one—bod â drwg yn ei galon at un; bod â drwg yn ei galon tuag at un; dàl gwg *neu* gilwg i un; dàl gwg *neu* gilwg wrth un.

Malice,† *v. a.* bod â drwg yn ei galon at *neu* tuag at; drygfwriadu.

Malicious, *a.* drwg ei fwriad; yn dwyn bwriad *neu* ewyllys drwg; â drwg yn ei galon, ei feddwl, *neu* ei fwriad; maleisus, dryganianol, dryganianus, drygfrydig, drygfwriadol, drygfwriadus, cenfigenus, cynghorfynus, gelynol, gelyniaethus, drygionus, dygasor, adgas.

Maliciously, *ad.* trwy fwriad drwg, o fwriad drwg, trwy ddrygfwriad; yn ddrygfrydig, yn faleisus, &c.
Such things as these men hvae maliciously invented—y pethau y mae y gwŷr hyn yn eu drwg ddychymyg (*Sus.* 43).

Maliciousness, *s.* dryganiaeth, dryganedd, drygfrydigrwydd, drygfwriadoldeb, drygfwriadolrwydd, maleisusrwydd, drygionusrwydd, drygioni, gelyniaeth, drwg ddymuniant, dygas, cenfigen, malais, llid.

Malign, } *a.* (Ll. *malignus*) dryganianol,
Malignant, } dryganianus, drygfrydig, drygfwriadol, drygfwriadus, athryfar, tryfar, tryfarus, maleisus, drygwyllysiol, drwg ei anian, niweidiol, gwenwynig, adwythig, maleisddrwg, adwythus, adwythol, dinystriol, drygiog, drwg, anian-ddrwg; cenfigenus.
A maglignant distemper—haint adwythig, clefyd adwythig, trymglefyd, mallhaint, echryshaint, haint a thryfar; haint llŷn, clefyd cael.

Malign, *v.* drygu, casddrygu, enllibio, niweidio; bod â drwg yn ei galon at *neu* tuag at; edrych yn faleisus *neu* genfigenus ar; edrych yn genfigenus *neu* faleisus ar lwyddiant un; cenfigenu wrth, maleisio wrth; dymuno drwg *neu* yn ddrwg yn ei galon i; edrych ar un â drwg lygad; edrych ar un â llygad drwg *neu* fall; dymuno niwed *neu* aflwydd yn ddirgel i.

Malignancy, } *s.* (Ll. *malignus, malignitas*)
Malignity, } dryganian, dryganiaeth, dryganedd, drygwyllys, drygwyn, drygnwyd, drygnaws, malais, cynddrygedd, drygfryd, drwg fwriad, bwriad drwg, gelyniaeth, gelyniaeth calon, drygedd anian, anian-ddryggedd, adwythigrwydd, niweidioldeb, athryfarwch, tryfarusrwydd, gwenwynigrwydd; adwyth, drygedd; llidusrwydd, llidiogrwydd, cynddeiriogrwydd.
Malignity of heart—gelyniaeth calon.
The malignity of a distemper—adwythigrwydd, cynddeiriogrwydd, chwerwedd, dryganwyd, *neu* ddrygnwyd haint *neu* glefyd.

Malignant,† *s.* un dryganianol, &c.; gwr athryfar, athryfarwr, drygwyllysiwr=enw à roddid ar bleidwyr y brenin gàn y Coethynion yn amser Cromwel.

Maligner, *s.* drygwr, drygddyn, enllibiwr, athrodwr; gelyn, casai.

Malinger, *s.* (Ff. *malingre*) milwr à gymmero arno ei fod yn glaf; milwr ffug-anhwylus.

Malison,† *s.* melltith, rheg.

Malkin, } *s.* (o *mal=Mary*, a'r terfyniad bych-
Maukin, } anig *kin*, yn ol *Johnson*) mopa, mop, moppren, mapwl, ysgubell ffwrn; bwbach, bwgan, bwgan adar, bwbach brain; budrog, budrogen, llaesen, swgan, benyw annhaclus ei gwisg.
A great malkin—yslabi, yslebren, dysgubell, llaesen, torlla.

Mall, *s.* (Ff. *mail;* Ll. *malleus*) gordd, gordd bren, gorddwyn; rhodfa gyhoeddus, talwrn pel ordd, gwastadrawd, rhodfa wastad gysgodog, hoeddrodfa, rhodfa; † gorddawd, ergyd gordd.

Mall, *v. a.* curo â gordd, taro â gordd; gorddi, gorddino; curo, taro, pwyo, dulio, maeddu; briwo.

Mallard, *s.* adiad, geryn hwyad, garan hwyad, ceiliog hwyad gwyllt, corshwyad.

Malleability, } *s.* (o *malleable*) ansawdd
Malleableness, } morthwyliadwy peth; morthwyledd; hydynedd.

Malleable, *a.* (Ff. o'r Ll. *malleus*) morthwyliadwy, mwrthwyliadwy; à ellir ei forthwylio; à ellir ei fwrthwylio.

Malleate, *v. a.* morthwylio, mwrthwylio; curo yn llafn *neu* ddalen.

Malleation, *s.* morthwyliad, mwrthwyliad.

Mallet, *s.* (Ll. *malleus*) gordd bren; gordd, gorddwyn.
A small mallet—gorddan, gordd fechan.

Malleus, *s.* (Ll.) morthwyl; morthwyl y glust=asgwrn y tu fewn i'r glust.

Mallow, } *s.* (S. *malu, mealwe;* Ll. *malva*)
Mallows, } hocys, (*sing.* hocysen), meddalai, melotai, glyf.
Common mallows—hocys cyffredin.
Musk mallows—hocys mwsg, hocys gwyllt, llysiau Simwnt.
Marsh mallows—hocys y gors, hocys y morfa, meddalai y gors, meddalai y morfa. malw yr hel.
Garden mallow—meddalai y gerddi, hocys y gerddi.
Wild mallow—meddalai gwyllt, hocysen wyllt.
Dwarf mallows—hocys bychan, hocys crynddail.
Sea tree-mallow—hocyswydden, morhoosen, hocysen y môr.

Malm-bricks, *s. pl.* priddfeini wedi eu gwneyd o dywod, marm mâl, a chlai.

Malmsey, *s.* (Ff. *malvoisie*, o *Malvasia*, yn Groeg; Ll. *vinum arvisium*) Malmsai, gwin Malmsai; grawnwin Malmsai.

Malodour, *s.* drygawr, drygawyr, drygwynt, drewsawyr, drewdod, drwg arogl.

Malposition, *s.* camgyflead, drwg gyflead.

Malpractice, *s.* drygwaith, drygarfer, drwg arfer, drygfoes, anfoes.

Malt, *s.* (Sw. a D.; S. *mealt;* Al. *malz*) brag; heiddfrag.
Malt-house—bragdy.
Malt-kiln—odyn frag.
Malt-mill—melin frag.
Malt-liquor, } diod frag.
Malt-drink, }
Malt-barn—ysgubor frag.
A grain of malt—bregyn.
To make malt—bragu, brago, gwneuthur brag.
To make into malt—bragu, brago, gwneyd yn frag.

Malt, *v.* bragu, brago, gwneuthur brag, gwneuthur yn frag; myned yn frag.
Maltalent,† *s.* (hen Ff.) drygnawd, natur ddrwg.
Maltha. *s.* (Gr.) pyglwd, delidbyg, delbyg, fferbyg, fferlosg.
Malting, *s.* bragiad; bragu.
Maltman, } *s.* bragwr, bragydd.
Maltster, }
Maltreat, *v. a.* (*mal* a *treat*) camdrin, drwg drin; trin yn ddrwg, yn arw, *neu* yn angharedig; drelio, dyfeiliorni.
Maltreatment, *s.* camdriniaeth, camdriniad, trawsdriniaeth, drygdriniaeth, cam, sarhad, dyfeiliorn, dyfeiliornedd.
Maltworm, *s.* llymeitiwr, dïotwr, ymyfwr, meddwyn, yfwr.
Malva, *s.* (Ll.) hocys, meddalai, melotai, glyf.
Malvaceous, *a.* (o *malva*) perthynol i'r hocys; hocysaidd, glyfol.
Malversation, *s.* (Ll. *male* a *versor*) camymddygiad, ymddygiad drwg, drwg ymddygiad; dichelldro, dichell; tro *neu* ymdro cyfrwysddrwg dichellgar.
Mamma, } *s.* (Ll. *mamma*, bron; C. *mam*) mam,
Mama, } mamen, mamws.
Mamma, *s.* (Ll.) bron, teth, diden; y bronau, y ddwyfron.
Mammal, *s.* (o'r Ll. *mamma*) anifail tethog, creadur tethog, tethfil, didfil, tethogyn, tethfilyn; anifail *neu* greadur â rydd sugn i'w rai bach.
Mammalia, } *s. pl.* (o *mammal*) tethogion,
Mammals, } tethogod, tethfilod, didfilod, anifeiliaid tethog, creaduriaid tethog, mamolion, bronogion, didfaetholion, bronfaetholion.
Mammalian, *a.* perthynol i'r tethogion; tethfilaidd, didfilaidd, bronfaethol, tethfagol.
Mammaliferous, *a.* (Ll. *mamma* a *fero*) didfilog; yn cynnwys gweddillion tethfilod.
Mammalogist, *s.* hanesydd tethogod, traethwr ar ddidfilod, tethfilofydd, tethfilodwr.
Mammalogy, *s.* (Ll. *mamma*, a Gr. *logos*) tethfilodiaeth, tethfilhanes, didfilodiaeth, bronogaeth, tethogaeth; hanes, ofyddiaeth, *neu* athrawiaeth tethogion.
Mammary, *a.* (Ll. *mamma*) bronol, didenol, didenaidd, tethol; perthynol i'r bronau.
Mammary veins—gwythenau y bronau, bronwythenau.
Mammer,† *v. n.* petruso, ammheu, peuo.
Mammering, *s.* petrusad, petrusdod, petrusder; dyfysgi.
Mammet, *s.* delwan, llamddelw.
Mammifer, *s.* (Ll. *mamma* a *fero*)=*Mammal.*
Mammiferous, *a.* bronfaethol, didfaethol, bronfag, didfag, tethfag; yn dwyn tethau ac yn porthi y rhai bychain â'u llaeth.
Mammiferous animals=*Mammalia.*
Mammiform, *a.* (Ll. *mamma* a *forma*) ar lun bronau, tethau, *neu* ddidenau; bronaidd.
Mammilla, *s.* bronig, tethan, diden fechan.
Mammillary, *a.* (Ll. *mammilla*) bronol, didenol, tethol, bronaidd, didenaidd, tethaidd; perthynol i'r bronau.
Mammillated, *a.* bronigog, penigog, pitanog; yn meddu ar fronau bychain; crynynog.
Mammock,† *s.* cwlff, chwalff, llaprwth, darn dilun, dryll aflunaidd: *pl.* cylffau, chwalffau, llaprythau, atborion.
Mammock,† *v. a.* cylffo, chwalffo, dryllio, rhwygo, llurgunio.
Mammodis, *s.* bras fwslin yr India.
Mammon, *s.* (Syr.) duw y cyfoeth, duw y golud, duw y cyfoeth a'r golud, cyfoethior, eilun y cybydd, eilun y bydolddyn; golud, cyfoeth, da bydol, da y byd, da y byd hwn; mwnws; Mammon.
Mammonist, *s.* bydolddyn, un chwannog i gyfoeth, un chwannog i'r byd, cybydd, crinwas, cribinwas, carl, cerlyn, crintachwr, llygad y geiniog, Siôn lygad y geiniog, Icuan lygad y geiniog.
Mammoth, *s.* (R. *mamant*; H. *behemoth*) Mammwth, Mammoth, cawrfil y cynfyd=math o gawrfil diflanedig.
Mammool, *s.* arfer, defod; y gyfraith gyffredin *neu* anysgrifenedig (yn yr India Ddwyreiniol).
Man, *pl.* Men, *s.* (S., Is., Sw., D., a San.) dyn; gwr; gwryw; un, neb; gwas; dyniad.
Man (opposed to child or boy)—gwr.
Man (opposed to woman)—gwr; gwryw.
Man (opposed to wife)—gwr.
Man (opposed to beast)—dyn.
This man—hwn, y dyn hwn, y gwr hwn.
That man—hwnw, y dyn hwnw, y gwr hwnw.
Every man—pob dyn, pob un, pob gwr; pawb; pob copa; pob enaid o ddyn; cymmain un.
No man—neb, neb un, nebun, nebawd, neb dyn, nebdyn.
Any man—undyn, ungwr, unrhyw ddyn, un dyn; neb, neb rhyw, rhywun, rhyw un, un; y neb a fynoch; yr un à fynoch; y neb a fyner; y neb bynag.
Man by man—bob yn wr; bob yn ddyn; bob yn un.
From man to man—o wr i wr; o ddyn i ddyn; o un i un; o wr bwygilydd.
A little man—dynyn, dynan; crynwas, crynddyn, gwr mân, gwr bach, dyn bychan, dynionyn: *pl.* dynos, dynionos.
Married man—gwr priod, gwr gwreigiog, gwr gwraig; gwr.
Man and wife—gwr a gwraig.
Old man—hen wr, henwr, hen ddyn, henddyn, gwr hen.
Young man—gwr ieuainc, dyn ieuanc; gwas.
Enlisted man—gwr rhif, gwr rhestredig.
Avaricious man—cybydd, crinwas, mab y crinwas, cribinwas, crintachwr.
An honest, plain-dealing man—cleuddyn, dyn gonest dihoced.
A man of repute—gwr cyfrifol, gwr cyfrifus; gwr da ei gymmeriad; gwr o gymmeriad da; un â gair da iddo; un o air ac enw da; gwr nod.
A man of no repute—dyn anenwog, diglod, anhyglod, digyfrif, digymmeriad, anhynod, *neu* ddinod.
Superior man—tragwr, gwr rhagorol; dyn rhagorach na'r cyffredin.
Angry man—dyn digofus, &c.; gwythwr.
Leading man—blaenor, arweinydd.
Man of war—rhyfelwr, milwr, lluseddwr, lliïyddwr, cadwr.
Man-of-war—cadlong, llong ryfel, llong rhyfel, llong arfog.
Men-of-war—cadlongau, llongau rhyfel.
Man-of-war bird—aderyn y gadlong=math ar Albatross.
All to a man—bob un, bob gwr; heb ado un; bawb oll; yn llwyr.

They were slain all to a man—hwy a laddwyd bob gwr; lladdwyd hwynt bob un.
One's own man—yn feistr arno ei hun; yn ben arno ei hun; yn ei feddiant ei hun; yn cael ei feddwl a'i amcan; yn rhydd i wneuthur à fyno; yn anghaeth; yn wr iddo ei hun; yn ei iawn bwyll.
To act the man, } ymddangos yn
To play the man, } wr; dangos ei
To show one's self a man, } hun yn wr; bod yn wr; ymddwyn fel gwr; chwareu y gwr; chwareu y gwas gwych; gwneuthur rhan gwr; gwneuthur yn wrolwych, &c.
Quit yourselves like men—byddwch wŷr; ymwrolwch.
A man or a mouse—naill ai gwr ai dim.
Like master, like man—mâl y bo'r dyn y bydd ei lwdn.
The man of the house, } gwr y ty;
The good man of the house, } penaeth y ty; y penteulu; pendod y ty.
Man of the world—bydolddyn, bydgarwr; gwr o'r byd; dyn o'r byd; un o wŷr y byd.
Man proposeth, but God disposeth—meddwl dyn, Duw a'i terfyn.
Men of all ages—gwŷr a gweision; dynion o bob oedran; rhai o bob oed.
A man for all purposes—dyn à wnel à fynoch; un à wnel à fynoch; dyn à wnel y peth à fynoch; un à wnel y peth à fynoch; un à dry ei law at bob gorchwyl; un hyfedr ar bob peth; un hyfedr yn mhob peth; dyn i bob peth.
We shall not have from a lad the work of a man—ni cheffir gwaith gwr gàn was; ni cheir gwaith gwr gàn lanc.
A man would wonder—fe ryfeddai dyn; fe ryfeddai un; byddai ryfedd gàn ddyn.
Was there ever a man more afflicted with sorrow?—a fu dyn drymach ei fryd?
There is no man I would more fain see—nid oes dyn yn fyw à ewyllysiwn i yn fwy ei weled; nid oes dyn ar y ddaiar à ewyllysiwn i yn fwy ei weled.
No man almost did bid him to his house—braidd yr un a'i gwahoddodd ef i'w dy.
When he became his own man—pan ddaeth iddo *neu* ato ei hun.
Man's estate—oedran *neu* faintioli gwr; addfedrwydd *neu* gyflawnder oedran; gwriaeth.
Man (at chess)—un o werin y wyddbwyll; un o wŷr y tabler; gwr tabler.
Man-child—plentyn gwryw; mab; mab bychan.
Man-servant—gwas, gweinidog, gwasanaethwr, gwasanaethydd; gwasanaethddyn.

Man, *v. a.* diwallu à gwŷr; llenwi *neu* gyflenwi à gwŷr; rhoi gwŷr i; rhoi cyflawnder o wŷr i; rhoi *neu* ddwyn ei chyfraid o wŷr i long, &c.; amddiffyn à gwŷr; cadarnhau, cryfhau, cyfnerthu; diwallu à gweision *neu* weinyddion; cyfeirio.
To man a hawk—dysgu gwalch, dofi gwalch.
They manned their ships with archers—hwy a gyflenwasant *neu* a ddiwallasant eu llongau à saethyddion.

They manned the town—diwallasant y dref à gwŷr; rhoisant ei chyfraid o wŷr i'r dref; diwallasant y gaer à gwŷr.
Manacle, *s.* (Ff. *manicles;* Ll. *manica*) llawhual, llawgyff, llawefyn, llawrwym; gefyn, hual, llawethar, llawethyr: *pl.* llawgyffion.
Manacle, *v. a.* llawetheirio, llawrwymo, llawhualu, llawgyffio, llawefynu, rhwymo dwylaw, rhoi hual ar ddwylaw; llyffetheirio, gefynu, hualu, cloffrwymo, caethiwo.
Manage, *v.* (Ff. *ménager*) trin, trefnu, rheoli, llywodraethu, llywio, llywiadu, rhioli, trefnido, trino, trinio, llywodri, llywodi, llywiannu, ardwyo, twyo, twyogi, gweinyddu; dwyn yn mlaen, arwain, arwedd, tywys, hyfforddi; deheudrin.
Manage, *s.* triniaeth, rheolaeth, rhiolaeth, rhioledd, rhiolawd, trefniad, trefnidaeth, ardwy, llywodraeth, llywiaeth, gweinyddiaeth; marchwriaeth, ysgol farchogaeth.
Manageable, *a.* rheoladwy, hydrin, trinadwy, rhioladwy, hywedd, hydyn, hywar, ystywell, darweddadwy; hawdd ei drin; à ellir ei drin.
Manageableness, *s.* hydrinedd, hyweddrwydd, hydynedd, hydynrwydd, hywaredd, hyweithrwydd.
Manageless, *a.* anhydrin, afreoladwy, anhydyn, anhywedd, dilywodraeth; nas gellir ei drin.
Management, *s.* triniaeth, rheolaeth, triniad, trefniad, trefnid, trefnidaeth, trefnidiaeth, trefnidedd, rhiolaeth, rhioledd, rhiolawd, llywodraeth, llywiadaeth, llywiaeth, ardwy, gweinyddiaeth, gweinyddiad, trin, triniedigaeth, llywyd, twyogaeth; tywysiad, arweiniad, arweinid, dygiad yn mlaen, hwyliad; cyfrwyseder, dyfais; ymdriniaeth, ymdrafod, trafod; amrywiad.
The management of a family—llywodraeth ty, llywodraeth teulu, rheolaeth ty, teulüwriaeth, teulüyddiaeth, teuluaeth, trefnidedd teuluaidd, trefnidiaeth ty, rheolaeth teulu.
The management of the voice—llywodraethiad *neu* lywodraeth y llafar; gwneuthuriad y goreu o'r llafar; cyweiriad y llafar, amrywiad y llais.
His voice is not amiss, if he understood the management of it—mae ganddo lafar dda *neu* ddifai ddigon, pe medrai wneuthur y goreu o honi; mae ganddo lafar dda *neu* ddifai ddigon, pe medrai ei chyweirio.
Manager, *s.* trinwr, triniwr, trinydd, rheolwr, trefnwr, trefnydd, trefnidwr, trefnidydd, trefniedydd, rhiolwr, rhiolydd, rhiolawdr, ardwyad, goruchwyliwr, coleddwr, arweinydd, llywiawdr, llywawdr.
Manager of a theatre—rhiolydd chwareufa, rhiolawdr chwareudy.
Managery, *s.* (o *manage*) triniaeth, triniad, trefniad, rheolaeth, rhiolawd, gweinyddiaeth, trefnidedd, trefnidaeth, triniedigaeth; cynnildeb.
Manakin, *s.* math o adar harddwych eu pluf.
Manatee, *s.* (o'r Ll. *manus*) y forfuwch.
Manatin, *s.* y forfuwch.
Manation, *s.* (Ll. *manatio*) deilliad, tarddiad, deigyniad.
Manatus, *s.* (o'r Ll. *manus*) y morfuchod.
Manbote,† *s.* iawn *neu* ddirwy à delid gynt am alanas *neu* lofruddiaeth; galanas.

Manche, } *s.* (Ff. *manche*) llawes, llun llawes
Maunch, } (yn arfau bonedd).
Manchet,† *s.* bara coesed, bara mïod, chwiogen, teisen fanbaill.
Manchineel, *s.* (Ll. *mancanilla*) math o goed tra gwenwynig, priodor o'r India Orllewinol.
Mancipate, *v. a.* (Ll. *mancipo*) caethiwo, caethiwo i, caethu, argaethu, dwyn yn gaeth i, darostwng i, rhwymo; rhwymo yn gaeth; dwyn tân.
Mancipation, *s.* caethiwed, caethiwad, caethiad, caethiant, argaethiad.
Manciple, *s.* (Ll. *manceps*) dystain; darparwr lluniaeth, darmerthwr lluniaeth, arlwywr, darmerthwr, darmerthydd, arlwywr mewn athrofa.
Mandamus, *s.* (Ll.) archwys, teyrnwys, breninwys, archysgrif, archysgrifen.
Mandarin, *s.* (Port. *mandarim*, o'r Ll. *mando*) pendefig yn China.
Mandarin orange—eurafal pendefig=math o eurafal.
Mandatary, } *s.* (Ll. *mandator;* Ff. *manda-*
Mandatory, } *taire*) archwysog; un y rhoddwyd archwys *neu* orchymyn iddo; y neb a gaffo fywoliaeth Eglwysig dân archysgrifen y Pab.
Mandate, *s.* (o'r Ll. *mandatum*, o *mando*) gorchymyn, arch, archiad, pariad, periad; swyddogaeth, arswyddogaeth; archwys, archysgrif, archysgrifen, ysgrifen orchymyn.
Mandator, *s.* (Ll.) hyfforddwr, cyfarwyddwr, cyfarwyddor, cyfeiriwr.
Mandatory, *a.* gorchymynol, yn gorchymyn, â orchymyno, archedigol, archiadol; cyfarwyddol, hyfforddol, hyfforddiadol, cyfarwyddiadol, paredigol, pariannol.
Mandible, *s.* (Ll. *mando;* C. *mant*) mant, genogl, aelgerth, elgeth, gen, asgwrn yr en, asgwrn gen, càr gen; isfant, gen isaf; pig.
Mandible (in insects)—gorfant, gorchfant, gorcharfan, yr en uchaf, genogl uchaf, &c.
Lower mandible—isfant, mant isaf, yr en isaf, genogl isaf.
Mandibular, *a.* perthynol i'r en; mantaidd, genaidd, genoglaidd.
Mandibulates, *s. pl.* (Ll. *mandibula*) mantogion=genw dosbarth o drychfilod.
Mandil,† *s.* (Ff. *mandille*) math o fantell.
Mandilion, *s.* (Ff. *mandille*) côb milwr, hugan milwr, pais milwr; llaeswisg, gwisg laes.
Mandingoes, *s. pl.* Mandingwys=Duantwys glenydd y Senegal a'r Gambia.
Mandioc, *s.* math o blanigyn Americaidd.
Mandlestone, *s.* (Al. *mandelstein*) cnewullfaen, maen almon.
Mandment,† *s.*=*Commandment.*
Mandoline, } *s.* (It. *mandola*) mandelyn,
Mandolin, } mwyndelyn=math o delyn.
Mandragora, *s.* (Ll. *mandragoras*) mandragorau.
Mandrake, *s.* (Ll. *mandragoras;* Ff. *mandragore*) mandrag, mandragor, mandraglys, mandraglysieuyn: *pl.* mandragorau, mandraglysiau.
Mandrel, *s.* (Ff. *mandrile*) tyllbill, trobill.
Mandrill, *s.* mandril, math o epa.
Manducable, *a.* (Ll. *manduco*) hygno, cnoadwy; bwytadwy, hŷs; â ellir ei gnoi; addas i'w fwyta.
Manducate, *v. a.* cnoi, dygnoi; bwyta.
Manducation, *s.* cnoad, dygnoad, cnoad bwyd; bwytâd.
Mane, *s.* (Is. *maan;* Al. *mähne*) mwng; myngen.
Having a mane—myngog; â mwng iddo; âg iddo fwng; â chanddo fwng.
Having a thick mane—myngfras.
Long mane—mwng llaes, llaesfwng.
Having a long mane—mynglaes, llaesfwng.
Maneater, *s.* dynfwytäwr, bwytäwr dynion, breuad: *pl.* dynfwytawyr, breuaid.
Maned, *a.* (o *mane*) myngog; â mwng iddo; âg iddo fwng; â chanddo fwng.
Crop-maned—myngdwn.
Thick-maned—myngfras, tewfwng.
Long-maned—mynglaes, llaesfwng.
Grey-maned—mynglwyd.
White-maned—myngwyn, (*f.* myngwen).
Manege, *s.* (Ff.) ysgol farchogaeth; marchwriaeth, marchyddiaeth, celfyddyd marchogaeth, marchdriniaeth.
Manege, *v. a.* marchdrin, marchofyddu, marchreoli, deheudrin; rheoli ceffyl yn ddestlus wrth farchogaeth.
Manerial, *a.*=*Manorial.*
Manes, *s. pl.* (Ll.) ysbrydion y meirw; gwyllon, gwyllion; gweddillion y meirw; y cysgodion isod; y duwiau uffernol.
Mean, *a.* (S. *mœne*) isel, gwael, anenwog, anhynod, distadl, anurddasol, difraint, diras, dienw, anwych, tlawd, iselwael, salw, sal, brwnt, bawaidd, budr, pilus, lledwael, iselradd, isel ei radd, lledrywiog; anŵraidd; anhael, crintach; cywilyddus, dirmygus; diwerth; gwaelfrydig, gwael ei feddwl, gwael o feddwl, o feddwl gwael; adlawaidd.
A mean person—un isel, dyn gwael, &c.; gwrengyn, adlaw.
Of mean birth—lledrywiog, lledachog, adlawaidd, gwerinaidd, gwreng, o'r werin.
The meaner people, The meaner sort of people, } y bobl isel- radd, yr adlawiaid, y werin dlodion, y werinos.
Adapted to the meanest capacity—addas i'r gwanaf ei ddeall; cyfaddas i'r gwaelaf ei ddeall.
Mean, *a.* (Ff. *moyen;* Ll. *medius*) canol, canolig; cyfryngol, rhwng y ddau; canolaidd, canolog; cyffredin; go-.
Mean distance—gobellder, y pellder canol, pellder canolig, pellder cyffredin, pellder cyfrwng.
The mean time—y cyfamser, y cyfencyd; y cyfrwng; yr amser cyffredin, yr amser canolig.
In the mean time, In the mean while, } yn y cyfamser; yn y cyfencyd; yn nghyfrwng hyn *neu* hyny; yn y cyfrwng; yn nghanol hyn *neu* hyny.
Mean, *s.* canol, y canol, y cyfrwng, rhwng; cyfamser; canolrwydd, canoligrwydd, cymmesurwydd, cymmes, cymmedroldeb; modd, (*pl.* moddion), offeryn; canolffordd;† mesur, rheol.
The mean between the two extremes—cyfrwng y ddau eithaf.
Mean, *v.* (S. *mœnan, menan*) meddwl, meddylied, meddylio, tybio, tybied; arwyddocäu, arwyddo, golygu; bod iddo feddwl *neu* ystyr; bwriadu, amcanu, arfaethu; ystyru.
What dost thou mean?—beth yw dy feddwl? beth yr wyt ti yn ei feddwl?
What mean you by this?—beth yw hyn genych? pa beth yw hyn genych? beth a feddyliwch *neu* a olygwch wrth hyn?
What mean you by these stones?—beth y mae y ceryg hyn yn ei arwyddocäu i chwi? beth yw y ceryg hyn?
We would know what these things mean—ni a fynem wybod beth a allai y pethau hyn fod.
What does this mean?—beth yw ystyr *neu* feddwl hyn? beth y mae hyn yn ei feddwl *neu* arwyddocäu? beth yw hyn? pa ystyr sydd iddo?
What mean you? What do you mean? } beth a feddyliwch? beth a olygwch? beth yr ydych yn ei feddwl? beth yw eich meddwl? beth a wnewch chwi? pa beth a wnewch chwi? pa ham genych?
Meander, *s.* (=afon lawn o droion, yn Phrygia) ystum, dolystum, amlwybr, bachdro, dolen, doleniad, amdroad, nyddiad afon; ymwead; nydd; clymwaith, rhwyllwaith, clwm;† dyrysfa.
Meander, *v.* dolenu, ystumio, dolystumio, amlwybro, amddyrwyn, ymddyrwyn, ymdröi, nyddu, ymnyddu, ymwëu; amwibio; troi yn ol ac yn mlaen; gwneuthur yn ddolen; bod yn ddyrys.

Meandering, } *a.* dolenog, ystumiog, dolystum-
Meandrian, } iog, bachog, llawn ymdro,
Meandrous, } llawn troion, bachdroawg, dol-
Meandry, } awg; dolenog fel glanau afon; ystumiol, trofaol, cam, tröedig, troellog.
A meandrous river—afon ddolenog, &c.; nydd.

Meaning, *s.* (o *mean*) ystyr, meddwl, arwyddocâd, deall, pwyll, ystyriaeth, arwyddhad, gofeg, bryd; grym.
Literal meaning—ystyr llythyrenol.
Words having the same meaning—geiriau cyfystyr, cyfystyron.
Words of double meaning—mwyseiriau, geiriau mwys, geiriau amwys, amwyseiriau.
With the same meaning—yn gyfystyr.
To explain the meaning of words—ystyru geiriau; egluro ystyr geiriau.

Meaningless, *a.* dïystyr, difeddwl; heb ystyr *neu* feddwl iddo.

Meanly, *ad.* yn ganolig, yn gymmesur, &c.; yn isel, yn wael, &c.

Meanness, *s.* (o *mean*) gwaelder, gwaeledd, salwedd, distadledd; baweiddrwydd, bawedi; iselni, iselder, isder; llymder, tlodi: dïelwedd, disasrwydd; anhaelder, crintachrwydd, cybyddiaeth; anurddasrwydd.

Mean-spirited, *a.* gwaelfrydig, gwael ei feddwl, gwael o feddwl, o feddwl gwael; gwael ei ysbryd; anŵraidd.

Means, *s.* moddion; cyfryngau; offerynau; peiriannau; modd; cyfrwng; offeryn; peiriant; achos; ffordd; gwaith; meddiannau, anlloedd, cyfoeth.
By this means—trwy hyn, drwy hyn; wrth, herwydd, *neu* o herwydd hyn; trwy y ffordd hon *neu* yma; fel hyn; yn y modd hwn *neu* hyn.
By that means—trwy, wrth, *neu* o herwydd hyny; trwy y ffordd hòno; y ffordd hòno; y modd hwnw *neu* hyny; fel hyny; yn y modd hwnw *neu* hyny.
By what means?—pa fodd? trwy ba foddion? pa wedd? pa sut? pa ddelw? trwy ba fodd? yn mha fodd? yn mha wedd? yn mha sut? yn mha ddull?
By some means—trwy ryw ffordd *neu* fodd; yn rhyw ffordd; yn rhyw fodd; yn rhywfodd; yn rhywffordd.
By some means or other—yn rhywfodd neu gilydd; yn rhyw fodd neu gilydd; trwy rywfodd *neu* gilydd.
By all means—yn mhob modd; yn mhob gwedd; trwy bob modd; trwy bob cyflwr; er dim; yn mhob rhyw fodd; yn ddilai; yn ddïau; beth bynag a fo; beth bynag a fyddo; pa fodd bynag; bynag pa fodd; er dim ag a fo.
By no means, } nid mewn un modd;
Not by any means, } nid er dim; nid nid felly er dim; nag e; nag e ddim; na ddo ddim; nid mewn un modd yn y byd.
By any means—mewn un modd; yn un modd; yn rhyw fodd; rhyw fodd, rhywfodd; mewn rhyw fodd; mewn neb rhyw fodd; mewn modd yn y byd; yn hollol.
By means of—trwy, drwy; trwy waith; o waith; gàn, o achos, oblegid, herwydd, o herwydd.
By my means, } trwyof, trwyddof, *neu*
By means of me, } trwof fi; o'm gwaith i; o'm hachos i; o'm plegid i; o'm herwydd i; trwy ym gwaith *neu* ym llafur i; trwy fym gwaith i.
By thy means—trwyot ti, trwot ti, trwyddot ti; o'th waith di; trwy yth waith di, &c.
By his means—trwyddo ef, &c.
By their means—trwyddynt hwy, &c.
By fair means—trwy deg.
By foul means—trwy hagr.
By fair means or foul—trwy deg neu drwy hagr.
By false means—trwy foddion gau, twyllodrus, ffals, *neu* gamweddus; trwy gamwedd, trwy dwyll, trwy hoced, trwy ddichell.
By many means—trwy amryw *neu* aml foddion; mewn amryfodd, trwy amryfodd; mewn llawer modd *neu* ffordd.
Ways and means—math a moddion.
To be a means—bod yn achos, yn fodd, *neu* yn foddion.
Thou shalt by no means do this—na wna mo hyn er dim; paid â gwneyd hyn er dim ag a fo; na wna hyn mewn un modd.
I will by no means forsake thee—ni'th adawaf ddim.
Nothing shall by any means hurt you—nid oes ddim à wna ddim niwed i chwi.
This hath been by your means—o'ch gwaith chwi y bu hyn.
He would have me come thither by all means—efe a fynai yn ddilai i mi ddyfod yno; efe a fynai yn mhob modd i mi ddyfod yno; efe a fynai i mi ddyfod yno er dim.
I must by all means keep the feast—y mae yn angenrhaid i mi gadw yr ŵyl.
The way and means thereto—y ffordd a'r modd i hyny.
As a means whereby we receive the same—megys modd i mi dderbyn yr unrhyw drwyddo.
So the work be done, it matters not what means be used—tra gwneler y gwaith, ni waeth nemawr pa arfau a gymmerer.
They sought means to bring him in—hwy a geisiasant ei ddwyn ef i mewn.

Mean-spirited, *a.* gwaelfrydig, gwael ei feddwl, gwael o feddwl, o feddwl gwael; gwael ei ysbryd; anŵraidd.

Meant, *p.p.* (o *mean*) à feddyliwyd, à fwriadwyd, wedi ei fwriadu, meddyliedig, &c.
Well-meant—à fwriadwyd er da; à fwriadwyd er daioni; à feddyliwyd er da; à feddyliwyd er daioni.
It was well-meant—er dyben da y dywedwyd *neu* y gwnaethpwyd ef; o feddwl da y dywedwyd *neu* y gwnaethpwyd ef.

Meantime, } *ad.* yn y cyfamser; yn y cyfencyd;
Meanwhile, } yn nghyfrwng hyn *neu* hyny; yn y cyfrwng; yn nghanol hyn *neu* hyny.

Mear, *s.* = *Mere.*

Mease, *s.* (o wraidd *measure*; C. *mwys*) mwys.
Mease of herrings—mwys o ysgadan, mwys o benweig = 5 cant o ysgadan.

Measle,† *s.* gwahanglaf, un gwahanglwyfus.

Measled, *a.* (o *measles*) â'r frech goch arno; brechog, brechlyd, rhuddellog.

Measles, *s.* (Al. *maser*, *masig*) y frech goch; rhuddell; brech y moch, y pys.
To have the measles—cael y frech goch; bod â'r frech goch arno.
Measly, *a.* brechog, brechlyd.
Measurable, *a.* mesuradwy, hyfesur; meidrol, mesurol; cymmedrol, cymmesurol.
Measurableness, *s.* mesuroldeb; meidroldeb, cymmedrolder.
Measure, *s.* (Ff. *mesure*) mesur, meidr; meidraeth; dogn, dognedd, cyfran fesurol, cyfran; gradd; mesuriad; llestraid, pecaid, ffiolaid; maint, maintioli; cyrhaedd; mydr, deifr; ffordd, trefn.
Measures — mesurau; ffyrdd; arferion; camrau, llwybrau; amcanion; dychymygion; cynghorion; dyledswyddau; rhwymedigaethau.
To take measures, To form measures, llunio amcanion, dychymyg ffyrdd, cymmeryd mesurau, trefnu llwybrau; rhagddarbod.
To take new measures—newid ei amcanion; newid ei gynghorion; cymmeryd ffordd newydd; newid ei fesurau.
To concoct measures—trefnu moddion; trefnu mesurau.
Their measures are ruinous measures—ffyrdd dystryw yw y ffyrdd à gymmerant.
Take your own measures—dylynwch eich ffyrdd eich hun; cymmerwch eich ffyrdd eich hun.
I would have them change their measures—mi a fynwn iddynt newid eu cynghorion, eu trefn, *neu* eu mesurau.
Their measure I do not approve of—nid yw eu ffyrdd yn fy moddhau; nid yw eu ffyrdd wrth fy modd i; nid yw y ffyrdd à gymmerant yn fy moddhau *neu* yn fy moddio; nid yw y ffyrdd à gymmerant wrth fy modd i; nid yw eu hymddygiad yn fy moddhau; nid yw eu hymddygiad wrth fy modd i; nid wyf fi foddlawn i'w ffyrdd hwynt; nid wyf fi foddlawn i'r ffyrdd à gymmerant; nid boddlawn genyf y cynghorion à ddylynant.
To enter into separate measures—llunio amcanion neilltuol iddo ei hun heb eu mynegu *neu* eu cyfranu i arall.
To devise measures, To adopt measures, llunio ffyrdd, llunio mesurau, trefnu llwybrau, tori mesurau, trefnu moddion.
To keep measures with one—cadw heddwch âg un; cadw tegwch âg un; cadw ar deg a theg âg un.
This is a new measure of theirs—trefn newydd ydyw hon ganddynt.
Some measures are to be observed, even towards those persons from whom you received injuries—y mae rhai dyledswyddau i'w cyflawnu hyd yn oed tuag at y rhai hyny a'ch drygasant; y mae rhai dyledswyddau i'w cyflawnu hyd yn oed tuag at y rhai hyny a wnaethant gam â chwi.
Without bound or measure—heb na meidr na mesur; heb na maint na mesur.
Without the least measure of—heb y mymryn lleiaf o; heb y dim lleiaf o.
Three measures of meal—tri mesur o flawd; tri mesuraid o flawd.
Beyond measure—tu hwnt i fesur; allan o fesur; dros ben mesur; yn ddirfawr; mwy na mwy.
They were astonished beyond measure—synasant yn ddirfawr; synu a wnaethant yn anfeidrol; synodd arnynt tu hwnt i fesur; synasant fwy na mwy.
To have hard measure, To meet with hard measure, cael cam ar law un; cael triniaeth anhynaws, annhirion, *neu* annhyner.
In a great measure—i raddau helaeth; i fesur helaeth; i raddau mawr; i fesur mawr; i radd fawr; mewn gradd fawr; i grŷn raddau; i grŷn fesur; mewn mesur helaeth; yn fawr; llawer.
In some measure—i raddau; i ryw raddau; i ryw fesur; mewn rhyw fesur; mewn rhyw radd; gronyn; peth.
In measure—yn gymmedrol, gyda chymmedroldeb.
Weights and measures—pwysau a mesurau.
Canon of measure—mesuren.
Long measure—mesur hir, hirfesur, mesur hyd.
Half measure—hannereg, hanner mesur.
Coal-measure—glowanafau, gwanafau glo, haenau glo, glofesurau, gwely y glo.
Solid measure—mesur tryfaint, mesur cyfangorff.
Square measure — mesur ysgwâr, mesur petryal.
Measure, *v.* mesur, mesuro; cymmeryd mesur peth; cymmeryd hyd a lled peth; cymmeryd maint, gàn, *neu* gynnwysiad peth; mesuro gàn *neu* gynnwysiad peth; cymmesuro, cymmedroli, dogni, cyfranu; tymmeru; cynnwys; bod yn mesur; bod yn mesur cymmaint a chymmaint; bod yn gyfryw fesur; bod o'r cyfryw fesur; bod yn gymmaint a chymmaint o fesur.
To measure out to—rhoi allan wrth fesur i; rhanu wrth fesur i; mesur i, mesuro i, cyfranu i, dogni i.
To measure over again—adfesuro, adfesur, ailfesur, ailfesuro; ailfyned dros beth.
To measure with one's eye—golygu un o'i ben i'w draed; bwrw golwg ar beth drosto; mesur o un *neu* beth â'i lygad; golygu un *neu* beth o'r pen bwygilydd iddo; darllen un o'i ben i'w draed; darllen un o'i sawdl i'w goryn.
It measures seven feet — mae e'n mesur saith troedfedd; mae e'n saith troedfedd o fesur.
Measured, *a.* mesuredig; gwastad, cyfartal; diysgog; unwedd.
A measured mile—milltir fesur; milltir wrth fesur.
With measured step—â chamrau gwastad *neu* ddiysgog; yn wastad ei gamrau.
Measureless, *a.* difesur, anfesurol, anfesuradwy, diderfyn, annherfynol, anfeidrol.
Measurement, *s.* mesuriad, meidrad; mesuriaeth, mesuryddiaeth, meidraeth.
Measurer, *s.* mesurwr, mesurydd, meidradydd.
Measuring, *a.* mesurol; i'w fesur.
Measuring rod—mesurlath, dilyrbren, gwialen, gwialen fesur, tudlath.
Meat, *s.* (S. *mæte*, *mete*) bwyd, ymborth, lluniaeth; cig, cigfwyd; bara ac ennyn.

Fresh meat—cig ir, cig ffres, cig ffresg, irgig.
Butcher's meat—cig, cig ir, cig ffres, cig ffresg, cig y cigydd.
Salt-meat—cig hallt.
Mince-meat, } cig manfriw, briwgig, rhis-
Minced-meat, } fwyd, briwfwyd, rhis.
Dish meat—llymeidfwyd, bwyd dysgl.
Meat dish—dysgl gig, cig-ddysgl.
To sit down to meat, } eistedd i fwyta.
To sit down at meat, }
Fat meat—cig bras, cig tew, cig gwŷn.
Lean meat—cyhyrgig, cig teneu, cig coch.
Meat and drink—bwyd a dïod; bwyd a llŷn.
Meat-safe—crogell gig, ciccell.

Meated,† *a.* tew, pasgedig, pesgedig.

Meathe, *s.* (C. *medd;* S. *medo, medu*) medd, meddyglyn; dïod.

Meat-offering, *s.* bwydoffrwm, bwyd offrwm.

Meatus, *s.* (Ll.) mynedfa; pibell.

Meaty, *a.* (o *meat*) cigog; â chig arno.

Meawl, *v. n.*=*Mewi.*

Mechanic, } *a.* (Ll. *mechanicus;* Ff. *mécan-*
Mechanical, } *ique*) gallofyddol, llawgelfyddyddol, llawgelfyddol, llawgelfyddus; perthynol i'r mudalluoedd; crefftwrol, llaw-weithiol; perthynol i grefftwr, celfyddydwr, *neu* allofydd; perthynol i weithiwr llaw; perthynol i grefft *neu* lawgelfyddyd; mudalluol, mud-gelfyddol, mud-gelfyddydol; goberol, ofyddol; â wnaed yn ol egwyddorion *neu* reolau y mudalluoedd; hyfedr *neu* hyddysg yn y mudalluoedd; isclradd, distadl, difraint, anelwog, cyffredin.
Mechanic arts—y llawgelfyddydau, y llawgelfau, y mud-gelfyddydau, y celfyddydau llaw.
The seven principal mechanic arts—y saith brif lawgelfyddyd, y saith brif gelfyddyd grefftwrol, y saith brif gelfyddyd law, y saith brif grefft.
Mechanic powers—y mudalluoedd, y chwyfalluoedd; y galluoedd mudol, modawl, *neu* chwyfol; llaw-alluoedd.
Mechanical labour—gwaith llaw, llawwaith, gwaith dwylaw, gwaith crefftwr.
Mechanical philosophy—athroniaeth allofyddol; athroniaeth gorffilynaidd.

Mechanic, *s.* gallofydd, crefftwr, celfyddydwr, llawgelfyddwr, llawgelfyddydwr, gweithiwr llaw, dybanan, dybanon, llawofydd, llawweithiwr, llaw-weithydd, llofweithiwr; un hyfedr *neu* hyddysg yn y llawgelfyddydau.

Mechanics' institute, } gwyddonfa gall-
Mechanics' institution, } ofyddion, gwyddonfa crefftwyr, sefydliad gallofyddion, gallofyddfa, sefydliad gallofyddol.

Mechanically, *ad.* yn allofyddol, &c.; yn ol egwyddorion a rheolau y celfyddydau mudol; yn ol rheolau gallofyddiaeth; yn ol deddfau peiriannaeth.

Mechanicalness, *s.* gallofyddoldeb, gallofyddolrwydd; ansawdd gallofyddol peth; peiriannoldeb; distadlrwydd.

Mechanician, *s.* un hyddysg *neu* hyfedr mewn gallofyddiaeth; gallofiaethwr, gallofydd.

Mechanics, *s.* gallofyddiaeth, gallofiaeth, llawgelfyddiaeth, llawofyddiaeth; athrawiaeth y mudalluoedd; y llawgelfyddydau, y mudalluoedd.
Elements of mechanics—elfenau gallofyddiaeth.

Mechanism, *s.* peiriannaeth, peirianwaith, llawgelfyddwaith.

Mechanist, *s.* peiriannydd, peiriannwr, ermigwr; gallofiaethwr, gallofydd.

Mechanographist, *s.* celfadluniwr.

Mechanography, *s.* (Gr. *mêchanê* a *graphô*) celfadluniaeth, gallofluniaeth=y gelfyddyd o luosogi adluniau o ysgrifen neu o waith celfyddyd, trwy offerynoldeb peiriant.

Mechlin, *s.* math o rwydronell â wneid yn Mechlin, yn yr Alban.

Meconate, *s.* millhalan; *pl.* millhalion.

Meconic Acid, *s.* (Gr. *mêcôn*) sur nillig, sur cysglysig.

Meconin, } *s.* (Gr. *mêcôn*) nillain, cysglysnur.
Meconine, }

Meconite, *s.* tywodfaen bychan.

Meconium, *s.* (Gr. *mêcônion*) sudd y pabi, pabirwyth; ystlom cyntaf babanod.

Medal, *s.* (Ff. *médaille;* o'r Ll. *metallum*) bathodyn, bathain, bathyn, batharn, bathon, bathod, coflun, cof-ddryll, cofargraff, tlws; hen ddryll o aur, arian, *neu* efydd bath: *pl.* bathodau, bathodion, batheiniau, batholion.
Silver medal—ariandlws, bathodyn arian, tlws arian.
Gold medal—eurdlws, bathodyn aur, tlws aur.
Ancient medals—hen fathodau, hen fathau, drylliau hen-fath.

Medalist, *s.* bathofydd, bathodwr, bathodydd, batheinydd; casglwr a darllenydd cof-ddrylliau bathedig; hoffwr yr hen-fath.

Medallic, *a.* bathodol, batheiniol; perthynol i fathodyn *neu* fathodau.

Medallion, *s.* (Ff. o *medal*) bathodyn mawr, coflun mawr, gorfathodyn, arfathodyn; coflun o'r fath fwyaf.

Medallurgy, *s.* (*medal,* a Gr. *ergon*) bathodwaith, coflunwaith; gwneuthuriad bathodau a chofluniau.

Meddle, *v. n.* (Is. *middelen;* Al. *mittler*) ymyryd, ymyru, ymyraeth, amyru, ymhel, ymhela; bod yn ymyrgar; trin, trafod.
To meddle with—ymyryd â, &c.; bod i un â wnelo â; ymyru ar; trin, trafod; ymosod ar.
To meddle with an affair, } ymyryd â
To meddle in an affair, } pheth, &c.
Why dost thou meddle to thy hurt?—i ba beth yr ymyri i'th ddrwg dy hun? pa ham yr wyt yn ymyru er drwg i ti dy hun?
Do not meddle with her—paid âg ymyryd â hi; gad iddi yn llonydd; gad hi yn llonydd.
I will neither meddle nor make in it—ni bydd i mi â wnelwyf âg ef; ni bydd genyf fi na llaw na bys ynddo.
Meddle no more with them for ever—na fydded â wneloch chwi mwy â hwynt byth.
To meddle no more with *or* in, } bod
Not to meddle any more with *or* in, } heb ymyru â pheth mwyach; peidio âg ymyru â pheth mwyach.
Meddle not with many matters; for if thou meddle much, thou shalt not be innocent—na ymyr ar lawer o bethau; o herwydd os trini lawer peth, ni byddi ddifai (*Eccles.* xi. 10).

Meddle, † *v. a.* cymmysgu.

Meddler, *s.* ymyrwr, ymyrydd, amyrwr, ymhelwr, dyn ymyrgar; prysur heb ddïoloh;

un â'i fys yn mrywes *neu* botes pawb; un â fwrio ei gryman i yd pawb; un â roddo ei lwy yn nysgl pawb; prysurwas.

Meddlesome, } *a.* ymyrgar, amyrgar, ymyrus,
Meddling, } mawr ei ymyraeth, ymhelgar, negesgar, swyddgar.
Every fool will be meddling—pob ffol a fyn ymyraeth.
It is ill meddling with edged tools—drwg ymryson â'r tân; drwg ymryson â'r gof yn ei efail.

Meddlesomeness, *s.* ymyrgarwch, ymyrusrwydd, ymhelgarwch.

Mediæval, } *a.* (Ll. *medius* ac *ævus*) canoloes-
Medieval, } awl; perthynol i'r canoloesoedd; yn perthyn i'r canoloesau; yn perthyn i'r oesoedd canol.
Mediæval architecture—adeilyddiaeth y canoloesoedd, adeiladaeth ganoloesawl.

Medial, *a.* (Ll. *medius*) canolig, canol; cyfryngol, cyfrwng; go-.

Median, *a.* (Ll. *medianus*) canolig; yr hyn sydd yn y canol.

Medianos, *s. pl.* colofnau canol pendist.

Mediant, *s.* cyfryngnod.

Mediastine, } *s.* (Ll. *mediastinum*) llengig,
Mediastinum, } llieingig, cefndedyn, cyndedyn, percini, perfeddlen.

Mediate, *a.* (Ff. *médiat*; Ll. *medius*) cyfryngol, cyfryngaidd, cyfrwng, cyfryngedigol, rhyngol; canolig, canolaidd; â fo yn y cyfrwng.

Mediate, *v.* cyfryngu; sefyll rhwng, rhyngu; eiriol.

Mediately, *ad.* yn gyfryngol; trwy gyfrwng; trwy gyfryngau.

Mediation, *s.* (Ll. *mediatio*) cyfryngiad, cyfryngiaeth, cyfryngoliaeth, cyfryngedigaeth; cyfryngdod; eiriolaeth, eiriolad, eiriolwch.

Mediatisation, *s.* cyfrynguniaeth=cyssylltiad neu uniad penaduriaethau bychain yr Almaen wrth y rhai mawrion cyfagos.

Mediatise, *v. a.* (o *mediate*) cyfrynguno, cyfryngasio; uno yn gyfryngol *neu* gyfryngaidd.

Mediator, *s.* (Ll.) cyfryngwr, cyfryngydd, canolwr, canolydd; eiriolwr, eiriolydd.
A female mediator—cyfryngyddes, cyfryngwraig, cyfrynges.

Mediatorial, *a.* cyfryngyddol; perthynol i gyfryngwr *neu* gyfryngydd; cyfryngol.

Mediatorship, *s.* cyfryngwriaeth, cyfryngyddiaeth, cyfryngiaeth, eiriolyddiaeth; swydd cyfryngwr.

Mediatory, *a.* cyfryngedigol, cyfryngol; perthynol i gyfryngdod.

Mediatress, } *s.* cyfryngyddes, cyfryngwraig,
Mediatrix, } cyfrynges; eiriolyddes, eirioles.

Medic, } *s.* (Ll. *medica*; o'r Gr. *mêdikê*) mag-
Medick, } lys.
Purple medic, } maglys rhuddlas.
Lucerne, }
Black medic, } maglys gwineuddu.
Nonsuch, }
Heart medic, } maglys amrywedd, meill-
Claver, } ionen gragenog, llysiau y myheryn.
Yellow medic—meillionen gorniog, maill corniog.
Sea medic—maglys arfor.

Medicable, *a.* meddygadwy, iachadwy, gwelladwy.

Medicago, *s.* (Gr. *mêdikê*)=*Medic, Medick.*

Medical, *a.* (Ll. *medicus*; Gr. *mêdicos*) meddygol, meddyginiaethol; perthynol i feddyginiaeth; meddygin, iachaol.
Medical advice — cynghor meddygol, cynghor meddyg.
Medical art — meddyginiaeth, meddygiaeth, y gelfyddyd feddygol, celfyddyd iachäu clefydau, celfyddyd iachäu.
Medical jurisprudence—rheithofyddiaeth feddygol.

Medically, *ad.* yn feddygol, &c.; fel meddyginiaeth; ar wedd meddyginiaeth.

Medicament, *s.* (Ff.; Ll. *medicamentum*) meddyginiaeth, meddygiaeth; meddygyn; eli; swyn, cyfaredd; ymwared.

Medicamental, *a.* meddygol, meddyginiaethol, meddygin; perthynol i feddyginiaeth; â arferir mewn meddyginiaeth; yn perthyn i gyfaredd; â rhinwedd feddygol ynddo *neu* arno; cyfareddol; eliol.

Medicaster, *s.* crachfeddyg, coegfeddyg, cyfareddwr.

Medicate, *v. a.* (Ll. *medico*) meddygu, meddyginiaethu, iachäu, gwella; rhoi yn wlych mewn diod gyfaredd; rhoi yn wlych mewn cyffaeth; cyffeithio; trwytho â moddion meddygol; cyfferïo.

Medication, *s.* meddygiad; meddygiaeth; trwythiad â moddion meddygol.

Medicative, *a.* meddygol, meddyginiaethol, iachaol, meddygin, gwellhaol.

Medicinable, *a.*=*Medicinal.*

Medicinal, *a.* (Ll. *medicinalis*) meddygol, meddyginiaethol; perthynol i feddyginiaeth; iachaol, meddygin; perthynol i gyfferi; cyfferïol.

Medicinally, *ad.* yn feddygol, &c.; fel meddyginiaeth; ar wedd meddyginiaeth.

Medicine, *s.* (Ll. *medicina*) meddyginiaeth, meddygiaeth, celfyddyd iachäu clefydau; cyfaredd; cyffer, cyffyr meddygol; eli; swyn: *pl.* cyfferi, cyffyriau, cyfareddion, cyfareddau, moddion meddygol.
Doctor of Medicine—Doethor Meddygiaeth, Doethor Meddyginiaeth.
Bachelor of Medicine—Mebydd Meddyginiaeth, Baglor Meddyginiaeth.
Quack medicines—crach gyfferi, crach feddyginiaethau, coeg feddyginiaethau, twyll-gyfferi, crach gyfaredd, cyfareddion gwrach, cyfareddion, twyll-gyfareddion, cyfareddion crachfeddyg.
Under a course of medicine—dân hwyl meddyginiaeth *neu* feddygiaeth; dân driniaeth feddygol.

Medicine, † *v. a.* gweithio fel meddyginiaeth.

Medics, † *s.* athrawiaeth cyfferi, cyfferïaeth.

Mediety, *s.* (Ll. *medietas*; Ff. *médiété*) hanner, hannereg; canoligrwydd.

Medieval, } *a.* (Ll. *medius* ac *ævus*) canoloes-
Mediæval, } awl; perthynol i'r canoloesoedd; yn perthyn i'r canol oesau; yn perthyn i'r oesoedd canol.

Medin, *s.* darn bath, ar arfer yn yr Aipht, gwerth o ddeutu dimai: hefyd, mesur yd yn y wlad hòno, o ddeutu cymmaint a phwysel Seizonig.

Mediocral, *a.* (Ll. *mediocris*) canolig; cyffredin, lled gyffredin lledweddol.

Mediocre, *a.* (Ll.) canolig; cyffredin; rhwng y ddau: cymmedrol, gogymmedrol, lledweddol; cryn, syrn.

Mediocrist,† *s.* un o gynneddfau canolig *neu* gyffredin.

Mediocrity, *s.* (Ll. *mediocritas*) canoligrwydd, canolrwydd; cymmedredd, cymmes, canolradd; cymmedroldeb, cymmesurwydd; mesur difai ddigon, crŷn fesur, nid gormodd, crŷn ddigon.

Meditate, *v.* (Ll. *meditor*) myfyrio, myfyrio ar; meddylied, meddylio, meddwl; bwriadu, amcanu, arfaethu; efrydu, efrydio, astudio; ystyried, ystyrio; llunio, dylunio, dyfeisio; myfyriannu; meddwl am; dwys fyfyrio, dwfn fyfyrio, syn fyfyrio; arsynied.

To meditate before hand—rhagfyfyrio; rhagystyried, rhagfwriadu.

Meditation, *s.* (Ll. *meditatio*) myfyrdod, myfyriad, myfyriant, myfyriaeth, myfyrawd, myfyr; ystyriaeth, arystyriaeth; efryd, astudiaeth; amcan, bwriad; arsyniad; eorthedd; pryder; dyhewyd.

Addicted to meditation, } myfyrgar, medd-
Given to meditation, } ylgar, ystyrgar.

Meditative, *a.* myfyrgar, meddylgar, myfyriol, myfyr, myfyrus, myfyriedigol, myfyriannus, myfyrdodol, myfyriadol, ystyrgar, arystyriol.

Mediterrane, † *a.*=*Mediterranean.*

Mediterranean, } *a.* (Ll. *medius* a *terra*) can-
Mediterraneous, } oldir, canoldirog, canoldiraidd, canoldirol, ynnhirog, ynnhir, amdirol, cylchdirol; yr hyn sydd yn nghanol y tir; dïarfor, dïarforol, anarforol; pell o'r môr.

Mediterranean Sea—Môr y Canoldir, y Môr Canoldir, y Môr Ynnhirog, y Môr Ynnhir, y Canolfor.

Mediterraneous mountains—mynyddoedd ynnhirog, mynyddoedd ynnhir, mynyddoedd canoldir; mynyddoedd pell o'r môr.

Medium, *pl.* Media, Mediums, *s.* (Ll.) cyfrwng; canol, y canol; cyfwng, rhwng; elfen gyfrwng; elfen; cyfrwng *neu* elfen hydraidd; modd, ffordd, llwybr; offeryn; yr enw canol (mewn rhesymeg).

Through the medium of—trwy gyfrwng.

Medium octavo—wythplygcyffredin, wythplyg canolig, wythplyg canol, wythplyg cyfrwng.

Circulating medium—tâl cylchynol, treinwerth, cyfrwng train, arian damred.

Geometrical medium—cyfrwng meidrofyddol.

Arithmetical medium—cyfrwng rhifyddol.

Medlar, *s.* (S. *mæd;* Ll. *mespilus*) meryswydd, (*sing.* meryswydden), merys, ceri, y dindoll, tinegored, tinagored; afal tindoll, afal tinegored, afal tinegor, afal tinagored.

Medlar tree—meryswydden, merys, merysbren, ceri, y pren ceri, y dindoll.

Medle, } † *v. a.* (o *meddle*) cymmysgu, dy-
Medley, } fysgu, mysgu.

Medley, *s.* cymmysgedd, mysgedd, cymmysg, cymmysgfa, cybolfa, dychymmyg.

Chance-medley — anoddeu, hapladdiad, damwein-laddiad, dynladdiad damweiniol; llofruddiaeth ddamweiniol *neu* ddifwriad.

Medley, *a.* cymmysg, cymmysgedig, didrefn; â fo cymmysg o amryw bethau; amryfysg.

Medulla, *s.* (Ll.) mêr, madrudd, madruddyn; bywyn, bywed, bywedyn, mwydionyn.

Medullar, } *a.* (Ll. *medullaris*) perthynol i'r
Medullary, } mêr; yn perthyn i'r madrudd; meraidd, madruddol, madruddaidd; merog, madruddog; tebyg i fêr *neu* fadrudd; tebyg i'r mêr.

Medullin, } *s.* (Ll. *medulla*) bywednur, bywed-
Medulline, } ain=bywyn yr heulfiodyn a'r bibwydden, yr hwn nid oes arno na blas nac arogl.

Medusa, *s.* (Ll.) morddanad, morddanadl= math o reiddogion morawl.

Medusidians, *s. pl.* (o *Medusa*) morddanadogion, Medusidiaid = rheiddogion gludaidd à nofiant yn y môr.

Meed, *s.* (S. *med;* Sans. *medha*) gwobr, gwobrwy, gobrwy, gobr, tâl;† rhodd, anrheg.

Meek, *a.* (Sw. *mjuk;* D. *myg;* Port. *meigo*(llariaidd, llaryaidd, llary, llariain, addfwyn, llednais, tirion, gwâr, hynaws, difalch, gostyngedig, iselfrydig, iselfryd, ufydd, araf, mwyth; dystaw, dyoddefgar, amyneddgar, *neu* ddirwgnach mewn cystudd.

The meek—y rhai llariaidd, llednais, *neu* addfwyn.

A meek person—un llariaidd, dyn llednais, &c.; lledneis-ddyn.

Delicate and meek—meinwar.

To grow meek—llarieiddio, llaryeiddio; myned yn llariaidd, &c.

To make meek—gwneuthur yn llariaidd, llarieiddio, llaryeiddio, llareiddio, llaryo, tawelu, gwarhau, tirioni.

Meeken, *v. a.* llarieiddio, llaryeiddio, llaryo, llareiddio, llarychu, gwarhau, tirioni; gwneuthur yn llariaidd, &c.

Meekeyed, *a.* llygadfwyn, llygadwar; â chanddo lygaid llariaidd, addfwyn, *neu* lednais; addfwyn *neu* lariaidd ei olwg.

Meekness, *s.* llarieidd-dra, llaryedd, llareiddrwydd, llaryeiddrwydd, lledneisrwydd, llareiddiwch, addfwynder, tiriondeb, tirionwch, tirionder, hynawsedd, hynawsder, gwaredd, gwarineb, gwarder, tynerwch, gwareddogrwydd, gwareiddiwch, llarwch, arafwch, [arafedd.

Meer, *a.*=*Mere.*

Meer, *s.*=*Mere.*

Meered, *a.* cyffiniol, cyffiniog; perthynol i gyffin.

Meerschaum, *s.* (Al.) morewyn, morfolwyn.

Meet, *a.* (S. *gemet*) addas, cyfaddas, cymhwys, gweddus, gweddaidd, cymmesur, addwyn, cyweddus, gwiw, priodol, iawn.

To be meet—bod yn addas, &c.

It is meet—addwyn yw, gweddus yw; y mae yn addas; e weddai, fe weddai, me weddai, e gyngweddai, e gynghanai, gweddai.

It was meet—addas oedd; yr oedd yn addas; rhaid oedd.

It is not meet to do so—nid cymhwys gwneuthur felly; ni ddylid gwneuthur felly.

If it be meet—os bydd addas; os bydd y peth yn gweddu.

To think meet, } tybied bod yn iawn,
To think it meet, } yn addas, yn gymhwys, *neu* yn weddaidd.

It is very meet—mae yn gwbl addas; y mae yn addas iawn.

Such as was meet—y cyfryw ag ydoedd raid (*Rhuf.* i. 27).

Meet, *v.* (*S. metan, mætan ;* D. *möder*) cyfarfod, cyfarfod â, cyfarfod âg, ymgyfarfod, cyffwrdd, cyhwrdd, cyfhwrdd, cwrdd, cwrddyd, cyffwrdd â, cwrdd â, cyhydreg; dyfod *neu* fyned yn erbyn; taro wrth; dygwyddo; dygyfeirio; erbynio; gwrthwynebu; cael, caffael; cydio.

To meet with—cael; taro wrth, taraw wrth; cael gafael ar; cyfarfod â, cyffwrdd â, cwrdd â.

To meet together—cyfarfod, cydgyfarfod, ymgyfarfod; dyfod yn nghyd.

To meet by chance—cael *neu* gaffael o ddamwaen; dygwyddo *neu* ddamweinio ar beth; dygwyddo *neu* ddamweinio am ben peth; dyfod o ddamwaen ar beth *neu* am ben peth; cyfarfod o ddamwaen â pheth; cyfarfod â; taro wrth beth drwy ddamwaen; dywanu ar, syrthio ar; cael, caffael.

They meet—y maent yn cyffwrdd.

To meet one another, } ymgael; cyfarfod

To meet together, } â'u gilydd, ymgyfarfod.

That one shall seldom meet withal—à ddygwydd yn anfynych; odid gweled y fath.

Come to meet me—tyred i'm cyfarfod; dere yn fy erbyn; dyre yn fy ngwrth.

To meet half way—dyfod hanner y ffordd; dyfod hyd hanner y ffordd; myned hanner y ffordd.

A friend and companion never meet amiss—cyfaill a chydymaith ni chyfarfyddant byth mewn anmhryd; cyfaill a chydymaith a gyfarfyddant mewn pryd.

Let us meet together in the house of God—cyfarfyddwn yn nhy Duw.

A place where two seas meet—deufor-gyfarfod.

Meeter, *s.* cyfarfyddwr; un à gyferfydd âg arall.

Meeting, *s.* cyfarfod, ymgyfarfod, cwrdd, cyhwrdd, cyfrwch; cymmanfa; cynnulleidfa; eisteddfod; cynnulliad, cynnull, cynnullaid.

A solemn meeting—cyfarfod arbenig, uchelwyl gyfarfod (*Esa.* i. 13).

The meeting of two rivers—cymmer; ymgyfarfod dwy afon; aber.

The meeting of two seas—deufor-gyfarfod, ymgyfarfod deufor.

Love meeting—nwyfoed, cyfarfod serch, cwrdd serchogion.

Meetinghouse, *s.* ty cwrdd, ty cyfarfod, cyfrdy; addoldy, addolfa, ty addoliad.

Meetly, *ad.* yn addas, &c.

Meetness, *s.* (o *meet*) addasrwydd, cyfaddasrwydd, cymhwysder, gweddusder, gweddusrwydd, gweddeidd-dra, priodoldeb, gwiwdod; tyciant.

Megacosm, *s.* (Gr. *megas* a *cosmos*) y byd mawr, y cyfanfyd.

Megalichthys, *s.* (Gr. *megas* ac *ichthos*) math o bysg madfeillaidd diflanedig.

Megalonyx, *s.* (Gr. *megalé* ac *onyx*) ewinfil= math o greadur difancoll.

Megalophonous, *a.* (Gr. *megalé* a *phóné*) crochlais, uchelseiniog, croch, crochleisiog.

Megalopolis,† *s.* (Gr. *megalé* a *polis*) mamddinas, prif ddinas.

Megalosaurus, *s.* (Gr. *megas* a *sauros*) math o fadfil cloddiannol.

Megalopsychy, *s.* (Gr. *megalé* a *psuché*) mawrfrydedd.

Megascope, *s.* (Gr. *megas* a *scopeó*) mawrsyllyr.

Megatherium, *s.* (Gr. *megas* a *théra*) bwystfil diflanedig y ceir ei weddillion yn Neheudir Amerig.

Megrim, *s.* (Ff. *migraine ;* Gr. a Ll. *hemicrania*) meigryn, y meigryn, gwaew y meigryn; pendro.

Meine,† *v. a.* (S. *mengan*) cymmysgu.

Meine, } † *s.* (Norm. *meignee, meiny*) tyweis-

Meiny, } ion, gweinidogion, gweinyddion; tyaeth, teulu.

Meionite, *s.* (Gr. *meión*) lleifaen, lleiem.

Meiosis, *s.* (Gr.) eiddildeb.

Melæna, *s.* (Gr. *melas, melaina*) dugyfog, cyfog du.

Melah, *s.* ffair pererinion (yn yr India Ddwyreiniol.)

Melampode, *s.* (Gr. *melampodion*) pelydr du.

Melampyrine, *s.* bulithain, biwlithain=dansawdd à geir yn y biwlith.

Melampyrum, *s.* (Gr. *melas* a *pyros*) biwlith, bulith, gliniogai.

Melanagogue, *s.* (Gr. *melas* ac *agó*) cyffer i darfu y geri du.

Melancholian,† *s.*=*Melancholic, s.*

Melancholic, } *a.* trist, athrist, pendrist, prudd,

Melancholy, } anhylon, trymfrydig, pruddglwyfus, wynebdrist, dilon, dybyriol, aflawen, trymllyd; claf o'r ddueg; darostyngedig i glefyd y ddueg; o anian *neu* naws y ddueg; hudgyllig; isel ei ysbryd; galarus, alaethus, tryshinebus.

A melancholic complexion *or* disposition—tymmer, naws, *neu* anian y ddueg; tymmer, naws, *neu* anian athrist *neu* anhylon.

Melancholy thistle—ysgallen fwyth.

Melancholic, *s.* pruddglaf, pruddglwyfog, un pruddglwyfus, un prudd, &c.; un à'r ddueg arno: *pl.* pruddgleifion, pruddglwyfogion.

Melancholily, *ad.* yn drist, &c.

Melancholiness, *s.* tristwch, tristedd, athristedd, pruddineb, athristwch, prudd-der, iselder ysbryd, ansirioldeb, anhylonrwydd; ansawdd pruddglwyfus.

Melancholious,† *a.* trist, athrist, prudd, &c.

Melancholist, *s.* pruddglaf, pruddglwyfog, un pruddglwyfus, un trist, &c.; un claf o'r pruddglwyf.

Melancholize, *v.* myned yn drist, &c.; tristäu, pruddhau; myned i'r ddueg; pruddglwyfo, gwneuthur yn bruddglwyfus.

Melancholy, *s.* (Gr. *melan* a *cholé ;* Ll. *melancholia*) pruddglwyf, pruddwst, pruddineb, dueg, duegwst, hudgyllaeth, wst, iselder ysbryd, iseldra ysbrydoedd, pruddnawa, y nawa prudd, y dymmer brudd; prudd-der, tristwch, tristedd, athristedd, anhylonder, trymfrydigrwydd.

Melangallic Acid, *s.* (Gr. *melan*, a *gallic*) sur duddarfalig; peth du à geir o sur darfalig.

Melange, *s.* (Ff.) cymmysgedd, mysgedd, cymmysg, dychymmysg, cymmysgfa, cybolfa.

Melanite, *s.* (Gr. *melas*) dufaen, maen du, duem.

Melanitic, *a.* dufeinin, dufeinig; perthynol i ddufaen.

Melanosis, *s.* (Gr. *melan*) y clefyd du.

Melanteri, *s.* (Gr. *melan*) hal haiarn.

Melanure, } *s.* (Gr. *melan* ac *ouros*) un o

Melanurus, } bysgod Môr y Canoldir.

Melasma, *s.* (Gr. *melas*) dufanwst.

Melasses, } *s.* (It. *melassa;* Ff. *mélasse*) triagl,
Molasses, } sugrws.

Melassic Acid, *s.* sur sugrysig, sur triagl.

Melee, *s.* (Ff.) cymmysgedd, cybolfa; ymladd, ffrwgwd, ysgarmes, ymddygwd.

Melicerous, *a.* (Gr. *melicêris*) melgodaidd, melgrawnog, melgornaidd.

Melic-grass, } *s.* (It. *melica;* Ll. *mel*) melig-
Melick-grass, } wellt, meliewellt.

Wood melic-grass—meligwellt y goedwig.

Purple melic-grass—meligwellt rhuddlas.

Melilite, *s.* (Gr. *meli* a *lithos*) melfaen.

Melilot, *s.* (Ll. *mel* a *lotus*) gwydro, godrwyth, mêl y ceirw, meillionen y ceirw.

Meliorate, *v.* (Ff. *améliorer;* o'r Ll. *melior*) gwellhau, gwella, diwygio; gwrteithio, diwyllio, trwsio, tacluso; gwneuthur yn well; myned yn well.

Melioration, *s.* gwellhad, gwelliant, gwellineb, gwelliad, diwygiad; diwylliad, gwrteithiad.

Meliority,† *s.* gwellineb, gwell cyflwr.

Meliphagidæ, } *s. pl.* (Gr. *meli* a *phagô*) mel-
Meliphagidans, } sugnyddion=teulu o glugadar gylfinfain.

Melite, *s.* (Gr. *meli*) melfaen.

Melittis, *s.* (Gr. *melitta*) gwenynog, y wenynog.

Mell,† *v. n.* (Ff. *mêler*) cymmysgu, cyboli; ymyru, ymyryd.

Mell, *s.* (Ll. *mel;* Gr. *meli*) mêl.

Mellate, *s.* melhalan; *pl.* melhalion.

Melliferous, *a.* (Ll. *mellifer*) melddwyn, à ddygo fêl, à ddwg fêl, yn dwyn mêl, melog, melfag, melain, melaid.

Mellification, *s.* (Ll. *mellifico*) gwneuthuriad mêl, melwaith, melweithiad.

Mellifluence, *s.* (Ll. *mellifluens*) melred, melrediad, melusred, meluslif, melffrydiad, melliant; llifeiriad gân fêl.

Mellifluent, } *a.* (Ll. *mellifluens, mellifluus*)
Mellifluous, } melred, meldardd, melredol; yn llifeiriaw o fêl; melddwyn, melog, melain; melus, peraidd, hyfryd, melusber; parablber; mel-eneu.

Melligenous, *a.* (Ll. *melligenus*) melryw, melrywiol; o rywogaeth y mêl; âg iddo ansoddion mêl.

Mellit, *s.* (Ll. *mel*) melgrachen.

Mellitate, *s.* melfaenawd, hal melfaen.

Mellite, }
Mellilite, } *s.* (Gr. *meli;* Ll. *mel*) melfaen.

Mellitic, *a.* melfeinin, melfeinig; yn perthyn i'r melfaen.

Mellitic acid—sur melfeinig.

Mellon, *s.* (Ll. *mel*) melbylor.

Mellow, *a.* (S. *melewe;* Al. *mehl;* Is. a D. *meel*) addfed, ffaeth, meddal, blodwy; chwâl, tyner, *neu* feddal gân addfedrwydd; blawdog, blodwy, *neu* ber fel peth addfed; tyner, awsaidd, meddf, blydd, plydd, esmwyth, chwâl; mwyn, hyfryd, per, peraidd, melusber; gofrwysg, lledfeddw, gofeddw, meddw, brwysg; llawen, llon.

Mellow wine—gwin addfed, gwin ffaeth; gwin rhywiog gân oedran.

Mellow apples—afalau ffaeth, blodwy, *neu* addfed.

Mellow land—tir ffaeth, tir chwâl, pridd chwâl, tir mwrl.

Mellow sound—sain fwyn, sain hyfryd, sain beraidd, peraidd sain; sain hyfryd i'r glust.

Not mellow—anaddfed, anffaeth, anmlodwy; newydd.

Too mellow—goraddfed, rhy addfed, rhy ffaeth.

Very mellow, } tryffaeth, tra ffaeth, cwbl
Quite mellow, } ffaeth.

To grow mellow—ffaethu, addfedu, meddalu, tyneru, blodwyo; pereiddio; myned yn addfed, &c.

To grow mellow with liquor—dechreu meddwi *neu* chwalu; cynhesu *neu* ymgynhesu wrth y cwrw; dechreu twymo ei droed.

Mellow, *v.* addfedu, ffaethu, meddalu, meddalhau, tyneru, blodwyo, plyddu, meddfu; pereiddio, perhau; chwalu; gwneuthur yn addfed *neu* ffaeth; gwneuthur yn chwâl *neu* fwrl; myned yn addfed *neu* ffaeth.

Mellowness, *s.* addfedrwydd, addfedwch, ffaethder, ffaethedd, ffaethusrwydd, meddalwch; blawdogrwydd, blodwyedd; plyddedd.

Mellow-toned, *a.* per ei sain, peraidd ei sain, per ei dôn, persain, perseiniog, perseiniol, hyfrydlais, mwyn ei sain, scinber.

Mellowy, *a.* meddal, tyner, meddf, plydd, blydd, ffaeth; bras, blonaidd.

Melocotone, *s.* (Ysp. *melocoton*) cwins; afal peatus mawr.

Melodious, *a.* (o *melody*) perseiniol, persain, hyfrydlais, per ei sain, peraidd ei sain, melus ei sain, hyfrydsain, pereiddsain, perorawl, peroriaethol, peroriaethus, seinber, cynghaneddol, cynghaneddog, cynghan, perleisiol, erddyganol, per, peraidd, melus, melusber, hyfryd, hyfrydaidd, melodus, melodaidd, maws, mawsaidd, chweg, eosaidd, cerddber, eilw, llafar, melseiniol.

Melodious tone—arianllais; peraidd dôn, tôn berseiniol, &c.

Melodiously, *ad.* yn berseiniol, yn beraidd ei sain, &c.

Melodiousness, *s.* perseinioldeb, perseiniolrwydd, cynghaneddogrwydd, cynghaneddolrwydd, pereidd-dra, melusder, &c.

Melodist, *s.* perseiniwr, perseinydd, perorydd, melodwr, melodydd, eilonydd; cyfansoddwr a chantor melodion.

Melodize, *v. a.* gwneuthur yn berseiniol, &c.; perseinio, peroriaethu, cynghanu, melodi, peroriaw, perori, peroriannu.

Melodramatic, *a.* canchwaryddol, canchwareuol, mawschwareuol.

Melodrame, } *s.* (Gr. *melos* a *drama*) canchwar-
Melodrama, } yddiaeth, canchwareu, canchware, mawschware, melodrawd.

Melody, *s.* (Gr. *melôdia*) peroriaeth, persain, melusgerdd, melusgan, melwawd, meluswawd, pereiddsain, peroslef, erddygan, melsain, melodeg, melodiaeth, eilon, pereiddgerdd, pereidddgan, pergerdd, pergan, melawd, cynghanedd, hyfrydlais, hyfrydsain, cethledd, cethlyd, cethlyddiaeth; maws, seiniedi; anawel; melusder, melusdra, *neu* bereidd-dra cerdd *neu* sain: *pl.* melodion.

To make melody—peroriaethu, peroriaw, perori, peroriannu, cynghaneddu, pyncio.

The melody of music—melusdra peroriaeth, melusder cerddoriaeth.

The voice of melody—llais cân (*Esa.* li. 3.)

Sing sweet melody—cân gerdd yn dda (*Esa.* xxiii. 16).

Melon, *s.* (Ff. ; Ll. *melo;* Gr. *melon*) melon, melwn, mwlon, pompiwn, pompion.

Melrose, *s.* (Ll. *mel* a *rosa*) mêl rhos, mêl y rhos, rhosfel, mêl y breilw.

Melt, *v.* (S. *meltan*) toddi; ymdoddi, dadlaith, daleithio, dadmer, dadmeru, meiriol, meirioli, dadferu; ymollwng.

To be melted—ymdoddi, dadlaith, dadleithio, dadmer, toddi.

To melt away—toddi ymaith, toddi, treulio ymaith ; ymwasgaru ; tolio.

To melt into tears—ymdoddi gân ddagrau ; wylo yn hidl *neu* hidlaidd.

That may be melted — toddadwy, hydawdd, dadmeradwy.

Melted, *p.p.* toddedig, &c. ; tawdd.

Melter, *s.* toddwr, toddydd, toddiedydd.

Melting, *a.* toddawl, toddedigol, toddiannol, tawdd ; tynerol, meddalhaol ; yn tueddu i doddi, i dyneru, *neu* i feddalhau.

A melting discourse—ymadrodd à dawdd ac à dynera y neb a'i gwrandawo ; ymadrodd à dawdd ac à bair dynerwch yn y neb a'i gwrandawo ; araeth dawdd, araeth doddedig.

Melting, *s.* toddiad, toddiant, toddedigaeth, tawdd ; ymdoddiad, ymdawdd, dadmeriad, dadleithiad, meddalhad.

Melting house—todd-dy, toddfa, tawdd-dy, dyneudy.

Melting-pot—toddlestr, toddbot, toddgib, llestr toddi.

Meltingness, *s.* toddoldeb, toddolrwydd, toddiannoldeb, toddedigrwydd.

Melwel, *s.* math ar bysg.

Member, *s.* (Ff. *membre ;* Ll. *membrum*) aelod, (*c. g.*) ; pyw ; rhan *neu* ddarn o beth ; adran.

Member of a society—aelod o gymdeithas, aelod i gymdeithas.

Member of a community—brodor, aelod o gyfundeb, aelod i gyfundeb, aelod o wladwriaeth.

Member of parliament—seneddwr, aelod seneddol, aelod y senedd, aelod o'r senedd.

The members of the congregation—aelodau y gynnulleidfa.

By members—bob yn aelod ; yn aelodau ; o'r naill aelod i'r llall ; yn ddryfliau, yn ddarnau.

Having three members—triaelodog, triaelod.

To become a member—ymaelodi ; myned yn aelod.

To make a member, } aelodi ; gwneuthur
To admit a member, } yn aelod, derbyn yn aelod.

Having members—âg iddo aelodau ; âg aelodau iddo ; aelodog.

Membered, *a.* aelodog ; âg iddo aelodau ; âg aelodau iddo.

Large-membered, } aelodfawr, aelodog ; âg
Big-membered, } aelodau mawr iddo ; aelodfras.

Membership, *s.* aelodiaeth, aelodaeth ; cyfundeb, undeb, cymdeithas.

Membrane, *s.* (Ff. ; Ll. *membrana ;* Gw. *meambrum*) pilen, pilionen, croenyn, croenen, mangor, glasgroen.

A fine membrane—mangor.

The membrane of the brain—breithell, pilen, *neu* bilionen yr ymenydd ; crefadyr.

Mucous membrane—llysbilen, pilen lyslyd, pilen lysnafeddog, pilionen lysog, llysgroenen.

Serous membrane—pilen ddyfrllyd, pilen feiddlyd, dyfr-bilen, dwr-bilen.

Fibrous membrane—pilen linaidd, pilen linedaidd.

Membraneous, } *a.* (Ll. *membraneus, mem-*
Membranous, } *branaceus*) pilenaidd, croen-
Membranaceous, } enaidd; pilenog, croenenog, pilionog, llawn pilenau ; heb ynddo ddim ond pilenau.

Membraniform, *a.* (Ll. *membrana* a *forma*) pilenaidd, croenaidd ; ar ddull pilen *neu* groenen.

Memento, *s.* (Ll.=cofia) cofen, cofeb, cofarwydd, cofiaeth ; lledrybudd, awgrym, rhybudd, gogrybwyll.

Memento mori—cofia angeu ; cofia y byddi farw ; cofia farw.

Memoir, *s.* (Ff. *mémoire*) cofiant, argofiant, argof, dargofiant, dargofiad ; cofiyfr, nodlyfr, brud, brut : *pl.* cofiaint, cofiannau, argofion.

Memoirs of the Royal Society—Argofion y Gymdeithas Freninol.

Memoirist, *s.* cofiannydd, cofiannwr, argofiwr, ysgrifenydd cofiaint.

Memorabilia, *s. pl.* (Ll.) gwiwgofion, hygofion, pethau hynod a gwiwgof.

Memorability, *s.* hygofrwydd, gwiwgofrwydd.

Memorable, *a.* (Ff. ; Ll. *memorabilis*) hygof, cofiadwy, gwiwgof, cofus ; hynod, hyglod, nodedig, clodfawr, enwog, dathl.

Memorandum, *s.* (Ll.) cofnod, nod sylw; cofnodeb.

Memorandum-book—nodlyfr, cofnodlyfr, llyfr cofnodau, llyfr coffadwriaeth.

Memorate, † *v. a.* (Ll. *memoratus*) coffa, coffhau, dwyn ar gof.

Memorative, *a.* (o'r Ll. *memor*) cofiedigol, cofiadol ; a'r sydd yn cofio ; à arferir i gofio ; à arferir i alw peth i gof.

The memorative power, } y cof ; y gallu
The memorative faculty, } cofiedigol.

Memorial, *a.* (Ff. ; Ll. *memorialis*) cofiol, argofiol, coffaol, cofiannol, cyfargofiol, coffadwriaethol ; à geidw goffadwriaeth peth ; à arferir *neu* à osodir er cadw coffadwriaeth peth ; cadwedig yn nghof ; y sydd yn nghof ; ar gof ; i'w gadw yn nghof ; i'w gofio.

Memorial verses — cofwersi, pennillion coffaol.

Memorial, *s.* cofen, cofeb, cofarwydd, cofiaeth, cofiedigaeth, dargoffa, coffadwriaeth, cof, coffa ; cofnod ; cofiythyr ; deiseb ; arwydd.

A memorial of reproach—cof cyfliw, cof cyfedliw.

The memorial thereof is immortal—anfarwol yw y coffa am dani.

Memorialist *s.* cofebydd, cofebwr, cofebur, cofebiad, (*pl.* cofebiaid), cofenwr, dargofiwr ; ysgrifenydd cofen *neu* gofenau ; cyfiwynydd cofen *neu* gofenau ; deisebydd, gofyniedydd.

Memorialize, *v. a.* cofebu, cofenu ; cyfiwyno cofeb *neu* gofen i ; deisebu drwy gofen ; erchi, deisyf.

Memorist, † *s.* un à bair gofio.

Memorize, *v. a.* cofnodi, coffhau, coffa, dargoffa ; peri cael ei gofio.

Memory, *s.* (Ll. *memoria ;* Ff. *mémoire*) cof, y cof ; coffadwriaeth, coffa, cofiedigaeth, cofiaeth, argofi.

A good memory, } cof da, parhäus, an-
A retentive memory, } nifian, gafaelgar, cryf, *neu* gynnwysgar.
A bad memory, } cof drwg, byr, gwàn,
A short memory, } darfodedig, palledig, anmharhäus, *neu* ddibara; gwan-gof.
A ready memory—cof parod, cof cywair.
That has a good memory—cofus, cofiog; da ei gof; â chof da ganddo *neu* iddo: cofiwr, cofiawdr.
That has a bad memory—anghofus, abyrgofus, ebargofus; drwg ei gof, &c.
Of blessed memory—coffa da am dano; gwŷn fyd ei goffa; gwŷn fyd y coffa am dano; gwynfydedig ei goffadwriaeth; gwiwgof; o wynfydedig goffadwriaeth; o ddedwydd goffadwriaeth; o fendigedig goffadwriaeth.
Out of memory—gwedi ei anghofio; anghofiedig, â anghofiwyd; mewn anghof; wedi myned yn *neu* mewn anghof; wedi myned dros gof; wedi myned yn anghynnefin; wedi myned allan o arfer.
That will never wear out of memory—dïanhygof; byth nid anghofir; byth nid â yn anghof.
To have in memory—cofio; bod yn cofio; bod yn gof gàn un beth.
To call to memory—cofio, adgofio, ailgofio, argofio, coffa, coffhau, adgoffa, adgoffhau; galw i gof; galw mewn cof; galw yn ei gof; galw yn nghof; dwyn ar gof; adfeddylied, adfeddwl; adnewyddu y cof am beth; bwrw yn y meddwl.
To bring to (another's) memory—dwyn ar gof; galw i gof; coffa, coffhau, cofio, adgofio, adgoffa, adgoffhau; galw *neu* osod mewn cof; dwyn cof am; dwyn adgof o.
To commit to memory—trysori yn ei gof; dysgu ar gof; dysgu allan o lyfr; dysgu ar dafod; dysgu ar dafodleferydd.
To blot out of memory—dilëu o'r cof; anghofio, ebargofi, abyrgofio.
To slip out of memory—dïanc o gof; dïanc o'r cof; myned yn anghof.
A clear memory—rhwyddgof, cof rhwydd.
A man of clear memory—dyn rhwyddgof.
To the memory of—er cof am; er coffadwriaeth am; er coffa am.
Within living memory—o fewn cof rhai sy'n awr yn fyw; o fewn cof y dydd heddyw; o fewn cof yr oes hon.

Memory,† *v. a.* trysori yn y cof.

Memphian, *a.* (o *Memphis*, hen famddinas yr Aifft) Aifftaidd, Aifftig; trathywyll, tywyll iawn, gordywyll, dudew, gorwyll; fel tywyllwch yr Aifft.

Men, *s. pl.* (o *man*) dynion; gwŷr.
These men—y rhai hyn; y gwŷr hyn; y dynion hyn.
Many men—llaweroedd; llawer o ddynion; llawer dyn.
Mean men—gwyrïos; dynionach, dynos.
Men say—dywedant.
Men are but men—nid oes neb heb ei fai; nid difai neb a aned.
Ye men—ha wŷr, hawyr.

Menace, *v. a.* (Ff. *menacer*; Ll. *minor*) bwgwth, bygwth, bygythio, bygylu, mynasu; dondio, dwrdio, orni.
He menaces me with death—y mae efe yn bwgwth fy lladd; y mae efe yn bwgwth ym lladd.
He menaces me with a warrant—y mae efe yn fy mwgwth â gwarant; y mae efe yn bwgwth gwarant arnaf; y mae efe yn bwgwth tynu gwarant arnaf; y mae efe yn bwgwth gwarant i mi; y mae efe yn bwgwth rhoi gwarant arnaf *neu* i mi.

Menace, *s.* bwgwth, bygwth, bygwl, bygythiad, bygyliad, bygyliaeth, mynas.
With menaces—dàn fwgwth, yn fygylus.

Menacer, *s.* bygythiwr, bygylwr, dondiwr, mynaswr, mynasydd.

Menachanite, *s.* delidfaen Menachan yn Nghernyw.

Menachanitic, *a.* perthynol i ddelidfaen Menachan.

Menachine, *s.* (o *Menachan*) Menachin, y delid Titanium.

Manacing, *a.* (o *menace*) bygythiol, bygylus, bygylog, bygylgar, mynasol.

Menacing, *s.* bygythiad, bygyliad, bygyliaeth, mynasiad, orniad; bwgwth, bwgwl, mynas.

Menacingly, *ad.* dàn fwgwth, yn fygylus, yn fygythiol.

Menage, *s.* (Ff.) casgl o wylltfilod, gre o wylltfilod; casgl o filod gwyllt a gwâr; milgronfa, milgrawn, milrewys, milgasgl, milgasgliad.

Menagerie, *s.* (Ff.) milodfa, milfa, gwylltfildy, gwyltfilfa; lle y cedwir anifeiliaid gwylltion; milgrawn, milgasgl, casgl o wylltfilod.

Menagogue, *s.* (Gr. *mênes* ac *agô*) cyffer i hyrwyddo y misglwyf.

Mend, *v.* (Ll. *emendo*; Ff. *amender*) gwellhau, gwella, diwygio, cywirio; trwsio, taclu, tacluso; myned yn well.
To mend like sour ale in summer—myned waethwaeth; gwella o chwith; gwella yn y gwrthwyneb; yn lle gwella gwaethygu.
To be on the mending hand—bod ar wellhad; bod yn gwella.

Mendable, *a.* gwelladwy, diwygiadwy, cywiriadwy; trwsiadwy.

Mendacious, *a.* (Ll. *mendax*) celwyddog, gau, ffals, geuog, anwireddus, anwir.

Mendacity, *s.* (Ll. *mendax*) geudeb, ffalsedd, celwydd, anwiredd, geuedd; tuedd i ddywedyd celwydd; tuedd *neu* dueddiad at y celwydd.

Mender, *s.* gwellhäwr, diwygiwr, cywiriwr, trwsiwr, taclwr.

Mendicancy, *s.* (Ll. *mendicans*) cardoteiaeth, cardotyniaeth.

Mendicant, *a.* (Ll. *mendicans*) cardoteiol, cardotol, cardotynaidd, cardotynol, cardotëig, cardotlyd, rheidusaidd; yn cardota; â fo yn cardota; â fo yn gofyn yn gardod *neu* yn nghardod; yn myned o dy i dy dàn gardota.
Mendicant Friars—Brodyr cardoteiol, cardotëig, cardotol, *neu* gardotlyd; Brodyr o urdd y Cardoteion; un o frawdoliaeth y Cardoteion.
Mendicant orders — urddau cardoteiol; urddau y Cardoteion.

Mendicant, *s.* cardotai, cardotyn, cardotwr, rheidusyn.

Mendicate,† *v. a.* (Ll. *mendico*) cardota.

Mendicity, *s.* (Ll. *mendicitas*) cardoteiaeth, cardotyniaeth; rheidusedd, rheidusrwydd.

Mendment,† *s.*=*Amendment.*

Mends,† *s.*=*Amends.*
Mengite, } *s.* delidfaen, à geir yn Miasc, yn
Menazite, } Siberia.
Menhaden, *s.* math o bysgod.
Menial, *a.* (Norm. *meignal, meynal*) gwasaidd, tywasaidd, teuluaidd; isel, gwael, distadl.
Menial, *s.* tywas, teuluwas, gwas, iswas, isweinydd, gweinidog.
Menilite, *s.* delidfaen Menilmontant, ger Paris.
Meninges, *s. pl.* (Gr.) pilenau yr ymennydd.
Meniscal, *a.* lloerwydraidd; ar ddull ffawydryn ceugrwm.
Meniscus, *s.* (Gr. *mêniscos*) lloerwydryn, ffawydryn ceugrwm.
Menispermaceæ, *s. pl.* (Gr. *mênê* a *sperma*) lloerhadogion, lloerhadlys.
Menispermic, *a.* (Ll. *menispermum*) lloerhadig, lloerhadol.
Menispermic acid — sur lloerhadig, sur lloerhadol.
Menispermina, } *s.* lloerhadain, gwrthsur lloer-
Menispermine, } hadol.
Meniver, } *s.* math ar wiwer; croen y gyfryw
Miniver, } wiwer; pân gwŷn âg ysmotiau
Minever, } duon.
Menology, *s.* (Gr. *mên* a *logos*) misgofres, misgofiant, coflyfr misoedd.
Menorrhagia, *s.* (Gr. *mên* a *rheô*) dyferlif gwaed, dyferlif, gorfislif, gorfisglwyf.
Menow, *s.* (Ff. *menu*) pilcodyn, pilcotyn: *pl.* pilcod.
To catch menows—pilcota, dala pilcod.
Menpleaser, *s.* boddlonwr dynion.
Mensal, *a.* (Ll. *mensalis*) byrddol, byrddaidd; perthynol i fwrdd *neu* ford.
Menses, *s. pl.* (Ll.) misglwyf, mislifiant, mislif, mistrych, teithi gwraig, haint y rhianedd.
Menstrual, *a.* (Ff.; Ll. *menstrualis*) misol; à ddel *neu* à ddychwel bob mis; à barha dros fis; misglwyfus, mislifol, mislifiannus; edrwythiol.
Menstraul flux—misglwyf, mislif, mislifiant, mistrych, llifred misol.
Menstruant, *a.* (Ll. *menstruans*) misglwyfus.
Menstruous, *a.* (Ll. *menstruus*) misglwyfus, mislifol, mislifiannus.
Menstruous cloth—cadach misglwyf.
To militate against—bod yn erbyn, sefyll yn erbyn, gwrthsefyll, gwrthladd; gweithio yn erbyn; milwrio *neu* ymladd yn erbyn; rhwystro.

Militia, *s.* (Ll.) meiwyr, cylchfilwyr, cartrefiu, milwyr cartrefol, arfogion; meiawd, lluyddawd, byddin, cylchfyddin; goegordd gwlad, sir, *neu* ardal.

County militia, Militia of the county, } meiawd y swydd; meiwyr y sir; goegordd y sir.

Local militia—meiwyr lleol.

Milium, *s.* (Ll.) miled, milet.

Milk, *s.* (S. *melce*; Al. *milch*) llaeth; blith.

New milk, Sweet milk, } llefrith, llaeth llefrith.

Butter milk—llaeth enwyn, enwyn.

Sour milk—llaeth sur, sur-laeth.

Milk from the cow—llefrith; llaeth dàn ei fam.

First milk—cynflith, cynllaeth, cynlaeth, blaenion, blaenllaeth.

First milk after calving—llaeth tor, cynllaeth, llaeth mysg, llaeth brith, llaeth melyn.

Second milk—armael, ail odro.

Thick milk—tewlaeth, llaeth tew, bwyd peillied.

Mixed milk—amlaeth, llaeth cymmysg.

Milk and water—glasdwr.

Curdled milk—posel, llaeth ceuledig.

Mother's milk—llaeth y fam; llaeth o dàn ei fam; llaeth oddi wrth ei fam.

Milk-beggar, Beggar of milk, } llaethai.

Giving milk—blith.

Giving much milk—llaethog.

Abounding with milk—llaethog, blithog.

Resembling milk—llaethaidd; tebyg i laeth; fel llaeth; gwŷn fel llaeth; llaethwyn; llaethlyd; llaethog; llaethol.

Milk diet — llaethfwyd, bwyd llaeth; gwynod.

To collect milk, To beg milk, } llaetha, hel helaeth.

To run milk—cyweirio llaeth, ceulo llaeth, troi llaeth, ceuledu llaeth.

To withold the milk—croni y llaeth, attal llaeth.

Destitute of milk — dilaeth; hysp, (*f.* hesp).

Milk-house—llaethdy.

Milk, *v. a.* godro; † sugno.

To milk the second milk—armeilio, ail odro.

Milking fold—buches, buarth, lloc godro.

A place to milk cows in—buches, buarth.

A place to milk sheep in—lloc.

Milken, † *a.* à wnaed, à wneir, *neu* à wneler o laeth; llaethog.

Milker, *s.* godrwr, godröwr, godröydd: *f.* godröyddes, godrwraig.

Milkfever, *s.* twymyn laeth, llaeth-dwymyn.

Milkiness, *s.* llaetheiddrwydd, llaetholrwydd, llaethedd; llaethlydrwydd; llaethogrwydd; meddalwch, tynerwch, gwlyddedd, gwlyddra.

Milklivered, *a.* llwfr, llwrf, digalon, gwangalon, annewr, ofnog.

Milkmaid, *s.* llaethwraig, llaethferch, maerones, meiriones, morwyn llaeth, morwyn y blith.

Milkman, *s.* llaethwr, llaethydd, blithwr, gwerthwr llaeth, llaeth-werthwr.

Milkpail, *s.* cunnog, ystwc, paeol, *neu* lestr godro; celwrn.

Milkpan, *s.* padell laeth, llaeth-badell: *pl.* pedyll llaeth.

Milkparsley, *s.* llaethberllys, perllys llaethog.

Milkporridge, **Milkpottage**, } cawl llaeth, twym llaeth, gruai llaeth, potes llaeth, gwynawd, gwynod.

Milkpot, *s.* crochan llaeth, pot llaeth.

Milkroom, *s.* llaethdy, llaethgell, llaethfa, blithfa.

Milkscore, *s.* cyfrif llaeth.

Milksop, *s.* (*milk* a *sop*) tamaid wedi ei fwydo mewn llaeth; llaethlo; dyn meddf, meddfaeth, *neu* fursenaidd; mursen o ddyn, mursenddyn, mursogyn.

Milkthistle, *s.* ysgallen wèn, ysgallen fraith, ysgallen Fair, cribau Mair.

Milktooth, *s.* dant sugno, dant llaeth, llaethddant: *pl.* dannedd sugno.

Milktray, *s.* ceulor; mail.

Milktree, *s.* llaethwydden, (*pl.* llaethwydd,) pren llaeth.

Milkvessels, *s. pl.* llestri llaeth, llaethlestri.

Milkvetch, *s.* llaethwyg.

Sweet milkvetch—geuberwraidd.

Milkwort, *s.* llaethlys, amlaethai, llysiau Crist.

Milkweed, *s.* llysiau y llaeth.

Milkwhite, *a.* llaethwyn; gwŷn fel llaeth; gwŷn fel y llaeth; cyn wyned a'r llaeth; purwyn, gwŷn: *f.* llaethwen.

Milkwoman, *s.* gwerthwraig llaeth, llaethyddes.

Milky, *a.* llaethaidd, llaethol, llaethog, llaethlyd; blithog; llaethrodd; à wnaed o laeth; tebyg i laeth, fel llaeth; gwŷn; tyner, meddal, gwlydd, mwyth, gwâr, ofnus, ofnog, llwfr.

Milky-way, *s.* y llwybr llaethog, y ffordd laeth, galaeth, eirianrod, crygeidwen, caer Gwydion, heol y gwynt, hynt St. Ialm, llwybr y mab afradlawn.

Mill, *s.* (S. *miln*; Gr. *mulê*, *mulos*; Ll. *mola*; Al. *mühle*) melin; breuan.

Hand-mill—breuan, llawfelin, melin law.

A less sort of hand-mill—breuan dinfoel.

Water-mill—melin ddwr, melin ddwfr.

Wind-mill—melin wynt.

Grist-mill—melin fâl, melin falu; melindy, breuandy.

Bolting mill—melin ruwch, melin ogryn, melin beillio, melin beillied, peillfelin.

Fulling mill—melin bàn, melin banu, pandy.

To go to mill—melina; myned i'r felin.

A going to mill—melina; myned i'r felin.

To grind in a mill—melino; malu mewn melin.

Mill-bank—eisingrug; maes melin, maes y felin.

Mill mountains—llin y mynydd.

Mill, *v. a.* malu, melino, breuanu; panu; ymylrigoli, minrigoli, ymylfathu, ymyl-argraffu, arfathu.

To mill (cloth)—panu.

To mill (chocolate)—melino, breuanu.

To mill (money)—ymylrigoli, minrigoli, ymylfathu.

Mill, *s.* (Ll. *mille*) hatling America=y filfed ran o ddoler.

Millcog, *s.* cocas melin, dant rhod melin, rhoddant, cocas.

Milldam, *s.* pynfarch melin, pwnt melin, argae melin, gwàr pwnt melin.

Milldust, *s.* goflawd; ysgubion melin; llwch melin.

Milled, *a.* maledig; panedig; minrigoledig, minrigolog; melinedig.

Milled slate—llech lifiedig; llech wedi ei llifio ac nid ei hollti.

Millenarian, *s.* (Ff. *millenaire;* Ll. *mille* ac *annus*) milflyneddwr, milflwyddwr, milflwyddiannydd, milflwyddiad: *pl.* milflyneddwyr, milflwyddiaid.

Millenarian, *a.* milflwyddol, milflwydd, milflwyddiannol; perthynol i'r milflwyddiant.

Millenarianism, *s.* milflwyddiannaeth, milflwyddiaeth, athrawiaeth y milflyneddwyr.

Millenary, *a.* (Ff. *millenaire*) yn cynnwys mil; milflwyddol.

Millenary, *s.* ysbaid mil o flyneddoedd; milflwyddiant.

Millennial, *a.* milflwyddol, milflwydd; perthynol i'r milflwyddiant; yn cynnwys mil o flyneddoedd.

Millenial happiness—dedwyddwch y milflwyddiant.

Millennialist, *s.* milflyneddwr, milflwyddwr, milflwyddiannydd, milflwyddiad.

Millenist,† *s.*=*Millennialist.*

Millennium, *s.* (Ll. *mille* ac *annus*) milflwyddiant, y mil blyneddoedd=mil o flyneddoedd, yn ystod y sawl y tybia rhai y teyrnasa Crist ei hun gyda'r saint ar y ddaiar, cyn dydd y farn gyffredinol. Gwel *Dad.* xx.

Millepede, } *s.* (Ll. *millepeda*, o *mille* a *pes*)
Millipede, } milred, miltroed, mildroed, milcerdd, milbed, gwrach y lludw, gwrach y coed, gwrach y twca: *pl.* milredion, miltraed, milbedion.

Millepores, *s. pl.* (Ll. *mille* a *porus*) miltyllogion, amldroedogion maendyfol.

Milleporite, *s.* miltyllfaen.

Miller, *s.* (o *mill*) melinydd, melinwr; malwr: *f.* melinyddes, melines, melinwraig.

Miller's-Thumb, *s.* bawd y melinydd, penbwla, gwrachen, swtan.

Millesimal, *a.* (Ll. *millesimus*) milfedol, milfed, milranol.

Millet, *s.* (Ff. *millet, mill;* Ll. *milium*) miled, milet.

Millet-grass—miledwellt.

Millhorse, *s.* melinfarch, ceffyl melin; ceffyl à dry felin.

Milliard, *s.* (Ff.) mil o filiynau o ffranciau=£40,000,000.

Milliary, *a.* (Ll. *milliarium*) perthynol i filltir; milltirol, milltiraidd.

Milliary column—colofn filltir.

Milliary, *s.* careg filltir (yn mhlith y Rhufeiniaid).

Milligram, } *s.* (Ff. *milligramme;* Ll. *mille*,
Milligramme, } a Gr. *gramma*) milfedram=pwysi Ffrengig, yn cynnwys y filfed ran o'r *gram*, cyfartal i ·0154 o ronynau Seisonig.

Millilitre, } *s.* (Ll. *mille*, a *litre*) milfedlitr=
Milliliter, } mesur Ffrengig, yn cynnwys y filfed ran o'r *litr*, cyfartal i ·06103 o ddegranau modfedd dryfaint.

Millimetre, *s.* (Ff.; Ll. *mille* a *metrum*) milfedfeidr = mesur Ffrengig, yn cynnwys y filfed ran o'r *metr* neu feidr, cyfartal i ·03937 o ddegranau modfedd.

Milliner, *s.* (llygriad, yn ol *Johnson*, o *Millaner*, oddi wrth *Milan*, yn yr Ital) penwisgyddes, (*m.* penwisgydd); ysginyddes, ysgines.

Millinery, *s.* penwisgoedd.

Milling, *s.* (o *mill*) maliad; melina; paniad; minrigoliad, ymylrigoliad, ymylfathiad.

Million, *s.* (Ff.; It. *milione*) milfil, miliwn, buna, mynta, mil o filoedd, deg canmil, canmyrdd, càn myrdd, deg rhiallu, deg mwnt=1,000,000.

Millions—milfiloedd, miliynau, bunaon, myntaoedd.

Hundred millions—milcanmil, càn milfil, càn miliwn, &c.

Millionaire, *s.* (Ff.) miliynwr, myrddiynwr, bunàwr; un yn werth miliwn; dyn cyfoethog iawn=un a biau filiwn, yn gyffredin, o ffrancian=£40,000.

Million, *a.* milfil, mil o filoedd, miliwn.

Ten millions—catyrfa, deg miliwn, deng milfil.

Thousand millions—mil fyrddiwn (*Gen.* xxiv. 60); mil canmyrdd.

Millionary, *a.* miliynol, bunaol, myntaol; perthynol i fililoedd *neu* filiynau; yn cynnwys milfiloedd.

Millionary chronology—amseryddiaeth filiynol, &c.

Millioned,† *a.* à lucsogwyd à milfiloedd.

Millionth, *a.* milfilfed, miliynfed, canmyrddfed, deg-canmilfed.

Mill-leat, *s.* ffos melin, dyfrffos melin.

Millpond, *s.* llŷn melin.

The millpond—llŷn y felin.

Milrea, } *s.* darn bath yn Portugal, gwerth o
Milree, } ddeutu 3*s.* 6*c.*

Millrace, *s.* gwyth melin, ffrwd melin, ysgŵd melin, cafn gwyllt y felin; dyfrffos melin, pynfarch melin.

Mill-sixpence, } *s.* chwecheiniog finrigolog=
Milled sixpence, } hen fathell Seisonig, à fathwyd gyntaf yn 1561.

Millstone, *s.* maen melin: *pl.* meini melin, main melin.

The upper millstone—maen uchaf y felin; y maen uchaf.

The nether millstone—maen isaf y felin; y maen isaf.

Millstream, *s.* gwyth melin, ffrwd melin.

Milltooth, *pl.* Milliteeth, *s.* dant malu, cilddant: *pl.* dannedd malu, cilddannedd, cilddaint.

Millwork, *s.* gwaith melinau, melinwaith.

Millwright, *s.* saer melinau, saer melin, melinsaer.

Milt, *s.* (S.; Is., a D.; Al. *milz*) dueg, y ddueg, dwyeg, cleddyf Bleddyn, cleddyf y biswail, y boten ludw; lleithon, lleithban, lleban, bol meddal, bol y lleithban.

Milt, *v. a.* lleithbanu; ffrwythloni gronell, ffrwytho grawn pysgodyn benyw.

Milter, *s.* lleithban, lleban, pysgodyn gwryw, pysgodyn lleithban.

Miltwort, *s.* dueglys, dwyeglys, duegredyn.

Milvines, } *s. pl.* (Ll. *milvus*) y barcutanod, bar-
Milvini, } cudlwyth.

Mime, *s.* (Gr. *mimos;* Ll. *mimus*) ysgentyn, dynwaredydd, dynwaredwr, ystumiwr, munudiwr, mociwr, gwatwaryn; munudiaeth, mydumiaeth, coegchware.

Mime,† *v. n.* chwareu yr ysgentyn, munudio, dynwared.

Mimer,† *s.*=*Mimic, s.*

Mimesis, *s.* (Gr.) efelychiad, munudeb, dynwarediad=ffugr areithyddol.

Mimetic, } *a.* (Gr. *mimêticos*) dynwaredgar,
Mimetical, } efelychgar; hoff ganddo ddynwared *neu* efelychu; chwannog i ddynwared *neu* efelychu.

Mimic, } *a.* (Gr. *mimos, mimicos;* Ll. *mimus,*
Mimical, } *mimicus*) dynwaredol, dynwaredig, dynwaredigol, dynwaredyddol, munudiol, mydumiol, dynwaredgar, efelychgar, efelychol, efelychiadol, hefelychol, ysgentynaidd, mociol, gwatwarol.

Mimic tricks — castiau digrif, chwydawiaeth, mydumiau, ystumiau, munudiau; castiau gwas digrif yn dynwared munudiau rhai ereill.

Mimic, *s.* dynwaredwr, dynwaredydd, amreddydd, amredwr, ysgentyn, munudiwr, ystumiwr, mydumiwr, chwydawydd, digrifwas, digrifyn, gwas digrif, croesan, gwatworwr, dynwaredwr digrifol, epa, mab yr epa, ffwl y ffair; efelychwr, efelychydd.

Mimic, *v. a.* dynwared, munudio, mydumio, amredu; efelychu; digrif *neu* nwyfus ddynwared munudiau *neu* ystumiau rhai ereill; gwatwar, mocio; chwareu y gwas digrif; chwareu yr ysgentyn; efelychu *neu* ddynwared er mwyn difyrwch; gwneuthur munudiau *neu* ystumiau i ddynwared ereill.

Mimicker, *s.* dynwaredwr, dynwaredydd, ysgentyn.

Mimicry, *s.* chwydawiaeth, amreddyddiaeth, dynwarediaeth, munudiaeth, mydumiaeth; efelychiad, *neu* ddynwarediad digrif.

Mimographer, *s.* (Gr. *mimos* a *graphô*) ysgrifenydd coegchwareuon.

Mimosa, *s.* (Gr. *mimos*) munudlys, dynwaredlys, efelychlys.

Mina, *s.* (Ll.; Gr. *mina*) punt ysgrythyrol. Cyfrifid *mina* yr Hen Destament yn werth 60 siel; ac un y Groegiaid yn ychydig mwy na £3 o'n harian ni.

Minacious, *a.* (Ll. *minax*) bygythiol, bygylus.

Minacity, *s.* tuedd i fwgwth *neu* fygylu; bygylgarwch.

Minaret, *s.* (Ar. *menarah*) meindwr, meindwred, balog, pinygl, ucheldwr, talfigwn, pigwn uchel, meinfalog; tŵr teml Dyrcaidd=twr main uchel, â rhodfëydd yma ac acw ar ei hyd.

Minatorially, *ad.* dàn fwgwth, yn fygythiol.

Minatory, *a.* (Ll. *minatorius*) bygythiol, bygylus.

Mince, *v.* (S. *minsian;* Ff. *minu, mince*) manfriwo, briwo yn fân, briwsioni; coeglefaru, coeglafaru, coeg-ddywedyd, dywedyd ar flaen y tafod, hanner-ddywedyd, goddywedyd, godraethu; dywedyd yn dywyll, yn aneglur, yn anghroew, yn hannerog, *neu* ar yr hanner; briw-siarad; llefaru yn fingrwn, yn fursenaidd, *neu* yn fursenllyd; briwdori geiriau, tocio geiriau; lledguddio; mursenu; ymddwyn yn fursenaidd *neu* fursenllyd; coeg-ymwneuthur, coeg-ymlunio; rhygyngu, cerdded yn rhygyngog, cerdded dàn rygyngu.

To mince it—rhygyngu, cerdded yn rhygyngog, cerdded dàn rygyngu.

To mince a matter—dywedyd *neu* adrodd peth dàn ei guddio *neu* gelu; hanner-ddywedyd a hanner-gelu peth; dywedyd *neu* adrodd peth yn hannerog; adrodd *neu* ddywedyd peth ar yr hanner.

Do not mince the matter at all—dywedwch ac nac arbedwch; dywedwch oll a chwbl, ac na chuddiwch ddim.

Minced, *a.* manfriw, manfriwedig.

Mince-meat, } *s.* cig manfriw, briwgig, rhis-
Minced-meat, } fwyd, briwfwyd, rhis.

Mince-pie, } *s.* pastai fanfriw, briwfoeth, rhis-
Minced-pie, } foeth, pastai ris.

Mince-pies—pasteiod manfriw.

Mincingly, *ad.* dàn fursenu; dàn rygyngu, yn rhygyngog; dàn goeg-ymlunio; yn hanner, yn anghyflawn, &c.

Mind, *s.* (S. *gemind;* D. *minde;* Ll. *mens*) meddwl, y meddwl, meddylfryd, bryd; tyb, barn; gofeg, bwriad, goddeu; pwyll; deall; eof; myn; syniad; tuedd, gogwydd; serch.

Willing mind—meddwl ewyllysgar, meddwl gwyllysgar; meddwl parod.

Of an active mind—esgudfryd, esgud ei feddwl, esgud ei fryd, gweithgar ei feddwl.

Of a feeble mind—gwanbwyll, egwanbwyll, gwàn ei feddwl.

Of a penetrating mind—trybwyll, trybwyllog, trybwyllus; treiddiol ei feddwl; o feddwl treiddgar.

Of a lofty mind—uchelfryd, uchelfrydig; uchel ei fryd.

Of a thoughtful turn of mind—myfyrbwyll.

The bent of the mind — tuedd, tueddfryd, meddylfryd, tueddoldeb; gogwyddiad y meddwl; tueddiad ewyllys; gogwydd bryd *neu* feddwl.

Of great power of mind — mawrbwyll.

Presence of mind—parodrwydd meddwl; difrawbwyll; pwyll, ystyriaeth.

Faculty of mind—cynneddf feddyliol, cynneddf meddwl, gallu meddyliol, gallu y meddwl, gallu menwydus, ysbwyll, llafanad.

Of a brave mind — dewrfryd, glewfryd, glewfrydig, dewrfrydig; dewr ei feddwl.

Happy mind—meddwl dedwydd, gwynfryd.

Even mind—gwastadfryd; meddwl cyfartal, gwastad, digynhwrf, tawel, *neu* ddigyffro; hirfryd.

Of an even mind—gwastadfrydig, gwastadfryd, hirfrydig, tawelfrydig, tawelfryd, addwynfryd, addwynfrydig; gwastad ei fryd; tawel ei feddwl.

Lively mind—meddwl bywiog, meddwl esgud, esgudfryd, lleirfryd.

Action of the mind—gwaith, gweithred, *neu* weithrediad y meddwl; dwlw.

Mind and will—meddwl ac ewyllys; meddwl a gwyllys; myn a meddwl.

Superior mind — gorfryd, rhagorfryd; meddwl rhagorach na'r cyffredin.

Sound mind—pwyll, iawnbwyll, iawn bwyll.

Of a sound mind—cyfrbwyll; o iawn bwyll; iawnbwyllog.

Sound of mind—yn ei bwyll; yn ei gof; yn ei synwyrau; yn ei iawn bwyll.

In one's right mind—yn ei iawn bwyll; yn ei iawnbwyll; yn iawnbwyllog; yn ei gof a'i gyfrif; â'i gof a'i gyfrif ganddo.

Out of one's mind—allan o'i bwyll; i maes o'i bwyll; allan o'i gof; i maes o'i gof; allan o'i synwyrau; wedi colli ar ei synwyrau; gorphwyllog, gwallgofus; wedi colli arno ei hunan.

Of one's own mind—o hono ei hun; o hano ei hun; o'i ben ei hun; o'i naturiaeth ei hun; o'i wirfodd; yn wirfoddol.

Out of mind—allan o gof; allan o feddwl; er cyn cof.

Time out of mind—cyn cof, er cyn cof.
He is gone out of mind—y mae efe wedi myned dros ben cof; y mae efe wedi myned yn anghof.
To call to mind—cofio, adgofio, ailgofio, coffa, coffhau, adgoffa, adgoffhau; galw i gof; galw mewn cof; galw yn ei gof; galw yn nghof; dwyn ar gof; adfeddyl'ied, adfeddwl; adnewyddu y cof am beth; bwrw yn y meddwl; dygofio.
To bear in mind, } cofio; dàl *neu* gadw yn
To keep in mind, } nghof; dàl *neu* gadw mewn cof.
To bring to mind—dwyn ar gof; galw i gof; coffa, coffhau, cofio, adgofio, adgoffa, adgoffhau; galw *neu* osod mewn cof; dwyn cof am; dwyn adgof o.
To cast in one's mind—meddylied, meddwl, meddylio, synied, synio, *neu* fyfyrio rhyngddo ac ef ei hun; meddylied *neu* synied ynddo ei hun; bwrw *neu* gyfrif rhyngddo ac ef ei hun; bwrw *neu* gyfrif ynddo ei hun; ymsynied, meddylied, ymystyried; dyfeisio, llyfelu, dyfalu; bwriadu, amcanu, arfaethu, arfelu.
To come to mind—dyfod i gof; cael ei adgofio; dyfod i feddwl; dyfod ar feddwl; dyfod ar gof.
To have a mind—bod â chwant arno; chwennych, chwennychu, ewyllysio, gwyllysio, gwyllysu.
To have a mind to—bod â chwant arno; bod am; bod â'i fryd ar.
I have a mind to go thither—mae arnaf fi gryn chwant myned yno; y mae arnaf led chwant myned yno.
To have a good mind to do a thing—bod ar un fawr chwant i wneuthur peth; bod ar un flys, chwant, *neu* awydd i wneuthur peth.
I have a great mind to know what he is about—e fyddai yn dda gàn fy nghalon wybod beth y mae efe yn ei gylch; mi a chwennychwn *neu* a ewyllysiwn yn fawr wybod beth y mae efe yn ei gylch.
The people had a mind to work—yr oedd gàn y bobl galon i weithio.
I have no mind to go—nid oes arnaf fi chwant myned.
To set one's mind upon—rhoi, rhoddi, dodi, *neu* osod ei serch, ei fryd, *neu* ei feddwl ar beth.
Of one mind, } unfryd, unfrydig, un-
Of the same mind, } frydol, cyfryd, un feddwl, un galon, cytûn, cynghordiol, cydsyniol.
To be of one mind, } bod o'r un medd-
To be of the same mind, } wl; bod yn unfryd; synied yr un peth.
These have one mind—yr un meddwl sydd i'r rhai hyn.
To put one in mind of a thing—cofio *neu* goffa un am beth; dwyn peth ar gof i un; gosod, rhoi, *neu* ddodi un mewn cof am beth.
To be troubled in mind—bod mewn cystudd, cythrudd, gofid, cyfeiaeth, *neu* gyfyngder meddwl; bod mewn blinder ysbryd; bod mewn anheddwch cydwybod.
To express one's mind—dywedyd ei feddwl; dangos ei feddwl; mynegu ei ofeg; traethu ei feddwl; amlygu ei feddwl.
It will not go out of my mind—nid â o'm cof; nid anghofiaf mo hono; nid â dros gof genyf; nid â mewn anghof genyf.
I have told you my mind—mi a ddywedais i chwi fy marn i; mi a ddywedais i chwi fy nhyb i; dywedais i chwi fy meddwl.
I am of the same mind still—yr wyf fi o'r un farn fyth; yr wyf fi yn yr un farn fyth; yr wyf fi byth o'r un meddwl.
This is my mind of the matter—dyma fy meddwl i am y peth.
My mind misgives me—mae fy meddyliau yn darogan drwg i mi; yr wyf fi yn gwangredu; yr wyf fi yn gwanffyddio.
Nothing is too hard for a willing mind—nid caled dim i'r diwyd; dyfal a dyr drwy'r gareg; y llafur a orfydd ar bob peth.

Mind, *v.* meddwl, meddylied, meddylio, synied, synio; ystyried, ystyrio; gofalu; meddwl am, gofalu am, synied am, synio am, edrych am, edrych at; cofio; arail, areilio; bwriadu, amcanu; malio; rhoi ei fryd *neu* feddwl ar; bod â'i fryd *neu* feddwl ar; bod ar fedr.
To be minded—bod ar fedr; rhoi ei fryd ar; bod ar oddeu; bod ar gyngyd; bod wedi ymroddi (i wneuthur peth); meddwl, meddylio, meddylied.
Not to mind—bod heb ofalu; bod heb ofalu am, &c.; bod yn ddiofal am; dirmygu; esgeuluso; peidio â meddwl am.
I do not mind it—nid wyf yn gofalu am dano; nid wyf yn malio am dano.

Minded, *a.* â'i fryd ar; â'i duedd at; â'i ogwydd at; yn tueddu at; brydig; -frydig, -fryd; tueddol, gogwydd, gogwyddog.
Heavenly minded—nefolfryd, nefolfrydig; â'i fryd *neu* serch ar bethau nefol.
High-minded — uchelfryd, uchelfrydig, uchel ei fryd, uchel ei feddwl, uchelfeddwl; balch, uchelfalch, trahausfalch, syberw, chwyddedig.
Double-minded — deufrydig; dyblyg *neu* ddeuddyblyg ei feddwl; ansefydlog, anwadal, gwamal, anmhenderfynol; yn cloffi rhwng dau feddwl.
Well-minded—da ei fryd; da ei feddwl.
Worldly-minded—bydolfryd, bydolfrydig, bydgar; bydol ei fryd; â'i fryd ar bethau bydol; â'i fryd ar fydol bethau.
A liberal-minded man—dyn rhyddfrydig, dyn haelfrydig, dyn rhyddfryd, dyn rhyddfron.
Sober-minded—pwyllog, ystyriol, sobr, difrifol.

Mindedness, *s.* tuedd, gogwydd, tueddfryd, tueddgarwch, tueddiad, tueddiant; ewyllys; bryd; -frydedd, -frydigrwydd.
Heavenly mindedness—nefolfrydedd.
Worldly mindedness—bydolfrydedd, bydolfrydigrwydd, bydgarwch.

Mindfilling, *a.* brydlawn; yn llenwi y bryd; yn llanw y meddwl.

Mindful, *a.* gofalus; meddylgar, meddyliog; cofus, cofgar, dïanghof; ystyriol; pryderus, dïesgeulus, darbodus.
To be mindful of—cofio, cofio am, meddwl am, meddylio am, meddylied am; bod yn ofalus am, &c.; bod yn gofus gàn un beth.

That ye may be mindful of the words—fel y byddo cofus genych y geiriau.

Mindfulness, *s.* gofal; cofusrwydd, cofgarwch; sylw, ystyriaeth; meddylgarwch.

Minding, *s.* gofal, ystyriaeth, pryderi.

Minding, *p.* ar fedr; gàn fwriadu, &c.

Not worth minding—anwiwgof, anghofwiw; a'r ni thâl ei gofio; na thâl roi bryd arno; nas tâl feddwl am dano, &c.

Mindless, *a.* difeddwl; anghofus, diofal; ansyniol, anfeddylgar, anfeddyliog.

Mind-stricken,† *a.* à gynhyrfwyd yn ei feddwl; cynhyrfedig.

Mine, *a.* (S.; Sw., a D. *min*; Al. *mein*) fy, mau, eiddof, yr eiddof, yr eiddof fi, fy eiddo, eiddof fi, einof, einwyf, ym, my, maufi; y mau, y maufi.

Mine enemy—fy ngelyn, y gelyn mau, ym gelyn.

Mine iniquity—fy anwiredd, yr anwiredd mau.

He shall receive of mine—efe a gymmer o'r eiddof.

This book of mine—fy llyfr hwn; y llyfr mau hwn; y llyfr hwn eiddof fi; y llyfr hwn o'r eiddof; y llyfr yma eiddof fi; y llyfr hwn o'r eiddof fi.

This book is mine—eiddof fi yw y llyfr hwn; eiddof fi y llyfr hwn; mi bïau y llyfr hwn.

All the first born are mine—i mi y perthyn pob cyntaf-anedig.

These sayings of mine—fy ngeiriau hyn; y geiriau hyn o'r eiddof.

Mine own—maufi; eiddof fi fy hun; yr eiddof fy hun.

Counsel is mine—mi bïau gynghor; eiddof fi yw cynghor; cynghor sydd eiddof fi.

A friend of mine—cyfaill i mi; un o'm cyfeillion; cyfaill o'r eiddof; cyfaill o'm heiddo.

Vengeance is mine—i mi y mae dïal; eiddo fi yw dïal.

All things that the Father hath, are mine—yr holl bethau sydd eiddo y Tad, ydynt eiddof fi.

All that openeth the matrix is mine—eiddof fi yw pob peth à agoro y groth.

All that thou seest is mine—yr hyn oll a weli, eiddof fi yw.

This joy of mine therefore is fulfilled—y llawenydd hwn o'r eiddof fi gàn hyny a gyflawnwyd; y llawenydd hwn maufi gàn hyny a gyflawnwyd; fy llawenydd hwn gàn hyny a gyflawnwyd.

Whose is it? Mine—eiddo pwy ydyw? Y mau; eiddo pwy ydyw? Eiddof fi; eiddo pwy ydyw? Y maufi; pwy a'i pïau? Myfi.

It is mine—myfi a'i pïau; mi a'i pïau; mi *neu* myfi bïau; eiddof fi yw; eiddof fi yw hwn.

Whose son is this youth? Mine—mab pwy yw y llanc hwn? Y mau *neu* y maufi; mab i bwy yw y llanc hwn? Fy mab i.

Whose daughter is this young woman? Mine—merch pwy *neu* i bwy ydyw yr eneth hon? Fy merch i; merch pwy yw yr eneth hon? y fau *neu* y faufi.

The Levites shall be mine—bydded y Lefiaid i mi; bid y Lefiaid yn eiddof fi.

I am my beloved's, and my beloved is mine—myfi wyf eiddo fy anwylyd, a'm hanwylyd yn eiddof finnau.

Mine and thine—y mau a'r tau; yr eiddof fi a'r eiddot ti; yr eiddof a'r eiddot; yr einof fi a'r einot ti.

Mine, *s.* (Ff.; It. ac Ys. *mina*) mwnglawdd, mwynglawdd, cloddfa, cleddiwig, clawdd, mwngloddfa, mwnbwll, mwynbwll; mwn, mwyn; celglawdd, bradglawdd, cuddglawdd, ymchwel-glawdd, chwyth-glawdd.

Gold mine—eurglawdd, eurgloddfa, mwnglawdd aur, cloddfa aur; mwn aur.

Silver mine — arianglawdd, mwnglawdd arian, cloddfa arian; mwn arian.

Copper mine—mwnglawdd copr, cloddfa efydd; mwn efydd.

Lead mine — mwn plwm; mwnglawdd plwm, plymglawdd, gwaith plwm, cloddfa blwm.

Salt mine—gwaith halen, clawdd halen.

Mine-work—gwaith mwn, gwaith mwyn.

Mine-shaft, } twll mwn, mwnbwll, mwyn-
Mine-pit, } bwll, mwngloddfa.

To spring a mine — chwythu cloddfa; chwythu cuddglawdd *neu* fradglawdd i fyny; saethu bradglawdd.

Land abounding with mine — mwndir, mwyndir, tir mwn.

Mine, *v.* mwngloddio, mwyngloddio; cloddio am fwn; cloddio yn ceisio mwn; gwneuthur mwnglawdd; cloddio *neu* weithio mewn mwnglawdd; celgloddio, bradgloddio, cuddgloddio, tangloddio, cloddio dàn; disodli.

Mine-digger, *s.* mwngloddiwr, cloddiwr am fwn.

Miner, *s.* mwngloddiwr, mwyngloddiwr, cloddiwr mwn, mwnwr, mwynwr; bradgloddiwr, celgloddiwr, cuddgloddiwr; cloddiwr.

Mineral, *s.* (Ff. ac Ysp. o *mine*) delidfaen, delfaen; mwn, mwyn; sylwedd mwnaidd y ceffir mettel o hono pan dodder ef: *pl.* delidfain, delidfeini, delfeini, delfain.

The science of minerals—mwnofyddiaeth, athrawiaeth delidfain.

Mineral, *a.* delidfeinin, delidfeinig, delfeinin, delfeinig; mwnol, mwnaidd; mettelaidd, delidaidd; perthynol i ddelidfain.

Mineral kingdom — y deyrnas fwnol, y deyrnas ddelfeinin, y greadigaeth ddifywyd, y greadigaeth fwnol.

Mineral water—dwr mwn, dwr mwyn, dwfr mwn, dwr oddi ar y mwyn, mwnddwfr.

Mineral adipocere — delidwer, brasgwyr adwynaidd, gwer y mynydd=math o sylwedd à geir yn mwn haiarn Merthyr Tydfil, yn y Deheudir.

Mineral green—delidwyrdd, gwyrdd delfeinin.

Mineral yellow—delidfelyn, melyn delfeinin, melyn breiniol.

Mineral tar—cleibyg, creigolew.

Mineral pitch—pyglws, delidbyg, duglist gofeddal.

Mineral caoutchouc—duglist hydwyth, daiarbyg ystwyth, twythlosg, twythlosbyg, twythlws delfeinig.

Mineralist, *s.* un hyddysg mewn delidfain, delfeinwr; mwnydd, mwynydd; mwnofydd.

Mineralization, *s.* delfaeneiddiad, delfaeniad, delidfaeniad; troad yn ddelidfaen.

Mineralize, *v. a.* (o *mineral*) delfaeneiddio, delfaenu, delidfaenu, mwneiddio; troi yn ddelid-

faen; trwytho â sylwedd mwnol *neu* ddelid-aidd; cyfuno â mettel i wneuthur mwn *neu* ddelidfaen.

Mineralizer, *s.* delfaeniedydd.

Mineralising, *a.* delfaeneiddiol, delidfaenol; addas i gyfuno â mettel i ffurfio mwn.

Mineralogical, *a.* mwnofyddol; perthynol i fwnofyddiaeth.

Mineralogically, *ad.* mewn mwnofyddiaeth, yn fwnofyddol.

Mineralogist, *s.* mwnofydd; un hyddysg yn athrawiaeth delidfain.

Mineralogy, *s.* (*mineral*, a Gr. *logos*) mwnofyddiaeth, mwnyddiaeth, mwynyddiaeth.

Minever, } *s.* math o wiwer; croen y gyfryw
Meniver, } wiwer; pân gwŷn âg ysmotiau
Miniver, } duon.

Mingle, *v.* (S. *mengan*, *mencgan*; Al. ac Is. *mengen*) cymmysgu, mysgu, dyfysgu, dychymmysgu, tryfysgu, bloffi, bloffied, cymhlitho; britho; uno; bwrw pethau yn nghymmysg; bwrw y naill beth am ben y llall; ymgymmysgu; bod yn gymmysg.

To mingle together—cydgymmysgu, cydfysgu, cymmysgu yn nghyd, cymmysgu â'u gilydd.

Wine mingled with water—gwin wedi ei gymmysgu â dwfr.

Mingle,† *s.* cymmysg, cymmysgedd, mysgedd, trybola, cymmysgfa.

Minglement, *s.* cymmysgiad, tryfysgiad, mysgiad; cymmysgedd, mysgedd, trybola, dyfysgedd.

Mingler, *s.* cymmysgwr, cymmysgydd, dyfysgwr, mysgwr.

Miniard, *a.* (Ff. *mignard*) tyner, meddal, plydd; llednais; noeth, mwyth, deintaidd, danteithiol; dillyn, tlws, hardd.

Miniardize, *v. a.* meddalu, meddalhau, tyneru; gwneuthur yn dyner, &c.

Miniate, *v. a.* (It. *miniare*) paentio â phlwm coch *neu* sinobl; arliwio â phlwm coch; mirgochi, sinobli.

Miniature, *s.* (Ff.; It. ac Ysp. *miniatura*) manddarlun, manarlun; rhuddell, llythyren goch.

To paint in miniature—manddarlunio, manddylunio, manarlunio, mân-baentio.

Miniature painting—manddarluniad, manddyluniad, manarluniad, mân-baentiad.

Minikin, *a.* (o *manikin*) bychanig, bychan, bach, pitw, bachig, eiddil, disum, diwt.

Minikin, *s.* bychanigyn, bachigyn, bychanigyn bach; anwylyd, anwylyn, hoffyn, anwylddyn; y pin lleiaf, pin bychanigyn.

Minim, *s.* (Ll. *minimus*) dynyn, dyn bychanigyn bach, corach, còr, coryn, corddyn, pegoryn, llogwrn, gwrechyn; mymryn, bychanigyn, y dim lleiaf; adfanig; pilcodyn, (*pl.* pilcod); y gwlyb-fesur lleiaf, bychotyn;† bèr arwyrain.

Minims, } y Brodyr Lleiaf; Bychan-
Minim-friars, } igion, Bychanigiaid.

Minimum, *s.* (Ll.) y lleiaf; lleiafiant, lleiafiaeth, lleiafaint; y radd leiaf; y dogn, swm, *neu* swrn lleiaf; y pris lleiaf.

Minimus, *s.* (Ll. y lleiaf ei faint, yr un lleiaf, y lleiaf.

Mining, *s.* (o *mine*) mwngloddiad, mwyngloddiad; mwngloddio, mwyngloddio.

Minion,† *a.* (Ff. *mignon*) teg, gwych, trwsiadus, pefr, pert; danteithiol.

Minion, *s.* (Ff. *mignon*; It. *mignone*) anwylyn, (*f.* anwylen, anwyles), anwylyd, anwylddyn, hoffddyn, hoffyn, dewisddyn, anwesyn, anwesog, ffafryn; gwenieithwr, truthan.

Minion, *s.* meinon, meinen=inath o argraffllythyren.

Minion, *s.* mwn coch, rhuddfwn.

Minioning, *s.* triniaeth garedig *neu* hynaws.

Minionly, } *ad.* yn wych, yn deg; yn ddant-
Minionlike, } eithiol.

Minionship, *s.* anwesaeth, anwesogaeth, anwesogrwydd, hoffyniaeth; y cyflwr o fod yn anwylyn.

Minious, *a.* (o'r Ll. *minium*) o liw sinobl *neu* sinopr; o liw plwm coch; mirgoch, mirgochus, sinoblaidd.

Minish,† *v. a.* (Ll. *minuo*) lleihau, toli, cwtâu.

Minister, *s.* (Ll.) gweinidog, gweinydd, gweiniad, gweiniedydd; gwasanaethydd, gwasanaethwr; swyddog: *f.* gweinidoges, gweinyddes.

Minister of the gospel — gweinidog yr efengyl.

Minister of a church—gweinidog eglwys.

Minister of a parish—gweinidog plwyf; periglor.

Ministers and people—llên a lleyg; gweinidogion a phobl.

Prime minister—prif weinidog, cynweiniad, cynwas, prif weinydd, prif weiniad, penweinydd gwladwriaeth, penswyddog gwlad, arweinidog.

Minister of state—gweinidog y wladwriaeth, gweinidog y llywodraeth, gweinydd y wladwriaeth, gwladweinydd, teyrnweinydd, teyrnwas, un o weinyddion y wladwriaeth, dysweiniad.

Minister, *v.* (Ll. *ministro*) gweini, gweinyddu, gwasanaethu, gweini i, gweinidogaethu, gweinidogi, gweinyddio, gweinyddiadu, gweinigio, gweinidoca, gwastrinio, gwasäu; rhoi, rhoddi; cyflawnu; cyflenwi, cynnysgaethu.

To minister in the priest's office—offeiriadu.

To minister justice — rhanu cyfiawnder, cyfranu cyfiawnder, gweinyddu cyfiawnder.

Variety of dainty fare does nothing else but minister to sin and sickness—nis gwna danteithion amrywiol namyn porthi pechod a chlefydau; nis gwna danteithion amrywiol ddim amgen na phorthi pechod a chlefydau.

To minister grace unto the hearers—peri gras i'r gwrandawyr (*Eph.* iv. 29).

Ministerial, *a.* gweinyddol, gweinidogol, arweinyddol, gweinidogaethol, gweinidogaidd, gweinyddiadol, gweinig, gweinigiol, gwasanaethol; perthynol i weinidog *neu* i weinidogion; eiddo gweinidog *neu* weinidogion.

Ministerially, *ad.* yn weinyddol, yn weinidogol, &c.; trwy gymhorth gweinidog *neu* weinidogion; yn cynnorthwyo fel gweinidog; ar ddull gweinidog.

Ministery, *s.*=*Ministry*.

Ministral, *a.* gweinyddol, gweinidogol; perthynol i weinidog.

Ministrant, *a.* (Ll. *ministrans*) gweinyddol, gweinidogol, gweiniol, gweinig, gwasanaethol, darweiniol, gweinyddog, gweinigiol

gweinyddiol, yn gweini, yn gweinyddu, yn gwasanaethu.

Ministration, *s.* (Ll. *ministratio*) gweinyddiad, gweinidogaeth, gweinyddiaeth, gweiniant, gweiniad, darweiniad, gweinif, gweinidogaethiad; gwasant, gwasanaethiad, gweinid, gweini, gweinigiad, gwasanaeth.

Ministress, *s.* gweinidoges, gweinyddes.

Ministry, *s.* (Ll. *ministerium*) gweinidogaeth, gweinyddiaeth; gwasanaeth; swydd, swyddogaeth; goruchwyliaeth; gorchwyliaeth; gorchwyl; offerynoliaeth, offerynoldeb; gweinidogion, gweinyddion, gwladweinyddion; gweinidogion y goron; gweinidogion, gweinyddion, *neu* oruchwylwyr y wladwriaeth; y gwledychiaid, y cynweisiaid, y cynweision.

Every one according to his ministry—pob un yn atebol i'w swydd.

By the ministry of the prophets—trwy weinidogaeth y proffwydi; trwy law y proffwydi.

When David praised God by their ministry—pan oedd Dafydd yn moliannu Duw trwyddynt hwy (2 *Cron.* vii. 6).

Ministryship, *s.* gweinidogaeth, gweinyddiaeth.

Minium, *s.* (Ll.) sinobl, sinopr, mirgoch, mwn coch.

Mink, } *s.* minc, mincs=math o filyn, nid an-
Minx, } nhebyg i wenci neu fronwen.

Minnehofe, *s. pl.* (Al.) Cariadlysoedd, Llysoedd Cariad (yn yr Almaen gynt).

Minnesingers, *s. pl.* (Al.) Clêr yr Almaen, Clerwyr yr Almaen, Cariadfeirdd=math o glerwyr neu feirdd à flodeuent yn yr Almaen o 1138 hyd 1347.

Minning Days, *s. pl.* gŵyl goffa, cofwyl; gŵyl mabsant; cofwyliau, gwyliau y meirw.

Minnoc, gair nas gwyddys ei ystyr, arferedig gàn *Shakspeare.*

Minnow, }
Minim, } *s.* (Ff. *menu;* C. *main;* Gael. *meanbh,*
Menow, } pilcodyn, pilcotyn: *pl.* pilcod=math ar bysgodyn bychain.

Minor, *a.* (Ll.) lleiaf (o ddau); llai; ieuangaf (o ddau), ieuaf (o ddau); ieuangach, iau, ifancach; is, iselach, gwaelach; bychan, dibwys.

Asia Minor—Asia Leiaf.

Minor key—is-gywair, is gywair, gogywair.

Minor canon—adganon, adgynon, isganon.

Minor, *s.* un dàn oed, un dàn oedran, tanoedog, isoedog, anoedog, un heb gyrhaedd ei gyflawn oedran, un na chyrhaeddodd ei gyflawn oed, rhyfab; eilfraich (cyfreswm), yr ail fraich (mewn prawfreswm), adfraich; brawd lleiaf, un o'r brodyr lleiaf, lleifrawd, lleiog; aderyn prydferth o'r India Ddwyreiniol.

Minorate,† *v. a.* lleihau, toli, cwtogi.

Minoration, *s.* lleihad, lleiad, toliad, bychaniad.

Minorite, *s.* (o *minor*) Brawd lleiaf, Lleifrawd, Lleiog: *pl.* Brodyr lleiaf, Lleiogion, Lleifrodyr=rhyw gangen o urdd St. Ffransis.

Minority, *s.* (Ff. *minorite;* o'r Ll. *minor*) anoed, maboed, mebyd, mabolaeth, ieuenctyd, ieuangrwydd, tanoedogrwydd; nifer lleiaf (o'r ddau), lleiafrif, lleirif, isrif, lleiafiaeth, lleiafiant.

While he was yet in his minority—cyn cyrhaedd o hono oedran gwr; cyn cyrhaedd o hono ei gyflawn oedran; ac efe eto yn ei anoed.

Minotaur, *s.* (Ll. *minotaurus*) dyndarw=anghenfil dychymygol, â'i hanner yn ddyn a'i hanner yn darw.

Minster, *s.* (S. *minstre, mynster;* Al. *münster*) mynachlog, monachlog, manachlog, mynachdy, monachdy, mynachlys; eglwys gadeiriol, mameglwys, mynachlan; bangor.

York minster—eglwys gadeiriol Caerefrog, mynachlan Caerefrog.

Minstrel, *s.* (Ff. *menêtrier,* am *menestrier;* Ysp. *ministril*) clerwr, cerddor, gwr wrth gerdd, amgeiniad, teleiddwr, teleiddyn, eilewydd; ffilor; pryddestwr: *pl.* cler, clerwyr.

A female minstrel—cerddores, ffilores, clerwraig.

Minstrelsy, *s.* clerwriaeth; cerdd dannau; cerddoriaeth, caniadaeth, alaw, alawiaeth, amgan; cler, clerwyr, cerddorion.

To practise minstrelsy—teleiddio; ymarfer o glerwriaeth; ymarfer â chlera; clera.

Mint, *s.* (S. *mynet;* Is. *munt, mint;* Al. *münze*) bathdy, bathfa.

A mint of money—gwlad o arian, byd o arian.

He has a mint of money—y mae ganddo fyd o arian; y mae yn arianog dros ben; fe aeth yn Glwch.

Mint, *v. a.* bathu, arfathu; dyfeisio, llyfelu, dychymygu, ffugio; gwneuthur.

Mint, *s.* (Ll. *mentha;* Ff. *mente*) mintys.

Corn-mint—mintys yr ardir, mintys ardir.

Cat-mint—mintys y gath, cath-fintys.

Horse-mint — mintys y meirch, marchys.

Water-mint—mintys y dwr, mintys y dwfr, mintys y pysgod.

Pepper-mint—pupyr-fintys.

Spear-mint—ysber-fintys.

Wild mint — mintys gwylltion, mintys llwydion.

Round-leaved mint — mintys crynddail, mintys lledgrynddail.

Hairy mint—mintys blewog.

Marsh mint—mintys y gors, mintys troellaidd.

Tall red mint—mintys coch.

Narrow-leaved mint—mintys culddail.

Pennyroyal-mint—coluddlys, brymlys, breflys, brefai, llysiau y coludd, llysiau y gwaed, llyrcadys, llysiau y pwdin.

Mintage, *s.* bathawd, bathiad; bath, darn bath; yr hyn a fathir; bathion, bathau; bathdoll, bathdal; treth à delir am fathu.

Minter, *s.* bathwr, bathydd; dyfeisiwr, llyfelwr, lluniwr, dychymygwr, ffugiwr.

Mintman, *s.* bathwr, bathydd; un hyddysg ar fathu.

Mintmaster, *s.* penaeth y bathdy, meistr y bathdy, meistr y fathfa, arolygwr y bathdy; penbathwr; dyfeisiwr, dychymygwr, ffugiwr.

Minuend, *s.* (Ll. *minuendus*) y nifer i'w lleihau; y nifer y tyner o hono, erthynsawdd.

Minuet, *s.* (Ysp. *minuelo;* Ff. *menuet*) nawfddawns, daerddawns; nofalaw.

Minum, *s.* (Ll. *minimus;* C. *main*) adfanig; yr argraff-lythyren à elwir yn awr *minim.*

Minus, *s.* (Ll.) erthyneb (—); lleihad.

Minus, *a.* llai; diffygiol, byr; yn fyr, yn ddiffygiol, yn llai; byr o, yn fyr o.

Minute, *a.* (Ll. *minutus*) bychan, bach, bychanig, eiddil, mân, main; bychydig; manwl, manol; wedi ei friwo yn fân.

Minute tithes, } **mân ddegymau, mân**
Small tithes, } **ddegwm, degwm mân, y degymau bychain.**

Minute account—cyfrif manwl, manwl gyfrif, hanesiad manwl, adroddiad manwl, hanes amgylchiadol; adroddiad neilltuolion.

Minute, *s.* (Ll. *minutum*) mynyd, (*dim.* mynydyn), meityn; y dim lleiaf o amser, diddym amser; cofnod, cofnodyn.

Minute (in geometry) mynyd=y 60fed ran o radd cylch.

Minute (in architecture) mynyd=y 60fed ran o dryfesur isaf colofn.

Minute, *v. a.* cofnodi, ysgrifenu mewn llyfr cofnodau; rhoi ar lawr yn fyr; ysgrifenu i lawr yn fyr.

Minute-book, *s.* cofnodlyfr, llyfr cofnodau.

Minute-glass, *s.* mynyd wydryn, gwydryn mynyd, gwydr mynyd.

Minute-gun, *s.* dryll â danir bob mynyd; gŵn mynyd, cyflegr mynyd.

Minute-hand, *s.* pin y mynydau, pin mynydau, mynegfys y mynydau, bys y mynydau, mynyd-fys.

Minutely, *ad.* yn fanwl, yn fanol; heb adaw *neu* adael dim heb ei ddywedyd; yn amgylchiadol.

Minutely, *a.* mynydol; yn dygwyddo bob mynyd.

Minutely, *ad.* bob mynyd, bob meityn.

Minute-men, *s. pl.* gwŷr y mynyd; gwŷr parod ar fynyd o rybudd.

Minuteness, *s.* bychander, bychandra, bychanedd, bychanigrwydd; manyldeb, manylder, manylwch, manyledd, manyldra, manoldeb, manolrwydd, manolwch.

Minute-watch, *s.* oriawr fynydau, mynyd-oriawr.

Minutes, *s. pl.* cofnodau, cofnodau byrion; penau pethau, prif benau; cynlluniau.

Minutiæ, *s. pl.* (Ll.) manylion, manion, bychanigion, bychodau, mân bynciau.

Minx, *s.* coegen, mursen, hoeden, perten; gasten; math o wenci, minc, minca.

Miny, *a.* (o *mine*) mwnog, llawn mwn, llawn o fwn; tanddaiarol, tân y ddaiar.

Miocene, *a.* (Gr. *meiôn* a *cainos*) annewydd, anniweddar, anghynnewydd, anniweddaraf, lleinewydd, llai diweddar.

Miocene strata—yr haenau annewydd.

Miocene period—y cyfnod lleinewydd, y cyfnod annewydd.

Miocene, *s.* y lleinewydd, yr annewydd.

Mirable,† *a.* rhyfeddol, i'w ryfeddu.

Miracle, *s.* (Ff. ; Ll. *miraculum*) gwyrth; rhyfeddod, anrhyfeddod, aruthredd: *pl.* gwyrthiau.

Miracle-play—chware gwyrth, chwareu gwyrth, gware gwyrth: *pl.* chwareuon gwyrth.

Miracle-monger—ymhonwr y gall wneuthur gwyrthiau.

Miraculous, *a.* gwyrthiol; gwyrthiog, gwyrthfawr; â wnaed drwy wyrth; rhyfeddol, enrhyfedd, aruthrol, gwyrthiannol, gwyrthiannus; goruchnaturiol, goruchanianol.

Highly miraculous — arwyrthiol, tra gwyrthiol.

The miraculous draught of fishes—yr helfa wyrthiol *neu* ryfeddol o hysgod.

Of a miraculous nature—gwyrthiolus; o natur wyrthiol.

Miraculousness, *s.* gwyrthioldeb, gwyrthiolrwydd, gwyrthiolder, gwyrthioledd, gwyrthfawredd, arwyrthioldeb; rhyfeddolrwydd.

Mirador, } *s.* (Ysp.) dryohwel; oriel â golwg
Miradore, } helaeth o hono; murdaflen, balcawd, oriel, rhodfa.

Mirage, *s.* (Ff.) hudwy, hudwel, twyllwel, twyll-olwg, twyllweledlad, hud-ddwfr.

Mire, *s.* (S. *mere;* Is. *myre*) llaid, llaca, tom, baw, trybola, mign.

Deep in the mire—dwfn yn y llaid; dros ei ben a'i glustiau mewn dyled; cyfuwch a'i ben a'i glustiau mewn dyled.

Mire, *v.* lleidio, tomi, tryboli, budreddu; gorchuddio â thom; suddo *neu* soddi mewn llaid.

Mire, *s.* morgrugyn, mywionyn, morionen.

Mire-crow, *s.* lleidfran, brân y môr, gwylan benddu.

Mire-drum, *s.* tabwrdd y baw; aderyn y bwn.

Mirificent, *a.* (Ll. *mirificus*) â bair ryfeddod *neu* syndod.

Miriness, *s.* (o *miry*) lleidiogrwydd, lleidlydrwyd, lleidlydedd, tomogrwydd, tomlydrwydd; budredd, budreddi.

Mirk,† *a.* (S. *mirce*) tywyll, gwrm, du.

Mirksome, *a.* tywyll, gwyll, caddugaidd, anoleu, aneglur, anghlaer, gwrm; du.

Mirksomeness, *s.* tywyllni, tywyllwch, gwyllwch, aneglurder.

Mirky, *a.* tywyll, gwyll, caddugaidd, anoleu, aneglur, anghlaer; gwrm, du.

Mirror, *s.* (Ff. *miroir;* Ll. *miror*) drych, drych wyneb.

Mirror, *v. a.* adlewyrchu, adlewychu, attywynu; arddangos fel mewn drych; drychu.

Mirrorstone,† *s.* drychfaen.

Mirth, *s.* (S. *mirht*) llawenydd, llonder, llondra, llonedd, llondeb, llonwch, llawenwch, lloniant, digrifwch, elwch, benwyd, menwyd, llonychdod, morach, difyrwch, afiaeth, dyddanwch, sirioledd; sarllach; chwerthin.

Riotous mirth—sarllach.

Mirthful, *a.* llawen, llawn llawenydd, llawn o lawenydd, hylon, hoenus, gorhoenus, llon, llonwych, siriol, dyddan; gwych.

Mirthfulness, *s.* llawenydd, llawenwch, llonder, llondra, llonedd, hylonedd; digrifwch, elwch, menwyd, enchwardd, llonychdod; llawnder llawenydd; sarllach.

Mirthless, *a.* afiawen, dilawenydd, anhylon, annifyr, athrist, prudd, dihoen, digalon.

Mirthlessness, *s.* afiawenydd, afiawenwch, anhylonder, anhylonrwydd, athristedd.

Miry, *a.* (o *mire*) lleidiog, lleidlyd, tomog, tomlyd, llaceilyd, llawn llaid, cleilyd.

Mirza, *s.* (o'r Pers. *Emirzadeh*) Mirsa=urddenw cyffredin yn Persia.

Mis, (o'r perwyddiad *miss;* S. *mis;* Al. *mis, missen;* Ff. *mes, me*) rhagddodiad yn dynodi *cam-, cam, an-, af-, drygˆ, drwg, gwall-, meth-; ar gam, ar fai, yn wallus.*

Misacceptation, *s.* camgymmeriad, camgymmeriaeth, camddeall, camystyr, camystyriaeth; cymmeriad peth ar gam, cymmeriad peth mewn camystyr.

Misadventure, *s.* (*mis* ac *adventure*) anffawd, anhap, annhyngedfen, drwg ddamwaen, dryglam; damwaen, anoddeu, hapladdiad, dynladdiad anfwriadol.

Misadventured, *a.* anffodiog, anffodus, anhyffawd.

Misadventurous, *a.* perthynol i anffawd *neu* afiwydd; anffodiol, afiwyddol.
Misadvice, *s.* camgynghor, drwg gynghor, gau gynghor, cynghor drwg; camaddysg, camhyfforddiad; gau hysbysrwydd.
Misaffect, *v. a.* cashau, anhoffi, angharu.
Misaffected, *a.* drygnawsus, anfoddog, drygwyllysiol, diserch; anghyffröedig.
Misaim, *v. a.* camgyfeirio; annelu ar gam; camgeisio.
Misaimed, *a.* camgyfeiriog.
Misallegation, *s.* camhaeriad, camhoniad, camhysbysiad.
Misallege, *v. a.* camhaeru, camhoni.
Misanthrope, } *s.* (Gr. *misanthrôpos*) dyngas-
Misanthropist, } hâwr, cashâwr dynolryw, annyngarwr; à gashao ddyn *neu* ddynolryw; un dyngas *neu* annyngar.
Misanthropic, } *a.* dyngashaol, dyngas, an-
Misanthropical, } nyngar; à gashao ddynolryw.
Misanthropy, *s.* dyngasedd, annyngarwch, casineb at ddynolryw.
Misapplication, *s.* camgymhwysiad, camaddasiad; camddefnyddiad, camarferiad, gwallddefnyddiad.
Misapply, *v. a.* camgymhwyso, camaddasu, camgyfaddasu, cambriodoli; camddefnyddio, camarferu; camgyfeirio.
Misapprehend, *v. a.* camddeall, camddirnad, camsynied, camsynio, camgymmeryd, camamgyffred.
Misapprehension, *s.* camddeall, camddirnadaeth, camddirnad, camsyniad, camgymmeriad, camgymmeriaeth, camdyb; tywyllni synwyr, dallineb meddwl; amryfusedd.
Misarrange, *v. a.* camdrefnu.
Misascribe, r. *a.* cambriodoli, camroddi.
Misattend, *v. a.* esgeuluso; peidio â sylwi ar; dïystyru, dïystyrio.
Misbecome, *v. a.* anweddu i, camweddu i, drygweddu i; gweddu yn ddrwg i; bod heb fod yn gweddu i; bod yn anweddus *neu* anhardd yn; bod yn anaddas *neu* anghyfaddas i.
Misbecoming, *a.* anweddus, anweddaidd anghymhwys, anaddwyn, yn anweddu, yn' drygweddu, yn gweddu yn ddrwg; anmbriodol.
Misbecomingness, *s.* anweddusrwydd, anweddusder, anweddusdra, anweddeiddrwydd, anweddeidd-dra.
Misbegot, } *a.* à genedlwyd yn anghyfreith-
Misbegotten, } lawn *neu* afreolaidd; à gamgenedlwyd.
Misbehave, *v. n.* camymddwyn, camymarwedd, camarweddu; ymddwyn yn anweddus *neu* anweddaidd.
Misbehaved, *a.* anfoesgar, anfoesog, drygfoesog, drygfoesol; drwg ei foes, ei foesau, *neu* ei ymddygiad; mawr ei anfoes; ansyberw; dïaddysg.
Misbehaviour, *s.* camymddygiad, camymarwedd, camymarweddiad, camymddwyn, ymddygiad anweddus, ymddygiad anaddwyn; anfoes, drygfoes, drwg ymarweddiad, gwallymddygiad.
Misbelief, *s.* camgred, camgrediniaeth, camgoel, geugred, gau grediniaeth, methgoel, methgred.
Misbelieve, *v. a.* camgredu, camgoelio, credu ar gam, geugredu; anghoelio.
Misbeliever, *s.* camgredwr, camgredydd, camgrediniwr, geugredwr, credwr ar gam.
Misbelieving, *a.* camgrediniol, yn credu ar gam, geugrediniol, camgredol.
Misbestow, *v. a.* camroddi, camddodi, camosod, rhoddi ar gam.
Misborn, *a.* camanedig; à anwyd i ddrwg.
Miscal, *v. a.* camenwi, camalw; enwi *neu* alw ar gam; llysenwi, difenwi.
Miscalculate, *v. a.* camgyfrif, camfwrw; camrifo.
Miscalculation, *s.* camgyfrifiad, camrifiad; camgyfrif.
Miscarriage, *s.* meth, methiant, afiwydd, afiwyddiant, anffynniant, pall, palliant, aball, ffael, ffaeledd, colliant, colliad, methineb, palldod, anffodrwydd, anffodusrwydd, darfethiad; camymddygiad, camymarwedd, ymddygiad anweddus, ymarweddiad anaddwyn; erthyliad; erthyl.
Miscarry, *v. n.* afiwyddo, annhycio, mall-ffynnu, anffynnu, methu, ffaelu, pallu, darfethu; bod yn afiwyddiannus; myned yn ddiffrwyth; diweddu yn ddiles; erthylu, esgor cyn tymp.
A miscarrying womb — croth erthylog, croth yn erthylu.
Miscellanarian, *a.* (o *miscellany*) amryfath; perthynol i amrywion; amrywiol.
Miscellanarian, *s.* ysgrifenwr amrywion, ysgrifenydd brithnodach, brithnodydd.
Miscellane, *s.* (Ll. *miscellaneus*) brithyd, amyd, cymmysgyd.
Miscellaneous, *a.* (Ll. *miscellaneus*) amryfath, amrywiog, amrywiol, amlryw, amryw; cymmysg, cymmysgedig, mysgedig.
Miscellaneousness, *s.* amrywiogrwydd, amrywioldeb, amryfathrwydd.
Miscellany, *s.* (Ll. *miscellanea*) amrywiaeth, amrywiolaeth, amrywiant, amrywdeb; cynnulliad o bethau gwahanol; casgliad amryfath, amrygasgliad; amrygasgl; brithnodach, greal, amrylyfr, cylchgrawn.
Miscellany, † *a.* = *Miscellaneous.*
Miscentre, † *v. a.* camgyflëu, camosod, gosod ar gam.
Mischance, *s.* anffawd, afiwydd, anhap, anhyngedfen, drwg ddamwaen, dryglam, angherdded, tynged ddrwg, trychineb, damwaen.
Mischaracterize, *v. a.* camnodweddu, camddynodi, camnodebu, camddarlunio.
Mischarge, *v. a.* camofyn, gofyn ar gam; rhoi peth ar gam yn erbyn un.
Mischarge, *s.* camofyn; camgyhuddiad, camachwyn, camgwyn.
Mischief, *s.* (hen Ff. *meschef*) drwg, drygioni, drygedd; niwed, niwaid, adwyth, eniwed, erniwed; ysgelerder, ysgelerdra, trychineb, dryglam, afiwydd, anffawd; llafan, llafanddrwg.
Mischief, *v. a.* drygu, niweidio; gwneuthur drwg *neu* niwed i; andwyo.
Mischief-maker, *s.* terfysgwr, afionyddwr, pwt y gynhen, direidwr, dirieidwr, direidwas, anfadwr.
Mischief-making, *a.* yn peri drwg, &c.; drygionus, drwg, niweidiol.
Mischievous, *a.* drygionus, drwg, dryglawn, diriaid, diried, ysgeler, adwythig, hyddrwg, anfad, anfadus, barus; niweidiol, niweidiog, niweidlawn.
Mischievous man—drygddyn, dyn drwg, dyn drygionus, &c.

Mischievous boy—drygfab, bachgen drwg, bachgen drygionus, &c.

Thou art full of mischievous tricks—yr wyt yn llawn direidi.

To play mischievous tricks—asbrio.

Mischievousness, *s.* drygedd, drygioni, drygionusrwydd, direidi, anfadrwydd, anfadusrwydd, bariaeth, ysgelerder, dryganiaeth.

Mischna, } *s.* (H.) casgliad o draddodiadau ac
Mishna, } esboniadau Iuddewig; y Mishna, y Misna.

Mischnic, *a.* perthynol i'r Mishna.

Mischoose, *v. a.* camddewis, camddethol, camethol, gwneuthur camddewisiad.

Miscibility, *s.* (o *miscible*) hyfysgedd, hyfysgrwydd, hygymmysgedd.

Miscible, *a.* (Ff. o'r Ll. *misceo*) cymmysgadwy, mysgadwy, hyfysg, hygymmysg.

Oil and water are not miscible—nis gellir cymmysgu olew a dwfr; y mae olew a dwfr yn anghymmysgadwy; anhyfysg olew a dwfr.

Miscitation, *s.* camddyfyniad, dyfyniad gwallus; camddyfyneb.

Miscite, *v. a.* camddyfynu, camddyfyn, dyfynu ar gam.

Misclaim, *s.* camarddelw, camhawl, camholiad, camarddelwad.

Misclaim, *v. a.* camarddelwi, camarddelw, camofyn, camholi, hôni hawl ar gam.

Miscomputation, *s.* camgyfrifiad, camrifiad; camgyfrif.

Miscompute, *v. a.* camgyfrif, camfwrw, camrifo.

Misconceive, *v. a.* camddeall, camddirnad, camsynied, camsynio, camamgyffred, camgyffred, camdybied, camdybio, camfarnu, camfeddylio, camfeddylied.

Misconception, } *s.* camddeall, camddirnadaeth,
Misconceit, } camddirnad, camamgyffred, camsyniad, camdybiaeth, camgymmeriad, camgymmeriaeth, camddychymyg, camddychymygiad; camdyb, camfeddwl.

Misconduct, *s.* camymddygiad, canymarwedd, camymarweddiad, ymddygiad beius; drygfoes, anfoes.

Misconduct, *v.* camdrin, camdrefnu, camarwedd, camarweddu; camymddwyn.

Misconjecture, *s.* camamcaniaeth, camamcan, camddychymyg, camdyb.

Misconjecture, *v.* camdybio, camdybied, camddychymygu, camddychymyg, camddyfalu.

Misconstruction, *s.* camddeongliad, camesboniad, camystyriaeth, camgystrawiad; rhoddiad camystyr ar beth; camddefnyddiad, camgyfansoddiad; camddosbarth; camgymmeriad.

Liable to misconstruction—hylithr i gamgymmeriad.

Misconstrue, *v. a.* camddeongli, camddeongl, camesbonio, camystyru; rhoi cam ystyr i; deongli ar gam.

Misconstruer, *s.* camddeonglwr, camesboniwr.

Miscontinuance, *s.* anmharhad, peidiad, paid, dysbeidiad.

Miscorrect, *v. a.* camgyweirio, camgywiro, camwella, camddiwygio, cyweirio ar gam.

Miscounsel, *v. a.* camgynghori, camgyssylio.

Miscount, *v.* camgyfrif, camrifo, camfwrw, afrifo.

Miscount, *s.* camgyfrif, camrif; camgyfrifiad, camrifiad; cyfrif gwallus.

Miscreance, } † *s.* anghrediniaeth, anghred,
Miscreancy, } anffyddiaeth, geuffydd, camgred, geugred; dryganiaeth.

Miscreant, *s.* (Ff. *mécréant;* o'r Ll. *credens*) anffyddiwr, anghredadyn, anghredwr, anghrediniwr, annuwiad, anghristyn, un camgred, un geugred, geugredwr, camgredwr; adyn annuwiol, adyn, dyhiryn, dyhirwr, dyhirwas, anfadyn, drygddyn, mab y fall.

Miscreate, } † *a.* afluniaidd, afluniog, an-
Miscreated, } ffurfiol, gwrthun, anolygus; camgreuedig.

Miscreative, *a.* camgreadol, camgreadigol, camgreol.

Misdate, *s.* camddyddiad, camamseriad.

Misdate, *v. n.* camddyddio, camamseru.

Misdeed, *s.* camweithred, drygweithred, drwg weithred, gweithred ddrwg, drygwaith, camwedd, trosedd, cawdd, bai.

Misdeem, *v. a.* camdybied, camdybio, camfarnu, camfwrw, camfeddylied, camgymmeryd, camsynied.

Misdemean, *v. a.* camymddwyn, camdwyo, camymarweddu; ymddwyn yn anweddus *neu* anaddwyn.

Misdemeanour, *s.* camymddygiad, camymarwedd, camymarweddiad, camymddwyn, anymddygiad, anymarwedd, anymarweddiad, camdwyaeth; bai, trosedd, cawdd.

Misderive, *v. a.* camdarddu, camdynu.

Misdesert, *s.* anhaeddiant, dryghaeddiant, camhaeddiant.

Misdevotion, *s.* camddyhewyd, camaddoliad.

Misdiet, *s.* camymborth, drygfaeth, drygymborth.

Misdirect, *v. a.* camgyfeirio, camhyfforddi, camgyfarwyddo, camlwybreiddio.

Monarchical, } ig, archdeyrnol, teyrnol, breninol, penadurol perthynol i unben; unbenaethol; perthynol i unbenaeth.

Monarchical government — unbenaeth, llywodraeth unbenol, unbenaduriaeth, archdeyrnaeth, archdeyrnogaeth, breniniolaeth.

The state of being monarchical—unbenigrwydd, unbenigder, unbenigdra, unbenoldeb.

Monarchist, *s.* unbenydd, unbenwr, unbenaethwr, pleidiwr unbenaeth.

Monarchize, *v.* unbenaethu, unbenoli, breninoli, teyrnogi, penaduriaethu; llywodraethu, llywio; chwareu y brenin; ymddwyn fel teyrn.

Monarchy, *s.* (Gr. *monarchia*) unbenaeth, archdeyrnaeth, archdeyrnogaeth, unbenaduriaeth, breniniaeth, mydeyrnaeth; teyrnas, ymherodraeth, amherodraeth, llywodraeth, teyrnedd.

British monarchy — unbenaeth Prydain, yr unbenaeth Brydeinig.

Absolute monarchy—unbenaeth annibynol, annherfynol, anammodol, *neu* ddiderfyn; llywodraeth annibynol, annherfynol, anammodol, *neu* ddiderfyn; llywodraeth ymbenol, ymbenaeth; llywodraeth seiliedig ar ewyllys y penadur yn unig.

Monasterial, *a.* mynachlogaidd, monachlogaidd, mynachlogol, monachlogol; perthynol i fynachdy.

Monastery, *s.* (Gr. *monasterion*; Ll. *monasterium*; Ff., *monastère*) mynachlog, monachlog, manachlog, mynachdy, monachdy, manachdy, mynachlys, monachlys, manachlys, mynechdid; abatty.

Monastic, } *a.* (Gr. *monasticos*; Ff. *monas-*
Monastical, } *tique*) mynachol, monachol, manachol, mynachaidd, monachaidd, manachaidd; perthynol i fynach; eiddo mynach, o'r eiddo monach; yn perthyn i fonachlog; â berthyn i fonaches *neu* leian; unig, unigol.

Monastic life—mynachaeth, monachaeth, manachaeth, buchedd monach, bywyd mynachol.

Monastic, *s.* mynach, monach, manach.

Monasticism, *s.* mynachaeth, monachaeth, manachaeth, bywyd mynachaidd.

Monasticon, *s.* mynachlyfr; llyfr yn rhoi hanes mynachlogydd.

Monday, *s.* (S. *monandæg*; Is. *maandag*; Al. *montag*; *moon* a *day*) dydd Llun, dyw Llun.

The next Monday after—y Llun nesaf ar ol hyny; y dydd Llun nesaf ar ol hyny.

Plough Monday—dydd Llun wedi yr Ystwyll; dydd Llun yr Ystwyll.

Black Monday—dydd Llun du=Llun y Pasc, 1360, yr hwn oedd gymylog, tywyll, ac mor oer nes y cwympai dynion yn farw oddi ar eu ceffylau.

Monde, *s.* (Ff.) y byd; cronen, cronell.

Beau monde—gwychfyd, arfyd, arfuchedd, defodfyd, y byd dullweddus.

Monetary, *s.* (o'r Ll. *moneta*) arianol; perthynol i arian; mwneiol.

Money, *pl.* **Moneys**, **Monies**, *s.* (S. *mynet*; Is. *munt*; Al. *münze*; Ff. *monnaie*; Ll. *moneta*) arian, ariant, arian bath, arian bathol, mwnai; bath, bathon.

Current money—arian cymmeradwy, arian bath, arian rhif, arian derbyniol; cylcharian, treiglarian, arian treigl, arian train.

Earnest money—ern, ernes, arian arddelw, ceiniog arddelw, briduw, arian briduw, rhagarian, gwystl, gwaes, arwaes.

A mint of money—gwlad o arian, byd o arian.

Payment in money—ariandal, tâl mewn arian.

To get money—riana, ennill arian.

Moneyage, *s.* ariandoll; arian aelwyd, swllt aelwyd.
Pocket-money—arian traul, arian cod, arian coden, arian llogell; arian i'w cadw yn y goden.
Pin-money—arian llogell gwraig, arian coden gwraig, arian pinau.

Money-bag, *s.* cod arian, coden arian.

Money-box, *s.* blwch arian, cist arian.

Money-broker, *s.* rhyngfaelwr arian, masnachwr mewn arian.

Money-changer, *s.* newidiwr arian, newidwr arian, newidydd arian; arianwr, arianydd.

Moneyed, } *a.* arianog, llawn arian, llawn o ar-
Monied, } ian; â llawer o arian ganddo; âg arian ganddo; arianol, mewn arian; goludog; codog.

Moneyer, *s.* arianydd, arianwr; bathwr arian.

Moneyers, } bathwyr arian, bathwyr, bath-
Moneers, } yddion.

Money-lender, *s.* echwynwr arian.

Moneyless, *a.* diarian; heb arian ganddo; heb ganddo arian i ymgroesi; digeiniog; anarianog; tlawd.

Money-scrivener, *s.* cyfodwr, cyfodydd, *neu* godwr arian dros arall; malgyfodydd.

Money-spinner, *s.* arian-nyddwr, nyddwr arian, arian-gopyn=pryf copyn bychan y tybir ei fod yn darogan y bydd i'r un y cerdd ar hyd-ddo dderbyn arian.

Money's-worth, *s.* arianwerth, gwerth arian; llawn werth; rhywbeth â ddwg arian.

Moneywort, *s.* canclwyf, dwygeinioglys, ceinioglys.
Cornish moneywort—ceinioglys Cernyw.

Mongcorn, *s.* (S. *mang*, a *corn*) amyd, brithyd, mysgyd, cymmysgyd.

Monger, *s.* (S. *mangere;* Is. *manger*) masnachwr, masnachydd, trafnidiwr, maelwr, gwerthwr: arferedig weithiau mewn cyfansoddiad yn unig; megys *fishmonger, ironmonger, newsmonger*, a'r cyffelyb.

Mongoose, } *s.* math o ab neu epa; Mon-
Mongooz, } gws.

Mongrel, *a.* (S. *mengan*) cymmysgryw, mysgryw, cymmysg, lledryw, lledrywiog, brithrywiog; â fo gymmysgryw.
A mongrel fellow—cymmysgfab, un cymmysgryw.
Mongrel dog—brithgi, cymmysggi, ci cymmysgryw, ci cymmysg.

Mongrel, *s.* un cymmysg, un cymmysgryw, un mysgryw, cymmysgyn, creadur cymmysgryw; un y bo ei dad a'i fam o amryw genedl; brithgi, cymmysggi.

Monial, † *s.*=*Mullion.*

Moniliform, *a.* (Ll. *monile*, a *form*) mwndlysaidd, mwndelaidd, fel mwndlws, fel torch mwnwgl.

Moniment, *s.* (Ll. *monimentum*) nod, marc, arwydd, delw; argraff, arysgrifen, crair.

Monish, † *v. a.* (Ll. *moneo, monitia*) rhybuddio, cynghori.

Monisher, *s.* rhybuddiwr, cynghorwr.

Monition, *s.* (Ff.; Ll. *monitio*) rhybudd; cynghor; annog, annogaeth; hysbysiad, hysbysiaeth, copinod; addysg; rhybuddiaeth, rhybuddiad, cynddyledd.

Monitive, *a.* rhybuddiol, cynghorol, cynghorus, annogol, annogaethol.

Monitor, *s.* (Ll.) rhybuddiwr; cynghorwr, annogwr, annogydd; rhybuddiedydd; isathraw, isfeistr, isdraw, golygwr, arolygwr, cynddylan.

Monitorial, *a.* perthynol i rybuddiwr *neu* arolygwr; arolygol, cynddylanol, rhybuddiedyddol, isathrawol; rhybuddiol; yn cynnwys rhybudd *neu* annogaeth; rhybuddiaethol.
Monitorial school—ysgol gynddylan, ysgol isathrawol.

Monitory, *a.* rhybuddiol; cynghorol, cynghorus; annogol, annogaethol.

Monitory, *s.* rhybudd, rhybuddiaeth; cynghor; annogaeth.

Monitress, *s.* rhybuddes, rhybuddwraig.

Monk, *s.* (Gr. *monachos;* S. *monec, munuc*) mynach, monach, manach: *pl.* mynachod, mynaich, meneich.
The life of a monk—bywyd mynach, bywyd mynachol, bywyd mynachaidd, buchedd fynachol, mynachaeth, monachaeth, mynachdod.
Monk's hood—cwfl y mynach, llysiau y blaidd, bleidd-dag.
Monk's rhubarb—rheonllys y mynach, tafol y mynydd.

Monkery, *s.* mynachaeth, monachaeth, manachaeth, mynachdod, bywyd mynachol, buchedd fonachol.

Monkey, *s.* (It. *monicchio*) epa, ab, simach, gwrab; epa llosgyrnog, epa cynffonog, llostab.
Monkey-pot—crochan yr epa, pot yr ab=math o bren aruthrol ei faint, yn tyfu yn nghoedwigoedd Brasil.
Monkey's bread—bara yr epa; y Baobab, Adansonia.

Monkhood, *s.* mynachdod, monachdod, mynachaeth, nodweddiad mynach.

Monkish, *a.* mynachaidd, monachaidd, manachaidd, mynachol, monachol, manachol.

Monocardian, *a.* (Gr. *monos* a *cardia*) ungalon, ungalonaidd; âg un galon ganddo *neu* iddo.

Monocarpous, *a.* (Gr. *monos* a *carpos*) unffrwythog, unffrwythig, unffrwyth; yn dwyn un ffrwyth.

Monoceros, *s.* (Gr.) unicorn, yr unicorn, uncornfil: unicorn, *pl.* uncyrn, uncorniaid.

Monochlamydeous, *a.* (Gr. *monos* a *chlamus*) unwisg, unwisgog, undwygaidd, undudded.

Monochord, *s.* (Gr. *monos* a *chordé*) uncord, untant.

Monochromatic, *a.* (Gr. *monos* a *chrôma*) unlliwiog, unlliwig, unlliw.

Monochrome, *s.* (Gr. *monos* a *chrôma*) unlliw; paentiad *neu* arluniad âg un lliw.

Monoclinous, *a.* (Gr. *monos* a, *clinê*) gwrfenywaidd, deurywiol, deurywiog, deuryw=gair cymhwysedig at flodau.

Monocotyle, } *a.* (Gr. *monos* a *cotulêdôn*)
Monocotyledonous, } unhadgibog, unhadgodog, unhadlenog; âg iddo ddim ond un hadgib, hadgod *neu* hadlen.

Monocotyledon, *s.* unhadgibog, planigyn unhadgibog, unhadgiblys, unhadgodog, unhadlenog, unhadgibyn: *pl.* unhadgibogion, unhadlenogion, unhadgibiaid, unhadnoddion.

Monocrasy, *s.* (Gr. *monos* a *crasê*) llywodraeth un dyn; unbenaeth.

Monocrat, *s.* unben, unbenadur.

Monocular, } *a.* (Gr. *monos*, a Ll. *oculus*) un-
Monoculous, } llygeidiog, unllygad; a'r nad oes iddo lygad ond un.

Monocule, *s.* trychfil unllygeidiog, pryf unllygad, unllygeidyn: *pl.* unllygeidion.

Monodactylous, *a.* (Gr. *monos* a *dactulos*) unbys, unfys; unfawd, unfodiog; â chanddo un bys *neu* fawd.

Monodist, *s.* galarganwr, galarebydd, galargwynwr, ysgrifenydd galargan.

Monodon, *s.* (Gr. *monodous*) moruncorn, uncorn y môr, uncornbysg.

Monodram, *s.* (Gr. *monos* a *drama*) unchwaryddiaeth, unchwareueg, chwaryddiaeth gân un.

Monodramatic, *a.* unchwaryddol, unchwareuol.

Monody, *s.* (Gr. *monôdia*) galargan, galarnad, galareb, galargerdd, galargwyn, cerdd allwyn, ymson galar, marwnad; cywydd tosturiol *neu* farwnad â gano un wrtho ei hun er ymddyddanu yn ei ofid.

Monœcia, } *s.* (Gr. *monos* ac *oicia*) Unanneddol; Unanneddog; Unanneddolion =yr 21fed genedl o blanigion, yn nhrefniant Linnæus.

Monœcian, } *s.* unanneddyn, planigyn anan-
Monecian, } neddol: *pl.* unanneddolion, unanneddion.

Monœcian, }
Monecian, } *a.* unanneddol; perthynol i'r genedl Unanneddol; â blodau
Monœcious, } gwryw a benyw ar yr un planigyn.

Monogam, *s.* (Gr. *monos* a *gamê*) unweddogyn, unbriodog, blodeuyn unbriod: *pl.* unweddogion.

Monogamian, *a.* unbriodol, unbriod.

Monogamist, *s.* unweddog; gwr unwraig, gwr unweddog, unwreigiwr, unwreigydd; un â ddeil nad yw gyfreithlawn priodi ond unwaith; un â fo yn erbyn ail briodas.

Monogamous, *a.* unweddogaidd, unbriodasol; â chanddo ddim ond un wraig, ac heb genad iddo briodi drachefn.

Monogamy, *s.* (Gr. *monos* a *gamê*) unbriodas, unweddogaeth, un briodas heb ail.

Monogram, *s.* (Gr. *monos* a *gramma*) llythyrglwm, llythyrdas, llythyrair, llythyrbleth, llythyrenau plethedig, llythyrenau cynghlwm.

Monogrammal, }
Monogrammatical, } *a.* llythyrglymol, llythyr-
Monogrammic, } glymaidd; ar wedd llythyrglwm; perthynol i lythyrair.

Monograph, *s.* (Gr. *monos* a *graphê*) cofiant, hanes, *neu* ddarluniad o un peth; hanes un dosbarth o bethau; cofiant.

Monographic, } *a.* â dynwyd mewn llinellau
Monographical, } heb liwiau; unnarluniol; cofiannol; perthynol i gofiaint *neu* gofiannau.

Monographically, *ad.* ar wedd cofiant; yn null cofiant.

Monographist, *s.* cofiannydd, cofiannwr, ysgrifenwr cofiaint.

Monography, *s.* darluniaeth *neu* ddarluniad mewn llinellau heb liwiau; unnarluniaeth.

Monogyn, *s.* (Gr. *monos* a *gunê*) unfenyw, planigyn unfenyw.

Monogynia, *s.* Unfenyw, y llwyth Unfenyw; Unfenywion=enw planigion âg iddynt ddim ond un goesig, yn ol trefniant Linnæus.

Monogynian, *a.* unfenywaidd, unfenywol; âg iddo ddim ond un goesig.

Monolith, *s.* (Gr. *monos* a *lithos*) gwaith unfaen, unfeinwaith, unfaen; gwaith â wnaed o un maen.

Monolithal, } *a.* unfeinin, unfeinig; â wnae
Monolithic, } o un maen.

Monologist, *s.* ymsoniwr, ymddyddanwr âg ef ei hun, hunan-ymddyddanwr.

Monologue, *s.* (Gr. *monos* a *logos*) ymson, hunanymddyddan, hunymddyddan; ymddyddan cyfrinachol â wnelo un wrtho ei hun *neu* rhyngddo ac ef ei hun.

Monomachist, *s.* ornestwr, ornestydd, ymladdwr ornest.

Monomachy, *s.* (Gr. *monos* a *machê*) ornest, ymornest, ymgysbwys, ymladd benben, brwydr benben; ymladd rhwng dau lawlaw.

Monomania, *s.* (Gr. *monos* a *mania*) unigorphwyll, unorphwyll, unwallgofrwydd, unwallgof, gwallgofrwydd *neu* orphwylledd gyda golwg ar un peth yn unig.

Monomaniac, *s.* unorphwyllog, unorphwyllyn; un gorphwyllog o ran un peth yn unig.

Monomaniac, *a.* unorphwyllog, unwallgofus, unorphwyllus, unorphwyllig; gorphwyllog mewn un peth yn unig.

Monome, } *s.* (Gr. *monos* ac *onoma*) unenw;
Monomial, } peth unenw; dogn unenwol.

Monopathy, *s.* (Gr. *monos* a *patheia*) unoddefedd; poen *neu* deimladrwydd unigol.

Monopetalous, *a.* (Gr. *monos* a *petalon*) unfflurddeiliog, unflodeuddeiliog.

Monophthong, *s.* (Gr. *monos* a *phthoggos*) unllafarsain, un llafarsain.

Monophthongal, *a.* unllafarseiniol; yn cynnwys un llafarsain.

Monophyllous, *a.* (Gr. *monos* a *phullon*) unddalenog, unddeiliog.

Monophysite, *s.* (Gr. *monos* a *phusis*) Unnaturiad, Monophysiaid: *pl.* Unnaturiaid, Monophysiaid=un a ddeil nad oedd gân Iesu Grist ond un natur.

Monopolist, } *s.* (o *monopoly*; It. ac Ysp.
Monopolizer, } *monopolista*) unigwerthwr, unigwerthydd, gorfaelwr, gorfaeliwr, gorfaeler, gorfaelydd, gorfaelotyn, rhagfaelwr, rhagbrynwr, edwicwr, unig farchnadwr, unig farchnadydd; cribddeiliwr.

Monopolize, *v. a.* (Gr. *monos* a *pôleô*; Ff. *monopoler*) rhagbrynu, rhagfaelio, gorfaelio, rhagfaeleru, rhagfaelera, gorfaeleru, gorfaelera, edwica; cribddeilio; cael y cwbl iddo ei hun; mynu y cwbl iddo ei hun; mynu y farchnad i'w ddwylaw ei hun; unigwerthu.

Monopoly, *s.* (Gr. *monopôlia*; Ff. *monopole*) gorfael, gorfaeliant, gorfaeleriaeth, gorfaelieraeth, rhagfaeliad, rhagbryniad, edwicaeth; marchnad unllaw, rwym, anghyfranog, *neu* ddigyfran; hun-farchnad, hunan-farchnad; marchnad ni bo ond i un â wnel â hi.

Monopolylogue, *s.* (Gr. *monos*, *polus*, a *logos*) unamrywest.

Monopteral, *a.* unadeiniog; yn perthyn i adail unadeiniog; ambillog.

Monopteros, *s.* (Gr. *monos* a *pteron*) ambillfa, teml ambillog; teml unadeiniog.

Monoptote, *s.* (Gr. *monos* a *ptôsis*) untreigliad, untreigl, gair untreigl; enw â dim ond un cyflwr iddo: *pl.* untreigliaid.

Monorhyme, *s.* (Gr. *monos* a *rhuthmos*) unawdl; cyfansoddiad unawdl *neu* unodl; cân *neu* gerdd unawdl.

Monosepalous, *a.* (Gr. *monos*, a *sepal*) cyflodeuddeiliog, cyflodeuddeilaidd.

Monosperm, *s.* (Gr. *monos* a *sperma*) unhadog, planigyn unhadog: *pl.* unhadogion.

Monospermous, *a.* unhadog.
Monostachous, *a.* (Gr. *monos* a *stachus*) undwysenog.
Monostich, *s.* (Gr. *monos* a *stichon*) pennill; cyfansoddiad o un pennill.
Monostremata, } *s. pl.* (Gr. *monos* a *trema*) un-
Monostremes, } arllwysfaolion.
Monostrematous, *a.* unarllwysfaol, unarlloesfaol; â chanddo ddim ond un arllwysfa.
Monostrophic, *a.* (Gr. *monostrophos*) unfydrig, unfydraidd, unfesurol; heb amrywiaw o ran mydr *neu* fesur.
Monosyllabic, } *a.* (o *monosyllable*) unsill, un-
Monosyllabical, } sillog, unsilliog, unsillafog, unsilltiog, unsilliadol; unsilleiriog, unsilleiriol; cynnwysedig o eiriau unsill.
Monosyllabic word—gair unsill, gair unsilliog, unsillair.
Monosyllable, *s.* (Gr. *monos* a *sullablê*) unsill, unsillair, gair unsill, gair unsillog, gair un sillaf, gair unsillafog, unsillt.
Monosyllabed, *a.* â wnaed yn unsill; unsillog, unsilliog.
Monothalamous, *a.* (Gr. *monos* a *thalamos*,) ungellog, ungafellog, un-ystafellog, unllogell og.
Monotheism, *s.* (Gr. *monos* a *Theos*) unduwiaeth, undduwiaeth.
Monotheist, *s.* unduwiad; credwr mewn un Duw yn unig: *pl.* unduwiaid.
Monotheistic, *a.* unduwiaethol, unduwaidd; perthynol i unduwiaeth.
Monothelite, *s.* (Gr. *monos* a *thelêsis*) Unwyllysiad, Unwyllysiwr; Monotheliad: un â ddeil nad oedd gàn Grist ond un wyllys: *pl.* Unwyllysiaid, Monotheliaid.
Monothelitism, *s.* Unwyllysiaeth, Monotheliaeth; y gred nad oedd gàn Grist ond un ewyllys.
Monotomous, *a.* (Gr. *monos* a *temnô*) unhollt, unholltog.
Monotone, *s.* (Gr. *monotonia*) cyfacen, cyfacan, undon, unsain.
Monotonic, } *a.* cyfacenol, cyfacen, undon,
Monotonical, } unllef.
Monotonous, *a.* undon, cyfacen, cyfacan, cyfacenol, unllef; o'r un dôn.
Monotony, *s.* undonyddiaeth, cyfacen, cyfacan; darlleniad undon; darlleniad yn yr un dôn ddigyfnewid; unrhywdeb, unrhywiaeth, unffurfiaeth.
Monotropa, *s.* (Gr. *monos* a *tropeô*) cyttwf, nyth aderyn.
Monotriglyph, *s.* (Gr. *monos*, a *triglyph*) untrisylch.
Monoxylon, *s.* (Gr. *monos* a *xulon*) ceufad, ysgeufad, bad unpren, cafn unpren.
Monseigneur, *pl.* Messeigneurs, *s.* (Ff.) fy arglwydd, fy arlwydd.
Monsieur, *pl.* Messieurs, *s.* (Ff.) meistr, fy meistr, Syr.
Moonsoon, *s.* trafnidwynt, cylchwynt.
Monster, *s.* (Ll. *monstrum*) anghenfil, anghyngel, cynfil, cenfil; creadur anferth; peth anferth; rhywbeth aflunaidd, anferth, gwrthun, *neu* ddybryd.
Sea monster — mor-genfil, mor-gynfil, anghenfil môr.
A monster of impiety—un annuwiol ofnadwy.
Monster, *a.* anferthol, anferth, anferth o faint, anferthol o faint, anferth ei faint, anferthol ei faith, amrosgo, mawr aruthr, anghenfilaidd, anghenfaint.
Monster,† *v. a.* gwneuthur yn anghenfilaidd.
Monstrance, *s.* (Ll. *monstro*) arlladfa.
Monstrosity, } *s.* anghenfileiddrwydd, cen-
Monstrousness, } fileiddrwydd, cynfileiddrwydd, anferthedd, anferthrwydd, anfertholdeb, anferthoirwydd, anferthrwydd, dybrydedd, aflunieidd-dra; ansawdd anghenfilaidd peth; anghenfil.
Monstrous, *a.* (Ll. *monstrosus*) anghenfilaidd, cynfilaidd, cenfilaidd; annaturiol; anferth, anferthol, aflunïaidd, gwrthun, dybryd, mawr aruthr, anferth o faint, amrosgo, anfad, anafus, hyll, erchyll, rhyfedd, rhyfeddol, aruthr, aruthrol, echrydus, arswydus, amryffieu.
Monstrous impudence—pres o ddigywilydd-dra, pres o haerllugrwydd.
Monstrous, *ad.* yn anghenfilaidd, &c.; tra, dros ben, yn ddirfawr.
Monstrous big—anferth o faint; anferth o fawr; mawr anafus, anafus o fawr.
Monstrously, *ad.* yn anghenfilaidd, &c.
Monstrously big—anferth o faint; annhyngedfenol o faint; anferth o fawr.
Montanic, *a.* (Ll. *montanus*) mynyddig, mynyddol.
Montanize, *v. n.* Montaneiddio; dylyn tybiau Montanus (geugredwr o'r ail ganrif).
Montant, *s.* (Ff.) esgyniad, ysgyn.
Montants, *s. pl.* ysgynion.
Montero, *s.* (Ysp. *montera*) cap marchwr; cap hely.
Monteth, *s.* (oddi wrth enw y dyfeisiwr) llestr i olchi gwydrau.
Month, *s.* (S. ac Al. *monath*) mis; *pl.* misoedd.
A month, } mis, misgwaith.
A month's space, }
Calendar month—mis amseronol.
A month old—mis oed, misyriad.
That is of the age of one month—misyriad; *pl.* misyriaid.
Of a child that is of a month old—o fab misyriad.
A month's mind—hiraeth, awydd, taer ddymuniad, mawr awydd, chwant.
Lunar month—mis y lleuad, mis y lloer, mis lleuadol.
Monthling, *s.* misyriad; *pl.* misyriaid.
Monthly, *a.* misol; bob mis; â barhao dros fis.
Monthly, *ad.* bob mis, yn fisol; unwaith bob mis; unwaith yn y mis;† yn lloerig.
Monthly, *s.* misolyn, cyhoeddiad misol, cylchgrawn misol, greal misol, misgrawn: *pl.* misolion.
Montia, *s.* (oddi wrth yr Entraw Ioseph *Monti*, o Bologna) dyfrwlydd, dyfrwlyddyn.
Monticle, } *s.* (Ll. *monticulum*) mynyddyn,
Monticule, } bryncyn, gofryn, myntyn.
Montigenous, *a.* (Ll. *montigena*) â gynnyrchwyd ar fynydd; â aned yn y mynydd.
Montoir, *s.* (Ff.) esgynfaen, marchfaen, careg feirch.
Montross, *s.* (Is. *matroos*; Sw. a D. *matros*) gynwas, milwr y cadoffer, gynwr cynnorthwyol.
Monument, *s.* (Ll. *monumentum*) cofadail, cofarwydd, gwyddfa; coffadwriaeth; argof, cof, arddangosiad; amlygyn; beddadail, bedd-

gor, adeiladaeth ar fedd; tomawd; monwent, mynwent.
Monuments of fame—argofion clod, cofarwyddion clod, cofadeilau enwogrwydd.
Which lodged in the monuments—y rhai a lettyent yn y mynwentau (*Esa.* lxv. 4).

Monumental, *a.* coffhaol, coffadwriaethol, cofarwyddol, gwyddfaol, cofadeilawl, cyfargofiol, argofiol; perthynol i gofadail; beddgorol, beddadeilawl; mynwennol, monwennol, mynwentol; beddrodawl.
Monumental tablet—cofiech.
Monumental chapel—capel mynwentol, capel monwentol; capel yn cynnwys beddrodau *neu* feddargraffiadau; capel claddu.

Mood, *s.* (Ff. *mode;* Ll. *modus*) modd; *pl.* moddau—
Indicative mood—modd mynegol, modd mynegadwy, modd dangosedigol.
Imperative mood—modd gorchymynol, modd archedigol, modd archadwy.
Infinitive mood—modd annherfynol, annherfynedigol, annherfynedig, *neu* annherfynadwy.
Optative mood—modd eiddunedigol, eiddunïadol, eiddunol, dymuniannol, dymunedigol, dymunadwy, damunadwy, *neu* eiddunadwy; yr eiddunydd.
Potential mood—modd galluogol, galluedigol, galledigol, *neu* alluadwy.
Subjunctive mood—modd ammodol, ammodedigol, ammodadwy, cyssylltedigol, cyssylltiol, adgyssylltiol, *neu* adgyssylltedig.

Mood, *s.* (S. a Sw. *mod;* Al. *muth*) tymmer; ansawdd y meddwl; tuedd; hwyl, anian; mympwy.
Merry mood—anian lawen; hwyl lawen.
When he is in the mood—pan fyddo yr awr arno; pan fo yr awr arno; pan y bo yr awr arno; pan fyddo yr hwyl arno.

Moodily, *ad.* yn athrist, yn brudd.

Moodiness, *s.* anfoddogrwydd, anniddigrwydd, natur ddrwg, tymmer ddrwg, anian aflawen, digder; tristwch, prudd-der.

Moody, *a.* (o *mood;* S. *modig*) anfoddog, anniddig, anhyfodd, dig, digofus, digllawn, digus, blwng, (*f.* blong), gwynafog, drygnaws, ffrom, dreng; prudd, trist, athrist, dilon, anhylon, aflawen, pendrist; ffyrnig, angerddol, ffroch; † meddyliol.

Moon, *s.* (S. *mona;* Al. *mond;* Gr. *mênê*) lleuad, lloer, llun, lluned.
The moon—y lleuad, y lloer; y ganaid.
Full moon—llawnlleuad, llawnlloer, llawnlluned, llawn lleuad, llawn lloer, llawn lluned, cyfanlloer, cefnlloer, cefn y lloer, cefn y lleuad, lleuad lawn, y llawn lleuad.
New moon—newyddloer, newydd loer, y lloer newydd, y lleuad newydd, blaen newydd.
A little moon—lloeren, lloeran.
Wane of the moon, } adeg y lleuad, cil
Decrease of the moon, } y lleuad, traul y lleuad, ciladeg y lloer; adfan cil; gwendid y lleuad; lloergil.
Increase of the moon—cynnydd y lleuad, cynnydd y lloer, y lleuad ar gynnydd, lloergynnydd.
The quarters of the moon—chwarthorau y lleuad, pedranau y lleuad, banau y lleuad, pedranau y lloer.
The first quarter of the moon—cyntefin y lleuad, chwarthor cyntaf y lleuad, y blaenlloer, y blaen.
The last quarter of the moon—cil y lleuad, adfan cil, chwarthor diweddaf y lleuad.
The second quarter of the moon adfan cynnydd, ail chwarthor y lleuad.
Half-moon—hanner lleuad, hanner lloer; lloer gefngrom; cilgant.
The orb of the moon—lloergant, lloergylch, cant y lloer.
The silver moon—y wenlloer, y lloer wèn, y lleuad arian, y lloer arianaidd.
The shining moon—y lloer ganaid.
The pale moon—y lloer welw, y lleuad welw; y lloer wenfelen.
The change of the moon—newid, newidiad, *neu* gyfnewid y lleuad; ymgyfnewllt haul a lleuad.
Crescent of the moon—cilgant y lleuad, cefn y lleuad.
The moon in conjunction—cyfrwng dwy leuad; y lleuad yn nghyfnewllt.
Conjunction of the sun and moon—cyfnewid y lleuad; cyfrwng dwy leuad; cyfnewllt *neu* gyssylltiad yr haul a'r lloer= cyfarfod yr haul a'r lleuad yn yr un radd ar y sidydd.
The moon is in the wane—y mae godrig *neu* attal ar y lleuad.
Harvest moon—lleuad fedi, lleuad gynauaf; lleuad nawnos oleu.
Three moons—tair lleuad; tri mis.
Of the nature of the moon—lloeraidd, lleuadaidd.
Influenced by the moon—lloerig, lleuadglaf; dàn ddylanwad y lloer, à lloerni arno.
Moon-faced—lloerwynebog, lloerweb.

Moonbeam, *s.* pelydryn y lleuad, paladr y lloer, pelydryn y lloer, lloer-belydryn; lloergan: *pl.* pelydr *neu* belydron y lleuad, lloerbelydr.

Moonblasted, *a.* lleuad-fall, lloer-fall; à fallwyd gàn y lleuad.

Mooncalf, *s.* lloercen, llo lleuad, llo y lleuad; anghenfil, cynfil; penlloreen, hurthgen, brebwl, llelo; lloercen o ddyn.

Mooned, *a.* lleuadog; à gymmerwyd am y lloer.

Moonet, *s.* lloeren, lloeran.

Moon-eye, *s.* lloerlygad, llygad lloerig; llygad yr effeithiwyd arno gàn y lleuad.

Moon-eyed, *a.* cibddall, coegddall, llygadbwl; à chanddo lygaid lleuadglaf; lloerlygeidiog, llygadlloerig.

Moonfish, *s.* lleuadbysg, lloerbysg.

Moonflower, *s.* azpygan, sensigl, llygad y dydd mawr, gold gwynion.

Moong, *s.* math o ffa (yn yr India Ddwyreiniol).

Moonish, *a.* lleuadaidd, lloeraidd; fâl y lloer anwadal ei llun; cyfnewidiol.

Moonless, *a.* diloer, dileuad; dilewyrch, dilewych.

Moonlight, *s.* goleu lleuad, goleu lloer, lloergan, goleu y lloer, goleu y lleuad, llewyrch y lloer, goleu y ganaid, lleuad ganaid, goleu leuad, goleu loer, lloerwen.

By moonlight—wrth oleu y lleuad; wrth oleu y lloer, &c.

Moonling, *s.* lloerigyn, symlyn, penllorcan, llelo.

Moonloved, *a.* lloergaredig; caredig pan dywyno y lleuad.

Moonseed, *s.* lloerhad, lloerhadlys.

Moonshee, *s.* cyfieithydd (yn Hindwstan).

Moonshine, *s.* lloergan, lloerwen, goleu lleuad, goleu lloer, goleu y lleuad, goleu y lloer, llewyrch y lloer, llewyrch y lleuad, goleu leuad, goleu loer.

A matter of moonshine—peth dibwys; peth mòr ddiafael a goleu lloer; peth goleu leuad.

Moonshine, } *a.* lloerganaid; yn cael ei oleuo
Moonshiny, } gàn y lloer; à lewyrchir gàn y lleuad; canaid.

A moonshine night—noswaith loergan, noswaith oleu lleuad, nos oleu leuad, noswaith loerwen; nos oleu, nos ganaid, noswaith oleu, noswaith ganaid.

Moonstone, *s.* lloerfaen, lleuadfaen.

Moonstruck, *a.* lloerig, lleuadglaf.

Moon-trefoil, *s.* lloer-faill, lloer-feillion, maglys y coed.

Moonwort, *s.* lloerlys, lleuadlys, lloer-redyn, dibedoliad y meirch.

Royal moonwort—lloer-redyn cyfrdwy, rhedyn cyfrdwy.

Common moonwort — lloer-redyn cyffredin, lloerlys cyffredin.

Moony, *a.* lleuadog, lloerawg; ar lun hanner lleuad; lleuadaidd, lloeraidd; à chanddo gilgant yn lluman.

The moony host—y llu lleuadog; llu y lloer; llu y cilgant=llu Sultaniaid Twrci.

Moor, *s.* (S. *mor;* Al. *mohr;* Is. *moer*) rhosdir, rhos, uchelwaen; morfa, tir morfa, corswaen, corsdir, corsle; cors, mignen, mignwern, mign.

Moor, *s.* (Is. *moor;* Al. *mohr;* Ll. *maurus*) Mwr, Mwriad; Mwyariad, Blowmon, Blewmon, dyn du: *pl.* Mwriaid, Mwyariaid, Blowmoniaid: *f.* B owmones.

Tawny Moor—dyn melynddu.

Moor, *v.* (Ysp. *amarra;* Is. *maaren*) angori; bwrw angorau o ddeupen llong; gorwedd wrth angorau.

Moorage, *s.* angorfa, angorle, lle i angori; angoriad.

Moor-buzzard, *s.* bod y gwerni, bwncath y wern, boncath y wern, y bod penwyn, y penwyn.

Moorcock, *s.* ceiliog y mynydd, ceiliog y grugieir, cochiad, (*pl.* cochiaid), coch y grug, ceiliog y cochieir.

Moor-fowl, *s.* grugiar, cochiar, iar y mynydd, iar fynydd, grugiar goch, cochiad, coch y grug.

Moorhen, *s.* grugiar, iar y mynydd, iar fynydd, cochiar, grugiar goch; cotiar, dyfriar, corshwyad, corsiar.

Moorgame, *s.* grugieir, ieir y mynydd, ieir mynydd, cochieir, cochiaid, coch y grug.

Moor-grass, *s.* corswellt.

Blue moor-grass—corswellt rhuddlas.

Mooring, *s.* angoriad; taclau angori; angorle, angorfa.

Mooring-block—cyff angori.

Moorish, *a.* rhoslyd, rhosdiraidd, corsaidd, corslyd, morfaog; dyfrllyd: Mwraidd, Mwyaraidd, perthynol i'r Mwriaid.

Moorish architecture, } adeilyddiaeth y
Moresque architecture, } Mwriaid, adeiladaeth Fwraidd.

Moorland, *s.* rhosdir, rhos; morfa, tir morfa, corsdir, tir corsog.

Moorstone, *s.* rhosfaen=math ar ithfaen à geir yn Nghernyw, a manau ereill o Loegr.

Moor-titling, *s.* clochdar y ceryg, clochdar y graig, tinwyn y garn.

Moory, *a.* corsog, corslyd, siglenog, corsaidd, morfaog; dyfrllyd, gwlyb.

Moose, *s.* (gair Indiaidd brodorol) elch America, elc Amerig, Mws=math ar garw mawr.

Moot, *v.* (S. *motian*) dadlu, dadleu, arddadlu; dadleu dros ac yn erbyn; holi, chwilio, trin; dadleu achos dychymyg; gwneuthur araeth ddychymyg; rhith-ddadleu er ymarfer; coeg-ddadleu, ffug-ddadleu; cymhwyllo; trin pob tu i'r ddadl.

To blow a moot—cwympo danas; peri i ddanas syrthio.

To argue a moot } dadleu achos dychymyg;
To moot a case, } dadlu achos tybiedig; gwneuthur araeth ddychymyg; rhith-ddadleu er ymarfer; coeg-ddadleu, ffug-ddadleu; dadleu er mwyn ymarfer â'r gwaith.

Moot, *s.* dadl, arddadl, dadleu, ymddadleu.

Moot, }
Moot-case, } *s.* achos dadleuadwy, astrus, neu
Moot-point, } gynghawog; pwnc aneglur neu annilys; mater anhyfarn.

Mooted, *p.p.* dadleuedig, &c.: diwreiddiedig (mewn herodraeth).

Mooter, *s.* dadleuwr achos anhyfarn; dadleuwr, dadlwr, arddadlydd; ffug-ddadleuwr, ffug-ddadleuydd; dadleuydd coeghawl; dadleuwr achos dychymyg; dadlwr prawf.

Moot-hall, }
Moot-house, } † *s.* dadleudy, dadleufa.

Mooting, *s.* dadleu ymarfer, dadleu er ymarfer, prawf-araeth, araeth brawf, prawf-ddadl, araeth wneuthur, araeth ddychymyg, ffug-ddadl, coeg-ddadl, ffug-araeth.

Mop, *s.* (o'r C.; Ll. *mappa*) mop, mopa, moppren, ysgubell eddi; † min cam.

A baker's mop—moppren, mopa.

Mop, *v. a.* mopio, ysgubo à mopa; † mingamu.

Mope, *v.* (Is. *moppen*) pendrymu; bod yn hurt, yn farwaidd, yn bendrwm, yn gysglyd, yn ddifywyd, yn drymluog, yn syn, neu yn syfrdan; bod heb nac enaid nac anadl ynddo; bod neu sefyll yn fud ac yn fyddar; gwneuthur yn bendrwm, &c.

Mope, *s.* hurthgen, hurtyn, hurtan, delff, hutyn, ysbruddach; dyn hurt, anhylon, neu ddïysbryd; malwoden o ddyn; breuddwyd o ddyn; dïogyn, begegyr.

Mope-eyed, *a.* (Gr. *muops?*) cibddall, coegddall; byr ei olwg; à llygaid llo iddo.

Mopish, } *a.* pendrwm, trymllyd, pendrymaidd,
Moping, } dïysbryd, marwaidd, prudd, ysbrudd, llwrf, dilon, digalon, swrth, penbwl, pendew, trymhyrddig.

A moping fellow—hurthgen, hurtyn, hult, penllorcan, &c.; breuddwyd o ddyn, dyn breuddwydaidd.

Mopishness, *s.* pendrymedd, pendrymder, trymllydrwydd, hurtrwydd, hurthgeneiddrwydd, trymhyrddigrwydd, cualldra, llyrfder.

Moppet, } *s.* (o *mop;* Ll. *mappa*) llamddelw;
Mopsey, } baban clytiau, maban plentyn; mopen, ffluwchen.

Mopeical, *a.* cibddall, coegddall; byr ei olwg hurt, penbylaidd, hurthgenaidd.

Mopus, *s.* (o *mope*) hurthgen, hurtyn, hurtan, hult, delff, ysbruddach; dyn pendrwm, hurt, anhylon, *neu* ddïysbryd; bruddwyd o ddyn, breuddwydiwr; begegyr, dïogyn, segurwas.

Moraine, *s.* (Ff.) ysbwrial ysglentiau *neu* ysblentydd.

Moral, *a.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *moralis*) moesol, moesog, moesaidd; perthynol i foesau; bucheddol; gwirfodd, gwirfoddol; deddfol.

Moral philosophy—moesofyddiaeth, moeseg, moesddysg, moesaddysg, athroniaeth foesol.

Moral science—moesofyddiaeth, moeseg, &c.; gwyddoriaeth foesol, gwyddor moes.

Moral discourses—ymadroddion bucheddol.

Moral law—deddf foesol, cyfraith foesol, moesraith.

A good moral man—dyn da ei foesau *neu* ymarweddiad; gwr moesol da; gwr addwyn, gwr gonest.

Moral sense — ystyr moesol, ymsyniad moesol; synwyr moesol.

Moral, *s.* addysg; moeswers, moeseb; gwers addysgiadol; moesoldeb, moesyddiaeth.

The moral of a fable—ystyr, arwyddocâd, deongliad, deall, pwyll, synwyr, ergyd ac amcan, defnydd, *neu* ysbysiad dameg *neu* chwedl; yr addysg oddi wrth chwedl.

Moral,† *v. n.* moesoli.

Moraler,† *s.* moesolwr, moesolydd.

Moralist, *s.* (Ff. *moraliste;* It. *moralista*) moesolwr, moesolydd, moesydd, moesathraw; athraw *neu* ysgrifenydd bucheddol; y neb a esyd allan reolau moesoldeb a buchedd dda.

Morality, *s.* (Ff. *moralité;* o'r Ll. *moralis*) moesoldeb, moesolder, moesolrwydd, moesoledd, moesolaeth, buchoddoldeb; moesayddiaeth, moesogaeth.

The doctrine of morality — moesddysg, moesaddysg, moesyddiaeth, moesofyddiaeth.

A man of morality—dyn da ei fuchedd *neu* foesau; gwr addwyn, gwr gonest.

To practise morality — moesi; dylyn buchedd dda; ymarfer o foesoldeb; y marfer â moesolder.

Moralities—moesolion, chwareuon moesol.

Moralization, *s.* moesoliad, moesoliant; agoriad *neu* ddeongliad ystyr moesol; tyniad addysg oddi wrth beth.

Moralize, *v.* (Ff. *moraliser*) moesoli, moesddysgu, moesaddysgu, moes-ddeongli, moesymadroddi, moes-resymu, moes-ymresymu, moes ymadroddi; dangos ystyr dameg *neu* chwedl athrawaidd; ysbysu pwyll *neu* arwyddocâd dameg *neu* chwedl athrawaidd; esbonio, esboni, *neu* ddeongli dameg *neu* chwedl athrawaidd; casglu moesaddysg oddi wrth yr hyn a ddywedwyd *neu* a ddarllenwyd; tynu casgliadau athrawiaethol oddi wrth yr hyn a ddywedwyd *neu* a ddarllenwyd; ymadroddi *neu* ymresymu yn nghylch moesolrwydd a buchedd dda.

Moralizer, *s.* moesolwr, moesolydd, moesydd, moes-ymadroddwr, moes-ymresymwr, moesresymwr, moes-ymadroddydd, moes-ddeongliydd.

Moralizing, *s.* moesoliad; moes-ddeongliad, moes-resymiad, moes-ymadroddiad.

Morally, *ad.* yn foesol; mewn ystyr moesol; yn ol rheolau a chyfreithiau moesolrwydd; yn gytunol â rheolau a chy reithiau moesoldeb; yn ol rheolau moesoldeb; yn ol tyb dyn; hyd y gwel dyn; hyd y tybia dyn; mewn tebygoliaeth ddynol; yn ngolwg dyn; hyd y gall dyn farnu; yn ol rheswm dyn; yn ol rheswm dynol; yn ol rheswm; yn debygol.

Morally speaking—allefaru o fewn terfynau rheswm.

It is morally impossible—ni ddichon fod yn marn dyn; ni ddichyn fod hyd y cyrhaedd rheswm dyn.

Morals, *s. pl.* moesau; ymarweddiad, ymarwedd, bucheddiad, ymfucheddiad, ymddygiad, buchedd; moesofyddiaeth, moesogaeth, moeseg, moesyddiaeth, moesddysg, moesaddysg.

One's morals—ymfucheddiad.

Good morals—moesau da; ymarweddiad da, buchedd dda.

A man of good morals—dyn da ei foesau, ei fuchedd, *neu* ei ymarweddiad; gwr addwyn, gwr gonest.

Bad morals, } moesau drwg; ymarweddiad
Ill morals, } drwg, buchedd ddrwg; drwg foesau, drygfoesau.

A man of ill morals—dyn drwg ei foesau, ei fuchedd, *neu* ei ymarweddiad; dyn drygfoesog, dyn drygfoesol, dyn anfoesog.

Morass, *s.* (Is. *moeras;* Sw. *moras;* Al. *morast*) cors, siglen, mignen, pydwern, migwern, mign, migen, morfa, cors fawn.

Morassy, *a.* corsog, corslyd, siglenog, morfaog, mignog, corsaidd.

Morbid, *a.* (Ll. *morbidus*) afiachus, afiach, claf, heintus, heinnus, heintiol, heintiog, clefydog, clefychog, clefychlyd.

Morbidezza, *s.* (It.) lledneiswedd (mewn arluniaeth).

Morbidness, *s.* afiechineb, afiachusrwydd, clefni, afiechyd, heintusrwydd, heintusedd, heintiogrwydd.

Morbific, } *a.* (Ff. *morbifique;* Ll. *morbus* a
Morbifical, } *facio*) heintddwyn, heintbair, heintus, heintiol, clefydol, afiachusol; â bair afiechyd *neu* heintusrwydd; afiach, afiachus.

Morbillous, *a.* (Ll. *morbilli*) perthynol i'r frech goch; â'r frech goch arno; tebyg i'r frech goch; rhuddellaidd.

Morbose, *a.* (Ll. *morbosus*) heintiog, clefydog, heintus, afiach, afiachus; yn tarddu oddi wrth afiechyd.

Morbosity, *s.* heintiogrwydd, heintusrwydd, heintusedd, clefydogrwydd, afiechyd.

Morceau, *s.* (Ff.) tamaid, difyn, tam, yfflyn.

Mordacious, *a.* (Ll. *mordax*) brathgar, brathlyd, cnoawl; danneddog, colynog; llymeiriog; tostlym.

Mordacity, *s.* (Ll. *mordacitas*) brathgarwch, brathlydrwydd; ffraethlymedd, llymder geiriau, toster geiriau, llymeiriogrwydd.

Mordant, *s.* (Ff.) lliwsawd, brathliw, safliw.

Mordantly, *ad.* fel brathliw, megys lliwsawd.

Mordicancy, *s.* (Ll. *mordico*) bratholdeb, brathlrwydd, brathlydrwydd; ysoldeb, ysolrwydd; llymder.

Mordicant, *a.* brathol, brathlyd, cnoawl; llymdost, tostlym, pigoglym, llym; cyfysol.

Mordication, *s.* (o'r Ll. *mordeo, mordico*) brathiad, cnoad; ysiad, cyfysiad.

More, *a.* (S. *more, mara, mare;* Al. *mehr*) mwy; chwaneg, ychwaneg, anghwaneg, rhagor; gwell; amlach; mwy o.

More men—mwy o ddynion, mwy o wŷr, rhagor o wŷr.

More virtues—mwy o rinweddau; chwaneg *neu* ragor o rinweddau.

Much will have more—llawer a fyn ychwaneg; llawer a gais ychwaneg.

You are of more value than many sparrows—yr ydych chwi yn well na llawer o adar y to; chwi a delwch fwy na llawer o adar y to; yr ydych yn werth mwy na llawer o adar y to.

He has more riches than all the parish besides—y mae ganddo fwy, chwaneg, *neu* ragor o gyfoeth nag y sy gân y plwyf oll heb ei law.

Without any more ado—yn ddïoed, yn ddirwystr, yn ddïattreg, yn ddïobir, yn ddïannod, yn y man; heb drafferth *neu* ymorol yn mhellach; heb drabludd ychwaneg.

More, *ad.* mwy, yn fwy, mwyach; yn chwaneg, yn ychwaneg, yn rhagor; drachefn, eilwaith, mwyach eto: -ach, -iach.

More powerful—galluocach, mwy galluog.

More righteous — cyfiawnach, mwy cyfiawn.

More excellent—mwy rhagorol, rhagorach, rhagorolach; gwell.

More than—mwy na, mwy nag, mwy no, mwy nog; yn fwy na, yn fwy nag, yn fwy no, yn fwy nog; uwch law, uch law, tu hwnt i, tros ben, tros, dros, heibio i; rhagor, rhagor na, rhagor i.

More than forty years old—uwch law deugain mlwydd oed; tros ddeugain mlwydd oed; mwy na deugain mlwydd oed, &c.

More than fourteen years ago—er ys rhagor i bedair blynedd ar ddeg.

More than any man—yn anad neb; yn fwy na neb.

More than the sons of men—yn anad meibion dynion.

More than once or twice—nid unwaith nid dwy; nid unwaith nid dwywaith; yn aml, yn fynych; mwy nag unwaith neu ddwy.

That is more than you know—nid hysbys i chwi mo hyny; mwy yw hyny nag à wyddoch chwi; nis gwyddoch chwi mo hyny; mae hyny yn fwy nag à wyddoch chwi.

It is worth much more—e dâl fwy, rhagor, *neu* chwaneg o lawer.

More and more—mwyfwy, yn fwyfwy; ar gynnydd; o radd i radd.

No more—mwy *neu* mwyach [gyda negydd o'u blaen]; ni, nis, nid, na, nac, nas, *neu* nad...mwy, mwyach, yn hwy, hwyach, ond hyny, *neu* ddim ond hyny; dim mwy, mwyach, rhagor, ychwaneg, *neu* yn ychwaneg.

Sin no more—na phecha mwyach.

It is no more of promise—nid yw mwyach *neu* hwyach o'r addewid.

The more—mwy, chwaneg, ychwaneg, rhagor; yn fwyfwy, fwyfwy, yn fwy.

They cried the more—hwy a lefasant fwyfwy.

He cried the more a great deal — efe a lefodd yn fwy o lawer.

They cried out the more exceedingly—hwythau a lefasant fwyfwy.

He cried so much the more—efe a lefodd yn fwy o lawer.

The more...the more—po mwyaf...mwy, mwyaf, mwyaf oll, mwyaf i gyd, *neu* o gymmaint a hyny yn fwy —.

By how much the more...so *or* by so much the more—po mwyaf... mwy, mwyaf, mwyaf oll, mwyaf i gyd, *neu* o gymmaint a hyny yn fwy —.

The more one drinks, the more one may—po mwyaf fo yr yfed, mwyaf fydd y sychedu; yn ol yfed, sychedu y sydd; ar ol yfed, sychedu sy.

Manifold more—llawer cymmaint, cymmaint lawer gwaith.

Much more—mwy o lawer, llawer mwy; yn hytrach o lawer.

How much more?—pa faint mwy?

Much more abundant—mwy o lawer iawn; helaethach *neu* amlach o lawer.

So much the more as—a hyny yn fwy o gymmaint a —.

To make more—chwanegu, ychwanegu.

To make more of—gwerthu er mwy; gwerthu er ychwaneg; prisio yn fwy; gwneuthur mwy o; gwneyd yn fwy o.

More especially—yn fwy enwedigol; yn fwy neilltuol.

There is none more for your turn—nid oes un à wna, à etyb, *neu* à dery eich tro chwi yn well.

She was so handsome, that nothing could be more—nid oedd mo'i glanach yn bod.

What is there more to be done?—beth sydd i'w wneuthur eto? beth sydd i'w wneuthur bellach? beth sydd eto yn ol? beth sydd yn ychwaneg i'w wneuthur?

He sinned yet more—efe a chwanegodd bechu.

Let there be more work laid upon the men—trymhäer y gwaith ar y gwŷr.

Let him add the fifth part more thereto—chwaneged ei bummed ran ato.

To do more evil than—i wneuthur yn waeth na —.

The more part — y rhan fwyaf (*Act.* xix. 32).

It is more blessed to give than to receive—dedwydd yw rhoddi, yn hytrach na derbyn (*Act.* xx. 35).

What can David say more unto thee?—pa beth mwyach à ddywed Dafydd ychwaneg wrthyt (2 *Sam.* vii. 20)?

More, *s.* mwy; peth mwy; rhagor, chwaneg.

More,† *v. a.* chwanegu.

More,† *s.* (S. *mor*) bryn, mynyddyn.

More,† *s.* (S. *moran*) gwreiddyn.

Moreen, *s.* llendenlli; defnydd crogleni, &c.

Morel, *s.* (It. *morella;* Ff. *morelle*) mochlys cyffredin, mochlys grawnddu, mochlys du: math o eirin.

Morel, } *s.* (Ff. *morille*) cingroen, y gingroen.
Moril, }

Moreland, *s.* (*moor* a *land*) rhosdir, rhos; morfa, tir morfa, corsdir, tir corsog; mynydd-dir, tir mynyddig.

Moreness,† *s.* mawrder.

Moreover, *ad.* (*more* ac *over*) yn mhellach, heb law hyn, heb law hyny, gyda hyn, gyda hyny, hefyd, dyeithr hyn, am ben hyn, mwyach.

Moresque, *a.* (Ff.; It. *moresco*, o *Moro*, Mwriad) Mwrwedd, Mwyarwedd; Mwraidd; yn ol dull y Mwriaid.

Moresque work—gwaith Mwrwedd, Mwrwaith; gwaith Mwraidd; gwaith rhamantol *neu* ddireol; darlunwaith, paentiad, *neu* gerfiadwaith didrefn, heb na dyben na dosbarth.

Moresque dance—dawns y Mwriaid.

Morganetic Marriage, *s.* (Goth. *margjan*) priodas lawchwith, priodas law chwith, priodas law aswy=priodas drwy yr hon nid yw y wraig na'i phlant yn mwynhau gradd ac etifeddiaeth y gwr.

Morglay, *s.* (Ll. *mors*, a Celt. *glaif*) erfyn marwol, erfyn angeuol, mawrgledd.

Morgray, *s.* picwd, ci pigog, ci pigau, huadbysg pigog=un o bysg Môr y Canoldir.

Moribund, *a.* (Ll. *moribundus*) ar farw, ar drengu, ar dranc, ar drancedigaeth, parod i farw, parod i drengu; ar fin marw; à fo ar farw, &c.

Moribund, *s.* un ar farw, dyn ar drengu, un ar fin trancedigaeth.

Moric Acid, *s.* (Ll. *morus*) sur merwyddig, sur morwyddig.

Morice, *s.*=*Morisco.*

Morigerate,† *v. a.* (Ll. *morigero*) ufyddhau.

Morigeration,† *s.* ufydd-dod, ufydd-deb, ufyddgarwch; gwarogaeth.

Morigerous, *a.* (Ll. *morigerus*) ufydd, ufyddgar, moesgar, moeswych.

Moril, } **Morel**, } *s.* (Ff. *morille*) cingroen, y gingroen.

Stinking moril—cingroen, y gingroen.

Morilliform, *a.* (*moril* a *form*) ar lun cingroen; ar wedd y gingroen.

Morillon, *s.* yr hwyad lygad aur.

Morion, *s.* (Ff.) penial y Mwriaid, penffestin y Mwriaid; penial, penffestin, penor, helm.

Morisco, } **Morisk**, } *s.* (o *Moor*) dawns y Mwriaid, dawns y Blowmoniaid; dawnsiwr dawns y Mwriaid.

Moriscoes, *s. pl.* Moriscwys=enw à rydd yr Yspaeniaid i hiliogaeth y Mwriaid yn aros yn yr Yspaen.

Morkin, *s.* (Sw. *murken*; Ll. *mortuus*) burgun, buria, abwy, abo, abod, abar.

Morland, *s.*=*Moorland*; *Moreland.*

Morling, } **Mortling**, } *s.* (Ff. *mort*; Ll. *mortuus*) gwlan gin, gwlan hifio, hif-wlan, gin-wlan, gwlan llwdn marw.

Mormo, *s.* (Gr.) bwbach, bwgan, bo, bw.

Morn, } **Morning**, } *s.* (S. *marne*, *margene*, *morgen*; D., Is., ac Al. *morgen*) bore, boreu; boreuddydd, boreddydd; boregwaith, boreugwaith; pylgain, plygain.

On a morning, } ar foregwaith;
Upon a morning, } ar ben bore;
On a certain morning, } ar fore; ar ryw fore; ar un pen bore.

The morning early, } boreuddydd, bore-
The early morning, } ddydd; pylgain, plygain, plygaint, pylgaint.

This morning— y bore heddyw, y bore eddyw, y bore hwn.

Morning, *a.* bore, boreu, boreuol, boreol, bore-, boreu-.

Morning prayer—boreuol weddi, boreol weddi, gweddi foreuol, gweddi foreol; plygain, pylgain.

Morning gown—boreudwyg, boredwyg.

Morning dress — boreuwisg, borewisg, gwisg foreol.

Morning light—goleuni y bore, gwawr y dydd, toriad y wawr, y boreuol wawl.

It is morning light—mae hi yn oleu; mae yn ddydd.

Morning dew—gwlith y bore, gwlith y wawr.

Morning star—gwenddydd, seren fore, seren foreu, seren y bore, borleuan, seren Wener, seren ddydd; Gwener (pan y bo hi o flaen yr haul); Gwawlddwyn.

The bright and morning star—y seren foreu eglur (*Dad.* xxii. 16).

Morning service — gwasanaeth boreuol, boreuol wasanaeth; plygain, pylgain.

Morocco, *s.* (o *Morocco*, yn Affrig; Ff. *moroquin*) lledr Morocco; deinledr; cordwal.

Red morocco—Morocco coch, lledr Morocco coch.

Morone, *s.* (Ll. *morus*) mwyargoch, coch dwfn, dugoch, porffor.

Morose, *a.* (Ll. *morosus*) sarig, afrywiog, anniddig, anynad, anhyfodd, drygnaws, drygnawsus, drygnwydus, anfwyn, anhyfwyn, croes, traws, blwng, (*f.* blong), sur, surllyd, swr, hwstr, gwynafog, dreng, anhydrin, drwg ei naws, drwg ei natur, anhylon, trwm ei olwg, cuchiog.

Moroseness, *s.* sarigrwydd, afrywiogrwydd, anfwynder, drygnaws, anniddigrwydd, croesineb, blyngedd, hwstredd, anynadrwydd.

Morosity,† *s.*=*Moroseness.*

Morosis, *s.* (Gr.) ynfydrwydd, penwendid, ffolineb geni.

Moroxite, *s.* (Ll. *morus*) merwyddfaen, morwyddfaen.

Moroxylic Acid, *s.* sur merwyddig, sur morwyddig.

Morphew, *s.* (It. *morfea*) ysgen, cen gwyneb, clefri gwyn.

Morphia, } **Morphine**, } *s.* (Gr. *morpheus*, duw cwsg) cysnur, cysgnur, cysgain.

Morphological, *a.* ffurfegol, ffurfnewidiol; perthynol i ffurfiysieuaeth.

Morphologist, *s.* ffurfiysieuwr, ffurfiysieuwr, ffurfiysieuydd.

Morphology, *s.* (Gr. *morphê* a *logos*) ffurfiysieuaeth, ffurfeg, ffurfnewidiaeth.

Morrice, } **Morris**, } *a.* (Ff. *moresque*; o *Moor*) dawns y Mwriaid, dawns Mwraidd, dawns y Blowmoniaid; dawns ar ddull y Mwriaid.

Morris-dance—dawns y Mwriaid.

Nine men's morrice—chwareu nawtwll.

Morrow, *s.* (S. *morgen*; C. *mory*) tranoeth; efory, y fory, yfory, mory; y bore nesaf, y dydd nesaf, y dwrnod nesaf; bore nesaf; bore.

To-morrow—efory, y fory, y dydd efory, y dydd yfory; y fory nesaf.

The day after to-morrow—trenydd, drenydd, tranydd; tradwy.

To-morrow morning—y bore fory, y bore yfory, boreu efory.

Early to-morrow—y fory yn fore; efory yn fore.

To-morrow night—nos y fory, nos efory; tranos.

On the morrow—tranoeth, dranoeth; mor-

ucher, y bore nesaf, y dydd nesaf, y dïwrnod nesaf.
To-morrow or next day—efory neu drenydd; yfory neu dranydd.
Good morrow—bore da; bore da i chwi; bore da iwch.
Good morrow to you—bore da i chwi; dydd da i chwi; bore da.
And on the morrow also the remainder of it shall be eaten—a thranoeth y bwyttäer yr hyn fyddo yn weddill o hono.
Ye know not what shall be on the morrow—ni wyddoch beth a fydd y fory.

Morse, *s.* (R. *morj*) llynfarch, morfarch, morfuwch, morgawrfil.

Morsel, *s.* (Ll. *morsus*) tamaid, safnraid, tam, tipyn, difyn, tamig, tamyn: *dim.* tameidyn, timyn, breubysyn.
Dainty morsel—tamaid melus; ammeuthyn, ammoethyn.
Fat morsel—tamaid bras, micas.
In morsels—yn dameidiau, bob yn damaid, yn dipynau, &c.
In little morsels—yn fân dameidiau, yn dameidiau bychain, yn dameidiau mân, bob yn dameidyn.
To cut in morsels—tameidio, tori yn dameidiau; tori yn freubys.

Morsure, *s.* cnoad, brathiad, tameidiad, tamiad.

Mort, *s.* (Ff.) marddygan; cân hely; eog teirblwydd.

Mortal, *a.* (Ll. *mortalis*, o *mors*) marwol; angeuol; darostyngedig i farwolaeth *neu* angeu; trancedig; anghymmodadwy.
Mortal man—dyn marwol.
Mortal foe—gelyn marwol, gelyn angeuol.

Mortal, *s.* dyn marwol, un marwol, marwol ddyn; dyn: *pl.* marwolion.
Mortals — marwolion, dynion marwol; daiarblant, daiarolion.

Mortality, *s.* (Ll. *mortalitas*) marwoldeb, marwolder, marwolrwydd, angeuoldeb, angeuolrwydd; marwolaeth, marw, angeuaeth, angeuoliaeth; marwhaint; yr hyn sy farwol; dynoliaeth, y natur ddynol.
Bills of mortality—cofresi *neu* gofrestri marwoldeb: *sing.* cofres *neu* gofrestr marwoldeb.
A great mortality—marw mawr, marw aml.
There is a great mortality among them—y mae marw mawr *neu* aml yn eu mysg.
Children of mortality—plant marwolaeth, plant marwoldeb.

Mortalize, *v. a.* marwoli, marwolhau; gwneuthur yn farwol.

Mortally, *ad.* yn farwol, &c.; hyd angeu; i'r eithaf, tra-, gor-, tros ben.
To hate mortally—cashau â chasineb marwol *neu* angeuol.
To smite one mortally—taraw un yn farw; rhoi ergyd angeuol *neu* farwol i un; dïeneidio un.

Mortar, *s.* (Ll. *mortarium*; Ff. *mortier*) cymriwel, crochan malurio, llestr malurio, malurlestr, breuan, morter; math o gyflegr byr, llosbelwn, morter.
Mortar and pestile—cymriwel a phwyodr.

Mortar, } *s.* (It. *mortel*; Ff. *mortier*) cymrwd,
Morter, } morter.
Slime for morter—clai yn lle calch (*Gen.* xi. 3).
To lay on mortar—cymrydu, plastro; rhoi cymrwd ar.

Mortgage, *s.* (Ff. *mort* a *gage*) marwystl, marwystl, gwystl tir, tirwystl; tir gwystl, tir ar wystl, tir yn ngwystl, gafael ar dir; attafaeldir, tir prid; margais; attafalaeth, arwysleiriaeth, arwystloriaeth, gwystleiriaeth, gwystloriaeth, gwystlawd, gwystleidiaeth, gwystl.

Mortgage, *v. a.* marwystlo, tirwystlo, gwystlo tir, arwystlo tir, prido tir, rhoi gafael ar dir; rhoi tir yn attafael, yn ngwystl, *neu* ar wystl; gwystlo, arwystlo; attafaela.

Mortgagee, *s.* marwystlai, tirwystlai, attafaelai, arwystlai, daliedydd marwystl; yr un y gwystler tir iddo; achretor.

Mortgager, *s.* marwystlwr, marwystlor, tirwystlwr, gwystlwr tir, gwystlydd tir, gwystlor tir, marwystlwr tir; un â rydd dir yn sicrwydd am ddyled; benthyciwr, echwynwr.

Mortiferous, *a.* (Ll. *mortifer*) marwol, angeuol; â ddyco angeu; â baro angeu; dinystriol.

Mortification, *s.* (Ff.) marweiddiad, marwhad, marwolaethiad, marwolhad; madredd, malledd, y malledd; malledd, mellni, mallder, *neu* hadledd y cnawd; braenedd, braenedigaeth, braeniad, braen; darostyngiad, somedigaeth, dwys ofid, anghalondid, augbefnoctyd; brath.

Mortifiedness, *s.* darostyngiad, gostyngedigaeth, iselhad.

Mortifier, *s.* marweiddiwr, â farweiddio.

Mortify, *v.* (Ff. *mortifier*; Ll. *mors* a *facio*) marweiddio, marwhau, marwolaethu; mallu, hadlu, madreddu, madru, braenu; darostwng, gostyngu, gostwng, iselhau, iselu, digaloni, anghefnogi, blino, gofidio, dygnu.

Mortifying, *a.* marweiddiol; darostyngol, gostyngol, iselhaol, gostyngeiddiol; â dueddo i iselu *neu* ddarostwng.

Mortise, *s.* (Ff. *mortaise*) rhwyll, mortais, gân.

Mortise, *v. a.* rhwyllo, morteisio.

Mortmain, *s.* (Ff. *mort* a *main*) tir llaw farw, tir mewn llaw farw, mardir; tir anaralladwy, anaralldir; meddiant anaralladwy; marwddaliad, clasdir, tir clas, tir llan, tir eglwys.

Mortpay,† *s.* (Ff. *mort* a *pay*) tâl marw, marw dâl, mardal; tâl na thelir.

Mortress,† *s.* (o *mortar*) cymriwfwyd, saig friwgymmysg.

Mortuary, *s.* (Ff. *mortuaire*) daered, daerawd, obediw eglwysig, daiarawd, arian daered, arian daiarawd; claddfa, claddle, corfflan.

Mortuary, *a.* perthynol i gladdu y marw; daiarodawl, claddfaol, angladdol.

Morus, *s.* (Ll.; Gr. *morea*) merwydd, morwydd.

Mosaic, } *a.* (Ff. *mosaique*; It. *mosaico*; Ll.
Mosaical, } *musivum*) brith, amrywedd, amrywiog.
Mosaic work—brithwaith, palmant brith=lluniau â wneir â defnyddiau amryliw mewn palmant, a'r cyffelyb
Mosaic gold—brithaur, aur brith=cymysg o efydd ac afryttel.

Mosaic, *s.* brithwaith.

Mosaic, } *a.* (o *Moses*) Moesenaidd, Moesen-
Mosaical, } ig; perthynol i Moesen; eiddo Moesen; yn perthyn i Moses.
The Mosaic dispensation—goruchwyliaeth Moesen, goruchwyliaeth Moses, yr oruchwyliaeth Foesenaidd.

Mosasaurus, } *a.* (Ll. *Mosa=Maestricht*, a Gr.
Mososaurus, } *sauros*) madfil Mosa, madfall Maestricht.
Moschatel, *s.* (Gr. *moschos;* Ll. *moschatellina*) mwsglys, anfri, diaddurn.
Tuberous moschatel—mwsglys, anfri, dïaddurn.
Moschus, *s.* (Gr. *moschos*) mwsg.
Moslem, *s.* (Ar.) Mahometiad uniongred, un o'r Ffyddloniaid, Moslem; Mahometiad.
Mosque, } *s.* (Ff. *mosquée;* Ar. *masjidon, mos-*
Mosk, } *chiad, mesched*) teml Fahometaidd, teml Dyrcaidd, teml y Tyrciaid, Mosc.
Mosquito, *s.* (Ysp. a *mosca;* Ll. *musca*) math o wibed neu gylion colynog tramor; moscito.
Moss, *s.* (S. *meos;* Al. *moos;* Sw. *mossa;* Ll. *muscus*) mwswn, mwswgl, mwsogl, mwswg, mwsog; migwyn, migyn; callod, cip, *neu* gen y coed; gweryd.
Apple-moss, } crynfwsogl, crynfws-
Apple-headed moss, } wn.
Beardless moss—mwsogl minfoel, mwswg minfoel.
Bog-moss — corsfwswn, corsfwswg, corsfwswgl; migwyn.
White bog-moss—migwyn, migin, migyn; corsfwsog gwyn.
Bristle-moss — gwrych-fwsogl, gwrych-fwswn.
Club-moss—cnwpfwsogl, clwpfwsogl, cnwpfwswn, clwpfwswn, clobfwsog, palf y blaidd.
Fir club-moss—cnwpfwsogl syth mwyaf, ffeinidfwsogl, cnwpfwsogl anhyblyg.
Prickly club-moss—cnwpfwsogl syth lleiaf, cnwpfwsogl siderog.
Common club-moss—palf y blaidd, corn carw y mynydd, cnwpfwswn cyffredin.
Cord-moss—rheffyn fwsogl, rhaff-fwswn.
Earth-moss—daiar-fwsogl, tud-fwsogl.
Extinguisher-moss—cwfl-fwsogl, cwfl-fwswn.
Feather-moss—plufwswn, plufwsogl, pluaidd fwswn, pluaidd fwsogl.
Fork-moss—fforch-fwsogl.
Four-toothed moss—mwsogl pedwardeintiog, mwswn pedryddeintiog.
Fringe-moss—eddi-fwsogl, eddi-fwswn.
Gland-moss—chwaren-fwsogl.
Hair-moss — brigerfwsogl, brigerfwswn; eurwallt y forwyn, gwallt y ddaiar, hirwlydd, brigfwsogl.
Common hair-moss—eurwallt y forwyn, gwallt y ddaiar, hirwlydd.
Rock-moss—cen y graig.
Screw-moss—nyddfwsogl, nyddfwswn.
Spheric-moss—mwsogl cynghrynaidd.
Spring-moss—mwsogl y ffynnonau.
Thread-moss—edeu-fwsogl.
Tree-moss—barfau y derw, rhedegog y derw, cen y coed.
Water-moss—dyfr-fwsogl.
Great water-moss—dyfr-fwsogl triochrog.
Wing-moss—aden-fwsogl, adein-fwsogl.
Overgrown with moss—mysyglog, mysoglog, mysynog.
To clear from moss—difysogli, difysyglu,
To gather moss—mysogli, mwsogli, mwsyglu, mysynu, mwsyglu, casglu mwsogl.
A rolling stone gathers no moss—ni bydd mysyglog maen o'i fynych drafod; y maen a dreigla ni fysogla.
Moss, *s.* (Sw. *mase*) mawnog, mawneg, mawndir, cors, mignwera.
Peat-moss—mawnog, mawneg, mawndir, panwaen, gwaen bon.
Moss, *v. a.* mysogli, mwsogli, mysyglu, mysygnu.
Mossiness, *s.* mysyglogrwydd, mysynogrwydd, mysyglydrwydd.
Mossland, *s.* mysyndir, tir mysyglog, tir mysynog, tir mwswgl, panwaen.
Moss-trooper, *s.* (*moss* a *trooper*) ysbeilydd, ysbeiliwr, carnlleidr; lleidr *neu* ysbeiliwr pen ffordd (yn Ngogledd Lloegr gynt).
Mossy, *a.* mysyglog, mysoglog, mysynog, mysynllyd, mysoglyd.
To grow mossy—mysyglu, mysogli, mysynu, mwsogli, nagu mwswn.
Most, *a.* (S. *mæst;* Al. *meist*) mwyaf; amlaf.
Most men—y rhan fwyaf o ddynion; y rhan amlaf o ddynion.
The most part—y rhan fwyaf.
For the most part—gan mwyaf, yn amlaf, fynychaf, yn fynychaf; oddi eithr ychydig; yn agos.
Most, *ad.* yn fwyaf, yn benaf; gan mwyaf; tra-; af-; iaf-.
The most High—y Goruchaf.
Most powerful—galluocaf, mwyaf galluog; tra galluog.
Most wicked—mwyaf drygionus, gwaethaf.
Most especially—yn benaf oll; yn benaf dim; o flaen pob peth; o flaen pob dim; yn fwyaf enwedigol; yn fwyaf neilltuol, &c.; chweithach; mewn modd anghyffredin.
Most commonly, } yn gyffredinaf, yn fwyaf
Most usually, } cyffredin, yn fwyaf arferol.
Most frequently—yn fynychaf, yn amlaf, fynychaf, gan amlaf.
Most of all—yn benaf dim; yn benaf oll; yn benaf.
The most learned man—y dyn dysgedicaf, y dyn mwyaf dysgedig; y dysgedicaf o ddynion.
A most learned man—dyn o'r dysgedicaf; un o'r dynion dysgedicaf.
A most cruel deed—gweithred o'r creulonaf; gweithred o'r mwyaf creulawn; gweithred dra chreulawn; gweithred greulonaf; un o'r gweithredoedd creulonaf.
I marvel at this most—yr wyf yn rhyfeddu fwyaf am hyn; yr wyf yn rhyfeddu yn benaf am hyn.
I feared him most—ofnais ef fwyaf; ofnais ef yn benaf.
I depend on him the most of any—ymddiriedaf ynddo ef yn fwyaf *neu* yn benaf o neb; ymddiriedaf ynddo ef yn anad neb.
The most of any nobleman—yn fwyaf o neb o'r pendefigion; yn fwy na neb o'r dylodogion.
Most an end—gan mwyaf; yn fynychaf, fynychaf, yn amlaf, yn benaf.
Most, *s.* mwyaf, y mwyaf; y rhan fwyaf; y nifer mwyaf.
At the most, } o'r eithaf, o eithaf, o fwyaf,
At most, } o'r mwyaf, o bellaf, o'r pellaf.
The most of—y rhan fwyaf o.
Most of their towns were burnt—llosgwyd y rhan fwyaf o'u trefi hwynt; y rhan fwyaf o'u trefi hwynt a losgwyd.

To make the most of a thing—gwneuthur yr eithaf o beth; gwneuthur y goreu o beth.

Mostick, *s.* (Al. *mahler-stock*) atteglath paentiwr, cynnalffon paentiwr, attegffon paentiwr, ffon atteg.

Mostly, *ad.* gàn mwyaf, fynychaf, yn amlaf, yn fwyaf, yn fynychaf.

Mostwhat,† *ad.* gàn mwyaf.

Mot, *s.* (Ff.; It. *motto*) arwyddair, arwyddwers, cyfeirair, cyfeirwers; gair.

Motacil, *s.* (Ll. *motacilla*) tinsigl y gwys, brith y fuches, brith yr oged.

Motadarry, *s.* sefydliad parhäus (yn y Ddwyreiniol Ind).

Motation,† *s.* (Ll. *motio*) ysgogiad, symmudiad.

Mote,† *s.* (S. *mot, gemot*) cyfarfod, cwrdd.

Mote, *s.* (S. *mot;* Ysp. *mota*) brycheuyn, ysmotyn; mymryn: *pl.* brychau, ysmotiau.

Moth, *s.* (S. *mogthe, mohth, moth, matha*) gwyfyn, (*pl.* gwyfon), pryf, pryfyn, pryfedyn, pryf dillad, pryfedyn dillad, pryfyn dillad, meisgyn, mochdyn.

Full of moths—gwyfonog, llawn gwyfon, pryfedog.

Motheat, *v. a.* (*moth* ac *eat*) pryfysu; bwyta gàn bryfed; bwyta *neu* ysu fel y gwna pryf y dillad.

Motheaten, *a.* ysedig gàn bryfed; à yswyd gàn bryfed; wedi ei ysu gàn bryfed; pryfysedig.

As a garment that is motheaten—fel dilledyn yr hwn a ysa gwyfyn (*Iob* xiii. 28).

Your garments are motheaten—eich gwisgoedd a fwytäwyd gàn bryfed (*Iago* v. 2).

Mother,† *a.* gwyfon, llawn gwyfon, pryfedog.

Mother, *s.* (S. *moder;* Al. *mutter*) mam; mamwys, mamog:† mamwst, clwyf y fam, y famog.

Mother in law—chwegr, mam yn nghyfraith.

Our first mother—ein cynfam.

A second mother—eilfam.

A nursing mother, } mammaeth.
A fostering mother, }

Mother's fondness—anwyldeb mam, mamwch.

A little mother—mamen.

A mother *or* dam with her first young—mames.

Of a mother—mamol, eiddo mam.

Belonging to a mother—perthynol i fam; mamol; eiddo mam.

By the mother's side—o ran y fam; o du y fam.

Relations by the mother's side—mamwys, cenedl y fam, tylwyth y fam, perthynasau y fam.

One's uncle by the mother's side—ewythr un o ran ei fam.

A good aunt is a second mother—eilfam modryb dda.

Like mother, like daughter—màl y bo'r dyn y bydd ei lwdn.

To claim land *or* an estate in right of his mother—holi tir o famwys.

Mother, *a.* mam-, mamol; cynhenid, cynnwynol; à dderbyniodd un gàn ei fam; à gafodd un wrth ei eni; naturiol, anianol, genedigol.

Mother-church—mameglwys, y fameglwys.

Mother-tongue—mamiaith, prifiaith, tadogiaith.

One's mother-tongue—iaith ei fam, iaith enedigol un, mamiaith un.

My mother-tongue and fatherland—iaith fy mam a gwlad fy nhadau; fy mamiaith a'm tattir.

Mother-city—mamddinas, prif ddinas, prif gaer, pencaer, mamgaer.

Mother-spot—màn geni, màn cynhenid, ban cyngeni, màn cyn geni.

Mother-wit — synwyr naturiol, synwyr geni, synwyr cyffredin.

Mother, *v. a.* gwneuthur rhan mam âg un; mamu, mamogi.

Mother, *s.* (It. *modder;* Al. *moder*) blodau, diodgen, cen diod fethedig, ffles, gwaddod, cai, ceiad.

Mother of pearl—cregynem, pysgem, brasbysgem llymarchem=y wiag arian dryloew y tu mewn i rai cregyn, eiddo y llymeirch yn neilltuol.

Mother of thyme—gruwlys gwyllt.

Mother, *v. n.* blodeuo, cenu, ceulo, ceio, gwaddodi, ffiesu.

Motherhood, *s.* mamaeth, mamedd, mamogaeth, mamwys, mameiddrwydd.

Mothering, *s.* mama.

To go a mothering—myned i fama; myned i ymweled â rhieni ar Sul canol y grawys.

Motherland, *s.* mamwlad, mamdir; gwlad mam *neu* rieni un.

Motherless, *a.* difam, amddifad o fam, heb fam; amddifad.

Motherly, *a.* mamol, mamaidd; fel mam; tebyg i fam.

A motherly woman—gwraig fodrybaidd.

Motherly care—gofal mam.

Motherly, *ad.* yn famaidd, fel mam, megys mam.

Mothers, *s. pl.* blodau; blodeuddwr.

Motherwater, *s.* blodeuddwr, blodeuddwfr, blodeulyn, cenwy, gwaddodlyn.

Motherwort, *s.* mamoglys, mamlys, llysiau y fam, llysiau y famog, llysiau y galon.

Mothery, *a.* blodeuog, blodeulyd, cenog; gwaddlodlyd, ffiesog.

Mothmullen, *s.* gwyfynog.

Mothwort, *s.* gwyflys.

Mothy, *a.* (o *moth*) gwyfynog, meisgynog, llawn gwyfon, pryfedog.

Motific, *a.* (Ll. *motio* a *facio*) symmudbair; à bair ysgogiad; ysgogiadol.

Motility, *s.* ysgogadwyedd; bod yn ysgogadwy.

Motion, *s.* (Ll. *motio*) ysgogiad, symmudiad, symmud, chwyf, chwyfiad, cynhyrfiad, cyffroad, chwyfiedigaeth, chwyfan, cyffro, cyffrawd, cynhwrf, ysgydfa, mud, mod, ymmod, ymmodiad, chwimiad, chwimlad, chwim, chwiml, cud, efan, ysgog; cynnyg, cynnygiad; gosodiad, gosod, gosodiad ger bron; adroddiad; gwringell; ymarllwys, darymred; taith.

Self-motion—ymmod, ymmodiad, ymsymmudiad, ymgyffroad, ymgynhyrfiad, ymgyffro, ymgynhwrf, ymchwyfiad, ymysgogiad.

First motion—cychwynfa, cychwnfa, ysgogiad cyntaf, cynchwyf, cynysgogiad.

Perpetual motion—ysgogiad parhäus, ymsymmudiad parhäus, ymmodiad parhäus, ysgogydd parhäus.

First cause of motion—cynsymmudydd, prif-symmudydd, prif-symmudai.

At one's own motion—o hono ei hun; o hano ei hun; heb neb yn ei gymhell; o'i naturiaeth ei hun.

At another's motion—trwy annogaeth un arall; ar annogaeth un arall; trwy annogiad un arall; trwy annosiad un arall.

The motion of an army—ysgogiad *neu* symmudiad byddin; teithiau *neu* symmudiadau byddin.

Motion of the mind—gwŷn; ysgogiad y meddwl.

The motions of sin—gwyniau pechod.

To make a motion—cynnyg, gwneuthur cynnyg, gwneuthur gosod; gosod peth ger bron i'w ystyried; cynnyg peth i'w ystyried.

I have a motion to make to you—mae genyf beth i'w osod ger eich bron; mae genyf beth i'w gynnyg i'ch ystyriaeth.

To second the motion—cefnogi y cynnygiad, cefnogi y cynnyg; pleidio *neu* gynnorthwyo y cynnyg; eilio y cynnygiad.

Sudden motion—ysgog, symmudiad disymmwth, ysgogiad sydyn, ysgogiad chwimmwth.

Violent motion—ysgogiad angerddol, &c.; ffro, dirchwyf.

Quick motion—ysgogiad buan *neu* gyflym; ffrwst, gorchwim.

Motion, *v.* cynnyg, gwneuthur cynnyg; cynghori.

Motioner, † *s.* cynnygydd, cynnygiwr.

Motionist, *s.* cynnygydd, cynnygiwr, gosodydd ger bron.

Motionless, *a.* digyffro, digynhwrf, disymmud, anysgog, disyfl, dichwyf, anghyffro, llonydd.

Motive, *a.* (Ll. *motivus;* It. ac Ysp. *motivo*) cynhyrfol, cynhyrfedigol, ysgogol, chwimiol; à bair symmud *neu* gyffro; à symmudo; à gynhyrfo; symmudbair.

A motive argument—rheswm bywiog, deffröus, *neu* gyffröus.

Motive force—ysgogrym, grym ysgogol.

Motive, *s.* cyffroad, cynhyrfiad, cymhelliad; ysgogydd, cymhellydd, annogydd, gyrydd, ymmodydd; egwyddor; achos, achlysur, echlysur, echlys; pwyllawr, pwylliawr, dyrawr.

What was your motive for doing so?—beth a'ch cyffrôdd i wneuthur felly? beth a'ch cynhyrfodd i wneuthur felly? beth a'ch cymhellodd i wneyd felly?

He had no other motives for this enterprise, than those of humanity—nid oedd ganddo i'w annog i ymosod ar hyn o orchwyl, namyn hynawsedd a natur dda.

Motivity, *s.* gallu i beri ysgogiad; ysgogoldeb, chwimiolrwydd.

Motley, *a.* (o'r C. *ysmot*, *ysmotio*, S. *mote*, yn ol *Webster*: C. *mudliw?*) amryliw, amliw, amliwiog, cymmysgliw, brith, (*f.* braith), mudliw, amrywiog, ysmotiog.

Motor, *s.* (Ll.) modyr, modor, modydd.

Motory, *a.* ysgogol, ysgogiadol, symmudiadol; à rydd ysgogiad *neu* gyffroad; modedigol, symmudedigol, ymmodol.

Mottled, *a.* (gwel *Motley*) brith, amliw, amliwiog, amryliw, cymmysgliw, ysmotiog.

Motto, *s.* (It.; Ff. *mot*) arwyddair, arwyddwers, testynair, cyfeirair, cyfeirwers, arwyddeb, gair cyswyn, gair cymhwyll.

Mought, † *v.*=*Might*, amser neithiedig *May*.

Mould, *s.* (S. *mold, molda;* D. ac Is. *mul*) pridd; defnydd; llwydni, llwydi, llwydedd, lleithlwydni.

Mould, *s.* (Ysp. *molde;* D. *mul, muld;* Ff. *moule*) mold, cynllun, drychiaden, ffurf, llun, toddlun, gwrthlun, swth; ceueddiad; gwneuthuriad; math; cysswllt iad.

The mould of the head—iad; cysswllt yr iad.

Mould, *v.* priddo; llwydo, myned yn llwyd; egru; gwneuthur yn llwyd; braenu.

Mould, *v. a.* llunio, cynllunio, ffurfio, dylunio, cyflinio, tylino, moldio.

To mould bread—tylino bara, moldio bara, moldio torth, dylunio bara, dylunio torth, dylunio torthau; tylino, llunio, *neu* ffurfio ar wedd torth *neu* deisen; hel, hela, *neu* yru bara *neu* dorthau.

Mouldable, *a.* lluniadwy, ffurfiadwy, moldiadwy, hyfold; à ellir ei foldio *neu* lunio.

Moulder, *s.* lluniwr, ffurfiwr, cynlluniwr, moldiwr, tylinwr, tylinydd, gwrthluniwr.

Moulder, *v.* troi yn llwch, troi yn bridd, myned yn llwch, myned yn bridd, myned yn lludw; malurio, darfod, treulio, pallu, ofi, oflydu, pallu.

To moulder away—troi yn llwch, myned yn llwch, &c.; treulio ymaith.

Mouldering, *p.* yn troi yn llwch, yn darfod, &c.; briwsionllyd, hyfriw.

Mouldiness, *s.* (o *mouldy*) llwydni, llwydedd, llwydi, lleithlwydni; egrwydd, braenedd.

Moulding, *s.* moldiad, lluniad, ffurfiad, tylinad; peth à foldier *neu* à lunier.

Moulding, *s.* molden, moldaddurn, taladdurn, addurngau, rhigaddurn, rhintaddurn, addurnrigol, addurngeuedd; talaith, talaith addurn: *pl.* moldenau, addurngeuoedd.

Front moulding—talfolden, taladdurn.

Mould-stone, *s.* careg trothwy, careg drothwy.

Mouldwarp, *s.* (S. *mold* a *weorpian;* Al. *maulwurf*) gwadd, twrdd daiar, twrch gorddodyn, yllyr.

Mouldy, *a.* (o *mould*) llwyd, brithlwyd; à llwydni arno; mws, egr.

Moult, *v. n.* (C. *moel*) bwrw plu, bwrw pluf, colli plu, bwrw ei blu, colli ei blu, miwio.

Moulting, *s.* bwriad plu, colliad plu; bwrw plu, colli plu; miw.

Mounch, **Maunch**, † *v. a.* cnoi.

Mound, *s.* (S. *mund;* Ll. *mons*) clawdd, moelglawdd, gwarglawdd, gorglawdd, mwnt, bwrch, gofwr, gòb, crug, beili; caer, gwarchglawdd, diffynwaith.

A mound to keep in water—cronfa, pwnt.

Mound, *s.* (Ll. *mundus;* Ff. *monde*) y byd (mewn herodraeth).

Mound, *v. a.* bwrw clawdd, gwarglawdd, gorglawdd, gwarchglawdd, bwrch, *neu* argae; codi gwrthglawdd *neu* argae; amddiffyn *neu* gadarnhau à gorglawdd; amgau, amgloddio, gorgloddio, gwargloddio, brynio.

Mount, *s.* (Ff. *mont;* S. *munt;* Ll. *mons*) mynydd; bryn, bre, moel; mwnt; gorglawdd, gwarglawdd, gwarchglawdd, clawdd; esgynfa; dysgwylfa; † ariandy.

Mount (in heraldry)—godre, gwaelod.

Mount, *v.* (Ff. *montier*) esgyn, esgynu; dringo;

codi, cyfodi, cwnu, dyrchafu, ymgodi, ymddyrchu; gosod ar, dodi ar, rhoi ar, rhoddi ar; tyfu, cynnyddu; dyfod; cyrhaedd; myned ar; cario, dwyn; cynnysgaethu â chadfeirch; addurno.

To mount up—neidio i fyny; llamu i fyny; ysboncio i fyny; esgyn i fyny.

To mount a horse—myned ar geffyl; myned ar gefn ceffyl; esgyn *neu* ddringo i gefn ceffyl; ymdaen, ymdan.

To mount cannon—gosod cyflegrau ar eu ceir; gosod gynau rhyfel ar eu ceir.

To mount guard—esgyn i'r wylfa; myned i fyny i'r wylfa.

He is to mount guard to-day—y mae efe i fod ar y wylfa heddyw.

To mount a breach—esgyn i'r adwy.

A ship of the line mounts seventy-four guns—y mae pob un o longau y gadres yn cario, yn cludo, *neu* yn dwyn seithdeg a phedwar cyflegr.

A fort mounts a hundred cannon—cynnwys caerfa gàn cyflegr; y mae mewn caerfa gant o gyflegrau.

Mountable, *a.* esgynadwy, dringadwy, codadwy.

Mountain, *s.* (Ff. *montagne*; Ll. *mons, montanus*) mynydd, (*pl. t.* oedd, au); mwnt, moel.

A little mountain — mynyddyn, mynydd bychan, mynydd bach.

A high mountain—mynydd uchel, mynydd ban, ban fynydd.

To make a mountain of a molehill—gwneuthur mynydd o'r malur; gwneuthur moel o'r malur; gwneuthur mynydd o'r myrdwyn; trymhau peth, mawrhau peth; gwneuthur deu-ddrwg o'r un.

Mountain, *a.* mynyddig, mynyddol; eiddo y mynydd.

Mountain air—awŷr y mynydd, awyr y mynyddoedd.

Mountain ground—mynydd-dir, tir mynyddig.

Mountain birds—adar mynydd, adar ban.

Mountain-ash, *s.* cerddinen, cerdinen, criafallen, criafolen, cyrafolen, pren cyrawol, pren cyrawel: *pl.* cerddin, cerdin.

Berries of the mountain-ash — cyrawol, cyrawel, cyrafon, crawol, crawel, rhafon, rhafol.

Mountain-avens, *s.* derig.

Mountain-blue, *s.* glas y mynydd, mynydd-las.

Mountaineer, } *s.* mynyddwr, mynyddiad, dyn
Mountainer, } mynyddig; un o wŷr y blaenau; brigantiad, brigant; anwariaid.

Mountainet, † *s.* mynyddyn, bryncyn.

Mountain-flax, *s.* llin y mynydd.

Mountain-green, *s.* gwyrdd y mynydd.

Mountain-limestone, *s.* calchen y mynydd, calchfaen y mynydd.

Mountain-milk, *s.* llaeth y mynydd.

Mountainous, *a.* mynyddog, mynyddig, llawn mynyddoedd, llawn mynyddau, bryniog, blaeneuig; fel mynydd o faint; gorfawr; † mynydd-drig.

Mountainous country — gwlad fynyddig, gwlad fynyddog, mynydd-dir, blaeneudir, brynach, brenach, tir bant.

Mountainousness, *s.* mynyddogrwydd, mynyddigrwydd.

Mountain-parsley, *s.* perllys y mynydd.

Mountain-soap, *s.* sebon y mynydd.

Montant, *a.* (Ff.) yn ymgodi yn uchel; esgynol, ymddyrchol.

Mountebank, *s.* (It. *montare* a *banco*) crachfeddyg, meddyg pen twyn, meddyg bon perth, meddyg tin clawdd, meddyg bol clawdd, meddyg crwydrad, meddyg crwydr, coegfeddyg, twyllfeddyg, gwibfeddyg, teithfeddyg; ymhonwr, coeghonwr, gwagymhonwr, gwagfostiwr; llamidydd, digrifwr, ysgentyn, ffwl y ffair.

Mountebank, *v. a.* twyllo; twyllo â gwaghoniadau; somi.

Montebankery, *s.* crachfeddygiaeth, coegfeddygiaeth; gwagymhoniaeth, gwaghoniaeth.

Mounted, *p. p.* esgynedig, &c.; ar gefn ei geffyl; addurnedig, addurnog.

Well-mounted—ar wiw-farch; â cheffyl da dano; ar farch da, gwiwdeg, hardd-deg, *neu* hoewdeg; ar geffyl da, gwiwdeg, hardd-deg, *neu* hoewdeg.

Ill-mounted—ar salfarch; ar gorfarch; â cheffyl gwael *neu* dlawd dano; ar geffyl sal; ar geffyl salw.

Mounted (as a horse)—âg un ar ei gefn; â gwr ar ei gefn.

Mountenance, † *s.* maint.

Mounter, *s.* esgynwr, esgynydd, ymgodwr, dringwr.

Mounting, *s.* esgyniad, cwnad, codiad, ymgodiad, dyrchafiad, gosodiad; esgynfa; addurn, addurniad, harddiad.

A mounting up—esgyniad, codiad, dyrchafiad.

Mounting (in heraldry)—ar naid, ar ruthrnaid, cyrchneidiol, cyrneidiol.

Mounty, *s.* codiad gwalch.

Mourn, *v.* (S. *murnan*) galaru, galaru am, galaru ar ol, alaethu, alaethu am; cwyno, cwynfan, cwynofain; wylofain; gofidio, tristäu; arwylo; gulârwisgo; bod mewn galar; bod mewn galarwisg; bod mewn dillad afar; gwisgo dillad afar.

She mourns—mae hi mewn galar, alaeth, *neu* drymder; mae hi yn dwyn tristwch *neu* dristyd.

To mourn a long time—hir alaru, hirgwyno, hirgwynfan; hirwylo.

To mourn no more, } peidio â galaru; gad-
To cease to mourn, } ael cwynfan; gadael ei alar; gadael ei gwynfan, (*f.* gadael ei chwynfan.)

To mourn for one—galaru am un; arwylo un.

To mourn the death of one—cwyno marwolaeth un; galaru *neu* alaethu am farwolaeth un.

To mourn together—cydalaru, cydalaethu, cydgwyno, cydgwynfan, galaru yn nghyd; cydwylo.

Mourne, † *s.* (Ff. *morne*) clopa ffon, pen crwn ffon.

Mourner, *s.* galarwr, galarydd, alaethwr, alaethydd, arwylwr, cwynfanwr: *f.* galarwraig.

Chief mourner—prif alarwr, pen-galarwr, pen-galarydd, prif alaethwr.

A mourner in black—un yn gwisgo galarwisg; un yn gwisgo trwsiad afar; galarwr gwisgddu.

Mournful, *a.* galarus, alaethus, alaethol, trist, athrist, tristlawn, allwynig, allwynin, wylofus, cwynfanus, trymdrist, trwm, prudd, brwyn, trychinebus.

Mournfulness, *s.* galarusrwydd, alaethusrwydd, alaetholdeb, tristlonedd, tristwch; galar, alaeth.

Mourning, *s.* galariad, alaethiad, arwylad, &c.; galar, alaeth, afar, tristwch, tristyd, tristedd, athristedd, allwyn, trymder, galarnad; galarwisg, arwylwisg, gwisg afar, trwsiad afar, dillad afar, gwisg arwyl.

Mourning dress—galarwisg, arwylwisg, dillad afar, trwsiad afar, gwisg afar, gwisg arwyl, dillad arwyl.

Mourning dove—y golomen alarus, y golomen afar; colomen Carolina.

To go into mourning, } ymwisgo mewn
To put on mourning, } galarwisg *neu* arwylwisg; rhoi dillad galar am dano; rhoi trwsiad afar am dano; ymwisgo â du; ymwisgo mewn du; ymwisgo â gwisgoedd galar; gwisgo gwisgoedd galar am dano.

Clothed in mourning—mewn galarwisg; yn gwisgo galarwisg; gwisgedig â galarwisg; mewn dillad *neu* drwsiad afar; gwrmdde.

A mourning song—galargan, galarnad, galargwyn, galargerdd, galareb, cerdd allwyn, cân alarus, cerdd alarus, cân allwynig, cerdd allwynin.

Mourning for the dead—arwyl, galar; galar am y marw.

Make no mourning for the dead—na wna farwnad (*Eccc.* xxiv. 17).

Mouse, *s.* (S. a D. *mus;* Al. *maus;* Ll. a Gr. *mus*) llygoden; llyg: *pl.* llygod.

Field-mouse—llyg, llygoden y maes, llygoden maes, maeslygoden, chwistlen, chwistl, pigoden, llygoden goch.

Shrew-mouse—llygoden goch, chwistlen, chwistl, llyg.

Mountain mouse—twrlla, (*f.* twrlläes), llygoden y mynydd, llygoden fynydd.

Rock-mouse—llygoden y graig, creiglygoden: *pl.* creiglygod, llygod y graig.

Meadow-mouse—llygoden y waen.

Mouse colour—llygliw, lliw llygoden.

Of a mouse colour—llygliw.

Mouse (among seamen)—cnap ar raff.

Mouse, *v.* llygota, dàl llygod, dala llygod, hela llygod, hely llygod; rhwygo (fel y rhwyga cath lygoden).

To mouse a hook—cnapio bach.

Mouse-ear, *s.* blewynog, y flewynog, heboglys torllwyd, torllwydig.

Mouse-ear chickweed—cornwlyddyn, clust llygoden, clust y llygoden, gwlyddyn blewog.

Broad-leaved mouse-ear chickweed—cornwlyddyn llydanddail, clust llygoden llydanddail.

Narrow-leaved mouse-ear chickweed—cornwlyddyn culddail, clust llygoden culddail, cornwlyddyn gludiog.

Little mouse-ear chickweed—cornwlyddyn coraidd; cornwlyddyn coraidd â blodeuddail gwahanedig; clust llygoden coraidd â blodeuddail gwahanedig.

Pentandrous entire-petaled mouse-ear chickweed—cornwlyddyn mân â blodeuddail cyfain; clust llygoden mân â blodeuddail cyfain.

Tetrandrous mouse-ear chickweed—cornwlyddyn pedrwryw, cornwlyddyn pedwar-gwryw, clust llygoden pedwar-gwryw.

Mouse-ear hawkweed—torllwyd, torllwydig, blewynog, heboglys torllwyd.

Mouse-hole, *s.* twll llygoden: *pl.* tyllau llygod.

Mouse-hunt, *s.* helfa llygod, helfa am lygod; llygotai.

Mouser, *s.* llygotai, llygotwr: *f.* llygotwraig: *pl.* llygoteion.

A good mouser—llygotai dda, llygotwraig dda; un dda am ddàl llygod.

Mouse-tail, *s.* cynffon llygoden.

Mouse-trap, *s.* telm llygod, telm lygod, cist lygod, cath lygod, carfagl llygod, magl llygod, ysglepan llygod.

Moustaches, *s. pl.*=*Mustaches.*

Mouth, *s.* (S. *muth*) geneu, safn; ceg, mant, min; pen; aber; wyneb: *pl.* genau, geneuau.

The mouth of man—geneu dyn.

The mouth of a beast—safn anifail.

The mouth of a river—aber, aber afon, geneu afon, ceg afon.

The mouth of a cave—geneu ogof.

The mouth of a well—geneu ffynnon; gwyneb ffynnon.

The mouth of a cup—geneu cwpan; wyneb cwpan.

The mouth of the stomach—geneu y cylla; sefnig, y sefnig.

The mouth of a bird—gylfin, pig (*Gen.* viii. 11).

Mouth to mouth—geneu yn ngeneu; wyneb yn wyneb.

Foul mouth—tafod drwg, tafod brwnt, tafod budr, drwg dafod, drygiaith, geneu; enllibus, tafod enllibus.

A person of a foul mouth—un cegfrwnt, budreiriog, caseiriog, dryg-dafodiog, tafod-ddrwg, malleiriog, budrieithog, mall-dafodiog, drygeiriog, *neu* serth-eiriog; un brwnt, budr, *neu* ddrwg ei dafod.

A wide mouth—geneu rhwth, safn roth, ceg roth.

Having a wide mouth, } safnrwth, ceg-
That has a wide mouth, } rwth, safnog, geneu-rwth; rhwth ei safn *neu* eneu.

To make a wide mouth—safnrythu, cegrythu, egori safn, lledu safn.

A wry mouth—min cam, min gwyrgam, min ar gam, min ar dro; min â thro ynddo.

To make a wry mouth, } mingamu; tynu
To make mouths, } *neu* droi ei fin ar gam; gwyro min, gwyrdroi min, troi min, gwepio, gwneyd gwep, wynebgamu, gwneuthur gwefi, gwneuthur gylfant.

Having a wry mouth, } mingam; â'i fin
That has a wry mouth, } ar dro; â'i fin ar gam; geneu-gam; gen-gam: *pl.* mingeimiaid, rhai mingeimion.

To wry the mouth at one, } mingamu
To make a wry mouth at one, } ar un;
To make mouths at one, } gwyro
To make mouth at one, } min ar un; troi ei fin ar un; gwneuthur gylfant ar un; estyn gwefi ar un; llaesu gwefi ar un; gwneuthur gwep ar un; gwatwar un.

With open mouth—yn safn-egored, yn safn-agored; â'i safn yn agored; yn gegrwth, yn safnrwth; â'i safn ar led.

To pouch the mouth, } mingrynu; min-
To prim up the mouth, } grychu; crynöi ei fin; crynhau ei fin; crychu ei fin.
By word of mouth—ar air, ar dafodleferydd; trwy *neu* mewn ymadrodd; ar air geneu; mewn gair o'r geneu; â'i eneu *neu* â'i dafod ei hun.
Hand to mouth—o'r llaw i'r geneu.
To live from hand to mouth—byw o'r llaw i'r geneu; byw wrth fin y gyllell; dàl y llygoden a'i bwyta; byw o braidd; byw yn drafferthus; cael ei lawn waith i fyw.
In all men's mouths, } yn ngeneu pawb;
In every body's mouth, } cyhoedd, rhugl; ar gyrn a phibau; wedi myned ar gyrn a phibau; yn gorn cân; wedi myned yn gorn cân.
To stop the mouth—cau safn; tewi; rhoi taw ar; cywilyddio.
And the woman spread a covering over the well's mouth—a'r wraig a ledodd glawr ar wyneb y pydew.
Let not the pit shut its mouth upon me—na chaued y pydew ei safn arnaf.

Mouth, *v.* safnu, dysafnu, safnio, safneidio, cegu; troi yn ol ac yn mlaen yn y geneu; cnoi, dygnoi, mallgnoi, malu; cymmeryd yn ei safn; ymaflyd â'i safn yn mheth; crochleisio, crochwaeddi, ffugleisio, ffuglefaru, garmio, bloeddio, dadyrddu, coeg-areithio; gwarthruddo, cywilyddio, sarhau; mingamu.
To mouth one's words—safnu ei eiriau; dygnoi ei eiriau; mallgnoi ei eiriau.

Mouthed, *a.* Âg iddo eneu *neu* safn; â chanddo safn *neu* eneu; safnog, cegog: arferedig yn benaf mewn cyfansoddiad.
Black-mouthed — minddu, cegddu, cegfrwnt, geneuddu, du ei eneu; budreiriog, budreithog.
Foul mouth—tafod drwg, tafod brwnt, drwg dafod, drygiaeth, geneu enllibus, tafod enllibus.
Foul-mouthed—cegfrwnt, budreiriog, caseiriog, dryg-dafodiog, tafod-ddrwg, maileiriog, budreithog, mall-dafodiog, sertheiriog, drwg ei dafod; enllibus, cecrus, edliwgar, cegfudr.
Hard-mouthed—pengaled, mingaled; anhyffrwyn, anhylyw, ystyfnig, penffetus; gerwin, craseiriog.
Mealy-mouthed—safn-dyner, safn-feddal, min-dyner, minfeddal, minfwyn, yswil ei fin, mwyth ei fin; rhywylaidd, yswil; gwenieithus.
Wide-mouthed—safnrwth, cegrwth, safnog, cegog, geneu-rwth, ceglydan; â geneu rhwth iddo; â safn roth iddo.
Wry-mouthed—mingam; â'i fin ar dro; â'i fin ar gam; geneu-gam; gen-gam.
A hundred wry-mouthed sprites—ellyllon mingeimion gant.
Scabby-mouthed—mingrach.
Saucy-mouthed—mingras, minsur.
Open-mouthed—cegrwth, safnrwth, safnegor, safn-agor; â safn *neu* geg agored iddo; geneu-rwth.

Mouther, *s.* safnwr, safneidiwr, cegwr; ffugleisiwr; bloeddiwr, gwaeddwr.

Mouth-friend, *s.* twyll i'w gydymaith, twyll ei gydymaith, cyfaill gau, gau gyfaill, cyfaill gwefus, cyfaill twyllodrus; cyfaill à gâr ar air yn unig.

Mouthful, *s.* tamaid, safnaid, geneuaid, cegaid; llonaid safn, geneu, *neu* geg; llonaid pen; tipyn.

Mouth-honour, *s.* anrhydedd gwefus, anrhydedd geneu, ffug-anrhydedd, anrhydedd twyllodrus.

Mouthing, *s.* safniad, cegiad, safneidiad; ffugleisiad, ffuglefariad; bloeddiad; dywediad *neu* lefariad taiogaidd dàn fingamu; dywediad *neu* lefariad taiog dàn estyn gwefl.
A mouthing fellow—dyn sarig mingamllyd, dyn sarig mingrychlyd; ffugleisiwr, ffuglefarwr.

Mouthless, *a.* dieneu, disafn, digeg; heb eneu *neu* safn iddo.

Mouthmade, *a.* â wnaed â'r geneu; rhagrithiol, ffugiol.

Mouthpiece, *s.* mantarn, minddarn; y darn o offeryn cerdd y goseodir y geneu wrtho; geneu.

Movable, } *a.* (o *move*) symmudadwy, mudad-
Moveable, } wy, hyfud, hydreigl, ymmodadwy, chwyfadwy; à ellir ei symmud; symmudol, mudol.
Movable goods=*Movables.*
Movable feasts—gwyliau symmudol.
Movable letter — llythyren symmudol; llythyren gynanol.

Movableness, *s.* symmudolrwydd, symmudoldeb, hyfudedd, hydreigledd, ymmodrwydd, ymmodoldeb, ymmodolrwydd, symmudolder, mudolder; ansawdd symmudadwy peth.

Movables, } *s. pl.* da cyffro, da cyfodedyn, da
Moveables, } symmudol, da cychwynol, da cyffröedig, da symmudadwy, mudolion, da mudol; pethau à ellir ei symmud.

Move, *v.* (Ll. *moveo;* Ff. *mouvoir*) symmud, symmudo, mudo, ysgogi, syflyd, chwyfo, chwyfio, chwyfan, ymmod, ymmodi; cychwyfan; cyffröi, cynhyrfu; ysgwyd, ysgydwyd, siglo; syniglo; annog, cymhell, gyru, ysmudo; aflonyddu; effeithio ar, menu ar, minio ar; darbwyllo; codi, cyfodi; cynnyg, gosod ger bron, cynnyg i'w ystyried; eddain, ebrydu, chwimio, chwimlo, rheu; myned, cerdded; crynu; peri, achosi; terfysgu.
To move to anger—cyffröi *neu* gynhyrfu i ddigofaint; ennyn llid, dig, *neu* ddigofaint.
To move the affections—cyffröi *neu* ennyn y serchiadau; ennill *neu* ddenu yr ewyllys.
To move one's compassion—cyffröi tosturi un; cyffröi *neu* beri tosturi yn un.
To move to pity—annog i dosturi *neu* drugaredd; peri trugarhau *neu* dosturio wrth un; cyffröi tosturi yn un.
To move sedition, } codi terfysg, cyfodi
To move to sedition, } terfysg, peri terfysg.
To move one to jealousy—gyru eiddigedd ar un; peri eiddigeddu o un.
To move often up and down, } gwringella.
To move often to and fro, }
Move not thy fingers in talking—na wringella dy fysedd wrth ymddyddan.
To move forward, } myned yn mlaen;
To move on, } myned rhagddo, (*f.* myned rhagddi, *pl.* myned rhagddynt); rhacio, cychwyn, eddain, ebrydu.
Move forward—dos yn mlaen; dos rhagot.
To move one's self, } ymsymmud, ymsym-
To be moved, } mudo, symmud, sym-

mudo, mudo, ymmodi, ymmod, syflyd, ysgogi.
To move (from one place to another)—mudo, symmud, symmudo.
To move to—symmud at, mudo at; gosod wrth, gosod yn.
To move out of the way—ciliaw o'r ffordd; symmud o'r ffordd; symmud oddi ar y ffordd; symmud allan o'r ffordd; cilio; sefyll o'r ffordd.
To be moved with indignation—digio, llidio, bod yn ddig, sori; yn gyffröedig gàn ddigofaint; bod wedi ei cyffröi gàn ddigofaint; bod yn chwerw.
Easily moved, } hyfud, hydreigl;
Easy to be moved, } hawdd ei symmud, &c.; hawdd i'w symmud, &c.
Easy to be moved to anger, } hyddig;
Easily moved to anger, } hawdd ei gyffröi i ddigofaint.
Not to be moved—ansymmudadwy, ansymmudol, anhyfud, anhydreigl, anhydreigl.

Move, *s.* symmud, mud, ymmod, symmudiad, ysgogiad, mod, ysgog, mudfa.
A slight move—gosymmud, lledsymmud.

Moveless, *a.* disymmud, digyffro, dïysgog, dïymmod, sefydlog, anhyfud, anhydreigl, ansymmudol, ansymmudadwy, gwadal, safol.

Movement, *s.* (Ff. *mouvement*) symmudiad, symmud, mudiad, ysgogiad, chwyfiad; cyffroad, cynhyrfiad, annogiad, ysgogawd, cyffröedigaeth; cyffrawd, troellwaith; ysgogwaith, mudwaith, chwyfwaith, ymmodwaith.
Movements of a watch—troellwaith, troellau, *neu* chwyfranau oriawr; ysgogwaith *neu* fudwaith oriawr.
Convergent movement—clud gymhell.

Movent, *a.* (Ll. *movens*) symmudol, ysgogawl, ymsymmudol.

Movent, *s.* ysgogydd, symmudydd, symmudai.

Mover, *s.* symmudwr, symmudydd, ysgogwr, ysgogydd, chwyfydd, symmudai; ymsymmudwr, ymsymmudydd; cyffrówr, cyffröydd, cynhyrfwr, cynhyrfydd; cynnygydd, cynnygiwr, cynnygwr.
First mover—cynsymmudydd, cynsymmudai.

Moving, *a.* cyffroawl, cyffröus, cynhyrfiol, cynhyrfol, cyffröedigol, cynhyrfedigol, deffröus; yn cyffroi y serchiadau; yn ennill yr ewyllys; nerthol, grymus; effeithiol; ysgogol, ymmodol.
Moving force—ysgogrym, grym ysgogol.
Moving plant—ysgoglys.
Moving thing—ymsymmudydd, ymsymmudiad, (*pl.* ymsymmudiaid), symmudydd.

Moving, *s.* ysgogiad, cymhelliad, cyffroad, cynhyrfiad; ysgogydd, cymhellydd, cynhyrfydd, ymmodydd.

Movingness, *s.* cynhyrfoldeb, cynhyrfolrwydd, cynhyrfolder.

Mow, *s.* (S. *mowe, muga*) ysgafn, meisgawn, beisgawn, mwdwl, das, daswrn, ystwc; ysgafn *neu* feisgawn o yd; das, daswrn, daswl, *neu* fera o yd; sopyn.

Mow, *v.* (S. *mawon*) lladd; lladd gwair; tori, medi, pladyro; ysgafnu, meisgawnu, beisgawnu, mydylu, sopyno, deisio, dasyrnu; gwneuthur ysgafn, das, *neu* fera.
To mow hay—lladd gwair.

Mow,† *s.* (o *mouth*) min cam, gwep.

Mow,† *v. n.* mingamu.

Mowburn, *v. n.* llosgi yn y mwdwl; llosgi yn yr ysgafn; llosgi yn y das.

Mowe, **Mowen**, **Moun**, † *v.* gallu, dichoni, medru; rhaid.

Mowed, **Mown**, *p. p.* lladdedig, &c.
New-mown hay—gwair newydd-laddedig, gwair newydd ei ladd; irwair, gwair ir.

Mower, *s.* lladdwr (gwair *neu* yd), pladyrwr; deisiwr, ysgafnwr, mydylwr.

Mowing, *s.* lladdiad (gwair *neu* yd); lladdiad (à phladyr); pladyriad, pladyriaeth; lle y lladdwyd gwair oddi arno.
Mowing season, } amser lladd gwair;
Hay-mowing season, } amser lladd; cynauaf gwair.

Moyle, *s.* (Ll. *mulus*) mul.

Much, *a.* (Sw. *mycken*; Ysp. *mucho*; Gr. *mega*) llawer, llawer o, mawr, aml; hir, maith, hirfaith; lluosog, lluaws, lluoe.
As much—cymmaint.
As much again—cymmaint arall; dau gymmaint; cymmaint ddwywaith; y cymmaint arall; y ddau gymmaint; y ddeublyg.
As much as may be—hyd y gellir; hyd y galler.
As much as might be—hyd y gellid.
As much as one can—hyd y gallo un; fwyaf ag y gallo un; cymmaint ag a allo un.
Too much—gormod, gormodd; yn ormod, yn ormodd, yn ormodol; rhy, rhwy.
Very much—mawr iawn, llawer iawn, tra mawr.
Much more—llawer mwy, mwy o lawer.
Not much—nemawr, nemor, ychydig, nid llawer, llai na llawer.
So much—cymmaint.
Much coin, much care—cyfoeth à bair ofal.
Much ado—mawr orchest, llawer o drafferth, llawer o ffwdan, mawr drafferth.
With much ado—trwy fawr orchest; trwy fawr ymdrech; trwy lawer o drafferth; braidd, o braidd, o fraidd; yn brin, yn anhawdd.
I had much ado to contain myself—braidd yr ymatteliais.
At last with much ado I perceived—o'r diwedd drwy anhawsder nid bychan mi a ddeallais.
It was with much ado we got it done—ni bu hawdd gael o honom ei wneuthur.
Without much ado—yn hawdd, yn ddidrafferth, yn esmwyth, yn ddidaro, heb fawr orchest.
To make much ado—gwneuthur mawr gynhwrf; gwneuthur cyffro nid bychan; gwneuthur mawr derfysg; codi mawr derfysg.
To make much ado about nothing—gwneuthur *neu* godi terfysg am ddim; peri trafferth *neu* drallod nid bychan yn ddiachos.
I have bought much corn—mi a brynais lawer o yd; mi a brynais yd lawer.
He has much money—y mae efe yn aml ei arian; y mae ganddo lawer o arian; y mae ganddo arian lawer.

He spent much time there—treuliodd yno amser hir; treuliodd yno lawer o amser; treuliodd yno amser lawer; treuliodd yno hir amser; treuliodd yno amser maith.

Much people†—lluaws o bobl; llawer o bobl; pobl lawer.

Much good may it do you—mawr lles i chwi o hono; mawr dda i chwi o hono; mawrlles, y mawrlles, mawrdda *neu* y mawrdda i chwi y hono; mawrlles a wnel i chwi; mawr lles a wnelo i chwi.

Much earth—dyfnder daiar (*Marc* iv. 5).

Much, *ad.* llawer, lawer, o lawer, yn llawer, yn fawr; tra, iawn; agos, yn agos; yn hir; yn fynych; syrn, pur, crŷn, lled.

Much like—tra thebyg, tra chyffelyb, tebyg iawn, cyffelyb iawn, tebyg ddigon, syrn debyg, pur debyg.

Much unlike—tra annhebyg, tra anghyffelyb, annhebyg iawn, anghyffelyb iawn, annhebyg ddigon, syrn annhebyg, pur annhebyg.

Much the same—yr un tu fewn i ddim; yr un agos; agos yr un; heb nemawr o wahaniaeth rhyngddynt; yr un fath o fewn i ddim; syrn debyg, lled debyg, crŷn debyg.

It is much the same thing—yr un peth agos ydyw.

Thus much—cymmaint a hyn.

Much more—mwy o lawer; yn fwy o lawer; yn hytrach o lawer.

Much less—chweithach; llai o lawer; chwaith.

How much—pa faint, pa gymmaint; pa ryw faint *neu* gymmaint; o ba faint *neu* gymmaint.

How much soever—pa faint *neu* gymmaint bynag; er maint *neu* gymmaint fyddo; er cymmaint y byddo.

How much better—pa faint gwell.

How much more—pa faint mwy.

How much rather—pa faint mwy; pa faint yn hytrach.

How much less—pa faint llai.

By so much—po.

By how much—po; o ba faint; o ba gymmaint; o gymmaint.

By how much the tighter the string is, so much the sooner will it snap—po tynaf fo'r llinyn, cyntaf y tyr.

By how much the hotter the season is—po gwresocaf fo yr hin.

He is by so much worse than his companions, by how much he is older than they—y mae efe o hyny yn waeth na'i gyfeillion, o gymmaint ag y mae efe yn hŷn na hwynt-hwy.

By so much—o hyny; o gymmaint a hyny.

For as much as—yn gymmaint a *neu* ag; gan.

For how much?—am ba faint? am ba gymmaint? er pa faint? er pa gymmaint? am faint?

For so much—er cymmaint; er cymmaint a hyny; am hyn a hyn; er hyn a hyn; er hyny o bris; er hyny o werth.

Ever so much—er cymmaint, &c.

Be it ever so much—er cymmaint fyddo; er cymmaint fo; bydded gymmaint ag y byddo; bydded gymmaint ag a fyno; pa gymmaint bynag fyddo.

Just so much (and nothing more)—i gyd; a dim yn ychwaneg; ac nid dim yn ychwaneg; ac heb ddim yn ychwaneg; hyny a dim ychwaneg.

So much for this time—cymmaint a hyn dros hyn o dro: cymmaint a hyn dros hyn o bryd; gwasanaethed hyn dros hyn o dro *neu* bryd; cymmaint a hyn ar hyn o bryd.

To make much of—mawrhau, parchu, prisio; gwneuthur yn fawr o; anwesu.

To think much of a thing—gwneuthur peth yn anewyllysgar; gwneuthur peth yn erbyn ei ewyllys; tybied yn ormodd i wneuthur peth.

To run much upon a thing—bod yn faith ar beth; ymhelaethu ar beth; sefyll llawer ar beth; aros yn hir ar beth; dal manol sylw ar beth.

It is much—mae yn rhyfedd.

Much loved—tra charedig, tra hoff, gorhoff.

Just as much as—cymmaint a *neu* ag—a dim yn ychwaneg; cymmaint a *neu* ag—ac nid dim yn ychwaneg.

Much, *s.* llawer; llaweredd; twysged.

By much—o lawer, o lawer byd, o beth mawr, yn mhell, yn llawer, llawer iawn.

More by much—mwy o lawer; mwy o dalm; llawer mwy; mwy lawer.

Too much—gormod, gormodd, gormodedd; rhy, enrhy, rhwy.

Too much of one thing is good for nothing—nid da rhy o ddim.

Too much familiarity breeds contempt—ni bydd rhybarch rhy gynnefin.

Much at one—agos yr un; lled debyg yr un; yn agos yr un fath.

Hereafter I will not talk much with you—nid ymddyddanaf â chwi nemawr bellach.

Muchness, † *s.* maint, mawrder, swmp.

Muchwhat, *ad.* yn agos, o fewn i ddim, o fewn ychydig.

Mucic, *a.* (Ll. *mucus*) llysnafig.

Mucic acid—sur llysnafig.

Mucid, *a.* llwyd; mws; llysog, llysnafeddog.

Mucidness, *s.* llwydni, llwydedd, llwydi; mysni; llysogrwydd, llysnafeddogrwydd.

Mucilage, *s.* (Ff.; Ll. *mucus*) llyslyn, llysoglyn; llysnafedd, llws, llys, llwtrach; sylwedd llysog, sylwedd llithrig, llithriglyn; llŷn, sudd; llwtrach.

Mucilage of the joints—llŷn y cymmalau.

Mucilaginous, *a.* llyslynaidd, llysog, llyslyd; llysnafeddog; llwtrachog; chwydreddog; llithrig.

Mucilaginousness, *s.* llysogrwydd, llysnafeddogrwydd, llyslyneiddrwydd, llyslydrwydd.

Muciparous, *a.* (Ll. *mucus* a *pario*) llyddwyn; yn dwyn *neu* gynnyrchu llws.

Mucite, *s.* (Ll. *mucus*) llysith, llwtrith.

Muck, *s.* (S. *meox, miox;* D. *mög, mug;* Ll. *mucus*) tail, tom, gwrtaeth, baw, tail gwlyb.

Muck, *v. a.* teilo; gwrteithio â thail *neu* dom.

Muckender, † *s.* (Ll. *mocadero*) llawfoled, neisiad llogell.

Mucker, *v. a.* (o *muck*) budrelwa, cribinio, crafu; cwafu *neu* gribinio arian yn nghyd drwy waith *neu* droion bawaidd.

Muckerer, † *s.* cybydd, cribiniwr, cribinwas.

Muckheap, } *s.* tomen, teilfa.
Muckhill, }

Muckiness, *s.* tomlydrwydd, baweiddrwydd,

brynti, budreddd, budreddi, afiendid, baweidd-dra.
Muckle,† *a.* (S. *mycel*) llawer.
Muckesweat, *s.* chwys dyferol, dirchwys.
Muckworm, *s.* pryf y dom, pryfyn y dom, amwydyn y dom, pryf y domen, pryfedyn y domen, pryfyn y domen; cybydd, cribiniwr, cribinwas, cybydd anghawr, mab y crinwas, cerlyn.
Mucky, *a.* bawlyd, tomlyd, tomog, brwnt, budr, swga, ffiaidd, budreddog.
Mucor, *s.* (Ll.) llwydni, llwydi, llwydedd.
Mucoso-saccharine, *a.* llysugrog, llysugraidd.
Mucous, *a.* (Ll. *mucus, mucosus*) llysnafeddog, llysog, llyslyd, llwtrachog.
Mucousness, *s.* llysnafeddogrwydd, llysogrwydd, llyslydrwydd, llwtrachogrwydd.
Mucro, *s.* (Ll.) pig, blaen, dyfiaen, pwynt.
Mucronate, } *a.* (Ll. *mucronatus*) pigfain,
Mucronated, } blaenfain, blaenllym.
Muculent, *a.* (Ll. *muculentus*) llyslyd, llysnafeddog, llysog; lleidiog; gludiog.
Mucus, *s.* (Ll.) llysnafedd, llws, llys, llysw, llyfi.
Mud, *s.* (Is. *modder;* Al. *moder*) llaid, llaca, plwca, trybola, llwtra, llai; gwaelodion, gwaddod.
Mud, *v. a.* lleidio, lleidiogi; claddu mewn llaid; diwyno; cyffröi, cynhyrfu, cythryblio, *neu* gythryblu y dwr; troi *neu* wneuthur dwr yn blwca; cynhyrfu y llaid yn ngwaelod dwr.
Mudbath, *s.* lleidfadd, lleidfaddon, baddon llaid.
Muddiness, *s.* lleidiogrwydd, lleidlydrwydd, lleidlydedd; afloewder.
Muddle, *v.* (o *mud*) lleidio, lleidiogi, lleidlydio, plwcäu; cyffröi, cynhyrfu, cythryblu, *neu* gythryblio y dwr; troi *neu* wneuthur dwr yn blwca; cyffröi llaid yn ngwaelod dwr; diwyno, budreddu, bryntäu; lledfeddwi, hurtio; gwneuthur yn lledfeddw, yn hurt, yn syfrdan, *neu* yn bensyfrdan; syfrdanu; cymylu.
Muddle-headed — penfeddw, pensucan; pendew, penbwl, cuall.
Muddle, *s.* lleidiogrwydd; trybola; bod yn lleidiog; bod yn lledfeddw; cymmysgedd brwnt *neu* fawlyd.
Muddled, *p. p.* lleidiodig, &c.; lledfeddw, penfeddw, brwysg; hurt, syfrdan, pensyfrdan, pensucan; cymylog; plwca.
Muddy, *a.* (o *mud*) lleidiog, lleidlyd, llaceilyd; plwca, yn blwca; afloew; llwyd; tew; bawlyd, brwnt; tywyll, cymylog; trwm, trymhyrddig, pendew.
Muddy water—dwr plwca; dwfr llwyd.
Muddy place—lleidle, lleidfa; trallwng.
Muddy, *v. a.* lleidio, lleidiogi, lleidlydio, plwcäu; diwyno, bryntäu; cythryblu; gwneuthur yn lleidiog *neu* frwnt; caddugo, gwneyd yn gymylog.
Muddyheaded, *a.* penfeddw, pensucan; pendew, penbwl, cuall.
Mudfish, *s.* lleidbysg.
Mudlark, *s.* lleidbryf, lleidwas; aderyn y llaid; glanhäwr *neu* chwilliwr gwehynffosydd.
Mudsill, *s.* lleid-hiniog, lleid-riniog.
Mudstone, *s.* lleidfaen.
Mudsucker, *s.* lleidsugnydd, lleidsugnwr = math ar aderyn dwfr.
Mudwall, *s.* gwâl bridd, pared pridd, lleidwal; gwenynysydd, gwenynysor.
Mudwalled, *a.* â gwâl bridd iddo.

Mudwort, *s.* lleidlys.
Mue, *s.*=*Mew.*
Muezzin, *s.* cyhoeddwr yr awr weddi yn mhlith y Mahometiaid.
Muff, *s.* (D. ac Al.; Ff. *mouffle*) clyttorch, clydwain, dyrnwain, dyrndorch.
Muffin, *s.* mwythdeisen, blythdeisen, teisen bonar, teisen fwyth.
Muffle, *v.* (Is. *moffelen;* Al. *muffeln*) troi mewn gorchudd, rhoi gorchudd ar, mygydu, misyrnu, bwbachu, moledu, dallu; gorchuddio, cuddio, enhuddo, celu; amrwymo; ffriwguddio; dywedyd yn dew, yn floesg, *neu* dàn ei ddannedd; mwngial, manson.
To muffle one's self—ymdröi yn ei gochl; crynöi ei gochl am dano; ymfwbachu *neu* ymfygydu yn ei gochl.
Muffle, *s.* (Ysp. *mufla*) mydlestr, myddlestr.
Muffler, *s.* miswrn, moled, gwynebwisg; cadach, llian, *neu* orchudd gwyneb.
Muffion, *s.* y ddafad wyllt.
Mufti, *s.* archoffeiriad y Mahometiaid, Muffti.
Mug, *s.* (o'r C. *mwygl*, yn ol *Skinner*) cwpan, gwn, diodlestr; safn.
A mug of ale—cwpanaid o gwrw; gynaid o gwrw.
Muggadooties, *s.* math ar nwydd à wneir yn yr India Ddwyreiniol o sidan gwyllt.
Muggard,† *a.* (o *muggy*) anfoddog, sarig, monig, sur.
Muggent, *s.* math ar hwyad wyllt dwr croew.
Muggy, } *a.* (C. *mwcan, mwygl*) llaith, wst,
Muggish, } ynwst, lleithfwygl, lleithwygl, llaith a mwygl, tawchlyd, llwydlyd, llwyd; mwygl, gwygl, mwll, (*f.* moll); à bair lwydedd a mellni.
Mughouse, † *s.* dïotty, tafarn.
Mugient, † *a.* (Ll. *mugio*) brefwer, brefer brefol.
Mugil, *s.* (Ll.) mingrwn, mingryniad, mingrych, hyrddyn.
Mugweed, *s.* croesalys, llysiau y groes.
Mugwort, *s.* llwydlys, bydiog lwyd, beidiog lwyd, canwraidd lwyd, llysiau llwydion, llysiau llwyd, llysiau Ieuan, llysiau Ifan.
Mulatto, *s.* (Ysp. *mulato*) melynddyn, melynog, un melynddu, dyn melynddu; un y bo naill ai ei dad ai ei fam yn ddu.
Mulberry, *s.* (Sw. *mulbär;* Al. *maulbeere*) merwydd, morwydd; ffrwyth, grawn, *neu* aeron merwydd *neu* forwydd; mwyaren ffreinig, mwyaren Mair.
Mulberry-tree—merwydden, morwydden: *pl.* merwydd, morwydd.
Mulch, *s.* (H. *malach*) gofraenwellt, gwellt hanner pwdr, gwellt hanner braen, tomwellt, cysgodwellt, huddwellt.
Mulch, *v. a.* gosod gwellt ar wraidd coed; cysgodi â gwellt; taenu gofraenwellt dros beth.
Mulct, *s.* (Ll. *mulcta*) dirwy, camlwrw, camgwl.
Mulct, *v. a.* dirwyo, camgylu, camlyrio.
Mulctuary, *a.* dirwyol; yn gosod dirwy ar.
Mule, *s.* (Ll. *mulus;* It. ac Ysp. *mulo;* S. *mul*) mul: *pl.* mulod: *dim.* mulyn.
She-mule—mules.
Mule (in manufactures)—mul = math o nyddiadyr.
Mule-driver=*Muleteer.*
Muleteer, *s.* (Ff. *muletier;* It. *mulattiere*) gyrwr mulod, gyriedydd mulod, mulotwr, mulwr.
Mule-wort, *s.* mul-lys.
Mulliebrity, *s.* (o'r Ll. *muliebris*) gwreigdra,

gwreigdod, gwreigeiddrwydd, gwreigeiddra, mercheiddrwydd, merchedd; meddalwch, mursendod, anwrolaeth.

Mulier, *s.* (Ll.=benyw) plentyn à aner ar ol priodas, end à ennillwyd cyn hyny.

Mulish, *a.* (o *mule*) mulaidd, fel mul, asynaidd; ystyfnig, cyndyn, cildyn, anhylon.

Mull, *v. a.* (Ll. *mollio;* C. *mwll;* Ysp. *mullir*) lleddfu, meddalu; brydio, brydiannu, poethi; digaloni, llyfrhau.

To mull wine—cyffeithio gwin; brydio, brydiannu, berwi, poethi, *neu* losgi gwin; brydio, melusu, a chwaethu gwin.

Mulled wine — cyffeith-win; bryd-win; gwin brwd, berw, *neu* losg.

Mull, *s.* pentir, penryn, morben; † cornfiwch, corn trewlwch.

The mull of Galloway—pentir Galoway.

Mull, † *s.* llwch.

Mullein, *s.* (hen Ff. *molene*) panog.

Great mullein—tewbanog, blewog, dail y dargod, siroyn y melinydd, clust y fuwch, clust y tarw, canwyll yr adar, llwyn y tewlaeth, melfedog, dail y melfed, tapr dunos, tapr Mair.

White mullein—hannerpan.

Purple mullein—panog brithgoch.

Moth-mullein—gwyfynog.

Muller, *s.* (Ff. *molière;* Ll. *molari*) malurfaen, llawfaen malurio.

Mullet, *s.* (Ff. *mulet;* Ll. *mullus*) mingrwn, mingryniad, hyrddyn, hyrddiad, mingrych: *pl.* mingryniaid, hyrddiaid.

Red mullet—hyrddyn coch.

Mullet (in heraldry)—serenig bumpaladr =nod gwahan y trydydd mab.

Mullet,† *s.* (Ff. *molette*)=*Muller.*

Mulligatawny, *s.* poethisgell=math o isgell dramor.

Mulligrube, *s.* pryfigedd, ymgno y coluddion; drygwyn, drygnwyd; anfoddogrwydd.

Mullion, } *s.* (Ff. *meneau*) post ffenestr,
Munnion, } gorsin ffenestr, gorsing ffenestr,
Monycale, } ffenestrail; y baran unionsyth rhwng pennillion ffenestr; sythbill, sythrail, sythreilen.

Mullion, *v. a.* rhanu ffenestr yn gymharthau; sythbillio.

Mullock, *s.* ysbwrial, ysgarthion, malurion.

Mulmul, *s.* math o fwslin.

Mulse, *s.* (Ll. *mulsus*) melwin.

Multangular, *a.* (Ll. *multus* ac *angulus*) amlgonglog, amrygongl, amlonglog, lluosgonglog; âg aml gonglau *neu* onglau iddo.

Multiarticulate, *a.* Ll. *multus* ac *articulatus*) amrygymmal, amlgymmalog, amlreddog.

Multicapsular, *a.* amlgellog, amrygell, amlgell, lluosgell, lluosgib.

Multicarinate, *a.* (Ll. *multus* a *carina*) amrydrumain, amrydrumog.

Multicavous, *a.* (Ll. *multus* a *cavus*) amrydwll, amldyllog, amlgeuog.

Multidentate, *a.* (Ll. *multus* a *dens*) amryddaint, amryddeintiog, amlddeintiog, amlddanneddog.

Multifarious, *a.* (Ll. *multifarius*) amryfath, amryw, amlryw, amrywedd, amrywiog, amryddull, amryfodd, amlddull, amryfeilwedd, amlwedd, amrywiol; o amryw fath, o amryw genedl, o amryw rywogaeth.

Multifariousness, *s.* amrywiogrwydd, amryfathrwydd.

Multifid, } *a.* (Ll. *multifidus*) amryhollt,
Multifidous, } lluosbarth, amlbarthog, amrybarth, lluosranog, lluosran; â llawer o holltau ynddo; wedi ei ranu *neu* ei hollti yn amryw ranau.

Multiflorous, *a.* (Ll. *multus* a *flos*) amlflodeuog, amlwulliog, amryflodeuog, amryfflurog, amflodeuog.

Multifold, *a.* amryblyg, lluosblyg, amryw, amrywiol, aml, lluosog.

Multiform, } *a.* (Ll. *multiformis*) amry-
Multiformous, } ddull, amrylun, amrywedd, amlwedd, amddull, amlddull, lluoslun, lluoswedd, amryffurf, amlun, lluosddull; â llawer dull, llun, *neu* ffurf arno; amryfath.

Multiformity, *s.* amryddulledd, amrylunedd, lluoslunedd, amryweddrwydd; amrywiaeth dull, llun, ffurf, *neu* wedd.

Multigenerous, *a.* (Ll. *multigeneris*) amryw, amryfath, amryw; o amryw fath, o amryw genedl, o amryw rywogaeth.

Multijugous, *a.* (Ll. *multijugus*) amlieuog, amrybar, lluosbar; yn cynnwys amryw barau.

Multilateral, *a.* (Ll. *multus* a *latus*) amlochrog, amlochr, amryochrog, amlochrol, lluosochr, lluosochrog, amlystlysog; âg aml ochrau *neu* ystlysau iddo.

Multilineal, } *a.* (Ll. *multus* a *linea*) amrylin,
Multilinear, } amrylinell, lluoslin, amlinellog.

Multilocular, *a.* (Ll. *multus* a *loculus*) amlgellog, lluosgell, lluosgellog, amrygell, amlgell.

Multiloquence, *s.* amleiriogrwydd; dywedgarwch, siaradgarwch; aml eiriau.

Multiloquent, *a.* (Ll. *multus* a *loquor*) amleiriog; dywedgar, siaradgar, siaradus, geiriolus.

Multinomial, } *a.* (Ll. *multus* a *nomen*) aml-
Multinominal, } enwog, amlenw, lluosenw;
Multinominous, } âg aml enwau iddo.

Multinomial, *s.* amlenw, dogn amlenwog.

Multiparous, *a.* (Ll. *multus* a *pario*) lluoshil, lluoshiliog, lluosddwyn, amlhiliog; à ddygo lawer i'r byd ar unwaith.

Multipartite, *a.* (Ll. *multus* a *partitus*) amlranog, lluosran, lluosranog, amrybarth; wedi ei ranu yn llawer o ranau.

Multipede, *s.* (Ll. *multus* a *pes*) amrybed, lluosdroed, amldroed, lluosbed; creadur âg aml draed iddo.

Multipede, *a.* amldroediog, amldroedog, lluosdroed, amrybed.

Multiple, *a.* (Ll. *multiplex*) amryw, amrywiol, aml, llawer; amryfal.

Multiple, *s.* lluosrif, lluosrifyn, amblygrif, amrif.

Multiplex, *a.* amryblyg, lluosblyg, amlblyg.

Multipliable, *a.* (o *multiply*) lluosadwy, lluosogadwy, dyfwyadwy; à ellir ei luosogi.

Multiplicand, *s.* (Ll. *multiplicandus*) lluosawdd, lluosogai; y nifer i'w lluosogi.

Multiplicate, *a.* (Ll. *multiplicatus*) lluosog, lluaws, amryw.

Multiplication, *s.* (Ll. *multiplicatio*) lluosogiad, lluosiad; lluosogaeth, lluosiaeth, lluosyddiaeth, lluosogyddiaeth; rheol lluosogi; mwyedigaeth, amlhad, dyfwyad.

Multiplication table — taflen lluosiaeth, taflen lluosogaeth, lluosogres, llechres lluosogi.

Multiplicative, *a.* lluosogol, lluosyddol, lluosol, à luoso, à luosogo.

Multiplicator, *s.* lluosogydd, lluosydd, y nifer lluosogyddol.

Multiplicious,† *a.* (Ll. *multiplex*) amrywiog, amrywiol, amryblyg.

Multiplicity, *s.* (Ff. *multiplicité*; o'r Ll. *multiplex*) lluosogrwydd, lluosogedd, lluosedd, lluaws, amlder, amledd; lluaws amryfath.

Multiplicity of business—lluaws o negesau neu orchwylion.

Multiplicity of deities—lluaws amryfath o dduwiau; lluaws neu luosogrwydd o dduwiau.

Multiplier, *s.* lluosogwr, lluosogydd, lluosydd.

Multiply, *v. a.* (Ll. *multiplico*) lluosogi, lliosogi, lluosi, amlhau, amblygu, dyfwyo, mwyhau; ymluosogi, ymluosi, cynnyddu (mewn rhifedi).

To multiply words—amlhau geiriau; pentyru geiriau.

To be multiplied—amlhau, mwyhau, ymluosogi, ymluosi, cynnyddu (mewn rhifedi).

Multiplying-glass, *s.* lluoswydr, lluoswydryn, lluosddrych.

Multipotent, *a.* (Ll. *multipotens*) amrynerth, amlnerthog, amlalluog, amryallu; aml ei allu; âg aml allu iddo; lluosrym.

Multipresence, *s.* (Ll. *multus* a *præsentia*) amlwyddfod, amlwyddfodoldeb, amrywyddfod, aml-bresennoldeb.

Multiscious, *a.* (Ll. *multiscius*) amlwybodus, amlwybodol, amlwybodog, aml ei wybodaeth.

Multisiliquous, *a.* (Ll. *multus* a *siliqua*) amlgibog, amrygib, amlhadgibog, amlgodog; â chanddo amryw hadlestri.

Multisonous, *a.* (Ll. *multisonus*) amrylef, amrylais, amlseiniog, lluosseiniog, amrysain, crochleisiog, crochlais.

Multispiral, *a.* lluosnydd, amrynyddol, amldroawl.

Multisyllable, *s.* (Ll. *multus* a *syllaba*) gair amrysill, gair amlsillog, gair amlsillafog, amlsillair, amrysillair, amlsill, amrysill.

Multitude, *s.* (Ff.; Ll. *multitudo*) lluaws, lliaws, lluos; lluosogrwydd, lluosogedd, lluosedd; torfa, tyrfa, llu, cadfa, llaweredd, llaweroedd, haid, myntai, bagad, magad, tŵr, amlder, amledd, nifer; gwerin, y werin, gwerinos, maon, ciwed.

Multitudinary, *a.* lluosog, lluaws; amryw, amrywiol.

Multitudinous, *a.* lluosog, lliosog, lluaws, aml, torfog; amryfodd, lluoswedd; amrywiol, amryw; fel lluaws neu dyrfa.

Multivagant, } † *a.* (Ll. *multivagus*) lluos-
Multivagous, } grwydr, â grwydro lawer, lluosdaith.

Multivalve, *s.* (Ll. *multus* a *valva*) creadur lluosgaffell, milyn amrygaffell, amrygloryn: *pl.* amryfalogion, amryglorion.

Multivalve, } *a.* amrygaffell, amlgaffellog,
Multivalvular, } lluosgaffell, amrygaffellog, amryfalog.

Multiversant, *a.* (Ll. *multus* a *verto*) amryffurf, amrywedd; lluosdro, amrydro; amlagweddog; â gymmer arno yr agwedd â fyno.

Multivious, *a.* (Ll. *multus* a *via*) amryffordd, lluoshynt, lluosdaith; âg iddo amryw ffyrdd.

Multocular, *a.* (Ll. *multus* ac *oculus*) aml-lygeidiog, amrylygad, lluosdrem.

Multungulate, *a.* (Ll. *multus* ac *ungula*) amlewinog; â'i ewin yn rhanedig i fwy na dau barth.

Multure, *s.* (Ll. *molitura*) tâl neu doll am falu; maldoll, maldal.

Mum, *a.* (o'r sain; Al. *mummeln*) dystaw, dywedwst, tawedog.

Mum, *in.* ust! taw! taw â son! dyt!

Mum, *s.* dystawrwydd, gosteg.

Mum, *s.* (Al. a D. *mumm*; Is. *mom*) meddart, cwrw brag gwenith, gwenithlyn.

Mum-chance, *s.* ffwl, ffwlcyn, brebwl.

Mumble, *v.* (Al. *mummeln*; D. *mumlen*) myngial, mwngial, dywedyd yn fyngus, dywedyd dân fwngial, dywedyd dân ei ddannedd, llefaru yn ei geudod, manson, gorfanson, gryngian, grymial; mantachu, mantachu ar, cnoi yn fantachlyd; mallgnoi neu fall-fwyta â'i wefusau yn nghyd; mallgnoi neu fall-fwyta â'i eneu yn nghyd.

Mumble-news, *s.* hustingwr, clapgi, clebgi.

Mumbler, *s.* myngialwr, myngialydd; mantachwr.

Mumblingly, *ad.* dân fwngial, yn fwngialus, yn fyngus; yn fantachlyd, dân fantachu.

Mumm, *v. a.* (D. ac Al. *mumme*; Is. *mommen*) ymarfer o hud a lledrith; huchwareu, hudware, mudchwareu, mygydu, lledrithio; chwareu dân ffugwisg.

Mummer, *s.* ysgodog, un yn gwisgo gau wyneb, un lledrithiog, hudchwareuwr, mudchwarëydd, chwidrwr, chwareuwr mwgwd.

Mummery, *s.* (Ff. *momerie*) chwareu mwgwd, chware mwgwd, hud a lledrith, mudchware, coegchware, hudchware, ysgodogaeth; croesanaeth, chwydawiaeth, mydumiaeth, chwidredd; difyrwch, chware; rhith o beth, rhithwaith, eiliw, ffug.

Mummification, *s.* (o *mummify*) perarogliad corff marw; corffoethiad.

Mummiform, *a.* (*mummy*, a Ll. *forma*) tebyg i gorff perarogledig; corffoethaidd.

Mummify, *v. a.* (*mummy*, a Ll. *facio*) gwneuthur yn gorff perarogledig; corffoethi.

Mumming, *a.* (o *mumm*) mygydol, chwidrol, lledrithiol.

Mummy, *s.* (It. *mummia*; Ar. *momia*; Per. *moum*, cŵyr) corff marw perarogledig, corff wedi ei berarogli, corffoethyn; impgwyr, cwyr impio, coed-gwyr: *pl.* corffoethod.

To beat to a mummy—curo neu bwyo yn delchyn; curo neu bwyo yn ddu ac yn las; curo un hyd na byddo asgwrn cyfan yn ei gorff; curo un nes y bo yn gregyn yn ei groen; gwneyd un yn swp yn ei groen; dygaboli.

Mump, *v.* (Is. *mompen*) tamigo, chwylgnoi; dygnoi; cnoi yn heinif heinif dân gau y geneu; cnoi yn dra heinif dân gau y geneu; mantachu; cildroi bwyd yn y geneu; bwyta neu gnoi yn heinif dân chwyddo bochau; selgyngian, sylgyngan, iselgyngian; dywedyd yn dewddig dân chwyddo ei fochau; dywedyd yn ucheldew dân chwyddo ei fochau; cardota; myned o dy i dy dân gardota; hela neu erlid ei fwyd o dy i dy.

To mump a dinner—bolera; erlid ei fwyd neu giniaw trwy druth a gweniaith.

Mumper, *s.* cardotyn, cardotai, cardotwr; un yn byw wrth neu ar gerdded o bobtu; un yn erlid neu hela ei fwyd o dy i dy; bolerwr, bolerai, helgerddwr.

Mumping, *s.* castiau cardoteion; castiau ffol; gwawd, gwatwar.

Mumpish, *a.* trwm, trymllyd, trymhyrddig, sorddig, sarig, sorig, monig, mudsarig, sorddigus, cuchiog, anfoddog, gwrthgas, tawedwst, swr, sor.

Mumps, *s. pl.* (o *mum*, *mumm*, neu *mumble*) pensach, y bensach, esogryn, y dwymyn doben, clug, dywedwst, ysmigwst, gwedwst, tawedwst; mudsarigrwydd, soriant, sarigrwydd, anfoddogrwydd, sorddigder, digder mud, sorigrwydd, monigrwydd.

To be in the mumps—bod yn wedwst; bod yn y ddywedwst; bod yn dawedwst; bod yn ddig dawedog; bod yn orddig dawedog; bod yn fonig, yn dawedog, *neu* yn anfoddog; bod yn teru; bod yn moni.

Munch, *v.* (Ff. *manger?*) cnoi, dygnoi, dargnoi; cnoi yn dameidiau mawrion.

Muncher, *s.* cnöwr, dygnöwr, dygnöydd, dyn bwytëig.

Mund, *s.* amddiffyn, hedd, heddwch, tawelwch, nawdd: arferedig mewn hen gyfreithiau, ac yn nghyfansoddiad enwau priod.

Mundane, *a.* (Ll. *mundanus*) bydol; perthynol i'r byd.

Mundanity,† *s.* bydoldeb, bydolrwydd.

Mundation, *s.* (Ll. *mundus*) glanhad, glanweithiad, purad.

Mundatory, } *a.* (Ll. *mundo*) glanhaol, pur-
Mundificative, } ol, puredigaethol, glanweithiol; o natur i lanhau *neu* lanweithio; âg ynddo rinwedd i lanhau *neu* lanweithio.

Mundic, *s.* ufelfaen; maen tân=enw à roddid gynt i amryw fath o fwn a delid.

Mundification, *s.* glanhad, glanweithiad, purad.

Mundificative, *s.* cyffyr glanhaol.

Mundify, *v. a.* (Ll. *mundifico*) glanhau, glanweithio, puro.

Mundivagant, *a.* (Ll. *mundus* a *vagor*) bydwibiol, bydgrwydrol; yn crwydro dros y byd.

Mundul, *s.* rhandir, dosbarth; penaeth pentref (yn yr India Ddwyreiniol).

Mundungus, *s.* myglys drwg ei arogl.

Munerary, *a.* (Ll. *munus*) anrhegol, gwosebol, gosebol.

Munerate,† *v. a.* (Ll. *munus*) gwobrwyo.

Muneration,† *s.* gwobrwyad, gwobrwy.

Mungrel, *s.* (o'r S. *mengan*) un cymmysg, un cymmysgryw, un mysgryw, cymmysgyn, creadur cymmysgryw; un y bo ei dad a'i fam o amryw genedl; brithgi, cymmysggi.

Mungrel, *a.* cymmysgryw, mysgryw, cymmysg, lledryw, brithrywiog; à fo cymmysgryw.

Municipal, *a.* (Ff.; Ll. *municipalis*) breiniol; dinasol, dinesyddol, dinesyddiaethol; perthynol i dref fraint; dinasfreinol, dinasfreintiol; bwrdeisiol; perthynol i fwrgeisiaid tref fraint; bwrdeisdrefol; perthynol i fraint tref freiniol; perthynol i wladwriaeth, teyrnas, *neu* genedl.

Municipal laws — cyfreithiau breiniol, breintreithiau.

Municipal government—dinas-lywodraeth, llywodraeth dinas.

Municipality, *s.* bwrdeisiaeth; dinesyddiaeth.

Munificate,† *v. a.* (Ll. *munifico*) cyfoethogi, berthogi, donio.

Munificence, *s.* (Ff.; Ll. *munificentia*) haelioni, haeledd, haelder, ciriolaeth, hygedrwydd, haelonedd, haelged.

Munificent, *a.* hael, haelionus, haelwych, hyged, hyrodd, rhoddgar, cedrwys, haelus, rhwyddged, bronheilin, eurlaw, hyles.

Muniment, *s.* (Ll. *munimentum*) caer, caerfa, caerwaith, amgaerwaith, diffynwaith, amddiffynfa, diogelfa; amddiffyn, nawdd, achles, cynnaliaeth; cofysgrif, ysgrifen amnawdd.

Munite,† *v. a.* (Ll. *munito*) cadarnhau, amddiffyn.

Munition, *s.* (Ff.; Ll. *munitio*) cadarmerth, defnyddiau rhyfel, arlwyau rhyfel, moddion rhyfel, cadarlwy; †caerwaith, diffynwaith.

Munity,† *s.* rhyddid; diogelwch.

Munnion, *s.*=*Mullion.*

Muns, } *s.* safn, geneu (mewn iaith werin-
Munds, } aidd).

Munsiff, *s.* ynad brodorol (yn yr India Ddwyreiniol).

Murage, *s.* (Ll. *murus*) murdal, murdreth.

Mural, *a.* (Ll. *muralis*) muriol, caerol; perthynol i fur *neu* wâl; tebyg i fur *neu* wâl.

Mural crown—coron gaerog.

Mural circle — murgylch, cylch muriol, cylch caerol.

Murchisonite, *s.* delidfaen, à elwir felly oddi wrth Syr *R. I. Murchison.*

Murder, *s.* (S. *morther;* Al., D., a Sw. *mord*) llofruddiaeth, llawruddiaeth, murn, murndwrn, lladdfa; cyflafan, galanas, galanasdra; lladdiad, lladdedigaeth.

Secret murder, } murn, murndwrn, cyflaf-
Hidden murder, } sang cudd, llofruddiaeth gudd.

Murder of one's father—tadladdiad, tadlofruddiaeth, llofruddiaeth tad.

Self-murder — hunanladdiad, hunanladd, hunladdiad, hunan-ddïenyddiad.

To commit murder—llofruddio, llawruddio, gwneuthur llofruddiaeth, lladd dyn.

Murder will out—nid hir y celir cilwg; galanas nid hir gelir.

Thou shalt do no murder—na ladd.

Murder, *v. a.* (S. *myrthian;* Al. *morden*) llofruddio, llawruddio, lladd dyn; murnio; galanasu, cyflafanu; dinystrio.

To murder (a thing)—anurddo, difwyno, anafu, anffurfio, dinystrio, dyfetha; gwneuthur peth yn anghrefftwraidd.

To murder privately—murnio, cudd lofruddio.

Murderer, *s.* llofrudd, llawrudd, llofruddiwr, murniwr, lleiddiad.

Self-murderer—hunanleiddiad, hunleiddiad, hunan-ddïenyddwr.

Murderer of one's father — tadleiddiad, tad-lofruddiaeth.

Murderer, } llofruddarn=math o
Murdering-piece, } gyflegr bychan.

Murderess, *s.* llofruddes, llawruddes.

Muderment,† *s.* llofruddiaeth.

Murderous, *a.* llofruddiog, llawruddiog, llofruddaidd, murniol, galanasol; gwaedlyd.

Mure,† *s.* (Ll. *murus*) mur, gwâl, pared.

Mure, *v. a.* (Ll. *murus;* Ff. *murer*) murio, gwalio; caeru, amgaeru.

To mure up—murio *neu* walio i fyny.

Murengers, *s. pl.* murswyddwyr, murolygwyr, golygwyr y caerau=math ar swyddogion yn ninas Caerlleon.

Muria, *s.* (Ll.) heli, halwyn, halenwyn, dwr hallt, dwr y môr.

Muriacite, *s.* halfaen.

Muriate, *s.* (o *muria*) halas; heli: *pl.* helïon.

Muriated, *a.* llasnuredig; heliedig, halwynog, halasog.

Muriatic, *a.* (Ll. *muriaticus*) halig, halwynig, helïaidd.
Muriatic acid—sur halig, halsur, halnwy.
Muriatic acid gas—nwy halsur, sur halnwy, sur halnwyol.

Muriatiferous, *a.* (Ll. *muria* a *fero*) halddwyn; yn cynnyrchu sylweddau helïaidd; yn dwyn halion.

Muricalcite, *s.* halgalchen.

Muricated, *a.* (Ll. *muricatus*) llymbigog, pigoglym; ysgyryd.

Muricite, *s.* (Ll. *murex*) ysgyrydfaen.

Muridæ, *s. pl.* (Ll. *mus*) llygodlwyth, llwyth y llygod, y llygod.

Murine, *a.* (Ll. *murinus*) llygodaidd; perthynol i lygod *neu* lygoden.

Murk, *s.* (Sw. *mörker*; D. *morkhed*) tywyllwch, gwyll, caddug.

Murky, *a.* (D. a Sw. *mörk*) tywyll, gwyll, caddugaidd, anoleu, gwrm.

Murmur, *s.* (Ll.) grwgnach, manson, tuchan, achwyn grwgnachlyd, achwyn tuchanllyd, achwyn mansonllyd, grem, grwgach, grwnach, conach, grwyth, grydwst, grwm, grwnan, grymial, gyth; godwrdd, godwrf, trydar, goruad, dyar, sibrwd, siffrwd, dadyrddiant, sisyfwl, ffraul, si, husting; trwst dwfr yn rhedeg rhwng cerygos; murmur; trwst, twrdd.
The murmur of the sea—bwmbwr y môr.

Murmur, *v.* (Ll. *murmuro*) grwgnach, tuchan, grwgach, grwgnachu, manson, gorfanson, tuchanu, ymrwgnach, ymfanson, grymial, grymialu, grymiala, grwytho, gryngian, grydystu, grydwst, selgyngian, sylgyngan, iselgyngian, gremial, gremio, conach; husting; dywedyd dân ddannedd; godyrddu, godyrddain, godyrfu, dadyrddain, dadyrddu, sibrwd, siffrwd, siffro, godrystio, goddyaru, dyaru, godaranu; murmur; trystio fel dwfr rhwng cerygos.

Murmurer, *s.* grwgnachwr, gwgnechydd, grymialwr, tuchanwr, tuchanydd, grwythwr, grwythydd, gythwr, dadyrddwr, &c.

Murmuring, *s.* grwgnach, grwgach, manson, godwrdd, &c.; grwgnachiad, grwythiad, &c.

Murmuringly, *ad.* dân rwgnach, yn rwgnachlyd, dân rymial, yn rymialus.
Murmuring consent, } adlais tyrfa yn
Murmuring approbation, } dangos eu cytundeb *neu* gymmodlonedd.
A murmuring noise—husting, sibrwd, siffrwd, si, su, sisial, manson; godwrdd, godwrf, trydar; swn, trwst, *neu* odwrdd afon yn cerdded; trwst coed gân wynt.
Without murmuring—heb rwgnach, yn ddirwgnach, yn ddirwyth, &c.

Murmurous, *a.* grwgnachlyd, grwgnachus, grwgnachol, grymialog, tuchanllyd, grwythol, grymialus.

Murr,† *s.* gormwyth.

Murrain, *s.* (Ysp. *morrina*) bwystnon, haint llŷn ar anifeiliaid, yr haint ar anifeiliaid, y pla ar anifeiliaid, chwaren, cowyn, cornwyd, y cornwyd.

Murre, *s.* math ar aderyn.

Murrey, *a.* (o *Moor*, neu ei wreiddyn) dugoch, arddufrych, cochddu, gwineuddu; gwineulwyd.

Murrhine, *a.* (Ll. *murrhinus*) lliorfeinin, lliiorfeinin, lliorfeinig=cyfenw à roid i fath o lestri priddion.

Murrion, *s.* (Port. *morriam*; It. *morione*) penial, penor, penffestin, helm.

Murther,† *s.*=*Murder*.

Musard,† *s.* (Ff.) breuddwydiwr, breuddwyd o ddyn.

Muscadel, **Muscadine**, **Muscat**, **Muscatel**, *a.* (It. *moscatello*; Ysp. *moscatel*; Ff. *muscat*, *muscadin*, *muscadet*) Mwsgadel; arogl ber, melusber.
Muscadel wine—gwin Mwsgadel.

Muscadel, **Muscadine**, **Muscat**, **Muscatel**, *s.* Mwsgadel=math ar win melusber neu arogl ber; math ar rawnwin peraidd; a math ar ellaig.

Muscadine, *s.* math o glefyd ar y pryf sidan.

Muschelkalk, *s.* (Al.) cragengalch.

Muschetors, **Muschetours**, *s. pl.* (Ff. *mouchetures*) ysmotiau duon, tebyg i flaen cynffon carlwm, mewn arfau bonedd.

Musci, *s. pl.* (Ll.) mwsogl, mwswgl, mwswn.

Muscicapidæ, *s. pl.* (Ll. *musca* a *capio*) gwibedogion=tylwyth o adar.

Muscle, *s.* (Ff.; Ll. *musculus*) cyhyr, cyhyryn, llywethi, llywethan; caledgig llywethog, llyweth o gig, llyweth o gyhyrgig, llyweth o gig cyhyrog; gewyn, gaw: *pl.* cyhyrau.
The end of a muscle—cyhyrglwm.
Full of muscles—cyhyrog, llawn cyhyr, llywethog; gewynog.

Muscle, **Mussel**, *s.* (Ll. *musculus*; Ff. *muscle*; Al. *muschel*) cragenlas, y gragenlas, misglen, misgl: *pl.* misglod.

Muscoid, *a.* (Gr. *moschos* ac *eidos*) mysoglaidd, mysyglaidd, mysynaidd; tebyg i fwswn.

Muscoid, *s.* mysoglys.

Muscosity, *s.* mysynogrwydd, mysoglogrwydd, mysyglogrwydd, mysyglydedd.

Muscovado, *s.* (Ysp. *mascabado*) sugr annher, sugr heb ei goethi.

Muscovy, *s.* (o *musk*) pig y crëyr mwsgaidd.

Muscovy-duck, **Musk-duck**, *s.* hwyad fwsg.

Muscovy-glass, *s.*=*Mica*.

Muscular, *a.* (o *muscle*) cyhyrol, llywethol, gewynaidd, gewynog, cyhyrog; perthynol i'r cyhyrau; à gyflawnir gân gyhyr; à gylawnir drwy gymhorth cyhyr; gawy; cryf, grymus, nerthog, efrais, braisg.
Muscular system—cyhyraeth, trefniant y cyhyrau, deseb y cyhyrau.
Muscular pain—cyhyrwaew, poen gyhyrol, poen yn y cyhyrau.
To grow muscular—llywethu; myned *neu* dyfu yn gyhyrog.

Muscularity, *s.* cyhyredd, cyhyrolrwydd, cyhyrogrwydd, llywethogrwydd, cyhyroldeb.

Musculite, *s.* (o'r Ll. *musculus*) y gragenlas wedi ymgaregu.

Musculous, *a.* (Ll. *musculosus*) cyhyrog, llawn cyhyr, llywethog, llawn llywethau; cyhyrol, llywethol; perthynol i gyhyr; perthynol i gyhyrau; gewynog, gawy; cryf, grymus, efrais, braisg.

Muse, *s.* (Ll. *musa*; Gr. *mousa*) awen; awenes; cerdd, cân, y gân; myfyr, myfyrdod; syn fyfyrdod, dwys fyfyrdod, dwys feddwl; awenydd; barddawr: *pl.* awenau, anant.
The Muses—yr Awenau, yr Awenesau, Duwiesau y Gerdd, Duwiesau Dysg, yr Awenolion, yr Awenyddion, yr Awenyddau.
The nine Muses—y naw Awen, y naw

Awenes, naw Duwies Dysg, naw Duwies y Gerdd, naw Merch Cler = Clio, Euterpe, Thaleia, Melpomene, Terpsichore, Erato, Polyhymnia, Urania, a Caliope.

Poetic muse — awen, yr awen, anaw; barddawr.

In a deep muse—mewn synfyfyrdod; mewn dwys feddwl.

Muse, *v.* myfyrio, syn fyfyrio, dwys fyfyrio, syn feddwl, syn feddylio, syniannu, cyngydio, dyfrydu; myfyrio ar, meddwl am; dwys feddwl am; pwyso, ystyried, ystyrio; † synu.

Museful, } *a.* myfyr, myfyrlawn, syn-fyfyriol,
Musing, } myfyrgar, myfyriannus, meddylgar, myfyrus, myfyriannol, myfyrdodol, myfyriadol, dybrydog, dwys-fyfyriol, syn-feddylgar.

Musing on mischief—â'i fryd ar ddrygioni.

Deeply musing—syn-fyfyriol, yn syn fyfyrio, yn dwys feddylio, mewn dwys feddwl, mewn syn feddwl.

Museless, *a.* diawen, anawenol, anawengar.

Muser, *s.* myfyrgarwr, meddylgarwr, myfyriwr, myfyriedydd, syn fyfyriwr, dwys fyfyriwr.

Muset, *s.* twll ysgyfarnog.

Museum, *s.* (Gr. *mouseion*) cywreinfa, amgueddfa, amgueddgell, creirfa, argreirfa, cronfa cywreindeb, cronfa cywreinrwydd; cronfa, cafell, trysorfa, *neu* drysorgell cywreinion; cronfa pob cywreinbeth.

British Museum—y Gywreinfa Brydeinig, yr Amgueddfa Brydeinig.

Mush, *s.* (Al. *mus*) uwd yd yr India.

Mushroom, *s.* (Ff. *mousseron*) ffwng, bwyd y barcud, bwyd y boda, bwyd ellyllon, bwyd llyffaint, caws llyffant, caws y llyffant, caws llyffaint, maesrin.

Hedgehog mushroom—caws llyffaint draenog.

Stinking mushroom—cingroen, y gingroen.

Mushroom, *a.* â wnaed o fwyd y barcud; ffyngaidd; â godo ac â ddarfyddo fel bwyd y barcud; diflanol; sothachlyd.

Mushroom catsup—ffyngwy.

Mushroom-stone, *s.* maesrinfaen, maen ffwng.

Music, *s.* (Ll. *musica*; Gr. *mousicé*) cerddoriaeth, peroriaeth, alaw, alawiaeth, cywyddoliaeth, cowyddoliaeth, cerddofyddiaeth, cynghanedd, caniadaeth, eilon, eilyw, alon, eilyg, eilw, eilywiant, cethlyddiaeth.

Vocal music—cerdd arwest, cerdd dafod, arwest, ceiniedi, anawel.

Instrumental music—cerdd offerynol, cerdd dannau, cerdd dant, cerdd offer; peroriaeth ar offer cerdd; cerddoriaeth offerynol.

Music vocal and instrumental—cerdd dafod a thannau; cerdd dafod a thant; cerdd arwest a cherdd dannau.

Doctor of Music—Doethor Peroriaeth, Doethor Cerddoriaeth, Doethor Alaw, Bardd Alaw, Pencerdd.

Science of music—cerddofyddiaeth, cerddoriaeth, peroriaeth, caniadaeth.

A piece of music—cerdd, darn cerddorol.

Music and dancing—cynghanedd a dawnsio; cynghanedd a dawns.

Band of music—seindorf, perorion, peroriaid, seinorion.

To set to music—rhoi cân ar gerdd; gosod cân wrth gerdd; gosod cân i gerdd; cyfaddasu *neu* gyfansoddi cerdd at gân, cyfaddasu i 'rddygan.

Practice of music—peroriant, ymarfer o gerddoriaeth.

To practise music—perori, peroriaethu; ymarfer o beroriaeth *neu* gerddoriaeth; ymarfer â cherddoriaeth.

The music of the spheres—cynghanedd y bydoedd fry.

Music-meeting — cerdd-gyfarfod, cerdd-ymbrawf, cyfarfod cerddorol.

Music-room—cerddfa, perorgell.

Musical, *a.* cerddorol, perorawl, peroriaethol, peroriaethus, cerddgar, cynghaneddol, cynghaneddog, alawol, perseiniol, hyfrydlais, melusber; cysseiniol; awenyddol; eilw.

Musical instruments, } offer cerdd, offer-
Instruments of music, } ynau cerdd: *sing.* offeryn cerdd.

Musical profession — eilywiant, galwedigaeth cerddor, yr alwedigaeth gerddorol.

Musicalness, *s.* cerddoroldeb, cerddgarwch, cynghaneddogrwydd, cynghaneddoldeb.

Music-book, *s.* llyfr canu, llyfr cerddoriaeth.

Musician, *s.* cerddor, peror, perorydd, alawydd, peroriaethwr, gwr wrth gerdd, eilwy, eilewydd; cerddofydd.

Female musician—cerddores, perores.

Chief musician—pencerdd, penceirddiad.

Itinerant musician—clerwr, ceiniad, angeiniad: *pl.* cler.

The meaner sort of musicians—cler y dom.

To go their rounds as musicians—clera.

Music-master, *s.* dysgawdwr cerddoriaeth, dysgwr peroriaeth, athraw cerddoriaeth.

Musing, *s.* (o *muse*) myfyrdod, myfyriad, myfyriant, efryd.

Musk, *s.* (Ll. *muscus*; Gr. *moschos*) mwsg.

Musk-ball—pelen fwsg, pelen ber.

Musk, *s.* grablas y llwyn, cenin y brain grabaidd, mwsg.

Musk, *v. a.* perarogli â mwsg.

Musk-apple, *s.* mwsgafal.

Musk-bearer, *s.* = *Musk-rat.*

Muskat, *s.* mwsgwin, gwin Mwsgadel.

Musk-cat, *s.* mwsgath, cath fwsg.

Musk-cherry, *s.* ceriosen fwsg, sirian fwsg.

Musk-deer, *s.* danas mwsg, danys mwsg.

Musket, *s.* (It. *moschetto*; Ff. *mousquet*) mwsged, aerddryll, cad-ddryll, cadwn, dylwyfwn; gŵn, dryll.

Musket-ball—pelen fwsged, pelen gŵn.

Musket-proof—anhydraidd gân belen gŵn; anhydraidd gân belen fwsged.

Musket, *s.* cudyll, curyll, corwalch, llemysten wryw.

Musketeer, *s.* mwsgedwr, un yn dwyn mwsged, cadynwr.

Musketoe, *s.* = *Mosquito.*

Musketoon, *s.* (Ff. *mousqueton*) mwsgedyn, mwsged byr llydan; mwsgedynwr, un yn dwyn mwsgedyn.

Musketry, *s.* mwsgedau, drylliau, gynau.

Muskiness, *s.* mwsgeiddrwydd, arogl mwsg.

Musk-melon, *s.* mwsg-felon, mwsg-fwlon, mwlon mwsg, pompiwn peraroglus.

Musk-ox, *s.* ych mwsg, yr ych mwsg.

Musk-pear, *s.* peren fwsg, peren berarogl.

Musk-rat, } *s.* llygoden fwsg, mwsglyg, mwsg-
Musquash, } lygoden.

Musk-rose, *s.* mwsgros, mwsgrosyn, rhosyn mwsg.

Musk-thistle, *s.* ysgallen ogwydd.

Musk-wood, *s.* mwsgwydd, coed mwsg.

Musky, *a.* mwsgaidd, fel mwsg; âg arogl mwsg arno; peraroglus, peroglus.

Muslin, *s.* (Ff. *mousseline;* oddi wrth *Mosul* neu *Moussoul,* yn Mesopotamia, fel yr ydys yn tybied) mwslin, mwyalin.

A muslin apron—ffedog fwslin.

A muslin gown—gŵn mwslin.

Muslinet, *s.* mwslined=math o gotwm garw.

Musmon, } *s.* y ddafad wyllt.
Musimon, }

Mussmed, *s.* teyrngadair (yn yr India Ddwyreiniol)

Musrol, *s.* (Ff. *musserolle*) trwynffrwyn.

Muss,† *s.* ciprys, cipgais.

Mussel, } *s.* (Ll. *musculus;* Ff. *muscle;* Al.
Muscle, } *muschel*) cragenlas, y gragenlas, misglen, misgl: *pl.* misglod.

Mussite, *s.* delidfaen Mussa, yn Piedmont.

Mussulman, *s.* (Tyrc.) Mahometiad, un o Ffyddloniaid Mahomet, Ffyddloniad, Mussalman.

Mussulmanish, *a.* Mahometaidd, Mussulmanaidd.

Mussulmanly, *ad.* yn ol dull y Mussulmaniaid; yn ol arfer y Mahometiaid.

Must, *v. n.* (S. *most;* Is. *moest;* Al. *müssen*) rhaid yw, rheidiol yw, dir yw, angenraid yw, mae yn rhaid, mae yn rheidiol, mae yn angenrheidiol, y mae yn rhaid; rheidio.

I must—rhaid i mi; rhaid yw i mi; rheidiol yw i mi; rheidiol i mi; mae yn rhaid i mi; gorfydd i mi; gorfydd arnaf; yr wyf yn rhwymedig i.

I must go thither—rhaid i mi fyned yno; rhaid yw i mi fyned yno; mae yn rhaid i mi fyned yno.

I must write—rhaid i mi ysgrifenu.

He must—rhaid iddo; rhaid yw iddo; rhaid iddo ef; mae yn rhaid iddo ef, &c.

I must not—nid rhydd i mi; nid oes lle i mi; nid oes le i mi.

What must be done?—beth sy raid ei wneuthur? beth a wneir?

I must needs—rhaid i mi; rhaid yw i mi; mae yn rhaid i mi; dir yw i mi; gorfydd i mi; gorfydd arnaf.

There must needs be—ni all na bo.

It must needs be—dir yw, rhaid yw.

It must—rhaid yw, mae yn rhaid, dir yw.

The multitude must needs come together—nid oes modd na ddel y lluaws yn nghyd; nid oes fodd na ddel y lluaws yn nghyd; angenrhaid yw dyfod y lluaws yn nghyd.

Must I give thee a stroke?—a raid i mi roi i ti lach?

Must, *s.* (S.; Ll. *mustum*) gwin newydd, gwin aneplesig, gwin difrwch; diod newydd, diod yn yr il.

Must, *v.* (Ff. *moisi;* C. *mucs*?) llwydo, myned yn llwyd, myned yn fws; drewi; gwneuthur yn llwyd neu yn fws.

Mustac, *s.* epa copog.

Mustaches, *s. pl.* (Ff. *moustaches*) trawswch, trawsych, y trawswch, barf hir ar wefus uchaf, mingudyn.

Mustachio, *s.* trawswch, cudyn min.

Mustard, *s.* (Llyd.; It. *mostard;* Ff. *moutarde*) cedw, cethw, ceddw, mwstardd, ysnïab.

Wild mustard — cadafarth, cedw gwyllt, cethw gwyllt, cedw yr yd, ysnïab yr yd.

White mustard—cedw gwŷn, cethw gwŷn, mwstardd gwŷn.

Common mustard — cedw cyffredin, mwstardd cyffredin, cedw du.

Black mustard—cedw du, cethw du, mwstardd du.

Mithridate mustard—codywasg.

Common Mithridate mustard—codywasg y maes.

Tower mustard—twrged, twrgedw.

Hedge-mustard—arfog.

Common hedge-mustard—arfog meddygol, arfog cyffredin.

Garlic hedge-mustard—garllegog, yr arllegog, arfog garllegog, troed yr asen, garlleg-ferwy.

Country mustard—llwyn mwstardd.

As keen as mustard—cyn llymed a'r nodwydd ddur.

Mustee, } *s.* un cymmysgryw (yn yr India Or-
Mestee, } llewinol.)

Musteline, *a.* (Ll. *mustelinus*) bronwenaidd, gwenciaidd; perthynol i'r wenci; yn perthyn i'r fronwen.

Musteline colour—lliw y fronwen, lliw y wenci.

Muster, *v.* (Al. *mustern;* It. a Port. *mostra;* Ll. *monstro*) cynnull, casglu, dwyn yn nghyd, galw yn nghyd; rhifo, cyfrif; rhestru, rhifrestru, rhifresu, byddino; rhifo, cyfrif, neu gofrestru gwŷr i ryfel; golygu byddin, prawfolygu byddin; galw enwau gwŷr byddinog drostynt; galw byddin wasgaredig yn nghyd; llurifo, cadrifo, cadrestru, llurestru; ymgynnull, ymgasglu, ymgyfarfod.

To muster up—cynnull, casglu, dwyn yn nghyd, galw yn nghyd; rhifo, cyfrif.

To muster up anew—ail gynnull, ail gasglu, ail ddwyn yn nghyd, ail alw yn nghyd; adrifo, ail gyfrif, cyfrif o'r newydd.

He mustered the chosen men for the battle—efe a gyfrifodd y gwŷr etholedig i ryfel.

The Lord of hosts mustereth the host of the battle—Arglwydd y lluoedd sydd yn cyfrif llu y rhyfel.

Muster, *s.* prawf byddin, profiad byddin, byddin-brawf, cadbrawf, prawf-weliad byddin, prawf-olygiad byddin, prawf-olygiad milwyr; rhifiad neu gyfrifiad gwŷr i ryfel; cadrifiad; galwad enwau gwŷr byddinog drostynt; galwad byddin wasgaredig yn nghyd; byddinad; casgl, cynnull; casgliad, cynnulliad; llugofres, llures, llurestr, byddinres, cofrestr o wŷr byddin brofedig; torf, llu.

To make a muster=*Muster, v.*

To make false musters—camrifo neu gamgyfrif milwyr; camgofrestru, camgofresu, camgadrestru.

To pass muster—cael ei ddarbyn; bod yn gymmeradwy.

Muster of peacocks—llu o beunod.

Muster-book, *s.* llyfr enwau milwyr, cofllyfr byddinoedd, cofllyfr y fyddin.

Muster-master, *s.* cadrifwr, cadrestrydd, cadrestrwr, llurestrydd, byddin-restrwr, llurifwr, llurifydd; rhifydd neu gyfrifydd y fyddin; golygwr byddin-brawf.

Muster-master-general—pencadrifwr, penllurifwr, pencadrestrydd, pencadrestrwr.

Muster-roll, *s.* cofrestr llu, cofrestr byddin, cofrestr y llu, cofrestr y fyddin, llugofres, llugofrestr.

Mustiness, *s.* (o *musty*) llwydni, llwydedd, llwydi, lleithlwydni; mysni; merolaeth.

Musty, *a.* (o *must*) llwyd, wedi llwydo, llwydlyd, â llwydni arno; mws; â gwynt llwyd, mws, *neu* henaidd iddo *neu* arno; drygsawrus, drewllyd; sur, surllyd; merf; trymaidd, trymllyd, marwaidd, diysbryd.

To grow musty—llwydo, myned yn llwyd.

Mutability, } *s.* cyfnewidioldeb, cyfnewidiol-
Mutableness, } rwydd, newidioldeb, newidioldder; ansefydlogrwydd, anwadalwch, anwadaledd, anwadalrwydd, anwastadrwydd, gwamalrwydd, syfaldod, trafnoldeb, trafnusrwydd, trafnusder, trafnusdra, anhysafedd.

Mutable, *a.* (Ll. *mutabilis*) cyfnewidiol, newidiol, cyfnewidiog, newidiog, ansefydlog, ansafadwy, gwamal, anwastad, ysgoewan, anhysaf, syfal.

Mutation, *s.* (Ll. *mutatio*) cyfnewidiad, newidiad, cyfnewid, newid, newidiant, aralliad.

Mute, *a.* (Ll. *mutus*; C. *mud*) mud, tawedog, dilafar, afiafar, dystaw, taw, termud; mudsain.

A mute state—mudanaeth, mudandod.

Mute letter—llythyren fud, llythyren fudsain, mudsain, mudseiniad.

Mute, *s.* mudan, (*f.* mudanes, mudes), un mud, (*f.* un fud); mud-alarwr; mudsain, mudseiniad, llythyren fud, llythyren fudsain.

Mutes (in grammar)—mudseiniaid, llythyrenau mudion, llythyrenau mud, llythyrenau mudsain, cydseiniaid mudion, mudion=*b*, *c*, *ch*, *dd*, *f*, *ff*, *g*, *ng*, *p*, *ph*, *t*, *th*, yn y Gymraeg.

Mute, *v. n.* (Ff. *mutir*) ystlomi, tomi, ysgothi, ysdiffio; bwrw tail.

Mute, *s.* tom adar, tail adar, ystlom adar, adardom.

Muteness, *s.* mudanrwydd, mudandod, mudanaeth, tawedogrwydd, dystawrwydd.

Mutilate, *v. a.* (Ll. *mutilo*) anafu; cymmeryd, tori, *neu* drychu ymaith ryw ran *neu* aelod i beth; hacru, hagru, anffurfio, llurgunio.

Mutilation, *s.* (Ll. *mutilatio*) anafiad; cymmeriad, toriad, *neu* drychiad ymaith ryw ran *neu* aelod o beth; anffurfiad, llurguniad.

Mutilator, *s.* anafwr, anafydd, anffurfiwr.

Mutilatous, *a.* anafus, anffurfiol; wedi ei anafu *neu* anffurfio; diffygiol, anmherffaith.

Mutine,† *s.*=*Mutineer*, *s.*

Mutine,† *v.*=*Mutiny*, *v. n.*

Mutineer, *s.* (o *mutiny*) terfysgwr, terfysgydd, dyn terfysglyd, dyn terfysgus; gwrthgodwr, gwrthryfelwr.

Muting, *s.* (o *mute*) tom adar, tail adar, ystlom adar, adardom.

Mutinous, *a.* terfysgus, terfysglyd; parod i godi yn erbyn llywodraeth *neu* awdurdod un; gwrthryfelgar.

Mutinousness, *s.* terfysgusrwydd, terfysglydrwydd; tuedd i godi yn erbyn llywodraeth; gwrthryfelgarwch.

Mutiny, *s.* (Ff. *mutin*, *mutinerie*) terfysg, gwrthgodiad, gwrthryfel; gwrthryfel *neu* wrthgodiad yn erbyn awdurdodau *neu* swyddogion; ymgodiad yn mhlith milwyr *neu* forwyr; gwrthbleidiad.

To raise a mutiny=*Mutiny*, *v. n.*

Mutiny, *v. n.* terfysgu, gwrthgodi; peri, codi, *neu* gyfodi terfysg; gwrthryfelu.

To mutiny against—ymgodi yn erbyn llywodraethwyr *neu* swyddogion; gwrthgodi yn erbyn.

Mutter, *v.* (Ll. *mutio*, *muttio*) manson, grwgnach, gorfanson, myngial, mwngial, myngialu, husting, grwgnachu, grwgach, rhemial, rhemiala, gremial, grymial, grymiala, grymialu, selgyngian, sylgyngan, selgyngu, iselgyngian, dywedyd dân ei ddannedd, gryngian, gryngio, grwytho, grydwst, grydystu, gythu.

To mutter to one's self—ymfanson, ymrwgnach.

Mutter, *s.* manson, grwgnach, grwgach, myngial, gorfanson, grymial, conach, grwyth, grydwst, husting, sygan, sibrwd, siffrwd, sisial, gyth; baldordd, dwrdd, godwrdd.

Mutterer, *s.* grwgnachwr, grwgnechydd, mansoniwr, myngialwr, grymialwr, grymialydd, grwythwr, hustingwr, syganwr, &c.

Muttering, *s.* manson, grwgnach, grymial, &c; gosgwyniad, grwgnachiad, hustingiad, gryngiad, &c.

Mutteringly, *ad.* dân ei ddannedd, dân rwgnach, yn rwgnachlyd, dân rymial, yn fyngialus, yn rymialus.

Mutton, *s.* (Ff. *mouton*, am *moulton*) cig mollt, cig myharan, cig maharen, cig manllwyn, manllwyn, cig mollwyn, mollwyn, mollt, cig dafad, cig llwdn dafad;† dafad, mollt.

Carcase of mutton—corwg mollt, cwrwg mollt.

Haunch of mutton—ffolen mollt.

Saddle of mutton—tumon mollt.

Shoulder of mutton—palfais, ysgwyddog, *neu* ysbawd mollt; palfais dafad, palfais myharan.

Leg of mutton—morddwyd mollt, morddwyd myharan, clun myharan, clun mollt, coesgyn mollt, coesgyn myharan, clun dafad; aelod ol myharan.

Loin of mutton—llwyn mollt, llwyn myharan, llyfen mollt.

Muttonfist, *s.* dwrn cyhyrog coch mawr; llaw fawr goch; dwrn myharan.

Mutual, *a.* (Ff. *mutuel*; Ll. *mutuus*) eu gilydd; y naill gân y llall; y naill oddi wrth y llall; y naill i'r llall; y naill at y llall; oddi wrth y naill i'r llall; oddi wrth y naill at y llall; y naill y llall; yn gystal y naill blaid a'r llall; o'r ddwy ochr; perthynol i'r ddwy blaid; perthynol i'w gilydd; y naill ar ol y llall; pob un yn ei dro; bob yn ail; olynol, cydgyfranol; cydgyfnewidiol, ar gyfnewid, cyfnewidiol; adgyrchol, attychwelog; cyd-, cyf-, cym-, cys-, cy-; deuduog.

Mutual society—cydgymdeithas.

Our mutual faith—ffydd ein gilydd.

With mutual consent—o fodd y ddwy blaid; o fodd y ddwyliw; trwy gyd-genad; o fodd y ddwy ochr.

Mutuality, *s.* cydgyfnewidioldeb; bod yn perthyn i'r naill yn gystal a'r llall, &c.

Mutually, *ad.* ar gyfnewid, ar gylch; ar gylch cyfnewid; bob un yn ei dro; yn gydgyfnewidiol; y naill yn gystal a'r llall; bob eilwers; y naill ar ol y llall; o bob tu; y naill y llall; eu gilydd.

Mutuation, *s.* (Ll. *mutuatio*) benthyciad, echwyniad.

Mutule, *s.* (Ff.) corbal, gorysgwydd=addurn mewn adeilyddiaeth Ionig.

Mux, *s.* (am *muck*) baw, tom.

Muxy, *a.* bawlyd, tomlyd, budr, brwnt; tywyll.

Muzzle, *s.* (Ff. *museau*) safn, geneu; penfar, penwar, penor, penffrwyn, safnrwym.

Muzzle-ring—safn-fodrwy, safnrwy, trwyll geneu cyflegr.

Muzzle, *v.* cau safn, rhwymo safn, amrwymo y safn, penffrwyno, penrwymo, safnrwymo, rhoi penfar ar, rhoi penwar ar, gosod penfar ar, gosod penor ar; trwyno; rhoi ei drwyn *neu* safn wrth.

Muzzy,† *a.* (o *muse*) anghofus, diofal; ar goll; gorfeddw, crachfeddw, gofrwysg.

My, *pron.* (talfyriad *migen*; Sw., D., a S. *min*; Al. *mein*; Ll. *meus*) fy, my, ym, mau, fym; eiddof.

My book—*fy* llyfr, *fy* llyfr i, y llyfr mau.

My own—eiddof fi fy hun; eiddof fi fy hunan; eiddof fy hun; yr eiddof fy hun; fy...i fy hun; fy...i fy hunan; yr eiddof fi.

By my own self—genyf fi fy hun; genyf fi fy hunan.

Mynchen, *s.* (S.) mynaches, monaches, lleian.

Mynchery, *s.* lleiandy.

Mynheer, *s.* (Is.) Isallman, Isalmaenwr, Isdiriad.

Myographical, *a.* cyhyryddol; perthynol i gyhyryddiaeth.

Myographist, *s.* cyhyrydd.

Myography, *s.* (Gr. *mus* a *graphô*) cyhyryddiaeth, darluniad o'r cyhyrau.

Myological, *a.* cyhyryddol, cyhyrofyddol.

Myology, *s.* (Gr. *mus* a *logos*) cyhyryddiaeth, cyhyrofyddiaeth, cyhyrdraeth, athrawiaeth y cyhyrau.

Myomancy, *s.* (Gr. *mus* a *manteia*) llygarmes, dewiniaeth â llygod.

Myope, } *s.* (Gr. *muôps*) byrwelwr, un byr ei
Myops, } olwg, un cibddall.

Myopy, } *s.* byrder golwg, byrdra golwg, byr-
Myopia, } edd golwg, byrweledd, byrweled, cibddellni.

Myosotis, *s.* (Gr. *mus* ac *ous*) ysgorpionllys.

Myosurus, *s.* (Gr. *mus* ac *ouros*) cynffon llygoden.

Myotomy, *s.* (Gr. *mus* a *temnô*) difyniaeth y cyhyrau.

Myriad, *s.* (Gr. *muria*) myrdd, deng mil, deg mil: *pl.* myrddoedd=10,000.

Myriagramme, *s.* (Ff.; Gr. *muria* a *gramma*) myrddram, myrddronyn = pwysi Ffrengig, yn cynnwys deg mil o *ramau* neu ronynau, yn nghylch 22½ pwys.

Myriametre, *s.* (Ff.; Gr. *muria* a *metron*) myrddfeidr=mesur Ffrengig, cyfartal i 6·213825 o filltiroedd Lloegr.

Myriapods, } *s. pl.* (Gr. *muria* a *pous*) pryfed
Myriapoda, } cantroed, myrddbedogion, amldroedogion, cantroedogion.

Myriarch, *s.* (Gr. *muria* ac *archos*) penaeth myrdd, myrddwriad, (*pl.* myrddwriaid).

Myriare, *s.* (Gr. *muria*, a'r Ff. *are*; Ll. *area*) myrdderw = mesur Ffrengig yn cynnwys 10,000 erw.

Myrica, *s.* (Gr. *muricê*) madywydd, mordywydd, gwyrddling, gwyrling, helyg Mair.

Myriolitre, *s.* (Ff.; o'r Gr. *murios* a *litra*) myrddlitr = mesur Ffrengig yn cynnwys 10,000 o *litrau*.

Myriophyllum, *s.* (Gr. *murios* a *phullon*) myrddddail, myrddail.

Myriorama, *s.* (Gr. *murios* a *horama*) myrddolwg, myrddwel, myrddwelyr.

Myrmidon, *s.* (Gr. *murmêdôn*) grafil, dyhiryn, anfad-ddyn, anfadwas, un cïaidd; un na waeth ganddo beth â wnelo: un o ganlynwyr Achel i ryfel Troia.

Myrmidonian, *a.* fel grafil *neu* ddyhiryn; perthynol i rafil *neu* ddyhiryn; creulawn, ffyrnig, cïaidd.

Myrrh, *s.* (Ll. *myrrha*; Gr. *murrha*, *smurna*) myrr.

Wine mingled with myrrh—gwin myrllyd; gwin cymmysgedig â myrr.

Myrrhine, *a.* (Ll. *myrrhinus*) lliorfeinin, lliforfeinin, lliorfeinig; â wnaed o liorfaen.

Myrrhine stone—lliorfaen, lliforfaen.

Myrtiform, *a.* (Ll. *myrtus* a *forma*) myrtaidd; ar ddull myrtwydd; ar wedd grawn myrtwydd.

Myrtle, *s.* (Ll. *myrtus*; Gr. *murtos*) myrtwydd, myrt: *sing.* myrtwydden.

Myrtle-trees—myrtwydd, coed myrt.

Dutch myrtle — madywydd, mordywydd, gwyrling, gwyrddling, helygen Mair.

Myrtle-berries — aeron myrtwydd, grawn myrtwydd, aeron myrt.

Myrtle-wax—cŵyr myrtwydd, myrt-gwyr.

Myrus, *s.* (Ll.; Gr. *muros*) math o forsarff.

Myself, *pr.* (*my* a *self*) fy hun, fy hunan, my hun, ym hunan, my hunan.

I myself—mi fy hun, mi fy hunan, myfi fy hun, myfi fy hunan.

By myself—wrthyf fy hun, wrthyf fy hunan; yn unig; ar fy mhen fy hun *neu* hunan.

By me myself—genyf fi fy hun; genyf fi fy hunan.

Of myself—am danaf fy hun, am danaf fy hunan; o honof fy hun, o honof fy hunan, o hanof fy hun.

To myself—i mi fy hun, i mi fy hunan, im' fy hun, im' fy hunan.

With myself — rhyngof a myfi fy hun; rhyngof a mi fy hunan; wrthyf fy hun.

By myself have I sworn—i mi fy hun y tyngais.

Mystagogical, *a.* rhinddeongliadol, rhineglurol; perthynol i ddeongli dirgelion.

Mystagogue, *s.* (Gr. *mustês* ac *agôgos*) rhinddeonglwr, rhineglurwr, deonglwr dirgeledigaethau; creirgeidwad.

Mysterial, *a.* (o *mystery*) cyfrinol, cyfriniol, dirgelus, dirgeleddol, damegol.

Mysteriarch, *s.* (Gr. *mustêrion* ac *archos*) rhinbenaeth, rhinbenog, penaeth dirgelion, pen dirgeledigaethau.

Mysterious, *a.* (o *mystery*) dirgel, dirgeledig, dirgelaidd, dirgelus, cuddiedig, aneglur, cyfrinol, cyfriniol, rhiniol, cyfrin, anhawdd ei ddeongli, tywyll, llawn dirgeledd, llawn dirgelwch, dirgeleddus, llawn dirgelion, dirgeledigaethol, dirgeledigol; mwys; damegol; cyfrinachol.

Mysteriousness, *s.* dirgeledd, dirgeledigrwydd, dirgelwch, cyfrinioldeb, tywyllni.

Mysterize, *v. a.* cyfrinio, cyfrino, cyfrinoli, dirgeledigaethu, rhino, mwyso; traethu mewn dychymygion *neu* ddamegion.

Mystery, *s.* (Ll. *mysterium*; Gr. *mustêrion*) dirgelwch, dirgeledd, dirgeledigaeth, cyfriniaeth; peth annadguddiedig, pwnc annadguddiedig; rhin; mwysder; celfyddyd, crefft; rhin crefft: *pl.* dirgelion, dirgeledigaethau, dirgeleddion, cyfrinion, cyfrinolion, mwysderau, cyfriniaethau.

It is a mystery to me—dirgelwch yw i mi;

mae e yn guddiedig i mi; mae e yn guddiedig oddi wrthyf fi.

Mystic, Mystical, *a.* (Ll. *mysticus*; Gr. *musticos*) cyfrinol, cyfrinol, cyfrin, dirgel, dirgelaidd, dirgelus, cudd, cuddiedig, tywyll, aneglur; arwyddol, allegol, arallegol, ffugrol, arwyddluniol; perthynol i ddirgelion neu ddirgelediguethau.

To speak mystically—dywedyd damegion, llefaru ar ddamegion; llefaru yn gyfrinol, dywedyd yn gyfrinol.

Mysticalness, *s.* cyfrinoldeb, cyfrinolrwydd, cyfrinioldeb, dirgelwch.

Mysticism, *s.* cyfriniaeth, cyfrinolaeth, tywyllni athrawiaeth; athrawiaeth y Cyfrinwyr.

Mystics, *s. pl.* Cyfrinwyr, Cyfriniaid, Cyfrinoliaid, Cyfriniolwyr, Cyfrinolwyr.

Mystification, *s.* gwneuthuriad dirgelwch o beth; cyfrinoliad, cyfriniad, dirgeliad.

Mystify, *v. a.* gwneuthur dirgelwch o beth; cyfrinoli, cyfrinioli, cyfrinio, cyfrino, dirgeledigaethu; tywyllu.

Myth, *s.* (Gr. *muthos*) chwedl, ffugwers, chwedl wneuthur, ffuglith, dychymyg, dameg, ffugchwedl.

Mythic, Mythical, *a.* (Gr. *muthicos*) chwedlofyddol, chwedlonig, chwedleuawl; perthynol i chwedlofyddiaeth; ffuglawn, chwedlog, chwedlaidd, ffugchwedlog, ffuglithiog, annilys, llawn chwedlau.

Mythologist, *s.* chwedlofydd, chwedlonydd; un hyddysg mewn chwedlofyddiaeth.

Mythologize, *v. n.* chwedlofyddu, chwedloni; trin, adrodd, neu egluro chwedlau y Paganiaid; deongli chwedlau a dychymygion; ysbysu chwedlau dirgel; deongli damegion.

Mythology, *s.* (Gr. *muthologia*) chwedlofyddiaeth, chwedloniaeth, chwedloneg, chwedlddysg, ffugchwedlaeth, cyfriniaeth.

Mythoplasm, *s.* (Gr. *muthos* a *plassó*) chwedl wneuthur, chwedl a dim ond chwedl, chwedl, ffugchwedl.

Mytilite, *s.* (Gr. *mutilos*) y gragenlas wedi ymgaregu.

Mytilus, *s.* (Gr. *mutilos*) cragenlas, y gragenlas, misgl: *pl.* misglod.

Myxon, *s.* (Gr. *muxos*) pysgodyn o rywogaeth y mingryniaid.

N.

N, yn mhlith yr hynafiaid, rhiflythyren yn arwyddo 900, a chyda llinell drosti, 9000.

Nab, *v. a.* (Sw. *nappa*) dàl yn ddisymmwth; dàl un heb wybod iddo; dàl un yn ddïarwybod iddo.

Nab, *s.* pen mynydd, trum mynydd.

Nabob, *s.* (llygriad o'r Hindwstanaeg *nawáb*) llywydd talaeth neu fiaenor byddin (yn yr India Ddwyreiniol); un wedi ymgyfoethogi yn yr India.

Nabobess, *s.* Nabobes, gwraig y Nabob.

Nacarat, *s.* (Ysp. *nacar*) lliw lledgoch euraid.

Nacre, *s.* (*Ff.*; Ysp. *nacar*) cregynem, llymarchem, pysgem, brasbysgem.

Nacreous, *a.* (o *nacre*) gemaidd, perlaidd, cregynemaidd; dysglaer megys wyneb cragen.

Nacrite, *s.* (o *nacre*) math o ddelidfaen.

Nadir, *s.* (Ar.) y rhan o'r ffurfafen à fo yn union gyferbyn à thraed un pa le bynag y bo yn sefyll; yr isbwynt, yr isbwnc, y tanbwynt, gwrthentrych, pedbwynt, pedbwnc.

Nadlestein, *s.* (Al. *nadel* a *stein*) nodwyddfaen, nydwyddfaen, maen nodwydd.

Nævе, *s.* (Ll. *nævus*) ysmotyn, màn.

Nævose, *a.* ysmotiog, mànog, brych.

Nævus, *s.* (Ll.) màn, ysmotyn; samp, màn cyn geni, màn cynhenid, ban cyngeni.

Nafe, } **Naff**, } *s.* math o foraderyn copog.

Nag, *s.* (Is. *nagge*) crynfarch, corfarch, ceffylyn, merchyn, cryn geffyl, ceffyl ieuanc; gorddercbwr.

Naggy, *a.* ymrysongar, ymarfaelgar.

Naia, } **Naja**, } *s.* (Gr. *naias*) rhywogaeth o seirff tra gwenwynig.

Naiad, } **Naid**, } *s.* (Gr. *naiades*) Naiad, Nofanes, Dyfrelen, Gwyanes, Duwies y dyfroedd.

Naiades, } **Naiads**, } *s. pl.* (Gr. *naiades*) Naiadau, Nofanesau, &c.

Naiades, *s. pl.* planigion dyfrdrig, ffrydlysiau.

Naiades, } **Naiadæ**, } *s. pl.* math ar gregyn dwfr croew.

Naiant, *a.* (Gr. *nad*) nofiol, nofiadol, ar nawf.

Nail, *s.* (S. *nægel*; Sw., D., ac Al. *nagel*) hoel, hoelen, cethr, cethren; ewin; ewinfedd, (=2½ modfedd, neu yr 16fed ran o lathen).

A large nail—cethr, cethren, hoel fawr.

On the nail—ar law; yn ebrwydd, yn ddïattreg, yn ddïymaros, yn ddïoed; ar ben bord.

To hit the nail on the head—taro yr hoel ar ei chlopa, ar ei phen, *neu* ar ei chlob; cyffwrdd à'r iawn bwnc.

Nail-headed characters—llythyrenau pen hoel.

Nail, *v. a.* hoelio; cethru.

Nailer, *s.* hoeliwr, gof hoelion, hoelof.

Nailery, *s.* gweithfa hoelion, hoelfa, gefail hoelion.

Naissant, *p. p.* (*Ff.*) cyfodol, yn dyfod allan.

Naive, *a.* (*Ff. naïf*; Ll. *nativus*) bywiog, gwyrenig, rhydd.

Naïvete, } **Naivty**, } *s.* (*Ff. naïveté*) symledd naturiol, symledd dïaddurn, symledd, diniweidrwydd, gonestrwydd, diffuantrwydd, didwylledd.

Naked, *a.* (S. *nacod*; Al. *nacket*) noeth; llwm, (*f.* llom), llymrig; croenllwm; arnoeth, hoeth; dïorchudd, digel, dïargel; dinawdd, dïamddiffyn; agored; syml; dïaddurn; unig.

Naked on every side—amnoeth.

The naked truth—y gwir dïorchudd, y gwir dïargel, y gwir noeth; calon y gwir.

To make naked, } To strip naked, } dynoethi, noethi; dihatru, dïosg; dïosg ya noethlymyn; noethiannu.

To make one's self naked, } To strip one's self naked, } ymnoethi; ymddïhatru, ymddïosg.

A naked one—noethlymyn, noethlyman, llymrigyn.

Stark-naked — noethlymyn, noethlyman, llymnoeth, llwyrnoeth.

Half naked, } Somewhat naked, } llednoeth, lledlwm.

Completely naked—llwyrnoeth, cwblnoeth, hollol noeth.

Nakedly bare—noethlwm; *f.* noethlom.

Nakedness, *s.* noethni, noethder, noethdra, noethedd; llymdra, croenllymdra.

Naker, *s.*=*Nacre*.

Nakir, *s.* gwibloes.

Nall,† *s.* (D. *naal*) mynawyd.

Namby-pamby, *a.* (dychymygair) ffol, ffolwirion, penbylaidd, disynwyr, symlynaidd, symlaidd; tlws dirmygus; à fo rhy wael i chwerthin yn iachus am ei ben.

Name, *s.* (S. *nama*; Al. *name*; Ll. *nomen*) enw, henw, enwad, enwawd.

Christian name—enw bedydd.

Proper name — enw priod, enw priodol, priod enw.

Assumed name—ffugenw, enw ffugiol.

To write one's name—ysgrifenu ei enw; tori ei enw; llythyru ei enw; llythyrenu ei enw.

By name—wrth ei enw, dan ei enw, erbyn ei enw.

To call names—difrïo, difenwi, llysenwi, anfrïo; rhoi enwau drwg; galw un allan o'i enw.

To call by name—galw wrth *neu* erbyn enw; enwi.

To call by a false name—camenwi, gwallenwi; galw *neu* enwi ar gam.

Having two names, } That has two names, } deuenw, deuenwol, deuenwog; â dau enw iddo.

Of the same name—unenw, o'r un enw.

A name without dignity—enw heb senw.

Name, *v. a.* enwi, henwi; rhoi enw ar; galw erbyn ei enw; galw; crybwyll.
To name again—ail enwi, adenwi, enwi drachefn.

Nameless, *a.* dïenw; heb ei enw; heb enw.

Namely, *ad.* dàn ei enw, wrth ei enw, erbyn ei enw; yn enwedigol; sef, hyny yw, nid amgen, sef yw hyny.

Namer, *s.* enwr, enwydd.

Namesake, *s.* (*name* a *sake*) cyfenwydd, cydenw, cyfenw un, cydenw un; un o'r un enw ag arall.

Nan, *ad.* (C.) nan? e? beth?

Nankeen, *s.* (o *Nankin*, yn China) Nancin= math o gotlïan.

Naos, *s.* (Gr.) teml; corff hen deml.

Nap, *s.* (S. *knappian*) hun, hunell, amrantun, cyntun, hunyn, amrentyn; darhun, dargwsg.
A short nap—hunyn.
To take a nap—cysgu hun, cymmeryd hun; amrantuno, cyntuno; darhuno, dargysgu.

Nap, *v. n.* huno; cysgu hun, cymmeryd hun; dargysgu, darhuno, gogysgu, amrantuno, cyntuno; cysgu.

Nap, *s.* (S. *knoppa;* It. *nappa*) ceden, gra, casnach, ffris, pân; goflew, plucan, blewiach; cnap, cnwb, cnwpa, oddf, cwrn, cwnwg, trum.

Nape, *s.* (S. *cnæp*) gwàr, y wàr; gwegil; pillgorn y gwegil, tyllgorn y gwegil; cymmal y wàr.
The nape of the neck—pillgorn y gwegil, tyllgorn y gwegil; cymmal y wàr.

Napery, *s.* (Ff. *nappe*) llieiniau bwyd, llieiniau byrddau, byrddlïeiniau; llieiniau.

Naphew, *s.* (Ll. *napus*) maip yr yd, erfin yr yd, bresych yr yd, yd-fresych, ydfaip: *sing.* meipen yr yd, meipen yd, erfinen yr yd, erfinen wyllt.

Naphtha, *s.* (Gr. a Ll.) gwybyg, gwylosg, gwylos, hedlosbyg, naphtha.

Naphthalate, *s.* gwybygbalan, gwybygawd: *pl.* gwybyghalion.

Naphthalic Acid, *s.* sur gwylosig, sur naphtha.

Naphthaline, *s.* gwylosnur, gwybygain, nur naphtha.

Napiform, *a.* (Ll. *napus* a *forma*) meipaidd, erfinaidd; ar lun erfinen *neu* feipen.

Napkin, *s.* (Ff. *nappe*, a'r terfyniad bych. *kin*) llawlïan, llawlïain, cedaflen, tywel, napcyn; cewyn; † llawfoled, moled, neisiad.

Napless, *a.* digeden, heb geden, anghedenog, digasnach; llwm; llyfn.

Naples-Yellow, *s.* melyn Naples.

Nappal, *s.* sebon-graig, craig sebon.

Nappiness, *s.* cedenogrwydd, graogrwydd, casnachogrwydd; ewynogrwydd.

Nappy, *a.* (o *nap*) cedenog, casnachog, graog; â cheden arno; ewynog, molwynog, gorisgellog, gwreichionllyd; cryf, cadarn-gryf, rhial-gryf; pergryf.
Nappy ale — cwrw ewynog, gorisgellog, *neu* folwynog; dïod gref rial, cwrw rhial-gryf, cwrw micws, cwrw cryf.

Naptaking, *a.* yn cymmeryd cyntunau, amrantunau, *neu* hunellau.

Naptaking, *s.* (o *nab*) cymmeriad yn ddisymmwth; dyfodiad ar un yn ddïarwybod iddo; daliad un heb wybod iddo.

Narceia, } *s.* (Gr. *narcé*) cysgain.
Narceine, }

Narcissus, *s.* (Ll.; Gr. *narcissos*) gylfinog, blodau Mawrth.

Narcosis, *s.* (Gr.) synwyrgoll, synwyrball, cysoredd

Narcotic, } *a.* (Gr. *narcôticos*) cysgbair, cwsg-
Narcotical, } bair, cwsgbar, cysbair, cysgiadol; à bair gysgu *neu* ferwino; cysorol, cysol, merwinol; à bair farweidd-dra *neu* annheimladrwydd.

Narcotic, *s.* cysor, cysbair, cysgyfaredd, meddyginiaeth gwsg, cyffyr cysgbair: *pl.* cysorion.

Narcoticalness, *s.* cysgbeirrwydd, cysgiadolrwydd, merwinolneb.

Narcoticness,† *s.* cysbeirrwydd, merwinoldeb.

Narcotine, *s.* cysgnur, cysnur, nillnur.

Narcoticoacrid, *a.* surgysgiadol, surgysgbarol.

Narcotism, *s.* cysoriaeth, cysbeiriaeth, cysgbeiriaeth; effaith meddyginiaeth gwsg.

Nard, } *s.* (Ll. *nardus;* Gr. *nardos*) nard,
Nardus, } nardus, yspicnard; enaint nard.

Nardine, *a.* (o *nard*) nardin, nardain, nardaidd.

Nardus, *s.* (Ll.) cawnen ddu, cas gàn bladyrwr.

Nare,† *s.* (Ll. *naris*) ffroen.

Narrable, *a.* (Ll. *narrabilis*) traethadwy, treithadwy, adroddadwy, hanesadwy.

Narrate, *v. a.* (Ll. *narro*) adrodd, traethu, hanesu, mynegu.

Narration, *s.* (Ll. *narratio*) adroddiad, hanesiad, hanesiant, traethiad, treithiad; hanes; mynag, traith, traethawd; chwedl, ystori.

Narrative, *a.* (Ff. *narratif*) hanesol, hanesiol, adroddol; adroddgar, hanesgar, treithgar; chwedleugar; yn caru adrodd; à gâr adrodd.

Narrative, *s.* adroddiad, hanesiad, hanesiant, traethiad; hanes; mynag, traith; chwedl, chweddl, achwedl, cychwedl, ystori.

Narratively, *ad.* yn adroddol, &c.; ar wedd adroddiad.

Narrator, *s.* adroddwr, adroddydd, adroddiedydd, haneswr, hanesydd, mynegwr, mynegydd, traethadur.

Narratory, *a.* adroddol, adroddiadol, hanesol.

Narrow, *a.* (S. *neara, nearew*) cul, achul, dilcd; cyfyng, cyfing, eching, ing; cynnwys, nigus, lledw; caeth; tyn; manwl, manol; main; anhael, crintach, cyrrith, llawgaiad, llawgaled, anllawgar, cybyddlyd, cynnil; agos; prin, braidd.
To make narrow—culhau, cyfyngu, culo, nigio.
Tending to make narrow—culhaol, cyfyngol.

Narrow, } *s.* culfa, culfan; cyfyngdir, culdir;
Narrows, } culfor, cyfyngfor, basfor.

Narrow, *v.* culhau, cyfyngu, culo, nigio; gwneuthur yn gul; myned yn gul; myned yn yn gulach; lleihau *neu* gyfyngu hosan; gostwng ar hosan.

Narrow-chested, *a.* brongul; culfron; cul ei fron; cul ei bron.

Narrower, *s.* cyfyngwr, cyfyngydd, culhäwr.

Narrowings, *s. pl.* rhan gul *neu* gyfyngedig hosan.

Narrowly, *ad.* yn gul, yn gyfyng; yn gaeth; yn graff; yn ddyfal, yn fanwl, yn fain; yn brin, prin, braidd, o'r braidd, o fraidd; trwy fawrboen, trwy fawrwaith; o fewn ychydig.

Narrow-minded, *a.* cul ei feddwl; culfarn, cul-

frydig; cul ei farn; anhael, anhaelfrydig, crintachaidd, rhagfarnllyd; bawlyd.

Narrowness, *s.* culedd, culder, culdra, culni, culi, cyfyngder, cyfyngdra; anhaelder, cyrrithder, crintachrwydd, cybyddiaeth.

Narrow-sighed, *a.* cul *neu* gyfyng ei olwg.

Narthecium, *s.* (Gr. *narthex*) cilgain, gwaew y brenin.

Narwal, } *s.* (Al. *narwall*) moruncorn, un-
Narwhal, } corn y môr, uncornbysg.

Nasal, *a.* (Ll. *nasus*) trwynol; perthynol i'r trwyn; ffroenawl.

Nasal, *s.* llythyren drwynol, trwyn-lythyren, llythyren drwyn; tisgyffyr, tisgyffer, trewgyffyr: *pl.* trwynolion, ffroenolion.

Nasalize, *v. a.* trwyncli; seinio drwy y trwyn.

Nasalogist, *s.* trwynofydd.

Nasalogy, *s.* (Ll. *nasus*, a Gr. *logos*) trwynofyddiaeth, athrawiaeth trwynau.

Nascal, *s.* (o'r Ll. *nasus*) offeryn i godi y trwyn.

Nascency, *s.* (Ll. *nascens*) dechreu cynnyrchiad; dechreuoldeb; dechreu, dechreuad, hanfodiad, tarddiad.

Nascent, *a.* yn dechreu bod *neu* hanfod; yn dyfod i fodolaeth; dechreuol, genedigol, genidol; cynnyrchiol.

Naseberry, *s.* math o aeron.

Nasicornous, *a.* (Ll. *nasus* a *cornu*) trwyngorniog, trwyngyrnig; â chorn yn tyfu ar ei drwyn; rhyncornaidd.

Nasiform, *a.* (Ll. *nasus* a *forma*) ar ddull *neu* lun trwyn; trwynaidd, trwynwedd, trwynddulliog.

Nastiness, *s.* budredd, budreddi, brynti, bryntni, bawedi, bewyd, llytrodedd, llytrodrwydd, ffieidd-dra, aflanweithdra, mefl.

Nasty, *a.* (anhysbys: Al. *nass?*) budr, brwnt, bawlyd, swga, swglyd, swla; aflan, ffiaidd, aflwys; serth, serthus.

Nasus, *s.* (Ll.) trwyn: math o bysg â geir yn y Donwy, y Rhein, ac ereill o afonydd mawrion yr Almaen.

Nasute, *a.* (Ll. *nasutus*) cymhen, beirniadol, rhyfeirniadol, beigar, hyfeiol, cipgar, nais.

Natal, *a.* (Ll. *natalis*) genedigol, genidol, genol, anianol; perthynol i enedigaeth.

One's natal day—dydd genedigaeth un.

Natal place—genidfa, genidfan, genidle, lle genedigol; lle genedigaeth un; y lle y ganwyd un ynddo; cynfyl.

Natalitial, } *a.* (Ll. *natalitius*) genedigol, gen-
Natalitious, } idol; perthynol i ddydd genedigaeth; perthynol i le genedigaeth; genidfaol; â gyssegrwyd i enedigaeth.

Natals, *s. pl.* genidolion; amser a lle genedigaeth.

Natant, *a.* (Ll. *natans*) nofiol, nofiadol, ar nawf, nofiannol.

Natation, *s.* (Ll. *natatio*) nawf, nofiad, nofiant, nofiedigaeth.

Natatores, *s. pl.* (Ll.) nofadar, nofiedyddion, adar nawf, adar nofiol.

Natatory, *a.* nofiannol, nofiadol, nofiedigol; yn cynnorthwyo i nofio.

Natatory organs—peiriannau nawf, peiriannau nofiannol.

Natch, *s.* (cyfnewidiad o *notch*) y rhan o ych rhwng y llwynau a'r gloren.

Nathless,† *ad.* (S. *natheles*) er, er hyny, anllai.

Nathmore,† *ad.* (S. *na, the,* a *more*) nid mwy, dim mwyach, dim mwy, byth ond hyny.

Nation, *s.* (Ll. *natio*) cenedl, cenel, cenal, ciwdod, cenedlaeth, cystlynan, cystlynaeth, achen.

The Welsh nation—cenedl y Cymry, y genedl Gymreig.

One of the English nation—un o genedl y Seison.

Neurotic, *s.* clefyd y gïau, afiechyd y gïau, gïeuwst, haint y gïau; cyffyr da yn nghlefyd y gïau, gigyffyr.

Neurotomical, *a.* giddifynol; perthynol i ddifyniaeth y gïau.

Neurotomist, *s.* difynwr y gïau, giddifynwr.

Neurotomy, *s.* (Gr. *neuron* a *tomé*) difyniaeth y gïau, difyniad y gïau, giddifyniaeth, giddifyniad.

Neuter, **Neutral,** *a.* (Ll. *neuter, neutralis*) anmhleidiog, anmhleidiol, anmhlaid, anmhleidgar, diduedd, annhueddol; a'r nid yw o'r naill blaid na'r llall; a'r nid yw o neb plaid; a'r nid yw o un o'r ddwyblaid *neu* ddwyliw; annhueddol *neu* ddiduedd at yr un o'r ddwy blaid; yn sefyll ar ei ben ei hun; yn sefyll yn y canol; yn sefyll rhwng dwy blaid; yn sefyll yn gymhwys *neu* gydbwys rhwng y ddau; a'r nid yw o un ochr, tu, *neu* blaid mwy na'i gilydd; a'r ni pherthyn i un o'r ddau; canolig.
Neuter gender—canolryw, y ganolryw, y neodr, ystlen rydd, rhyw anystlen, rhyw anmhlaid.
Verb neuter—perwyddiad rhydd, parwyddiad rhydd, berf rydd, perwyddiad canolig, berf ganolig, berf ddïwrthtrych, perwyddiad annhrofiadol, peryfiad annhrofiannol, perwyddiad annhrofiannus.
He stands neuter—y mae efe yn sefyll yn y canol; y mae efe yn sefyll ar ei ben ei hun.

Neuter, *s.* anmhleidydd, anmhleidwr, anmhleidiwr, gwr anmhlaid, dyn anmhlaid, dyn anmhleidiog, canolydd, medsafwr; canolryw, neodr; creadur na bo na gwryw na benyw: *pl.* anmhleidogion.

Neutral, *s.* anmhleidydd, anmhleidwr, anmhleidiwr, gwr anmhlaid, dyn anmhlaid, un anmhlaid, dyn anmhleidiog; canolydd.

Neutralist, *s.* anmhleidydd, gwr anmhlaid.

Neutrality, *s.* anmhleidioldeb, anmhleidiolrwydd, anmhleidiolder, anmhleidiogrwydd, anmhleidgarwch, anmhleidiaeth, anmhlaid; annhuedd, diduedddrwydd; canolsafiad, canolsafiaeth; canoligrwydd; anmhleidwyr.

Neutralisation, *s.* aneffeithiolad, anmhleidiolad, gwrthweithredïad, gwrtheffeithiad; gwneuthuriad yn ddïeffaith.

Neutralize, *v. a.* diffrwytho, dïeffeithio, aneffeithioli, gwrthweithredu, gwrtheffeithio, gwrtheffeithioli; gwneuthur yn ddïeffaith *neu* anmhleidiog; anmhleidioli.

Neutralizer, *s.* gwrthweithredydd, gwrtheffeithydd, gwrtheffeithiolydd.

Neutralizing, *a.* gwrtheffeithiol, gwrthweithredol; anmhleidiogol. [olynol.

Neuvaines, *s. pl.* (*Ff.*) gweddïau naw dydd

Never, *ad.* (*S. nafre*) byth ni, byth nid, byth nis; erioed ni, erioed nid, erioed nis; ni... byth; nid.. byth; nis...byth; ni...erioed; nid...erioed; nis...erioed; ni...un amser; nid ...un amser; nis...un amser; ni...yn dragywydd; nid...yn dragywydd; nis...yn dragywydd; erioed; byth; ni, nid, nis; na, nad, nas.
Never (in composition)—*di-, an-.*
Never at all—nid oll; nid un amser; nid erioed; nid byth. [tipyn.
Never a whit—nid...un gronyn; nid...un
Never the (before an adjective of the comparative degree)—dipyn, o dipyn, ronyn, o ronyn, fymryn, o fymryn, ddim, o ddim, o chwythryn.
Now or never—bellach neu byth.
It will never be—byth ni bydd.
Never a—ni, nid, nis; na; neb, nebun; dim.
He said never a word—nid ynganodd efe air *neu* un gair; ni ddywedodd efe air *neu* un gair.
He answered him to never a word—nid atebodd efe iddo un gair (*Mat.* xxvii. 14).
There is never a one here—nid oes yma mo'r un.
I understood never a word—ni ddeallais i gymmaint a gair.
Never a barrel the better herring—nid oes o honynt un da; nid oes o honynt mo'r un da; nid gwaeth pa un à gymmeroch, na pha un à adawoch; da y gweddai y bêr i'r golwyth.
Better late than never—gwell hwyr na hwyrach.
He came never the sooner for that—ni ddaeth efe dipyn gynt *neu* yn gynt oblegid hyny.
I am never the nearer *or* better—nid wyf ronyn nes *neu* haws; nid wyf fi nes *neu* haws o ronyn; nid wyf fi yn nes *neu* haws o ronyn; nid wyf fi ddim yn nes; nid wyf fi yn nes o ddim.
It will never cease—ni phaid byth; byth ni phaid.
There never was his like—erioed ni bu mo'i fath; ni bu erioed mo'i fath.
I never knew you—nis adnabum chwi erioed.
He shall never suffer the righteous to be moved—ni ad i'r cyfiawn ysgogi byth.

He that doeth these things shall never be moved—à wnelo hyn, nid ysgogir yn dragywydd.

Ever learning, and never able to come to the knowledge of the truth—yn dysgu bob amser, ac heb allu dyfod un amser i wybodaeth y gwirionedd.

Never so, } er.
Ever so, }

Be it never so good—er dâed fyddo; er cystled fyddo.

Never so big, } er maint, er cymmaint.
Never so great, }

Never so high—er cyfuwch, er ucheled, er mòr uchel.

Never so many, } er lluosoced, er amled,
Ever so numerous, } er mòr aml.

Charming never so wisely, } er cyfarwydded
Charm he never so wisely, } fyddo y swynwr (*Salm* lviii. 5).

Never-ceasing, *a.* dibaid, didor, diball, dïorphwys, didawl, gwastadol, parhäus, diddiwedd, diderfyn, annherfynol; na dderfydd byth.

Never-dying, *a.* anfarwol, bythfywiol, bywfyth; yn byw byth; na bydd marw byth *neu* yn dragywydd.

Nevertheless, *ad.* (*never, the,* a *less*) er hyn i gyd, er hyny i gyd, er hyn oll, er hyny oll, er hyn, er hyny, er, anllai, nid anllai, nid yn llai, eto, eton, eisoes, eisys.

New, *a.* (S. *neow;* Al. *neu;* Ll. *novus*) newydd; diweddar; crai, cri, croew, ffresg, ffres.

Brand-new, } newydd tanlliw, newydd tan-
Span-new, } lli, newydd danlli, newydd
Quite new, } grai, tanlliw, tanlli; tanllachar.

Somewhat new—newyddaidd, go newydd, lled newydd, crŷn newydd.

New cloth — brethyn crai, brethyn cri, brethyn newydd.

To make new—newyddu, newyddio, newyddiannu, gwneuthur yn newydd, adnewyddu.

To make new again—adnewyddu, ail newyddu.

A new beginner — un newydd ddechreu, newyddian. [wella.

New-healed — newydd-wella, newydd ei

New-married — newydd-weddog, newydd briodi.

New-made—newydd-wneuthur, newydd ei wneuthur; à wnaed o newydd.

New,† *v. a.* newyddu, newyddio, newyddiannu, gwneyd yn newydd.

Newborn, *a.* newydd-eni, newydd-anedig, newydd-enedig, newydd ei eni.

New-coined, *a.* newydd-fathedig, newyddfath; à fathwyd yn ddiweddar.

New-coined words — geiriau newyddfath; dyfeisiriau diweddar *neu* newydd; geiriau newydd-fathedig; geiriau bathedig newyddion; batheiriau newyddion.

New-comer, *s.* un newydd-ddyfod, newydd-ddyfodiad, newydd-ddyfodog.

Newel, *s.* (Ff. *noyau*) grisbost, grisgylch, grisgant, piler grisiau, gwerthyd grisiau tro, canolbost grisiau tro; †newyddrwydd, newyddbeth.

Newfangle,† *v. a.* (*new* a *fangle*) cyfnewid drwy ddwyn pethau newydd i mewn; newyddu, newyddiannu.

Newfangled, *a.* newyddffurfiog; newydd-goeg; à ddychymygwyd yn ddiweddar; coegffurfiog, coegffurfiedig, coegwych; newydd, newyddus.

There are some so newfangled, that they would innovate all things—y mae rhai â'u gwŷn gynnmaint ar bob ammeuthyn, fel y chwennychent newyddu pob peth.

Newfangledness, } † *s.* newyddffurfiogrwydd,
Newfangleness, } newydd-der; ffol serch ar newyddrwydd; newydd wyniau.

Newing, *s.* buryn, swyf, swyñ.

Newish, *a.* newyddaidd, lled newydd, go newydd, crŷn newydd.

Newly, *ad.* yn newydd, o newydd, o'r newydd, yn ddiweddar, &c.

New-model, *v. a.* newyddlunio, newyddffurfio; llunio *neu* ffurfiaw o newydd.

Newness, *s.* newydd-deb, newydd-der, newyddrwydd, newydd-dra, newyddedd; croewder, irder, irdra, ffresgrwydd, gwyrfedd, tirfder; diweddarwch.

News, *s.* (o *new, a.*) newyddion, newydd; chwedlau, chwedl; newyddiadur.

Good news — newydd da, newyddion da; llawen chwedl, llawenchwedl, llonchwedl; coelfain.

Bad news, } newydd drwg, newyddion
Ill news, } drwg; oerchwedl.

What news?—pa newydd sy? pa newyddion sydd? pa newydd? pa newyddion?

What news to-day?—pa newydd heddyw? pa chwedlau heddyw?

It is natural for a man to ask for news—gnawd i ddyn ofyn chwedlau *neu* newyddion.

Local news—newyddion lleol, newydd lleol.

Newsboy, *s.* newyddorwas, newyddurwas, newyddwas; hogyn à gario ac à wertho newyddiaduron.

Newsmonger, *s.* masnachwr, masnachydd, heliwr, *neu* helŷwr newyddion; arweiniwr *neu* heliwr chwedlau.

Newspaper, *s.* newyddiadur, papyr newydd, papyr newyddion, newyddor, newyddur, newyddlen; newydd-grawn.

New-style, *s.* y cyfrif newydd.

Newsvender, *s.* gwerthwr newyddiaduron, gwerthydd papyrau newyddion, newyddwerthwr.

Newt, *s.* (S. *efeta,* gyda 'r bannod *an*) geneugoeg, geneu goeg, madfall, madgall, madrwy, modrwyen, modrwyfil, llostrwy, llostrwyen, bryntyn.

New-year's Day, *s.* dydd calan.

New-year's Gift, *s.* calenig.

Next, *a.* (S. *next, nexta;* Al. *nächst*) nesaf, agosaf, cyfnesaf.

Next, *ad.* yn nesaf, yn agosaf; yn y lle nesaf.

What comes next?—beth a ddaw nesaf? beth a ddaw yn nesaf?

Next to the bishop is the dean—yn nesaf at yr esgob y mae y deon; ar ol yr esgob y mae y deon.

Nias, *s.* (Ff. *niais*)=*Eyas.*

Nib, *s.* (S. *neb, nebb*) pig, gylfin, gylfant, gylf; trwyn; blaen, pwynt; geneu, safn.

Nib of a pen—blaen, dyfiaen, *neu* big pin ysgrifenu; pig *neu* flaen ysgrifell.

Nibbed, *a.* gylfog, gylfinog; âg iddo big *neu* ylfin.

Nibble, *v.* (o *nib*) deintio, goddeintio, gognoi,

dargnoi, mallgnoi, tamigo, gofrathu; cnithio; cnofain; gofeio, lledfeio, nodi mân feiau, pigo beisu, beio.
To nibble (at a bait)—cnithio, goddeintio.
Nibble, *s.* goddeintiad, deintiad, cnithiad, dargno, dargnoad, tamigiad, tamig.
Nibbler, *s.* goddeintiwr, goddeintydd, cnithiwr, dargnöwr, dargnöydd, tamigydd; cecryn.
Nibblingly, *ad.* dân ddeintio, dân gnithio, dân oddeintio, dân ddargnoi.
Nice, *a.* (S. *nesc, hnesc;* Is. *nesch*) moethus, mwythus, danteithiol, ammeuthyn, ammoethyn; lledneis, destlus, nais, dillyn, destl, misi, llerw, pefr, cain, dain, deiniol, teg, tlws, gwych, pert; manwl, manol, cywrain, cywraint, cynnil, dichlyn, cywir; tra manwl, gorfanwl, rhy fanwl, rhy ddillyn, rhy gynnil, gorddichlyn; dicra; tyner, plydd, blydd, esmwyth, meddal, meddf; main, mân, addfeinus; anturus, peryglus; yn neupen y dafol, mantol a mantol, breidd-bwys, prin-bwys; wrth fin y gyllell; ar ben y pin; dibwys; coeth; gwân, ffol.
To make nice, } bod yn lledneis, yn ddich-
To be nice, } lyn, *neu* yn ddicra, &c.
More nice than wise—destlach nag a fo da iddo; destlach nag a fo da ar ei les; rhy ddestl, rhy nais.
Nicely, *ad.* yn foethus, &c.; yn wych, yn wiw, yn dda, yn rhagorol, yn ddeheu, yn y modd goreu, yn hardd, yn ofalus.
Niceness, *s.* moethusder, moethusdra, mwythusrwydd; lledneisrwydd, destlusrwydd, dillynedd, neisrwydd; manyldeb, manylder, manyldra, manylwch, manyledd, manoldeb, cywirdeb, cywreinrwydd; gorfanyledd, gorfanylder, rhyddichlynedd, dicräwch, dichlynrwydd, &c.
Nicety, *s.* manylder, manyldra, manylrwydd, manyledd, manylwch, manoldeb, manolrwydd, cywreinrwydd, cywreindeb, lledneisrwydd, destlusrwydd, destledd, dillynedd, neisrwydd; rhyddichlynedd, gorfanyldeb, gorfanolrwydd, tramanyledd; manylwaith, cywreinbeth, manylbeth, cywreinwaith.
Niceties — danteithion, ammeuthynion, moethau, ammoethau, anewynion, mwythau, blysion, melusion, dantoiddfwyd; dillynion, ceinion; manylion.
Niceties of speech—dillynion ymadrodd, dichlynion ymadrodd, ceinion ymadrodd, manylion ymadrodd.
Niche, *s.* (*Ff.*; It. *nicchia*) cloer; eilunfa, eilunfedd; cenedd mewn magwyr i osod delw *neu* eilun ynddo.
Nichar, } *s.* math ar goed; Niccar.
Nickar, }
Nick, *s.* (ysbryd y dyfroedd, yn chwedlofyddiaeth y Gogledd) yr ysbryd drwg, y gwr drwg.
Old Nick—yr ysbryd drwg, y gwr drwg, yr hen fachgen, yr Andras, yr hen Andras, Malen.
Nick, *s.* (Sw.; Is. *knik;* Al. *nicken*) yr iawn amser, yr iawn adeg, yr iawn bryd; amser penodol.
In the nick of time—ar yr iawn adeg; ar yr iawn bryd; ar yr unig fynyd; ar y mynyd prydlawn; mewn pryd ac amser; ar yr adeg.
Nick, *s.* (Al. *knick*) ergyd ennillgar, ergyd hapus; † rhwgn, rhint, rhic, rhygn, bwlch, crif, gwlf.
Nick, *v. a.* taraw, taro, taro wrth, cyffwrdd â; cyffwrdd â pheth o wir ffawd; cyffwrdd â pheth ar awr dda; taro wrth beth o wir ffawd; taro wrth beth ar awr dda; taro yr hoel ar ei phen; taro y nod; iawn amseru; gwneuthur ar yr iawn bryd; †somi, siomi, twyllo; †cyfladd, cyttaro, sutio.
To nick a business—gwneuthur gorchwyl ar yr iawn bryd; cyffwrdd â'r amser *neu* yr adeg ar orchwyl; cyffwrdd â'r amser i wneuthur gorchwyl; cyffwrdd â'r adeg i wneyd gorchwyl.
He nicked the matter to a nicety—efe a gafodd allan yr unig amser *neu* bryd i gyflawnu hyn o orchwyl.
To nick a watch—tynhau *neu* lacsu twythell oriawr, fel y cerddo yn gynt *neu* ynte yn arafach; rheoleiddiaw oriadyr.
Nick, *v. a.* (Al. *knicken*) rhygnu, rhicio, rhintachu, rhintio, gylfu, hacio; tori rhygnau yn mheth; tori rhygnau yn nghynffon ceffyl.
Nicked, *p.p.* rhygnedig, &c.; rhygnog, rhiciog, rhintach, bylchog.
Nickel, *s.* (Al.) nicl=math ar ddelid gwŷn neu gochwyn, tra chaled, ac anhawdd ei buro.
Nickelic, *a.* niclig; yn cynnwys nicl.
Nicker, *s.* (o *nick*) un â achubo yr adeg i chwilena; un â achubo yr adeg i wneuthur castiau bryntion; diffaethwr.
Nick-knacks, *s. pl.* anoberion, coegbethau, gwaelbethau, ffrilion.
Nickname, *s.* (*Ff. nique,* Al. *necken,* a *name*) llysenw.
Nickname, *v. a.* llysenwi; rhoi llysenw ar.
Nicotian, *a.* (oddi wrth Ioan *Nicot,* yr hwn a ddug fyglys gyntaf i Ffrainc, yn 1560) perthynol i ffwgws *neu* fyglys; myglysaidd.
Nicotian, *s.* myglys, ffwgws, tobacco, tybacco.
Nicotiana Tabacum, *s.* myglys, ffwgws, tobacco, tybacco.
Nicotianin, } *s.* myglysnur.
Nicotianine, }
Nictate, *v. n.* (Ll. *nicto*) ysmicio, ysmician, amrantu, llygadgamu, amneidio â llygad, gogau llygad.
Nictating, } *a.* ysmiciol, ysmicianllyd.
Nictitating, }
Nictation, } *s.* ysmiciad, amrantiad, llygad-
Nictitation, } gamiad, amneidiad â llygad, gogauad llygad.
Nide,† *s.* (Ll. *nidus*) nythaid, nythlwyth.
Nidge, *v. a.* trwsio ceryg â morthwyl blaenllym yn lle eu naddu â chŷn; trwsio â morthwyl; morthwylio ceryg.
Nidget,† *s.* llyfrgi, llyrfwas, cachgi.
Nidificate, *v. n.* (Ll. *nidifico*) nythu, gwneyd nyth, ymnythu.
Nidification, *s.* nythiad, nythawd, gwneuthuriad nyth, adeilad nyth.
Niding,† *s.* (Sw. a D.; S. *nithing*) cachgi, cachan, llyrfwas, ciliwr, cilgi.
Nidor, *s.* (Ll.) arogl, sawyr, sawr, arogledd.
Nidorosity, *s.* brytheiriad gydag arogl cig rhost heb ei dreulio.
Nidorous, *a.* tebyg i arogl *neu* sawyr cig rhost; tebyg ei flas i gig rhost.
Nidulant, *a.* (Ll. *nidulor*) nythol; yn gorwedd yn rhydd mewn bywyn *neu* bân.
Nidulation, *s.* nythdrigiant, nythdrigiad, nythdrig.
Nidus, *s.* (Ll.) nyth.
Niece, *s.* (*Ff. nièce*) nith; *pl.* nithoedd.

Niello, *s.* (It.) brithwaith aur neu arian; delfrithwaith.

Niffle,† *s.* (Norm.) anober, coegbeth, tegan, ffril.

Niggard, *s.* (Al. *knicker*) cybydd, crintachwr, carl, cerlyn, crinwas, mab y crinwas, anhael, gwr crin, dyn afrull, anghawr.

Niggard, } *a.* cybyddlyd, cybyddus, crintach,
Niggardly, } crintachlyd, crinwasaidd, anhael, llawgaead, llawgaled, cyrrith, cyrrithus, rhygynnil, trachynnil, anhylad, afrull, cynnil, crin, bawlyd.

Niggardly person=*Niggard, s.*

Niggard, *v. a.* crintachu, cynnilo, rhygynnilo, tolio, tolio ar; rhanu neu gyfranu yn gyrrith i; cadw wrth fin y gyllell; gwasgu.

Niggardise,† *s.*=*Niggardliness.*

Niggardish, *a.* lled gybyddus, go gybyddus, lled grintach, &c.; cybyddaidd, crintachaidd, cyrrithaidd.

Niggardliness, *s.* cybydd-dod, cybydd-dra, cybyddusrwydd, cybyddlydrwydd, crintachrwydd, cyrrithrwydd, cynnilwch, rhygynnilwch, trachynnilder, afrullder, cybyddiaeth.

Niggardly, *ad.* yn gybyddus, &c.

Niggardness,† *s.*=*Niggardliness.*

Niggardy,† *s.*=*Niggardliness.*

Niggle,† *v.* ofera, simera, gwagedda; chwareu gwrhewcri âg un; gwatwar.

Niggler,† *s.* oferwr, simerwr, gwageddwr, anoberwr.

Nigh, *a.* (S. *neah, neahg, neh*) agos, cyfagos; wng, wnc, eiddwg, eiddwng, cyfyl, ymwng.

Nigh to—agos at, yn agos at, agos i, ar ael, yn ael, yn min, ar fin, ger llaw, ar bwys, ar gyfyl; heb fod neppell.

Nigh, *ad.* yn agos, yn gyfagos, &c.; nid neppell; braidd, o fewn ychydig, yn mron, bron.

To draw nigh — agoshau, agosi, neshau, nesu, dynesu, dyneshau; tynu yn agos; bod yn agos; dyfod hyd; dyfod yn agos; dyfod ger llaw; dawodi; tynu at.

They caused themselves to draw nigh together—cydymnesasant.

Nigh,† *v.* agoshau, neshau, dynesu; dyfod yn agos i; agoshau at, tynu at.

Nighly, *ad.* yn agos, yn mron, bron, braidd, o'r braidd, o fraidd, o fewn ychydig.

Nighness, *s.* agosrwydd, cyfagosrwydd, agosedd, nesder, nesrwydd, yngder, yngdra.

Night, *s.* (S. *niht;* Al. *nacht;* Ll. *nox;* Gr. *νυξ*) nos; noswaith, noson, nosig.

All night, } yr holl nos; trwy gydol y
All the night, } nos; trwy y nos; dros y nos; dros nos.

All night long—trwy gydol y nos; trwy gydol nos; trwy gorff y nos; trwy gorff cydol y nos; ar hyd y nos; yn hyd y nos.

For a night—dros nos, dros noswaith.

A certain night—noswaith, noson, nosig.

By night— y nos, yn y nos, ar hyd nos, o hyd nos, ar hyd y nos, liw nos, wrth liw nos.

At night—yn y nos, y nos; ar hyd nos; yn yr hwyr; yr hwyr.

By night and by day—ar hyd nos ac ar hyd dydd.

Night by night, } bob nos, beunos, beu-
Every night, } noeth, peunoeth; nos
Nightafter night, } yn ei nos; o nos bwygilydd; bob nos ar ol eu gilydd.

This night, } y nos hon, heno, henoeth.
To-night, }
Last night, } neithwyr.
Yesternight, }

The night before last—echnos, ymannos.

A long night—hirnos.

A dark night—nos dywell, nos dywyll, nos anoleu.

A fine night—meinnoeth, meinnos, noswaith deg, noson hyfryd.

A moonlight night—noswaith oleu leuad, nos oleu leuad, noswaith loergan, noswaith loerwen, nos oleu, nos ganaid, noswaith oleu, noswaith ganaid.

The three light nights, } y teirnos
The three moonlight nights, } oleu.

Starlight night—noswaith serloew, noswaith serog, nos serog, noswaith serliw, noswaith serlo, noswaith serlog.

The still of the night—dyfnder nos, dyfnder y nos, dewaint, cefnaint nos, dystawrwydd nos.

A summer night—hafnos, nos haf.

A winter night—gauafnos, nos auaf, nos gauaf.

A long winter night—hirnos gauaf, hirnos auaf.

The space of three nights — teirnos; ysbaid teirnos; ysbaid tair nos.

The dead of the night — dyfnder nos, cefnaint nos, canol nos, trymder nos, perfeddion y nos, dewaint.

To grow towards night, } nosi, hwyrhau;
To grow night, } myned yn nos; myned yn hwyr; tynu yn hwyr.

It grows towards night—mae yn nosi.

Late at night, } ar lawer o'r nos; am
Far in the night, } lawer o'r nos; yn hwyr yn y nos; yn nghefnaint nos.

A night's lodging—lletty noswaith, lle noswaith; lle neu letty dros nos.

To lodge all night, } aros, trigo, neu letya
To stay all night, } dros nos.

To spend the night—bwrw y noson; bwrw y noswaith; bwrw y nos; treulio y nos.

To make night, } aros nes ei myned yn
To stay till night, } nos; aros nes ei myned yn hwyr; aros tan y nos.

The edge of night — min nos, min y nos, min yr hwyr.

Relating to night—nosawl, nosol; perthynol i'r nos; yn perthyn i noswaith.

To sit up all night—cadw gwyl bentan; gwylio gwyl bentan.

Nightbird, *s.* aderyn nos, aderyn y nos: *pl.* adar y nos, nos adar.

Nightblindness, *s.* nos-ddallineb, nos-ddallni, dallineb nosawl, dallineb nos.

Nightborn, *a.* nosanedig, nosenedig; â aned yn y nos.

Nightbrawler, *s.* terfysgwr nos.

Nightcap, *s.* cap nos, nosgap.

Nightcrow, *s.* brân nos, brân y nos.

The night-crow—y frân nos.

Nightdew, *s.* gwlith y nos, gwlith nos, nos-wlith.

Nightdog, *s.* ci nos, nosgi, gwylgi.

Nightdress, *s.* gwisg nos, noswisg, nos-dwyg.

Nighted, *a.* nosedig; tywyll, gwyll, cymylog, du.

Nightfall, *s.* cyfnos, y cyfnos, chwinsaf, chwinsa, chwinsang, noswyl, yr hwyr, y diwedydd, ucher. [deithiol.

Nightfaring, *a.* nosgrwydr, nosgrwydrol, nos-

Nightfire, *s.* ellylldan, hudlewyrn, hudlewyn, malldan, tân ellyll, tân llwynog; tân nos.
Nightfly, *s.* noswibedyn, nosgleren, gwibedyn nos.
Nightflyer, *s.* nos-hedydd, hedegydd nosol.
Nightgown, *s.* twyg nos, hug nos, gŵn nos, coban nos, nos-dwyg.
Night-hag, *s.* gwiddanes nos, ellylles nos, gwyll nos, noswyll, hunllef, gwyll.
Night-hawk, *s.* brân nos (*Lef.* xi. 16), brân y nos; noswalch; rhodor America.
Night-heron, *s.* crëyr nos, crëyr y nos.
Nightingale, *s.* (S. *nihtegale;* Al. *nachtigall*) eos, yr eos.
A little nightingale, } eosig, eos fach, eos
A young nightingale, } fechan, cyw eos.
Like a nightingale—eosaidd, eosig.
Nightish, *a.* nosaidd; nosol; perthynol i'r nos.
Nightjars, *s. pl.* noswennoliaid, rhodorion, adar y droell, rhodwyr.
Nightless, *a.* dinos, di nos, heb nos.
Nightly, *a.* nosol, nosawl; nosweithiol; pennosol, peunos, peunoeth; à wneir yn y nos.
Nightly, *ad.* yn y nos, y nos; ar hyd nos, ar hyd y nos, o hyd nos, liw nos, wrth liw nos; bob nos, beunos, beunoeth, yn beunosol.
Nightman, *s.* carthwr geudai, cothynwr, coddynwr.
Nightmare, *s.* (*night*, a S. *mara*) hunllef, yr hunllef; gwyll. [nos.
Nightpiece, *s.* noeddarlun, nosarlun, darlun
Nightrail,† *s.* (*night*, a S. *regl*, neu *hrægle*) toryn nos, llaeswisg nos, arwisg nos, mantell nos.
Nightraven, *s.* brân nos, aderyn y corff.
Nightrest, *s.* gorphwysfa nos, gorphwysdra nosol, seibiant nosol.
Nightrobber, *s.* ysbeiliwr nos, ysbeilydd nosol; un à ysbeilio yn y nos.
Nightrule, *s.* terfysg nos, terfysg nosol.
Nightshade, *s.* (S. *nihtscada*) cysgiadyr, mochlys, llysiau y moch.
Common nightshade, } mochlys cyffredin,
Garden nightshade, } mochlys grawnddu; llysiau y moch, mochlys.
Woody nightshade — elinog, mynyglog, manyglog.
Deadly nightshade—codwarth.
Enchanter's nightshade — swynyddlys, swynlys, llysiau Stephan, llysiau Ystyffan.
Common enchanter's nightshade — swynyddlys cyffredin.
Nightshining, *a.* yn dysgleirio yn y nos; nosglaer, nosloew.
Nightsoil, *s.* noseryd, cothweryd, ysgothion, ysgarthion; gweryd geudai neu ysgothfaoedd.
Nightspell, *s.* swyn rhag damweiniau nos; nos-swyn.
Nightvision, *s.* gwelediaeth nos.
Nightwalker, *s.* nosgerddwr, nosgerddedwr, nosgerddedydd, rhodianwr nos; gwill, gwilliad; gwyllgi; noswilliad; gwyllast; noswilliades; putain, huren; putain i'r neb a'i myno.
Nightwalking, *a.* nosgrwydr, nosgrwydrol, nosrodiol, noswibiol; yn rhodio neu dramwy y nos.
Nightwalk, *s.* nosrawd, nosgrwydr, nosgerdded, noswib.
Nightwalking, *s.* nosgerdded, nosgrwydr, noswib, nosrawd, nosrodiad.
Nightwanderer, *s.* nosgrwydrwr, nosgrwydrydd, nosgrwydryn, nosgrwydriad, nosgrwydrai, noswibiad, gwibiad y nos, crwydrwr nos, rhodianwr nos.
Nightwandering, *a.* nosgrwydr, nosgrwydrol, noswibiol, noswill.
Nightward, *a.* tua'r nos; yn tynu tua'r nos.
Nightwatch, *s.* gwyliadwriaeth nos, gwylfa nos, noswylfa.
Nightwatches—gwyliadwriaethau y nos.
Nightwatcher, *s.* gwylliwr y nos; noswilliad, noswill; noswyliwr drwg ei amcan; gwyllgi.
Nightwitch, *s.* dewines nos, gwyll nos, gwiddones nos, gwiddanes nos, noswylles, noswyll.
Nigrescent, *a.* (Ll. *nigresco*) yn duo, yn tywyllu; yn myned yn dywyll, yn myned yn ddu; duaidd, caddugog, gwyllog.
Nigrification, *s.* (Ll. *niger* a *facio*) duad, dueiddiad; gwneuthuriad yn ddu neu dywyll.
Nigrin, } *s.* (o'r Ll. *niger*) mwn Titanium.
Nigrine, }
Nihilism, } *s.* (o'r Ll. *nihilum, nihil*) dimedd,
Nihility, } diddymedd, diddymder, diddymrwydd, diddymdra, dimrwydd, anendid.
Nill,† *v.* (S. *nillan;* Ll. *nolo*) bod heb fynu neu wyllysio; bod yn anfoddlawn neu anwyllysgar; anwyllysio, anewyllysio; gwrthod, llysu, pallu, nagu. [goethi.
Nill, *s.* gwreichion pres wrth ei brofi neu ei
Nilometer, *s.* (Gr. *Neilos* a *metron*) Neil-fydr, Neil-fesur=offeryn i fesur codiad y dwfr yn yr afon Neilus.
Nim,† *v. a.* (S. *neman, niman*) dwyn, lladrata, chwiwladrata, chwiwbigo, ysbeiliota, chwiwian.
Nimbiferous, *a.* (Ll. *nimbifer*) à ddyco ddihinedd a thymhestl; à ddyco gymylau duon, gwlaw, ac ystormydd.
Nimble, *a.* (C. *nwyf?* D. *nem?*—Dr. *Webster*) gweisgi, gwisgi, sionc, heini, heinif, bywiog, cyflym, buan, chwimmwth, esgud, esgeiddig, esgaidd, mwth, gwaisg, chwai, brysg, maredog, chwyrn, (*f.* chwern), buandroed, cyflymdroed, pablaidd, clic, ewybr, arhoew, blawdd, hydwyth.
Nimble-footed — buandroed, cyflymdroed, troedysgafn, troedfuan; cyflym, buan, sionc, neu weisgi ei droed.
Nimbleness, *s.* buander, cyflymder, cyflymdra, cyflymedd, esgudrwydd, sioncrwydd, sioncedd, chwimmwthder, gweisgrwydd, heinifrwydd, clicrwydd, mythder, pabledd, bywiogrwydd, esgeiddrwydd.
Nimbless,† *s.*=*Nimbleness.*
Nimbly, *ad.* yn weisgi, yn sionc, yn chwimmwth, &c.
Nimiety,† *s.* (Ll. *nimietas*) rhysedd, gormodedd, gormodd, rhy, rhwy.
Nimious,† *a.* (Ll. *nimius*) gormodol, gormod, gormodd, rhyfawr.
Nimmer,† *s.* (S. *nimman*) lleidr, lleidryn, chwiwleidr, chwilotyn.
Nincompoop, *s.* (llygriad o'r Ll. *non compos*) cadafael, hurthgen, penhyrddyn, (*pl.* penhyrddod), ffwlcyn, (*f.* ffolcen), hurtyn, drel, ynfydyn, ffwl, cuall, penbwl, hurtan, clwpa, lolyn, (*f.* lolen).
Nine, *a.* (Ll. *nonus;* Al. *neun;* Goth. *niun*) naw; namyn un deg.
Nine syllables—nawsill, naw sill.
Of nine syllables—nawsillog, nawsill, nawbanog, nawban.

Nine times—nawgwaith, naw gwaith, naw o weithiau.
Nine times so much — y naw cymmaint, cymmaint naw gwaith.
Nine times so many—y naw cynnifer, cynnifer naw gwaith.
Nine sorts—nawryw, nawrhyw, naw rhyw, naw math.
Made of nine sorts—nawryw.
Nine degrees—naw gradd, nawradd.
Nine days—naw diwrnod, naw niau, naw dydd.
Nine and twenty—naw ar ugain.
Nine and twentieth, Twenty nine, } nawfed neu nawed ar ugain; ugeinfed a naw.
Nine and thirty — trideg a naw, naw a thrideg, pedwar ar bumtheg ar ugain, namyn un deugain.
Nine thousand—naw mil, nawmil.

Nine, *s.* naw.
The nine—y naw=y 9 Awenes.

Ninefold, *a.* nawplyg, naw dyblyg, nawgwaith, cymmaint naw gwaith.

Nineholes, *s. pl.* nawtwll, chware nawtwll.

Nine Men's Morris, *s.* ceilys, chware ceilys, chware nawpin.

Ninepence, *s.* naw ceiniog, nawceiniog=enw darn o arian bath gynt.

Ninepins, *s. pl.* ceilys, nawpin chware; chware ceilys, chware nawpin: *sing.* ceilysyn.
To play at ninepins — chwareu ceilys, chwareu nawpin, chwareu bwl a cheilys, tafiu bwl a cheilys.

Ninescore, *a.* naw ugain, nawugain.

Ninescore, *s.* naw ugain, nawugain.

Nineteen, *a.* (S. *nigantyne*) pedwar ar bumtheg, (*f.* pedair ar bumtheg), namyn un ugain, ugain ond un, deg a naw, naw ar ddeg, naw a deg=19.

Nineteenth, *a.* pedwerydd ar bumtheg, pedwarydd ar bumtheg, (*f.* pedwaredd ar bumtheg), degfed a naw, nawfed ar ddeg, naw ar ddegfed, y namyn unfed ugain, ugeinfed ond un.

Ninetieth, *a.* nawdegfed, degfed a phedwar ugain.

Ninety, *a.* nawdeg, pedwar ugain a deg, deg a phedwar ugain=90.
Ninety and nine—nawdeg a naw, namyn un cant, amyn un cant, onid un cant, cant ond un, namyn un pum ugain, amyn un pum ugain, pedwar ugain a phedwar ar bumtheg.
Ninety and nine years old — nawdeg a naw mlwydd oed; onid un flwydd cant; pedwar ugain mlwydd a phedair ar bumtheg oed.
Ninety times — nawdegwaith, nawdeg gwaith, nawdeg o weithiau, dengwaith a phedwar ugain.

Ninny, **Ninnyhammer**, } *s.* (Ysp. *ninus;* Ll. *nanus*) ffwlcyn, (*f.* ffolcen), cadafael, hurthgen, penhyrddyn, cuall, penbwl, ffwl, hurtyn, penffol, symlyn, llelo, penllorcan, brebwl, clwpa, iolyn, (*f.* iolen).

Ninth, *a.* (o *nine*) nawfed, nawed.
Ninth part—nawfed ran, nawedran, nawfedran.
Ninth time — nawfedwaith, nawedwaith, nawfed waith, nawed waith.
Ninth day — nawfed dydd, nawed dydd, nawfettydd, nawettydd.

Ninth, *s.* y nawfed, y nawed.

Nip, *v. a.* (Is. *knippen;* Sw. *knipa*) cnoi, brathu; cnoi ymaith, trychu ymaith; trychu, tocio; trychu âg ewinedd; trychu rhwng dau ewin; trychu â dannedd; deifio; gwywo, peri gwywo, peri diflanu; tymmigo; gwasgu; crimpio, crimeidio, cnowasgu; blino, dygnu; tynu o'r gwraidd (â gefeilan); duchanu, llym wawdio.
Nip it off—tyn ef ymaith; tor ef ymaith; trych ef ymaith.
To nip in the bud—lladd yn yr eginyn; peri gwywo yn y blaguryn; peri methu cyn ffynnu; lladd, mygu, tagu, *neu* fogi yn yr enedigaeth; deifio yn y blagur.
Nip vice in the bud—lladd wŷd yn ei febyd.
His hopes were nipped in the bud — bu farw, marwodd, *neu* trengodd ei obaith yn yr enedigaeth; darfu am ei obeithion yn yr enedigaeth; pallodd ei obeithion cyn cael o honynt eu geni.
To nip the cable—rhwymo y rhaff angor â chyrd *neu* linynau.

Nip, *s.* cno, cnoad, brathiad; gafael; crimp; craff, bledd, gwasg, gwasgfa; craff â dannedd *neu* ewinedd; gafael â dannedd *neu* ewinedd; gwasg *neu* wasgfa dannedd; gwasg *neu* wasgfa ewinedd; ol dant, ol ewin; tymmigiad; tamigiad; trychyn, trwch; trychiad; daif, deifiad; gwawdair, cellweirgno, llym gellwair, cellwair du; trafiwnc, llymaid, llymeidyn.

Nipper, *s.* dant blaen ceffyl, rhagddant, trychddant; trychiedydd, tociedydd;† duchanwr, goganwr.
Nipper-men —y rhai â rwymant y rhaff angor â chortynau.

Nipperkin, *s.* cwpenyn, cwpan bychan.

Nippers, *s. pl.* gefeilan, gefail fechan, craff, gefail; rhwymgyrd.
A pair of nippers—gefeilan, gefail fechan, craff.

Nipping, *p.* cnoawl, brathol, brathlyd; deifiol, yn deifio, gân ddeifio, dân ddeifio; llym, pigoglym, llymbigog, llymdost, tostlym; tociol.
Nipping cold weather — tywydd ducer, rhynllyd, *neu* fferllyd; tywydd oer anoddef; tywydd tostlym, llymdost, *neu* bigoglym.

Nippingly, *ad.* trwy frathu yn dost; yn llymdost, yn dostlym, yn bigoglym, yn llymbigog; ar dduchan; mewn cellwair du, trwy lym gellwair.

Nipple, *s.* (S. *nipele;* bych. o *nib, neb*) didan, diten, tethan, pitan, didi, did, penig bron, pen bron, bronig, penig; teth.

Nipplewort, *s.* cartheig.
Common nipplewort—cartheig gyffredin.

Nis,† *ad.* (*ne* ac *is*) neus, neud, neur, nid yw.

Nisi Prius, *s.* (Ll.) penaglys, cynnyfodlys, llys yr achosion gwiedig; penagwys, cynnyfodwys; gwŷs, gwarant.
Court of Nisi Prius, Nisi Prius court, } penaglys, cynnyfodlys, llys yr achosion gwiedig.
Justices of Nisi Prius—barnwyr penaglys, barnwyr achosion gwiedig, barnwyr cyffredin.

Nislee, **Nyllee**, } *a.* (Ff.) addfain, main, tenau, eul (mewn arfofyddiaeth).
Croes nyllee—croes addfain.

Nit, *s.* (S. *knitu*; Is. *neet*; Al. *nits*) nedden, wy lleuen: *pl.* nedd.
Full of nits—neddog, llawn nedd.
Nitency, *s.* (Ll. *nitco*) dysgleirdeb, claerder, gloewder, gloewineb.
Nitency, *s.* (Ll. *nitor*) ymdrech, ymgais, cais, ymorchest.
Nithing, † *s.* (S.) cachgi, cachan, llyfrwas, adwr, annewryn, un digalon.
Nitid, *a.* (Ll. *nitidus*) dysgleer, gloew, claer, ffloew, llathr, eirian; gwych, pefr, pert, pinc, gwymp, eirig.
Nitrate, *s.* (o *nitre*) blorhalan, blorgris, blorawd: *pl.* blorhalion, blorodion.
Nitrate of potassa, } =*Nitre.*
Nitrate of potash, }
Supernitrate—gorflorhalan, gorflorhal.
Subnitrate—goflorhalan, goflorhal, isflorawd.
Nitrated, *a.* blorhalaidd; cyfunedig â sur blorig.
Nitre, *s.* (Gr. *nitron*; Ll. *nitrum*; Ff. *nitre*) blawr, creighalen, creighalan, halen y graig, nitr.
Spirit of nitre=*Nitric acid.*
Nitric, *a.* blorig, blorin, creighalig.
Nitric acid—sur blorig, blorsur.
Nitric oxide—egrid blorig, egrid blawr, nwy bloraidd.
Nitrification, *s.* bloreiddiad, creighaliad; gwneuthuriad *neu* droad yn flawr.
Nitrify, *v. a.* (*nitre*, a Ll. *facio*) bloreiddio, creighalu; troi *neu* wneuthur yn flawr.
Nitrite, *s.* blorith, blorhalan.
Nitrogen, *s.* (Gr. *nitron* a *gennaô*) blorai=un o ranau cyfansawdd yr awyr.
Nitrogen gas, } blornwy, nwy blorig, nwy
Azotic gas, } blorai; blorai.
Nitrogenous, *a.* bloreiol, bloreiaidd; perthynol i florai.
Nitrohematic, *a.* (Gr. *nitron* a *haima*) blorwaedig.
Nitrohematic acid—sur blorwaedig.
Nitrometer, *s.* (Gr. *nitron* a *metron*) blorfydr, blorfesur, bloriadyr.
Nitromuriatic, *a.* blorhalig.
Nitropicric, *a.* blorchwerwig.
Nitropicric acid—sur blorchwerwig, sur llymchwerw.
Nitrosaccharic, *a.* blorsugrig.
Nitrosaliculic, *a.* blorhelig.
Nitrosulphuric, *a.* blorufelig.
Nitrous, *a.* bloraidd, blorog, creighalenaidd, creighalaidd, nitraidd; perthynol i flawr; yn perthyn i nitr.
Nitrous acid—sur bloraidd.
Nitrous gas—nwy bloraidd, egrid blorig.
Nitrous oxide gas—egridnwy bloraidd, nwy egrid bloraidd.
Nitry, *a.* bloraidd, blorog, creighalaidd, creighalenaidd, nitraidd; perthynol i flawr; yn cynnyrchu blawr *neu* greighalen; llawn blawr, nitr, *neu* greighalen.
Nitters, *s.* (o *nit*) cacynen y meirch.
Nittily,† *ad.* yn lleuog.
Nitty, *a.* (o *nit*) neddog, llawn nedd; lleuog.
Nival,† *a.* (Ll. *nivalis*) eiryog, eiraog, llawn eira, llawn eiry, llawn ôd.
Niveous, *a.* (Ll. *niveus*) eiryaidd, eiryol, odlyd; eiryog, eiraog, llawn eira, llawn eiry; gwŷn fel eira; purwyn.
No, *ad.* (S. *na*, *ne*) ni, nid, nis, na, nac, nad, nas; dim, ddim, o ddim, nid dim, nid o ddim; nag e, nac e, nad e, nid e; na ddo.
No where—nid ... yn unman; nid ... yn unlle.
No whither—nid...i unman; nid...i unlle; nac yma na thraw; nac yma nac acw.
No more—mwy *neu* mwyach [gyda negydd o'u blaen]; ni, nis, nid, na, nac, nas, *neu* nad...mwy, mwyach, yn hwy, hwyach, ond hyny, *neu* ddim ond hyny; dim mwy, mwyach, rhagor, ychwaneg, *neu* yn ychwaneg.
No hard matter—nid peth anhawdd; peth nid anhawdd.
It is no hard matter—nid anhawdd mo hono.
It was no easy matter for them—ni bu hawdd iddynt.
With no less eloquence than freedom—mewn iaith *neu* ymadrodd nid llai cymhen nag eofn; heb lai ffraethineb *neu* gymhendod nag eondra.
He is no better than a thief—nid yw efe ddim gwell na lleidr; nid yw efe ronyn *neu* fymryn gwell na lleidr; nid yw efe dipyn gwell na lleidr.
Are you no better?—a ydych chwi ddim gwell? a ydych chwi ddim yn well?
He put in them no small fear—parodd ynddynt ofn nid bychan.
A babbler is no better—nid gwell yw dyn siaradus.
Art thou the prophet? No—ai y prophwyd wyt ti? Nag e.
Is there any one here? No—a oes yma neb? Nac oes.
Is it to kill me that you are come? No—ai i'm lladd y daethoch? Nag e.
Knowest thou not what these be? No—oni wyddost ti beth yw y rhai yma? Na wn.
Hast thou seen him? No—a welaist ti ef? Na ddo; a welaist ti ef? Na welais.
No, not in the least—nid yn y mesur lleiaf.
No, not, } nid...hyd yn oed; na...hyd
No, not even, } yn oed; nid cymmaint a *neu* ag; nac, na; na ddo, nac oes.
No, not one—nac oes un; na, nid oes un; nid oes cymmaint ag un.
Hate no man, no, not thy enemy—na chasha undyn, nid cymmaint a'th elyn.
No, I will not, nor am I able if I would—na wnaf, nis gwnaf, *neu* nis mynaf, ac nis gallaf pe mynwn.
No, nor you—na chwithau chwaith.
No, nor you either—na chwithau chwaith.
No, nor yet Herod—na Herod chwaith.
Never more will I fight for them, no, let them fight for themselves—nid ymladdaf fi drostynt byth mwy, na wnaf, ymladdent drostynt eu hunain; nid ymladdaf fi drostynt byth mwy, na ymladdaf, ymladdent drostynt eu hunain.

No, *a.* neb; nid...neb, nis...neb, nad...neb, nac...neb, nas...neb, na...neb; nid...un, nis ...un, nad...un, nac...un, nas...un; nebun, nebawd, nebdyn; dim; nid...dim, ni...dim; nebrhyw; nid...nebrhyw, ni...nebrhyw, nis ...nebrhyw; ni, nid, nis, na, nac, nad, nas.
No one, } neb, nebun, nebawd, dim un,
No man, } neb dyn, nebdyn, nid neb,

nid un, neb un, neb rhyw un, neb rhyw ddyn.
Let no man go out of his place—nac aed un o'i le.
Who can do this? No one—pwy a ddichon wneuthur hyn? Neb.
No one ever said so—ni ddywedodd neb erioed felly
There shall be no man to stand before thee—ni saif gwr yn dy wyneb di.
Shall no man make thee ashamed?—oni bydd â'th waradwyddo?
No cross, no crown—heb y groes, heb y goron.
No pains, no gains — ni lwyddodd ond a lafuriodd; ni lwyddodd ond a'dramgwyddodd.
Thou shall do no work—na wna ddim gwaith.
No work shall be done—ni wneir dim gwaith; dim gwaith ni wneir; dim gwaith nis gwneir.
I saw no creature there—ni welais i yno neb rhyw greadur; ni welais i yno neb rhyw greadur.
There is no justice in it—nid oes cyfiawnder ynddo.
I make no question but that you have heard the news—nid wyf yn ammheu nas clywsoch y newydd.
I have no time now—nid oes mo'r amser *neu* odfa genyf ar hyn o bryd.
By no means—nid mewn un modd; nid er dim; nid felly er dim; nag e; nag e ddim; na ddo ddim; nid mewn un modd yn y byd.
In no case, } nid mewn un modd; nid ar
In no wise, } neb rhyw achos; nid mewn modd yn y byd; nid er dim; nid ar un cyfrif.
At no hand—er dim.
No manner of—dim.
There is no man, nor woman, nor child—nid oes na gwr, na gwraig, na phlentyn; nid oes gwr, na gwraig, na phlentyn.
Ayes and noes—Iau a nagau; iau a nsod; iaod a nsod; ie a nag e.

Nob, *s.* (o *knob*) y pen (mewn digrifiaith).

Nobiliary, *s.* (Ll. *nobilis*) hanes pendefigion, hanes teuluoedd dyledog.

Nobilitate, *v. a.* (Ll. *nobilito*) dyledogi, pendefigo, pendefigoli, boneddu, uchelraddio; gwneuthur yn bendefig; urddo â phendefigaeth.

Nobilitation, *s.* gwneuthuriad yn bendefig; pendefigoliad, bonedd iant, uchelraddiad.

Nobility, *s.* (Ll. *nobilitas*) dyledogrwydd, pendefigrwydd, pendefigeiddrwydd, pendefigoldeb, pendefigaeth, dyledogaeth, pendefigiant, uchelfonedd, boneddigrwydd, boneddigeiddrwydd, bonedd, rhieddogrwydd; uchelrwogaeth; uchel waedogaeth, uchel waedoliaeth; uchel urddas; cyfurddoriaeth; mawredd, mawrwychder, gwychder; pendefigion, dyledogion, pendeddigion, arglwyddi.
Lame nobility—crachfonedd, lledryw.

Noble, *a.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *nobilis*) pendefigol, pendefigaidd, dyledog, dyledogryw, urddasol, rhieddog, rhiaidd, rhiol, rhial, boneddigaidd, boneddig; uchelryw; perthynol i'r dyledogion *neu* y pendefigion; arddercbog, enwog, godidog, uchelwych, anrhydeddus, uchel, dyrchafedig; mawrwych, gwych, diwael, mawr; arwraidd; rhywiog, iawnryw, o'r iawn ryw, diledryw, diledaeh, anniryw; cleufryd, haelfrydig, hael, haelionus; rhydd *neu* anghaeth ei feddwl; rhydd *neu* anghaeth ei ysbryd; syberw; dinam.
Noble birth—bonedd, pendefigedd, gwaed pendefigaidd.
Of noble descent, } uchelryw, dyledogryw,
Nobly-descended, } pendefigryw, diled-
Of noble line, } ryw, diledach, boneddigryw; boneddig cynnwynol; boneddig o waed; pendefigol o waed; pendefigaidd, pendefigol; gwedi hanu o bendefigion; o uchel achau; uchel ei achau; uchel ei waed.
Truly noble — diledryw, diledach, gwir ddyledog, gwir arddercbog.
Most noble—dyledocaf, arddercbocaf, gorddyledog.
The most noble the Marquis of Anglesey —y dyledocaf Ardalydd Mon; yr arddercbocaf Ardalydd Mon; y gorddyledog Ardalydd Mon.
Most noble Festus—O arddercbocaf Ffestus.
Noble acts — gweithredoedd arddercbog; mawrion weithredoedd; gwrolaeth.
Noble courage—calon ddihafarch, mawrwriaeth.
Noble vine—per winwydden (*Ier.* ii. 21).
Not many noble are called—nid llawer o rai boneddigion a alwyd.

Noble, *s.* pendefig, pendeddig, dyledog; arglwydd, arlwydd, por, cyfurddor, boneddig: *pl.* pendefigion, dyledogion, pendeddigion, cyfurddorion.

Noble, *s.* nobl, noblen=darn aur, gwerth 6*s.* 8*c.*, â fathwyd gyntaf yn nheyrnasiad Iorwerth III.
Rose noble—rhos nobl=bath aur, â gerddai tua'r flwyddyn 1344, am 16*s.*, yn ol *Johnson;* neu 6*s.* 8*c.*, yn ol awduron ereill.

Nobleman, *s.* pendefig, pendeddig, dyledog; arglwydd, arlwydd, por, goreugwr; boneddig: *f.* pendefiges, dyledoges.
An upstart nobleman—uchelwr pendodi, pendefig difonedd.

Nobleness, *s.* dyledogrwydd, pendefigeiddrwydd, pendefigrwydd, uchelfonedd, boneddigrwydd, bonedd; arddercbogrwydd, mawrwychedd, mawrwychder, urddasolrwydd, urddasoldeb, rhieddogrwydd, uchelwychder; mawredd; mawrfrydedd, mawrfrydigrwydd, mawrwriaeth, syberwyd.

Noblesse, *s.* (Ff.) pendefigion, dyledogion; † dyledogrwydd, pendefigeiddrwydd, bonedd; mawredd, mawrwychedd, arddercbogrwydd, urddasolrwydd.

Nobly, *ad.* yn arddercbog, yn fawrwych, &c.

Noblewoman, *s.* pendefiges, dyledoges, pendeddiges, cyfurddores.

Nobody, *s.* (*no* a *body*) neb, nebun, neb un; neb rhyw ddyn; nid neb, nid un, nid neb un; nebawd, neb dyn, dim un.
That nobody do hurt any body—na bo i neb ddrygu neb.
Nobody understands me—nid oes neb a'm deall; nid oes dyn a'm deall; nid oes neb yn fy neall; nid oes un yn fy neall; nid oes nebun yn fy neall.
There is nobody here but we—yr ym ni

yma wrthym ein hunain; nid oes neb yma ond ni.
Nobody can tell—nid oes dyn a ŵyr.
Nocent, *a.* (Ll. *nocens*) niweidiol, drwg, drygus, dryglawn, erniwol, aagenol.
Nocive, *a.* (Ll. *nocivus*) niweidiol, drwg, drygus, dryglawn, niweidiannol.
Nock,† *s.* rhwgn, rhygn, rhic, bwlch.
Nock (in sail-making)—cwr uchaf blaen yr hwyl fawr.
Nock,† *v. a.* rhygnu, rhicio, rhychu, rhintio.
Nocked,† *a.* rhygnog, bylchog, rhintiog.
Noctambulation, *s.* (Ll. *nox* ac *ambulo*) nosgerdded, nosgerddediad, nosrodiad, cysgrodiad, rhodiad yn nghwsg, hunrodiad.
Noctambulist, *s.* nosgerddwr, nosgerddedwr, nosrodiwr, cysgrodiwr, rhodiwr yn ei gwsg, cerddwr yn ei gwsg, hunrodiwr.
Noctidial, *a.* (Ll. *nox* a *dies*) nosddyddiol, dyddnosol; yn cynnwys noswaith a dïwrnod.
Noctiferous,† *a.* (*nox* a *fero*) nosddwyn.
Noctiluca, *s.* (Ll. *nox* a *luceo*) noslewad, noslugan, gwawlddwyn.
Noctilucous, *a.* noslugain, noslugiannol, noslewyrchol; yn dysgleirio *neu* dywynu yn y nos.
Noctivagant, } *a.* (Ll. *nox* a *vagor*) nosgrwydr,
Noctivagous, } nosgrwydrol, nosgrwydus, noswibiol.
Noctivagation, *s.* nosgrwydr, nosgrwydrad, noswib, noswibiad, crwydr nos.
Noctuary, *s.* (o'r Ll. *nox*) nosgyfrif, noslyfr; hanes *neu* gyfrif o'r hyn a ddygwydd y nos.
Noctule, *s.* (o'r Ll. *nox*) noslymun, ystlum nos.
Nocturn, *s.* Ll. *nocturnus*) noswasanaeth, nosweddi, nosawl wasanaeth, nosawl weddi, nosawl offeren Eglwys Rhufain.
Nocturna, *s. pl.* tyrchfilod nos.
Nocturnal, *a.* (Ll. *nocturnus*) nosol, nosawl, nosweithiol; peunosol, peunosthol, peunos, beunos, peunoeth, beunoeth, bob nos; perthynol i'r nos; à wneir yn y nos.
Nocturnal arc, } nosgrom = llwybr ym-
Nocturnal arch, } ddangosol yr haul, neu arall o'r cyrff nefol, o'i fachludiad i'w godiad.
Nocturnal, *s.* nosfynag, deial nos.
Nocturnals, }
Nocturns, } *s. pl.* nosadar; y dylluanod.
Nocument,† *s.* (Ll. *nocumentum*) niwed.
Nocuous,† *a.* (Ll. *nocuus*) niweidiol, drygus, afiach, afiachus.
Nod, *v.* (Ll. *nuto*; Gr. *neuô*) amneidio, munudio, *neu* awgrymu â phen; goblygu pen; amneidio, awgrymu; penoblygu, penogwyddo; hepian, hepuno, pendrymu, pendwmpian, pentwyno, pengamu, amneidio gàn gysgu, munudio gàn gysgu, pendrymu gàn daeredd cwsg, cysgu ar ei ddyrnau, cysgu ar ddyrnau.
To nod to—amneidio â phen ar; amneidio â'i ben ar; goblygu pen ar.
He nodded assent to him—efe a oblygodd ei ben iddo yn arwydd cydsyniad; efe a amneidiodd â'i ben arno yn arwydd cydsyniad.
Nod, *s.* amnaid pen, awgrym pen, goblyg pen; amnaid *neu* awgrym â wnel un â'i ben; amnaid, awgrym, munud; amnaid cwsg, awgrym cwsg, hep, hepian, hepun, goblyg pen gàn gysgu; arch, gorchymyn.
Nodal, *a.* (o *node*) clymol, cylymol, darglymol.
Nodated, *a.* (Ll. *nodatus*) clymog, darglymog, cygnog.
Nodation, *s.* (Ll. *nodatio*) clymiad, cylymiad, cylmiad, darglymiad; clymogrwydd.
Nodden,† *a.* gogwyddedig, plygedig.
Nodder, *s.* (o *nod*) amneidiwr â'i ben, awgrymwr â'i ben, goblygwr pen; amneidiwr; awgrymwr; hepiwr, hepunwr, un cysglyd.
Nodding, *a.* penoblygol, penogwyddol; â'i ben yn plygu i lawr; yn goblygu pen; pentwynol; hepiol.
Noddle, *s.* (Ll. *nodulus?* o *nod?*) penglog, clopa, copa, pen, clol, siolyn; gwegil.
This cannot enter your noddle—nid â hyn i'ch pen, i'ch clopa, *neu* i'ch penglog; nid â mo hyn yn eich pen; ni ellir pwyo mo hyn yn eich pen, &c.
Noddy, *s.* (Gr. *nôthês?*) symlyn, ffwlcyn, cuall, catffwl, hurthgen, cadafael, gwirionyn, penbwl, penffol, hurtyn, drelyn; math ar forwennol; math ar hurgerbyd; chware ar gardiau.
Node, *s.* (Ll. *nodus*) cwlwm, clwm, cwlm; oddf; cwgn; trawsglwm, croesglwm.
The ascending node—yr esgynglwm, y trawsglwm esgynol, yr esgynnod.
The descending node—y disgynglwm, y trawsglwm disgynol, y disgynnod.
Nodose, } *a.* (Ll. *nodosus*) cylymog, clymog,
Nodous, } cylmog, darglymog, llawn clymau; cygnog; oddfog; darglymol.
Nodosity, *s.* clymogrwydd, cylymogrwydd, cylmogrwydd, clymedigrwydd, cygnogrwydd.
Nodular, *a.* (o *nodule*) clymynol, cylmynol, oddfynol, cygnynol; clymynog; perthynol i glymyn; clymeg.
Nodular iron ore—mwn haiarn clymynol.
Nodule, *s.* (Ll. *nodulus*) clymyn, cylymyn, cylmyn; cygnyn; oddfyn; telpyn, clepyn.
Noduled, *a.* clymynog, cylymynog; cygnynog; oddfynog.
Nodus, *s.* (Ll.) clwm, cwlwm, cwlm; cwgn, glin.
Noetic, *a.* (Gr. *noêticos*) deallol, dealledigol, dealltwrus, deallus.
Nog, *s.* (talfyriad o *noggin*) picyn, picynan; cwrw; hoel bren.
Noggen,† *a.* garw, gerwin; caled.
Noggin, *s.* (anhysbys) picyn, picynan; llestr bychan; cwpan.
Nogging, *s.* priddfeinwaith pennilliog; siorhau â hoelion prenau.
Noiance,† *s.* (Ff. *nuire*; Norm. *annoyer*) blinder, afionyddweh, anesmwythder, gofid.
Noie,† *v. a.*=*Annoy.*
Noyer,† *s.*=*Annoyer.*
Noyous,† *a.*=*Annoyful, Annoyous.*
Noise, *s.* (Ff.) swn; twrf, godwrf, twrdd, godwrdd, dadwrdd, twrw, dwrdd, godorun, godorin, godoran, trwst, dyar, gorddyar, dwndwr, aedd, dared, dâr, dïasp; dïas; sain; llais; si; nad, cri, llefer, ysgort.
The noise of a great stir, } twrf, twrdd,
The noise of a great bustle, } dwrdd, godwrdd, dadwrdd, twrw, godorun, godorin; trwst; dwndwr.
Bustling noise, } twrf, twrdd, dwrdd,
Blustering noise, } godwrf, godwrdd,
Tumultuous noise, } dadwrdd, twrw, godorun, godoran, godorin; trwst; dwndwr, dømdwrdd.

Rumbling noise, } twrf, twrw, twrwf,
Rattling noise, } twrdd, trwst, dyar, gorddyar, rhuad.
Great noise—mawrdrwst, trwst mawr, swn mawr, diaspad.
Loud noise—diaspad, diasp, swn croch.
Shrill noise — meindrwst, swn main; gwich, ich, llymlais, meinlais.
To make a shrill noise—llymleisio, meinleisio; gwneuthur llymlais *neu* feinlais.
To make a noise—cadw swn, trystio, swnio, synio, seinio, cadw ystŵr, gwneuthur swn, peri swn, gwneuthur trwst, peri trwst; dadwrdd, dadyrddu, dwndro; lleisio; nadu; dadseinio, darstain.
Indistinct noise—godwrdd, godwrf, godrwst, swn anghroew, swn anhynod, gosain.
Chattering noise—trydar, cogor, cograch, swn trydarus. [adar.
Noise of birds—sain adar, swn adar, llais
Noise of feet—trwst traed, swn traed.
The noise of a trumpet—sain, swn, bloedd, *neu* lais udgorn.
The noise of bees — gwenynllais, swn gwenyn, si gwenyn.
Whispering noise—si, su, sibrwd, siffrwd, husting, sisial, eddrin, sygan.
The noise of the seas—twrf y moroedd.
The noise of war—swn rhyfel.
The noise of thunder—twrf taran, trwst taran.
The noise of chariots—trwst cerbydau, twrf cerbydau; afionydd dwrf olwynion.
The noise of people shouting—swn pobl yn bloeddio.
The noise of many waters—swn dyfroedd lawer; twrf dyfroedd lawer.
The noise of water-spouts—swn pistylloedd.
The noise of persons that sing—swn canu; swn dynion yn canu.
The noise of men advancing—godorun, trwst, *neu* swn gwŷr yn dyfod.
The noise of wings—swn adenydd.
The noise of a host—swn llu.
Noise of tumults—sain twrf, swn twrf.
Noise of a great tumult—trwst cynhwrf mawr.
Noise and hurry do hinder study—twrf a darf yr awen.
Wherefore is this noise of the city being in an uproar?—pa ham y mae twrf y ddinas yn derfysgol?
When the horses heard the noise, they started—pan glybu y meirch y dwrdd, ysgodigaw a wnëynt.
At the noise of the taking of Babylon—gàn drwst goresgyniad Babilon.
A tumultuous noise of the ki-gdoms of nations gathered together—swn twrf teyrnasoedd y cenedloedd wedi ymgynnull.
At the noise of a tumult—wrth lais y twrf.
At the noise of the stamping of the hoofs of his strong horses—rhag swn twrf carnau ei feirch cryfion.
The noise of a whip, and the noise of the rattling of the wheels, and of the prancing horses, and of the jumping chariots—swn y ffrewyll, a swn cynhwrf olwynion, a'r march yn prancio, a'r cerbyd yn neidio (*Nah.* iii. 2).

Noise, *v.* seinio, synio, swnio, trystio, diaspedain, diasped; lleisio; dadwrdd, dadyrddu, godyrddu, godyrfu, tyrfu, damdyrddu; cadw swn, cadw twrf; daru, daredu, dïas; nadu; bloeddio; dadseinio, darstain, darsteinio; clocho; dwndro; rhoi allan, cyhoeddi; taenu ar led; rhoi y son allan.
To noise abroad—taenu ar led; gyru ar led; rhoi y son, y gair, y chwedl, *neu* y newydd allan; gyru y son ar led; taenu y gair ar led; cyhoeddi, cyffredino, gosod allan, rhoi allan.
His fame was noised throughout all the country—aeth ei glod ef trwy yr holl wlad.
And it was noised that he was in the house—a chlybüwyd ei fod ef yn y ty.
Noiseful, *a.* trystfawr, trystlawn, dadyrddus, trystiog, seinfawr, croch, aedd, soniawr.
Noiseless, *a.* didrwst, diawn, didwrf, didwrdd, diddwndwr; dystaw, tawedog.
Noiselessness, *s.* didrystedd; dystawrwydd, tawedogrwydd.
Noisiness, *s.* dadyrddgarwch, trystfawredd, trystforedd, tyrddusrwydd, tyrddgarwch, trystiogrwydd.
Noisome, *a.* (Norm. *noisife;* It. *nocivo, noioso*) niweidiol, niweidiog, erniwol, adwythig, gwenwynig, echryslawn, dinystriol, drygus; ffiaidd, ffieiddgas, adgas, cas, ffinion; afiach, afiachus; gelynol i'r iechyd; blin *neu* anhyfryd i'r olwg; blin *neu* anhyfryd i'r arogl; drewllyd, drewedig, drygsawrus, trymsawrus; gwrthun.
From the noisome pestilence—oddi wrth yr haint echryslawn (*Salm* xci. 3).
A noisome and grievous sore—cornwyd drwg a blin (*Dad.* xvi. 2).
Noisomeness, *s.* niweidioldeb, niweidiogrwydd, adwythigrwydd, ffieiddrwydd, echryslonedd, adgasrwydd, drewiant, drewdod, &c.
Noisy, *a.* (o *noise*) trystfawr, trystiog, dadyrddus, dadyrddol, damdyrddus, damdyrddol, seinfawr, bloeddfawr, gwaeddgar, gwaeddfan, aedd, aeddfawr, soniawr, annystaw, annhawel, gorddyar, didaw, hyson, hear, garmus, siaradus, llawn swn, llawn dadwrdd, tarfysgus, brochus.
Noli-me-tangere, *s.* (Ll.=gad fi yn llonydd, *neu*, na chyffwrdd â mi) ffromlys; cranc, cancr, cranc anhydrin.
Nolition, *s.* (Ll. *nolo*) anfyniad, anfyn, anwyllysiad, anwyllysgarwch, anewyllysgarwch, anfodd, annhuedd.
Noll, † *s.* (S. *knol, cnoll, knoll*) penglog, clopa, clol, pen.
Nomad, *a.* (Gr. *nomas, nomadas*) crwydrol, gwibiol, gwibiog, crwydrus, crwydraidd; ar grwydr; yn byw wrth areilio anifeiliaid a chrwydro am borfa.
Nomad, *s.* gwiblwyth, gwiblu; gwibiwr, gwibiawdr, crwydrwr.
Nomadic, *a.* (Gr. *nomadicos*) crwydrol, gwibiol, gwibiog, crwydrus, crwydrog, crwydraidd, ar grwydr; bugeilaidd; anwar, anwaraidd, gwyllt, anniwylledig.
Nomadic tribes—gwiblwythau, llwythau crwydr, llwythau crwydrad, llwythau gwib.
Nomadize, *v. a.* crwydro, gwibio; crwydraw o fàn i fàn er cael porfa i anifeiliaid; byw wrth borfelu anifeiliaid; bod ar grwydr.

Nomads, } *s. pl.* gwiblwythau, gwibiaid, gwib
Nomades, } iodron, gwibwyr, gwibuoedd, llwythau gwib, gwibosgordd, crwydriaid; Nomadiaid.
Nomades—Nomadeaid (2 *Mac.* xii. 11).

Nomancy, *s.* (Gr. *onoma*, Ll. *nomen*, a *manteia*) enwarmes, dewiniaeth â llythyrenau enw un.

No Man's Land, *s.* tir neb, nebdir.

Nombles, *s. pl.* (Ff.) coluddion danas, perfedd carw.

Nombril, *s.* (Ff.) canol arfien, canolbwynt pais arfau, bogeilbwynt, bogeilbwnc.

Nome, *s.* (Gr. *nomos*) rhandir, talaeth, parth, parthedd, rhan o wlad.

Nome, *s.* (Ll. *nomen*) dogn â'i arwydd yn gyssylltedig âg ef.

Nome, *s.* (Gr. *nemô*) ysgranc, cranc, cancr.

Nomen, *s.* (Ll.) enw, henw.

Nomenclator, *s.* (Ll.) enwedydd, enwydd, enwadwr, galwedydd enwau, geilwad enwau, enwur; hwn a wypo enwau pethau ac a'u galwo erbyn eu henwau; rhoddwr enwau; geiriadwr.

Nomenclatress, *s.* enwedyddes, enwyddes, hon a wypo ac a alwo bethau erbyn eu henwau.

Nomenclatural, *a.* enwadurol; perthynol i enwadur; yn ol enwadur.

Nomenclature, *s.* (Ff.; o'r Ll. *nomenclatura*) enwadur; geirlyfryn, geirlyfran; enwau pethau mewn celf *neu* wyddor; oelfenwau, geiriadur enwau; desebiaeth.

Nomial, *s.* (o'r Ll. *nomen*) enw unig, unig enw (mewn gwyddoniaeth).

Nominal, *a.* (Ll. *nominalis*) enwol, henwol; galwedigol; y sy mewn enw yn unig; y sydd o ran enw yn unig; perthynol i enw.
A nominal king—brenin o ran enw yn unig.

Nominal, } *s.* Enwoliad, Enwolwr: *pl.* Enw-
Nominalist, } oliaid = dysgyblion Occam yn y 14ydd canrif.

Nominalism, *s.* Enwoliaeth; athrawiaeth *neu* egwyddorion yr Enwoliaid.

Nominalize, † *v. a.* troi yn enw.

Nominally, *ad.* wrth ei enw; erbyn ei enw; mewn enw; o ran enw; mewn enw yn unig; o ran enw yn unig; mewn dim ond enw; yn enwol, yn alwedigol.

Nominate, *v. a.* (Ll. *nomino*) enwi, henwi; cyfenwi; galw; penodi.

Nomination, *s.* (Ll. *nominatio*) enwad, henwad, enwedigaeth, henwedigaeth, enwawd; penodiad, appwyntiad; galwad.

Nominative, *a.* enwedigol, henwedigol, enwadol.
Nominative case—cyflwr enwadol, enwedigol, *neu* enwol; enwai, enwadydd, enwedigaethydd; gosail, sylfon, testyn.
The nominative case to the verb—y gosail i berwyddiad; gosail *neu* sylfon berf.
In the nominative case—yn y cyflwr enwadol *neu* enwedigol.

Nominative, *s.* enwai, enwadydd, enwedigaethydd, enwedigydd; cyflwr enwadol, enwedigol, *neu* enwol; gosail, sylfon, testyn.

Nominator, *s.* enwr, enwydd, henwydd, enwadwr, galwr; un à enwo.

Nominee, *s.* enwai, henwai; un à enwir; un à enwyd; yr un yr ymddibyna blwyddoseb ar ei fywyd.

Nomography, *s.* (Gr. *nomos* a *graphô*) traethawd ar gyfreithiau.

Nomothetic, } *a.* (Gr. *nomothetês*) deddfrodd-
Nomothetical, } ol, rheithroddol; perthynol i osod *neu* wneuthur cyfreithiau.

Non, *ad.* (Ll.) an-, di-, af-; nid, nis, ni: arferedig fel blaenddodiad yn unig.

Non-ability, *s.* anallu, analluogrwydd, diffyg gallu,

Non-acquaintance, *s.* anghydnabyddiaeth.

Nonage, *s.* (*non* ac *age*) anoed; maboed, mebyd, maboliaeth, ieuenctyd, ieuangrwydd; tanoedogrwydd.

Nonaged, *a.* anoedog, tanoedog, tanoed; à fo tân oed; à fo heb gyrhaedd oedran gwr.

Nonagesimal, *a.* (Ll. *nonagesimus*) nawdegol, nawdegfed, nawdegfedol, nawdegraddol.

Nonagon, *s.* (Ll. *nonus*, a Gr. *gônia*) nawochr, ffurf nawochr, nawongl: *pl.* nawochrau.

Nonappearance, *s.* gwall ymddangosiad, pall ymddangosiad, absennoldeb, anmhresennoldeb; gwall ymddangosiad yn y llys ar y dydd penodedig; tormach, toriad mechni.

Nonattendance, *s.* anweinyddiad, anymroddiad, anystyriaeth; anwyddfodoldeb.

Nonattention, *s.* anystyriaeth, diffyg ystyriaeth.

Non-bituminous, *a.* annuglistaidd.

Nonce,† *s.* bwriad, amcan, arfaeth, bryd.

Nonchalance, *s.* (Ff.) anystyriaeth, diofalwch, difaterwch, difiasdod, annyddordeb, oerfelgarwch.

Nonchalant, *a.* (Ff.) anystyriol, diofal, anofalus, difater, dïymdawr, dibwys, oerllyd, difraw.

Non-claim, *s.* anhawl, meth hawl.

Non-cohesion, *s.* anghydlyniad, anymlyniad.

Non-compliance, *s.* anghydsyniad, anghydgweddiad.

Non-condensing, *a.* annwyshaol, annwysol.

Non-conducting, *a.* annhwysol, anarweiniol.

Non-conduction, *s.* annhwysiad, anarweiniad.

Non-conductor, *s.* anarweinydd, annhwysydd, anarweinior.

Nonconforming, *a.* anghydffurfiol, anghydymffurfiol.

Nonconformist, *s.* anghydffurfiwr, anghydffurfydd, anghydymffurfiwr, anghydymffurfydd; ymneilltüwr, neilltüwr.

Nonconformity, *s.* anghydffurfiaeth, anghydffurfiad, anghydymffurfiad, anghydymffurfiaeth; ymneilltuaeth; anghydsyniad.

Nondescript, *a.* (Ll. *non* a *descriptus*) annarluniedig, annysgrifiedig; nas darluniwyd, nas dysgrifiwyd; anhawdd ei ddarlunio *neu* ddysgrifio; afreolaidd, dilun, diddarlun, diddelwant, diddull.

Nondescript, *s.* peth annarluniedig, &c.; peth *neu* un anhawdd ei ddarlunio; annysgrif: *pl.* annysgrifion.

None, *a.* (S. *nan*) neb, nebun, nebawd; nid... neb; nid...nebun; nid...nebawd; nid...un; nid...yr un; dim, nid...dim, dim un.
Of none effect, } yn ofer, yn ddiles, yn ddi-
Of no effect, } fudd, yn ddïeffaith, yn ddirym.
Whom did you see there? None—pwy a welsoch chwi yno? Neb: pwy a welsoch chwi yno? Ni welais i neb yno.
None of you shall go out, } nac aed neb o
Let none of you go out, } honoch allan.
Of the people there was none with me—o'r bobl nid oedd neb gyda mi.

None of us liveth to himself—nid yw yr un o honom yn byw iddo ei hun; nid oes neb o honom yn byw iddo ei hun.
None other, } neb arall; nid...neb arall;
No other, } nid...un arall; nid...yr un arall.
It is none other—nid yw amgen na hyn.
Thou shalt have none other gods—na fydded i ti dduwiau ereill.
This is none other but the house of God—nid oes yma ond ty i Dduw.
There shall be none to bury her—ni bydd à'i claddo.
There is none like him—nid oes cyffelyb iddo.
They are none of our company—nid ydynt o'n cymdeithas ni.
But none answered—ond nid oedd neb yn ateb; ond nid oedd yn ateb.
Such as there was none like it—yr hwn ni bu ei fath; yr hwn ni bu mo'i fath.
There shall be none—ni bydd efe; ni bydd dim.
Ye shall leave none of it—na weddillwch o hono; na weddillwch ddim o hono.
Because it is none of his—am nad eiddo ef ydyw.
None so pretty—balchder Llundain=math ar flodeuyn.

None, *s.* neb, nebun, nebawd, neb un, dim un.
Non-elastic, *a.* anhydwyth, annhwythig, anystwyth.
Non-elect, *s.* un anetholedig: *pl.* anetholedigion.
Non-electric, *a.* annhrydanol.
Non-electric, *s.* annhrydan, peth annhrydanol. Non electrics—annhrydanau.
Non-emphatic, } *a.* anmhwysleisiol, annirleis-
Non-emphatical, } iol, anmhwysig.
Nonentity, *s.* (Ll. *non* ac *ens*) anendid, anfodoldeb, anfodoliaeth, anfodolaeth, anfodaeth, anfod, anhanfod, anhanfodoldeb, anhanfodolrwydd, dihanfodedd, diddym; peth nad yw.
Nones, *s. pl.* (Ll. *nonæ*) Nonau, y Nawiau=enw a roddai y Rhufeiniaid gynt i'r pummed o Ionor, Chwefror, Ebrill, Mehefin, Awst, Medi, Tachwedd, a Rhagfyr, a'r seithfed o Fawrth, Mai, Gorphenaf, a Hydref.
Non-essential, *s.* peth anhanfodol, peth nad yw hanfodol.
Nonesuch, *s.* (*none* a *such*) un digymhar, un digyffelyb, peth digymhar, peth digyffelyb.
Non-execution, *s.* anghyflawniad.
Non-existence, *s.*=*Nonentity*.
Nonillion, *s.* (Ll. *nonus* a *million*) nawradd milfil, naw millwn o filiynau.
Nonjuring, *a.* annhwng, annhyngol; na thyngo ufydd-dod *neu* ffyddlondeb i'r brenin.
Nonjuror, *s.* annhyngwr, annhyngydd: *pl.* annhyngwyr, annhyngyddion=pleidiwr Iago II.
Non-member, *s.* anaelod; un nad yw aelod.
Non-membership, *s.* anaelodaeth.
Nonnaturals, *s. pl.* (Ll. *nonnaturalia*) ananianolion, annaturolion, anaohosolion=pethau nad ydynt heintus, ond eto a allant fod yn achlysuron i glefydau; megys, bwyd, dïod, ewag, dihunedd, awyr, ymadferth, gorphwys, a'r cyffelyb.
Nonpareil, *s.* (Ff. *non* a *pareil*) peth digymhar, peth digyffelyb; rhagoroldeb digymhar *neu* ddigyffelyb; digymhar; yr afal digymhar *neu* ddigystal; argraff-lythyren fechan, anghymharen, digymharen, aneisoren.
Nonpareil, *a.* digymhar, digyffelyb, digystal, digynnyg, dïeisor, digyfeisor.
Nonpayment, *s.* methdal, methdaliad, gwall taledigaeth, annhaliad, annhaledigaeth, annhal.
Nonplus, *s.* (Ll. *non* a *plus*) dyryswch, dyrysni, dyrysi, dyrysfa, penbleth, ffaig, nidr, nidri, didri, nod y nidri, dyrysnod, y nod anorfod, eithafnod, astrus eithafnod, dyrys eithafnod, y nidrnod, astrusi anorfod, astrusi, gorddyrysi, gormod dyryswch, petrusdod, attal, llawn hwdan, llawn hwda, llawn hwde.
To be at a nonplus, } bod heb wybod beth
To be nonplused, } i'w ddywedyd nac i'w wneuthur; bod wedi ei ddwyn i'r ddyrysfa; bod wedi ei ddwyn i eithafnod ei synwyr; bod wedi ei ddwyn at y nod anorfod; bod wedi ei daro yn fud; bod heb air i'w ddywedyd mwy.
Nonplus, *v. a.* dyrysu, ffeigio, penblethu, nidro; peri nas gwypo un beth i'w ddywedyd nac i'w wneuthur; taro un yn fud; gyru un i dewi; gyru *neu* beri taw ar un; dystewi *neu* ystagu un; dwyn un i'r ddyrysfa; dwyn un i eithafnod ei synwyr; dwyn un at y nod anorfod.
Non-resemblance, *s.* annhebygrwydd, annhebygoldeb, annhebygolrwydd.
Nonresidence, *s.* annhrigiant, annhrigiad, annhrigias, anmhreswyliaeth; dïanneddiad periglor eglwys yn ei blwyf *neu* fywoliaeth.
Nonresident, *a.* annhrigiannol, annhrigiannus, annhrigol, annhrefig, didrigol, anghyfarosol.
Nonresident, *s.* annhrigiannydd, annhrigiannwr, un annhrigiannol, anghyfaroswr.
Non-resistance, *s.* anwrthryn, anymwrthryn, dïwrthrynedd, anwrthryniad, dïwrthryniad, anwrthwynebedd; ufydd-dod dïwrthladd yn mhob achos pa bynag.
Non-resistant, *a.* anwrthrynol, anwrthryn, diwrthryn, dïwrthladd, dïwrthladdol; ufydd a dyoddefus.
Nonsense, *s.* (*non* a *sense*) afreswm, ansynwyr, disynwyredd, ffoledd, ffolineb, ynfydrwydd, methsynwyr, gwall synwyr, diffyg synwyr, ffiadredd, ynfydiaith, ffregod, gair direswm, geiriau direswm, ymadrodd disynwyr, gwag eiriau, coegiaith, ffiloreg, ffreg, gwegi; chwedl anghyfwlch, echwyrth, *neu* ledechwyrth; ffol eiriau ffiloreg.
Nonsensical, *a.* disynwyr, direswm, afresymol, anrhesymol, ansynwyrol, ffol, ynfyd, ffiadr, echwyrth, lledechwyrth, dwl, (*f.* dòl), anneeth, anghall, gwirionllyd, dïystyr.
Nonsensicalness, *s.* disynwyredd, afresymoldeb, afresymolrwydd, diresymedd, ffolineb, ffiadredd, ynfydrwydd, chwaldod, gwrthuni; afreswm, ansynwyr, &c.
Non-sensitive, *a.* annheimladol, ansyniadol, disyniadol.
Non-solution, *s.* annattodiad, anegluriad, methddattodiad, meth-egluriad.
Nonsolvency, *s.* methdal, methdaliad, talfeth, talfethiad, annhaledigaeth; anallu i dalu dyledion.
Nonsolvent, *a.* analluog i dalu; nas gall dalu ei ddyled; methdalus, talfethol.
Nonsolvent, *s.* methdalwr, methdalawdr, talfethwr, annhalwr; dyledwr analluog i dalu.
Nonsparing, *a.* anarbedol, dïarbed, diarbedol, dïeiriach; annhrugarog, didosturi, creulawn.
Nonsuch, *s.*=*Nonesuch*.
Nonsuit, *s.* (*non* a *suit*) anhawl, cwymp hawl,

gadawiad hawl, oil mewn cwyn, coll hawl, coll cwyn.
To suffer a nonsuit—colli ei gwyn; cael o hawl un ei bwrw heibio *neu* allan; cael o hawl un ei gwrthod; cael o hawl an ei llysu: cilio yn ei gwyn, gado eí hawl, gado y maes.
To fall into a nonsuit—colli ei gwyn.

Nonsuit, *v. a.* bwrw heibio hawl un; bwrw hawl un heibio; llysu hawl un; anholi, diholi, dihawlio, anhawlio.
To be nonsuited—colli ei gwyn; cael o hawl un ei bwrw heibio *neu* allan; cael o hawl un ei gwrthod; cael o hawl un ei llysu.
To suffer one's self to be nonsuited—cilio yn ei gwyn; gado ei hawl; gado y maes.

Nonsuit, } *a.* gwedi colli ei gwyn, &c.; an-
Nonsuited, } holedig, diholedig.

Nontronite, *s.* delidfaen à geir yn Nontron, yn Nhalaeth Dordwyn, yn Ffrainc.

Non-usance, *s.* anarfer, anarferiad, gwall arfer, diffyg arfer.

Non-user, *s.* anarfer, anarferiad, gwall arfer, diffyg arfer, pall arfer; gwall cyflawniad dyledswydd; meth-gyflawniad.

Noodle, *s.* (o *noddle* neu *noddy*) symlyn, ffwlcyn, (*f.* ffolcen), cadafael, hurthgen, hurtyn, ffwl.

Nook, *s.* (Ff. *niche;* It. *nicchio*) congl, cornel, ongl, ebach, cilfach, ebaeth, cil, bagell, bachell, cilan, cinmael, meigen, cwr, gwig.

Noon, *s.* (S. *non;* Is. *noen*) canol dydd, hanner dydd, canolddydd, nawn, craidd dydd.
Before noon—cyn hanner dydd, cyn canol dydd, cyn nawn, ar awr anterth.
The noon of night—hanner nos, canol nos nawn y nos, dewaint.

Noon, *a.* nawnol.

Noonday, } *s.* canol dydd, hanner dydd, canol-
Noontide, } ddydd, nawn.

Noonday, } *a.* perthynol i ganol dydd; nawn-
Noontide, } ol.
Noonday heat—gwres canolddydd, gwres canol dydd.

Nooning, *s.* gorphwysfa ganol dydd, gorphwys hanner dydd, gorphwys canol dydd.

Noonstead, *s.* lle yr haul ganol dydd; nonfa.

Noose, *s.* (Gw. *nas, naugaim*) byddag, byddagl, tagfagl, tag-fyddag, clwm rhedegog, cwlwm rhedegog, cwlwm rhedeg, cwlwm tagu; magl.
To run one's self into the noose—dwyn ei hun i'r fagl; dwyn ei droed i'r fagl; gosod ei ben yn y fagl.
To catch in a noose—dàl mewn magl; byddaglu; maglu.

Noose, *v. a.* byddaglu, dàl mewn magl; maglu; rhwydo, bagellu, bachellu; dyrysu.

Nopal, *s.* math ar blanigyn.

Nope, *s.* y rhawngoch, llostruddyn, y tingoch, coch y berllan, chwibanydd.

Nor, *c.* (*ne* ac *or*) na, nac.

Noria, *s.* math ar beiriant awellawl, arferedig yn yr Yspaen.

Normal, *a.* (Ll. *normalis*) rheolaidd, rheolig; wrth reol, yn ol rheol; wrth reol a llinyn; à wneler wrth ysgwlr; à wnaer wrth y llinyn; unionsyth, syth, sythol; yn ol egwyddor; egwyddorol, cynegwyddorol, cynwyddorol, eifenol, elfyddol, traw, trawaidd, trawol.

Normal school—ysgol athrawol, ysgol athrawon, ysgol hyfforddiadol, ysgol hyfforddawl, ysgol reolig.

Normal, *s.* sythlin, cromsyth.

Norman, *s.* trosolbren i droi dyrwynlath angor.

Norroy, *s.* (*north,* a *roy,* brenin) arwyddfarid y gogledd, arf-frenin y gogledd, arwyddfardd y tu gogledd i'r afon Trent.

Norse, *s.* Llychlynaeg, Llychlyneg, Norwyaeg, Norwyeg, iaith Llychlyn, iaith Norwy.

North, *s.* (S.; Al., Sw., D., Ff., ac Ysp. *nord*) gogledd, cledd.
The north—y gogledd.

North, *a.* gogleddol, gogleddig.
North Wales—Gwynedd, Gwyndud, Gwyndod, Gogledd Cymru, Gogledd-dir Cymru, Gogleddbarth Cymru.
Belonging to North Wales—Gwyneddig, Gwyndodig; perthynol i Wynedd.
North Wales dialect, } Gwyndodeg, Gwyn-
Venedocian dialect, } dodaeg, Gwyndodiaith, Gwyneddaeg, iaith Gwynedd, llafariaith Gwynedd, yr iaith Wyndodig.
North Wales men, } Gwyneddigion, Gwyn-
North Wallians, } dodiaid, Gwynddudiaid, Gwyndodyddion, Gwyneddwyr, Gwyneddiaid, Gwyndodigion, gwŷr Gwynedd, pobl Gwynedd: *sing.* Gwyndodydd, Gwyndodyn, Gwyneddwr, gwr o Wynedd, un o wŷr Gwynedd, un o'r Gwyneddigion.
North Wales woman—Gwyndodes, Gwyndudes, Gwyneddes, gwraig o Wynedd, un o wragedd Gwynedd.
The people of North Wales—pobl Gwynedd, pobl Wynedd, gwŷr Gwynedd, Gwyneddigion.
North polar star—seren pegwn y gogledd; seren y pegwn gogleddol; seren y gogledd.
The north country — y gogledd-dir, yr ogledd-wlad, gwlad y gogledd.
North-easterly—gogledd-ddwyreiniol.

Northeast, *s.* gogledd-ddwyrain, cledd-ddwyrain.
North-north-east — gogledd-ogledd-ddwyrain.

Northeast, *a.* gogledd-ddwyreiniol.
Northeast wind — gogledd-ddwyreinwynt, gwynt gogledd-ddwyreiniol.

Northerly, *a.* gogleddol, gogleddig; tua'r gogledd; yn y gogledd.

Northerly, *ad.* yn ogleddol, yn ogleddig; tua'r gogledd; yn y gogledd.

Northern, *a.* gogleddol, gogleddig; yn y gogledd; tua'r gogledd.
The northern lights—y goleuni gogleddol, y wawr ogleddol, gogleddwawr, gogleddwawl.
Northern hemisphere—yr arddrych ogleddol, yr hannergylch gogleddol, yr hannergant gogleddol, hanner gogleddol y byd, hanner gogleddol y ddaiar.
Northern signs—yr arwyddion gogleddol, arwyddion y gogledd=yr arwyddion o'r tu gogledd i'r cyhydedd, sef yr Hwrdd, y Tarw, y Gefeilliaid, y Cranc, y Llew, a'r Forwyn.
Northern men—gogleddwyr, gwŷr y gogledd, gwŷr gogleddol.
The northern storm—tymhestl y gogleddwynt (*Eccles.* xliii. 17).

The northern army—y gogledd-lu (*Ioel* ii. 20); llu y gogledd; y llu gogleddol.
To steer a northern course—hwylio tua'r gogledd; gogleddu.
Northerner, *s.* gogleddwr, un o wŷr y gogledd, gwr o'r gogledd.
Northernly, † *ad.* tua'r gogledd.
Northernmost, *a.* mwyaf gogleddol, mwyaf gogleddig; nesaf i'r gogledd.
Northing, *s.* gogleddiad; ysgogiad *neu* bellder planed o'r cyhydedd tua'r gogledd.
North-pole, *s.* pegwn y gogledd, y pegwn gogleddig, y pegwn gogleddol; colyn echel y ffurfafen yn y gogledd; colyn echel y ddaiar yn y gogledd.
North-star, *s.* seren y gogledd, y seren ogledd, y seren ogleddol; seren pegwn y gogledd.
Northward, } *a.* (S. *north* a *weard*) tua'r go-
Northwardly, } gleddol; â fo yn y gogledd.
Northward, } *ad.* tua'r gogledd; tuag at y
Northwards, } gogledd; yn llwrw y gogledd;
Northwardly, } i'r gogledd.
To veer northward—troi *neu* hwylio tua'r gogledd; gogleddu.
Northwest, *s.* gogledd-orllewin, cledd-orllewin.
North-north-west—gogledd-ogledd-orllewin, cledd-ogledd-orllewin.
Northwest, *a.* gogledd-orllewinol, cledd-orllewinol, cledd-lewin, cledd-lewinol.
Northwest wind—gwynt y gogledd-orllewin, y gwynt gogledd-orllewinol.
Northwestern, *a.* gogledd-orllewinol, cledd-orllewinol; perthynol i'r gogledd-orllewin.
Northwind, *s.* gogleddwynt, gwynt y gogledd.
Norway-maple, *s.* masarn Llychlyn, masarn Norwy.
Nose, *s.* (S.; *nose, nase;* Al. *nase;* Ll. *nasus*) trwyn; rhŷn; ffroen.
The tip of the nose, } trwynswch, pen y
Nose-tip, } trwyn, blaen y trwyn.
To tell noses, } cyfrif penau.
To count noses, }
Having a great nose, } trwynog, trwyn-
That has a great nose, } fawr; trwynhir; â thrwyn mawr iddo; â chanddo drwyn mawr.
Turned-up nose, } trwyn pica.
Cocked-up nose, }
Having a turned-up nose—trwynbica.
Having a broken nose—trwyndwn.
Flat nose, } trwyn cefnbant.
Saddle-backed nose, }
Bottle nose—trwyn ysmwt, trwyn pwt.
To lead by the nose—arwain gerfydd y trwyn; arwain gerfydd ei drwyn.
To be led by the nose—cael ei arwain gerfydd ei drwyn.
To put one's nose out of joint—disodli un; bwrw *neu* wthio un allan o barch; bwrw *neu* wthio un allan o ffafr.
To thrust one's nose into the affairs of others—ymyru â negesau *neu* faterion pobl ereill; rhoi ei fys yn mrywes *neu* botes rhai ereill.
The nose of a bellows—trwyn, pib, *neu* bibell megin.
Nose-band of a bridle—trwynffrwyn.
Nose, *v. a.* trwyno, ffroeni, arogli, arwyntio, gwyntio, sawrio, safwyro; wynebu, gwynebu, sefyll yn wyneb.
Nose, † *v. n.* edrych yn sur, yn flwng, yn fawr, *neu* yn fras.
Nosebleed, *s.* gwaedlif trwyn, gwaedred trwyn; llysiau y gwaedlif, gwilffrai, milddail.
Nosed, *a.* trwynog; â thrwyn iddo *neu* ganddo; call.
Long-nosed—trwynhir; hir ei drwyn; â thrwyn hir ganddo *neu* iddo.
Short-nosed—trwynfyr; byr ei drwyn; â thrwyn byr iddo *neu* ganddo: *f.* trwynfer.
Large-nosed—trwynfawr; mawr ei drwyn; â thrwyn mawr ganddo.
Bent-nosed—trwynbant.
Crinkle-nosed—trwyngrych; *f.* trwyngrech.
Sharp-nosed—trwynllym; llym ei drwyn; â thrwyn llym ganddo: *f.* trwynllem.
Aquiline-nosed—trwyngrwm, trwyngrwca, trwyngam.
Snub-nosed—trwynbwt, trwynbica.
Broken-nosed—trwyndwn.
Bottle-nosed — trwynbwt, trwynbant; trwynbotel; trwynfawr.
Nosefish, *s.* y trwynbysg, y trwynllydan.
Nosegay, *s.* (*nose*, a'r Celt. *geag*) blodeuglwm, clwm o flodau, tusw o flodau, tasgell o flodau, twff, gwullswp.
Where is thy nosegay — pa le mae dy glwm blodau? pa le mae dy flodeuglwm?
Noseless, *a.* didrwyn, heb drwyn.
Nose-smart, *s.* berwy, berw, berwr.
Nosethrill, *s.*=*Nostril.*
Nosing, *s.* (o *nose*) trwyniad.
Nosle, *s.* (o *nose*) trwynig, trwyn bychan, blaen, pig; trwyn megin.
The nosle of a bellows—trwyn, pib, *neu* bibell megin.
Nosocomical, *a.* (Gr. *nosocomeion*) perthynol i ysbytty.
Nosography, *s.* (Gr. *nosos* a *graphô*) darluniad *neu* ddysgriflad clefydau.
Nosological, *a.* clefydegol, clefydofyddol. [wr.
Nosologist, *s.* clefydofydd, clwyfofydd, clefydeg-
Nosology, *s.* (Gr. *nosos* a *logos*) clefydeg, clefydofyddiaeth, clwyfofyddiaeth.
Nosopoetic, *a.* (Gr. *nosos* a *poieô*) clefydbair; â baro *neu* â gynnyrchu glefydau.
Nostalgia, *s.* (Gr. *nostos* ac *algos*) salwch am gartref, clefni am gartref; awydd angerddol am ei adwedd.
Nostock, † *s.* chwydr ser, chwydredd ser, chwyd awyr, chwydr awyr.
Nostril, *s.* (S. *nosthyrl, næsthyrl*) ffroen.
The nostrils—y ffroenau; y ddwyffroen.
Having wide nostrils, } ffroenfoll,
Having distended nostrils, } ffroenllydan.
The gristle that divides the nostrils—teisban y ddwyffroen.
Nostrum, *s.* (Ll. o *noster*) cyfaredd, crach feddyginiaeth, coeg feddyginiaeth, crach gyffyr, crach gyffer, cyfaredd gwrach, cel gyffer, cudd gyffer: *pl.* cyfareddion, cyfareddion gwrach.
Not, *ad.* (S. *naht, noht;* Al. *nicht*) ni, nid, nis; na, nac, nad, nas; di-, an-, af-.
Not (interrogatively used)—oni, onid, onis, poni, ponid, pond, pand.
Not any, } neb, nebun, nebawd, neb un,
Not one, } dim un, nid un.
If not—onid e, onitê, os amgen; oni, onid, onis; pe na, pe nad, pe nas, pe nag; os ni, os nid; os na, os nad; pona, ponad, ponid, poni.
Not at all—nid...oll, ni...oll, nis...oll, nid ...ddim, ni...ddim, nac...oll, nac...ddim,

&c.; nid...ddim oll; nid...mewn un modd; nid.. mewn un mesur; nid.. yn y mesur lleiaf; nid...ddim yn y mesur lleiaf; nag e ddim, nac e ddim; na ddo ddim.
Not so—nid felly.
Not yet—nid...eto, ni...eto, nis...eto; nac ...eto.
Not far—neppell, nid neppell.
Not otherwise—nid amgen.
Is it not?—ai nid? onid? oni? onis? ond? pond? poni? ponid? pand? onid yw? onid ydyw? ai nid yw?
Is there not?—onid oes? ai nid oes? neud? neur? neus?
There is not—nac oes? nid oes? nid ydoes.
Not long after—ychydig wedi; ychydig ar ol hyn; ychydig wedi hyn; nid hir wedi hyn.
Or not—ai ni, ai nid, ai nis; ai na, ai nad, ai nac.
Not to matter—bod heb ofalu; peidio â gofalu.
Whether or not, } ai; pa un ai; ai... ai
Whether or no, } peidio.
Is it...or not—ai...ai nid yw.
Not many—nemawr, nemor; nid llawer; ychydig.
Go not with him, } na ddos gydag ef;
Do not go with him, } paid â myned gydag ef.
Not to know—bod heb wybod; bod heb adnabod; peidio â gwybod.
They will not come—ni ddeuant; nis deuant.
They went not, } nid aethant; peidiasant
They did not go, } â myned.
He tells not the truth, } ni ddywed
He does not tell the truth, } mo'r gwir; nis dywed mo'r gwir; nid yw yn dywedyd mo'r gwir.
Do not meddle with him—nac ymyr âg ef; paid âg ymyryd âg ef.
Thou shalt not kill—na ladd.
Thou shalt not commit adultery—na wna odineb; na odineba.
He says that thou didst it not — dywed nas gwnaethost; efe a ddywed nas gwnaethost.
Wilt thou not tell me?—oni ddywedi wrthyf? onis dywedi wrthyf.
Did I not say so?—oni ddywedais i felly?
Are you not ashamed?—onid oes cywilydd arnoch? a oes dim cywilydd arnoch?
Did I not know it?—oni wyddwn i hyny? onis gwyddwn i hyny?
Did he say so or not?—a ddywedodd efe felly ai peidio? a ddywedodd efe felly ai na ddo?
I do not at all understand this—nid wyf fi oll yn deall hyn; nid wyf fi oll yn deall mo hyn.
It shall not be at all—ni bydd ddim.
Are you displeased at me for this? Not at all—a ydych yn anfoddlawn wrthyf am hyn? Nac ydym ddim.
Is it this you intend? Not at all—ai hyn a fwriedwch? Nag e ddim.
Have you said so then? Not at all—a ddywedasoch chwi felly ynte? Na ddo ddim.
But his will was not at all to come at this time—eithr er dim nid oedd ei ewyllys ef i ddyfod yr awr hon.
Art thou not a monk?—ponid mynach wyt ti?
My hour is not yet come—ni ddaeth fy awr i eto.
I do not matter—ni'm dawr.

Notabilities, *s. pl.* nodedigion, odidogion; enwogion; rhai nodedig, hynod, *neu* enwog.

Notable, *a.* (Ff.; Ll. *notabilis*) hynod, nodol, nodedig, enwog, honaid, hysbys, eglur, odidog, anad, enddodol; od: gweithgar, diwyd, bywiog, gofalus, cynnil, llafurus.
A notable prisoner—carcharor hynod.
Two young men notable in strength—dau wr ieuanc nodedig o nerth.
The great and notable day of the Lord—dydd mawr ac eglur yr Arglwydd.
A notable affair—hynodiant, peth hynod.
A notable action—hynodiaeth, gweithred hynod.
To make notable—hynodi; gwneuthur yn hynod, &c.
Tending to be notable—hynodawl.
A notable temple—teml odidog (2 *Mac.* xiv. 33).

Notable, *s.* pendefig, pendeddig, dyledog, uchelwr, boneddig: *pl.* nodedigion.

Notableness, *s.* hynodrwydd, nodoldeb, nodolrwydd, nodedigrwydd, honeidrwydd, enwogrwydd, odidogrwydd, odrwydd; diwydrwydd, gweithgarwch, gofal.

Notably, *ad.* yn hynod, &c.
Notably well—yn hynod o dda, yn dda hynod, yn dda rhagorol, yn hynod dda, yn rhagorol dda.

Notarial, *a.* (o *notary*) nodiadurol, nodiedyddol; perthynol i nodiadur; â wnaed gân nodiedydd; dylnodol.

Notary, *s.* (Ll. *notarius*) nodiadur, nodiedydd, dylnodydd; ysgrifenedydd.
Notary public—nodiadur cyhoedd, nodiedydd cyhoedd; ysgrifenydd *neu* ysgrifenedydd awduredig; ceidwad cofflyfrau.

Notation, *s.* (Ll. *notatio*) nodiant, nodiad, nodyddiad; nod; meddwl, ystyr.
Notation (in arithmetic)—nodiant, rhifnodiant.
Algebraic notation—nodiant alsoddol.

Notch, *s.* (yr un, tebygol, â *niche*, *nick*; Al. *knicken?*) bwlch, rhwgn, rhic, rhig, rhign, rhint, crif, gwlf, hac.

Notch, *v. a.* bylchu, rhicio, rhician, rhintachu, rhigo, rhygnu, hacio, criflo, tori bwlch yn.
To notch hair—tocio gwallt, bylch-dori gwallt, bylch-docio gwallt.

Notching, *s.* bylchiad, rhiciad, rhintiad; bwlch, rhic, rhint, rhwgn, rhig.

Notchweed, *s.* eurllys, llewyn, llygwyn, difas.

Note, *s.* (Ff.; Ll. *nota*) nod; arwydd; sylw, sylwnod, sylwad, nodiad, arnod, arnodiad, eglurnod, nod sylw; nodyn; llythyryn, llythyr, ysgrifnod; coel; marc; cofnod, (*pl.* cofnodau); ysgrifen, ysgrif; daliad sylw, cymmeriad sylw; enw, cymmeriad, enwogrwydd, hynodrwydd, bri, cyfrifoldeb, ystyriaeth; gradd; tôn, acen, acan; goslef, sain unig, llais, llafar, cân, erddygan; nod tôn, nod sain, seinnod, tonnod.
Notes—nodiadau, sylwadau, sylwnodau, arnodiadau, eglurnodau, nodau; tonau, &c.
Note of interrogation—holnod, gofyneb, gofynnod, nod holiad, nod gofyniad, nod holi=?

Note of admiration—rhyfeddeb, syneb, rhyfeddnod, synnod=!
Note of hand—adneurwym, addaweb, gaddaweb, llofrwym, llofrwymeb, llawnod.
Promissory note—addaweb, gaddaweb, nod addewid, ysgrif addaw, ysgrifen addewid, ysgrifen addaw, llythyryn addaw, ysgrifnod addewid, ysgrifrwym.
Bank-note—cedlen, cednod, cedeb, ysgrif ariandy, cedgoel, banceb, ced-ddyl.
Marginal note—ymylnod.
Note (in music)—pwnc, nod tôn, nod sain, tonnod, seinnod.
Long note—hirnod, nod hir; hirsain, hirdon, sain hir, hir dôn, tôn hir; nod hirsain, nod hirdon.
Short note—byrnod, byrsain, nod byr; bersain, sain fèr, tôn fèr, bèr dôn; nod byrdon, nod byrsain. [nod.
Grace-note—addurnnod, nodaddurn, teleid-
Key-note—cyweirsain, cyweirnod, cyweirdant.
Sweet note—peraidd dôn, pereidd-don, peraidd sain, sain ber, sain beraidd.
Harsh note—garw dôn; dryglais, dybryd sain, gerwinllais.
Sharp note—crasdant.
Loud note—uchelsain, ucheldon, uchel dôn, uchel sain, tôn uchel.
Without note or comment—heb nod nac esboniad.
Explanatory notes—nodiadau eglurhaol, eglurnodau, sylwadau eglurhaol, &c.
A man of note, } gwr nod, gwr enwog,
A person of note, } gwr hynod, dyn cyfrifol, gwr ardderchog.
Of note—enwog, hynod; cyfrifol, cyfrifus; o fri a chymmeriad; â son am dano.
Of no note, } dinod, anenwog, anghyf-
Of little note, } rifol, digyfrif; heb fawr son am dano; heb nemawr son am dano; heb ddim bri arno *neu* iddo.
A person of little note—un heb fawr son am dano; un heb nemawr o son am dano; un heb fawr air iddo; un heb nemawr o air iddo; un heb nemawr yn ei adnabod; un heb fawr gyfrif o hono; un iselwael; un dinod, un anenwog.
Of great note—cyfrifol, mawr ei fri, mawr ei gymmeriad, parchus, cyfrifus, cymmeradwy, parchedig, cymmyreddus, gwerthfawr.
Of some note—crŷn enwog, trân enwog, crŷn gyfrifol.
A person of any note—un â dim o enw, o air, *neu* o gymmeriad iddo; un â dim o son am dano; un â dim o wr boneddig ynddo; un o ddim urddas; un â fai â dim o urddas iddo.
To sing a wild note—canu yn anhydon; canu o anian ac nid o addysg.
The cuckoo's note is ever the same—yr un acen sy gân y gwcw; byth yr un yw cân y gog.
To take in short notes, } cymmeryd
To take down in short notes, } ystyr peth mewn byr eiriau; tynu byr draethawd o beth; talgrynu, talfyru; gwneuthur crynodeb.
Note, *v. a.* nodi; sylwi, dàl sylw, cymmeryd sylw, gwneuthur sylw, gwneyd sylw o; sylwi ar; cofnodi; llyfru; sylwnodi, arnodi; marcio; dynodi; nodoli; hysbysu, ysbysu; ysgrifenu; tonnodi, seenu, pyncio.
To note down in a book—ysgrifanu mewn llyfr; rhoddi *neu* ddodi i lawr mewn llyfr; cofnodi mewn llyfr; llyfru, cofllyfru.
Note,† *v. a.* (S. *knitan*) cornio.
Note-book, *s.* nodlyfr.
Noted, *a.* nodedig, hynod, nodog, enwog, clodfawr, honaid, dathl, hyglod; carn, cyfaddef, hysbys; addefadwy.
Notedness, *s.* nodedigrwydd, hynodrwydd, enwogrwydd, &c.
Noteless, *a.* dinod, anenwog, anhynod.
Noter, *s.* nodydd, nodwr, nodai, sylwr, sylwedydd.
Noteworthy, *a.* gwiwnod, teilwng o sylw, nodwiw.
Nothing, *s.* (*no* a *thing*) dim, diddym; peth heb ddim; diddym ddefnydd.
Nothing at all—dim yn y byd; dim oll; dim o ddim; dim ag a ddimwyd; dim a'r a ddimwyd.
For nothing—am ddim; yn rhodd; yn rhodd ac yn rhad.
Nothing worth—heb dalu dim; heb fod yn werth dim; yn werth dim.
To make nothing of—bod yn afiwyddiannus mewn gorchwyl; methu llwyddo *neu* ffynnu mewn gorchwyl; bod heb allu cyflawnu gorchwyl; methu gàn un ddwyn peth i ben; bod heb elwa *neu* ennill ar; bod heb elwa *neu* ennill oddi wrth; bod heb gael mael *neu* ennill oddi wrth; methu gwneuthur dim o beth: gwneuthur yn hawdd *neu* ddïorchest; gwneuthur heb orchest yn y byd; gwneuthur cyn esmwythed a'r tes.
To come to nothing, } dyfod i ddim;
To be brought to nothing, } myned ar ddim; dyfod i'r dim; myned i'r dim; myned yn ddim; myned yn ddiffrwyth; myned yn ddiles; methu yn llwyr; afiwyddo, anffynnu, annhycio, methu, ffaelu; darfod am dano; difanu, difanu.
To bring to nothing—diddymu, dilëu, dyfetha, dinystrio, difanu, difa, difwyno, ysu, anrheithio, dielwi, peri difanu; dwyn i ddim *neu* ddiddymdra.
Of nothing cometh nothing—ni cheir dim o ddim; ni ddaw dim o ddim; o ddim, dim a ellir.
Doubting nothing—heb ammheu dim.
Nothing venture, nothing have—ni chaiff dda nid el yn namwaen.
All things that are seen were created out of nothing—o ddiddym ddefnydd y gwnaed y pethau gweledig oll.
They live upon nothing but honey—mêl yw eu hunig ymborth.
It is nothing to me—ni'm dawr i; nid gwaeth i mi; ni waeth i mi; ni pherthyn i mi; nid yw ddim i mi.
You have nothing to do with it—nid oes i chwi â wneloch âg ef; nid oes i chwi â fynoch âg ef.
He is nothing but skin and bones—nid yw efe amgen na chroen ac esgyrn.
I have nothing to accuse you of—nid oes genyf beth i achwyn arnoch; nid oes genyf yr hyn a achwynwyf arnoch o'i blegid; nid oes genyf ddim i achwyn arnoch o'i blegid.

Nothing drieth up sooner than tears—nid oes à sych yn gynt na dagrau; nid oes dim à sych yn gynt na dagrau.

I know nothing by myself—ni wn i ddim arnaf fy hun.

Wherefore she told him nothing—am hyny nid ynganodd hi wrtho ef air.

If thou hast nothing to pay—oni bydd genyt i dalu.

Have thou nothing to do with that just man—na fydded i ti à wnelych â'r cyfiawn hwnw.

Nothing, *ad.* dim; dim oll.

He is nothing the better for it—nid yw efe ddim gwell erddo; nid yw efe ronyn, fymryn, chwythryn, *neu* dipyn gwell erddo.

Nothingness, *s.* dimedd, diddymder, diddymdra, diddymrwydd, dimrwydd; dim, diddym; anendid.

Notice, *s.* (Ff.; Ll. *notitia*) sylw, sylwad; hysbysrwydd, ysbysrwydd; hysbysiad, ysbysiad, hysbysiaeth; rhybudd, gwŷs; gwybodaeth, copinod; hysbyseb; awgrym, amnaid; nod, nodiad; daliad sylw, syniad; ystyriaeth; crybwyll, crybwylliad.

To give notice, } hysbysu; anfon gwybod,
To send notice, } rhoddi gwybod, rhoi gwybod; rhybuddio, rhoi rhybudd; arddangos; mynegu; peri gwybod.

To take notice—cymmeryd sylw, dàl sylw, sylwi, gwneuthur sylw; cymmeryd rhybudd; gwybod.

To take notice of—sylwi ar; cymmeryd sylw o, &c.; crybwyll, son am, crybwyll am; ystyried, ystyrio.

To take no notice of—esgeuluso; peidio à dàl sylw ar; bod heb ddàl sylw ar; bod heb sylwi ar; peidio â sylwi ar; bod heb grybwyll am; bod heb goffa, son, *neu* sonied am; bod yn ddisylw ar *neu* o; bod heb gymmeryd ar un wybod peth; myned heibio i un heb gyfarch iddo; peidio â chymmeryd sylw o un.

To take notice of a person—sylwi ar un; cymmeryd sylw o un; gwneuthur sylw o un; cyfarch i un.

To take particular notice of one—dàl sylw neilltuol ar un; sylwi yn neilltuol ar un; dàl manol sylw ar un; dangos rhagorbarch i un; rhagorberchi un.

To have notice of a thing—cael gwybod peth; cael hysbysrwydd *neu* gopinod o beth.

Take notice—dalier sylw, daliwch sylw, dàl sylw, sylwer, noder, sylwch, sylwa.

Claim notice—hawleb, rhybudd hawl, archdaleb.

He took no notice of this—ni chymmerodd arno wybod hyn; ni chymmerodd dim sylw o hyn.

There was no notice taken of this at that time—ni bu son, gair, coffa, *neu* grybwyll am hyn ar hyny o bryd.

Notice, *v. a.* sylwi ar, sylwi; dàl sylw ar; gwneuthur sylw ar; gweled, canfod; ystyried, ystyrio; dori, dawr; nodi.

I notice not—ni ddoraf; nid wyf yn sylwi ar.

Noticeable, *a.* (o *notice*) sylwadwy, nodadwy; y gellir sylwi arno; teilwng o sylw, gwiwnod, nodwiw.

Notification, *s.* hysbysiad, ysbysiad, hysbysrwydd, ysbysiaeth, gwneuthuriad yn hysbys, rhoddiad gwybod, anfoniad gwybod; rhybudd, rhybuddiad; hysbyseb; mynegiad, cyhoeddiad.

Notify, *v. a.* (Ff. *notifier;* Ll. *notus* a *facio*) hysbysu, ysbysu, gwneuthur yn hysbys, gwneyd yn hysbys, peri yn hysbys, gwneyd yn ysbys; cyhoeddi, mynegu; dangos *neu* fynegu ar gyhoedd; rhoi gwybod *neu* gopinod.

Notion, *s.* (Ff.; Ll. *notio*) tyb, dychymyg, tybiant, tybiaeth, meddwl, syniad, amcan, bryd, barn, cyffred, amgyffred, dirnad, dirnadaeth, bwriad; ymofeg, delfryd, meddylrith; ystyr, arwyddocâd, deall; rhith, cyffelybrwydd; tuedd, oredd.

Under the notion of—tàn rith, tàn gysgod, tàn gyffelybrwydd.

The proper notion of a word—priodol ystyr gair; arwyddocâd priodol gair.

Notional, *a.* tybiol, dychymygol, dychymygus, tybiedigol, tybiedig, tybygol, tybiannol, cyffredol, amgyffredol, delfrydol; mympwyol, ympwyol, amcanol, nwythus, nwydol.

Notionist, *s.* tybiwr, dychymygwr, tybygwr, un diseil ei farn.

Notoriety, } *s.* (Ff. *notoriété*) hynodrwydd,
Notoriousness, } honeidrwydd, cyhoeddusrwydd, cyhoeddrwydd, hysbysrwydd, amlygrwydd; rhempusrwydd; hysbysrwydd rhyw gyflafan *neu* ddirasrwydd i bawb; hynodrwydd rhyw ddyhirwch *neu* ddireidi; honeidrwydd dyhirwch *neu* ddireidi.

Notorious, *a.* (Ll. *drosgl, notorius;* It. ac Ysp. *notorio;* Ff. *notoire*) hynod, honaid, cyhoedd, cyhoeddus, hysbys, ysbys; hysbys i bawb; carn; rhemp, rhempus; wedi myned ar gyrn a phibau; amlwg, goleu; erchyll, erch, echrys; gwarthus; hoeth, hoeddus; nodedig; anghyffredin; addefadwy.

A notorious thief—carn lleidr, carn leidr, carnlleidr, carnleidr, lleidr cyfaddef, lleidr diflog; lleidr â'i dyngu; un â llun y crogbren yn ei dalcen.

She is notoriously bad — y mae hi yn rhempus; y mae hi yn rhemp.

It is notoriously known—efe a aeth ar gyrn a phibau; y mae wedi myned ar gyrn a phibau; y mae yn hysbys i bawb; y mae pawb yn gwybod am dano.

As is notoriously known—fel y gwŷr pawb; fel y mae yn eithaf hysbys i bawb.

Nott,† *v. a.* (S. *knot*) cneifio; tocio.

Nott,† *a.* cneifiedig, tociedig; llyfu.

Notus, *s.* (Ll.) y deheuwynt, y dewynt, gwynt y de, gwynt y deheu.

Notwheat, *s.* (S. *knot*, a *wheat*) gwenith moel, gwenith angholiog, gwenith difarf.

Notwithstanding, *c.* neu *p.* (*not* a *withstand*) er, er hyn, er hyny, serch hyny, er hyn oll, er hyny oll, er hyn i gyd, er hyny i gyd; eto, eton, etwa, etwaeth, hagen, anllai, nid allai; heb na lludd na rhwystr; yn ddiwrthladd.

Notwithstanding that—er.

Notwithstanding anything that could be said to the contrary—er dim à ddywedid i'r gwrthwyneb; er dim à ddywedid yn y gwrthwyneb.

Any law or custom to the contrary in any wise notwithstanding—er neb rhyw gyfraith neu ddefod ar neb rhyw fodd yn y gwrthwyneb.

Notwithstanding this will weaken them—er y gwanha hyn hwynt.
They are, notwithstanding, to know that they are still bound to observe the moral law—gwybyddant, er hyn oll, eu bod yn rhwym *neu* dàn rwymau i gadw y gyfraith foesol.

Nought, *s.* (S. *nohwit, nouht, noht*) dim, diddym.
For nought—am ddim; yn rhad; heb elw; yn ddiachos.
To come to nought—myned ar ddim; myned i ddim; myned yn ddim; myned i'r dim; dyfod i'r dim; myned yn ddiffrwyth; methu yn llwyr; darfod am dano; methu; aflwyddo; diflanu, difanu.
To set at nought—dirmygu, bychanu, diystyru, tremygu.
A thing of nought—peth diddym, peth heb ddim.
To bring to nought—diddymu., dilëu, dyfetha, dinystrio, difanu, difa, difwyno, ysu, anrheithio, dielwi, peri difant; dwyn i ddim *neu* ddiddymdra.
Where nought is to be had, the king must lose his right—ni cheir gàn y llwynog ond ei groen.

Noul, † *s.* (S. *kuol*) coryn, caran, siol, coryn y pen.

Nould, † *v.* (=*ne would, would not*) ni fynai, &c.

Noun, *s.* (Ll. *nomen*) enw, henw; gair.
Noun substantive—enw cadarn, enw tansafedigol; sylweddair.
Noun adjective—enw gwàn; ansoddair, ansoddeb, chwanegair; ansawdd damweiniol; gair gwàn.
A noun of no case—enw didreigl, enw digyflwr.
A noun of one case—enw untreigl, gair untreigl.
A noun of three cases—enw trithreigl, gair trithreigl.
Proper nouns—enwau priod, enwau priodol, priod enwau, priodenwau.
Common nouns—enwau cyffredin.

Nourice, † *s.* (Ff. *nourrice*) mammaeth.

Nourish, *v.* (Ff. *nourrir*; Ll. *nutrio*) magu, maethu, meithrin, meithrino, magwriaethu, amgeleddu, cynnal; porthi.

Nourishable, *a.* magadwy, maethadwy, hyfaeth, hyfag, meithrinadwy.

Nourisher, *s.* magwr, maethwr, maethydd, meithrinwr, meithrinydd, megidydd, magai, maethiedydd, maethai; porthwr, porthydd; cynnalydd: *f.* magwres, meithrines, meithrinyddes, meithrinwraig, megides, megidyddes.

Nourishing, *a.* maethol, magwriaethol, magwriaethus, maethedigol, maethiannol, maethiannus, maethiadus, maethidiol, maethiadol, maethus, meithrinol, maethlawn, maethgar.

Nourishment, *s.* maeth, magwriaeth, magwraeth, meithriniaeth, meithrinaeth, meithrin, maethiant, maethid, maethineb; lluniaeth, ymborth, cynnaliaeth, porthiant, bwyd.

Nourriture,† *s.* (Ff. *nourriture*)=*Nurture.*

Noursle, Nousle, Nousel, †*v. a.* meithrin, magu, magwriaethu, anwesu.

Nourseling, *s.*=*Nursling.*

Nous, *s.* (Gr.) meddwl, deall.

Novaculite, *s.* (Ll. *novacula*) ellynfaen, hogl ech hogalen Twrci.

Novation, *s.* (Ll. *novatio*) newyddiad, newyddiant, newydd-deb, newydd-dra.

Novator, *s.* newyddwr, newyddiedydd.

Novel, *a.* (Ll. *novellus*, o *novus*) newydd; diweddar; anarferol.

Novel, *s.* newyddeb, ffugeb, chwedl, ffughanes, ffugdraith, ffugdraeth, ffugdraethawd, ffugchwedl, newydd-chwedl, chwedl ddychymyg, ystori ddychymyg, coegchwedl, newyddraith, difyrdraith newyddlun; newyddarch, rheithattodiad.

Novelism, *s.* newyddiant, newyddiaeth.

Novelist, *s.* newyddebydd, newyddebwr, ffugchwedlwr, ffugdraethwr, ystoriawr dychymyg, ysgrifenydd newyddebion, awdur ffugdraethan; newyddwr, newyddiedydd; † ysgrifenwr newyddion.

Novelize,† *v. a.* newyddu, newyddio.

Novelty, *s.* (o *novel*) newydd-deb, newydd-der, newydd-dra, newyddrwydd, newyddiant, diweddarwch; newyddbeth, peth newydd, peth dyeithr, peth anarferol; peth nas gwelwyd mo'i fath o'r blaen.

November, *s.* (Ll.) Tachwedd, mis Tachwedd= yr 11fed mis.
The first day of November—calan gauaf, dydd calan gauaf; y dydd cyntaf o Dachwedd. [rhif naw.

Novenary, *s.* (Ll. *novenarius*) naw, nawrif, y

Novenary, *a.* nawol, nawrifol; perthynol i naw.

Novennial, *a.* (Ll. *novem* ac *annus*) nawmlwyddol, nawmlyneddol, nawblwyddol, nawblyneddol, bob naw mlynedd.

Novercal, *a.* (Ll. *noverca*) llysfamol, llysfam aidd, elltrewenol; yn perthyn i lysfam; perthynol i fam wën.

Novice, *s.* (Ff.; Ll. *novitius*) newyddian; dechreuwr; dysgybl ysbâs; creiddyn, dyn crai, dyn prawf, gwr prawf.
He is a very novice—un llwyr *neu* gwbl anhyfedr ydyw; un llwyr *neu* gwbl anghyfarwydd ydyw; nid yw efe, yn wir, ond dechreuwr; nid yw efe, yn wir, ond un sy'n dechreu.

Novilunar, *a.* (Ll. *novilunium*) newyddloerawl, newydd-leuadol; perthynol i'r newyddloer; yn perthyn i'r lleuad newydd.

Noviciate, } *s.* newyddianaeth, creiddyniaeth;
Novitiate, } cyflwr *neu* ansawdd newyddian; cyflwr prawf, amser prawf, cyflwr ysbâs.

Novitious,† *a.* (Ll. *novitius*) newydd eiddyfeisio; newydd.

Novity,† *s.* (Ll. *novitas*) newydd-deb, newyddder, newyddrwydd, newydd-dra.

Now, *ad.* (S., Is., Sw., D., a Goth. *nu*) yn awr, yr awr hon, yr awron, yr awran; y pryd hwn, y pryd hyn, y pryd presennol; ar y pryd hwn, ar y pryd hyn, ar y pryd presennol; yn bresennol, yn gynnrychol; ar hyn o bryd; ar hyn o amser; nan; einawr; ychwinsa; bellach, weithian, weithion, weithon; a, ac, a'r.
Now at length—bellach, weithian, weithion, weithon.
Now or never—bellach neu byth.
Now and then—ambell waith, weithiau; yn awr ac eilwaith; yn awr ac yn y mân; yn awr a phryd arall; ambell dro.
Before now—cyn hyn; cyn hyn o amser; cyn yn awr; cyn no hyn; cyn heddyw.

Just now—yr awr hon, yr awron, yn awr, yr awran, y mynyd hwn, ar y mynyd hwn, yn y mynyd hwn, yn y mynyd, ar yr awr hon, yn yr awr hon, yn awr hyn; ar hyn; toc.
But just now—yn awr fach, gynneu fach.
Even now—y mynyd hwn; yn y mynyd hwn; yr awr hon; yn awr hyn; yn y mân.
How now!—pa fodd yn awr! pa wedd yn awr! beth yw hyn! pa fodd nan!
Well what now—wele nan, wel nan; wel beth yn awr.
Until now—hyd yn hyn; hyd yn awr; hyd y pryd hyn; hyd y pryd hwn; hyd yma; hyd yr awron.
Well now—iddo yn awr.
Go to now—iddo yn awr; felly yn awr.
It is now high time to be going—mae yn llawn bryd ymadaw weithian; mae yn llawn oed ymadaw weithian; mae weithian yn llawn bryd i ymadaw; mae weithian yn llawn bryd i fyned ymaith.
Now when Joab saw—a phan welodd Ioab.
Now on this side, now on that—weithiau ar y tu yma, weithiau ar y tu arall.
Now then, if God has dealt so graciously with us, let us magnify his infinite mercy—wele ynte, os gwnaeth Duw gyfryw bethau daionus erom, mawrygwn ninnau ei anfeidrol drugaredd ef.

Now, *s.* yr awr hon, yr awron, yr awran, y pryd hwn, y pryd hyn, yr amser presennol, y mynyd hwn.
Now-a-days—y dydd heddyw; yr oes hon; yn yr oes hon; yr amser hwn; yn awr; yn y dyddiau hyn; yn y dyddiau presennol; y dyddiau hyn; heddyw; y to hwn; y do hon; y to presennol; y to y sydd.

Noway, } *ad.* nid mewn un modd; dim mewn
Noways, } un modd; nid yn y mesur lleiaf.

Nowed, *a.* (Ff. *noué*) clymog, cylymog, cymhlethog, clymedig, yn nghwlwm.

Nowel,† *s.* (Ff. *noel*) carol Nadolig; bloedd gorfoledd.

Nowes,† *s.* (Ff. *nou*) cwlwm priodas, priodasglwm.

Nowhere, *ad.* (*no* a *where*; S. *nawhære*) nid yn unman, nid yn unlle, neble.

Nowise, *ad.* (*no* a *wise*) nid mewn un modd; nid mewn un wedd; dim mewn un modd.
Him that cometh to me I will in no wise cast out—yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim (*Ioan* vi. 37).

Noxious, *a.* (Ll. *noxius*) niweidiol, niweidiog, adwythig, erniwol, eniwol, drygus, dryglawn, drwg, à wna ddrwg, dinystriol; afiach, afiachus; euog, beius; anafol; gwrthun, ffiaidd.

Noxiousness, *s.* niweidioldeb, niweidiolrwydd, niweidiogrwydd, niweidioledd, adwythigrwydd, niweidrwydd, dryglonedd; afiachusrwydd.

Noy,† *v. a.*=*Annoy.*

Noyance,† *s.*=*Annoyance.*

Noyau, *s.* (Ff.) cnewullwy, sirlyn, chwaethlyn, sirfaeth.

Nozzle, *s.* (o *nose*) trwyn; pig, blaen.

Nubble,† *v. a.* (o *knubble*) dyrnodio, curo à dwrn, paffio, pwyo.

Nubiferous, *a.* (Ll. *nubifer*) à ddyco *neu* à gynnyrcho gymylau; yn dwyn cymylau.

Nubile, *a.* (Ff.; Ll. *nubilis*) priodadwy, dyweddïadwy; mewn oedran priodi; addfed i briodi.

Nubility, *s.* sefyllfa briodadwy, cyflwr priodadwy; bod yn briodadwy.

Nubilous, *a.* (Ll. *nubilus*) cymylog; tywyll, caddugog.

Nucamentaceous, *a.* (Ll. *nucamentum*, o *nux*) cneuol, perthynol i gnau; cneuog, yn dwyn cnau.

Nuciferous, *a.* (Ll. *nux* a *fero*) yn dwyn *neu* gynnyrchu cnau; cneuog, cneuddwyn.

Nucleolus, *s.* (bych. o'r Ll. *nucleus*) eginyn *neu* flaguryn cnewullyn.

Nucleus, *s.* (Ll.) cnewullyn; bywyn; creiddyn, canolyn, canolgorff; canolfa; canol.

Nucula, } *s.* (Ll. *nucula*) amgneuen, amgneu-
Nucule, } an.

Nudation, *s.* (Ll. *nudatio*) noethiad, dynoethiad, arnoethiad, dihatriad, llymhad.

Nude, *a.* (Ll. *nudus*) noeth, arnoeth, llwm, llymrig; dirym, anolo.
Nude matter—haeriad noeth.

Nudibranchiata, } *s. pl.* (Ll. *nudus*, a Gr.
Nudibranchians, } *bragchia*) noethdagellog-
Nudibranchea, } ion, crogennoethion, bolbedogion tagellnoeth, tagellnoethion.

Nudibranchiate, *a.* tagellnoeth, crogennoeth, perthynol i'r tagellnoethion.

Nudity, *s.* (Ll. *nuditas*) noethni, noethder, noethdra, noethedd, arnoethder; llun dyn noethlymyn, noethlyman, noethlun, llyman noeth.
Nudities—noethranau, noethderau, noethluniau, noethni.

Nuel, *s.*=*Newel.*

Nugacity, *s.* (Ll. *nugax*) gwegi, coegedd, gwagedd, gofregedd, gorwagedd, gwegyd, oferedd, ffiadredd, ofersiarad, gwagsiarad, gwagiaith.

Nugation, *s.* (Ll. *nugatio*) gwageddiad, simeriad, oferiad, gogusiad.

Nugatory, *a.* (Ll. *nugatorius*) ofer, gwag, gorwag, oferwag, coeg, dibwys, disylwedd, ffiadr; dirym, dieffaith, aneffeithiol.
The nugatory art—chwydawiaeth.
A nugatory action (at law)—arabhawl.

Nuisance, *s.* (Ff. o'r Ll. *noceo*) casbeth, blinbeth; unrhyw beth niweidiol a blin pa bynag; niwed; cawdd.
A public nuisance, } cas gàn bawb; pla
A common nuisance, } cyffredin, blinder cyffredin, echrys cyffredin, casbeth cyffredin; aflonyddwch gwlad.

Nul, † *ad.* (Ll. *nullus*) ni, nid, nis.

Null, *v. a.* (Ll. *nullus*) dirymu, dirymio, diddymu, dilëu, dinystrio.

Null, *a.* (Ll. *nullus*) dirym, diddym, ofer, anolo; diddymedig; aneffeithiol, dïeffaith.
Null and void—dirym, diddym, ofer, anolo; dirym a diffrwyth.
To make null—dirymu, dirymio, diddymu; gwneuthur yn ddiddym *neu* anolo.

Null, † *s.* peth dirym, peth diddym; goddim, gwagnod.

Nullah, *s.* camlas naturiol, ffrwd groes rhwng dwy afon (yn yr India Ddwyreiniol).

Nullificatien, *s.* (o *nullify*) dirymiad, diddymiad; gwneuthuriad yn ddirym *neu* anolo.

Nullifidian, *a.* (Ll. *nullus* a *fides*) diffydd, digred, digrefydd; dïymddiried.

Nullifidian, *s.* un diffydd, &c.

Nullifier, *s.* diddymwr, dirymwr.

Nullify, *v. a.* (Ll. *nullus* a *facio*) diddymu, dirymu, dirymio; gwneuthur yn ddiddym, yn ddirym, *neu* yn anolo.

Nullity, *s.* (It. *nullità*; Ff. *nullité*; o'r Ll. *nullus*) diddym, peth diddym, dimedd, diddymder, diddymdra, diddymrwydd, dirymedd, diffyg grym.

Numb, *a.* (S. *numen*; Al. *nehmen*) merwinllyd, merwin, wedi merwino, marwaidd, marw, diffrwyth; â chysgfa ynddo *neu* ynddi; yn cysgu, wedi cysgu; cyffiedig, wedi cyffio; fferllyd; hurt; merwinol, cyffiol.

Numb, *v. a.* merwino, cyffio, marweiddio, marwhau, peri cysgu, peri merwino, diffrwytho; fferu; hurtio; gwneuthur yn ddideimlad; dwyn y teimlad.

Numbedness, *s.* merwindod, merwindeb, merwinedd, merwin, marwder, marweidd-dra, diffrwythdra, dideimladrwydd.

Number, *s.* (Ff. *nombre*; Ll. *numerus*) rhif, nifer, rhifedi, rhifed, rhifedd, eirif, cyfrif; rhifyn; rhifran; llu, lluaws, llawer; mydr, prydyddiaeth, barddoneg, cân, cywydd, cynghanedd, pennill: *pl.* rhifau, rhifon, niferoedd, niferi, rhifedi.

Numbers—mydr, (*pl.* mydrau), cynghaneddion, cynghaneddau, mesurau.

The singular number—y rhif unigol, y rhif unig, y rhif anlluosog.

The plural number—y rhif lluosog, y lluosrif.

The golden number—y rhif euraid, y prif.

Ordinal numbers—rhestrolion, trefnolion, rhifedi rhestrol, rhifau rhestrol, rhifedi trefnol, rhifau trefnol: *sing.* rhif rhestrol, rhif trefnol=cyntaf, ail, trydydd, &c.

Cardinal numbers—rhifau arbenig, prif rifolion, prif rifau, rhifolion, prif rifedi =un, dau, tri, &c.

Even number—cyfnifer, cynnifer; nifer gwastad, rhif gwastad, nifer cyfartal.

Of an even number, } cyfnifer, cyfniferog,
Of even number, } cynnifer, cynniferog, cynniferol, cyfniferol.

Uneven number, } amnifer, anghynnifer,
Odd number, } anghyfnifer.

Of an uneven number, } amnifer-
Consisting of an uneven number, } erog, amniferol, anghynniferog, anghynniferol, anghyfnifer.

Evenness of number—cyfniferedd, cynniferedd, cyfniferwch, cynniferwch, cynniferoldeb, cyfniferogrwydd, cyfartaledd rhifedi.

Unevenness of number — amniferedd, anghynniferedd, anghynniferwch, anghyfniferedd, anughynniferoldeb, &c.

Broken numbers—twnrifau, bregrifau; swlliadau, ylliadau, yllion.

Whole numbers—cyfanrifau, symion, cyf anion, rhifau cyfain.

Given number—rhif rhoddedig, nifer rhoddedig.

Without number, } aneirif, dirifedi, anhy-
Past number, } rif, afrifed, dirif; heb
Beyond number, } rif arno; heb gyfrif arno; yn aneirif, &c.

A being past number—afrifedi, bod yn aneirif.

Extra number—gorrif, rhif ystra, nifer dros ben, rhy-nifer.

Superior number—goruchrif, goruch nifer, uwch rhif, mwy rhif, rhif lluosocach, &c.

A single number—rhifyn: *pl.* rhifynau.

The science of numbers—rhifeg, rhifofyddiaeth, ofyddiaeth rhifau.

A good number—rhifedi nid bychan; nifer nid bychan; rhynawd o nifer; cryn nifer, cryn rifedi, cryn lawer.

A great number—lluaws, llawer, (*pl.* llaweroedd), llawer iawn, nifer mawr.

In great number, } yn aml, yn heidiau,
In a great number, } yn heigiau, yn fynteioedd, yn drylau.

Few in number—ychydig o rifedi *neu* nifer; anaml; bychan o rifedi; nemawr.

What number—pa sawl, pa sawl un, pa nifer, pa rif, pa gynnifer; pa gymmaint; pa faint *neu* gymmaint o rifedi.

Of what number—o ba nifer; o ba gyfrif; pa sawl un; pa un o gyfrif.

What number soever—pa nifer bynag; pa rifedi bynag; pa sawl un bynag.

Of what number soever—o ba nifer bynag; o ba rifedi bynag; pa un bynag o gyfrif.

More in number—amlach, lluosocach, lliosocach; ychwaneg, chwaneg, *neu* fwy o rifedi. [tàn gyfrif.

By number—wrth rif, tàn rif, wrth gyfrif,

Power of numbers—gallu rhifau, rhifallu, rhifall, rhifonall.

One of their number—un o honynt.

To make one's self of the number of—cystadlu ei hun â; ymgystadlu â.

We dare not make ourselves of the number—nid ŷm ni yn beiddio ein cystadlu.

To make few in number—gwneuthur *neu* beri yn anaml; lleihau; anamlhau.

Ye shall be left few in number—chwi a adewir yn ychydig bobl.

Number, *v. a.* rhifo, cyfrif, cyfrifo, rhifnodi, niferu, niferiannu, rhifiannu, dyrifo, eirifo.

To number again—adrifo, ail rifo, rhifo drachefn.

To number with one's self—ymgyfrif; rhifo rhyngddo ac ef ei hun.

Those that are numbered—rhifedigion.

And all that were numbered of you—a'ch holl rifedigion (*Num.* xiv. 29).

Not to be numbered—aneirif, anhyrif, afrifed, dirifedi, afrif, dirif, annifeiriol, afrifadwy.

Numberer, *s.* rhifwr, rhifydd, rhifiedydd, rhifedydd, cyfrifydd, niferydd.

Numberful, *a.* niferog, rhifiog, lluosog, aml.

Numberless, *a.* aneirif, afrifed, dirif, afrif, dirifedi, anhyrif, annifeiriol, afrifol.

Numbers, *s. pl.* rhifau, &c.; mydr, (*pl.* mydrau), cynghaneddion, cynghaneddau, mesurau, banau.

The book of Nnmbers—llyfr Niferi, llyfr Numeri=4ydd llyfr Moses.

Numbles, *s. pl.* (Ff. *nombles*) perfedd carw, coluddion danas.

Numbness, *s.* (o *numb*) merwindod, merwindeb, merwinedd, merwin, cyffiogrwydd, marwder, marweidd-dra, diffrwythdra; cysgfa; ewinrew, gwynrew; fferdod, annwyd; dideimladrwydd.

Numerable, *a.* (Ll. *numerabilis*) rhifadwy, hyrif, cyfrifadwy; â ellir *neu* â aller ei rifo.

Numeral, *a.* (Ff.; Ll. *numeralis*) rhifol, niferol, nifeiriol, eirifol, dyrifol, niferiannol, rhifiannol; perthynol i nifer *neu* rifedi; yn perthyn i rifedi *neu* gyfrif.

Numeral letters—rhifiythyrenau, llythyrenau rhifol, llythyrenau rhif.
Numeral characters—rhifnodau, rhifebion.
Numeral, *s.* rhifnod, rhifeb.
Numerally, *ad.* yn ol rhifedi; yn rhifol, &c.
Numerals, *s. pl.* rhifolion, rhifnodau, rhifebion; rhifeiriau: *sing.* rhifnod, rhifeb, rhifair.
Arabic numerals—rhifnodau Arabig, rhifolion Arabaidd=1, 2, 3, 4, &c.
Roman numerals—rhifnodau Rhufeinig, rhifolion Rhufeinaidd=I, II, III, IV, &c.
Numerary, *a.* rhifiannol, niferiannol, rhifedyddol, niferol, nifeiriol, cyfrifedigol.
Numerate, *v. a.* (Ll. *numero*) rhifo, cyfrif, rhifiannu, rhifnodi.
Numeration, *s.* (Ll. *numeratio*) rhifiant, rhifiad, rhifedigaeth, rhifedyddiaeth, niferiaeth, niferiant, dyrifiad; rhifnodiad, rhifnodiant; rhifiead.
Numeration table—taflen rhifiant, rhifiechres, taflen rifol, taflen rifiannol.
Numerator, *s.* (Ll.) rhifydd, rhifwr, rhifedydd, rhifiedydd, rhifnodydd, niferai.
Numeric, } *a.* (*Ff. numérique;* Ll. *numerus*)
Numerical, } rhifol, niferol, rhifnodol, rhifnodiadol, niferiannol, rhifiannol, yn nodi rhif, dyrifol; yn ateb rhif am rif; yr un rhif am rif; yn ateb o ran rhyw a rhifedi; yr un o ran rhyw a rhifedi; cyfrifus, cyfrifedigol.
Numerically, *ad.* o ran rhif; o ran rhifedi; mewn rhifau; mewn rhifedi; yn rhifol, &c.
Numerically the same—yr un rhif am rif; yr un rhan am ran.
Numerist, † *s.* niferydd, rhifydd, rhifwr; coelrifydd, rhifgoelydd.
Numerosity,† *s.*=*Numerousness.*
Numerous, *a.* (Ll. *numerosus*) lluosog, lliosog, niferog, rhifiog, nifeiriol; aml (o rifedi); llawer; cynghaneddol, cynghaneddog, seinber, hysain.
You are numerous—yr ydych chwi yn llawer. [ydych.
For you are numerous—canys llawer
Numerousness, *s.* lluosogrwydd, niferogrwydd, amledd, amlder, amldra, niferedd, rhifedd; cynghaneddogrwydd, cynghaneddoldeb, cynghanedd, hyseinedd, persain.
Numismatic, *a.* (Ll. *numisma;* Gr. *nomisma*) arianol; bathofyddol; bathol, bathodol; perthynol i arian bath; yn perthyn i arian.
Numismatics, *s.* bathofyddiaeth.
Numismatography, *s.* (Gr. *nomisma* a *graphô*) bathofyddiaeth.
Numismatologist, *s.* bathofydd=un hyddysg mewn arian bath, bathodau, a chofluniau.
Numismatology, *s.* (Gr. *nomisma* a *logos*) bathofyddiaeth.
Nummary, *a.* (Ll. *nummarius,* o *nummus*) arianol, mwneiol; perthynol i arian.
Nummular, *a.* (Ll. *nummus*) arianol, mwneiol, bathol; perthynol i arian bathol.
Nummulite, *s.* (Ll. *nummus,* a Gr. *lithos*) arianith; math o benbedogion diflanedig.
Nummulitic, *a.* arianithig; perthynol i arianithod.
Numps,† *s.* penbwl, hurthgen, penhyrddyn.
Numskull, *s.* (*numb* a *skull*) penbwl, clwpa, clopa, hurthgen, penhyrddyn, (*pl.* penhyrddod), catwrdd, penglogyn, pendew, penllorcan, delff, llelo, llob, llobyn, brebwl, delbren, hurtyn, ffwlcyn, drelyn, hwrdd o ddyn.
Numskulled, *a.* penbwl, penbylaidd, pendew, penblydd, penglogaidd, delffaidd, penffol, synwyrbwl, trymhyrddig.
Nun, *s.* (S. a D. *nunne;* Al *nonne*) lleian, mynaches, monaches, manaches.
The life of a nun, } lleianaeth, buchedd
The life of nuns, } leianaidd, buchedd lleian, buchedd lleianod.
Belonging to a nun—lleianol, lleianaidd.
Like a nun—lleianaidd, fel lleian, tebyg i leian.
Nun, *s.* y lleian; llygoden y derw, pela glas bach, cap y lleian=math o sywidw, a math o aderyn cyfandroed cymmaint a hwyad.
Nunchion, *s.* (o *noon* ? ynte llygriad o *luncheon*?) cynnwysfwyd, byrbryd, gobryd, bwyd ambor, prydnawnfwyd, ciniaw echwydd, rhyngfwyd.
Nunciature, *s.* (o *nuncio*) swydd cenad y Pab; cenadwriaeth.
Nuncio, *s.* (It. *nunzio;* Ll. *nuncius*) cenad y Pab, cenadwr y Pab; cenad, cenadwr, cenadadydd, negesydd.
Nuncupate,† *v. a.* (Ll. *nuncupo*) dadgan ar gyhoedd, cyhoedd fynegu, hoedd fynegu; enwi.
Nuncupation, *s.* enwad; mynegiad.
Nuncupative, } *a.* (It. *nuncupativo;* Ll. *nuncupo*) ar dafodleferydd; ar air yn unig, ar eiriau yn unig, mewn geiriau yn unig; geiriol; hoedd-fynegol, cyhoeddfynegol, cyhoedd-fynegedig.
Nuncupatory, }
A nuncupative will—llythyr cymmyn ar dafodleferydd ger bron tystion addwyn; geir-gymmyn, cymmyn geiriol, ewyllys geiriol.
Nundinal, } *a.* (Ll. *nundinalis*) marchnadol,
Nundinary, } ffeiriol; perthynol i'r nawfed dydd; nawdyddiol, nawettyddiol.
Nundinal letter—llythyren farchnad, llythyren ffair; llythyren nawettydd, llythyren nawdyddiol, llythyren nawettyddiol.
Nundinal, *s.*=*Nundinal letter.*
Nundinate,† *v. a.* prynu a gwerthu mewn ffeiriau.
Nundination,† *s.* masnach mewn ffeiriau.
Nunnation, *s.* (o *nun,* enw y llythyren *N* yn yr Arabaeg a'r Hebraeg) seiniad neu gynaniad n ar ddiwedd geiriau (yn yr Arabaeg).
Nunnery, *s.* (o *nun*) lleiandy, gwyryfdy.
Nunnishness, *s.* lleianeiddrwydd; moesau neu arferion lleianod. [myltys.
Nuphar, *s.* (Ar. *naufar*) godowydd, bwltys,
Nuptial, *a.* (Ll. *nuptialis*) priodasol; neithiorol; perthynol, yn perthyn, neu â berthyn i briodas neu neithior.
Nuptial song—priodasgerdd, priodasgan, cerdd briodas.
Nuptial feast—gwledd briodas, priodaswledd, gwledd briodasol, neithior.
Nuptial bed—gwely priodas, gwely priodasol.
Nuptial knot—cwlwm priodas, clwm priodas, priodasglwm.
Nuptials, *s. pl.* priodas; neithior; awys.
Nurse, *s.* (*Ff. nourrice*) mammaeth, maethwraig, magai, megides, meithrines, meithrinyddes, maethfam, magwres, magwraig; morwyn fagu.
Wet nurse—mammaeth wleb, mammaeth wlyb, llaeth-fammaeth, llaethfam, gwleb fammaeth.

Dry nurse — llawfammaeth, llawfaethes, mammaeth sech, sechfammaeth, mammaeth lawfaeth, maethwraig lawaeth.
Out at nurse—tàn law mammaeth; gyda mammaeth.
To put a child to nurse—rhoi plentyn dàn law mammaeth; rhoi plentyn i fammaeth; rhoi plentyn allan i'w fagu.
Nurse-pond—maethlyn.

Nurse, *v. a.* magu; maethu, meithrin, meithrino, maethu, mammaethu, magwriaethu; rhoi sugn i; porthi, cynnal.

Nurse-child, *s.* plentyn maeth, plentyn magu, plentyn mag; mab maeth, maethfab; merch faeth, maethferch.

Nursed, *p. p.* magedig, &c.
Nursed together—cydfaethedig, cydfaeth, cydlaeth, unfron.

Nurser, *s.* maethydd, maethiedydd, maethwr, meithrinydd, megidydd, megydd, magai.

Nursery, *s.* (o *nurse*) meithrinfa, maethfa, magfa, ystafell fagu, maethdy, maethle, megidfa; cymhlanfa, planigfa, planfa, maethle planigion, maethfa planigion.
Nursery-maid—morwyn fagu.

Nursling, *s.* plentyn maeth, plentyn mag; un à fo tàn law mammaeth; un à ddygir i fyny gyda mammaeth; megyn, maethyn, meithyn, maethfab; maban, plentyn; magaden, maethferch.

Nurture, *s.* (Ff. *nourriture*) maeth, magwriaeth, magwraeth, meithriniaeth, meithrinaeth, maethiant, maethineb, maethid, maethawd; lluniaeth, ymborth, cynnaliaeth, porthiant, bwyd; addysg; dygiad i fyny.

Nurture, *v. a.* maethu, meithrin, meithrino, magu, magwriaethu, amgeleddu; cynnal; porthi; addysgu; dwyn i fyny.

Nurtured, *p. p.* maethedig, meithrinedig, &c.
Well-nurtured — à ddysgwyd yn dda; medrus; hyfforddus.
Ill-nurtured—à ddysgwyd yn ddrwg; dïaddysg; anhyfforddus.

Nusance, *s.*=*Nuisance.*

Nut, *s.* (S. *knut*; Is. *noot*; Al. *nuss*) cneuen; mesen: *pl.* cnau, mes. [gnau.
Hazel-nuts—cnau barfog, cnau cyll, coll-
Double nuts—cnau conglog.
Twin-nuts—cnau conglog: *sing.* cneuen gonglog, conglen.
An empty nut—cneuen goeg; coegen: *pl.* cnau coegion.
Worm-eaten nuts, Rotten nuts, } cnau coegion.
Wild nuts—cnau gwylltion, rhosgnau.
Filbert nuts—cnau gerddi, cnau hirgib, cnau Yspaen, gardd-gnau.
Slip-shelled nuts — cnau gwisgi, cnau gweisgi.
To gather nuts—cneua, hel cnau.
Earth-nuts—clor, cylor, bywi, cnau y ddaiar, daiargnau.
To gather earth-nuts — cylora, clora; casglu clor, cynnull bywi.
The nut of a screw—gwain, hosan, cneuen, *neu* afael sidrych; gwain, hosan, cneuen, *neu* afael cogwrn tro.
The nut of a leg of mutton—mesen, cneuen, cilchweryn, *neu* gilchwyrnyn morddwyd myharan.
It is nuts to him—mêl yw iddo; mêl yw ganddo.

Nut, *v. a.* cneua.

Nutation, *s.* (Ll. *nutatio*) hepiad, hepian; hepymmod, crynysgog, crynysgogiad, siglymmod.

Nutant, *a.* (Ll. *nutans*) penoblygol, penogwyddol, pentwynol, hepiol; â'i ben yn plygu i lawr; yn goblygu pen; amneidiol.

Nutbreaker, *s.*=*Nutcracker.*

Nutbrown, *a.* o liw y gneuen wisgi; fel plisg y gneuen wisgi; cneuliw, cneuliwiog, cethinliw, cethin.
Nutbrown maid—Gwèn lliw'r gneuen; Gwèn gyfliw 'r gneuen; elen liw 'r gneuen; gwineues, gwineuen, cethinen.

Nutcracker, *s.* gefail gnau; aderyn y cnau.

Nutgall, *s.* afal y derw, darafal, dargneuen.

Nuthatch, Nutjobber, Nutpecker, } *s.* delor y cnau.

Nuthook, *s.* bach cnau, crybach cnau.

Nutkernel, *s.* cnewullyn cneuen.

Nutmeg, *s.* (Ll. *nux moschata*) mosgneuen, pergneuen, masgneuen, cneuen y mas, cneuen pen, cneuen ber yr India, pergair.

Nutrication, † *s.* (Ll. *nutricatio*) magwriaeth, maethiad, meithrin.

Nutrient, *a.* (Ll. *nutrio*) maethol, maethus, magwriaethus, magwriaethol, maethiannol, maethedigol, maethiadus.

Nutrient, *s.* maeth, maethiant, maethiad, defnydd maeth.

Nutriment, *s.* (Ll. *nutrimentum*) maeth; lluniaeth, ymborth, porthiant; magwriaeth, magwraeth, maethiant, maethid, meithriniaeth, maethineb.

Nutrimental, *a.* maethol, maethus, maethlawn, maethedigol, maethiannol, maethiannus, maethgar, magwriaethol, magwriaethus, meithrinol.

Nutrition, *s.* (Ll. *nutritio*) maethiad, maethiant, maeth, magwriaeth, meithriniaeth.

Nutritious, Nutritive, } *a.* maethol, maethus, maethlawn, maethiannol, maethiannus, maethiadol, maethedigol, maethidiol, maethiadus, maethgar, magwriaethol, magwriaethus, meithrinol, maethiannaidd, maethaidd, pesgus.
Nutritive matter—defnydd maethol, defnydd maeth.

Nutriture, † *s.* maetholdeb, maetholrwydd, maethineb, rhinwedd faethol; maeth, magwriaeth.

Nutshell, *s.* plisgyn cneuen, blisgyn cneuen, ballasgyn cneuen, ballasg cneuen, masglyn cneuen: *pl.* plisg cnau, masgl cnau.

Nut-tree, *s.* collen, collwydden, pren collen; pren cnau, cneuwydden: *pl.* cyll, collwydd, cneuwydd.

Nut-weevil, *s.* gwyfyn y cnau, meisgyn y cnau.

Nux, *s.* (Ll.) cneuen: *pl.* cnau.

Nux Vomica, *s.* (Ll.) cneuen gyfog=cneuen wenwynig o'r India Ddwyreiniol.

Nuzzer, Nuzzerana, } *s.* rhodd neu anrheg à wneir i uchafiaid (yn yr India Ddwyreiniol).

Nuzzle, *v.* (o *nose* neu *nourzle?*) ymguddio; cuddio y pen; ymguddio, llechu, *neu* ymgynhesu yn mynwes; cuddio ei ben neu drwyn yn mynwes; magu, maethu.
To nuzzle in bed, To nuzzle in the bed, } ymguddio, llechu, *neu* ymgynhesu yn y

gwely; cuddio ei ben *neu* drwyn yn y gwely.

To nuzzle in the bedclothes—ymgynhesu yn nillad y gwely; cynhesu ei drwyn yn nillad y gwely.

Nuzzle, *v. a.* (*noursle* neu *nestle?*) nythu.

Nuzzle, *v. a.* byddaglu, maglu, rhwydo, carfaglu.

Nuzzle, *v.* (o *nose?*) trwyllo; rhoi trwyll *neu* fodrwy yn nhrwyn; turio, tyrio, tyrfu; cloddio â thrwyn; trwyno; rhoi ei drwyn wrth beth; trwyno y ddaiar; cerdded â'i drwyn ar *neu* gàn lawr; cerdded dàn drwyno y llawr.

Nyctalops, *s.* (Gr. *nuctalôps*) noswelwr, noswelydd; un à wel oreu yn y nos; nos-ddall; un à gyll ei olwg yn y nos ac à'i caiff drachefn y bore.

Nyctalopia, *s.* nosweledd; y gallu o weled oreu yn y nos; nos-ddallineb, dallineb dros nos, coll golwg yn y nos.

Nye, *s.* nythaid *neu* nythlwyth o goedieir; llu, haid, *neu* fyntai o goedieir.

Nylghau, **Nylgau**, **Neelgau**, *s.* (Persiaeg) math o grychgorn neu afrewig, yn cyfanneddu Gogledd yr India.

Nymph, *s.* (Ll. *nympha*; Gr. *numphê*) duwies y mynyddoedd, y coedydd, y gweunydd, a'r dyfroedd: angeles, duwies, dwyfan, elen, eigren, bunnuwen, genilles; chwibleian, chwimpleian; tlosferch, tlysferch, mireinferch, gwyryf dlos, rhian dlos, tloswyryf, meinir, gwenfun, gwèn, ellwen; cangen; sidanen; bun, geneth, gwyryf, rhian, benyw.

A young nymph—genilles, elen ieuanc.

Wood nymph—gwyddanes, duwies coed, eigren coed, eigren goed, elen goed, elen y coedydd, duwies y goedwig.

Sea nymph—mordduwies, duwies môr, duwies fôr, duwies y môr, moreigren, elen fôr, mores, morelen, eigiones.

Mountain nymph—duwies y mynydd, duwies mynydd, duwies fynydd, eigren mynydd, elen fynydd, mynyddes.

A nymph that appears and disappears—chwibleian, chwimpleian.

Nymph, **Nympha**, *s.* chwiler, chwileryn, chwileren, elindys, llindys.

Nymphæa, *s.* (o'r Ll. *nympha*) alaw y dwr, lili y dwr.

Nymphean, *a.* (o *nymph*) duwiesaidd, angelesaidd, elenaidd; perthynol i angelesau *neu* dduwiesau; angelaidd.

Nymphical, *a.* duwiesol, elenol; perthynol i dduwiesau, angelesau, *neu* elenod.

Nymphiparous, *a.* (Ll. *nympha* a *pario*) yn dwyn *neu* gynnyrchu duwiesau.

Nymphish, *a.* duwiesaidd, angelesaidd; perthynol i dduwiesau; elenaidd, rhianaidd, fel angeles, fel meinir.

Nymphlike, **Nymphly**, *ad.* fel duwiesau, fel angelesau, fel elenod; yn debyg i dduwies; yn dduwiesaidd.

Nymphomany, **Nymphomania**, *s.* (Gr. *numphê* a *mania*) cyridwanc, anlladwanc, goranlladedd.

Nys,† *ad.* (*ne* ac *is*) nid yw, neud, neus, neur.

Nystagmus, *s.* (Gr. *nustagmos*) ysmiciant, ysmiciad llygad, amrantiad.

O.

O, *in.* O, O! A! ow! oio! och! ha! wi!
O that they were wise!—O na baent ddoethion!
O wretched man that I am!—ys truan o ddyn wyf fi!
Oad,† *s.* = *Woad.*
Oaf, *s.* (llygriad, meddir o *ouph* neu *elf*) cadafael, delff, hurthgen, hurtyn, penbwl, penllorcan, penhyrddyn, symlyn, llelo, brebwl, cuall, hutan, ullda, ulldach, delbren, drel, ysbruddach, onc, gwirionyn, ffwlcyn; dyn ffladr, ynfyd, *neu* ddisynwyr; plentyn newid, plentyn ffugiol, plentyn ffug, ffug-blentyn.
Oafish, *a.* hurthgenaidd, penbylaidd, hurt, delffaidd, ffladr, ffladraidd, pendew, cuall, disynwyr, dwl, ysbrudd, trymhyrddig, penfeddal, gwirion, syn.
Oafishness, *s.* hurthgeneiddrwydd, hurtrwydd, ffladredd, penbyledd, cualldra, delffeiddrwydd, trymhyrddigrwydd, ynfydrwydd, ffoledd.
Oak, *s.* (S. *ac, æc*; Al. *eiche*) derwen, dâr, mesbren: *pl.* derw, deri.
Female oak trees—deri.
Male oak trees—derw.
Scarlet oak—prinwydden; *pl.* prinwydd.
Evergreen oak, } derwen anwyw, glasdou-
Holme oak, } en, derwen fythddeiliog, derwen fythwyrdd.
Jerusalem oak—derwen Caersalem, derwen Gaersalem, cordderwen.
Common British oak—derwen goesog.
Sessile fruited oak—derwen ddigoesog.
A stately oak—caterwen, derwen gadeiriog: *pl.* cateri, caterw.
Spreading oaks—cateri, caterw, deri cadeiriog, derw cadeiriog.
A young oak—glasdderwen, derwen ieuanc.
Stunted oaks, } cordderw, cordderi.
Shrubby oaks, }
Pollard oak— derwen doc, derwen dociedig, cygn-dderwen, derwen gygnog.
Dwarf oaks—cordderw, cordderi.
The heart of oak—rhuddin derwen, rhuddin derwen, derlin, calon derwen.
Oak-grove—llwyn derw, derlwyn, derwlwyn, llwyn derwin.
Oak-leather—bloneg y derw.
Oak-leaf gall—afal y derw, darafal.
Oak-apple, *s.* afal y derw, darafal, darfal.
Oak-bark, *s.* rhisg derw, rhisgl derw.
Oaken, *a.* (o *oak*) derwin, derwol, derwaidd, o dderwen, o'r dderwen; o goed derw; â wnaed *neu* â wneler o goed derw; wedi ei wneuthur o goed derw.
An oaken stick, } ffon dderwen, ffon o
An oak-stiff, } bren derw, ffon dderwin.
Oaken planks—estyll derw, estyll derwin.
Oaken barrels—barilau derwin, barilau o goed deri, barilau o goed derw.
Oakenpin, *s.* afal pin derw, afal derbin.
Oak-galls, *s. pl.* afalau y derw, afalau derw, darafalau, darfalau.
Oakling, *s.* glasdderwen, derwen ieuanc.
Oakum, *s.* (S. *æcemba, æcumbe*) carth, breiswion.
Oakwort, *s.* derlys.
Oaky, *a.* (o *oak*) derwaidd; caled fel y dderwen; caled, ffyrf, cadarn, cryf.
Oar, *s.* (S. *ar*; Sw. *ara*) rhwyf; rhwyflath; rhodol, rhodl.
A pair of oars—bad dwyrwyf.
Oar-handle—gafael rhwyf.
To boat the oars—peidio â rhwyfo a rhoi y rhwyfau yn y cwch. [i rwyfo.
To get the oars to pass—parotöi y rhwyfau
Oar, *v.* rhwyfo; rhodli, rhodoli.
Oar-footed, *a.* rhwyf-droediog, rhwyf-bediog.
Oary, *a.* rhwyfaidd; fel rhwyf; ar lun neu ddull rhwyf; â'i draed yn lle rhwyfau.
Oasis, *pl.* Oases, *s.* (Gr.) tirynys, tudynys, ffaethfan, ffaethfa; llanerch ffrwythlawn yn nghanol diffaethwch; glesygen, glas dalwrn, gwyrddon, gwerddon.
Oast, } *s.* (Gr. *kestia*, Ll. *ustus?*) odyn bensag,
Oust, } odyn hopys; odyn frag, cylyn brag.
Oat, *s.* (S. *ate*) ceirchen: *pl.* ceirch.
Cultivated oat—ydgeirch.
Wild oat — ffetur, gwylltgeirch, ceirch gwyllt.
Bristle-pointed oat—blewgeirch.
Naked oat—hilgeirch, ceirch moel.
A grain of oats—ceirchen, ceirchyn, gronyn o geirch.
White oat—ceirch gwyn.
Poland oat—ceirch Pwyl.
Black oat—ceirch du.
Oat-bread—bara ceirch.
Oat-straw—gwellt ceirch.
The small grains of oats growing at the roots of the larger—ceseilgeirch.
He has not yet sown his wild oats—nid aeth nwyf neu nwyfiant ieuenctyd heibio gydag ef eto; ni ddarfu nwyf ieuenctyd gydag ef eto; ni ddarfu mo'i oferhela gyda ef eto.
Oatcake, *s.* teisen geirch.
Oaten, *a.* ceirchaidd; eiddo y ceirch; perthynol i'r ceirch; yn perthyn i geirch; â wnaed o flawd ceirch.
Oaten cake—teisen geirch.
Oaten bread—bara ceirch.
Oaten straw—gwellt ceirch.
Oaten pipe, } pibell o welltyn ceirch;
Oaten reed, } chwibanogl o welltyn ceirch; pibell geirch.
Oaten pipes—pibau gwellt ceirch, pibellau gwellt ceirch, pibau ceirch, pibellau ceirch.
Oat-grass, *s.* ceirchwellt.
Downy oat-grass—ceirchwellt manblusaidd.
Narrow-leaved oat-grass—ceirchwellt culddail.

Yellow oatgrass—ceirchwellt melynaidd.

Oath, *s.* (S. *ath*; Al. *eid*) llw, llwf; twng; llawgair; rhaith; cynghrair; achred: *pl.* llwon, llyon, llyau, llyfon.
A great oath—mawrllw.
A solemn oath—llw cyhoedd, llw ar osteg, llw difrifol, cyssegr-lw; mawrllw.
Oath of allegiance—llw ffyddlondeb *neu* gywirdeb i'r brenin; llw ffyddlondeb *neu* gywirdeb i'r llywodraeth.
A voluntary oath—llw gweilydd, llw gweilig, llw gweili, llw gwirfodd.
A contrary oath—gwrthllw, gwrthdwng.
A false oath—haloglw, geulw, geudwng, anudon, anudonair, twng anudon, llw anudon, llw celwyddog. [udoni.
To swear a false oath—tyngu anudon, an-
To swear an oath—tyngu llw, rhoi llw.
To swear a great oath—tyngu mawrllw, rhoi mawrllw; tyngu y mawrllw, rhoi y mawrllw.
To make oath—tyngu; tystio ar lw; gwneuthur llw.
To require an oath of one, } gofyn *neu*
To exact an oath of one, } fynu llw gàn un; tyngu un.
To take an oath—cymmeryd llw, myned dàn lw, myned dàn dwng, ymrwymo drwy lw, tyngu.
He took the military oath—efe a gymmerodd lw milwr; efe a dyngodd ei hun yn filwr.
To take an oath of one—cymmeryd llw un; cymmeryd llw gàn un; tyngu un; gwneuthur i un dyngu.
To take the oath of office—cymmeryd dïofryd brawd; cymmeryd llw ei swydd.
To put one to his oath—rhoi *neu* osod un ar ei lw; peri *neu* wneuthur i un gymmeryd ei lw; tyngedu un à llw.
To tender an oath to one, } derbyn
To administer an oath to one, } *neu* gymmeryd llw un; tyngu un; creirio un, creirhau un.
To take a false oath—tyngu anudon; rhoi llw anudon; anudoni.
Upon oath—ar lw, ar ei lw, dàn dwng.
I am under an oath—dandwng wyf, damdwng wyf.
To declare upon oath—dywedyd ar ei lawgair; dywedyd ar ei lw. [dyngu.
With an oath—trwy lw, dàn dyngu, gàn
To renounce *or* deny with an oath—dïofrydu; rhoi dïofryd.
With a great oath—trwy fawrllw; gàn roi y mawrllw; gàn dyngu y mawrllw; gàn roi *neu* dyngu mawrllw. [lw.

Oathable, † *a.* tyngadwy; y gellir derbyn ei
Oathbreaking, *s.* tor llw, anudon, anudoniaeth.
Oatmalt, *s.* (*oat* a *malt*) brag ceirch.
Oatmeal, *s.* (*oat* a *meal*) blawd ceirch.
Oatmeal grout—rhynion blawd ceirch, rhynion ceirch.
An oatmeal man—trinwr, trinydd, cyweiriwr, *neu* gyweirydd blawd ceirch; gwerthwr *neu* werthydd blawd ceirch.
Oat-thistle, *s.* ysgallen geirch.
Oats, *s. pl.* ceirch.
Ob, Oc, Of, Op, (Ll.) blaenddodiaid yn dynodi *am, oherwydd, oblegid; o flaen, ger bron, yn ngŵydd; yn nghylch; gwrth-, yn erbyn; tua, tuag; cyferbyn, ar gyfer; tros, gor-; yn ffordd; yn; ar.*

Obambulate, † *v. n.* (Ll. *obambulo*) rhodiaw o amgylch, amrodio, amgerdded, amrodiena.
Obambulation, † *s.* rhodiad o amgylch, amrodiad, amgerdded.
Obbligato, *a.* (It.) rheidiol, bwriadol, *neu* briodol i'r offeryn cerdd enwedig.
Obconic, *a.* (Ll. *ob*, a *conic*) gwrthgonig, gwrthffeinig; fel côn â'i frig i lawr.
Obcordate, *a.* (Ll. *ob* a *cor*) fel y galon â'i phen uchaf yn isaf; ar lun calon â'i blaen i lawr.
Obdormition, *s.* (Ll. *obdormio*) cwsg, trymgwsg.
Obduce, *v. a.* (Ll. *obduco*) gorchuddio, enhuddo, cuddio; tynu gorchudd dros; gwisgo â rhywbeth; gwisgo â gorchudd.
Obduction, *s.* (Ll. *obductio*) gorchuddiad, enhuddad, cuddiad, huddiad.
Obduracy, } *s.* (o *obdurate*) caledrwydd,
Obdurateness, } caledwch; pengaledrwydd, pengaledwch; gwargaledrwydd, gwargaledwch; calongaledrwydd, caledrwydd calon, caledwch calon; cyndynrwydd, ystyfnigrwydd, anhyblygedd, gwarsythder, derdri, derdra.
Obdurate, *a.* (Ll. *obduro*) caled; à galedwyd, wedi ei galedu, wedi ymgaledu; pengaled; calongaled; gwargaled, cyndyn, gwarsyth, anhyblyg; blwng; garw, clogyrnog.
Obdurately, *ad.* yn galed, yn wargaled, yn bengaled, yn gyndyn; gàn ymgaledu, dàn ymgaledu.
Obduration, *s.* ymgalediad, caledïad; caledrwydd, caledwch, pengaledrwydd, calongaledrwydd, cyndynrwydd.
Obdure, *v. a.* (Ll. *obduro*) caledu, argaledu; gwneuthur yn galed; pengaledu, calongaledu.
Obdured, *a.* caled, wedi ymgaledu; anhyblyg; cyndyn; anedifeiriol.
Obduredness, *s.* caledrwydd, caledwch, ymgaledrwydd; pengaledrwydd; calongaledrwydd; cyndynrwydd, anhyblygedd.
Obedience, *s.* (Ff.; Ll. *obedientia*) ufydd-dod, ufydd-dra, ufyddhad, ufyddiant, ufyddgarwch, ufyddoldeb, ufyddolder, ufyddoldra, ufylldod, ufyllder, uddyfdod; gostyngeiddrwydd; darostyngedigaeth; gwarogaeth.
Tending to obedience—ufyddiannus, ufyddiannol.
Active and passive obedience—ufydd-dod gweithredol a goddefol.
To be under obedience to—bod yn ddarostyngedig i.
To bring *or* reduce a province to one's obedience—dwyn talaeth dàn warogaeth *neu* lywodraeth un; dwyn talaeth dàn awdurdod un; darostwng talaeth i un; darostwng talaeth dàn law *neu* ddwylaw un.
Obedient, *a.* (Ll. *obediens*) ufydd, ufyddgar; ufyll, (*f.* ufell), uddyf, ufyddol; gostyngedig, darostyngedig; tanlwydd.
To be obedient—bod yn ufydd *neu* ddarostyngedig; ufyddhau, ufyddiannu, eddyllu.
To render obedient—ufyddiannu, ufyddannuso, ufyddo, gwneuthur yn ufydd, uddyfhau.
Obediential, *a.* ufyddol, ufyddhaol, ymostyngol, ymddarostyngol; perthynol *neu* yn perthyn i ufydd-dod.
Obediently, *ad.* yn ufydd; mewn ufydd-dod i.
Obeisance, *s.* (Ff. *obéissance*) ymgrymiad, ymostyngiad, moesblygiad, moesgrymiad, moesymgrymiad, ymostwng, gostwng, darostyngedd; plygiad pen; plygiad glin; moes.

To do obeisance, } ymgrymu, ymoes-
To make obeisance, } twng, moesblygu, moesgrymu, moesymgrymu, gwneuthur moes, plygu, plygu glin.

Obeliscal, *a.* (o *obelisk*) pigadeilaidd, ffeinadeilaidd ; ar lun ffeinadail, ar ddull pigadail.

Obeliak, *s.* (Ll. *obeliscus* ; Gr. *obeliscos*) ffeinadail, pigadail, pedrygwrn, pedrygyrnen, pedryffain, conadail ; colofn bedrog fonbraff flaenfain ; cofgolofn, colofn ; bidog, bernod, nod y bêr ; bêr, y bêr († neu ✝).

Obelus, *s.* (Ll. ; Gr. *obelos*) bêr, nodwydd, nydwydd ; llinell.

Obequitate,† *v. n.* (Ll. *obequito*) marchogaeth o amgylch, amfarchocäu.

Obequitation,† *s.* marchogaeth o amgylch, amfarchogaeth.

Oberon, *s.* brenin y tylwyth teg.

Oberration, *s.* (Ll. *oberro*) crwydrad, crwydr, crwydredigaeth, amgrwydrad, amwibiad, amgerdded. [corffog.

Obese, *a.* (Ll. *obesus*) tew, cnodig, cigog ; bras ;

Obeseness, } *s.* (Ll. *obesitas*) tewder, tewdra,
Obesity, } tewedd, gordewedd, cnodigrwydd, cigogrwydd, efras ; brasder, corffogrwydd.

Obey, *v. a.* (Ff. *obéir*, o'r Ll. *obedio*) ufyddhau, ufyddhau i ; bod yn ufydd, bod yn ufydd i ; ufyddo, uddyfhau ; gwneuthur à fyno un ; bod wrth orchymyn, arch, *neu* archiad un ; cadw gorchymyn un ; gwneuthur yn ol gorchymyn un ; bod dân lywodraeth un ; ymostwng i, ymddarostwng i ; gwrandaw ar.

He will be obeyed—efe a fyn ufyddhau iddo ; efe a bair ufyddhau iddo.

I ought to have been obeyed — dylesid ufyddhau i mi ; dylesid gwrandaw arnaf.

Obeyed, *p. p.* yr ufyddhëir iddo, yr ufyddhäwyd iddo ; y gwrandewir arno, y gwrandäwyd arno.

Obeyer, *s.* ufyddhäwr, un à ufyddhao, ymostyngydd.

Obfirm, } ✝ *v. a.* (Ll. *obfirmo*) cadarnhau ;
Obfirmate, } caledu, argaledu ; ymgaledu mewn penderfyniad ; ymroi i.

Obfuscate, *v. a.* (Ll. *offusco*, *ob* a *fusco*) tywyllu, duo, caddugo, cymylu, arhuddo, gordywyllu.

Obfuscation, *s.* tywylliad, duad, caddugad, cymyliad, arhuddiad.

Obit, *s.* (Ll. *obitus*) marwolaeth, tranc ; cofarwyl, arwyl, arwyliant, cylchwyl marwolaeth ; gwasanaeth arwyliannol.

Post obit—ar ol marw, yn ol marw, wedi marw.

Post-obit bond—trengrwymeb.

Obit (Ll. *obiit*)—bu farw, marwodd, trengodd.

Obitual, *a.* (Ll. *obitus*) arwyliannol, arwyliannus, cofarwylawl, arwylawl ; perthynol i gofarwyl.

Obitual days—dyddiau cofarwyl.

Orbituary, *s.* (Ff. *obituaire*) trengres, trengrestr, margofres, cofres y meirw, cofrestr y meirwon, marw-restr, margofiant ; cofiant ; marwolaethau ; cofres cofarwyliau.

Obituary, *a.* perthynol i farwolaeth *neu* farwolaethau ; trengresol, margofresol.

Orbituary notice—crybwylliad am farwolaeth un ; sylw ar farwolaeth un ; crybwyll am farw un a byr gofiant am dano.

Object, *s.* (Ll. *objectum*) gwrthrych, gwrthddrych ; peiawd, peiawr ; yr hyn a fo yn ngolwg un ; y peth à fo gân un mewn golwg ; yr hyn a fo ger bron llygaid un ; peth ; amlygyn ; tremid, tremyd, tremynawd ; adlwg ; tueddnod, nod ; bwriad, amcan.

The main object—y prif nod, y prif amcan, yr amcan penaf ; y peth penaf mewn golwg ; y prif beth yn ngolwg un ; y prif wrthrych, y gwrthrych penaf.

Reflected object—gwrthrith, adrith.

Exercise thy thoughts upon good objects—arfer dy feddyliau ar bethau da ; myfyria ar bethau da.

What is thy object ?—beth yw dy fwriad ? beth yw dy gais ? beth sy genyt mewn golwg ? beth sydd yn dy olwg ? py yw dy fwriad ?

Object, *v.* gosod, dodi, tafiu, rhoddi, rhoi, *neu* fwrw yn erbyn ; llysu, gwrthod, gwrthneu, gwrthodi, eithro, gwrthwynebu, rhagu ; gwrtheb, gwrthebu, gwrthateb, gwrthddadleu, gwrthddadlu ; achwyn ; dannod, edliw, lliwied ; bod *neu* sefyll yn erbyn peth.

To object to one (by way of reproach)—bwrw *neu* dafiu yn uannedd un ; bwrw ar un ; lliwied, edliw, *neu* ddannod i un.

Objection, *s.* (Ll. *objectio*) gwrthddadl, gwrtheb, gwrthair, gwrthreswm, gwrthosod, gwrthddadleu ; gwrthwynebiad, gwrthneuad, llysiad, beiad ; ammheu ; nam, anaeh, rhwystr, bai ; bai à fwrir ar beth ; peth yn erbyn rhywun *neu* rywbeth.

I have an objection to some of them—mae genyf beth yn erbyn rhai o honynt.

Objectionable, *a.* gwrthodadwy, eithradwy, llysadwy, hylys, hyeithr, gwrthddadleuadwy, gwrthddadladwy ; beiadwy ; à ellir gosod, bwrw, *neu* ddywedyd yn ei erbyn ; i'w wrthod, i'w eithro, i'w lysu, i'w feio ; y bo peth i'w ddywedyd yn ei erbyn ; agored i wrthwynebiad ; hygwl, beius.

Objective, *a.* (Ff. *objectif*) gwrthrychol, gwrthddrychol ; peiol, peiodawl, adlygol.

Objective case—cyflwr gwrthrychol, achos gwrthrychol ; y gwrthrych ; y gwrthrychai. [ddrychu.

To render objective—peiodi, peio, gwrth-

Objectively, *ad.* yn wrthddrychol ; fel gwrthrych, megys gwrthrych, ar ddull gwrthrych.

Objectiveness, } *s.* gwrthrycholdeb, gwrth-
Objectivity, } ddrycholdeb, gwrthrycholrwydd, gwrthrycholder, peioldeb, peiolrwydd.

Objectless, *a.* dïwrthrych ; heb wrthrych ganddo.

Objector, *s.* gwrthebwr, gwrthebydd, gwrthddadlwr, gwrthddadlydd, gwrthddadleuwr, gwrthddadleuydd.

Objurgation, *s.* (Ll. *objurgatio*) ceryddiad, dwrdiad, seniad, sardiad, dondiad, coddiad ; cerydd, sen, sard.

Objurgate,† *v. a.* (Ll. *objurgo*) ceryddu, senu, dwrdio, dondio, sardio.

Objurgatory, *a.* ceryddol, ceryddedigol, dwrdiedigol ; ceryddol ei ansawdd.

Oblate, *a.* (Ll. *oblatus*) llethgrwn, (*f.* llethgron), llethbegynol, golethgrwn, (*f.* golethgron).

Oblate speroid—llethgronen, llethgronell, gogronen llethgron, gogronel llethbegynol.

Oblateness, *s.* llethgrynder, llethbegynoldeb, llethbegynolrwydd.

Oblates, } *s. pl.* (Ll. *oblati*) ymgyflwyniaid,
Oblati, } cyflwynedigion ; brodyr llëyg.

Oblation, *s.* (Ll. *oblatio*) offrwm ; rhodd, cyflwyn ; aberth.

Oblectate,† *v. a.* (Ll. *oblecto*) dyddanu, difyru, boddhau, boddio yn fawr, hyfrydu.

Oblectation, *s.* boddhad, mawr foddhad, digrifhad; hyfrydwch, difyrwch, dyddanwch, boddineb, elwch, dywenydd.

Obligate, *v. a.* (Ll. *obligo*) rhwymo (drwy gymmwynas neu y cyffelyb); rhoi *neu* osod dàn rwymau cymmwynas; rhoi *neu* osod dàn rwymedigaeth cymmwynas; peri *neu* wneuthur yn rhwymedig i; arddyledogi.

Obligation, *s.* (Ll. *obligatio*) rhwymedigaeth; rhwym; ymrwym; rhwymiad, rhwymiant; rhwymeb, ymrwymeb, ysgrifrwym; ammod, ammodiad; dyled, dylid, dyledswydd, arddyled, dylyed, arddylyed, dylyawd, dylyad, daffar; cymmwynas; gorfod, gorfodogaeth.

To bind by obligation—rhwymo â rhwymedigaeth; gosod *neu* roddi rhwymedigaeth ar.

Mutual obligation — cyfymrwym, ymgyfrwym, ymgyfrwymiad, cyfymrwymiad, cydymrwymiad, cyfrwymiad, cywysti.

Obligato, *a.* (It. *obligato*) rheidiol, bwriadol, *neu* briodol i'r offeryn cerdd enwedig.

Obligatory, *a.* rhwymedigol, rhwymedigaethol, rhwymol, rhwymiannol; dyledus, arddyledus, arddylyedog, arddylyedus, ammodol; gorfodol.

Oblige, *v. a.* (Ll. *obligo;* Ff. *obliger*) rhwymo; rhwymo (drwy gymmwynas, &c.); peri *neu* wneuthur yn rhwymedig i; rhoi *neu* osod dàn rwymedigaeth; rhoi *neu* osod dàn rwymau; rhoi *neu* osod dan rwymau *neu* rwymedigaeth cymmwynas; rhoi *neu* osod rhwymedigaeth ar; gorfod, gorfodi, dirgymhell, dirio, daffar, arddyledogi; rhwymiannu; bod yn ddyledus i; bod dàn ddyled *neu* rwymedigaeth; boddhau, boddio; gwneuthur caredigrwydd; bod mor fwyn *neu* garedig a gwneuthur peth i; gwneuthur cymmwynas i.

Obliged, *p. p.* rhwym, rhwymedig, &c.; dyledus, arddyledus; tàn rwymau, tàn rwymedigaeth, tàn rwym, tan ymrwym; dïolchgar, dïolchus; tàn orfod; y gorfu arno wneuthur; wedi gorfod arno wneuthur peth.

To be obliged—bod yn rhwym, &c.; gorfod; daffar.

To be obliged to do a thing—gorfod ar un wneuthur peth.

He was obliged to go—gorfu arno fyned; gorfu iddo fyned; bu raid iddo fyned; daffar iddo fyned.

He is obliged to go—rhaid iddo fyned; mae rhaid iddo fyned; mae yn rhaid iddo fyned; gorfydd arno fyned.

He was obliged to deny—gorfu arno wadu.

I am infinitely obliged to you—mae arnaf ddyled anfeidrol i chwi; mae arnaf ddyled tu hwnt i fesur i chwi.

Obligee, *s.* rhwymedydd, y rhwymedydd, derbynydd ysgrifrwym, derbyniwr ysgrifrwym, derbyniedydd ysgrifrwym; y gofynydd; gorfodai.

Obligement, *s.* rhwymedigaeth, rhwymiad, ymrwymiad, ymrwym.

Obliger, *s.* rhwymwr, rhwymydd, gorfodwr, cymhellwr; yr hwn a esyd rwymau cymmwynas ar arall; un â esyd arall dàn rwymau iddo; yr hwn a wnel *neu* a bair arall yn rhwymedig iddo.

Obliging, *a.* (o *oblige;* Ff. *obligeant*) cymmwynasgar; parod ei gymmwynas; cyweithas, cyweithasol, caruaidd, parodfwyn; hynaws, tirion; dygiadus, mynud, mynudol mynogol, moesgar.

Obligingly, *ad.* yn gymmwynasgar, &c.; yn dda ei natur.

Obligingness, *s.* cymmwynasgarwch; parodrwydd i wneuthur cymmwynas; cyweithasrwydd, cyweithasder, cyweithasoldeb, parodfwynder, hynawsedd, mynogaeth, dygiadusrwydd, moesgarwch, hyfoesedd; rhwymedigaeth.

Obligor, *s.* ymrwymydd, ymrwymwr, yr ymrwymydd, yr ymrwymwr, y rhwymedig; yr hwn a ymrwymodd dàn ysgrifrwym; ysgrifymrwymydd; y dyledwr.

Obliquation, *s.* (Ll. *obliquo*) osgoad, gosgoad, gwyrad, lledbeiad, gwyrgamiad, gogwyddiad, ystlysiad.

Oblique, *a.* (Ff.; Ll. *obliquus*) gŵyr, gwyrgam, agwyr, gŵyrog, gwyrol, addwyr, lledbai, ystwyrgam, llettraws, ystlysol, ystlysgam, ystlys-, gwyrdraws, lleddf, goleddf, ar osgo, ar oleddf, gosgoawl, traws, ar ohen.

To grow oblique—gwyro, agwyro, gwyrgamu, lledgamu, lleddfu; myned ar ŵyr.

To make oblique—gwyro, agwyro, gwyrgamu, lledbeio; gwneuthur yn ŵyr.

Oblique-angled triangle—tryfal gwyrongl, tryfal lleddfongl, tryfal lleddfelin, tryfal lleddf, tryfal gwyrgam.

Oblique circle—gwyrgylch, cylch gŵyr, cylch agwyr, cylch gwyrgam.

Oblique case—cyflwr treigledig *neu* leddfedig; cyflwr treigl, cyflwr gwyrog; pob cyflwr ond yr enwadol.

Obliquely, *ad.* ar ŵyr, yn wyrgam, ar osgo, ar oleddf, yn lledbai, &c.

Obliquity, } *s.* (Ll. *obliquitas*) gwyredd,
Obliqueness, } gwyrni, gwyrgemi, gwyrgamedd, gwyrgamder, gwyrgamdra, gwyrogrwydd, gosgo, osgo, lledbeirwydd, trawswyredd, llettrawsedd, agwyredd, gogwydd, gohen, göen; camder.

Obliterate. *v. a.* (Ll. *oblitero*) dilëu; dadlythyru; dïoli, dadnodi, dadgraffu, dadoli, difrisgo; treulio allan; dyfetha, dystrywio, difodi; crafu, croesi, bwrw, tynu, symmudo, *neu* olchi ymaith *neu* allan.

Obliteration, *s.* dilead; dadlythyriad; dïoliad, dadnodiad, dadgraffiad, dadoliad, difrisgiad; dyfethiad, dystrywiad; treuliad allan; difodiad.

Oblivion, *s.* (Ll. *oblivio*) anghof, ebargof, abyrgof, anghofiant, ebargofiad, ebyrgofiad, tellwedd, pall cof; anghofraith, ebargofraith.

Act of oblivion—anghofraith, ebargofraith, deddf ebargofiad, tellwedd.

To bury in oblivion—tellweddu; claddu mewn anghof; anghofio.

Oblivious, *a.* (Ll. *oblivious*) anghofus, ebargofus, abyrgofus, ebargofiol, anghofiol; â bair anghof.

Oblocutor,† *s.* (Ll.) gwrthddywedwr.

Oblong, *a.* (Ff.; Ll. *oblongus*) hirgul; hirgrwn; mwy o hyd na lled.

Oblong spheroid—hirgronen, hirgronell, gogronen hirgron, gogronell hirgron, gogronen hirgul, gogronell hirgul.

Oblongish, *a.* hirgulaidd, lled hirgul, go hirgul, tràn hirgul.

Oblongly, *ad.* yn hirgul; ar ddull hirgul.

Oblongness, *s.* hirgulni, hirgulder, hirguledd.

Obloquious, *a.* (o *obloquy*) goganus, athrodus, difrïol, difrïog, gwarthlawn, gwarthus.

Obloquy, *s.* (Ll. *obloquor*) gogan, enllib, athrawd, athrod, anair, drygair, cabl, hort, absen, drwg absen, gweli tafod; difrïaeth, cabledigaeth; gwarth, gwarthrudd, gwaradwydd.

Obluctation, *s.* (Ll. *oblactor*) gwrthladdiad, gwrthymdrechiad, gwrthymdrech, gwrthymryson, gwrthymorchest.

Obmutescence, *s.* (Ll. *obmutesco*) llafargoll, aflafaredd, aflafarwch, mudandod, mudanrwydd; dystawrwydd, gosteg.

Obnoxious, *a.* (Ll. *obnoxius*) darostyngedig, rhwymedig, dân rwymau, dân rwymedigaeth, hyrwym; agored; atebol, atebadwy; yn haeddu cosp, yn haeddu cospedigaeth, à haeddo gosp, à haeddo gospedigaeth; hygosp; beius, euog, cylus, hygwl; y gellir beio arno; cas, adgas, ffiaidd, hygas; blin; anghymmeradwy; drwg, niweidiol, niweidiog.

Obnoxiousness, *s.* darostyngedigaeth, hyrwymedd; hygospedd; euogrwydd, beiusrwydd, hygyledd; adgasrwydd, casineb, hygasrwydd; niweidioldeb.

Obnubilate, *v. a.* (Ll. *obnubilor*) cymylu, tywyllu, caddugo.

Obnubilation, *s.* cymyliad, tywylliad, caddugad.

Oboe, *s.* (It.) rhibib, telgorn.

Obole, *s.* (Ll. *obolus*) obol, obolus, pwysi deg gronyn.

Obolus, *s.* (Ll.; Gr. *obolos*) darn o arian Attica, y 6ed ran o'r dram, gwerth tua 1½*c.* o'n harian ni; hefyd, pwysi yn pwyso y 6ed ran o'r dram.

Obovate, *a.* (*ob* ac *ovate*) gwrthwyaidd; gwrthwyfal; grwn â'i ben meinaf i lawr.

Obreption, *s.* (Ll. *obreptio*) ymlithrad, ymlithr, ymlusgiad, *neu* ymlusg i mewn i un *neu* ar beth; ymlithrad, ymlusgiad; dyfodiad dirybudd.

Obreptitious, *a.* à ymlithro i mewn i un *neu* ar beth; à ymlusgo i mewn i un *neu* ar beth; lladradaidd; celciol.

Obrogate,† *v. a.* (Ll. *obrogo*) cyhoeddi cyfraith newydd yn lle diddymu yr hen un.

Obscene, *a.* (Ll. *obscœnus*) budr, brwnt, (*f.* bront), aflan, serth, serthus, serthol, coegfrwnt, anmhur, croesan, croesanaidd, anweddus, budreiriog, sertheiriog, craseiriog, cegfrwnt; anllad, anniwair, trythyll; ffiaidd, adgas, cas; gwrthun; cywilyddus; gwaradwyddus, ysgeler; anhylwydd, drygargoelus.

Obscene expression—serthair, gair serth, ymadrodd serthus, ymadrodd serth, gair budr, sertheb.

Obsceneness, } *s.* (Ll. *obscœnitas*) budredd,
Obscenity, } brynti, bryntni, aflendid, serthedd, serthyd, serthusedd, serthusdra, serthusrwydd, coegfrynti; anniweirdeb, anlladrwydd, trythyllwch, llodineb; anlladiaith, croesanaeth; ffieidd-dra, adgasrwydd.

Obscurantism, *s.* (Ll. *obscuro*) caddugoliaeth; ymgais i rwystro taenu gwybodaeth.

Obscuration, *s.* (Ll. *obscuratio*) tywylliad, tywylliant; tywyllwch, tywyllwg, caddug, enhudded.

Obscure, *a.* (Ll. *obscurus*) tywyll, aneglur, anghlaer, anamlwg, anoleu, caddugledd, caddugol, gwyll, cudd, cuddiedig, cuddiol, gwyllog; dinod, anhynod, anenwog, anhyson; iselradd, isel; di son am dano; dyrys, astrus; anhyddeall, anhyddallt; diarffordd; anmherffaith.

To make obscure—tywyllu; gwneuthur yn dywyll, &c.

Obscure persons—rhai iselradd, rhai anenwog; meibion rhai anenwog.

Obscure, *v. a.* (Ll. *obscuro*) tywyllu, caddugo, cymylu; gwneuthur yn dywyll, yn aneglur, *neu* yn anghlaer; cuddio, celu; llychwino.

Obscureness, } *s.* (Ll. *obscuritas*) tywyllni, ty-
Obscurity, } wyllwch, caddug, anghlaerdeb, anghlaerder, gwyll, aneglurdeb, aneglurder, cust, huddiant; dinodedd, anhynodrwydd, anhynodedd, anenwogrwydd, anhysonedd; iselradd.

A day of darkness and obscurity—diwrnod tywyll a niwlog (*Esth. Ap.* xi. 8).

Obscurer, *s.* tywyllwr, tywyllydd; un à wnel beth yn dywyll, &c.

Obsecrate, *v. a.* (Ll. *obsecro*) atolygu, atolwg, ymbil, ymbilio, erfyn, erfynio, erfynied, deisyf, deisyfu, erdolwg, adolwyn, ymhŵedd â, crefu, taer erfyn, gweddïo, eidduno.

Obsecration, *s.* (Ll. *obsecratio*) deisyfiad, erfyniad, deisyf, erfyn, atolygiad, atolwg, ymbil, ymbiliad, dymuned, damuned, eirioledd, eirioled, eiriolaeth, eiriolwch, taer ddeisyfiad, taergais, eidduned, eiddunawd, gorymbil, adolwch, ymnedd, gweddi, gweddi daer; dymuneb, damyneb, erfyniaeth.

Obsequent, *a.* (Ll. *obsequens*) ufydd, ufyddgar, ufyll, gostyngedig.

Obsequies, *s. pl.* (Ll. *obsequium*; Ff. *obsèques*) arwyl, arwyliant, defodau angladdol, defodau angladd, arwyl-ddefodau, defodau arwyliant.

Funeral obsequies, } arwyl, arwyliant, def-
Funeral exequies, } odau angladdol, defodau arwyl, arwyl-ddefodau, arwyl-wasanaeth.

Obsequious, *a.* (o'r Ll. *obsequium*) ufyddgar, ufydd, ufyddol, tra ufydd, moesgar, byblyg, ufyll, gwasanaethgar; â wnel y peth à fyner; parod i wneuthur y peth à fyner; à wnel gymmwynas a gwasanaeth yn ewyllysgar; parod i ganiatäu yr hyn a erchir *neu* a geisir ganddo; ufydd i ewyllys un arall; gwasaidd; ymroddol; †parchus tuag at y meirw.

To be obsequious to one—bod wrth archiad un.

Obsequiousness, *s.* ufyddgarwch, ufydd dod, ufylldod; hyblygedd; gwasanaethgarwch; parodrwydd i wneuthur y peth à fyner.

Obsequy,† *s.* (Ll. *obsequium*) arwyl; ufyddgarwch.

Obserate,† *v. a.* (Ll. *obsero*) cloi, cloi ar.

Observable, *a.* (o *observe*) nodadwy, gwiwnod, hynod; gwiw *neu* addas i ddàl sylw arno; y gellir sylwi arno; à ellir sylwi arno; sylwadwy, gweladwy, seliadwy, canfyddadwy; nodedig, nodol; eglur.

Observance, *s.* (Ff.; Ll. *observantia*) cadwraeth, cadwad, cyflawniad, gwneuthuriad, dyfal gadwad, cadwedigaeth; sylwad, daliad sylw, cymmeriad sylw; cyfarchwyliad, cyfarchwyl; parch, manyl-barch, ufydd barch; ymarferiad o ddyledswydd; rheol ymarferiad; ystyriaeth; trefniad, rheol, defod.

Observances—rheolau i'w cadw; rheolau, defodau, trefnau, trefniadau, deddfau, deflon.

Observance of commandments — cadwad gorchymynion, cadwraeth gorchymynion.
Observance of one's word—cadwad ei air neu addawid; cyflawniad ei air neu addewid.

Observanda, *s. pl.* (Ll.) pethau i'w cadw.

Observant, *a.* yn dàl sylw, yn cymmeryd sylw; yn synied, yn synio; gwyliadwrus, gofalus, ystyriol, syniadol, sylwadol, edrychgar, tremmyngar, edlygol, ystyrgar; dyfal, diwyd; ufyddgar, ufydd, ufyll; cywir, ffyddlawn; yn talu sylw manwl; cofus.
I would have him observant of you in all things—mi a fynwn ufyddhau o hono i chwi ym mhob peth; mi a fynwn ei fod ef yn ufyddhau i chwi yn mhob peth.
I make no doubt but he will be observant of your commands—nid wyf yn ammheu nas ceidw efe eich gorchymynion chwi; nid wyf yn ammheu nad ufyddha efe i'ch gorchymynion chwi.

Observant, *s.* sylwedydd, dyfal sylwedydd, sylwedydd manwl;† dylynwr neu ymlynwr gwasaidd.

Observants, *s. pl.* Sylwedyddion, Sylwadoliaid =cangen o'r Ffransisciaid.

Observation, *s.* (Ll. *observatio*) sylw, sylwad, daliad sylw, cymmeriad sylw, nodiad, darsylw, darsylwad; cyfarchwyliad, cyfarchwyl; tremiant, ardremiad, tremiad, syllad, sylliant, arsylliad, darsylliad, seliad; seliant; syniad; arnod, arnodiad, sylwnod; gwyliadwriaeth; edlwg; rheol; cadwad, cadwraeth.
The kingdom of God cometh not with observation—ni ddaw teyrnas Dduw wrth ddysgwyl (*Luc* xvii. 20).
A person of observation—dyn craff, dyn craffus, dyn seliad, dyn tremgraff.

Observator, *s.* sylwedydd, daliwr sylw, daliedydd sylw, cymmerwr sylw, nodiedydd; cyfarchwyliwr, cyfarchwylydd; golygwr, arsyllwr, darsyllwr, arsyllydd, ardremiwr, tremidydd, tremiedydd, edrychwr, edrychydd, selwr, selydd, seliad, seliedydd, craffwr; syniedydd; gwyliwr, gwyliedydd; ystyriwr, ystyrydd.

Observatory, *s.* (Ff. *observatoire*) tremynfa, arsyllfa, cyfarchwylfa, tremle, tremidfa, tremidle, tremdwr, tremyndwr, golygdy; dysgwylfa.

Observe, *v.* (Ll. *observo*) sylwi, sylwi ar, dàl sylw, dàl sylw ar, cymmeryd sylw, cymmeryd sylw ar, gwneuthur sylw, gwneuthur sylw ar; nodi, arnodi; synied, synio, synied ar, synio ar; gwylied, gwylio, cyfarchwylio; dàl ar; cadw; tremio, tremu, ardremu, syllu, arsyllu, darsyllu, syllu ar, edrych, daredrych, darsylwi; marcio; parchu, perchi, dathlu; arferu.
To observe commandments—cadw gorchymynion; gwneuthur gorchymynion.
To observe a law—cadw cyfraith.
To observe statutes—cadw deddfau.
To observe to do a thing — edrych am wneuthur peth; gwylied neu wylio am wneuthur peth.
To observe ordinances—cadw gosodiadau; esmlyn gosodiaethau.
To observe a festival—cadw gwyl.
To observe fashions—dylyn arferion (2 *Macc.* vi. 8); sylwi ar arferion.
To observe times—arferu coel ar frudiau (*Lef.* xix. 26).
They that observe lying vanities—y neb a gadwant oferedd celwydd (*Jon.* ii. 8).

Observed, *p.p.* y daliwyd sylw arno; à gadwyd, &c.

Observer, *s.* sylwedydd, daliwr sylw, daliedydd sylw, cymmerwr sylw, nodiedydd; edrychwr, edrychydd, cyfarchwyliwr, cyfarchwylydd, syllwr, arsyllwr, darsyllwr, selwr, seliedydd, tremiwr, tremidydd, tremiedydd, ardremiwr, dysgwyliwr, dysgwylydd, craffwr, gweladur, gwyliedydd; ysbeiennwr, ysbïwr, ysbeienddyn; cadwedydd, cadwr, un à gadwo; marciwr.
Observer of laws—cadwedydd cyfreithiau, cadwr cyfreithiau, un à gadwo gyfreithiau.
Observer of fashions—dylynwr, dylynydd, neu ddylyniedydd arferion.

Observing, *a.* yn dàl sylw, yn cymmeryd sylw, &c.; yn arfer dàl sylw; ystyriol, craff, craffus.

Observingly, *ad.* dàn ddàl sylw; dàn ddàl manol sylw; dàn edrych yn fanwl neu ofalus; dàn ystyried yn ddyfal; yn fanwl, yn ofalus.

Obsess,† *v. n.* (Ll. *obsideo, obsessus*) gwarchau, gwarchae, amgylchu, cylchynu.

Obsession, *s.* (Ll. *obsessio*) gwarchaead, gwarchäedigaeth, gwarchauedigaeth, gwarchae, cylchyniad; rhagymosodiad.

Obsidian, *s.* (Ll. *obsidianus*) llosgwyfaen, llosgwy gloew, llosgwy gwydraidd, gwydr llosgfal=math ar bygfaen.

Obsidional, *a.* (Ll. *obsidionalis*) gwarchaeol, gwarchauol; perthynol i warchae.
Obsidional crown—coron warchae, coron warchauol.

Obsigillation,† *s.* (Ll. *obsigillo*) seliad, inseliad, goload.

Obsignate, *v. a.* (Ll. *obsigno*) selio, goloi, cwyrfathu; cau llythyr a'i selio; cadarnhau.

Obsignation, *s.* seilad, enseliad, cwyrfathiad, goload; cadarnhad; cadarnhad drwy sello; gwaesgoel.

Obsignatory, *a.* cadarnhaol; yn cadarnhau âg insel.

Obsolescence, *s.* heneiddioldeb, heneiddiolrwydd, heneiddrwydd, anghynnefodigrwydd; bod yn myned yn hen neu anghynnefodig; y cyflwr o fod yn myned yn hen.

Obsolescent, *a.* (Ll. *obsolesco*) heneiddiol, heneiddi; yn myned yn hen neu anghynnefodig; yn myned yn ddiarfer; yn myned allan o arfer; gorhenaidd; yn heneiddio.

Obsolete, *a.* (Ll. *obsoletus*) anghynnefodig, hen, henaidd, diarfer, allan o arfer, wedi myned allan o arfer, à aeth allan o arfer, anghynnefin, gorhenaidd, anarferedig; anamlwg, anhywel.
An obsolete word—hen air, gair anghynnefodig, gair diarfer.
To grow obsolete—myned allan o arfer; tyfu allan o arfer; myned yn anghynnefin neu anghynnefodig; henu, heneiddio; myned yn hen.

Obsoleteness, *s.* heneiddrwydd, anghynnefodigrwydd, hender, hendra, heneidd-dra, anghynnefindra; anamlygrwydd, anhyweledd.

Obstacle, *s.* (Ff.; Ll. *obstaculum*) rhwystr, attalfa, attal, attaliad, llestair, lludd, goladd, arludd, cyfludd, llyddiad, rhagod, prŵyst.

Obstancy,† *s.* (Ll. *obstantia*) rhwystr, attaliad, gwrthwynebiad.

Obstetric, *a.* (Ll. *obstetrix*) colwynol; perthynol i golwynyddiaeth; bydwreigiol.

Obstetric art—colwynyddiaeth, celfyddyd colwyno.

Obstetricate, *v.* (Ll. *obstetrico*) colwyno; bod yn golwynes *neu* fudwraig.

Obstetrication, *s.* colwyniad, colwynyddiaeth; swydd bydwraig.

Obstetrician, *s.* colwynydd, colwynwr, bydwr, esgorydd: *f.* colwynes, colwynyddes, bydwraig, esgorwraig, colwynwraig.

Obstetrics, *s.* colwynyddiaeth, celfyddyd colwyno.

Obstinacy, *s.* (Ll. *obstinatio*) cyndynrwydd, cildynrwydd, anhydynrwydd, anhydynder, gwrthnysigrwydd, pengaledwch, pengaledrwydd, ystyfnigrwydd, gwarsythder, mileindra, mileinrwydd, tynder bryd, tynder, anhyblygedd, derdri, gwrthnawsedd.

Obstinate, *a.* (Ll. *obstinatus*) cyndyn, cildyn, cildynus, cyndyniog, anhydyn, gwrthnysig, ystyfnig, anhywedd, anhywaith, tyn; tyn ei fryd; gwarsyth, gwegilsyth, gwargaled, pengaled, pengam; trofäus, anhyblyg, milain, der, tengyn; effrom, sarig; dileddf, anrhed.

Obstinate in opinion—tyn ei farn.

To grow obstinate—myned yn gyndyn, &c.; ystyfnigo, ymgyndynu, gwrthnysigo, anhyweithio, cyndynio, cyndynu, ymgildynu, cildynu, mileinio; cymmeryd meddwl cyndyn; ymgadarnhau.

Obstinateness, *s.*=*Obstinacy.*

Obstipation, *s.* (Ll. *obstipo*) attaliad, rhwystrad, tyn attaliad, cauad i fyny, gwrthlenwad; rhwystr; bolrwymedd, rhefrwymedd.

Obstreperous, *a.* (Ll. *obstreperus*) gwrthnadus, gwrthnadog, gwrthnadgar, gwrthodyrddus, dadyrddus, bloeddfawr, trystfawr, croch, dadyrddol, gwrthlefog, gwrthlefgar, gwrthfloeddog, gwrthfloeddgar, bloeddiol, seinfawr, aedd, garmus, annhawel, gwaeddfan, dryggnadus, blin ei nad, blin ei wrthnad, bustachaidd.

Obstreperousness, *s.* gwrthnadusrwydd, gwrthnadogrwydd, dadyrddusrwydd, &c.; dadwrdd, trwst, dwndwr, twrdd, swn.

Obstriction, *s.* (Ll. *obstrictus*) rhwymedigaeth, rhwymiad; rhwym, ymrwym.

Obstruct, *v. a.* (Ll. *obstruo*) rhwystro, lluddias, lluddio, llesteirio, llestair, attal, rhagod, nadacl. nadel, dyor, arluddio, cyfluddio, argyfluddio, achluddo, afrwyddo, anhwyluso, diebrydu; cau i fyny, argau, gwarchau, gwrthgau; tagu; yrthio.

Obstructer, *s.* rhwystrwr, rhwystrydd, lluddiwr, llesteiriwr, llesteirydd, diebrydwr, arluddiwr.

Obstruction, *s.* (Ll. *obstructio*) rhwystr, attal, attalfa, lludd, llestair, lluddias, cyfludd, goludd, rhagod, arludd, nidr, nidri; rhwystrad, attaliad, llesteiriad, lluddiad, lluddiant, arluddiad, dyoriad, afrwyddiad, darluddiad; argae, gwarchae, gwrthgae, argäedigaeth; tagfa; anhwylusdod, rhagder; godor.

Obstructive, *a.* (Ff. *obstructif*) rhwystrol, rhwystredigol, llesteiriol, lluddiol, cyfluddiol, arluddiol, goluddiol, attaliadol, attaliedigol, diebrydol, dyorawl, nadol; argauedigol, argäedigol, gwrthgauedigol, tagedigol; à bair rwystr, tagfa, *neu* attalfa.

Obstructive, *s.* rhwystr, llestair, lludd, attal.

Obstruent, *a.* rhwystrol, rhwystredigol, llesteiriol, arluddiol, &c.

Obstruent, *s.* rhwystrydd, llesteirydd; peth à rwystro; rhwystr.

Obstupefaction, *s.* (Ll. *obstupefacio*) syfrdaniad, hurtiad, irdangiad, pendifadiad, madrondod, syfrdandod.

Obstupefactive, *a.* syfrdanol, syfrdanus, hurtiol; pendifadol, irdangol; à bair yn hurt *neu* syfrdan.

Obstupify,† *v. a.* syfrdanu, pendifadu, hurtio, irdangu.

Obtain, *v.* (Ll. *obtineo; Ff. obtenir*) cael, caffael, cyrhaedd, cyrhaeddyd, cyrhaeddu, cyrhaedded, goddiweddyd, goddiwes; cael gafael ar; cael i'w feddiant; dyfod o hyd i; ennill, ynnill; mynu; ffynnu, llwyddo, tycio; cymmeryd lle; cael ei dderbyn yn gyffredin; para mewn arfer; ennill tir; myned *neu* dyfu mewn arfer; myned yn fwyfwy arferedig; bod ar gynnydd; cynnyddu; bod yn beth cyffredin; bod yn gyffredin; bod yn arferol; gnotäu, arfer; cadw; effeithio.

To obtain a suit—caffael hawl.

Obtainable, *a.* hygael, cyrhaeddadwy; à ellir ei gael; à ellir ei gyrhaedd.

Obtainer, *s.* caffaeliwr, caffaelydd, cyrhaeddwr.

Obtainment, *s.* caffaeliad, cyrhaeddiad, caffawd, cafawd, meddiannad, meddiad, meddiant.

Obtemperate,† *v. a.* (Ll. *obtempero*) ufyddhau, ufyddhau i, ymostwng i.

Obtend, *v. a.* (Ll. *obtendo*) gwrthsefyll, gwrthwynebu, sefyll yn erbyn, gwrthryn, nagu; †ffugio.

Obtenebration, *s.* (Ll. *ob* a *tenebræ*) tywylliad, caddugad; tywyllwch, caddug.

Obtension,† *s.* (o *obtend*) gwrthsafiad, gwrthwynebiad, gwrthryniad, gwrthryn.

Obtest, *v.* (Ll. *obtestor*) atolygu, atolwg, erfyn, erfynio, deisyf, deisyfu, ymbil, ymbilio, erdolwg, adolwyn, crefu, taer erfyn, ymhwedd, eiriol; gwrthdystio, ardystio.

Obtestation, *s.* atolygiad, erfyniad, deisyfiad, deisyf, erfyn, ymbil, ymbiliad, taergais, taer erfyniad.

Obtrectation, *s.* (Ll. *obtrectatio*) gogan, athrawd, enllib, cabl, hort, athrodiaeth, goganair, anair, drygair.

Obtrude, *v.* (Ll. *obtrudo*) gwthio, cymhell, argymhell, dirio, *neu* wasgu peth ar un; gwthio, cymhell, argymhell, trawsgymhell, dirwthio, ymwthio; gosod, bwrw, *neu* yru peth o drais *neu* lettrais ar un; peri i un dderbyn peth er na bodd nac anfodd ganddo; peri i un dderbyn peth na bodd nac anfodd ganddo; peri i un lyncu peth o wir drais *neu* daerni; peri i un lyncu peth bid da bid drwg ganddo; ymwthio i mewn; rhuthro i, myned i; gormesu, gormeddu.

To obtrude one's self—ymwthio; ymwthio i mewn; myned *neu* ymwthio i le *neu* gymdeithas heb na chenad na chyfarch; gwthio ei hun i mewn.

Obtruder, *s.* ymwthiwr, ymwthiwr i mewn; gwthiwr *neu* wthiedydd peth ar arall; à wthio beth ar arall, &c.

Obtruding, *s.* ymwthiad; gwthiad, cymhelliad; ymwthiad i mewn heb genad na chyfarch.

Obtruncate, *v. a.* (Ll. *obtrunco*) diaelodi, trychu, brigladd, tori ffwrdd.

Obtruncation, *s.* trychiad, brigladdiad, dïaslodiad, toriad ymaith.

Obtrusion, *s.* (Ll. *obtrudo, obtrusus*) ymwthiad, gwthiad, cymhelliad, argymhelliad, trawsgymhelliad, dirwthiad, gorwthiad; gwthiad, cymhelliad, *neu* ddiriad peth ar arall; ymwthiad i le *neu* gymdeithas; mynediad, dyfodiad, *neu* ymwthiad i le heb genad na chyfarch; mynediad, dyfodiad, *neu* ymwthiad i le heb na gwahodd na chroesaw.

Obtrusive, *a.* ymwthiol, ymwthgar, trawsymwthgar; parod *neu* chwannog i ymwthio ar arall; parod *neu* chwannog i ymwthio i ryw le *neu* gymdeithas; parod *neu* chwannog i wthio peth ar arall.

Obtund, *v. a.* (Ll. *obtundo*) pylu, arbylu, erbylu, ambylu, aflymu; tori awch *neu* lymder; dïawchu, difinio; marwhau, marweiddio; hurtio, hurthio; llaesu.

Obtundents, *s. pl.* pyleion, cyffyriau pylus.

Obturation, *s.* (Ll. *obturatus*) gwarchattal, gwarchattaliad; attaliad drwy orchuddio; argäedigaeth.

Obturator, *s.* clun-gyhyr, cyhyr y glun, gwarchor, gwarchattegydd, gwarchlyweth.

Obtusangular, *a.* (*obtuse* ac *angular*) pylonglog, pwlonglog; a'r y mae iddo ongl fwy na chyfartal; a'r y mae iddynt onglau mwy na chyfartal.

Obtuse, *a.* (Ll. *obtusus*) pwl, (*f.* pol), difin, aflym, dïawchus, anfiniog, dïawch, anawchus, ambylus; dwl, (*f.* dôl), hurt, anghraffus, anghraff, disgraff, synwyrbwl; swrth, marwaidd; aneglur, anghroew; mwy na chyfartal.

Obtuse angle—pylongl, pwlongl, ongl bol, pol elin.

Obtuse-angled=*Obtusangular*.

Obtuse-angled triangle—tryfal pylonglog, tryfal pwlonglog, tryfal pylongl.

Obtuseness, *s.* pyledd, pylni, pylder, pylrwydd, pyli, arbyledd, ambyledd, aflymder, difinedd; hurtrwydd; syrthni, marweidd-dra; anghroewder.

Obtusion, *s.* pyliad; pyledd, pylni; hurtrwydd.

Obumbrate, *v. a.* (Ll. *obumbro*) cysgodi; bwrw cysgod dros; tywyllu, cymylu, caddugo, duo, gordduo, huddo.

Obumbration, *s.* cysgodiad; tywylliad, cymyliad, caddugad.

Obvention, † *s.* (Ll. *obvenio*) rhywbeth damweiniol *neu* achlysurol; damwaen, dygwydd, dygwyddiant.

Obventions, *s. pl.* offrymau; degymau ac offrymau; cyllid eglwysig, ardreth eglwys.

Obversant, † *a.* (Ll. *obversans*) cynnefin, cyfarwydd, cyffredin.

Obverse, *a.* (Ll. *obversus*) bonfain; meinach yn y bon nag yn y blaen.

Obverse, *s.* gwyneb (arian bath), y gwyneb, yr wyneb, atwyneb.

Obverse and reverse—gwyneb a gwrthwyneb; y gwyneb a'r gwrthwyneb; y gwyneb a'r cefn; y tu gwyneb a'r tu cefn; yr wyneb a'r wyneb arall.

Obvert, *v. a.* (Ll. *obverto*) troi tuag at; gwynebu ar.

Obviate, *v. a.* (Ff. *obvier;* Ll. *obvius*) rhagflaenu; cyfarfod â pheth ar y ffordd; myned i gyfarfod â pheth; myned yn erbyn peth; cael y blaen ar; troi *neu* fwrw peth heibio; rhagu, erbynio, rhwystro, attal, rhagod; symmud rhwystrau.

To obviate objections—rhagflaenu, rhagateb, rhagddiddymu, *neu* ragddirymu gwrthddadleuon.

To obviate difficulties—rhagflaenu *neu* ragddymchwelyd anhawsderau; rhagsymmud anhawsderau o'r ffordd.

To obviate dangers—rhagflaenu *neu* ragochelyd peryglon; cael y blaen ar beryglon.

Obvious, *a.* (Ll. *obvius*) eglur, amlwg, hywel, hysbys, ysbys; hawdd ei weled, hawdd i'w weled, hawdd i'w ddirnad, hawdd ei ddirnad; hygael, hawdd i'w gael: hawdd cwrdd âg ef; yn cyfarfod âg un ar y ffordd; yn ymgynnyg i un ar y ffordd; yn gorwedd ger bron *neu* o flaen llygaid un; egored, agored, hoeddus.

This is obvius to all the world—mae hyn yn eglur i bawb.

This is obvious to all the Christian world — hysbys, eglur, *neu* amlwg yw hyn i holl Gred; da y gŵyr holl Gred hyn.

His meaning is obvious—hawdd yw deall ei feddwl; mae ei feddwl yn hawdd i'w ddeall; y mae ei feddwl yn eglur.

Obviousness, *s.* eglurder, eglurdeb, amlygrwydd, amlygedd, hysbyserwydd.

Obvolute, } *a.* (Ll. *obvolutus*) gwrthdröedig;
Obvoluted, } tröedig i mewn; ynnhröedig.

Occasion, *s.* (Ll. *occasio*) achlysur, echlysur; achos, perwyl, ethryb, echlys, achwys; odfa, oedfa, lle, cyfle, cyfleusdra, cyfleusder, arfod, adeg, awd, amser; chwyl, hamdden; dygwydd, dygwyddiad; angen; neges, gorchwyl.

To give occasion—peri; rhoi lle, rhoi cyfle, rhoi cyfleusdra; bod yn achos *neu* achlysur.

To make an occasion—achlysuro, echlysuro, echlysu, gwneuthur achlysur.

In her occasion—wrth ei hachlysur.

To seek occasion to cavil—ceisio canllaw i wrthddadleu.

An occasion to fall—rhwystr, tramgwydd.

An occasion of offence *or* stumbling — rhwystr, tramgwydd.

Give no occasion to curse thee—na ddod le i ddyn i'th felltithio (*Eccles.* iv. 5).

That he may seek occasion against us—i fwrw hyn arnom ni (*Gen.* xliii. 18).

And give occasions of speech against her—a gosod yn ei herbyn anair (*Deut.* xxii. 14).

Which thou shalt have occasion to bestow—yr hyn a ddygwyddo i ti ei roddi (*Ezra* vii. 20).

Occasion, *v. a.* peri, peru, achosi, achlysuro, echlysuro; bod yn achos, bod yn achlysur, bod yn echlysur, echlysu; dygwyddo; tueddu.

I have occasioned—bum achos, bum achlysur, bum yn achos, bum yn achlysur; achosais, achlysurais.

Occasionable, *a.* achlysuradwy, echlysuradwy, achosadwy, echlysadwy.

Occasional, *a.* achlysurol, echlysurol, echlysol, achosol, dygwyddol, dygwyddiadol, damweiniol; â ddel o ddamwaen; arfodol.

Occasionally, *ad.* yn achlysurol, &c.; yn awr ac eilwaith ar ddamwaen; yn awr ac yn y mân ar ddamwaen; fel y dygwyddo; yn ol yr achos; yn ol fel y bo yr achos; yn ol y bo yr achos yn gofyn; fel y bo yr achos yn gofyn.

Occasioner, *s.* achlysurwr, achlysurydd, echlysurwr, achoswr.

Occasive, *a.* (Ll. *occasus*) machludol, ymachludol, ymachluddol, disgynol, gostyngol; gorllewinol; yn machludo, yn disgyn, yn gostwng.

Occocation, *s.* (Ll. *occocatio*) dalliad; dallineb, dellni.

Occident, *s.* (Ll. *occidens*) gorllewin, y gorllewin, gorllewydd, llewenydd, llywyn, llywynydd.

Occidental, *a.* gorllewinol, gorllewyddol, llewinol, llewin, llywynol.

The occidental parts—parthau y gorllewin.

Occiduous, *a.* (Ll. *occiduus*) gorllewinol, llewinol, gorllewyddol.

Occipital, *a.* (o'r Ll. *occiput*) perthynol i'r gwegil; olgreuanol, uchgreuanol, gwegiladd.

Occipital bone—asgwrn y gwegil, asgwrn yr uchgreuan.

Occiput, *s.* (Ll.) gwegil, olgreuan, uchgreuan, pillgorn y gwegil, tyllgorn y gwegil, gwàr.

Occision,† *s.* (Ll. *occisio*) lladdiad, lladdediganeth, lladd.

Occlude, *v. a.* (Ll. *occludo*) cau, argau, cau i fyny, gwarchau.

Occluse, *a.* (Ll. *occlusus*) cauedig, cau, cauad, argau.

Occlusion, *s.* (Ll. *occlusio*) cauad, cauediganeth, argauad, gwarchauad, cauad i fyny.

Occult, *a.* (Ll. *occultus*) cudd, cuddiedig, dirgel, cel, celedig, argel, dirgelaidd, cuddiog, arguddiedig; anadnabyddus; cyfrin, cyfriniol, anweledig; anghanfyddedig; anhysbys.

Occult sciences—y gwyddorion dirgel, y cel wyddorion, y cudd wybodau, y gwybodau cudd, y gwybodau swynol=gwybodau dychymygol y canoloesau; megys, swyngyfaredd, allferylliaeth, serddewiniaeth, a'r cyffelyb.

Occultation, *s.* (Ll. *occultatio*) arguddiad, cuddiad, argeliad, dirgeliad, celiad, cuddiediganeth, cuddeidiaeth, machludiaeth, machludiant; dyguddiad, celediganeth, arguddawd.

Circle of perpetual occultation—cylch arguddiad gwastadol.

Occulted,† *a.* cuddiedig, cudd, celedig.

Occupancy, *s.* (Ll. *occupo*) meddiannad, goresgyniad, goresgyn, cymmeriad goresgyn ar dir, cymmeriad meddiant, cymmeriad gafael ar beth; meddiant, meddiannediganeth, mwyniant; daliad *neu* gynnaliad meddiant mewn lle.

Occupant, *s.* meddiannydd, meddiannwr, cymmerydd meddiant, cymmerwr meddiant, goresgynwr, goresgynydd; daliedydd *neu* gynneilydd meddiant mewn lle; deiliad, daliwr, daliedydd.

Occupate,† *v. a.* (Ll. *occupo*) dàl, dala, meddiannu, dàl gafael ar, cymmeryd i fyny.

Occupation, *s.* (Ll. *occupatio*) meddiannad, meddiad, cymmeriad meddiant, goresgyniad, cymmeriad goresgyn, goresgyn, cymmeriad gafael ar beth, daliad, daliad meddiant, meddiannediganeth; meddiant, gafael; galwad, galwediganeth, swydd, gorchwyl, swyddwaith, gwaith, crefft, celfyddyd, trafnid; pryder; anghenddyl.

A person of occupation—gwr o alwad, gwr wrth alwad, gwr wrth alwediganeth, &c.

A person of no occupation—dyn dïalwad, dyn diswydd, dyn dineges, dyn heb alwad, &c.

Occupative, *a.* à gadwer o drais.

Occupative field—maes, tir, *neu* dyddyn à gadwer o drais; maes à gymmero arall i'w feddiant ar ol i'w iawn berchenog ymwrthod âg ef.

Occupier, *s.* meddiannydd, meddiannwr, cymmerydd meddiant, cymmerwr meddiant, goresgynwr, goresgynydd; daliedydd *neu* gynnalydd meddiant mewn lle; deiliad, daliedydd, daliwr; un à ddeil feddiant yn mheth; un à gymmero *neu* à gaffo fwyniant peth; mwynhäwr; dylynwr galwad, dylynydd galwediganeth, perchen crefft.

Occupier of business—gwneuthurwr gorchwyl; dylynwr, dylynydd, *neu* berchen crefft; marchnadwr, masnachwr, negeseuwr.

Occupier of lands—deiliad tir, daliedydd tir, tir-ddeiliad.

Occupy, *v.* (Ll. *occupo*) meddiannu, dàl, meddu, perchenogi, mwynhau; arfer, arferu, defnyddio, ymarferu o, ymarferu â; cadw meddiant, dàl meddiant, cadw gafael; cadw; cymmeryd, cymmeryd i fyny; gorchwylu, gorchwyllo; rhoi *neu* roddi ar waith; bod à gwaith ganddo; trin, treulio, bwrw; dylyn, canlyn; bod wrth; ymyryd âg, ymyru âg, ymrwystro â; marchnata, negeseu; llenwi, cyflenwi; dylyn galwediganeth; gwneuthur, gwneyd.

To occupy—dàl tir, lle, *neu* dyddyn; dàl tir yn llaw *neu* yn ei law; bod à thir yn llaw, yn ei law, *neu* yn ei afael; byw, preswylio, *neu* drigo mewn lle; byw ar dyddyn; diwyllio, amaethu, *neu* drin tir; meddu, meddiannu, perchenogi.

To occupy (space, &c.)—cyflawnu, cyflenwi, llenwi; meddu, meddiannu.

To occupy merchandise—marchnata, masnachu, marchnata marchnad.

To occupy one's money in trade — gosod allan ei arian ar fasnach; gosod allan ei arian mewn masnach.

To be occupied in, } ymgynnefino â;
To be occupied about, } arfer peth; bod yn arfer â pheth; ymarfer â; myfyrio yn; treulio ei amser yn; rhodio yn.

To occupy one's self in business—ymyru, ymyryd, *neu* ymyraeth â pheth; ymrwystro â pheth; ymrwymo mewn mater *neu* achos; ymdrafferthu *neu* ymdraffullio mewn peth; ymrwystro *neu* ymyryd â rhyw neges; cymmeryd gorchwyl arno; ymarfer, ymarferu, *neu* ymgynnefino â pheth; ymarfer, ymarferu, *neu* ymgynnefino mewn peth; ymarfer o beth; ymdrin â pheth; ymwneuthur â pheth.

To occupy any business—dylyn galwad, swydd, *neu* alwediganeth; ymröi i ryw swydd *neu* gelfyddyd; dwyn, gwasanaethu, *neu* drin swydd; bod mewn swydd; canlyn crefft *neu* gelfyddyd.

To busy one's self about the Sabbath—cadw y Sabbath.

New ropes that never were occupied — rhaffau newyddion, y rhai ni wnaethpwyd gwaith â hwynt (*Barn.* xvi. 11).

All the gold that was occupied for the work

—yr holl aur â weithiwyd yn y gwaith (*Ecs.* xxxviii. 24).
Them that have been occupied therein—y sawl a rodiasant ynddynt (*Heb.* xiii. 9).
Occupy till I come — marchnatäwch hyd oni ddelwyf (*Luc* xix. 13).

Occur, *v. n.* (Ll. *occurro*) dygwydd, dygwyddo, damweinio, damwaen; dyfod i gof; bod i'w gael; bod i'w weled; dyfod yn ffordd un; ymddangos; cyfarfod; cyfarfod âg un; dyfod i gyfarfod âg un; ymgynnyg i un;† gwrthwyneba.
To occur to one—dyfod i gof un.

Occurrence, *s.* (Ff.) dygwydd, dygwyddiad, dygwyddiant, damwaen, damweiniaeth, damweindro, dygwyddbeth; peth â ddygwydd *neu* â ddaw yn ffordd un; tro; darn o newydd; arfod.
The occurences of the year—pethau â ddygwyddasant yn chwyl y flwyddyn; dygwyddion *neu* ddygwyddiadau y flwyddyn.

Occurrent,† *s.* dygwydd, dygwyddiad, damwaen.

Occursion, *s.* (Ll. *occurio*) ymgyfarfod, ymgyfredeg, ymgyfrediad; cyttarawiad, gwrthdarawiad, ergydiad, targ, cwrdd, cyffyrddiad.

Ocean, *s.* (Gr. *ôceanos;* Ll. *oceanus;* Ff. *océan*) cefnfor, cyfanfor, dyfnfor, cenfor, yr eigion, y môr mawr, y môr, y weilgi, y dwfn.
Atlantic Ocean — Môr Werydd, y Môr Werydd, y Môr Atlantig.
Pacific Ocean—Môr Tawel, Môr Tawelog, y Tawelfor, y Cefnfor Tawel.
Indian Ocean—Môr yr India, y Môr Indiaidd Môr Ind, Cyfanfor yr India, Môr mawr yr India.
Eastern Ocean — Môr y Dwyrain, y Môr Dwyreiniol, Cyfanfor y Dwyrain.
Arctic Ocean, Northern Ocean, } Môr y Gogledd, y Môr Gogleddol, Cefnfor y Gogledd, y Cyfanfor Gogleddol, Môr mawr y Gogledd.
Antarctic Ocean, Southern Ocean, } Cefnfor y De, Cyfanfor y Deheu, y Cyfanfor Deheuol, y Cefnfor Deheuol, Môr mawr y De.
German Ocean — Môr yr Almaen, Môr Tawch.

Ocean, *a.* perthynol i'r cefnfor *neu* yr eigion; eigionol.
Ocean waves—tònau yr eigion.

Oceanic, *a.* eigionol, eigionig; perthynol i'r eigion; yn perthyn i'r cyfanfor; â berthyn i'r cefnfor; mordrig.

Oceanides, *s. pl.* (Gr.) Eigionesau, Mordduwiesau, Duwiesau Môr, Duwiesau y Môr, Moresau, Morelenod.

Ocellated, *a.* (Ll. *ocellatus*) llygadrith, llygadwedd, llygadaidd, fel llygad; llygeidiog, llygedynog.

Ocelot, *s.* (Ff.) llewpard Mecsico.

Ochlocracy, *s.* (Gr. *ochlocratia*) llywodraeth y werin, gwerinlywodraeth, gwerinlywiaeth, gweriniaeth, dynoslywiaeth.

Ochraceous, *a.* (o *ochre*) tudliwiog, cleiliwiog; clelog; melyn.

Ochre, *s.* (Ff. *ocre;* Ll. a Gr. *ochra*) lliwbridd, tudliw.
Yellow ochre — melynell, mwn melyn, mwyn melyn, lliw melyn, pridd melyn.
Red ochre—rhuddell, mwn coch, mwyn coch, nod coch, lliw coch, pridd coch.

Ochrea, *s.*=*Ocrea.*

Ochreous, *a.* lliwbriddog, lliwbriddaidd, tudliwiog, tudliwaidd; tebyg i liwbridd *neu* dudliw.
Ochreous colour—tudliw, gne lliwbridd.

Ochrey,† *a.* lliwbriddaidd, lliwbriddog.

Ochroite, *s.* daiar ceridfaen.

Ochymy, *s.* (llygriad o *alchymy*) mettel cymmysg.

Ocrea, *s.* (Ll.) llysgwran, llysguran.

Octachord, *s.* (Gr. *octô* a *chordê*) wythgord, wythdannell.

Octagon, *s.* (Gr. *octô* a *gônia*) wythongl, dull wythonglog, wythor.
To form an octagon—wythongli, wythori.

Octagonal, *a.* wythonglog, wythonglawl, wythorawl; ag y mae wyth ongl iddo.

Octahedral, } *a.* (Gr. *octô* a *hedra*) wythochrog,
Octaedral, } wythochrol; ag y mae wyth ochr gyfartal iddo.

Octahedrite, } *s.* (Gr. *octô* a *hedra*) wythochrith.
Octaedrite, }

Octahedron, } *s.* wythochr, dull wythochrog,
Octaedron, } wythochryn.

Octander, *s.* (Gr. *octô* ac *anêr*) wythwryw, wythgwryw, planigyn wythwryw.

Octandria, *s.* Wythwryw, Wythgwryw=enw yr wythfed genedl o blanigion yn nghyttrefn Linnæus.

Octandrian, } *a.* wythwrywaidd, wythgwryw-
Octandrous, } aidd, wythwryw, wythgwryw.

Octangular, *a.* (Ll. *octangulus*) wythonglog, wythonglawl; ag y mae wyth ongl iddo.
To form an octangular figure—wythongli.

Octangularness, *s.* wythonglogrwydd.

Octant, *s.* (Ll. *octans*) wythaint; wythfedran, wythran; wythfed ran cylch; onglyr, pedryran.

Octanus, *s.* twymyn wythnyddiol.

Octastyle, *s.* (Gr. *octô* a *stulos*) adail âg wyth golofn o'i blaen; wythbillres.

Octateuch, *s.* (Gr. *octô* a *teuchos*) wythlyfr, wythllyfr; wyth lyfr cyntaf yr Hen Destament.

Octave, *a.* (Ll. *octavus*) wythol; wythfed.

Octave, *s.* wythawd, wython, wythradd; wythfed tôn, wythfed radd tôn, wythradd tôn; wythnydd; wythfed dydd; wythnoswyl.
Octave of a holiday—gŵyl pen yr wythnos, yr wythfed dydd o'r ŵyl; wythnos ŵyl, wythnoswyl, wythnos yr ŵyl, wyth diwrnod wedi gŵyl; wythawd gŵyl.
The octave of the Ascension—wythnoswyl y Dyrchafael; wythnos ŵyl y Dyrchafael.

Octavo, *s.* (Ll. *octavus*) llyfr wythplyg, llyfr wythblyg, cyfrol wythplyg, wythplyg.
An octavo—llyfr wythplyg.

Octavo, *a.* wythplyg, wythblyg, 8plyg, wythblygol.
Foolscap octavo—wythplyg bychan, wythplyg ffolgap, 8plyg ffolgap.
Royal octavo, Royal 8vo, } wythplyg breninol, 8plyg breniol; 8plyg mawr.
A thick octavo book—llyfr wythplyg tew.

Octennial, *a.* (Ll. *octo* ac *annus*) wythmlyneddol, wythmlwyddol, wythflyneddol; â ddaw, â ddel, â ddygwydd, *neu* â newidir bob wyth mlynedd; â bery, â barhao, *neu* â crys dros wyth mlynedd.

Octile, *s.* (o'r Ll. *octo*)=*Octant.*

Octillion, *s.* (o'r Ll. *octo*) wythradd milfil, wythradd miliwn, wyth miliwn o filiynau.

October, *s.* (Ll.) Hydref, Hyddfref, mis Hydref, Hydrew, mis Hydrew=y degfed mis.

Octodemical, *a.* (Ll. *octo* a *decem*) wyth a deg, wytharddegol.

Octodentate, *a.* (Ll. *octo* a *dentatus*) wythddeintiog, wythdeintiog; âg iddo wyth o ddannedd.

Octofid, *a.* (Ll. *octo* a *findo*) wythollt, wythhollt, wyth-holltog.

Octogenarian, *s.* (Ll. *octogenarius*) un wythddeg mlwydd oed, un wythddeg mlwydd, un pedwar ugain mlwydd oed, pedrugeiniwr; offeryn wythdant, wythdant.

Octolocular, *a.* (Ll. *octo* a *locus*) wythgellog, wythgafellog; âg iddo wyth hadgell.

Octonary, *a.* (Ll. *octonarius*) wythol; yr hyn sydd wyth; wythrifol.

Octonocular, *a.* (Ll. *octo* ac *oculus*) wythlygeidiog, wythllygeidiog; â chanddo wyth llygad.

Octopetalous, *a.* (Gr. *octo* a *petalon*) wythfflurddeiliog; âg iddo wyth o flodeuddail; âg wyth o fflurddail iddo.

Octopod, *s.* (Gr. *octô* a *pous*) anifail wythdroed, wythdroediog, wythdroed: *pl.* wythdroedogion, wythdroediaid, wythbedogion.

Octoradiated, *a.* (Ll. *octo* a *radius*) wythreiddiog.

Octospermous, *a.* (Gr. *octô* a *sperma*) wythhadog; yn cynnwys wyth o hadau.

Octostyle, *s.*=*Octastyle.*

Octosyllable, *a.* (Ll. *octo* a *syllaba*) wythsill, wythsillog, wythbanog, wythban, wythsillafog.

Octosyllable, *s.* gair wythsill, gair wythsillog, wythsill, wythsilleb, wythsillaf.

Octuple, *a.* (Ll. *octuplus*) wythplyg, wythblyg, wythdro, wythwaith, wyth cymmaint, cymmaint wythwaith.

Ocular, *a.* (Ll. *ocularius*) golygol, llygadol, llygeidiol; eiddo y golwg; â berthyn i'r olwg; yn perthyn i'r golwg; â welir â'r llygaid; â ddel *neu* â ddygwydd dân wybyddiaeth yr olwg *neu* y llygaid.

Ocular demonstration — arddangosiad golygol, arbrofiad llygadol, golygbrawf; prawf â welir â'r llygaid; prawf â'r llygaid.

Will you not be convinced by ocular demonstration?—oni chredweh chwi eich llygaid eich hun?

Ocularly, *ad.* â'r llygaid, â'r llygad, â'r olwg; yn olygol, &c.

Oculate, *a.* (Ll. *oculatus*) llygeidiog; â llygaid ganddo; yn adwaen â'r llygad.

Oculiform, *a.* (Ll. *oculus* a *forma*) ar lun *neu* ddull llygad; llygadaidd, llygadwedd.

Oculist, *s.* (Ll. *oculus*) meddyg llygaid, llygadfeddyg.

Oculus, *s.* (Ll.) llygad.

Oculus Christi—cedowydd Awstria, cedowys Awstria, anmhrydlwyd Awstria.

Oculus cati—llygad y gath, cathlygad=math o em brydferth.

Oculus mundi—llygad y byd, bydlygad, gwyffiamsaen=math o ddelidfaen.

Ocymun, *s.* (Ll.) breninllys, y freninllys.

Odaliak, } *s.* (Tyrc. *odah*) un o ferched perth-
Odaliaque, } ynol i dy y gwragedd yn Nhwrci; cariadferch, gordderch; caethes.

Odd, *a.* (Sw. *udda, udd;* D. *odd;* C. *od*) amnifer, anghynnifer, anghyfnifer, amniferog, anghynniferog, amniferol, anghynniferol, anghydrif; anghymhar, anghydbar, anghyfath, anghymmath, heb gymhar, digymhar; a'r nid oes cymhar iddo *neu* iddi; anghyffredin, anarferol, anghynnefin, annefodol, angnawd, hynod, od, rhyfedd, enrhyfedd, aruthr, uthr, dyeithr, anhyfath; heb ei fath *neu* gyffelyb; heb ail iddo; â fyn ei ffordd *neu* ei feddwl ei hun yn mhob peth; neilltuol; anwadal, nwythig, nwythol, mympwyol; dibris; a'r ni ofelir am dano *neu* am danynt; a'r ni thâl ofalu am dano *neu* am danynt; chwaneg, anghwaneg, chwanegol, ychwaneg; ychydig, peth, *neu* rywbeth yn ychwaneg *neu* dros ben; dros ben; ysmala, digrif.

Odd number — amnifer, anghynnifer, anghyfnifer, rhif anhyran.

An odd glove—maneg anghymhar, maneg weddw.

An odd fellow—dyn anhyfath, anghymhar, hynod, od, nwythig, *neu* ysmala.

To play at even and odd—chwareu cynnifer ac amnifer; chwareu cynnifer ac anghynnifer; chwareu cyfnifer ac anghynnifer.

Is it even or odd?—ai cynnifer ai anghynnifer ydyw? ai cynnifer ai amnifer yw?

There is some odd money—y mae peth arian dros ben.

They spent twenty pounds odd money—hwy a dreuliasant ugain punt a thros ben; hwy a dreuliasant ugain punt a hefyd; hwy a dreuliasant ugain punt ac ychwaneg o arian.

Here are ten pounds and some odd shillings—y mae yma ddeg punt a rhai sylltau yn ychwaneg.

He left behind him a few odd things—efe a adawodd ar ei ol ryw ychydig bethau dibris a dielwig; efe a adawodd ar ei ol ryw ddau neu dri o sal bethau; efe a adawodd ar ei ol ryw ddau neu dri o bethach.

He is fourscore and odd—mae efe yn bedwar ugain a thros ben; mae e 'n bedwar ugain a rhagor; y mae efe yn bedwar ugain oed a thros ben.

The money, wherewith the odd number of them is to be redeemed—yr arian, gwerth y rhai sydd yn ychwaneg o honynt (*Num.* iii. 48).

Odd-fellows, *s. pl.* Odyddion.

Oddity, *s.* hynodrwydd, odrwydd, anghyffredinrwydd, anhyfathrwydd, anghyfathrwydd, anghymmathrwydd, angnodrwydd, angnodedd, anarferoldeb; nwyth, nwythas, arnwyth; peth hynod; peth heb ei fath; peth anhyfath *neu* anghyffredin; un hynod, od, anhyfath, ysmala, *neu* nwythig.

An oddity—un anhyfath, anghyffredin, anghymhar, hynod, od, rhyfedd, ysmala, *neu* nwythig; dyn heb ei fath; rhyw rhyw ddyn â chanddo ffordd iddo ei hun ar bob peth; dyn o'i fath ei hun; gwamalddyn.

Oddly, *ad.* yn hynod, yn od, yn anghyffredin, &c.; mewn modd anghyffredin *neu* anarferol.

Oddness, *s.* amniferedd, anghynniferedd, amniferogrwydd, anghynniferoldeb, anghynniferwch, anghyfniferwch; hynodrwydd, anghyffredinrwydd, odrwydd, anhyfathrwydd, angnodrwydd, angnodedd, anghynnefinder, anarferolrwydd, dyeithrwch, aruthredd; newyddrwydd; ysmalrwydd.

I could not but smile at the oddness of his proposal—nis gallwn lai na chwerthin am ben ei gynnyg gorwyllt diarffordd.

Odds, *s.* gwahaniaeth, rhagoriaeth, rhagor, gwahan, amrywiaeth; mantais; y blaen; y goreu; anghyfartalwch, anghyfartaledd; ymrafael, amrafael, ymryson, anghydfod, cynhen, dadl.

At odds—mewn ymrafael, mewn ymryson, benben, ben yn nghad.

To be at odds—bod yn ymryson; bod yn ymrafaelio; bod mewn ymrafael; bod mewn ymryson.

To set at odds—peri ymrafaelio â'u gilydd; peri ymrafael *neu* ymryson rhwng; gyru benben; gyru ben yn nghad â'u gilydd.

It is odds—odid; y mae yn debycach na pheidio; tebycach na pheidio.

It is odds but—odid na.

It is great odds—deg, cant, *neu* fil i un; odid fawr.

He has the odds on his side—y mae y blaen *neu* y goreu ganddo ef; efe sydd â'r blaen; efe biau y blaen; efe biau y goreu.

You have the odds of him—chwi biau y goreu arno ef; y mae y blaen *neu* y goreu genych arno ef.

To lay odds with one—dala âg un fwy i lai; dala mwy i lai âg un.

To play without any odds—chwareu lygad yn llygad, llygad a llygad, *neu* lygad am lygad; chwareu heb nac ennill na cholli.

To have the odds against one—bod â'r fantol yn ei erbyn; bod o'r fantol yn ei erbyn.

To fight against odds—ymladd un yn erbyn dau (neu y cyffelyb).

Two to one is odds—gormodd dau yn erbyn un.

See what odds there is between them!—gwelwch gymmaint o wahaniaeth y sydd rhyngddynt! gwelwch faint y mae y naill yn rhagori ar y llall!

Ode, *s.* (Gr. *ôdê;* Ll. *ode*) awdl, odl; cywydd gân dant; cywydd i'w ganu gyda thant; cywydd, cân, caniad: *pl.* odlau, awdlau.

A recitative ode—treithawdl, traethawdl, traethodyn, treithodyn, traethodl.

A little ode—odlig.

A short ode—odlig.

Oderite, *s.* enw delidfaen.

Odible, *a.* (Ll. *odi*) hygas, achas, cas, adgas, ffiaidd.

Odious, *a.* (Ll. *odiosus*) cas, adgas, hygas, achas, casbaol, cashâus, casog, casedig; ffiaidd, brwnt, cywilyddus.

Odiousness, *s.* adgasrwydd, casineb, dygasedd, dygasrwydd; casedd, dygasogrwydd, casbad, hygasrwydd, hygasedd.

Odium, *s.* (Ll.) adgasrwydd, casineb, casedd, adgasedd, cas, dygasedd, cynddrygedd, hygasedd; gwarth, gwarthrudd; bai.

Odometer, *s.* (Gr. *hodos* a *metra*) teithfydr, fforddfeidr, teithfesur = offeryn i fesuro y pellder â deithir gân gerbyd.

Odometrical, *a.* teithfydrol, fforddfeidrol, teithfesurol.

Odontalgic, *a.* (Gr. *odous* ac *algos*) perthynol i'r ddannodd *neu* ddeintwst; deintystol.

Odontalgic, *s.* cyffyr rhag y ddannodd, meddyginiaeth i'r ddeintwst.

Odontalgy, **Odontalgia**, *s.* dannodd, deintwst.

Odontiasis, *s.* (Gr. *odontiaô*) deintiad, dannedd-iad, magiad dannedd, toriad dannedd.

Odontograph, *s.* (Gr. *odous* a *graphô*) deintraddyr.

Odontoid, *a.* (Gr. *odous* ac *eidos*) dantaidd, fel dant.

Odontology, *s.* (G. *odous* a *logos*) deintofyddiaeth, deintyddiaeth.

Odorament, *s.* (Ll. *odoramentum*) perarogl, arogl, arwynt, sawyr.

Odorate, *a.* (Ll. *odoratus*) aroglus, sawyrus, sawrus, cryf ei arogl, aroglfawr.

Odorating, *a.* peraroglus, peraroglaidd, aroglber, aroglus, persawrus; yn taenu peraroglau.

Odoriferous, **Odorous**, *a.* (Ll. *odoriferus*) peraroglus, peraroglaidd, aroglber, arogleuber, aroglus, aroglaidd, peroglus, peroglaidd, rhogleddus, per ei arogl, persawrus, persawyrus, persawr, per ei sawr, aroglberaidd, sawyrber, safwyrber, perchwaol, sawyrus.

To render odoriferous — perarogluso; gwneuthur yn beraroglus, &c.

Odoriferousness, **Odorousness**, *s.* perarogledd, aroglusrwydd, peraroglusrwydd, persawredd, aroglberedd, &c.; perarogl, persawr, cysewyr, perarwynt, perchwa.

Odorin, **Odorine**, *s.* (Ll. *odor*) sawyrain, safrain.

Odour, *s.* (Ll. *odor*) arogl, arogledd, arwynt, sawr, sawyr, safr, rhogl, ogl, safwyr; perarogl, perarwynt, perwynt, perogl, perchwa, persawr, persawyr, peraidd sawr, rhogledd.

Sweet odours—peraroglau, peroglau, peraidd aroglau.

Odourless, *a.* diarogl, dissawr, anaroglus, heb arogl, heb arwynt.

Œconomical, *a.* = *Economical.*

Œconomy, *s.* = *Economy.*

Œdematous, *a.* = *Edematous.*

Œsophagus, *s.* = *Esophagus.*

Œdema, *s.* (Gr. *oidêma*) chwydd, chwydd gwŷn.

Œiliad, *s.* (Ff. *œillade*) cipolwg, cipdrem, ysmig, amrantiad.

Œnanthe, *s.* (Ll.; Gr. *oinanthê*) crogedyf, dibynlor.

Œnanthic Acid, *s.* sur crogedyf.

Œnomancy, *s.* (Gr. *oinos* a *manteia*) gwinarmes; dewiniaeth *neu* armes â gwin.

Œstrides, *s. pl.* (Ll. *œstrum*) cacwn y meirch, clŷr, clêr.

Of, *prep.* (S. *of;* Al. *ab;* Sw., D., Is., ac Isl. *af*) o; gân; odd, oc; i; ar; am; yn nghylch; oddi ar; er; er yn; yn ol; eiddo, o'r eiddo; allan o, oddi wrth.

[*Of*, rhwng dau neu chwaneg o sylweddeiriau, yn arwyddo *meddiant, perthynas*, a'r cyffelyb, nid oes yn gyffredin ddim yn ateb iddo yn y Gymraeg; ond gosodir y naill sylweddair yn ddigyfrwng ar ol y llall; fel y canfyddir wrth fagad o'r anghreifftiau sydd yn canlyn.]

The work of God—gwaith Duw.

The house of God—ty Duw.

A house of God—ty Dduw; ty i Duw.
The house of David—ty Dafydd.
The house of the father of David—ty tad Dafydd.
A man of God—gwr Duw; gwr i Dduw.
Son of man—mab dyn.
The son of man—mab y dyn.
A son of David—mab Dafydd; mab i Dafydd; un o feibion Dafydd.
The queen of England—brenines Lloegr.
The husband of this woman—gwr priod y wraig hon; gwr y wraig hon; gwr hon.
The women of Wales—gwragedd Cymru, benywaid Cymru, merched Cymru.
A man of England—gwr o Loegr; un o wŷr Lloegr.
A woman of England—gwraig o Loegr; un o wragedd Lloegr; Seisones.
The fear of God—ofn Duw.
The fear of a distemper—ofn clefyd, ofn haint, ofn rhag clefyd, ofn rhag haint.
The fear of the distemper had seized him—ofn yr haint a syrthiasai arno.
The mind of man—meddwl dyn; y meddwl dynol.
A horse of war—cadfarch, rhyfelfarch, march rhyfel.
Of me—o honof, o hanof, honof, hanof.
Of thee—o honot, o hanot, honot, hanot.
Of him—o hono, o hano, hono, hano.
Of them—o honynt, o hanynt, honynt, hanynt.
The elder of you—yr hynaf o honoch.
One of them must have done it—rhaid mai un o honynt hwy a'i gwnaeth.
There are not a few of them here—y mae yma lawer o honynt; y mae yma nid ychydig o honynt.
Many of these trees have I planted with my own hands—llawer o'r prenau hyn a blenais i â'm llaw fy hun.
A house of wood—ty coed, ty o goed, ty coedawl, coetty.
Gates of brass—pyrth pres, pyrth o bres.
A candle of wax, } canwyll gwŷr, canwyll o
A wax candle, } gwŷr, cwyrganwyll.
A wall of stone—gwàl faen, gwàl geryg, gwàl o faen, gwàl o geryg, gwàl feinin.
A flame of fire—fflam dân, fflam o dân.
A throne of gold—gorsedd aur, goredd o aur, gorsedd euraid, gorsedd euraidd.
This book of mine—fy llyfr hwn; y llyfr mau hwn; y llyfr hwn eiddof fi; y llyfr yma eiddof fi; y llyfr hwn o'r eiddof; y llyfr hwn o'r eiddof fi.
These sayings of mine—fy ngeiriau hyn; y geiriau hyn o'r eiddof.
A friend of mine—cyfaill i mi; un o'm cyfeillion; cyfaill o'r eiddof; cyfaill o'm heiddo.
A son of mine—mab i mi; mab i fi; un o'm meibion.
The wisest of men—y doethaf o ddynion.
Of right—yn ol cyfiawnder; wrth iawn, wrth iawnder, wrth gyfiawnder; o iawn, o iawnder.
Of late—yn ddiweddar; yn hwyr; yn hwyr o amser; yn newydd o amser; ddoe.
Of old—gynt, cynt; yn y ddyddiau neu yr amseroedd gynt; yn y cynfyd; yn amseroedd neu oes ein hynafiaid; yn y cynamseroedd; yn yr hen amseroedd.
Of a certainty—yn ddilys, yn ddiau, yn sicr, yn hysbys, yn wir ddiau, yn ddiammheu.
Of one's side—o du un, o ran un; ar du un, ar ran un; o blaid un.
Of one's own accord—o hono ei hun, o hano ei hun; o'i wir fodd; o'i ewyllys ei hun; o'i waith ei hun; o'i naturiaeth ei hun.
Of set purpose—yn fwriadol, o wir fwriad, o'r gwaith goddeu, o wir waith goddeu.
Of his good pleasure—o'i ewyllys da ef.
A man of understanding, } dyn deallus,
A person of understanding, } gwr deallus, perchen deall, gwr o ddeall.
A woman of virtue—gwraig rinweddol, gwraig dda, gwraig addwyn.
Of worth—o werth; teilwng, gwiw, rhygl yddus; rhagorol, addas, addwyn; gwerthfawr.
Of character, } â gair da iddo; âg
Of good character, } iddo air da; da ei
Of a good character, } air.
A person of a good character—dyn â gair da iddo; gwr â gair da iddo.
A person of no character—un heb air da iddo.
He is come of a good family—daeth o dylwyth da; hanodd o dylwyth da.
Kings shall come of thee—breninoedd a ddeuant allan o honot.
All things come of thee—oddi wrthyt ti y mae neu y daw pob peth.
He shall see of the travail of his soul—o lafur ei enaid y gwel.
A sort of beast—math ar anifail; math o anifail.
I knew him of a little one—mi a'i hadwaenwn ef er yn blentyn; adwaenwn ef o'i febyd, o'i gryd, neu o'i gawell.
You have a good friend of him—y mae efe yn gyfaill neu yn gâr da i chwi; y mae i chwi gâr neu gyfaill da ynddo ef; y mae genych gâr neu gyfaill da ynddo ef.
Ye shall have a kind father of me—chwi a'm cewch yn dad tirion neu hynaws; byddaf yn dad tirion i chwi; myfi a fyddaf yn dad hynaws i chwi.
Let us buy of somebody else—prynwn gàn rywun arall.
He is praised of these†—clodforir ef gàn y rhai hyn.
Skilful of the law†—cyfarwydd neu hyddysg yn y gyfraith.

Off, *ad.* (Is. *af*; Ll. *ab*; Gr. *apo*) ymaith, ffwrdd, i ffwrdd; oddi yma, odd yma, draw, heibio; ar godiad, ar uchelsaf.
Off and on—yn ol ac yn mlaen; yn ol a gwrthol; anwadal.
They are so off and on—y maent mòr anwadal.
A person that is off and on—dyn anwadal.
Afar off—o bell, o hirbell, draw, o draw; yn mhell.
Far off—yn mhell, pell; o hirbell; hwnt, pell draw.
Nine miles off—naw milltir oddi yma; naw milltir o ffordd; naw milltir hwnt.
Off hand—allan o law, yn ddiattreg, yn ddiannod, yn ddiaros, yn ddioed, yn ddi-

ohir, toc, yn ebrwydd, yn y mân, yn union, i maes o law, ar y chwaen, ar frys, ar ffrwst, yn fuan, chwap, yn chwepyn, yn chwipyn; rhag blaen; yn ddifyfyr.

To get off—disgyn; dianc, dïengyd.

To go off—ymadael, ymadaw, myned ymaith, myned i ffwrdd, cilio; saethu.

To be off—ymadael, cilio; bod ymaith *neu* i ffwrdd.

To be off his bargain—ciliaw oddi wrth ei gytundeb; tynu yn ol oddi wrth ei gytundeb; tori ei gytundeb; tori ar ei gytundeb.

To set off—addurno, harddu, harddwychu, cirioni; gosod allan; dyrchafu, clodfori; gosod y naill yn erbyn y llall; cyferbynu; neilltuo; gosod o'r neilltu; cymmeryd *neu* dynu ymaith; tynu yn ol.

To take off—cymmeryd ymaith *neu* ffwrdd; cymmeryd oddi ar y ffordd; cymmeryd i bant; gwatwar, gwawdio, dynwared, chwerthin am ben.

Ill off, } yn ddrwg arno; yn ddrwg ei
Badly off, } helynt; yn ddrwg ei gyflwr; yn ymdaro yn ddrwg; yn ddrwg ei amgylchiadau; yn aflwyddiannus, yn anffodus.

Well off—yn dda arno; yn dda ei helynt; yn dda ei gyflwr; mewn helynt wych; yn ymdaro yn dda; yn dda ei amgylchiadau; yn llwyddiannus, yn ffodus.

He is well off—y mae yn dda arno, &c.; y mae yn dda y byd arno; y mae ei fyd wrth ei fodd; y mae arno fyd gwr; da yw arno.

Off, *prep.* oddi ar, oddi wrth, oddi, odd, o, allan o; ar gyfer, cyferbyn, cyferbyn â, gyferbyn â, cyferyd â, yn nghyfer.

We were off Cape Clear—yr oeddem ar gyfer Penryn Ceinion.

Two miles off this town†—dwy filltir o'r dref hon.

Off, *a.* pellaf.

The off horse in a team—y ceffyl pellaf mewn gwedd.

Off, *in.* ymaith! ffwrdd! i ffwrdd! hwnt! i bant! heng! wb! dos! dyt!

Hands off, } ymaith â'ch dwy-
Off with your hands, } law.
Off with thy hat, } tyn dy het.
Take off thy hat, }

Offal, *s.* (Is. *afval;* Al. *abfall*) syrth, (*pl.* syrthion), syrthfwyd, briwgig, briwion; ymrysgar, perfedd; gweddillion, ysborion; ffilcas, ysbwrial, ysbrêd; peth diwerth.

Off-casts, *s. pl.* ysbrêd, ysbwrial, ysgubion, ysgarthion, gwehilion, sothach.

Offence, *s.* (Ll. *offensus, offensa*) tramgwydd; rhwystr; trosedd, bai, cam, camwedd; sarhad, sarhâed, soriant, cawdd, argawdd, sar, arsar, anfoddlonrwydd; niwed, nam; rhuthr, cyrch, ymosod.

A weapon of offence — erfyn ymosodol, erfyn taraw, erfyn gosod, erfyn ymosod, cyrch-erfyn.

To give offence—tramgwyddo, anfoddhau, anfoddloni, anfoddogi; rhoi tramgwydd; rhoi achos tramgwydd; digio.

To give no offence—bod yn ddiachos tramgwydd; peidio â rhoi tramgwydd.

To take offence at—tramgwyddo wrth, &c.; sori, ffromi, diflasu, anghymmodloni, *neu* somgaru wrth; bod yn anwiw, yn ddiflas, *neu* yn anghymmeradwy ganddo; bod *neu* fyned yn anfoddog wrth; bod *neu* fyned yn anfoddlawn wrth; cael ei anfoddloni *neu* anfoddhau wrth.

A slight offence—lledgawdd, tramgwydd bychan, gosor, gosar, gosard.

To make *or* commit a double offence—pechu y dau cymmaint (*Eccles.* xxxiii. 11).

Without offence, } =*Offenceless.*
Void of offence, }

Offenceful,† *s.* tramgwyddus, tramgwyddol.

Offenceless, *a.* didramgwydd, dirwystr, difai, diddrwg, diniwed, dibech, dibechod, dinam, digawdd.

Offend, *v.* (Ll. *offendo*) tramgwyddo, troseddu, gwneuthur bai, gwneuthur ar fai, gwneuthur ar gam; camwneuthur, camweddu, camweithredu; pechu; anfoddloni, anfoddhau, anfoddogi, anfoddio, digio, sori, sarhau, saru; niweidio, blino, dolurio, clwyfo; bod yn anhyfryd i *neu* gân; rhwystro; peri tramgwyddo; llithro.

To offend against—troseddu *neu* bechu yn erbyn; gwneuthur peth yn erbyn; gwneuthur cam â; rhoi tramgwydd i.

To offend the law—troseddu *neu* dori y gyfraith.

To offend against the law—troseddu *neu* dori y gyfraith; gwneyd yn erbyn y gyfraith.

We have offended against thy holy laws—nyni a wnaethom yn erbyn dy santeiddiol gyfreithiau.

He upbraideth us with our offending the law—y mae efe yn edliw (i ni) y pechodau sydd yn erbyn y gyfraith (*Doeth.* ii. 12).

All things that offend—yr holl dramgwyddiadau (*Mat.* xiii. 41).

Nothing shall offend them—nid oes dramgwydd iddynt (*Salm* cxix. 165).

To be offended—digio, anfoddloni; bod wedi digio; bod wedi tramgwyddo; bod yn ddig *neu* anfoddlawn; tramgwyddo, ymrwystro.

Easy to be offended—hygawdd.

I am greatly offended at their life—yr ydwyf yn anfoddlawn iawn i'w buchedd.

The hypocrite will be offended thereat—y rhagrithiwr a dramgwydda wrthi hi.

Offender, *s.* troseddwr, camweddwr, drwg weithredwr, tramgwyddwr, un â dramgwyddo.

Miserable offenders — drwg weithredwyr truain.

Offendress,† *s.* troseddwraig.

Offensive, *a.* (Ff. *offensif*) anhyfryd, blin, annymunol; blin, anhyfryd, dygn, gormesol, *neu* ormeilus i un o'r synwyrau; cas, adgas, ffiaidd, ffieiddgas, gwrthun; gwrthwynebus, gwrthwyneblyd, gwrthrus; serth, anmhur; rhwystrus, rhwystrol; niweidiol; ymosodol, gosodol, rhuthrol, rhysgyrol, sarhäus, gormesol.

An offensive war—rhyfel ymosodol, cyrch-ryfel, rhyfel cyrch.

Offensive weapons—arfau ymosodol, arfau taraw, arfau ymosod, arfau gosod, arfau cyrch, cyrch-arfau.

Arms offensive and defensive — arfau er taraw ac er amddiffyn; arfau ymosod ac

arfau ymddiffyn; arfau er ymosod ac er amddiffyn; arfau ymosodol ac amddiffynol; arfau niweidiol a diffynol.

Offensive to the stomach—gwrthwynebus *neu* wrthwyneblyd i'r cylla.

Offensive, *s.* tu y taraw, tu yr ymosod, y tu ymosodol, yr ochr ymosodol; yr ymosodol.

To act on the offensive, } bod ar du y taraw;
To act offensively, } bod ar du yr ymosod; ymosod ar y gelyn; ymosod yn erbyn y gelyn; ymddwyn *neu* weithredu yn ymosodol; ymosod.

Offensive, *a.* adgasrwydd, casineb; ffieiddrwydd, serthedd, gwrthwynebrwydd, &c.; niwed, drwg.

Offer, *v.* (Ll. *offero*) cynnyg, gwneuthur cynnyg, rhoddi cais; offrymu, offrwm; cyflwyno; anrhegu; gwneuthur prawf, gwneuthur gosod, argynnyg; gosod ger bron, dangos; ymgynnyg; beiddio, osio, mynu; aberthu.

To offer violence to one—ymosod ar un; cynnyg gormail, trais, gormes, *neu* orthrech i un; dechreu ymosod *neu* ruthro ar un; dwyn trais ar un; amcanu *neu* gynnyg treisio un.

To offer to abuse one—cynnyg cam i un; cynnyg sarhau un.

He offered to abuse her—efe a amcanodd ei threisio; efe a fynai orwedd gyda hi; efe a fynai ei darostwng hi.

To offer itself—ymgynnyg, cynnyg ei hun; ymgyflwyno; dyfod i gof un.

To offer to consideration—cynnyg peth i'w ystyried; gosod peth ger bron i'w ystyried.

To offer one's self—ymgynnyg, cynnyg ei hun; dyfod o hono ei hun i ymddangos ger bron; ymgynnyrchioli; cyfarfod â *neu* âg i roi ei hun; cyfarfod â *neu* âg i ymroddi; ymroddi, ymröi; ymgyflwyno, ymgyssegru.

To offer sacrifice,
To offer in sacrifice,
To offer up, } offrymu, aberthu.

To offer up prayers—offrymu gweddïau, cyflwyno gweddïau.

To offer battle—ymgynnyg i ymladd; herio *neu* annog i ymladd; herio *neu* annog i'r frwydr; cynnyg ymladd.

Do not offer to do it—na chydgam â'i wneuthur; na chynnyg ef; paid â'i gynnyg.

To offer at a thing—cynnyg, profi, *neu* amcanu gwneuthur peth; rhoi cais *neu* wneuthur cynnyg ar wneuthur peth.

Offer, *s.* cynnyg, cynnygiad; cais; cymhell; argynnyg, argais, dargais.

Offerable, *a.* cynnygiadwy; offrymadwy.

Offerer, *s.* cynnygiwr, cynnygydd; offrymwr, offrymydd, offrymiedydd, aberthwr; cyflwynwr, cyflwynydd.

Offerer of sacrifice—aberthwr, aberthydd, aberthor, gwr aberthog, offrymwr, offrymydd, offrymiedydd.

Offering, *s.* offrwm; aberth; offrymiad, aberthiad, offrymiadaeth, aberthediqaeth; cyflwyniad; cynnygiad, cynnyg.

An offering—offrwm, aberth; cyflwyn, cyflwynrodd.

Burnt-offering — peothoffrwm, offrwm poeth, llosgaberth, aberth llosg, offrwm tanllyd, hollboeth, ollboeth.

A whole burnt-offering — hollboeth, ollboeth, offrwm hollboeth, offrwm ollboeth.

Sin-offering — pechaberth, pechoffrwm, offrwm dros bechod, aberth dros bechod.

Peace-offering—heddoffrwm, heddaberth, offrwm hedd, aberth hedd.

Heave-offering—offrwm dyrchafael, dyrchafael-offrwm.

Wave-offering—offrwm cyhwfan, offrwm cwhwfan.

Trespass-offering—offrwm dros gamwedd.

Meat-offering—bwydoffrwm, bwyd offrwm.

Drink-offering—diod offrwm, diod offrwm.

Thank-offering — offrwm diolch, aberth moliant.

Offertory, *s.* (Ff. *offertoire*) offrwm, yr offrwm; offrymiad, yr offrymiad; offrymfa, yr offrymfa, offrymgell, yr offrymgell, cell yr offrymau, cell yr offrymiadau; elusenfa.

Then shall the priest begin the offertory—yna yr offeiriad a ddechreu yr offrymiad.

The money given at the offertory—yr arian â roddwyd ar yr offrymiadau.

Offerture,† *s.* (Ff. *ouverture*) cynnyg, cynnygiad.

Office, *s.* (Ff.; Ll. *officium*) swydd, swyddogaeth, gorchwyl; gwasanaeth; dyledswydd; swyddfa, gorchwylfa, gorchwyldy, swydd-dy; cymmwynas, twrn da, tro da, ced; gwaith; tro; ffurf.

A good office—cymmwynas, twrn da, tro da, ced.

High office—uchelswydd.

Inferior office—tanswydd, iselswydd.

Petty office—goswydd, manswydd, iselswydd, tanswydd, coegswydd: *pl.* manswyddau.

Mean office, } swydd wael, dlawd, fudr,
Sordid office, } *neu* front; coegswydd,
Sorry office, } gwael swydd, budr swydd, crach swydd.

Joint-office—cydswydd.

The communion office — gwasanaeth y cymun.

Divine offices—duwiol ffurfiau, amryffurf wasanaeth Duw.

Priest's office—offeiriadaeth, swydd offeiriad.

One's office—rhan un; yr hyn a fo rhan i un ei wneuthur; dyledswydd.

Do you your office—gwnewch chwi eich rhan.

Their office was to distribute unto their brethren—arnynt hwy yr oedd rhanu i'w brodyr (*Neh.* xiii. 13).

To discharge one from his office, } di-
To deprive one of his office, } swyddo un; troi un allan o'i swydd.

One discharged from his office—un collswydd, un swydd-goll; un â gollodd ei swydd.

To sue for an office, } swyddymgeisio,
To seek after an office, } swyddymgais, swyddgeisio; ymerlyn am swydd.

A suitor for an office—swyddymgeisiwr, swyddymgeisydd, swyddgeisiwr.

Holy-office—swyddfa santaidd=enw â roid i ryw lysoedd Pabaidd yn y 12fed a'r 13ydd canrif.

Rod of office—swyddwialen, swyddialen, gwialen swydd; byrllysg, berllysg.

House of office—gendy, ysgothdy, ysgothfa.
Office,† *v. a.* cyflawnu, gwneuthur.
Officer, *s.* swyddog, swyddwr.
Female officer—swyddoges, swyddwraig.
An officer in the army — cadswyddog, swyddog yn y fyddin.
Chief officer, Head officer, } penswyddog, prif swyddog.
High officer, Great officer, } uchelswyddog, uchel swyddog, un uchelswydd.
Petty officer — goswyddwr, manswyddwr, manswyddog.
Brother-officer—cydswyddog, cyswyddog, un cydswydd, swyddfrawd, brawdswyddog.
Subaltern officer—tanswyddog, isswyddog, adswyddog, ail swyddog, goriswr=pob swyddog is law cadben.
An officer's rod—swyddwialen, swyddialen, gwialen swyddog.
Officers of the court—swyddogion y llys.
Relieving officer—rheidweinydd, swyddwr cymhorthawl, gweinydd y cardodau, swyddwr cadodrodd, swyddwr tlodborth, swyddwr cynnorthwyol.
Officer, *v. a.* swyddogi; cynnysgaethu *neu* ddiwallu â swyddogion; gosod swyddogion ar; gosod dân swyddogion.
Officered, *p. p.* swyddogedig, tân swyddogion; âg iddo, âg iddi, *neu* âg iddynt swyddogion.
An army completely officered — byddin gyfr-swyddogedig.
A well officered army — byddin âg iddi swyddogion cymhwys, gwiw, *neu* deledigw.
Official, *a.* (o *office; Ff. officiel*) swyddol, swyddogol; perthynol, à berthyn, *neu* yn perthyn i swydd; à fo yn perthynu i swydd.
Official, *s.* isswyddog, swyddog dân benswyddog, rhaglaw, dirprwywr.
Officially, } *ad.* yn ol ei swydd; o ran *neu* o
Ex-officio, } herwydd ei swydd; trwy rin ei swydd; o ddyledswydd; yn swyddogol.
Officialty, *s.* swydd dirprwywr *neu* raglaw; isswyddogaeth.
Officiate, *v.* (o *office*) gwasanaethu, gwasanaethu swydd, gwasanaethu ei swydd; gweinidogaethu; darllen gwasanaeth; ymswyddogi; dirprwyo; gweinyddu dros.
To officiate (as a clergyman)—gwasanaethu eglwys, gwasanaethu swydd offeiriad, gwasanaethu swydd gweinidog eglwys, darllen gwasanaeth.
To officiate for another — gwasanaethu swydd dros arall; dirprwyo arall; darllen gwasanaeth dros arall; gweinidogaethu dros arall.
Officiating minister — gweinidog gweinyddol.
Officinal, *a.* (*Ff.* o'r Ll. *officina*) swyddfaol, maelfaol, gwerthfaol, cyfferifaol; masnachol; perthynol i fasnachfa *neu* werthfa; ar werth gân y cyfferiedyddion.
Officinal, *s.* cyffyr à werthir mewn cyfferifa.
Officious, *a.* (Ll. *officiosus*) swyddgar, negesgar, negeseugar, rhychesgar, rhodresgar; parod i wneuthur swydd ni bo raid iddo; cymmwynasgar; ymyrgar, ymyrus, ymyrol, tringar, rhy brysur.
Officiousness, *s.* swyddgarwch, negesgarwch, rhydresgarwch; cymmwynasgarwch; ymyrgarwch, ymyraeth, rhydres.
Offing, *s.* (o *off*) min y cefnfor, golwg tir; digon o fôr i long nofio ynddo heb gyfarwyddyd porthlywydd.
Offscouring, *s.* (*off* a *scour*) sorod, swrwd, ysgubion, ysgarthion, sothach, ysbrêd, ysbwriol, ffilcas.
Offscum, *a.* (*off* a *scum*) gwael, gorwael, brwnt, budr, diffaeth.
Offscum, *s.* peth gwael, &c.
Offset, *s.* (*off* a *set*) ysgewyllyn, (*f.* ysgewyllen), mabgainc, ysbrigyn, blaguryn, esgyffyn; impyn; gosodiad y naill swm yn erbyn y llall: *pl.* ysgewyll, egin gwŷdd, esgyff, blagur.
Offset, *v. a.* gosod y naill swm yn erbyn y llall; gosod y naill swm gyferbyn â'r llall; peri i gyfrif un blaid dalu gofyn y blaid arall; cymmeryd *neu* dynu ymaith; tynu yn ol.
Offshoot, *s.* (*off* a *shoot*) ysgewyllyn, ysbrigyn, imp, impyn, brigyn, blaguryn.
Offspring, *s.* (*off* a *spring*) hiliogaeth, hil, epil, plant, addon, essill, essillt, essillyd, essilltydd, essillydd, genill, sil, silyn; cenedliad, cynnyrchiad.
Offuscate, *v. a.* (Ll. *offusco*) tywyllu, duo, caddugo, cymylu, enhuddo, gordywyllu.
Offuscation, *s.* tywylliad, duad, caddugad, cymyliad, arhuddiad.
Offward, *ad.* (*off* a *ward*) tuag ymaith, tuag i ffwrdd; â'i gogwydd ymaith.
Oft, Often, Oftentimes, Ofttimes, } *ad.* (S. *oft;* D. *offte*) yn fynych, llawer gwaith, lawer gwaith, yn aml o weithiau, yn aml, amlwaith, mynych.
To boil often — dyferwi, mynych ferwi, berwi yn fynych.
As often—cyn fynyched, cân fynyched, mòr fynych, cynnifer gwaith, mynyched.
As often as—cyn fynyched a, cyn fynyched ag, &c.
So often—cyn fynyched a hyny; cân fynyched a hyny; mòr fynych a hyny; cynnifer gwaith a hyny.
Ever so often—er mynyched.
Very often—yn fynych iawn, yn dra mynych, yn fynych fynych, yn fynych mynych, yn fynych ac yn aml.
How often—pa sawl gwaith; pa fynyched; pa mòr fynych; pa nifer o weithiau; pa faint o weithiau.
How often soever—pa sawl *neu* gynnifer gwaith bynag; pa fynyched bynag; pa gyn fynyched bynag; er mynyched fyddo; er mynyched y byddo.
Often, *a.* mynych.
Oftenness,† *s.* mynychder, mynychdra, mynychrwydd.
Ogdoastich, *s.* (Gr. *ogdoos* a *stichos*) wythban, cân wyth llinell.
Ogee, *s.* (*Ff. ogive, augive*) talaith igam ogam, ceugom.
Ogee arch—bwa igam ogam, bwa ceugom.
Ogganition,† *s.* (Ll. *obgannio*) chwyrniad, swrnach, ysgyrnwg.
Ogham, *s.* (Gw.) math ar feryngrifiaeth neu gelysgrifiaeth arferedig gân y Gwyddelod gynt.
Ogive, *s.* (Ff.) talaith igam ogam; rhamwaith.
Ogle, *v. a.* (Is. *oog;* S. *eag;* Ll. *oculus*) cilwenu, llygadu, ciledrych, cilwenu ar, llygadu ar, ciledrych ar, cilolygu, ysmigio; taflu llygad gafr ar; taflu llygad myharan ar; nwyfolygu.
Ogle, *s.* cilwen, cilolwg, cipolwg gilwenog,

ystlys-olwg gilwenog, ciledrychiad, nwyf-olwg, llygadiad, ysmig.
Ogler, *s.* cilwenwr, cilwenydd, ciledrychydd, cipolygwr cilwenog; taflydd llygad gafr ar un; taflydd llygad myharan ar un.
Ogling, *s.* cilweniad, llygadiad, ciledrychiad, cilolygiad; cilwen, cilolwg.
Oglio, *s.* (It. *olio;* Ysp. *olla*) dysglaid fysg, dysglaid gymmysg; cymmysg, cymmysgedd, mysgedd, cybolfa; amrywion.
Ogre, *s.* (Ff.) anghenfil dychymygol y Dwyrain; Ogr.
Ogress, *s.* Ogres, anghenfiles.
Ogresses, *s. pl.* y pelau, y pellenau; y pelenau (mewn herodraeth).
Oh, *in.* O! ow! A! och! oio! ha! wi!
Oil, *s.* (S. *ol;* Al. *oel;* Ff. *huile;* Ll. *oleum*) olew; blawn.
Oil of olives, } olew yr olewydd, olew yr
Olive-oil, } olewydden.
Train-oil, } olew y morfarch, olew y
Oil of whale, } morfil, ul.
Salad-oil—olew addail, olew yr olewydd.
Oil-bottle—potel olew, costrel olew, costrel ul.
Oil of vitriol—sur ufelig, olew copras.
To anoint with oil, } iro neu eneinio âg
To rub with oil, } olew; rhoi neu ddodi olew ar.
Distilled oil—olew dystylledig.
Expressed oil—olew gwasgedig, gwasgolew.
Oil, *v. a.* iro neu eneinio âg olew; rhoddi, rhoi, neu ddodi olew ar; olewi.
Oilbag, *s.* cod olew, cwd olew, codem olew, olew-god.
Oilcloth, *s.* llian olewedig, olew-lian, llian olew.
Oilcolour, *s.* lliw olew, olew-liw, lliw olewin.
Oilcup, *s.* cwpan olew, cib olew.
Oiler,† *s.*=*Oilman.*
Oilgas, *s.* olewnwy, nwy olew.
Oiliness, *s.* oleweiddrwydd; seimlydrwydd, ireidlydrwydd, bloneiddrwydd; llyfndra.
Oilets, } *s. pl.* (o'r Ff. *œil*) olpau=tyllau
Oillettes, } bychain mewn muriau i ellwng
Oyleta, } arfau tafl ar y gelyn.
Oilman, *s.* olewydd, olewwr, gwerthwr olew, gwerthydd olew, maelier olew, olew-werthwr.
Oilmill, *s.* melin olew.
Oilnut, *s.* olewgneuen, cneuen olew: *pl.* olewgnau.
Oilnut, } *s.* y pren olew; palm Crist.
Oiltree, }
Oil-painting, *s.* olew-liwiaeth, olew-baentiaeth; olew-liwio, olew-baentio, paentio â lliwiau olew.
Oil-shop, *s.* olewdy, olewfa, gwerthfa olew, gwerthdy olew, maelfa olew.
Oily, *a.* olewaidd; olewog, llawn olew; olewain, olewin; fel olew, tebyg i olew; seimlyd, ireidlyd, bloniaidd; llyfn.
An oily tongue—tafod teg, tafod llyfn.
Oily-grain, *s.* olew-rawn, grawn olewaidd.
Oint, *v. a.* (Ff. *oindre, oint*) eneinio; iro; elïo.
Ointment, *s.* (o *oint*) enaint; eli; iraid; wylment; olew; eneiniad.
Oke, *s.* pwysi Aifftig a Thyrcaidd=o ddeutu 2¾ cywirbwys Seisonig.
Oker, *s.*=*Ochre.*
Old, *a.* (S. *eald;* Al. *alt*) hen, oedranus, oediog, henain; hynafol; hendraul.
Old age—henaint, henoed.
To grow old—henu, heneiddio; myned yn hen; myned mewn gwth o oedran; myned yn oedranus.
An old man—hen wr, henwr, hen ddyn, henddyn, hynafgwr, gwr hen.
Old men of times past—cynawyr, yr hen bobl gynt.
An old woman—hen wraig, henwraig, hen fenyw, hen ddynes, gwrach, hen wrach, henwrach.
Belonging to old women, } gwrachaidd,
Of old women, } gwrachïaidd; perthynol i hen wragedd.
Old women's fables, } gwrachïaidd chwedl-
Old wives' fables, } au, chwedlau gwrachïaidd.
Old maid—henferch, hen ferch, hen lances.
Old bachelor—henfab, hen lanc, hen fab gweddw.
An old saying—hen air, hen chwedl.
Of old—gynt, cynt; yn y dyddiau neu yr amseroedd gynt; yn y cynfyd; yn amseroedd neu oes ein hynafiaid; yn y cynamseroedd; yn yr hen amseroedd.
In old time—gynt, cynt, &c.
Old clothes—hen ddillad, dillad hendraul.
One that is studious of old things—un hynafgar; un â rydd ei fryd ar ddeall hynafiaethau; un â rydd ei fryd ar hynafion.
Old men are twice children—unwaith yn wr, dwywaith yn blentyn.
An old knave—hen ddyn cyfrwysddrwg dichellgar; hen gadnaw, hen lwynog; hen ddrel.
An old lubber playing the boy—hen remmwth nwyfus bachgenaidd.
Old age is sickness enough of itself—cân wst gân henaint.
I can tell how old I am—gwn fy oedran; mi wn fy oed; medraf ddywedyd fy oedran; gwn pa sawl blwydd oed ydwyf.
I am above thirty years old—yr wyf dros ddeg ar ugain oed; yr wyf wedi gadael deg ar ugain; yr wyf wedi deg ar ugain; yr wyf dros ben deg ar ugain; yr wyf wedi gadael fy neg ar ugain; yr wyf dros ddeg ar ugain.
How old art thou?—beth yw dy oedran di? beth yw dy oed di? beth yw dy oed? pa sawl blwydd wyt ti? pa sawl blwydd oed wyt ti?
One is never too old to learn—dysg yn angeu ac angeu yn ddiweddaf; po hwyaf y bo dyn byw, mwyaf a wel ac a glyw.
The old woman had not sought her daughter in the oven, had she not been there herself—drwg ei hun a debyg arall.
Olden, *a.* hen, hynafol.
The olden time—yr amser gynt; yr hen amser.
Older, *a.* hŷn, henach, hynach, mwy hen.
Oldest, *a.* hynaf, henaf, mwyaf hen.
Old-fashioned, *a.* allan o arfer; wedi myned allan o arfer; wedi tyfu allan o arfer; wedi myned mewn annefod neu anarfer; mewn anghymmeriad, mewn anarfer, mewn annefod; allan o gymmeriad neu barch; wedi myned allan o barch neu gymmeriad; hen, henaidd, henddulliog; diarfer; hen ei ddull, &c.; annhoriadus.
Oldish, *a.* henaidd, lled hen, go hen, trîn hen.

Oldness, *s.* hender, hendra, hendeb, hynedd, heneidd-dra, heneiddrwydd, heneiddwch, heni, hynafiaeth.
Old-wife, *s.* henwraig, henwrach: math ar bysg.
Olea, *s.* (Ll.; Gr. *elaia*) olewydden; yr olewydd.
Oleaginous, *a.* (Ll. *oleaginus*) olewaidd, olewain.
Oleaginousness, *s.* oleweiddrwydd.
Oleander, *s.* rhoslawryf, rhoslawrwydd; rhoswydd, rhosbren.
Oleaster, *s.* (Ll.) olewydden wyllt.
Oleate, *s.* (Ll. *oleum*) olewhalan: *pl.* olewhalion.
Olecranon, *s.* (Ll. o'r Gr. *ôlenê* a *cranon*) elinben, pen asgwrn y penelin.
Olefiant, *a.* (Ll. *oleo, olfacio*) rhoglusol, rhogliannol, sawyrol.
Oleic, *a.* (Ll. *oleum*) olewig.
Oleic Acid—sur olewig.
Oliene, **Elaine**, **Elain**, *s.* (Ll. *oleum;* Gr. *elaion, elaïnos*) brasnur.
Oleometer, *s.* (Ll. *oleum*, a Gr. *metron*) olewfydr, olewfeidr, olewfesur=offeryn i fesur pwys a phurdeb olew.
Oleoresin, *s.* (Ll. *oleum*, a *resin*) olewystor.
Oleosaccharum, *s.* (Ll. *oleum* a *saccharum*) olewsugr; cymmysg o olew a sugr.
Oleose, **Oleous**, *a.* (Ll. *oleosus*) olewaidd, olewin.
Oleraceous, *a.* (Ll. *oleraceus*) perthynol i lysiau y crochan; potlysieuol, potlyseuol.
Oleum, *s.* (Ll.) olew.
Olfact, *v. a.* (Ll. *olfacto*) arogli, sawyro, sawru, safwyro, arwyntio, rhogli.
Olfactory, *a.* arogliadol, rhoglus, sawyriannol; perthynol i arogli; yn cynnwys *neu* yn mwynhau synwyr yr arogl; ymsawrus.
Olfactory nerve—gîeuyn arogliadol, gi yr arogl, gi roglus, gi y trwyn.
Olibanum, **Oliban**, *s.* (o'r Ar. *al* a *lwbanon*) oliban, olibanum, mwlystor, thus.
Olid, *a.* (Ll. *olidus*) drewllyd, drygsawrus.
Olidous, drewedig; âg arogl cryf anhyfryd arno.
Oligarchal, **Oligarchical**, *a.* (o *oligarchy*) cydbendodol, perthynol i lywodraeth anamlwyr; ambelldodawl.
Oligarchical government—llywodraeth anamlwyr, cydbendodaeth.
Oligarchy, *s.* (Gr. *oligarchia*) llywodraeth anamlwyr; gwladwriaeth y byddo yr awdurdod ar ddwylaw *neu* yn meddiant ychydig wŷr; cydbendodaeth, anamlwriaeth, cydbendod, ambelldodaeth, ambellenigaeth.
Oligist, **Oligistic**, *a.* (Gr. *oligistos*) lleiafig.
Oligist iron—haiarn lleiafig, egrid crisialedig haiarn.
Olio, *s.* (It.; Ysp. *olla;* Port. *olha*) dysglaid fysg, dysglaid gymmysg; cymmysg, cymmysgedd, mysgedd, cybolfa; amrywion, amrywiaeth.
Olitory, *a.* (Ll. *olitor*) perthynol i geginardd; yn perthyn i ardd cegin; arborawl.
Olitory seeds—hadau ceginardd, hadau gardd cegin, hadau gardd gegin, hadau llysiau cegin, hadau gardd.
Olitory, *s.* ceginardd, gardd lysiau cegin, gardd cegin, arbawr.
Olivaceous, *a.* (Ll. *oliva*) o liw yr olewydden, lliw yr olewydden, lliw yr olewydd; gwineu, melynddu; olewyddain, eiddo yr olewydd.
Olivaster, *a.* (Ff. *olivâtre;* o'r Ll. *oliva*) o liw yr olewydden, o liw yr olewydd, lliw yr olewydden, lliw yr olewydd; gwineu, melynddu.
Olive, *s.* (Ll. *oliva;* Ff. *olive*) olewydden, olewydden, pren olew: *pl.* olewydd.
Spurge-olive—llosglys, nidwydden, bliwlys, bliw, bliwyn.
Wild olive—olewydden wyllt.
Olives, **Olive-berries**, olifaid, grawn olewydd, grawn yr olewydden, olewydd rawn.
Olive-colour—lliw yr olewydden, lliw yr olewydd, olewyddliw; gwineu, gwineuddu.
Olive-grove—llwyn olewydd, llwyn olew, olewyddlwyn.
Olive-yard—olewyddlan; olewlan.
Olive-oil, **Oil of olives**, olew yr olewydd, olew yr olewydden.
Olive-crown, **Olive-garland**, coron olewydd=gwobr â roddid yn mhlith y Groegiaid i'r sawl a ennillent yn y Campau Olympig.
Olived, *a.* olewyddog; addurnedig âg olewydd.
Olivenite, *s.* (o *olive*) mwn copr o liw yr olewydden.
Olivin, **Olivine**, *s.* (o *olive*) olewfaen.
Olla Podrida, **Olla**, *s.* (Ysp.) dysglaid fysg, dysglaid gymmysg, dysglaid fysg Yspaenig; cymmysg, cymmysgedd, tryfysg, trymysg, cybolfa; ystêu Sioned.
Olympiad, *s.* (Gr. a Ll. *olympias*) Olympiad, Olympias; ysbaid pedair blynedd.
Olympics, **Olympic Games**, *s. pl.* (Gr. *olumpia*) y Campau Olympig, y Campau Olympiaidd, Campau Olympia, Campau Olympus=campau â gynnelid gynt unwaith bob 4 blynedd yn Olympia, yn Elis, wrth droed mynydd Olympus.
Ombre, *s.* (Ff. o'r Ysp. *hombre*) wmbr=math ar chwareu sethleni.
Omagra, *s.* (Gr. *ômos* ac *agra*) ysgwyddwst, poen yn yr ysgwydd.
Ombrometer, *s.* (Gr. *ombros* a *metron*) gwlawfesur, gwlawfydr, gwlawfeidyr, gwlawfydrai.
Omega, *s.* (Gr.) enw y llythyr *Ô* yn y Groeg, sef y llythyren ddiweddaf yn yr egwyddor hono: y diweddaf, y diwedd.
Alpha and Omega—Alpha ac Omega; y cyntaf a'r diweddaf; y dechreu a'r diwedd.
Omelet, *s.* (Ff. *omelette*) ffroes, crempog wyau.
Omen, *s.* (Ll.) argoel, arwydd, rhagarwydd, rhamant, rhagddangosiad, coel, arwres, arma, coelfan, darogan; rhagddywediad damwaen dda *neu* ddrwg; rhagddywediad da *neu* ddrwg.
A good or bad omen—argoel dda neu ddrwg.
An omen of good—coelferth, argoel dda, arwydd da.
A bad omen—argoel ddrwg, arwydd drwg, drygargoel, drwg argoel.
To do a thing on the encouragement of omens—gwneuthur peth ar goel *neu* ofercoel.
To observe omens—rhamanta; dàl *neu* sylwi ar argoelion.
Omened, *a.* argoeliog, argoelus; argoeliedig; yn cynnwys argoelion o bethau i ddyfod.
Omentum, *s.* (Ll.) bolweren, gweren fol, gweren y bol; llên, gorchudd, *neu* rwyden yr ymysgar; rhwyden.

Omer, } *s.* (H.) mesur Hebrëig, yn cynnwys y
Homer, } ddegfed ran o ephah, neu 75 galwyn a 5 peint.

Omiletical,† *s.* (Gr. *homilêticos*) mwyn, hyfwyn, cymdeithasgar, cyfeillachus; hyfoes, moesgar.

Ominate, *v.* (Ll. *ominor*) argoelio, rhagarwyddo, rhagddangos, darogan, arddysgogan, arddysgoganu, dysgogan, dysgoganu.

Omination, *s.* argoeliad, argoeliaeth, arddysgogan, dysgogan, dysgogant, rhagarwyddiad, rhagddangosiad.

Ominous, *a.* (Ll. *ominosus*) argoeliog, argoelus, daroganol, dysgoganol, daroganus, rhamantus, coelig, coelin, coeling; à rydd argoel o beth i ddyfod; à ddarogan *neu* à argoelia beth i ddyfod; drygargoelus, drygargoeliog, argoel-ddrwg; madargoelus; yn rhagddangos drwg *neu* dda i ddyfod.

Ominous words *or* expressions—geiriau rhamant, ymadroddion rhamantus, geiriau argoeliog.

Ominousness, *s.* argoelusrwydd, argoeliogrwydd.

Omissible, *a.* (Ll. *omissus*) hebgoradwy; à ellir ei adael heibio.

Omission, *s.* (Ff.; Ll. *omissio*) gadawiad heibio, gadawiad allan; gadawiad heibio *neu* heb wneuthur yr hyn a ddylid ei wneuthur; gadawiad heb son am dano; gwallusder, gwallusdra, palliant, gwall, arwall, diffyg, esgeulusiad; anweithrediad; hebgoriad; gomeddiad; arbediad; byrdra.

Sins of omission and commission—pechodau o wall ac o wŷd; pechodau o fyrder ac o drosedd; pechodau o waith ac o anwaith.

I have been guilty of omission in this matter—bum yn fyr yn hyn o beth.

Omissive, *a.* yn gadael allan *neu* heibio; esgeulusol, gwallusol.

Omit, *v. a.* (Ll. *omitto*) gadael allan, gadael heibio; gadael heb wneuthur; peidio â gwneuthur; gadael heb son am dano; myned dros; myned heibio i; pasio heibio i; hebgor, hebgori; arbed; maddeu; gadael heb ddarllen, gadael heb ei ddarllen; esgeuluso; pallu, gadaw, gadu.

Omittance,† *s.* cyd-ddygiad, ymaros; esgeulusdod, esgeulusiad, gadawiad heibio, peidiad.

Omnibus, *s.* (Ll.=i bawb) hirlud, hirgerbyd.

Omnifarious, *a.* (Ll. *omnifarius*) hollfath, ollfath; o bob math, rhyw, *neu* rywogaeth; hollrywiol, ollrywiol, ollryw, hollryw, hollrywogaethol; amryw, amryfal; amryfath.

Omniferous, *a.* (Ll. *omnifer*) à fo yn dwyn pob peth; ollddwyn, hollddwyn, ollddygol, hollddygol, ollfag.

Omnific, *a.* (Ll. *omnis* a *facio*) hollbar, ollbar, hollwneuthurol, ollwneuthurol; à wna *neu* à grea bob peth; hollgreol, ollgreol; cyfalwy.

Omniform, *a.* (Ll. *omniformus*) ollweddog, hollweddog, ollwedd; o bob dull, llun, *neu* wedd.

Omniformity, *s.* ollweddogrwydd, hollweddogrwydd.

Omnigenous, *a.* (Ll. *omnigenus*) ollryw, hollryw, ollrywiol, hollrywiol, hollrywiog; o bob rhyw *neu* rywogaeth.

Omniparity, *s.* (Ll. *omnis* a *par*) ollgyfoldeb, ollgydraddoldeb, cyfartalwch cyffredinol.

Omnipercipience, } *s.* (Ll. *omnis* a *percipiens*)
Omnipercipiency, } ollsyniad, hollsyniad, ollsylwad, hollsylwad, ollymwyniad, ollganfyddiaeth.

Omnipercipient, *a.* ollsyniol, ollsyniadol; yn synio *neu* sylwi ar bob peth; ollganfyddol.

Omnipotence, } *s.* (Ll. *omnipotens*) hollalluog-
Omnipotency, } rwydd, ollalluogrwydd, ollalluedd, ollnerthedd, hollnerthedd, hollalluogaeth, ollalluogaeth, hollnerth, ollnerth, hollallu, ollallu, hollgyfoethogrwydd, ollgyfoethogrwydd.

Omnipotent, *a.* hollalluog, ollalluog, hollnerthog, ollnerthog, hollgyfoethog, ollgyfoethog, ollallueddus, ollnerth, hollnerth; à allo bob peth.

To render omnipotent—hollalluogi, ollalluogi; gwneuthur yn ollalluog, &c.

Omnipotent, *s.* Hollalluog, Ollalluog, yr Hollgyfoethog.

Omnipresence, *s.* (Ll. *omnis* a *præsens*) hollbresennoldeb, ollbresennoldeb, hollbresennolrwydd, hollwyddoldeb, ollwydd, hollwydd, hollwyddfodoldeb, ollgynnrychoIdeb.

Omnipresent, *a.* hollbresennol, ollbresennol, hollwyddol, hollwyddfodol, ollgynnrychol; presennol yn mhob mân.

Omnipresential, *a.* hollbresennol, hollwyddfodol.

Omniscience, } *s.* (Ll. *omnis* a *scientia*) hollwy-
Omnisciency, } bodaeth, ollwybodaeth, hollwybod, ollwybod, hollwyddiant.

Omniscient, *a.* hollwybodol, ollwybodol, hollwybodus, ollwybodus, ollwybodog, hollwybodog; à wypo bob peth; à ŵyr ac à ddeall y cwbl.

Omniscious,† *a.* (Ll. *omnis* a *scio*)=*Omniscient.*

Omnium, *s.* (Ll.) yr oll, y cyfan, y cwbl.

Omnium-gatherum, *s.* cymmysg, amryfysg, cymmysgedd, casgliad cymmysg.

Omnivagant, *a.* (Ll. *omnivagus*) ollwibiol, hollwibiol, ollgrwydrol; à grwydro i bod mân.

Omnivores, *s. pl.* (Ll. *omnis* a *voro*) ollysolion, hollysolion; adar ollysol.

Omnivorous, *a.* (Ll. *omnivorus*) ollysol, hollysol, ollddifaol, hollysglyfiol; à fwytao *neu* à yso bob peth yn ddiwahaniaeth.

Omnivorous animals—anifeiliaid ollysol, milod hollysol.

Omoplate, *s.* (Gr. *ômos* a *platus*) palfais, palfes, yr ysgwydd; asgwrn y balfes.

Omphacine, *a.* (Gr. *omphacinos*) perthynol i ffrwyth anaddfed; à wasgwyd o ffrwyth anaddfed; anaddfed.

Omphalic, *a.* (Gr. *omphalos*) perthynol i'r fogel; bogeiliol; bogeilig.

Omphalocele, *s.* (Gr. *omphalos* a *cêlê*) bogeildor, bogeilfreg, bogeilrwyg.

Omphalode, *s.* (Gr. *omphalos*) bogel, bogail, llysfogail.

Omphalopsychites, *s. pl.* (Gr. *omphalos* a *psuchê*) Omphalosychiaid=plaid à gymmeral arni gael hyfrydwch wrth syllu ar y fogel.

Omphaloptor, } *s.* (Gr. *omphalos* ac *opticos*)
Omphaloptic, } bogeilwydr, ffawydryn argrwm.

Omphalotomy, *s.* (Gr. *omphalos* a *tomê*) bogeildrwch; rhaniad llinyn y fogel.

Omy,† *a.* ffaeth, chwal.

On, *prep.* (Al. *an*; Ll. *in*; Gr. *en*, *and*) ar; ar warthaf, ar uchaf.

On condition—tân ammod, dân ammod; ar

ammod; ar y telerau.
On these conditions — tàn yr ammodau hyn; ar y telerau hyn.
On the contrary—yn y gwrthwyneb; o'r tu arall; ar y llaw arall.
As on this day—megys ar gyfenw y dydd hwn; megys ar gyfenw i'r dydd hwn.
On both sides—o'r ddeutu, o bob tu, o bob ochr, o'r ddeuparth, o bob parth; wyneb a gwrthwyneb; wyneb a chefn.
On either side—o'r ddeutu, o bob tu, o bob parth, o bob ochr, o'r ddeuparth, o'r ddau du.
On all hands—ar bob llaw; ar bob tu.
On hand—ar law; mewn llaw; ar ei law; mewn meddiant.
On all sides—o bob tu, ar bob tu, o bob parth; ar bob llaw; oddi yma ac oddi acw; o amgylch ogylch.
On every side—ar bob tu, ar bob ystlys, ar bob ochr, o bob ochr, o bob tu, o bobtu, o bob parth; yn mhob lle o amgylch; yn mhob màn o amgylch; pobtu, o beutu, ar beutu.
On neither side—nad yw ar un o'r ddau du; a'r nid yw ar un o'r ddau du; nac ar y naill du na'r llall.
On this side of, } y tu yma i; o'r tu
On the hither side of, } yma i.
On the other side of, } y tu hwnt i; o'r
On the further side of, } tu hwnt i; y tu draw i; o'r tu draw i; ar y tu draw; ar y làn draw; ar y tu arall i.
On purpose—yn fwriadol; o wir waith oddeu; o wir waith goddeu; o'r gwaith goddeu; o wir fwriad; o wir berwyl; o fawn-fryd; o fwriad, trwy fwriad; yn unswydd, yn un swydd; o'i fodd, yn wirfoddol.
On a sudden—yn ddisymmwth, yn sydyn, yn ddisyfyd.
All on a sudden — yn ddisymmwth, yn sydyn, yn ddïattreg, yn ddïannod, yn annysgwyledig, yn swta, yn ddyswta; heb ddysgwyl *neu* edrych am dano; yn ddirybudd.
On your side—o'ch rhan chwi; ar eich rhan chwi.
On thy life—ar dy fywyd; ar dy einioes.

On, *ad.* yn mlaen, yn y blaen; rhagddo, (*pl.* rhagddynt).
On, } yn mlaen â thi, (*pl.* yn mlaen â
Go on, } chwi); dos yn mlaen, (*pl.* ewch yn mlaen); dos rhagot, (*pl.* ewch rhagoch).
On before—dos o'r blaen, (*pl.* ewch o'r blaen).
Going on—ar gerdded; ar waith; yn myned yn mlaen.
On!—yn mlaen! yn mlaen â chwi!

Onager, *s.* (Ll.) yr asyn gwyllt.

Onanism, *s.* (oddi wrth *Onan:* gwel *Gen.* xxxviii. 9) Onaniaeth; pechod Onan; ymhalogiad, hunan-halogiad.

Once, *ad.* (o *one*) unwaith, un waith; dàn un; gynt; ar ryw bryd *neu* amser.
At once—ar unwaith, ar un waith; chwap.
All at once—oll ar unwaith; i gyd ar unwaith; oll yn ngbyd; oll gyda'u gilydd; y cwbl dàn un; y cwbl dàn yr un; ar unwaith.
This once—y waith hon; y tro hwn.
Only this once—y waith hon yn unig.
Once more—eilwaith, unwaith eto, unwaith yn rhagor, eilchwaith, eilchwyl, trachefn, unwaith drachefn, eto.
Yet once more—eto unwaith.
I will speak yet but this once—llefaraf y waith hon yn unig.
Once and again—unwaith ac eilwaith.
Once for all—unwaith am y cwbl; unwaith dros byth; unwaith am oll.
Once or twice—unwaith neu ddwy; un waith neu ddwy.
Once a year—unwaith yn y flwyddyn; unwaith y flwyddyn.
Once on a time, } ar bryd, ar amser; ar
Once upon a time, } ryw bryd; ar ryw amser; ryw bryd, rywbryd, ryw amser; ar ryw dro; ryw dro; unwaith
Several disasters overtook him at once—amryw ddrygau *neu* anffodion a'i goddiweddasant ar unwaith; daeth amryw ddrygau ar ei warthaf yn eu hunllam.
If that would but once come to pass—pe deuai hyny ryw bryd i ben; pe hyny a ddeuai byth i ben.
When shall it once be?—pa bryd bellach?
There it is at once—dyna fe ar unwaith; dyna fo chwap.
Who may stand in thy sight, when once thou art angry?—pwy a saif o'th flaen, pan ennyno dy ddigder (*Salm* lxxvi. 7)?
When once the master of the house is risen—gwedi cyfodi gwr y ty (*Luc* xiii. 25).
Let it not be once named amongst you—na enwer chwaith yn eich plith (*Eph.* v. 3).

Once, *s.*=*Ounce.*

One, *a.* (S. *an, æn;* Al. *ein;* Ll. *unus;* Gr. *hen;* C. *un;* Ff. *un*) un; naill.
Any one—neb, rhywun, rhyw un, unrhyw, unrhyw un, yr un, rhyw.
One and the same—yr un a'r unrhyw; yr un ac nid arall; yr unrhyw, yr un, yr un un.
Such a one—y cyfryw un.
Some one—rhyw un, rhywun.
Every one—pob un; pob rhyw un; pob dyn; pawb; heb adaw un.
All one—yr un, yr un peth; nid amgen.
This is all one with that—yr un peth yn hollol ydyw hwn a hwnw; nid oes gwahan rhwng hwn a hwnw; nid oes mo'r gwahan rhwng hwn a hwnw.
It would be all one to me—ni ddorwn; ni byddai waeth gàn i; ni byddai waeth genyf fi; yr un peth a fyddai gàn i; yr un peth a fyddai genyf fi; yr un peth a fyddai i mi.
It is all one as if I should say—yr un peth ydyw a phe dywedwn.
All one as if he had said—nid amgen na phe dywedasai.
It was all one to those that killed him, what he said—nid oedd waeth gàn y rhai a'i lladdent beth à ddywedai; nid oedd y rhai a'i lladdent yn gofalu beth à ddywedai.
One another—eu gilydd, y naill y llall, naill y llall.
They love one another—y maent yn caru eu gilydd.

Let us love one another—carwn ein gilydd ; carwn y naill y llall.
Bear ye one another's burden—dygwch feichiau eich gilydd.
Their society one with another—eu cyfeillach â'u gilydd; eu cydgyfeillach.
They assisted one another—cynnorthwyasant y naill y llall ; cynnorthwyasant eu gilydd.
The one—y naill.
On the one side—ar y naill du.
On the one side, and on the other — ar y nail du, ac ar y llall ; o'r ddeutu, o bob tu, &c.
One or the other of them—y naill neu y llall o honynt ; un neu y ddau.
Neither the one nor the other—nid y naill na'r llall ; nid un o'r ddau.
If Esau come to the one company—os daw Esau at y naill fyntai.
Neither the one nor the other did it—nis gwnaeth na'r naill na'r llall mo hono.
One after another—yn ol eu gilydd ; ar ol eu gilydd ; y naill ar ol y llall ; y naill yn ol y llall ; bob yn ail ; ar gylch ; olynol.
They differ one from another—y mae gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall o honynt ; y mae rhagor rhwng y naill a'r llall o honynt ; y maent yn amrywiaw oddi wrth eu gilydd ; y maent yn anghytuno â'u gilydd, pwygilydd, pygilydd.
One with another—y naill gyda'r llall ; gyda'u gilydd.
One for another—y naill yn lle y llall ; y naill dros y llall ; yn lle eu gilydd.
From one to another — bwygilydd, bygilydd.
From one place to another—o fân bwygilydd ; o'r naill fân i'r llall ; o'r naill le i'r llall ; o fan i fan ; o le i le.
One by one—o un i un ; bob yn un ; bob yn un ac un ; bob un ac un ; o un bwygilydd ; bob un o'r neilltu ; bob un ar ei ben ei hun.
One and all—pawb ac un ; un a phawb ; un ac oll ; pawb i gyd.
One while—un pryd, un tro, un chwyl ; yn awr ; weithion ; weithiau.
One while they are friends, and another while enemies—y maent un pryd yn gyfeillion, a phryd arall yn elynion ; y maent yn awr yn gyfeillion, ac yn y màn yn elynion ; weithiau yn gyfeillion, ac weithiau yn elynion.
To be at one—cydfod, cydgordio, cytuno.
To set at one—cymmodi, heddychu, athrywynu.
To make one—uno ; gwneuthur yn un.
In one—yn un.
The one and twentieth—yr unfed ar ugain.
As being one that had seen it with his own eyes—gàn ei fod yn un à'i gwelsai â'i lygaid ei hun ; ac yntau yn un à'i gwelsai â'i lygaid ei hun.
One is as good as none—gwr âg un, gwr heb un.
One good turn requires another—à wnel mad, mad a ddyly.
One thief accuseth another—y mae y diawl yn ceryddu pechod.
Where they could pass but one only at a time —lle ni allent fyned trwodd ond bob yn un ; lle nis gallent fyned trwodd ond bob yn un ac un.
If one will not, another will—oni cheir gàn y naill, e geir gàn y llall ; onis ceir gàn y naill, cf a geir gàn y llall.

One, *s.* un ; dyn ; undyn, rhywun, rhyw un.
Little ones—rhai bychain, rhai bach, rhai ieuainc ; plant.
What are these little ones?—beth yw y rhai bychain hyn?
Great ones — mawrion, gwŷr mawrion, gwŷr mawr, rhai mawr ; uchelwyr.
One's self—un ei hun, un ei hunan ; ei hun, ei hunan.
The Holy One of Israel—Sant Israel.

One-arched, *a.* unbwaog ; âg un bwa iddo.
One-berry, *s.* cwlwm cariad, llysiau ungronyn, llysiau Paris.
One-celled, *a.* ungellog.
One-eyed, *a.* unllygeidiog, unllygad ; cam.
One-handed, *a.* unllawiog, unllawog, unllaw, unllofiog.
Oneirocritic, *s.* (Gr. *oneirocriticos*) deonglwr breuddwydion, deonglydd breuddwydion.
Oneirocritic, } *a.* perthynol i ddeongli breudd-
Oneirocritical, } wydion ; yn medru deongli breuddwydion ; à gymmer arno ddeongli breuddwydion.
Oneirocritics, *s.* deongliadaeth breuddwydion, celfyddyd deongli breuddwydion.
Oneirodynia, *s.* (Gr. *oneiron* ac *odunê*) hunllef ; cwsg anesmwyth.
Oneiromancy, *s.* (Gr. *oneiron* a *manteia*) dewiniaeth breuddwydion, dewiniaeth oddi wrth freuddwydion.
Onement, †*s.* (o *one*) undod, under, unrwydd, undeb.
Oneness, *s.* (o *one*) undod, unrwydd, under, unedd, uned ; unolrwydd, unoldeb, undeb.
Onerary, *a.* (Ll. *onerarius*) llwythol, pynorol ; à arferir i ddwyn llwythi, pynau, *neu* feichiau.
Onerary beast—llwythfil, pynfil, anifail llwyth.
Onerate, *v. a.* (Ll. *onero*) llwytho, pynorio, pynio, pynu, beichio.
Oneration, *s.* llwythiad, pyniad, pynoriad.
Onerous, *a.* (Ll. *onerosus*) llwythfawr, llwythog, beichiol, beichfawr, beichus ; trwm, gorthrwm, gorthrymus, gormeilus ; llafurus.
Onesided, *a.* unochrog, untuog, untu.
Onesidedness, *s.* unochrogrwydd, untuogrwydd.
Onion, *s.* (Ff. *ognon* ; Llyd. *ouignoun* ; Gw. *uinnium*) wynwyn, winwyn : *sing.* wynwynyn, wynionyn.
Young onions—sibol, sibwl : *sing.* sibolen, sibylen, sibolyn.
Welsh onions—wynwyn tramor.
Wild onions, } wynwyn gwyllt'on, wynwyn
Dog-onions, } y maes, wynwyn y cwn.
Onkotomy, *s.* (Gr. *ogcos* a *temnô*) chwyddagoriad, chwyddagor ; agoriad chwydd *neu* gornwyd.
Only, *a.* (S. *œnlic*) unig.
Only, *ad.* yn unig ; dim ond ; ond, onid.
Only-begotten — unig-genedledig ; unig-anedig, unigenid ; un mab tad a mam.
The only-begotten Son of the Father—unig-anedig Fab y Tad.
Onomancy, *s.* (Gr. *onoma* a *manteia*) enwddewiniaeth, enwarmes, dewiniaeth â llythyrenau enw.

Onomantic, } *a.* enwddewiniol; à ddewinio â
Onomantical, } llythyrenau enw.
Onomasticon, *s.* (Gr.) enwadur, geiriadur, geirlyfr.
Onomatechny, *s.* (Gr. *onoma* a *technê*) darogan wrth lythyrenau enw.
Onomatope, } *s.* (Gr. *onomatopoiia*) dychymygair, gair gwneuthur=gair wedi ci ffurfio i ddynwared sain y peth y bo, trwy gyffelybrwydd, yn ei arwyddocäu; megys *buzz, murmur, crash, neigh*, yn y Seisoneg; *dwndwr, bwmbwr, sio, rhwchial*, a'r cyffelyb, yn y Gymraeg.
Onomatopoetic, *a.* dychymygeiriol; à fo â'i sain yn arwydd o'i ystyr; â'i sain yn nod o'i synwyr.
Onomis, *s.* (Gr. *onos* ac *onêmi*) tagaradr, dueglwyd.
Onopordum, *s.* (Ll.) ysgallen gotymog.
Onesself, *s.* un ei hun, un ei hunan; ei hun, ei hunan.
Onset, *s.* (*on* a *set*) ymgyrch, ymosod, rhuthr, cyrch, gosod, argyrch, rhysgyr, ymosodiad, cyffrawd; ffwyr, gyr, hwrdd.
The first onset—blaengis, y blaengis, cynosod, cyn-gyrch, yr ymgyrch cyntaf.
Onset,† *v. a.* rhuthro, ymosod ar, cyrchu ar; dechreu.
Onsetting, *s.* ymgyrchiad, rhuthrad, ymosodiad, cyrchiad.
Onslaught, *s.* (S. *onslægan*) rhuthr, ymgyrch, cyrch, ymosodiad, ymosod, gosod, rhysgyr, lladdgyrch.
Onstead, *s.* (*on* a *stead*) tyddyndy unig, amaethdy unigol; amaethdy, tyddyndy.
Ontologic, } *a.* (o *ontology*) bodofyddol; ar-
Ontological, } ddansoddol; perthynol i fodeg *neu* fodofyddiaeth.
Ontologist, *s.* bodofydd, bodegwr, arddansoddwr.
Ontology, *s.* (Gr. *onta* a *logos*) bodofyddiaeth, bodeg; arddansoddiaeth, arddansawdd, athrawiaeth bod, athrawn.
Onward, } *ad.* (S. *ondward; on* a *ward*) yn
Onwards, } blaen, yn y blaen, rhag blaen, rhagddo, (*f.* rhagddi, *pl.* rhagddynt); yn ei flaen, (*f.* yn ei blaen, *pl.* yn eu blaen); tuag yn blaen.
Onward, *a.* yn blaen; tuag yn blaen; blaenllaw; arweiniol; cynnyddol; llwybrus, hylwybr, llwybraidd; rhaciannol; trawol, trawaidd, traw.
Onycha, *s.* (o'r Gr. *onux*) onycha (*Ecs.* xxx. 34).
Onychia, *s.* (o'r Gr. *onux*) ewinwasg, ewinor, bystwn, gwlithen ar fys.
Onychite, *s.* (Gr. *onux*) ewinfaen=math ar fynor.
Onycomancy, *s.* (Gr. *onux* a *manteia*) ewinarmes, dewiniaeth ewinedd, dewindebiaeth â'r ewinedd.
Onyx, *s.* (Ll; Gr. *onux*) onics, onycs, y maen onics, y maen onycs, cornem, ewinem; cornwyd yn nghil llygad.
Oolite, *s.* (Gr. *ôon* a *lithos*) wyfaen, gronellfaen, grawnfaen.
Oolitic, *a.* wyfeinin, wyfeinig; tebyg i wyfaen.
Oolitiferous, *a.* (*oolitic*, a Ll. *fero*) yn cynnyrchu wyfaen; yn dwyn wyfeini; wyfeiniog.
Oologist, *s.* wyofydd, traethwr ar wyau.
Oology, *s.* (Gr. *ôon* a *logos*) wyofyddiaeth, wyfrydeg, traethawd ar wyau ædar.

Ooze, *v.* (o'r sain; S. *wesan, wæscan*) nawsio, tarddain, godarddu, goffreuo, goffrydio, araf darddu, dynoddi, suddo, beru, hidlo, dyhidlo, goferu, sïo.
Ooze, *s.* llws, llys, llaidd, llwtra; godardd, goffrau, tardd, tarddiad, tarddiant, tarddell; nawsiad, sïad; rhisgwy, trwyth rhisg.
Oozings, *s. pl.* tarddiadau, tarddiannau, godarddion, tarddion.
Oozy, *a.* lleidiog, lleidlyd; llysog, llyslyd; gwlyb; dynoddol; goferllyd, goferedigol.
Oozy ground—tir gwlyb, tir corslyd, tir pislyd.
Opacate, †*v. a.* (Ll. *opaco*) tywyllu, cymylu, cysgodi.
Opacity, *s.* (Ll. *opacitas*) cymylogrwydd, tywyllni, tywyllwch, tywylledd; afloewder, annhryloewedd, annhryloewder; aneglurder.
Opacous, *a.* (Ll. *opacus*) tywyll, anoleu, annhryloew, afloew, annhrybelid; gwyll; a'r nis gwelir trwyddo.
Opah, *s.* math ar bysg.
Opal, *s.* (Ll. *opalus, opalum*) fflamfaen.
Semi-opal—gofflamfaen.
Opalescence, *s.* (o *opal*) fflamfaeneiddrwydd, fflamfaenedd.
Opalescent, *a.* fflamfaenaidd, fflamfaeneiddiol; tebyg i fflamfaen.
Opaline, *a.* (o *opal*) fflamfeinin, fflamfeinig; fflamfaenaidd; perthynol i fflamfaen; tebyg i fflamfaen.
Opalize, *v. a.* fflamfaenu, fflamfaeneiddio; gwneuthur yn debyg i fflamfaen.
Opaque, *a.* (Ff.; Ll. *opacus*) tywyll, anoleu, annhryloew, afloew, annhrybelid, annhrywel; gwyll; a'r nis gwelir trwyddo.
Opaqueness, *s.* tywyllni, tywylledd, tywyllwch, cymylogrwydd; annhryloewedd, afloewder, afloewedd; aneglurder.
Ope,† *a.* (S. *yppe, yppan*)=*Open, a.*
Ope, *v. a.*=*Open, v.*
Opegrapha, *s.* (Gr. *opê* a *graphô*) ysgrifgen.
Open, *a.* (S.; Al. *offen*) agored, egored, anghau, anghae, anghaead, anghauad, anghauedig, anghlöedig, anghlo; amlwg, eglur, noeth, annirgel, angheledig, anghel, anghelog, digel, digudd, dïymgudd, dïargel; cyhoedd, cyhoeddus; yn ngŵydd pawb; rhydd, digaeth, anghaeth; rhwydd; diffuant, dihoced, clau, cleufryd; olaer; dirwystr, dïargae, digae; anghaerog, heb gaerau; anghadwedig; amnoeth; rhydd i'r neb a fyno; rhywiog; lleithfwyn; eang, ang; llydan, ar led, rhwth, rhonca; ial, gal, gorest, gores; carn.
Open sale—arweithiad cyhoedd.
Open enmity—gelyniaeth gyfaddef, gelyniaeth gyhoedd.
Open shame—gwarthrudd golcu (*Bar.* ii. 6).
Open winter—gauaf rhywiog, mwyn, tirion, lleithfwyn, *neu* ir-wlydd; gauaf llaith; gauaf direw; gauaf rhydd; gauaf glas.
Open letter—llythyr agored, llythyr egored.
Open book—llyfr agored; llyfr wedi ei agoryd.
In the open air—allan, allan o dy, tàn yr wybren, tàn yr wybr, tàn yr awyr; heb do uwch ei ben; maes, i maes; yn yr awyr agored.
In the open firmament of heaven—yn wyneb ffurfafen y nefoedd (*Gen.* i. 20).
Open country—gwlad ddigoed agored,

gwlad agored, tir digoed, tir ial, gwastadedd, gwastattir, bro, brodir, gwaent, gwaen, rhos.

In the open fields—ar hyd wyneb y maes; ar hyd wyneb y maesydd; yn y maesydd agored.

In the open valley—ar wyneb y dyffryn.

In the open sight of others—ar gyhoedd yn ngolwg ereill; yn amlwg; yn ngŵydd pawb.

Wide open—llawn agored, rhwth agored, penegored, penagored, agored led y pen.

Half-open — lledagored, lledegored, hanner agored, hanner egored, yn lledagor, yn lledegor; ar ei ledagor; cilegored, cilagored.

More and more open—lledled, ledled, lletach letach.

Open on both sides—agored o'r ddeutu; dau-egor.

Open to—agored i, egored i.

Open to, } agored i, yn agored i; yn
Exposed to, } mherygl o.

With open mouth—yn safnrwth, yn gegrwth.

Their throat is an open sepulchre—bedd agored yw eu ceg.

To put to open shame—gosod yn watwar *neu* watwor; gwneuthur yn warthrudd; gwneuthur yn sampl.

To break open—tori yn agored *neu* egored; tori trwy drais; rhwygo; gwthio yn agored; agor o drais; treis-agor.

Open at top—dido; heb do arno; agored oddi arno; penagored, penegor; dïorchudd; agored.

That is open to view—arysbeithig; à fo yn ngolwg; à ellir ei weled; canfyddadwy; y gellir cael golwg arno.

To lay open—agor, agoryd, egor, egori, dynoethi, amlygu, arnoethi, dadguddio, digelu, annirgelu, dïorchuddio; rhoi mewn golwg; rhoi mewn goleuni; dwyn i'r goleu, i'r goleuni, i'r golwg, *neu* i'r amlwg; gwneuthur yn amlwg; dangos ar gyhoedd; gwneuthur yn agored; cyhoeddi.

Open, *v.* agor, egor, egori, agori, agoryd, egoryd; ymagor, ymegor, ymegori, ymagori; ymledu, ymeangu, ymrythu; dadgloi; egluro, amlygu, esbonio; disguddio; datlod; dechreu; cyfarth.

To open a cause—agor, egori, adrodd, *neu* fesuro hawl; cychwyn cwyn *neu* hawl; agor mater; dadguddio cwyn. [egori.

To open a little way—cilegor, cilagor, cil-

To open a fish—agor pysgodyn; diberfeddu pysgodyn.

Let the earth open—ymagored y ddaiar.

To open (as hounds)—agor, agori, egori, ymagor, cyfarth, ymŵo.

To open one's mind (to a person)—dangos, dadguddio, agor, *neu* ddadgan ei feddwl; dywedyd *neu* dreithu ei feddwl; mynegu ei ofeg; tori at un.

To open the campaign—myned i'r maes; ymgyrchu i'r rhyfel; cyrchu allan i'r rhyfel.

Opening and alleging—gân egluro a dodi ger eu bronau (*Act.* xvii. 3).

Opener, *s.* agorwr, agorydd, egorwr, egorydd, agoriawdr; eglurwr.

The opener of heaven—agoriawdr nef.

Openeyed, *a.* llygad-egor, llygad-egored, llygad-agored; gwyliadwrus, effro, anhunog.

Openhanded, *a.* llawegor, llawagor, llawagored, llawegored; â'i law yn agored; hael, haelionus, hyrodd, cedrydd, hyged, rhoddgar.

Openhearted, *a.* calon-egor; â chael rydd, rwydd, *neu* hael ganddo; hael; haelfrydig; rhyddgalon, rhwyddgalon, calonrydd, haelfron; clau, diffuant, didwyll, diduedd, dihoced, teg.

Openheartedness, *s.* rhyddgalonrwydd, rhwyddgalonrwydd, rhyddineb calon, rhullder, haeledd; diffuantrwydd, &c.

Opening, *s.* agorad, agoriad, egoriad, agor, egor; ymagoriad, ymegoriad; egoredigaeth; toriad, rhwyg, breg, adwy, bwlch, drws, ag, fflais, trych; geneu; dechreuad; gwawr; eglurhad: *pl.* agorion, agorau.

Openly, *ad.* ar gyhoedd, yn gyhoedd; yn ngolwg y byd; yn ngŵydd pawb; ger bron y byd; yn eglur, yn amlwg, yn yr amlwg, yn ddigel.

Openly and fairly—yn uniawn ac yn onest; yn ddiragrith, yn ddidwyll, yn ddihoced, yn ddiddichell; yn yr amlwg; mewn goleuni; ar gyhoedd.

Openmouthed, *a.* cegrwth, safnrwth, safn-egor, safn-agor; â safn *neu* geg agored iddo; geneu-rwth.

Openness, *s.* angheuedd, anghausdrwydd, anghaeadrwydd, anghausdedd, anghaeadigrwydd, agoredigrwydd, agoredrwydd, egoredrwydd; egluredd, amlygedd, amlygrwydd; diffuantrwydd, diragrithrwydd, dihocedrwydd, cleuder, cleufrydedd, tegwch, gonestrwydd; rhwyddedd meddwl, rhwyddedd calon; symledd; rhywiogrwydd; eangrwydd; lleithfwynder.

Openness of the weather—rhywiogrwydd, lleithfwynder, *neu* ir-wlyddedd yr hin.

Opera, *s.* (Ll., It., Ysp., a Ff.) chwareu cân, chware cerdd gymmysg, canchware, canchwareu, ffedalaw, chwedalaw, chwareugan, gobergan.

Opera house—chwareudy cân, canchwareudy, canchwareufa, chwareudy gobergan.

Opera glass—syllyr chwareufa, syllwydr chwareudy, drych chwarwyfa.

Operable,† *a.* (Ll. *operor*) gwneuthuradwy.

Operameter, *s.* (Ll. *opera*, a Gr. *metron*) gweithfesur, gweithfydrai, gweithfeidyr.

Operant,† *a.*=*Operative.*

Operant, *s.* gweithredydd, gweithredwr, gweithydd, goberydd.

Operate, *v.* (Ll. *operor*) gweithio, gweithredu, gwneuthur ei waith; cael effaith, effeithio; goberu, gorchwylio, ffeithio; cyflawnu meddygwaith, llawfeddygu, trychfeddygu.

Operatic, } *a.* (o *opera*) perthynol i chwareu
Operatical, } cân; canchwareuol.

Operation, *s.* (Ll. *operatio*) gweithrediad; gweithred, gwaith; gober; goberiad, ffeithiant, ffeithiad, effeithiad, effeithiolaeth, effaith, peiriadaeth, prwyaeth, nafiad; grym; meddygwaith, gweithred lawfeddygol, trychwaith; ysgogiadau.

Operations of a campaign—gweithrediadau milwyr yn hyd hafwaith *neu* hafgwaith.

An unlucky accident checked the operations of the campaign—damwaen anffod-

iog a luddiodd chwyl y rhyfel; damwaen anffodus a dorodd ar chwyl y rhyfel.
There are diversities of operations—y mae amryw weithrediadau.

Operative, *a.* gweithiedigol, gweithredus, gweithredol, gweithrediadol, gweithrediannol, gweithiol, effeithiol, ffeithiol, goberol, preithiol, ymarferol; gweithgar, hywaith, bywiog.

Operative, *s.* gweithydd, gwr gwaith; crefftwr.

Operator, *s.* gweithredydd, gweithredai, goberydd; llawfeddyg, gweithredydd ar offer meddygol, trychfeddyg.

Opercular, } *a.* (Ll. *operculatus*) cloriog, cau-
Operculate, } adog, caeadog, gwerchyriog,
Operculated, } clorynog.

Operculiform, *a.* ar lun gwerchyr *neu* gauad.

Operculum, *s.* (Ll.) gwerchyr, clawr, cauad, cloryn; cap, hotyn.

Operetta, *s.* (It. o *opera*) chwareu canig, chwareu cenig, chwareugenig, chwareuganig, gober ganig.

Operose, *a.* (Ll. *operosus*) llafurus, llafurfawr, poenfawr, poenus, trafferthus, dygn; â llawer o boen *neu* lafur wrtho.

Operoseness, *s.* llafurusrwydd, poenfawredd, llafurboen, gwaith mawr.

Operosity,† *s.* = *Operoseness.*

Opertaneous, *a.* (Ll. *opertaneus*) dirgel, celedig, cel, cudd, dirgelaidd, cyfrinachol, anghyhoedd.

Opetide, *s.* (*ope* a *tide*) amser agored *neu* rydd i briodi o'r Ystwyll i Ddydd Mercher y Lludw.

Ophicleide, *s.* (Gr. *ophis* a *cleis*) sarffudgorn, soddudgorn.

Ophidia, } *s. pl.* (Gr. *ophis*) y seirff, llwyth y
Ophidians, } seirff, y sarfflwyth.

Ophidian, *s.* milyn o ryw y sarff; sarff, neidr.

Ophidian, *a.* sarffol; perthynol i seirff.

Ophidion, *s.* llyswèn fôr, morlyswèn=pysgodyn perthynol i Fôr y Canoldir, nid annhebyg i lyswèn.

Ophidious, *a.* perthynol i lwyth y seirff; sarffol.

Ophioglossum, *s.* (Gr. *ophis* a *glôssa*) tafod y neidr.

Ophiolatry, *s.* (Gr. *ophis* a *latreia*) sarffaddoliaeth, sarffaddoliant, addoliad seirff.

Ophiolite, *s.* (Gr. *ophis* a *lithos*) sarffem, maen sarff, sarff-faen.

Ophiologic, } *a.* sarffofyddol, sarffegol; perth-
Ophiological, } ynol i sarffofyddiaeth.

Ophiologist, *s.* sarffofydd; un hyddysg yn hanes seirff.

Ophiology, *s.* (Gr. *ophis* a *logos*) sarffofyddiaeth, sarffeg, hanes seirff.

Ophiomancy, *s.* (Gr. *ophis* a *manteia*) sarffarmes, sarff-ddewiniaeth, dewiniaeth â seirff.

Ophiomorphous, *a.* (Gr. *ophis* a *morphê*) ar lun sarff; âg iddo ffurf sarff; sarffaidd.

Ophiophagous, *a.* (Gr. *ophis a phagô*) sarffysol; yn ymborthi ar seirff; yn bwyta seirff.

Ophite, *a.* (Gr. *ophis*) perthynol i sarff; sarffol, sarffaidd.

Ophite, *s.* (Gr. *ophis, ophitês*) myldardd gwyrdd, molafon gwyrdd, mwlafon gwyrdd, sarffem werdd.

Ophiuchus, *s.* (Gr. *ophiouchos*) y sarff-ddygydd, y sarffon=enw hen gydser.

Ophiura, *s.* (Gr. *ophis* ac *oura*) sarfflostog=enw rhywogaeth o serbysg.

Ophrys, *s.* (Gr. *ophrus*) caineirian.

Ophthalmia, } *s.* (Gr. *ophthalmia*) fflameg y
Ophthalmitis, } llygad, ennynfa y llygad, tan-
Ophthalmy, } dde llygad, fflameg lygeidiol.

Ophthalmic, *a.* perthynol i'r llygad; llygadol, llygeidiol.
Ophthalmic medicine — meddyginiaeth y llygad, meddyginiaeth y llygaid, meddyginiaeth i'r llygaid.

Opththalmics, *s. pl.* meddyginiaethau y llygad, cyffyriau i'r llygad.

Ophthalmology, *s.* (Gr. *ophthalmos* a *logos*) traethawd ar y llygad; dysgrifiad o'r llygad; llygadlith.

Ophthalmoscopy, *s.* (Gr. *ophthalmos* a *scopeô*) llygadsylliaeth.

Ophthalmotologist, *s.* un hyddysg yn nghylch fflameg y llygad.

Ophthalmotology, *s.* (Gr. *ophthalmia* a *logos*) athrawiaeth fflameg y llygad; traethawd ar ennynfa y llygad.

Opiate, *s.* (o *opium*) cysgiadyr, cwsgbar, cysbair, cysor, meddyginiaeth gwsg, cwsg-gyffyr, cysgyffyr, cysgyflaeth, cysgyfaredd.

Opiate, *a.* cysgbair, cwsgbar, cwsgbair, hunbair, â bair gwsg, cysgiadol, hunbar, hunddwyn, cysgeidiol, yn peri cwsg; â bair lonyddwch.

Opiated, *a.* cymmysgedig â sudd y pabi; nillog.

Opiferous,† *a.* (Ll. *ops* a *fero*) â ddwg help *neu* gymhorth.

Opifice,† *s.* (Ll. *opificium*) gwaith, gwneuthuriad.

Opificer,† *s.* (Ll. *opifex*) gweithiwr, gweithreddydd, gweithydd, crefftwr, gwr o gelfyddyd.

Opinable,† *a.* (Ll. *opinabilis*) tybiadwy, hydyb.

Opination,† *s.* (Ll. *opinatio*) tybiant, tybiaeth, tybiad; tyb, barn, meddwl.

Opinative,† *a.* tyn *neu* gyndyn ei farn.

Opinator,† *s.* (Ll.) un tyn *neu* gyndyn ei farn; mympwywr; un y mae yn hoff ganddo ei dyb ei hun.

Opine, *v. n.* (Ll. *opinor*) tybied, tybio, tybygu, meddylied, meddylio, meddwl, rhoddi tyb.

Opiner,† *s.* tybiwr, tybygwr; mympwywr.

Opiniastre, } † *a.* (Ff. *opiniâtre*) tyn *neu*
Opiniastrous, } gyndyn yn ei farn; tyn *neu*
Opiniatre, } gyndyn ei farn; chwannog *neu* ry chwannog i'w farn ei hun; â fo yn caru, yn rhygaru, *neu* yn gorhoffi ei farn *neu* ei dyb ei hun; cyndyn.

Opiniate,† *v. a.* cyndyn amddiffyn ei farn; dàl yn dyn yn ei farn; amddiffyn ei farn gyda chyndynrwydd,

Opiniated, *a.* tyn *neu* gyndyn yn ei farn; cildyn *neu* ystyfnig ei farn; rhy chwannog i'w farn ei hun; cyndyn, cildyn, ystyfnig.

Opiniative, *a.* tyn *neu* gyndyn yn ei farn; cildyn, anhydyn, *neu* ystyfnig ei farn; chwannog *neu* ry chwannog i'w farn ei hun; â fo yn caru, yn rhygaru, *neu* yn gorhoffi ei farn *neu* ei dyb ei hun; llawn o'i dyb ei hun; tybiedigol, tybgar, mympwyol, mympwyog, hunandybiol, tyndybus; tybiedig, tybus, dychymygol.

Opiniativeness, *s.* tybgarwch, cyndynrwydd mewn barn, cildynrwydd mewn tyb; gorhoffedd un yn ei farn *neu* ei dyb ei hun; hunandybiolrwydd; cildynrwydd, cyndynrwydd.

Opiniatrety, } † *s.* (o *opiniatre*)=*Opiniatire-*
Opiniatry, } *ness.*

Opiniator,† *s.* un tyn, cyndyn, anhydyn, *neu*

ystyfnig yn ei farn; mympwywr, tybgarwr.

Opinicus, *s.* math ar greadur dychymygol mewn arwyddfarddoniaeth neu herodraeth.

Opining,† *s.* tyb, tybiant.

Opinion, *s.* (Ff.; Ll. *opinio*) tyb, barn, tybiant, tybiaeth, meddwl; daliad, ymddaliad; tybygiad; mympwy; cred, coel; dychymyg; tyb da, barn dda.

Good opinion—tyb da, tyb dda, barn dda.

Wrong opinion, } camdyb, geudyb, cam-
False opinion, } dybiant, camdybiaeth, geufarn; tyb amryfus *neu* gyfeiliornus.

Joint opinion—cyttyb, cydfarn, cydfarniad.

Of the same opinion—cyttybiol, cydfarn, cydfarnol, o'r un farn, o'r un tyb, unfarn, cyfunfarn.

To be of opinion—barnu, tybied, tybio, meddwl; bod o'r farn, o'r tyb, *neu* o'r meddwl; credu, coelio.

To be of the same opinion—bod o'r un farn, &c.; cyttybied, cyttybio, cydfarnu, cytuno, cydsynio, cydweled; bod yn gyfunfarn; bod yn un farn *neu* ddaliad; cydfyned; synied yr un peth.

To be of a different opinion, } tybio y
To be of a contrary opinion, } gwrthwyneb; bod o dyb *neu* farn arall; bod o dyb *neu* farn amgen; tybio amgen; tybio yn amgen; bod yn wahanfarn; bod yn wahanol yn ei farn.

They are of opinion—barnant, tybiant, credant, coeliant; maent o'r farn; meddyliant.

I am clearly of opinion—yr wyf yn dilys farnu; yr wyf yn cwbl gredu; yr wyf yn cwbl goelio; yr wyf yn gwbl o'r farn.

They are all of the same opinion—y maent oll yn synied yr un peth; y maent oll o'r un farn; y maent oll o'r un meddwl.

I have an opinion of him—y mae genyf fi dyb da am dano: y mae genyf fy marn am dano; y mae genyf farn *neu* dyb am dano.

In my opinion—i'm tyb i; yn fy nhyb i; yn fy marn i; yn ol fy marn i; i'm barn i; yn ol fy meddwl i.

They all agreed in their opinions—yr oeddent oll o'r un meddwl; yr oeddent oll yn unfryd; yr un farn oeddent oll; unfarn oeddent oll.

Our opinions always agreed—unfarn oeddem ni yn wastad; yr oeddem ni o'r un farn yn wastad.

I will tell you plainly my opinion—mi ddywedaf i chwi yn groew yr hyn yr wyf fi yn ei dybied.

This is my opinion of the story—dyma fy nghred i am y chwedl; dyma fy marn *neu* fy meddwl i am y chwedl.

I have a good opinion of him—y mae genyf fi gred dda am dano; y mae genyf fi dyb da am dano.

I am of your opinion—yr wyf fi yn cytuno â chwi; yr wyf fi yn cydsynio â chwi; yr wyf fi o'r un farn â chwi; yr wyf fi yn gyfunfarn â chwi.

I am fully of his opinion—yr wyf fi yn cwbl gytuno âg ef; yr wyf fi yn cwbl gytuno yn ei farn; yr wyf fi yn gwbl yr un farn âg ef.

A high opinion—ucheldyb.

Of a high opinion—ucheldyb, ucheldybus.

To hold a high opinion—ucheldybio, ucheldybied; bod yn uchel ei dyb; tybied yn uchel.

Every man hath his opinion—pawb â'i chwedl ganddo.

Opinion,† *v. a.* tybied, meddwl, meddylied.

Opinionate, } *a.* tybgar; tyn, cyndyn, *neu*
Opinionated, } anhydyn yn ei farn; tyn, cyn-
Opinioned, } dyn, anhydyn, *neu* ystyfnig ei farn; chwannog *neu* ry chwannog i'w farn ei hun; à fo yn caru, yn rhygaru, *neu* yn gorhoffi ei farn *neu* ei dyb ei hun; llawn o'i dyb ei hun; llawn o dyb da am dano ei hun; à dywysir yn hollol gàn ei dyb ei hun; a'r ni newid mo'i farn er eglured y bo y prawf yn y gwrthwyneb; à ddeil yn dyn ei gamdyb ei hun yn erbyn pawb; hunandybiol, mympwyog, tyndybus; cyndyn, cildyn, ystyfnig.

Opiniative, *a.* tyn, tybgar; cyndyn, anhydyn, *neu* ystyfnig yn ei farn; chwannog i'w farn *neu* dyb ei hun; rhy chwannog i'w farn *neu* dyb ei hun; à fo yn caru, yn rhygaru, *neu* yn gorhoffi ei dyb *neu* ei farn ei hun; hunandybiol, hunandybus, tyndybus, mympwyol; llawn o'i dyb ei hun; cyndyn, cildyn, anhydyn, pengam.

Opinionativeness, *s.* tybgarwch; cyndynrwydd, anhydynder, *neu* ystyfnigrwydd mewn barn; gorhoffedd un yn ei farn *neu* ei dyb ei hun; cyndynrwydd un yn ei farn; tyndybusrwydd, hunandybiolrwydd, mympwyoldeb.

Opinionist, *s.* tybgarwr, un tybgar; un y mae yn hoff ganddo ei farn *neu* ei dyb ei hun; un y mae yn rhy hoff ganddo ei farn *neu* ei dyb ei hun; un à orhoffo ei farn *neu* ei dyb ei hun; un tyn, cyndyn, *neu* ystyfnig yn ei farn; un tyn *neu* gyndyn ei farn; un à lŷn wrth ei farn ac ni ollwng mo honi, na cham na chymhwys fyddo; tyndybiwr, ymgildynwr, ymgyndynwr, mympwywr.

Opiparous, *a.* (Ll. *opiparus*) gorwych, arwych, mawrwych, costus, costfawr, drudfawr, drud.

Opisthodome, *s.* (Gr. *opisthios* a *domos*) oefn teml, y lle wrth gefn teml, olgadlas.

Opisthotonos, *s.* (Gr. a Ll.) olsythder.

Opitulation,† *s.* (Ll. *opitulor*) cymhorth, cynnorthwy, porth.

Opium, *s.* (Ll.; Gr. *opion*) sudd y pabi, nill, cysgwy, cysglyn.

Opletree,† *s.* (Ll. *opulus*) cerddinen, cordinen, criafolen, pren cyrafol, pren criafol, pren crawel.

Opobalsam, } *s.* (Ll. *opobalsamum*) balm
Opobalsamum, } Gilead, opobalsam.

Opodeldoc, *s.* math o eli sebonaidd.

Opossum, *s.* math o filod bolgodawg.

Oppidan,† *s.* (Ll. *oppidanus*) trefwr, gwr trefol, gwr trefig, gwr o'r dref; dinesydd: *pl.* trefolion.

Oppidan (at Eton College)—trefwr; ysgolïaig nad yw ar y sylfaen.

Oppidan,† *a.* trefol; perthynol i dref.

Oppignerate,† *v. a.* (Ll. *oppignero*) gwystlo; rhoi *neu* ddodi ar wystl; rhoi *neu* ddodi yn ngwystl.

Oppilate, *v. a.* (Ll. *oppilo*) cyttyru, pentyru; cau ar; attal, rhwystro, lluddio, llestair; llenwi â rhwystrau; bolrwymo.

Oppilation, *s.* (Ll. *oppilatio*) cyttyriad, pentyr-

iad; attal, attaliad, rhwystr, rhwystrad, lludd, llestair; bolrwymiad.

Oppilative, *a.* (Ff. *oppilatif*) attaliol, rhwystrol, rhwystredigol, lluddiedigol; argaeol; bolrwymol.

Oppleted,† *a.* (Ll. *oppletus*) llawn, gorllawn.

Oppone,† *v. a.* (Ll. *oppono*) gwrthwynebu, gwrthladd, gwrthsefyll.

Opponency, *s.* (Ll. *opponens*) gwrthebiaeth; gwrthwynebedd; agoriad dadl athrofaol; gosodiad gwrthdadleuon i bwnc; praith am radd.

Opponent, *a.* (Ll. *opponens*) gwrthwynebol, gwrthwynebus, gwrthwyneb, croes, gwrthladdol.

Opponent, *s.* gwrthwynebwr, gwrthwynebydd, gwrthsafydd, gwrthsafwr, gwrthblaid, gwrthebydd, erbyniwr, cyferbyniad; gelyn: *pl.* cynnygu.

Opportune, *a.* (Ll. *opportunus*) prydlawn, amserol, cyfamserol; cyflëus, cyfaddas, cymhwys, addas; arfodol; tymmoraidd.

Opportunely, *ad.* yn brydlawn, &c.; mewn pryd, yn ei bryd, yn ei iawn bryd, ar yr iawn adeg, ar awr dda.

Opportuneness, *s.* prydlonedd, prydlondeb, prydlonder, amseroldeb, amserolder; cyfleusura, cyfleusder.

Opportunity, *s.* (Ll. *opportunitas*) amser cyfaddas, cyfamser, amser hamddenol, hamdden amserol, cyfle, cyfleusdra, cyfleusder, arfod, ennyd, chwaen, oedfa, odfa, madws, egwyl, amser, adeg, hamdden, echlysur, echlys, amosgre.

I have no opportunity at present—nid oes genyf arfod ar hyn o bryd; nid oes genyf amser cyfaddas ar hyn o bryd; nid oes genyf arfod yn awr.

They might have had opportunity to have returned—hwy a allasent gael amser i ddychwelyd.

As we have opportunity, let us do good to all men—tra yr ydym yn cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb.

Opposable, *a.* (o *oppose*) gwrthwynebadwy; à ellir ei wrthwynebu.

Opposal,† *s.* = *Opposition.*

Oppose, *v. a.* (Ff. *opposer;* Ll. *oppono*) gwrthwynebu, gwrthsefyll, gwrthladd, sefyll yn erbyn, codi yn erbyn, bod yn erbyn, gwrthio, erbynio, ymosod yn erbyn, gwrthryn, gwrthrynu; cyferbynu, gwynebu, wynebu, cyfarwynebu, sefyll yn wyneb, cyfwynebu; dadleu *neu* ddywedyd yn erbyn; rhwystro, attal, rhagod, rhagodi, rhagu. [yn erbyn peth.

To oppose one's self to a thing—ymosod

In meekness instructing those that oppose themselves—mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus.

Oppose,† *v. n.* bod yn groes; gwrthddadleu.

Opposed, *a.* gwrthwynebol, gwrthwynebus, gwrthwyneb, croes.

Opposeless,† *a.* diwrthladdd, diwrthryn, anwrthwynebadwy, anwrthwynebol.

Opposer, *s.* gwrthwynebwr, gwrthwynebydd, gwrthsafwr, gwrthsafydd, cyferbyniad, erbyniwr, gwrthebydd, gwrthrynwr, gwrthrynydd; cyfarwynebydd; gelyn.

Opposite, *a.* (Ff.; Ll. *oppositus*) cyferbyniol, cyfarwyneb, cyfarwynebol, cyfwynebol, cyfwyneb, cyfarwynebog, cyferbyn; ar gyfer, ar gyferyd, cyferydig, cyfarfan; gwrthwyneb, gwrthwynebol, gwrthwynebus, croes, gwrthrynedigol; gwrth, erbyn.

Opposite, *s.* cyferbyniad, gwrthwynebwr, gwrthwynebydd, gwrthsafwr, gwrthsafydd; un cyfarwyneb, un à fo cyfarwyneb âg arall, un cyferbyn; peth cyfarwyneb, peth gwrthwyneb, &c., gwrthbeth: *pl.* cyferbyniaid.

Opposiiteness, *s.* cyfarwynebedd, cyfarwynebrwydd, cyfarwynebolrwydd, cyferbynedd, cyferbynrwydd, cyferbynioldeb, cyferbyniolrwydd; gwrthwynebedd.

Oppositifolious, *a.* (Ll. *oppositus* a *folium*) cyferddeiliog; cyferbyn â'r ddalen.

Opposition, *s.* (Ll. *oppositio*) gwrthwynebiad, gwrthladdiad, gwrthsafiad, gwrthladd, gwrthladdiad, gwrthosod, gwrthwyneb, gwrth, gwrthedd, gwrthiad, gwrthryniad, gwrthrynedigaeth, gwrthgais; cyferwynebiad, cyferbyniad, gwrthgyflead, gwrthosodiad; rhwystr, rhwystrad, attaliad, attalfa, rhagder; dadl; cyferbyniaeth; gwrthblaid, y blaid wrthwyneb.

Without opposition—yn ddirwystr, yn ddiwrthwyneb, yn ddiwrthwynebiad, yn ddiwrthladd, yn ddiwrthryn; heb ludd na gwahardd; heb ludd heb wahardd; heb wahardd heb erbynwedyd; heb wahardd heb erbynddywedyd; heb wrthwynebiad iddo.

In opposition to—yn erbyn; yn wrthwyneb i; yn groes i.

In opposition to nature—yn erbyn natur; yn erbyn anian; yn wrthwyneb i natur.

To break through all oppositions—tori trwy bob rhwystr; tori trwy bob anhawsder.

Licentiousness has broken through all oppositions—penrhydd-der a dorodd trwy bob terfyn, ac nid oes deddf à'i dyor.

To make opposition to—gwrthwynebu, gwrthladd, gwrthsefyll, &c.

He is in the opposition—y mae efe gyda'r wrthblaid; mae efe yn yr wrthblaid; un o'r wrthblaid yw efe; mae efe yn y gwrth; cyfarwynebydd yw efe.

Maugre all opposition—er dim à wnaed i'r gwrthwyneb; er dim à ellid ei wneuthur i'r gwrthwyneb.

Oppositions of science—gwrthwyneb gwybodaeth (1 *Tim.* vi. 20).

Oppositionist, *s.* un o'r wrthblaid; un o'r blaid wrthwynebol i'r weinyddiaeth; gwrthbleidydd, gwrthbleidiwr, cyfarwynebydd.

Oppositive, *a.* gwrthrynedigol; gwrthwynebol; à ellir ei osod yn erbyn.

Oppress, *v. a.* (Ff. *oppresser;* Ll. *oppressus*) gorthrymu, gormesu, gormeilio, gorthrechu, gortrechu, gorddwyo, goreilidio, gwasgu ar, gwasgu, llechu, dirwasgu, trymwasgu; treisio; cystuddio; trechu; cyfarsengu.

My heart is oppressed with grief—dedwina, gloesyga, llesmeiria, darfu, *neu* dihoena fy nghalon gàn ofid; llethir fy nghalon gàn ofid.

Oppressed in mind—trymfrydig.

Grief-oppressed breast—tromfron, trymfron.

The oppressing sword—cleddyf y gorthrymwr, y cleddyf gormail, y cleddyf gormeilus.

Oppressed, *p. p.* gorthrymedig, gormesedig, &c.; gormeiliog; y sydd yn dwyn *neu* yn goddef pwys plaid orthrech.

Oppression, *s.* gorthrymiad, gormesiad, gorm-

eiliad, gorthrechiad, gorddwyad; gormes, gormail, gorthrymder, gorthrymedd, gorthrymiant, gorthrymedigaeth, gorddwy, gorthrwm, gorthrech, goreilid, gwasgfa, gorysgwr; trais, treisiant, treisiaeth, dirdrais, dirdra, arsang; camwri; truemi, caledi, blinfyd, dargawdd.

An oppression of the heart — gwasgfa, gwasg, gloesygfa, *neu* loesiad calon; gwasg *neu* wasgfa ar galon.

Oppressive, *a.* gorthrymus, gormesol, gormeilus, gorthrymol, blin, gorthrechol, treisig, treisiol, gorthrymiannol, gorthrymig, gorthrymedigol, gormeilaidd, gorddwyol, goreiliadd, gorthrwm, trwm, llethol, dargoddol; creulawn.

Oppressiveness, *s.* gormesoldeb, gormesolrwydd, gormeilusrwydd, gorthrymedd, gorthrymusrwydd, gorthrecholdeb, treisigrwydd, treisioldeb; creulondeb, creuloni.

Oppressor, *s.* gorthrymwr, gorthrymydd, gormeswr, gormesydd, gormeisiad, gormesiad, gormeiliwr, gormeilydd, gorddwywr, gorthrechwr, gorthrechydd, treisiwr, treisydd, treisiad, goreilidiwr; y traws, gwr traws.

A violent oppressor — dirdreisiwr.

Deliver him that suffereth wrong from the hands of the oppressor — gwared yr hwn sydd yn cael cam, o law yr hwn sydd yn gwneuthur cam (*Eccles.* iv. 9).

Opprobrious, *a.* (o'r Ll. *opprobrium*) gwaradwyddus, gwarthruddog, gwarthruddus, gwarthus, gwarthlawn, cywilyddus, gwarthredus, gwarthruddgar, gwarthaol; gwaradwyddus a dirmygus; dïystyrllyd, sarhäus, sarhaol, enllibus, enllibaidd, difrïol, croesanaidd, bustlaidd, serthus, anmharchus; adgas, cas, dirmygedig.

Opprobriousness, *s.* gwarthusrwydd, gwarthlonedd, gwarthlourwydd, gwarthruddusrwydd, sarhausdra, &c.; gwarthrudd, gwarth, anmharch, difriaeth, sarhad, croesanaeth, cecri.

Opprobrium, *s.* (Ll.) gwaradwydd, gwarthrudd, gwarth, gwarthâd, dïystyrwch, tremyg, dirmyg, anmharch, sarhad, anurddas, anfri, achlod, anghlod, croesanaeth, drygair, edliwiant; gwaradwydd â dirmyg yn gymmysg âg ef.

Opprobry,† *s.* = *Opprobrium.*

Oppugn, *v. a.* (Ll. *oppugno*) gwrthwynebu, gwrthsefyll, gwrthryn, gwrthrynu; ymosod *neu* ddadleu yn erbyn; ymosod ar; gwrthio; rhwystro; sefyll yn erbyn.

Oppugnancy, } *s.* gwrthwynebiad, gwrthwyneb-
Oppugnation, } edd, gwrthrynedd, gwrthryn, gwrthedd, gwrthrynder, gwrthsafiad, gwrthymdrech.

Oppugnant, *a.* gwrthwynebol, gwrthwynebus, gwrthladdol, gwrthsafol.

Oppugner, *s.* gwrthwynebwr, gwrthwynebydd, gwrthsafwr, gwrthsafydd, gwrthrynwr, gwrthrynydd; ymosodwr yn erbyn.

Opsimathy, *s.* (Gr. *opsimatheia*) hwyrddysg, hwyrddysgiaeth, hwyraddysg, hwyr ddysgeidiaeth; dysg pan fo un yn hen.

Pæon, } gorfoleddus; oroïan; mawl-gan; buddugawd: math ar gorfan.

Iô pæan—oroïan; bloedd gân lawenydd neu orfoledd; bloedd gorfoledd.

Pæcilopoda, } *s. pl.* (Gr. *poicilos* a *pous*) amry-
Pecilopoda, } bedogion, amrybedogod=llwyth o grestogion.

Pædagogue, } *s.* (Gr. *paidagôgos*) ysgolfeistr;
Pedagogue, } athraw, dysgwr, hyweddwr, neu hyfforddwr plant; coegathraw, crachathraw, coeg-ddysgedydd.

Pædobaptism, } *s.* (Gr. *pais* a *baptismos*) bed-
Pedobaptism, } ydd plant, bedydd babanod, bedydd mabanod.

Pædobaptist, } *s.* (Gr. *pais* a *baptistês*) bedydd-
Pedobaptist, } iwr plant, bedyddiwr babanod.

Pædonosology, *s.* (Gr. *pais, nosos*, a *logos*) athrawiaeth neu efrydiaeth clefydon plant.

Pæonia, } *s.* (Ll. *pæonia*; Gr. *paiônia*) coron-
Peony, } llys, daiarllys, blodau y brenin, rhosyn y mynydd.

Pagah, *s.* (gair Indiaidd) nawddogordd, corffogordd, gosgordd nawdd, diffynwys; blodau byddin.

Pagan, *s.* (Ll. *paganus*) pagan, pygan, cenedlyn, cenelddyn, dyn digred, dyn anghred, un digred, gwr anghred, anghredadyn, anghredyn, anghristyn, dyn annuw, dyn diddun; eilunaddolwr; anfoesyn: *pl.* paganiaid.

Pagan, } *a.* (o *pagan*; S. *paganisc*) pagan-
Paganish, } aidd, cenedlig, digred, anghred, paganig, paganol, paganllyd, ethnigaidd; eilunaddolaidd, eilunaddolgar; anwar, anwaraidd, difoes.

Paganism, *s.* (o *pagan*; Ff. *paganisme*) paganiaeth, pyganiaeth, cenedligaeth, anghred, ethnigaeth, paganeidd-dra; eilunaddoliaeth; gau grefydd; anwaredd.

Paganize, *v.* paganeiddio, cenedligo; gwneuthur yn genedlig neu baganaidd; myned yn baganaidd neu genedlig; ymddwyn fel pagan.

Page, *s.* (Ff. ac Ysp.) gwesyn, macwy, gwasan, gwastrodyn, gwychwas, gwychwesyn, pwrffilwas, ymlyniad, gwas.

Page of honour—gwesyn gwr dyledog, gwas pendefig, gwesyn yginog; gwesyn yn gwisgo ysgin; gwychwesyn.

Page, *s.* (Ff.; Ll. *pagina*) tudalen, wyneb dalen, lledwyneb, dalwyneb.

Title-page—rhagddalen, dalen enwol, dalen enw, dalen yr enw, gwyneb-ddalen.

Page, *v. a.* tudalenu; nodi tudalenau llyfr; rhifnodi tudalenau; gweini ar un (megys gwesyn).

Pageant, *s.* (Gr. *pêgma*) peth i edrych arno er difyrwch neu ddywenydd; coeglun dychymyg, rhyw goeglun dychymyg, coeglun, coeglun dywenyddol, dychymyglun dywenyddol; peth hardd-deg yr olwg arno heb sylwedd ynddo; eilun, eiliw; peth coegwych; coegrodres, coegwychedd, gwagrodres.

Pageant, *a.* coegwych; coegrodresol; rhodresol; rhwysgfawr, mawr ei rwysg; coegfalch, gwagfalch; dangosiadus; coeg-ddychymygol; eilunaidd, eiliwaidd.

Pageant honour—eilun neu eiliw anrhydedd.

Pageant, *v. a.* coeg-ddangos; dangos er mwyn rhodres; arddangos.

Pageantry, *s.* coegwychedd, coegwychder, coegrodres, gwagrodres, rhodres, rhwysg, coegrwysg, gwagrwysg, rhwysgfawredd, conedd, gorhydri; ymddangosiad coegrodresol, gwag ymddangosiad.

It is mere pageantry—nid yw ond coegesgus, rhith, lliw, neu eiliw.

Pagehood, *s.* (o *page*) gwesyndod; y cyfiwr o fod yn wesyn.

Pagina, *s.* (Ll.) gwyneb deilen, gwyneb dalen.

Paginal, *a.* (o'r Ll. *pagina*) tudalenol; yn perthyn i dudalen llyfr; tudalenog.

Pagod, } *s.* (Per. *pout ghod*, neu *boot choda*;
Pagoda, } Hindwaeg, *boot cwda*) teml yr eilunod (yn yr India Ddwyreiniol); geudduwfa; geudduw yr Indiaid; eilun, geudduw.

Pagoda, *s.* darn o arian bath yn Hindwstan, yn amrywio yn ei werth o 8*s.* i 9*s.*

Pagodite, *s.* y delidfaen yr adeilada y Cataiaid eu Pagodau ag ef.

Paigle, } *s.* briallu Mair sawyrus, dagrau Mair,
Pagil, } llysiau y parlys.

Pail, *s.* (C. *paeol*; Gr. *ɣella*) ystwc, crwc, paeol, celwrn, cunnog.

Milk-pail—cunnog, ystwc, paeol, neu lestr godro; celwrn.

A covered pail—celwrn.

Pailful, *s.* ystycaid, crycaid, celyrnaid, paeolaid, cunnogaid; llonaid ystwc, &c.

Pailmail, *s.*=*Pallmall.*

Pain, *s.* (Ff. *peine*; Al. *pein*; Ll. *pœna*; Gr. *ponos, ponê*) poen; gwŷn; aeth; gwaew, gwewyr; dolur; gwst; cur; gloes, adloes, gnif, gni; nych, nychiant; brwyn; penyd, poenedigaeth; cosp, cospedigaeth; gofid, llafur; poenyd.

Dull pain—mallwaew, mallboen.

Great pain, } poen arteithiol, arteith-
Racking pain, } boen, dirboen, dygn boen, mawrboen; gofid blin.

Extreme pain—dirboen.

Languishing pain—nychwaew, poen nych-

Gnawing pain—mallgno. [lyd.

Pricking pain — brwyn, gwyneg, poen wynegol.

Severe pain—taerboen, poen chwerw, poen

Pain from a sting—colias. [dost, adloes.

Heavy pain—dwysgur, trymgur, mawrboen.
Pain of the bowels—coluddwst, poen y coluddion.
Upon pain of death—dàn boen marwolaeth; dàn benyd marwolaeth; dàn berygl marwolaeth.
The pains of hell—poenau uffern; gofidiau uffern; poenydiau uffern.
To put one's self in pain—ymboeni, ymboenydio.
To be in pain—bod mewn poen, &c.; gofidio, ymofidio, poeni, ymboeni.
I am in pain for you—y mae arnaf ofid *neu* ofn drosoch; *yr wyf* yn gofidio *neu* yn ofni drosoch.
To put to pain, } peri poen i, &c.; rhoi
To put in pain, } mewn poen; gwneuthur poen i; poeni, poenydio; gofidio, trallodi, &c.
Without pain—heb boen, yn ddiboen.

Pain, *v. a.* poeni, poenydio; peri poen i; rhoi mewn poen; dolurio; gofidio, blino, cystuddio; anesmwytho; nychu; gloesi; gwynio.

Painful, *a.* poenus, poenfawr, dolurus; blinderog, blinderus, blin; aethus, aethlawn, aethol, anaele, enaele; gofidus, gofidlawn, gofidfawr; dygn; nychlyd; llafurus, llafurfawr, poengar; caled; anhawdd; brwyn.
To render painful—gwneuthur yn boenus, &c.; poenuso.

Painfulness, *s.* poenusrwydd, poenusedd, poendod; blinderusrwydd, blinderogrwydd, blinder; cystudd, cyni, gofid, dolur, poen; llafurusrwydd, &c.

Painim,† *s.* (Norm. *paynim*; Ff. *paien*) pagan, ceneldyn, anghredadyn.

Painim,† *a.* paganaidd, pyganaidd, anghrediniol, anffyddiol, cenedlig.

Painless, *a.* diboen, diloes, dinych, &c.

Pains, *s. pl.* llafur, gofal, poen, trafferth, llafurboen.
Great pains—mawr boen, mawrboen, mawr lafur, mawr dres, mawrdres, poen nid bychan, mawr drafferth; llawer iawn o boen.
With great pains—trwy fawr boen; trwy fawrboen; trwy fawrdres.
Without any great pains—yn ddidres; heb fawr dres; yn hawdd.
To take pains—poeni, ymboeni, cymmeryd poen; llafurio, ystigo, trafferthu, ymdrafferthu; gweithio.
To be at pains and charges about a thing—llafurio a chostio arian wrth beth.
To take pains to no purpose—llafurio, poeni, *neu* ymboeni yn ofer; llafurio, poeni, *neu* ymboeni mewn oferedd.
To bestow pains upon a thing—poeni *neu* ymboeni wrth beth; poeni *neu* ymboeni yn mheth; llafurio wrth beth; gwneuthur peth yn dra chywraint; cywreinio.
To be sparing of one's pains—bod heb gymmeryd nemawr o boen wrth beth; bod heb gymmeryd cmd ychydig boen wrth beth; tolio ei lafur, ei boen, *neu* ei lafurboen.
Pains of a woman in travail—gwewyr esgor, gloesion esgor; poenau esgor; trafael.
To forbid under severe pains—gwahardd dàn boen *neu* benyd tost; gwahardd dàn boenau chwerwon.
No pains, no profit—ni lafur, ni lwydd.

Painstaker, *s.* (*pains* a *take*) un poengar, llafurgar, ystig, *neu* ddiwyd; un à gymmero lawer o boen wrth beth; un à gymmero fawr boen wrth beth.

Painstaking, *a.* llafurus, llafurgar, poengar, poenfawr, llafurfawr, trafferthus, poenus, ymboenawl; diwyd, ystig, dichlyn, glud.

Painstaking, *s.* llafur, llafurwaith, trafferth, ystigrwydd, diwydrwydd, mawr ddiwydrwydd.
Overmuch painstaking—trybestod.

Paint, *v.* (Ff. *peindre*, *peint*; Ll. *pingo*) paentio; lliwio, lliwo, arliwio; arlunio, darlunio; ardebu; amliwio, britho, cyfaro; dwbliwio; arddangos.

Paint, *s.* paent, lliw, arliw, gorliw, lliw y paentwyr, dwbliw.

Painter, *s.* paentiwr, paentydd, arliwiwr, arliwydd, arliwiedydd, lliwiedydd; darluniwr, arluniwr, lluniedydd; cyfarwr.
Portrait painter — ardebydd, ardebwr, paentiwr ardebau, lluniedydd ardebau.
Landscape painter—peithluniedydd, parthluniedydd, lluniedydd arbeiol, paentiwr arbeiol, paentiwr tirwedd, peitharluniwr, paentiwr arbeithig.
Painter stainer—paentiwr *neu* luniedydd arfau bonedd.

Painter, *s.* (Gw. *painter?*) rhaff cwch, rhaff bad, badraff.

Painting, *s.* paentwaith; paentiad, arliwiad; paentyddiaeth, paentwriaeth, lluniedyddiaeth; paentio, arliwio, arlunio, darlunio; celfyddyd paentio, celfyddyd arlunio; darlun, arlun, llun, peth paentiedig.
Portrait painting—ardebiaeth, paentiad ardebau.
A piece of painting—peth paentiedig, darn o baentwaith; darlun, arlun, llun.

Paintress, *s.* paentwraig, paentyddes, lluniedyddes.

Painture,† *s.* (Ff. *peinture*) y gelfyddyd o baentio *neu* arlunio.

Pair, *s.* (Ff.; Ll. ac Ysp. *par*; Al. *par*, *paar*) pâr; cwpl, dau.
Pairs—cymhariaid, cymheiriaid, cymharion.
A pair of bellows—megin.
A pair of shoes—pâr o esgidiau.
A pair of tongs—gefail.
Married pair—dau weddog, dau gydweddog, cwpl gweddog, pâr gweddog, dauwedd, cymheiriaid priod, cymhariou priod.

Pair, *v.* paru, cymharu, cyplu, cyplysu; gosod yn nghyd bob yn ddau; cydio dau a dau; cydio bob yn ddau; cydio, cysylltu, uno; ymgymharu, ymgyplu, ymgyplysu; gweddu, cyngweddu, sutio.

Pair, *v. a.* gwaethygu, gwaethu, drygu, niweidio.

Pairing, *s.* cymhariad, cypliad, pariad.
Pairing time of birds—amser ymgymhariad adar.

Pairing, } *s.* pariad ymaith, pariad i ffwrdd;
Pairing off, } mynediad ymaith bob yn ddau; myned o ddau seneddwr o wahanol farnau gwleidiadol o'r ty gyda'u gilydd er mwyn peidio â rhoi eu pleidlais.

Pair off, *v. n.* myned ymaith bob yn ddau; paru ffwrdd, paru ymaith.

Palace, *s.* (*Ff. palais; Ll. palatium*) plas, palas; llys; neuadd.
King's palace—breninllys, llys brenin, llys y brenin, brenindy, ty y brenin, ty brenin, breinllys, teyrnllys, rhwyl.
Chief palace—penplas, penoyfeistedd, prifllys.
Palace-court—llys y brenindy.

Palacious,† *a.* (o *palace*) breninol, teyrnaidd; ardderchog, godidog, gorwych, rhiol, mawrwych.

Paladin, *s.* (Ll. *palatinus*) marchog orwydr, marchog orwydrad, marchog treigl, marchog y bendro; marchog y ford gron.

Palæography, } *s.* (Gr. *palaios* a *graphê*) hen-
Paleography, } ysgrifyddiaeth, henysgrifionaeth; y gelfyddyd o ddarllen hen ysgrifeniadau; hen ddull o ysgrifenu; henysgrifiaeth.
One who is conversant with palæography—henysgrifionydd; un hyddysg mewn henysgrifyddiaeth.

Palæologist, } *s.* (Gr. *palaios* a *logos*) henofydd,
Paleologist, } henafionydd; ysgrifenwr ar henafiaeth; un hyddysg mewn henafion.

Palæology, } *s.* henofyddiaeth, hynafiaetheg;
Paleology, } traethawd ar henafiaethau; gwybodaeth o hen bethau.

Palæontological, } *a.* henfodofyddol, henfodeg-
Paleontological, } ol; perthynol i henfodofyddiaeth.

Palæontologist, } *s.* henfodofydd; un cyfar-
Paleontologist, } wydd â llysiau ac anifeiliaid cloddiannol.

Palæontology, } *s.* (Gr. *palaios*, ac *ontology*)
Paleontology, } henfodofyddiaeth, henfodeg; gwybodaeth o hen fodau *neu* greaduriaid.

Palæosaurus, *s.* (Gr. *palaios* a *sauros*) henfadfil.

Palæotherium, } *s.* (Gr. *palaios* a *thêrion*) henfil,
Paleother, } henurfil = math ar fwystfil diflanedig.

Polæozoic, *a.* (Gr. *palaios* a *zôê*) henfywydig, henfywydol; yn cynnwys gweddillion y creaduriaid cyntaf.

Palæstra, *s.* = *Palestra.*

Palanquin, } *s.* (Hind. *palkee;* It. ac Ysp.
Palankeen, } *palanca*) cadair ysgwydd, ysgwydd-glud = math o gludai neu gadair ar arfer yn y Dwyrain, â ddygir ar ysgwyddau dynion.

Palatable, *a.* (o *palate*) blasus; da ei flas; chwaethus, archwaethus, chwaethol.

Palatableness, *s.* blasusrwydd, chwaethusrwydd; blas, chwaeth.

Palatal, *a.* (o *palate*) gorchfannol, gorchfantol, gorchyfannol, gorchyfantol, gorcharfannol, gorcharfanol; perthynol i daflod y geneu; â leferir yn y gorchfant.
Palatal letters—llythyrenau gorchfannol, &c.; gorchfannolion = *c, ch, g, ng, ngh, l, ll, rh, r,* yn y Gymraeg.

Palatal, *s.* llythyren orchfannol, orchfantol, orchyfannol, *neu* orcharfannol: *pl.* gorchfannolion, gorchfantolion.

Palate, *s.* (Ll. *palatum*) taflod y geneu, gorchfant, gorchyfant, gorchyfan, gorchfan, gorchfannad, gorcharfan, gorchfannedd, gorcharfannedd, gorchfannad; llawr y geneu; y geneu; y blas, y chwaeth, yr archwaeth, blys.
He pleased his palate—boddhaodd ei flys.

Palate,† *v. a.* blasu, chwaethu, archwaethu.

Palatial, *a.* (o *palate*) gorchfanneddol, gorchfannol, gorchfanol, gorchfantol; perthynol i daflod y geneu.

Palatial, *a.* (o'r Ll. *palatium*) palasol, plasol, palasaidd, llysol, llysaidd, neuaddol; ardderchog, mawrwych, gorwych, mawreddus.

Palatic,† *a.* perthynol i'r gorchfant; gorchfannol.

Palatinate, *s.* (Ll. *palatinus;* It. *palatinato*) breiniarllaeth, teyrniarllaeth, breinfa.
The Upper and Lower Palatinate — y Freiniarllaeth Uchaf ac Isaf = taleithiau â elwir felly ar lanau y Rhein, yn yr Almaen.

Palatine, *a.* (Ll. *palatinus;* *Ff. palatin*) breiniarllaidd, teyrniarllaidd, breinfaol; palasol; llysfreiniol; yn meddu breiniau llysol *neu* freninol; gorfreintiol, breintiog.
Count palatine—breiniarll, teyrniarll.
County palatine — breiniarllaeth, teyrniarllaeth, breinfa; sir freiniarllaidd, swydd orfreintiol, rhandir lysfreiniol = swydd yr oedd gàn iarll, esgob, neu ddug awdurdod breninol arni.

Palatine, *s.* breiniarll, teyrniarll.

Palative,† *a.* (o *palate*) hyfryd i'r archwaeth; blasus, chwaethus.

Palaver, *s.* (Ysp. *palabra;* Port. *palavra;* O. *llafar*) siaradach, clebar, baldordd, llol, ffiloreg, gwagsiarad, ofersiarad, siarad; truth, gweniaith.

Palaver, *v. a.* truthio, trutheimio, gwenieithio; gwagsiarad, bragaldian.

Palaverer, *s.* truthiwr, truthan, gwenieithwr.

Pale, *a.* (Ff.; Ll. *palleo, pallidus*) gwelw, glaswyn, gwynwelw, glaswelw, gwynlas, gwelwlas, canwelw, gwelwgan, dyddon; glas, glasaidd, glasawg; llwyd, llwydaidd; gwynaidd; gwàn, gwanaidd, pwl; dialiw.
Pale of face, } gwyneblwyd, gwyn-
Pale of countenance, } eblas, piglas, pig-
Pale-faced, } lwyd, wyneb-welw.
Pale blue—golas, gwynlas, goleulas, glaswelw, gwelwlas, glaswyn, (*f.* glaswen), blawrwyn, blorwyn, gwynwelw, plymliw, marwlas.
Pale white—glaswyn, gwelwlas, gwelwyn, canwelw, gwynwelw.
Pale black—du gwelw, gwelwddu, goddu.
Pale red — gwelwgoch, gwyngoch, cochwyn, cochwelw, lledgoch.
Pale yellow — lleb, glasfelyn, melynlas, melyn-gan.
A pale yellow hue, } llebliw, lleb, lliw
A pale yellow colour, } glasfelyn.
A pale hue—lliw gwelw, gwelw.
A pale white appearance—gwelwgan.
Pale complexion—lliw gwelw, lliw gwynwelw; gwedd lwyd, gwedd laswen; lliw dail yr ywen.
To grow pale—gwelwi; myned yn welw, &c.; glasu, gwyneblasu, piglwydo, piglasu; delwi, gwynu, gwynhau; dyddfu; drygliwio.
Pale death—yr angeu glas, yr angeu gwelw.

Pale, *v. a.* gwneuthur yn welw, &c.

Pale, *s.* gwelwedd, gwelwder, gwelw, glesni, llwydedd.

Pale, *s.* (S. *pal;* Al. *pfahl, paal;* Ll. *palus*) pawl, cledr, cledren, coedbawl; polgae, cledrgae, coedgae, cauadle; palis, argae,

achwre; rhandir; rhaglawiaeth, awdurdod; caerau, amgaerau.

Pale (in heraldry)—cledren, y gledren.

The pale of the church—argae, caerau, amgaerau, *neu* achwre yr eglwys.

Pales set on an high place will never stand against the wind—ni saif palis, a osodir yn uchel, yn erbyn y gwynt (*Eccles.* xxii. 18).

To enclose with pales=*Pale, v. a.*

Pale, *v. a.* amgledru, cledru, paliso, amgau, polgau, pawlgau; amgylchu, amgylchynu, *neu* amddiffyn â pholgae; cau *neu* amgylchu â pholion *neu* gledrau; amgylchu, argau, cau i mewn.

A place pailed in—coedgae.

Paleaceous, *a.* (Ll. *palea*) usog, uslyd, usaidd, peiswynaidd, peiswynog, manusaidd, manusog, cibynog, cibog; tebyg i us.

Pale-eyed, *a.* marw *neu* farwaidd ei lygaid; â llygaid marwaidd *neu* annysglaer iddo; llygadbwl, llygadlwyd.

Pale-faced, *a.* gwyneblas, gwyneblwyd, piglas, piglwyd, wyneb-welw, gweblas, gweblwyd; llwyd.

Pale-fencing, } *s.* polgae, pawlgae, cledrgae,
Pale-fence, } coedgae, cauad polion, cae polion; achwre.

Pale-hearted, *a.* digalon, gwangalon, dïysbryd, llwrf.

Palender,† *s.* (Al. *palander*) math ar long fechan.

Paleness, *s.* (o *pale*) gwelwedd, gwelwder, glaswelwedd, glaswelwder; glaswyni, gwynlesni; glesni, glesid; glesni wyneb; llwydedd; gwanliw; gwelw liw, lliw gwelw.

Paleography, } *s.* (Gr. *palaios* a *graphê*) hen-
Palæography, } ysgrifyddiaeth, henysgrifionaeth; y gelfyddyd o ddarllen hen ysgrifeniadau; hen ddull o ysgrifenu; henysgrifiaeth.

Paleolæ, *s. pl.* (Ll.) usgen, manusgen, usgen ion.

Paleologist, } *s.* (Gr. *palaios* a *logos*) henofydd,
Palæologist, } henafionydd; ysgrifenwr ar henafiaeth; un hyddysg mewn henafion.

Paleology, } *s.* henofyddiaeth, hynafiaetheg;
Palæology, } traethawd ar henafiaethau; gwybodaeth o hen bethau.

Paleontological, } *a.* henfodofyddol, henfodeg-
Palæontological, } ol; perthynol i henfodofyddiaeth.

Paleontologist, } *s.* henfodofydd; un cyfar-
Palæontologist, } wydd â llysiau ac anifeiliaid cloddiaunol.

Paleontology, } *s.* (Gr. *palaios*, ac *ontology*)
Palæontology, } henfodofyddiaeth, henfodeg; gwybodaeth o hen fodau *neu* greaduriaid.

Paleother, } *s.* (Gr. *palaios* a *thêrion*) hen-
Paleotherium, } fil, henurfil=math ar fwyst-
Palæotherium, } fil diflanedig.

Paleotherian, } *a.* henfilaidd, henurfilaidd;
Palæotherian, } perthynol i'r henurfil.

Paleous, *a.* (Ll. *palea*) usaidd, usog, uslyd, manusaidd, peiswynaidd, cibog, cibynog, eisinog, eisinaidd; tebyg i us *neu* beiswyn.

Palestra, *s.* (Gr. *palaistra*) camp ymafiyd, ymafiyd, ymafael; ymarfer o ymafiyd; gafaeldrin; ymafiyddiaeth, ymafiwriaeth; ymafaelfa, egnifa, ymdrechfa, ymdrechle, gafaeldrinfa.

Palestrian, } *a.* (Gr. *palaistricos*) perthynol i
Palestric, } gamp ymafiyd; yn perthyn i ymafiyddiaeth; â berthyn i afaeldrin; ymdrechol, amdrechol, egniol, pybyr.

Palet,† *s.* (Ff. *pelote*) coryn y pen.

Palette, *s.* (Ff.)=*Pallet.*

Palfrey, *s.* (Ff. *palefroi*; Ll. drosg. *paraveredi*) palffrai, palfre; crynfarch; gorwydd, gorwyddfarch, gwasgwyn, (*f.* gwasgwynes), gwasgwynfarch, gwilwst.

Palfreyed, *a.* palffreiog; yn marchogaeth ar balffrai.

Palification, *s.* (o'r Ll. *palus*) seilddariad; polionad; gyriad polion *neu* byst yn y llawr i'w gadarnhau.

Palillogy, } *s.* (Gr. *palin* a *logos*) edryd, atty-
Palilogy, } wediad=troell ymadrodd.

Palimpest, *s.* (Gr. *palimpsêstos*) adysgrifiyfr, crafysgrifiyfr=memrwn y crafwyd yr ysgrifeniad cyntaf oddi arno, ac yr ysgrifenwyd arno drachefn.

Palindrome, *s.* (Gr. *palindromia*) gwrthddarlleniad, attarlleniad=gair, pennill, neu ymadrodd â gymmer ei ddarllen yr un fath wyneb a gwrthwyneb; megys, *Adda; madam; 'Roma tibi subito motibus ibit amor.'*

Paling, *s.* (o *pale*) amgledriad, cledriad, paliad; polion, cledrau, amgledrau; coedgae; cledrwaith.

Palingenesia, } *s.* (Gr. *palin* a *genesis*) adened-
Palingenesy, } igaeth, ailenedigaeth, dadeni, genedigaeth o newydd.

Palinode, } *s.* (Gr. *palinôdia*) gwrthgan, gwrth-
Palinody, } ganiad; dadeiriad; gwrthddywediad yr hyn a ddywedwyd *neu* a ysgrifenwyd; galwad geiriau yn ol.

Palisade, } *s.* (Ff. *palissade*) palis, achwre,
Palisado, } rheilgae, cledrgae, polgae; gwalc; cledrwaith.

Palisade, *v. a.* paliso, amgledru, cledru, polgau, pawlgau, amgau; amgylchu â pholion *neu* gledrau.

Palish, *a.* (o *pale*) gowelw, lledwelw; llwydaidd, lledlwyd.

Palish blue—golasaidd, gwynlasaidd, lleddlas, golas.

Palisse, *s.* (Ff.) palis (yn arfau bonedd).

Pall, *s.* (Ll. *pallium*; S. *pæll*; Gw. *peall*) pall, brein-gochl, ysgin, cwnsallt, simwr, urddwisg; mantell archesgob; brethyn elor, brethyn arwyl, llên elor, elorlen, gurtho elor, y brethyn du.

Pall, *s.* pall=llun tebyg i'r llythyren Y, yn arfau bonedd.

Pall, *v.* (C. *pallu*, a chyfathrach i *pale*, ac i'r Gr. *palaios*, yn ol y Dr. *Webster*) diflasu, merfu, marw; colli ei flas, ei nerth, *neu* ei rym; myned yn ddiflas *neu* ferf; egru; gwneyd yn ddiflas; llyfrhau, digaloni, brawychu, gwanhau, gwanychu; gwaethygu, gwaelu, gwaethäu; peri gorwyd *neu* alar ar; peri gwrthwyneb cylla ar; gorwydo; gorlenwi, gorddigoni.

Palla, *s.* (Ll.) math ar dwyg â wisgid gàn foneddigesau Rhufain gynt.

Palladium, *s.* (Ll.; Gr. *palladion*, oddi wrth y dduwies *Pallas*) delw Palas, Paladium; diogelwch, amddiffyn, ceidwadaeth, tarian, amnawdd; y delid Paladium.

The palladium of our civil rights—tarian ein hiawnderau gwladol.

Pallet, *s.* (Ff. *palette*; It. *paletta*) lliwfwrdd

paentiwr, llawfwrdd paentiwr; cledrenig, cledren fechan; rhodgipen; cipell; mesur yn cynnwys 3 unas.

Pallet, *s.* (Ff. *paille;* Ll. *palea*) glwth, gwely bach, gwely bychan; gwely balasarn llong.

Palliament, † *s.* (Ll. *pallium*) gwisg, dillad, trwsiad, achre; dilledyn.

Palliard, † *s.* (Ff.) llodinebwr, anlladwr, godinebwr, puteiniwr.

Palliardise, † *s.* llodineb, anlladrwydd, godineb, puteindra.

Palliass, *s.* gwely mewn byddin *neu* wersyll.

Palliate, *v. a.* (Ff. *pallier;* o'r Ll. drosgl, *pallio*) esgusodi, esguso; lledguddio, goguddio; lleihau, bychanu, ysgafnhau, ysgafnu, bychanu bai; esmwytho, esmwythäu, llinaru, llaesu; gwneuthur yn llai; † gwisgo.

Palliate, † *a.* esmwythedig, llinaredig.

Palliation, *s.* esgusodiad, esgusiad; lledguddiad, goguddiad; lleihad, bychaniad, ysgafnhad; esmwythâd, llinariad, llaesiad, dylofiad.

Palliative, *a.* (Ff. *palliatif*) esgusodedigol, esgusedigol, esgusodol, esgusol; lleihaol; llaesedigol, esmwythaol, esmwythedigol, dylofedigol; o ansawdd i gelu *neu* i esgusodi bai, &c.

Palliative cure—iachâd *neu* feddyginiaeth-ad dylofedigol (nid gwreiddiol a pherffaith).

Palliative, *s.* esgusodai; esmwythai, esmwythydd, ysgafniedydd, llinarai, dylofydd, dylofediga ethydd; rhywbeth à esgusodo fai; rhywbeth à ddylofo *neu* à linaro boen.

Pallid, *a.* (Ll. *pallidus*) gwelw, glaswyn, gwynlas, glaswelw, gwelwlas, gwynwelw, canwelw, gwelwgan, dyddon; glas; llwyd, llwydaidd; gwyn.

Pallidity, Pallidness, *s.* gwelwedd, gwelwder, glaswelwedd, glaswelwder, glesid, glesni; glesni wyneb; llwydedd.

Palling, *a.* (o *pall, v.*) diflasol, merfaidd; yn myned yn ferf *neu* ddiflas; â diflasdod arno; alarllyd.

Pallium, *s.* (Ll.) mantell archesgob Pabaidd; toron archesgob; mantell cragen ddeugloriog.

Pallmall, Palle Maille, *s.* (Ll. *pila* a *malleus*) pelordd; chwareu pelordd, chwareu pel a gordd; hen chwareu yn yr hwn y tarewid pel â gordd drwy fodrwy mewn talwrn hirgul; gordd.

Pallor, *s.* (Ll.) gwelwedd, gwelwder, gwelwineb, glaswyni.

Palm, *s.* (Ll. *palma*) cledr llaw, cledr y llaw, tor llaw, tor y llaw, ceudod y llaw, ceuedd llaw, palf, pawen; lled llaw, dyrnfedd; llawf, angad.

Palm of the hand—cledr y llaw, &c.

The palm of an anchor—palf angor.

A stroke *or* slap with the palm of the hand—palfod, palfawd, palfaid.

Palm, *v. a.* palfu; llochi, gorllyfnu; cudd dwyllo, cel dwyllo; twyllo, hocedu; cuddio yn ngheuedd y llaw; trin, llofio, dylofi, palfodio; bwrw ar, tadu, tadogi.

To palm a thing upon one—rhoi *neu* fwrw ar un beth na bo yn eiddo; tadu *neu* dadogi peth ar un.

To palm one thing for another upon one—twyllo un â'r naill beth yn lle y llall.

They palmed upon us falsehood for truth—twyllasant ni â gau yn lle gwir; llenwasant ein llygaid â gau yn lle gwir.

To palm a die—palfu dis; cuddio dis yn gyfrwys hyfedr yn ngheuedd llaw.

Palm, Palm-tree, *s.* (Ll. *palma*) palmwydden, palmidwydden, balwyfen, balalwyfen, gwrthbwys, y pren gwrthbwys: *pl.* palmwydd, palmidwydd, balalwyf, balwyf.

The palm—y ffeddugoliaeth, y gamp.

To bear away the palm, myned â'r gamp; To carry away the palm, ennill y gamp; ennill y maes; ennill y bel; ennill y ffuddugoliaeth; cael yr oruchafiaeth; cael y maes; cael y goreu; dwyn y bel.

Palm-fruit—ffrwyth y palmwydd, palmaeron.

Palmaceæ, Palmæ, Palms, *s. pl.* (Ll. *palma*) palmwydd, palmidwydd, balwyf, balalwyf.

Palma Christi, *s.* (Ll.) palm Crist.

Palmar, *a.* (Ll. *palmaris*) dyrnfeddol; o led llaw.

Palmary, *a.* (Ll. *palmaris, palmarius*) penaf, prif, arbenig; dyrnfeddol.

Palmate, Palmated, *a.* (Ll. *palmatus*) palfog, palfedig, pawenog; ar ddull llaw; ar lun llaw agored; cyfandroed, troedgyfan, troedbalfog.

Palm-cross, *s.* croes balm; croes Sul y Blodau.

Palmer, *s.* (o *palm*) pererin, ceimiad; crwysgadwr; pererin yn dychwelyd o'r Tir Sanctaidd â phalmwydd yn ei law.

Palmer, *s.* llawgrafell, yslapell.

Palmerworm, *s.* pryf cadachog; y pryf cadachog, y pryf blewog, pryf y gwinwydd, blewog amldroed, sini flewog; llindys.

Palmettes, *s. pl.* (Ff.) palmaddurnau (mewn adeilyddiaeth).

Palmetto, *s.* math ar balmwydd.

Palmic Acid, *s.* sur palmig.

Palmiferous, *a.* (Ll. *palmifer*) â ddygo balmwydd; â fo yn dwyn palmwydd; palmwyddog.

Palmin, Palmine, *s.* palmain, palmednyw=math ar sylwedd â geir o olew gwarchlys.

Palminerved, *a.* (*palm* a *nerve*) palmewynog.

Palmiped, *a.* (Ll. *palma* a *pes*) cyfandroed, troedgyfan; troedbalfog; â fo â'i droed fel palf gwydd, &c.

Palmiped, *s.* aderyn cyfandroed, aderyn troedgyfan: *pl.* troedbalfogion, y troedgyfain.

Palmister, *s.* (Ll. *palma*) llawddewin, llawddewiniwr, palfarmeswr, palf-ddewin: *f.* llawddewines.

Palmistry, *s.* (Ll. *palma*) llawddewiniaeth, llawarmes, llofarmes, palfarmes, palf-ddewiniaeth.

Palmitic Acid, *s.* sur palmidig.

Palmitine, *s.* palmidain, palmidnur.

Palm-oil, *s.* palm-olew, olew palmwydd, olew y palmwydd.

Palm-Sunday, *s.* (o *palm:* gwel *Ioan* xii. 13) Sul y Blodau, dydd Sul y Blodau.

Palm-tree, *s.* palmwydden, palmidwydden, balwyfen, balalwyfen, gwrthbwys, y pren gwrthbwys.

Palm-wine, *s.* palm-win, gwin y palmwydd.

Palmy, *a.* (o *palm*) palmwyddog, llawn palmwydd, balwyfog; buddugol, buddugoliaethus, buddugoliaethol; blodeuog, blagurog; hafaidd.

Palmyra, *s.* (oddi wrth yr hen ddinas o'r enw) math ar balmwydd mawrion prydferth.

Palp, *s.* (Ll. *palpus*) teimledydd trychfilod, teimlor, teimlyr, teimlydd.
Palp, *v. a.* teimlo.
Palpability, } *s.* (o *palpable*) hydeimledd,
Palpableness, } eglurder, eglurdeb, amlygrwydd, amlygder.
Palpable, *a.* (Ff.; o'r Ll. *palpor*) hydeiml, teimladwy; â ellir ei deimlo; i'w deimlo; â ellir ei ganfod *neu* ei synied; hawdd ei deimlo; hawdd ei ganfod; amlwg, eglur, honaid, hysbys, noeth, dïargel, hywel, hynod-ol; tra gwybyddus; dybryd, gwrthun; mawr, dygn.
Palpable falsehood—anwiredd noeth.
Palpation, *s.* (Ll. *palpatio*) teimlad, teimlawd, teimledigaeth; palfaliad; y weithred o deimlo.
Palpi, } *s. pl.* (Ll. *palpi*) teimlorion, teimlyrion,
Palps, } teimlyddion, teimledyddion.
Palpiform, *a.* (Ll. *palpus* a *forma*) ar lun teimlorion; ar ddull teimledyddion; teimlyraidd.
Palpigerous, *a.* (Ll. *palpus* a *gero*) yn dwyn teimlyddion; â chanddo deimlorion; teimlorawg.
Palpitate, *v. n.* (Ll. *palpito*) dychlamu, tysmwyo, ysboncio, curo, dyhëu, dyheuo, neidio, llamu; ymwringellu; ymchwyfan.
Palpitation, *s.* (Ll. *palpitatio*) dychlamiad, tysmwyad, tysmwy, ysbonciad, curiant, curiad; dychlamiad, curiad, gweithiad, neidiad, *neu* lamiad y galon; neuedd.
Palpitation of the heart—dychlamiad y galon; calon-guriad.
Palsgrave, *s.* (Al. *palzgraf*; Is. *paltsgraaf*) plasiarll.
Palsical, } *a.* (o *palsy*) claf o'r parlys; â'r par-
Palsied, } lys arno; parlysaidd; parlysol; yn crynu gân y parlys.
Palsy, *s.* (talfyriad o'r Gr. *paralusis*) parlys, y parlys, haint y gïau, cyhyrwst, gwywhaint.
The dead palsy—y parlys mud; echryshaint; adwyth â bair golli ffrwyth *neu* nerth y corff yn ddisymmwth.
Palsy, *v. a.* parlysu; taro â'r parlys; diffrwytho, marweiddio, merwino.
Palter, *v. n.* (cyfathrach i *falter*, neu *faulter*) ysgöi, ymochelu, gochelyd, ymochel, cyfrwys ochel, castio; twyllo; pallu, methu, ffaelu; †gwastraffu.
Palterer, *s.* ymochelydd, ymochelwr, gochelwr, twyllwr; pallwr, methwr.
Paltriness, *s.* (o *paltry*) distadledd, gwaeledd, gwaelder, gorwaeledd, salwedd, baweiddrwydd; iselni; dirmygrwydd.
Paltry, *a.* (Sw. *palta*, *paltor*; D. *pialt*) distadl, gwael, gorwael, iselwael, distal, disas, salw, bawaidd, brwnt; dirmygus; diwerth, dïober; carpiog.
A paltry fellow—bawddyn, bawyn, bawai, adill.
A paltry knave—crogyn o ddyn; dyhiryn gorwael.
Paludal, *a.* (Ll. *palus*) corsog, morfaog, siglennog; perthynol i gors *neu* forfa.
Paludine, *s.* (Ll. *palus*) malwoden dwfr croew.
Paly, *a.* (*pale*) gowelw, gwelwaidd, lledwelw, glaswynaidd; cledrenog; â ranwyd gân gledrau yn bedair rhan gyfartal.
Pam, *s.* (llygriad, tybir, o *palm*) carden y milwr, carden y marchog, cerdyn y milwr.
Pampas, *s.* gwastattiroedd Deheudir America.
Pamper, *v. a.* (It. *pambere*, *pamberato*) pesgu, gorbesgu, mwythuso, mwythus borthi; porthi mwythau; porthiannu, porthiannuso; glythu, gorlenwi, gorlwytho, gorddigoni, secu, sechu.
To pamper one's self—bwyta yn foethus, yn fwythus, yn ddanteithiol, *neu* yn finfelus; ymbesgu *neu* ymborthi ar ddanteithion; ymborthi *neu* ymbesgu ar foethau; ymbesgu, ymsechu, ymsecu, glythu, bolera.
Pampered, *p. p.* pesgedig, pasgedig, &c.; pasg-; mwythus, mwythlawn, mwythog, mwythig.
Pampered steed—pasgfarch, march porthiannus.
Pampered child—plentyn anwesog, plentyn mwythus.
One that is pampered—mwythan, (*c. g.*)
A soft pampered female — mwythlen, maethen, mwythen, moethen, dynes fwythus.
Pampering, *s.* mwythusiad, pesgiad, gorbesgiad, mwythus borthiad; mwythusder, mwythusdra, mwythusrwydd.
Pamperos, *s.* gwyntoedd angerddol â chwythant dros y gwastadoedd yn Neheudir America.
Pamphlet, *s.* (Ff.; Ysp. *papelon*, *papeleta*) llyfryn, llyfran, llyfr bychan, llyfran diglawr, llyfryn gwniedig: *pl.* llyfrynau, llyfrach.
Pamphlet, *v. a.* ysgrifenu llyfryn *neu* lyfrynau.
Pamphleteer, *s.* llyfrenydd, llyfrynwr, llyfrynydd, ysgrifenydd llyfrynau, ysgrifenwr llyfrau bychain; crach-awdwr.
Pamphleteering, *a.* yn ysgrifenu ac yn cyhoeddi llyfrynau; crach-awdurol.
Pamphleteering, *s.* ysgrifenu a chyhoeddi llyfrynau.
Pampiniform, *a.* (Ll. *pampinus* a *forma*) anglymaidd, amdorchaidd; tebyg i amdyrch *neu* amglymau.
Pampres, *s. pl.* (Ff.; Ll. *pampinus*) amdroddail (mewn adeilyddiaeth).
Pan, *s.* (S. *panna*; Al. *pfanne*) padell, pan; coryn: *pl.* pedyll, padellî.
A little pan, } padellan, padellig, padell
A small pan, } fach, padell fechan.
Earthen pan—padell bridd.
Brass pan, } padell bres, padell efydd,
Brazen pan, } efydden.
Copper pan — efydden, efyddan, padell efydd.
Dripping pan — padell ddyferion, padell doddion, padell y toddion, dosbadell, dosban, dyferell; padell i dderbyn dyferion *neu* doddion cig yn pobi.
Warming-pan—mwyglai, padell dwymo, padell wresogi, padell wely, twymai, twymban.
Bring hither the warming-pan—dwg yma y fwyglai.
Frying-pan—padell ffrio, ffribadell, ffriban.
Brain-pan—creuan, y greuan, padell yr ymenydd; penglog; iad, siâd, siôl.
Knee-pan=*Knecpan*.
Pan, } y badell galed; haen o ddaiar
Hard pan, } galed is law y gweryd.
A cat in the pan—cath yn y badell; ffoadur, ciliad, ciliwr; trŵr y gath yn y badell; chwareuydd llaw wèn; chwareuwr ffon ddwybig; twyll i'w gydymaith; dyn bradog *neu* dwyllodrus.

To turn the cat in the pan—troi 'r gath yn y badell; chwareu'r ffon ddwybig; chwareu'r llaw wèn; troi yn y tresi; troi yn y tresau; ffoi neu giliaw oddi wrth ei blaid; newid neu adael ei blaid; bradychu hawl neu gwyn un idd ei wrthwynebwr; newid, troi, neu ymdröi yn ei chwedl; cilio yn ei gwyn; trawsddadleu.

Pan, *v. a.* cyssylltu, uno; cau yn nghyd.

Panacea, *s.* (LL. o'r Gr. *panaceia*) holliach, olliach, cyfaredd olliachaol, cyfaredd holliachol, meddyginiaeth olliachol, cyfaredd rhag pob clefyd, olliachydd, holliachydd; yr holliach, yr olliach, llysiau yr holliach.

Panada, } *s.* (*Ff. panade;* o'r LL. *panis*) uwd
Panado, } bara càn, uwd bara.

Panary, *a.* (LL. *panis*) perthynol i fara.

Panary fermentation — heplesiad bara, codiad bara.

Pancake, *s.* (*pan* a *cake*) cremog, cremogen, crempog, crempogen, crammwythen: *pl.* cremogau, crempogau, crammwyth; bara miod.

Pancake-Thursday — Mawrth y crempogau, dydd Mawrth y cremogau; dydd Mawrth Ynyd, Mawrth Ynyd.

Pancarpi, *s. pl.* (Gr. *pan* a *carpos*) ollaeron; coronbleth o bob math o aeron a llysiau.

Panch, *s.* (C. *pans*) matras tew, à roir ar hwyllathau llong, i'w rhwystro i dreulio.

Pancratic, } *a.* (Gr. *pan* a *cratos*) rhagor-
Pancratical, } gampus, gorgampus, argampus; meistrol ar bob rhyw gamp; yn feistr ar bob rhyw gamp; rhagorol neu yn rhagori yn mhob rhyw gamp; yn feistr ar y pedair camp ar ugain; yn rhagori mewn nerth; pybyr, tra chryf, tra nerthog, gordrechus.

Pancratium, *s.* (LL.; Gr. *pan* o *cratos*) rhagorgamp, gwrolgamp.

Pancreas, *s.* (Gr. *pan* a *creas*) cefndedyn, cyndedyn, percini.

Pancreatic, *a.* perthyn i'r cefndedyn; cyndedynol.

Pancreatic juice—sudd y cyndedyn.

Pancy, *s.*=*Pansy.*

Pandean Pipes, } *s. pl.* (o *Pan*, duw y bugeil-
Pan's Pipes, } iaid) pibau Pan, pibau Nwython, pibau Bugeilior, pibau Nwythonaidd.

Pandect, *s.* (LL. *pandectæ;* Gr. *pandectês*) llwyrdraith, llwyrdreithawd, cyflawn dreithawd; traeth ar y cwbl o ryw wyddor.

Pandects — rheithgynnullion, ollgynnullion; rheithgrynodeb=casgliad o sylwedd yr holl gyfraith wladol, à wnaed wrth orchymyn yr ymherawdwr Iustinian.

Pandemic, *a.* (Gr. *pan* a *demos*) perthynol i'r bobl neu i'r wlad oll; cyffredinol; ymdaenol; ollberthynol.

Pandemic disease—haint ymdaenol; haint llŷn, haint llynol; haint à ymdaeno dros yr holl wlad.

Pandemonium, } *s.* (Gr. *pan* a *daimôn*) mall-
Pandæmonium, } gyrch, y fallgyrch, cynghethernan, cythreulfa; prifllys y cythreuliaid.

Pander, *s.* (It. *pandere?*) llatai, llotai; à geisio butain i aral!; nwyfweinydd.

To play the pander—bod yn llatai; bod yn llotai; chwareu y llatai; chwareu y llotai; gwneuthur llateirwydd.

Pander, *v.* nwyfweini; bod yn llatai; bod yn llotai; chwareu y llatai; chwareu y llotai; gwneuthur llateirwydd; ceisio putain i arall neu ereill; gweini i chwantau rhai ereill; gweini, gweinyddu.

Panderage, *s.* llateiaeth, lloteiaeth.

Panderism, *s.* llateiaeth, lloteiaeth, llateirwydd, lloteirwydd.

Panderly, *a.* llateiaidd, lloteiaidd; nwyfweiniol, nwyfweinyddol; yn chwareu y llatai.

Pandiculated, *a.* ymestynedig; à estynwyd allan.

Pandiculation, *s.* (Ll. *pandiculator*) ymystwyriad, ymystwyrad, ystwyriad, ymestyniad, ymystyniad; dylyfiad gen.

Pandit, } *s.* (Indaeg) Brahmin dysgedig; un o
Pundit, } ddysgedigion yr Hindwys.

Pandoor, } *s.* milwr, sawdiwr; marchfilwr arf-
Pandour, } ysgafn yn ngwasanaeth Awstria.

Pandore, } *s.* (Gr. *pandoura*) cyfeileg=math
Pandoran, } ar offeryn cerdd.

Pandura, *s.* (Gr. *pandoura*) mwyndelyn Naples.

Pandurated, *a.* (Gr. *pandoura*) ar ddull neu wedd crwth.

Panduriform, *a.* (Gr. *pandura*, a Ll. *forma*) ar lun neu ddull crwth; hirgul-ganolfain.

Pane, *s.* (Ff. *pan*) pennill, pedroglyn, pedroryn, cwarel, cwar.

A pane of glass—pennill neu gwarel o wydr; pennill neu gwarel ffenestr.

Panegyric, *s.* (Ll. *panegyricus;* Gr. *panêguris*) arwyrain, molawd, canmoliaeth, ceinfolawd, ceinfawl, moledd, moliant, clod, gwawd, arwawd, erwawd, gwawdeb, darfawl, darfoledd, canmolwawd, darfoledigaeth, daddolweh; cywydd moliant, cerdd foliant, gwawdgan; araeth, cerdd, cywydd, neu air o glod neu ganmoliaeth.

Panegyric, } *a.* arwyreiniol, moliannol, ar-
Panegyrical, } foliannol, arfoliannus, molianus, darfoliannus, darfoliannol, gwawdus, gwawdiol, darglodus, canmolawl, canmoliaethol, arwyreawl, arwawdus, erwawdus, darfoledig.

Panegyris, *s.* (Gr.) cofwyl, gŵyl; cyfarfod cyhoeddus.

Panegyrist, *s.* arwyreinydd, arwyreiniwr, moliannwr, moliannydd, moliedydd, molydd, molwr, darfolydd, darfoliannydd, arwawdydd, gwawdydd, gwawdwr, canmolwr, canmolydd, moliannor, ceinfolwr, arfoleddwr, darglodydd, clodforwr, clodforydd.

Panegyrize, *v.* arwyrain, arwyreinio, ceinfoli, moli, moliannu, canmawl, canmoli, clodfori, moleddu, arfoliannu, darfoliannu, darfoli, dathlu, arfoli, arwawdio, tra chanmawl, daddoli.

Panel, *s.* (Ff. *panneau;* Sw. *panna*) pennill, pedroglyn, pedroryn, pedryn, cwarel; rheithrestr, rheithrill, rheithrol, rheithlen; y rhaith, rheithwyr; rhol neu gofrestr o enwau y rhai a wysier i fod yn rheithwyr; estyllwaith.

Panel, *v. a.* pennillio; gwneuthur yn bennill, yn bedroglyn, neu yn bedroryn; pedrogli, pedrori, pedrynu.

Paneless, *a.* heb bennill o wydr; di bennill, heb bennill.

Paneling, *s.* pennilliad, pedroriad; pennillwaith, gwaith pennilliog.

Panel-saw, *s.* llif bennill.

Pang, *s.* (Is. *pyngen;* Al. *peiniqen*) gloes,

gwaegfa, gloesboen, pang, gwaew, lloes, gwewyr, gloesyn; pang o waew, gwaew gwyllt, cur gorwyllt; poen, artaith.
Extreme pang—dirloes, tragloes.
The pangs of death — gloesion angeu; gwasgfaon angeu.
Pangs of childbirth, } gwewyr esgor.
Pangs of travail, }
Severe pang—taerloes, chwerw loes, gloes chwerw.
As the heart of a woman in her pangs—fel calon gwraig wrth esgor (*Ier.* xlviii. 41).

Pang, *v. a.* arteithio; rhoi *neu* beri gloes i; peri gwaew *neu* wewyr ar; gloesio, gloesi, dirboeni, pangu.

Pangolin, *s.* y grugarth cenog.

Panic, *s.* (It. ac Ysp. *panico; Ff. panique;* Gr. *panicos,* o *Pan*) dychryn disymmwth dïachos; arswyd lledfrydig; dychryn, arswyd, *neu* fraw disymmwth; arswyd, dychryn, braw, echrys, echryndod, oerfraw.

Panic, } *a.* disymmwth dïachos, disymmwth heb achos, sydyn dïachos; dirfawr a disymmwth.
Panical, }
Panic fear—dychryn disymmwth dïachos; arswyd lledfrydig.
Panic-struck — dychrynedig; â darawyd gân ddychryn disymmwth heb achos.

Panic, }
Panick, } *s.* (Ll. *panicum*) cibog.
Panic grass—cibog.

Panicle, *s.* (Ll. *paniculum*) panigl.

Panicled, *a.* paniglog; â phanigl iddo.

Paniculate, } *a.* paniglog; â phanigl iddo *neu*
Paniculated, } arno; â chanddo baniglau.

Panicum, *s.* (Ll.) cibog, y cibog.

Panification, *s.* (Ll. *panis* a *facio*) gwneuthuriad bara.

Panivorous, *a.* (Ll. *panis* a *voro*) yn bwyta bara; yn byw *neu* yn ymborthi ar fara; bara-fwytaol.

Pannade, *s.* (C. *pannu,* yn ol *Webster*) carlamiad; carlam.

Pannage, *s.* (o'r Ll. *panis*) ffrwythau y goedwig; mesobr, tâl mes; mesfraint, rhyddid mesa, hawl i fesa.
Pannage due—mesobr, tâl mes.

Pannel, *s.* (C. *panel,* Ll. *pannus,* yn ol *Webster*) panel, ystrodyr, pynioreg, pynoreg, sadell, ystarn.

Pannelation,† *s.* rheithrestriad, rheithrilliad.

Pannier, *s.* (Ff. *panier;* Ysp. *panera;* o'r Ll. *panis*) ysborthell, bancyr, crowyn, cawell cefn, cefn-gawell; cawell, cest; crombil hebog; corbal, corbed, gobenyddiad.
Pannier of a hawk—crombil *neu* gromil hebog.

Pannikel,† *s.* (o *pan*) padell yr ymenydd, creuan.

Panophobia, *s.* (Gr. *pan* a *phobos*) ollswyd= math ar bruddglwyf â hynodir gân ofnau disail.

Panoplied, *a.* (o *panoply*) ollarfog, cyfgaened, cyflawn-arfog.

Panoply, *s.* (Gr. *panoplia*) ollarfogaeth, hollarfogaeth, llwyrarfogaeth, cyflawn arfogaeth, cwbl arfogaeth, llwyr grudr.

Panorama, *s.* (Gr. *pan* a *horama*) cyfanwel, ollwel, ollwelfa, cylcharlunfa, ollarlunfa, cylcholygfa.

Panoramic, *a.* perthynol i gyfanwel; cyfanwelig, gyfanwelaidd, ollwelig; tebyg i gyfanwel.

Pansophical, *a.* ollddoeth, hollddoeth, ollbwyllol, hollbwyllol, ollwyddol; yn hòni fod ganddo wybodaeth o bob peth.

Pansophy, *s.* (Gr. *pan* a *sophia*) ollddoethineb, hollddoethineb; ollbwyll, hollbwyll.

Panstereorama, *s.* (Gr. *pan, steros,* a *horaô*) ystrygyfanwel.

Pansy, *s.* (Ff. *pensée*) trilliw, deuwynebog, gwiolydd deuwynebog, llysiau y Drindod.
Pansy violet—trilliw, deuwynebog, llysiau y Drindod.
Corn pansy—trilliw yr âr.

Pant, *v. n.* (Ff. *panteller*) dyhëu, dyheuo, dyheued; dychlamu; neuo, peuo; hiraethu, awyddu.
To pant for breath—dyhëu, dyheuo, lluddedu, *neu* chwythu gân ddiffyg anadl.
To pant after—hiraethu am; dyhëu am; brefu am.

Pant, *s.* curiad, ysbonc, llam, dychlam, *neu* naid y galon; dychlam, dyheuad, neued, neuawd, peuawd.

Pantable, *s.* (Ff. *pantoufle*) esgid nos, llopan.

Pantagraph, } *s.* (Gr. *pan, panta,* a *graphô*)
Pantograph, } ollgraffyr, ollgyflunor.

Pantagraphic, } *a.* ollgraffynol; perthynol o
Pantographical, } ollgraffyr.

Pantalogy, *s.* (Gr. *pan* a *logos*) olleiriaeth; casgliad o holl eiriau iaith.

Pantaloon, *s.* (Ff. *pantalon*) llawdr, hosanlawdr; digrifwas, ysgentyn.
Pantaloons—llodrau, hosanlodrau, hosanglos.
A pair of pantaloons—llawdr, hosanlawdr.

Pantameter, *s.* (Gr. *pan* a *metron*) ollfesur, hollfesur, ollfesurydd, hollfesurydd.

Pantamorphic, *a.* (Gr. *pan* a *morphê*) yn cymeryd arno bob llun, ffurf, *neu* ddull; olldumig, olldumiol, ollffurfig.

Pantechnicon, *s.* (Gr. *pan* a *technicos*) ollnwyddfa, ollnodachfa; trysorgell pob gwaith celfyddydol.

Panter, *s.* (o *pant*) dyheuwr, neuwr, peuwr; hiraethydd.

Panter, *s.* (Gw. *painter*) rhwyd.

Pantess, *s.* (o *pant*) diffyg anadl (ar hebog).

Pantheism, *s.* (Gr. *pan* a *theos*) olldduwiaeth, hollddduwiaeth.

Pantheist, *s.* ollddduwiad, hollddduwiad; un â gred mai y bydysawd yw Duw.

Pantheistic, } *a.* ollddduwiaethol, hollddduw-
Pantheistical, } iaethol; perthynol i ollddduwiaeth.

Pantheon, *s.* (Gr. *pantheion*) teml yr holl dduwiau; ollddduwfa, geudduwfa; arddangosfa.

Panther, *s.* (Gr. a Ll.) y panther=enw math fwystfil mânog tra ffyrnig.

Pantile, } *s.* (C. *pant,* Ff. *pente,* a *tile?*) cafn-
Pentile, } beithynen, crombeithynen, pantbeithynen.

Panting, *s.* dyhead, dyheuad, peuad, peuant, peuawd, neuawd, neuad; lluddediad, dychlamiad; hiraethiad.

Pantingly, *ad.* dân ddyhëu, dân luddedu, dân beuo; dân guro *neu* neidio fel y galon; gân guro, neidio, *neu* ddychlamu fel y galon.

Pantler, *s.* (Ff. *panetier;* o'r Ll. *panis*) ceidwad y bara, cellwr, cellydd, ceidwad y gell; pobydd.

Pantochronometer, *s.* (Gr. *pan*, *chronos*, a *metron*) ollawdfesur, ollawdfeidyr.

Pantofle, *s.* (Ff. *pantoufle*; It. *pantofola*) yslopan, llopan, esgid nos, nos-esgid, esgid anwisg, esgid ddisawdl.

To stand on one's pantofles—sefyll yn sythfalch; sefyll ar ei sodlau.

Pantograph, } *s.* (Gr. *pan* a *graphô*) ollgraffyr,
Pantagraph, } ollgyflunor.

Pantographic, } *a.* ollgraffyrol; perthynol i
Pantographical, } ollgraffyr.

Pantography, *s.* (Gr. *pan* a *graphô*) darluniad neu ddysgrifiad cyffredinol; golwg ar beth yn gyflawn; ollysgrifiaeth.

Pantology, *s.* (Gr. *pan* a *logos*) ollofyddiaeth, ollwyddoreg; gwaith ar wyddoriaeth gyffredinol.

Pantometer, *s.* (Gr. *pan* a *metron*) ollfesur, hollfesur, ollfesurydd, hollfesurydd, ollfydr.

Pantometric, } *a.* ollfesurol, hollfesurol, oll-
Pantometrical, } fydrol.

Pantometry, *s.* ollfesuriaeth, hollfesuriaeth, mesuriaeth gyffredinol.

Pantomime, *s.* (Gr. *pantomimos*) ollystumiwr, ollfydumiwr, ollfunudiwr, mudystumiwr; gwas digrif à fedro ddynwared munudiau pawb; dynwaredydd, mydumiwr, ymystumiwr, ystumiwr, munudiwr, digrifyn, digrifwas; ollfydumeg, ollfydumiaeth, ollystumeg, ollfunudeg, chware mud, mudchware, mudwareu.

Pantomime, *a.* ollfydumiol, ollystumiol, ollfunudiol; ystumiol, mydumiol, dynwaredol; yn arddangos peth mewn gweithred fud yn unig; mudchwareuol.

Pantomimic, } *a.* ollfydumiol, ollystumiol,
Pantomimical, } ollfunudiol, mydumiol, munudiol, ystumiol; perthynol i chware mud, mudwareuol, mudchwareuol; yn cael ei arddangos mewn ystumiau mudion.

Pantomimist, *s.* chwareuwr mud, mudchwareuwr, ollfydumiwr, ollystumiwr, ollfunudiwr, digrifwas, dynwaredydd.

Panton, } *s.* (Ll. *pando?*) pedol benagor-
Panton-shoe, } ed, pedol agor.

Pantophagist, *s.* (Gr. *pan a phagô*) ollysŵr, ollysydd, ollfwytai; un à fwytao bob peth; dyn neu anifail yn ymborthi ar bob peth.

Pantry, *s.* (Ff. *panetière*; Ll. *panarium*) bwydgell, bwytty, talgell, cell y bara, cell y bwyd; y gell.

Panurgy, *s.* (Gr. *panourgia*) ollfedredd, ollfedr, hollfedredd, hollfedr, hollfedrusedd; medr, medredd, medrusrwydd; cymmedr ar bob peth.

Pap, *s.* (Ll. *papilla*) diden, diten, bronig, pen bron, penig bron, tethan, didi; teth.

Pap, *s.* (Ll. drosgl, *papa*; It. *pappa*; Is. *pap*) uwd peillied, uwd, peilluwd, bwyd bach; bywyn.

The pap of an apple—bywyn afal.

Pap, *v. a.* porthi âg uwd.

Papa, *s.* (Ll., Ff., Al. ac Is.; Gr. *pappas*: arferedig yn iaith y Scythiaid, ac hefyd yn y Syriaeg a'r Caldaeg) tada, tata, tad.

Papacy, *s.* (Ff. *papauté*; It. *papato*; o *papa*, Pab) pabaeth, pabogaeth, pebyd, pebydiog; swydd ac urddas y Pab.

The papacy—y babaeth, y babogaeth.

Papal, *a.* (Ff. o *pape*, Pab) pabaidd, pabol, pabog; perthynol i'r Pab; eiddo y Pab; pabyddol.

The papal chair—y gadair babaidd; cadair y Pab.

Papalin, † *s.* pabydd.

Papalist, *s.* pleidiwr Pabyddiaeth; pleidydd awdurdod y Pab.

Papalize, *v.* pabeiddio, paboli; gwneuthur yn babaidd; myned yn babaidd.

Papaver, *s.* (Ll.) pabi, drewg, drewlys, bulwg Ffrengig.

Papaverous, *a.* (Ll. *papavereus*) pabïaidd, pabïol; tebyg i'r pabi.

Papaw, *s.* (Ff. *payayer*) math o goed tramor.

Pape, *s.* (Ff.) Pab, y Pab.

Paper, *s.* (Ff., Is., ac Al. *papier*; Ll. *papyrus*; Gr. *papuros*) papyr; papyryn.

Writing paper—papyr ysgrifenu.

Blotting paper—tarnpapyr, sugnbapyr.

Brown paper—papyr llwyd.

A piece of paper, } papyryn; tamaid o
A scrap of paper, } bapyr; tameidyn o bapyr; dernyn o bapyr.

Sheet of paper—papyren, papyrlen, llèn o bapyr.

To cover with paper—papyro; gorchuddio â phapyr; rhoi neu ddodi papyr ar.

Paper-office—swyddfa y papyrau, papyrfa (yn y Neuadd Wèn, Llundain).

State paper-office—swyddfa papyrau y llywodraeth; papyrfa y llywodraeth; papyrfa y deyrnas.

Paper, *a.* o bapyr; à wnaed o bapyr; à berthyn i bapyr; papyrol; papyraidd; disut, disylwedd, teneu, eiddil, sal, salw.

Paper coal—papyr-lo, glo papyr.

Paper buildings—eilun adail.

Paper hangings—crogleni papyr.

Paper sailor, } y cragenfad papyr, y
Paper nautilus, } morwr papyr, y nofiwr papyr, y papyr-nofiwr=math ar gragenbysg.

Paper, *v. a.* papyro; rhoi neu ddodi papyr ar; gorchuddio â phapyr; †cofiyfru.

Paper-faced, *a.* â gwyneb papyr iddo; â'i wyneb cyn wyned a phapyr.

Paper-folder, *s.* cyllell bapyr, plygydd papyr, papyr-blygydd.

Paper-hanger, *s.* papyrwr tai, mur-bapyrwr.

Papering, *s.* papyriad; papyro.

Paper-kite, *s.* barcutan papyr.

Paper-machine, *s.* peiriant i wneuthur papyr.

Papermaker, *s.* papyrwr, papyrydd, gwneuthurwr papyr.

Papermaking, *s.* gwneuthuriad papyr; gwneuthur papyr.

Papermill, *s.* melin bapyr.

Paper-money, } *s.* arian papyr, mwnai papyr;
Paper-currency, } dyl cyfnewid; papyr train.

Paper-reeds, *s. pl.* papyrfrwyn (*Esa.* xix. 7).

Paperseller, *s.* gwerthwr papyr, gwerthydd papyr.

Paperstainer, *s.* papyr-liwydd, papyr-liwiwr, lliwydd papyr, ystaeniwr papyr crogleni.

Papery, *a.* papyraidd, fel papyr.

Papescent, *a.* (o *pap*) uwdaidd; yn cynnwys uwd peillied; bywynog; meddal.

Papess, *s.* (o'r Ff. *pape*) Pabes.

Papetta, *s.* darn bath arferedig yn Rhufain, gwerth 11*c.*

Paphian, *a.* (oddi wrth *Paphos*, yn Cyprus) perthynol i Gwener; Gwenerol; anllad, ymrewyddol, cywestachol, chwantachus, puteinig.

Paphian, *s.* putain, huran, anlladferch.
Papier Machie, *s.* (Ff.) peth â wnaed o fwydion papyr; teclyn, nwydd, *neu* ddefnydd â wnaed o bapyr mwydedig; papyrger.
Papil. } *s.* (Ll. *papilla*) bronig, tethan, diden,
Papilla, } diten, pen bron.
Papilio, *s.* (Ll.) eilier, ilir, eilir, pilai, pila, glöyn byw, clöyn, clöyn byw.
Papillionaceous, *a.* (Ll. *papilio*) iliraidd, eilir-aidd, eilieraidd; eilierog, ilirog, eilirog; tebyg i eilir *neu* bilai.
Papillæ, *s. pl.* (Ll.) penau bronau, didenau.
Papillary, } *a.* didenol, didenaidd, didenog,
Papillous, } bronigol, bronigaidd, tethol, tethaidd; perthynol i ben bron; tebyg i ben bron.
Papillate, *v. n.* myned yn ddiden; myned yn deth; tyfu yn dethan *neu* fronig.
Papillate, *a.* didenog, bronigog.
Papilloso, *a.* didenog, tethog; dafadenog; oddfynog, cnapiog; mânog; pothellog, bothellog.
Papism, *s.* (o'r Ff. *pape*) Pabyddiaeth.
Papist, *s* (Ff. *papiste*; It. *papista*) Pabydd; *pl.* Pabyddion.
Papistic, } *a.* pabyddol, pabyddaidd, pab-
Papistical, } aidd.
Papistry, *s.* Pabyddiaeth.
Papized, *a.* pabeiddiedig.
Pappoos, *s.* baban neu blentyn (yn mhlith Indiaid brodorol Lloegr Newydd).
Pappous, *a.* (o'r Ll. *pappus*) goflewog, panog, manbluaidd; gwlanog.
Pappus, *s.* (Ll. o'r Gr. *pappos*) goflew, pân, manblu; pluf y gweunydd.
Pappy, *a.* (o *pap*) tyner fel uwd; tebyg i uwd; uwdaidd; llawn sudd, suddlyd; meddal, plydd, llaidd.
Papulæ, *s. pl.* (Ll.) llynorod, plorynod, pisgyrnod, pisgenod, cyfodenau, gorod.
Papulose, } *a.* (o'r Ll. *papula*) llynorog, plor-
Papulous, } ynog, pisgyrnog; â llynorod *neu* bisgyrnod arno; llawn plorynod; llawn o gyfodenau; llyfrith, llyfrithog, pisgyrnol, pisgenog.
Papyraceous, *a.* (o'r Ll. *papyrus*) papyraidd.
Papyrography, *s.* (Ll. *papyrus*, a Gr. *graphê*) papyrgrifiaeth.
Papyrus, *s.* (Ll.) papyrfrwyn.
Papyri—hen ysgrifrolau ar y papyrfrwyn.
Par, *s.* (Ll.) cyfartaledd, cyfartalwch, cyfartalrwydd, cyfwerthedd, cydwerth, cydwerthedd, cyfwerth, cyfrdal, cydbwys.
To be at par, } bod mewn cyfartaledd;
To be upon a par, } bod yn gydwerth, yn gyfwerth, yn gyfartal, yn gydbwys, *neu* yn gydstad.
Para, rhagddawd Groeg o amryfal ystyron.
Para, *s.* darnau bath yn mhlith y Tyrciaid, ychydig llai eu gwerth na'n dimai ni.
Parable, † *a.* (Ll. *parabilis*) hygael, hawdd ei gael.
Parable, *s.* (Gr. *parabolê*; Ff. *parabole*) dameg, adameg, ameg; cyffelybiaeth.
To speak *or* utter parables—traethu damegion.
Parable, *v. a.* damegu; traethu mewn damegion.
Parabola, *s.* (Ll.; Gr. *parabolê*) damgyrfsen, damgwrf, damranell=un o'r pum conigran.
Parabole, *s.* (Gr.) cyffelybiaeth, cymhariaeth, dameg.
Parabolic, } *a.* damegol, cyffelybiaethol; dam-
Parabolical, } gyrfol, damgyrfig, damgyrfaidd.
Paraboliform, *a.* ar lun damgyrfsen; ar ddull damranell.
Parabolism, *s.* (o *parabola*) damgyrfaeth.
Paraboloid, *s.* (Gr. *parabolê* ac *eidos*) arddamgyrfen.
Paracentesis, *s.* (Gr. *paracentêsis*) trydylliad, trybigiad, croenbigiad; pigiad y croen i ollwng hylif allan o'r corff.
Paracentric, } *a.* (Gr. *para* a *centros*) dam-
Paracentrical, } greiddig, troegreiddig; heb fod yn hollol grwn.
Paracentric curve—cyrfsen, camen, *neu* gomell drosgreiddig; damgreiddell.
Paracentric, *s.* damgreiddell, cyrfsen drosgreiddig.
Parachronism, *s.* (Gr. *para* a *chronos*) camamseriad, camfrudiaeth; amryfusedd *neu* gamgymmeriad mewn amseryddiaeth; camgymmeriad *neu* amryfusedd yn nghyfrif amser.
Parachrose, *a.* (Gr. *parachrôsis*) newidliw; yn newid ei liw gân effaith y tywydd.
Parachute, *s.* (Ff.; o'r Gr. *para*, a Ff. *chute*) disgynell, disgynlen o awyren.
Paraclete, *s.* (Gr. *paraclêtos*) dadleuwr; eiriolwr, eiriolydd; dyddanydd, dyddanwr; y Dyddanydd.
Paracrostic, *s.* (Gr. *para*, ac *acrostic*) traphenenwad, trabrigenwad.
Parade, *s.* (Ff.; Ysp. *parada*) camas, rhodfa, rhodle; ymarferfa, ymddangosfa, dangosfa, rhesfa milwyr, cammonfa; rhodres, rhwysg, coegrodres, gwagrodres, dangosiad gwagogoneddus, arddangosiad, conedd, balchedd; trefn filwraidd, cattrefn; parodrwydd.
Parade, *v.* arddangos, gwneuthur dangosiad; rhwysgo, coegrodresu; cattrefnu, gwaladru, trefnu gwŷr; rhestru, iawn drefnu; ymarferu; myned o amgylch mewn gorymdaith filwraidd.
Paradigm, *s.* (Gr. *parodeigma*) cynllun, enghraifft, anghraifft, engraff; cyfymrediad, cyfieuad, cydieuad; taflen.
Paradigmatic, } *a.* cynlluniol, anghreifftiol,
Paradigmatical, } enghreifftiol, engraffol; â wasanaetho er cynllun *neu* enghraifft.
Paradigmatics, *s. pl.* ysgrifenwyr buchedd*au* er enghraifft i ereill.
Paradigmatize, *v. a.* gosod allan er cynllun *neu* enghraifft.
Paradise, *s.* (Gr. *paradeisos*) gwynfa, gwenydfa, paradwys, gwenfro.
Paradise Lost—Coll Gwynfa.
Bird of paradise—iar wynt, aderyn paradwys.
Fool's paradise — gwynfa yr ynfydion; gwynfa yr ynfyd; gwenfro y gwirion.
To bring one into a fool's paradise—somi un â gau obaith; somi un â gwag obaith; hudo â theg eiriau; denu un âg addwidion gwenieithol a gwag; denu *neu* lithio un â gau addwidion; addaw yn dda i wneyd ffwl yn llawen; tywys *neu* arwain i wag obaith; dwyn i wenfro y gwirion; dwyn i wynfa yr ynfyd; somi, siomi.
Grains of paradise — grawn paradwys, grawn Paris.
Paradisæa, } *s.* adar paradwys, ieir gwynt.
Paradisea, }
Paradisean, † *a.*=*Paradisiacal.*

Paradisiacal, *a.* paradwysol, paradwysaidd, paradwysain, gwynfaol, gwenfroawl; eiddo paradwys; nefolaidd.

Paradox, *s.* (Gr. *paradoxia*) amrydyb, anghyfdyb, amgendyb, anghyttyb; daliad anhydyb, anhygred, anhygoel, *neu* ddyeithrol; daliad à fo yn wrthwyneb i gyffredin dyb dynion; barn wahanol i dyb cyffredin; haeriad croes i ymddangosiad.

Mechanical paradox—amrydyb gallofyddol.

Hydrostatic paradox—amrydyb awsafol.

Paradoxical, *a.* anhydyb, amrydybol, anghyfdybol, anghyfdybus, amgendybol.

Paradoxicalness, *s.* anhydybrwydd, anhydybedd, amrydyboldeb, amrydybolrwydd, anghyfdybusrwydd.

Paradoxology, † *s.* (*paradox*, a Gr. *logos*) yr arfer o amrydybiau.

Paradrome, *s.* (Gr. *paradromé*) rhodfa heb ddiddos uwch ei phen; ymdrechfa benagored (yn Groeg gynt).

Paraffine, *s.* (Ll. *parum* ac *affinis*) rhyw sylwedd à geir wrth ddystyllio ulbyg.

Paragoge, } *s.* (Gr. *paragógé*) argymmeriadau
Paragogy, } chwanegiad llythyren neu sill ar ddiwedd gair.

Paragogic, } *a.* argymmerol, argymmeriad-
Paragogical, } ol.

Paragogic letters—llythyrenau argymmerol *neu* argymmeriadol; llythyrenau à chwaneger ar ddiwedd gair.

Paragon, *s.* (Ff. *parangon*; It. *paragone*) cyullun; cyullun perffaith; peth rhagorol dros ben; peth heb ei fath, ei gystal, *neu* ei gymhar; peth digymhar; peth heb gymhar iddo; un digymhar; llywy, creiries, creirwy; †oydymaith, cyfaill; †ymgystadledd.

A paragon of the female sex—rhianon, manon.

A paragon of beauty—benyw lân ddigymhar; benyw ddigymhar o ran glendid; benyw lân dros ben; manon, rhianon.

Paragon (in typography)—manon=argraffllythyren fawr.

Paragon, *v.* cymharu, cystadlu, cyfraddu; ymgystadlu.

Paragram, *s.* (Gr. *paragramma*) mwysair, gair mwys, geirdro, mwysdro.

Paragrammist, *s.* mwyseiriwr, arferwr mwyseiriau, mwysai, geirdröydd.

Paragrandine, *s.* (Gr. *para*, a Ll. *grando*) cenllusgwart=dyfais i gadw maesydd rhag cenllusg neu gesair.

Paragraph, *s.* (Gr. *paragraphé*; Ff. *paragraphe*) gwahanran, dosbarthran, gwahanbwnc; dosbarthnod, gwahannod, nod gwahanran, nod gwahan, gwahanydd=nod fel hyn ¶.

Paragraph, *v. a.* gwahanranu; llunio *neu* ysgrifenu gwahanraniau.

Paragraphic, } *a.* gwahanranol, dosbarthran-
Paragraphical, } ol; yn cynnwys rhaniadau byrion.

Paragraphically, *ad.* bob yn wahanran; yn wahanraniau.

Paralepsis, } *s.* (Gr. *paralcipsis*) crybwylleb.
Paralepsy, }

Paralipomena, *s. pl.* (Gr.) pethau à adawyd allan; atodion, chwanegion.

Parallactic, } *a.* (o *parallax*) amgeniadol,
Parallactical, } amgenedigol; perthynol i'r amgeniad.

Parallax, *s.* (Gr. *parallaxis*) amgeniad, yr amgeniad, amgenedigaeth = y gwahaniaeth rhwng *cywir* ac *ymddangosiadol* le yr haul, neu ryw seren, pan olyger hwynt oddi ar y ddaiar.

Parallel, *a.* (Gr. *parallélos*) cyfochr, cyfochrol, cyfochrog, cyfystlys, cyfystlysol; cydbell, gogysbell, cysbell, gogydbell, gogyfartal, cyfbell, cydbell-gyfochrol, gogyhyd; o'r un pellder oddi wrth eu gilydd yn mhob màn; amhafal, cyfatebol, tebyg, cynhebyg, cyffelyb, cyhafal; cyfred, cydredol, cyfredegol, cydred; yn rhedeg yr un ffordd.

Parallel line—cyflinell, cyfredlin, cyfredlinell, cyflin; llinell ogysbell, ogyhyd, *neu* ogyfartal; llinell gyfochrog, llinell gyfochrol.

To run parallel with, } rhedeg yn gyfochr
To run parallel to, } à, &c.

Parallel, *s.* cyflinell, cyfredlin, cyfredlinell, cyflin, llinell ogysbell, llinell ogyhyd, llinell gyfochrog, llinell gyfredol, llinell gydred; llinell lledred; cyfrediad, cydrediad, cyfatebiad, cyfochriad, cyfochraeth; cymhariaeth, tebygiad, cynhebygiad; peth cyfochr.

Parallels—cyflinau, &c.; dyblinau, llinellau dyblyg (||).

Parallel, *v. a.* cyfochri, cyfystlysu; gosod yn gyfochr, &c.; cyfateboli; cyfartalu, cystadlu, gogyfio; bod yn cyfateb i; cymharu, cyffelybu, cynhebygu, tebygu, cyhafalu; cyfredu, cyfredoli.

Parallelable, *a.* cymharadwy, cyfartaladwy.

Parallelism, *s.* cyfochredd, gogyfartaledd, cyfochraeth, cyfochroldeb, cyfochrogrwydd, gogydbellder; cyfatebiaeth; ymadrodd cyfochrog *neu* gyfochrol.

Parallelless, *a.* digymhar, anghymharol, digyffelyb.

Parallelogram, *s.* (Gr. *parallélos* a *gramma*) lleddfbetryal; hirbetryal, petryal hirgul, pedryfal hirgul, gobedroglun, cyfredlun.

Equilateral oblique parallelogram—lleddfbetryal.

Parallelogrammic, } *a.* perthynol i leddfbet-
Parallelogrammical, } ryal; lleddfbetryalaidd.

Parallelopiped, *s.* (Gr. *parallélos* ac *epipedon*) hirgub, hirdryfaint, hirgyfan, cub hirgul, hirgorff chwechochrog.

Paralogism, } *s.* (Gr. *paralogismos*) geuddadl,
Paralogy, } gau reswm, twyllreswm, rheswm twyllodrus, rheswm gau, rheswm dichelligar, geuddadledd; gau resymiad, geuddadliad.

Paralogize, *v. n.* geuddadleu, gau resymu, rhesymu yn dwyllodrus, arfer geuddadl.

Paralysis, *s.* (Gr. *paralusis*) parlys, y parlys, haint y glau, cyhyrwst, gwywhaint.

Paralytic, } *a.* (Gr. *paralutikos*; Ff. *paralyt-*
Paralytical, } *ique*) claf o'r parlys; à'r parlys arno; parlysaidd, parlysol.

Paralytic, *s.* claf o'r parlys; un claf o'r parlys; un à'r parlys arno.

Paralyze, *v. a.* (Gr. *paraluó*, *paralusis*) parlysu; marweiddio, merwino, diffrwytho, fferu, gwanychu.

Parament, *s.* dodrefn ac addurn ystafell.

Parameter, *s.* (Gr. *parametreô*) sadfesur, sadfydrai.

Paramorphia, } *s.* (Gr. *para* a *morpheus*) go-
Paramorphine, } gysnur, gogysgain.

Paramount, *a.* (Norm. *peramont*) goruchaf, goruchel; uchaf, penaf, pen-; uwch law pawb; uwch law pob peth arall; penbaladr; penrheithiog; ardderchog, godidog.

Lord paramount—penarglwydd, arglwydd benrhaith, arglwydd penrhaith, arglwydd penbaladr, arglwydd goruwch arglwyddi ereill; goruchlyw, goruchdeyrn, unben.

Wales paramount—Cymru benbaladr.

Paramount, *s.* penarglwydd, penrhaith, arglwydd penbaladr; un à fo goruwch pawb.

Paramour, *s.* (Ff. *par* ac *amour;* Ll. *per* ac *amor*) gordderch, (*c. g.*); cariadfab, gordderchwas, gordderchwr, gordderchad, (*c.g.*); cariadferch, gordderchwraig, gordderchfun, cymmones; cariad.

Paranthine, *s.* ialenfaen.

Paranymph, *s.* (Gr. *paranumphos*) gwas y priodfab, cyfaill y priodfab, gwas priodas.

Parapegm, *s.* (Gr. *parapêgma*) pilerfwrdd; serfwrdd; deddfwrdd.

Parapet, *s.* (Ff.; It. *parapetto*) bronwaith, bronwal, bronfur, murganllaw, canllaw mur, gwalc, bronddiffyn, crib amddiffynglawdd; rhagfur.

Paraph, *s.* (Gr. *para* a *haptô*) rhyw addurn ar ddiwedd llofnodiad enw un.

Paraphernalia, *s.* (Ll.; Gr. *parapherna*) argyfrau, argyfreu, argyffrau, argyfrau gwraig; hyn a ddyco gwraig i'w gwr heb law ei gwaddol.

Paraphernal, *a.* argyfreuol, argyffreuol; perthynol i argyfreu.

Paraphrase, *s.* (Gr. *paraphrasis*) allair, arallair, amgenair, alleiriad, aralleiriad, amgeneiriad.

Paraphrase, *v.* alleirio, aralleirio, amgeneirio; rhydd ddeongli.

Paraphrast, *s.* (Gr. *paraphrastês*) alleiriwr, alleirydd, aralleiriwr, aralleirydd, amgeneiriwr, amgeneirydd.

Paraphrastic, } *a.* alleiriol, aralleiriol, am-
Paraphrastical, } geneiriol, alleiriog, aralleiriog, amgeneiriog, alleiriadol, amgeneiriadol.

Paraphrastically, *ad.* yn alleiriol, &c.; ar wedd arallair.

To translate paraphrastically—cyfleithu yn amgylchiadol; rhydd gyfleithu; cyfleithu yn alleiriol.

Paraphrenitis, *s.* (Gr. *para* a *phrenitis*) ennynfa y llengig, fflameg y barwydon.

Paraphrosyne, *s.* (Gr. *paraphrosunê*) gwallgofrwydd, gwallgof, gorphwyll, gorphwylledd, ynfydrwydd, ymleferydd.

Paraplegy, } *s.* (Gr. *para* a *plêgê*) parlys yn
Paraplegia, } rhanau isaf y corff.

Paraquet, *s.* (Ff. *perroquet*) parot bychan, parotyn, paretyn.

Parasang, *s.* (Gr. *parasaggas;* o'r Per.) hydfesur Persiaidd, yn cynnwys, yn ol Herodotus, 30 ystaden.

Parascene, } *s.* (Gr. *parascênion*) y lle tu cefn
Parascenium, } i'r dafiod (mewn chwareufa); y wisgfa.

Parascevastic, *a.* (Gr. *parasceuasticos*) parotoawl, darparol.

Parasceve, *s.* (Gr. *parasceuê*) darparwyl; darpar, parotoad.

Paraselene, *s.* (Gr. *para* a *sêlênê*) rhith lloer, rhith lleuad, cyw lleuad, mab lloer, lloergi, rhithloer, ffugloer, eilun lloer.

Parasite, *s.* (Ff.; Ll. *parasitus;* Gr. *parasitos*) truthan, truthiwr, gwenieithwr, gwenieithydd; bolerwr, bolerai, bolgarwr; à druthio ac à wenieitho er pryd o fwyd; à wenieitho i wr mawr er mwyn ei fol; à wirio yr hyn a ddyweto y neb a'i portho bid wir bid gelwydd; à fo unair à'i gynneilydd yn mhob peth; Ieuan lygad y bwyd; peth à dyfo ar beth arall; ymlynan, arymlyn, bolerlys; lleuan.

To play the parasite—truthio, gwenieitho; truthio a gwenieitho er mwyn pryd o fwyd (*neu* y cyffelyb); bolera; chwareu y truthan.

Parasitic, } *a.* truthiol, truthiog, gwenieithus,
Parasitical, } gwenieithol, truthgar, gwenieithgar; arymlyn, arymlynol; yn tyfu *neu* yn byw ar beth arall.

Parasitical plants—llysiau arymlyn, planigion arymlynol, bolerlysiau, arymlyniaid.

Parasitism, *s.* truthiant; ymddygiad *neu* foesau truthan.

Parasol, *s.* (Ff. ac Ysp.; Gr. *para*, a Ll. *sol*) heulrod, cysgodell, cysgodlen, cysgodawr, huanlen, heulgudd.

Parastatæ, *s. pl.* (Gr. *para* a *histemi*) pilerau pedryfan yn sefyll ar eu pen eu hun.

Parasynaxis, *s.* (Gr.) cyfarfod anghyfreithlawn; cynnulleidfa ddirgel; cwrdd bach.

Parat, *s.* pysg o rywogaeth y mingrwn.

Parataxis, *s.* (Gr.) atgyflead; trefniad gosodiadau y naill ar ol y llall.

Parathesis, *s.* (Gr.) atddodiad, atosodiad, atoseawd; ymsang, gwahansang.

Paratomous, *a.* (Gr.) *para* a *temnô* âg wynebau yr holltiad o nifer anmhenodol.

Paravail, *a.* (Norm. *par* ac *availe*) à fo yn dàl dàn arall; à ddalio dàn arlwydd arall.

Tenant paravail—deiliad tàn ddeiliad.

Paravant, } †*ad.* (Ff. *par* a *cavant*) ger bron,
Paravaunt, } ger gŵydd, yn mlaen, ar gyhoedd, yn gyhoeddus.

Parboil, *v. a.* (Ff. *parbouillir*) goferwi, lledferwi, hanner berwi, hanner-ferwi.

Parbreak,† *v. n.* (o *break*) cyfogi, glocsi, chwydu.

Parbuckle, *s.* rhaff ddyblyg i godi barilau wrthi o long.

Parbutties, *s. pl.* mynyddwyr. brigantiaid, gwŷr mynyddig (yn yr India Ddwyreiniol).

Parcæ, *s. pl.* (Ll.) y Tyngedfenau, y Tynged-ion, y Tyngedesau.

Parcel, *s.* (Ff. *parcelle*) rhan, cyfran, rhenyn, rhan fechan, twysgen, twysg, rhandwy, ychydig; sypyn, bwrnel, byrnyn, sybwrn, sybyrnyn, sopen, swp; nifer.

By parcels, } yn rhanau; yn dwysgau;
In parcels, } yn drylau; yn sypynau; yn rhandiroedd.

Bill of parcels—dyl amrywion.

A parcel of ground—rhandir; darn o dir.

A parcel of knaves—cnud, clwm, cwlwm, crug, *neu* haid o ddyhirwyr.

Parcel, *v. a.* rhanu; rhanu, gosod, *neu* ddosbarthu yn rhanau; rhoi allan yn rhanau; dyranu, amranu; sypynu, sypio, byrnu, bwrnelu.

To parcel a rope—rhwymo cynfas pygedig; o amgylch rhaff.

Parcelling, *s.* lleiniau o gynfas pygedig à osodir o amgylch rhaff.

Parcener, *s.* (Norm. *parconnier;* o'r Ll. *pars*) cydetifedd, cyttifedd, cyttreftadog, cyfetifedd, cydbriodor tir, cydberchenog tir; cydetifeddes, cyttifeddes: cyd-ddeiliad.

Parcenery, *s.* (Norm. *parconnier*) cydetifeddiaeth, cyttifeddiaeth, cydfeddiant, cydberchenogaeth, cydfeddiannad.

To hold land in parcenery—dàl tir cyd; dàl cyttir.

Parch, *v.* (Ll. *peraresco?*) crasu, crasboethi; deifio, rhuddo, cresu, greidio, gologi, rhostio, twyro; sychgrasu; trasychu.

Parched, *p. p.* crasedig, à graswyd, wedi ei grasu, &c.; cras, crasboeth, crasìyd, caled, twyr, greidiog, crispin, gorsych, gologˆ.

Parched corn—crasyd, yd cras.

Parched ground—crasdir, tir cras, tir llosg, tir crasboeth.

Parched places—poethfanau, rhuddfaoedd, rhuddfëydd, rhuddfanau.

Parchedness, *s.* crasder, crasrwydd, crasineb, crasedigrwydd; crinedd.

Parching, *a.* crasboeth, crasol, greidiol, cras, llosg.

Parchment, *s.* (Ff. *parchemin;* Al. *pergamen;* Ll. *pergamena*) memrwn, plagawd, croen trin, crasgroen, ysgrifgroen, pilen.

Roll of parchment—corn o femrwn, rhol o femrwn.

Parchment-maker, *s.* memrynwr, gwneuthurwr memrynau.

Parcity,† *s.* (Ll. *parcitas*) prinder, prinrwydd, arbedrwydd, cynnildeb.

Pard, *s.* (Ll. *pardus;* Gr. *pardos*) llewpard, llewpart.

Pardale,† *s.* (*pardalis*) llewpart.

Pardon, *s.* (Ff.) maddeuant, maddeu, maddeuawd, cyreifiant, cyraf, creiffiant, pardwn.

General pardon—maddeuant cyffredinol; anghofraith.

Pardon, *v. a.* maddeu, maddeuo, cyreifio, cyrafu, maddeuannu, pardynu.

He pardoneth and absolveth—efe a bardyna ac a ollwng (*Llyfr Gweddi Gyffredin*).

Pardonable, *a.* maddeuadwy, maddeuol; à ellir *neu* à aller ei faddeu; cyreifiadwy; dileadwy; esgusodol; à ellir ei esgusodi.

Not pardonable, } anfaddeuadwy, an-
Not to be pardoned, } faddeuol; nas gellir ei faddeu.

Pardonableness, *s.* maddeuoldeb, maddeuolder, maddeuolrwydd; bod yn faddeuadwy.

Pardoner, *s.* maddeuwr, maddeuydd, pardynwr; gwerthwr maddeuebion y Pab.

Pardoning, *a.* maddeugar, maddeuol, maddeuedigol, maddeuannus, maddeuannol, cyreifiol, creiffiol, maddeusin, craiff.

Pare, *v. a.* (Ff. *parer*) didoni, didonenu, digroeni, digrofenu, digrawenu, pilio; tynu ymaith dònen *neu* grofen peth, tynu y dònen; batingo, batio; ysgythru, trychu, attori; tocio; lleihau, dibliso; ysgio.

To pare the nails—tcri, tocio, attori, blaendori, trychu, blaendrychu, ysgythru, *neu* adnaddu ewinedd.

Paregoric, *a.* (Gr. *parègoricos*) esmwythaol, esmwythol, llinarol, llonyddol, tynerol.

Paregoric, *s.* meddyginiaeth esmwythaol *neu* linarol; llinarai, esmwythai, torboen.

Parelcon, *s.* (Gr. *parelcô*) chwanegiad gair *neu* sill ar ddiwedd un arall; attawd, olddawd, olddodiad.

Parella, } *s.* (Ff.) math ar fwsŵn cromen-
Parelle, } aidd.

Parembole, } *s.* (Gr.) ymsang; gosodiad rhyw-
Paremtosis, } beth perthynol i'r pwnc yn nghanol ymadrodd.

Parenchyma, *s.* (Gr. *parenchuma*) sylwedd ysbyngaidd; bywyn, mwydyn, bywedyn.

Parenchymata, *s. pl.* (Gr.) ysbyrnogion, llyngyr, bolbryfed.

Parenchymatous, } *a.* ysbyngaidd, ysbyrnaidd,
Parenchymous, } ysbyngus, ysbyngol, ysbyrnol, ysbyrnog; ysgafn a thyllog fel ysbwng; tyllog; meddal, masw, gwagsaw.

Parenesis, *s.* (Gr. *parainesis*) darbwyll, darbwylliad, darbwyllìaeth, darbwylledigaeth, annogaeth.

Parenetic, } *a.* (G. *parainetico*s) darbwyllus,
Parenetical, } darbwyllawl, annogaethol, annogol, cynghorol, rhybuddiol.

Parent, *s.* (Ll. *parens*) rhiant; tad neu fam; un o rieni un; rhi; achos, gwreiddyn, aig, edryf: *pl.* rhieni, rhiaint.

First parent—cyndad; cynfam: *pl.* cynrieni, cynriaint.

Lack of parents—amddifedi, amddifadrwydd, ymddifedi; amddifedi o rieni *neu* riaint.

The parent society—y fam-gymdeithas.

Parentage, *s.* (Ff.) gwelygordd, gwehelyth, bonedd, rhieniaeth, tylwyth, ach, gwaedoliaeth, gwaedogaeth, tadogaeth, llinach, cyff, ystlynedd, achwaed, gwreiddyn, gwraidd, rhiaeth; rhieni.

Of honest parentage—yn dyfod *neu* yn disgyn o dylwyth da; yn dyfod *neu* yn disgyn o rieni cywir gonest; glanryw.

Parental, *a.* (o'r Ll. *parens;* It. *parentale*) eiddo rhieni; perthynol i rieni *neu* riaint; rhieniol; serchus, serchog, tyner.

Parentals—galarwyl.

Parental care—gofal rhieni.

Parentation, *s.* (o'r Ll. *parento*) rhywbeth à wnaer er anrhydedd y marw.

Parenthesis, *s.* (Gr.) ymsang, gwahansang; cromfach, crymfach, crom, amgylchiad hannergrwm=( ).

To put in a parenthesis—gwahansangu.

Parenthetic, } *a.* ymsangol, gwahansangol;
Parenthetical, } perthynol i wahansang; yn arfer ymsangau.

Parenticide, *s.* (Ll. *parens* a *cædo*) lleiddiad rhieni, lleiddiad ei rieni, lleiddiad ei riaint, lladdwr ei rieni; lladdiad rhieni, lladdiad tad a mam, lladdiad tad neu fam.

Parentless, *a.* di rieni, di riaint, heb rieni; amddifad o rieni; amddifad.

Parer, *s.* (o *pare*) didonwr, didonydd, piliwr, pilydd, piliedydd; offeryn didoni, pilyr.

Parergy,† *s.* (Gr. *para* ac *ergon*) peth dibwys, peth disylwedd.

Pargasite, *s.* (oddi wrth Ynys *Pargas*, yn Ffinland) delidfaen Pargas.

Parget, *s.* (Ysp. *parche*) glyfaen; plastr, cymrwd; paent.

Parget, *v. a.* plastro, plastro muriau, cymrydu, rhoi cymrwd ar, gorthöi à chymrwd; paentio, taenu paent ar.

Pargeter, *s.* plastrwr, cymrydwr.
Pargeting, } *s.* (o *pargct*) plastriad; plastr,
Pargetting, } plastr mur, cymrwd; plastr-
Pergetting, } waith, cymrydwaith, plastr-
Pergeuring, } waith addurnog.
Parhelion, } *pl.* Parhelia, *s.* (Gr. *parêlios*) cyw
Parhelium, } haul, heulgi, ci haul, mab haul, ellun haul, rhith haul.
Parial, } *s.* pâr breiniol (yn chware card-
Pair-royal, } iau).
Parias, *s.* (Indaeg) y llwyth tlawd, llwyth y tlodion; y llwyth *neu* ddosbarth iselaf (yn mhlith yr Hindwys).
Parietal, *a.* (o'r Ll. *paries*) paredol, muriol; perthynol i fur *neu* bared; ystlys-furiol; à dyfo ar ochr peth arall.
Parietal bones, } esgyrn y greuan; yr es-
Parietalia, } gyrn paredol; esgyrn y pared.
Parietaria, } *s.* (Ll. *parietaria*) paredlys, pelydr,
Parietary, } barthlys, murlwyn, cantafod, canhauol, llysiau y môr, llysiau y morodd, llysiau y pared, pelydr y gwelydd.
Parietine,† *s.* (Ll. *paries*) darn o fur, pared, *neu*
Parilline, *s.* math o sylwedd fferyllaidd. [wâl.
Paring, *s.* (o *pare*) didoniad, didoneniad, digrofeniad, piliad, &c.; tòn, tònen, pilionen, crawen, crofen, cinyn, pil, ysgwthr, nadd: *pl.* pilion, creifion, crafion, cinach, cinynion, naddion, ysbwrial, adnaddion, ysgythron.
Paring and burning — didoni a llosgi; batingo; llosgi bating.
Paring knife—cyllell adnaddu, adneddai, adneddyf, cyllell adnadd.
Paring shovel — rhaw ddidoni, pilraw; rhawbal.
The parings of the nails—naddion, adnadd, pilion, crafion, ysgwthr, ysgythron, blaendrwch, *neu* ysgarthion yr ewinedd; ewinbil.
Parish, *s.* (Ff. *paroisse;* Ll. *parochia;* Gr. *paroicia*) plwyf; plwyfogaeth: *pl.* plwyfau.
The jurisdiction of a parish, } plwyfogaeth.
Parish jurisdiction, }
United parish—cydblwyf.
Of a parish, } plwyfol; perth-
Belonging to a parish, } ynol i blwyf; eiddo plwyf.
To settle in a parish—plwyfogi, plwyfoli; sefydlu *neu* ymsefydlu mewn plwyf.
To become settled in a parish—plwyfogi, plwyfoli; myned yn blwyfog.
The parson of the parish—person y plwyf; periglor y plwyf; offeiriad y plwyf.
The patron-saint of a parish, } mabsant.
The guardian-saint of a parish, }
Parish, *a.* plwyfol, eiddo plwyf; perthynol i blwyf; à berthyn i blwyf; plwyfog.
A parish church—eglwys blwyfol, eglwys plwyf, eglwys blwyf.
The parish church—eglwys y plwyf, yr eglwys blwyfol.
A parish priest—offeiriad plwyf; periglor.
The parish priest—offeiriad y plwyf; y periglor.
Parish clerk — clochydd, llenwas plwyf, porthwr y gwasanaeth, ysgolâig eglwys, atebydd.
Parish wake—gŵyl mabsant.
Parishioner, *s.* plwyfog, plwyfol, un plwyfol, un plwyfog, plwyfwr: plwyfogion, plwyfolion, trigolion plwyf.
Fellow-parishioner—un cydblwyfog; un cydblwyfol: *pl.* cydblwyfogion.
Parasyllabic, } *a.* (Ll. *par* a *syllaba*) cysillog,
Parasyllabical, } cysilliadol, cysillafol, gogydsillog, gogydsillafog; yn cynnwys sillau cyfartal *neu* gyffelyb. [gwysiedydd.
Paritor, *s.* (am *apparitor*) rhingyll, gwysiwr,
Parity, *s.* (Ff.† *parité;* It. *parità;* o'r Ll. *pars*) cyfartaledd, cyfartalwch, cyfartalrwydd, cydraddoldeb, cyfraddoldeb, cydraddolrwydd, cydraddwch, cystadledd, cymmaintioli.
By parity of reason—trwy yr un fath ar ymresymu; trwy yr un wedd ar ymresymu; trwy yr un dull ar ymresymu; trwy gydweddiad rheswm; trwy *neu* wrth yr un rheswm; yn ol yr un rheswm.
Park, *s.* (Al. a Sw.; S. *parruc;* Gw. *paiwc*) parc, ceufaes; hyddgae; pal; cae.
Park of artillery, } parc cadoffer.
Artillery park, }
Park, *v. a.* parcio, parcu; cau mewn parc *neu* geufaes.
Parker, *s.* parcwr, parcydd, ceidwad parc.
Park-keeper, *s.* ceidwad parc *neu* geufaes; parcwr, parcydd.
Parkleaves, *s. pl.* creulys, crefiys, dail y benddiged, dail penddiged, dail y twrch, llysiau perfigedd, gwaed y gwŷr.
Parlance, *s.* (Norm. o'r Ff. *parler*) siarad, ymddyddan, ymadrodd, ymgom, arddysneg, parliant, parl.
Parle,† *s.* siarad, ymddyddan, ymgom, parl; cyflafaredd.
Parle,† *v. a.* siarad, ymddyddan, ymgomio.
Parley, *v. n.* (Ff. *parler*) cydymddyddan, cynnadlu, cymddyddan, ymddyddan, siarad, cyflafaru, cylafaru, ymgomio, ymbarlio.
Parley, *s.* cylafaredd, cyflafared, cynnadledd, cynnadl, ymddyddan, cydymddyddan, ymgom, ymgomiad, siarad, parliant, parliad.
To beat a parley, } rhoi arwydd cy-
To sound a parley, } lafaredd; galw i gynnadl *neu* gylafaredd; gwahodd i gynnadl *neu* gylafaredd.
Parliament, *s.* (Ff. *parlement;* It. ac Ysp. *parlemento*) senedd, seneddr, parliament llwyrwys.
Member of parliament—seneddwr, aelod seneddol, aelod y senedd, aelod o'r senedd.
Parliament-house — senedd-dy, seneddfa, seneddlys, ty y senedd.
Acts of parliament — gweithredoedd seneddol, deddfau seneddol.
Bills of parliament — ysgrifau y senedd; ceisreithiau y senedd; rheithysgrifau seneddol; ysgrifreithiau y senedd.
Dissolution of parliament—dattodiad, dagyssoddiad, *neu* ddadgyfansoddiad y senedd; gollyngiad y senedd ymaith.
Prorogation of parliament — addoediad, oediad, *neu* ohiriad y senedd.
High court of parliament—uchel lys y senedd; goruchel lys y senedd.
Parliament-man—seneddwr; aelod seneddol; un o wŷr y senedd.
Parliamentarian, } *s.* seneddolwr; pleidiwr y
Parliamenteer, } senedd (yn amser Carl 1).
Parliamenter, }
Parliamentarian, *a.* perthynol i'r senedd; yn gwasanaethu y senedd (mewn gwrthwynebiad i Carl 1).

Parliamentary, *a.* seneddol; eiddo y senedd; perthynol i'r senedd; yn perthyn i'r senedd.
Parlour, *s.* (Ff. *parloir*, o *parler*) parlawr, ymddyddanfa, ystafell ymddyddan, parlwr, pen uchaf.
Parlous, *a.* (o'r Ff. *parler*) craff, craffus, llym, llymgraff; cyfrwysgall, ffel; bywiog; ysmala.
Parlousness, *s.* craffder, craffineb, llymder; ffelder; ysmaldod.
Parmesan, *s.* caws Parma (yn yr Ital).
Parnassia, } *s.* (o *Parnassus*, mynydd
Grass of Parnassus, } yn Groeg) brial.
Parnassian, *a.* perthynol i Parnassus; awenyddol, awenol.
Parochial, *a.* (o'r Ll. *parochia*) plwyfol; perthynol i blwyf; plwyfog.
Parochiality, *s.* plwyfoldeb, plwyfolrwydd, plwyfogrwydd.
Parochian, *a.* plwyfol, plwyfog.
Parochian, *s.* un plwyfog, un plwyfol, plwyfwr: *pl.* plwyfogion, plwyfolion.
Parodic, } *a.* (o *parody*) trawsgyfaleiriol, tros-
Parodical, } gyfaleiriadol, troswawdiol; perthynol i drawsgyfalair.
Parodist, *s.* trawsgyfaleirwr; ysgrifenydd trosgan neu drawsgyfalair.
Parody, *s.* (Gr. *parôdia*; Ff. *parodie*) trawsgyfalair, trosgyfalair, trosglwyddair, trosgyfalgan, trosglwyddwers, trosgan, gwawdgan, gwatwargerdd, croesandraith; cyfadgan, dïareb, arwireb, dywediad cyffredin.
Parody, *v. a.* trawsgyfaleirio, trosgyfaleirio, trosglwyddeirio, gwawdeirio; arab drosglwydde geiriau.
Paroimia, *s.* (Gr.) dïareb.
Parol, } *s.* (Ff. *parole*; It. *parola*; o'r Ll.
Parole, } *parabola*) gair; llawgair; addewid; gair geneu, tafodleferydd; traethiad neu fynegiad ar air; dadlau, dadleuon, dadleuadau, dadlau cyfreithiol; arwyddair, rhinair, cyfrinair, gair cyfrin, gair amnaid, gwystlair; gwystleiriaeth.
Upon my parol of honour— ar fy llawgair.
Released upon parol — à ellyngwyd yn rhydd ar ei lawgair y del yn ol; rhydd ar ei lawgair.
Parol, } *a.* geiriol, geiriawl; ar dafodleferydd,
Parole, } ar air; geneuol.
Will parol—llythyr cymmyn ar dafodleferydd ger bron tystion addwyn; gwyllys geiriol; ewyllys ar air yn unig; geirgymmyn.
Paronomasia, *s.* (Gr. *paranomeô*) argyfenw, argyfenwad.
To use the paronomasia—argyfenwi.
Paronomastic, } *a.* argyfenwol, argyfenwad-
Paronomastical, } ol.
Paronomasy, † *s.*=*Paronomasia*.
Paronychia, *s.* (Gr. *parônuchia*) ewinor, ewinwasg, bystwn, gwlithen ar fys.
Paronymous, *a.* (Gr. *parônumos*) gogyfystyr, lledgyfystyr; tebyg i enw neu air arall; tebyg i air arall o ran ystyr; tebygystyr, tebystyr; gogyfachyddol.
Paronymous words—geiriau gogyfystyr, gogyfystyron.
Paroquet, } *s.* (Ff. *perroquet*) parstyn, parotyn
Parroquet, } =math o barot neu baret
Perroquet, } bychan.
Parotid, *a.* (Gr. *parôtis*; *para* ac *ôta*) glyfoerol, poerol; gerglustiol, agos i'r glust.
Parotid gland—glyfoeren, chwaren lyfoerol, chwaren y poer, chwaren boer; ennynfa neu ddargod y lyfoeren.
Parotitis, *s.* ennynfa neu fflameg y lyfoeren; y bensach, yr esogryn.
Paroxysm, *s.* (Gr. *paroxusmos*) cyrch clefyd, cylch clefyd, cylchias, cyrch, chwiw; poethgyrch; gloesgyrch.
Paroxysmal, *a.* perthynol i gyrch clefyd; cylchiasol.
Parquetry, *s.* (Ff. *parqueterie*) amryddarnwaith.
Parr, *s.* math ar bysgodyn bychan.
Parrakeet, *s.*=*Parroquet*.
Parrel, *s.* (Port. *aparelho*) cladde, mantell simnai.
Parrhesia, *s.* (Gr.) eofneg; hyfder ymadrodd.
Parricidal, } *a.* (o *parricide*) tadladdol,
Parricidious, } tadladdiadol; perthynol i laddiad tad; yn perthyn i dadladdiad; tadleiddiadol.
Parricide, *s.* (Ff. o'r Ll. *paricida*, o *pater* a *cædo*) tadleiddiad, lleiddiad ei dad, tadladdwr; lleiddiad un o'i rieni; lleiddiad dyn; tadladdiad, tadladd, lladdiad tad; lladdiad rhiant.
Parrock, *s.* (S. *parruc*) gower, bwrs, maes bychan, maesan.
Parrot, *s.* (talfyriad, fel y tybir, o'r Ff. *perroquet*) y parot, y paret, y siaradydd.
Parrotry, *s.* arferion yr adar parot; efelychiad yr adar paret.
Parry, *v.* (Ff. *parer*; Ysp. *parar*) troi neu fwrw heibio; cadw draw; gochelyd, gochel, ysgöi; gwrthdröi, gyrdröi, trusio.
Parse, *v. a.* (o'r Ll. *pars*) dwnedu, gramadegu; parthredu geiriau, parthranu, parth-dreiglo, geirdreiglo; holi a phrofi pob gair mewn ymadrodd wrth reolau gramadeg.
Parsimonious, *a.* (o'r Ll. *parsimonia*) cynnil, arbedus, crintach, cyrrith, llawgaiad, llawgaead, llawgaled, rhygynnil, anhylad, anhael, cybyddlyd, cybyddus, cyrrithus.
Parsimoniousness, *s.* cynnildeb, cynnilwch, arbedusrwydd, crintachrwydd, &c.
Parsimony, *s.* (Ll. *parsimonia*) cynnildeb, cynnilwch, cynniledd, crintachrwydd, cyrrithrwydd, rhygynnilwch, cybyddiaeth, cybyddiaeth, arbedoliaeth, toliad.
Parsing, *s.* parthrediad geiriau, dwnediad.
Parsley, *s.* (Ff. *persil*; S. *peterselije*; Al. *petersilie*; Gr. a Ll. *petroselinon*) perllys, persyll.
Cow-parsley—gorthyfail, cegiden fenyw.
Rough cow-parsley—gorthyfail garw.
Fool's parsley—geuberllys, coegberllys.
Hedge-parsley } eilunberllys, troed y cyw.
Bur-parsley }
Upright hedge-parsley—eilunberllys unionsyth.
Knotted hedge-parsley—clwm eilunberllys, troed y cyw clymog, eilunberllys clymog.
Stone-parsley—creigberllys.
Milk-parsley — llaeth-berllys, lloerlys llaethog.
Parsley piert—troed y dryw.
Curled parsley—perllys crych.
Parsnep, } *s.* (y sill olaf yw y S. *næpe*, Ll. *nap-*
Parsnip, } *us*) pannas, llysiau Gwyddelig, moron, moron gwynion: *sing.* pannasen, moronen, moronyn.
Cow-parsnep—efwr, efyrllys, cron, moronen y meirch.

Water parsnep—moron y dwfr, pannas y dwfr, pannas y dwr, dyfr-foron.
Broad-leaved water parsnep—dyfr-foron llydanddail.
Narrow-leaved water parsnep—dyfr-foron culddail.
Procumbent water parsnep—dyfr-foron sypflodeuog.
Creeping water parsnep—dyfr-foron ymlusgol.
Wild parsnep—moron y moch, pannas y moch.
Prickly parsnep—moron pigog, pannas pigog.
Cultivated parsnep—pannas, moron gwynion, llysiau Gwyddelig.

Parson, *s.* (Ll. *persona;* Al. *pfarrherr*) periglor, person, gweinidog plwyf; offeiriad, gwr llên.
Parson imparsonee—person mewn goresgyn; periglor mewn goresgyn.

Parsonage, *s.* periglorlaeth, personiaeth, personddod, personoliaeth; persondy, periglordy, periglorfa.
Parsonage house—persondy, periglordy, periglorfa.

Part, *s.* (Ff.; Ll. *pars;* It. *parte*) rhan, darn, dryll, parth, cyfran, rhandwy, ysgâr, dogn; peth; parthed, parthred; tu, plaid, ochr, ystlys; dyledswydd; gweithred.
In part—mewn rhan; llug.
First and principal part—cynran, y gynran.
For the most part—gân mwyaf, yn amlaf, fynychaf, yn fynychaf; oddi eithr ychydig; yn agos.
For my part—o'm rhan i; am à berthyn i mi; am danaf fi.
Some part—twysg; rhyw ran, rhyw gyfran; rhywfaint.
A considerable part—twysged, talm, swrn, cryn swrn, twysgen: *dim.* syrnyn.
Specific part—rhan benodol, hysbysol, ysbysol, *neu* neilltuol; rhâl.
A little part, } rhenyn, dernyn, &c.; rhan
A small part, } fechan, rhan fach.
Middle part—canolbarth, parth canol, rhan ganol; craidd.
Aliquot part—cydnifer, cydrif, cyfnifer.
Component part—rhan gyfansoddol; rhan elfenol; cyssail; rhifran; sill.
Elementary part—rhan elfenol, rhan elfyddol; sillt.
Constituent part—rhan gyfansoddol, hanfodol, *neu* elfenol; cyssail.
Distinct part, } gosbarth, gwosbarth;
Particular part, } rhan wahanredol, rhan neilltuol.
Two parts—dwy ran, deuparth, deubarth.
To take part—cymmeryd rhan, cymmeryd cyfran; bod yn gyfranog; dysbleidio.
Of one part—unparth.
Good part—rhan dda, madran.
To take in good part—cymmeryd yn dda; cymmeryd mewn rhan dda; cymmeryd mewn ffordd dda; peidio âg anfoddloni wrth beth; bod yn gymmeradwy gân un beth; derbyn yn gymmeradwy.
To take in ill part—cymmeryd yn ddrwg; cymmeryd mewn rhan *neu* ffordd ddrwg; anfoddloni wrth beth; bod yn anghymmeradwy gân un beth.
To take one's part—bod *neu* sefyll o blaid un; pleidio i un; pleidio gydag un; bod ar ran *neu* du un; bod gydag un; pleidio un; dysbleidio un.
This is a fatherly part—dyma ran tad.
I have done my part—mi a wnaethym fy rhan; mi a wnaethym fy swydd.
It was a silly part—gwaith ffol ydoedd.
He acted a silly part—efe a wnaeth yn ffol.
He acted a wise *or* prudent part—efe a wnaeth yn gall; ymddygodd yn gall.
He can play any part—efe a fedr ymrithio yn mhob gwedd *neu* rith.
Who is on our part?—pwy sydd o'n tu ni? pwy sydd ar ein tu ni? [arall.
On the other part—o'r tu arall; ar y tu
On what part soever—o ba du bynag; ar ba du bynag.
The promises on God's part are...—yr addewidion o ran Duw ydynt...

Part, *v.* rhanu; gwahanu, parthu, ysgaru, hollti; dosbarthu; gosod ar wahan *neu* o'r neilltu; ymadael, ymadaw; ymwahanu, ymranu; tori; deoli.
To part asunder—gwahanu, ysgar, dydoli, tori; tynu oddi wrth eu gilydd.
To part asunder of itself—ymwahanu, ymranu; ymhollti.
To part the hoof—hollti yr ewin; fforchogi yr ewin.
To part with—ymadael â.

Partable, *a.* rhanadwy, hyran; parthadwy, hybarth; gwahanadwy; darnadwy.

Partage, *s.* (Ff.) rhaniad, rhanedigaeth, parthiad, ysgariad.

Partake, *v.* (*part* a *take*) bod yn gyfranog, cyfranu, cyfranogi, ymgyfranogi, cydranu, cael rhan; cael rhan yn *neu* o; ysgario.
To partake of—bod yn gyfranog o; cyfranogi; cael rhan o.

Partaker, *s.* cyfranog, cydgyfranog, cyfranogwr, rhanog, cydranwr, cyfranor: *pl.* cyfranogion.
To be partaker of—bod yn gyfranog o; cael rhan o.
To be made partaker of—cael ei wneuthur yn gyfranog o; cael o un ei wneuthur yn gyfranog o; cael rhan *neu* gyfran o.
To be partaker with—bod â'i ran *neu* gyfran gyda.
Be thou partaker of the afflictions of the gospel—cydoddef di gystudd â'r efengyl (2 *Tim.* i. 8).

Partaking, *s.* cyfranogiad, cyfranogaeth, cyfranogrwydd.

Parted, *p. p.* rhanedig, parthedig, &c.; de, han.

Parter, *s.* rhanwr, rhanydd, rhaniedydd, gwahanydd.

Parterre, *s.* (Ff.) gardd flodau, blodeufa, blodeule, blodeuardd, gwullardd, *rhosfa;* llawr chwareudy.

Parthenic, *a.* (Gr. *parthenos*) perthynol i feibion gwyryfon Sparta.

Partial, *a.* (Ff. o'r Ll. *partialis*) tueddol, tueddog, pleidgar, pleidiol, pleidiog, arbleidiol, untuog, untuol; ystlysgar, ochrog; anuniawn, anghyfartal; rhanol, parthol, rhanog, hannerog; anghyflawn; israddol; lled-, go-.

Partialist, *s.* un pleidiol, &c.; pleidgarwr, pleidwr, gwr plaid.

Partiality, *s.* pleidgarwch, tueddolrwydd, tueddoldeb, tueddogrwydd, pleidiolrwydd, pleidioldeb, pleidiogrwydd, tueddgarwch, tueddrwydd, untuogrwydd, untuoldeb, ystlysgarwch, anuniondeb, anghyfartalwch.

Without partiality—yn ddiduedd, yn anmhleidgar; heb dderbyn wyneb.

Partialize,† *v. a.* pleidio, arbleidio, ochri, derbyn wyneb, gwyro barn.

Partially, *ad.* yn dueddol, &c.; yn rhanol, &c.; o ran, mewn rhan.

Partibility, *s.* (o *partible*) hybarthedd, hybarthrwydd, hyranedd; bod yn rhanadwy *neu* barthadwy.

Partible, *a.* (o *part*; It. *partibile*) rhanadwy, parthadwy, hybarth, hyran, gwahanadwy, ysgaradwy, cyfranadwy.

Participable, *a.* cyfranogadwy.

Participant, *a.* (Ll. *participo*) cyfranog, cyfranol, cyfrenin; âg iddo ran *neu* gyfran.

Participant, *s.* cyfranog, cydgyfranog, cyfranogwr, cyfranogydd, rhanog, cyfranor.

Participate, *v.* (Ll. *participo*) bod yn gyfranog, cyfranogi, cyfrannu, ymgyfranogi, ymgyfrannu, cydranu, cael rhan; cael rhan *neu* gyfran o; rhanu, ysgario.

Participation, *s.* cyfranogiad, cyfranogaeth, ymgyfranogiad, ymgyfraniad, cymmeriad rhan, cymmeriad cyfran; rhaniad, cyfraniad, dosbarthiad.

Participative, *a.* cyfranogadwy; à ddichon ymgyfranogi.

Participator, *s.* cyfranogwr, cyfranogydd, ymgyfranwr, ymgyfranydd, ymgyfranogwr, cyfranydd, cyfranwr.

Participial, *a.* (Ll. *participialis*) cyfraniadol, cyfraneius, cyfraneiol, rhangymmeriadol, rhangymmerol, parthgymmeriadol.

Participially, *ad.* yn gyfraniadol, &c.; yn debyg i rangymmeriad; yn ail i rangymmeriad; ar wedd cyfranai *neu* rangymmeriad.

Participle, *s.* (Ll. *participipium*) cyfraniad, cyfranai, rhangymmeriad, parthgymmeriad: *pl.* cyfraniaid, cyfraniadau, cyfraneion.

Present participle—cyfraniad cynnrychol, cyfranai presennol.

Past participle—cyfraniad gorphenol, cyfranai gorphenedig.

Particle, *s.* (Ll. *particula*; Ff. *particule*) rhenyn, dernyn, dryllyn, rhan fechan, mymryn, gronyn, rhonyn, temig, timyn, hyfflyn, yfflyn, chwythryn, eflyn, as, ith, tib, tip, telchyn, ticyn, tipyn, yffl, hyffl, talch, til, cymmelyn, cyrbibyn; mêr, meryn, merad, dafn, defnyn; banyn, geiryn, corair, geiryn didreigl, arsill: *pl.* dernynau, rhonos, ithion, yfflon, temigion, tipiau, ticynau, tibion, rhwtion, cyrbibion, timion, tilion.

Broken particles — malurion, teilchion, talchedigion, briwion; dernynau *neu* demigion briw.

Flying particles—lluwchion; manhedion.

Small particles — mân ddernynau, &c.; hilion.

Minute particle—til, timyn; rhenyn bychanig.

Formative particle—banyn dyluniol, geiryn lluniol.

There is not a particle of it—nid oes yfflyn, hyfflyn, mymryn, *neu* chwythryn o hono.

Parti-coloured, *a.*=*Party-coloured.*

Praticular, *a.* (Ysp. a Port.; Ff. *particulier*; Ll. *particularis*) neilltuol, penodol, hysbysol' ysbysol, enwedigol, enwedig, gosbenol; priod' priodol; gwahanedig; unigol; arbenig; odiaethol; manwl, manol; hynod.

A particular person—un, rhyw un, rhywun, dyn neilltuol.

Particular kind — rhyw neilltuol, math benodol, parthryw.

Particular, *s.* peth neilltuol, pwnc neilltuol, peth penodol, pwnc penodol, rhan benodol; pwnc, peth, aelod, cymmal, rhan; pen; un peth; unigolyn; gosbarth, gwosbarth, gosben, dosben, rhâl: *pl.* neilltuolion, manylion.

In particular—yn neilltuol, yn enwedig, yn enwedigol, yn ysbysol, yn benodol; bob un ac un; bob un wrth ei ben; ar ei ben ei hun; o'r neilltu; yn anad dim; yn benaf dim; yn anad neb; yn bendifaddeu.

In every particular—yn mhob peth; yn mhob dim; yn mhob peth *neu* bwnc neilltuol; yn mhob rhâl.

Of the particulars I have given order—am y pethau hyn oll ar eu penau mi a rois orchymyn (2 *Mac.* xi. 20).

Members in particular—aelodau o ran (1 *Cor.* xii. 27).

Leaving to the author the exact handling of every particular—gân adael bod yn fanwl am bob peth i'r awdwr (2 *Mac.* ii. 28).

Particularism, *s.* neilltuoliaeth; athrawiaeth etholedigaeth neilltuol.

Particularists, *s. pl.* Neilltuoliaid; y rhai a ddaliant athrawiaeth etholedigaeth neilltuol.

Particularity, *s.* neilltuolrwydd, neilltuoldeb, penodoldeb, penodolrwydd, arbenigrwydd, rhaledd; manyldeb; unigolrwydd.

Particularization, *s.* neilltuoliad, penodiad, penodoliad, gosbarthiad; crybwylliad pethau yn neilltuol.

Particularize, *v.* neilltuoli, penodi, penodoli, manwl nodi; enwi, crybwyll, nodi, *neu* benodi pethau yn neilltuol; son am beth yn bendant; gosbarthu, gwosbarthu, dosbenu.

Particularly, *ad.* yn neilltuol, &c.; bob un ac un; bob yn un ac un; bob un wrth ei ben; wrth eu penau; gerfydd eu penau; ar ei ben ei hun; o'r neilltu; bob yn rhan; yn anad dim; yn bendifaddeu.

Particulate,† *v. a.* crybwyll, son am.

Parting, *s.* (o *part*) rhaniad, parthiad, parthiant, parthawd, rhanedigaeth, cyfraniad, dybarthiad, dosbarthiad, gwahaniad, ysgariad, deoliad, dead; ymadawiad; ymraniad, ymwahaniad; ysgar; fforchiad, fforchogiad; toriad.

At the parting of the way—ar y groesffordd.

Parting cup—ymadgib; cwpan ymadael; cwpan heddwch wrth ymadaw.

Partisan, *s.* (Ff. o'r Ll. *pars*, *partis*) pleidiwr, pleidwr, pleidydd, pleidgarwr, cefnogwr, hysgwr; â fo o blaid un; cadbleidydd, cadbleidiwr, blaenor cadblaid; cadblaid.

Partisan, *s.* (Ff. *pertuisane*) ffonfwyell, rheinfwyell, isarn, rhethren, gwaewffon.

Partisanship, *s.* pleidwriaeth, pleidyddiaeth, ymlyniad wrth blaid.

Partite, *a.* rhanedig hyd y bon; rhanedig, parthedig, gwahanedig.

Partition, *s.* (Ll. *partitio*) rhaniad, rhanedigaeth, parthiad, parthiant, parthawd, dosbarthiad, gwahaniad, ysgariad, dydoliad, dead, deawd, dyraniad, gwahaniaeth, gwahanedigaeth, parthrediant; parth, esran; canolfur, palis, parwyd, pared, plaid, ysbûr; esbarthiad.

Partition-wall—canolfur, gwahanfur.

The middle wall of partition—canolfur y gwahaniaeth.

Partition, *v. a.* parthu, rhanu, dosbarthu, ysgario; rhanu yn rhanau; parwydo, paliso.

Partitive, *a.* cyfranedigol, rhanedigol, cyfranol, dosbarthol, dosbarthiadol.

Partlet,† *s.* (o *part*) torch gwddf, crych mwnwgl, crychwisg; iar.

Partly, *ad.* mewn rhan, yn rhanol; o ran; weithiau; llug, syrn; go-, lled-; glas; brith.

Partly to know—gowybod, lledwybod, gwybod o ran, gwybod mewn rhan, gwybod yn rhanol; brith adnabod.

Partly to believe—syrn goelio, brith goelio, gosgredu, gogredu, lledgredu, lledgoelio, coelio mewn rhan.

Partly strong—gogryf, lledgryf, syrn gryf.

Partly welcome—glasresaw, glasgroesaw.

Partner, *s.* (o *part*) cydranog, cyfranog, cyfranogwr, cyfranogydd, cyfranor, cydwr, rhanog, rhanogydd, cydberchenog, cydberchen, cyttrinwr; cyfaill, cydymaith, cyfalle; cymhar, cydwedd.

Partnership, *s.* cyfranogaeth, cyfranoriaeth, cydranogaeth, cyttriniaeth; cymdeithas, cyfeillach, cydymdeithas; cydfasnach, cydfaelioriaeth, cydfaelieraeth.

To enter into partnership—myned *neu* ymrwymo mewn cymdeithas.

To break off partnership—tori cymdeithas.

Partridge, *s.* (Gr. a Ll. *perdix;* Ff. *perdrix;* Gw. *patrisg*) petrusen, coriar, clugiar: *pl.* petrus, corieir, clugieir.

Red-legged partridge, } petrusen goes-
Guernsey partridge, } goch.

Partridge-wood—petrusgoed, petruswydd.

Parts, *s. pl.* doniau, arddoniau, galluoedd, cynneddfau, teithi, atteithi, doniau naturiol, athrylith, cadeithi; parthau, ardaloedd; rhanau; aelodau.

A man of great parts—un mawr ei ddoniau; dyn mawr ei ddoniau; un mawr-ddawn, un doniog.

A man of mean parts—un gwàn ei ddoniau *neu* athrylith; dyn gwàn ei ddoniau *neu* athrylith; un pwl ei synwyrau.

In these parts—yn y parthau hyn; yn y gwledydd hyn; yn yr ardaloedd hyn.

From what parts are you come?—o ba wlad y daethoch? o ba wlad y deuwch?

Distribution of parts—dosbarthiad *neu* drefniad rhanau; cyfansoddedigaeth.

Parts of speech—rhanau ymadrodd.

In two parts, } yn ddwy ran.
Into two parts, }

To divide into three parts—traianu, trianu; rhanu *neu* wneuthur yn deiran; rhanu yn dair rhan.

To divide into two equal parts—deubarthu; rhanu *neu* dori yn ddau; rhanu yn ddwy ran; rhanu yn ddwy ran gyfartal.

The back parts—y tu cefn; y cefn; y rhanau ol.

The hind, hinder, hindmost, *or* hindermost parts—y tu ol; y rhanau ol; y pen ol.

The lower parts of the earth—isellerau y ddaiar; gwaelodion y ddaiar; parthau isaf y ddaiar.

The nether parts of the earth—parthau isaf y ddaiar; y tir isaf (*Esec.* xxxi. 14).

Outmost, utmost, outermost, *or* uttermost parts—eithafoedd, terfynau, terfynau eithaf.

Secret parts—dirgel leoedd, dirgeloedd, dirgelwch, rhanau dirgel, dirgel ranau, gwarthle, gwarthfa.

Consisting of many parts—lluosbarth, lluosbarthog, amrybarth, lluosran, lluosranog.

Parturiate, *v. n.* (Ll. *parturio*) esgor, bod yn esgor, geni.

Parturient, *a.* (Ll. *parturiens*) yn esgor, ar esgor, esgoredigol; yn dwyn i'r byd; ar ddwyn i'r byd.

Parturition, *s.* esgoriad, esgoriant, esgoredigaeth, esgor, esgorfa.

Party, *s.* (Ff. *partie;* o'r Ll. *pars*) plaid; tu, ystlys, parthred; un, rhyw un, rhywun, ansawd, dynsawd; cydrawd, cydwriaeth; cwlwm o gydwyr, o gymdeithion, *neu* o gyfeillion; torf, cymdeithas, cyttorf, cydymdaith; cymdeithion.

The parties (that contend at law)—y pleidiau, y cynhenusion, y dadleuwyr, pleidiau y dadleuwyr.

A party of pleasure—cydrawd dywenydd, difyr gydymdaith, difyr gydymeithas; cwlwm o gyd-ddifyrwyr.

The two female parties—y ddwyliw.

Party rage—pleidwyn, gwŷn at blaid, pleidfar, tueddfryd at blaid, awyddfryd at blaid, serch at blaid, gwyllt-serch at blaid.

Party (in composition)—pleid-, cyd-.

Party, *p. p.* rhanedig, parthedig: arferedig mewn herodraeth.

Party per pale—rhanedig gàn gledren: maes arfau yn cael ei ranu gàn linell unionsyth.

Party per bend—rhanedig gàn dalaith: maes arfau yn cael ei ranu gàn linell o ochr dde y top i ochr aswy y gwaelod.

Party per fesse—rhanedig gàn ffas, ffunen, *neu* wregys: maes wedi ei ranu gàn linell o ystlys bwygilydd.

Party per chevron—rhanedig gàn gwpl; parthedig gàn gebron: maes arfau wedi ei ranu gàn y fath linell ag a gynnorthwya i wneuthur cwpl.

Party-coloured, *a.* brith, amliwiog, amryliw, amliw, brithliwiog, brithliw: *f.* braith.

Party-jury, *s.* cymmysgraith hannerog, rhaith ddau hanner, rhaith hannerog.

Party-man, *s.* pleidiwr, pleidwr, pleidydd, gwr pleidiol, gwr untuog, pleid-ddyn, gwr plaid, cydwr, gwr cyd, pleidgarwr, pleidgarydd.

Party-spirit, *s.* ysbryd plaid.

Party-wall, *s.* gwahanfur, canolfur.

Parulis, *s.* (Ll.) crug a chwydd yn nghig y dannedd; llynoryn gorchfannedd.

Parvenu, *s.* (Ff.) gwr pendodi, gwr difonedd, gwr newydd-gyfod, newyddian; un newydd ddyfod i sylw.

Parvis, } *s.* (Ff.) porth eglwys, llanborth;
Parvise, } llanerch *neu* gadlas eglwys; cell uwch porth eglwys.

Parvitude, } †s. (Ll. *parvitas*) bychander, bych-
Parvity, } anedd, bychanrwydd.
Pas,† *s.* (Ff.) cam; blaenoriaeth, blaenafiaeth; hawl i flaenori.
Pasch,† *s.* (Gr. a Ll. *pascha*) Pasc, y Pasc.
Paschal, *a.* (o'r Gr. *pascha*) perthynol i'r Pasc; pascol, pascaidd.
The paschal lamb—oen y Pasc, yr oen Pasc.
Paschal cycle—cylch y Pasc.
Paschal flower—blodeuyn y Pasc, blodyn y Pasc.
Pasch-egg, *s.* wy Pasc, pasc-wy.
Pascuant, *a.* (Ll. *pascor*) porawl, yn pori, yn ymbawr.
Pash,† *s.* (Ys. *fas;* Ll. *facies*) gwyneb; ergyd.
Pash,† *v. a.* taro, taro i lawr.
Pasha, } *s.* (talfyredig o'r Per. *Padi Shah*)
Pashaw, } urddenw à roddir i lywodraethwyr
Pacha, } talcithiau ac ereill, yn ymherodraeth Twrci: Pasha; parthlyw, parthlywydd.
Pashalic, }
Pachalic, } *a.* perthynol i lywodraeth *neu*
Pashawlic, } dalaeth y Pasha; Pashalig.
Pashalic,
Pashalik, }
Pachalic, } *s.* talaeth, llywodraeth, *neu* ar-
Pachalik, } glwyddiaeth y Pasha; Pashalaeth; parthlywiaeth.
Pashawlic,
Pasigraphy, *s.* (Gr. *pas* a *graphê*) ollysgrifeniaeth, ysgrifiaeth gyffredinol.
Pasque-flower, } *s.* (Gr. *pascha*) blodeuyn y
Paschal flower, } Pasc, blodyn y Pasc.
Pasquil, } *s.* (oddi wrth *Pasquino*, gwniedydd
Pasquin, } Rhufeinig, hynod am ei arabedd a'i dduchan) duchan, gogangerdd, dychangerdd, casgerdd; gogan, enllib, sen.
Pasquil, }
Pasquin, } *v. a.* duchanu, goganu; rhoi
Pasquinade, } duchan i; senu.
Pasquillant, } *s.* duchanwr, duchanydd, gogan-
Pasquiller, } wr, goganydd.
Pass, *v.* (Ff. *passer*) myned, myned heibio, myned drwy, pasio, cerdded, neithio, gadu, eban, hybu; treiddio; hwylio yn mlaen; gwario, treulio; bwrw; rhagori, rhagori ar; bod uwch law; bod yn eglurach na; bod yn gyffredin; dyfod drosodd; traethu; brathu; rhoi gwth; anfon, danfon; symmud; hidlo, gyru drwy; diflanu; bod; dygwydd, cymmeryd lle; troglwyddo, trosi; gwneuthur.
To pass along—myned ar hyd y ffordd; myned yn mlaen; myned rhagddo; myned o hyd.
To pass along by—myned heibio i; rhedeg heibio i.
To pass away—myned ymaith; myned heibio; pasio; myned dros; gwario, treulio; peidio, edwi, diflanu, darfod, trengu.
To pass away time—difyru yr amser; treulio yr amser; treulio.
To pass away the time agreeably—difyru yr amser.
To pass by—myned heibio; pasio heibio; edrych dros; esgusodi, esguso; esgeulusо; gadael yn ddigosp *neu* ddigerydd; gadael allan; bod heb ddâl sylw ar; peidio â dâl sylw ar.
To pass on, } myned yn mlaen; myn-
To pass forward, } ed yn y blaen; myned rhagddo, (*f.* myned rhagddi, *pl.* myned rhagddynt); dabredu, eddain.
To pass over—myned drosodd; myned dros; myned ar hyd; croesi, tramwy, trau.
To pass through—myned drwy; myned drwodd; pasio drwy; tryddedu, trwyddaw, trwyddedu.
To pass (as a bill in parliament)—pasio; myned drwy y ty; cael ei gymmeradwyo; bod yn dderbyniedig *neu* gymmeradwy; bod heb ei lysu; myned drwy y ddeu-dy.
To pass a bill—cymmeradwyo ysgrif, pasio ysgrif; neithio ysgrif; hebrwng ysgrif drwy y ty; hebrwng ysgrif drwy y ddeu-dy.
To pass an account—pasio cyfrif; rhoi cyfrif i mewn; rhoi ei gyfrif i mewn; gwneuthur cyfrif; cymmeradwyo cyfrif; derbyn cyfrif; goddef cyfrif; neithio cyfrif.
To pass a compliment on one—canmawl un; moli un; cymmediwo un; talu anrhydedd i un.
To pass currently—bod yn rhugl.
To pass currently, } cerdded; bod yn gym-
To pass, } meradwy; pasio.
To pass money—rhoi arian ar gerdded; gyru arian ymaith; gyru arian ar gerdded; peri *neu* wneuthur i arian fyned; pasio arian.
To pass for—myned yn lle; cael ei gymmeryd yn lle; peri myned yn lle; rhoi yn lle; somi âg un peth yn lle peth arall.
To pass examination—cael ei dderbyn; bod yn gymmeradwy; myned yn llwyddiannus drwy arholiad; cael ei holi.
To pass under examination—myned dân holiad; cael ei holi.
To pass a poor person to his parish—anfon, symmud, *neu* symmudo tlawd i'w blwyf.
To pass sentence—rhoi barn, rhoi brawd; dadgan barn, cyhoeddi barn, traethu barn.
To pass one's word for one—rhoi ei air *neu* ei addewid dros un; ymrwymo, addaw, *neu* feichnïo dros un.
To pass upon—cael ei dderbyn *neu* ei gymmeryd gân; myned yn lle; cael ei gymmeryd yn lle.
To come to pass—bod; dygwyddo, dygwydd, damweinio, damchweinio, dyfod i ben, hapio.
It came to pass—bu; dygwyddodd, &c.; deddyw.
To bring to pass—dwyn i ben; cyflawnu, gorphen, gorphenu, perffeithio, effeithio, gwneuthur, gwneyd, cwblhau, dybenu, talmu, cwpla.
To let pass—gollwng heibio; gollwng i fyned; gadaw i ddianc; gadaw i fyned ymaith.
To be well to pass—bod mewn ansawdd da; bod yn dda ei ansawdd; bod yn gynhes yn y byd; bod yn gyfoethog.
To pass, } dianc yn
To escape without censure, &c. } ddigerydd, yn ddigosp, yn ddinod, *neu* yn ddilysiant.

To pass the winter—bwrw y gauaf; treulio y gauaf.

He passed his life in obscurity—treuliodd ei einioes mewn dinodedd; efe a dreuliodd *neu* a helodd ei einioes mewn tywyllwch; treuliodd ei oes yn anenwog *neu* yn ddisenw.

Sihon...would not let us pass by him—ni fynai Sehon...ein gollwng heb ei law (*Deut.* ii. 30).

He can never make this thing pass upon the people—nis dichyn efe byth beri i'r bobl gynnwys, ganiatäu, *neu* oddef hyn o beth; nis dichon efe byth beri i'r bobl ymfoddloni yn hyn o beth.

The peace of God, which passeth all understanding—tangnefedd Duw, yr hwn sydd uwch law pob deall.

Pass, *s.* bwlch, adwy, culffordd, trawien, tramwyfa, mynedfa, ffordd, ffor, ffosp, drws, agorfa, trawdd, gwanar; mudwarant, gwarant symmud; teithgynnwys, llythyr ymdaith, teithdrwydded, teitheb, trwyddyd, trwydded, cynnwysiad; gwth, engwth, arfwth, hergawd, hergwd, ymgais i wanu; cyflwr, sefyllfa, ansawdd.

A pass between two mountains—drws dan fynydd; bwlch dau fynydd.

He is come to a sad pass—y mae efe wedi dyfod i anghyflwr; y mae efe wedi dyfod i gyflwr annedwydd; y mae efe wedi dyfod i sefyllfa anhyfryd.

Things are come to that pass, that...—y mae peth wedi dyfod i'r fath sefyllfa, fel...

Passable, *a.* (o *pass*) hyffordd, hylwybr, tramwyadwy, pasadwy; à aller myned ar hyddo; à aller ei dramwyo; i'w gerdded; hydraidd, treiddiadwy; croesadwy; derbyniol, cymmeradwy; canolig, iawndda, symol, rhwng y ddau, cyffredin; à wna y tro; goddefadwy, goddefol.

Passably, *ad.* yn ganolig, yn gyffredin, yn weddol.

Passade, } *s.* gwth, engwth, arfwth, hergwd,
Passado, } hergawd, ysgwthiad; ymgais i
Pass, } wanu.

Passade, *s.* (Ff.) pasawd, neithawd; tro march yn ol ac yn mlaen ar yr un tir.

Passage, *s.* (Ff.) tramwyfa, mynedfa, ffordd, ffosp, rhodfa, bwlch, drws, agorfa; mynediad, mynediad trosodd, tramwyad, treiddiad, tramwy; trosfynediad; taith; trwydd, trwydded, tryddyd, trydded; troesglwyddiad, trosiad, trosglwydd, trawsglwydd; trosfa; rhyd; ceubalfa; mordaith; lle, màn; ymadrodd, gwers, adran, rhaneb, rhan o gyfansoddiad; dygwyddiad, dygwydd, amgylchiad, traill, ham; porthlog, ariau trosglwydd; ag, ebri; triniaeth.

The passage of water—cerhynt dwfr, hytynt dwfr.

Passage-boat — trosfad, trosglwyddfad, tramwyfad, bad trosglwydd.

Birds of passage—adar tramwyol, adar tramwy; adar symmudol.

Pedestrian, *s.* pedestr, pedestrydd, peddestr, peddestrydd, gwr traed, cerddwr, cerddedwr; cerddwr nodedig: *f.* pedestres, peddestres.
Pedestrianism, *s.* pedestraeth, pedestriad, peddestriad, peddest, pedest, cerddediad, cerdded.
Pedestrianize, *v. n.* pedestru, peddestru, peddu, cerdded ar draed, myned ar draed, cerdded; ymarfer â cherdded; ymarfer o gerdded.
Pedestrious, *a.* pedestraidd, peddestraidd, pedestrol; â gerddo ar draed.
Pedicel, } *s.* (Ll. *pediculus*) ffllurgoes, blodeu-
Pedicle, } goes, deilgoes, coesig; troed, troedyn, coes, *neu* baledryn deilen (a'r cyffelyb).
Pedicellate, *a.* deilgoesog, ffllurgoesog, coesigog, coesigaidd; âg iddo goesig *neu* droedyn.
Pedicular, } *a.* (Ll. *pedicularis*) lleuog, lleu-
Pediculous, } lyd; â haint y llau arno.
Pedicularis, *s.* (Ll.) melsugn, melog, balog fân.
Pediculation, *s.* (o'r Ll. *pediculus*) haint y llau, clwyf y llau, clefyd y llau, y clwyf lleuog.
Pediculus, *s.* (Ll.) lleuen; y llau.
Pedigerous, *a.* (Ll. *pes* a *gero*) coesog, heglog; â choesau iddo.
Pedigree, *s.* (tebygol o'r Ll. *pes*) ach, achwedd, benedd, gwelygordd, asglinen, llinach, llinyn, achlin, gwehelyth, achen; llechres, achrestr, achres; achau.
To trace pedigrees—dwyn achau, olrhain achau.
A writer of pedigrees—achydd, achwr, olrheiniwr achau, hanesydd achau; achofydd.
Pediluvium, *s.* (o'r Ll. *pes* a *lavo*) baddon traed, troedfaddon, pedfedd, pedfaddon.
Pediluvy, *s.* (Ll. *pes* a *lavo*) golchiad traed, pedfaddiad; baddon traed, troedfaddon pedfedd, pedfaddon.
Pediment, *s.* (o'r Ll. *pes*) talfa, talog.
Pedipalpe, } *s. pl.* (Ll. *pes* a *palpo*) pedbalfogion
Pedipalpi, } =llwyth o gorynod.
Pedipalpous, *a.* pedbalfogaidd; perthynol i'r pedbalfogion.
Pedireme, *s.* (Ll. *pes* a *remus*) pedrwyfog, pedrwyfyn: *pl.* pedrwyfogion=math o grestfilyn â'i draed yn gwneyd y tro yn lle rhwyfau.
Pedler, *s.* (o *peddle*; neu o'r Ll. *pes*, *pedis*) man nwyddwr, crachnwyddwr, crachwerthwr, marchnatäwr treigl, marchnadydd treigl, crach-fasnachwr, gwerthwr mân bethau ar hyd y wlad, gwerthwr mân bethau ar draws gwlad, gwicwr, cylchwerthwr.
Pedlers' French — briwiaith, ffregiaith, ffreo, ffreg, brithiaith.
Pedleress, *s.* mannwyddes, crachnwyddes, marchnadyddes dreigl.
Pedlery, *s.* mannwyddau, crachnwyddau, nwyddau crachwerthwyr; crachwerthwriaeth, crach-fasnach, masnach dreigl.
Pedobaptism, *s.* (Gr. *pais* a *baptismos*) bedydd plant, bedydd babanod.
Pedobaptist, *s.* bedyddiwr plant; plsidiwr bedydd plant.
Pedomancy, *s.* (Ll. *pes*, a Gr. *manteia*) pedarmes, troedarmes; dewiniaeth â gwadnau y traed.
Pedometer, *s.* (Ll. *pes*, a Gr. *metron*) camfydrai, camfeidr, camfesur, camraddyr, mesurydd camau *neu* gamrau; teithfesur.
Pedometrical, *a.* camfesurol, camfeidrol, perthynol i'r camfydrai.
Peduncle, *s.* (Ll. *pediculus*) paledryn; coes y blodyn a'r ffrwyth; coesig, troedyn, troed, coes; ffllurgoes.
Pedunculer, *a.* paledrynol, paledrynaidd; perthynol i goes *neu* droed blodau; coesigol; yn tyfu o'r paledryn.
Pedunculate, *a.* paledrynog; yn tyfu ar y paledryn; yn tyfu ar droed *neu* goes blodau.
Pee,† *v. n.* edrych âg un llygad.
Peed,† *a.* unllygeidiog.
Peel, *v.* (Ff. *peler*, *piller*; Ll. *pilo*) pilio, digroeni, dirisglo, dirisgo, diflisgo, dibliago, plicio, deor, dadrisgo, dadgaenu, dadgroeni; dynoethi, dihatru; anrheithio.
Peel, *s.* pil, caen, (*dim.* caenen), croen, rhisgyn, rhisglyn, rhisgl, rhisg, cen, crawen, crofen, tôn, cibyn, plig, hif: *pl.* pilion, plicion, creifion, crafion.
Peel, *s.* (Ff. *pelle;* Ll., It., ac Ysp. *pala*) pil, pil ffwrn, rhawlech, pal ffwrn; crafell i roi bara yn y ffwrn; pil argraffydd.
Peel, } *s.* = { *Pile-tower*, &c.
Peel-tower, }
Peeler, *s.* piliwr, piliedydd, pilydd; anrheithiwr.
Peeling, *s.* piliad, piliant, piliawd, pliciad, &c.; pil: *pl.* pilion.
Thin peeling—pilionen, pilen.
Peep, *v. n.* (Is. *piepen;* Al. *pfeifen;* Ll. *pipio*) cipedrych, cibedrych, ciledrych, llededrych; edrych yn lladradaidd i mewn *neu* allan; ysbïo, ysbiennа, goselu, cel-edrych, edrych yn lladradaidd; edrych trwy dwll; lledymddangos, dechreu ymddangos; estyn ei big *neu* ei ben allan; dangos ei big; pipian, pipianu; lleisio fel cyw.
To peep at—edrych yn lladradaidd ar.
To peep in upon—edrych *neu* lededrych i mewn ar; edrych yn llechwrus; llettywynu i mewn ar.
To peep out, } dechreu ymddangos; estyn
To peep, } ei big *neu* ei ben allan; dangos ei big.
You shall pay for your peeping—chwi a delwch am edrych.
Wizards that peep, and that mutter—dewiniaid, y rhai sydd yn husting, ac yn sibrwd (*Esa.* viii. 19.)
There was none that peeped—nid oedd â ynganai (*Esa.* x. 14).
Peep, *s.* cipedrychiad, cibedrychiad, ciledrych-

iad, cipolwg, gosel, goseliad, lledolwg, lledrych, edrychiad lladradaidd, edrychiad llechwrus, ysbeiennad; cipedrychiad i mewn neu allan; ymddangosiad cyntaf, cynymddangosiad; pipianad, llais pipianllyd.

The peep of the day—toriad y dydd, clais y dydd, toriad y wawr, glasiad y dydd, dychlais y dydd, rhaciad y wawr, llug y dydd, y wawr.

Peeper, *s.* cipedrychwr, cipedrychydd, edrychydd lladradaidd, cipdremiwr, ysbeiennwr, ysbeiwr, ysbïwr; llygad; drych; cyw ar dori y pliségyn.

Peep-hole, } *s.* ysbeiendwll, ysbïendwll, twll
Peeping-hole, } ysbeienna.

Peer, *s.* (Ff. *pair*; Ll. *par*) pendefig, dyledog, pendeddig, arglwydd, arlwydd, cyfurddor, gogyfurdd, por; cymhar, cydymaith, cydradd, un cydradd, cyfeisor, cyfiad.

House of peers—ty yr arglwyddi, ty y pendefigion, pendefiglys.

The twelve peers of France—deuddeg cyfurddor Ffrainc; y deuddeg gogyfurdd o Ffrainc; deuddeg gogyfurdd Ffrainc.

Peers of the realm—arglwyddi y deyrnas; cyfurddorion y deyrnas; cyfurddolion y deyrnas; pendefigion y deyrnas.

Peer, *v. n.* (Ll. *pareo*) ymddangos, dyfod i'r golwg, cil-ymddangos; cipedrych, ysbeienna, edrych yn graff.

To peer into—edrych yn graff *neu* yn daer i mewn i.

To peer upon—edrych yn lladradaidd ar; cipedrych ar, ciledrych ar.

Peerage, *s.* pendefigaeth, cyfurddoriaeth, dyledogaeth, gogyfurddoriaeth, pendeddigaeth; gradd, urdd, urddas, *neu* ystâd y cyfurddolion; y cyfurddorion, y cyfurddolion, y pendefigion, yr arglwyddi.

Peerdom,† *s.*=*Peerage.*

Peeress, *s.* pendefiges, dyledoges, cyfurddores, cyfurddwraig, arglwyddes, arlwyddes.

Peerless, *a.* digymhar, anghymharol, digyffelyb, anghymmath, anghyfath, dïeisor, digyfeisor, diail.

Primrose peerless—gylfinog.

Peerlessness, *s.* anghymharoldeb, anghyfartaledd, anghyfartalrwydd; bod yn ddigymhar.

Peevish, *a.* (llygriad o *perverse*, yn ol *Junius*; o *beesh*; o *bee* yn ol *Skinner*; cyfathrach i *pet*, *petulant*, yn nhyb *Webster*) anniddig, hyddig, anfoddog, gwenwynllyd, anynad, croes, anfwyn, gwynafog, drygnawsus, drygnwydus, anhyfodd, dreng, ffrom, anwesog, afrywiog, sarig, anhyfwyn, traws, anhydrin, drwg ei natur, hwstr; achwyngar.

Peevishness, *s.* anniddigrwydd, anfoddogrwydd, anynadrwydd, drygnaws, hyddigrwydd, hyddigder, croesder, croesineb, anfwynder, ffromder.

Peewit, } *s.* cornicell, cornicyll, corn-
Peeseweep, } chwigl, cornchwiglen, chwilgorn y gwynt, chwilgorn y waen, chwilgorn llwyd, cornor y gweunydd.

Peg, *s.* (o wraidd y Ll. *pango*, *pactus*, Gr. *pêgnumi*, yn ol *Webster*; C. *pig?*) hoel bren, pin pren, pinhoel, pin, hoelen bren, hoel, hoelen, coedhoel, hoelbren; pillyn, pill; cloigyn; ebill, ebillen.

Pegs of a harp—ebillion telyn, gwrachod telyn.

To take one a peg lower—darostwng *neu* dolio balchder un; tori peth ar falchder un; peri trai ar falchder un; tori crib un.

Peg, *v. a.* rhoi, gyru, *neu* daro hoel bren *neu* hoelion pren yn mheth; coedhoelio, pinhoelio; sicrhau â phin bren; sicrhau â chloigyn; hoelio â hoel bren; hoelio â hoelion pren; hoelio â choedhoelion; pillio, ebillio, pinio.

Pegged—pilliog, pilledig, &c.

Pegasus, *s.* (Gr. *peyasos*) ehedfarch yr Awen, adeinfarch yr Awen, march adeiniog yr Awen, march asgellog, Pegasw, Pegasus: enw cydser yn cynnwys 89 o ser: enw llwyth o bysg.

Pegger, *s.* (o *peg*) pinhoeliwr, pilliwr, pilliedydd; sicrhäwr â hoelion coed.

Pegm, *s.* (Gr. *pêgma*) math ar hen beiriant symmudol.

Pegmatite, *s.* (o'r Gr. *pêgma*) cynithfaen.

Peirameter, *s.* (Gr. *peiraô* a *metron*) osfydrai, osfeidyr=offeryn i wybod pa faint yw gwrthryn gwyneb ffyrdd i gerbydau olwynog, &c.

Peirastic, *a.* (Gr. *peirasticos*) osiawl, argeisiol, dargeisiol, cynnygiol, osiedigol; â wna gynnyg *neu* ymgais; â arddengys gynnygion *neu* ymgeisiau.

Peise,† *s.*=*Poise.*

Pekan, *s.* Pecan=math ar wenci neu fronwen.

Pekoe, *s.* te du rhagorol, Peco.

Pelage, *s.* (Ff. o'r Ll. *pilus*) gwisg gwylltfilod, tudded anifeiliaid gwylltion; blew, gwlan, pân, cinwisg.

Pelagian, } *a.* (Ll. *pelagus*) morol, eiglonol,
Pelagic, } eigionig, cefnforol, cenforol; perthynol i'r cyfanfor; yn perthyn i'r dyfnder.

Pelargonium, *s.* (Gr. *pelargos*) pig yr aran, garanbig.

Pelf, *s.* (cyttras â *pilfer*) mwnws, sorod, sothach; arian, mwnai; golud, cyfoeth.

Pelican, *s.* (Ff.; Ll. *pelicanus*; Gr. *pelecan*) pelican, pelig, y pelig.

Peliom, *s.* (Gr. *peliôma*) math o fillfaen: ystralestriad gwaed dugoch.

Pelisse, *s.* (Ff. o'r Ll. *pellis*) pilys, pilysyn, amdrws, ysgîn.

Wearing a pelisse—pilysog.

Pell, *s.* (Ll. *pellis*) croen.

Pellagra, *s.* (Ll. *pellis* ac *æger*) croenwst, cinwst.

Pellet, *s.* (Ff. *pelote*; Ll. *pila*) pelen, pellen, peled, pel; talp, telpyn.

Pellets (in heraldry)—y pelau, y pellenau, y pelenau, gynfain, gynfeini.

Pellet, *v. a.* gwneuthur yn belenau, pelenu.

Pelleted, *a.* pelenog, peledog.

Pellicle, *s.* (Ll. *pellicula*) pilen, croenen, croenyn, pilionen, teneu-groen, huchen; crofen deneu.

Pellitory, *s.* (Ysp. *pelitre*) pelydr.

Pellitory of the wall—paredlys, murlys, murlwyn, barthlys, pelydr y gwelydd, cantafod, canhauol, llysiau y mur, llysiau y pared.

Bastard pellitory—pelydr gwyllt, poerai.

Pellitory of Spain—pelydr Yspaen.

Pellmell, *ad.* (Ff. *pêle-mêle*) yn llwys ddidrefn, blith draphlith, ben draphen; yn derfysglyd; yn gymmysglyd.

Pells, *s. pl.* (Ll. *pellis*) cofrolau, cofiyfrau memrwn, cofiyfrau ar femrwn, rholysgrifau, cofnodau ar blagawd.

Clerk of the pells—ysgrifenydd y cofrolau,

ysgrifenydd y rholysgrifau=swyddog yn yr argedlys.

Pellucid, *a.* (Ll. *pellucidus*) tryloew, gloew, ffloew, trybelid, cyfloew.

Pellucidity, } *s.* tryloewder, tryloewedd, try-
Pellucidness, } loewineb, gloewder, gloewineb.

Pelokonite, *s.* (Gr. *pelos* a *conis*) dulychfaen.

Pelt, *s.* (Al. *pelz;* Ll. *pellis*) irgroen, gin, croen gin, croen giniedig, croen â'r blew arno, croen; ysglyfaeth hebog oll wedi ei llarpio; lluchiad, lluch.

Pelt-wool—gwlan gin, gwlan giniedig.

Pelt, *v. a.* (Ff. *peloter;* Ll. *pello;* Gr. *ballô*) lluchio, taflu, tawlu, bwrw.

To pelt a person with stones—taflu ceryg at un; bwrw ceryg at un; lluchio un â cheryg.

Pelta, *s.* (Ll.) tarian Rufeinig ysgafn fechan; cadell, tarian, bwcled, aes, aestalch.

Peltate, } *a.* (Ll. *pelta*) cadellog, tarianog;
Peltated, } tarianaidd, cadellaidd; ar lun tarian *neu* gadell.

Peltately, *ad.* ar lun tarian; ar ddull cadell; ar wedd bwcled.

Pelter, *s.* (o *pelt*) lluchiwr, lluchiedydd, taflwr, taflediydd, bwriwr, tawlwr.

Peltinerved, *a.* (Ll. *pelta*, a *nerve*) aeswythïog, aeswythenog.

Pelting, *s.* lluchiad, tafliad, byrddiad.

Pelting,† *a.* gwael, diwerth, isel.

Peltmonger, *s.* ginwerthwr, ginwerthydd, masnachwr gimion, ginfaelier, irgroenydd.

Pelt-rot, *s.* gin-feilni, gin-falldod, y clefyd noeth, y clwyf noeth.

Peltry, *s.* (o *pelt*) irgrwyn mynfyrog; irgrwyn â ffwrw *neu* fynfyr arnynt; blewgrwyn, mynfyrgrwyn.

Pelvic, *a.* (o *pelvis*) isgeudodawl; perthynol i'r isgeudod.

Pelvimeter, *s.* (Ll. *pelvis*, a Gr. *metron*) isgeudodfeidr; offeryn i fesur maint yr isgeudod benywaidd.

Pelvis, *s.* (Ll.) isgeudod, isgeudod y bol, iswaelod y bol.

Pemmican, } *s.* cig wedi ei halltu, ei bylori, a'i
Pemmacan, } gymmysgu â brasder.

Pemphigus, *s.* (Ll. *pemphix*) gwysigwst, chwysigwst.

Pen, *s.* (Ll. ac It. *penna;* S. *pinn*) pin, pin ysgrifenu, ysgrifell, graffol, crafiol; †pluen, plufen, aden.

Steel pen—pin dur, ysgrifell ddur.

Pen-case—gwain ysgrifellau, gwain pin ysgrifenu, gwain pinau ysgrifenu.

Pen, *v. a.* ysgrifenu, ysgrifo; cyfansoddi; cyfansoddi ac ysgrifenu.

Pen, *s.* (S. *pinnan*) lloc, cail, ffronc, ffald, cut, cwb; corlan, caeor, corfa; cut ieir, iargut, iardy.

A pen for sheep—corlan, caeor, lloc defaid.

Pen, *v. a.* llocio, ffaldio, ffroncio, cutio; rhoi mewn ffronc, cut, lloc, *neu* ffald; corlanu, caeori, ceilio; cau i mewn, cau ar, argau, carcharu, gwarchau.

Penal, *a.* (Ff. o'r Ll. *pœnalis*, o *pœna;* Gr. *poinê*) cospawl, cospol, cospedigol, penydiol, dialeddol, poenydiol; dirwyol; agored i gosp *neu* ddirwy.

Penality,† *s.*=*Penalty.*

Penalty, *s.* (It. *penalità*) poen, cospedigaeth, cosp; penyd, poenyd; dirwy, camgwl.

Penance, *s.* (Ysp. *penante;* o'r Ll. *pœna*) penyd, penydiaeth; cyfarchwel; edifeirwch, edifarwch, edifeiriant.

To do penance—dwyn penyd; dwyn ei benyd; penydu, penydio.

Penang, *s.* math ar gneuen.

Penates, *s. pl.* (Ll.) tydduwiau, duwiau teulu; tydduwiau yr hen Rufeiniaid gynt.

Pence, *s. pl.* (lluosog o *penny*) ceiniogau.

Three pence—tair ceiniog.

Eighteen pence—deunaw ceiniog, deunaw.

Seventeen pence—dwy geiniog ar bumtheg, deunaw ond ceiniog.

Penchant, *s.* (Ff.) gogwydd, gogwyddad, gogwyddiad, tuedd, tueddiad.

Pencil, *s.* (Ll. *penicillus;* Ff. *pinceau;* Ysp. *pincel*) pwyntel, puntr, puntyr.

Pencil, *v. a.* darlunio, arlunio; paentio; nodi â phwyntel; pwyntelu, puntro.

Pencilling, *s.* pwyntellad, puntrad; darluniad *neu* ddysgriflad â phwyntel.

Pencraft, *s.* llawysgrifaeth, ysgrifenyddiaeth, ysgrifeniadaeth, ysgrifeniaeth, ysgrifyddiaeth, ysgrifiaeth.

Pendant, *s.* (Ff. o'r Ll. *pendeo*) dibynydd, diblyn, bagedyn, dibyndlws, crogaddurn, greinyn, crogedyn, clustlws, bagad; penon, penwn, banerig, baner fechan, baner; crograff, crogreffyn; †dringlyn.

Pendant, } *s.* crogaddurn (mewn adeilydd-
Pendent, } iaeth).

Pendence, *s.* llechwedd, llethr; llechweddiad, llethriad, lledbeiad, gogwyddiad, gogwydd, tueddiad; lledbeirwydd.

Pendency, *s.* (Ll. *pendens*) ansawdd annilys; annilysrwydd, ansicrwydd, ammheuaeth, petrusdod, annherfyndod; dibynrwydd; dibyniad; gohiriad *neu* oed hawl; ansawdd annilys mater mewn dadl.

Pendent, *a.* (Ll. *pendens*) dibynol, crog, yn nghrog, crogedig, crogawl, yn crogi, yn hongian, dibynaidd, yn nibyn.

Pendent rocks—creigiau crog.

Pendent leaf—deilen grog, deilen ddibyn; deilen â gynnelir uwch y llawr.

Pendentive, *s.* crognen, cromnen grog.

Pending, *a.* (Ll. *pendeo*) heb ei derfynu; heb ei benderfynu; yn dibynu; anfarnedig; dàn ystyriaeth; mewn llaw.

Pending a suit—yn oed hawl; tra byddo hawl mewn dadl.

Pending action—hawl ir, hawl anfarnedig.

Pendule, *s.* (Ll. *pendulum*) dringlyn, dibynai.

Pendulosity, } *s.* dibynolrwydd, dibynoldeb,
Pendulousness, } dibyneiddrwydd, dibynogrwydd, dibynrwydd, crogoldeb, crogrwydd.

Pendulous, *a.* (Ll. *pendulus*) dibynaidd, dibynol, dibynog, dibyn, crog, yn nghrog, crogedig, crogawl, yn hongian.

Pendulum, *s.* (Ll.) dringlyn, dibynai.

Penetrability, } *s.* (o *penetrable*) hydreiddedd,
Penetrableness, } hydreiddrwydd, hywanedd; dirnadwyedd.

Penetrable, *a.* (Ff.; Ll. *penetrabilis*) hydraidd, treiddiadwy; à aller *neu* à ellir ei dreiddio; trywanadwy, gwanadwy, hywan; dirnadwy.

Penetrail,† *s.* (Ll. *penetralia*) rhanau nesaf i mewn, rhanau tufewnol.

Penetrale, *pl.* Penetralia, *s.* (Ll.) addolgell; y lle nesaf i mewn i dy; lle dirgel ysgyfala; rhan dufewnol.

Penetrancy, *s.* (Ll. *penetrans*) treiddioldeb,

treiddiolder, treiddiolrwydd, creiddioldeb, creiddineb.

Penetrant, *a.* (Ll. *penetrans*) treiddiol, treiddiedigol, treiddgar; craff, craffus; dydreiddiol, rhwythol, creiddiol; synwyrgraff, dirnadus; rhwythol.

Penetrate, *v.* (Ll. *penetro*) treiddio, athreiddio; myned i; menu; trywanu, gwanu; dydreiddio, trwydo, trwyddaw, ffesu, creiddio; amgyffred, dirnad, dirnadu, deall.

Penetrating, *a.* treiddiol, treiddiedigol, treiddgar, athreiddiol, dydreiddiol; craff, craffus, llym, synwyrgraff, synwyrol, synwyrlym, dirnadus.

Penetration, *s.* (Ll. *penetratio*) treiddiad, traidd, athreiddiad, athraidd, trywan, trywaniad, trwyddiad, trwydiad; mynediad i beth; meniad ar beth; llymder synwyr, cyflymder deall, craffder synwyr, craffder, craffineb, craffedd, callder, dirnadaeth, amgyffred; treiddgarwch.

Penetrative, *a.* treiddiedigol, treiddiol, athreiddiol, treiddgar; craff, craffus, craffain, dirnadus, dirnadol, synwyrgraff, synwyrlym, ffel, call; llym, awchus, awchlym, creiddiol, agde, rhwythol.

Penetrativeness, *s.* treiddioldeb, treiddiolder, treiddiedigolrwydd; craffder, craffineb.

Penfish, *s.* pinbysg=math ar lofenan groenlefn.

Penguin, *s.* (C. *pengwyn;* Ll. *pinguidine*) berasgell, y ferasgell, y pengwyn: math o ffrwyth: *pl.* beresgyll, berasgellod.

Penicil, *s.* (Ll. *penicillus*) goraeth, llieinrwd; pwyntl; math ar gragen.

Penicillate, *a.* pwyntelaidd; ar lun pwyntel.

Peninsula, *s.* (Ll. *pene insula;* It. *penesolo*) gorynys, meisynys, göynys, myniwle.

Peninsular, *a.* gorynysol, gorynysaidd, meisynysol; perthynol i orynys.

The peninsular war—rhyfel yr orynys.

Peninsulate, *v. a.* gorynysu, meisynysu; gwneuthur yn orynys; gwneuthur gorynys o beth; amgylchu o fewn ychydig â dwfr.

Penis, *s.* (Ll.) llosten, llost, plden, pidyn.

Penitence, } *s.* (Ll. *pœnitentia;* Ff. *penitence*)
Penitency, } edifeirwch, edifarwch, edifeiriant, edifarhad; penyd, penydiaeth.

Penitent, *a.* (Ff.; Ll. *pœnitens*) edifeiriol, edifarus, edifar, edifeiriog, edifarhaol, tifar, tifarus; a'r y mae yn ddrwg, yn edifar, *neu* yn ddygn ganddo wneuthur o hono ar fai; y mae yn ddrwg, yn edifar, *neu* yn ddygn ganddo bechu o hono.

Penitent, *s.* un edifeiriol, un edifarus, edifarwr, edifarydd, edifeiriolwr; ymbenydiwr, penyd-ddyn.

Penitents—edifeiriaid, edifeirolion, edifeiryddion, rhai edifeiriol.

Order of penitents—urdd yr edifeiriaid, urdd yr edifeirolion.

Penitential, *a.* (o *penitent;* Ff. *pénitentiel*) edifeiriol, edifarus; à ddaw o edifeirwch; penydiol.

Penitential, *s.* penydlyfr.

Penitentiary, *a.* penydiol; perthynol i benyd.

Penitentiary, *s.* penydiwr, penydydd, gorchymynwr penyd; ymbenydiwr, penyd-ddyn, un yn dwyn ei benyd, un tàn benyd, un tàn ei benyd, dygwr penyd; penydfa, edifeirdy, penytty, penydgell.

Penitently, *ad.* yn edifeiriol, mewn modd edifeiriol, mewn edifeirwch.

Penknife, *s.* (*pen* a *knife*) cyllell binau, cyllell ysgrifenydd, cyllellan, pin-gyllell.

Penman, *s.* (*pen* a *man*) ysgrifenydd, ysgrifenwr, ysgrifydd, ysgrifwr, ysgrifenedydd, llawysgrifydd, llawysgrifwr, llawysgrifenydd; awdur, cyfansoddwr.

Penmanship, *s.* ysgrifenyddiaeth, ysgrifeniaeth, ysgrifiaeth, ysgrifyddiaeth, ysgrifeniadaeth, llawysgrifiaeth, llawysgrifyddiaeth; celfyddyd ysgrifenu; dull ar ysgrifenu; ysgrifenwaith; llawysgrifen, ysgrifen.

Pennached, *a.* (Ff. *pennaché*) rheiddiog, pelydrog, peiliedig; â llinellau *neu* leiniau amryliw ar hyd-ddo.

Pennant, } *s.* (Ff. *pennon*) penwn, penon, ban-
Pennon, } erig, baner fechan, lluman; dyrwyn-raff i godi trymlwyth i long.

Pennate, } *a.* (Ll. *pennatus*) adeiniog, asgell-
Pennated, } og.

Pennatula, *s.* (Ll. *penna*) morbin, y morbin.

Pennaturalia, *s. pl.* y morbinau.

Penned, *a.* (Ll. *penna*) adeiniog, asgellog.

Penner, *s.* (o *pen*) ysgrifenydd, ysgrifenwr, ysgrifydd; gwain pin ysgrifenu, gwain pinau ysgrifenu, gwain ysgrifellau.

Penniform, *a.* (Ll. *penna* a *forma*) adeinaidd, asgellaidd; ar lun plufyn *neu* asgell.

Pennigerous, *a.* (Ll. *penna* a *gero*) yn dwyn plu *neu* esgyll; pluddwyn.

Penniless, *a.* (o *penny*) digeiniog; heb ganddo geiniog i ymgroesi; heb un geiniog; diarian; tlawd.

Pennilessness, *s.* digeiniogrwydd; tlodi.

Penning, *s.* (o *pen*) ysgrifeniad, ysgrifenad, ysgrifeniaeth; dullwedd ar ysgrifenu; cyfansoddiad.

Penninerved, *a.* (Ll. *penna* a *nerve*) amosglog, pinwythïog.

Pennon, *s.*=*Pennant, Pennon.*

Penny, *s.* (S. *penig;* Is. a D. *penning;* Al. *pfennig*) ceiniog.

Two pence—dwy geiniog.

Two pennies—dau ddarn ceiniog.

A two-penny loaf—torth ddwy geiniog.

Four pence—pedair ceiniog, grot, grod.

Penny-cress, *s.* codywasg.

Penny-royal, *s.* breflys, brymlys, brefai, coluddlys, llysiau y coludd, llysiau y gwaed, llyrcadys, llysiau y pwding.

Pennyweight, *s.* pwys ceiniog, ceiniog-bwys=24 gronyn.

Pennywise, *a.* cynnil ar geiniog; call am geiniog.

Pennywise and pound foolish—rhoi'r dorth a gofyn y dafell; cynnil ar geiniog, ar bunt hael byrllawiog; ennill y blewyn a cholli'r bwrn.

Pennywort, *s.* ceinioglys, llysiau ceiniog.

Marsh pennywort—amrain, toddaid wèn, toddedig wèn, cron y gweunydd, dail y gron lleiaf, llysiau y geiniog.

Pennyworth, *s.* ceiniogwerth, gwerth ceiniog.

Penological, *a.* cospofyddol; perthynol i gospedigaeth gyhoeddus.

Penology, *s.* (Gr. *poinè* a *logos*) cospofyddiaeth; athrawiaeth cospau cyhoeddus.

Pensile, *a.* (Ll. *pensilis*) dibynaidd, dibynol, dibyn, crog, crogawl, crogedig; â fo yn nghrog *neu* yn nibyn; llechweddol, llethrol, llethrog, ar ei ogwydd.

A pensile garden—gardd grog, gardd grogedig, gardd ddibynaidd.

Pensileness, *s.* dibyneiddrwydd, dibynrwydd, dibyndra, crogrwydd, crogoldeb; llethroldeb, llethrogrwydd.

Pension, *s.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *pensio*) cyfarwys, cyfarws; talobrwy, talwobr, talobr, tâl blyneddol; cyllid blyneddol; tâl; segurdal; gwobr.

Pension, *v. a.* cyfarwyso, talobrwyo; rhoi tâl i un; rhwymo tâl wrth un; cynnysgaethu un â thâl blyneddol.

Pensionary, *a.* cyfarwysog, cyfarwysol; yn derbyn tâl blyneddol; yn derbyn cyfarwys; talobrwyog.

Pensionary, *s.* cyfarwysog; un yn derbyn tâl blyneddol; un yn derbyn talobrwy.

Pensioner, *s.* cyfarwysog, talwas; un yn derbyn tâl blyneddol; derbynydd talwobr; gobrwas, cyflogddyn; dibynwr.

Pensive, *a.* (It. *pensivo*; Ff. *pensif*) prudd, athrist, trist, pendrist, athrwm, dilon, arbrudd, pensyn, allwynig, allwynin, anhalar, galarus; myfyr, myfyrgar, meddylgar; dyfrydol, pryderus; brwyn, trymfrydig, trymdde.

A pensive mien—gwedd allwynin, golwg athrist.

A pensive mind—bryd brwyn, med prudd, &c.; brwynfryd.

Pensive tears—deigr anhalar, dagrau prudd.

Very pensive—gordrist, tra thrist, gorbrudd, prudd iawn.

Pensiveness, *s.* prudd-der, pruddineb, athristedd, athristwch, tristwch, tristedd, tristyd, pendristedd, pendristwch; meddylgarwch, myfyrgarwch; brwynfryd, trymfryd, trymfrydigrwydd, dybryder, dyfrydedd, dyfrydwch.

Penstock, *s.* (*pen* a *stock*) argae, pynfarch.

Pent, *p. p.* (o *pen*) llociedig, argauedig, &c.

Pentacapsular, *a.* (Gr. *pente*, a *capsule*) pumcellog, pumhadgellog.

Pentachord, *s.* (Gr. *pente* a *chordê*) pumtant, pumcord, offeryn pumtant.

Pentacoccous, *a.* (Gr. *pente*, a Ll. *coccus*) pumgronynog, pumhadog.

Pentacoster, *s.* (Gr.) pumdengwriad (yn Groeg gynt).

Pentacostys, *s.* (Gr.) pumdeg o wŷr, pumdeg o filwyr; pumdegwraeth.

Pentacrinites, *s. pl.* (Gr. *pente* a *crinon*) pummillogion=llwyth o grasgroenogion.

Pentacrostic, *a.* (Gr. *pente*, ac *acrostic*) pumpenenwol.

Pentacrostic, *s.* pumpenenw, pumpenenwad.

Pentadactyl, *s.* (Gr. *pente* a *dactulos*) pumbys; palm Crist; y pysg pumbys.

Pentagon, *s.* (Gr. *pente* a *gônia*) pumongl, pumochr, peth pumongl, llun pumongl, llun pumonglog; caerfa bumongl.

Pentagonal, } *a.* pumonglog, pumongl, pum-
Pentagonous, } conglog; â phum ongl iddo.

Pentagraph, *s.* (Gr. *pan* a *graphô*) graddluniadyr, graddluniodr, cynlluniadyr.

Pentagraphic, } *a.* graddluniadyrol, gradd-
Pentagraphical, } luniodrawl, cynlluniadyrol.

Pentagyn, *s.* (Gr. *pente* a *gunê*) pumbenyw, planigyn pum benyw.

Pentagyns—y pumbenyw, y llwyth pumbenyw.

Pentagynia, *s.* pumbenyw, y pumbenyw, y llwyth pumbenyw.

Pentagynian, } *a.* pumbenywaidd, pumbenyw.
Pentagynous, }

Pentahedral, } *a.* pumochrog, pumochrol,
Pentahedrous, } pumochr; âg iddo bum ochr.

Pentahedron, *s.* (Gr. *pente* a *hedra*) pumochr, llun pumochr, llun pumochrog, peth pumochrol.

Pentahexahedral, *a.* pumcubaidd, pumchwegyfochr.

Pentamerans, } *s. pl.* (Gr. *pente* a *mêros*) pum-
Pentamera, } reddogion, pumreddogod.

Pentamerous, *a.* pumranog, pumranol; â ranwyd yn bum rhan.

Pentameter, *s.* (Gr. *pente* a *metron*) pumcorfan, pumcorfanog, mydr pum corfan, mesur pumbanog, mydr pumbanog, pumbanog, mydr pumtroed, gwers bumtroed: *pl.* pumbanogion, pumcorfanau, pumcorfanogion.

Pentameter, *a.* pumbanog, pumban, pumcorfanog.

Pentander, *s.* (Gr. *pente* ac *anêr*) pumgwryw, planigyn pumgwryw.

Petandria, *s.* Pumgwryw, y Pumgwryw=enw y bummed genedl o blanigion, yn nhrefniant Linnæus.

Pentandrian, } *a.* pumgwrywaidd, pumgwryw-
Pentandrous, } ol, pumgwryw; deurywiog.

Pentangular, *a.* (Gr. *pente* ac *angular*) pumonglog, pumongl, pumcornelog, pumconglog; â phum ongl iddo.

Pentaphylloidal, *a.* (Gr. *pente*, *phullon*, ac *eidos*) pumdalenaidd, pumnalenaidd; tebyg i bum dalen.

Pentapetalous, *a.* (Gr. *pente* a *petalon*) pumfflurddeiliog; âg iddo bump o flodeuddail.

Pentaphyllous, *a.* (Gr. *pente* a *phullon*) pumdeiliog, pumdalenog, pumnalenog, pumdalen.

Pentasepalous, *s.* (Gr. *pente*, a *sepal*) pumcibranog.

Pentapast, *s.* (Gr. *penteô* a *spaô*) peiriant â phum chwerfan iddo.

Pentaspermous, *a.* (Gr. *pente* a *sperma*) pumhadog.

Pentastich, *s.* (Gr. *pente* a *stichos*) pumban; cyfansoddiad o bum gwers neu fan; cân bumbraich.

Pentastyle, *s.* (Gr. *pente* a *stulos*) adail â phum colofn o'i blaen; pumpillres.

Pentateuch, *s.* (Gr. *pente* a *teuchos*) pumllyfr, llyfr pumran, pum llyfr; Pumllyfr Moesen, Pum llyfr Moses.

Penteconter, *s.* (*pentêcontoros*) llong bumdeg rhwyf (yn Groeg gynt).

Pentecost, *s.* (Gr. *pentecostê*) Pentecost, y Pentecost; Sulgwyn, y Sulgwyn, gŵyl y Sulgwyn.

Pentecostal, *a.* perthynol i'r Sulgwyn.

Pentecostals, *s. pl.* offrymau Sulgwyn.

Penthouse, *s.* (Ff. *pente*, a *house*) penty, rhagdo, olier; bwriad â fo wrth ystlys adeilad.

Pentice, *s.* (It. *pendice*; Ll. *pendo*) nen ledbai, nen osgoawl, lleddf-do, lleddnen.

Pentile, *s.* (Ff. *pente*, a *tile*) cafnbeithynen, crombeithynen, pantbeithynen.

Penult, } *s.* (*penultimus*) y sill olaf ond un
Penultima, } (mewn gair), goben, sill obenol.

Penultimate, *a.* olaf ond un, gobenol.

Ante-penultimate — rhagobenol; olaf ond dwy.

Penambra, *s.* (Ll. *pene* ac *umbra*) gogysgod, cysgod anmherffaith.

Penarious, *a.* (o'r Ll. *penuria*) cybyddlyd, cybyddus, llawgaead, llawgauad, anhael, crintach, cyrrith, cyrrithus, crinwasaidd, tra chynil, rhygynnil, llawgaled, anllawgar, anghawr, anhylad; prin; bawaidd.

Penariousness, *s.* cybydd-dod, cybydd-dra, cybyddusrwydd, crintachrwydd, anhaelder, cyrrithrwydd, cynnilwch, &c.

Penury, *s.* (Ll. *penuria*) tlodi, tlodedd, angen, angenoctyd, angenusrwydd, eisieu, eisiwed, rheidusedd, rheidusrwydd, prinder, mawr dlodi, dirangen.

Peon, *s.* (o'r Hindwstanaeg, *piadak*) milwr traed, pedfilwr; un o filwyr traed yr India.

Peony, } *s.* (Ll. *pœonia*; Gr. *paiônia*) coronllys,
Piony, } daiarllys, blodau y brenin, rhosyn y mynydd.

People, *s.* (Ll. *populus*; Ff. *peuple*; Al. *pobel*) pobl; pobloedd; maon; cenedl, ciwdod; trigolion, gwladogion; gwŷs.

Peoples—pobloedd.

The people of the country—pobl y wlad; trigolion y wlad.

Prince and people—tywysog a deiliaid.

The common people—y bobl gyffredin, y cyffredin bobl, y bobl iselradd, y werin, y werinos, y werin bobl, adlawiaid, adfaon, taiogion, gwreng, pobl y wlad, breing.

The lower sort of people—gwehilion y bobl; poblach; y werin bobl.

Low people—poblach; dynionach.

Little people—dynos, dynionos.

Full of people—poblog, llawn pobl, llawn o bobl.

What will people say?—beth a ddywed dynion? beth a ddywed pobl? beth a ddywedant hwy?

People, *v. a.* pobli, poblogi; llenwi o bobl *neu* drigolion; llenwi â phobl.

To people a country—pobli *neu* boblogi gwlad; llenwi gwlad o bobl *neu* drigolion; llenwi gwlad â phobl; anfon pobl i breswylio mewn gwlad ddidrigian; llenwi lle o bobl *neu* drigolion.

Peopled, *p.p.* pobledig; preswyliedig.

Peoplish, *a.* poblaidd, gwerinaidd, cyffredin.

Pepastic, *s.* (Gr. *pepainô*) addfedai, addfedydd; cyffyr i beri i archollion addfedu a chrawnu.

Peplis, *s.* (Gr.) pwrpin, porpin, troed y gywen.

Pepper, *s.* (Ll. *piper*; S. *peppor*; Al. *pfeffer*) pupyr, pupr, poethlys, poethrawn.

Long pepper—pupyr hirion.

Wall-pepper—pupyr y fagwyr, clauarllys, bywfyth leiaf.

Pepper-caster—puprel.

To season with pepper—tymmeru â phupyr; rhoi pupyr ar beth; pupyro, pupro.

Pepper is black, yet it hath a good smack—llawer hagr, hygar fydd.

Pepper, *v. a.* pupyro, pupro; tymmeru â phupyr; rhoi pupyr ar beth; curo, dulio, pwyo; llurgunio â dyrnodiau; lluchio â haels.

Pepper-box, *s.* blwch pupyr, puprel.

Pepper-cake, *s.* teisen bupyr.

Pepper-corn, *s.* pupren, poethronyn.

Pepper-grass, *s.* pelanllys, pelanllys gronynog, pupyr y ddaiar.

Peppering, *a.* poeth, llym, gorllym, iddas; mòr boeth a'r pupyr; dig, nawswyllt.

Peppering, *s.* curfa, maeddgen, crasfa, golchfa.

Peppermint, *s.* pupyr-fintys, mintys poethion.

Peppermint water—dwr mintys poethion, dwfr pupyr-fintys.

Pepper-tree, *s.* puprwydden, y pren pupyr.

Pepper-water, *s.* poethlyslyn, poethlyswy, dwfr pupyr.

Pepperwort, *s.* pybyrllys, pupyrllys.

Broad-leaved pepperwort—pybyrllys llydanddail, berwy gwyllt, berwr gwyllt.

Peppery, *a.* pupraidd; fel y pupyr; poeth, nawswyllt.

Peptic, *a.* (Gr. *pepticos*) perthynol i dreuliad ymborth; treulbair, treuliannol; â bar draul bwyd.

Per, rhagddawd. Lladin, yn dynodi *trwy, tryf, trwodd; yn gyflwyr, yn llwyr, yn hollol, achlân; gor-, tra-, ar-; gàn, gyda, wrth.*

Per annum—yn y flwyddyn, y flwyddyn.

Twenty pounds per annum—ugain punt y flwyddyn; ugain punt yn y flwyddyn.

A shilling per day—swllt y dydd; swllt yn y dydd.

Per centum, } wrth y cant, yn y cant, y
Per cent. } cant.

Five per cent.—pump y cant; pump yn y cant; pum punt y cant.

Per bearer—gàn y dygiedydd; yn llaw y dygiedydd; gyda'r dygiawdr.

Pera, *s.* darn bath Tyrcaidd, gwerth o ddeutu hatling.

Peracute, *a.* (Ll. *peracutus, per* ac *acutus*) gorllym, trallym, tra llym, llym iawn, arllym, angerddol dros ben, tra angerddol.

Peradventure, *ad.* (Ff. *per* ac *aventure*) ysgatfydd, ef allai, efallai, fe allai, odid, ond odid, osid, osyd, hwyrach, nid hwyrach, agatfydd, adfydd, dichon, e ddichon.

Peragrate, *v. n.* (Ll. *peragro*) trywibio, crwydro, gwibio, trawswibio, trawsgrwydro, tramwyo, rhodiaw o amgylch, myned drwodd, myned dros gwbl o le, trampio.

Peragration, *s.* (Ll. *peragratio*) trywibiad, crwydrad, crwydredigaeth, crwydr, gwibiad, gwibiawd, tramwyad, trawswibiad, trawsgrwydrad, trawsymdeithiad; mynediad *neu* wibiad dros gwbl o le; crwydrad o hyd; mynediad trwodd, ymdeithiad trwodd.

Perambulate, *v. a.* (Ll. *perambulo*) amdeithio, amrodio, amdramwy, amdramwyo, gorymdeithio, cylchrodio, myned trwy, myned dros, myned o amgylch, rhodio trwy, rhodio dros, rhodiaw o amgylch, gorymdaith trwy, gorymdaith tros, gorymdeithio trwy, gorymdaith o amgylch, cylchdeithio, cylchgrwydro, tramwyo, crwydro, cylchymdeithio trwy.

Perambulation, *s.* amdeithiad, amdramwyad, cylchymdeithiad, cylchdeithiad, gorymdeithiad, amrodiad, amrediad, cylchrodiad; mynediad trwodd, trosodd, *neu* oddi amgylch; crwydrad, gwibiad, cylchgrwydrad; amdaith, cylchymdaith, gorymdaith, amdramwy, tramp, gwibdaith, cylchgrwydr.

Parambulator, *s.* rhodiadur, rhodienydd, amdeithydd, cylchdeithydd; pedfesur.

Percase,† *ad.* (*per* a *case*) ysgatfydd, ef allai, osid, hwyrach, ond odid, ar ddamwaen, o ddamwaen.

Perceant,† *a.* (Ff. *perçant*) treiddiol, treiddiedigol.

Perceivable, } *a.* dirnadwy, syniadwy, canfod-
Perceptible, } adwy, canfyddadwy, hysyn, hywel, gweladwy, seliadwy, dealladwy, hydeiml; à ellir ei weled, ei ganfod, ei ddeall, ei deimlo, ei glywed, ei arogli, *neu* ei chwaethu; syniol, dirnadol; amgyffredadwy.

Perceivance,† *s.* y gallu i ganfod, &c.

Perceive, *v. a.* (Ll. *percipio*) canfod, gweled, synio, synied, dirnad, deall, craffu, cynghraffu, gwybod, adnabod, ystyried, clywed, teimlo, arweled, selu, arselu, ceinio, cenio, sylwi; cael; derbyn (à chlustiau).

To perceive beforehand—rhagweled, rhagganfod, rhagddeall, rhagwybod, rhagddirnad.

To perceive a little—goddeall, goddirnad, lledwybod, gosynied, goglywed.

To perceive in one's self—ymdeimlo, ymglywed, ymwybod, ymsynied, ymsynio.

That may be perceived=*Perceivable.*

That may not be perceived, } annirnadwy,
Not to be perceived, } annealladwy, anhyddeall; ansyniadwy, anhysyn; anweladwy, anghanfodadwy, angbanfyddadwy, anhywel, anweledig; anghlywadwy, annheimladwy, anhydeiml, anghraffadwy; nas gellir ei ddirnad, ei ddeall, ei weled, ei glywed, *neu* ei deimlo.

Perceiver, *s.* canfyddwr, dirnadwr, &c.

Percentage, *s.* (o'r Ll. *per centum, per cent.*) canttoll, canttal; hyn a hyn y cant; dognedd *neu* gyfartaledd yn ol y cant.

Perceptibility, *s.* canfodrwydd, hysynedd, synioirwydd, synioldeb; hyweledd, amlygrwydd; hydeimledd; hyglywedd; ansawdd hysyn, hywel, hydeiml, *neu* hyglyw; dirnadwyedd syniadwyedd; canfyddiad, syniad, syn.

Perceptible, *a.* (Ff. o'r Ll. *percipio*)=*Perceivable*, &c.

Perception, *s.* (Ll. *perceptio*) syniad, canfyddiad, canfodiad, gweledigaeth, gweledigaeth, gweledigaeth, dirnadaeth, synied igaeth, arsyniad, seliad, arseliad, darweliad, darweledigaeth, arganfod, amgyffrediad, cyffrediad; argynrith, cynrith, darwel, ymsel; tyb, ymofeg.

Quick of perception—craff, craffus, gorgraff.

Perceptive, *a.* syniedigol, syniadol, syniol, syniannol, gweledigaeth, llafanedigol, cyffredol, selweddol, selweddus, darwel, adnabodawl, cynghraffol; yn gallu canfod, &c.

Perceptivity, *s.* llafanedd, syniolaeth, syniedigolrwydd, syniedigoldeb, synd ra, cynghraffedd.

Perch, *s.* (Ff. *perche*; Ll. *perca*) ysbinbysg, yr ysbinbysg.

Perch, *s.* (Ff. *perche;* Ll. *pertica*) erwydden, erwyd, erwydd, tudlath, pero, llathdir, gwialen, gwielyn, gwialen fesur tir, dilerbren, ystang; erwyddaid, llathaid, ystangaid, gwialenaid, gwialenod, hyd gwialen; esgynbren, clwyd ieir, clwyd; trostan, gweilging, trawsbren.

Perch, *v.* clugio; disgyn *neu* eistedd ar weilging; esgyn i'r weilging; myned i'r glwyd; bod ar y glwyd; eistedd ar erwyd; gosod ar weilging *neu* drostan.

Perchance, *ad.* (*per* a *chance*) ysgatfydd, efallai, ef allai, fe allai, hwyrach, nid hwyrach, osid, osyd, agatfydd, adfydd, ond odid, ar ddamwaen.

Perchers, *s. pl.* (o *perch*) clugadar, adar clug, adar clugiol, clugiedyddion.

Perchers, *s. pl.* canwyllau Paris; canwyllau allor, canwyllau clug.

Perchlorate, *s.* trylashalan; *pl.* trylashalion.

Perchloric, *a.* (*per* a *chloric*) trylasnwyol, tryhoegnwyol.

Perchpest, *s.* (*perch* a *pest*) pla yr ysbinbysg= math ar filyn byohan à ymlyna wrth safn yr ysbinbysg.

Percipience, *s.* canfodiad, syniad, arsyniad, gweledigaeth, gweledigaeth, syniedigaeth.

Percipient, *a.* (Ll. *percipiens*) dirnadol, canfyddol, syniedigol, syniannol, syniadol, gweledigaeth, darwel, sylweddol, sylweddus, adnabodawl, cynghraffol; yn gallu dirnad, &c.

Percipient, *s.* canfyddwr, canfodwr, dirnadwr, dirnadydd, syniedydd.

Perclose,† *s.* diwedd, terfyn, cynghload.

Perclose, } *s.* (Ff. *perclorre*) lle cauedig, lle
Parclose, } cauad, cauadle, mid, midd; bronwal oriel, midwal; gwasgodfa, ffedon; hanner gardas.

Percolate, *v.* (Ll. *percolo*) hidlo, glanhidlo, llwyr hidlo, hidlo yn llwyr; puro.

Percolation, *s.* hidlad, glân hidlad, llwyr hidlad, hidlad llwyr.

Perculaced, *a.* delltog (yn arfau bonedd).

Percursory, *a.* (Ll. *percursus*) brysiog, brysfawr, brysiol, ffrystiog, ffrystiol, ffulliog, buanred, buan, ysgafn, cipdremiol, difyfyr, dasymmwth, ffest, ffestin; à wnaed ar redeg, ar frys, ar ffrwst, yn ddifyfyr, *neu* yn frysiog; arwynebol.

Percuss, *v. a.* (Ll. *percussus*, o *percutio*) taraw yn erbyn, taro wrth, gwrthdaraw, taraw, taro, targu.

Percussion, *s.* (Ll. *percussio*) tarawiad, ergydiad, gwrthdarawiad, targiad; ergyd, taraw, targ, dargnith; dyrnod; arfawd; tawl; cnocell; tarawd.

Percussion-cap—targap, cap cnith, cap ergydiol, cap taro, cnith-gap.

Percussion-lock—clo cnith, clo cnocell, clo ergydiol, clo taro.

Percussive, *a.* tarawol, ergydiol; à darawo, à ergydio.

Percutient, *s.* (Ll. *percutiens*) tarawydd, tarodydd, ergydydd; à darawo.

Perdifoil, *s.* (Ll. *perdo* a *folium*) deilgoll; planigyn à gollo ei ddail bob blwyddyn.

Perdition, *s.* (Ll. *perditio*) colledigaeth; cyfrgoll, llwyrgoll; dystryw;† colled.

The son of perdition—mab y golledigaeth, mab y gyfrgoll.

The people of perdition—cenedl dystryw (*Eccles.* xvi. 9).

Perdu, } *ad.* (Ff. *perdu*) yn nghudd, yn nghel,
Perdue, } dân gudd, dân gel.

To lie perdu—gorwedd yn nghudd; gorwedd yn nghel; gorwedd ar ei fol er ymguddio; cynllwyn.

Perdu, *s.* y gwyliwr nesaf at wersyll y gelynion; cynllwynwr.

Perdu, *a.* gwrthodedig, gadawedig; colledig; anobeithiol, diobaith; anfad, achys, dryglawn.

Perdulous,† *a.* (o'r Ff. *perdu*) colledig, gwrthodedig.

Perdurable,† *a.* (Ff. o'r Ll. *perduro*) tra pharhäus, tra pharhaol, hirbarhäus, hirbarhaol; parhaol i'r eithaf; parhäus, dalus, darfyddol.

Perduration,† *s.* hirbarhad, hir barhad; parhad

hyd yr eithaf; parhad hyd y diwedd; darfydiad.

Perly,† *ad.* (*Ff. par Dieu*) yn ddïau, yn sicr, yn wir, yn wir ddïau, yn ddilys ddïammheu.

Peregal,† *a.* (Ff. *per egal*) cyfartal, cydradd, cyfiol, cystal.

Peregrinate, *v. n.* (Ll. *peregrinor*) pererindota, pererino, pererina; myned i *neu* ar bererindod; ymdeithio, ymdaith, *neu* fyned i wledydd pell; ymdaith, ymdeithio, *neu* fyned i wledydd dyeithr; pell-ymdeithio, dargrwydro, llwybro.

Peregrination, *s.* (Ll. *peregrinatio*) pereriniad, pererinaeth; pererindod; mynediad *neu* ymdeithiad i wledydd pell; ymdeithiad *neu* fyneiad i wledydd dyeithr; ymdaith, pell-ymdaith, pell-ymdeithiad, dargrwydrad, llwybrawd.

Peregrinator, *s.* (Ll.) pererin, adfant; ymdeithiwr i wledydd pell; ymdeithydd i wledydd dyeithr; pell-ymdeithiwr, ymdeithydd.

Peregrin, *a.* (Ll. *peregrinus*) tramor, pellenig, pell, dyeithr, estronol, estron.

Peregrine falcon—cammin, hebog dramor, hebog tramor.

Peregrinity,† *s.* (Ll. *peregrinitas*) dyeithrwch, dyeithrwydd.

Perempt,† *v. a.* (Ll. *peremptus*) lladd; dyfetha, dystrywio, llethu, gwasgu, gorthrechu, diddymu; ysgigo.

Peremption,† *s.* (Ll. *peremptio*) lladdiad, lladdediganeth, llethiad, gorthrechiad, lladd; diddymiad; anhawl, cwymp hawl.

Peremptorily, *ad.* yn bendant; yn ddinag, yn ddïos, yn ddilai; yn benffetur, yn benffetus; yn orchymyngar; dàn fygwth lladd yn ddïannod y neb nid ufyddhao; heb adael lle i ddewis pa un a'i gwneler ai peidio; dàn orchymyn yn ddïos *neu* yn ddilai; yn arbenig.

He stood peremptorily to it—efe a'i haerodd yn ddïysgog *neu* yn daerlud.

Peremptoriness, *s.* pendantrwydd; penodolrwydd, penodoldeb, arbenigrwydd; penffeturedd, penffetusrwydd; meistrolgarwch, gorchymyngarwch.

Peremptory, *a.* (Ll. *peremptorius*) pendant; penodol, arbenig; dilai, dïos, dinag; meistrolgar, meistrolaidd, gorchymyngar; awdurdodol; penffetur, penffetus; penderfynol, terfynol; haer; à fo yn taro yn farw *neu* i farwolaeth; à fyn daro yn farw *neu* i farwolaeth; à fo yn taro i lawr.

Perennial, *a.* (Ll. *perennis*) yn parhau drwy y flwyddyn; à barha drwy y flwyddyn; yn parhau drwy gorff cydol y flwyddyn; à barha drwy gorff cydol y flwyddyn; tryflwyddol; yn parhau mwy na dwy flynedd; gwastadol, didawl, dibaid, bythol, tragwyddol.

Perennial, *s.* planigyn *neu* lysieuyn tryflwyddol; tryflwyddlys, tryflwyddog; planigyn y mae ei wraidd yn parhau yn fyw fwy na dwy flynedd: *pl.* tryflwyddolion, tryflwyddogion.

Perennity, *s.* (Ll. *perennitas*) tryflwyddoldeb, tryflwyddolrwydd, tryflwyddolder; parhad dibaid drwy y flwyddyn; parhausder, bytholrwydd, gwastadoldeb, gwastadolrwydd, bythol barhad.

Pererration, *s.* (Ll. *pererro*) crwydrad *neu* wibiad trwy amryw leoedd; crwydredigaeth, trygrwydrad, gwibiawd, taith, ymdaith, teithiad.

Perfect, *a.* (Ll. *perfectus*) perffaith; cyfan, cyfa, cyflawn, cwbl, digoll, llwyr, cyflwyr, allwyr; gorphenol, gorphenedig, cyflawnedig; pur; difai, dinam; dïell; difwlch; dibech; pyw; uniawn, union; digloff, disgloff; tryfedrus, medrus, perffeith-gwbl; hyfedr.

Perfect tense—amser gorphenol, amser gorphenedig, amser cynnherfynol, y cynnherfyn, amser perffaith.

To make perfect — perffeithio, cwblhau, cyflawnu, gorphen, perffeithioli; gwneuthur yn berffaith, &c.

Perfect, *v. a.* perffeithio, cwblhau, cyflawnu, gorphen, gorphenu, perffeithioli; cywiro; gwneuthur yn hyfedr; cyflawn *neu* berffaith addysgu.

To perfect one in a thing—gwneuthur *neu* beri un yn hyfedr ar beth; perffaith addysgu un yn mheth; perffeithio un yn mheth; gwneyd un yn berffaith yn mheth.

To perfect one's self — ymberffeithio; gwneuthur ei hun yn berffaith; gwneuthur ei hun yn hyfedr.

Perfecter, *s.* perffeithiwr, perffeithydd.

Perfectibility, *s.* (o *perfectible*) perffeithioldeb; hylledd i gael ei berffeithio; y galluedd i gyrhaedd perffeithrwydd.

Perfectible, *a.* (o *perfect*) perffeithiadwy; à ellir ei berffeithio; y galler ei berffeithio.

Perfection, *s.* (Ll. *perfectio*) perffeithrwydd, perffeithder, perffeithdod, perffeithiad; cywirdeb, manyldeb; dinamedd; cyfanrwydd, cyflawnder.

The divine perfections — y perffeithion dwyfol, perffeithion Duw, y perffeithderau dwyfol, y perffeithiadau dwyfol.

Perfection, *v. a.* perffeithio, cwblhau, cyflawnu.

Perfectional, *a.* perffeithiol, perffeithiedig, cyflawnedig.

Perfectionate, *v. a.* perffeithioli, perffeithio.

Perfectionist, *s.* gwr perffaith; ymhonwr i berffeithrwydd; penboethwr crefyddol.

Perfectionment, *s.* perffeithder, perffeithdeb, perffeithdod, perffeithrwydd.

Perfective, *a.* perffeithiedigol, perffeithiol, perffeithiadol; yn tueddu at berffeithiad peth.

Perfectly, *ad.* yn berffaith, &c.

More perfectly—yn fanylach (*Act.* xviii. 26).

To know perfectly—gwybod yn hysbys (1 *Thess.* v. 2).

Ye shall consider it perfectly—deallwch hyny yn eglur (*Ier.* xxiii. 20).

Perfectness, *s.* perffeithrwydd, perffeithdod, perffeithder, perffeithdra; hyfedredd, medredd; cyflawnder, cyfander, cyfanrwydd, llwyrder.

Perficient, *s.* (Ll. *perficiens*) gwaddolwr elusen, doniwr elusen.

Perfidious, *a.* (Ll. *perfidus, perfidiosus*) bradwrus, bradychol, bradychus, bradol, bradus, bradog, bradwrol, bradwraidd, bradfas, twyllgar, bradgar, anffyddlawn, twyllodrus, darfradus, darfradol, ffals, anghywir; à doro ei air *neu* addewid.

Perfidiously, *ad.* yn fradwrus, &c.; trwy dwyll, trwy frad.

Perfidiousness, *s.* bradusrwydd, bradoldeb, bradolrwydd, bradycholdeb, &c.; bradwch, darfrad.

Perfidy, *s.* (Ll. *perfidia*) bradwriaeth, bradwch, bradusrwydd, bradoldeb, bradolrwydd, bradwrusrwydd, bradogrwydd, bradychusrwydd, twyllgarwch, bradgarwch, anffyddlondeb, brad, twyll, darfrad, ffalsedd, anymddiried.

Perflable,† *a.* (Ll. *perflabilis*) trychwythadwy, hychwyth.

Perflate, *v. a.* (Ll. *perflo*) trychwythu, chwythu trwy, chwythu trwodd.

Perflation, *s.* trychwythiad, chwythiad trwy beth.

Perfoliate, *a.* (Ll. *per* a *folium*) tryddeiliog, tryddalenog.

Perfoliate leaf—tryddalen.

Perfoliated, *a.* tryddeilaidd; deilaidd, dalenaidd; tebyg i ddail.

Perforate, *v. a.* (Ll. *perforo*) trydyllu, tyllu trwodd, tyllu trwyddo, tyllu trwy, tyllu, rhydyllu, trywanu.

Perforated, *p. p.* trydwll, (*f.* trydoll), tyllog, amdwll, rhydyllog, tylledig, trywanedig.

Perforated St. John's wort—candoll, eurinllys trydwll, tarfwgan.

Perforation, *s.* trydylliad, tylliad, rhydylliad, tylliad trwodd, trywaniad, hydreiddiad; trydwll, twll, rhydwll, brath.

Perforative, *a.* trydyllawl, tylledigol, tylliadol, tyllawl, à dyllo.

Perforator, *s.* trydyllyr, trydyllydd, tyllydd, tylliedydd; trwyddew.

Perforce, *ad.* (*per* a *force*) trwy drais, trwy ddirdrais, trwy nerth, trwy ormes, trwy grymder, o drechedd; o anfodd.

Perform, *v.* (Ll. *per* a *formo*) cyflawnu, cwblhau, gwneuthur, gwneyd, gwneuthyd, gwnelyd, gwneddyd, gorugo, gwneuthuro; chwareu, chware, gware; ffeithio, preithio.

To perform one's promise—cyflawnu, cywiro, cadw, *neu* gwblhau ei addewid; cyflawnu, cywiro, cadw, *neu* gwblhau ei air; talu ei adduned.

To perform a service—gwasanaethu gwasanaeth, cyflawnu gwasanaeth, gwneuthur gwasanaeth.

Performable, *a.* cyflawnadwy, gwneuthuradwy, hywnedd; à ellir ei gyflawnu, &c.

Performance, *s.* cyflawniad, cwblhad, gwneuthuriad, gweithrediad; gwaith, gorchwyl; gweithred; ffeithiad, ffeithiant, praith, gorug, gorugiad: *pl.* gorugiau.

Performer, *s.* cyflawnwr, cyflawnydd, cyflawniedydd, gwneuthurwr, gorugwr; chwarëydd, chwareuwr, campwr; gweithredydd, gweithredwr, ffeithydd, preithydd.

Performing, *s.* cyflawniad, gwneuthuriad, gorugiad; gwaith, gorchwyl, gweithred.

Perfricate, *v. a.* (Ll. *perfrico*) rhwbio, rhuglo, rhuglo yn dost, rhwbio ar hyd.

Perfumatory, *a.* (o *perfume*) peraroglus, peraroglaidd, perchwaol, à beraroglo.

Perfume, *s.* (Ysp.; Ff. *perfum;* Ll. *per* a *fumus*) perarogl, perarwynt, perogl, perchwa, perwynt, arogl; arogldarth, mygdarth, myg-arogl; perfwg.

Perfume ball—pelen berarogl.

Perfume, *v. a.* perarogli, perogli, perarogluso, perwyntio; perfygu; pereiddio âg arogl; mygdarthu, arogldarthu; arogli.

Perfumer, *s.* peraroglwr, peraroglydd, peraroglai, peroglwr, peroglydd; gwneuthur peraroglau; gwerthwr peraroglau.

Perfumery, *s.* peraroglau, peroglau, peraroglaeth, perarogledd, peroglaeth.

Perfunctorily, *ad.* (Ll. *perfunctorie*) yn ddiofal, &c.

Perfunctoriness, *s.* diofalwch, anofaledd, esgeulusdra, diffyg gofal.

Perfunctory, *a.* (Ll. *perfunctorius*) diofal, esgeulus, anofalus, ysmala, ysgafn; wedi ei wneuthur yn esgeulus ddifraw i gael ymadael âg ef.

Perfuse, *v. a.* (Ll. *perfusus*) taenellu ar, taenellu, taenu, taenu dros, ysgeintio, ystaenio.

Perfusive, *a.* taenellol, ysgeintiol; addas i'w daenu *neu* daenellu.

Pergamenous, *a.* (Ll. *pergamena*) memrynaidd, pilenaidd.

Pergola, *s.* (It.) deildy, gwyddgell, gwerfa, goerfa.

Perhaps, *ad.* (*per* a *hap*) ysgatfydd, ef allai, efallai, fe allai, hwyrach, nid hwyrach, osid, osyd, ond odid, agatfydd, adfydd, dichon, e ddichon.

Peri, rhagddawd Groeg, yn dynodi *am, amgylch, oddi amgylch, cylch, yn nghylch, o ddeutu, per, ger llaw.*

Peri, *s.* (Per.) un o dylwyth teg y Dwyrain.

Periagoge, *s.* (Gr. *peri* ac *agô*) amglobyniaeth= ffugr areithyddol.

Perianth, *s.* (Gr. *peri* ac *anthos*) blodeulen, amflodlen, blodamlen, gwullamlen, gwisg blodau, amlen blodau.

Periapt,† *s.* (Gr. *periaptô*) swynogl, cyfaredd, swyn.

Periauger, } *s.* (Ysp. *piragua*) culfad, ysgeufad
Periagua, } =math ar geufad arferedig yn y moroedd deheuol a dwyreiniol.

Pericardian, *a.* perthynol i lèn *neu* wisg y galon; amgalonawl.

Pericarditis, *s.* ennynfa yr amgalon, fflameg llèn y galon.

Pericardium, *s.* (Gr. *peri* a *cardia*) llèn y galon, pilen y galon, gwisg y galon; amgalon, y bilen sydd o amgylch y galon.

Pericarp, } *s.* (Gr. *peri* a *carpos*) hadbilen,
Pericarpium, } hadgoden, hadbliagyn, hadgaen, pliagyn, hadleetr planigion.

Pericarpial, *a.* hadbilenol, hadgaenol; perthynol i hadbilen.

Perichætial, *a.* (Gr. *peri* a *chaitê*) amwrychol.

Perichætium, *s.* amwrych.

Periclitate, *v. a.* (Ll. *periclitor*) peryglu, enbydu.

Pericope, *s.* (Gr. *peri* a *copto*) dyfyniad, detholran, rhan, darn.

Pericranium, *s.* (Gr. *peri* a *cranion*) amgreuan; pilen *neu* groenen asgwrn y pen; pileu y glol.

Periculous, *a.* (Ll. *periculosus*) peryglus, enbyd, enbydus, pydus, perygl, llawn perygl.

Peridodecahedral, *a.* (Gr. *peri* a *dodecahedral*) amddeuddegochr, amddeuddegochrol, amddeuddegochrog.

Peridot, *s.* (Ff.) eurfaen, yr eurfaen.

Peridrome, *s.* (Gr. *peri* a *dromos*) amrawd (yn yr hen demlau amadeiniog).

Periecians, *s. pl.*=*Periœci.*

Periergy, *s.* (Gr. *peri* ac *ergon*) diwydrwydd afreidiol, gochelgarwch afraid, afreidbwyll, tragofal, tradgyfalwch, trybestyd.

Perigee, } *s.* (Gr. *peri* a *gê*) daiarnesafiant,
Perigeum, } daiarnesiant; wrth-ddaiar=y fan agosaf at y ddaiar yn nghylchlwybr y lleuad neu yr haul.

Perigraph, *s.* (Gr. *peri* a *graphô*) dyluniad diofal *neu* anghywir o beth; brasluniad, bras ddarluniad; llinellau gwynion ar un o gyhyrau yr isfol.

Perigynous, *a.* (Gr. *peri* a *gunê*) amfenywaidd; yn tyfu ar rywbeth sy'n amgylchu yr wyfa.

Perihelion, } *s.* (Gr. *peri* a *hêlios*) heulnesaf-
Perihelium, } iant, heulnesiant; wrth-haul= y fân agosaf at yr haul yn nghylchlwybr planed.

Perihexahedral, *a.* (Gr. *peri* a *hexahedral*) amchwechochrog, amchwegyfochr.

Peril, *s.* (Ff.; Ll. *periculum*) perygl, perigl, enbydrwydd, enbyd, pyd, argywedd, niwed; ingder.

Peril, *v.* peryglu, enbydio; bod mewn perygl.

Perilous, *a.* peryglus, enbyd, enbydus, pydus, pydol, pyd, perygl, perig; †tra, iawn; †arabeddus, ffraeth.

Perilousness, *s.* enbydrwydd, perygluswydd, perygledd, perygluswydd, enbydusrwydd, pydusrwydd, pydoldeb.

Perimeter, *s.* (Gr. *peri* a *metron*) dargantiad, amfesur, amgylchedd, damgylchedd, cylchedd; maint.

Perioctahedral, *a.* (Gr. *peri* ac *octahedral*) amwythochrog, amwythochrol, amwythochr.

Period, *s.* (Gr. *periodos*; Ll. *periodus*) cyfnod, ystod, ysbaid, cylch, chwyl, cylchyn, rhygylch; cyfamser, amser, pryd; amsergylch; diwedd, terfyn, dyben; diweddnod, diweddeb, cyfannod, cyfanod; penod, penawd; perffeithnod, eithafnod; parhad; oes; cyfanwers, cyfaneb, gwers; ymadrodd cyflawn, perffeithlawbl, *neu* gyfan-gwbl; synwyreb gyflawn; rhan; cylchnod.

Period, } cyfannod, cyfanod, diweddeb,
Full stop, } diweddnod=(.)

Julian period—y cyfnod Iwlaidd, yr ysbaid Iwlaidd, yr amsergylch Iwlaidd=cylch o 7980 o flyneddoedd olynol, à ddyfeisiwyd gàn *Iulius Scaliger*.

Period of existence—cylch hanfod, ystod bywyd, oes, oesbarth, oesdaith.

Through every period of his discourse—trwy bob rhan, cymmal, pwnc, *neu* erthygl o'i ymadrodd.

He walked some periods in the ways of godliness—rhodiodd rai prydiau, rhuthrau, gweithiau, cylchau, *neu* gyrsau yn ffyrdd duwioldeb.

To put a period to—terfynu, diweddu; gosod diwedd *neu* derfyn ar.

Pilularia, *s.* (o'r Ll. *pila*) pelanllys, pelenllys, pupyr y ddaiar.
Pilser, *s.* fflambryf, pryf y fflam.
Pimelic Acid, *s.* (Gr. *pimelê*) sur blonfeinig, sur blonithig.
Pimelite, *s.* (Gr. *pimelê* a *lithos*) blonfaen, blonith.
Piment, *s.* gwin cymmysgedig â pherlysiau *neu* fêl.
Pimenta, } *s.* (Ysp. *pimienta*) pupyr Iamaica,
Pimento, } pupyr Siamaica, chwaethrawn.
Pimp, *s.* (Ff. *pinge*, yn ol *Skinner*) llotai, llataai, nwyfwas, anlladwas, nwyfweinydd, puteinai; à geisio butain i arall.
Pimp, *v. n.* chwareu y llotai, chwareu y llatai, bod yn llatai, nwyfweini, gwneuthurwr llateirwydd.

Pimpernel, } *s.* (Ll. *pimpinella*; Ff. *pimpren-*
Pimpinel, } *elle*) brathlys, gwlydd Mair, gwlyddyn Mair, llysiau y cryman, diwethl, diwethl fedi.
Scarlet pimpernel — brathlys gwryw, gwlydd Mair gwryw, llysiau y cryman.
Blue pimpernel — gwlydd Mair benyw, gwlyddyn Mair benyw, brathlys benyw.
Bog pimpernel—gwlydd Mair y gors.
Bastard pimpernel—bril-lys, brilys.
Water pimpernel—claerllys, claerlys, samwl, samylen.
Yellow pimpernel—gwlydd melyn Mair.

Pimpella, *s.* (Ll.) gwreiddiriog.

Pimping, *a.* (o *pimp*) pitw, bychan, bach, disumig, eiddil; disylwedd; gorwael, crintach.
A pimping thing—peth bach, disylwedd, disumig, disumol, *neu* eiddil; peth dïystyr, peth dibwys.

Pimple, *s.* (S. *pimpel*) llynoryn, ploryn, pyloryn, crugyn, crug, penddüyn, pigodyn, cyfodyn, cyfoden, llyfrithen, pisgen, pisgwrn, pisgyrnyn, goryn, crugdardd.
To break out into pimples—crugdarddu, llynori, gorynu, pisgyrnu; tarddu allan
Full of pimples=*Pimpled.* [blorynod.

Pimpled, *a.* llynorog, plorynog, crugynog, pisgyrnog, gorynog, llyfrith, llyfrithog, llawn crugynau.

Pimplike, *a.* (o *pimp*) llateiaidd, llotciaidd; fel llotai; gwael, gorwael, budr, drwg, anfad.

Pin, *s.* (C.; Gw. *pion*; Al. *pinne*; Ll. *penna, pinna*) pin; nydwydd, nodwydd; dant; draen; hoel, cethr; craidd, canol; ebill; pinwst (ar droed gwalch); †hwyl.
Rolling pin—rholbren.
Push-pin—pinwth=math o chwareu plant.
Pin in the eye—huchen ar lygad, rhuchen ar lygad; magl, huchen, rhuchen.
The pin of a spinning-wheel, } hoel
The centre-pin of a spinning-wheel, } durnen, yr hoel durnen.
Crisping pin, } crychnodwydd, crychnyd-
Curling pin, } wydd, crychiadyr; gwaelli grychu gwallt.
It is not worth a pin—ni thal efe mo'r blewyn; ni thâl efe mo'r ffyloryn; ni thâl efe flewyn; ni thâl efe ffyloryn.

Pin, *v. a.* pinio; hoelio; bario; sicrhau; ffaldio, caethiwo, cau i mewn.
To pin in a fold—llocio, ffaldio, buarthu, corlanu, ceilio, caeori; rhoi mewn lloc, ffald, *neu* fuarth; cau mewn ffald, lloc, *neu* fuarth.
To pin one down by articles—rhwymo un drwy ammodau *neu* erthyglau.
To pin a thing upon one—rhwymo un i wneuthur peth; rhoi yn dyn *neu* yn gaeth ar un wneuthur peth.
To pin one's faith on another man's sleeve—credu ar air *neu* awdurdod un arall heb ymofyn yn mhellach; derbyn *neu* seilio ei ffydd ar air *neu* awdurdod un arall heb ymofyn yn mhellach; adeiladu ei ffydd ar goel un arall; clymu ei ffydd wrth goel un arall; derbyn ei ffydd gân arall yn ddïymchwiliad *neu* yn ddïymorol; pinio ei ffydd wrth lawes un arall.
To pin one's self upon one—byw *neu* ymgynnal ar gefn un.
To pin up a gown—pinio gŵn i fyny; pinio godreon gŵn i fyny; pinio gŵn oddi amgylch i un.

Pinacotheca, *s.* (Gr. *pinax* a *thêcê*) oriel darluniau, ardebfa.

Pinaster, *s.* (Ll.) pinwydden wyllt, pinwydden fagadog, sybwydden fagwyog.

Pincase, *s.* cas pinau; clustog binau.

Pincers, } *s. pl.* (o *pinch*) gefail, gefeilen, gef-
Pinchers, } eilan, craff, gwrthrimyn.

Pinch, *v.* (*Ff. pincer*) crimpeidio, crimpio, crimeidio, crimpwasgu, llethwasgu, tynwasgu; gwasgu, caethwasgu, tynwasgu, *neu* graswasgu rhwng dau ewin, rhwng dau fys, *neu* rhwng dannedd; ewino; gefeilio; bleddu, byseidio; gwasgu; tymmigo; cnoi; cnowasgu; dàl ar, deifio; gafaelu yn, gafael ar; cyfyngu ar; bod yn gyfyng *neu* galed; cynnilo; gormesu, gormeilio; caethiwo; bod yn gynnil *neu* grintach; ingwasgu; gwasgu yn galed; twyllo.
To pinch with a pair of pincers—gefeilio, gefeil-wasgu, gwasgu â gefail, gwasgu mewn gefail; gwrthrimynu.
Pinched with hunger—newynog, newynllyd; â newyn arno.

Pinch, *s.* gwasg, gwasgfa, tynwasg, llethwasg, crimp, craff; bysiad, bledd; pigiad, crafangiad; gafael; gwasg, caethwasg, craswasg, *neu* dynwasg rhwng bysedd; tymmig; crafangwasg; ingwasg; cno, cnowasg, cnofa; crimpaid, bysaid; ing, ingder, ingdra, cyfyngder, cyni, caledi, caethiwed, dyryafa, gormail, gormes.
A pinch of snuff—crimpaid o drewlwch; crimp o drewlwch; bledd o drewlwch; crimpaid o disilwch, &c.
A pinch with the teeth—cno, cnowasg; gwasg rhwng dannedd.
He is a real friend who assisteth one at a pinch—câr cywir yn yr ing y gwelir.
He will not do it but upon a pinch—nis gwna namyn yn y dir; nis gwna onid pan gymheller ef gàn angenrheidrwydd.
He was reduced to a great pinch—efe a ddygpwyd i'w gyfyng-gynghor.
If the matter ever come to the pinch, that ...—os byth y daw y peth i'r fath gyfyngdra, fel...

Pinchbech, *s.* (oddi wrth enw y dyfeisiwr) eurrith=cymmysg o gopr a sinc.

Pincher, *s.* gwasgwr, crimpiwr, crimpwasgwr, bleddwr.

Pinchfist, } *s.* cybydd, cerlyn, carl, bydol-
Pinchpenny, } ddyn, bawddyn, bawal, mab y crinwas.

Pinchers, *s. pl.*=*Pincers.*

Pinching, *s.* crimpiad, gwasgiad, tynwasgiad, llethwasgiad, ingwasgiad.

Pincushion, *s.* clustog binau, sachell binau, pinob, pin-glustog.

Pinda, *s.* teisen â offryma yr Hindwys er dyhuddo pechodau eu hynafiaid.

Pindaric, *s.* (o *Pindar*, telynferdd Groeg) Pindareg; awdl debyg i un o odlau Pindar; awdl afreolaidd; awdl Bindarig.

Pindaric, *a.* Pindarig; â ddynwaredo fesurau cerdd Pindar.
Pindaric poem—cywydd mawreiriog *neu* uchelwych fel yr eiddo Pindar; cerdd Bindarig, cân Bindarig; Pindareg.

Pindust, *s.* (*pin* a *dust*) llwch pinau, llifion, pin-flawd.

Pine, *s*, (Ll. *pinus*; Ff. *pin*; S. *pinntreow*) pinwydd, sybwydd, ffeinidwydd, ffawwydd: *sing.* pinwydden, sybwydden, ffeinidwydden, pererinbren, pinbren, pin.
Pine-tree — pinwydden, sybwydden, pinbren, pererinbren, ffeinidwydden.
Wild pine, } pinwydden wyllt: *pl.*
Wild pine-tree, } pinwydd gwyllt'on.
Scotch pine—pinwydd gwyllt'on; ffeinidwydd, ffynidwydd.
Ground pine—palf y gath bali; pinwydd y ddaiar.
Pine-apple—afal pinwydd.
Pine-grove—llwyn o'r pinwydd, llwyn pinwydd.

Pine, *v.* (S. *pinan*) dihoeni, dedwino, edwino, edwi, darfod, curio, nychu, dyddfu, gwywo; culhau, teneuo; gofidio; treulio, treulio ymaith; clefaru.
To pine one's self—ymddihoeni, &c.
To pine one's self to death—ymofidio i farwolaeth; marw gàn ofid.

Pine,† *s.* (S. *pin*; Is. *pyn*) gwae; angen, eisieu, tlodi; gresyndod, trueni.

Pineal, *a.* (Ff. *pinéale*; o'r Ll. *pinus*) tebyg i'r pinwydd; pyraidd.
Pineal gland — pyr-chwaren, cilchweryn

Pineaster, *s.*=*Pinaster.* [pyraidd.

Pine-barren, *s.* diffaeth pinwydd (yn Ngogledd America).

Pine-end, *s.* piniwn, talfur, talcen ty.

Pineful, † *a.* llawn gwae, llawn o wae.

Pinery, *s.* (o *pine*) pinwyddlan, cymhanfa binwydd, gwinllan sybwydd.

Pine-thistle, *s.* ysgallen y pinwydd.

Piney, *a.* (o *pine*) pinwyddol, pinwyddain, pinwyddaidd, sybwyddain; pinwyddog, sybwyddog, llawn pinwydd.
Piney tallow—gwer y pinwydd, gwer y sybwydd.

Pinfeather, *s.* pin-blufen, plufen fer, plufyn byr, plufen fechan.

Pinfeathered, *a.* â'i bluf yn dechreu tyfu; heb fod mewn llawn bluf.

Pinfold, *s.* (*pin* neu *pen* a *fold*) ffald, gwarchae, buarth gwarchae, carchar anifeiliaid.

Pingle, † *s.* cae bychan, maesan.

Pingster, } *s.* (Is.) y Sulgwyn; amser y Sulgwyn.
Pinxster, }

Pinguicula, *s.* (Ll. *pinguis*) y doddaid felen, y doddedig felen.

Pinguid, † *a.* (Ll. *pinguis*) tew, bras, tewfras, blonegog.

Pinguidinous, *a.* (Ll. *pinguedo*) tew, bras, tewfras, brasderog, blonegog.

Pinguitude, } *s.* (Ll. *pinguitudo, pinguedo*) bras-
Pinguedo, } der, tewedd, tewdra; tewhad, tewychiad.

Pinhold, *s.* (*pin* a *hold*) gafael pin.

Pinhole, *s.* (*pin* a *hole*) twll pin: *pl.* tyllau pinau.

Pinic Acid, *s.* (o *pine*) sur pinwyddig, sur y pinwydd.

Pining, *p.* (o *pine*) yn dihoeni, gàn ddihoeni, &c.; dihoenawl, dedwinol, nychol.
Pining sickness—nychdod, nych.

Pinion, *s.* (Ff. *pignon*; Ysp. *pinon*) angell, blaen aden, blaen-gymmal aden, angell aderyn; asgell, aden, adain, adan, adaf, ffilog; pluen, plufen, plufyn,; troell, echel-droell, echelrod, adafrod, adeinrod; breichrwym, hualau breichiau.

Pinion, *v. a.* angellu, rhwymo yr adenydd, caethiwo yr adanedd, caethiwo yr engyll, aden-rwymo, angell-gaethu; tori blaen adain; breichrwymo; rhwymo y breichiau *neu* yr elinau yn dyn wrth y corff; hualu, llyffetheirio; caethiwo, caethu, rhwymo, cadwyno.

Pinioned, *a.* asgellog, adeiniog, angellog.

Pinioned, *p.p.* angelledig, &c.; â'i engyll, â'i edyn, â'i adenydd, *neu* â'i freichiau yn rhwym wrth ei ystlysau; â'i ddwylaw yn rhwym *neu* yn nghlwm ar ei gefn.

Pinionist, † *s.* perchen aden, perchen adenydd, ehediad, aderyn asgellog, aderyn.

Pinite, *s.* (o *Pini*, mwnglawdd yn Sacsonia) math ar ddelidfaen.

Pink, *s.* (C. *pinc*; Is. *pink*, llygad) penigan, ceian, ceilys, euad; pinc, lliw y pinc; pilcodyn, (*pl.* pilcod); llygedyn, olp.
Clove pink—penigan rhuddgoch.
Debtford pink—penigan y porfëydd.
Indian pink — ceilys yr India, pinc yr India; pryflys Periw.
Pink colour—lliw y pinc, pinc=math ar liw rhuddgoch goleu.
Pink-eye—llygad bach, llygad bychan, olp, llygedyn.

Pink, *s.* (Is.; Ff. *pinque*) llong olfain=math ar long â phen ol main iddi.

Pink, *a.* pinc, o liw y pinc, o liw y penigan, o liw y ceilys; rhuddgoch, cochwyn, gwyngoch.
Pink dress—gwisg liw y pinc, gwisg binc.

Pink, *v. a.* olpi; trywanu, gwanu drwyddo, gwanu, brathu, trydyllu, tyllu.

Pink, † *v. n.* (Is. *pinken*) lledgau y llygad, gogau y llygad, amrantu, ysmicio.

Pink-eyed, *a.* llygadfach, llygeidfach, coeglygeidiog; â llygaid bychain gogauad iddo.

Pink-needle, *s.* gwaell bugail, mynawyd bugail.

Pink-sterned, *a.* â phen ol cul *neu* fain iddi; olfain.

Pinmaker, *s.* piniwr, gwneuthurwr pinau, pinweithiwr, gweithiwr pinau, gwneuthurwr nodwyddau peniog.

Pinmoney, *s.* arian coden gwraig, arian llogell gwraig, arian pinau, arian traul gwraig.

Pinna, *s.* (Ll.) yr aden-gregyn.

Pinnace, *s.* (Ysp. *pinaza*; Ff. *pinasse*) corlong, ysgoren, badlong.

Pinnacle, *s.* (Ff. *pinacle*; Ll. *pinnaculum*) pinygl, pinagl, pinacl, pigwrn, tŵr, balog, cwrn; nendy; cwnwg, crib, nen, pen.
On the pinnacle of honour—ar frigyn, ar grib, ar nen, *neu* ar binygl anrhydedd.

Pinnacle, *v. a.* pinyglu, pigyrnu; gwneuthur pinyglau i *neu* ar.

Pinnæ, } *s. pl.* (Ll. *pinna*) rhanau *neu* gylch-
Pinnulæ, } ranau deilen asgellog.

Pinnage, † *s.* (o *pin* neu *pen*) arian ffald, arian gwarchae.

Pinnate, } *a.* (Ll. *pinnatus*, o *pinna*) adeiniog,
Pinnated, } asgellog, angellog.

Pinnatifid, *a.* (Ll. *pinna* a *findo*) pluholltog, adeinholltog.

Pinnatiped, *a.* (Ll. *pinna* a *pes*) cyfandroed, troedgyfan, adendroed, adeindroed.

Pinner, *s.* (o *pin*) piniwr, pinwr, gwneuthurwr pinau, pinweithiwr, pineuwr; hoeliwr; llabed penwisg, penwisg laesglustiog; ffaldiwr.

Pinninerved, *a.* (Ll. *penna*, a *nerve*) plufwythenog, plufwythlog.

Pinning, *s.* (o *pin*) piniad.
Pinnite, *s.* (Ll. *pinna*) gweddillion cloddiedig yr aden-gregyn.
Pinnock, *s.* yswigw, yswidw, sywidw.
Pinnulate, *a.* (Ll. *pinnula*) adeinigog, asgelligog.
Pint, *s.* (Is.; Ff. *pinte*) peint; peintaid, llonaid peint.
Cuckoo pint, } pidyn y gog, calaf y ceth-
Cuckoo pintle, } lydd, calaf y mynach.
Pintle, *s.* (o *pin*) pin bychan, pin bach; pidyn; bollt.
Pinules, *s. pl.* (Ll. *pinnula*) tyllau serebyr.
Pinus, *s.* (Ll.)=*Pine, s.*
Piny, *a.* (o *pine*) pinwyddog, sybwyddog, llawn sybwydd, llawn o binwydd.
Pioneer, *s.* (Ff. *pionnier*) cadgloddiwr, cloddiwr llu, rhaggloddiwr; arllwyswr *neu* arloeswr ffordd; rhagarloeswr, rhagarllwysydd, rhagbarotöwr.
Pioneers — cadgloddwyr, cloddwyr llu, cloddwyr byddin, rhaggloddwyr; clodd-gad.
Pioneer, *v. a.* cadgloddio; rhaggloddio; rhagarloesi, rhagbarotöi.
Pioning, †*s.* cadgloddiad, gwaith cadgloddwyr.
Piony, } *s.* (Ll. *pœnia*; Gr. *pionia*) coronllys,
Peony, } daiarllys, blodau y brenin, rhosyn y mynydd.
Pious, *a.* (Ll. *pius*; Ff. *pieux*) duwiol, crefyddol, duwgar, crefyddgar, duwiolfryd, duwiolfrydig, duwiolfrydus, dyhewydus; à wnel ei ddyledswydd tuag at ei Dduw a'i rieni.
Piously disposed, } duwiolfrydig, duwiol-
Pious-minded, } fryd; o duedd crefyddol; duwiolgar.
Pious fraud—twyll crefyddol.
Piousness, *s.* duwioldeb, duwgarwch, crefyddoldeb, crefyddolder, duwiolfrydedd.
Pip, *s.* (Is.; Ff. *pépie*) y big, dolur pig; ysmotyn, ysmot, llygeidyn, màn; cnewullyn, deincodyn.
To have the pip—bod â'r big arno.
He has the pip—y mae y big arno.
Pip, *v. n.* (Ll. *pipio*) pipian, pipianu, gerain; lleisio fel cyw; gwneuthur llais fel cyw.
Pipa, *s.* llyffant Surinam.
Pipe, *s.* (S. *pipe*; C. a Gw. *pib*; Al. *pfeife*) pibaid; pib, pibell, piben, chwibol, chwib, awell; chwibanogl; corn; rhol, rhol y sylltty, rhol yn y sylltty.
A pipe of wine—pib o win, piben o win; hanner tynell o win=126 o alwyni gwin.
Wine pipe—pib win, piben win; hanner tynell.
Pipe-office—y rholfa, y rholdy.
Clerk of the pipe—ysgrifenydd y rholfa, ysgrifwas y rholdy, ysgrifydd y rhol.
A wooden pipe—pib bren, pib pren.
Oaten pipes—pibau gwellt ceirch, pibellau gwellt ceirch, pibau ceirch, pibellau ceirch.
Pipe (used in smoking tobacco)—pibell, pib, cetyn.
To play on the pipe—canu pibell; canu ar y bibell; chwibanogli.
No longer pipe, no longer dance—o deryw y gainc e dderyw y chware.
Pipe, *v.* canu pibell; canu ar y bibell; canu ar bibell; chwibanogli; pibellu, pibo; chwibanu; crewtian.
Pipe-clay, *s.* pibglai; clai pibau *neu* bibelli.
Piped, *a.* pibellog, chwibolawg, awellog.
Pipefish, *s.* pippysg.
Piper, *s.* (o *pipe*) pibydd, pibwr; chwibanydd, chwibanwr: *f.* pibyddes.
Piper, *s.* (Ll.) pupyr, poethrawn.
Piperidge, *s.* y pren melyn, ysbinwydden, ysbinys.
Piperin, } *s.* (o *piper*) lludw llosgfal; poeth-
Piperine, } lysnur.
Pipetree, *s.* pibwydden, pren pib.
Pipewort, *s.* (*pipe* a *wort*) pibenog.
Jointed pipewort—pibenog.
Piping, *a.* gwàn, egwan, eiddil, clefyca, afiach; cwynfanus, cwynfanllyd, nadlyd.
Piping, *a.* (o'r sain) poeth, purboeth, chwilboeth, brwd, twym, tanllyd.
Piping hot—brwd o'r crochan; yn frwd o'r crochan; brwd oddi ar y tân; yn frwd oddi ar y tân; brwd berwedig.
Piping, *s.* piboriad, pibori.
Pipistrel, *s.* corystlum; y fath leiaf o ystlumod.
Pipkin, *s.* (bychanig o *pipe*) crochenyn.
Pipowder, *s.*=*Piepowder, &c.*
Pippin, *s.* (Is. *pippeling*) esblydden, afal esblydden.
Piquancy, *s.* (o *piquant*) llymder, llymdra, llymedd, toster, tostedd, pigogrwydd.
Piquant, *a.* (Ff.) pigog, pica, llym, pigoglym, tost, tostlym, llymdost, cignoeth, oeth.
Pique, *s.* (Ff.) anfoddlonedd, anfoddlonrwydd, anfodd, anghymmodlonedd, soriant, gwg, cilwg, brŷn, soriant cuddiedig, casineb cudd, mig, mic, cawdd; nwyd; pyncyn, manylbeth.
To have a pique against one—dàl gwg i un; dàl cilwg ar un; bod â brŷn at un; bod â chilwg rhyngddo ac un.
Pique, *v.* (Ff. *piquer*) anfoddloni, anfoddhau, anfoddogi, anfoddio, sori, peri soriant, coddi, sarhau; cythruddo, cyffröi, cynhyrfu, brathu, tymmigo, ystuno, llidio, digio.
To pique one's self—ymfawrygu, ymfalchïo, ymgoneddu, ymgogoni, ymgoniannu.
To pique one's self on—ymfawrygu, ymfalchïo, *neu* ymgoneddu o herwydd.
Piqueer, *v. a.* (Ff. *picorer*) anrheithio, ysbeilio, morherwa, ysgarmesu, bicra, catewrach.
Piqueerer, *s.* anrheithiwr, ysbeiliwr, gwillmyr.
Piquet, *s.*=*Picket.*
Piquet, *s.* (Ff.) math o chwareu cardiau.
Piracy, *s.* (Ll. *piratica*; Gr. *peirateia*; Ff. *piraterie*) morladrad, morledrad, lladrad ar fôr, morherwriaeth, herwriaeth môr, morbreiddiad, morysbail, morbraidd; llanysbail, llenladrad, lladrad llên; lladrad.
To commit piracy—morladrata, morledrata, morherwa.
Pirate, *s.* (Ll. ac Ysp. *pirata*; Gr. *peiratès*) morleidr, lleidr ar fôr, lleidr ar y môr, morherwr, herwr môr, morwilliad, morwill, gwillmyr; herwlong, llong herw, preiddlong; llenleidr, llenwilliad, llenysbeiliwr, lleidr llên; à ladrato *neu* à gyhoeddo lenwaith un arall.
Pirate, *v.* lladrata, ysbeilio, *neu* herwa ar y môr; herwa, morbreiddio, morladrata, morysbeilio; lladrata; llenladrata, llenysbeilio, llenwillio; cyhoeddi, argraffu, *neu* werthu yn lladradaidd lenwaith un arall; lladrata llenwaith un arall.

Piratical, *a.* (Ll. *piraticus*) morladradol, morbreiddiol, morherwol, marladronaidd, morladradaidd, morherwraidd: preiddiol, ysglyfaethol, ysglyfaethus, ysbeilgar, ysbeiliawl, ysbeilus; llenladradol, llenysbeiliawl, lladradol.

Pirating, *a.* morladradaidd; ysbeiliawl, ysbeilus, ysbeilgar, ysglyfaethol; â wnaed er mwyn ysbail *neu* anrhaith.

Piroque, Periauger, Periagua, } *s.* (Ysp. *piragua*) culfad, ysgeufad =math ar geufad arferedig yn y moroedd deheuol a dwyreiniol; a hefyd math ar geubal.

Pirouette, *s.* (Ff.) tro ar yr un troed; tro yn yr un màn; chwildro.

Pirouette, *v. n.* chwildröi; troi yn chwildro; trei ar un troed.

Pirry, † *s.* ystorm, tymhestl, rhyferthwy, cwthwn.

Piscary, *s.* (o'r Ll. *piscaria;* It. *pescheria*) braint *neu* hawl i bysgota yn nwfr un arall.

Piscation, *s.* (Ll. *piscatio*) pysgota, helwriaeth pysgod, pysgodwriaeth.

Piscatory, *a.* (Ll. *piscatorius*) pysgol, pysgodawl; perthynol i bysgod; perthynol i bysgota.

Piscatory eclogue—ymddyddan *neu* ymddyddanion ar gân rhwng pysgotwyr; ymddyddan-gerdd pysgodwyr.

The piscatory art—celfyddyd pysgota, pysgodwriaeth, pysgotwriaeth.

Pisces, *s. pl.* (Ll.) pysg, pysgod, y pysg, y pysgod.

Pisces (in astromony)—y Pysg, arwydd y Pysg=12fed arwydd y sidydd.

Piscina, *s.* (Ll.) pysgodlyn; dyfr-gloer.

Piscinal, *a.* perthynol i bysgodlyn; pysgodlynaidd, pysgodlynol.

Piscine, *a.* (Ll. *piscis*) pysgol, pysgodawl, pysgaidd; perthynol i bysg.

Piscine remains—gweddillion pysgod.

Piscis Australis, *s.* (Ll.) y Pysgodyn Deheuol=enw hen gydser.

Piscis Volans, *s.* (Ll.) yr Ehedbysg=enw cydser deheuol.

Piscivorous, *a.* (Ll. *piscis* a *voro*) pysgysol; yn byw *neu* yn ymborthi ar bysgod.

Pish, *in.* (H. *bosh*, *bash*) pw! twt! wfft! ffei! wbl

Pish, *v. n.* wfftio, pwo, dywedyd pw.

Pisiform, *a.* (Ll. *pisum* a *forma*) ar lun *neu* ddull pysen; pysenaidd, pysaidd.

Pismire, *s.* (anhysbys tarddiad y sill gyntaf: yr olaf yw D. *myr*, Is. *mier*) morgrugyn, grugiad, mywionyn, morionyn, grugionyn, bywionyn, dyban, môr: *f.* morionen, myrionen, mywionen, grugionen: *pl.* morgrug, grugion, grugiaid, mywion, morion, myrion, myr, bywion, dybanod.

Pisolite, *s.* (Gr. *pison* a *lithos*) pysfaen.

Pisolitic, *a.* pysfeinin, pysfeinig.

Pisophalt, *s.*=*Pissasphalt.*

Piss, *v.* (Is. ac Al. *pissen;* Ff. *pisser;* C. *piso;* Per. *pishar*) piso, troethi, gwneuthur dwr.

Piss, *s.* troeth, trwnc, pis, pision, piso, golch, lleisw.

Pissasphalt, Pissasphaltum, } *s.* (Gr. *pissasphalton*) daiarbyg, pysbyg, duglist meddal.

Pissburnt, *a.* troethlosg, troethlosgedig; lloesgedig gân droeth, &c.; lliwiedig gân losg pision.

Pist, Piste, } *s.* (Ff. *piste;* Ysp. *pista*) ol troed gwr march, brisg gwr march.

Pistacia, Pistachio, } *s.* (It. *pistacchio;* Ll. *pistachia;* Ff. *pistache*). math o bren neu blanwydden dramor.

Pistacia nut, Pistachio nut, } math o gneuen ber ei har- ogl.

Pistacite, Pistazite, } *s.* togfaen.

Pistareen, *s.* darn o arian bath, gwerth 9*c.* o arian Lloegr.

Pistil, *s.* (Ll. *pistillum*) paledrig, paledryn, pwyntl, gwullaig, hadgoesig; canol baledryn *neu* frigeryn blodau benywaidd.

Pistillaceous, *a.* yn tyfu ar y paledrig; â dyfo ar yr hadgoesig.

Pistillate, *a.* gwulleigiog, hadgoesog, paledrynog; â phaledrig iddo.

Pistillation, *s.* (Ll. *pistillum*) maluriad â phwyodr, manbwyad, maluriad, pwyodriad, pwyad.

Pistilliferous, *a.* (Ll. *pistillum* a *fero*) âg iddo baledrig heb friger; yn dwyn gwullaig heb friger.

Pistol, *s.* (Ff. *pistole;* It. ac Ysp. *pistola*) llawddryll, gwn llaw, corwn, llofwn.

Pistol, *v. a.* saethu â llawddryll.

Pistole, *s.* (Ff.) Pistol=darn aur Yspaenig, gwerth o ddeutu 8*s.* 6*c.*

Pistollet, *s.* llawddryll bychan, gynyn llaw, llofnynan.

Piston, *s.* (Ff. ac Ysp.) diblath, syflath, pilliffon, gwasglath, ceuffon.

Pisum, *s.* (Ll.; Gr. *pison*) pysen; pys.

Pit, *s.* (S. *pit*, *pyt;* Gw. *pit;* Ll. *puteus*) pwll; pydew; twll; ffos; ogof; llawr; pant, pannwl, màn; cnewyllyn; cadlas ymladd ceiliogod.

A deep hollow pit—ceubwll.

Deep pits—ceuffosydd (*Salm* cxl. 10); ceubyllau.

A little pit—pyllyn.

Bottomless pit—pwll diwaelod; affwys, annwn, annwfn, anoddyn, llynclyn, caddug-lyn, caddugfa, noddyn.

The pit of the stomach—pwll y cylla; geneu y cylla.

In the pit of his stomach—yn mhwll ei gylla; yn ngeneu ei gylla.

A pit made by the small pox—ol y frech; ol y frech wèn; un o byllau *neu* dyllau y frech wèn.

The arm-pit—pwll y gesail, twll y gesail; y gesail.

Drain-pit—pwll dysbyddu.

The pit of a theatre—llawr chwareufa, canol llawr chwareudy.

Gravel pit — grobwll, graianbwll, bwll graian, pwll gro, marianbwll, tywodbwll, grudbwll.

At the pit's brink—ar fin y pwll; ar wàr y pwll; ar làn y pwll; mewn dirfawr beryg.

A pit *or* pool in a river, where fish resort to—middi.

Full of pits—pyllog, llawn pyllau, llawn o byllau.

Pit, *v. a.* pyllu, pantu, pannylu, pannoli, mànu; gwneuthur yn bwll; gwneuthur ol ar; cystadlu â.

Pitapat, *ad.* (o *pat*, hwyrach; cyfathrach i *beat*, yn ol ereill) dàn ddychlamu, ar ddychlam, yn ddychlamol, dàn wringellu, dàn yscboncio, ar ddychlam.

To go pitapat—dychlamu.

Pitapat, *s.* tysmwy, dychlam; brysgam ysgafn.
Pitch, *s.* (S. *pic;* Al. *pech;* Ll. *pix*) pyg.
Stone-pitch—caledbyg, maen-byg, sychbyg.
Mineral pitch—delidbyg.
Burgundy pitch—pyg Burgwyn, pyg gwŷn.
Jew's pitch—pyg yr Iuddew; duglist.
To smear over with pitch—pygo; gorthŏi *neu* orchuddio â phyg; iro drosto â phyg.
Pitch-tree—pygwydden, pygbren: *pl.* pygwydd.
Pitch, *v. a.* pygo; gorthöi *neu* orchudddio â phyg.
Pitch, *s.* (o wraidd *pike, peak,* C. *pig,* yn ol *Webster;* Ff. *picts,* yn ol *Skinner*) gradd, mesur; maint, maintioli, maintiolaeth; uchder; trumiad ty, cyfongl taldy, cyflethr to, trumiad, trum, crib; codiad, cwnad; llethr, llechwedd; cwymp; traw, tarawiad; eithaf.
Pitch (in music)—traw; tonradd; cyweirsain.
A house of a high pitch, } ty ucheldrum,
A house of a great pitch, } ty uchelgrib.
A house of a low pitch—ty iseldrum, ty iselgrib.
The pitch of a hill—llethr bron, llechwedd, gwaered, gorwaered, ystlys bryn, gorddisgyn, disgynfa mynydd, lledfron, crib mynydd, trum mynydd, copa mynydd.
To the highest pitch—i'r eithaf; i'r radd uchaf *neu* eithaf.
They fly to a very high pitch—ehedant yn uchel iawn.
They arrived at the highest pitch of human learning—cyrhaeddasant uchafnod, eithafnod, *neu* uchafradd dysgeidiaeth dyn; cyrhaeddasant uchaf-bwnc *neu* eithafbwnc dysgeidiaeth dyn.
They were much about the same pitch—yr oeddynt tua'r un tyfiant *neu* darawiad; yr oeddynt tua'r un uchder, mesur, *neu* faintioli.
Pitch, *v.* (Is. *pikken;* Al. *picken*) taflu, tawlu, bwrw; gosod, dodi; penodi, sefydlu; taflu *neu* fwrw i lawr; gosod *neu* roddi i lawr; picio; trigo; saethu; trefnu, gwaladru; disgyn; llaesu; cwympo; codi a gostwng; cyweirseinio; ymdaflu, neidio; gwersyllu; rhedeg yn wyllt; taflu â phigfforch.
To pitch (in music)—cyweirseinio; codi.
To pitch a bar—taflu bàr.
To pitch in—taflu hyd oni lyno yn mheth; brathu yn, planu yn; rhoi i lynu yn; bwrw, taro, *neu* roi yn mhlàn yn.
To pitch on *or* upon—disgyn ar; dewis, ethol, dethol, pigo.
To pitch on *or* upon a subject—pigo, dewis, *neu* ddethol testyn; disgyn *neu* sefydlu ar destyn; pigo allan destyn; ymafael *neu* ymaflyd â thestyn; penderfynu ar destyn; hawio ar destyn.
To pitch upon a time—enwi amser, penodi amser.
To pitch upon one's head, } cwympo *neu*
To pitch down headlong, } syrthio ar ei ben; picio ar ei ben.
To pitch tents, } pebyllio, pabellu; taenu,
To pitch a tent, } lledu, *neu* osod pabell; taenu, lledu, *neu* osod pebyll; gwersyllu.
To pitch a camp—gwersyllu, gwersylltu; lluarthu; pebyllio, lluestu; estyn, gosod *neu* ledu caer-bebyll.
To pitch a net—taenu, lledu, *neu* osod rhwyd.
To pitch a cart—picio *neu* bigo i gart; taflu *neu* fwrw peth i gart â phicfforch, &c.; llwytho cart.
Pitched one against another—à roddwyd i sefyll y naill gyferbyn â'r llall; à roddwyd i sefyll wyneb yn wyneb, gyfarwyneb, *neu* gyferbyn â'u gilydd.
Pitch-black, *a.* pygddu; cyn ddued a'r pyg.
Pitch-blend, } *s.* pygfwn.
Pitch-ore, }
Pitch-coal, *s.* pyglo.
Pitched, *p. p.* tafledig, &c.; gorsafol; pygedig.
Pitched battle—cad ar faes, brwydr orsafol.
Pitched camp—gwersyll gorsafol, gorsafwersyll; gorsafiu, lluoddwyr gorsafol.
Pitch-dark, *a.* erchylldu; mòr dywyll a'r pyg.
Pitcher, *s.* (o *pitch*) tafiwr, taflydd, piciwr; gwersyllwr.
Pitcher of a camp—gwersyllwr, gwersylllydd, gwersylltwr.
Pitcher, *s.* (o *pitch;* Llyd. *picher;* Basc. *peger*) ystên, cunnog, piser.
A little *or* small pitcher—ystenan, cunnogyn, piseryn.
Pitcher-plant—ystenllys.
Pitch-farthing, *s.* math ar chware plant.
Pitch-fork, *s.* (*pitch* a *fork*) picfforch, pigfforch, pig; ffon ddwybig.
Pitchiness, *s.* (o *pitchy*) pyglydrwydd, pygedd; duedd, düwch, tywyllwch.
Pitching, *a.* llethrog, llechweddol, llechweddog, lledbai, disgynol, gorddisgynol, arwaered.
Pitching, *s.* piciad llong; codiad a gostyngiad pen blaen ac ol llong pan ar nawf rhwng tònau; llaesodriad, palmantiad.
Pitching toll—safdoll, safdal, sawdoll, sawdal.
Pitch-ore, *s.* pygfwn.
Pitch-pine, *s.* pygbinwydd, pygsybwydd, pinwydd pyg.
Pitchpipe, *s.* trawbib, toniadyr, graddbib.
Pitchstone, *s.* pygfaen.
Pitchy, *a.* (o *pitch*) pyglyd, pygol; pygog, llawn pyg; du, tywyll, gwyll, erch.
Pit-coal, *s.* glo'r pwll, glo pwll.
Piteous, *a.* (o *pity*) truenus, gresynol, truan, tostur, gresyn, gresin, trueddus, galarus, alaethus, tosturus, tosturiol, tosturiannol, truawl, truawr, truanog, tru; gwael, gorwael, tlawd; irad, girad, anaele.
Piteousness, *s.* truenusrwydd, gresyndod, gresyndra, gresyni, gresynder, gresynoldeb, gresynolrwydd, trueni, tostur, truander, truenusedd, truenusdra; galarusrwydd, tristlonedd, tristwch; tosturi, tosturiant, tosturiaeth, tosturusrwydd, tosturioldeb.
Pitfall, *s.* (*pit* a *fall*) bradbwll.
Pitfall, *v. a.* arwain *neu* dywys i fradbwll.
Pitfish, *s.* pydbysg=math ar bysg yn Môr yr India.
Pith, *s.* (S. *pitha;* Is. *pit*) bywyn, mwydyn, mwydionyn, bywed, bywedyn, mywyn, mywynt, mwyd, pabwyryn pren; mwydion; mêr, madruddyn, madrudd; merion, madruddion; mwydyn y cefn; grym, nerth, yni, cryfder; pwys, pwysigrwydd; sylwedd.
Pith, *v. a.* gwahanu mwydyn y cefn.
Pithily, *ad.* yn rymus, yn gryf, yn effeithiol, yn ddwys-wreiog, &c.
Pithiness, *s.* cryfder, grymusrwydd, grymusder,

grymder, egni, effeithioldeb; sylweddoldeb; bywyneiddrwydd.

Pithless, *a.* difywyn, difwydyn; disylwedd; sych; dinerth, dirym, dïegni; egwan, dïystyr.

Pithole, † *s.* ol clefyd *neu* salwch.

Pithy, *a.* (o *pith*) bywynog, mywynog, mwydionog, llawn mwydion; bywynaidd, mywynaidd, mwydionaidd, mwydionllyd; grymus, grymiol, grym, grymusol, nerthol, egnïol, ynïol; bywiog; eneidiog; effeithiol; sylweddol, sylweddlawn; dwys-wresog, prudd-wresog, melus-brudd; grymeiriog; gwlithog.

To become pithy—mwydioni; myned yn fywynog, &c.

Pitiable, *a.* (o *pity*; Ff. *pitoyable*) à haeddai dosturio wrtho; gwiw i dosturio wrtho; gresynol, gresynus, truenus; tostur, truan, trueinig, gresin, trueddus; irad, girad.

Pitiableness, *s.* gresyndod, gresyni, gresyndra, gresynoldeb, truenusrwydd.

Pitier, *s.* tosturiwr; un à dosturio.

Pitiful, *a.* (*pity* a *full*) tosturiol, tosturus, tosturiog, llawn tosturi, gresyngar; athrugar; gresynol, gresynus, truenus, truan, gresyn, gresin, trueddus, athru, tru, trueinig, truanog, truawl, truawr, truanaidd; gwael, gorwael, salw, distadl, bawaidd, brwnt, dirmygus, dirmygedig; i'w ddirmygu, i'w ddïystyru; tra bychan, dibwys; dilon, trist, prudd, trymllyd.

A pitiful fellow—bawddyn, bawyn, bawai: *pl.* bawach.

Pitiful fellows—dynionach; bawach.

A pitiful little fellow—gelach, oclach.

A pitiful old fellow—hen adyn.

A pitiful case—cyflwr gresyn, cyflwr gresin, cyflwr gresynus.

Pitifulness, *s.* tosturi, tosturiaeth, tosturioldeb, gresynoldeb, gresynolrwydd, &c.

Pitiless, *a.* didosturi, annhosturiol, annhosturus, didrugaredd, annhrugarog, annhrugar, annhostur, didosturiol; dideimlad.

Pitilessness, *s.* annhosturioldeb, annhosturi, annhrugarogrwydd, annhosturiogrwydd.

Pitman, *s.* (*pit* a *man*) gwr y pwll.

Pitsaw, *s.* (*pit* a *saw*) llif bwll, hirlif, llif hir, hesglif.

Pittacal, *s.* (Gr. *pitta* a *callos*) math ar ddefnydd glas teg; pyglas.

Pittance, *s.* (Ff. *pitance*) dogn, cyfran; byrbryd; ychydig.

A small pittance—adwledd, byrbryd; dogn bychan.

Pituitary, *a.* (o'r Ll. *pituita*) llysnafeddol, cornboerawl; à ddydolo lysnafedd.

Pituite, *s.* (Ff. o'r Ll. *pituita*) llysnafedd, llws, cornboer.

Pituitous, *a.* llysnafeddog, llysnafeddus, llysnafeddol, cornboerawl; tebyg i lysnafedd *neu* gornboer.

Pity, *s.* (Ff. *pitié*; It. *pietà*; Ll. *pietas*) tosturi, tosturiaeth, tosturiant, trugaredd, gresyn, trueni, gresi, gresyndod, gwaws; tynerwch.

The more the pity, } ysywaeth, ysgwaeth-
The more is the pity, } eroedd, yswaetheroedd, gwaetheroedd, gwaetherwydd, pand gresyn, pond gresyn; ond tostur yw; fel y mae y mwyaf y trueni; fel y mae y mwy y trueni; fel y mae gwaethaf y modd.

To have pity, } tosturio, trugarhau, gres-
To take pity, } ynu, truanu, truanhau, tosturiannu, tosturhau; bod yn dosturiol *neu* drugarog; bod yn ddrwg ganddo; bod â thrueni ganddo; bod ar un drueni.

To have pity on *or* upon—tosturio wrth, &c.; arbed, eiriach.

To be moved with pity towards—bod â thrueni dros; bod ar un drueni dros; bod yn ddrwg gàn un am; bod yn ddrwg gàn un o herwydd; tosturio wrth, gresynu wrth, &c.

He has no pity in him — nid oes tosturi ynddo; ni fedr oddi wrth dosturi.

It is a great pity that they have lost so valuable a book—mawr yw y trueni golli o honynt lyfr mòr werthfawr; gresyn yw colli o honynt lyfr mòr werthfawr; y mae yn resyn mawr iddynt golli llyfr mòr werthfawr.

Pity, *v.* tosturio wrth, trugarhau wrth, gresynu wrth; bod â thrueni dros; bod ar un drueni dros; bod yn ddrwg gàn un am; bod yn ddrwg gàn un o herwydd; bod â chwyn ganddo i; tosturio, trugarhau, tosturhau, tosturiannu, truanu, cirio.

No one pities a murderer when he is executed — nid oes ar neb dosturi dros leiddiad dyn pan ddïenydder ef.

To be pitied—cael trugaredd; cael cwyn; bod â chwyn iddo.

Which no man pities—digarad; na thosturia neb wrtho; a'r nid yw neb yn tosturio wrtho.

I pity thee—mae genyf gwyn i ti; mae yn ddrwg genyf am danat; mae yn ddrwg genyf drosot; y mae arnaf drueni drosot.

Piu, *ad.* (It.) mwy.

Piu allegro—ychydig yn fuanach; mwy buan, buanach.

Pivot, *s.* (Ff.) colyn, corddyn, pegor, còryn, pegwn, pegwrn; pill; goddyn.

A small pivot—pegoryn.

Pix, *s.* (Ll. *pyxis*) cist, arch, blwch, *neu* olwrch y sacrafen (yn Eglwys Rhufain); blwch yr arlladen, arlladgist; osgloer, cist brawf, blwch y praw-fathau.

Trial of the pix—prawf yr osgloer; prawf arian bath.

Pixing, *s.* prawf arian bath, profiad bathau.

Pizzle, *s.* (Is. *pees*) pidyn, piden, gwialen.

Placability, } *s.* (o *placable*) dyhuddgarwch,
Placableness, } hyfoddedd, hyfoddrwydd, dyhuddolrwydd, cymmodlonedd; hynawsedd, rhywiogrwydd.

Placable, *a.* (Ll. *placabilis*) dyhuddadwy, dyhuddgar, hyfodd, dyhuddol, cymmodlawn; à aller *neu* à ellir ei ddyhuddo; hawdd ei ddyhuddo; hawdd i'w ddyhuddo; hawdd ymgymmodi âg ef.

Placard, *s.* (Ff.; D. ac Al. *placat*) hysbysiad cyhoedd, cyhoeddiad, cyhoeddeb, hysbysiad, arhoeddiad, egluryn; postlen; enlliblen, athrodlen.

Placard, *v. a.* cyhoedd hysbysu, hysbysu ar gyhoedd, cyhoeddebu; rhoi ysgrifen ar bost mewn lle cyhoeddus; postlenu; athrodlenu.

Placate, *v. a.* (Ll. *placo*) dyhuddo, llonyddu, dyloñ, dystewi, cymmodi.

Place, *s.* (Ff.; Al. *platz*) lle, màn, mangre, crefan, llefod, men; -fa, -fan; sefyllfa, swydd.

A high place—uchelfa, uchelfan, lle uchel: *pl.* uchelfëydd, uchelfaoedd, uchelfanau.

Hallowed place—santeiddfa, santeiddfan,

glwysfa, gleinfa, glwysle, seintwar, cyssegr, cyssegrfa, lle santaidd, màn santaidd.
Place of torture—arteithfa.
Place of execution—dïenyddfa, dïenyddle, lle dïenydd; arteithfa; lle dyoddef, bryn dyoddef.
A place to lie down—gorweddfa, gorweddle; lle i orwedd.
Washing place—golchfa, golchfan, golchle.
Market place—marchnadfa, marchnadle, lle marchnad, maelorfa.
Fair place, } berthfa, berthfan, hyfryd-
Pleasant place, } le, lle hyfryd, màn hyfryd, mechain, gwempfa.
Sitting place—eisteddfa, eisteddle, seddfa.
The boat's place, }
The ferrying place } y geubalfa.
Judgment place—brawdfa, brawdle.
Level place—gwastadfa, gwastadle, lle gwastad.
Retired place—dirgelfa; lle unig, dirgel, *neu* neilltuol; lle dirgel ysgyfala; lle ar ei ben ei hun.
Shady place—cysgodle, lle cysgodfawr, lle cysgodaidd, cysgodfa, lle cysgodog, lle cysgodol, lle cysgodig, gwasgodle.
Frequented place—cyrchfa, cyrchfan, cynniweirfa, cyrchle, troedle.
A much frequented place—lle hygyrch, cyrchfa, cynniweirfa, cynnyredfa, cyrchle, cyrchfan.
A place of resort—troedle, cyrchfa, cynniweirfa.
Convenient place—cyfle, lle cyfleus, màn gyfleus, màn cyfleus.
Place of abode—anneddle, trigfan, trigfa, trigle, anneddfa, preswylfa, preswylfan, preswylfod.
Standing place—gorsaf, safle, sefyllfa.
A place for arms—gorsaf arfau, arfé, arfgell.
Of the same place of abode—cyttref.
That has no place of abode — didref, digartref; crwydraidd.
In this place—yn y lle hwn; yn y fàn hon; yn y màn hwn; yn y fangre hon; yn y màn yma; yn hyn o fàn; yn hyn o le.
The very place—y fàn a'r lle; y màn a'r lle.
This is the very place—dyma'r fàn a'r lle.
In that place—yna; yno, yngod, yngo; acw; lle yr wyt ti; y lle yr wyt ti; yn y lle yr wyt ti; yn y fàn yna; yn y lle yna.
In place of—yn lle; dros, tros.
In the place of—yn lle; er.
At the place in which—lle; y fàn lle, y màn lle; màn, màn y.
To the place where—i'r fàn lle; i'r màn lle; menyd.
In no place—nid yn unman; nid yn unlle.
In what place?—pa le? yn mha le? pa fàn? yn mha fàn?
In what place soever—pa le bynag; yn mha le bynag; bynag pa le; pynag pa le; pa fàn bynag; yn mha fàn bynag; bynag pa fàn.
In such a place—yn y lle a'r lle; yn y fàn a'r fàn; yn y màn a'r màn; yn y fàn hyn a'r fàn; yn y lle hyn a'r lle.
To take place—dygwydd, dygwyddo, cymmeryd lle, damweinio, hapio; dyfod; bod; bod mewn cymmeriad; bod mewn bri a chyfrif.
To take the place, } cymmeryd lle; cym-
To take place, } meryd lle un arall; dirprwyo.
To have place—cael lle; bod, hanfod.
To supply another's place—dirprwyo; cymmeryd lle un arall.
To give place—rhoi lle, rhoddi lle; ymröi; cilio *neu* sefyll yn ol.
To carry from place to place—dwyn o le i le; cario *neu* gludaw o fàn i fàn; cywain o'r naill le i'r llall; llamdwyo, trosglwyddo, trosi; mudo, symmud.
Out of place—allan o le; i maes o le; allan o'i le; i maes o'i le; maes o'i le; allan o drefn; mewn annhrefn, annhrefnus; dilo, diswydd; heb le, heb swydd, heb wasanaeth; allan o swydd; allan o wasanaeth.
To put out of its place—afleu, anghyfleu; bwrw *neu* symmud allan o'i le; annhrefnu.
I was never in this place before—ni bum ar y troedle hyn o dir erioed o'r blaen.
Place, *v. a.* rhoi *neu* osod mewn lle; rhoi *neu* osod yn ei le; lleu, cyfleu, llehau, cyflehau; gosod, gosodi, dodi, rhoi, rhoddi, sefydlu, manu.
To place again—adleu, adlehau, adgyfleu, ail osod; edfryd, adferyd.
To place out (at interest)—gosod yn llog; gosod ar log; gosod er llog; rhoi ar log; llogi.
Placebo, *s.* (Ll.) cyffyr i foddio yn hytrach nag i leshau y claf.
Place-bricks, *s. pl.* priddfeini meddal; y priddfeini pellaf o'r tân yn y ffwrn.
Placeman, *s.* un â chanddo le *neu* swydd dàn y llywodraeth.
Placenta, *s.* (Ll.) olysgar, adysgar, brych, y gwared, y garw.
Placental, *a.* perthynol olysgar; olysgarol.
Placentation, *s.* trefniad yr hadgibau yn eginad hadau; olysgariad.
Placentiferous, *a.* (Ll. *placenta* a *fero*) yn dwyn olysgar; adysgarog.
Placer, *s.* (o *place*) gosodwr, cyflëwr; un à cesyd beth yn ei le.
Placid, *a.* (Ll. *placidus*) araf, tawel, esmwyth, llonydd, llariaidd, llaryaidd, hynaws, tyner, mwynaidd, gwâr, gwaraidd, mwyth, llariain, llary, tirion.
Placidness, } *s.* arafwch, tawelwch, llonyddwch,
Placidity, } taweledd, hynawsedd, llaryedd, llarieidd-dra, llaryeiddrwydd, gwaredd, gwarineb, tiriondeb, mwyneiddrwydd, tynerwch, tawelusrwydd.
Placit, † *s.* (Ll. *placitum*) gosod, gosodiad, gorchymyn, dedfryd, penderfyniad.
Placitory, *a.* perthynol i ddadleuon yn llysoedd barn; yn perthyn i ddadleu cyfreithiol.
Plack, *s.* (T. *placke*) dimai yr Alban.
Placket, *s.* (o'r Ff. *plaquer*) pais benyw, pais; agoriad pais benyw; yr agoriad yn mhais benyw; balog.
Placoid, *a.* (Gr. *plax* ac *eidos*) pladaidd, alloraidd.
Placoidans, *s. pl.* (Gr. *plax* ac *eidos*) pladogion.

Plafond, } *s.* (Ff.) nen ystafell, nenfwd ys-
Platfond, } tafell; tu fewn i'r goron (mewn adeiladdiaeth).

Plagal-melodies, *s. pl.* (Gr. *plagios*) erddyganau gwyr, erddyganau lleddf.

Plagiarism, *s.* (o *plagiary*) llenladrad, llenledrad, llenysbail, lladrad llên, llenysbeiliad.

Plagiarize, *v. a.* llenladrata, llenledrata, llenysbeilio, llenwillio; lladrata llenwaith un arall.

To play the plagiary—llenladrata, llenledrata, llenysbeilio; chwareu y llenleidr, chwareu y llenysbeilydd; cymmeryd yn lladradaidd allan o lenwaith ereill *neu* arall.

Plagiary, } *s.* (Ll. *plagiarius*, o *plagium*) llen-
Plagiarist, } leidr, llenysbeiliwr, llenysbeilydd, lleidr llên, lleidr llenwaith, lleidr llyfrau.

Plagiary, † *s.* llenladrad, llenysbeiliad; y troedd o lenysbeilio.

Plagiary, *a.* llenledradol, llenysbeiliawl; yn ymarfer â llenladrad; † yn lladrata dynion.

Plague, *s.* (Ll. ac Ysp. *plaga;* D. ac Al. *plage*) pla, (*pl.* plău); cowyn, galldwyn, mallhaint, llynwys, pla y nodau, haint y nodau, ball, egwy; gormes, gormail, goreillid, dirboen, poen, poenedigaeth, gofid, afiwydd, dyfnod, elyffwl.

Having the plague—â'r pla arno; claf o'r nodau.

Plague and famine—pla a newyn; ball a newyn.

Belonging to the plague—perthynol i'r pla; plaol.

Plague, *v. a.* plău, plaeo; taro â phla; blino, poeni, dirboeni, poenydio, maeddu, taro, dialeddu ar, crugo, dygnu.

To plague one's self—ymflino, ymboeni, ymofidio.

We provoke him to plague us with divers diseases—yr ym ni yn ei annog ef i'n plău âg amryfal glefydau.

Plagueful, *a.* llawn plău, plaog; â'r pla arno.

Plagueless, *a.* dibla; rhydd oddi wrth bla *neu* blău.

Plaguily, *ad.* yn flin, yn ddygn flin, &c.

Plaguy, *a.* blin, gorflin, trablin, dygn flin, trallodus, poenus, gofidus; adwythig, adwythain, adwythus, gwenwynllyd; â bair flinder a chythrwfl; â fo yn bla; â fo yn wenwyn; plăaidd.

Plaice, } *s.* (*Ff. plie;* Al. *platteise;* D. *platfisk*)
Plaise, } lleden y môr, lleden frech, lleden goch, lleden.

Plaice-mouth—min cam.

Plaid, *s.* (C. *plaid?—Webster*) brithwe, breithwe, brychan, brych.

Scotch plaid—brych.

Plain, *a.* (Ff.; Ll. *planus;* Al. a Sw. *plan*) gwastad, llyfn, gwastadlyfn; eglur, amlwg, hywel, eglwg, dïargel, dïorchudd, noeth, digel, goleu; syml, dysyml, dihoced, gonest, diddichell, didwyll, diffuant, annichellgar, dïymdro, dïystryw, teg, clau; dïaddurn, heb addurn; anghywrain, anghywraint, anghelfydd; dirodres, dirwysg, anghoeth, anghoethedig; gwladaidd, gwledig; croew, difyngus, rhydd, rhwydd; digymmysg, anghymmysgedig, anghymmysgadwy; dirwystr; anllythyrenog, aflenog; bledd, blanol; cartrefol.

Plain truth—gwir goleu, noeth, *neu* ddïargel; gwirionedd dïorchudd *neu* ddïenhudd.

Plain food, fare, *or* diet—ymborth gwladaidd, cyffredin, anfoethus, *neu* ddifoethau.

Plain dress — gwisg ddïaddurn, gwisg seml, gwisg syml.

A plain man—gwr difalch, dirwysg, dirodres, gwladaidd, *neu* wledig; un â'i el yn wladaidd *neu* wledig; un â wisgo yn wladaidd *neu* wledig; gwr dysyml, dyn syml: dyn didwyll, diddichell, dihoced, clau, diniwed, diweniaith, anghyfrwys, cywir, uniawn, *neu* onest.

Plain dealer—cywirddyn, cleuddyn, dyn gonest, dyn clau, dyn cywir, dyn difrad; dyn uniawn a gonest yn ei fasnach; dyn dihoced yn ei fasnach.

Plain work — gwniadwaith dïaddurn; gwaith dïaddurn, gwaith cyffredin, cyffredin-waith.

Plain surface—wyneb gwastad, wyneb llyfn; gwastadlawr, llawr gwastad; clawr; gwastad-glawr.

To be plain with you—fel na thwyllwyf chwi; fel na bo i mi eich twyllo chwi; fel y dywedwyf i chwi yn eglur; fel y dywedwyf i chwi y gwir goleu.

To make plain — gwastatău; egluro; gwneuthur yn eglur, &c.

Plain, *ad.* yn eglur, yn amlwg; yn groew; yn syml, yn ddïaddurn.

To speak plain, } llefaru yn groew; llef-
To speak plainly, } aru yn eglur; dywedyd yn eglur *neu* yn amlwg.

Plain, *s.* (Ll. *planus;* Ff. *plaine;* Gw. *cluain*) gwastadedd, gwastattir, gwastadle, gwastad, gwastadfa, gwastadfan, lle gwastad, maes, tyno, ceimle, gwaent, ble, gâl, brodir, bro, as, lledd; caint, cadfa, cadfaes.

Plains—gwastadoedd, gwastattiroedd, &c.

The great plain — y gwastadedd mawr.

Plain, *v. a.* gwastatău, gwastatu, gwastadu, gwastata; gwneuthur yn wastad; llyfnu, llyfnhau.

Plain,† *v. n.* (Ff. *plaindre;* Ll. *plango*) cwyno, cwynfan, cwynofain, galaru, alaethu, wylofain.

Plain-dealing, *a.* diddichell, didwyll, *neu* ddihoced yn ei fasnach; diddichell, didwyll, *neu* ddihoced yn ei ymddygiad; gonest, didwyll, dihoced, diddichell, clau, cleurfyd, dïorchudd.

Plain-dealing, *s.* masnach ddihoced, ddidwyll, *neu* onest; ymddygiad didwyll, dihoced, *neu* onest; ymddygiad disom, anhyblyg, clau, *neu* ddïorchudd; gonestrwydd, diffuantrwydd, didwylledd, dihocedrwydd, cleuder.

Plain-hearted, *a.* didwyll, dihoced, *neu* onest ei galon; â chanddo galon ddidwyll, ddihoced, ddidichell, *neu* onest; âg iddo galon ddidwyll, ddiffuant, *neu* ddiragrith; cywir e galon; calon-gywir; didwyll, dihoced, diffuant, diddichell, gonest, calonrydd.

Plain-heartedness, *s.* didwylledd, dihocedrwydd gonestrwydd, *neu* gywirdeb calon; diffuantrwydd, gonestrwydd, didwylledd, symledd.

Plaining, † *s.* cwyn, cwynofaint.

Plainly, *ad.* yn wastad, yn eglur, &c.

Plainness, *s.* gwastadrwydd, cydwastadrwydd, cyngwastadrwydd, gwastadedd; llyfnder, llyfndra, llyfnedd; eglurdeb, eglurder, am-

lygrwydd; symledd, dysymledd, symlrwydd; gonestrwydd, diffuantrwydd, dihocedrwydd, didwylldra, didwylledd, &c.

Great plainness—hyfder mawr (2 *Cor.* iii. 12).

Plain-sailing, } *s.* hwyliad gwastad, hwyliad ar
Plane-sailing, } wastadlawr, gwastad hwyliad, hwylio gwastad = hwyliad megys pe bai wyneb y môr yn wastad ac nid yn grwn.

Plain-song, } *s.* cân seml, dygan seml, corgan
Plain-chant, } seml, llafargan ddïaddurn.

Plain-spoken, *a.* yn llefaru yn ddidwyll, yn ddigel, yn ddiffuant, neu yn onest; yn traethu ei feddwl yn amlwg ac yn ddigel; eglurwed.

Plaint, *s.* (*Ff. plainte*) cwyn, achwyn, achwyniad, cwynfan, galar, galarnad, alaeth, cwynofaint, wylofain.

Plaint (in law)—cwyn.

Plaintful, *a.* cwynfanus, cwynfanol, cwynol, cwynfanllyd, alaethol.

Plaintiff, *s.* (*Ff. plaintif*) cwynwr, cwynydd, achwynwr, achwynydd, hawlblaid, hawlwr, hawlydd, holwr, holydd, canlynwr, gofynwr, gofynydd.

Plain-tiles, } *s. pl.* priddellau gwastad, priddPlane-tiles, } llechau gwastad.

Plaintive, *a.* (*Ff. plaintif*) cwynfanus, cwynfanllyd, cwynfanol, cwynol, achwynol, achwyngar, ergwynol, galarus, alaethol; tafodlusg.

Very plaintive—tra chwynfanus, trachwynol, gorgwynol.

Plaintiveness, *s.* cwynfanusrwydd, cwynfanoldeb, cwynoldeb, achwyngarwch.

Plaintless, *a.* digwyn, digwynfan, anghwynfanus, dïalar; diddig.

Plain-work, *s.* gwniadwaith dïaddurn; gwaith dïaddurn, gwaith cyffredin, cyffredin-waith.

Plaister, *s.*=*Plaster.*

Plait, *s.* (C. *pleth*; Ff. *plisser*; D. *fletter*) plyg, dill, pleth, crych, crychiad, dilliaden, dyblyg; cudyn, llofn.

Plait, *v. a.* plygu, dyblygu, plethu, dillio, crychu; sideru; cymhlethu, dyrysu, nidro, cinyglu, penblethu.

Plaited, *p. p.* plygedig, plethedig, &c.

Plaited work—plethwaith, gwaith pleth; rhestog; cynhugl.

Plaiter, *s.* dilliwr, dilliedydd, (*f.* dilliedyddes), dilliadwr, plethwr, plygwr.

Plan, *s.* (Ff., Al., Is., D., a Sw.) cynllun; cynfwriad, rhagfwriad; dyfais, darfelyddiad; llun, ffurf; trefn.

Plan, *v. a.* cynllunio; rhagfwriadu, cynfwriadu; dylunio; llunio, dyfeisio.

Planary, *a.* (o *plane*) perthynol i wastadlawr; asafol.

Planceer, *s.*=*Plancher, Plancheer.*

Planch, *v. a.* (Ff. *planche*) estyllodi, ystyllodi, astellu, astyllodi, plancio.

Planched floor—llawr estyll.

Plancher, } *s.* (*Ff. planchir*) astyllen, astell;
Plancheer, } bwrdd; llawr; gwyneb isaf taleithwrn.

Plancher, *v. a.* llorio âg estyll; astyllodi, estyllodi, estyllu, astellu, plancio.

Planchet, *s.* (Ff. *planchette*) darn gwastad o fath neu fettel; darn gwastad.

Planching, *s.* lloriad; lloriad âg estyll; estyllodiad, astelliad, estylliad, astyllawd; llawr estyll, llawr estyllod.

Plane, *s.* (Ll. *planus*; Ff. *plain*) gwastad, gwastadlawr, asaf, asant, clawr, as, wyneb gwastad, wyneb llyfn, arwynebedd, aserw, gwastadedd; gwastadlain; peithyned; canwyr, plân, gwastedydd, llyfniedydd.

Inclined plane,—osglawr, osgwyneb, llethrwyneb, gwastadlawr gogwyddedig, gwastad gogwydd.

Plane, *v. a.* canwyro; llyfnu, llyfnhau, rhathu, dylathru; tecäu.

Planer, *s.* canwyrwr, canwyrydd; llyfnhäwr, llyfniedydd, llyfnhëydd.

Planet, *s.* (Gr. *planêtês*; Ll. *planeta*; Ff. *planète*) planed, planad, goruchiad.

Born under a lucky planet—à anwyd ar awr dda; à anwyd dân blaned ddedwydd.

Born under an unlucky planet—à anwyd ar awr ddrwg; à anwyd dân blaned drom.

Plane-table, *s.* gwastadfwrdd, bwrdd gwastad.

Planetarium, *s.* (o *planet*) planedydd, planedyr, serfynag, cymodell.

Planetary, *a.* (Ff. *planétaire*) planedol; eiddo y planedau; perthynol i'r planedau; dân lywodraeth y planedau.

Planetary motion—symmudiad y planedau.

Planetary years—blyneddoedd y planedau; blyneddoedd planedol.

Planeted, *a.* planedol, planedog.

Planetical, † *a.* planedol; perthynol i'r planedau.

Plane-tree, } *s.* (Ll. *platanus*; Ff. *plane, platane*)
Plane, } pilcoes, gwŷdd y pilcoes, planwydden, lledon, y pren plân.

Occidental plane-tree—pilcoes gorllewinol, lledon gorllewinol; botymwydden.

Planet-struck. *a.* tarawedig gân blaned; à darawyd gân blaned; tarawedig gân felîten; wedi cael y gafod; mall, deifiedig; dychrynedig.

Planetule, *s.* planeden, planed fechan.

Plangent, *a.* (Ll. *plango*) yn curo fel y tònau.

Planifolious, *a.* (Ll. *planus*, a *folium*) llyfnddeiliog, gwastad-ddeiliog.

Planipetalous, *a.* (Ll. *planus*, a Gr. *petalon*) lledd-wulliog, llyfn-wulliog.

Planimetric, } *a.* asfesurol, gwastadfesurol;
Planimetrical, } perthynol i fesuriaeth arwynebau gwastad.

Planimetry, *s.* (Ll. *planus*, a Gr. *metron*) asfesuriaeth, gwastadfesuriaeth, mesuriaeth arwynebau gwastad.

Planipodes, *s. pl.* (Ll. *planus*, a Gr. *pous*) troednoethion=y dynwaredwyr Rhufeinig.

Planish, *v. a.* (o *plane*) llyfnhau, llyfnu, gwastatäu, dylathru, llugoinio, lluganu, caboli.

Planipennes, } *s. pl.* (Ll. *planus* a *penna*)
Planipennates, } llyfnadeinogion.

Planisphere, *s.* (Ll. *planus*, a *sphere*) asgronen, asgronell, gwastadlun y byd, cronen wastadlun, cronell wastadlun, gwastad gronell, llyfn-gronell.

Plank, *s.* (Al. a D. *planke*; Ff. *planche*) planc, astyllen dew, astell, astyllen, estyllen, aserw, toniar.

A little plank—plencyn, astyllen.

Thick planks—trawstiau (*Esec.* xli. 25); planciau tewion.

Plank-yard—estyllfa, astyllfa.

Plank, *v. a.* plancio, estyllu, astyllodi, estyllodi.

Planless, *a.* (o *plan*) digynllun, heb gynllun.

Planner, *s.* cynlluniwr; dyfeisiwr, dyfeisydd.

Plano, (o'r Ll. *planus*) gwastad, llyfn, gwastadlun, lledd-: arferedig mewn cyfansoddiad.

In plano—ar glawr; ar beth gwastadlyfn.

Plano-concave, *a.* asgeuol, lleddgeuol, lleddgau, gwastad-geuol, gwastad-gau; gwastad ar un tu a cheuol ar y tu arall.

Plano-conical, *a.* lleddffeinol, lleddffeinig, asffeinol, gwastad-ffeinol, gwastad-gonawl; gwastad ar un tu a ffeinol ar y tu arall.

Plano-convex, *a.* gwastadgrwm, lleddgrwm, asgrwm, gwastadgrwn; gwastad ar y naill wyneb a chrwm ar y llall; â'r naill ochr yn wastad a'r llall yn grom.

Plano-horizontal, *a.* lleddorwelig, lleddorwelawl; cydwastad â'r terfyngylch; gwastad a llorwedd.

Plano-subulate, *a.* llyfn ac ar ddull mynawyd.

Plant, *s.* (Ll., Ysp., a Sw. *planta;* Ff. *plante*) planigyn, pren plan, planwydden; llyseuyn, llysieuyn, llys, -llys; gwadn, cêr, celfi: *pl.* planigion, llysiau, llysau, tyfolion.

The plant of the foot—gwadn troed, gwadn y troed.

The plant of a railway—cêr rheilffordd, celfi rheilffordd, taclau rheilffordd.

Nursery of plant, } planigfa, cymhlanfa,
Nursery for plants, } llysieufag, gardd fagai, llwyn planwydd, gardd blanigion.

Dry plants—llysiau sychion, llysiau marchnad, llysiau siopau.

Acanaceous plants—llysiau ysgallog.

Sea plant—llysieuyn môr, planigyn môr; gwymon.

Green plants — gwyrddlysiau, llysiau gwyrddion.

Plant, *v. a.* planu; dodi *neu* osod (i dyfu); gosod, dodi, sefydlu, cyflëu.

To plant about—amblanu.

To plant again—adblanu, ail blanu; ail ddodi (i dyfu).

To plant a cannon—cyflëu, sefydlu, gosod, *neu* annelu cyflegr.

Plantable, *a.* planadwy.

Plantage, † *s.* (Ll. *plantago*) llys, planigyn, llysieuyn; planigion, llysiau, amrylys.

Plantago, *s.* (Ll.)=*Plantain.*

Plantain, *s.* (Ff. o'r Ll. *plantago*) llyriad, erllyriad, llydan y ffordd, dail llydain y ffordd: *pl.* llyriaid, erllyriaid.

Greater plantain—llyriad mwyaf, henllydan y ffordd.

Hoary plantain—llyriaid llwydion, tafod yr oen.

Water plantain—llyren, llyriad y dwr, llyriad y dwfr, dyfr-lyriad.

Greater water plantain—llyriaid llymion, llyriaid y llynau, dyfr-lyriaid mwyaf.

Floating water plaintain—dyfr-lyriad nofiadwy, llyren nofiadwy.

Smaller water plantain—dyfr-lyriad bychan, llyren fechan.

Creeping water plantain—dyfr-lyriad ymlusgol.

Sea plantain—llyriaid y môr, llyriad y môr, bara cân y defaid, gwerog, màn y dôn, llysiau y defaid, sanper y defaid.

Buckshorn plantain—llyriad corn y carw, llysiau Efa, seren y ddaiar.

Ribwort plantain—astyllenlys, estyllenlys, astyllenes, llwynhidydd, llwynhidl, ysgelynllys, llwyn y neidr, llyriad llwynhidydd, penau y gwŷr, dail llwyn y neidr, sawdl Crist, llysiau yr ais.

Three-ribbed plaintain=*Ribwort plantain.*

Plantain shoreweed—beisdonell.

Plantain, } *s.* (Ysp. *platano*) llyrwydden,
Plantain-tree, } llyriadwydden.

Plantal, † *a.* planigol; perthynol i blanigion.

Plantation, *s.* (Ll. *plantatio*) planiad, plân; planigfa, planfa, cymhlanfa, gwyddlan, planllwyn, llwyn planwydd; ffrith, ffridd, coedlan, coedwig; planwlad, (*pl.* planwledydd), trefedigaeth; sefydliad; tyddyn.

Planted, *p.p.* planedig, â blanwyd, wedi ei blanu; planog, plân.

Planted about—amblanedig, amblan.

Planted with divers plants—cydblan, amryblan.

Newly planted—newydd-blan.

Planter, *s.* planwr, planydd, planiedydd; trefodog, un trefedig, (*pl.* trefedigion); sefydlwr; perchen planfa.

Plantership, *s.* planyddiaeth, planwriaeth; swydd *neu* alwad planwr; triniaeth planfa.

Planticle, *s.* planigyn bychan, planigyn yn y rhith, rhith-blanigyn.

Plantigrade, *s.* (Ll. *planta* a *gradior*) gwadnymmodog, gwadnymmodiad; creadur yn cerdded ar wadn ei droed: *pl.* gwadnymmodiaid, gwadnysgogiaid.

Plantigrade, *a.* gwadnymmodol, gwadnysgogol; yn cerdded ar wadn y troed.

Planting, *s.* planiad, plân; planu; planfa, planigfa.

Planting-stick—pren planu.

Plantlet, *s.* planigyn bychan.

Plantlouse, *s.* llyaleuen, pryf y gwinwydd.

Plantule, *s.* rhith planigyn, llysrith.

Planxty, *s.* math ar ddawns Gwyddelig.

Plash, *s.* (Is. *plas;* Al. *plätschern;* D. *plasher*) llynwyn, corbwll, corllyn, corlyn, llŷn, sybwll, sefydlyn, merydd, pyllyn; plycooed; perth, bid, *neu* wrych plygedig; brig pren wedi eu godori a'u plygu; ysgeintiad.

Plash, *v.* yslotian, tasgu dwr, ysgeinio, ysgeintio; bidio; plygu perth, bid, *neu* wrych; plethu perth; ysgythru.

To plash trees—ysgythru coed.

Plashing, *s.* plygiad perth, bid, *neu* wrych; plethiad perth, bid, *neu* wrych; bidiad, ysgythrad.

Plashing, *a.* llynwynog, corbyllog, sybyllog; dyfrllyd; gwlyb; corslyd.

Plasm, *s.* (Gr. *plasma*) mold, drychiaden.

Plasma, *s.* (Gr.) math ar ddelidfaen.

Plasmatic, } *a.* (Gr. *plasma*) lluniedyddol,
Plasmatical, } delwadol, lluniol, dyluniol, ffurfiadol.

Plaster, *s.* (D.; Al. *pflaster;* Ff. *plâtre;* Gw. *plastar*) plastr, paeled, cymrwd; eli, enaint; suglïan.

Plaster of Paris—cymrwd Paris, plastr Paris.

Drawing plaster—suglïan.

Covered with plaster—plastrog, plastredig.

Plaster, *v. a.* plastro, plastrio, cymrydu, paeledu; rhoi plastr ar, dodi plastr ar; rhoi plastr wrth; dwbio.

Plasterer, *s.* plastrwr, plastrydd, plastredydd, cymrydwr; dwbiwr.

Plastering, *s.* plastrad, plastriad, cymrydiad; calchiad pared; plastro.

A fair plastering—plastr teg (*Ecoles.* xxii. 17).

Plaster-stone, *s.* glyfaen, cleifynor, mynorglai, plastfaen.

Plastic, } *a.* (Gr. *plasticos*) lluniedyddol,
Plastical, } delwadol, lluniol, lluniadol, dyluniol, ffurfiadol; à lunio, à luniodd.
The plastic hand of the Most High—llaw luniedyddol y Goruchaf.
Plastic art—y gelfyddyd ddelwadol, y gelfyddyd luniedyddol; lluniedyddiaeth.
Plastic clay—clai delwadol.

Plasticity, *s.* delwadoldeb, delwadolrwydd, lluniioldeb.

Plastography, *s.* (Gr. *plastês* a *graphô*) lluniedyddiaeth, y gelfyddyd ddelwadol, y gelfyddyd luniedyddol.

Plastron, *s.* (o *plaster*) bronob.

Plat, *v. a.* (o *plait*) plethu; gwau, gweu.
To plat the upper row of rods (in hedging) —bangawio, bancawio.

Plat, } *s.* plethwaith.
Platting, }

Plat, *s.* (Is., D., a Ff.; Al. *platt*) talwrn, (*pl.* telyrnau), darn o dir, dernyn o dir, maes, rhandir, tyno, as o dir, llain, gwast, llanerch.
A plat of ground—maes, rhandir; dernyn o dir, &c.
A bare plat of ground—llawrfaes.
A green plat—gwyrddon, gwerddon, glaslanerch, llanerch las, glesin, parlas, glas dalwrn, glas, glesygen, cadlas.

Plat, }
Platte, } †*s.* cynllun, rhaglun, dyfais, bwriad.
Plot, }

Plat,† *a.* gwastad, cydwastad, llyfn, gwastadlyfn.

Plat,† *ad.* yn wastad, yn llyfn; yn ddidwyll, yn gywir.

Platane, } *s.* (Ll. *platanus*) pilcoes, gwŷdd y pil-
Platan, } cos, planwydden, lledon, y pren plân.

Platanus, *s.* (Ll.)=*Platane.*

Platband, *s.* ymylgylch o flodau; min *neu* ymyl blodeufa; lleindas; ffasgrwym, ffas, ffasg; plethrim; colofrwy; gwarddrws bwaog.

Plate, *s.* (Is. *plaat*; Al. *platte*) llafn, llafn o fettel, llafon; dalen; alor, plad, clawr bwyta, clawr; dysgl, dysglan; llestri aur *neu* arian; dodrefn arian *neu* aur; argrafflafn, argraffun, argraffien, cerflen; darlun; amdo, caen; cadwisg lafnau; cadwisg ddalenog *neu* lafnog; pren *neu* drawst yn gorwedd mewn mur; gwobr y march goreu mewn rhedegfa.
A piece of gold plate—llestr aur, llestryn aur; dodrefnyn aur.
A piece of silver plate—llestr arian, llestryn arian; dodrefnyn arian.

Plate, *v. a.* llafnu, dalenu, llafoni; gorthöi, gorchuddio, amdöi, *neu* amwisgo â dalenau mettel; arwisgo, gwisgo; caenu; gorthöi â dalenau o ryw fettel; addurno â llafnau aur *neu* arian; gwisgo arfau amddiffyn; gyru yn llafnau *neu* yn ddalenau; pladio.
To plate sin with gold—arwisgo pechod âg aur.

Plateau, *s.* (Ff.) gwastad, gwastadedd, gwastadlawr; uchel wastadedd; heilyr, llawfwrdd, bwrdd llaw; bwydiar; addurn-blad, dysgl addurnol ar ganol bwrdd.

Platen, *s.* (Al. *pflatt*) gwasgfwrdd, gwasgfwrdd argraffwasg.
The platen—y gwasgfwrdd.

Platey, *a.* (o *plate*) ar lun plad *neu* ddysgl; dysglaidd; gwastad.

Platfond, } *s.* = { *Plafond.*
Plafond, } { *Platfond.*

Platform, *s.* (*plat*=flat, a *form*) llwyfan, llwyf, esgynlawr, esgynfwrdd, banc, banllawr, lleithig; areithfwrdd; seilargraff, seilddarlun; cynllun.
Raised platform—esgynlawr.

Platic, *a.* (Gr. *platus*) llydan, llydol.
Platic aspect (in astrology)—trem lydol= pelydryn â deflir o'r naill blaned i'r llall, nid yn gywir, ond o fewn trogylch ei goleuni ei hun.

Platina, } *s.* (Ysp. *platina*, o *plata*, arian;
Platinum, } ond oddi wrth yr afon *Plata*, yn ol rhai) pladin=delid, trymach nag aur, â ddarganfŵyd yn 1741, yn nghloddfëydd Choco, yn Periw.

Plating, *s.* (o *plate*) llafniad, daleniad, llafoniad; caeniad; gorchuddiad, gorthoad, amdoad, *neu* amwisgiad â delid *neu* fettel; arwisgiad.

Platiniferous, *a.* (*platinum*, a Ll. *fero*) yn dwyn *neu* yn cynnyrchu y delid pladin.

Platitude, *s.* (Ff.; o'r Gr. *platus*) gwastadrwydd; diflasrwydd, diflasdod, merfedd, marweidddra.

Platonic, } *a.* (o *Plato* neu *Platon*) perthynol
Platonical, } i Plato; eiddo Plato; yn ol dull Plato; yn ol daliad *neu* athrawiaeth Plato;
Platonig, Platonaidd, Platonawl; pur.
Platonic year—y flwyddyn fawr, blwyddyn Plato, y flwyddyn Blatonig=blwyddyn adferiad pob peth i'w gyflwr presennol, yr hyn a gwblhëir mewn 25,000 o flynyddoedd.
Platonic love—cariad engylaidd, cariad angelaidd, cariad angylaidd; cariad pur; cariad Platonig; cariad *neu* serch pur a chwbl-ddiddyfnedig oddi wrth chwantau cnawdol; serch a hyfrydwch y meddwl yn unig heb fod yn nghymmysg â neb rhyw gnawdol ddifyrwch.
Platonic bodies—cyrff Platonig.

Platonically, *ad.* yn ol dull Plato.

Platonism, *s.* Platoniaeth; athroniaeth *neu* athrawiaeth Plato.

Platonist, } *s.* Platoniad, Platonydd, Platon-
Platonizer, } wr; dylynwr, dylynydd, canlynwr, *neu* ddysgybl Plato; un o ddysgyblion Plato: *pl.* Platoniaid.

Platonize, *v.* Platoneiddio; mabwysiadu tybiau *neu* athroniaeth Plato; egluro ar egwyddorion Plato *neu* ei ganlynwyr.

Platoon, *s.* (Ff. ac Ysp. *peloton*) pedroglu; mynteian bedrogl o filwyr.

Platter, *s.* (o *plate*) dysgl, bwydiar, ysgudell; noe; dwbler; ysgâl.

Platter, *s.* (o *plat*) plethwr, gweuwr, gwëydd, pleth-weuwr.

Platter-faced, *a.* wynebglawr; wyneblydan, wynebfawr.

Platypus, *s.* (Gr. *platus* a *pous*) y pedlydan; ednogryn.

Plaudit, *s.* (o'r Ll. *plaudo*) canmoliaeth, clodforedd, moledd, moliant; bloddest; cymmeradwyaeth; cyforddyl.

Plauditory, *a.* canmoliaethol, moliannol, bloddestol, moleddus, molachus.

Plausibility, } *s.* (o *plausible*) golygusrwydd,
Plausibleness, } wynebolrwydd, lliwusrwydd; tegwch peth o ran golwg *neu* ymddangosiad; hyfoledd peth o ran golwg *neu* ymddangos-

iad; ymddangosiadusrwydd; tebygolrwydd, tebygoldeb.

Plausibilities—tebygion, tebygolion; pethau golygus, &c.

Plausible, *a.* (Ll. *plausibilis*) golygus, ymddangosiadus, lliwus, wynebol, gwynebol; teg, hyfawl, gwiwfawl, *neu* gymmeradwy o ran golwg; â fo yn edrych *neu* yn ymddangos yn deg *neu* yn gymmeradwy; tebyg i wir; tebygol; wyneb deg; poblogaidd; â ymddangoso yn deg *neu* yn gywir.

Plausibly, *ad.* yn olygus, &c.; yn deg o ran golwg *neu* ymddangosiad, &c.

Plausive, *a.* (Ll. *plausus*) canmoliaethol, clodforus, moliannol, moleddus, molachus, bloddestol; tebygol, golygus.

A plausive shout — bloddest clodforedd, bloddest canmoliaeth, bloedd clodforedd, bloddest, clodfloedd.

Play, *v.* (S. *plegan, plegian*) chwareu, chware, chwarae, chwara, chwarau, gwareu, gware, gwarae, gwara, gwarau, chwerio, darwareu; canu; gofregu, prancio, tesa, rhonta, maswedda; ofera, simera; gweithio; chwareu yn ol ac yn mlaen.

To play before—rhagchwareu, rhagchware.

To play the—chwareu y *neu* yr; ymddwyn fel; bod yn.

To play the boy—chwareu y bachgen; ymddwyn fel bachgen; bachgeneiddio.

To play the child—chwareu y plentyn; ymddwyn fel plentyn; plentyneiddio.

To play the coward—chwareu yr anwr; ymddwyn fel anwr; bod yn anwr; troi ei gefn; cilio.

To play the drunkard—chwareu y meddwyn; ymddwyn fel meddwyn; meddwi.

To play the knave—chwareu y dyhiryn; ymddwyn fel dyhiryn; bod yn ddyhiryn.

He played the knave with me — efe a wnaeth â mi fel dyhiryn *neu* ddiffeithwr.

To play the man—ymddangos yn wr; dangos ei hun yn wr; ymddwyn fel gwr; chwareu y gwr; bod yn wr; chwareu y gwas gwych; gwneuthur rhan gwr; ymwroli; gwneuthur yn wrolwych, &c.

To play the part of — gwneuthur rhan, chwareu rhan; gwneuthur dyledswydd; ymddwyn fel, ymarwedd fel.

To play one's part — chwareu ei ran; gwneuthur ei ran; gwneyd ei ran.

To play pranks — gwneuthur pranciau, gwneuthur ystranciau; prancio; ystrancio; chwareu y gwas digrif.

To play the thief—chwareu y lleidr; ymddwyn fel lleidr; bod yn lleidr; gwneuthur lladrad; lladrata.

To play together—cydchwareu, chwareu yn nghyd, chwareu gyda'u gilydd.

To play tricks — gwneuthur castiau; gwneuthur ystranciau; castio.

To play the truant—godechial, godechu, dydechu; bod yn absennol heb genad; trigo allan o'r ysgol yn dydach yn rhywle.

To play the tyrant—chwareu y gormesdeyrn; ymddwyn fel gormesdeyrn; bod yn ormesdeyrn; bod yn ormesydd; bod yn ormesol; gormesu.

To play at—chwareu; chwareu ar.

To play at bowls—chwareu cnapan; chwareu pel dreigl.

Play away—chwarëwch, tefiwch, bwriwch, &c.

To play away one's money—gwastraffu ei arian ar chwareu; chwareu ymaith ei arian.

To play at hazard—chwareu damwaen.

To play a great game, } chwareu am law-
To play at great game, } er.

To play at small game—chwareu am ychydig.

It is better to play at small game than to stand out—gwell yn nghysgod y gawnen nag heb ddim; gwell yn ngwasgod y gawnen nag heb ddim; oni cheffi genin, dwg fresych.

To play a sure game—chwareu y ffon ddwybig; chwareu y llaw wèn.

To play a safe game — chwareu yn ddiberygl; chwareu ar sail sicr.

To play one's game well—trin ei orchwyl *neu* ei fater yn hyfedr; chwareu ei chware yn fedrus; chwareu ei chware yn dda.

To have a great game to play—bod i *neu* gàn un orchwyl mawr mewn llaw; bod gàn *neu* i un fater mawr mewn llaw.

To play on—chwareu ar; chwareu; canu; curo ar; twyllo, coegio, somi; cellwair â, cymmwedd â, chwareu â.

To play on an instrument of music—chwareu ar offeryn cerdd.

To play on a fiddle—crythorio, ffilorio, crythu, canu crwth, chwareu y crwth.

To play on the harp, } telynorio, telynori,
To play the harp, } teleinio, canu telyn, canu y delyn, canu ar delyn, canu ar y delyn, chwareu ar y delyn, chwareu y delyn.

To play an engine—rhoi *neu* osod ermig ar waith; rhoi *neu* osod peiriant ar waith; gweithio peiriant *neu* ermig.

To play on the stage—chwareu mewn chwareudy *neu* chwareufa; chwareu ar y daflod; ymarfer o gelfyddyd chwarëyddion; dylyn celfyddyd chwarëyddion.

To play upon—chwareu ar; canu; curo ar; twyllo, somi; gwawdio, dyfalu; cellwair, cymmwedd, cydgam, *neu* gydgamu â g; chwerthin am ben.

To play upon a place with cannon—curo ar le â chyflegrau *neu* fagnelau; cyflegru lle, magnelu lle.

To play the wanton—chwareu y drythyll; bod yn nwyfus, yn drythyll, *neu* yn anllad; bod â dyre *neu* desach arno *neu* arni; dyrain, tesach, nwyfo, ymdrythyllu, nwyf-chwareu, chwareu wihi, rhewyddu; moelystota.

To play off—arddangos, dangos, gwneuthur ymddangosiad, gwneuthur coegymddangosiad; gosod ar waith.

Play, *s.* chwareu, chware, chwarae, chwarau, chwara, gwareu, gware, gwarau, gwara, gwarae, darware; chwaryddiaeth, chwareuaeth, chwarëyddiaeth; ymgyffelybiad.

Fair play—chwareu teg.

Foul play—chwareu brwnt, camchwareu.

False play—som-chwareu, brad-chwareu, twyll-chwareu, gau chwareu.

Boys' play, } chwareu plant, chware
Children's play, } plant bach.

Every one liketh his own play best—pawb â'i

chware ganddo; pawb â'i chwedl ganddo.
To keep an enemy in play—cadw *neu* attal y gelyn rhag dyfod yn mlaen.
Playbili, *s.* hysbyseb chwareu, ysgrif chware, chwareulen, hysbyslen chware.
Playbook, *s.* llyfr chwareu, chwareu-lyfr, llyfr chwareuon.
Playday, } *s.* chwareuddydd, dïwrnod chwar-
Playing-day, } eu, dydd chwareu.
I gave them a playday — rhoddais iddynt ddydd i chwareu; rhoddais iddynt chwareuddydd.
Playdebt, *s.* dyled chwareu; dyled â dyner wrth chwareu.
Player, *s.* chwareuwr, chwarëwr, chwarëydd, chwarydd, chwarwr, chwariwr, gwarëwr, gwareuwr, gwareuydd, gwarëydd: *f.* chwaryddes, chwarëyddes, chwareues, chwareuwraig.
A player on an instrument—cerddor, cerddwr, gwr wrth gerdd, canwr offeryn cerdd.
A player on a stringed instrument, } gwr
A player on stringed instruments, } wrth gerdd dannau.
A player on the harp=*Harper*.
A player on pipes=*Piper*.
A puppet-player — chwarëydd delwau, chwareuwr llamddelwau, chwarëydd mân ddelwau.
A stage-player—chwarëydd mewn chwareudy, chwareuwr mewn chwareufa, chwareuwr dynwared; dynwaredwr, dynwaredydd; un â chwareuo ran un arall.
Like a stage-player—ar wedd chwerig.
Sword-player—chwarëwr cleddyfau; ymgleddyfwr, ymgleddyfor, ymgleddyfydd, cleddyfwr, cleddyfydd; un hyddysg ar y cleddyf.
Playfellow, *s.* cydchwareuwr, cydchwarëydd.
Playfere, † *s.* (*play* a *fere*) cydchwareuwr, &c.
Playful, *a.* chwarëus, chwareugar, chwareuol, chwareol, chwerig, chweriol, gwarëus, gwareuol, gwareol, llawn chwareu, chwareog, chwarwyol.
Playfully variegated—gwareufrith, chwareufrith.
Playfulness, *s.* chwareugarwch, chwareuoldeb, chwareusrwydd, chwerigrwydd.
Playgame, *s.* chwareu plant.
Playgoer, *s.* un â fynych gyrcho i'r chwareuon; mynychwr chwareudai.
Playgoing, *a.* yn mynych fyned i chwareuon; yn myned yn fynych i'r chwareufa.
Playhouse, *s.* chwareudy, chwareufa, chwarwyfa, chwarwfa.
Playing, *p.* yn chwareu, &c.
Playing cards—cardiau chwareu.
Playing place—chwareule, chwareufan, llanerch chwareu, cadlas chwareu; ymdrechfa, ymorchestfa.
Playmate, *s.* cydchwareuwr, cydchwarëydd, &c.
Playmouth, † *s.* min cam, min ar dro.
Playpleasure, † *s.* coeg ddifyrwch.
Playsome, *a.* chwareugar, chwarëus, chwareuol, chwerig, gwarëus, gwareuol, llawn chware; nwyfus, rhontus, rhontëig.
Playsomeness, *s.* chwareugarwch, chwareusrwydd, chwerigrwydd; nwyfusrwydd.
Plaything, *s.* tegan, tegan chwareu, ffril.
Playwright, *s.* awdur chwareuon, ysgrifenydd chwareon dynwared, saer chwareuon,

Plea, *s.* (Norm. *plait, plet, plaid, ple;* Ff. *plaider*) dadl, arddadl, dadleu; hawl, cwyn, cynghaws, cynghawsedd; esgus, esgusawd; ymbil.
Common pleas—deflys, llys dadleuon cyffredin.
Court of common pleas—deflys, llys dadleuon cyffredin=ail lys gwladol Prydain.
A plea for nonappearance—asswyn, eswyn; esgus *neu* esgusawd am beidio âg ymddangos.
To bring *or* offer a plea for nonappearance—asswyno, esswyno; esgusodi; ymasswyno, ymesswyno; ymesgusodi am beidio âg ymddangos.
Pleach,† *v. a.* (Ff. *plisser;* Gr. *plecô*) plygu; cymhlethu, cydblethu.
Plead, *v.* (Ff. *plaider;* Norm. *plait*) dadleu, dadlu, arddadlu; pleidio; ymddadleu, ymddadlu; haeru, taeru.
To plead for—dadleu dros; amddiffyn; ymdrech yn mhlaid; pleidio.
To plead an argument—amddiffyn peth trwy ddwyn rhesymau drosto; amddiffyn ei reswm; dylyn ei fater.
To plead one's cause—dadleu dadl un; pleidio achos un; dadleu achos un; dadleu dros un.
To plead together—cyd-ddadleu, cyd-ymddadleu.
To plead, } haeru, taeru, hòni.
To plead it out, }
To plead by covin—traws-ddadleu; bradychu hawl a chwyn un i'w wrthwynebwr; gadael heb ddywedyd y peth rheitiaf ei ddywedyd; chwareu y bradwr; chwareu y ffon ddwybig.
To plead guilty—cyfaddef y cwyn; addef y cwyn; cyfaddef ei euogrwydd; cyfaddef ei hun yn euog.
To plead not guilty—gwadu y cwyn; haeru ei ddiniweidrwydd; hòni ei ddïeuogrwydd; haeru ei aneuogrwydd; dadleu ei ddïeuogrwydd.
He pleaded guilty—cyfaddefodd y cwyn; addefodd ei hun yn euog; addefodd ei euogrwydd.
He pleaded not guilty—gwadodd y cwyn; haerodd ei ddiniweidrwydd; hònodd ei ddïeuogrwydd; dadleuodd nad oedd euog.
To plead ignorance—ymhoni o anwybodaeth yn esgus; haeru ei anwybodaeth; ymesgusodi trwy ddadl anwybodaeth.
To plead sickness for nonappearance—ymasswyno trwy glefyd.
To plead against—dadleu yn erbyn.
To plead against one his reproach—dadleu gwaradwydd un i'w erbyn; dadleu gwaradwydd un yn ei erbyn.
To plead with—dadleu â; ymddadleu â.
Pleadable, *a.* dadleuadwy, dadladwy, arddadladwy; â ellir ei ddwyn yn awdurdod dros ddadl; â ellir ei roi yn esgus dros; â ellir ei ddadleu.
Pleader, *s.* dadleuwr, arddadlwr, dadleuydd, dadleuor, dadlwr, dadlydd, pleidiwr, pleidydd; cynghaws, cynghawsydd, cynghawswr.
Pleading, *s.* dadl, arddadl, dadleu, dadleuad, dadlwriaeth, arddadliad; cynghawsedd.
Pleadings—dadlau, dadleuon, dadleuadau, arddadlau.

A pleading place — dadleufa, dadleudy; llys.

Pleasance,† *s.* (*Ff. plaisance*) difyrwch, digrifwch, dywenydd, llawenydd.

Pleasant, *a.* (*Ff. plaisant*) hyfryd; teg; tirion, mwyn; llon, dyddan, difyr, digrif, dymunol, arab, llawen, hylon, difyrlon; araul; per, peraidd, melus, melusber, chweg, mwynber, maws; blasus; da ei flas; afieithus; seinber, persain; ammoraidd, ampwy; llawdd; berth; broaidd; boddhaol; wrth fodd; croesawus; bywiog, nwyfus, chwarëus.

Pleasant to the ear—hyfryd, melus, *neu* flasus i'r glust; mwynber.

A pleasant fellow—cydymaith llawen, difyr, dyddan, *neu* ddigrif.

Pleasant wine—gwin melus.

Pleasant words—geiriau teg, geiriau mwynion, geiriau peraidd.

Pleasant tongue—tafod mwyn, tafod teg.

Pleasant sayings—digrifeiriau, ymadroddion dyddan, geiriau digrifgall, mwyn gellwair; afiaeth, arabedd, arabeddiaith; digrifion, dyddanion.

Full of pleasant conceits—arab, arabeddus, arabol, cellweirus, digrif, digrifion, digriflan, afieithus, difyr, digrif, geirlon, mwyn-gellweirus.

Somewhat pleasant—golawen, goddifyr, goddyddan, lled ddyddan.

To be pleasant with one—ymddigrifo âg un; cellwair âg un; cymmwedd âg un; cydgam âg un.

One that has a pleasant voice—un hyfrydlais; un pereiddlais; un per ei lais; un melus ei dôn.

To grow pleasant — ymddigrifo, ymloni, ymlawenu, ymlawenhau, ymlawenychu, myned yn llawen, ymddigrifhau.

To make pleasant—lloni, llawenhau, llawenychu, llonychu, sirioli.

Speaking pleasantly—geirber, mwyniaith; mwyn ei ymddyddan, mwyn ei ymadrodd; â thafod aur ganddo; parablber; digrif-son.

Pleasantly situated on the banks of a river —yn gorwedd mewn lle araul ar làn afon.

Pleasantness, *s.* hyfrydwch, hyfrydedd; digrifwch, difyrwch, dyddanwch, digrifedd, llawenydd, llonder; cellwair; tiriondeb, tirionwch; afieithusder; areuledd; arial; ammor; hyfrydlonedd; glwysder; amp.

Pleasantness in speech—digrifwch, difyrwch, ysmaldod, arabedd, digrifedd, afieithusrwydd, ffraethder, digrifionder, ysmalhäwch, arabder, ysmalder.

Pleasant-tongued, *a.* tafodber, tafodfwyn; mwyn ei dafod; teg ei dafod; teg ei ymadrodd.

Pleasantry, *s.* difyrwch, digrifwch, llawenydd, llonder, cellwair, cymmwedd, ysmaldod, arabedd, ysmalder, ysmalhäwch; hyfrydwch; hoewedd.

Please, *v. a.* (*Ff. plair, plaisant;* Ll. *placeo*) boddio, boddloni, boddhau, bodloni, rhyngu bodd, boddlonocäu; difyru, dyddanu; teilyngu; gweled yn dda; gweled bod yn dda; bod yn wiw gàn.

To please one's self—ymfoddhau, ymfoddloni; boddio ei hun, boddhau ei hunan.

To please God—boddloni Duw; rhyngu bodd Duw.

To be pleased—teilyngu; bod yn wiw gàn un; bod yn dda gàn un; bod yn foddlawn gàn un.

Be pleased, } rhynged bodd i chw; May it please you, } rhynged bodd iwch; boed wiw genych.

If you please—os mynwch; os gwelwch yn dda; os da genych.

That it may please thee—teilyngu o honot.

Let him do as he pleases—gwnaed à fyno; gwnaed fel y myno; gwnaed fel y bo da yn ei olwg.

Easy to be pleased—hyfodd; hawdd ei foddio; hawdd i'w foddio; boddgar, boddlongar, diddig, cymmodlawn.

Hard to be pleased, } anhyfodd, anfoddog; Hard to please, } anhawdd ei foddio.

Not to be pleased—nas gellir ei foddloni, &c.; anhyfodd.

Well pleased—llwyr foddlawn, cwbl foddlawn.

In whom I am well pleased—yn yr hwn y'm boddlonwyd; yn yr hwn y'm llwyr foddlonwyd; yr hwn y'm llwyr foddlonwyd ynddo.

With such sacrifices God is well pleased—â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.

It pleaseth—e foddlona, e foddha, e foddia, &c.

It pleaseth not—ni foddha, ni foddlona, ni foddia; ni ry foddlonrwydd; ni rynga fodd; ni rwng fodd.

It pleased God—rhyngodd bodd i Dduw; fe welodd Duw yn dda.

Pleased, *p. p.* boddlawn, boddlon, boddog, hyfwyn, diddig.

To become pleased—boddlonocäu; dyfod yn foddlawn.

Pleaseman, *s.* truthan, truthiwr; un swyddgar gwasaidd; boddlonwr.

Pleaser, *s.* boddlonwr, boddlonydd, boddiwr, boddhäwr, boddhëydd.

Men-pleasers—boddlonwyr dynion.

Pleasing, *a.* hyfryd, hoff, cymmeradwy, boddus, boddiol, boddawl, boddhaol, boddlawn; â foddha, à foddia, à foddlona, à rydd foddlonrwydd, à ryngo fodd, à fo yn rhyngu bodd, y sy'n rhyngu bodd, yn rhyngu bodd, yn rhygyddu bodd; boddwych; hyfrydaidd; melus; dyddanol, dyddan, cysurol; hygar, tirion, ffawg; dewisol, dymunol; dain, berthaidd.

Pleasing to one—hoff, hyfryd, cymmeradwy, *neu* foddlawn gàn un.

Well pleasing—boddlawn, cymmeradwy, hoff, &c.

A pleasing fall of water — cyssain dwfr (*Doeth.* xvii. 18).

Pleasing, *s.* boddhad, boddloniad.

Pleasingly, *ad.* yn hyfryd, &c.; mewn modd hyfryd, &c.

Pleasingness, *s.* hyfrydwch, hyfrydrwydd, hyfrydedd.

Pleasurable, *a.* hyfryd, hyfrydlon, boddhaol, boddiol, boddawl, dymunol, dyddanus, afieithus, maws, ffawg, difyr, mwyn; yn boddhau, yn boddio, à foddhao.

Pleasurableness, *s.* hyfrydwch, hyfrydedd, boddolrwydd, boddioldeb.

Pleasure, *s.* (*Ff. plaisir*) hyfrydwch, dywenydd, digrifwch, difyrwch, dyddanwch, pleser, mwynder, mwyniant, hoffder, hawddfyd; llonder, llonwch, llawenydd; bodd, boddlon-

deb, bodlondeb, gwŷn; ewyllys, gwyllys, myn; mympwy; à fyno un; gwynfyd; meluswedd, meluschwant; cymmwynas, mwynas; ffawg, llawdd; meddwl: *pl.* hyfrydion, difyrion, hoffderau, &c.

Good pleasure—bodd, gwirfodd, ewyllys da, ewyllysgarwch, rhwyddfodd.

With pleasure—yn llawen; gyda hyfrydwch.

At pleasure—fel y myner; pan y myner; pryd y myner; fel y myno, &c.; wrth ei ewyllys; fel y bydder yn dewis.

At one's pleasure—wrth ei ewyllys, (*pl.* wrth eu hewyllys); pan fyno un.

His will and pleasure—ei ewyllys a'i arfaeth.

A man of pleasure—gwas mwythau, gwr mwythau, mwythwas.

Love of pleasure—plesergarwch; cariad at ddifyrwch; serch ar ddifyrwch.

At my pleasure—pan fynwyf, pan fynof; wrth fy ewyllys.

Given to pleasure—trythyll, drythyll; yn ymröi i ddifyrwch a mwythau; plesergar, difyrgar.

To take pleasure in, } ymhyfrydu yn, ym-
To have pleasure in, } ddigrifo yn; caru, hoffi, serchu; ewyllysio; llawenychu yn, ymlawenychu yn; bod yn ewyllysgar i.

He takes pleasure in showing mercy—mae yn llawen *neu* yn hoff ganddo ddangos trugaredd; hoff ganddo drugarhau.

He shall not take pleasure in his goods—ni chaiff efe lawenydd o'i olud; ni bydd iddo lawenydd o'i olud.

Neither hath he pleasure in the destruction of the living—ac nid digrif ganddo ddinystr y byw.

What is your pleasure with me?—beth a fynwch chwi â mi? beth a fynwch chwi â myfi? beth sydd â fynwch chwi â myfi?

Every one to his pleasure—pob un â'i ddifyrwch ganddo; pob un â'i ddifyrwch ei hun.

A party of pleasure—cydrawd dywenydd, difyr gydymdaith, difyr gydymeithas; cwlwm o gyd-ddifyrwyr.

Mutual pleasure — cyd-hyfrydwch, &c.; cyffawg, cyffawd.

Undisguised pleasure — hyfrydwch diorchudd, menwyd diorchudd.

Previous pleasure—rhagfodd, hyfrydwch blaenorol.

To walk for pleasure—llaswyro, lleswyro; rhodio er difyrwch; rhodiana er difyrwch.

To do pleasure for pleasure—gwneuthur cymmwynas am gymmwynas; talu cymmwynas am gymmwynas; talu y pwyth; talu tâl pwyth; dangos ffafr am ffafr.

To do one a pleasure—gwneuthur cymmwynas i un; bod yn fuddiol i un; dangos ffafr i un.

Let the king send his pleasure to us—anfoned y brenin ei ewyllys atom.

Pleasure-loving—yn caru difyrwch; à garo ddifyrwch a mwythau; à ro ei serch *neu* fryd ar ddifyrwch a mwythau; plesergar.

Pleasure, *v. a.* boddio, boddhau, boddloni, cymmwynasu.

Pleasure-boat, *s.* difyrfad.

Pleasure-carriage, *s.* difyrglud.

Pleasureful, *a.* hyfryd, difyr, dymunol, dyddan, afieithus.

Pleasure-ground, *s.* difyrdir, difyrfa, y ddifyrfa, rhandir y difyrwch.

Pleasurist, *s.* pleserwr, ymbleserwr, gwas mwythau.

Plebeian, *a.* (Ll. *plebeius*) gwerinol, gwerinaidd, gwrengaidd, gwrengol, adlawaidd, cyffredin, gwledig, gwaer, gwaeraidd, gwerin; perthynol i'r bobl gyffredin; eiddo y bobl gyffredin; yn cynnwys y bobl gyffredin; yn cynnwys y cyffredinwyr; á gynnwys y cyffredinolion; isel, gwael.

Plebeian, *s.* un o'r bobl gyffredin, o'r werin, *neu* o'r werinos; gwerinwr, gwreng, adlaw, cyffredinwr, gwr cyffredin, gwrengwr, gwaeryn, taiog: *pl.* y bobl gyffredin, y cyffredin bobl, y werinos, poblach, gwaer, adlawiaid, adfaon, cyffredinolion, y cyffredin, y gwreng, taiogion, breing, maon.

Plebeiance, † *s.* y bobl gyffredin, poblach.

Plebeianism, † *s.* ymddygiad *neu* foes y werin.

Plectrum, *s.* (Ll.; Gr. *plectron*) cyweirgorn; bwa crwth; peth i daro tannau wrth ganu; cloch yr ymadrodd; pen asgwrn yr arlais.

Pledge, *s.* (Ff. *pleige*) gwystl, cyngwystl, arwystl, adneu, adneuaeth; ern, ernes; gwaes, gwaesaf, arwaesaf; gafael; siorwydd, dilysrwydd; godduned, addewid; mach; prawf, tystiolaeth.

In pledge—yn ngwystl, yn wystl, ar wystl, mewn gafael.

To redeem a pledge — dadwystlo; rhyddhau gwystl; gollwng gwystl; codi y gwystl.

To put in pledge—gwystlo, arwystlo; rhoi yn ngwystl; dodi ar wystl.

To lay to pledge—gwystlo, &c.

This is a sufficient pledge of the truth of my narrative—nid rhaid i'm chwedl wrth dystiolaeth amgen *neu* ychwaneg er dangos mai geirwir ydyw.

Pledge, *v. a.* gwystlo, arwystlo, cyngwystlo, gwaesafu, gwaesu; siorhau, dilysu; ymrwymo ar; parchu, perchi.

To pledge (in drinking)—perchi un, parchu un.

Pledgee, *s.* yr un y gwystler iddo; gwystlai.

Pledger, *s.* gwystlwr, gwystlor, arwystlwr, gwaesafwr.

Pledgery,† *s.* gwystledigaeth, gwystloriaeth; mechniaeth.

Pledget, *s.* (Gr. *plecô*) llieinrwd; clwt, swp, sypyn, *neu* dusw o naddion.

Pledgor, † *s.*=*Pledger.*

Pleiads, } *s. pl.* (Gr. a Ll. *pleiades*) y tŵr
Pleiades, } tewdws, y tŵr ser, y saith seren siriol, saith seren Seiriol, y saith seren, Pleiades.

Pleiocene, *s.*=*Pliocene.*

Plenal, † *a.* (Ll. *plenus*) llawn, cyflawn, perffaith.

Plenare, † *s.* (Ff.) erlynad penderfynol.

Plenariness, *s.* llawnder, cyflawnder, llawndra, llawnedd, llawndid, cyflawnedd, llawnaeth; perffeithrwydd.

Plenarty, *s.* (o'r Ll. *plenus*) llawnder; llawnaeth eglwysig; bod o fywoliaeth yn cael ei llanw *neu* ei dâl gân beriglor.

Plenary, *a.* (Ll. *plenus*; It. *plenario*) llawn,

cyflawn; cyfan, cyfa; perffaith; cyfrdo, llwyr, cyflwyr.

Plenilunar, } *a.* (Ll. *plenilunium*) llawnlloer-
Plenilunary, } awl, llawnlleuadol; perthynol i'r llawnlloer; yn perthyn i'r llawnlleuad; à berthyn i'r llawnlluned.

Plenilune,† *s.* (Ll. *plenilunium*) llawnlleuad, llawnlloer, llawnlluned, cyfanlloer, lleuad lawn.

Plenipotence, *s.* (Ll. *plenus* a *potentia*) llawnalluedd, llawnalluogrwydd, llawnallu, llawnall; llawn awdurdod, cyflawn awdurdod.

Plenipotent, *a.* (Ll. *plenipotens*) llawnalluog, llawnalluol, llawnallueddog; a'r y mae iddo gyflawn allu *neu* awdurdod.

Plenipotentiary, *a.* (Ff. *plenipotentiaire*) llawnalluog, llawnalluol, llawnallueddog, llawnallueddol; â chanddo gyflawn allu *neu* awdurdod; llawn-awdurdodol.

Plenipotentiary authority—llawn *neu* gyflawn awdurdod.

Minister plenipotentiary — gweinidog llawnalluog.

Plenipotentiary, *s.* llawnalluogwr, llawnalluog; cenadwr, negeswr, negesydd, *neu* negeseuydd llawnalluog; cenadwr *neu* negeswr llawn-awdurdodol.

Plenish,† *v. a.*=*Replenish.*

Plenist, *s.* (Ll. *plenus*) un à ddeil fod holl eangder yn llawn defnydd; gwadwr gwagder, llawnderwr.

Plenitude, *s.* (Ll. *plenitudo*) llawnder, llawndid, llawndra, cyflawnder, cyflawnedd, cyflawndra; digonedd, arddigonedd, gwala, amlder, amledd, helaethrwydd; gormant.

Plenteous, } *a.* (o *plenty*) helaeth, ehelaeth,
Plentiful, } llawn, cyflawn, helaethlawn, diamdlawd, dibrin, anmhrin, didlawd, aml, gorllawn, haflug; cnydfawr, cnydiog; mawr.

A plentiful country—gwlad gnydfawr.

A plentiful year — blwyddyn ffrwythog, blwyddyn doreithiog, blwyddyn gnydfawr.

A plentiful entertainment — gwleddbrin, gwledd anmhrin.

In the seven plenteous years—dros saith mlynedd yr amldra.

As plenteous as stones—cyn amled a'r ceryg.

The harvest truly is plenteous—y cynauaf yn ddiau sy fawr.

Plenteous in mercy — mawr o drugarogrwydd; mawr ei drugaredd; aml ei drugaredd; o fawr drugaredd.

The ground of a certain rich man brought forth plentifully—tir rhyw wr goludog a gnydiodd yn dda (*Luc* xii. 16).

Plenteousness, } *s.* helaethrwydd, helaethder,
Plentifulness, } helaethdra, ehelaethrwydd, digonedd, amledd, amlder, amldra, llawnder, llawndid, haflugrwydd, achrwysedd.

Plenty, *s.* (o'r Ll. *plenus*) helaethrwydd, helaethder, helaethdra, amledd, amlder, amldra, digonedd, digonoldeb, digonolrwydd, llawnder, llawndid, llewndid, llawnaeth, cyflawnder, haflug, toraeth, achrwys; cyfoethogrwydd; digon, gwala; cnwd mawr; cyfoeth, golud; rheufedd; llawer, llawer iawn; anmhrinder, dibrinder, didlodedd; lluosogrwydd.

Plenty of water — digon o ddwfr, dwfr ddgon; helaethrwydd o ddwfr; dyfroedd lawer.

Great plenty—helaethrwydd mawr; llawer iawn.

Country of plenty—gwlad achrwys, gwlad llawnder.

Plenty, *a.* helaeth, llawn, aml, haflug, cyflawn, digon, digonol; fflwch.

Plenum, *s.* (Ll.) gorm, gorllawnedd, llawnder, halant.

Pleonasm, *s.* (Gr. *pleonasmos*; Ll. *pleonasmus*) amleiriaid, amleiriaeth, gormodedd geiriau, geirlenwad, geirlawnder, göreithad, gormodeiriad; gair llanw; geiriau llanw.

Pleonaste, *s.* (Gr. *pleonastos*) achrwysfaen.

Pleonastic, } *a.* amleiriol, goreithol, gormod-
Pleonastical, } eiriol; yn cynnwys gormod o eiriau; geirlenwadol; gormodol, gormod, gormodd.

Plerophory, *s.* (Gr. *plerophoria*) llawn hyder, llawn ymddiried, llwyr argyhoeddiad.

Plesh, †*s.*=*Plash.*

Plesiomorphism, *s.* (Gr. *plêsios* a *morphê*) goffurfiaeth, goffurfiant.

Plesiomorphous, *a.* goffurfaidd; lled debyg *neu* agos o ran ffurf.

Plesiosaur, } *s.* (Gr. *plêsios* a *sauros*) gofad-
Plesiosaurus, } fall, gofadfil=math ar fadfall ddiflanedig.

Plethora, *s.* (Gr.) gorllawnedd, llawnder gwaed, gormeslyn, gormeswaed.

Plethoretic, *a.*=*Plethoric.*

Plethoric, *a.* gormeslynog, gorllawnog, gorllawnol.

Plethory, *s.* (Gr. *plêthôra*)=*Plethora.*

Plethron, } *s.* (Gr. *plethron*) mesur petryal yn
Plethrum, } Groeg gynt, yn cynnwys yn nghylch 240 troedfedd.

Pleura, *s.* (Gr.) eisien, eisbilen.

Pleurisy, } *s.* (Gr. *pleuritis*) eisglwyf, eiswaew,
Pleuritis, } pigyn.

Pleuritic, } *a.* eisglwyfus, eisglwyfol; â'r eis-
Pleuritical, } glwyf arno.

Pleuronectidæ, *s. pl.* (Gr. *pleura* a *nectês*) y llythi, y lledau, y lledenod.

Pleuroptera, *s. pl.* (Gr. *pleura* a *pteron*) ochradeinogion, hedgathod.

Plevin, †*s.* (hen Ff.) cyngwystl cwyn, mechnïaeth, mechni, gwarant, yswiriant.

Plexiform, *a.* (Ll. *plexus* a *forma*) ar ddull rhwydwaith; cymhlyg, cymhlygedig, penbleth.

Plexus, *s.* (Ll.) plyg, dill.

Pliability, } *s.* (o *pliable*) ystwythder, ystwyth-
Pliableness, } dra, hyblygedd, hyblygrwydd.

Pliable, *a.* (Ff.) hyblyg, plygadwy, ystwyth, hydwyth; hydro, hydrin, hydyn.

Pliancy, } *s.* (o *pliant*) ystwythder, ystwyth-
Pliantness, } dra, ystwythedd, ystwytholdeb, hyblygedd, hyblygrwydd; hydrinedd, hydynrwydd; twyth.

Pliant, *a.* (Ff.) ystwyth, hyblyg, plygadwy, hydwyth; hydro, hydrin, hydyn; plydd; darleddfol; llibin; llaith.

To grow pliant — ystwytho, plyddhau; myned yn ystwyth.

To render pliant—ystwytho, plyddhau; gwneuthur yn ystwyth.

Plicate, } *a.* (Ll. *plicatus*) plygedig; plethedig;
Plicated, } dilliedig, dilliog.

Plication, *s.* (o'r Ll. *plico*) plygiad, plygiant, dilliad, dyblygiad; plyg, dill, dyblyg, plygfa.

Plicature, *s.* (Ll. *plicatura*) plyg, plygfa, dill; plygiad, plygiant, dilliad.

Plicipennes, *s. pl.* (Ll. *plico* a *penna*) plygadeinogion, dillasgellogion.

Pliers, *s. pl.* (Ff. *plier*) plygiedydd, gefail blygu.

Pliform, *a.* (Ff. *pli*, a *form*) ar ddull plyg *neu* ddyblygiad; dillaidd.

Plight, *v. a.* (S. *plihtan*) gwystlo, arwystlo, cyngwystlo, gwaesafu; sicr addaw; ymrwymo; ymgredu â; † plethu, gwau.

To plight one's troth—rhoi ei gred i un; ymgredu âg un; ymffyddio, ymgreirio, ymdyngu.

Plight, *s.* cyflwr, ansawdd, agwedd, gwedd, gosgedd, diwyg, sefyllfa, sut, sud, sawd, swd; pwynt, hwyl, helynt, drych; gwystl, arwystl, adneu; twng; plyg, dill, dyblyg; † gwisg.

Good plight—gwedd dda, hwyl dda, diwyg da.

Bad plight, } gwedd ddrwg, hwyl ddrwg,
Ill plight, } anghyflwr, anmhwynt, anhwyl, anniwyg.

In good plight—mewn gwedd dda; yn dda ei wedd; yn dda ei helynt; diwygus, hwylus, pwyntus.

In bad plight, } mewn gwedd ddrwg; yn
In ill plight, } ddrwg ei wedd; yn ddrwg ei helynt; anhwylus, anmhwyntus, anniwygus.

Thou art in a bad plight—mae yn ddrwg dy helynt.

I am under a sad plight—wyf dàn sawd oer; y mae yn oer fy helynt.

Plighter, *s.* gwystlwr, gwystlor, ymrwymwr, ymgredwr.

Plim, † *v. n.* chwyddo.

Plinth, *s.* (Gr. *plinthos*; Ll. *plinthus*) troed *neu* wadn pedrongl colofn; petryal *neu* bedryfal colofn; sail, gwadn.

Subplinth—cynsail.

Plinth of a statue—gwadn saflun.

Pliocene, *a.* (Gr. *pleiôn* a *cainos*) diweddaraf, newyddaf, mwyaf newydd, newyddain, newydd.

Newer pliocene—y newydd newyddaf, y mwyaf newyddain, y newyddau newyddaf.

Older pliocene—y newydd henaf, y newyddain henaf.

Plod, *v. n.* (Is. *plots*) bod â'i ben yn mheth; bod yn ystig, yn astud, yn ddiflin, yn ddiwyd *neu* yn ddyfal yn mheth; trafferthu, ymdrafferthu, llafurio, poeni, ymboeni, cystogi, ffwdanu, ymffwdanu, diwydio; astudio, myfyrio, syn fyfyrio, dwys fyfyrio; dylyn yn ddiball; bod wrthi yn galed *neu* yn ddygn; ymröi iddi.

To be plodding=*Plod.*

To go plodding about—myned oddi amgylch yn syn fyfyriol; myned oddi amgylch dàn fyfyrio *neu* astudio.

Plodder, *s.* un â'i ben fyth yn mheth; ymdrafferthwr, ymdrafferthydd, trafferthwr, ffwdanwr, ymboenwr, diwydiwr; myfyriwr, astudiwr.

Plodding, *a.* myfyrgar, syn-fyfyrgar, myfyriol, syn-fyfyriol; diwyd, llafurus, llafurgar, ymröus, ystig, diflin, dyfal, dygn.

Plodding, *s.* astudiaeth, myfyriaeth; diwydiaeth, ymroad, trafferthiad, ffwdaniad, llafuriad.

Plombgomme, *s.* (Ff.) plymmwl.

Plot, *s.* (Is., D., a Ff. *plat*; Al. *platt*) talwrn, (*pl.* telyrnau), darn o dir, dernyn o dir, maes, rhandir, tyno, llain, as o dir, gwast, llanerch; cynllun, darlun.

Green plot—gwyrddon, gwerddon, glaslan, glaslanerch, llanerch las, glesin, parlas, glas dalwrn, glas, glesygen, cadlas.

Garden plot—gwely gardd, llain o ardd, llain gardd.

Plot of a building—cynllun adail.

Plot, *s.* (cymharer y Ff. *complot*, *comploter*) cydfrad, cydfwriad, brad, bradfwriad, cyfrad, cydfradwriaeth, cyfradwch, cymrad; dichell, ystryw; cyttwng; celfwriad; traffaith; cydamcan; cuddamcan; amcan; sail; cynllun; darlun; dyfais, dychymyg; cwlwm; penbleth.

Gunpowder plot—brad y pylor gwrn.

The plot of a play—sail, amcan, traffaith, cuddamcan, *neu* gwlwm chwareu.

Plot, *v.* cydfwriadu, bradfwriadu, cydfradu, cyfradu, llunio cydfrad, bradlunio, cymradu, gwneuthur cynllwyn; cynllunio, llunio, dyfeisio, llyfelu; darlunio; dichellu.

Plotful, *a.* llawn cydfradau, &c.; cydfradog, bradfwriadol.

Plotter, *s.* cydfradwr, cyfradwr, bradfwriadwr, cydfwriadwr, cuddamcanwr, cymradwr; cynlluniwr, dyfeisiwr, dyfeisydd, llyfelwr.

Plotting, *s.* cydfwriadaeth, cydfradwriaeth, lluniad cydfrad, gwneuthuriad cydfrad; cynlluniad, dyfeisiad; tirddarluniad.

Plough, } *s.* (S. *ploge*; Al. *pflug*; D. *ploug*,
Plow, } *plow*) aradr, arad, ylltyd, gwŷdd, gwydd-arad, arwydd; eilliedydd; cwysell; rhigolydd, rhychganwyr: *pl.* erydr, ereidr, eryd.

Bookbinders' plough—eilliedydd.

Joiners' plough—rhychganwyr, rhigolydd.

Wheel plough—sylchdan, aradr olwyn.

Subsoil plough—aradr dyfn-gwys.

Breast-plough—gwtharadr, gwtharad, haiarn gwthio.

Rush-plough—haiarn gwthio.

Plough-chain—bonsyg.

A plough drawn by a single team—aradr main.

The sole of a plough, } cywer aradr, cywar
The chip of a plough, } aradr, cŵar arad, gwadn arad.

Plough-handle—haeddel; llawlyw.

The smaller plough-handle—yr haeddel fach.

Plough-beam—arnawdd, arnodd: *pl.* arnoddion, arnoddau.

The stilts of a plough—probwyll.

Plough-gears—tres aradr.

Plough-oxen—ychain gwedd, ychain gwaith; tywarchorion.

To drive the plough—cethrain; galw *neu* yru yr ychain; hela y ceffylau, bel y ceffylau.

Plough, *v.* aru, arddu, aredig, aradu; cwyso, gwneuthur cwysau, tori cwysau; troi, tori, *neu* ymchwelyd tir; rhoi âr ar dir; braenaru; amaethu.

To plough in partnership—cyfaru cyfarddu.

Ploughed land—tir âr, tir aradr; yttir, tir yd, llafurdir, tir llafur.

Land ploughed the first time—cynwydd; cynar.

Ploughable, *a.* arddadwy, aradwy, hyar; à ellir ei aru *neu* aredig.

Plough-alms, *s.* ceiniog yr arâdr.

Plough-bote, *s.* coed â ganiatŏid gynt i ddeiliad i gyweirio ei offer llafurwaith; coed aradr.

Plough-boy, *s.* cethreinwr, cethreinydd, cethreuwr, cethreor, cethrwr, geilwad ychain, gyrwr ychain; arad-was; hogyn gwledig.

Plougher, *s.* arddwr, aradwr, arwr, arydd, amaeth aradr.

Joint plougher—cyfarwr, cyfarddwr.

Ploughing, *s.* arddiad, ariad, aradiad, arddwriaeth, âr.

Joint ploughing—cyfaretri, cyfariaeth.
First ploughing—cynar, yr âr cyntaf.
Second ploughing—eilar, yr ail âr.
Summer ploughing—hafar, âr haf.
Winter ploughing—gauafar, âr gauaf.

Ploughland, *s.* tir âr, tir aradwy, tir llafur, llafurdir, yttir, tir yd, rhychdir; gwaith aradr, gwaith atgor.

Ploughman, *s.* arddwr, aradwr, arwr, amaeth aradr; gwr gwledig.

Ploughman's spikenard — meddyg Mair, meddyg y bugail, codowydd.

Plough-Monday, *s.* dydd Llun wedi yr Ystwyll; dydd Llun yr Ystwyll.

Plough-share, *s.* swch aradr, swch; cwlltr, cylltor.

Plough-staff, *s.* carthbren.

Plough-tail, *s.* llawlyw, haeddel fawr, haeddel gam, hegl gam, haeddel, corn arad, corn gwydd-arad.

Plough-wright, *s.* saer erydr, saer eryd.

Plover, *s.* (*Ff. pluvier*) cwtiad, cwtyn, rhostog, bronddu y twynau: *pl.* cwtiaid.

Grey plover—cwtiad llwyd, cornicyll, (*f.* cornicell), cornchwigl, cornchwiglen, cornicell y gwynt, chwilgorn y gwynt, chwilgorn y waen, chwilgorn llwyd, cornor y gweunydd.
Green plover, } cwtiad aur, cwtiad yr aur,
Golden plover, } chwilgorn y twyn, chwilgorn y mynydd.
Long-legged plover—cwtiad hirgoes.
Norfolk plover—y glinbraff.

Plow, *s.* =*Plough*.

Pluck, *v. a.* (S. *pluccian;* Al. *pflucken*) tynu; gordynu, dirdynu; rhoi tyn i, rhoi tyniad i, rhoi tynfa i; plicio; estricio; tymmigo; tori; casglu; pluo, plufio.

To pluck asunder--tynu oddi wrth eu gilydd; tynu y naill oddi wrth y llall; tynu yn ddarnau; dryllio; ysgaru, esgaru, gwahanu, dydoli; neilltuo; dadgysylltu; dadgymmalu.
To pluck away—tynu ymaith, tynu ffwrdd.
To pluck down—tynu i lawr; difwyno.
To pluck from—tynu oddi wrth.
To pluck gently, } cnithio; esmwyth dynu,
To pluck softly, } arsf dynu.
To pluck off—tynu ymaith.
To pluck off (a fowl, &c.)—pluo, plufio; plicio.
To pluck off (hair, wool, &c.)—tynu, ginio, hifio, plicio.
Plucked wool—gwlan gin.
To pluck off one's shoe—tynu esgid un; dïosg esgid un.
To pluck off the skin—blingo, plingo, digroeni; tynu y croen ymaith.
To pluck out—tynu allan; tynu.
To pluck out of, } tynu o; tynu allan
To pluck out from, } o; dwyn allan o; dwyn o; achub o; cipio allan o.
To pluck thence—tynu oddi yno.
To pluck up (by the root *or* roots)—diwreiddio; tynu o'r gwraidd; tynu.
Be thou plucked up by the root—ymddadwreiddia.
To pluck up a nation—diwreiddio cenedl.
To pluck up a garment (from draggling)—tynu dilledyn i fyny; tynu godreon dilledyn i fyny; codi dilledyn; codi godreon dilledyn.
To pluck up a heart, } cymmeryd calon;
To pluck up a spirit, } ymwroli.
To pluck up a wing—tynu yr esgyll; dïasgellu aden, dïesgyllu aden.
Till the wings thereof were plucked—hyd oni thynwyd ei adenydd.
Plucked out of the fire—achubedig, â achubwyd, *neu* wedi ei achub o'r tân; â dynwyd o'r tân.
Ye shall be plucked from off the land—diwreiddir chwi o'r tir (*Deut.* xxviii. 63).

Pluck, *s.* tyn, tyniad, tynfa, gordyniad, dirdyn, dirdyniad, dirdynfa, gordynfa; gwroldeb, ysbryd, calon; estriciad; plig, (plicion); syrth, mwnglws, ymysgar; calon, afu, ac ysgyfaint anifail.

Calf's pluck—mwnglws llo, ymysgar llo, syrth llo; calon, afu, ac ysgyfaint llo.

Plucker, *s.* tynwr, tyniedydd, gordynwr, estriciwr; pliciwr.

Plug, *s.* (Is. Al. *pflock*) pillgyn, ystopell, tywysel, twysel, topell, topyn, top, pill, ystopgyn, topgyn; gwrth-hoel.

To stop with a plug=*Plug*, *v. a.*

Plug, *v. a.* pillgynio, ystopio, topio; rhoi pillgyn, ystopell, topell, topyn, *neu* ystopgyn yn; cau â phillgyn *neu* ystopell; plocio.

Plum, *s.* (S. *plume;* Al. *pflaume;* Gw. *pluma*) eirinen, per eirinen; rhesin: *pl.* eirin.

Common black plums—eirin duon.
Orlean plums—eirin cochion, eirin Orlean.
Green-gage plums—eirin gwynion.

Plum, *s.* canmil o bunnau; perchen y cyfryw swm.

Plumage, *s.* (Ff. o *plume*) plu, pluf, pluawr; esgyll.

Plumb, *s.* (*Ff. plomb;* Ll. *plumbum*) plwm; plwm a llinyn, llinyn a phlymen, llinyn plwm.

Plumb, *a.* unionsyth, syth, uniawn, darbenol; â fo wrth blwm a llinyn.

Plumb, *ad.* yn unionsyth, yn uniawn, yn union; yn syth; yn ddiaymmwth, yn ddïattreg, yn ebrwydd, ar unwaith.

To fall down plumb—syrthio yn union *neu* yn unionsyth tua'r llawr.

Plumb, *v. a.* plymio; profi â phlymen.

Plumbagine, *s.* (o *plumbago*) plymlysnur.

Plumbaginous, *a.* (o *plumbago*) tebyg i blwm du; yn cynnwys plwm du; o blwm du.

Plumbago, *s.* (Ll. *plumbum*) plwm du, dublwm; plymwydd, plymlys.

Plumber, *s.* plymiwr, plymwr, plymydd, gweithiwr plwm, gweithydd mewn plwm.

Plumbean, } *a.* (Ll. *plumbeus*) plymaidd, plym-
Plumbeous, } llyd, plymiol; trwm, trymaidd, dwl, hurt, swrth, marwaidd.

Plumber-block, }
Pillow-block, } *s.* cyff gobenydd.

Plumbery, *s.* plymwriaeth; gwaith plwm, plymwaith.

Plumbiferous, *a.* (Ll. *plumbum* a *fero*) yn dwyn *neu* yn cynnyrchu plwm; â ddyco blwm.
Plumbing, *s.* plymiad; plymwaith.
Plumb-line, *s.* llinyn plwm, plymlin, plwm a llinyn, llinyn a phlymen; plymen.
Plumb-rule, *s.* lluniodr plwm, astell blwm, plwm ac astell.
Plumbum, *s.* (Ll.) plwm.
Plum-cake, *s.* teisen lysieuog, teisen aeron.
Plume, *s.* (Ff.; Ll. *pluma*) plu, pluf, pluawr; esgyll; plufen, pluen, plufyn; balchder, crib, uchder ffroen.
Plume of feathers—coronbleth o bluf; twff o blu; plufobyn.
Plume, *v. a.* plufio, pluo, pluenu, plufenu; dibluo, dibluflo, dibluori; dïosg; pilio; magu plu; cymmoni *neu* drwsio ei blu; addurno â phluf; balchïo, ffrostio.
To plume one's self—ymbluo, ymblufio; cymmoni *neu* drwsio ei bluf; ymdrwsio, ymgymmoni, ymbincio; ymfalchïo.
To plume one's self on *or* upon—ymfalchïo, ymfawrygu, *neu* ymgoneddu o herwydd.
Plume-alum, *s.* pluf-allog=math o urael neu ystinos.
Plumeless, *a.* diblu, dibluf, heb blu.
Plumelet, *s.* plufenig, pluenig.
Plumigerous, *a.* (Ll. *pluma* a *gero*) plufog, pluog; â phluf arno.
Plumiped, *a.* (Ll. *plumipes*) pludroediog, plubediog, pludroed; â phlu ar ei draed.
Plumiped, *s.* aderyn pludroediog, edn plubediog: *pl.* pludroedogion, plubedogion.
Plummet, *s.* (Ll. *plumbum;* Ysp. *plomada*) plymen; plymlin, llinyn plwm, plwm a llinyn, llinyn a phlymen.
Plummetty, *a.* plufranog (yn arfau bonedd).
Plumming, *s.* plymiad.
Plumose, } *a.* (Ll. *plumosus*) plufog, pluog;
Plumous, } pluol, plufol; pluaidd, plufaidd.
Plumosity, *s.* plufogrwydd, pluogrwydd; plufoldeb, plufolrwydd.
Plump, *a.* (S. ac Al.; D. *plomp*) llyfnwedd, llyfn ei wedd, da ei wedd; tew, cnodig, terfyll, efras, mwyth, crotog; llawn; noeth, eglur, goleu, dïorchudd, digel, digudd, didwyll.
Plump lie—celwydd noeth, celwydd goleu, celwydd noethlymyn; celwydd â'i dyngu; celwydd heb gel.
Plump, *s.* cwlwm, clwm, clamp, clap, tewdwr.
Plump, *v. a.* (o'r *a.*) tewhau, tewychu; chwyddo, dychwyddo; bochlwytho.
To plump a vote—bochlwytho pleidlais =rhoi pleidlais dros un, lle gallesid ei roi dros ychwaneg.
Plump, *v. n.* (o'r *s.* Al. *plumpen*) syrthio blwng i beth; syrthio blwnc i beth; cwympo yn swrth i beth; syrthio yn un-blwng, yn unblwnc, yn un-gwymp, *neu* yn un-syrth; grawthu, ymrawthu; ymchwyddo, ymledu.
Plump, *ad.* yn swrth; yn blwnc, yn blwng, yn un-blwng, yn un-blwnc, yn un-syrth, yn ungwymp; ar unwaith.
Plumper, *s.* bochlwyth; celwydd noeth; bochlwythwr pleidlais; dyrnod.
Plumpness, *s.* llyfnder gwedd, tewedd, tewdra, cnodigrwydd, efras; crotogrwydd; llawnder, llawndid.
Plum-porridge, *s.* cawl eirin, potes eirin.
Plum-pudding, *s.* poten aeron, poten eirin, poten resin.
Plumpy, *a.* (o *plump*) llyfnwedd, tew, cnodig; gwych yr olwg arno.
Plum-tree, *s.* pren eirin, eirinbren, eirinwydden: *pl.* eirinwydd, coed eirin.
Plumule, *s.* (Ll. *plumula*) plufenig, hadblufen.
Plumy, *a.* (o *plume*) plufog, pluog; â phlu arno; pluforiog.
Plunder, *v. a.* (Al. *plundern;* Is. *plunderen*) ysbeilio, anrheithio, ysglyfio, ysglyfaethu, ysglyfu, ysglyfied, ysglyfiannu, difrodi.
To plunder one—ysbeilio un, &c.; dwyn â feddo un.
Plunder, *s.* ysbail, anrhaith, ysglyfaeth, ysglyf, ysgafaeth, ysgafael, caffaeliad, praidd.
Plunderer, *s.* ysbeiliwr, ysbeilydd, anrheithiwr, anrheithydd, ysglyfiwr, ysglyfiedydd, ysglyfiad, difrodwr; lleidr.
Plunge, *v.* (Ff. *plonger;* Llyd. *plungea*) trochi; soddi, suddo; grawthu, plyngu, cleigio; ymdrochi; ymsoddi; rhuthro; picio; neidio; rhuthro, rhedeg, *neu* neidio yn wyag ei ben; hyffio; tindaflu; gwingo; carlamu.
To plunge one's self—ymdrochi; ymdrybaeddu, ymfoddi; bwrw *neu* daflu ei hun bendramwnwgl.
To plunge into, } rhuthro, rhed-
To plunge one's self into, } eg, *neu* neidio yn wyag ei ben i; taflu *neu* fwrw ei hun yn wyag ei ben i; rhuthro, rhedeg, *neu* neidio bendramwnwgl i; taflu *neu* fwrw ei hun bendramwnwgl i.
To plunge headlong—rhuthro, rhedeg *neu* neidio bendramwnwgl, &c.; grawthu.
Yet shalt thou plunge me in the ditch—eto ti a'm trochi yn y pwll (*Iob* ix. 31).
A plunging horse—march tindaflog, gwingog, *neu* larnsachus.
Plunge, *s.* troch, trochiad, trochfa, plwng, plwnc, grawth; ymdrochiad; ymdrochfa; gwethl; hwff; cyfyngder, cyni, ing, cyfyng-gynghor.
To put one to a plunge—dwyn un i'w gyfyng-gynghor; cyfyngu ar un.
To be in a plunge, } bod mewn cyfyng-
To be put to a plunge, } gynghor; bod yn *neu* ar ei gyfyng-gynghor; bod wedi ei ddwyn i'w gyfyng-gynghor; bod yn gyfyng ar un; bod yn y drochfa; bod wedi ei ddwyn i'r drochfa; bod wedi ei drochi yn dost; bod wedi ymdrochi yn dost.
To be in a great plunge, } bod mewn
To be put to a great plunge, } cyfyng-gynghor, &c.
Plungeon, *s.* ymdrochiar, soddiar, tindroed.
Plunger, *s.* trochwr, trochydd, ymdrochwr, mydrochydd, cleigiwr, plyngwr, plyngiedydd, grawthwr.
Plungy,† *a.* gwlyb.
Plunging, *s.* trochiad, ymdrochiad, plyngiad, grawthiad, cleigiad; rhuthrad, neidiad, picïad; tindafliad.
Plunket, *s.* math ar liw glas.
Pluperfect, *a.* (Ll. *plus quam perfectum*) tragorphenol, tragorphenedig, trachyflawnedig, mwy na pherffaith.
Pluperfect tense — amser tragorphenol, amser tragorphenedig.
Plural, *a.* (Ll. *pluralis*) lluosog, lliosog; anunig; yn cynnwys mwy nag un.
Plural number—rhif lluosog, lluosrif.
Pluralist, *s.* amleglwysog, amleglwyswr, amleglwysydd; perchen mwy nag un eglwys;

perchen mwy nag un fywiolaeth eglwysig: *pl.* amleglwysogion.
The pluralist—yr amleglwysog.

Plurality, *s.* lluosogrwydd, lliosogrwydd, lluosogedd, lluosedd, amledd; lluaws, llawer; amleglwys; amleglwyseth.
Plurality of livings — amlfywiolaethau eglwysig; mwy nag un fywoliaeth eglwysig.
Pluralities — amlfywoliaeth eglwysig yn meddiant yr un eglwyswr; amleglwysi.

Pluralize, *v. a.* gwneuthur *neu* droi yn lluosog; gosod terfyniad lluosog i *neu* wrth; lluosogi.

Pluriliteral, *a.* (Ll. *plus* a *literu*) yn cynnwys mwy na thair llythyren; amrylythyr.

Pluriliteral, *s.* gair yn cynnwys mwy na thair llythyren; gair amrylythyr.

Plurisy,† *s.* (Ll. *plus*, *pluris*) arddigonedd, gorllawnder, mwy na mwy.

Plus, *ad.* (Ll.) mwy, chwaneg.
Plus (the character marked thus, +)—cymmodeb.

Plush, *s.* (Ff. *peluche*) math ar ddefnydd cotymog melfedaidd.

Plutonian, **Plutonic**, *a.* (oddi wrth *Pluto* (Gr. *Ploutôn*) brenin annwn) Plutonig, Plutoniaidd; à ffurfiwyd gàn dân.
Plutonic rocks—creigiau Plutonig; creigiau ffurfiedig gàn dân yn eigion y ddaiar.

Plutonian, **Plutonist**, *s.* Plutonydd, Plutonwr, Plutoniad =un à ddeil gael o'r ddaiar ei ffurfio yn ei dull presennol gàn dân.

Plutonism, *s.* Plutoniaeth, athrawiaeth y Plutoniaid.

Pluvial, **Pluvious**, *a.* (Ll. *pluvialis*) gwlawog, gwlawiog, gwlawfydrai, gwlawfeidyr.

Pluvial, *s.* (Ff.) offerendor, toryn offeiriad, côb offeiriad.

Pluviameter, *s.* (Ll. *pluvia*, a Gr. *metron*) gwlawfydrai, gwlawfeidyr.

Pluviametrical, *a.* gwlawfydrol; perthynol i wlawfydrai.

Purling, *s.* ffreulad, crychleisiad, crychiad, godarddiad; ffraul, godardd, godwrdd.

Purling, *a.* ffreulog, crychleisiog, dadyrddol, dadyrddus, sisialog, sisellog.
A purling stream—ffrwd grychleisiog, nant crychleisiog, ffrwd ffreulog, nant ffreulog, nant sisellog, nennig sisellog, crych-nant, crych-ddwr, ffrwd grech.

Purloin, *v.* (Ff. *pour* a *loin*) lladrata, lledrata, darnguddio, chwilena, chwiwbigo, chwiwio, chwiwian, chwiwladrata; llenysbeilio.

Purloiner, *s.* lleidr, darnguddiwr, chwiwgi; llenlaidr.
Purloining, *s.* lladrata; lladrad; darnguddiad; llenyabeiliad.
Purparty, *s.* (*Ff. pour* a *partie*)=*Pourparty.*
Purple, *a.* (*Ff. pourpré*; Ll. *purpureus*; Gr. *porphureos*) porffor, cochlas, glasgoch; rhuddgoch, rhuddlas; porfforliw; coch.
Purple flood—creulif, cochlif, cochre.
To make purple—cochlasu, glasgochi, porffori.
Purple, *s.* porffor, cochlas, glasgoch, porfforliw, lliw glasgoch; porfforwisg, gwisg borffor; brethyn porffor.
The purple—y porffor, y wisg borffor, y borfforwisg=urddas ymherawdwyr, cyniadur, &c.
Pale purple—lliw blodau yr hocys; porfforliw gwawrwyn, porfforliw gorwyn, golasgoch.
Purple-coloured—porfforliw, o liw y porffor, porfforaidd, glasgoch, cochlas; rhuddgoch.
Purple-coloured violet, } cenin y
Purple-coloured hyacinth flower, } brain, bwtias y gog, cloch yr eos.
Purple loosestrife—llysiau y milwr, gwyarllys.
Purple-fish—porffor-bysg.
Purple, *v. a.* (Ll. *purpuro*) porffori, cochlasu, glasgochi, lliwio yn borffor, porfforliwio, troi yn borffor.
Purples, *s. pl.* y nodau; heintfanau; y frech goch angeuol; llucheuen fanog; y dwymyn goch fanog.
Purplish, *a.* porfforaidd, golasgoch, cochlasaidd.
Purport, *s.* (*Ff. pour* a *porter*) ystyr; amcan, dyben, bwriad; tuedd; rhediad, tueddiad; arwyddocâd, meddwl, deall, pwyll; swm, sylwedd; cynnwysiad.
Purport, *v. a.* arwyddo, arwyddocâu, golygu, cynnwys; meddylio, meddwl; amcanu neu fwriadu dangos; bod â'i ystyr; cynnwys.
Purpose, *s.* (*Ff. propos*; Ll. *propositum*) amcan, bwriad, dyben, perwyl, arfaeth, arfedd, arfeddyd, goddeu, godde, cyngyd, gofryd; meddwl; gofeg, bryd; ewyllys, gwyllys; cynghor; addug; creth, credd; effaith; pwrpas; †angbraifft; †ymddyddan.
On purpose, } yn fwriadol; o wir waith
Of purpose, } goddeu; o'r gwaith goddeu; o wir waith oddeu; o wir gwaith oddeu; o wir fwriad; o wir berwyl; o lawnfryd; o fwriad, trwy fwriad; yn unswydd, yn un swydd; o'i fodd, yn wirfoddol.
For the purpose—i'r peth hyn; i'r perwyl hyn; i'r dyben hyn; i'r dyben hwn; i'r dyben, i'r perwyl.
For this purpose—i'r dyben hyn; er mwyn hyn; i'r perwyl yma; i hyn o ddyben.
To good purpose—i ddyben da; i berwyl da; i ben da; i ffrwyth da; i berffeithrwydd cyflawn.
To purpose, } i ryw berwyl; i ryw
To some purpose, } ddyben; i berwyl; yn dda; yn dda da; yn dda ac yn ddiwall; hyd oni byddo yn ddifai.
He beat him to some purpose—efe a'i pwyodd hyd onid oedd yn ddifai; efe a roddodd iddo faeddgen cadnaw.
To no purpose—yn ofer, yn ddifudd, yn ddiles, yn ddiffrwyth; i ddim dyben.
In vain and to no purpose—yn ddiles ac yn ofer.
To the purpose—i'r dyben, i'r perwyl; i'r dyben hyn neu hyny, &c.; yn berthynasol; yn gymhwys, yn addas; yn gyfateb-ol; yn ol y bo yr achos yn gofyn; mewn modd addas.
It is to the purpose—y mae yn cyfateb; e gynghan; y mae yn taro neu yn cyttaro; y mae yn gymhwys; nid yw anghymhwys; nid yw anghyngban; e ddawr, e berthyn.
Nothing to the purpose, } anmherthynas-
Not at all to the purpose, } ol neu anmhriodol i'r pwno; anmherthynasol i'r pwno, i'r achos, neu i'r perwyl mewn llaw; anneiryd i'r pwno; anghyfachos.
It is nothing to the purpose, } ni ddeiryd;
It is not to the purpose, } llwyr neu gwbl anmherthynasol yw; y mae yn gwbl anmherthynasol; ni pherthyn i'r mater, i'r pwno, i'r achos, neu i'r perwyl mewn llaw; nid yw yn cyffwrdd dim â'r pwno, &c.; nid yw yn cyffwrdd â'r mater, &c.; nid oes mo'r berthynas leiaf rhyngddo a'r mater mewn llaw.
It is much to the purpose—y mae yn gymhwys iawn; y mae yn taro yn dda; e etyb yn wych; e gynghan yn wych; y mae yn ateb yn deg; e berthyn yn fawr; e ddawr lawer.
It is not much to the purpose, } nid oes
It is but little to the purpose, } nemawr o gymhwysdra ynddo; nid oes ond ychydig gymhwysdra ynddo; nid yw yn ateb neu yn taro nemawr; nid ateb nemawr; nid etyb nemawr; ni thery nemawr; ni pherthyn nemawr i'r mater, i'r achos, i'r pwno, neu i'r perwyl mewn llaw; ni ddawr nemawr.
To little purpose—i ychydig ddefnydd; i ychydig ddeunydd; i ychydig fudd neu les.
To another purpose—i berwyl neu ddyben amgen; i berwyl neu ddyben arall.
To the same purpose—i'r un perwyl, amcan, dyben, neu fwriad; ar yr un testyn.
It is as much to the purpose as if...—unwedd yw a phe...; unfath yw a phe....
To that purpose—i'r dyben hyny; i'r perwyl hyny; i'r amcan hyny; i hyny o ddyben, &c.; i'r ystyr hyny; er mwyn hyny; o herwydd hyny; ar fedr hyny.
Or somewhat to that purpose, } neu ryw-
Or something to that purpose, } beth i'r ystyr hyny; neu rywbeth cyfun â hyny; neu rywbeth cynhebyg i hyny.
To what purpose?—tuag at ba beth? i ba beth? i ba ddyben? i ba berwyl? er pa beth? er pan ddyben? i beth?
To what purpose is it?—i ba ddyben y mae efe? pa le a wna? beth a dâl (i ti, i chwi, &c.)? da i ba beth ydyw? i ba beth y mae yn dda?
To what purpose is all this?—i ba ddyben y mae hyn oll? pa les a wna hyn oll? beth a dâl hyn oll? i ba ddyben neu amcan y dywedi hyn?
A person for one's purpose—un à etyb neu à dery dro un; un cymhwys i wasanaeth un.

I went there on purpose—aethym yno yn unswydd; aethym yno yn fwriadol, &c.
To put one beside his purpose—bwrw neu droi un heibio i'w amcan; troi neu symmud un oddi wrth ei amcan; peri nas dygo un ei amcan i ben; bod yn achos nas dygo un ei amcan i ben; lluddias un yn ei amcan; rhwystro i un ei fwriad; seithugio amcan un; aehub y blaen ar un.
Full purpose — llwyrfryd, llawn fwriad, llawn-fryd.

Purpose, *v.* amcanu, bwriadu, bod ar oddeu, bod ar fedr, arfaethu, arfeddu, arfedd, goddeu, godde, gofrydu, meddwl, meddylio, meddylied, cyngydio, arofyn; llunio; cymmeryd cyngbor; penderfynu; †ymddyddan.
Man purposes and God disposes — meddwl dyn, Duw a'i terfyn.

Purposeless, *a.* difwriad, diamcan, heb fwriad, heb amcan.

Purposely, *ad.* yn fwriadol, o fwriad, o wir fwriad; o wir gwaith oddeu; o wir waith goddeu; o wir waith oddeu; o'r gwaith goddeu; yn unswydd, yn an swydd; o'i fodd.

Purposing, *p.* yn, gan, neu dan amcanu, &c.; ar fedr, ar oddeu.

Purprestare, } *s.* (Ff. *pour* a *prendre*) gormes-
Pourprestare, } iad ar eiddo y wlad; casbeth cyhoedd.

Purprise, *s.* (Ff. *purpris*) canadle, ceufaes, clos, maes canedig; amgylchedd tyddyn.

Purpura, *s.* (Ll.) cregyn porffor.

Purpurate, *s.* porfforhal.

Purpure, *s.* (Ll. *purpura*) porffor, cochlas (yn arfau bonedd).

Purpuric, *a* (Ll. *purpura*) porfforig.
Purpuric acid—sur porfforig.

Purpurine, *s.* porfforain, porffornur.

Purr, *v. n.*=*Pur.*

Purr, *s.* morhedydd, chedydd y môr.

Purre, *s.* adberwy; osai neu berwy lledwael.

Purrel, *s.* ymylwe brethyn caerog.

Purrock, *s.* (cyfnewidiad o *parrock*) pereyn, bwra, gower, maesan.

Purse, *s.* (Ff. *bourse;* Al. *börse;* Ll. *byrsa;* Gr. *bursa*) alwar, amner, pwra, pwtner; balleg, cod; bathgod.
The public purse — cod y wlad; pwra y wlad.
Privy purse—alwar dirgel, cudd alwar, cudd amner.
A little purse—alweryn, amneryn, pyrsyn.
Net-purse — rhwyd-god, rhwyd-bwra; rhwyd.
Purse-bearer—alwerydd, amnerydd, pwtnerydd; arweddiawdr neu ddygiawdr y pwra neu god.
Shepherd's purse—llysiau y tryfal, pwra y bugail.

Purse, *v. a.* pyrsu, amnera, alwaru; rhoddi, rhoi, neu ddodi mewn pwra, &c.; crynöi neu grychu ar wedd pwra.

Pursenet, *s.* pyra-rwyd, rhwyd bwra; rhwyd y gellir crych ei geneu fel pwra.

Purse-pride, *s.* baldhder ar ei bwra; balchder gan lawned ei bwra; balchder gan gyfoeth; balchder gan arian.

Purse-proud, *a.* arian-falch, goludfalch; codfalch; balch o'i arian neu olud.

Purser, *s.* alwerydd, amnerydd, pwtnerydd, pyrswr, pyrsydd; arweddawdr, dygiedydd, neu ddygiawdr y god; gwr y god.

Pursiness, } *s.* (o *pursy*) diffyg anadl gan dew-
Pursiveness, } der; anadlfyredd neu fyranadledd gan gastogrwydd; byranadlogrwydd, blythedd; chwydd.

Purslane, *s.* (Ll. *portulaca;* It. *porcellana*) porpin, pwrpin, troed y gywen.
Water purslane—troed y gywen.

Pursuable, *a.* erlynadwy, canlynadwy; à aller ei erlyn; addas i'w erlyn neu i'w geisio.

Pursuance, *s.* (o *pursue*) canlyniad, erlyniad, erlynad, dylyniad; ymlidiad.
In pursuance of—yn nghanlyniad peth; yn gyfatebol i; yn gyfatebol i'w orchymynion; yn gyfatebol i'r gorchymynion à roddwyd iddo; mewn canlyniad i.

Pursuant, *a.* (o *pursue*) canlynol, dylynol; cyfatebol.
Pursuant to—yn ganlynol i; yn atebol i; yn gyfatebol i.

Pursue, *v.* (Ff. *poursuivre;* Ll. *prosequor*) erlyn, canlyn, dylyn, ymlid, erlid, erlidio, dilyd; dylud, dyludo; rhedeg ar ol; rhedeg er dâl; ceisio dâl; canlyn neu ddylyn er dâl; olrhain, olrhesin; arhel; myned ar ol; ceisio cyrhaedd; ceisio dyfod o hyd i; ceisio gorddiwes; myned yn mlaen â; ymerlyn; ymlynu; myned yn mlaen, myned rhagddo; parhau.
To pursue eagerly—gorymlid; canlyn yn daer, &c.
To pursue damages—ceisio iawn trwy gyfraith; gyru hawl er cael neu gyrhaedd iawn am ryw niwed neu golled.
To pursue a design or purpose—myned yn mlaen â rhyw amcan neu fwriad.
Pursue thy purpose—dos yn mlaen â'th amcanion neu fwriadau.
To pursue with words (of entreaty)—ymnedd, ymhwedd.
To pursue close, } erlyn yn daer; canlyn
To pursue closely, } neu ddylyn yn dyn;
To pursue hard, } dylyn yn ddiwyd neu ddiflin; dylyn yn fanwl; glynu wrth; bod yn ddiwyd yn neu wrth.

Pursuer, *s.* erlynwr, erlyniwr, erlynydd, erlyniedydd, erlyniad, canlynwr, canlynydd, dylynwr, dylynydd, dylyniedydd, ymlidiwr, erlidiwr, erlidydd.

Pursuit, *s.* (Ff. *poursuite*) erlyniad, erlynad, canlyniad, dylyniad, erlyn, erlynedigaeth, ymlid, erlid, erlidiad, ymlidiad, ymlidfa, erlidfa, erlidedigaeth; canre, canred; galwad, galwedigaeth; gorchwyl; olrheiniad.
In pursuit of—yn nghanlyniad ar ol peth; yn ngwaith un yn canlyn ar ol peth; yn nghais peth; yn ngwaith un yn ceisio peth; wrth ganlyn ar ol peth; wrth geisio peth; yn ymerlyn â pheth.
He is still indefatigable in the pursuit of wealth—y mae efe fyth yn ddiflin yn canlyn ar ol neu yn ceisio cyfoeth; y mae efe fyth yn ddiflin yn ymerlyn â chyfoeth. [orol.
Scientific pursuits—olrheiniadau gwyddorol.

Pursuivant, *s.* (Ff. *poursuivant*) rhingyll arwyddfardd, gweinydd arwyddfardd, arfringyll; cenad gwlad, gwaedd gwlad; arwyddfardd ysbâs.

Pursy, *a.* (Ff. *poussif*) byrdew; byranadlog neu anadlfyr gan ei dewed; à diffyg anadl arno gan ei dewed; anadlfyr gan dewder; erthychlyd; byranadlog, anadlfyr; tew; cestog; tordyn; blythog; chwyddedig.

Purtenance, *s.* (o'r Ll. *pertineo*) ymysgar anifail, syrth.

Purulence, } *s.* (Ll. *purulentus*) crawniad,
Purulency, } madrediad, madriad, goriad; crawn, madredd, gôr.

Purulent, *a.* crawnllyd, madreddog, madraidd, gorllyd, llawn o grawn.

Purvey, *v.* (Ff. *pourvoir;* Ll. *provideo*) darmerthu, armerthu; arlwyo, mynu; darparu lluniaeth; prynu, arlwyo, *neu* barotöi bwyd; darparu; gosymdeithio, gosymmeithio.

Purveyance, *s.* darmerthiad, armerthiad, arlwyad, darpariad; pryniad, arlwyad, *neu* barotoad bwyd; bwydweiniad; ymborth, lluniaeth, bwyd.

Purveyor, *s.* darmerthydd, darmerthwr, armerthydd, armerthwr, bwydweinydd, gosymmeithydd, gosymmeithiwr, gosymdeithydd; prynwr, prynydd, pryniedydd, parwr, parydd, *neu* arlwywr bwyd *neu* luniaeth; darparwr, darparydd; llatai.

Purview, *s.* (Ff. *pourveu*) ergyd ac amean deddf; corff deddf; rhagddarbodiad; †rhagammod.

Pus, *s.* (Ll.) crawn, gôr, madredd.

Push, *v.* (Ff. *pousser;* Is. *puis*) gwthio, hyrddio, hyrddu, hergydio, ysgytio, ysgydio, gyrthio, ysgwthio, ysgethu, cilgwthio, hwpio, gyru, gothi; hychio; gwasgu; gwasgu ar; bod yn drwm yn erbyn; ymlewhau yn erbyn; orni; cornio; ymwthio, ymdrechu.

To push away—gwthio ymaith, &c.; esu.

To push back—gwthio yn ol.

To push at a thing—rhoi cais ar beth; rhoi cais ar wneuthur peth; ymröi yn gwbl i wneuthur peth; ymegnïo i wneuthur peth.

To push by main strength—gyru; gwthio trwy gryfder, &c.

To push on, } gwthio yn mlaen; gyru
To push forward, } yn mlaen; annog; cefnogi, cymhell, dirio; ymwthio yn mlaen, myned yn mlaen.

To push forward a design — myned yn mlaen â'i amcan; myned yn mlaen â'i fwriad.

To push (as an army does in the heat of battle)—gwasgu ar y gelyn; bod yn drwm yn erbyn y gelyn; ymlewhau yn erbyn.

Push, *s.* gwth, hergwd, hwrdd, hwp, ysgwd, cilgwth, hyrddawd, ysgŵth, ysgwt, erwch, heng, gyrth; rhuthr; ymdrech, egni, ymgais, cynnyg, cais; cyfyngder, enbydrwydd, dirdra, ing, ingder, gwasgfa, dir; pigodyn, llynoryn, ploryn, pendduyn, goryn, tarddiant; orn; es.

The last push—eithaf enbydrwydd, yr enbydrwydd eithaf, yr enbydrwydd mwyaf, eithaf anhawsdra; y cyfyng-gynghor; y weddi ddiweddaf; yr eithaf.

It is come to the last push—mae y peth yn eithaf enbydrwydd; mae y peth ar y cynnyg diweddaf.

He is at the last push, } y mae efe ar
He is come to the last push, } ei gyfyng-gynghor.

Reserving that resolution to the last push—gan gadw hyny o gynghor erbyn yr eithaf *neu* y gwaethaf.

At one push—ar un gwth, ergyd, cais, *neu* gynnyg.

To make one push for all—rhoi un cais ar beth ac nid ychwaneg; gwneuthur un cynnyg ar beth ac nid ychwaneg; ymbrofi unwaith ac nid eilwaith.

He made several pushes at it—efe a'i hamcanodd lawer gwaith; efe a amcanodd ei wneuthur lawer gwaith; efe a wnaeth amryw gynnygion ar ei wneuthur.

I will have another push for it—mi a wnaf gynnyg arall; mi a'i hamcanaf unwaith eto.

Pusher, *s.* gwthiwr, gwthiedydd, hyrddiwr, hyrddiedydd.

A pusher forwad—gwthiwr *neu* wthiedydd yn mlaen; ymwthiwr.

Pushing, *a.* gwthiol, hyrddol, ysgwthiol; anturiol, anturus, egnïol; yn ymwthio yn mlaen.

A pushing forward—gwthiad yn mlaen; ymwthiad yn mlaen.

Pushpin, *s.* (*push* a *pin*) pinwth, chwareu pinau=math o chwareu plant.

Pusillanimity, } *s.* (Ll. *pusillanimitas*) an-
Pusillanimousness, } wroldeb, annewredd, gwangalondid, digalondid, ofnogrwydd, llyfrineb, llyfrder, llyfrdra, anghalondid, digalonrwydd, aneofnder, annyndidwch, gwendid ysbryd.

Pusillanimous, *a.* (Ll. *pusillanimis*) anwrol, annewr, gwangalon, digalon, llwfr, llwrf, ofnog, gwangalonus, diarial, anfilwraidd, gwân ei galon, lleng, gwân, cachgiaidd.

Puss, *s.* (Is. *poes;* Gw. *pus*) titw; cath; ysgyfarnog (yn mhlith helyddion).

Pussy, *s.* (bychanig o *puss*) titw fach.

Pustulate, *v. a.* (Ll. *pustulatus*) crugdarddu, plorynu, gorynu; pothellu.

Pustulate, } *a.* pothellog, crugdarddog, plorynPustular, } og, llyfrithog.

Pustule, *s.* (Ff.; Ll. *pustula*) penddüyn, crugdardd, ploryn, goryn, llyneryn, pigodyn; pothell, ffothell.

Pustulous, *a.* (Ll. *pustulosus*) ploryneg, crugynog, gorynog, llynorog, pisgyrnog, llifrithog, llyfrith, llawn crugynau, crugdarddlyd.

Put, *v.* (Is. *pooten;* D. *poder*) gosod, dodi, rhoi, rhoddi, gosodi; bwrw; cyfeirio; llehau, llëu, cyflëu; hwylio.

To put about—gyru o bob tu; troi; newid gyrfa *neu* rediad.

To put again—ail osod; rhoi *neu* ddodi eilwaith yn ei le; adlehau, adlëu, adgyflëu.

To put against—dodi, gosod, rhoi, *neu* fwrw yn erbyn.

To put an army in array—byddino; trefnu byddin; trefnu gwŷr i'r frwydr; byddino gwŷr i ymladd; ymfyddino i ymladd; rhestru llu i'r gad; trefnu byddin *neu* fyddinoedd i ryfel; rhencio *neu* restru llu o filwyr; cattrefnu.

To put ashore—tirio, glanio; gosod ar y làn; rhoi ar dir.

To put aside—rhoi heibio, bwrw heibio, dodi heibio; gosod o'r neilltu; neilltuo, neilltuoli.

To put asunder—dydoli, gwahanu, ysgar, ysgaru, dadgysylltu, neilltuo; tynu oddi wrth eu gilydd.

To put away—dodi, symmud, rhoi, gyru, *neu* fwrw ymaith; rhoi heibio.

To put away one's wife—gollwng, bwrw, rhoi, rhoddi, *neu* yru ymaith ei wraig; ysgar â'i wraig; ysgar ei wraig.

To put away, } gwerthu; dodi ymaith;
To put off, } gyru ymaith; gyru ar gerdded; rhoi ar gerdded; peri *neu* wneuthur iddo fyned.

To put back—dodi, bwrw, gosod, gyru, *neu* wthio yn ol; cilgwthio.

To put between—rhoi, gosod, dodi, *neu* fwrw rhwng *neu* i mewn; cyfryngu.

To put by—troi, bwrw, rhoddi, rhoi, *neu* ddodi heibio; gosod, bwrw, *neu* daflu o'r neilltu; gosod ar wahan; rhoi *neu* osod yn nghadw; rhoi *neu* osod i gadw; seithugio, dïebrydu.

To put a case to one—gosod, dodi, *neu* roddi mater ger bron *neu* o flaen un; ysbysu *neu* egluro mater *neu* achos i un.

Put the case—gadwch, gadëwch, gedwch, bwriwch, caniatëwch, meddyliwch, cyfrifwch, gosodwch, tybiwch, bid, boed, bydded; pe rhon a; caniatäer.

Put the case it be so—gadwch *neu* gadëwch i hyny fod; bid felly, bydded felly, boed felly, poed felly; gadwch iddi fod felly,; pe rhon a bod y peth felly; a chaniatäu hyny; caniatäer ei bod fel hyny.

To put to death—marwolaethu, lladd, dïenyddu, dïenyddio; rhoi, rhoddi, *neu* osod i farwolaeth; rhoi i farw; dyfethu; cymmeryd *neu* dori ymaith.

To put down—gosod, dodi, rhoi, rhoddi, *neu* fwrw i lawr; gostwng, darostwng, llethu; dymchwelyd; trechu; diraddio; dystewi, rhoi taw ar.

To put an end to—rhoi terfyn, diwedd, *neu* ddyben ar; diweddu, terfynu.

To put forth—gosod allan; cynnyg; estyn, estyn allan; blaguro; ymadael â.

To put forth one's hand—estyn ei law; estyn ei law allan; estyn allan ei law.

To put forth one's strength *or* power—ymegnïo, ymdrechu, ymdrech, ymorchestu, ymöi, ymadferthu, ymadferth; rhoi ei rym *neu* ei allu ar waith.

To put forth a book—cyhoeddi llyfr; gosod llyfr allan.

To put forth leaves—deilio, dwyn dail, bwrw allan ddail.

To put forward—gwthio yn mlaen; gwasgu yn mlaen; gosod yn mlaen.

To put in execution—cyflawnu, gwneuthur; gosod mewn grym; rhoi ar waith.

To put in fear—ofni, peri ofni, ofnhau, ofnocäu; gyru *neu* beri ofn ar; rhoi braw yn; dychrynu, hylldrawu, brawychu.

To put to flight—tarfu; gyru ar ffo; gyru i ffoi; gyru i gilio; gyru ar gil *neu* encil; ymlid ymaith; cilio.

To put from one—bwrw oddi wrth un; bwrw ymaith oddi wrth un; gwrthod, llysu.

To put a thing into one's hands *or* power—rhoddi peth yn nwylaw un; rhoi peth dàn ddwylaw un; rhoddi peth dàn law un; rhoddi peth dàn awdurdod un; dodi peth yn nwylaw un.

To put a horse to his speed—gyru march ar lawn-frys, ar y pedwarcarn, *neu* ar y gyrfäu.

To put in—dodi, gosod, rhoi, rhoddi, *neu* fwrw yn *neu* i mewn.

To put into—dodi, gosod, rhoi, rhoddi, *neu* fwrw yn *neu* i mewn.

To put in practice—rhoi ar waith; arferu, arferyd, defnyddio.

To put into another's hands—gosod, rhoi, *neu* ddodi yn nwylaw un arall; rhoi yn ngofal un arall; ymddiried i un arall.

To put in for a place, } sefyll am swydd
To put for a place, } *neu* le; bod yn ymgeisydd am le *neu* swydd; ymgynnyg; swyddymgeisio, swyddymgais.

To put into the ground—rhoi, dodi, *neu* osod yn y ddaiar; planu.

To put to a hazard—peryglu, pydio; rhedeg y perygl.

To put in mind—adgofio, adgoffa, adgoffhau, dwyn ar gof, galw i gof, coffa, coffhau.

To put in one's head, } rhoi, rhoddi, dodi,
To put into one's head, } *neu* osod yn mhen un; dwyn ar gof i un; coffhau i un; annog, cynghori.

To put one out of heart—digaloni un.

To put one in good heart—rhoi calon, arial, *neu* galondid mewn un.

To put one in hope *or* hopes—peri gobaith yn un; peri i un obeithio.

It puts me in great hope—mae yn peri i mi fawr obeithio.

To put in order—trefnu, cyweirio, tacluso, trefnuso.

To put into order—trefnu; gosod mewn trefn; gwneuthur trefn ar; dwyn i drefn; cymmoni; cymhenu.

To put in place of another—rhoi, gosod, *neu* ddodi yn lle un arall.

To put in bail, } rhoddi meichiau ar gwbl-
To put in surety, } hau *neu* ar ateb; rhoddi meichiau ar ymddangos ger bron yr ynad ar ddydd penod.

To put in pawn, } gwystlo, arwystlo; rhoi
To put in pledge, } yn ngwystl; dodi ar wystl.

To put money to use—gosod arian ar *neu* yn llog; llogi arian.

To put off—dïosg, dihatru, dadwisgo, diwisgo, diddilladu, deodi; ymddïosg o; ymddihatru o; tynu ymaith; tynu oddi am dano; gosod o'r neilltu; gosod, rhoi *neu* ddodi heibio; bwrw heibio, troi heibio; oedi, gohirio, addoedi; troi ymaith; diswyddo; somi, seithugio; cyfrwys ochel, osgöi; ymddïanc oddi wrth; rhoi, gosod, *neu* yru ar gerdded; gwneuthur *neu* beri i beth fyned; pasio; gwerthu; cymmeradwyo, canmawl; gwthio ymaith, cilgwthio; tynu; ymadaw; gadael y tir.

To put off one's hat—tynu ei het.

To put on, } gwisgo; rhoi am; gwisgo,
To put upon, } bwrw, gosod, rhoi, *neu* ddodi am dano; ymwisgo â; cymmeryd arno; gosod ar, rhoddi ar, dodi ar; cyfrif; twyllo; †hyrwyddo.

To be put upon—cael ei dwyllo.

To put on a face the face of religion—cymmeryd arno agwedd *neu* rith crefydd.

To put on a demure countenance—gwneuthur wyneb prudd, mul, llednais, *neu* orchwylus; edrych yn ful, yn llednais, *neu* yn orchwylus.

To put on mourning—ymwisgo mewn gal-

arwisg *neu* arwylwisg; rhoi dillad galar am dano; rhoi trwsiad afar am dano; ymwisgo â du; ymwisgo â gwisgoedd galar; gwisgo gwisgoedd galar am dano.

To put in prison—carcharu; rhoi, bwrw, *neu* dafiu yn ngharchar; bwrw, rhoddi, *neu* dafiu i garchar.

To put over—cyfeirio; anfon; oedi, gohirio, dyoedi; hwylio drosodd.

To put over, } rhoi, gosod, *neu* ddodi ar y
To put on, } tân.

Put over the pot—rho y crochan ar y tân; rhowch y crochan ar y tân.

To put out—bwrw allan; troi allan; gyru allan; rhoi allan; diffoddi; tarddu allan, blaguro; estyn allan, estyn; anfon allan; cyhoeddi; dyrysu, aflonyddu, cythryblu; gosod ar log.

To put out of doors—bwrw *neu* droi allan; troi i'r tu draw i'r drws; troi dros y drws; didyo.

To put out leaves—deilio, dwyn dail, bwrw allan ddail.

To put out of conceit with—peri annhuedd, anhoffder, *neu* ddyseitharwch mewn un at; peri tyb drwg mewn un am; gyru rhwng un â; peri i un anhoffi.

To put out of countenance—cywilyddio; peri cywilyddio, delwi, *neu* ddyddelwi; peri delwi ac amliwio; peri i'r gwynebpryd syrthio; peri cywilydd; peri gwrido; peri cywilydd wyneb; peri i'r gwaed godi yn yr wyneb; peri cochi; cythruddo, cythryflu, annhrefnu; tafiu allan o hwyl; digaloni.

To put out the eyes—tynu llygaid, dïlygeidio.

To put out of hope—peri anobeithio, peri gwanobeithio; peri gwanobaith yn un.

To put one's nose out of joint—disodli un; bwrw *neu* wthio un allan o barch; bwrw *neu* wthio un allan o ffafr.

To put out of the mind, memory, *or* remembrance—bwrw *neu* ddilëu o'r cof; bwrw *neu* ddilëu allan o'r cof; peri anghofio; bwrw allan o'r meddwl.

To put out to hire—llogi, cyflogi; rhoi *neu* osod dàn ardrath; rhoi *neu* osod dàn bris *neu* log; rhoi allan ar hur, er llog, *neu* er cyflog; gosod; rhentu.

To put out of fear—rhyddhau oddi wrth ofn; dïofni; peri yn ddïofn.

To put out of order—annhrefnu, dattrefnu, anghymmoni, annybenu, anghyweirio; bwrw allan o drefn; anhwylio, cythryblu, cymmysgu.

To put out to board—rhoi, gosod, *neu* ddodi un ar ei fwrdd *neu* ford.

To put out a jest—bwrw *neu* dafiu allan gellweirair.

To put one out of humour—tori ar dymmer dda un; peri un yn anfoddog *neu* anniddig; cyffröi drygnaws un; anfoddhau un; gyru un allan o'i hwyl; gwneuthur un yn ddrwg ei hwyl.

To put out the tongue—estyn *neu* grogi ei dafod allan; llyferthu, lluddedu.

To put out work—rhoi, gosod, *neu* ddodi gwaith allan.

To put to—bwrw at; chwanegu at; rhoi at, gosod at, dodi at; gosod ar, rhoi ar; gosod, dodi, *neu* roi wrth; cysylltu wrth; gosod i, rhoi i; attodi; cyfeirio; dynoethi; gwneuthur yn agored i; codi at; estyn at.

To put one to it—gyru un i beth; gyru un i wneuthur peth; gwasgu ar un; trallodi un; dyrysu un.

To be put to it—bod yn galed, yn drwm, yn dyn, yn gyfyng, *neu* yn gaeth ar un; cael trafferth, trallod, gofid, *neu* adfyd; ei chael hi yn galed.

To put one to charge *or* expense—peri traul *neu* gost ar un; rhoddi traul *neu* gost ar un; rhoddi un mewn traul *neu* gost.

To put one to trouble—peri i un drallod, blinder, gofid, adfyd, *neu* drafferth; rhoi un mewn trallod, &c.; bwrw un i drallod, &c.

You have put me to a great deal of trouble—parasoch i mi lawer iawn o drallod; parasoch i mi fwy na mwy o drallod.

To be put hard to it—bod yn galed, yn drwm, yn dyn, yn gyfyng, *neu* yn gaeth ar; myned yn galed, yn drwm, yn dyn, yn gyfyng, *neu* yn gaeth ar; bod mewn cyfyngder; cael gwaith i ddïanc.

To put one to a nonplus=*Nonplus, v. a.*

To put one to his oath—rhoi *neu* osod un ar ei lw; peri *neu* wneuthur i un gymmeryd ei lw; tyngedu un â llw.

To put to pain, } peri poen i, &c.; rhoi
To put in pain, } mewn poen; gwneuthur poen i; poeni, poenydio; gofidio, trallodi, &c.

To put one to shame—gwaradwyddo, gwarthruddo, gwarthâu; gwneuthur *neu* osod yn waradwyddus; gwneuthur *neu* beri yn gywilyddus; gwneuthur gwaradwydd o un.

To put to open shame—gosod yn watwar *neu* watwor; gwneuthur yn warthrudd; gwneuthur yn siampl.

To put one to his shifts—gosod, rhoi, rhoddi *neu* fwrw un ar ei gyfyng-gynghor; dwyn un i'w gyfyng-gynghor; dwyn un i'w ddychymyg *neu* i'w gynnyg diweddaf; dwyn *neu* fwrw un i'r pin bach; dwyn un i eithaf ei synwyr.

To put to sea—codi hwylïau; dechreu hwylio; dechreu mordaith; myned i'r môr; dechreu morio; gwthio, diegyn, *neu* gychwyn i'r môr; ymadaw.

To put to silence—peri tewi; peri i un dewi; peri *neu* yru taw ar; cau safn *neu* geg; gostegu, dystewi.

To put a stop to—rhwystro, lluddio, lluddias, attal, llestair; tori ar waith *neu* ohwedl un; attal rhag myned yn mlaen.

To put one to a stand—peri i un betruso; peri petruseed i un; dwyn *neu* yru un i'w gyfyng-gynghor; rhwystro un; attal un, &c.

To put to the sword—rhoi i'r cleddyf, lladd â'r cleddyf.

To put to the test *or* trial—rhoi *neu* fwrw ar brawf; rhoi yn mhrawf; dwyn i'w brofi; dwyn i'r prawf; profi.

To put to torture—arteithio; rhoi mewn artaith.

To put to the torture—rhoi i'r artaith; rhoi yn yr artaith; rhoi i'r ddirboen; holi trwy artaith *neu* ddirboen.

To put to more strength—rhoi mwy o nerth.
To put to a venture—rhoi ar antur.
To put to the vote—bwrw neu roi ar bleidlais y bobl; rhoi neu fwrw ar farn neu ddedfryd y bobl; dwyn i'r ddewisfa.
To put together—rhoi, gosod, dodi, neu fwrw yn nghyd; cyssylltu, uno.
To put unto=*To put to.*
To put up—gosod, rhoi, neu ddodi i fyny; codi, cyfodi, dyrchafu; rhoi yn nghadw; rhoi i gadw; cyfeirio at; llathya; cynnyg; rhoi ar werth; goddef; sefyll am swydd; sefyll; plygu; pentyru; sypio, sypynu; amlenu; rhoi heibio.
To put up (as a candidate)—sefyll am swydd; sefyll.
To put up a sword—rhoi neu ddodi cleddyf mewn gwain; rhoi neu ddodi cleddyf yn y wain; dychwelyd cleddyf i'w wain.
To put up with—goddef, dyoddef, cyddwyn â, cydymddwyn â, ymaros â, ymoddef â; goddef gyda.
To put up with an injury—maddeu cam neu gamwedd; myned heibio i gamwedd; peidio à dal ar gamwedd; cyd-ddwyn â cham à wnair iddo; ymddwyn dan sarhad yn amyneddgar.
To put up a motion—cynnyg.
To put upon—gosod ar, dodi ar, rhoi ar, bwrw ar; twyllo, coegio.
To put a cheat upon one—bwrw hud ar un; twyllo neu somi un trwy ddichell.
To put one upon a thing—annog, cyffrôi, neu gynhyrfu un i wneuthur peth.
To put a horse upon a gallop—rhoi neu yru ceffyl ar bedwarcarn; rhoi ceffyl ar garlam.
To put in writing—ysgrifenn i lawr; rhoi i lawr neu ar lawr mewn ysgrifen; dodi i lawr yn ysgrifenedig; rhoi i neu ar lawr mewn du a gwŷn; ysgrifenu.

Put, *s.* dir, gorfod; gweithred orfod, gweithred anfodd; ymdro; dirdro; peth à wnair er diane rhag peth arall; chware ar gardiau.
A put off—esgus, coeg esgus, gwag esgus, oed-esgus; esgus gwneuthur er diane dros hyny o dro; oediad.

Put,† *s.* (C. *pot*) dyn gwledig, bunch, drel, trwch, taiog, gwaer.

Put, *s.* (Ff. *putain*; C. *putain*) putain, huren, huran.

Putage, *s.* (o *put*) godineb neu anniweirdeb ar du y fenyw; puteindra.

Putamen, *s.* (Ll.) careg eirin, &c.

Putanism, *s.* (Ff. *putanisme*) puteindra, puteiniaeth, puteinwaith.

Putative, *a.* (Ff. *putatif*, o'r Ll. *puto*) tybiedigol, cyfrifedigol, tybygedigol, cymmeredigol, tybiadol; fel y tybir, fel y tybid; tybiedig, cyfrifedig.

Putid, *a.* (Ll. *putidus*) brwnt, budr, ffiaidd, bawaidd, diffaith; gwael, distadl, dilas.

Putidness, *s.* brynti, budredd, bawaiddrwydd, gwaeledd, salwedd.

Putlogs, *s. pl.* nydwyddau, nodwyddau.

Put-off, *s.* esgus, coeg esgus, gwag esgus, oed-esgus; esgus gwneuthur er diane dros hyny o dro; oediad.

Putredinous, *a.* (Ll. *putredo*) pwdr, braen, braenllyd, hadl, hadlaidd; yn tarddu o fraeniad neu bydriad.

Putrefaction, *s.* (Ff.; Ll. *putrefactio*) braeniad, pydriad, braenedigaeth, llygriad, madreddiad, hadliad, llygrediaeth; mallder, malldod, mallni, hadledd, pydredd.

Putrefactive, *a.* braenedigol, pydrol, pydrediggol, llygredigol, madreddol, braenol, madrol; à baro neu à wnel beth yn fraen neu bwdr; à fraeno, à bydro, à fallo, à lygro.

Putrified, *p. p.* braenedig, &c.; braen, pwdr.

Putrefy, *v.* (Ff. *putrefier*; Ll. *putrefacio*) braenu, pydru, llygru, madreddu, madru, hadlu, mallu; gwneuthur neu beri yn bwdr; myned yn bwdr.

Putrefying, *p.* yn braenu, &c.; à fo yn braenu, pydru, llygru, neu hadlu.
Putrefying sores—gwaliau crawnllyd (*Esa.* i. 6).

Putrescence, *s.* (Ll. *putresco*) braenedd, pydredd, braenllydrwydd, hadledd, llygredd, malldod, mallder, mallni, pydrni.

Putrescent, *a.* yn braenu; à fo yn pydru neu yn llygru; yn myned yn fraen neu bwdr; braenedigol, pydrol, hadlaidd, pwdr, braen.

Putrescible, *a.* braenadwy, pydradwy, llygradwy, hadladwy.

Putrid, *a.* (Ll. *putridus*) braen, pwdr, braenllyd, llygredig, hadl; hadlyd, mall, madreddog, haglog; braenedigol, pydrol, llygredigol; drewllyd.

Putridness, } *s.* braenedd, pydredd, braenllyd-
Putridity, } rwydd, braenllydedd, pydrni, hadledd, llygredd, madredd, malldod, mallni, braen.

Putry,† *a.* pwdr, braen.

Putter, *s.* (o *put*) gosodwr, gosodydd, dodwr, dodydd, cyflëwn.

Putter-on, *s.* annogwr, annogydd, cynhyrfydd, cynhyrfwr.

Puttingstone, *s.* careg orchest, prawfaen, maen prawf; maen i brofi pybyrwch wrth ei dafiu.

Puttock, *s.* (Ll. *buteo*, yn ol *Minsheu*) barcud, barcutan, bod, boda.

Puttock-shrouds, *s. pl.* hwyliaffau.

Putty, *s.* (Ysp. *potea*) toeswyn, toealud, sythdoes; llwch alcan, llwch caboli.

Putwary, *s.* coflyfrydd (yn India).

Puzzle, *v.* (o wraidd *pose*, yn ol *Webster*; o *postle=pose*, yn ol *Skinner*) dyrysu, nidro, methlu, penbleth, ffeigio, afrwyddo, annhrefnu, cynghafu; attal, rhwystro; peri i un betruso; petruso; penffwdanu; bod mewn cyfyng-gynghor; trallodi; posio, dyrys-holi; bod yn chwithig.

Puzzle, *s.* dyryswch, dyrysedd, dyrysi, astrus, nidri, nidredd, nidr, didri, methl, methledd, ffaig, penbleth, pos; cyfyng-gynghor, petrusdod; tegan dyrysu, tegan penbleth; dychymyg, dyrysbeth.

Puzzle-headed, *a.* â'i ben yn llawn dyryswch; penddyrys, pensyfrdan.

Puzzler, *s.* dyryswr, dyrysydd, dyrysiedydd, ffeigiwr.

Puzzling, *p.* dyrys, dyrysol, dyrysgar, ffeigiol.

Puzzolana, } *s. pl.* (oddi wrth *Puzzuoli*, yn
Puzzuolana, } yr Ital) lludw llosgfal, llosg-
Pozzuolana, } ludw.

Pycnite, *s.* (Gr. *pucnos*) clynfaen=maeth o dopas.

Pycnodonts, *s. pl.* (Gr. *pucnos* ac *odous*) tewddeintogion=tylwyth o byeg diflanedig.

Pycnostyle, *s.* (Gr. *pucnos* a *stulos*) adeilad lle saif y colofnau yn agos iawn i'w gilydd.

Pye, *s.* (=*pic*) cymmysgfa; pastai o argraff-lythyrenau; cymmysgedd o lythyrenau.

Pye, *s.*=*Pie.*

Pyebald, *a.*=*Piebald.*

Pygarg, } *s.* (Gr. *pugargos*) yr iar dinwen, y
Pygargus, } bod tinwyn; yr eryr tinwyn.

Pygmean, *a.* (o *pigmy*) corachaidd, corddynaidd, coraidd, naraidd, llogyrnaidd, corddynol; tra bychan, bychan iawn, arddisumig, bychan, bach, pitw.

Pygmy, *s.* (Gr. *pugmaios*; Ll. *pygmæus*) corddyn, corach, còr, còryn, pegor, pegoryn, pegwr, nar, llogwrn, llegyrn, corig, gwrachyn, gwrachan, crepa, geuddyn, dynyn: *f.* coren, cores, gwrachen, gwrachell, gwrachanes, llogyrnes.

Pykes, *s. pl.* negeswyr traed a gwylwyr (yn India); y meiwyr o dân y Semindariaid.

Pylagore, *s.* (Gr. *pulagoras*) cynnrychiolwr dinas yn y Cynghor Amphictyonig, yn Groeg gynt.

Pyloric, *a.* perthynol i agorfa y cylla; yn perthyn i'r gyllisgeg.

Pylorus, *s.* (Gr. *pulôros*) agorfa isaf a deheuol y cylla; cyllisgeg.

Pyracanth, *s.* (Gr. *puracantha*) tanddraenen.

Pyrallolite, *s.* (Gr. *pur*, *allos*, a *lithos*) tanallfaen.

Pyramid, *s.* (Ff. *pyramide*; Ll. *pyramis*; Gr. *puramis*) bera; adail onglog fonbraff frigfain; peiramid: *pl.* beraon.

Pyramidal, } *a.* beraol; ar lun bera; ar ddull
Pyramidic, } bera; ar wedd bera.
Pyramidical, }

Pyramidically, *ad.* ar ddull bera, &c.

Pyramidicalness, *s.* beraoldeb; yr ansawdd o fod ar lun bera. [ffeinadail.

Pyramidion, *s.* bera gwastad bychan ar ben

Pyramidoid, } *s.* (Gr. *puramis* ac *eidos*) lled-
Pyramoid, } fera.

Pyramis, *s.* (Ll.; Gr. *puramis*)=*Pyramid.*

Pyrargillite, *s.* (Gr. *pur*, a Ll. *argilla*) llosgleilech.

Pyre, *s.* (Ll. *pyra*) mygedorth, coelcerth angladdol, tanllwyth angladdol; tanllwyth, coelcerth.

Pyrenite, } *s.* (o *Pyrenees*) delidfaen à geir yn
Pyreneite, } y Barwynion.

Pyrethrum, *s.* (Ll.) tormwyth, tarfgryd.

Pyretics, *s. pl.* (Gr. *puretos*) meddyginiaethau *neu* gyffyriau i wella twymyn; cyfferi rhag y cryd poeth; tormwytheion, tarfgrydeion: *sing.* tormwythai, tarfgrydai.

Pyretologist, *s.* meddyg twymynau.

Pyretology, *s.* (Gr. *puretos* a *logos*) twymyneg, traethawd ar dwymynau.

Pyrexy, } *s.* (Gr. *purexis*) twymyn, cryd poeth,
Pyrexia, } llucheden.

Pyrgom, *s.* math ar ddelidfaen.

Pyriform, *a.* (Ll. *pyrum* a *forma*) ar lun peren; perenaidd, peranaidd.

Pyritaceous, *a.* (o'r Gr. *puritês*) perthynol i geryg tân; tanfeinin, callestrol, callestrig, cyllestrig, callestricol.

Pyrites, *s.* (Gr. *puritês*) maen tân, careg dân, tanfaen, callestr, cyllestr, cellt; tanfeini, tanfain, cellystr, ceryg tân, celltau.

Pyritic, } *a.* tanfeinin, tanfeinig, callestrig,
Pyritical, } cyllestrig, callestrol, callestricol,
Pyritous, } callestrigol, cyllestrol, cyllestrigol, celltig, tanfeinaidd.

Pyritize, *v. a.* callestru, celltu; troi yn gallestr *neu* gellt.

Pyritology, *s.* (Gr. *puritês* a *logos*) traethawd ar gellystr; callestroniaeth.

Pyroacetic, *a.* (Gr. *pur* ac *acetic*) tansurig.
Pyroacetic spirit—gwirod tansurig.

Pyro-acids, *s. pl.* tansurion.

Pyrochlore, *s.* (Gr. *pur* a *chlôros*) tanlasfwn, uflasfwn.

Pyrogen, *s.* (Gr. *pur* a *genaô*) tanai; trydan.

Pyrogenous, *a.* (Gr. *pur* a *gennaô*) à gynnyrchwyd gàn dân; tanaidd, tanllyd, tanol, tanog, ufelog, o dân.

Pyrogom, *s.* math o ddelidfaen.

Pyrola, *s.* (o'r Ll. *pyrus*) coedwyrdd, glesyn y gauaf.

Pyrolatory, *s.* (Gr. *pur* a *latreia*) tanaddoliaeth, tanaddoliad, tanaddoliant, addoliad tân.

Pyroligneous, } *a.* (Gr. *pur*, a Ll. *ligneus*) tan-
Pyrolignic, } wyddig, surwyddig, tanwyddain.
Pyrolignous, }

Pyrolignite, *s.* surhalan, surhal, surawd: *pl.* surhalion.

Pyrolithic, } *a.* (Gr. *pur*, *lithos*, ac *ouron*) ufel-
Pyruric, } feinig.

Pyrologist, *s.* tanofydd, gwresofydd.

Pyrology, *s.* (Gr. *pur* a *logos*) tanofyddiaeth, gwresofyddiaeth.

Pyromalic, *a.* (Gr. *pur*, a Ll. *malum*) tanafalig.

Pyromancy, *s.* (Gr. *pur* a *manteia*) tanarmes, tanddewiniaeth, dewiniaeth trwy dân, tanogan, tân-goel.

Pyromantic, *a.* tanddewiniol, tanoganol, tanarmesol; perthynol i danogan.

Pyromantic, *s.* tanddewin, tanarmeswr.

Pyrometer, *s.* (Gr. *pur* a *metron*) tanfesur, tanfydr, tanfydrai; greidfesur; gwresfesurydd.

Pyrometry, *s.* tanfesuriaeth, tanfydraeth; greidfesuriaeth.

Pyromorphite, *s.* (Gr. *pur* a *morphê*) ffoddodfaen plwm.

Pyromorpheus, *a.* y gellir ei grisialu â thân; tanffurfaidd.

Pyromucic, *a.* (Gr. *pur*, a Ll. *mucus*) tanllysig.

Pyrope, *s.* (Gr. *purôpos*) tanlugem=math o ddelidfaen.

Pyrophane, *s.* (Gr. *pur* a *phanos*) tanlathrem.

Pyrophanous, *a.* à wnaed yn dryloew gàn wres; tanlathraid.

Pyrophorous, *a.* perthynol i danddwyn.

Pyrophorus, *s.* (Gr. *pur* a *phoros*) tanddwyn, ufelddwyn.

Pyrophosphate, *s.* (Gr. *pur*, a *phosphate*) tanffoddawd, tanffoddhal.

Pyrophosphoric, *a.* tanffoddig.

Pyroscope, *s.* (Gr. *pur* a *scopeô*) tansyllyr.

Pyrosis, *s.* (Gr.) llynred=math o losg cylla.

Pyrotartaric, *a.* tansurgenig.

Pyrotechnic, } *a.* (Gr. *pur* a *technê*) ufelydd-
Pyrotechnical, } ol, tân-gelfydd, tân-gelfyddol, tanweithiol; perthynol i danwaith.

Pyrotechnics, } *s.* ufelyddiaeth, tân-gelfyddyd,
Pyrotechny, } tanwaith, celfyddyd gwaith tân.

Pyrotechnist, *s.* ufelyddwr, tân-gelfyddwr.

Pyrotic, *a.* (Gr. *pureô*) ysol, llosgol, llosg, à lysg.

Pyrotic, *s.* llosgyffer, meddyginiaeth losg: *pl.* ysolion.

Pyroxene, *s.* (Gr. *pur* a *xenos*) tanosbem.

Pyroxenic, *a.* tanosbemig; perthynol i danosbem.

Pyroxylic, *a.* (Gr. *pur* a *xulon*) ufelwyddig. Pyroxylic spirits—gwirod ufelwyddig.

Pyrrhic, *s.* (Ll. *pyrrhichius*; Gr. *purrhichios*) corfan cloff; corfan o ddwy sill fer (˘˘); math ar ddawns yn mhlith yr hen Roegiaid.

Pyrrhonic, *a.* (o *Pyrrho*, y Groegiad) ammheugar, anghoelgar.

Pyrrhonism, *s.* (o *Pyrrho*) ammheugarwch, anghoelgarwch, anghoelgaredd; ammheuaeth gyffredinol; Pyrrhoniaeth.

Pyrrhonist, } *s.* ammheuwr, anghoelgarwr,
Pyrrhonian, } mab ammheuaeth, mab yr ammheuaeth; Pyrrhoniad.

Pyrus, *s.* (Ll.) y perwydd. [seirff mawrion.

Python, *s.* (Ll.; Gr. *puthôn*) rhywogaeth o

Pythoness, *s.* (o'r Ll. *Pytho*, Gr. *puthôn*) chwilioges, chwidoges, hudoles; Pythones, offeiriades Apolo yn Delphi.

Pythonic, *a.* chwiliogol; rhagfynegol; yn cymmeryd arno ragfynegu pethau i ddyfod.

Pythonist, *s.* chwiliog, chwidog, chwidw, dewin, swynwr, hudol.

Pyx, } *s.* (Ll.; Gr. *puxis*) cist, arch, blwch,
Pyxis, } neu olwrch y sacrafen (yn Eglwys Rhufain); blwch yr arlladen, blwch y cymun, arlladgist, y blwch; cist brawf, blwch y praw-fathau; asgwrn pen y glun.

Pyxis Nautica, *s.* (Ll.) y Compawd=enw cydser deheuol.

Q.

Quab, *s.* (Al. *quappe;* Is. *kwab*) gwyniad pendew=math ar bysg cyffredin yn afonydd Rwsia.

Quachilto, *s.* grugiar Brasil.

Quack, *v.* (Is. *kwaaken;* Al. *quaken*) lleisio fel hwyad; chwareu y crachfeddyg, chwareu y coegfeddyg, coegfeddygu, crachfeddygu, twyllfeddygu; brolio, ffrostio, ymffrostio, bocsachu, gwagymhoni; cadw llawer o dwrw yn nghylch peth; crachyddu.

Quack, *s.* crachfeddyg, coegfeddyg, twyllfeddyg; cyfareddwr; gwagymhonwr, broliwr, ymffrostiwr, ffrostiwr: *pl.* crachyddion.

Quack, *a.* crach, coeg, ffug-, gwagymhonawl; crachfeddygol, coegfeddygol; à gymmero arno iachâu clefydau.

Quack medicines—cyfareddion gwrach, crach-feddyginiaethau, coeg-feddyginiaethau, crach-gyffyriau.

Quack-doctor—crachfeddyg, coegfeddyg.

Quackery, *s.* crachfeddygiaeth, coegfeddygiaeth, twyllfeddygiaeth, coeg-feddyginiaeth; crachyddiaeth, gwagymhoniaeth, gwaghoniaeth.

Quackish, *a.* fel crachfeddyg, crachfeddygaidd, coegfeddygaidd; gwagymhonawl; ystrywaidd.

Quackism, *s.* yr arfer o grachfeddygiaeth; crachyddiaeth.

Quacksalver, *s.* (Sw. *quacksalfvare; quack* a *salve*) crachfeddyg, coegfeddyg, twyllfeddyg.

Quad,† *a.* (Is. *kwaad*) drwg, drygionus, anfad.

Quadr-, rhagddawd o'r Lladin *quadra, neu quatuor,* yn cyfateb i'r Gymraeg *pedr-, pedry-, pedwar, pedair.*

Quadra, *s.* (Ll.) pedrogl; ymylwaith petryal; gwadn pedrongl.

Quadragene, *s.* (Ll. *quadrageni*) maddeuant pabaidd à luosir wrth y deugeiniau; maddeueb ddeugeiniol.

Quadragesima, *s.* (Ll.) y garawys, y grawys.

Quadragesima Sunday—y Sul cyntaf o'r garawys; y Sul cyntaf yn y grawys.

Quadragesimal, *a.* grawysol; perthynol i'r grawys.

Quadragesimals, *s. pl.* offrymau grawys, offrymau y garawys.

Quadrain, *s.*=*Quatrain.*

Quadrangle, *s.* (Ll. *quadratus* ac *angulus*) petryal, petryael, pedrongl, pedrogl, pedryael, pedror, talwrn pedrongl, pedryor, pedryfal, ysgwâr, cwar.

Quadrangular, *a.* pedronglog, pedrongl, pedrogl, petryal, petryael, pedryael, petryalog, pedror, ysgwâr, pedwarochr, pedwarochrog, pedwarochrol, pedwaronglog, pedryfal.

Quadrans, *s.* (Ll.) pedwaran, pedwaren, ffyrling.

Quadrant, *s.* (Ll. *quadrans*) pedryran, pedwaran, pedwaredd ran, pedwaredd ran cylch; pedraint; onglyr, pedranor, pedrylaw.

To adjust the quadrant — cyweirio yr onglyr; hwylio y pedranor.

Quadrantal, *a.* perthynol i'r onglyr; onglyrol; pedwaranol; cynnwysedig yn mhedwaran cylch.

Quadrantal, *s.* (Ll.) math o lestr Rhufeinig.

Quadrat, *s.* (Ll. *quadratus*) pedroglyn, pedroryn, pedryddarn, pedrorddarn, dernyn petryal.

Quadrat (the instrument so called)—pedroryn.

Quadrate, *a.* petryal, petryael, pedryael, pedror, pedrogl, pedrongl, ysgwâr, pedwarochrog, pedrygyfochr, pedrog, pedrol, pedrydog, pedrydol; cyfartal, cymmedr, cywir, cymhwys, cyfatebol, cyfiol, yn cyttaro, yn gweddu, yn cyfiadd, cyfiadd, cyfiaddol, cyfaddas.

Quadrate with—à fo yn cyttaro, yn cyfiadd, *neu* yn cydwedd â.

Quadrate, *s.* pedrogl, pedrongl, pedror, petryal, petryael, pedryael, pedryfal, pedryd, pedroryn, ysgwâr, gwarthor; pedrywedd, tremiad pedwaran.

Quadrate, *v. n.* (Ll. *quadro*) pedru, pedrogli, pedrori, pedrydu, pedryranu, ysgwario, ysgwaru; cyttaro, cyfiadd, cydweddu, sutio, cyfateb, gweddu, cymmedru, cymweddu, cyngweddu, cytuno.

To quadrate with—cyttaro â, &c.

Quadratic, *a.* pedror, pedrochrog, pedwarochr, pedwarochog, pedwarochrol, pedrygyfochr, petryal, petryael, pedryael, ysgwâr, pedrydog, pedrydol, pedwar-cyfochr, pedwarcyfochrol, pedrongl.

Quadratic, *s.* cyfartaledd pedror, &c.; pedryddognedd, pedryddogn.

Quadrato, Quadro, *s.* (It.) pedrydon=y dôn B, a modir fel hyn ♮

Quadratrix, *s.* pedroglin; llun petryal, dull pedrogl, llun ysgwâr.

Quadratrix (in geometry)—pedroglin.

Quadrature, *s.* (Ll. *quadratura*) pedroriad, pedrogliad, pedrongliad, pedroglawd, pedrochriad, pedwarochriad, ysgwariad, pedrygyfochriad; pedrogledd, pedrongledd, pedroredd, pedrwg, pedryoledd, pedrochredd, pedwarochredd, pedrygyfochredd, ysgwaredd; pedror, pedroglyn; pedwaraid, pedwaran, gwarthor. [briddlech ysgwâr.

Quadrel, *s.* (It. *quadrello*) careg, priddfaen, *neu*

Quadrennial, *a.* (Ll. *quadrennium*) pedeirblyneddol, pedeir-blwyddol; à ddaw, â ddel, à ddygwydd, *neu* à ddychwel bob pedair blynedd; yn cynnwys pedair blynedd; o ysbaid pedair blynedd.

Quadrible, *a.* (Ll. *quadro*) pedradwy, pedroradwy, pedrongladwy, pedrogladwy.

Quadricapsular, *a.* (Ll. *quatuor* a *capsula*) pedrygibog, pedrygib, pedrygodog.

Quadricornous, a. (Ll. *quatuor* a *cornu*) pedwarcorn, pedwarcorniog, pedrygorniog, pedrygyrnig, pedrygorn.
Quadricorns, } s. pl. pedrygyrn, pedrygornog-
Quadricornia, } ion=math o drychfilod anadeiniog.
Quadridecimal, a. (Ll. *quadra* a *decem*) pedryddegol.
Quadridentate, a. (Ll. *quadra* a *dens*) pedryddaint, pedryddeintiog.
Quadrifid, a. (Ll. *quadrifidus*) pedryollt, pedryhollt, pedwarfforchog, pedwarhollt, pedwarholltog.
Quadrifoliate, a. (Ll. *quadra* a *folium*) pedryddeiliog.
Quadriga, s. (Ll.) men pedwarmarch.
Quadrigenarious, a. (Ll. *quadrigenarius*) deugeiniol; perthynol i ddeugain; yn cynnwys deugain.
Quadriform, a. (Ll. *quadra* a *forma*) pedwardull, pedrylun, pedryffurf.
Quadriglandular, a. pedrychwarenog.
Quadrijugate, } a. (Ll. *quadra* a *jugum*) pedr-
Quadrijugous, } ieuog.
Quadrilateral, a. (Ll. *quadra* a *latus*) pedwarochrog, pedrochrog, pedwarochr, pedwarochrol, pedrogl, pedrongl, pedror, petryal, pedrystlys, pedwartu, pedeiror; â phedair ochr *neu* ystlys iddo.
Quadrilateral, s. llun pedwarochrog, &c.; llun â phedair ochr a phedair ongl iddo.
Quadrilateralness, s. pedrogledd, pedrongledd, pedwarochredd, &c.
Quadriliteral, a. (Ll. *quadra* a *litera*) yn cynnwys pedair llythyren; pedrylythyn.
Quadrille, s. (Ff.) ohware pedeirllaw ar gardiau; dawns pedwariaid.
Quadrillion, s. (Ll. *quadra*, a *million*) pedwerydd sawdd *neu* allu miliwn.
Quadrilobate, } a. (Ll. *quadra* a *lobus*, Gr. *lo-*
Quadrilobed, } *bos*) pedrylabedog, pedrylabed; â phedair llabed *neu* ddalen iddo.
Quadrilocular, a. (Ll. *quadra* a *loculus*) pedrygell, pedrygellog, pedeircell.
Quadrin,† s. (Ll. *quadrinus*) pedwaran, ffyrling, ffado.
Quadrinomial, } a. (Ll. *quadra* a *nomen*)
Quadrinomical, } pedrenwol, pedwarenwol; yn cynnwys 4 enw.
Quadripartite, a. (Ll. *quadripartitus*) pedeirran, pedeirranog, pedeirranol, pedranog, pedryranol; â fo yn 4 rhan; a'r y mae iddo *neu* iddi 4 rhan.
Quadripartition, s. pedeirraniad, pedryraniad, rhaniad yn bedeirran.
Quadriphyllous, a. (Ll. *quadra*, a Gr. *phullon*) pedryddail, pedeirdalen.
Quadriplicated, } a. (Ll. *quadra* a *plica*) pedry-
Quadriplicate, } blyg.
Quadrireme, s. (Ll. *quadriremis*) pedrrwyflong.
Quadrisulcates, } s. pl. (Ll. *quadra* a *sulcus*)
Quadrisulcata, } pedryfforchogion; creaduriaid â'u carnau yn holiti yn bedwar ewin.
Quadrisyllable, s. (Ll. *quadra*, a *syllable*) gair pedeirsill, gair pedrysill, gair pedeirsillog, gair pedeirsillawl, gair pedwarsill, gair o bedair sill; pedrysill.
Quadrivalve, } a. (Ll. *quadra* a *valva*) pedr-
Quadrivalvular, } yglawr, pedrygloriog.
Quadrivalves, s. pl. dor bedair dalen, drws pedair dalen.

Quadrivial, a. (Ll. *quadrivium*) pedeirffordd.
Quadrivium, s. y saith wyddor neu gelfyddyd leiaf, sef rhifyddiaeth, cerddoriaeth, meidrofyddiaeth, a seryddiaeth; pedrydan; croesffordd bedeirffordd.
Quadroon, } s. (Ll. *quadra*, *quatuor*) melyn-
Quateron, } wyn, (*f.* melynwen); epil dynes
Quarteroon, } felynddu a dyn gwyn; un chwarthor gwaed, un pedrywaed, un pedrylliw: *pl.* melynwynion, pedryliwiaid.
Quadruman, s. (Ll. *quadra* a *manus*) creadur pedeirllaw, creadur pedrylawiog, anifail pedrylawog.
Quadrumana, } s. pl. creaduriaid pedeirllaw,
Quadrumanes, } milod pedeirllaw, pedrylawiaid, pedryloflaid, pedrylawogion, anifeiliaid pedrylaw.
Quadrumanous, a. pedeirllaw, pedrylawiog, pedrylawog, pedrylaw, pedryloflog; â chanddo bedair llaw.
Quadrune, s. math o rudfaen.
Quadruped, a. (Ll. *quadrupes*) pedwartroed, pedwartroedog, pedwartroediog, pedwartroedol, pedrybed, pedwarped, pedrybedog; pedwarcarnol, pedwarcarnog, pedwarcarn.
Quadruped, s. anifail pedwartroed, creadur pedwartroedog, &c.; pedwartroed, pedrybed: *pl.* pedwartroedogion, pedwartroedolion, pedwartroedion, pedwarpedogion, pedrybedogion, pedrybedion, pedwarcarnolion, pedwarcarnogion.
Quadruple, } a. (Ll. *quadruplus*, *quadru-*
Quadruplicate, } *plex*) pedwarplyg, pedwardyblyg, pedryblyg; pedwar cymmaint; ar ei bedwerydd.
Quadruple, s. pedwarplyg, pedwar dyblyg, pedryblyg; y pedwar cymmaint, cymmaint bedeirgwaith.
Quadruple, } v. a. pedwarplygu, pedry-
Quadruplicate, } blygu, dyblygu bedeirgwaith, pedwardyblygu; gwneuthur yn bedwar cymmaint.
Quadruplication, s. pedwarplygiad, pedryblygiad, pedwardyblygiad, dyblygiad bedair gwaith, dyblygiad bedeirgwaith; gwneuthuriad yn bedwar cymmaint.
Quadruply, ad. yn bedwarplyg, &c.; yn bedwar cymmaint.
Quære, v. (y modd gorchymynol o'r Ll. *quæro*) chwiliwch, ymofynwch, holer; chwilia, ymofyna, ymofyn, &c.
Quæstor, s.=*Questor*.
Quaff, v. (F. *coiffer*?—*Webster*: Gael. *quaich*, *quegh*, *queff*?—*Owen*: C. *cofflio*?) cofftio, trafiyncu, gorlyncu, gorlyngu, yfed, eryfed, ymddyfoll, cegu, llawcio, llyncu; llyncu *neu* yfed yn awchus; yfed yn helaeth.
A quaffing cup—cwpan cyfeddach.
Quaffer, s. cofftiwr, trafiyncwr, gorlyncwr, ymddyfoliwr.
Quaffer,† v. a. amddasmal, palfalu.
Quagga, s. cwagga=math ar asyn gwyllt.
Quaggy, a. (o *quake*) siglenog, mignog, mignenog, corsog, corslyd, mignol.
Quagmire, s. (o *quake* a *mire*) siglen, mignen, mign, cors, tònen.
Quahang, s. (enw brodorol) math o rython y brain (yn Lloegr Newydd).
Quaid,† a. (=*quailed*) â ddarostyngwyd, â lethwyd, llethedig.
Quail, v. (S. *cwellan*) darostwng, llethu, gwasgu, cywarsangu, cystwyo, ceryddu; ymollwng,

llyfrhau, lleoghau, ymlaesu, llebinio, dihoeni; myned yn ddim; llesmeirio; †gwywo.

Quail, *v. n.* (*Ff. cailler; It. quagliare*) oeulo.

Quail, *s.* (*It. quaglia; Ff. caille*) sofliar, rhegen yr yd, rhegen y rhych, rhinc.

Quailing, *s.* darostyngiad, llethiad; ymollyngiad, llyfrhad.

Quail-pipe, *s.* rhegenbib.

Quaint, *a.* (hen *Ff. coint; Llyd. coant, coant*) cymhen, cymhenllyd, cymhenus, dichlyn, coeth, pert; rhy goeth, rhy gymhen, rhy ddillyn; mursenllyd; coegwych; digrifwych; llerw, misi, nais; hynod, ysmala, digrif, od, neilltuol, mympwyol; rhyfedd, anghyffredin; corddillyn; ffurfiol, ffurfgar; †cyfrwys.

A quaint expression—ymadrodd cymhen, coeth, rhygoeth, rhy gymhen, *neu* gymhenllyd.

Quaintly, *ad.* yn gymhen, &c.

Quaintness, *s.* cymhendod, cymhenrwydd, cymhenusrwydd, pertrwydd, &c.

Quake, *v. n.* (*S. cwacian; Al. quackeln*) crynu, ysgrynu, crydio, ysgrydio, crydu, ysgrydu, ysgrydian, ergrynu, erchrynu, dygrynu, dychrynu, echrynu; ysgrytian, ymysgrytian; ysgrythu.

To quake exceedingly, } dirgrynu, tra-
To quake extremely, } chrynu, crynu yn ddirfawr, ergrynu, gorgrynu, gorchrynu.

Apt to quake, } hygryn; hawdd ganddo
Ready to quake, } grynu.

Quake,† *v. a.* dychrynu; gogi.

Quake, *s.* crŷn, crynfa, cryndod, echryn, ysgryd, ergryn, rhyndod, crynedigaeth, crynach, dychrynfa.

Quaker, *s.* (*o quake*) crynwr, crynydd, crynieddydd, carodawr, crydiedydd.

Quakers—Crynwyr, Crynyddion, Carodorion.

Quakerism, *s.* carodoriaeth, crynyddiaeth, crynwriaeth; crefydd, moesau, *neu* ddaliadau y Crynwyr.

Quakerly, *a.* carodoraidd, crynyddol; fel y Crynwyr, tebyg i'r Crynyddion.

Quakery,† *s.*=*Quakerism.*

Quaking, *s.* cryniad, crydiad, ysgryniad, &c.; crŷn, crynfa, cryndod, crynedigaeth, cryd, ysgryd, crydiant, dychrynfa, echryn, echryd, egryn, egryd, ergryn, ergryd, dygryn; dychrynfa, dychryndod; achreth.

Quaking, *p.* crŷn, crynawl, ergrynol, echrynol, crydus, crydiog, crydiol, egryd, egryn, ergrynig, crydiain; yn crynu, &c.

Quaking-bog, *s.* pydwern, siglen, mignen.

Quaking-grass, *s.* crydwellt, eigryn, gwenith ysgyfarnog.

Qualifiable, *a.* (*o qualify*) addasadwy, cyfaddasadwy, cymhwysadwy.

Qualification, *s.* (Ff.) cymhwysder, cymhwysdra, addasrwydd; cymhwysiad, addasiad, cyfaddasiad; cynnysgaethiad; dawn, arddawn; cynneddf gymhwysiadol, cynneddf ofynedig; cynneddf; lleihad; dullweddiad, llunweddiad, agweddiad, cymmesuriad, cymmedroliad; medredd.

Qualifications — cynneddfau gofynedig; cymhwysderau, &c.

Qualitative, *a.* addasedigol; à gyfrifir wrth ei ansawdd.

Qualified, *a.* addasedig, &c.; cymhwys, addas, cyfaddas, gwiw.

Qualifiedness, *s.* addasedigrwydd, cymhwysder.

At a high rate, At an extravagant rate, } yn afradlawn, yn afradus, yn wastraffus, yn wttresgar; mewn modd afradlawn *neu* afradus; yn uchel.

At a high rate—yn uchelfalch; yn wttresgar; yn uchel.

At an extravagant rate—er pris afresymol; yn brid *neu* yn ddrud ddireswm; yn brid *neu* yn ddrud tu hwnt i fesur.

At such a rate, After such a rate, } yn y fath fodd; yn y cyfryw fodd; felly.

At that rate—yn y modd hwnw *neu* hyny; yn ol y cyfrif hyny; wrth y cyfrif hyny; fel hyny, felly, efelly.

At this rate—yn y modd hwn *neu* hyn; yn ol y cyfrif hyn; wrth y cyfrif hyn; fel hyn, yn llŷn.

At a huge rate—mewn modd tramesurol, anghymmedrol, anghymmesur, *neu* anghymmesurol; tu hwnt i bob mesur; heb na meidr na mesur; yn dramesurol; yn anfeidrol.

At a fine rate—yn iawn, yn wych.

Of the first rate, First-rate, } o'r maintioli mwyaf; cynfaint, cynfeintiol; prifraddol; o'r radd gyntaf, benaf, *neu* uchelaf.

A ship of war of the first rate, A first-rate ship of war, } cadlong o'r maintioli mwyaf; cadlong gynfaint, cadlong benafradd.

Of the second rate, Second-rate, } o'r ail faintioli; eilfaint; o'r ail radd; eilradd.

A ship of war of the second rate, A second-rate ship of war, } cadlong o'r ail faintioli; cadlong eilfaint, cadlong eilradd.

Church-rate—treth eglwys.

The church-rate—y dreth Eglwys.

At the rate of ten pence a pound—yn ol deg ceiniog y pwys; wrth ddeg ceiniog y pwys; am ddeg ceiniog y pwys.

At the rate of five shillings the quarter—yn ol pum swllt y grynog; wrth bum swllt y grynog.
Corn is at a great rate—y mae yr yd yn dwyn pris mawr; y mae yr yd yn dwyn pris nid bychan; y mae yr yd yn brid; y mae yr yd yn ddrud.
Corn bears a great rate, } y mae yr yd yn
Corn yields a great rate, } dwyn pris mawr, &c.
If corn be at this rate—od yw yr yd yn gwerthu *neu* yn cerdded fel hyn; o bydd yr yd yn gwerthu *neu* yn cerdded fel hyn.
They hold them at a huge rate—hwy a'u prisiant yn fawr *neu* yn uchel iawn; hwy a'u cyfrifant yn werthfawr dros ben; hwy a'u cyfrifant yn werthfawr tu hwnt i fesur.
To set a low rate upon—dibrisio, diystyru, bychanu; gwneuthur bychan bris *neu* gyfrif o; gwneuthur ychydig bris *neu* gyfrif o.
To value at a high rate—mawr brisio; rhoddi mawr fri ar; gwneuthur mawr gyfrif o; uchel brisio, traphrisio.
To be at a rate with—gwerthu er pris rhagosodedig.
At too dear a rate—yn rhy ddrud; yn rhy brid; am ormod o bris.
A daily rate for every day—dogn dydd yn ei ddydd (2 *Bren.* xxv. 30).

Rate, *v.* prisio; trethu, ardrethu, tasgu; dogni; cyfrif; cael ei osod; cael ei ystyried.

Rate, *v. a.* (Sw. *rata, ryta;* S. *rælan*) dwrdio, senu, ysdwrdio, ceryddu, clewtio, tafodi, dondio.

Rater, *s.* prisiwr, prisiedydd; trethwr, trethydd, trethiedydd, ardrethwr; cyfrifwr.

Rath,† *s.* (Gw. *rath;* C. *rhath*) rhath, bryn, moel, garth.

Rath, *a.* (S.) cynnar; rhygynnar, rhy gynnar, rhagaddfed.
Rath ripe—addfed cynnar.
Rath fruits, } ffrwythau cynnar;
Rath-ripe fruits, } ffrwythau rhygynnar, ffrwythau rhagaddfed; cynnwyn.
Rath egg—meddalwy.

Rath,† *ad.* yn gynnar.

Rather, *ad.* (S. *rathor, hrathor*) yn hytrach, hytrach, o flaen, yn fwy, yn well; cyn, cynt; rhag; yn amgenach, yn well; echrê; go, lled, tràn.
Rather than—yn hytrach na; yn gynt na; yn fwy na; yn hytrach no.
Rather than be idle—rhag bod yn segur; cyn bod yn segur; yn hytrach na bod yn segur.
To have rather—bod yn well gàn un.
I had rather, } gwell genyf; dewis genyf;
I would rather, } dewis yw genyf; mwy dymunol yw genyf; dewiswn; dewiswn yn hytrach.
You had rather—gwell genych, &c.
The rather—yn hytrach; yn enwedig, yn enwedigol; yn amgenach.
Rather little—lled fychan, go fychan, tràn fychan, lled fach, &c.
It is rather rough weather—y mae hi yn dywydd lled arw; y mae yn hin go arw; y mae yn hin led arw.

Rathoffite, } *s.* math ar ddelidfaen à geir yn
Rathofite, } Sweden.

Ratification, *s.* (Ff.) cadarnhad, sicrhad; gwneuthuriad gweithred, ammod, cyfammod, *neu* gytundeb yn awduredig a safadwy; prawf; sefydliad; gwiriad.

Ratifier, *s.* cadarnhâwr, sicrhâwr; un *neu* beth à gadarnhao.

Ratify, *v. a.* (Ff. *ratifier*) cadarnhau, sicrhau; sefydlu; gwirio; cymmeradwyo; dilysu; gwneuthur yn awduredig ac yn safadwy.

Ratio, *s.* (Ll.) dogn, dognedd, cyfartalwch, cyfartaledd, cyfartalrwydd, cyfartaliaeth; rhan; cymmesuriaeth.
Additive ratios—perthynasau chwanegol, perthynau chwanegol.

Ratiocinate, *v. n.* (Ll. *ratiocinor*) ymresymu, rhesymu, cymhwyllo, cysbwyllo, argymhwyllo.

Ratiocination, *s* (Ll. *ratiocinatio*) ymresymiad, rhesymiad, cymhwyllad, cymhwylliad, cymhwylliant, cysbwylliad, cysbwylliant, argymhwylliad, arddysbwylliad, arbwylliad, arbwyllineb, pwyllad, rhesymiaeth.

Ratiocinative, *a.* ymresymol, rhesymiadol, cymhwyllawl, cymhwyllus, cysbwyllawl, cysbwyllus, arbwyllawl, ymresymiadol.

Ration, *s.* (Ff.; Ll. *ratio*) dogn, dognedd, ancwyn, cadgyfran, cadancwyn; saig; cyfran pob milwr o ymborth, diod, defnyddiau saethu, &c.

Rational, *a.* (Ll. *rationalis*) rhesymol; arbwyllog, cymhwyllog, cysbwyllog, ymbwyllgar, pwyllog, pwyllig, pwyllus; yr hyn sydd ynddo reswm; a'r y mae rheswm ynddo; synwyrol; doeth, call.

Rational, *s.* creadur rhesymol, bod rhesymol.

Rationale, *s.* rheswm; seil-reswm, seilbwyll; seil-reol; eglurhad; eglurhad egwyddorol *neu* sylfaenol; cyfres o resymau dros beth.

Rationalism, *s.* rhesymoliaeth.

Rationalist, *s.* rhesymoliad, rhesymolwr, rhesymolydd: *pl.* rhesymoliaid.

Rationalistic, *a.* rhesymolig; perthynol i'r rhesymoliaid.

Rationality, *s.* rhesymoldeb, rhesymolrwydd, rhesymolder, rhesymoledd, cymhwylledd, arbwyllogrwydd, cymhwyllogrwydd, pwyllineb, hybwylledd; cymhwyllyddiaeth, cymhwyllwriaeth; arddysbwyll.

Rationalize, *v. a.* troi *neu* wneuthur yn rhesymolig; rhesymoli.

Rationally, *ad.* yn rhesymol.

Rationalness, *s.* rhesymoldeb, rhesymolrwydd, rhesymolder, rhesymoledd.

Ratlin, } *s.* llettring hwylbren, ysgol raffau;
Ratline, } yr ysgol fân raffau y dringir ar hyddi i ben yr hwylbren.

Ratsbane, *s.* (*rat* a *bane*) gwenwyn llygod, gwenwyn llygod ffreinig.

Ratsbaned, *a.* à wenwynwyd â gwenwyn llygod; gwenwynedig.

Rats-tail, } *s.* cynffon llygoden; gorthwf ar
Rat's-tail, } swrn ceffyl.

Rattan, *s.*=*Ratan.*

Rattany, *s.*=*Ratany*, &c.

Ratteen, *s.* (Ysp. *ratina*) math ar ddefnydd gwlan.

Rattinet, *s.* math ar ddefnydd gwlan teneuach na rhatin.

Rattle, *v.* (Is. *ratelen, reutelen;* Al. *rasseln*) trystio, ysgwrlwgach, rhugl-drystio; cadw swn; clecian; peri trystio; ysgwyd, ysgytio, ysgytian, ysgydwyd, siglo; croch ddadwrdd, crooh ddwrdio, clewtio, clewtian, tafodi,

dwrdio, dwndro; syfrdanu; chwyrnogli, rhwncian, rhwncio, clerenu, hochian, rhochian.

To rattle away, } chwedleua yn ddadyrdd-
To rattle it, } us, yn rhuadus, *neu* yn drystfawr; chwedleua yn daer ddadyrddus; chwedleua yn uchel ei roch; bod yn fawr *neu* yn uchel ei roch; gorddyar.

To rattle, } bod â'r hoch, â'r
To have the rattles, } rhoch, â'r rhwnc, *neu* â'r gleren arno; rhwncian yn y gwddf; rhwncian; hochian, rhochian; chwyrnogli.

His throat began to rattle, and soon after he died—yn mhen ychydig amser wedi cyfodi o'r gleren, efe a drengodd; yn mhen ychydig ennyd wedi dechreu o'r gwaith yn ei geg, darfu am dano.

To rattle a great oath—tyngu mawrllw, bytheirio mawrllw.

Rattle, *s.* chwyrnogl, rhugl, rhuglgroen, rhuglegan, tegan trwst, ysgrâd; trwst, croch ddadwrdd, dwndwr, swn, clewt, gorddyar, ysgwrlwg.

A low rattle—grig, isel ddadwrdd, iseldrwst.

Rattles (in the throat)—cleren, y gleren, rhwnc, chwyrnogl mewn gwddwg, rhygyngen, rhwnc yn ngwddf, hoch, yr hoch, y rhoch.

Rattles of a cock—tagellau ceiliog.

Rattle (in botany)—arian côr, arian gweirwyr, arian gwion, cribell.

Yellow rattle—cribell felen.

Rattle-headed, *a.* penchwiban, penffol, chwidr; pen-chwaledig; syfrdan; ysgoewan; trystfawr, dadyrddus; mawr ei frol; mawr ei chwaldod.

Rattlepate, } *s.* chwalwr chwedlau, chwelidydd
Rattleskull, } chwedlau; un penchwiban; ysgwrlwgyn.

Rattlesnake, *s.* neidr gynffondrwst.

Rattle-wort, *s.* cribellys.

Rattling, *s.* (o *rattle*) trystiad, dadyrddiad, clewtiad; chwyrnogliad; trwst, dadwrdd, twrdd, dyar, ysgwrlwg.

The noise of the rattling of the wheels—twrf cynhwrf yr olwynion.

Empty rattling of words—chwyddedig ciriau gorwagedd.

The rattling of the harness—trwst yr arfau yn taro yn nghyd (1 *Mac.* vi. 41).

Rattoon, *s.*=*Racoon.*

Rat-trap, *s.* telm lygod Ffrengig, cist lygod Ffrengig.

Raucity, *s.* (Ll. *raucus*) crygni, crygi, crygedd, egrygi, cryglydrwydd; cryglais, sain greg.

Raucous,† *a.* (Ll. *raucus*) cryg, cryglyd.

Raught,† *p. p.* (o *reach*) â gyrhaeddwyd, &c.

Rauch,† *v.*=*Wrench.*

Ravage, *s.* (Ff.) difrod, anrhaith, dystryw, dinystr, hafog, difrodaeth, difrodiant, difâedd, fflais, trais, hodni, cid, hwyeg. [drais.

Ravage of flames—difrod fflamiau, fflam-

Ravage of war—difrod rhyfel, cattrais.

Ravage, *v. a.* difrodi, anrheithio, ysbeilio, ysglyfio, ysglyfu, ysglyfaethu, preiddio, dybreiddio, hafogi, ffleisio, difwyno; trychwalu.

Ravager, *s.* difrodwr, difrodydd, anrheithiwr, anrheithydd, anrheithiedydd, ysglyfiad, ysglyfiwr, ysbeiliwr, rhuon.

Ravaging, *p.* difrodol, difrodus, anrheithiol.

Rave, *v. n.* (Is. *revelen;* Ll. *rabio*) ymleferydd, gwallgofi, gorphwyllo, ynfydu, pendroni, anmhwyllo, syfrdanu, penwanu, penysgafnu; bod yn wallgofus; bod â choll ynddo; cynddeiriogi, ymgynddeiriogi, ffyrnigo; bod yn ffyrnig; baldorddi.

Ravel, *v.* (Is. *raaffelen, ravelen*) dadwëu; dattod; dad-ddyrwyn; edafeddu, tynu yr edafedd; dadrysu, dadrys, dad-ddyrysu; dyrysu, nidro, rhysu, methlu, cynghafu; ymddyrysu, ymddyrwyn, ymnidro.

To ravel out—ymddadwëu; ymddattod; myned yn edafedd.

Ravelin, *s.* (Ff.; It. *ravellino*) hanner lleuad (mewn amddiffynwaith), tyddwaith, tyddfur.

Raven, *s.* (S. *hræfn, ræfn;* Al. *rabe;* Is. *raaf*) cigfran; brân: *pl.* cigfrain.

Night-raven—brân nos, aderyn y corff, gorebr.

Raven, *v.* (Al. *ravl'en;* S. *reafian*) gwancio, gorwancio, ysglyfio, ysglyfaethu, ysglyfu; llawcio; difa; cigyddio; rheibio, treisio.

Ravener, *s.* gwanciwr, gorwanciwr, gwanciedydd, un gwancus, un rheibus, ysglyfiwr, ysglyfaethwr, ysglyfiad, ysglyfiedydd; aderyn gwanc, (*pl.* adar gwanc).

Ravening, *s.* gwanc, gorwanc, rhaib, trais.

Ravenous, *a.* gwancus, gorwancus, rheibus, ysglyfgar, ysglyfaethus, ysgiprwth, barus, bwytëig.

Ravenousness, *s.* gwancusrwydd, rheibusrwydd, ysglyfgarwch; gwanc, rhaib; bariaeth, ainc.

Raven's-duck, *s.* (Al. *ravenstuch*) math o lian hwyliau.

Raver, *s.* (o *rave*) ynfydwr, ynfydydd; un penysgafn, un syfrdan, un penwan; gwallgofwr.

Ravet, *s.* math o chwilen briodol i'r India Orllewinol.

Ravin, *s.* ysglyfaeth, ysbail, ysglyf, ciprwth.

Ravin,† *a.* gwancus, rheibus.

Raving, *s.* (o *rave*) ymleferydd, penysgafnder, gwallgof, gwallgofrwydd, gorphwyll, gorphwylledd, penwendid; cynddeiriogiad, &c.; baldordd cynddeiriog.

Raving, *a.* ynfyd, penwan, gorphwyllus, gwallgofus, ynfydwyllt, ffyrnig, gorwyllt, cynddeiriog.

Ravine, *s.* (Ff. *ravin*) cwnant, crigyll, ole, cornant, nant.

Ravish, *v. a.* (Ff. *ravir;* S. *reafian;* Ll. *rapio*) treisio, llathruddo, llathrydo; diforwyno; gwneuthur gwaith anfodd ar; treisgipio, treisddwyn; cipio; dwyn; gorlloni; gorchfygu â hyfrydwch; peri llesmeirio gân ddifyrwch; perfasu.

To be ravished with love—ymfoddloni mewn cariad; ymhoffi yn, ymhyfrydu yn; ymlenwi o gariad.

Thou hast rávished my heart—dygaist fy nghalon (*Can.* iv. 9).

Ravisher, *s.* treisiwr, treisydd, treisiedydd, llathruddwr, llathrydwr; treisgipiwr; cipiwr, cipiad, cipiedydd; ysglyfiwr, ysglyfydd; gorllonwr.

Ravishing, *a.* â bair lesmair gân hyfrydwch; hyfrydber, melusber; perseiniol; gorllonawl; perloesol; tra hyfryd, gorhyfryd.

Ravishing to the ear—melusber.

Ravishing, *s.* treisiad, treisiant; dygiad trais; treisddwyn, treisgipiad, cipiad, ysgipiad; trais; perlewyg, perloes, perfas.

Ravishment, *s.* treisiad, treisiant, dygiad trais; treisgipiad, treisddwyn, treisddygiad, cipiad, ysgipiad; trais; perlewyg, perloes, perfas, llawenfas, perlewygfa, gorllonder, gorlonder, gorllonedd, gorhyfrydwch, gorffawg; llewyg, mas, *neu* lesmar gàn lawenydd.

Raw, *a.* (S. *hreaw, reaw;* Al. *roh;* Ll. *crudus*) anmrwd, ir; crai, cri; of, ofiyd; llymrig; anaddfed; noeth, digroen; addoer, addoerllaith; anhaw; annigon; heb fod yn ddigon; anhyddysg, anhyfedr, anghyfarwydd, heb ymarfer, anhybrawf, anmhrofedig; glas; newydd; digymmysg.

Raw flesh—cig noeth, noeth-gig, cig byw, cnawd digroen.

Raw silk—sidan cri, sidan crai.

Raw material—cri ddefnydd, crai ddefnydd, defnydd cri, nwydd cri.

Half-raw—hanner crai, hanner cri, lled gri, lled ir.

To make raw—gwneuthur *neu* beri yn gig noeth; digroeni; tynu y dònen.

A raw day—dïwrnod addoer, oer, *neu* oerllyd.

Raw weather—tywydd oerllyd, addoer, *neu* oerllym; hin addoerllaith.

Neither boiled nor raw—na brwd nac anmrwd; na brwd nac of.

Raw-boned, *a.* esgyrnig, esgyrniog, asgyrnig, esgyrnfawr; âg esgyrn mawr iddo; heb fawr ond yr esgyrn; teneu. [noeth.

Rawhead, *s.* un â'i ben yn gig noeth; pen cig

Rawish, *a.* lled anmrwd, go anmrwd, &c.; lled oer, lledoer, lled oerllyd.

Rawly, *ad.* yn anmrwd, &c.

Rawness, *s.* anmrydedd; iredd, irder, irdeb; creider, criedd; llymrigrwydd, llymrigedd; ofrwydd, ofedd, ofiydrwydd; anaddfedrwydd; noethedd; digroenedd; anhewydd; anfedrusrwydd, anfedrusedd, anhyddysgrwydd; oerllydrwydd, addoeriant.

Ray, *s.* (Ff. *raie, rayon;* It. *razzo, raggio;* Ll. *radius*) paladr, pelydryn, taradr, rhaidd, fflaw, graid, goleuyn, golewyrch, golewych, pal, hirell, hiriell, llygedyn, llugyn, llach, tewyn; claerder, gloewder; llewyrch: *pl.* pelydr, pelydron, pelydrau, terydr.

A ray of gold—dalen aur.

Ray (in botany)—efr, llèr, yd meddw, efrwellt: *pl.* efrau.

Ray (in ichthyology)—rhaidd, gwaell aden, rhaiaden, esgyrnyn aden pysg.

Ray, *s.* (Ff. *raie;* Ysp. *raya*) morgath, rhaien, rhwchws.

Ray, *s.* clafr, clefri.

Ray,† *s.*=*Array.*

Ray, *v. a.* rheianu, rhengu, brithresu, rhibinio, llinnodi; tynu rhengau *neu* linellau ar hyd; pelydru, rheiddio, rheio, pleinio, saethu allan, ffloi, rhaiadu, †diwyno; †trefnu.

To ray corn—diraianu yd.

Rayed, *a.* pelydrog, rheiddiog, pelydraidd, llethridog: paladrog gàn ddysgleirdeb.

Rayed animals, } rheiddogion, rheiddRadiated animals, } inogion, rheiddfilod.

Rayless, *a.* dibelydr, diraidd, dilewyrch, didywyn; tywyll.

Rayonnant, **Rayonned**, **Rayonée**, } *a.* (o *ray*) pelydrog, rheiddiog (yn arfau bonedd).

Raze, *s.* (Ff. *race;* It. *razza;* Ysp. *rais*) gwraidd, gwreiddyn.

Raze, *v. a.* (Ff. *raser;* Ll. *rasus, rado*) gwneuthur yn gydwastad â'r llawr; dymchwelyd, dymchwel, dadymchwelyd, dadymchwel, dinystrio, dystrywio; dilëu, difodi, dïoli; crafu; diwreiddio.

Razée, *s.* (Ff.) cadlong wedi ei gwneuthur yn llai o faint.

Razor, *s.* (Ff. *rasoir;* Ll. *rasus, rado*) ellyn, cyllell eillio.

Razors of a boar—ysgythredd baedd, ysgythr-ddannedd baedd.

Razorable,† *a.* (o *razor*) eilliadwy.

Razor-bill, *s.* llurs, llursen, gwalch y penweig, poethwy.

Razored, *a.* ellynog; ar lun ellyn.

Razor-fish, *s.* ellynbysg.

Razure, *s.* (Ff. *rasure;* Ll. *rasura*) dilead; crafiad ymaith, dïoliad, dadoliad.

Razzia, *s.* (Ar.) ymgyrch milwyr i wlad y gelyn er mwyn dwyn oddi yno anifeiliaid a dyfetha yr yd heb ei fedi.

Re, rhagddodiad o'r Lladin, yn cyfateb i *ad-, ail-, eil-, ail, eilwaith; gwrth; yn ol;* ac weithiau *dad-;* yn y Gymraeg. Y mae wedi colli ei briod ystyr mewn ychydig eiriau, megys *rejoice, receive, recommend.*

[Am ychwaneg o gyfystyron Cymreig ar gyfer y geiriau Seisonig yn dechreu â *re-*, gweler o dan y geiriau hyny heb y rhagddodiad.]

Reabsorb, *v. a.* adsugno, sychu eilwaith, tarnu eilwaith, ail ddyddyfnu, adhysbyddu.

Reabsorption, *s.* adsugnad, sychiad eilwaith, &c.

Reaccess, *s.* ail ddyfodiad at, ail ddyfodiad i mewn; ail ddyfodfa, ailgyrch; ail ymweliad, adofwy.

Reach, *v.* (S. *racan, recan, raccan;* Al. *ricken, recken*) cyrhaedd, cyrhaeddyd, cyrhaeddu, cyrhaedded, estyn, ystyn, estynu; ymgyrhaedd, ymestyn; hercyd, hercu; hol, nol; haeddu; rhoi; dyfod i; amgyffred; treiddio, treiddio i; twyllo; cyfogi, ymgyfogi, bwrw i fyny, bwrw; bod â gorchwyd *neu* wrthneu arno.

To reach to, } cyrhaedd *neu* estyn hyd
To reach unto, } at; ymestyn at; cyfhwrdd â; cyrhaedd.

To reach a place—dyfod i le; cyrhaedd lle; hercyd lle.

To reach after—ymestyn ar ol; ymestyn at; ymgeisio am; ymgyrhaedd ar ol.

To reach at—ymgeisio â, ymgais â, ymgais am; ymgyrhaedd *neu* ymgyrhaeddyd ar ol.

Reach hither thy finger—moes yma dy fys; moes i mi dy fys.

Reach, *s.* cyrhaedd, cyrhaeddiad; estyn, ystyn, estyniad; ymestyniad; helaethrwydd; llymder synwyr, cyflymder deall, cyrhaeddiad meddwl, cyrhaedd meddwl; deall; gallu, amgyffred; dargais; ystryw, tro cyfrwys, cast, dyfais; ymgyfog, gorchwyd, gwrthneu.

A reach (at sea)—cyfwng dau forben cyfartal.

Reach of a gun—cyrhaedd dryll, cyrhaedd gŵn saethu; ergyd dryll.

Within the reach of a gun—o fewn ergyd dryll; o fewn ergyd gŵn; o fewn cyrhaedd gŵn.

Reach of thought, } llymder synwyr, llymReach of wit, } der deall, cyrhaeddiad meddwl, cyrhaedd meddwl.

It is out of his reach, } y mae ef allan o'i
It is beyond his reach, } ddeall; y mae

ef y tu hwnt i'w ddeall; y mae allan o'i gyrhaedd.

Reacher, *s.* cyrhaeddwr; un à gyrhaeddo.

Reaching, *s.* cyrhaeddiad, estyniad; ymgyrhaeddiad, ymestyniad; gorchwyd, gwrthneu, ymgyfogiad.

I have a reaching—y mae gwrthneu *neu* orchwyd arnaf.

Reachless, *a.* digyrhaedd; digais, dïymroad; esgeulus.

React, *v. a.* gwrthweithio, gwrthweithredu; gwneuthur eilwaith; gwrthdaro, taro yn ol; gwrthrymio, gwrthrymu.

Reaction, *s.* gwrthweithiad, gwrthwaith; tarawiad yn ol, gwrthergyd; attalm.

Reactive, *a.* gwrthweithiol, gwrthweithredol, attalmedigol.

Reactiveness, *s.* gwrthweithioldeb.

Read, *v.* (S. *rædan, red*) darllen, darlleain, darllëu, llëu, lleain, darlleaw; †tybied, bwrw amcan; †cynghori; †traethu.

To read again, } ail ddarllen, darllen
To read over again, } eilwaith, darllen drosto eilwaith.

To read out—darllen drosto, drwodd, *neu* drwyddo; darllen o'r dechreu hyd y diwedd; darllen o ben bwygilydd.

To read out, } darllen yn uchel; darllen
To read aloud, } à llef uchel; darllen yn groew *neu* yn ddifyngus.

To read publicly, } darllen ar osteg *neu*
To read in public, } ar gyhoedd.

To read unto—darllen i, darllen wrth; darllen er addysg i ysgoleigion.

To read the price of a thing†—bwrw amcan ar bris peth.

Read, *a.* darllenedig, à ddarllenwyd, wedi ei ddarllen; dysgedig, hyddysg.

That may be read—darllenadwy; à ellir ei ddarllen.

A well-read man—un à ddarllenodd lawer; un à ddarllenodd nid ychydig; darllenydd mawr *neu* ystig; ysgolëig mawr; gwr dysgedig; gwr trylen; un cyfarwydd mewn peth.

Readable, *a.* darllenadwy.

Readableness, *s.* bod yn ddarllenadwy.

Readeption, *s.* (Ll. *re* ac *adeptus*) adgaffaeliad, ail gaffaeliad, adfeddiant.

Reader, *s.* darllenydd, darllenwr, darllëydd, darllëwr, darlleawdr, darlleor, lleawdr, lleadur.

Readership, *s.* darlleodraeth, darllenyddiaeth; darllenedigaeth gweddïau yn yr eglwys.

Readily, *ad.* (o *ready*) yn barod; yn ewyllysgar; ar dafodleferydd, yn rhugl, yn ddïattal; yn llawen.

Readiness, *s.* (o *ready*) parodrwydd, ewyllysgarwch, gwyllysgarwch, parodedd, parodoldeb, parodoledd; hwylusdod, hwylusrwydd, hylwybredd; rhwyddineb.

In readiness—yn barod, ar bâr, mewn parodrwydd.

A horse kept in readiness—march preswyl.

Reading, *s.* (o *read*) darlleniad, darllenawd, darllenedigaeth, darllen, darllead, darlleawd, darllëedigaeth, lleawd, lleaduriaeth, llëyddiad; darllenyddiaeth, darlleniaeth; darllen.

A reading man—dyn darllengar.

Reading-desk, *s.* darllenfa, darllenfwrdd.

Reading-room, *s.* darllenfa, darllenfan, ystafell ddarllen.

Readjourn, *v. a.* gohirio eilwaith, ail addoedi, ail ohirio, ail oedi; †adwysio, ail wysio.

Readjust, *v. a.* ail drefnu, aildrefnu, attrefnu, ail gymhwyso, ail iawnu.

Readjustment, *s.* ail drefniad, attrefniad, ail gymhwysiad.

Readmission, *s.* ail dderbyniad, ail ollyngiad i mewn, ail gynnwysiad, ail gynnwys, adgynnwysiad.

Readmit, *v. a.* ail dderbyn, ad-dderbyn; gollwng i mewn eilwaith; ail ollwng i mewn; ail gynnwys, ail gynnwyso, adgynnwys, adgynnwyso.

Readmittance, *s.* ail dderbyniad; ail gynnwysiad.

Readopt, *v. a.* ail fabwyso, ail fabwysiadu, ail ddewis, ail ethol, adethol.

Readorn, *v. a.* ail addurno, adaddurno.

Readvertency, *s.* adolygiad, ail olygiad.

Ready, *a.* (S. *ræd, hræd;* D. *rede;* Sw. *reda*) parod; parotöedig, parodol, ar bâr, darparedig; cywair; ewyllysgar, gwyllysgar; hylaw, hylwybr, hwylus, hawdd, rhwydd; medrus, hyfedr, deheuig; prest, pres; buan; digyngyd; brysgar; esgud.

Ready to—parod i; yn barod i; yn mron, ar, ar fin; hawdd ganddo; -gar; hy-.

Ready to die—yn barod i farw *neu* drengu; yn agos i farw *neu* drengu; yn mron marw *neu* drengu; ar farw, ar drengu, ar drancedigaeth; ar fin marw.

Ready to burst—ar hollti, ar dori; yn barod i hollti *neu* dori; yn hollti.

Ready to fall—ar syrthio, ar gwympo; serfyll, simsan, simpl, simplaidd; lledbai; ar ogwydd; ar ei ogwydd; adfeilledig; hygwymp, hygwydd, hylithr; ar ddibyn; hadl; tramgwyddus; parod i syrthio, &c.

Ready to perish—ar ddarfod am dano; ar drengu, &c.

Ready to forgive—parod i faddeu; hawdd ganddo faddeu; maddeugar.

Of a ready mind, } o barodrwydd
Out of a ready mind, } meddwl; o feddwl parod.
From a ready mind, }

Of ready wit, } parod ei bwyll; parod ei
Ready-witted, } synwyr; parodbwyll, synwyrlym, synwyrgall.

Ready money—arian parod, arian ar law.

Ready at hand—parod wrth law.

Ready with the hand—hylaw, llawesgud, deheu, deheuig, medrus, hyfedr, dichwith, pedrylaw; cyfarwydd, cynnil, celfydd; parod.

Ready-handed—llawesgud, hylaw, &c.

To be ready—bod yn barod; bod ar bâr.

To get ready, } parotöi, parodi; gwneuth-
To make ready, } ur yn barod; gwneuthur pethau yn barod.

To make one's self ready, } ymbarotöi, ym-
To get one's self ready, } ddarparu, ymbarodi.

To make ready for war—ymbarotöi i ryfel; ymwregysu i ryfel; ymarfogi.

A maker ready—parotöwr, parotöydd, darparwr, darparydd.

That Achaia was ready a year ago—bod Achaia wedi ymbarotöi er y llynedd (2 *Cor.* ix. 2).

The house was built of stone made ready—y ty a adeiladwyd o geryg wedi eu cwbl naddu (1 *Bren.* vi. 7).

Ready, *s.* arian parod.
Ready, *ad.* yn barod, &c.
Ready furnished lodgings—lletty dodrefnedig.
Ready armed—wedi ymarfogi; yn barod mewn arfau.
Ready,† *v. a.* parotòi, darparu, trefnu.
Ready-made, *a.* à wnaed yn barod; à wnaed yn mlaen llaw; we li ei wneuthur yn barod; rhagbarotòedig, rhagddarparedig.
Reaffirm, *v. a.* adwirio, ailwirio, ail wirio, adhoni, ail hòni, adhaeriad.
Reaffirmance, *s.* adwiriad, adhoniad, adhaeriad, ail honiad.
Reagent, *s.* adweithredydd=sylwedd arferedig mewn fferylliaeth i ddarganfod sylweddau ereill.
Reaggravation, *s.* adrybudd, adrybuddiad.
Reak,† *s.* rhuthr, cyrch.
Real, *a.* (Ll. *realis;* Ysp. *real;* Ff. *reel*) gwir, gwirioneddol, gwireddol; diffuant, diffug, nid ffugiol; diledrith, nid lledrithiog; à fo mewn gwirionedd ac nid mewn rhith *neu* ymddangosiad; à hanfo *neu* à hanffo yn wir ddïau; gwir-hanfodol; ansymmudol, anghyffro, sefydlog; pur; sylweddol.
Real property—da anghyffro, da anghyfodedyn, da digyffro, da anghyffröedig, da anghychwyn, da ansymmudol; tir, tir etifeddol, treftad.
Real estate—tiriogaeth, tir, da anghyffro, da digyffro, da anghyfodedyn, da tirol, meddiannau ansymmudol, da anghyfodadwy, tir etifeddol, meddiant o dir, treftad.
His estate both real and personal—ei dda anghyffro a chyffröedig; ei dir a'i dda symmudol, &c.
Real action, } hawl ddefnyddiol, cwyn
Action real, } anianol.
Real presence—gwir bresennoldeb, presennoldeb gwirioneddol, presennoldeb sylweddol.
Real, } *s.* (Ysp. *real*) chwecheiniog yr Yspaen.
Rial, } Y mae yr un arian yn werth tua 5*c.*, a'r un o fettel cymmysg tua 2½*c.*
Realgar, *s.* (Ff. *realgal, realgal*) rhuflwch, gwenwyn coch=math ar ddefnydd fferyllol.
Realism, *s.* (o *real*) sylweddiaeth, sylweddoliaeth, gwireddoliaeth.
Realist, } *s.* sylweddiad, (*pl.* sylweddiaid), sylReal, } weddoliad, (*pl.* sylweddoliaid), sylweddolwr, gwireddoliad, (*pl.* gwireddoliaid), gwireddolwr.
Reality, *s.* (Ff. *realité*) gwiredd, gwirionedd; ffaith; diffuantrwydd; diledrithedd; gwireddoldeb, gwirioledd, hanfodoldeb, gwir fodoldeb, gwir hanfodoledd; sylweddoldeb, sylweddolder, sylweddolrwydd; ansymmudoldeb: *pl.* sylweddolion, sylweddau, gwireddolion.
In reality—mewn gwirionedd, yn wir, yn wir ddïau; nid mewn rhith.
Realizable, *a.* gwireddadwy, sylweddoladwy.
Realization, *s.* sylweddoliad, sylweddiant, gwireddoliad, gwireddiad, gwirioleddiad; gwneuthuriad yn wir *neu* yn sylweddol; troad arian yn dir; dygiad i fod *neu* fodolaeth; caffaeliant, caffaeliad.
Realize, *v. a.* sylweddoli, gwireddu, gwireddoli, gwirioneddu, gwirioleddu, gwiredduso; gwneuthur yn wir *neu* yn sylweddol; peri yn wir *neu* yn sylweddol; peri bod; diffuantu; hanfodoli; dwyn adref ato ei hun; ystyried megys eiddo un ei hun; ystyried mewn gwirionedd; gwir ystyried, gwir gredu, gwir brofi, gwir deimlo; dwyn i fod a meddiant; ennill, elwa; troi heibio; cyflawnu; troi yn dir; troi yn eiddo anghyffro.
Realizing, *a.* à fo yn sylweddoli, &c.; sylweddiannol, sylweddusol, gwireddolus, gwireddusol.
Really, *ad.* yn wir, yn wir ddïau, mewn gwirionedd, yn wirioneddol, yn ddïau; nid mewn rhith.
Reallege, *v. a.* adhoni, adhaeru, ail hòni, hòni eilwaith.
Realliance, *s.* adgystlynedd, adgynghrair, ail gynghrair, ail gyfathrach.
Realm, *s.* (Ff. *royaume;* It. *reame*) teyrnas, breniniaeth; gwlad; llywodraeth; cyfoeth.
Realty, *s.* (It. *realtà*) ansymmudoldeb da, eiddo, *neu* feddiannau; †teyrngarwch; †gwireddoldeb.
Ream, *s.* (S.; Is. *riem;* Sw. a D. *rem*) ugain plyg, drefa, *neu* glwm o bapyr; rhef, rhwym, *neu* rwymynaid o bapyr; rhef, rhwym, rhwymynaid.
Reaming, *s.* gwneuthuriad twll cyff yn fwy nag yr oedd.
Reanimate, *v. a.* adfywhau, adfywio, ail fywhau; ail gefnogi; ail eneidio; dadebru, dadfarweiddio; bywiogi, bywiocäu.
Reanimation, *s.* adfywhad, adfywiad, adfywiogrwydd, ail fywhad; dadebriad, dadfarweiddiad.
Reannex, *v. a.* adgyssylltu, adchwanegu, ail gyssylltu, ail chwanegu, atddodi, atglymu.
Reannexation, *s.* adgyssylltiad, adchwanegiad, ail gyssylltiad.
Reap, *v.* (S. *rip, krippe, ripan*) medi; tori neu ladd â chryman; cynauafu, cynaufa; lleiflo; derbyn, ennill, cael.
Easy to be reaped—hyfed; hawdd ei fedi.
Reaped corn—yd mededig, yd wedi ei fedi.
To reap a benefit—cael lles, cael lleshad, derbyn lles, derbyn lleshad.
Reaper, *s.* medwr, medelwr, medydd, medelwas; cynauafwr.
A company of reapers—medel.
Twenty reapers—ugain medelwr; ugain cryman.
Reaping-hook, *s.* cryman medi; cryman.
Reaping-time, *s.* amser medi, cynauaf medi.
Reapparel, *v. a.* adwisgo, ail wisgo, gwisgo eilwaith.
Reappear, *v. n.* adymddangos, ail ymddangos, adymrithio, ail edrithio.
Reappearance, *s.* adymddangosiad, ail ymddangosiad, adymrithiad, ail edrithiad.
Reapplication, *s.* adgymhwysiad, ail gymhwysiad; adymroad, adymroddiad, ail ymroad, adymgais; ail ddeisyfiad.
Reapply, *v. a.* adgymhwyso, ail gymhwyso; adymröi, adymroddi, adymgeisio; ail ddeisyfu.
Reappoint, *v. a.* adbenodi, ail benodi, ailbenodi.
Reappointment, *s.* adbenodiad, ail benodiad.
Reapportion, *v. a.* ail ddogni, ail gynnogni, adranu, ail ranu, adgyfartalu.
Reapportionment, *s.* ail ddogniad, ail gynnogniad, ail raniad.
Rear, *s.* (Ff. *arrière;* Llyd. *revr, revez, reor;* C. *r hefr*) bon, pen ol, y pen ol, pen bon.

ol, gorddin, gwrthol, lledol, cynffon, llosgwrn.
The rear of an army—bon y gad, llosgwrn y gad, cefn y drin, ol y fyddin, olgad; yr oliaid, y dily.iaid.
The rear and van—yr ol a'r blaen; y bon a'r blaen; y gorddin a'r gorddwy; y gwŷr ol a'r gwŷr blaen.
In the rear—yn y bon; yn olaf.

Rear, *a.* (S. *hrere*) anaddfed; anmrwd; annigon, heb fod yn ddigon; cynnar.

Rear, *v.* (S. *ræran*) codi, cyfodi, dyrchafu; magu, meithrin, meithrino; ymgodi; banu, banhau; dwyn i fyny; codi *neu* ymgodi ar ei draed ol.
To rear up one's self—ymgodi; ymsythu; ymunioni.
To rear a boar—codi baedd; codi baedd gwyllt; tarfu baedd o'i loches.
A lamb reared by hand—oen llawlaeth, oen swci, oen lledfegin.
To rear cattle—codi anifeiliaid, magu anifeiliaid, cwnu anifeiliaid, porthi anifeiliaid.

Rear, *ad.* yn gynnar.

Rear-admiral, *s.* ol-lyngesydd, ol-lyngeswr, ol-lyngesor.

Rear-guard, *s.* olfyddin, olgad, ol-osgordd.

Rearing, *p.* yn codi *neu* yn ymgodi ar ei draed ol.

Rear-line, *s.* olgadres, cadres ol.

Rearmouse, } *s.* (S. *hrere-mus*) ystlum, ystlum-
Reremouse, } yn, ysbril.

Rear-rank, *s.* olreng, olres, rheng ol, rhenc ol, rhes ol.

Rear-ward, *s.* (o *rear* a *ward* neu *guard*) olfyddin, olgad, cefn y gad; y fyddin olaf, y fyntai olaf, bon y gad; diffyngor o'r tu cefn; yr oliaid; y bon, y gynffon, y llosgwrn; y diwedd, yr olaf; y rhan olaf.

Reascend, *v.* adesgyn, ail esgyn, esgyn eilwaith, ail ddringo.

Reascension, *s.* adesgyniad, ail esgyniad, adesgyn, adgyfodedigaeth.

Reascent, *s.* adesgynfa, ail esgynfa.

Reason, *s.* (Lt. *ratio*; Ff. *raison*; Gw. *reawm*) rheswm, arbwyll, pwyll, cymhwyll; synwyr; cyffred, deall, deallt, dallt; achos; iawn, iawnder, addwynder.
Reason, } iawn, iawnder, add-
Right and reason, } wynder, addwyndra, uniondeb, cyfiawnder.
Right reason—iawnbwyll, iawn bwyll, cyfiawn bwyll.
Sound reason—cyfrbwyll; rheswm sylweddog *neu* sylweddol; rheswm cryf.
By reason of—o herwydd, o blegid, o achos, herwydd, o ethryb; gàn, rhag, trwy, o.
By reason that—o herwydd mai, o herwydd bod, o achos mai, o achos bod, am mai, am fod, am taw.
By reason of the famine—o herwydd, o achos, o blegid, *neu* gàn y newyn.
By reason of the very long journey—rhag meithed y daith; gàn *neu* herwydd meithder y daith.
If by reason of strength they be fourscore years—os o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd.
It is not reason that we should leave—nid yw gymmesur i ni adael.
He produced strong reasons in support of his tenets—efe a ddygodd allan resymau cryfion er cynnal *neu* amddiffyn ei ddaliadau; efe a ddygodd resymau cryfion dros ei ddaliadau.
To endue with reason—cynnysgaethu â rheswm, &c.; pwyllogi.

Reason, *v.* rhesymu, ymresymu, cymhwyllo, arbwyllo; dadleu; argymhenu; ymbwyllo.
To reason together—cyfymbwyllo, cydymbwyllo, ymresymu ynghyd, cyd-resymu.

Reasonable, *a.* rhesymol; synwyrol, pwyllog; teg; iawn; gweddol; cymhwys.

Reasonableness, *s.* rhesymoldeb, rhesymolrwydd, rhesymolder; pwyllogrwydd.

Reasonably, *ad.* yn rhesymol.
Reasonably well—yn rhesymol dda; yn ddigon da, yn dda ddigon.

Reasoned, *p. p.* yr ymresymwyd yn ei gylch; â holwyd trwy reswm.

Reasoner, *s.* rhesymwr, rhesymydd, rhesymieddydd, ymresymwr, ymresymydd, cymhwyllwr, cymhwyllydd, arbwyllwr, arbwyllydd, argymhwyllwr, darbwyllwr.

Reasoning, *s.* rhesymiad, ymresymiad, arbwylliad, cymhwylliad, pwylliad, pwyliad; rheswm.
The art of reasoning—celfyddyd ymresymu; rhesymeg, arbwylleg, arbwylleb.
Reasoning faculty—arddysbwyll, pwyllad, pwyll, arbwyll, y gallu ymresymol, y rheswm.

Reasonless, *a.* direswm, heb reswm ynddo, dibwyll.

Reassemblage, *s.* adgynnulliad, adgasgliad, adgynnullfa, ail gynnulliad, ail gasgliad, adymgynnulliad, adymgasgliad.

Reassemble, *v.* adgynnull, ailgynnull, ail gasglu, adgasglu, adgrynöi, ail grynöi; ail wysio *neu* ail alw yn nghyd; adwysio; cynnull eilwaith, &c.; adymgynnull, adymgasglu, ail ymgynnull, ail ymgasglu.

Reassert, *v. a.* adhaeru, adhoni, ail haeru, ail hòni, adwirio, ail wirio; ail arddelwi.

Reassertion, *s.* adhaeriad, adhoniad, ail haeriad, ail honiad, adwiriad; ail arddelwad.

Reassign, *v. a.* adbenodi, ail benodi, ail benu; ail drosi, attrosi, ail drosglwyddo.

Reassimilate, *v. a.* adgymmathu, ail debygoli, ail debygu.

Reassimilation, *s.* ail debygoliad, adgymmathiad.

Reassume, *v. a.* adgymmeryd, ailgymmeryd; ailgymmeryd arno, ato, *neu* iddo ei hun; edryfu.

Reassumption, *s.* adgymmeriad, adgymmerediggaeth, adgymmeriaeth, ailgymmeriad; ailgymmeriad iddo, ato, *neu* arno ei hun.

Reassurance, *s.* ail ddiogeliad, adyswiriant.

Reassure, *v. a.* (*re* ac *assure*; Ff. *rassurer*) ail ddilysu, ail wirio, adwirio, ail sicrhau, ail gyfnerthu; ail addaw; ail ddiogelu, adyswirio.

Reassurer, *s.* ail ddiogelwr, adyswiriwr.

Reastiness,† *s.* mysni, drygsawrusrwydd.

Reasty,† *a.* (o *rusty?*) mws, drewsawrus, drygsawrus; â gwynt cryf arno.

Reate,† *s.* hirwellt dyfrdrig.

Reattach, *v. a.* ail ddàl, ail afaelu; ail gyssylltu, ail lynu.

Reattachment, *s.* adymlyniad, adgyssylltiad.

Reattempt, *v. a.* adgynnyg, ail gynnyg, adgeisio, ail geisio, adymgais â, ail anturio.

Reave,† *v. a.* (S. *reafian*) amddifadu, difeddu; dwyn; treisgipio.

Reaver,† *s.* ysbeiliwr, treisgipiwr.
Reavow, *v. a.* ail arddelwi; ail addef.
Rebaptism, *s.* ailfedydd, ail fedydd, adfedydd.
Rebaptisation, *s.* ailfedyddiad, adfedyddiad; ailfedydd.
Rebaptize, *v. a.* ailfedyddio, adfedyddio, bedyddio eilwaith.
Rebate, } *s.* (Ff. *raboter*) cynghwys; ymyl-gwys,
Rabbet, } cyssyllt-gwys; rhych, rhint, rhedd, rhig.
Rebate-plane—canwyr cynghwyso.
Rebate, *v. a.* cynghwyso; rhychu, rhigoli; rhintio; rheddu; rhych-gyssylltu, cyssyllt-gwyso, ymyl-gwyso.
Rebate, *s.* caledfaen nadd, naddfaen caled; peth i guro cymrwd âg ef.
Rebate, *v. a.* toli, lleihau; erthynu, tynu ymaith, tynu yn ol; pylu.
Rebated arms—arfau twn, arfau bradw, twn arfau. [un.
To rebate one's pride—darostwng balchder
Rebate (as a rule)—toliadaeth.
Rebate, } *s.* toliad, toliant, toledigaeth,
Rebatement, } lleihad, toliadaeth; anghyfrif; tyniad ymaith, erthyniad; lleihad pris; pyliad.
Rebate and discount—toliant ac anghyfrif.
Rebato, } *s.* (Ff. *rabat*) torch gwddf, gwddwg-
Rabato, } en.
Rebec, } *s.* (Ff. *rebec;* It. *ribecca*) trithant,
Rebeck, } crwth trithant=math ar offeryn cerdd.
Rebel, *s.* (Ff. *rebelle*, o'r Ll. *rebellis*) gwrthryfelwr, gwrthryfelydd, gwrthrynwr, gwrthrynydd, gwrthryniedydd, gwrthrinwr, gwrthseifiad; un à godo, à safo, *neu* à ymladdo yn erbyn ei frenin *neu* yn erbyn awdurdod.
Rebel, *a.* gwrthryfelgar, gwrthryfelus, gwrthryfelog, gwrthrynol; anufydd.
Rebel, *v. n.* gwrthryfela, gwrthryfelu, gwrthrynu, gwrthryn, gwrthladd; codi, sefyll, *neu* ymladd yn erbyn brenin; codi, sefyll, *neu* ymladd yn erbyn awdurdod; bod yn wrthryfelgar; bod yn anufydd; anufyddhau, cildynu, gwrthwynebu.
Rebelled, *a.* gwrthryfelog, gwrthryfelus, gwrthryfelgar.
Rebeller, *s.* gwrthryfelwr, gwrthryfelydd, codwr gwrthryfel.
Rebellion, *s.* (Ff.; Ll. *rebellio*) gwrthryfel, gwrthryn, gwrthrin, gwrthladd; anufyddod.
The great rebellion—y gwrthryfel mawr.
Rebellious, *a.* gwrthryfelgar, gwrthryfelog, gwrthryfelus, gwrthryfelaidd, gwrthryngar, gwrthringar, gwrthrynol, gwrthrinog; anufydd, cyndyn, cildynus, gwrthnysig, arsarig.
Rebelliousness, *s.* gwrthryfelgarwch, gwrthryfelusrwydd, gwrthryfelogrwydd.
Rebellow, *v. n.* (*re* a *bellow*) adfugunad, adfuguned, adfrefu, adruo.
Rebending, *p.* adblygol; plygedig fel y llythyren S (yn arfau bonedd).
Reblossom, *v. n.* adflodeuo, ail flodeuo, adflaguro.
Reboation,† *s.* (Ll. *reboo*) adfugunad, adfugad, adfuguna wd, adfrefiad, adnain.
Reboil, *v.* adferwi, ail ferwi; tanio; bod yn boeth.
Rebound, *v.* adlamu, dadlamu, gwrthlamu, rhoi adlam, gwrthneidio, dadneidio; telgynu; rhuso; dadseinio, adseinio.
Rebound, *s.* adlam, dadlam, gwrthlam, gwrthnaid, dadnaid, naid yn ol; telgwn; rhus, rhusiant.
Rebrace, *v. a.* adgryfhau; adrwymo, ail rwymo.
Rebreathe, *v. a.* adanadlu, ail anadlu.
Rebuff, *s.* (It. *rabuffo;* Ff. *rebuffade*) nag am arch; nag, nacâd, gwrthod, gwrthodiad, gomedd, gomeddiad, pall; gwrthguriad, adguriad, gwrthgis, gwrthdarawiad, ysbwy, ystwy; ateb sarig; sard, sardiad; attalfa ddisymmwth; gwrthgais.
To meet with a rebuff—cael nag am arch; cael pall, cael ceithug.
Rebuff, *v. a.* curo yn ol, gwrthguro, gwrthdaro; attal, nadael, ystwyo; nagu, nacâu, pallu, gomedd; sardio; digaloni.
Rebuild, *v. a.* ail adeiladu, ail adeilo, adadeiladu; adeiladu o newydd, eilwaith, *neu* drachefn.
Rebuilder, *s.* ail-adeiladydd, ail-adeiladwr, ail-adeilwr, adadeilwr, adeiladydd o newydd.
Rebukable, *a.* (o *rebuke*) ceryddadwy, cenadwy, argyhoeddadwy.
Rebuke, *v. a.* (Norm. *rebuquer*) ceryddu, cenu, dwrdio, ysgwrdio, dondio, sardio, anghreiffio, argyhoeddi, beio ar.
A rebuking letter—llythyr cerydd, llythyr ceryddol.
Rebuke, *s.* cerydd, cen, gair cerydd, sard; gwarthrudd, gwaradwydd; dwrd.
Rebukeful, *a.* ceryddgar, llawn cerydd, ceryddus, ceryddol, cengar.
Rebuker, *s.* ceryddwr, dwrdiwr, cenwr, dondiwr, beiwr, sardiwr.
Rebullition, *s.* berwad, gorferwad, dyferwad.
Rebury, *v. a.* adgladdu, ail gladdu.
Rebus, *s.* (Ll. o *res*) difregawd, difregwawd; dyfal, dychymyg; llaeth sur; arfau bonedd â chyfeiriad ynddynt at enw y sawl a'u dygo.
Rebut, *v.* (Ff. *rebuter*) curo yn ol, gwrthguro, adguro, cilgwthio, gyru yn ol, gwrthryn, gwrthrynu, gwrthio; ateb; †cilio yn ol, cilio.
Rebutter, *s.* ateb; ateb yr amddiffynydd i wrtheb yr hawlblaid; ail ateb.
Recall, } *v. a.* galw yn ol, galw yn ei wrthol,
Recal, } gwrthalw; adalw, ail alw; galw adref.
Recall, } *s.* galwad yn ol; gwrthalwad; ad-
Recal, } alwad, ail alwad.
Recallable, *a.* gwrthalwadwy, adalwadwy; â ellir ei alw yn ol.
Recant, *v.* (Ll. *recanto*) galw yn ol, tynu yn ol, dadwedyd, dad-ddywedyd, dadalw, dadgyffesu, dadbroffesu; diwygio yr hyn a ddywedodd; galw ei eiriau yn ol; llyncu ei eiriau; dadfarnu; gwrthganu.
Recantation, *s.* galwad yn ol, galwad geiriau yn ol, dadwediad, dad-ddywediad, dadgyffesiad, dadgyffes; dadfarniad; gwrthganiad, gwrthgan.
Recanter, *s.* dadwedwr, dadwedydd, dad-ddywedwr, dad-ddywedydd; gwrthganwr, gwrthgenydd, gwrthganiedydd.
Recapacitate, *v. a.* adgyfaddasu, adgymhwyso, ail gyfaddasu, ail addasu, ail alluogi.
Recapitulate, *v. a.* (Ff. *recapituler; re,* a Ll. *capitulum*) adsumio; ailadrodd; ailadrodd penau araeth *neu* ymadrodd; adgynnwyso, ail gynnwyso, adgynnwys, adgrynöi, ail benu; adgoffa.
Recapitulation, *s.* adsumiad, ailadroddiad, ail adroddiad, adgynnwysiad, ail gynnwysiad;

adgoffa yr hyn a ddywedwyd; adgof talgrwn, adgrynodeb, ail grynodeb, adgrynoad, adbeniad.

Recapitulatory, *a.* adsumiedigol, ailadroddedigol, ailadroddawl, adgrynoawl.

Recaption, *s.* (Ll. *re* a *captio*) adgipiad, ad-ddygiad, attrais, ail attafaeliad, ail gymmeriad.

Recaptor, *s.* adgymmerwr, adgymmerydd, ail gymmerwr, adgipiwr.

Recapture, *s.* ailgymmeriad, adgymmeriad, adgipiad; adgip; peth à adgymmerir.

Recapture, *v. a.* adgymmeryd, ailgymmeryd, adgipio, ad-ddwyn; cymmeryd eilwaith, cymmeryd yn ol; dâl eilwaith *neu* drachefn.

Recarnify, *v. a.* troi eilwaith yn gnawd; adgnawdoli, ail gnawdoli.

Recarry, *v. a.* adgario, ail gario, ail gludo, cludo eilwaith; cario *neu* gludo yn ol.

Recast, *v. a.* adfwrw, ail fwrw, ail doddi, toddi drachefn; adgyfrif, ail gyfrif; lluniaw o newydd.

Recede, *v. n.* cilio yn ol, myned yn ol, cilio, encilio; myned yn ei wrthol; myned yn ei wrthgefn; gwrthgilio, adgilio; cilio i'w wrthol; rhedeg yn ol; ciliaw oddi wrth; cildröi; ymgilio, neilltuo.

To recede slightly—gogilio.

Receipt, *s.* (Ll. *receptus*; It. *ricetta*) derbyniad, derbyn, derbyniawd, derbynedigaeth, derbyniedigaeth, erbyniawd; derbyneb, taleb, talysgrif, talysgrifen, ysgrifen dâl; derbynfa; cyfarwyddyd meddyg, ysgrifen gyfarwyddyd meddyg, cymmereb, cyfarwyddeb.

Receipt of customs—tollfa, tolldy, y dollfa, y tolldy, cyllidfa.

Bill and receipt—dyleb a thaleb, hawleb a derbyneb.

Receipt, *v. a.* rhoi talysgrif, taleb, *neu* dderbyneb am; talebu, talysgrifo.

Receivable, *a.* derbynadwy; derbyniol.

Receivableness, *s.* derbynioldeb, derbyniolrwydd.

Receive, *v. a.* (Ff. *recevoir*; Ll. *recipio*) derbyn, derbynio; cymmeryd; erbyn, erbynio, erbynied, gwrthfyn; cael, caffael; croesawu; cynnwys; rhoi derbyniad i; derbyn i mewn.

They received benefit from it—cawsant les oddi wrtho.

This is he which received seed by the way side—dyma yr hwn a hauwyd ar fin y ffordd.

To receive sight—cael ei olwg; gweled eilwaith.

His ankle bones received strength—ei fferau a gadarnhawyd (*Act.* iii. 7).

Well-received—â derbyniad da *neu* fawr iddo; cymmeradwy.

He is well received in the world—y mae iddo dderbyniad *neu* gymmeradwyad mawr yn y byd; y mae iddo barch mawr yn y byd; y mae efe yn cael parch mawr yn y byd; y mae efe yn cael ei berchi yn fawr yn y byd.

To receive comfort—cael cysur, derbyn cysur.

A place to receive—derbynfa, lle i dderbyn.

Receivedness, *s.* derbynedigrwydd, derbyniedigrwydd, derbyniedigaeth; cyffredinolrwydd.

Receiver, *s.* derbyniwr, derbynydd, derbyniedydd, derbyniawdr, erbyniwr, erbynydd; gwagell.

Receiver (in pneumatics)—gwagell.

Receiver general — pencais, pencisiad; pentrethwr; pen-amobrydd.

Receiving, *s.* derbyniad, derbyniawd, derbynedigaeth, erbyniawd.

Recelebrate, *v. a.* ail glodfori, ail ddathlu, adfoli.

Recelebration, *s.* ail ddathliad, adfolawd, ail glodforiad.

Recency, } *s.* (o *recent*) newyddrwydd, new-
Recentness, } ydd-deb, newydd-der, newyddder, newyddedd; diweddarwch.

Recense, *v. a.* (Ll. *recenseo*) adolygu, adgyweirio, diwygio, cyweirio; adbrofi, adchwilio.

Recension, *s.* (Ll. *recensio*) adgyweiriad; adolygiad; adbrofiad, adchwiliad; adwelliant.

Recent, *a.* (Ll. *recens*) newydd; diweddar; crai; gonewydd.

Receptacle, *s.* (Ll. *receptaculum*) derbynfa, derbynle; cronfa, ystorfa, ystorgell, ystordy; trysorfa, trysordy.

Receptacles of waters—llynau dyfroedd (*Eccles.* xxxix. 17).

Receptacular, *a.* (Ll. *receptaculum*) derbynfaol; perthynol i dderbynfa; yn tyfu ar y dderbynfa (mewn llysiau).

Receptary,† *s.* peth à dderbyniwyd.

Receptibility, *s.* (Ll. *receptus*) hyddaledd, hyddalrwydd; cymmeriadoldeb; gallu i dderbyn.

Receptible, *a.* hyddal, daladwy.

Reception, *s.* (Ll. *receptio*) derbyniad, derbynedigaeth, derbyniawd, derbyn; arfolliad, arfoll, croesaw, dylawch; cymmeriad; tyb à dderbynir yn gyffredin; †adferiad.

Receptive, *a.* (Ll. *receptus*) derbynedigol, derbyniedigol, cymmeriadol.

Receptivity, *s.* derbynedigoldeb, cymmeriadoldeb.

Receptory,† *a.* derbynedig yn gyffredin; derbynedigol.

Recess, *s.* (Ll. *recessus*) cil, encil, ymgil; ciliad, enciliad, ymgiliad, mynediad ymaith, ymadawiad, mynediad yn ei wrthol, mynediad yn ei wrthgefn; gwrthgiliad; cilfa, cilfan, cilfach, encilfa, ymgilfa, cilan; dirgelfa, ymguddfa, llechfa; lle i gilio iddo; lle i gael achles ynddo; llystyn; cloer; peth dirgel; dirgelwch.

A private recess—dirgelfa.

Recess of parliament—cil y senedd.

The most secret recesses of our souls—y lleoedd dirgelaf o fewn ein calonau; ciliau ein calonau.

The recesses of science—dirgelion gwybodaeth.

Recess, *s.* (Ff. *recez*) cofnodau penderfyniadau llwyrwys yr Almaen; penderfyniad *neu* osodiad llwyrwys yr Almaen.

The recess of the diet of Spires—penderfyniad llwyrwys Speier.

Recessed, *a.* cilfachog, cilfaog, cilanog; â chilfa *neu* gilfanau ynddo; cloerawg; llystynog.

Recessed arch—bwa o fewn bwa.

Recession, *s.* (Ll. *recessio*) ciliad, enciliad, ymgiliad; ymadawiad; rhoddiad yn ol.

Recession of the equinoxes—enciliad y cyhydnosau, ciliad y cyhydeddau.

Rechange, *v. a.* adgyfnewid, ail newid, adnewid, newid eilwaith.

Recharge, *v. a.* (*re* a *charge*; Ff. *recharger*) adgyhuddo, ail gyhuddo, cyhuddo eilchwyl,

cyhuddo y cyhuddwr, gwrthgyhuddo; adlwytho; ail ergydio; ail hyrddu, adhyrddu, gwrth-hyrddu; ail ymosod ar, adgyrchu.

Rechase, *v. a.* ail ymlid, ymlid eilwaith; gyru, taro, *neu* fwrw yn ol; gwrthymlid, gwrthdaro, attaro.

Rechase, *s.* adchwyl, atchwyl.

Recheat, *s.* (o'r hen Ff. *recet*) gwrthgan helwyr pan fyddo y cwn wedi llwyr golli yr adrywedd; adalwad.

Recheat, *v. a.* canu y corn gwrthgan; gwrthganu ar y cwn; adalw, galw yn ol.

Recherché, *a.* (Ff.) y mawr chwilio am dano; â mawr ymchwil am dano; anghyffredin.

Rechoose, *v. a.* adethol, ail ethol, ail ddewis; dewis *neu* ethol eilwaith.

Recidivate, *v. n.* (Ll. *recidivo*) adymchwelyd, adgwympo, adsyrthio, ail gwympo, syrthio yn ol, cwympo yn ol, syrthio eilwaith, cwympo eilwaith, gwrthgilio, ail ymchwelyd.

Recidivation, *s.* adymchweliad, adgwympiad, ail gwympiad, adsyrthiad, ail syrthiad, ail ymchweliad; adgwymp, ail gwymp; syrthiad *neu* gwympiad yn ol; gwrthgiliad; adglefychiad; adglefyd.

Recidivous, *a.* adymchwelog, adgwympol, gwrthgiliog.

Recipe, *s.* (Ll. o *recipio*) cymmereb, cyfarwyddyd meddyg, ysgrifen gyfarwyddyd meddyg, cynghor meddyg, cyfarwyddyd meddygol.

Recipient, *s.* (Ll. *recipiens*) derbynydd, derbyniedydd, derbyniwr, derbyniawdr.

Reciprocal, *a.* (Ll. *reciprocus*) adgyrchol, adgyrchiol, ailgyrchol, ailgyrchiol, attychwelig, attychwelog, attychweledig, attychwelawl, attroawl, adymgyrchol; â wnaed *neu* â ddychwelwyd gân bob un i'w gilydd; cylchgyfnewidiol, cydgyfnewidiol; bob yn ail, ar gylch; y naill y llall; o'r ddwy ochr; perthynol i'r ddwy ochr; o bob tu; eu gilydd; cyd-, cyf-, cym-, cys-, cy-, ym-.

Reciprocal advantage—cydles, cyfles, cydleshad, cydlesiant.

Reciprocal forbearance—cydymaros, cydymoddef.

Reciprocal, *s.* yr attychwelig.

Reciprocally, *ad.* yn adgyrchol, &c.; ar gyfnewid, ar gylch; o'r ddwy ochr; y naill y llall; bob un yn ei dro.

Reciprocalness, *s.* adgyrcholdeb, adgyrchioldeb, adgyrchiolrwydd, ailgyrchioldeb, cylchgyfnewidolrwydd, cydgyfnewidioldeb, attychweligrwydd.

Reciprocate, *v.* (Ll. *reciproco*) cydgyfnewid, cylchgyfnewid, cyfnewid, cyfnewidiol, ymgyfnewid; gwneuthur bob yn ail; gwneuthur ar gylch; cyd-arallu.

Reciprocation, *s.* cydgyfnewidiad, cydgyfnewid, cylchgyfnewid, ymgyfnewidiad; cydaralliad.

Reciprocity, *s.* (Ff. *réciprocité*) cydgyfnewidioldeb, cydnewioldeb, cydgyfnewidiolrwydd, attychwelogrwydd; cydfles, cyfles, cydlesiad, cyflesiant.

Recision, *s.* (Ll. *recisio*) toriad ymaith, attrwch, attrychiad, attoriad.

Recital, *s.* (o *recite*) adroddiad, mynegiaeth, mynegiad, dadganiad, dadgan, traethiad, mynag; ailadroddiad; dysgwediad.

First recital—adroddiad cyntaf, cynddadganiad, cynnadgan, cynnadganiad.

Recitation, *s.* (Ll. *recitatio*) adroddiad, mynegiad, mynegiaeth, dadganiad, traethiad, treithiad; dysgwediad; adroddiad ar dafodleferydd.

Recitative, *a.* (Ff. *récitatif;* It. *recitativo*) dadganol, adroddol, traethiadol, traethol, dysgwedol, godreithol; treithganawl.

Recitative poetry—cerdd draith.

Recitative ode—treithawdl, traethawdl, traethodyn, treithodyn, traethodl.

Recitative, *s.* treithgan, cân draith, adroddgan, cynghandraith, godraith.

To sing in recitative—treithganu, adroddganu, cynghan-adrodd, canu cerdd draith.

Recitativo, *s.* (It.)=*Recitative, s.*

Recite, *v. a.* (Ll. *recito*) adrodd, dadgan, dadganu, traethu, treithu, mynegu, dysgwedyd, dysgwëyd, adlefaru, dyganu.

Recite,† *s.*=*Recital.*

Reciter, *s.* adroddwr, adroddydd, adroddiedydd, dadganwr, dadganydd, traethwr, traethydd, dadgeiniad, mynegydd, mynegwr.

Reck, *v.* (S. *recan*) malio, gofalu, gofalu am, gwilio, pryderu, pwyllo.

Reckless, *a.* (o *reck*) diofal, anofalus, dibryder, difeddwl, didaro, difraw, dibryderus, anochelgar, ysmala, dibwyll, esgeulus, dibris.

Recklessness, *s.* diofalwch, anofalwch, esgeulusdod, dibryder, anofaledd, dibrisdod.

Reckon, *v.* (S. *recan, reccan;* Is. *reckenen*) cyfrif; bwrw; rhifo, edrifo, dyrifo; prisio; gwneyd cyfrif; gwneuthur cyfrif o; barnu, meddwl, meddylio, tybied; ymddibynu, hyderu.

To reckon on, } hyderu ar; rhoi hyder
To reckon upon, } ar; rhoi goglud, pwys, *neu* goel ar; pwyso, gobwyso, gorbwyso, gorphwys, *neu* ymorphwys ar; rhoi ei bwys ar; ymddibynu ar, dibynu ar; ymddiried yn, gobeithio yn; rhoi ei ymddiried mewn.

To reckon with—cyfrif â; gwneuthur cyfrif â.

To reckon little of—dibrisio, diystyru; gwneuthur anghyfrif o.

To reckon up—cyfrif, rhifo, bwrw, bwrw cyfrif, bwrw y cyfrif; cyfrif y cwbl *neu* y cyfan yn nghyd; sumio.

To reckon together—cydgyfrif, cydrifo.

To over-reckon—cyfrif ychwaneg *neu* fwy nag y sydd; cyfrif mwy nag â ddylid; gorgyfrif.

To reckon one's chickens before they are hatched—cyfrif ei gywion cyn dyfod o honynt i glawr; cyfrif ei gywion cyn eu dyfod i glawr; cyfrif ei gywion cyn eu dyfod i lawr; cyfrif ei gywion cyn eu deor; cyfrif ei fael cyn ei gael; cyfrif ei fael yn rhy gynnar.

Reckoner, *s.* cyfrifydd, cyfrifwr, cyfrifor, cyfrifiedydd; rhifwr, rhifydd, rhifiedydd.

Ready reckoner—cyfrifydd parod.

Reckoning, *s.* cyfrifiad, cyfrifiant, cyfrif, edrif; rhifiad; gild; bri; tymp.

Short reckonings make long friends—byr gyfrif a bair hir gyfeillach; byr gyfrifon a barant hir gyfeillion.

Even reckoning makes long friends—manwl gyfrif a wna hir gyfeddach.

To pay the reckoning—talu y cyfrif; gildio.

To make reckoning of—prisio; rhoi bri ar; gwneuthur cyfrif o.

To make little reckoning of—dibrisio, diystyru, bychanu; gwneuthur anghyfrif o.

She is near her reckoning—mae hi yn agos

i'w thymp; mae hi yn agos i'w hamser.

She went out her reckoning—hi a esgorodd yn ei hamser; nid esgorodd hi cyn ei hamser.

Reckoning-book—cyfrifllyfr, llyfr cyfrifon, llyfr cyfrif.

Reclaim, *v.* (Ll. *reclamo;* Ff. *reclamer*) galw *neu* ddwyn yn ol i'r iawn; galw *neu* ddwyn adref drachefn; galw yn ol; diwygio, gwella, gwellhau; adferu; dychwelyd; adofyn, adholi; diwyllio; dofi, gwareiddio; ymlid ac adferu; gwaeddi, dolefain.

To reclaim ground—diwyddo tir, diwygio tir, diwyllio tir.

To reclaim a hawk—dofi hebog. [adwy.

Reclaimable, *a.* diwygiadwy, adferadwy, gwell-

Reclaimant, *s.* gwrthddywedwr, gwrthddywedydd, gwrthwedydd, gwrthwynebwr, gwrthsafwr.

Reclaimless, *a.* anniwygiadwy, anwelladwy, anghyweiriadwy, anadferadwy.

Reclamation, *s.* adferiad; gofyn, gofyniad, hawl.

Reclinant, *a.* (o *recline*) attumiol, adblygol (yn arfau bonedd).

Reclinate, *a.* (Ll. *reclinatus*) gogwyddog, gogwyddol, gogwydd.

Reclination, *s.* gogwyddiad, gogwyddad, gogwyddawd, gogwyddedigaeth, lledogwydd, lledogwyddiad, lledorweddiad.

Recline, *v.* (Ll. *reclino*) gogwyddo, lledogwyddo; gogwyddo yn ol; gogwyddaw o'r neilltu; lledorwedd; plygu; attumio; gorwedd, gorphwys.

Recline, *a.* gogwyddol, lledogwyddol, lledorweddol; yn ei ledorwedd.

Recliner, *s.* heulfynag gogwydd, heulfynag gogwyddol.

Retention, *s.* (Ll. *retentio*) daliad, daliad gafael, daliad yn llaw, daliad mewn llaw, daliad yn ol, attaliad, attaliedigaeth, cadwad gafael, gafaeliad; cof, y cof; y gallu i ddal; attalfa, attal.

Retention in the mind—daliad yn nghof: cadwad yn nghof.

The retention—y cof; gallu *neu* gynneidf y meddwl i ddal yr hyn a dderbynio rhag myned yn anghof.

Retentive, *a.* (Ff. *rétentif*) attaledigol, attaligar, attaliadol, daliedigol; cynnwysol, cynnwysgar; gafaelus, gafaelgar; cofgar.

A retentive memory—cof da, parhäus, arnifiad, gafaelgar, cryf, *neu* gynnwysgar.

Having a retentive memory — cofgar; â chof da ganddo, &c.

The retentive faculty—y cof; gallu *neu* gynneddf y meddwl i ddal yr hyn a dderbynio rhag myned yn anghof.

Retentive,† *s.* attal, attalfa.

Retentiveness, *s.* attaliedigolrwydd, attalgargarwch, cynnwysgarwch, daliedigoldeb.

Retentiveness of memory—gafaelgarwch cof; cofgarwch.

Retexture, *s.* ail we, ail wead.

Retiaries, } *s. pl.* (Ll. *retiariæ*) gwegopynod.
Retiariæ, }

Reticence, } *s.* (Ff. *reticence;* Ll. *reticentia*)
Reticency, } cadwad cyfrinach, dystawrwydd, tawedogrwydd; celiad yn y meddwl; tawiad â son am beth; lledgeliad; attaliaith.

Reticent, *a.* (Ll. *reticens*) dystaw, tawedog, termud.

Reticle, *s.* (Ll. *reticulum,* o *rete*) rhwyden; math ar fanfeidyr.

Reticular, *a.* (Ll. *reticulum*) rhwydol, rhwydaidd, masgol; ar ddull rhwyd *neu* rwydwaith.

Reticulate, } *a.* (Ll. *reticulatus,*) rhwydog,
Reticulated, } rhwydedig, masgog; ar ddull rhwyd; tebyg i rwydwaith.

Reticulated work — rhwydwaith, gwaith rhwydog.

Reticulates, } *s. pl.* (Ll. *reticulum*) rhwyden-
Reticulata, } ogion=math ar faenfilod.

Reticulation, *s.* rhwydwaith; rhwydiad, masgiad.

Reticule, *s.* (Ll. *reticulum*) rhwyden; rhwydwaith tremiadyr; melgod y cylla; rhwydgoden, llofrwyd, llawgoden, llawgod.

Retiniform, *a.* (Ll. *retiniformis*) ar ddull *neu* wedd rhwyd; rhwydaidd, masgaidd.

Retina, *s.* (Ll.) rhwydlen y llygad, y rhwydlen.

Retinasphalt, } *s.* (Gr. *rhêtinê* ac *asphaltos*)
Retinasphaltum, } ystorbyx, pygfaen.

Retinite, *s.* (Gr. *rhêtinê*) pygfaen.

Retinitis, *s.* (Ll. o *retina*) fflameg rhwydlen y llygad.

Retinoid, *a.* (Gr. *rhêtinê* ac *eidos*) ystoraidd; tebyg i ystor.

Retinue, *s.* (Ff. *retenue;* Ll. *retineo*) gosgordd, (*pl.* gosgorddion), cosgordd, canrain, gosgorddlu; llu, torf, nifer, tormyn.

King's retinue—gosgordd brenin, cyweithas brenin.

Splendid retinue — gorchordd, gosgordd ysblenydd.

Surrounded by a retinue — tormynog, gosgorddog, cosgorddog, tormiannog; â gosgordd o'i amgylch.

To form a retinue—gosgorddi, cosgorddi.

Retirade, *s.* (Ff.; Ysp. *retirada*) adglawdd, medglawdd; amddiffynfa.

Retire, *v.* (Ff. *retirer*) myned, dyfod, *neu* dynu o'r neilltu; ymneilltuo; cilio, encilio, ymgilio; myned ar encil; myned ar gil; myned, ymadaw; myned ymaith, tynu ymaith; tynu ei hun ymaith; echu, echain; lleigio, llochwyta; †neilltuo.

To retire from a blow—gochelyd ergyd, gochelyd dyrnod.

To retire from company—tynu ar ei ben ei hun.

Retire,† *s.* ciliad, enciliad; cilfa, encilfa, dirgelfa.

Retired, *a.* dirgel; diarffordd; unig; neilltuol, neilltuedig; ar ei ben ei hun; cel; enciliedig, ciliedig, ymgiliedig; ysgyfala; o'r neilltu; wedi ymneilltuo.

Retired place—dirgelfa; lle unig, dirgel, diarffordd, *neu* neilltuol; lle dirgel ysgyfala; lle ar ei ben ei hun.

Retired list—cofrestr yr ymgiliedig; cofres yr ymgiliedigion; llechres y swyddogion ymgiliedig.

Retiredly, *ad.* yn ddirgel, &c.; mewn cilfach; ar ei ben ei hun; wrtho ei hun.

Retiredness, *s.* neilltuedd, ymneilltuedd, dirgelrwydd, dirgeledd; unigrwydd, unigedd.

Retirement, *s.* ciliad, enciliad, ymgiliad; mynediad o'r neilltu; neilltuedd, ymneilltuedd, unigedd; encil, encilfa, argelfa, dirgelfa, celfa, celfan, cil, argel, didryf; echaeth.

In thy retirement—pan fych o'r neilitu; pan fych ar dy ben dy hun.

Retiring, *a.* tawedog; gwylaidd; echol.

Retiring room—ystafell ddirgel, ystafell ysgyfala.

Retiringly, *ad.* dân gilio yn ol; wrth fyned yn ei wrthgefn.

Retort, *v.* (Ll. *retortus*) gwrthdroi, dychwelyd; tafiu, bwrw, *neu* droi yn ol; troi yn y gwrthwyneb; tafiu, bwrw, *neu* droi yn ei ol; gwrthsenu; gwrthateb; ateb; gwrthgisio; gwrthgnoi; gwrthblygu, plygu yn ol, ednyddu, dargamu.

To retort an argument upon one—troi rheswm un yn erbyn y neb a'i llunio; dychwelyd ei saeth yn ei erbyn ei hun; llâdd un â'i arf ei hun; lladd un â'i gleddyf ei hun.

Retort, *s.* gwrthgis, gwrthsen, gwrthsard, dadergyr; gwrthgno; gwrthdroad, gwrthdafliad, *neu* wrthfwriad bai ar y beiwr; gwrthgam, gwrthdro; ergyd yn ngwrthwyneb llaw; gwrthgellwair; ednyddell.

Retort courteous—gwrthgis.

Retorted, *p. p.* gwrthdröedig, gwrthblygedig, ednyddedig.

Retorter, *s.* gwrthdröedydd, gwrthsenwr, gwrthgisiwr; y neb a dry reswm yn erbyn y neb a'i llunio.

Retortion, *s.* gwrthdroad, gwrthgisiad, gwrthseniad; gwrthblygiad, ednyddiad.

Retortive, *a.* gwrthdroawl, gwrthsenol, gwrthgisiol.

Retoss, *v. a.* ail fwrw, ail dafiu, adluchio.

Retouch, *v. a.* adgnithio, adgyffwrdd â, ail gyffwrdd â, ail gymhwyso; adredeg yn ysgafn dros beth; rhoi y llaw olaf wrth waith.

Retouch, *s.* adgnith, adgyffyrddiad, ail gyffyrddiad.

Retrace, *v. a.* (Ff. *retracer*) adolrhain, adolrheinio, ail olrhain; myned dros yr un peth eilwaith; dylyn yr hen ol; ail droedio yr un llwybr; myned yn ol ar hyd yr un ffordd; olrhain i'w wrthol; olrhain yn ei wrthol; hely i'w wrthol.

To retrace one's steps—dychwelyd; atteithio; myned yn ol.

Retract, *v.* (Ff. *retracter;* Ll. *retractus*) tynu yn ol; galw yn ol; dad-ddywedyd, dadwedyd; llyncu ei eiriau; diwygio yr hyn a ddywedodd; adalw, gwrthalw, diarddelwi.

Retract, *s.* priciad ceffyl wrth ei bedoli.

Retractable, *a.* â ellir ei dynu *neu* ei alw yn ol; adalwadwy.

Retractate, *v. a.* tynu yn ol; galw yn ol, &c.

Retractation, *s.* (Ff.; Ll. *retractatio*) tyniad yn

ol; galwad yn ol; dad-ddywediad, dadwediad, gwrthganiad; gwrthalwad, adalwad; dïarddelwad.

Retracted, *p. p.* adwedsdig, &c.; â'r naill arflun yn fyrach na'r llall (yn arfau bonedd).

Retractible, } *a.* dattynadwy; â ellir ei dynu
Retractile, } yn ol; y gellir ei ddattynu; gwrthdynadwy.

Retraction, *s.* tyniad yn ol; galwad yn ol; dadwediad, dad-ddywediad, gwrthganiad; gwrthalwad, dadalwad; dïarddelwad.

Retractive, *a.* dattynol, dattynedigol.

Retractive, *s.* dattynydd, dattyniedydd; peth â dyno oddi wrth.

Retractor, *s.* (Ll.) dattynor, dattynydd, cyhyr dattynol.

Retraict, † *s.* (Ff. *retraite*)=*Retreat.*

Retrait,† *s.* (It. *ritratto*) darlun, delwedd; gweddnod; tyniad.

Retraxit, *s.* (Ll.) tyniad hawl *neu* gwyn yn ol; dadalwad.

Retread, *v. n.* dadsengu, ail gerdded.

Retreat, *s.* (Ff. *retraite;* Ll. *retractus*) encilïad, ciliad, ciliad yn ol, encil, mynediad yn ngwrthol, mynediad yn ngwrthgefn, gwrthgiliad, gwrthgil, gwrthred, attaith, gwrthdaith, attychwel, dychweliad; troad yn ol; encilfa, cilfa, dirgelfa, diogelfa, celfan, celfa, argel, cilan, celydd, llechfa, argel, arlech, adfan, cilfach, cuddigl, lloches, golochwyd, chwiwdwll, cuddfa; neilltuedd; gwrthwanas, gwrthatteg; ffo, ffoad.

A place of retreat—encilfa, dirgelfa, diogelfa, &c.; lle i gael achles.

To sound a retreat—canu corn encil; canu cyrn encil.

Retreat, *v. n.* encilio, cilio, cilio yn ol, cilio i'w wrthol, gwrthgilio; myned yn ngwrthgefn, yn ei wrthgefn, yn ngwrthol, *neu* yn ei wrthol; dychwelyd, ymddychwelyd, atteithio, gwrthdeithio, troi yn ol; gwrthredeg; ffoi, ffo; ymneilltuo.

To make to retreat—gyru *neu* beri i gilio; gyru ar gil; cilio.

Retrench, *v.* (Ff. *retrancher*) toli, tolio, lleihau, byrhau, cwtogi, talfyru; tori ymaith, tocio, trychu, amdrychu, ysgythru; byw yn gynnil-ach, byw yn gymmedrolach; byw yn ddïaf-raid, byw yn ddïafrad; cynnilo, ymgymmedroli; dattreulio; tori pen yr afrad; amgloddio; amddiffyn â chlawdd *neu* adglawdd.

Retrenching, *s.* toliad, lleihad, cwtogiad, &c.

Retrenchment, *s.* (Ff. *retranchment*) toliad, lleihad, cwtogiad, talfyriad; toriad ymaith, tociad, trychiad, amdrychiad, ysgythriad; toriad ymaith y gorthwf; cynnilad; cynnil-wch, dattraul; clawdd, adglawdd, diffyn-glawdd, amddiffynfa, amgaer, amgaerwaith, cloddwaith.

Retrenchment of expenses—lleihad, cwtog-iad, cymmedroliad, amdrwch, amdrych-iad, *neu* amdoriad traul; toriad pen yr afrad; ymgadwad rhag afrad; cynnilad.

To make retrenchments=*Retrench, v.*

Retribute, *v. a.* (Ll. *retribuo*) ad-dalu, attalu, talu yn ol, talu y pwyth, talu.

Retributer, *s.* ad-dalwr, attalwr, attaliedydd, attalydd, talwr y pwyth; talwr, taliedydd.

Retribution, *s.* ad-daliad, ad-daledigaeth, attaliad, attaledigaeth, dattaliad, dattal, dattaledigaeth, taliad yn ol, taliad pwyth; tâl, taliad, taledigaeth; cywerthedd; damobrwy; iawn.

Retributive, } *a.* attaledigol, ad-daledigol; tal-
Retributory, } edigol; iawnol.

Retrievable, *a.* adferadwy.

Retrievableness, *s.* cyflwr *neu* ansawdd adfer-adwy.

Retrieval, } *s.* adferiad, adferedigaeth, dad-
Retrievement, } feriad, dadferedigaeth, edfryd.

Retrieve, *v. a.* (Ff. *retrouver*) adferu, adferyd, edfryd, edryd; achub; adennill, ennill yn ol, ail ennill; adgyweirio; adalw; galw oddi wrth; dwyn yn ol.

Retrieve,† *s.* adgais; adferiad, edfrydiad.

Retriever, *s.* adferwr, adferydd, adferiedydd; adfergi.

Retrim, *v. a.* ail drwsio, ail daclu, adadduno, ail ddestlu.

Retro, (Ll.) rhagddawd yn dynodi *yn ol, ol, yn ngwrthol, gwrth-, dad-.*

Retroact, *v. n.* gwrthweithio, gwrthweithredu; gweithio yn y gwrthwyneb; dadchwimio, dadchwyfo.

Retroaction, *s.* (Ll. *retro*, ac *action*) gwrth-weithiad, gwrthweithrediad; dadchwimiad, dadchwyfiad, dadchwyf; gwrthweithred; gwrtholygiad; gwrthyriad.

Retroactive, *a.* (*retro* ac *active;* Ff. *retroactif*) gwrthweithiol, gwrthweithredol, dadchwim-iol, dadchwyfol; gwrtholygol, adweithiog; gwrthyrol.

Retrocede, *v. n.* (Ll. *retro* a *cedo*) myned yn ol, yn ei ol, i'w ol, yn ei wrthol, *neu* yn y gwrth-wyneb; dadchwelyd, dychwelyd, cilio, dar-gilio, dattreillio, dadchwylo, datteithio, gwrth-rodi.

Retrocedent, *a.* dadchwylus; yn symmud o'r naill fân i'r llall; datteithiol.

Retrocession, *s.* mynediad yn ol, yn ei ol, neu yn ei wrthol; dadchwyliad, dadchweliad, dat-treilliad, dattraill, gwrthrodiad, dattreigl, dattreiglad; olfynediad; encïliad.

Retrocession of the equinoxes—olfynediad y cyhydeddau, y cyhydnosau, *neu* yr al-banau.

Retroduction, *s.* (Ll. *retroduco*) dygiad *neu* dyn-iad yn ol; tywysiad *neu* arweiniad yn ol; tyniad yn ei wrthgefn.

Retroflex, } *a.* (Ll. *retro* a *flexus*) gwrthblyg-
Retroflected, } ol; yn plygu yn ol ac yn mlaen; plygedig y ffordd hon a'r ffordd arall.

Retrofract, } *a.* (Ll. *retro* a *fractus*) gwrth-
Retrofracted, } doredig; wedi ei blygu yn ol fel pe bai wedi tori.

Retrogradation, *s.* (Ff.; Ll. *retrogradatio*) myn-ediad *neu* gerddediad yn ol; mynediad neu gerddediad yn ei ol; mynediad *neu* gerdded-iad yn ei wrthol; gwrthfynediad, olfynediad, dattreiglad, dadchwyliad, dadchwyliant, dad-wib, dadwibiad, gwrthgrwydrad, gwrthradd-iannad, gwrthdramwyad, gwrthgerddol, gwrthgerddediad; mynediad ar waeth.

Retrograde, *a.* (Ff.; Ll. *retrogradus*) yn myned yn ol, yn ei ol, *neu* yn ei wrthol; â fo neu y sydd yn myned yn ol, &c.; yn cerdded yn ol, &c.; gwrthfynedol, olfynedol, gwrthgerddol, gwrthred, gwrthgrwydrol, dattreiglawl, at-tymchwelog, dadchwelog; anghyfeiriol; cilus; yn myned ar waeth.

A retrograde course—gwrthgerdd, gwrth-gerdded, gwrthfynediad.

Retrograde, *v. n.* myned yn ol, yn ei ol, neu

yn ei wrthol; cerdded yn ol, yn ei ol, *neu* yn ei wrthol; gwrthfyned, gwrthgerdded, gwrthgrwydro, dattreiglo.

Retrogression, *s.* (Ll. *retro* a *gradior, gressus*) gwrthfynediad, olfynediad; mynediad *neu* gerddediad yn ol, yn ei ol, *neu* yn ei wrthol; dadchwel, dadchweliad, attymchweliad, dadchwiwiad, dattramwyad, ailymchweliad.

Retrogressive, *a.* gwrthfynedol, olfynedol; yn myned *neu* yn cerdded yn ol, yn ei ol; *neu* yn ei wrthol; yn cilio yn ol; yn myned ar waeth.

Retromingency, *s.* (Ll. *retro* a *mingo*) oldroetholdeb, olbisoldeb.

Retromingent, *a.* oldroethawl, olbisol; yn troethi tuag yn ol.

Retromingent, *s.* olbisfil; creadur à droetho tuag yn ol.

Retropulsive, *a.* (Ll. *retro* a *pulsus*) gwrthyrol, gwrthyredigol, gwrth-hyrddol, gwrthgurol, gwrthergydiol, yn gyru yn ol.

Retrorse, *a.* (Ll. *retrorsus*) wedi ei droi yn ol; gwrthdröedig, dattröedig.

Retrospect, *s.* (Ll. *retro* a *specio*) adolwg, gwrtholwg, adlwg, athlwg, ailolwg, adolygiad; gwrthwel, arysbai, adbaith; golwg ar bethau à aethant heibio; golwg ar bethau o'r tu ol; edrychiad yn ol.

To take a retrospect—gwrtholygu, adolygu, adlygu, athlygu, arysbeio, edrych yn ol, gwrthweled, ailolygu.

Retrospect,† *v. n.* edrych yn ol, gwrtholygu, gwrthedrych.

Retrospection, *s.* gwrtholygiad, adolygiad; edrychiad yn ol, edrychiad yn ei ol, edrychiad yn ei wrthol, gwrthedrychiad, gwrthwelediad, oledrychiad, ailolygiad, adlygiad, athlygiad, arysbeiad, adbeithiad; gwrtholwg, adlwg; edrychiad ar bethau à aethant heibio.

Retrospective, *a.* gwrtholygol, adolygol, gwrthweledigol, gwrthweledig, adlygol, athlygol, arysbeiol, adbeithiol, adbeithiog, gwrthedrychol; yn golygu yr hyn a aeth heibio; yn perthyn i'r hyn a aeth heibio; yn edrych yn ol ar bethau à aethant heibio.

Retroversion, *s.* (Ll. *retro* a *versio*) troad *neu* syrthiad yn ol; olsyrthiad; gwrthdroad, cildroad.

Retrovert, *v. a.* (Ll. *retro* a *verto*) troi yn ol, gwrthdroi, cildröi.

Retroverted, *a.* gwrthdröedig.

Retrude, *v. a.* (Ll. *retrudo*) gwthio *neu* yru yn ol; gwrthyru, cilgwthio, hergydio.

Retting, *s.* (llwgr o *rotting*) pydriad, braeniad.

Retund, *a.* (Ll. *retundo*) pylu, tynu y min, dadawchio, diflnio, troi y min.

Return, *v.* (Ff. *retourner;* Ll. *re* a *torno*) dychwelyd, myned yn ol, myned yn ei ol, dyfod yn ol, dyfod yn ei ol, troi yn ol, attröi, attöi; adchwelyd, ymchwelyd; adwedda, adrefu; myned *neu* ddyfod i adwedd; troi adref; dwyn yn ol; attalu, ad-dalu; ateb; adrodd, dywedyd, mynegu; rhoi *neu* roddi yn ol; edfryd, adferu, dadferu, edrydu; taflu *neu* fwrw yn ol; anfon *neu* ddanfon yn ol; anfon, danfon; trosi, troseglwyddo; rhoi cyfrif.

To return an answer—ateb, rhoi ateb, rhoddi ateb.

To return money—anfon, danfon, *neu* drosglwyddo arian.

To return thanks—talu diolch, rhoi diolch, rhoddi diolch, diolch.

Return, *s.* dychweliad, ymchweliad, attychwel, mynediad yn ol, mynediad yn ei ol, dyfodiad yn ol, dyfodiad yn ei ol; troad yn ol, troad yn ei ol; attaith, ymchwel, adchwel, ymchwelfa, attreigl, gwrthdaith, attro, attroad, gwrthdro; adwedd; gwrthred; ymadred; ad-daliad, attaliad, ad-dal; taledigaeth, taliad, tâl; anfoniad yn ol, danfoniad yn ol; anfoniad, danfoniad; adferiad, edfryd, edrydiad, rhoddiad yn ol; ateb; troad; cynnyrch, toraeth; ennill, elw, mael, budd, lles; cyfrif, cyfrifeb, cyfrif swyddol, adroddiad swyddogol; hysbyseb.

To make a return — talu yn ol; talu y pwyth; talu yr echwyn.

That yields a good return — cnydfawr, ffrwythlawn, toreithiog, toreithus, ffrwythig.

To yield a good return — cnydio yn dda; toreithio, toraethu.

A quick return (in trade)—ebrwydd werth er arian parod; ebrwydd werth am arian parod.

Days of return —dyddiau attychwel, dyddiau dychweliad, dyddiau cyfreithiol.

At the return of the year — yn mhen y flwyddyn.

Is this the return you make me?—ai hyn a delwch i mi? ai dyma y tâl à gaf genych?

Returns were made — gwnaed cyfrifeb; rhoddwyd cyfrif; rhoddwyd cyfrif swyddogol.

By return of post—gyda'r cyfle cyntaf trwy y llythyrdy; gyda'r cyfleusdra cyntaf trwy y llythyrdy; gyda thro y llythyrau; gyda'r cyfleusdra cyntaf.

Returnable, *a.* dychweladwy, adchweladwy, adferadwy, &c.

Return-day, *s.* dydd attychwel, dydd cyfreithiol.

Returner, *s.* dychwelwr, dychwelydd, dychweliedydd.

Returnless, *a.* annychwel, annychweladwy.

Retuse, *a.* (Ll. *retusus*) pwl, aflym.

Reunion, *s.* (Ff.) adundeb, ail undeb; aduniad, adgydiad; cyfarfod, cynnullfa.

Reunite, *v.* (*re* ac *unite*) aduno, ail uno, adgydio, adgyssylltu, ail gydio; adymuno, ail ymuno, adymgyssylltu, ail ymgydio; adgyfhau; adgymmodi.

Reunition, *s.* aduniad, ail uniad, adgyssylltiad.

Reurge, *v. a.* (*re* ac *urge*) adgymhell, ail ddirio.

Reussite, *s.* (o *Reuss,* y lle y mae i'w gael) math o halen.

Revaccinate, *v. a.* ail fufrechu; ail osod bufrech.

Revaccination, *s.* ail fufrechiad.

Revaluation, *s.* ail brisiad, adbrisiad.

Reve, *s.* (S. *gerefa*)=*Reeve.*

Reveal, *v. a.* (Ll. *revelo*) dadguddio, egluro, eglurhau, dïargelu, anghelu, amlygu, goleuo; dangos, arddangos.

To reveal one's self—ymddadguddio, ymegluro, ymeglurhau, egluro ei hun, dadguddio ei hun.

Reveal, † *s.* dadguddiad.

Revealable, *a.* dadguddiadwy.

Revealableness, *s.* cyflwr *neu* ansawdd dadguddiadwy.

Revealer, *s.* dadguddiwr, dadguddiedydd, dadguddydd, amlygwr.

Revealment, *s.* dadguddiad, dadguddiedigaeth.

Reveals, *s. pl.* ochrau drws *neu* ffenestr.

Reveille, *s.* (Ff.) sain tabwrdd y pylgain; tabwrdd cynnwyre, tabwrdd y pylgain.

Revel, *v. n.* (Is. *revelen*) wttresa, gloddesta, gloddestu, gwledda, gorwledda, glythinebu, cyfeddach; cadw *neu* gynnal noswaith lawen; cadw *neu* gynnal gwŷl mabsant; rhonta, crychlamu.

Revel, *s.* wttres, sarllach, gloddest, cyfeddach. Master of the revels — brenin cyfeddach; brenin yr annhrefn.

Revel, } *s.* ochr drws *neu* ffenestr.
Reveal, }

Revel, *v. a.* (Ll. *revello*) tynu yn ol, dattynu.

Revelation, *s.* (Ff. o'r Ll. *revelatus*) dadgudd-iad, dadguddiedigaeth, arddadguddiad, arddadgudd, arddamlewyrchiad, annirgeliad, amlygiad; y Dadguddiad.

Revellent, *a.* (Ll. *revello*) dattynol; à dyno yn ol.

Reveller, *s.* wttreswr, gloddestwr, cyfeddachwr, cyfeddwalch.

Revelling, } *s.* wttresiad, gloddestiad; glodd-
Revelment, } estwaith, gloddest, sarllach, wttresiaeth, cyfeddach.

Revel-rout, *s.* wttres, gloddest, sarllach, wttreswaith, gloddestwaith, wttreswyl; terfysglu; tyrfa fawr o bobl afreolus wttresgar; torf yr wttres; tewdwr o'r werinos.

Revelry, *s.* wttres, gloddest, sarllach, gloddestwaith, wttresdod, wttresiaeth, cyfeddach; llawenydd afreolus, wttresgar, *neu* annystaw.

Revendicate, *v. a.* (Ff. *revendiquer*) hòni hawl i beth à gymmerwyd ymaith; arddelwi adferiad peth; arddelwi, hawlio.

Revendication, *s.* arddelwad peth à gymmerwyd ymaith; arddelwad, honiad hawl; hawl i adferyd peth.

Revenge, *v. a.* (Ff. *revencher;* Ll. *vindico*) dïal, dïalu, ymddïal ar, dïaleddu, dïalu dïal, gwneuthur dïal; talu y pwyth.
To revenge on—dïal ar, ymddïal ar, &c.
To revenge one's self—ymddïal, ymddïalu.
To be revenged—ymddïal, ymddïalu.
To revenge one's self on—ymddïal ar, &c.
He that revengeth shall find vengeance—y dïalwr a gaiff ddïaledd.
Revenge me of (on) my persecutors—dïal drosof ar fy erlidwyr (*Jer.* xv. 15); dïal fi ar fy erlidwyr.
Not revenged—annïaledig; heb ddïal arno; diddïal; anghospedig, digosp.
To revenge to excess—gorddïal, gorddïalu, gorddïaleddu.

Revenge, *s.* (Ff. *revenche*) dïal; dïaledd, dïalaeth; ymddïal.
Excess of revenge—gorddïaledd, gorddïal.
Self-revenge—ymddïal, ymddïaledd.
To take revenge—dïal, dïalu, dïaleddu.
To take revenge on—dïal ar, ymddïal ar.

Revengeful, *a.* dïalgar, dïaleddgar, ymddïalgar, dïaleddus, dïalus.

Revengefulness, *s.* dïalgarwch, dïaleddgarwch, dïalleddusrwydd, ymddïalgarwch.

Revengeless, *a.* diddïal; heb ddïal arno; annïaledig.

Revengement, *s.* dïalaeth, dïaledigaeth, dïalyddiaeth, dïaledd, dïal.

Revenger, *s.* dïalwr, dïalydd, dïaleddwr; ymddïalydd: *f.* dïalyddes, dïalwraig.

Revenue, *s.* (Ff. *revenu;* Ll. *revenio*) cyllid, ardreth, daered; derbyniadau; blwyddred; gwobr, gobrwy, ced; talp cigog ar ben danas.
Public revenue—cyllid y wladwriaeth, daered gyffredin.
Royal revenue—cyllid breninol, cyllid y brenin.

Reverb,† *v.* (Ll. *reverbero*)=*Reverberate.*

Reverberant, } *a.* dadseiniol, adseiniol, gwrth-
Reverberate, } seiniol, arsteiniol; gwrthgurol, gwrthyrol, dargurol, dygurol.

Reverberate, *v.* (Ll. *reverbero*) adseinio, dadseinio, gwrthseinio, arstain, arsteinio, amseinio, adleisio, arysteinio; peri, rhoddi, *neu* fwrw adsain; gwrthguro, gwrthyru, gwrthdaro, adguro, dyguro; taro *neu* guro yn ol, yn ei wrthol, *neu* yn ei wrthgefn; gyru yn ol; adlewyrchu.

Reverberation, *s.* (Ff.) adseiniad, dadseiniad, gwrthseiniad, amseiniad, arsteiniad; adsain, dadsain, adlais; gwrthguriad, gwrthyriad; gwrthgur.

Reverberatory, *a.* adseiniol, dadseiniol, gwrthseiniol; gwrthgurol, adgurol, dargurol, dygurol, gwrthyrol; gwrthdarawol, gwrthdarawedigol; gwrthdroawl; yn gyru *neu* yn curo yn ol; adlewyrchol.

Reverberatory, *s.* ffwrn wrthyrol, wrthgurol, *neu* wrthdroawl, &c.

Revere, *v. a.* (Ll. *revereor*) parchu, perchi, gorpherchi, anrhydeddu, erbarchu, edmygu, ceinmygu, urddunо, arddunо, ioli; ofni; parchus ofni, arswydo.

Reverence, *s.* (Ff.; Ll. *reverentia*) parch, erbarch, dybarch, anrhydedd, enrhydedd, edmygedd, edmyg; urddunіant, arddunіant, bri; parchus ofn, parchedig ofn; parchedigaeth.
To do reverence—ymgrymu, ymostwng.
To be had in reverence—parchu, perchi, anrhydeddu, &c.
Your reverence—eich parchedigaeth; eich tadoliaeth.
Saving your reverence—nid er anmharch i chwi.
Want of reverence=*Irreverence.*

Reverence, *v. a.* parchu, perchi, gorpherchi, gorbarchu, erbarchu, anrhydeddu, edmygu, urddunо, parchus ofni.

Reverencer, *s.* parchwr, parchydd, gorpherchwr, &c.; addolwr, addolydd, addoliedydd.

Reverend, *a.* (Ff.; Ll. *reverendus*) parchedig, parchadwy, hybarch, haeddbarch, gwirbarch, edmyg, edmygedig, edmygol, myg, mygedig; ofnadwy.
Very reverend—trapharchedig, tra pharchedig, gorbarchedig.
The Very Reverend the Dean—y Trapharchedig y Deon; y Gorbarchedig Ddeon; y Tra Pharchedig Ddeon.
Right reverend—gwir barchedig.
The Right Reverend the Bishop of Bangor—Gwir Barchedig Esgob Bangor; y Gwir Barchedig Esgob Bangor.
Reverend father in God—parchedig dad yn Nuw; anrhydeddus dad yn Nuw.
Most reverend—parchedicaf.
The Most Reverend the Archbishop of Canterbury — Parchedicaf Archesgob Caergaint; y Parchedicaf Archesgob Caergaint.
Most reverend father in God—parchedicaf dad yn Nuw; anrhydeddusaf dad yn Nuw.

Reverent, } *a.* parchus, parchlawn; parch-
Reverential, } edig; edmygol; gostyngedig, ufydd.

Reverently, *ad.* yn barchus, gyda pharch, gyda gwylder.

Reverer, *s.* parchwr, parchydd; addolwr, addolydd, iolwr.

Reverie, } *s.* (Ff. *réverie*) hepynt, breuddwyd
Revery, } effro, gofreuddwyd, syn fyfyrdod, syn feddwl; mympwy; dychymyg; gweledigaeth.

Reversal, *a.* gwrthdroawl, ymchweliadol, dymchweliadol.

Reversal, *s.* (o *reverse*) ymchweliad, dymchweliad, troad; newidiad; diddymiad, dirymiad, dilead; gwrthfarn.

Reverse, *v. a.* (Ll. *reversus*) gwrthdroi, troi yn ol, troi yn ei ol, troi i'r gwrthwyneb, troi yn y gwrthwyneb, ymchwelyd, dymchwelyd; troi y gwrthwyneb i fyny; troi y pen isaf yn uchaf; diddymu, dirymu, dilëu; cyfnewid; rhoi y naill yn lle y llall; dattröi.

To reverse a sentence—ymchwelyd brawd, ymchwelyd barn, diddymu barn; adfarnu, dadfarnu.

Reverse,† *v.* gwrthalw; dychwelyd.

Reverse, *s.* gwrthdro, gwrthdroad, tro, troad; cyfnewidiad; ymchwel; tro *neu* droad yn ngwrthol; tro *neu* droad yn ngwrthwyneb; gwrtholiad; gwrthwyneb, gwrthbeth; cefn, tu cefn; y gwrth; tur; anffawd, aflwydd; trofedd, (*pl.* trofeddau).

The reverse of a coin—gwrthwyneb dryll o arian bath; y gwrthwyneb, y cefn, y tu cefn, y gwyneb arall.

Reverse, *a.* gwrthwyneb; gwrthdröedig, ymchweledig.

Reversed, *a.* gwrthdröedig, dadchweledig, &c.; â'r wyneb isaf i fyny.

Reverseless, *a.* anwrthdroadwy; anniddymadwy; anymchweladwy, anchweladwy.

Reversible, *a.* gwrthdroadwy; ymchweladwy; à ellir ei ymchwelyd; diddymadwy.

Reversion, *s.* (Ff.; Ll. *reversio*) gwrthdroad; ymchweliad, ymchwel, attychwel, attychweliad, arymchweliad, arymchwel, darymchwel, darymchweliad; olfeddiant; olyniaeth, oliannaeth; troad yn ol.

He has an estate in reversion—y mae iddo dir mewn dysgwyliad; y mae tir i ddyfod iddo; y mae tir à ddaw iddo ef o attychwel; y mae tir à ddaw iddo ef wrth hawl attychwel.

The reversion (of the estate) is his—efe bïau yr attychwel.

Reversionary, *a.* attychweledigol, ymchweledigol, arymchwelog, attychwelog, damddychwelog; olfeddiannol; oliannol; etifeddol; à ddel i un ar ol marw arall.

Reversioner, *s.* attychwelydd; olfeddiannwr; un âg attychwel iddo.

Revert, *v.* (Ll. *reverto*) troi yn ol, yn ei ol, *neu* yn ei wrthol; taro *neu* fwrw yn ol; ymchwelyd, adymchwelyd, darymchwel, darymchwelyd, damddychwelyd, dychwelyd, gwrthdroi; myned *neu* syrthio yn ol; myned *neu* syrthio yn ol i'r un dwylaw drachefn.

Revert,† *s.* dychweliad, attro, gwrthdro.

Revertent, *s.* adymchwelai, gwrthdröedydd, meddyginiaeth wrthdröedigol.

Revertible, *a.* ymchweladwy, gwrthdroadwy, &c.

Revertive, *a.* ymchweliadol, ymchweledigol, gwrthdröedigol, newidiol.

Revery, *s.*=*Reverie.*

Revest, *v.* (Ll. *revestio*) ad-ddilladu, dilladu eilwaith, ail wisgo; ail roddi meddiant; adosod mewn meddiant; adsefydlu, ail sefydlu; adosod, ail osod; gosod, rhoddi, dodi; dychwelyd i'w gynberchenog.

Revestiary, } *s.* (Ff. *revestiaire;* Ll. *revestio*)
Revestry, } gwisgfa, gwisgle.

Revetment, *s.* (Ff. *revêtement*) rhyfagwyr; mur cadarn y tu allan i'r gwrthglawdd mewn caerwaith; rhagfur.

Revibrate, *v. n.* ymdaflu yn ol, adsiglo, ail siglo, ail chwyrnellu, &c.

Revibration, *s.* adsigliad, ail chwyrnelliad.

Reviction,† *s.* (Ll. *re* a *vivo, victum*) adfywhad, adfywiad.

Revictual, *v. a.* ad-ddarnerthu, adborthi, adfwydo, ail borthi.

Revie,† *v.* (*re* a *vie*) adymorchestu; gwrthherio.

Review, *v. a.* (Ff. *revue*) adolygu, adchwilio, ail olygu, arolygu, ail chwilio, edlygu, adsylwi ar, adsyllio, adsyllu; cymmeryd golwg ar; cymmeryd manol olwg ar; cymmeryd ail olwg ar; ail gymmeryd golwg ar; ail fwrw golwg ar *neu* dros; bwrw ail olwg ar *neu* dros; bwrw yr ail olwg ar *neu* dros; golygu eilwaith; bwrw ail sylliad *neu* ail sylw ar; ail edrych dros; edrych drosto eilwaith; bwrw golwg drachefn *neu* o newydd ar; adystyried, ail ystyried; adbrofi; ail ddarllen; adolrhain; adgyweirio.

To review a regiment—adbrofi, adolygu, *neu* arolygu catrawd.

Review, *s.* adolygiad, adchwiliad, ail olygiad, arolygiad, adweliad, adwelediad, adymweliad; adolwg, ail olwg, adlwg, edlwg, adwel, adymwel; adsylw, adsylwad, adsyll; gorsylwad; adchwil; adchwilfa; adbrawf; adbrofiad; adgyweiriad.

The Critical Review—yr Adolygiad Beirniadol; yr Adchwil Beirniadol; yr Adchwilfa Feirniadol.

The Quarterly Review—yr Adolygiad Trimisol.

Military review—adbrawf milwyr; adolygiad milwyr; arolygiad milwraidd.

I saw him at the review—gwelais ef yn yr adbrawf.

Reviewer, *s.* adolygydd, adolygwr, adolygiedydd, adchwiliwr; beirniad.

Revigorate, *v. a.* adwrygio, adrymusu, ail rymuso.

Revile, *v. a.* (*re* a *vile*) difenwi, difrïo, cablu, gwaradwyddo, senu, edliw, edliwied, duo.

Revile,† *s.* gwaradwydd, gwarthrudd, cabl, sen, difenwad.

Revilement, *s.* difenwad, gwarthrudd, gwaradwydd, cabl, cabledd, sen.

Reviler, *s.* difenwr, difenwydd, difrïwr, cablwr.

Reviling, *s.* difenwad, gwarthruddiad, difrïad, cabliad; cabl, sen.

Revindicate, *v. a.* ail gyflawnhau; ail amddiffyn; adholi, ail hawlu.

Revisal, *s.* (o *revise*) adolygiad, adchwiliad, ail chwiliad, ail olygiad, ail edrychiad drosodd; adgyweiriad, diwygiad; ail ddarlleniad.

Revise, *v. a.* (Ll. *revisus*) adolygu, adchwilio, ail olygu, ail chwilio; adgyweirio, cyweirio, diwygio.

Revise, *s.* adolygiad, adchwiliad, adlwg; ail broflen, adbroflen, eilbrawf, diwyglen.

Reviser, *s.* adolygydd, adolygwr; adgyweiriwr.

Revision, *s.* (Ff.) adolygiad, adchwiliad, ail olygiad, ail chwiliad, adgyweiriad, adholiad; ail ddarlleniad; cyfrifiad trigolion.

Revisional, } *a.* adolygiadol, adchwiliadol; ad-
Revisionary, } gyweiriol.

Revisit, *v. a.* (Ll. *revisito*) ail ofwyo, adofwyo, ail ymweled âg, adymweled âg, ymweled eilwaith â; †adolygu.

Revisitation, *s.* adofwy, adofwyad, ail ofwyad, ail ymweliad, adymweliad.

Revisor, *s.* cyfrifwr trigolion (yn Rwssia).

Revival, *s.* (o *revive*) adfywiad, adfywhad, adfywiant, ymadfywiad, dadebriad.

Revivalist, *s.* adfywiedydd, ymadfywiwr.

Revive, *v.* (Ll. *re* a *vivo;* Ff. *revivre*) adfywio, adfywhau, bywhau, bywiogi, bywiocäu, adfywiocäu, adfyw, dadebru, dadlewygu, dadedwino; adferu, adnewyddu; ymadfywio, ymfywio; ail wrygio; ymadnewyddu.

Reviver, *s.* adfywiwr, adfywhäwr, adfywiedydd; adnewyddwr.

Revivificate, *v. a.* (Ff. *revivifier*) adfywio, adfywhau, &c.

Revivification, *s.* adfywiad, adfywhad, adfywiant, dadebriad, &c.; adferiad, adferedigaeth.

Revivify, *v. a.* (Ff. *revivifier*) adfywio, adfywhau, adfywiocäu, adfywiogi; bywiogi, bywiocäu, ail wrygio; adnewyddu.

Reviving, *p.* adfywiol, adfywiocaol, bywiocaol, bywiocäus, bywhaol; adferol.

Reviving, *s.* adfywiad, adfywhad, adfywiocâd; adnewyddiad.

Reviviscence, } *s.* ymadfywiad, ymadfywiant;
Reviviscency, } dychweliad i fywyd; adfywiad, adfywhad; ymadnewyddiad.

Reviviscent, *a.* adfywiol, adfywiocaol, bywiocaol, bywiocäus, bywhaol; ymadfywiol.

Revivor, *s.* adfywiad hawl (yn y gyfraith).

Revocable, *a.* (Ff.; Ll. *revocabilis*) gwrthalwadwy; â ellir ei alw yn ol; dadalwadwy.

Revocableness, *s.* cyflwr gwrthalwadwy, ansawdd dadalwadwy.

Revocate,† *v. a.* galw yn ol, gwrthalw.

Revocation, *s.* (Ff.; Ll. *revocatio*) gwrthalwad, dadalwad; galwad yn ol; gwrthalwedigaeth, galwedigaeth yn ol; dadfarniad; dadweddiad; diddymiad, dirymiad, dilead; ymchweliad; dattroad; diddymedigaeth deddf; ymchwelediqaeth brawd.

Revocatory, *a.* gwrthalwedigol; diddymedigol.

Revoice, *v. a.* adleisio; adgyweirio tôn *neu* lais.

Revoke, *v.* (Ll. *revoco;* Ff. *revoquer*) galw yn ol, gwrthalw, dadfarnu, adfarnu, dadalw; diddymu, dirymu, dilëu, ymchwelyd; tynu yn ol; ymwrthod (gyda'r cardiau); †attal, rhwystro.

To revoke a sentence—dattröi barn, dadfarnu, adfarnu, ymchwelyd brawd.

That may be revoked=*Revocable.*

Not to be revoked=*Irrevocable.*

Revoke, *s.* ymwrthod (gyda'r cardiau).

Revokement, *s.*=*Revocation.*

Revolt, *v.* (Ff. *revolter;* Ll. *revolvo*) gwrthgilio; gwrthryfela, gwrthryfelu; anffyddloni; ciliaw oddi wrth ei ben a'i blaid; ymadaw â'i ben a'i blaid; troi, gwrthdroi; gyru ar ffo; gwrthymgodi, gwrthgynhyrfu; brawychu; peri synu *neu* chwitho; peri troi oddi wrth beth gyda gwrthflas *neu* gasineb; sarhau.

A revolting and rebellious heart — calon wrthnysig ac anufyddgar (*Jer.* v. 23.)

Revolt, *s.* gwrthgiliad, gwrthgil, gwrthgwymp, bradgiliad, gwrthryfel, gwrthgynhwrf, gwrthlywiad; cyndynrwydd, anufudd-dod; †gwrthgiliwr.

Revolter, *s.* gwrthgiliwr, gwrthgilydd, gwrthgiliedydd, bradgiliwr; gwrthryfelwr.

Revolting, *a.* gwrthgynhyrfus; sarhäus; gwrthgas; à baro gasineb *neu* wrthnaws; ffiniouawl, ffinionllyd, ffinion; gwrthryfelgar, anufyddgar.

Revoluble, *a.* amdreigladwy, amdroadwy.

Revolute, *a.* (Ll. *revolutus*) amdröedig, amdreilliog; dattröedig; wedi ei amdroi *neu* ei rolio yn ol; wedi ei amdroi tuag i lawr; tröedig tuag allan.

Revolution, *s.* (Ff.; Ll. *revolutus*) amdreigiad, cylchdroad, treiglad, treigliad, treigliant, troad; tro, ymdro, amdro, damdro, treigl, traigl, attreigl, chwyldro, trogylch, cylchdro, chwylgylch, chwyldaith, cylchlwybr, chwylfa, adchwylfa, adchwyl, cylchrawd, cylchrad; chwyldroad, adgylchiad; tröedigaeth o amgylch; treigledigaeth, attreigledigaeth, amdreigledigaeth, amdröedigaeth; cyfnod; tymor.

The French revolution — y chwyldroad Ffrengig, yr adgylchiad Ffreinig.

The revolution—y chwyldroad, yr adgylchiad, yr adchwyl.

The revolution of the heavens—chwyldro nefoedd *neu* y ffurfafen; amdreiglad nefoedd *neu* y ffurfafen.

Revolution of public affairs—cylch cyfnewid negesau *neu* faterion gwlad; chwyldroad achosion *neu* negesau gwlad.

Revolution of human affairs—cylch cyfnewid y byd a'r amseroedd; tro a chyfnewid y byd a'r amseroedd.

The revolution of the year—chwyl, tro, treigl, *neu* gwrs y flwyddyn.

At the year's revolution — yn nhen y flwyddyn.

In the revolution of ten years—yn nhen deng mlynedd.

Revolution of time—treigl, amdreigl, *neu* amdreiglad amser; pyth.

Revolutionary, *a.* chwyldroadol, chwyldroawl, adgylchiadol, chwylfaol, adchwylfaol, adchwylus, cylchdroawl; perthynol i chwyldroad; gwrthryfelgar.

Revolutioner, } *s.* chwyldröwr, chwyldröedydd,
Revolutionist, } adchwyliedydd.

Revolutionism, *s.* chwyldroadaeth.

Revolutionize, *v. a.* peri *neu* wneuthur chwyldroad; chwyldroi ffurflywodraeth.

Revolve, *v.* (Ll. *revolvo*) amdroi; myned, dyfod, treiglo, troi, *neu* ymdroi o amgylch; troi yn ei gylch; cylchdroi, amdreiglo, amdreillio, chwyldroi, amrodi; treiglo, troi, *neu* yru oddi amgylch; peri i fyned oddi amgylch; troi drachefn a thrachefn; dwyn ystyried.

To revolve in the mind, } bwrw, ail
To revolve in one's mind, } fwrw, troi, treiglo, *neu* attreiglo yn y meddwl; mynych fwrw *neu* fynych dreiglo yn y meddwl; myfyrio ar; pwyso.

Revolved in the mind — treigledig *neu* attreigledig yn y meddwl.

Revolvency, *s.* treigledigaeth, attreigledigaeth, amdreigledigaeth, tröedigaeth o amgylch.

Revolver, *s.* attreiglydd, amdreiglydd, amdreiglor.

Revomit, *v. a.* adgyfogi.

Revulsion, *s.* (Ff.; Ll. *revulsus*) tyniad ymaith, tyniad o'r gwraidd; tyniad *neu* ddaliad yn ol; dattyniad; troad *neu* dyniad dolur o'r naill ran o'r corff i'r llall.

Revulsive, *a.* à dyno ymaith *neu* o'r gwraidd; dattynol; à dyno yn ol.
Revulsive, *s.* dattyniedydd; peth à dyno glefyd o'r naill ran o'r corff i'r rhan arall.
Rew, †*s.*=*Row.*
Reward, *s.* (Norm. *regarder, regardes: re* ac *award,* yn ol *Skinner*) gwobr, gobrwy, gobr, dobr, arobrwy; tâl, taledigaeth, pwyth, rhybwyth; cyflog; daffar; rhyglyddiant; cyfarwys.
We receive the reward of our deeds—yr ydym yn derbyn yr hyn a haeddai y pethau à wnaethom.
Honorary reward — cyfarwys, cyfarws, gobrwy mygedol.
Just reward—iawn obrwy.
Reward, *v. a.* gobrwyo, gwobrwyo, gwobri, arobrwyo, gobri; rhoi *neu* dalu gwobr i; talu; rhoddi i.
Rewardable, *a.* gobrwyadwy, gobradwy, hywobr.
Rewardableness, *s.* hywobredd; ansawdd gobradwy.
Rewarder, *s.* gobrwywr, gobrwyedydd, gwobrwywr, gobrwyydd.
Rewardless, *a.* diwobrwy, diwobr.
Reword, † *v. a.* adeirio, ail adrodd.
Rewrite, *v. a.* adysgrifenu, adysgrifo, ail ysgrifenu, ysgrifenu o newydd.
Rex, *s.* (Ll.) brenin, teyrn, rhi.
Reynard, **Renard,** *s.* = *Renard.* *Reynard.*
Reys, *s.* meistr llong Aifftaidd.
Rhabarbarate, *a.* (Ll. *rhabarbarum*) nawsedig *neu* drwythedig â rheonllys.
Rhabarbarine, *s.* dansawdd rheonllys.
Rhabarbarum, *s.* (Ll.) rheonllys.
Rhabdology, *s.* (Gr. *rhabdos* a *logos*) llathrifiaeth.
Rhabdomancy, *s.* (Gr. *rhabdos* a *manteia*) llatharmes.
Rhachialgia, *s.* (Ll. o'r Gr. *rhachus* ac *algos*) poen yn asgwrn y cefn.
Rhachis, *s.* (Gr.) tumon planigion.
Rhachitis, *s.* (Gr.) y llechau, y llech.
Rhamnus, *s.* (Gr. *rhamnos*) y rhafnwydd.
Rhamphastos, *s.* (Gr. *rhamphos*)=*Ramphastos.*
Rhapsodist, *s.* amryganwr, amrygerddwr, ffregodwr, ffregodlithwr; clerwr.
Rhapsodic, **Rhapsodical,** *a.* (o *rhapsody*) ffregodawl; gwibiol, cymmysg, didrefn, digyssylltiad, anghyssylltedig; clerwraidd.
Rhapsodize, *v. n.* ffregodlithio, amryganu, clerganu.
Rhapsody, *s.* (Gr. *rhapsódia*) amrygan, amrygerdd, clergan; casgliad amryfath, amrygasgl; cymmysgedd, cymmysg; ffregodlith, ffregod; cymmysglith.
Rhatany, **Ratany,** **Ratanehia,** *s.* (enw brodorol yn Chili) math o fanwydden yr arferir ei gwreiddyn yn feddygol.
Rheinberry, *s.* rhafnwydden.
Rheine, *s.* (o *rheum*) dansawdd y rheonllys.
Rheingrave, **Rhingrave,** *s.* (Al. *Rheingraf*) Rheiniarll.
Rheometer, *s.* (Gr. *rheô* a *metron*) rhefesur, rhefydrai.
Rheoscope, *s.* (Gr. *rheô* a *scopeô*) rhesyllyr.
Rhesus, *s.* math ar epa.
Rhetor, *s.* (Ll.; Gr. *rhêtôr*)=*Rhetorician.*
Rhetoric, *s.* (Gr. *rhêtoricé*) areitheg, rheithioreg, rheithoreg, rheitheg, ffraethoneg, ffraethineb, areithyddiaeth, ffraetheg, ffraetheb, arodoriaeth, celfyddyd areithio; hyawdledd, arawd, arawn.
Exemplar of rhetoric—egluryn ffraethineb.
Rhetorical, *a.* areithyddol, rheithegol, areithegol, ffraethegol, ffraethebol; hyawdl.
Rhetorically, *ad.* yn areithyddol, &c.; mewn modd areithyddol.
Rhetoricate,† *v. n.* chwareu yr areithydd; ffraethebu.
Rhetorication,† *s.* rheithegiad, helaethiad areithyddol.
Rhetorician, *s.* (*Ff. rhetoricien*) rheithiorydd, rheithegwr, rheithegydd, areithegydd, rheithioregydd; dysgawdwr areithyddiaeth *neu* ffraethoneg; ffraethebydd; un hyfedr *neu* gyfarwydd mewn areithyddiaeth; areithydd, areithiwr, aronan, arodawr.
Rhetorician,† *a.* cyfaddas i ddysgawdwr areithyddiaeth.
Rhetorize, *v.* rheithiori; arddangos trwy droell ymadrodd areithyddol; †chware yr areithydd, ymadroddi fel areithiwr.
Rheum, *s.* (Gr. *rheuma*) gormwyth; llifyn; llifyn y pen; dyferwst.
Rheum, *s.* (o *Rha,* hen enw yr afon Volga) rheonllys.
Rheumatic, *a.* (Gr. *rheumaticos*) gormwythig, gormwythol, gormwythaidd; perthynol i'r ewynwst; eiddo yr ewynwst; claf o'r ewynwst; claf o glefyd y giau.
Rheumatic pains — poenau yr ewynwst; poenau gormwythig.
A rheumatic person—un claf o'r ewynwst; un claf gân yr ewynwst; un â'r ewynwst arno.
Rheumatism, *s.* (Gr. *rheumatismos*) cryd cymmalau, gewynwst, clefyd y gewynau, clefyd y giau, gwyneg.
The rheumatism—yr ewynwst, &c.
Rheumy, *a.* (o *rheum*) gormwythaidd, gormwythol, gormwythig, gormwythus, gormwythog; llifynog.
Rhexis, *s.* (Gr.) toriad gwythïen.
Rhime, *s.*=*Rhyme.*
Rhinalgia, *s.* (Gr. *rhin* ac *algos*) poen yn y trwyn, trwynwst.
Rhinanthus, *s.* (Gr. *rhin* ac *anthos*) cribell, arian gwion, arian côr, arian gweirwyr.
Rhino, *s.* dychymygair am arian.
Rhinocerial, *a.* rhyncornaidd, rhyncornig; perthynol *neu* debyg i'r rhyncorn.
Rhinoceros, *s.* (Ll. a Ff.; Gr. *rhinocerôs*) rhyncorn, trwyngorniog, trwyngorn, duryn-gorn.
Rhinoceros bird—yr aderyn cornbig.
Rhinophonia, *s.* (Gr. *rhin* a *phônê*) dywedyd *neu* lefaru trwy y trwyn.
Rhinoplastic, *a.* (Gr. *rhin* a *plassô*) yn llunio trwyn; à lunio drwyn; trwyn-ffurfiol.
Rhizoma, *s.* (Gr.) gwreidd-gyff.
Rhizophagous, *a.* (Gr. *rhiza* a *phagô*) gwreiddysol; yn byw *neu* yn ymborthi ar wreiddiau.
Rhizostomes, **Rhizostoma,** *s. pl.* (Gr. *rhiza* a *stoma*) gwreiddeneuod.
Rhodiola, *s.* (Gr. *rhodon*) rhoslys, pren y ddannodd.
Rhodite, *s.* (Gr. *rhodon*) rhosfaen.
Rhodium, *s.* (Gr. *rhodon*) delidfaen à gafwyd allan yn 1803; rhosadwyn, rhosddelid.
Rhododendron, *s.* (Gr. *rhodon* a *dendron*) rhoswydd, rhosgoed, rhoswydden, rhosbren.
Rhodonite, *s.* manganys anmhur.

Rhoetizite, } *s.* math ar ddelidfaen.
Rhetizite, }
Rhomb, } *s.* (Gr. *rhombos*) lleddfbetryal,
Rhombus, } lleddfbedror, pedryleddf, petryal lleddf.
Rhombic, *a.* ar ddull lleddfbedror; lleddfbetryal, pedryleddf.
Rhombo, } *s.* math o dorbwt.
Rhombus, }
Rhombohedral, *a.* (Gr. *rhombos* a *hedra*) pedryleddfochr; âg ochrau lleddfbetryal *neu* bedryleddf iddo.
Rhombohedron, *s.* pedryleddochr, corff lleddfbetryal.
Rhomboid, *s.* goleddfbetryal, gobedryleddf, petryal goleddf; petryal hirgul goleddf.
Rhomboid, } *a.* goleddfbetryal, gobedryleddf,
Rhomboidal, } lleddfbetryalaidd.
Rhomb-spar, *s.* halgalchen.
Rhubarb, *s.* (Ll. *rhabarbarum;* Pers. *rawand;* Syr. *raiborig*) rheonllys.
Rhubarbarine, *s.* dansawdd rheonllys.
Rhubarby, *a.* tebyg i reonllys.
Rhumb, *s.* (o *rhomb*) nen-gylch; pwnc yn nghompawd y morwr.
Rhumb-line—llinell sidgron, llinell nen-gylchol; llinell pig y compawd.
Rhyme, *s.* (S. *rim;* Al. *reim*) odl, awdl, cyfodl, cyfawdl; cyfodlaeth; cynghanedd; rhimyn, rhimpyn; cerdd.
Without either rhyme or reason—heb na rhimyn na rheswm; heb na chynghanedd na synwyr.
Catenated rhyme — cadwynodl, cadwynawdl.
Rhyme, *v.* odli, cyfodli, cydodli; cynghaneddu; mydru, mydryddu, rhimynu, rhimpynu, rhigymu, prydu, bwrw awen.
Rhymeless, *a.* diodl, diawdl, anghyfodl, anghyfawdl, heb odl, heb gyfodl; penrydd, digynghanedd.
Rhymer, } *s.* rhimynwr, rhimpynwr, cyfodlwr, odlwr, odlydd, rhigymwr,
Rhymist, } mydrwr, mydrydd, cynghanedd-
Rhymster, } A doggerel rhymer—rhospwr. [wr.
Rhymic, *a.* rhimynol, rhimpynol; cynghanedol; mydryddol.
Rhyncholite, *s.* (Gr. *rhugchos* a *lithos*) ysnidfaen; pig aderyn wedi ymgaregu.
Rhythm, } *s.* (Gr. *rhuthmos*) mydr a chy-
Rhythmus, } nghanedd, mesur a chynghanedd; cyhydedd, mydr; mydraeth; cynghanfydr.
Rhythmical, *a.* cynghaneddol, mydrol, mydraidd; odlog, cynghan-fesurol; â fo mewn mydr *neu* fesur a chynghanedd.
Rial, } *s.* (Ysp. *real*)= { *Real.*
Real, } { *Rial.*
Rial, *s.* (o *royal*) chweugain Yspaen.
Riant, *a.* (Ff.) chwarddol, chwerthinus; gwenol; hoew, gwych.
Rib, *s.* (S. ac Is.; Al. *rippe;* D. *ribbe*) asen, eisen; corfas, corfasen; llain, rhibyn, rheng: *pl.* ais, asenau, eisenau, asau, eisau, eisiau, corfasau, corfais.
A small rib—eisig, asen fechan.
The short ribs—y byrais, yr ais byrion, y byr asenau, y mân eisau.
The long ribs—yr hirais, yr ais hirion.
The ribs of a ship—eisgoed llong; y coed ceimion yn ystlysau llong; coed ceimion llong.
The rib-timber of a kiln, } llymwydd odyn,
Kiln ribs, } prenau odyn,
coed duon.
Spare-rib—asen y frân; eisglwyd mochyn; culasen, (*pl.* culais).
Rib, *v. a.* eisenu, asenu, eisio, gwragenu.
Ribald, *s.* (hen Ff. *ribault;* Ll. *ribaldus*) croesan, croesaniad; bawyn, (*pl.* bawch), budryn, bryntyn.
Ribald, *a.* croesanaidd, croesaneiriog; gwael, budr, brwnt, bawaidd.
Ribaldish, *a.* croesanaidd; bryntaidd, budraidd.
Ribaldrous, *a.* croesanog, croesanaidd, budreiriog, serth; budr, brwnt; anllad.
Ribaldrous song—croesangerdd.
Ribaldry, *s.* (It. *ribalderia*) croesanaeth, croesaren, serthedd, budreiriogrwydd, croesaneiddrwydd; budriaith, crasder.
Riband, *s.*=*Ribbon.*
Ribbed, *a.* eisenog, eisog; âg ais *neu* asenau iddo; rhengog, rhibynog.
Ribbing, *s.* asenau; cynnulliad o ais; asenia: britharddiad.
Ribbon, } *s.* (C. *rhibin*, yn ol *Webster;* Gw.
Riband, } *ruibin;* Llyd. *rubanon;* Ff. *ruban*)
Ribband, } ynoden; ffunen, amrwy; rhiban; rhwymyn.
Ribbon-weaver—gwëydd ynodenau, &c.; ynodenwr, ynodenydd.
Ribboned, *a.* ynodenog; addurnedig âg ynodenau *neu* ribanau.
Ribbon-grass, *s.* pefrwellt.
Ribes, *s.* (Ll.) rhyfwydd, rhesinwydd.
Ribgrass, } *s.* astyllenlys, estyllenlys, astyllenes,
Ribwort, } llwynhidydd, llwyn y neidr, llysiau yr ais, ysgelynllys, pen y gwŷr, sawdl Crist, eiswellt, traeturiaid y bugeilydd.
Ribwort plantain=*Ribwort.*
Ribine, *s.* math ar offeryn cerdd dannau.
Ribless, *a.* diais, heb ais, heb asenau.
Ribroast,† *v. a.* dygaboli; rhoi maeddgen i; llachio.
Rice, *s.* (Ff. *riz, ris;* Al. *reis, reins*) rhisyd, rheis=math o ydrawn tramor.
Rice bunting, } bras y cyrs, aderyn bras y
Rice bird, } cyrs.
Rich, *a.* (Ff. *riche;* S. *ric, rice;* Al. reich) cyfoethog, goludog, berthog; cyllidog; â llawer ar ei helw; anlloeddog, anllawdd; gwerthfawr, gwych, harddwych, hardd, berth; goddidog, odidog; ffrwythlawn, ffrwythig, ffaeth, prydd, tirf, brolaidd; bras; danteithiol, moethus; costus, costfawr, treulfawr, diamdlawd, dibrin; peraidd, chweg, melus; hyfryd; rhywiog; helaeth, toreithiog; cryf; mawr; da; llawn; meuedig; aelaw.
Rich in money—cyfoethog mewn arian; arianog; â byd am arian arno; â chyfoeth o arian iddo; bathog.
Rich in land—â thir lawer iddo *neu* ganddo; tiriog.
Rich in cattle—perchen anifeiliaid lawer; perchen llawer o anifeiliaid; gwarthegog.
Rich in revenues—cyllidog; aml ei gyllid.
A rich banquet—gwledd gostus, dreulfawr, odidog, ddiamdlawd, ddanteithiol, ddanteiddiol, gyfoethog, *neu* gywair gyfoethog.
Rich milk—llaeth prydd, llaeth da, llaeth tew.
Rich condition—goludiaeth, cyflwr cyfoethog, berthogrwydd, cyfoethogrwydd.

Rich land — tir bras, tir ffrwythlawn, tir brolig, &c.
Rich crops—cnydau toreithiog.
Rich wine — gwin rhywiog, godidog, *neu* gyfoethog; gwin prydd, gwin rhywiog-gryf.
To grow rich—ymgyfoethogi, cyfoethogi, ymgyfoethi; myned yn gyfoethog; tyfu yn gyfoethog.
To make rich=*Enrich*.
The rich and the beggar—y cyfoethog a'r cardotyn; yr eurog a'r cardotyn.

Rich,† *v. a.*=*Enrich*.

Riches, *s. pl.* (Ff. *richesse*) cyfoeth, golud, da, (*pl.* daoedd), anlloedd, alaf, rheufedd, berthedd, aelaw.
Hidden riches of secret places—cuddfëydd dirgel (*Esa.* xlv. 3).

Richness, *s.* cyfoethogrwydd, goludogrwydd; gwychder, gwychedd, harddwychder; godidogrwydd; costusrwydd, danteiddrwydd, moethusrwydd; brasder; ffrwythlonder; ffaethder; rhywiogrwydd; pereiddrwydd; helaethrwydd; cryfder.
Richness of apparel — gwychder dillad, gwychedd dillad.
Richness of a banquet — costusrwydd, godidogrwydd, danteiddrwydd, *neu* foethusrwydd gwledd.
Richness of wine—rhywiogrwydd gwin, pereiddrwydd gwin.

Rick, *s.* (S. *hreac, hrig*) das, tas, daswrn, daswl, dasgwrn, helm, crewyn; crug; bera.
Corn rick—das yd, das o yd, crewyn o yd, helm o yd. [gweirdas.
Hay rick—das gwair, das o wair, tas gwair,
A rick of corn of an oblong form—helm; das o yd pedeironglog.
A rick of hay of a round form — mwdwl gwair; daswrn o wair yn grwn ei lun; dasgwrn gwair crwn ei lun.
To put in a rick, } deisio, dasu, das-
To make into a rick, } yrnu, dasgyrnu, dasylu, helmu, crewynu.

Rickets, *s. pl.* (Gr. *rhachitis;* Ysp. *raquitis*) llechau, y llechau, llech, y llech.

Rickety, *a.* ä'r llechau arno; claf o'r llechau; gwàn yn y cymmalau; gwàn, egwan, gwanllyd, nychlyd, gwachul; anmherffaith.

Rick-stand, *s.* sail das.

Ricochet, *s.* (Ff.) llamsaethawd, llamsaethiant, llamsaethiad.
Ricochet battery — magnelfa lamsaethu, magnelfa lamsaeth.
Ricochet firing—llamdanio.

Ricochet, *v. a.* llamsaethu, llamdanio, llambelu.

Ricture, *s.* (Ll. *rictus*) dylyfiad gen, ystwyriad.

Rid, *v. a.* (S. *ahreddan, hreddan;* Al. *retten*) rhyddhau, gwared, gwaredu, gollwng; gwahanu, esgaru; troi heibio, gyru ymaith; dinystrio; llwybro; glanhau.
To rid one's self of—ymryddhau o, ymryddhau oddi wrth.
To rid of, } rhyddhau o, rhyddhau oddi
To rid from, } wrth.
To rid one of his money—hudo un am ei arian; ysgafnhau cod *neu* goden un; dïarianu un.
To rid ground—llwybro tir; llwybro.
He rids no ground—nid yw efe yn llwybro dim tir; nid yw efe yn gwneuthur dim llwybr ar dir.
To rid of stones—digaregu.
To rid of moss—difwsoglí.
To rid of rubbish—dïysbwrialu.

Rid, *p. p.* rhydd, à ryddhawyd.
To get rid of — cael gwared o; mynu gwared o; rhyddhau o; rhyddhau oddi wrth; ymryddhau o; ymryddhau oddi wrth; ysgwyd ymaith; symmud; mynu llonydd gàn; bwrw, symmud, *neu* dafiu oddi arno.

Riddance, *s.* (o *rid*) gwared, gwaredigaeth, rhyddhad; gollyngdod; difeichiad, dïormesiad.
To make riddance of — gwneuthur dyben *neu* derfyn ar.
Speedy riddance—dyben prysur (*Seph.* i. 18).
Thou shalt not make clear riddance of the corners of thy field when thou reapest—na lwyr feda gyrau dy faes (*Lef.* xxiii. 22).

Riddle, *s.* (S. *hriddel*) rhidyll, hesgyn, syfa.

Riddle, *v. a.* rhidyllio.

Riddle, *s.* (S. *rædelse;* Al. *rätshel*) dychymyg, adameg, dameg, dyfal.
A propounder of riddles — dychymygwr, lluniwr dychmygion, dyfalwr, damegwr.

Riddle, *v.* deongli, dattod, egluro, eglurhau, dirnad; llefaru yn amwys *neu* ar ddameg.

Riddler, *s.* dychmygwr, dyfalwr; un à lefaro yn amwys.

Riddling, *s.* dychmygiad; yr adneu wrth ddychymygu.

Ride, *v.* (S. *ridan;* Al. *reiten*) marchogaeth, marchocäu, marchäu, marchgäu, marchogaethu, echwa; gorwedd, sefyll; nofio; gyru; eistedd.
To ride at anchor — gorwedd, sefyll, bod, nofio, *neu* farchogaeth wrth angor.
To ride a free horse to death — gyru y march à gerddo; gyru y cŷn à gerddo; gyru yr hoel à gerddo.
To ride a horse off his mettle — marchogaeth march nes ei flino; marchogaeth march nes blino o hono; marchogaeth march nes ei ddïawchu; marchogaeth march nes tori ei awch; marchogaeth ceffyl yn rhy galed; dïawchu ceffyl trwy ei farchogaeth yn rhy galed.
To ride before another on the same horse—ysgilio; cymmeryd un wrth ei ysgtl.
To ride behind—ysgilio; bod wrth ysgtl un.
To ride upon the main—nofio, hwylio, *neu* farchogaeth ar y cefnfor.
To ride masters at sea—bod yn ben ar y môr; gyru y gelyn i'w gilfach; cadw y gelyn yn ei gilfach; cadw y môr ar y gelyn.
To ride back—marchogaeth yn ol, yn ei ol, *neu* yn ei wrthol.
To ride together—cyd-farchogaeth, &c.; marchogaeth *neu* farchgäu yn nghyd.
Those that ride in them—y rhai a eisteddant ynddynt (*Hag.* ii. 22.).

Ride, *s.* tro, taith, gwib, *neu* wibdaith ar gefn ceffyl; tro *neu* daith mewn cerbyd; marchogiad; ffordd farchogaeth, marchogfa, marchwib.

Rider, *s.* marchog, marchogwr, marchgäwr, marchocäwr; gyrwr; teithiwr masnachol.

Rider, } *s.* chwaneglen, attodlen, attodiad,
Rider-roll, } chwanegiad.

Riderless, *a.* difarchog.

Ridge, *s.* (S. *rig, ricg;* Al. *rücken*) grŵn;

trum, cefn, crib, cribyn, truman, cefnen, crim, crimp, crimell; carfan; garth; blaenwedd, blaenwel: *pl.* grynau, gryniau.
A ridge of land—grŵn o dir; cefn o dir; carfan o dir.
The summit of a ridge—trum grŵn, cefn grŵn.
The cross ridge (at the end of ploughed land)—talar.
The half-ridge (at the side of ploughed land in a sloping field)—asgell.
The ridge of a house—trum ty, crib ty, cribyn ty.
The ridge of a mountain—trum, crib, *neu* gefn mynydd; blaenwedd *neu* flaenwel mynydd; cefnen.
A ridge of hills—cribarth; trum *neu* grib o fryniau.
Upon the very ridge of the mountain—ar gefnen *neu* gribyn y mynydd.
A sharp ridge—crimell, crimp.
A long ridge—esgair, trum hir.
A high ridge—ucheldrum, trum uchel.

Ridge, *v. a.* grynio, llunio grŵn; trumio, cefnu; crimpio, crychu.
To ridge land, } grynio tir; cefnu
To make ridges in land, } tir; gwneuthur *neu* aredig yn rynau.
To ridge a house—trumio ty; rhoi crib *neu* drum ar dy.

Ridge-band, *s.* cefnwden, cefnwyden, cefndres.
Ridgel, } *s.* (o *rig*) anifail gwryw ungaill;
Ridgeling, } ungeilliog.
Rig, }
Ridge-piece, } *s.* nenbren, neniar.
Ridge-plate, }
Ridge-tile, *s.* trumbeithynen, cefnbeithynen, crib beithynen.
Ridging, *s.* gryniad.
Ridgy, } *a.* gryniog, grynog; trumiog, trum-
Ridged, } ain, crimpiog.

Ridicule, *s.* (Ff.; Ll. *ridiculum*) chwerthinwawd, gwawd, chwarddwawd; gwatwar, gwatwor; chwerthin gwatwar; gwatwargerdd, chwerthin-gerdd, chwarddeb, chwerthineb; chwerthin *neu* chwerthiniad am ben un; chwerthin; chwarddedigaeth; dirmyg.
Butt of ridicule—cyff cler, gwatwargyff, cyff gwawd.
To run against—rhedeg yn erbyn; taro wrth; taro yn erbyn.

He ran his head against a post—efe a darawodd ei ben wrth bost; efe a redodd ei ben yn erbyn post.

To run ahead—rhedeg yn mlaen; rhedeg o *neu* o'i ben; rhedeg gerfydd ei ben.

To run along—rhedeg o hyd.

To run along with—rhedeg gyda; cydredeg â.

To run at—rhedeg at; rhedeg yn nghyd â; rhedeg yn ngafael â.

To run away—rhedeg ymaith; cymmeryd y traed; cymmeryd y gwadnau; dywadnu; cymmeryd y traed a'r gwadnau; ffoi, dïanc.

To run away with a woman—rhedeg ymaith â merch; dwyn merch i lathlud *neu* yn llathryd; dwyn *neu* ladrata merch; llathludo, llathrydo, *neu* lathruddo bun *neu* forwyn.

To run back—rhedeg yn ol; gwrthredeg.

To run before—rhedeg o flaen; rhagredeg.

To run counter—gwrthredeg; rhedeg yn ol; rhedeg yn y gwrthol; rhedeg yn y gwrthwyneb; rhedeg yn erbyn; rhedeg yn groes.

To run one's country—ymalltudio, ymalltudo, ymddeol; cilio *neu* ffoi o'i wlad; ffoi ei wlad; gadael ei wlad; ymadael â'i wlad; afwladu.

To run in debt—rhedeg mewn dyled; rhedeg i *neu* dân ddyled; myned i ddyled.

To run to decay—adfeilio, ymadfeilio; myned ar adfail; myned ar feth; anmharu.

To run down—rhedeg i lawr; rhedeg i waered; llifo, dylifo, llifeirio, *neu* ffrydio i lawr; llifo, rhedeg; ymlid; lladd ar; gyru ar; bychanu.

To run down in drops—rhedeg i lawr yn ddyferion, yn ddefnynau, yn ddafnau, *neu* yn ddefni.

To run down a stag—rhedeg, ymlid, *neu* hely carw i lawr; rhedeg, ymlid, *neu* hely carw i farwolaeth.

To run one down—ymlid un i ddinystr, i'w ddinystr, *neu* i'w ddïenydd; lladd ar un; rhedeg ar un; bychanu un, difrïo un, dirmygu un.

To run down with blood—llifo *neu* redeg o *neu* gân waed.

To run down with arguments—trechu â chymhwyllion; gorchfygu â rhesymau; gwrthbrofi.

To run for it — ffoi rhag perygl; rhedeg ymaith rhag ofn ei ddâl; dïanc o nerth traed; cymmeryd y traed a'r gwadnau.

To run a hare—hela, hely, *neu* redeg yr gyfarnog.

To run a hazard—rhedeg perygl.

To run the hazard—rhedeg y perygl.

To run headlong—rhedeg yn llwrw *neu* yn wyneb ei ben, &c.; rhwyglo.

To run high—rhedeg yn uchel, yn gryf, *neu* yn drwm.

Words ran high on both sides—bu geiriau celyd, uchel, croch, *neu* cirwon o bob ochr.

The sedition ran so high—bu cymmaint terfysg.

The sedition ran very high—bu dirfawr derfysg; aeth y terfysg yn fawr iawn; tyfodd y terfysg yn fawr iawn.

The complaints ran high on both sides—bu achwynion trymion o bob plaid.

To run a horse—rhedeg march *neu* gaffyl; rhoi *neu* ddodi ceffyl i redeg.

To run mad—myned *neu* redeg yn gyddeiriog; myned yn ynfyd; myned allan o'i gof; myned i maes o'i gof; ynfyda; myned yn waenedig.

To run mad (as a dog)—myned *neu* redeg yn gynddeiriog.

To run milk—cyweirio, oeulo, *neu* dreu llaeth.

To run in one's mind—rhedeg yn meddwl un; dyfod i gof *neu* i feddwl un.

To run one's self into mischief—ymredeg i ddrygioni; tynu drwg *neu* ddrygioni ar ei ben *neu* ei gopa ei hun.

To run often—mynych redeg, rhedegfain, darymred, daramred, ymredeg.

To run on—rhedeg ar; rhedeg i; tafiu ei hun i.

To run on danger—rhedeg *neu* ymredeg i berygl; tafiu ei hun i berygl; ymberygla, ymbydio.

To run over—rhedeg *neu* lifo trosodd; bod yn orllawn; rhedeg dros; gwneuthur ar redeg; gwneuthur yn rhedegog.

To run over again—rhedeg drosodd drachefn *neu* eilwaith; adolygu, ail olygu.

To run out—rhedeg allan; rhedeg i maes; llifo allan; ffrydio, ysbyddu, &c.; ymestyn, ymgyrhaedd; afradu, afradloni, rhydreulio, gwastraffu, rhywario.

To run one's self out of breath—ymredeg allan o anadl; rhedeg hyd oni byddo allan o anadl; ymredeg nes bod allan o anadl; ymredeg nes colli ei anadl; ymredeg hyd oni chollo ei anadl; rhedeg ei hun allan o anadl; rhedeg ei hun i maes o anadl.

To run out into excess—rhedeg allan i ormodedd; rhedeg allan i ormod rysedd.

He ran out into all manner of excess—efe a redodd allan i bob rhyw ormod rysedd; efe a redodd allan i bob anghymmedrdeb.

To run a race—rhedeg gyrfa.

To run one's race—gorphen ei yrfa; rhedeg i ben ei yrfa; rhedeg ei yrfa.

His race is run—gorphenodd ei yrfa; rhedodd ei yrfa.

To run out (as time, &c.)—darfod, diweddu, terfynu, trengu.

To run out of one's wits=*To run mad.*

To run a pin into one—gwanu un â phin; rhedeg pin i un.

A thorn ran into my foot—aeth draen i'm troed; rhedodd draen i'm troed.
To run a ship ashore—rhedeg llong i dir; rhedeg llong i'r làn.
The ship ran ashore—rhedodd y llong i dir; rhedodd y llong i'r làn.
To run to seed—hadu; rhedeg i had; hedeg; hodi.
To run through—rhedeg trwodd; gwastraffu, gwario, treulio, afradu; trywanu, gwanu drwyddo.
To run through with a sword—trywanu â chleddyf; gwanu drwyddo â chleddyf.
To run at tilt—ymornest, ymornestu, *neu* ymhyrddio â gwaewffon.
To run to and fro—rhedeg yma ac acw, &c.; darymred, daramred, dyredeg, rhedegfain; gwibio, cynniwair.
To run together—rhedeg yn nghyd, cydredeg, cyfredeg, ymgyfredeg; cyttwysgo; cydlifo, cydlifeirio; rhedeg yn un.
To run up—rhedeg, codi, *neu* dyfu i fyny; ymgodi.
To run up and down—gwibio, crwydro, rhodiana, darymred, daramred, rhedegain, rhedegfain; rhedeg yma ac acw, &c.
To run upon=*To run on.*
That runs easily—hyred.

Run, *s.* rhedfa, rhediad, rhed, rhedeg, rhedegfa, rhe, rhead, rheawd; gyrfa, gyr; ystod, rhawd, hynt; hwyl; ffo, ffoad, cil; ffordd; dau faen melin; gwasg, gwasgiad; pen olaf gwaelod llong.
In the long run, } yn y diwedd, o'r diwedd;
At the long run, } yn y pen draw; wrth hir redeg *neu* ddylyn; o hir redeg *neu* ddylyn.
After a long run—yn ol hir redeg *neu* ddylyn; wedi hir redeg *neu* ddylyn.
To take a run—cymmeryd rhedegfa, cymmeryd rhedfa.
A good run at play—ffawdchwareu; hwyl o ffawd chwareu.
A run of good luck at play—hwyl o ffawd chwareu; ffawd chwareu; ffawd mewn chwareu.
An ill run at play—anffawd mewn chwareu; hwyl o anffawd mewn chwareu.
A run of ill luck at play—hwyl o anffawd mewn chwareu; anffawd mewn chwareu.
To put one to the run—peri i un redeg ymaith; gyru un i ffoi *neu* i gilio.
The run of mankiud—y cyffredinolrwydd o ddynolryw; y rhan fwyaf o ddynolryw; y rhan amlaf o'r bobl.
The runs of a mill—meini melin.

Runagate, *s.* (Ff. *renégat*) ffoadur, ffoawdr, cilgi, ciliwr; gwrthgiliwr; gwrthryfelwr; crwydryn, gwibiad, gwibiawdr.

Runaway, *s.* (*run* ac *away*) ffoadur, ffoawdr, ffoaduriad, cilgi, ciliadur, ciliwr, ciliad; gwrthgiliwr; crwydryn, crwydrwr, gwibiad, gwibiawdr, gwibddyn.

Runcation,† *s.* (Ll. *runcatio*) chwyniad.

Runcinate, *a.* (Ll. *runcina*) ar ddull llif ddyblyg.

Rundle, *s.* (o *round;* Al. *rund*) ffon ysgol; troell, troellen, sidell; cawell melin; trwcwl.

Rundlet, } *s.* (o *round*) baril yn cynnwys o 3 i
Runlet, } 20 galwyn.

Rune, *s.* (Goth. *runa;* S. a Gw. *run;* C. *rhin*) hen lythyren y Gothiaid; Rhwneg.
Runes—prydyddiaeth *neu* odlau Gothig; Rhwnegion; hen farddoniaeth y Gothiaid.

Runer, *s.* bardd *neu* lenor yn mhlith y Gothiaid gynt.

Runic, *a.* (o *rune*) Rhwnig; perthynol i iaith a llenoriaeth y Gothiaid gynt; Gothig, Gothaidd; henddulliog.
Runic letters—llythyrenau Rhwnig.
Runic wands—hudlathau Rhwnig; hudlathau rhiniol y Gothiaid.

Runlet, *s.* (o *run*) ffrydan, afonig, corafon, nant, cornant, nennig.

Runnel,† *s.* (o *run*)=*Runlet.*

Runner, *s.* (o *run*) rhedwr, rhedydd, rhedegwr, rhedegydd, rhedor, rheawdr, rhedegai; gyrfëydd; maen uchaf melin; ysbrigyn.
Runner of a mill—maen uchaf melin.
The runner—y maen uchaf; maen uchaf y felin.
Runner (a bird)—rhedor, y rhedor.
Scarlet-runners—ffa cochion, ffa rhedegog.

Runnet, } *s.* (Is. *runnen;* Al. *rinnen*) caul, ceul-
Rennet, } ed, cywer, cywair, cywer llaeth, cywerdeb.

Running, *a.* rhedegog, rhedol, rhedain, rhediannol, rheawl, rhedeg, rhe, rheadol; olynol, oliannol, ar ol eu gilydd; o'r bron; llifol, ffrydiol; crawnllyd.
Running water—dwfr rhedegog, dwr rhedegog; ffrwd.
Running horse—rhedfarch, rhedegfarch, march rhedeg, gyrfarch.
Running footman—rhedwas, rhedegwas, rhedwas traed, rhedwastrodyn.
Running place—rhedegfa, rhedfa, rhedfan, gyrfan, rhedle.
Running sore—gweli crawnllyd.
Running title of a book—rhed-destyn llyfr.
The running title—y rhed-destyn, y testyn rhedeg.
Running goods—rhednwyddau, nwyddau rhedeg.
Running knot—cwlwm rhedeg, cwlwm tagu, clwm rhedegog; byddag, byddagl; magl.
Running match—cwrdd rhedeg; rhed-ymdrech, ymryson rhedeg; rhedfa, rhedegfa.
Running matter—rhedegal, crawn.
Easily running—hyred.

Running, *s.* rhediad, rhedfa, rhedegiad, rhead, rheawd; gyrfa; llifad, llifiad, llifiant; ffrydiad, cerhynt; dyferiad; peth à redo.
A running away—rhediad ymaith; ffoad, ffo, ffoawd, ffoedigaeth.
A running back—rhediad yn ol, yn ngwrthol, yn ei ol, *neu* yn ei wrthol; dadrediad, gwrthrediad; dadred, gwrthred; trai y môr.
A running of the nose—rhediad *neu* ddyferiad y trwyn; llysnafedd y trwyn.
A running out—ffrydiad allan, rhediad allan; goferiad.
A running to and fro—darymred, gwibiad, dyrediad; rhediad hwnt ac yma, &c.
A running together—cydrediad, &c.; rhediad yn nghyd, &c.
A running together of waters—cydffrydiad, cydlif, cydffrwd, ymgyfred dyfroedd.

Runningly, *ad.* ar redeg, dân redeg; yn llif, dân lifo.

Runnion, *s.* (Ff. *rogner*) hen adyn brwnt.

Runt, *s.* (Is. *rund*; Ysg. *runt*) còr *neu* gòryn o anifail; corfilyn; còryn, (*f.* còren), corach.
See there a thick-legged runt—dyna bwtan ffodog.
An old runt—hen gòren.

Rupee, *s.* (gair dwyreiniol; Per. *ropak*, *ropiah*) rhiwpi=darn o arian yn yr India Ddwyreiniol, yn cerdded am o ddeutu 2 swllt.
Lac of rupees=100,000=£10,000.

Rupicapra, (Ll.) creigafr, gafr wyllt, gafr y graig.

Rupicola, *s.* (Ll. *rupes* a *colo*) ceiliog y graig.

Ruppia, *s.* (oddi wrth Henri Bernard *Ruppi*, llysieuwr o'r Almaen) Rwppia=tylwyth o lysiau..

Ruption, *s.* (Ll. *ruptio*) toriad, godoriad, godoriant, rhwyg, breg, rhwygiad, ffrwch.

Rupture, *s.* (Ff. o'r Ll. *ruptus*) rhwyg, rhwygiad, tor, toriad, toriant, godor, breg, bregiad; toriad llengig, tor llengig, torgest, bolystyn, bolwst, cwd merydd; tor heddwch, tor cydfod, anghydfod.

Rupture, *v.* tori, rhwygo, bregu, godori.

Rupture-wort, *s.* torgestlys, llysiau bolystyn, llysiau y fors.

Rural, *a.* (Ll. *ruralis*; Ff. *rural*) gwladaidd, gwledig, gwladol; perthynol *neu* briodol i'r wlad; y sy *neu* à fo yn y wlad; à welir yn y wlad *neu* yn y maesydd; maesol, maesaidd; gwladog; gwledig ei wedd; yn y wlad.
Rural dean—deon gwladol, ardal-ddeon.
Rural architecture—adeilyddiaeth wledig; adeilyddiaeth yn y wlad.
Rural song—gwladeiddgan, gwladeiddgerdd, cerdd wladaidd, cân wledig.

Ruralist, *s.* gwladolwr; un à arwain fuchedd wladaidd.

Rurality, *s.*=*Ruralness*.

Ruralness, *s.* gwladeiddrwydd, gwledigrwydd, gwladeidd-dra, gwladolrwydd, gwladogrwydd.

Ruricolist, *s.* (Ll. *ruricola*) preswylydd yn y wlad; un o drigolion *neu* breswylwyr gwlad.

Rurigenous, *a.* (Ll. *rurigena*) à aned yn y wlad; gwlad-anedig.

Ruscus, *s.* (Ll.) celyn Mair, celyn Ffraine, banadl pigog, gewynllys, llysiau y gïau, gïeulys.

Ruse, *s.* (Ff.) ystryw, cyfrwysdra, cyfrwysdro, cast, dichell.
Ruse de guerre—ystryw rhyfel, cyfrwysdro rhyfel.

Rush, *s.* (S. *rics*, *risc*) brwynen; pabwyren: *pl.* brwyn, pabwyr, pabir, elest.
Lesser sharp sea rush—morfrwynen: *pl.* morfrwyn.
Great sharp sea rush—barfrwynen, llymfrwynen.
Hard rush—brwynen galed.
Common rush—brwynen gyffredin, brwynen bellenaidd.
Soft rush—pabwyren, canwyll-frwynen: *pl.* pabwyr, pabir. [goryn.
Moss rush—troellgoryn, brwynen troellJointed-leaved rushes—llafrwyn, lladdfrwyn.
Shining-fruited jointed rush—brwynen glymog glaerwib.
Sharp-flowered jointed rush—brwynen glymog â blodau blaenfain.
Blunt-flowered jointed rush—brwynen glymog â blodau blaendwn.
Little bulbous rush—corfrwynen, brwynen ledglymog.
Round-fruited rush—brwynen dalgron.
Toad rush—brwynen y llyffant.
Hairy rush—brwynen flewog.
Hairy field rush—brwynen flewog y maes.
Wood rush—brwynen y goedwig.
Flowering rush—engraff, brwynen flodeuog.
Club-rush=*Clubrush*.
Bog-rush=*Bogrush*.
Bull-rush=*Bulrush*.
A place where rushes grow—brwyneg, brwynog.
Abounding with rushes—brwynog, llawn brwyn, pabwyrog, pabirog.
It is not worth a rush—ni thâl ef ffyloryn, aeglodyn, flewyn, *neu* ddim.
I would not give a rush for it—ni rown i erddo seren bren; ni rown i ffloyn am dano; ni rown i bin o'm llawes am dano.

Rush, *v. n.* (S. *reosan*; Al. *rauschen*) rhuthro, ymruthro, ymwthio, rhysio, rhysianna, rhyseddu; rhagruthro; trystio.
To rush in—rhuthro *neu* dori i mewn.
To rush out—rhuthro, tori, naidio, ymwthio, taegu, *neu* saethu allan.
To rush upon—rhuthro ar.

Rush,† *v. a.* gwthio yn mlaen; gyru o'i flaen.

Rush, *s.* rhuthr, rhuthrad, rhuthriad, ymruthr, rhuth.

Rush-bearing, *s.* gŵyl mabsant.

Rush-bed, *s.* twyn brwyn, twmpath brwyn, brwyneg.

Rush-candle, *s.* canwyll frwynen, canwyll frwyn.

Rushed, *a.* brwynog, pabwyrog.

Rusher, *s.* rhuthrwr, rhuthrydd, ymruthrwr; taenwr brwyn (mewn dawnsiau gynt).

Rushiness, *s.* brwynogrwydd, pabwyrogrwydd.

Rushing, *s.* rhuthrad, rhuthriad, rhuthr, ymruthrad, ymruthriad; trwst, twrf, sŵn, cynhwrf.

Rushlight, *s.* canwyll frwynen, canwyll frwyn; goleu canwyll frwynen.

Rushlike, *a.* brwynaidd; tebyg i frwynen; gwân, egwan.

Rushwheat, *s.* gwenithwellt brwynaidd y môr.
gwenithwellt arfor.

Rushy, *a.* brwynog, llawn brwyn, pabwyrog, pabirog.

Rusk, *s.* math o deisen ysgafn; bara cacen, bara deugras.

Russet, *a.* (Ff. *roux*, *rousse*; Ll. *russus*) rhuddlwyd, llwydgoch, rhydgoch, rhuddgoch, cochlwyd, blawrgoch, gwywgoch, gwineugoch, coch adfeiliedig, gwywliw, gwywllyd ei liw; garw, cartrefol, talpentan, gwladaidd.

Russet, *s.* gwisg wledig, gwisg lwyd, gwisg dalpentan.

Russet, } *s.* yr afal rhydgoch, afal coch ?
Russeting, } rhwd.

Russud, *s.* treth fawr gynnyddol (yn yr India.

Rust, *s.* (S. a D.; Is. *roest*; Al. *rost*) rhwd, rhydni.
Rust of bacon—rhwd, llwyd-rwd, *neu* frasrwd cig moch.

Rust, *v.* rhydu; myned yn rhydlyd, rhydlydu, peri yn rhydlyd.

Rust-coloured, *a.* rhydliw, rhydliwiog, rhydog, rhwdog.

Rustic, } *a.* (Ll. *rusticus*) gwladaidd, gwledig,
Rustical, } gwladol; gwladog; perthynol i'r wlad; adlawaidd, gwerinaidd, gwerinol, taeog,

gwaer, gwaerol, gwaeraidd, gwrengaidd, iangaidd, dengyn, difoes, anfoesog, diddysg, anwybodus, aflednais, trwsgl, trwstan, garw, anghoeth; diaddurn, syml; anfoneddigaidd.
Rustic work, } gwaith gwledig, gwaith
Rusticated work, } gwladaidd, maenwaith gwladaidd; creigwaith; gwaith garw.

Rustic, *s.* un o'r wlad; dyn o'r wlad; dyn gwledig, gwladaidd, adlawaidd, gwerinaidd, *neu* werinol, &c.; taiog, taiogddyn, iangwr, cabrotyn, cabrotai, buach, gwrengyn, gwladeiddyn, gwerinwr, gwaeryn; bugeilwas.
The rustics of such a place—gwaer, gwreng, taiogion, *neu* iangwyr y fân a'r fân.

Rusticalness, *s.* gwladeiddrwydd, gwladolrwydd, gwledigrwydd, gwladeidd-dra; gwerinoldeb, gwaeroldeb, taiogrwydd, anfoesogrwydd.

Rusticate, *v.* byw, trigo, aros, tario, preswylio, *neu* gartrefu yn y wlad; gyru *neu* ddeol i'r wlad; gwledigo, gwladeiddio, gwladoli, gwladogi.

Rustication, *s.* gwladeiddiad, gwledigiad, gwladoliad; gyriad *neu* ddeoliad i'r wlad; arosiad, arosfa, trigiant, trigiad, *neu* gartrefiad yn y wlad; gwaith gwledig, maenwaith gwladaidd.

Rusticity, *s.* (Ll. *rusticitas*) gwladeiddrwydd, gwledigrwydd, gwladolrwydd, gwladogrwydd; trysgledd, taiogrwydd, gwrengeiddrwydd, gwerinoldeb, gwaeroldeb; anfoesgarwch, anfoesedd, anfoesogrwydd, afledneisrwydd; gerwindeb moes; moesau gwr gwledig; cabrawd, trwstanwch, carbyledd, delfeiddrwydd.

Rustiness, *s.* (o *rusty*) rhydni, rhydlydrwydd, rhydlydedd.

Rustle, *v. n.* (S. *hristlan*; Al. *rasseln*) ysgwrlwgach, rhugl-drystio, chwithrwd, siffrwd, siffro, grigwd; clecian.
A rustling noise—ysgwrlwg, rhugl-drwst, chwithrwd, grigwd, siffrwd.

Rustler, *s.* un à rugl-drystio, &c.

Rustling, *s.* ysgwrlwgach, ysgwrlwg, rhugldrwst, rhugl-drystiad, chwithrwd, siffrwd, grigwd.

Rustre, *s.* (Ff.) lleddfbetryal à thwll crwn yn ei ganol (yn arfau bonedd).

Rusty, *a.* (o *rust*) rhydlyd, rhydog, rhwdog, llawn rhwd; llwyd; sarig.
To become rusty—myned yn rhydlyd, &c.; dysbrychu.

Rut, *s.* (Ff. a Llyd.) rhidiad, rhid, cyd, *neu* gydiad hyddod, &c.; bref hyddod, hyddfref.

Rut, *v. n.* rhidio, cydio; brefu.
Rutting time—amser rhidio, hyddfref.
To go to rut—myned i fwch; myned i ridio.

Rut, *s.* (It. *rotara*, o'r Ll. *rota*) ol olwyn; ol olwyn *neu* droell men; ol men, ol cart; clais, rhigol.

Rut, *v. a.* gwneuthur clais *neu* rigol à phâl; rhigoli.

Ruta, *s.* (Ll.; Gr. *rhutê*)=*Rue.*

Rutabaga, *s.* maip Sweden, maip Swedain, erfin Swedig, bresych y maes.

Ruth, *s.* cerbyd ar ddwy olwyn isel à dynir gân fustych.

Ruth,† *s.* (o *rue*) tosturi, tostur, trugaredd, gwaws; gresyndod, trueni.

Ruthful,† *a.* tosturus, tosturiol, tyner, trugarog; galarus, gofidus.

Ruthless, *a.* didosturi, annhosturiol, annhosturus, didrugaredd, annhrugarog, creulawn, dideimlad, milain, mileinig, anifeilig, ciaidd, trwch.

Ruthlessness, *s.* annhosturi, annhosturiaeth, annhrugaredd, dideimladrwydd, creulondeb.

Rutil, } *s.* nodwyddfaen; egrid coch tudein-
Rutile, } fwn.

Rutilant, *a.* (Ll. *rutilo*) dysglaer, gloew, claer, llethridol.

Rutilate,† *v. n.* dysgleirio.

Rutilite, *s.* (Ll. *rutilus*) egrid coch tudeinfwn.

Rutter,† *s.* (Al. *reiter*) marchog.

Rutterkin,† *s.* (o *rutter*) hen gadnaw cyfrwys.

Rutter,† *s.* (Ff. *routier*) hen fforddol; hen deithiwr cynnefin à'r ffordd; hen filwr.

Ruttish, *a.* (o *rut*) anllad, trythyll, chwantus, nwyfus, nwyfol, cnawdwyllt.

Ruttle, *s.*=*Rattle.*

Ryacolite, *s.* (Gr. *rhuax* a *lithos*) ffrydfaen.

Ryal, *s.*=*Rial.*

Ryder, *s.* (=*rider*) chwaneglen, attodlen, attodiad, chwanegiad.

Rye, *s.* (S. *ryge*; Al. *rocken*) rhyg: *sing.* rhygen.
Rye-bread—bara rhyg.

Rye-grass, *s.* rhygwellt, efr parhäus, efryn parhäus.

Ryot, *s.* diwylliwr tir (yn Hindwstan).

S.

Sabaoth, *s. pl.* (H.) lluoedd, byddinoedd.
The Lord of Sabaoth—Arglwydd y lluoedd.

Sabbatarian, *s.* (o *Sabbath*) sabbathydd, sabbathwr; un â gadwo y Sabbath Iuddewig; cymhellydd y Sabbath Iuddewig.
Sabbatarians—Sabbathyddion = plaid o Fedyddwyr â ddaliant nad yw y Sabbath Iuddewig wedi ei ddilëu.

Sabbatarian, *a.* sabbathyddol; perthynol i'r Sabbathyddion.

Sabbatarianism, *s.* Sabbathyddiaeth; daliadau *neu* egwyddorion y Sabbathyddion; gorfanwl *neu* ofergoelus gadwraeth y Sabbath.

Sabbath, *s.* (H.) Sabbath, y Sabbath, Sabboth; seibiaeth, gorphwysfa, gorphwysdra, gorphwys, seibiant.
The Sabbath-day—y dydd Sabbath, y Sabbath.
The Christian Sabbath—y Sabbath Cristionogol *neu* Gristianogol; Sabbath y Cristionogion; dydd yr Arglwydd.

Sabbath-breaker, *s.* torwr y Sabbath.

Sabbath-breaking, *s.* toriad y Sabbath; tori y Sabbath.

Sabbathless, *a.* heb Sabbath, diseibiaeth.

Sabbatic, } *s.* (LL. *sabbaticus*) sabbathol;
Sabbatical, } sabbathaidd; perthynol i'r Sabbath; eiddo y Sabbath; gorphwysol, seibiol.

Sabbatism, *s.* gorphwys, gorphwysfa, gorphwysdra, seibiaeth, seibiant.

Sabine, *s.* (Ll. *sabina*) eithinfyw.

Sable, *s.* (Al. *zobel;* Sw., D., ac Is. *sabel;* R. *sobol*) bele, (*pl.* beleod); croen a blew y bele; pân y bele.

Sable, *a.* (Ff.) du; du (fel y bele); o liw y bele; cibddu, tywyll.

Sabliere, *s.* (Ff.) grobwll, pwll graian; trawst hirfain.

Sabot, *s.* esgid bren, prenesgid.

Sabre, *s.* (Ff.) glaif, crymgledd, crymgleddeu, camfidog, ysgïen, ffoswn, anglas; cleddyf, cledd, cleddeu.
So many bayonets and sabres—hyn a hyn o wŷr gŵn a gwŷr glaif; hyn a hyn o wŷr traed a gwŷr meirch; hyn a hyn o bedyd a marchwys; hyn a hyn o fidogau a chleddyfau; hyn a hyn o fidogion a gleifogion.

Sabre, *v. a.* taraw *neu* ladd â chrymgledd, &c.; ffosynu, gleifio.

Sabretache, *s.* (*sabre*, ac Al. *tasche*) cod y crymgledd.

Sabulosity, *s.* (o *sabulous*) tywodogrwydd, tywodlydrwydd, grutiogrwydd.

Sabulous, *a.* (Ll. *sabulosus*) tywodog, tywodlyd, graianog, grutiog.

Sac, *s.* (S. *sac*, *saca*) hawl arglwydd y faenor i gynnal llysoedd, profi achosion, a chodi dirwyon.

Sac, *s.* (Ll. *saccus*) cod, coden, cwd.

Sacbut, *s.*=*Sackbut*.

Saccade, *s.* (Ff.) tyniad disymmwth ar awen ffrwyn; ffrwyn-dyniad.

Saccate, *a.* (Ll. *saccus*) codog, codenog.

Saccharic Acid, *s.* sur sugrig.

Sacchariferous, *a.* (Ll. *saccharum* a *fero*) yn dwyn sugr; yn cynnyrchu sugr.

Sacharify, *v. a.* troi yn sugr.

Saccharine, *a.* (Ll. *saccharum;* o'r Ar. a Per. *sacar*) sugraidd, sugrol; melus fel sugr; melus.

Saccharoid, } *a.* (Ll. *saccharum*, a Gr. *eidos*)
Saccharoidal, } â'i we yn debyg i ddull sugr gwŷn; sugrwedd.

Saccharometer, *s.* (Ll. *saccharum*, a Gr. *metron*) sugr-fesur.

Saccharo-sulphuric Acid, *s.* sur sugr-ufelig.

Saccharum, *s.* (Ll.) sugr; y gorsen sugr.

Saccholactic, *a.* (Ll. *saccharum* a *lac*) sugrlaethig.
Saccholactic acid—sur llysnafig.

Sacerdotal, *a.* (Ll. *sacerdotalis*) offeiriadol; perthynol i offeiriad, i offeiriaid, *neu* i'r offeiriadaeth.

Sacer Morbus, *s.* (Ll.) haint dygwydd, maeglwyf, clwyf Tegla.

Sachel, *s.*=*Satchel*.

Sachem, *s.* penaeth yn mhlith rhai o Indiaid brodorol America.

Sachemdom, *s.* llywodraeth Sachem.

Sack, *s.* (S. *sacc*, *sæc;* Al. *sack;* Gw. *sac;* Ff. *sac;* Ll. *saccus;* Gr. *saccos*) sach, ffetan; sachaid, ffetanaid.
A little sack—sachell, sachgwd, crynsach.
A sack of wool—sach *neu* sachaid o wlan =22 maen, neu 308 pwys.
Sack (a measure)—sachaid=3 mwysel.

Sack, *s.* (Ll. *sagum;* Gr. *sagos;* C. *segus*) sachwisg.

Sack, *s.* (Ff. *sec*, *seche*) gwin seg.
Sack-posset—posel gwin a llaeth.

Sack, *v. a.* sachu, sacheidio; rhoi *neu* ddodi mewn sach *neu* sachau; sechu.

Sack, *v. a.* (Llyd. *sacqa;* Gw. *sacham;* Ysp. *saquear*) anrheithio, diffeithio, difrodi; treisio ac anrheithio; ysbeilio.
To sack a town—treisio ac anrheithio tref; diffeithio tref, difrodi tref.

Sack, *s.* anrheithiad, diffeithiad, difrod, treisiad ac anrheithiad; anrhaith.
The sack of Troy—difrod Troia; trais ac anrhaith Troia; treisiad ac anrheithiad Troia.

Sackage, } *s.* anrheithiad, difrodiad, diffeithiad;
Sacking, } treisiad ac anrheithiad.

Sack-barrow, *s.* berfa sach, berfa sachau.

Sackbut, *s.* (Ysp. *sacabuche*) modgorn, eddgorn, sarffell; math ar hen delyn; dulcimer (*Dan.* iii. 7).

Sackcloth, *s.* (*sack* a *cloth*) sachlïain, sachlïan, sachlen; sachwisg, gwisg o sach.
Sackclothed, *a.* wedi ymwisgo â sachlïain, &c.; sachlenog.
Sacker, *s.* anrheithiwr, anrheithydd, difrodwr, difrodydd; treisiwr ac anrheithydd.
Sackful, *s.* (*sack* a *full*) sachaid, ffetanaid, llonaid sach, llonaid ffetan.
Sacking, *s.* (S. *seccing*) llïain *neu* ddefnydd sachau; sachlen, sachlïan; sach, gwaelodlen, *neu* sach-we gwely.
Sackless, *a.* (S. *sachleas*) llonydd, tawel, heddychol, diniwed, gwirion. [cwman.
Sacral, *a.* (o *sacrum*) perthynol i asgwrn y
Sacrament, *s.* (Ll. *sacramentum*) sacrament, sacrafen, segrafen; y cymun, y cymun santaidd, y cymundeb.
To administer the sacrament—gweinyddu y cymun; cymuno.
To receive the sacrament—derbyn y cymun; cymuno.
The two sacraments—y ddau sacrament, y ddwy sacrafen, y ddwy segrafen.
Sacrament,† *v. a.* rhwymo trwy lw.
Sacramental, *a.* sacrafenol, sacramentol, segrafenol, sacrafenaidd, sacramentaidd; cymunol, cymundebol.
The sacramental wafer, } arlladen, afrlladen,
The sacramental cake, } afrllad, gorlladen, teisen afrllad, teisen arllad: *pl.* arllad, afrllad, gorllad.
Sacramental, *s.* à berthyno i sacrament.
Sacramentals—pethau sacramentol, sacrafenolion; cymunolion; gwyneithaid.
Sacramentarian, *s.* sacrafenwr, sacrafenydd, sacramentwr, segrafenwr; un à wahaniaetho oddi wrth Eglwys Rhufain a'r Lutheriaid yn nghylch y cymun santaidd.
Sacramentary, *s.* llyfr y sacramentau, cymuniadur; sacramentwr, sacramentydd.
Sacramentary, } *a.* sacrafenyddol, sacrament-
Sacramentarian, } yddol, segrafenyddol.
Sacrate,† *v. a.* (Ll. *sacro*) cyssegru, segru.
Sacre, *s.*=*Saker.*
Sacred, *a.* (Ll. *sacer*; Ff. *sacré*) santaidd, sanctaidd, cyssegredig, cyssegr, cyssegrol, cyssegrlan, glân, sant, glwys, pur, dihalog, myg, edmyg, glain.
To make sacred—cyssegru; gwneuthur yn santaidd, &c.
Sacredness, *s.* cyssegredd, cyssegredigrwydd, santeiddrwydd, cyssegredigaeth, seintiolaeth, glwysedd, mygedd, edmygedd.
Sacrific, } *a.* (Ll. *sacrificus*) aberthol.
Sacrifical, }
Sacrificable, *a.* aberthadwy.
Sacrificant, *s.* aberthydd, aberthwr, aberthor.
Sacrificator,† *s.* aberthwr, aberthydd.
Sacrificatory, *a.* aberthedigol; offrymedigol.
Sacrifice, *s.* (Ff.; Ll. *sacrificium*) aberth; offrwm; arllad.
Burnt-sacrifice—llosgaberth, poethaberth, aberth llosg, aberth tanllyd, hollboeth.
To burn sacrifice—llosgaberthu, poethaberthu; offrymu aberth llosg; arogldarthu (2 *Cron.* ii. 6).
Sacrifice, *v.* aberthu; offrymu; rhoddi yn aberth.
Sacrificer, *s.* aberthwr, aberthydd, aberthor, aberthiedydd; offrymwr, offrymydd.
Sacrificial, *a.* aberthol, aberthedigol; offrymol, offrymedigol.

Sacrilege, *s.* (Ff.; Ll. *sacrilegium*) cyssegr-ysbail, cyssegr-ladrad, cyssegr-anrhaith, lladrad eglwys, glwys-ladrad.
To commit sacrilege—cyssegr-ysbeilio, cyssegr-ladrata, gwneuthur cyssegr-ladrad; ysbeilio *neu* anrheithio eglwys *neu* gyssegr.
Sacrilegious, *a.* (Ll. *sacrilegus*) cyssegr-ladradol, cyssegr-ladradaidd, cyssegr-ysbeiliawl; cyssegr-ladradgar, cyssegr-ysbeilgar; euog o gyssegr-ladrad.
A sacrilegious person—cyssegr-ysbeiliwr, cyssegr-ysbeilydd, ysbeiliwr cyssegr.
Sacrilegiously, *ad.* yn gyssegr-ladradol, &c.; fel *neu* megys ysbeilio cyssegr; ar wedd ysbeilio cyssegr. [ysbeilgarwch.
Sacrilegiousness, *s.* cyssegr-ladradaeth; cyssegr-
Sacrilegist, *s.* cyssegr-ysbeiliwr, cyssegr-ysbeilydd, ysbeiliwr cyssegr.
Sacring, *a.* (Ll. *sacer*) arferedig mewn swyddau santaidd.
Sacring-bell, }
Sancte-bell, } *s.* cloch yr aberth, cloch yr ar-
Sacringe, } lladen, cloch yr offeren.
Sacrist, } *s.* (Ff. *sacristain*; Ysp. *sacristan*)
Sacristan, } ceidwad pethau cyssegredig; ceidwad y cyssegrolion; swyddog *neu* ysgolïaig eglwys; clochydd.
Sacristy, } *s.* (Ff. *sacristie*) gwisgle eglwys,
Sacristry, } gwisgle, gwisgfa.
Sacrosanct,† *a.* (Ll. *sacrosanctus*) cyssegrlan.
Sacrum, *s.* (Ll.) asgwrn y cwman.
Sad, *a.* (C. *sad*, yn ol *Webster*) trist, athrist, prudd, tristlawn, anhylon, arbrudd, galarus, aflawen, amdrist, dybryd, dybyriol, hyfrwyn, cymrwyn, brwyn; wynebdrist; gresynol, gresynus, gresyn, gresin, truenus; tost, blin, aele; trwm, caled; sal, salw; gwael, tlawd; garw, gerwin; cymylog, caddugog; difrif, difrifol, symul; tywyll, du; †sad.
Sad news—newydd trwm, caled, blin, *neu* dost; newyddion trwm, &c.
Sad poetry—prydyddiaeth sal, prydyddiaeth dlawd, prydyddiaeth wael.
Sad weather—tywydd brwnt, budr, *neu* domlyd; tywydd tost.
Sad work—gwaith trwsgl, gwrthun, truenus, drwg, gwael, *neu* dwyllodrus.
Sad deed — gweithred dywyll, ddu, *neu* ddybryd.
Sad job — gorchwyl anffodiog, anffodus, trwch, *neu* anhapus.
Sad workman — gweithiwr drwg, difedr, trwsgl, anfedrus, *neu* dywyll; gweithiwr twyllodrus.
It is a sad thing—peth blin, tost, gofidus, trwch, gresyn, *neu* druenus ydyw.
Sad case—cyflwr gresyn.
A sad dog, } dyhiryn brwnt; crogyn o
A sad fellow, } ddyn; dyhiryn o'i galon; dyhiryn o'i fodd; drelgi, diffeithgi.
Sad mischance, } anffawd drom, anffawd
Sad misfortune, } flin.
Sad complaint—cwyn trist, athrist, prudd, *neu* resynus; dirgwyn.
Sad fright—braw aele, braw anhylon, dychryn aflawen.
Very sad—trist iawn, athrist, cyfrdrist, gordrist, gordrwm, gorthrwm.
Somewhat sad—godrist, gobrudd.
To grow sad—tristäu, pruddhau; myned yn drist, &c.

To make sad—tristau, pruddhau; gwneuthur *neu* beri yn drist, &c.; peri tristwch (i un).

Sad bread†—bara trwm, trymaidd, *neu* doeslyd.

Sadden, *v.* tristäu, pruldhau; trymhau; gwneuthur yn drist, &c.; myned yn drist, &c.; dybyrio; sarigo; †tywyllu, duo.

Saddle, *s.* (S. *sadel, sadl; sattel;* Al. *sattel;* Gw. *sadhall*) cyfrwy, gobell, ysgobell, sadell, dibr, cyfystrawd.

Saddle (of a carcase)—tumon.

Side-saddle—cyfrwy untuog, cyfrwy meroh, cyfrwy untu, cyfrwy tuog, pilyn (yn Ngwynedd).

Pack-saddle — ystarn, pynioreg, pynoreg, ystrodyr, sadell bynau, panel pwn, panel.

Put the saddle on the right horse—rhowch y baich ar ei berchen; rhowch y bai ar ei berchen.

A saddle and its furniture—cyfystrawd.

Saddle, *v. a.* cyfrwyo, gobellu, sadellu, dibra; rhoi *neu* ddodi cyfrwy ar gefn; rhoi *neu* ddodi cyfrwy ar gefn ceffyl; llwytho, beichio, pynio.

Saddle of mutton—tumon mollt.

Saddle-backed, *a.* cefnbant, cefnisel.

Saddle-bag, *s.* marchgod, sadellgod.

Saddle-bow, *s.* (S. *sadl-boga*) cambren cyfrwy, bwa cyfrwy, camedd blaen cyfrwy.

Saddled, *p. p.* cyfrwyog, sadellog, gobellog; cyfrwyedig, &c.

Saddle horse, *s.* ceffyl cyfrwy, march cyfrwy, ceffyl marchogaeth.

Saddler, Saddle-maker, *s.* cyfrwywr, sadellwr, sadellydd, dibrwr, gobellwr.

Saddler's trade—sadellwriaeth, sadellyddiaeth, cyfrwywriaeth, gobellwriaeth.

Saddlery, *s.* cyfrwyau, sadellau, cyfystrodau; sadellwriaeth, sadellyddiaeth; pethau à werthir gàn gyfrwywyr.

Saddle-shaped, *a.* ar lun *neu* wedd cyfrwy; cyfrwyaidd, sadellaidd, sabellaidd.

Saddle-tree, *s.* pren cyfrwy.

Sadiron, *s.* haiarn dillad, haiarn golchyddes, haiarn caboli.

Sadly, *ad.* yn drist, &c.

Sadness, *s.* (o *sad*) tristwch, tristedd, tristyd, athristwch, athristedd, prudd-der, pruddineb, pruddedd, trymder, trymedd, dybryder, dyfrydedd, dyfrydwch, afar, afarwy, llawryd, trymfrydedd; difrifoldeb; sadrwydd.

Safe, *a.* (Ff. *sauf, saure,* o'r Ll. *salvus*) diogel; diberygl, diasgen; sicr; diangol; iach; ymwaredol; à fo mewn diogelwch *neu* amddiffynfa; da.

Safe place—diogelfa, diogelfan, lle diogel.

Safe deliverance—rhyddhad ymwaredol.

Safe man—dyn ymddiriedus, dyn dystaw.

Safe return—dychweliad da dedwydd; dychweliad da a dedwydd.

God keep you safe — Duw a'ch cadwo; cadwed Duw chwi.

I wish you safe home—mi a'ch dymunaf yn iach adref.

He is come home safe—daeth adref yn iach, yn iach lawen, yn iach ddianaf, yn ddiangol, yn ddiasgen, *neu* yn iach ddiasgen.

With a safe conscience — gyda chydwybod dda.

This is a safe way—ffordd dda yw hon; ffordd diberygl ydyw hon.

Safe and sound—iach ddianaf, iach ddiasgen; difai dianaf.

To make safe—diogelu; diofalu; gwneuthur yn ddiogel.

To keep safe—diogelu; diofalu; cadw yn ddiogel.

Safe-pledge—mach *neu* wystl ar ateb.

Safe, *s.* crogell, cell grog; diogelfa, lle diogel.

Safe,† *v. a.* diogelu.

Safe-conduct, *s.* diogelwch i fyned a dyfod; nodded gyhoedd, nawdd cyhoeddus, teithnodded, teithnawdd, ymdeithnawdd; canymdoad diogel; nodded breuin; nawdd gwlad; teithgynnwys; canymdoad, canymdo; noddlu.

Safeguard, *s.* (*safe* a *guard*) amddiffynfa; amddiffyniad, diogelwch, amnawdd; canymdo; teithgynnwys, teithnodded, teithnawdd; ambais, arbais, amdrws.

Safeguards (in zoology)—math o fadfeilod.

Safeguard, *v. a.* amddiffyn, diogelu, canymdoi, gwarchadw.

Safe-keeping, *s.* cadwraeth, ceidwadaeth.

Safely, *ad.* yn ddiogel, &c.; mewn diogelwch.

Safeness, *s.* diogelwch, diogelrwydd, diogeledd.

Safety, *s.* (o *safe*) diogelwch, diogelrwydd; diangolrwydd; diasgenrwydd; cadwraeth, cadwedigaeth; diogelfa.

In safety—mewn diogelwch, &c.; yn ddiogel.

With all safety—o'r fath sicraf (*Act.* v. 23).

A place of safety—diogelfa, diogelfan.

Safflower, *s.* (*saffron* a *flower*) saffrwm basdardd, saffrwm lliwiol; lliw melyn saffr, lliw saffrwm.

Saffron, *s.* (Ff. *safran;* Al., Sw., a D. *saffran*) saffrwm, saffrwn, saffr, saffarn.

Saffron crocus—saffrwm meddygol, saffr meddygol, meddyges felen; saffrwm, saffr.

Meadow saffron — saffrwm y gweunydd, saffr y gweunydd.

To dye with saffron, To colour with saffron, saffrymu, saffru; lliwio à saffr.

Saffron, *a.* saffrymog, saffrymaidd, saffrymliw; o liw y saffrwm; o liw blodau y saffr; melyn, melynliw.

Saffron, *v. a.* saffrymu, saffru; lliwo à saffrwm; melynu; goreuro.

Saffrony, *a.* saffrymog, saffrymaidd, saffraidd, saffrol, saffrymliw; melyn, melynliw.

Sag, *v.* (=*sxag*) ymollwng, ymroddi, cilio; rhoncian, honcian, honcio; crogi *neu* orwedd yn drwm *neu* farwaidd; plygu; llwytho, beichio; gogwyddo; gogwyddo *neu* gliaw oddi wrth y gwynt.

Saga, *s.* chwedl arwraidd; un o chwedlau *neu* ramantau Dulychlyn.

Sagacious, *a.* (Ll. *sagax*) call, craffus, craff, synwyrgall, synwyrol, synwyrlym, doethbwyll, doethgar; craff, llym, *neu* gyflym ei ddeall; trywyddus, ffroen-graff, olrheinllym, ffroenllym.

Sagaciousness, Sagacity, *s.* (Ll. *sagacitas*) callineb, call-der, craffder, craffusrwydd, synwyroldeb, synwyrlymder, doethder; craffder, llymder, *neu* gyflymder deall *neu* synwyr; ffroenllymedd, ffroen-graffder, craffder ffroen; athreiddiad; amgyffred.

Sagamore, *s.* penaeth, teyrn *neu* frenin yn mhlith rhai o Indiaid America.

Sagathy, *s.* math ar ddefnydd brethynaidd; sars.

Sage, *s.* (Ff. *sauge;* Ar. *saoch*) ceidwad, gwerddonell, saets, saeds.
Wood sage—chwerlys yr eithin, chwerwlys yr eithin, chwerwyn y twyn, derlys y goedwig, llwyd yr eithin, triagl y Cymro, ceidwad wyllt, saets gwyllt.
Meadow sage—gwerddonell y waen.

Sage, *a.* (Ff.; Ll. *saga, sagus, sapio*) call, doeth, synwyrol, synwyrgall, doethbrudd, pwyllog, dwysgall, doethgar, doethbwyll, doethfawr, ffur.

Sage, *s.* doeth, (*pl.* doethion), gwr doeth, dyn doeth, gwr call, doethwr, doeth, gwyddon.
One of the sages of antiquity—un o ddoethion y cynfyd.

Sagene, *s.* mesur Rwssiaidd=o ddeutu 7 troedfedd.

Sageness, *s.* doethder, doethineb, callineb, calldder, calledd, doethbwyll, pwyllineb, synwyr.

Sagenite, *s.* (Gr. *sagênê*) rhwydfwn; egrid coch tudeinfwn.

Sagger, *s.* math o glai y gwneir potiau o hono.

Sagging, *s.* (o *sag*) plygiad *neu* ymollyngiad o dàn bwysau.

Sagina, *s.* (Ll.) corwlyddyn.

Saginate,† *v. a.* (Ll. *sagino*) gorbesgu, tewychu, mwythuso.

Sagitta, *s.* (Ll.) y Saeth=un o'r hen gydser.

Sagittal, *a.* (Ll. *sagittalis*) saethol; perthynol i saeth.
Sagittal suture—saethwrym.

Sagittaria, *s.* (Ll.) saethlys.

Sagittarius, } *s.* (Ll. *sagittarius*) y Saethydd;
Sagittary, } arwydd y Saethydd; dynfarch.

Sagittary, *a.* saethol; perthynol i saeth.

Sagittate, *a.* saethog; ar lun pen saeth.

Sago, *s.* math ar syth neu lud meithrinol à geir o fath ar balmwydd.

Sagoin, } *s.* math ar epa.
Sagouin, }

Sagum, *s.* (Ll) mantell filwraidd penswyddogion ac urddasolion Rhufain gynt.

Sagy, *a.* (o *sage*) llawn o'r geidwad; wedi ei gyweirio à'r geidwad.

Saic, *s.* math o longau Dyrcaidd neu Roegaidd.

Said, *p. p.* (o *say*) à ddywedwyd, dywededig, wedi ei ddywedyd, &c.
Little said is soon mended—ni bu drwg o dewi.
So it was said—felly y dywedid.
Well said, } da y dywedyd; da y dy-
That is well said, } wedwyd; da y dywedaist.

Sail, *s.* (S., Al., a Sw., *segel*) hwyl; llong; llongau.
Sails—hwyliau.
The jib sail—cynhwyl, y gynhwyl.
The main sail—ar hwyl fawr, yr hwyl fwyaf.
The mizzen sail—yr hwyl ol, hwyl y llyw, y dant-hwyl, hwyl y tant.
The sprit sail—yr hwyl flaen, yr hwyl flaenaf.
The top sail—y frig-hwyl, yr hwyl uchaf.
Fore sails—hwyliau blaen.
Aft sail—hwyliau ol.
Cross sails, } hwyliau croesion, hwyliau
Square sails, } traws.
Under sail—tàn hwyl, tàn hwyliau; hwyliog.
A hundred sail—cant o longau, can-llong, can-hwyl.
A fleet of a hundred sail—llynges ganhwyl.
To hoist sail—codi *neu* ledu hwyliau; dyrchafael hwyl.
To set sail—hwylio ymaith; rhoi yr hwyliau i'r gwynt; dechreu mordaith.
To strike sail—gostwng hwyl, gestwng hwyl.
To crowd sail—codi *neu* ledu pob hwyl; codi *neu* ledu yr holl hwyliau; codi *neu* ledu yr hwyliau oll; gwisgo pob hwyl; ymwisgo à phob hwyl.
To loose sails—dattod yr hwyliau; llaesu *neu* lacio yr hwyliau.
To bear high sails, } ymddwyn *neu* rodio
To carry high sails, } yn benuchel.
A few days' sail—hwyliad *neu* fordwyad dros ychydig ddyddiau.
In a few days' sail, } yn ol morio *neu*
After a few days' sail, } hwylio dros ychydig ddyddiau.
After three days' easy sail—yn ol morio *neu* hwylio yn araf dros dri dïwrnod.
After many days' slow sail—wedi hwylio yn annyben lawer o ddyddiau.

Sail, *v.* hwylio, morio, mordwyo.
To sail with a full gale—hwylio yn llwybraidd *neu* yn llwyddiannus; hwylio dàn lawn hwyliau; hwylio gyda hwylwynt; hwyliaw o flaen y gwynt; hwylio gyda dwr a gwynt; myned yn mlaen yn hwylus.

Sailable, *a.* hwyliadwy, moriadwy, mordwyadwy.

Sailbroad, *a.* ymledol fel hwyl.

Sailcloth, *s.* llian hwyl *neu* hwyliau.

Sailer, *s.* morwr, llongwr; hwyliedydd; llong, llestr.
A fast sailer—llong à hwylio yn gyflym; hwyliedydd buan.

Sailing, *s.* hwyliad, hwyliawd, hwyliedigaeth, moriad; hwylfa; mordwyaeth, mordwyad.

Sailless, *a.* dihwyl, heb hwyliau.

Sailmaker, *s.* gwneuthurwr hwyliau, hwylwneuthurwr.

Sailor, *s.* morwr, moriwr, llongwr, mordwywr.

Sailly, *a.* hwyluidd; tebyg i hwyl.

Sailyard, *s.* hwyl-lath; llath, trawst, *neu* drawstlath hwyl; hwyl-drawst.

Saim,† *s.* (C.; S. *seim*) saim, iraid, bloneg.

Sain,† *p. p.=Said.*

Sainfoin, } *s.* (Ff. *sainfoin*) codog, gwyran ben-
Saintfoin, } digaid, gogor-feillion.

Saint, *s.* (Ff.; Ll. *sanctus*) sant, sanct, glain: *f.* santes: *pl.* saint, seintiau, gleinion.
Holy saints—gleinion seintiau, seintiau gleinion, seintiau glanfucheddol.
Saint David—Sant Dewi, Dewi Sant.
Saint Anne—Sant Ann, Ann Santes.
A female saint—santes.
Saint Anthony's fire—tân iddwf, fflam iddwf, iddwf.
The guardian saint of a parish—mabsant.
The saints in heaven—y seintiau yn y nef; trigolion y nef.

Saint, *v.* seintio; gwneuthur yn sant; ymarwedd yn seintaidd.

Sainted, *a.* seintiedig; santaidd, sant, cysegredig; duwiol; gleiniol.

Saintess, *s.* santes: *pl.* santesau.

Saint John's Wort, *s.* eurinllys, nele.
Square Saint John's wort, } eurinllys pedr-
Saint Peter's wort, } ongl, llysiau Pedr.
Perforated Saint John's wort—candoll, eurinllys trydwll, tarfwgan.
Imperforated Saint John's wort—godwllon, eurinllys mawr.
Trailing Saint John's wort—eurinllys mân ymdaenol, eurinllys ymdaenol.
Mountain Saint John's wort—eurinllys mynyddol.
Small upright Saint John's wort—eurinllys mân syth.
Marsh Saint John's wort—eurinllys y gors.
Saintlike, } *a.* tebyg *neu* gyffelyb i sant; megys
Saintly, } sant; ar wedd sant; seintaidd; santaidd, sanctaidd.
Saint Peter's Wort, *s.* llysiau Pedr, eurinllys pedrongl.
Saint's-bell, *s.* y gloch sant, y sein-gloch, y gloch alw, y gloch fach=y gloch â genir yn Eglwys Rhufain pan ddywedir 'Sant, Sant, Sant, Arglwydd Dduw Sabaoth.'
Saintship, *s.* santaeth; braint ac ansawdd sant; braint ac urddas sant.
Sajene, *s.* mesur Rwssiaidd=o ddeutu 7 troedfedd.
Sake, *s.* (S. *sac, saca;* Is. *saak;* Al. *sacke*) mwyn; achos, ethryb, achlysur; cyfrif.
For the sake of—er mwyn, er.
For my sake—er fy mwyn; er fy mwyn i; erof, erddof, erddwyf.
For his sake—er ei fwyn; er ei fwyn ef; ero, erddo, ero ef, erddo ef.
For her sake—er ei mwyn; er ei mwyn hi; erddi, eri.
For thy sake—er dy fwyn; er dy fwyn di; erot, erddot, erod.
For our sake—er ein mwyn; er ein mwyn ni; erom, erddom.
For your sake—er eich mwyn; er eich mwyn chwi; eroch, erddoch.
For their sake—er eu mwyn; er eu mwyn hwynt; erddynt, erynt, eront.
For your own sake—er eich mwyn eich hun.
For God's sake—er mwyn Duw; er Duw; er cariad *neu* serch ar Dduw.
For the sake of peace—er mwyn heddwch; er serch *neu* gariad ar heddwch.
For brevity's sake—er mwyn bod yn fyr; er mwyn byrder.
For righteousness' sake—er mwyn cyfiawnder; o achos cyfiawnder.
For truth's sake—er mwyn y gwirionedd; ar gyfrif y gwirionedd.
For man's sake—er mwyn dyn; er dyn.
Saker, *s.* (Ff. *sacre*) math o hebog; morhebog; math o gyflegr.
Sakeret, *s.* morhebog gwryw.
Sal, *s.* (Ll.) hal, halan, halen.
Salable, *a.*=*Saleable.*
Salacious, *a.* (Ll. *salax*) anllad, trythyll, anniwair, nwyfus, chwantus, llawd, llodig.
Salaciousness, } *s.* anlladrwydd, trythyllwch,
Salacity, } anniweirdeb, nwyfusrwydd, llodrwydd, llodineb, chwantach, chwant, dyre.
Salad, *s.* (Ff. *salade*) bwydlys, addail; bwydlysiau.
Corn salad—gwylaeth yr oen, dïadwyth, llysiau yr oen.
Salad-oil—olew addail; olew yr olewydd.
Salade, *s.*=*Sallet.*
Salading, *s.* bwydlysiau, addail.
Salam, *s.* (gair dwyreiniol) cyfarch, cyfarchiad.
Salamander, *s.* (Gr. a Ll. *salamandra*) math o bryf tebyg i'r geneugoeg; pryf (dychymygol) y tân; tanfil, tanbryf; procyr coch.
Salamandrine, *a.* perthynol *neu* debyg i'r tanbryf; anllosgadwy, anhyloesg.
Salanx, *s.* (Gr.) y pysg penhwyad.
Salaried, *a.* â chyflog iddo.
Salary, *s.* (Ff. *salaire;* Ll. *salarium*) cyflog, tâl, hur, gwasobr, gobr, daer, daffar.
Sale, *s.* (S. *sal;* Sw. *sälja*) gwerthiad, gwerthiant, arwerthiad, arwerthiant; gwerth, arwerth.
On sale—ar werth; i'w werthu.
Public sale, } arwerthiant cyhoedd, ar-
Open sale, } werthiad cyhoedd.
Set to sale—ar werth; rhoddedig ar werth.
To set to sale—rhoi, rhoddi, *neu* gynnyg ar werth; rhoi dân bris; gosod ger bron i'w werthu; gosod ar werth.
There is no sale of it—nid oes gwerth arno; nid oes mo'r gwerth arno; ni cheir gwerth arno; ni cheir mo'r gwerth arno.
Sale, *a.* gwerthedig; pryn, prynedig.
Sale shoes—esgidiau gwerth; esgidiau pryn; esgidiau sal.
Sale, *s.* (S. *salas?*) basged forhelyg.
Saleable, *a.* gwerthadwy, hywerth; hawdd ei werthu; â gwerthu arno.
Saleable horse—march gwerthadwy, march gwerth.
Saleableness, *s.* hywerthedd, hywerthrwydd.
Salebrosity, *s.* gerwindeb, gerwinder, garwedd, afiyfnder, anwastadrwydd.
Salebrous, *a.* (Ll. *salebrosus*) garw, gerwin, afiyfn, anwastad, clogyrnog.
Salep, } *s.* (Tyrcaeg) math o grynwraidd sych-
Salop, } ion arferedig mewn meddyginiaeth;
Saloop, } crynwraidd tegeirian; pylor tegeirian.
Saleb, }
Salesman, *s.* (*sale* a *man*) gwerthwr, gwerthydd, gwerthiedydd; gwerthwr *neu* werthydd dillad; gwerthwr anifeiliaid dros arall.
Salework, *s.* gwaith gwerth; gwaith pryn; gwaith sal, gwael, *neu* anghelfydd.
Sal-gem, *s.* halen cyffredin.
Saliant, } *a.*= } *Salient.*
Salient, } } *Saliant.*
Salic, } *a.* (Ff. *salique*) perthynol i gau berSalique, } ywaid oddi wrth y goron.
Salic law, } cyfraith yn Ffrainc yn cau
Salique law, } benywaid oddi wrth y goron; y gyfraith Salig.
Salicin, } *s.* (Ll. *salix*) helygnwr; sylwedd
Salicine, } chwerw yr helyg.
Salicornia, *s.* (Ll. *sal* a *cornu*) llyrlys, chwyn hallt.
Salient, } *a.* (Ll. *saliens*) ar y naid, ar y llam,
Saliant, } ar ei naid, ar ei lam, ar naid, ar lam; yn neidio, yn llamu; neidiol, ysboncio, dychlamol, yn dychlamu, yn ysboncio, yn neidio, ar neidio, yn llamu; yn esgor; yn ysgwyddo allan; yn taflu *neu* yn tasgu allan; gorysgwyddol, tyddfol, ysgyrnol, efyrnol, prwysol.
Salient angle—rhagongl, rhagelin.
Lion salient—llew ar y llam; llew ar yr glyfnaid.

Saliferous, *a.* (Ll. *sal* a *fero*) halddwyn; yn dwyn *neu* gynnyrchu halen.
Saliferous rocks—creigiau halddwyn.
Salifiable, *a.* (o *salify*) haladwy, halenadwy; y gellir ei gyfuno â sur i wneyd hal.
Salifiable bases—sodion haladwy, sodeion haladwy.
Salification, *s.* halan, haleniad; troad yn hal *neu* halan.
Salify, *v. a.* (Ll. *sal* a *facio*) halu, halanu, halenu; troi yn hal; cyfuno sur â sawd.
Saligot, *s.* (Ff.) ysgallen y dwr; ysgall y dwr.
Salination, *s.* (Ll. *sal*; Ff. *salin*) golchiad â heli; golchiad â dwr hallt; heliad.
Saline, } *a.* (Ff. *salin*, o'r Ll. *sal*) heliaidd,
Salinous, } heliog, hallt, hall, halltin, halenog; yn cynnwys halen; lledhallt, gohallt, halltaidd.
Saline, *s.* (Ff.; Ysp. ac It. *salina*) ffynnon hallt, ffynnon heli, ffynnon halen; heledd, pwll heli; golchludw cyn ei greisioni.
Salineness, *s.* halltrwydd, halltineb, halltni.
Saliniferous, *a.* (Ll. *sal*, *salinum*, a *fero*) halddwyn; yn dwyn *neu* gynnyrchu halen.
Saliniform, *a.* (Ll. *salinum* a *form*) ar wedd halen; halenaidd.
Salite, *v. a.* (Ll. *salio*) halltu, halenu, halu, hallu.
Saliva, *s.* (Ll.) haliw, aliw, poer, glyfoer.
The saliva—yr haliw, yr aliw.
Salival, } *a.* haliwol, aliwol, poerol, glyfoerol;
Salivary, } yn cynnwys poer *neu* aliw; perthynol i'r haliw *neu* y poer.
The salival glands—cilchwyrn yr aliw.
Salivant, *a.* haliwedigol, poeredigol; â gynnyrcho boer *neu* haliw.
Salivant, *s.* cyffyr â gynnyrcho haliw; poerai.
Salivate, *v. a.* haliwo, aliwo, haliwio; poerllydu, poeriannu; peri haliwo, poerlifo, *neu* lyfoerio; dwyn poerlif; rhoi mewn enaint.
Salivation, *s.* haliwiad, aliwiad, poeriant, poerlifiant; poerlif; poerllydwydd; eneinfa.
He was put into a salivation—rhoed ef i haliwo; efe â roddwyd i orwedd mewn enaint.
Salivous, *a.* haliwol, aliwol, haliwog, poerllyd, poeriannol, glyfoerllyd.
Salix, *s.* (Ll.) yr helyg; helygen.
Sallad, *s.*=*Salad*.
Salle, *s.* (Ff.) neuadd.
Sallet, } *s.* (Al. *schale*) penial, penffestin, pen-
Salade, } or, helm; helm ysgafn.
Sallet, } † *s.* (llygriad o *salad*)=*Salad*.
Salleting, }
Sallience,† *s.* (o *sally*) rhuthr, rhuthrad.
Sallow, *s.* (S. *salh*, *salig*; Ff. *saule*; Ll. *salix*) helygen; merhelygen, helygen felen.
Water sallow—dyfr-helygen, helygen gyffredin.
Great round-leaved sallow—helygen gryndail fwyaf.
Long-leaved sallow—helygen grych hirddail, helygen grech hirddail.
Sallow thorn—myrrafnwydden; *pl.* myrrafnwydd.
Sallow grove—helyglwyn, llwyn helyg.
Sallow, *a.* o liw yr helyg *neu* y merhelyg; melynlas, melynliw, llwydfelyn, melynllwyd, glasfelyn, melyn; melynaidd, llebliw; gwelw; clafaidd; goglaf, salw, aflach.
Sallowness, *s.* melynlesni, glasfelynder, melyndrs, melynedd, melynrwydd, gwelwedd; clafeiddrwydd, goglafwch.
Sally, *s.* (Ff. *saille*; Ll. *salio*) rhuthr, cyrch, rhuthrad, rhuthriad, rhysgyr, rhuthgyrch; rhuthr disymmwth; gwib, crwydr, gwibrawd; ergyd; hedfa; prane, rhont, gofreg; gorysgwydd, efwrn.
To make a sally—gwneuthur cyrch, rhuthr, *neu* rysgyr; rhuthro, cyrchu, *neu* redeg allan.
A sally of wit—fflach o arabedd *neu* ffraethineb; ergyd disymmwth o arabedd; ergyd *neu* ruthr o lym synwyr; ergyd *neu* ruthr o lymder synwyr; hedfa o ffraethineb.
Sally, *v. n.* rhuthro, cyrchu; gwneuthur rhuthr, cyrch, *neu* rysgyr; rhuthro allan.
To sally forth, } cyrchu, rhuthro, *neu* red-
To sally out, } eg allan.
Sally-port, *s.* cyrch-borth, rhuthr-borth.
Salmagundi, } *s.* (Ff. *salmigondis*; o'r Ll. *sal-*
Salmagundy, } *gama*) dysglaid amryfwyd, dysglaid o gymmysgfwyd=dysglaid o gig a phenwaig briw, yn nghyd âg olew, gwinegr, pupyr, a wynwyn.
Salmiac, *s.* (talfyriad o *sal ammoniac*) hal ammonia, hal hedwrthsur.
Salmon, *s.* (Ll. *salmo*) eog, gleisiad; maran, penllwyd, gaflaw, adfwlch, gwyniad y gog, gwyniad haf, brithyll y môr, brithyll du, brithyll brych, camog.
Male salmon—cemyw.
Female salmon — hwyfell, hwyddell, chwiwell.
Young salmon, } glasfaran, eogyn, ffithell,
Salmon-peel, } gaflaw.
Salmon net—gleisiadeg, gaflaweg.
To fish for salmon, } eoca.
To catch salmon, }
Salmon-pipe—cest bysgod.
Salmon-fry—mân eogiaid; grawn pysg eog; silod brithion, sil y gro, brith y gro, sil eogiaid.
Spawning salmon—maran.
Salmonet, } *s.* eogyn, gleisiedyn, glasfaran,
Samlet, } brith y gro.
Salmonoid, *a.* eogaidd; perthynol i'r pysg o lwyth yr eog.
Salmon-trout, *s.* eogfrithyll, gwyniedyn, brychiad.
Saloon, *s.* (It. *salone*; Ysp. a Ff. *salon*) uchel neuadd, gorneuadd, neuadd fawr nen-uchel.
Salpicon,† *s.* (Ysp.) cymmysgfwyd, cymmysgfa.
Salsafy, } *s.* (Ff. *salsifis*) barf yr afr genin-
Salsify, } ddail, barf yr afr gochlas.
Salsamentarious, *a.* (Ll. *salsamentarius*) perthynol i bethau heilltion; hallt.
Sal Seignette, *s.* hal Rhosiel, blawr Rhosiel.
Salsoacid, *a.* (Ll. *salsus* ac *acidus*) halsur.
Salsola, *s.* (Ll. *salsus*) hel-lys, helas.
Salsuginous, *a.* (Ll. *salsugo*) halltaidd, lledhallt, go hallt.
Salt, *s.* (S. *salt*, *sealt*; Al. *salz*; Ll. *sal*; Gr. *hals*) halen, halan, hal; halltrwydd; heli; blas.
Epsom salt, } hal Epsom, halan
Sulphate of magnesia, } Epsom, ufelgris
Magnesia, ufelawd tudbaill.
Glauber salt, } hal Glauber, halan
Sulphate of soda, } Glauber, llysnurhalan, ufelgris llysnur, ufelawd llysnur.

Oxy-salts—egrhalion.
Basket-salt — halen ter, terhalen, halen bord.
A pair of salts—llestr halen.
Salt (in cant language)—morwr, llongwr.
To turn to salt—halenu; troi *neu* fyned yn halen.

Salt, *a.* hallt; anllad, llodinebus, trythyll, cynäig; †tostlym.
Salt beef—cig eidion hallt.
Salt meat—cig hallt.
Salt marsh—morfa hallt, tir hal, hal.
Salt water—dwfr hallt, heli.
Salt bitch—gast gynäig, gast gynnherig.
To be salt—cyna, cyneica; bod yn gynäig *neu* gynnherig.
Neither fresh nor salt—nac of na hallt.

Salt, *v. a.* halltu, halenu, hallu; helïo.
Salted meat—cig hallt; cig wedi ei halltu; cig halltedig.
Not salted—heb ei halltu; dihallt.

Salt,† *s.* (Ff. *saut;* Ll. *saltus*) naid, llam; neidiad.

Saltant, *a.* (Ll. *saltans*) neidiol, llamol, yn neidio, yn llamu, llamsachus.

Saltation, *s.* (Ll. *saltatio*) neidiad, llamiad, dychlamiad, crychlamiad, cyrchlamiad.

Saltatory, } *a.* neidiol, llamol, llamedigol;
Saltatorious, } cyfaddas i lamu *neu* neidio.

Salt-box, *s.* crwth halen, llestr halen, cist halen.

Salt-cat, *s.* cath halen; llith colomenod.

Salt-celler, *s.* halenai.

Salter, *s.* halltwr, halltydd, halltiedydd; halenwr, halenydd, gwerthwr halen.

Saltern, *s.* gwaith halen, halenfa, halendy.

Salt-fish, *s.* pysg hallt; pysgod hallt, pysgod heilltion; †pysg dwr hallt.

Salt-green,† *a.* morwyrdd.

Saltier, } *s.* (Ff. *sautoir;* Ll. *salto*) croes ym-
Saltire, } groes, croes gynghroes; croes ar lun X; croes Sant Andreas.
Saltier cross=*Saltier, Saltire.*

Saltigrades, *s. pl.* (Ll. *saltus* a *gradior*) llamgorynod, llamgorod: *sing.* llamgoryn.

Saltinbanco,† *s.* (Ff. *saltimbanque*) coegymhonwr, crachfeddyg.

Salt-house, *s.* ty halen, halendy.
The salt-house—ty yr halen.

Salting, *s.* halltiad, haleniad; morfa hallt.
To go a salting, } cyna, cyneica.
To go a salt, }

Saltish, *a.* halltaidd, gohallt, lledhallt, halenaidd, hallaidd.

Saltishness, *s.* gohalltrwydd, lledhalltrwydd, halltelddrwydd.

Saltless, *a.* dihalen, heb halen, anhallt, dihallt; croew, crai.

Salt-merchant, *s.* halenwr, halenydd, gwerthwr halen.

Salt-mine, *s.* clawdd halen, cloddfa halen.

Saltness, *s.* halltrwydd, helltni, halltni, halltineb.
Saltness (of a bitch)—cyneigrwydd, cyneigedd, cyneigdod.

Salt-pan, *s.* padell halen, heledd.

Salt-pit, *s.* heledd, pwll halen, pwll heli.

Saltpetre, *s.* (*salt,* a Gr. *petron*) halen y graig, creighalen, creighal, blawr.

Saltpetrous, *a.* bloraidd, blorog, creighalaidd, creighalenaidd.

Salts, *s. pl.* halion, haloedd, blawr, blorion; cartheion, cotheion, cartholion.

Salt-sea, *s.* môr hallt, môr heli, hallfor.

Salt-spring, *s.* ffynnon hallt, ffynnon heli.

Saltwork, *s.* gwaith halen; halenfa; halendy.

Saltwort, *s.* hel lys.
Prickly saltwort—hel-lys ysbigog.
Black saltwort—helaa.

Salty, *a.* halltaidd, lledhallt, gohallt.

Salubrious, *a.* (Ll. *saluber*) iachus, iach, iachusol.

Salubriousness, } *s.* iachusrwydd, iachusoldeb.
Salubrity, }

Salutariness, *s.* iachusrwydd.

Salutary, *a.* (Ll. *salutaris*) iachus, iachusol, iach, iechin, iachwyol.

Salutation, *s.* (Ff.; Ll. *salutatio*) cyfarchiad, anerchiad, cyfarch, anerch, damarch, anerchedd.

Salutatory, *a.* cyfarchol, cyfarchiadol, anerchol, anerchiadol, cyfarchedigol.

Salutatorian, *s.* cyfarchwr (yn mhrifysgolion America).

Salute, *v. a.* (Ll. *saluto*) cyfarch, anerch, cyfarch i, cyfarchu; cyfarch gwell i; dyanerch; cusanu; boddio.

Salute, *s.* cyfarch, anerch, cyfarchiad, anerchiad, damarch; cusan.

Saluter, *s.* cyfarchwr, anerchwr.

Salutiferous, *a.* (Ll. *salutifer*) iachusol, iachus, iach; yn dwyn iechyd.

Salvability, } *s.* (o *salvable*) cadwadwyoldeb,
Salvableness, } cadwadwyolrwydd, dichonoldeb iachawdwriaeth.

Salvable, *a.* (Ll. *salvus*) achubadwy, cadwadwy, gwaredadwy, cadwadwyol; â ellir ei gadw; â eill fod yn gadwedig.

Salvage, *s.* (Ff. o'r Ll. *salvus*) tâl ymwared, gwobr ymwared, achub-log, achub-dal; arian â delir i'r neb a achubo long o ddirfawr berygl.

Salvage,† *s.* anwariad, cynfrodor gwyllt; anwar.

Salvation, *s.* (Ll. *salvatio*) iachawdwriaeth, iechydwriaeth, iechineb, achubiaeth, gwaredigaeth, ymwared.

Salvatory, *s.* (Ff. *salvatoire*) cadwfa, ystorfa, cronfa, percell, cludlan; lle i gadw pethau.

Salve, *s.* (S. *scalve;* o'r Ll. *salvus*) eli, enaint paeled; help, cymhorth; meddyginiaeth, rhwymedi, iachâd.
Eye-salve—eli llygaid.

Salve, *v. a.* eliо; rhoi eli wrth; iachäu, meddygu, meddyginiaethu; helpu; gwellhau âg esgus; †cyfarch.

Salver, *s.* (o *salve*) heilyr, heiliedydd, heilydd, dysgl heilio, heil-ddysgl, heilyr troediog; †iachäwr, meddyg.
Quack-salver—crachfeddyg, coegfeddyg.

Salvia, *s.* (Ll.) y geidwad, gwerddonell, saets.

Salvific, *a.* (Ll. *salvus* a *facio*) achubedigol, cadwedigol, gwaredigol.

Salvo, *s.* (o'r Ll. *salvo jure*) esgus, cysgod, rhith; llociies, chwiwdwll, dïangfa; eithrad, gooheliad; argeliad; cyfarch milwraidd.
To find a salvo for every objection—cael allan ateb i bob gwrthddadl; mynu eli i bob clwyf.

Salvor, *s.* achubydd llong o berygl.

Sambo, *s.* epil un du a melynog.

Sambucus, *s.* (Ll.) ysgaw; ysgawen.

Same, *a.* (S. *same;* Sw. *samme*) un, yr un, unrhyw; hwnw; hôno; hyny; hwn; hon; hyn.

The same—yr un, yr unrhyw; efe; hwn; hwnw: hi; hon; hòno: yr un modd.
The very same—efe ei hun; hwn ei hun; hwnw ei hun: hi ei hun; hon ei hun; hòno ei hun: hwnw ac nid arall, &c.
One and the same—yr un a'r unrhyw; yr un ac nid arall; yr unrhyw, yr un, yr un un.
This same day—o fewn corff y dydd hwn.
Even the same that.....—yr hyn yr..... (*Ioan* viii. 25).
Of the same body—yn gyd-gorff (*Eph.* iii. 6).
I am in good health, I hope you are the same—yr wyf fi yn iach lawen, y mae fy ngobaith eich bod chwithau felly hefyd.

Same,† *ad.* yn nghyd.

Sameness, *s.* unrhywdeb, unrhywder, unrhywiaeth, hunaniaeth, under; cyfatebiaeth, tebygrwydd.

Samian Earth, *s.* daiar Samos, marl Samos.

Samian stone, *s.* (Ll. *sameus lapis*) maen Samos; cabolfaen.

Samiel, Samoon, Simoon, *s.* (Ar. *samom*) math ar boethwynt dinystriol à chwyth yn Arabia.

Samite,† *s.* (hen Ff.) math ar nwydd sidan.

Samlet, *s.* (bychanig o *salmon*) eogyn, gleisiedyn, glasfaran, brith y gro.

Samolus, *s.* (Ll.) claerlys, claerllys, samwl, samylen.

Samp, *s.* math o fwyd rhynion gwenith yr India=saig Americaidd.

Sampan, *s.* cwch neu geufad bychan.

Samphire, Sampire, *s.* (llygriad o *Saint Pierre*) corn carw y môr, ffenigl y môr, morffenigl, sampier.
Marsh samphire—llyrlys, chwŷn hallt.
Prickly samphire—moronen bigog.
Golden samphire, Samphire leaved fleabane, cedowys sugol, cedowydd sugol, sampier y geifr.
Sea samphire—corn carw y môr, ffenigl y môr.

Sample, *s.* (Ll. *exemplum*; Ff. *exemple*; Gw. *somplar*) cynllun, egluryn, golygyn, golygwel, cynnrych, cynddrych, dangoseb; enghraifft, anghraifft.

Sample, *v. a.* enghreifftioli; dangos cynllun *neu* enghraifft.

Sampler, *s.* (Ll. *exemplar*) cynllun, cynddelw, cynnelw, egluryn, golygyn, golygwel, cynnrych, cynllunwaith; egwyddor-len; dullest.

Sanability, Sanableness, *s.* hywelledd; cyfiwr gwelladwy *neu* iachadwy.

Sanable, *a.* (Ll. *sanabilis*) iachadwy, gwelladwy, hywell, meddygadwy; y gellir ei iachäu.

Sanation,† *s.* (Ll. *sanatio*) iachâd, iachawd, gwellhad.

Sanative, *a.* (Ll. *sano*) iachaol, iachäedigol, iachäus.

Sanativeness, *s.* iachaoldeb, iachäedigoldeb; gallu i iachäu.

Sanatorium, *s.* iechydfa, clas iechyd.

Sanatory, *a.* (Ll. *sanitas*) iechydol; perthynol i gadw iechyd.

San Benito, Sacco Benito, *s.* (Ysp.) gwisg colledigion y Chwil-lys, âg arni lun cythreuliaid a fflamiau tân: hefyd, sachwisg yr edifeiriaid.

Sance-bell, *s.* (llygriad o *saint's bell*)=*Saint's-bell.*

Sancte-bell, *s.*=*Sacring-bell.*

Sanctificate, *v. a.* (Ll. *sanctifico*)=*Sanctify.*

Sanctification, *s.* (Ff.; Ll. *sanctificatio*) santeiddiad, sancteiddiad, santeiddhad; cyssegriad, bendigiad; glwysiad, cyfferthiad.

Sanctified, *p. p.* santeiddiedig, &c.; santaidd, santeiddiol, cyferthol, cyferthus, cyflwys; cyssegredig.

Sanctifier, *s.* santeiddiwr, sancteiddiwr, santeiddydd; cyssegrwr, cyssegrydd, bendigwr.

Sanctify, *v. a.* (Ll. *sanctifico*; Ff. *sanctifier*) santeiddio, sancteiddio; cyssegru; cyferthu, glwyso, cyflwyso, glwysoli, puro, glanhau.
To sanctify one's self—ymsanteiddio, ymgyssegru.

Sanctifying, *a.* santeiddiedigol, santeiddiol, à santeiddio, cyflwysol, gleiniol.

Sanctiloquent, *a.* (Ll. *sanctus* a *loquor*) à lefaro am bethau santaidd *neu* nefol.

Sanctimonious, *a.* (o'r Ll. *sanctimonia*) santaidd ei wedd; santaidd yr olwg arno; à fo *neu* y sydd yn edrych yn santaidd; yn edrych fel sant; santweddog, santwedd, glwysweddog; seintaidd, seintiol, santol; santaidd, sanctaidd; crefyddol.

Sanctimoniousness, Sanctimony, *s.* (Ll. *sanctimonia*) santeiddwedd, santwedd, santeiddrwydd gwedd, santeiddrwydd golwg, gwedd santaidd, golwg santaidd, glwyswedd, santoldeb, seintioldeb, santolaeth, seintiolaeth; santeiddrwydd.

Sanction, *s.* (Ff.; Ll. *sanctio*) cadarnhad; awdurdod; nawdd, cefnogaeth, cefnoctyd; arnodiad; caniatâd.

Sanction, *v. a.* cadarnhau; awdurdodi; cefnogi, noddi; rhoi grym *neu* gadernid i.

Sanctitude, *s.* (Ll. *sanctitudo*) santeiddrwydd, sancteiddrwydd, santolaeth, seintiolaeth.

Sanctity, *s.* (Ll. *sanctitas*) santeiddrwydd, sancteiddrwydd, santolaeth, seintiolaeth; glendid, gleindid, glwysedd, cyflwysedd, llwysedd, cyferthi, purdeb; daioni; cyssegredigrwydd, cyssegredd; sant, un santaidd.

Sanctuarize, *v. a.* (o *sanctuary*) rhoi nawdd cyssegr i; noddi, amddiffyn, seintwaru.

Sanctuary, *s.* (Ll. *sanctuarium*) cyssegr, cyssegrfa, seintwar, santeiddfa, glwysfa, gleinfa; noddfa, noddle, nawddle, nawdd: *pl.* cyssegroedd, cyssegrau.
To take sanctuary—ymnoddi; cymmeryd nawdd *neu* noddfa; ffoi i noddfa.

Sanctum Sanctorum, *s.* (Ll.) y cyssegr santeiddiolaf, y cyssegr santeiddiaf, y santaidd santeiddiolaf, y gafell santeiddiolaf.

Sand, *s.* (S., Al., Is., D., a Sw.) tywod; traeth; tywodfa.
Sands—tywodfaoedd, tywodfëydd; tywodydd, tywodau.
Fine sand, Small sand, tywod mân, mân dywod.
Coarse sand, Gross sand, tywod bras, graian, graenon, grut.
A grain of sand—tywodyn; gronyn o dywod; graienyn, greienyn, graenyn.
Sand, The sands, y tywod, traeth, y traeth, glàn y môr, y feisdon, tywyn.
Quick-sands—traeth byw, sugndraeth, traeth sugn.
To form sand—tywodi.
To gather sand—tywota.

Sand, *v. a.* tywodi; taenellu tywod ar hyd peth.

Sandal, *s.* (Gr. *sandalion;* Ll. *sandalium*) carnialwch, esgid ragisel, llopan, gwentas, sandal.

Sandaliform, *a.* ar lun llopan; llopanaidd.

Sandal-wood, **Sander's-wood**, **Sanders-wood**, } *s.* (Ar. *sonadilin*) sandal-wydd, coed sandal=math o goed tramor.

Sandarac, **Sandarach**, } *s.* (Ll. *sandaraca*) sandrag; ystor sandrag, ystor pan, mol sandrag.

Sandbags, *s. pl.* cydau tywod.

Sandbank, *s.* traethell, tywoden, tyrwn.

Sandbath, *s.* tywodfath, tywodfaddon, baddon tywod.

Sandblind, *a.* tywod-ddall; cibddall, coegddall; yn gweled megys brychau *neu* dywod yn ehedeg yn ddibaid o flaen y llygaid.

Sandbox, *s.* tywod-gist, cist dywod, blwch tywod.

Sand-drift, *s.* lluwch o dywod.

Sanded, *a.* tywodog, tywodlyd; diffrwyth; ysmotiog; byr ei olwg.

Sand-eel, *s.* llymrïen, llymrïad, llymrïaden: *pl.* llymrïod, llymrïaid.

To catch sand-eels—llymrïeitia.

Sanderling, *s.* (o *sand*) llwyd y tywod, hutan lwyd, hutan y tywod.

Sanders, **Sanders-wood**, } *s.=Sandal-wood*, &c.

Sandever, **Sandiver**, } *s.* (Ff. *sain de verre*) gorferw gwydr, gwydrewyn.

Sandflood, *s.* tywodlif.

Sand-grass, *s.* eiddilwellt.

Anglesey sand-grass—eiddilwellt cynnar, eiddilwelltyn cynnar.

Sandiness, *s.* tywodogrwydd, tywodlydrwydd; melyngochni.

Sanding, *s.* tywodiad, taenelliad tywod.

Sandish, *a.* tywodaidd, fel tywod.

Sandix, *s.* (Ll.) plwm coch.

Sand-martin, *s.* gwennol y glenydd, gwennol y dwr.

Sandpiper, *s.* pibydd y traeth.

Ash-coloured sandpiper—y pibydd glas.

Spotted sandpiper—y pibydd mânog.

Black spotted sandpiper — y pibydd du mânog.

Green sandpiper—y pibydd gwyrdd.

Grey scollop-toed sandpiper — y pibydd llwyd llydandroed.

Red scollop-toed sandpiper—y pibydd coch llydandroed.

Sandstone, *s.* tywodfaen, careg dywod.

Old red sandstone—hen dywodfaen coch.

Sandwich, *s.* (oddi wrth y gwr â ddygodd y peth gyntaf i arferiad, fel y tybir) dwy dafell o fara â chig rhyngddynt; brechdan gig.

Sandwort, *s.* tywodwlydd, tywodlys.

Sea sandwort—tywodwlydd arfor.

Plantian-leaved sandwort — tywodwlydd llyriad-ddail.

Thyme-leaved sandwort — tywodwlydd gruw-ddail.

Purple sandwort—tywodwlydd glasrudd, tywodlys rhuddlas.

Fine-leaved sandwort—tywodwlydd meindwf.

Sea spurrey sandwort—tywodwlydd y morgreigiau.

Sandy, *a.* (o *sand;* S. *sandig*) tywodog, tywodlyd; tywodliw; melyngoch, goleugoch, rhuddgoch.

Sane, *a.* (S. *sanus*) iach, holliach, iachus, diglwyf, diglefyd; yn ei bwyll, yn ei iawn bwyll, iawnbwyll, iawnbwyllog, dilesfryd, diwallgof; dïasgen, dïanaf.

Saneness, *s.* iechyd, iachusrwydd; diledfrydedd.

Sangaree, *s.* gwin a dwfr perlysiesog (yn America).

Sangfroid, *s.* (Ff.) oerfelgarwch, difaterwch, diofalwch, difrawder.

Sangiac, **Sanjak**, } *s.* llywodraethwr talaeth (yn Nhwrci).

Sanguiferous, *a.* (Ll. *sanguifer*) gwaedog-l, gwaed-gludol, gwaed-ddwyn.

Sanguification, *s.* (Ff.) gwaedogiad, gwaedoliad, troad yn waed; troad y caul yn waed.

Sanguifier, *s.* gwaedogwr, gwaedogydd.

Sanguifluous, *a.* (Ll. *sanguis* a *fluo*) gwaedlifol, gwaedred, gwaedredol; yn llifo gan waed; yn llifeiriaw o waed.

Sanguify, *v. n.* (Ll. *sanguis* a *facio*) gwaedogi; peri *neu* gynnyrchu gwaed.

Sanguinary, *a.* (Ll. *sanguinarius*) gwaedlyd; creulawn, creugar, creulyd; llofruddiog.

Sanguinary, *s.* (Ll. *sanguis*) gwaedlys.

Sanguine, *a.* (Ll. *sanguineus;* Ff. *sanguin*) gwaedliw, gwaedliwiog, gwaedrudd, gwaedgoch, coch; coch fel gwaed; gwridog; gwaedog, llawn gwaed; gwresog, brwd, brwdfrydig; gwaedwyllt; bywiog, gwyrenig, arialus, llos; hyderus, awyddus; dugoch.

Sanguine complexion — lliw gwridgoch, lliw gwridog; lliw gwyrenig; cyflwr gwin.

Sanguine (in heraldry)—dugoch, cochddu.

Sanguine,† *s.* lliw y gwaed, gwaedliw.

Sanguine, *v. a.* gwaedlydio, gwaedlydu, gwaedreiddio, gwaedruddo; halogi *neu* ysbrychu â gwaed.

Sanguineless, *a.* diwaed; gwelw.

Sanguineness, *s.* cochni, gwaedgochni, gwaedliwiogrwydd; gwridgochni; gwaedogrwydd; gwresogrwydd, brydni; bywiogrwydd: hyderusrwydd.

Sanguineous, *a.* (Ll. *sanguineus*) gwaedol: perthynol i'r gwaed; gwaedog, llawn gwaed; gwresog, brwd, hyderus; gwaedliw, gwaedliwiog, gwaedgoch, gwaedrudd, coch.

Sanguinity,† *s.=Sanguineness.*

Sanguinivorous, *a.* (Ll. *sanguis* a *voro*) gwaedysol; yn byw *neu* yn ymborthi ar waed.

Sanguinolent, *a.* (Ll. *sanguinolentus*) gwaedlyd.

Sanguisorba, *s.* (Ll.) llysyrlys, llysnog.

Sanguisuge, *s.* (Ll. *sanguisuga*) gele, gel, gelen, geloden, geleu.

Sanhedrim, **Sanhedrin**, } *s.* (Gr. *sunedrion;* Ll. *synedrium*) priflys neu senedd yr Iuddewon gynt.

Sanicle, **Sanicula**, } *s.* (o'r Ll. *sano*) golcheuraid, golchwraidd, golchyddes, clust yr arth, gwengraith.

Wood sanicle—golcheuraid, &c.

Sanies, *s.* (Ll.) gŵr, crawn teneu, madredd, crawn, llifweli, gwaed-grawn.

Sanious, *a.* crawnllyd, gorllyd, madreddog, llifwellog.

Sanitary, *a.* (Ff. *sanitaire;* Ll. *sanitas*) iechydol; perthynol i gadw iechyd.

Sanity, *s.* (Ll. *sanitas*) iechyd, iachusrwydd, iawn bwyll, iawnbwyll, iawnbwylledd, pwyll, diledfrydedd, anlledfrydedd, dianmhwylledd, ansalwedd.

Sanjak, *s.=Sangiac.*

Sannah, *s.* math o fwslin Indiaidd.
Sans, *prep.* (Ff.) heb, di-, yn ddi-.
Sans ceremonie (Ff.)—yn ddiddefod; heb na moes na defod; yn ddïymanerch.
Sans souci (Ff.)—yn ddiofal, yn ddidrafferth; yn rhwydd ac yn esmwyth.
Sans Culottes (Ff.)—Gwŷr Carpiog, Gwŷr Bratiog, Carpogion, Anllodrogion, Aflodrogion=enw à roddid i'r blaid boblogaidd yn nechreu y Chwyldroad Ffrengig yn 1789, ac à gymmerwyd wedi hyny gàn y gwladgarwyr megys enw urddasol.
Sans Culottides (Ff.)—anllodr-wyl=pum dydd gŵyl, à gedwid bob blwyddyn yn Ffrainc, yn amser y Chwyldroad.
Sansculottism, *s.* aflodrogaeth, anllodrogaeth, carpiogaeth.
Santer, *v.*=*Saunter.*
Santolina, *s.* (o'r Ll. *sanctus*) moredafeddog.
Santon, *s.* offeiriad Tyrcaidd; Santon.
Sap, *s.* (S. *scep*; Al. *saft*) nodd, sudd, sug, rhwyth; gwyning pren, bloneg pren.
The sap of an oak—gwyning derwen, bloneg derwen.
Sap, *v.* (Ff. *saper*) tangloddio, cloddio dàn, clodio danodd, diseilio, diwadnu; dymchwelyd trwy gloddiaw oddi dano; dymchwelyd.
Sap, *s.* tanglawdd; tangloddiad, cloddiad dàn fur; cloddiad *neu* dylliad danodd *neu* oddi tanodd.
Sap-green, *s.* sug-wyrdd.
Saphena, *s.* (Gr. *saphês*) y famwythen, gwythen fawr y goes.
Sapheta, } *s.*=*Soffit.*
Saphita, }
Sapid, *a.* (Ll. *sapidus*) blasus, chwaethus, archwaethus, da ei flas; dïadchwaeth, diledchwaeth.
Sapidity, } *s.* blas, chwaeth, archwaeth; blas-
Sapidness, } usrwydd, chwaethusrwydd.
Sapience, *s.* (*Ff.*; Ll. *sapientia*) doethineb, callineb, synwyr, doethder, callder; pwyll, deall; gwybodaeth.
Sapient, *a.* doeth, call, synwyrol, synwyrus, doethus, doethgar, pwyllog, ffur.
Sapiential, *a.* synwyrol, synwyrus; yn cynnwys addysg doethineb.
Sapindaceous, *a.* (o *sapindus*) sebonwyddain, sebonwyddin, sebonwyddaidd.
Saphire, *s.*=*Sapphire.*
Sapindus, *s.* (talfyriad o *sapo Indicus*) sebonwydd.
Sapless, *a.* dinodd, disug, disudd; sychlyd, sych; hen.
Sapling, *s.* (o *sap*) glaswydden, glasbren, pren glas, pren ieuanc, marchwialen, irwydden: *pl.* glaswydd, marchwiail, irwydd, irgoed, coed ieuainc.
Saponaceous, *a.* (Ll. *sapo*) sebonaidd, sebonawl, sebonllyd.
Saponaria, *s.* (Ll.) sebonllys.
Saponary, *a.* (Ll. *sapo*) sebonaidd, sebonllyd, sebonog.
Saponic Acid, *s.* sur sebonig.
Saponification, *s.* seboneiddiad, troad yn sebon.
Saponify, *v. a.* (Ll. *sapo* a *facio*) sebonciddio, troi yn sebon.
Saponine, *s.* dansawdd sebonllys, sebonain.
Sapor, *s.* (Ll.) blas, chwaeth, archwaeth, chwaedd.
Saporific, *a.* (Ll. *sapor* a *facio*) à bair flas *neu* chwaeth; chwaethedigol, blasusol, blasroddol.
Saporosity, *s.* chwaethogrwydd, blasogrwydd.
Saporous, *a.* chwaethog, blasog; â blas *neu* chwaeth arno; blasus, chwaethus.
Sappare, *s.* glasith=enw delidfaen.
Sapper, *s.* (o *sap*) tangloddiwr, tangloddieydd.
Sapphire, *s.* (Gr. *sappheiros*) saphir, maen saphir.
Sapphirine, *a.* saphiraidd, saphirain; tebyg i saphir.
Sappiness, *s.* (o *sappy*) noddlydrwydd, ireiddwch, irder, irdra, ireiddrwydd, iredd, ireidddra, rhwythogrwydd, sugoldeb; llawnder nodd, sudd, *neu* sug.
Sappy, *a.* (o *sap*; S. *scepig*) noddlyd, iraidd, ir, sugol, rhwythog, suddlawn, noddlawn, llawn nodd, llawn sug, llawn sudd, suddog, blydd; ieuanc; diruddin, dirudding, heb ddim ond y gwyning ynddo; disylwedd; masw, meddal; penblydd, penfeddal, penwan; gwàn ei ddeall; hwrt; hurt.
Sap-scull—un penblydd, dyn penfeddal, hurtyn, clwpa.
Sappy,† *a.* (Gr. *sêpô?*) llwyd, mws.
Saprophagans, *s. pl.* (Gr. *sapros* a *phagô*) braenysiaid=llwyth o drychfilod.
Sapsago, *s.* (Al. *schabziger*) caws gwyrdd Switserland.
Sapwood, *s.* gwyning, bloneg pren.
Saraband, *s.* (Ysp. *zarabanda*) dawn Yspaenaidd.
Sarasin, } *s.* esgorlys, henllydan, mamai; dor
Sarasine, } derchafad, porthog.
Sarcasm, *s.* (Gr. *sarcasmos*) gair du, cellwair du, gwatwareg, cellweirgno, ffroenwawd, geirfrath, brathair, gwarthair pigoglym, gwarthair, cellweirfrath, llymgno cellweirus, du-gellwair, dyfustledd, gwawd, gwatwar, greff, dirmyg.
To deal in sarcasm—dyfustlo.
Sarcastic, } *a.* gwawdlym, (*f.* gwawdlem),
Sarcastical, } cellweirgnoawl, du-gellweirus, du-gellweiriol, llymgnoawl, geirfrathol, brathciriol, gwartheiriog bigoglym, gwartheiriol bigoglym, llymgnoawl gellweirus, gwawdebus, gwatwarus, gwatwarol, gwawdgar, gwawdus, pigog, brathgar, brathlym.
Sarcel, *s.* bon adain hebog.
Sarcenet, *s.*=*Sarsenet.*
Sarcelled, *a.* wedi ei dori trwy ei ganol.
Sarcle,† *v. a.* (Ff. *sarcler*) chwynu, chwynu yd.
Sarcling time†—amser chwynu, tymmor chwynu.
Sarcocarp, *s.* (Gr. *sarx* a *carpos*) y rhan gigog o ffrwyth, cnodffrwyth.
Sarcocele, *s.* (Gr. *sarx* a *cêlê*) chwydd cigog ar[eirinen.
Sarcocol, } *s.* (Gr. *sarx* a *colla*) ciglud.
Sarcocolla, }
Sarcoderm, *s.* (Gr. *sarx* a *derma*) gwisg ganol had, cigwisg.
Sarcoline, *a.* (Gr. *sarx*) cigliw, cigliwiog, cnodliw, cnodliwiog.
Sarcolite, *s.* (Gr. *sarx* a *lithos*) cigfaen, cnodfaen.
Sarcological, *a.* cigofyddol.
Sarcology, *s.* (Gr. *sarx* a *logos*) cigofyddiaeth, cnawdofyddiaeth.
Sarcoma, *s.* (Gr. *sarx*) chwydd cigog caled.

Sarcomatus, *a.* perthynol i chwydd cigog.
Sarcophagous, *a.* cigysol, cnawdysol, ysgnawdog, ysgnawd; à yso gnawd; à ymborthoar gnawd *neu* gig.
Sarcophagous, *s.* (Ll.; Gr. *sarcophagos*) cigysfaen; maenarch, arch faen; maenfedd, beddrod careg.
Sarcophagy, *s.* cigysiaeth; yr ymarfer o fwyta cig *neu* gnawd.
Sarcosis, *s.* (Gr.) cynnyrchiad *neu* fagiad cig *neu* gnawd; chwydd cigog.
Sarcotic, *a.* (Gr. *sarx*) à fago gnawd *neu* gig.
Sarcotic, *s.* cyffyr à fago gnawd *neu* gig.
Sarculation, *s.* (Ll. *sarculatio*) chwyniad; rhibyniad, rhacaniad.
Sardachate, *s.* math o agat; agat mànog cigliw.
Sard, Sardoin, } *s.* (Ll. *sardius;* Gr. *sardion*) cigliw- em lwydgoch=math o sardonics.
Sardan, Sardine, Sardinias, } *s.* (Ll. *sarda*) penwegyn, penweigyn.
Sardel, Sardine, Sardius, } *s.* (Ll. *sardius;* Gr. *sardion:* o *Sardis*, yn Asia Leiaf) sardius, sardin=math ar faen gwerthfawr.
Sardonian Laugh, Sardonic Laugh, } *s.* (oddi wrth y llysieuyn à elwir *herba sardonia*) rhychwerthin, chwerthin anghymmedrol, chwerthiniad anghymmedrol, chwerthiniad y dannedd; crechwen o chwerthin.
Sardonyx, *s.* (Gr. *sardonux*, oddi wrth ddinas *Sardis*, ac *onux*) sardonics, sardonyes.
Sark,† *s.* (S. *syrc*) crys; morgi.
Sarmentaceous, Sarmentous, Sarmentose, } *a.* (Ll. *sarmentosus*) ymlusgol, rhedegol; à choes redegog *neu* ymlusgol iddo.
Sarmentum, *s.* coes redeg, coes ymlusgol, rhedegydd planigion; brigyn.
Sarplar, *s.* 160 maen o wlan.
Sarplier, *s.* (Ff. *serpillière*) lliain sypynu, lliain pynio, sachlïain, cynfas.
Sarsaparilla, Sarza, Sarsa, } *s.* planwydden o'r enw, mawr ei gwyrth a'i rhinwedd mewn meddyginiaeth.
Sarse, *s.* (ai *sarsenet*, neu Ff. *sas?*) gogr sidan, gogr paill, gogr peillio, gogr rhuwch mân.
Sarse, *v. a.* gogrynu à gogr sidan; gogrynu.
Sarsenet, *s.* (o *Saracen*, neu Ll. *saracenicum*) sarsned=math ar sidan teneuwe.
Sart, *s.* coettir à dröed yn llafurdir.
Sartorius Muscle, *s.* (Ll. *sartor*) cyhyr y gwniedydd.
Sash, *s.* (Ar.) gwregys, gwasgrwy, tasel, gwasgrwym, gwasgrwymyn, ysgablar.
Sash, *s.* (Ff. *chassis*) dalen ffenestr, darn rhedegog o ffenestr, darn o ffenestr redegog; ystram pennillion ffenestr.
Sash-window—ffenestr ddalenog, ffenestr redegog, ffenestr redeg; ffenestr i'w chodi a'i gostwng wrth chwerfanau tro.
Sash, *v. a.* taselu, gwregysu, gwasgrwyo; diwallu à ffenestri dalenog.
Sashline, *s.* llinyn ffenestr ddalenog; llinyn codi ffenestr.
Sash-saw, *s.* llif ffenestr.
Sashoon, *s.* arfeilyn, meilyndorch, meilynwisg.
Sassafras, *s.* (Ll. *saxifraga*) tormaenwydd, y pren tormaen.
Sasse, *s.* (Is. *sas*) lliddor, argae, dyfrddor.
Sassorol, Sassorolla, } *s.* colomen y graig.
Sassolin, Sassoline, } *s.* (o *Sasso*, yn Fflorens) sur halasig naturiol.
Sastra, Shastra, Shaster, } *s.* llyfr cyssegredig yn mhlith yr Hindwaid; llyfr y gosodiadau santaidd.
Satan, *s.* (H.) Satan, Satban; y gwrthwynebwr; tywysog annwn, yr ysbryd drwg; cythraul, diawl.
Satanic, Satanical, } *a.* ratanaidd, satanig, satanol, sathanaidd; cythreulig, diefig, diawlig.
Satanism, *s.* sataniaeth, sathaniaeth.
Satanist, *s.* satan o ddyn, cythraul parod.
Satchel, *s.* (Ll. *saccellus;* Ff. *sachet*) sachell, ysgrepan, trythgwd, trythgod, cod, cetog, cod llyfrau.
A little satchel—sachellig, sachell fechan, cetog.
Sate, *v. a.* (Ll. *satio*) digoni, diwallu, arddigoni, gorddigoni, gorllenwi, gorlwytho, glythu, peri tordyn; rhoi mwy na digon i.
Sateless, *a.* anniwalladwy, annigonadwy, diwala, gorwancus.
Satellite, *s.* (Ff. ac It.; Ll. *satelles*) seren osgordd, planed osgordd, gwibseren osgordd; lleuad; gosgordd; gwr gosgordd, ymlynydd, dylynydd, dylynwr, canlynwr; adlawiad, (pl. adlawiaid).
Satellites—gosgorddion; gosgordd; adlawiaid.
The satellites of Jupiter—lleuadau Iau; gosgordd Iau.
The satellites of Saturn—lleuadau Sadwrn; gosgordd Sadwrn.
Mars has no satellites—nid oes gosgordd i Fawrth; nid oes lleuadau i Fawrth.
Satellitious, *a.* gosgorddawl, gosgorddawg; cynnwysedig o osgorddion.
Satiate, *v. a.* (Ll. *satiatus*) digoni, diwallu, arddigoni, digonoli, llenwi, llawn ddigoni; rhoi ei ddigon *neu* ei wala i un; gorddigoni, gorllenwi, gorlwytho, glythu, llaru, diflasu.
Satiate, *a.* digonedig, à ddigonwyd, diwalledig, wedi ei ddigoni; diwall, digonol.
Satiation, *s.* digoniad, diwalliad, arddigoniad, gorllenwad.
Satiety, *s.* (Ll. *satietas*) digon, digonedd, gwala, arddigonedd, digonoldeb, digonolrwydd, diwallrwydd, llawndid; boddoldeb.
Satin, *s.* (Ff.; C. *sidan*) pali, sidan llyfnwych.
Satinet, *s.* pali teneu, pali masw; math o frethyn.
Satin-flower, *s.* blodau y pali.
Satin-wood, *s.* paliwydd, sidanwydd.
Satire, *s.* (Ff.; Ll. *satira*) duchan, gogangerdd, duchangerdd, duchangan, cerdd duchan, gogan, trawsgan, trawsgerdd, trawsganiad, cerdd ogan, cân gwarth, cân sathr; gwawd, senwawd, sen.
Satiric, Satirical, } *a.* duchanol, duchanus, duchanllyd, goganus, goganllyd; gwawdus, gwawdiol; llymgnoawl, brathol, pigogiym, tostlym.
Satirist, *s.* duchanwr, duchanydd, goganwr, goganydd, gogenydd; gwawdiwr, gwatwarwr; senwawdiwr, senwr.
Satirize, *v. a.* duchanu, goganu, trawsganu; gwawdio, gwatwar; senwawdio, senu.
Satisfaction, *s.* (Ff.; Ll. *satisfactio*) boddlonrwydd, boddlondeb, bodlondeb, bodlonrwydd, boddhad, boddineb, boddoldeb, boddolder; iawn, tâl pwyth, ad-daliad, tâl, diwygiad;

dyfwynad, dyfwyni; bodd, dywenydd, hyfrydwch, llonwch, llawdd; dadolwch; iawnwaith.

With good satisfaction—gyda chwbl foddlonrwydd; o ewyllys da; o wirfodd ei galon.

Ill satisfaction—drwg, byr, *neu* dwn foddlonrwydd; boddlonrwydd tlawd, gwael, *neu* annigonol; anfoddlonrwydd.

To give satisfaction to—boddio, boddhau, boddloni.

To make satisfaction, } gwneuthur iawn,
To give satisfation, } gwneuthur boddlonrwydd; talu, rhoddi iawn; dadolychu; talu sarhad; gorfod gweithred.

To give ill satisfaction=*Dissatisfy.*

To satisfaction—hyd at fodd; yn ddigonol.

To his satisfaction—wrth ei fodd; wrth ei wŷn; i'w foddlonrwydd.

Satisfaction made to Urien—dadolwch Urien.

He built an almshouse as a satisfaction for his sins—efe a adeiladodd elusendy yn ddadolwch am ei bechodau.

He has full satisfaction for the wrong done him—efe a gafodd gwbl *neu* gyflawn iawn am y sarhad à wnaed iddo.

Satisfactive, *a.* boddhaol, boddlonawl.

Satisfactorily, *ad.* yn foddhaol, &c.; hyd at fodd; yn ddigonol.

Satisfactoriness, *s.* boddlondeb, boddlonolrwydd, boddlonrwydd, dyfwynoldeb.

Satisfactory, *a.* (*Ff. satisfactorie*) boddhaol, boddlonawl, boddlonedigol; digonol; dyfwynol; à fo *neu* y sydd yn rhoddi boddlonrwydd; à ry *neu* à roddo foddlondeb; à fo hyd ei fodd; à wnaer er diwygio bai; daddolychol.

Satisfiable, *a.* boddlonadwy; diwalladwy, digonadwy; à ellir ei foddhau, &c.; hyfodd.

Satisfier, *s.* boddlonwr, boddhäwr.

Satisfy, *v.* (*Ll. satisfacio*) boddio, boddloni, boddhau, bodloni; diwallu, digoni, digonoli; boddlonocäu; ymfoddloni; peri i un gredu *neu* goelio; darbwyllo; dadolychu, gwneuthur iawn.

Satisfied—à foddlonwyd, &c.; boddlawn; wedi cael dilysrwydd *neu* hysbysrwydd.

To satisfy one's lusts—porthi *neu* ddigoni ei chwantau; porthi *neu* ddigoni ei drachwantau.

To satisfy one's self—tori ei newyn; ymddigoni.

I am not satisfied with him—nid wyf fi foddlawn iddo; nid yw efe wrth fy modd i.

I am fully satisfied that it is so—yr wyf fi yn credu *neu* yn coelio yn hollol mai felly y mae.

To be well satisfied—bod yn gwbl, yn hollol, *neu* yn llwyr foddlawn; bod yn foddlawn iawn.

To rest satisfied—ymfoddloni; bod yn foddlawn.

Not to be satisfied—*Insatiable.*

To be ill satisfied with—bod yn anfoddlawn i; bod yn erbyn ei feddwl; bod heb fod wrth ei feddwl.

Satisfied with favour—llawn o hawddgarwch (*Deut.* xxxiii. 23).

Satisfying, *p.* boddhaol; digonol; cymmeradwy; yn boddio, &c.

Sative, *a.* (Ll. *sativus*) heuedig mewn gerddi; à heuir mewn gerddi.

Satrap, *s.* (Gr. *satrapês*) rhaglyw talaeth (yn Persia gynt); rhaglyw, rhaglaw, rhaglofydd, rhaglywiawdr.

Satrapal, *a.* rhaglywiol, rhaglywiaethol, rhaglawiaethol.

Satrapess, *s.* rhaglywies, rhaglywiodres.

Satrapy, *s.* rhaglywiaeth, rhaglawiaeth, rhaglofyddiaeth.

Saturable, *a.* digonadwy, diwalladwy, llenwadwy, &c.

Saturant, *a.* (Ll. *saturans*) digonol, llenwadol, llanwadol, diwalliadol; ystrwythol, nawsedigol, nawseiddiol, mwydol.

Saturant, *s.* ystrwythor; peth à wrthweithreda ar y sur yn y cylla.

Saturate, *v. a.* (Ll. *saturo*) digoni, diwallu, llenwi, llanw, dylenwi, llenwi yn llawn; ystrwytho, halu, nawsu, nawseiddio, nawsoli; mwydo; cyferddonio.

Saturation, *s.* digoniad, diwalliad, llenwad, llanwad; ystrwythiad, haliad, nawsiad, nawsiant; llenwad o ryw naws; cyferddoniad; mwydiad.

Saturday, *s.* (*Saturn* a *day*; S. *Sæter-dæg*; Is. *Saturdag*) dydd Sadwrn, dyw Sadwrn.

Saturity, *s.* (Ll. *saturitas*) llawnder, cyflawnder, llawndid, gwala; ystrwytholdeb, nawsoldeb; halaeth.

Saturn, *s.* (Ll. *Saturnus*) Sadwrn.

Saturn (in heraldry)—lliw du.

Saturn (in the old chemistry)—plwm.

Saturnalia, *s. pl.* (Ll.) wtfreswyliau Sadwrn, Sadyrnolion.

Saturnalian, *a.* perthynol i wtfreswyliau *neu* loddestwyliau Sadwrn; penrydd, afreolus, wtfresol, gloddestol, anfad, trythyll.

Saturnian, *a.* perthynol i Sadwrn; Sadyrnaidd, Sadyrnig; euraidd, euraid, dedwydd, hapus.

Saturnine, *a.* Sadyrnin, Sadyrnain; y tybir ei fod dàn lywodraeth Sadwrn; trymaidd, prudd, trist, athrist, pendrwm, trymllyd, marwaidd, anhylon, dybyr.

Saturnist, *s.* un trymaidd, &c.; un prudd ac anhylon ei dymmer; Sadyrnwr.

Saturnite, *s.* math o ddefnydd delidaidd à wahenir oddi wrth blwm; plymfaen.

Satyr, *s.* (Ll. *satyrus*; Gr. *saturos*) gwyddan; ellyll=anifeil-dduw, tebyg i ddyn cyrnig â thraed gafr iddo.

Satyriasis, *s.* (Gr. *saturiasis*) llostgyfod, anllad orphwyll.

Satyric, *a.* (o *satyr*) perthynol i wyddanod; gwyddanig.

Satyrium, } *s.* (Gr. *saturos*) baldar.
Satyrion, }

Frog-satyron—baldar blodeuwyrdd, llysiau yr ysgyfarnog.

Sauce, *s.* (*Ff. sauce, sausse*, o'r Ll. *salsus*) sibr, cyffaeth, saws, blaslyn, cyweirdeb, gwrtaeth bwyd; chwaeth; taeth; coegni, haerllugrwydd, crasder.

To cost one sauce—sefyll yn ddrud *neu* yn brid i un.

To give one sweet meat and sour sauce—rhoi i un gig poeth a thori ei ben âg asgwrn; rhoi i un gig poeth a'i wanu â'r bêr; rhoi i un â'r naill law gig poeth ac â'r llall ergyd â'r asgwrn; rhoi i un fwyd melus a sibr chwerw.

To serve one the same sauce—talu y pwyth i un.

Sauce, *v. a.* sibro, cyffeithio, sawsio, blasuso, blaseiddio, cyweirio, pereiddio, chwaethu, taethu, tymmeru; rhoi sibr gyda pheth; cyfaddasu sibr at beth.

Meat well sauced—bwyd da ei sibr; bwyd â sibr da gydag ef.

Sauce-alone, *s.* garllegog, yr arllegog, troed yr asen, arfog arllegog, garlleg-ferwy.

Saucebox, *s.* haerllugyn, coegyn haerllug, coegyn digywilydd.

Saucepan, *s.* posned, llawgallor, sosban; padell sibr.

Saucer, *s.* (Ff. *sauciere*) dysgl, dysglan; ysgâl; dysglan sibr.

Saucily, *ad.* (o *saucy*) yn haerllug, &c.

To carry one's self saucily—ymddwyn yn drawsfalch *neu* yn drahausfalch.

Sauciness, *s.* haerllugrwydd, sarigrwydd, craseiriogrwydd, crasder, coegni, trahausder, gorhewgdra, hewgri, hewgrach, crassair.

Saucisse, } *s.* (Ff. *saucisse*) hir ffasgen, ffasgen
Saucisson, } hir.

Saucy, *a.* (o *sauce*) haerllug, craseiriog, cras, sarig, gorhëwg, coeglyd, coeg, craslyd, mingras, pigog, cignoeth; talgryf, digywilydd; trawsfalch, trahäus; taerddrwg.

To be saucy—bod yn haerllug, &c.; rhoi ei dafod; estyn ei dafod.

Sauer Kraut, *s.* (Al.) bresych surion, sur fresych.

Saul,† *s.*=*Soul.*

Saunders-wood, *s.* = *Sandal-wood, Sanders-wood.*

Saunter, *v. n.* (o'r Ff. *aller à sainte terre*, yn ol *Johnson*) rhodiena, rhodiana, llercyna, llercian, llercio, ystelcian, gohytian, segura, ofera, segur grwydro, segur wibio; myned *neu* rodiaw o amgylch dân segura; gogrwydro, gorodio, gwagrodio; sefyllian; gohirio.

Saunter, *s.* llerc, rhodienad, llercian, gogrwydr, tro; rhodienfa, llercynfa; †seguryd.

Saunterer, *s.* rhodienwr, rhodiadur, rhodiwr, gwibrodiwr, rhodiad, llercyn, llercynwr, llerciwr, ystelciwr.

Sauntering, *s.* rhodienad, rhodiad, llerciad, segur grwydrad; mynediad *neu* grwydrad o amgylch dân segura.

Saur, *s.* baw, tom.

Sauria, } *s. pl.* (Gr. *sauros*) y mad, y madfilod,
Saurians, } madfeillod, madfallod, y madrwyod,
Saures, } y madgallod; tylwyth y madfeillod, &c.

Saurian, *a.* perthynol i'r madfilod; madfallaidd, madrwyaidd, madgallaidd, madfilaidd, llostrwyaidd, llostrwyol.

Saurian, *s.* madfil, madrwyfil; un o'r madfeillod.

Saurocephalus, *s.* (G. *sauros* a *cephalê*) madben.

Sauroid, *a.* (Gr. *sauros* ac *eidos*) tebyg i fadfeillod, &c.; madfallaidd, madrwyaidd.

Sauroids, *s. pl.* madbysg, gofadfeillod, madrwybysg.

Saurus, *s.* garan yr India.

Sausage, *s.* (Ff. *saucisse*) selsigen, selsig, monochen: *pl.* selsigod.

Saussurite, *s.* (oddi wrth *Saussure*, y darganfyddwr) math o ddelidfaen.

Sauvegarde, *s.* (Ff.) madfall symmudol America.

Savable, *a.* achubadwy, cadwadwy.

Savableness, *s.* cyflwr *neu* ansawdd achubadwy; cadwadwyedd.

Savage, *a.* (Ff. *sauvage*) anwar, gwyllt, annof, anwaraidd; barbaraidd; creulawn, ffyrnig, bwystfilaidd, milain, mileinig, anifeilaidd, bwystus, bwyst, claidd, annynol, milus; cyndeiriog; diddysg, difoes, anfoesog, anniwylledig, gwŷdd; anhyfaeth.

To grow, wax, *or* become savage—myned yn anwar, &c.; gwylltio, gorwylltio; myned yn orwyllt *neu* yn gynddeiriog.

Savage, *s.* anwariad, dyn anwar, dyn gwyllt, &c.; anwaryn, creuloniad, barbariad; un o drigolion y goedwig; anifeil-ddyn; dyn diddysg, difoes, mynyddig, *neu* anfoesog; cylionen wancus: *pl.* anwariaid, dynion gwylltion, pobl wyllt'on, creuloniaid, anfoesgion y byd.

Savage, *v. a.* anwaru, anwareiddio, gwylltio, gorwylltio, bwystfileiddio; gyru *neu* beri yn wyllt, yn orwyllt, *neu* yn anwar; cynddeiriogi; gwneuthur, peri, *neu* yru yn gynddeiriog.

Savageness, *s.* anwaredd, gwylltedd, gwylltrwydd, gwylltineb; creulonedd, creulondeb, bwystfileiddrwydd, bwystrwydd; anfoes.

Savagery, *s.* gwylltineb, gwylltedd, gwylltrwydd; anwaredd; creulondeb, ffyrnigrwydd.

Savagism, *s.* anwaredd; cyflwr anwar *neu* wyllt.

Savanna, } *s.* (Ysp. *sabana*) gwastadedd agor-
Savannah, } ed, ial, *neu* ddigoed; gweundir ial.

Savans, *s. pl.* (Ff.) dysgedigion, gwŷr dysgedig, gwŷr o ddysg, gwŷr doethion, llenorion, llenyddion, dysgeidion, dysgodron, doethion.

Savant, *s.* (Ff.) gwr dysgedig, gwr o ddysg, gwr dysgedig, gwr doeth, gwyddon, ofydd, llenor.

Save, *v.* (Ff. *sauver*; Ll. *salvo*) achub, cadw, gwared, gwaredu, achubo, achubaid, achau; cynnilo, arbed; tolio, toli, swylo; casglu, ystorio, croni; rhagod, rhagodi, rhagflaenu, rhwystro; noddi; rhyddhau; eithro.

To save life—cadw *neu* achub einioes: cadw *neu* achub bywyd.

To save money—arbed, casglu, croni, cryno'i, *neu* ystorio arian; cynnilo arian.

To save against another time—cadw erbyn yr amser à ddel; cadw o'r neilltu; gosod *neu* roi yn nghadw; rhoi i gadw.

To save harmless—cadw yn ddigolled, yn ddiniwed, yn ddiasgen, yn ddiargyweid, yn ddiadwyth, *neu* yn ddiangol; digolledu.

To save one's longing—tori chwant un.

To save charge, } gochelyd, arbed, attal,
To save expense, } *neu* dolio traul; ysgadw rhag traul; peri nas bo traul gochelyd, arbed, attal, *neu* dolio cost.

That will save me charges—lleiha hyny o draul i mi; hyny a leiha, a gwtoga, a gymmedrola, *neu* a ysgafnha y draul i mi.

To save one trouble—arbed trafferth i rai; rhyddhau un oddi wrth drafferth *neu* drallod; cymmeryd trafferth oddi ar un.

I will save you that trouble—mi a gymeraf hyny o drafferth oddi arnoch chwi; arbedaf i chwi hyny o drafferth.

To save time—achub amser; ennill amser; peri nas coller amser; peri i lai o amser

wasanaethu; peri i lai o amser wneuthur y tro.
To save one's self—gwared *neu* achub ei hun; ymwared, ymwaredu, ymachub; achub ei einioes ei hun.
God save the king—Duw a gadwo y brenin; cadwed Duw y brenin; byw fyddo y brenin.
God save you—Duw a'th gadwo; cadwed Duw dydi; rhad Duw arnat; nawdd Duw arnat.
A penny saved is a penny got—un peth yw cadw ac ennill; â gadwodd a ennillodd; ceiniog â ennillir yw y geiniog â gedwir.
That may be saved—cadwadwy, achubadwy, gwaredadwy.
To save one's bacon—dïanc yn ddïen, yn ddïanaf, *neu* yn ddïasgen; dïengyd yn groen-gyfan; dïanc â chroen cyfan; ymgadw rhag niwed *neu* golled.

Save, *prep.* oddi eithr, eithr, ond, onid, namyn, amyn, odd eithr, nam, namwyn, heb law, oddi gerth.
Save that, Saving that, } ond bod; ond yn unig bod.

Saveall, *s.* cyfrachub, cyfrachubydd, daliedydd bon canwyll.

Savelin, *s.* y brithyll cefnddu.

Saver, *s.* achubwr, achubydd; y neb a geidw; arbedwr, arbedydd, toliwr.

Savin, *s.* (Ll. ac Ysp. *sabina;* Ff. *savinier*) eithinfyw.

Saving, *a.* cynnil, arbedus, ymarbedus, tolgar; achubol, cadwedigol, gwaredol, ymwaredol, achubedigol; iachus, iachusol, iachwyol.
Saving faith — ffydd gadwedigol, ffydd achubol.
Saving health — iachawdwriaeth, iechydwriaeth, iechineb.
With the saving strength of his arm—yn nerth iechyd ei ddeheulaw.
To the saving of his house—i achub ei dy; er achub ei dy.

Saving, *prep.*=*Save.*
Saving your presence—nid er anmharch i chwi; nid er anmharch arnoch chwi.
Saving clause—esgus; llocheş, chwiwdwll, dïangfa.

Saving, *s.* peth â gynniler; peth â gadwer; cynnilad; swyl; cadwad, achubiad, ymgadwad, celiad: *pl.* cynnilion, swylon.

Savingly, *ad.* yn gynnil, &c.

Savingness, *s.* cynnildeb, cynniledd, cynnilwch, swyledd, tolgarwch; achubolrwydd, achubioldeb.

Savings-bank, *s.* ariandy cynnilion, cedfa cynnilion, banc cynnilion, swylgedfa.

Saviour, *s.* (Ff. *sauveur;* o *save*) iachawdwr, achubwr, achubydd, gwaredwr, gwaredydd, achubiad, achubiedydd, ceidwad.
The office of a saviour—achubwriaeth.

Savory, *s.* (Ff. *savorée*) sewyrllys, safri.

Savour, *s.* (Ff. *saveur;* Ll. *sapor*) arogl, arogledd, arwynt, sawyr, sawr, safr, safwyr, arsawr, gwynt, rhogl; blas, chwaeth, archwaeth, chwaedd.
Sweet savour — perarogl, arogl peraidd, perarogledd; blas *neu* chwaeth melusber.
Ill savour — drygsawr, drewdod, drewi, drewiant, drygwynt, drwg arogl; adfias, drygfias, adchwaeth, dryg-chwaeth, blas cas.
Something has some savour — mae peth blas ar beth, nid oes dim ar ddim; mae ychydig flas ar ychydig, nid oes dim blas ar ddim.

Savour, *v.* arogli, sawrio, sawyro, safwyro, arogleuo, gwyntio, arwyntio; bwrw arwynt *neu* arogl; rhoi arwynt *neu* arogl; bod blas ar beth; blasu, chwaethu, archwaethu; bod â blas arno; bod â blas ar *neu* beth; bod gân un flas at beth; blasuso; bod yn flasus *neu* yn felus gân un; hoffi; synied.
To savour of something—bod âg arogl *neu* arwynt rhywbeth ganddo; bod â sawr, sawyr, safwyr, safr, *neu* wynt rhywbeth ganddo; bod ganddo arogl, gwynt, *neu* sawr rhywbeth; sawrio, sawyro, safwyro, *neu* arogli fel rhywbeth; sawrio, sawyro, safwyro, *neu* arogli yn debyg i rywbeth; bod yn sawrio *neu* yn arogli fel rhywbeth; bod yn arogli *neu* yn sawrio yn debyg i rywbeth; bod â blas *neu* chwaeth rhywbeth arno; edrych fel rhywbeth; edrych yn debyg i rywbeth.
Sweet savoured — sawyrber, safwyrber, aroglber, per ei sawr.

Savourily, } *ad.* yn flasus, &c.; gyda blas da;
Savourly, } gyda blas.

Savouriness, *s.* blasusrwydd, safwyrusrwydd, sawyrusrwydd, chwaethusrwydd.

Savourless, *a.* diflas, dichwaeth, dïarchwaeth; dïarogl.

Savourly, *a.* blasus, chwaethus, sawyrus.

Savoury, *a.* (o *savour*) blasus, da ei flas, sawyrus, safwyrus, sawrus, chwaethus, archwaethus, blasaidd; aroglus.
Savoury meat—bwyd blasus, blasus-fwyd.
To make savoury—blasuso, sawyruso, safwyruso, sawruso; gwneuthur yn flasus, &c.

Savoy, *s.* (oddi wrth y wlad o'r enw) bresych crychion, bresych Safwy.

Saw, *s.* (S. *saga;* Al. *säge*) llif.
Cross-saw—trawslif, llif draws.
Hand saw—llawlif, llif law, llif unllaw.
Whip-saw, Pit-saw, } hesglif, llif hir, llif bwll, rhygnell.

Saw,† *s.* dywediad, dïareb, hen air, hen ddiareb, direb.
An old saw†—hen air, hen ddïareb.

Saw, *v.* llifio; tori *neu* ladd â llif; rhygnu.

Saw-dust, *s.* blawd llif, llifion, rhydollt.

Sawer, *s.*=*Sawyer.*

Saw-fish, *s.* llifbysg, y pysg morlif.

Saw-mill, *s.* melin lifio.

Saw-pit, *s.* pwll llif, pwll llifio.

Saw-set, **Saw-wrest,** } *s.* gwyrai llif, gwyrai, yr wyrai= teclyn i blygu neu wyro dannedd llif.

Saw-wort, *s.* llifys, dant y pysgodyn.
Common saw-wort—llifys cyffredin, dant y pysgodyn.

Sawyer, *s.* (=*sawer*) llifiwr, llifiedydd, llifydd.

Saxatile, *a.* (Ll. *saxatilis*) creigiol, creigaidd, creigiog, clegyrol; yn byw yn mhlith creigiau.

Saxicavous, *a.* (Ll. *saxum* a *cavo*) â dyllo y graig.

Saxicola, *s.* (Ll. *saxum* a *colo*) clochdar y graig, clochdar y ceryg, tinwyn y garn.

Saxifraga, *s.* (Ll.)=*Saxifrage.*

Saxifrage, *s.* (Ll. *saxifraga*) tormaen, llyfenwy, llysiau tormaen.
Golden saxifrage—eglyn.

Opposite-leaved golden saxifrage — eglyn cyferbyn-ddail.
White saxifrage—tormaen gwŷn, llyfenwy gwŷn, clor y brain.
Burnet saxifrage—gwreiddiriog.
Three-leaved saxifrage—tormaen tribys.
Thick-leaved saxifrage—tormaen tewddail.

Saxifragous, *a.* tormaenaidd, tormaenol; yn tori y maen.

Say, *v.* (Ll. *sægan, sacgan;* Al. *sagan*) dywedyd, gwedyd, gweyd, dyweyd, dweyd, llefaru, llafaru, doedyd, ebu, hebu, meddyd; yngan, ynganu, yngenyd; adrodd, mynegu, dadgan; ditian, ditio.
That is to say—hyny yw, sef yw hyny, sef, ys ef; màl pe dywedid; nid amgen na.
Say I—meddaf, meddaf fi; eb fi, ebr fi, ebe fi.
Says he—medd efe; eb efe, ebe fe, ebr efe.
Say on—dos yn mlaen, dos rhagot.
Men say, People say, They say, } dywedant, meddant; dywedir; mae y son; mae y gair.
Say you so?—ai felly y dywedi? ai felly y dywedwch? ai dywedi? ai felly y mae?
Yes indeed, I do say so—ïe yn wir, felly y mae.
What will people say?—beth a ddywedant?
To say the truth—i ddywedyd y gwir; fel y dywedwyf y gwir.
To say no more—heb ddywedyd ychwaneg; fel na ddywedwyf ychwaneg.
So it was said—felly y dywedid; felly y cerddodd y gair.
You shall hear what he will say to it—cewch glywed ei oddeg; cewch glywed ei ofeg.
Have you anything to say to me?—a oes à fynoch à mi? a oes à fynoch à myfi?
To say over one's beads—dywedyd ei baderau.
To say again—dywedyd eilwaith, dywedyd drachefn, ail ddywedyd, ad-ddywedyd.
To say against—dywedyd yn erbyn; gwrthddywedyd, erbynwedyd.
To say beforehand—dywedyd yn mlaen llaw; rhagddywedyd.
To say ay—dywedyd ïe; haeru, hòni.
To say nay—dywedyd nage; gwadu; nacäu; nagu, gomedd.
To say by heart—dywedyd ar dafodleferydd.
To say nothing—bod heb ddywedyd *neu* yngan dim; tewi à son; tewi.
He said nothing—ni ddywedodd efe ddim; nid ynganodd efe ddim.
To say one's prayers—gweddïo; dywedyd ei bader; bod ar weddi; arfer ei ddduwiolswyddau.
He is saying his prayers—y mae efe ar weddi; y mae efe ar ei weddi.
To say and unsay—dywedyd a dad-ddywedyd; dywedyd a gwrthddywedyd.

Say, *s.* ymadrodd, gair, chweddl, chwedl; gwed, peth à ddywedir.
When he had said his say—pan orphenodd efe ei ymadroddion; wedi gorphen o hono ei ymadroddion; wedi gorphen *neu* ddywedyd o hono ei chwedl.

Say, } *s.* (Ff. *soie*) sae; gwlanen deneu; †tenSaye, } llif sidan.

Say,† *s.* (=*assay*) prawf, praw, profiad; cynllun; dangosiad.

Saying, *s.* dywediad, gwediad; gair, ymadrodd, chwedl, chweddl, gwed, chwed, llefariad, ditiad, brawdd; ameg; diareb; adroddiad.
A true saying—gair gwir, gwir-air, direb.
An old saying—diareb, hen ddiareb, hen air, hen ddywediad.
An ominous saying—gair rhamant, ymadrodd rhamantus, gair argoeliog.
It is a common saying—gair cyffredin ydyw; chwedl gyffredin ydyw; dywedir yn gyffredin; y mae yn ddywediad cyffredin; dywediad *neu* ymadrodd cyffredin yw.
As the common saying is—megys y dywedir yn gyffredin; fel y mae y gair yn gyffredin.
A dark saying—ymadrodd tywyll, gair dyrys; dameg.
A saying (out of book)—dywediad ar dafodleferydd; adroddiad.
It is a true saying—gwir yw y gair.

Scab, *s.* (S. *scæb;* Ll. *scabies*) crachen, cramen; clafr, clefri, clefryd; crach drwg; ysgwl; adyn crachog, crach-adyn: *pl.* crach.
The wild scab—crach drwg, crach cyddeiriog, crachen wyllt, y clafr gwyllt.

Scabbard, *s.* gwain cleddyf, gwain.

Scabbard, *v. a.* gweinio; rhoi yn y wain.

Scabbed, *a.* (o *scab*) crachog, crachlyd, crachenog, llawn crach, cramenog; clafrllyd; bawaidd; crach.

Scabbedness, } *s.* crachogrwydd, crachlydrwydd
Scabbiness, } clafrllydrwydd; clefri.
The scabbiness of the mouth, } mingrechi
The scabbiness of the lips, }

Scabble, *v. a.* brasnaddu careg.

Scabby, *a.* (o *scab*) crachog, crachlyd, crachenog, llawn crach, cramenog; clafrllyd, à'r clafr arno.
Scabby-headed—pengrach.
One scabby sheep mars the whole flock—y ddafad glafrllyd a lygra yr holl braidd: un ddafad glafrllyd a lygra yr holl braidd.

Scabies, *s.* (Ll.) clafr, y clafr, y clefri; crafu y craf, y cosi, dylafwch.

Scabious, *a.* (Ll. *scabiosus*) crachog, crachlyd, cramenog, cramenaidd; clafrllyd, clefrog, à'r clefri arno; crafllyd; à'r crafu arno, gwahanglwyfus.

Scabious, } *s.* clafrllys.
Scabiosa, }
Devil's-bit scabious—caswenwyn, glaswenwyn, gwreidd-don, tamaid y cythraul, bara y cythraul, cas gàn cythraul, clafrllys gwreidd-don.
Small scabious—clafrllys bychan, clafrllys lleiaf.
Field scabious—penlas, clais.
Sheep's scabious—clefryn.

Scabredity,† *s.* (Ll. *scabredo, scabrestus*=*Scabrousness.*

Scabrous, *a.* (Ll. *scabrosus*) garw, gerwin, gerw, lyfn, cryg; afrywiog.

Scabrousness, *s.* gerwindeb, gerwinder, garwch.

Scabwort, *s.* crachlys, llysiau y crach=math o farchalan.

Scad, *s.* (Al. *schade*) gwangen=math o byng.

Scaffold, *s.* (Gw. *scafal;* Gael. *sgafal, sgafa*; Ff. *echafaud;* Al. *schafot*) esgynlawr, esgyngiwyd, esgyn-glawr, adeilgiwyd, tafod, barcolwyd, ysgaffald, (*pl.* ysgaffaldau); astiglawr.

[nothing wanting]

Scaffold, *v. a.* esgynlorio; attegu, cynnal, dàl.
Scaffoldage, *s.* esgynloriaeth; esgynlawr, taflod, hurtr; oriel.
Scaffolding, *s.* esgynloriaeth; esgynlawr, hurtr, taflod; defnyddiau esgynlawr; esgynloriau, ysgaffaldau; attegwydd; atteglawr.
Scaglia, *s.* (It.) marm coch.
Scagliola, *s.* (It.) plastr glyfaen, rhith-fynor.
Scalable, *a.* dringadwy ar ysgolion; dringadwy, llettringadwy.
Scalade, } *s.* (Ff. *scalade;* Ysp. *scalado;* o'r
Scalado, } Ll. *scala*) llettringad, ysgolawd, dringediad, murddringad; dringad muriau âg ysgolion; dringad *neu* fynediad i ben muriau lle gwarchäedig ar ysgolion.
To take a town by scalade—cymmeryd tref trwy nerth ysgolion.
Scalaria, *s.* (Ll. *scalaris*) grisgregyn.
Scalariform, *a.* (Ll. *scalaris* a *forma*) ar lun ysgol *neu* lettring; llettringaidd.
Scalary, *a.* (Ll. *scalaris*) llettringaidd; ar lun llettring *neu* ysgol.
Scald, *v. a.* (It. *scaldare;* Ff. *echauder;* Gw. *sgallaim;* Gael. *sgallt, sgalltadh*) lleithlosgi, gwylosgi, gwlyblosgi, berw-losgi, brwd-losgi, ysgaldanu, ysgaldan, ysgaldian; hifio, ginio, moeli, *neu* groennoethi â *neu* mewn dwr brwd; digroeni â *neu* mewn dwr berw; goloesgi, goferwi, poethi; dàl ar groen un.
To scald milk—ysgaldanu llaeth, ysgaldan llaeth.
To scald a hog—ysgaldanu mochyn, porchio mochyn.
Scald, *s.* lleithloeg, gwlybloeg, gwyloeg, berwloeg, lloeg gàn ddwr berw, lloeg dwr, ysgaldaniad; goferwad, lledferwad, goferw, brwdiaa.
Burns and scalds—lloeg tân a lloeg dwr.
Scald, *s.* (S. *scyll?*) cramen, cen, ysgen, mardon, crach pen, crach drwg, y ddufrech.
Scald, *a.* crachlyd, crach, cenog; bawaidd, bawlyd, brwnt, gorwael, salw.
Scald, } *s.* (D. *skialdrer*) bardd Llychlyn.
Scalder, }
Scaldhead, *s.* pen â chrach drwg ynddo; pen crach; pengrechi, pengrechni, pengrachedd; crach drwg yn y pen.
Scaldic, *a.* perthynol i hen feirdd Llychlyn; berddig.
Scalding, *p.* yn ysgaldanu, &c.; ysgaldan, brwd ysgaldan, poeth ysgaldan.
Scalding-hot, *a.* ysgaldan, brwd ysgaldan, poeth ysgaldan, lleithloeg, gwlybloeg, gwyloeg.
Scale, *s.* (S. *scale, sceale;* Is. *schaal;* Ll. *scala*) clorian, tafol, tafl, tafian, mantol; cen, (*sing.* cenyn; *pl. dim.* cenynau), ysgen, cresten, crestyn, crofen, dalen; ysgol, llettring, rheseddring; gradd, graddfa, graddog, mesurfa, graddfesurfa, dringfa, graddell, graddeg; dring; gris; grisiau, dringraddau; graddiad, graddiant, graddiaeth; graddiad *neu* raddiant rheolaidd.
Scale of music—graddfa cerdd, dringfa cerdd, ysgol cerdd; seinradd; grisiau cerdd.
Chromatic scale—goseinradd, goslefradd, graddfa oseiniol.
Diatonic scale—tryseinradd, graddfa drydonol.
Enharmonic scale—gorseinradd, graddfa orseiniol.
Scale of a balance—clorian, tafol, mantol.
A pair of scales—clorian, tafol, mantol, tafian.
Scale of miles (in a map)—mesurfa milltiroedd.
Scale of walls=*Scalade, Scalado.*
Scale of a razor—carn ellyn.
Scale (on metals)—cen, chwysig-lafn, dalen, cenyn.
Scales of fish—cen pysgod.
Scale (in astronomy)—y Fantol, arwydd y Fantol.
Scale, *v.* digenu, pilio, digroeni, crisbilio, dirisgo; dringo, dringo muriau, murddringo, llettringo, ysgolodi; mesur, pwyso, cymharu; codi yn ddail *neu* yn llafnau; bwrw cen, bwrw ei gen, ymddigenu; gwisgio, bwrw gwisg.
To scale a fish—digenu pysgodyn.
To scale a bone—digenu asgwrn; codi dalen, cen, *neu* chwysig-lafn oddi ar asgwrn; codi *neu* dynu y cen oddi ar asgwrn; peri i ddalen, i wisg, *neu* i'r cen godi oddi ar asgwrn.
To scale (as a bone)—codi yn ddail *neu* yn llafnau; bwrw cen, bwrw ei gen, ymddigenu; bwrw gwisg, gwisgio, gweisgio.
To scale off—syrthio ymaith yn ddalenau *neu* yn llafnau; gwisgio ymaith; crisbilio.
To scale away—pilio ymaith; tynu oddi ar (*Tob.* iii. 17).
To scale the walls of a town—dringo muriau tref ar ysgolion rhyfel; myned dros y muriau trwy nerth ysgolion; dringo i dref; llettringo muriau tref.
Scaled, *a.* cenog, ysgenog; â chen iddo *neu* arno.
Scaleless, *a.* digen, digenog, heb gen.
Scale-moss, *s. pl.* cen-fwsogl, cen-fwswn.
Scalene, } *a.* (Gr. *scalênos*) anghyfochrog,
Scalenous, } anghyfochr; gwyrog.
Scalene triangle—tryfal anghyfochrog.
Scalene, *s.* tryfal anghyfochrog.
Scaler, *s.* (o *scale*) dringwr, dringedydd.
Scaliness, *a.* (o *scaly*) cenogrwydd; gerwindeb.
Scaling-ladder, *s.* ysgol ryfel, ysgol warchau, llettring ryfel, ysgol ddringo muriau.
Scaliola, *s.*=*Scagliola.*
Scall, *s.* (S. *scyll?*) cramen, cen, ysgen; crachogrwydd; crach drwg; y ddufrech; olefri, clafr.
Scalled, *a.* cramenog, cenog, ysgenog, crachog, crachlyd; llawn crach drwg; pengrach, iadgrach; clafrllyd.
Scallion, *s.* (It. *scalogno;* Ll. *ascalonia;* Ff. *echalote*) sibylen, sibolen, sibolyn: *pl.* sibol, sibwl=math ar wynwyn.
Scallop, *s.* (Is. *schulp*) gylfgragen, gylfgragenbysg; crymfwlch, cyrfymyl, gylfymyl, bylchiad, rhiciad.
Scallop-shell—gylfgragen.
Scallop, *v. a.* gylfu, crymfylchu, minfylchu, bylchu, rhicio; gylfgragenu; cyweirio *neu* goginio mewn cragen *neu* ylfgragen.
Scalp, *s.* (Is. *schelp, schulp*) croen y pen, croen y gopa, clol, copa.
Hairy scalp—copa walltog.
Scalp, *v. a.* blingo *neu* ddigroeni y pen; blingo *neu* ddigroeni yr iad; diglolio, penflingo.
Scalpel, *s.* (Ll. *scalpellum*) cyllell grafu, ysgythrell, crafell=offeryn llawfeddyg.

Scalper, } *s.* (Ll. *scalper*) crafiedydd,
Scalping-iron, } haiarn crafu, rhathell meddyg.
Scalping-knife, *s.* cyllell flingo, cyllell ddiglolio, cyllell benflingo.
Scalprum, *s.* (Ll.) min y dannedd blaen.
Scaly, *a.* (o *scale*) cenog, ysgenog, llawn cen; cenaidd; bawaidd, brwnt.
The scaly coat of animals—dragwm.
Scaly-winged, *a.* cen-adeiniog.
Scamble, *v.* (Is. *schommelen*) brysio, ffrystio, ffysgio, dyfrysio, ffiychio, pestota, estricio, traffullio; bod ar frys; trybestu, ffwdanu; dadyrddu, dwndro; ymwthio, bras-redeg, brasgamu; darymred, crwydro; ymwthio, ymyryd; llurgunio, sinachad, dryllio, anafu.
To scamble over a thing—brasgamu dros beth; myned dros beth ar frys; myned dros beth yn anmherffaith gàn ormod brys.
To scamble away — gwastraffu, afradu, gwario.
Scambler, *s.* ymwthiwr; un ymwthgar hyf dadyrddus.
Scambling, *p.* yn brysio, &c.; gwasgarog, gwasgaredig.
A scambling town—tref wasgaredig, wasgarog, anghyfrestr, anghyttai, *neu* anghytty.
Scambling country houses—tai yn y wlad un yma a'r llall acw; tai gwasgaredig ar hyd y wlad.
Scamblingly, *ad.* yn ddadyrddus, dàn ddwndro, &c.; yn wasgaredig, yn wasgarog, yn anghyfrestr, yn anghysswllt; un yma a'r llall acw.
Scammoniate, *a.* à wnaed â chynghafog dwyreiniol.
Scammony, *s.* (Ll. *scammonia*) cynghafog dwyreiniol, ffithys y Dwyrain; sug *neu* ystor y cyfryw blanigyn.
Scamp, *s.* (o wraidd *scamper*) dyhiryn, adyn, hocedydd, sybidyn.
Scamper, *v. n.* (Is. *schampen;* Ff. *escamper;* It. *scampare*) rhedeg ymaith ar darf; rhedeg ymaith dàn frasgamu; ffoi *neu* redeg ar frys; brasgamu, ffoi ymaith, ffysgio, ffullio, traffullio, dyfrysio.
Scan, *v. a.* (Ff. *scander;* It. *scandire;* Ll. *scando*) holi yn ddichlyn *neu* yn fanol; chwilio, profi, pwyso, holi; corfanu.
To scan a verse—corfanu pennill; mesur braich *neu* wers mewn prydyddiaeth er profi a ydyw o'r iawn hyd ac amser; mesur pennill.
Scandal, *s.* (Gr. *scandalon;* Ll. *scandalum*) athrawd, athrod, enllib; gwarth, gwaradwydd, gwradwydd, gwarthrudd, gwarthiant, mefi; drygair, absen, cabl; gweli tafod; tramgwydd.
Scandal, *v. a.* athrodi, enllibio, goganu; rhoi anair *neu* ddrygair i; gwaradwyddo, gwarthruddo, gwarthruddio, gwarthâu, gwarthu; †tramgwyddo.
Scandalize, *v. a.* (Gr. *scandalizô*) athrodi, enllibio, difenwi, cablu, goganu, absenu, difrio, hortio; gwaradwyddo, gwarthruddo, gwarthâu, gwarthu, gwartheirio, gwardwyddo; tramgwyddo, digio.
Scandalous, *a.* gwaradwyddus, gwarthus, gwardwyddus, gwradwyddus, gwaradwyddol, gwarthlawn, cywilyddus, gwarthruddus; ysgeler; gwartheiriog; tramgwyddus; athrodus, enllibus, goganus.
Scandalousness, *s.* gwarthusrwydd, gwarthlonedd.
Scandalum Magnatum, *s.* (Ll.) athrawd gorchoddion; dirmyg i ddyledogion *neu* oreugwyr; enllib yn erbyn gwŷr mawr.
Scandent, *a.* (Ll. *scandens*) dringol.
Scandix, *s.* (Ll.) creithig, nodwydd y bugail.
Scanning, *s.* (o *scan*) corfaniad, corfaniaeth, mesuriad pennillion; chwiliad, profiad, trychwiliad.
Scansion, *s.* corfaniad, corfaniaeth.
Scansores, } *s. pl.* (Ll. *scando*) dringedyddion, dringadar, adar dringol.
Scansorial, *a.* dringol, dringedyddol.
Scant, *v.* (D. *skaanet*) cyfyngu, prinhau, tolio, lleihau, llaesu.
I was somewhat scanted in time—yr oedd hi yn grŷn *neu* yn dràn gyfyng arnaf o ran amser; yr oeddwn yn o fyr o amser.
Scant, *a.* prin, gobrin, lledbrin, cul, cyfyng, cyrrith, byr, rhyfyr, bychan, bach, cwta, cynnwys; anaml; tlawd; ffied; annigonol; †cynnil.
Scant wind—gwynt anhwylus; gwynt yr gafn.
Scant, *ad.* yn brin, yn obrin, &c.
Scantily, *ad.* (o *scanty*) yn brin, &c.
Scantiness, } *s.* prinder, prinrwydd, anamledd,
Scantness, } annigonedd; bychander; tlodi.
Scantle, *v.* (o *scant*) bod yn brin, &c.; bod yn ddiffygiol; prinhau; pallu, methu; hollti.
Scantle, *s.* mesuren llechau.
Scantlet,† *s.* cynllun bychan; dernyn, syrnyn, cetyn; ychydig.
Scantling, *s.* (Ff. *echantillon*) cynllun, cyddelw, enghraifft; syrnyn, bychod, bychodedd, tameidyn, rhan fechan, rhenyn, drylliyn, dernyn, cetyn, mesur bychan, ychydig; mesur, maint, maintioli, cymmesurwydd; cymmedr pren *neu* faen; cetyn *neu* ddernyn o bren.
Scantling,† *a.* prin, anaml; bychan.
Scantly, *ad.* (o *scant*) yn brin, &c.; braidd, o'r braidd, antur.
Scanty, *a.* (o *scant*) prin, gobrin, lledbrin, cul, cyfyng, cyrrith, byr, rhyfyr, bychan, bach, cwta, cynnwys; anaml; tlawd; ffied; annigonol; cynnil.
To grow scanty—prinhau; myned yn brin, &c.
To make scanty—prinhau; gwneuthur yn beri yn brin, &c.
Scape,† *s.* (talfyriad o *escape*) dïangfa, dianc, ffo, ffwyr; ymwared; gocheliad; gofreq, prano; gweithred benrydd *neu* anllad.
Scape, *s.* (Ll. *scapus*) paladr diddail ffrwyth, paladr colofn rhwng y penclwm a'r gwaelod.
Scape,† *v.* dïanc, dïengyd, ffoi, cilio.
Scape-goat, *s.* bwch dïangol (*Lef.* xvi. 8, 10).
Scape-grace, *s.* un diras, adyn, dyhirya, sybidyn.
Scapeless, *a.* heb baladr diddail i'r ffrwyth.
Scapement, *s.* dïangawd, dïangiad, dïangfa; ffwyrell; ffoad, ffwyrad.
Scapha, *s.* (Ll.) ceudod allanol y glust; rhwyn yn deupen; ysgraff.
Scaphism, *s.* (Gr. *scaptô*) ceubreniaeth—math ar gosp farbaraidd yn mhlith yr hen Bersiaid.
Scaphites, *s. pl.* (Ll. *scapha*) math o gregyn bysg nofiol *neu* folbedogion.
Scaphoid, *a.* (Gr. *scaphê* ac *eidos*) ar lun cwch

neu fad; ar ddull bad *neu* gwch; cychaidd, badaidd.

Scapling, } *s.* (o *scabble* neu *scapple*) bras nadd-
Scabbling, } iad *neu* forthwyliad ar geryg.

Scapolite, *s.* (Gr. *scapos* a *lithos*) llathfaen.

Scapple, *v. a.*=*Scabble.*

Scapula, *s.* (Ll.) palfais, palfes, crafell yr ysgwydd, gwaell yr ysgwydd, ysbawd, asgwrn pen yr ysgwydd; ysgwydd.

Scapular, *a.* (Ll. *scapularis*) perthynol i'r balfais; perthynol i'r ysgwydd; eiddo yr ysgwydd; ysgwyddol, palfeisol, palfeisaidd.

Scapular, *s.* rhydweli y balfais; plufyn ysgwydd yr aden.

Scapular, } *s.* ysgwyddor; rhwymyn crafell yr
Scapulary, } ysgwydd.

Scapus, *s.* (Ll.) paladr; paladr, bon, *neu* goes plufyn; paladr ffrwyth; paladr colofn.

Scar, *s.* (Ff. *escarre;* Gr. *eschara*) craith; cleisen, clais; † clogwyn.

A visible scar, } craith ogyfarch;
A conspicuous scar, } craith amlwg, hywel, *neu* hynod.

Scar, *s.* (Gr. *scaros;* Ll. *scarus*) math o bysg.

Scar, *v. a.* creithio.

Scarabæidians, *s. pl.* (Ll. *scarabæus*) teulu o chwilod.

Scarab, } *s.* (Ll. *scarabæus*) chwilen, chwil,
Scarabee, } chwilen ddu.

Scaramouch, *s.* (Ff. *escarmouche;* Ysp. *escaramuza*) ysgentyn mewn gwisg amryliw; ysgentyn brith; ysgentyn, digrifwas, digrifyn.

Scarbroite, *s.* delidfaen *Scarborough.*

Scarce, *a.* (It. *scarso;* Is. *schaarsch*) prin, anghyffredin, anaml, ambell; anfynych; ffied; braidd.

To grow scarce—prinhau; myned yn brin, &c.

To make scarce—prinhau; gwneuthur yn brin, &c.

Scarce, } *ad.* prin, yn brin, braidd, o'r braidd,
Scarcely, } o fraidd, o braidd, abraidd, odid; nemawr, nemor; yn anaml, yn anfynych; nid haiach; antur.

Scarcement, *s.* troediant (mewn adeiladau).

Scarceness, } *s.* prinder, prindra, prinrwydd,
Scarcity, } anamledd, anamlder; anfynychder; drudaniaeth.

Root of scarcity—gwreiddyn prinder, prinwraidd; melged y maes.

Scare, *v. a.* (It. *scorare;* Ysg. *skair, skar*) brawychu, dychrynu; gyru *neu* beri ofn, dychryn, braw, *neu* arswyd ar; ofnhau, hylldrawu, bwbachu, ciliorni; tarfu, bwgwth, bygythio.

To scare away—tarfu ymaith.

To scare one out of his wits—gyru oerfraw ar un; peri braw yn nghalon un; peri braw ar *neu* drwy galon un; brawychu, dychrynu, ofni, *neu* ofnhau un yn ddirfawr; gyru un allan o'i synwyrau gàn ofn.

Scarecrow, *s.* (*scare* a *crow*) bwbach y brain, bwbach, hudwg, tarfhutan, bwgan, bwg, rhagwn; y wylan ddu.

Scarefire,† *s.* tân braw; tân yn tori allan fel ag i frawychu pobl.

Scarf, *s.* (Ff. *echarpe;* S. *scearf*) ysgablar, ysgwyddrwy, ysgwyddlain, ysgwyddlïan, ysgwyddwisg, ystola.

Scarf, *v. a.* gwisgo ysgablar; ymwisgo âg ysgablar; rhoi ei ysgablar am dano; bwrw *neu* roi arwisg yn llac *neu* yn esgeulus am dano; bwrw toryn am yr ysgwyddau.

She went out hooded and scarfed—hi a aeth allan â'i hwf a'i hysgablar am dani.

Scarf, *v. a.* (Sw. *skarfva;* Ysp. *escarpar*) cyssylltu, cydio, uno, coedasio; cyssylltu *neu* gydio dau ddarn o bren.

Scarfing, *s.* coedasiad; cyssylltiad *neu* gydiad coed.

Scarfskin, *s.* (*scarf* a *skin*) y croen uchaf, tòn y croen, tònen y croen, argroen, gordon, gordònen.

Scarification, *s.* (Ll. *scarificatio*) ysgraffiniad, craffiniad.

Scarificator, *s.* ysgraffinydd, ysgraffinai, craffinai.

Scarifier, *s.* ysgraffiniwr; ysgraffinydd, ysgraffiniedydd, craffinydd.

Scarify, *v. a.* (Ll. *scarifico;* Ff. *scarifier*) ysgraffinio, craffinio.

Scarious, } *a.* (Ll. *scarosus*) garw, agarw.
Scariose, }

Scarlatina, *s.* (It. *scarlattino*) y dwymyn goch, eirosgryd, eirosglwyf.

Scarlatinous, *a.* eirosgoch, gloewgoch, ysgarladliw; perthynol i'r dwymyn goch.

Scarlet, *s.* (Ff. *ecarlate;* Is. *scarlatto;* Gw. *scarloid*) ysgarlad, ysgarlla, airos; gloewgoch; coch.

Arrayed in scarlet—dilladedig âg ysgarlad; ysgarlad-wisg; â gwisg ysgarlad am dano.

Scarlet, *a.* ysgarlad, ysgarlla, ysgarladliw, o liw ysgarlad, gloewgoch, purgoch; coch.

Scarlet oak—prinwydden: *pl.* prinwydd.

Scarlet fever—y dwymyn goch, eirosglwyf, eirosgryd.

Scarlet robe—mantell o ysgarlad; gwisg ysgarlad, cochwisg.

Scarlet wool—gwlan porffor (*Heb.* ix. 19); gwlan purgoch, gwlan ysgarlad.

Scarlet runners—ffa cochion, ffa rhedegog.

Scarmage, } † *s.*=*Skirmish.*
Scarmoge, }

Scarn,† *s.* (S. *scearn*) tom, baw.

Scarn-bee,† *s.* chwilen y dom.

Scarp, *s.* (Ff. *escarpe;* It. *scarpa*) bol *neu* lethr y clawdd o du y gaer; llethr, llechwedd, epynt.

Scarp, } *s.* ysgablar (yn arfau bonedd).
Scarpe, }

Scarped, *a.* ar lethr, ar lechwedd, llechweddog, llethrog.

Scarred, *p. p.* (o *scar*) creithiedig; creithiog; â chraith *neu* greithiau arno.

Scatch, *s.* (Ff. *escache*) math o ensa ffrwyn.

Scatches, *s. pl.* (Ff. *echasses*) tudfachau, ystudfachau; baglau, ffyn baglau.

Scate, } *s.* (Is. *schaats*) llithresgid, esgid lithro,
Skate, } ffollach lithro, llithrell, gosail lithro, llithr-osail.

Scate, } *v. n.* llithro, llithro ar ia, llithro ar
Skate, } redeg, llithrellu, llithro ar oseiliau, llithr redeg.

Scate, } *s.* (S. *sceadda;* Ll. *squatus*) morgath,
Skate, } cath fôr, rhwchwa, rhaien lefn, rheien lefn.

Scatebrous, *a.* (Ll. *scatebra*) ffynnonog, llawn ffynnonau.

Scath, *v. a.* (S. *scathian*) niweidio, niwedu, dyfetha, dystrywio, dinystrio, diffeithio, difrodi, difa.

Scath, *s.* niwed, drwg, drygioni, dinystr, adwyth, colled.

Scathful, *a.* niweidiol, niweidiog, dinystriol, adwythig.

Scathfulness, *s.* niweidioldeb, adwythigrwydd.

Scathless, *a.* digolled, heb niwed, diniwed, diddrwg, difriw; diasgengael; pensych.

Scatter, *v.* (S. *scateran*) gwasgaru, gwasgar, lledaenu, taenu, chwalu; hau; bwrw *neu* yru ar wasgar; gyru *neu* fwrw ar led; atharfu, dywalltrain, ffwyro; ymwasgaru, ymdaenu, ymledaenu.

Scatter-brain, *s.* un ieuanc penchwiban, chwidryn.

Scatter-brained, *a.* penchwiban, penchwidr, chwidr.

Scattered, *p. p.* gwasgaredig, &c.; gwasgarog, gwasgar, ar wasgar.

Scattered town, } tref wasgaredig, was-
Scattering town, } garog, anghyfrestr, anghytty, *neu* anghyttai.

Scattering, *s.* gwasgariad, gwasgaredigaeth, gwasgarawd, gwasgar, gwasgarfa, chwalfa, chwaliad, chwaledigaeth, lledaeniad; esgardde, tarf, train.

Scattering, *a.* gwasgarog, gwasgar, gwasgarol; anghyswllt.

Scatteringly, *ad.* ar wasgar, yn wasgarog, &c.; un yma a'r llall acw; ar led, ar daen, ar lanastr.

Scatterings, *s. pl.* gwasgaredigion, pethau gwasgaredig.

Scatterling, *s.* crwydryn, crwydriad, dyn crwydr, un crwydr, gwibiad: *pl.* gwasgaredigion. [tarddu.

Scaturient,† *a.* (Ll. *scaturiens*) tarddol, yn

Scaturiginous,† *a.* (Ll. *scaturigo*) ffynnonog, llawn ffynnonau.

Scaup, *s.* hwyad lygad arian, llygad arian.

Scavage, *s.* (S. *sceawian*) toll à delid gynt gàn farchnadyddion gorwlad am drwydded i gynnyg eu nwyddau ar werth.

Scavenger, *s.* (S. *scafan;* Al. *schaben;* Ll. *scabio*) ysgubwr heolydd, carthwr yr heolydd, glanhâwr yr heolydd, heol-garthydd.

Scelerat,† *s.* (Ff.; Ll. *sceleratus*) ysgelerddyn, ysgeleryn, dybiryn, drygddyn, milain.

Scena, *s.* (Ll.) wyneb yr hen chwareudai.

Scene, *s.* (Ff.; Ll. *scena;* Gr. *scenê*) golygfa, golwg; drych; gwelediad, golygiant, ymddangosiad; dangosfa, ymddangosfa; paith, ysbaith, ystrem, amlygfa; drychlen, peithlen, chwarwylen, cyfrynglen; cyfanbarth, cyfunbarth, cyfunwel, cyfunddrych; llun, darlun, eilun; y fàn *neu* y lle y bo y weithred à ddarlunir *neu* à arddangosir; wyneb y chwareudy *neu* chwareufa; taflod; swll, syllfa, gweledfa; gweithredfa; chwareu.

The scene of war—rhyfelfa; y lle y bo *neu* yr ymddangoso rhyfel; rhyfeldir; maes y rhyfel.

The master of the scene—meistr, pen, *neu* benaeth y chwareu.

Scene,† *v. a.* dangos, arddangos.

Scenery, *s.* (o *scene*) golygfa, golygawd, golygiant; darlunfa, eilunfa, peithfa; darluniad, darluniedigaeth; peithleni, drychleni.

Scenic, } *a.* (Ll. *scenicus*) golygfaol, peithfaol,
Scenical, } syllfaol; chwaryddol, chwareuol, chwarëyddol, chwarwyfaol, chwareufaol.

Scenographic, } *a.* peitharluniol, peitharScenographical, } graffol, peithluniol.

Scenography, *s.* (Gr. *scênê* a *graphô*) peitharluniaeth, darluniadaeth olygiadol; peithargraff, peitharlun, peithlun; darluniad pet. yn ol ei ymddangosiad i'r olwg.

Scent, *s.* (Ff. *sentеur;* o'r Ll. *sentir*) arogl, arogledd, gwynt, arwynt, sawyr, awyr, safwyr, rhogl, ogl, chwa; adrywedd, edrywedd, edrywan, edrywant, trywedd, trywydd.

To trace by scent—edryweddu, adryweddu, tryweddu, trywyddu, arwyntio.

Scent of a hare—trywedd, trywydd, adrywedd, *neu* edrywedd ysgyfarnog.

Scent, *v. a.* arogli, arwyntio, sawrio, awyro, safwyro, gwyntio, rhogli, ogli, ogleuo; rhagleuo; edryweddu, adryweddu, tryweddu, trywyddu; trwyno; perarogli, perawrio, perwyntio, perarogluso, perogli.

To scent out, } arogli, adryweddu,
To have a scent of, } edryweddu, try-
To get a scent of, } weddu, trywyddu; cael adrywedd, edrywedd, arwynt, awyr. *neu* gyfod; gwybod, deall.

Ill-scented—â drygwynt iddo *neu* ganddo; â drygawr iddo *neu* ganddo; â gwynt *neu* sawr drwg iddo *neu* ganddo; drygsawrus, drewllyd, drwg ei arogl.

Sweet-scented—peraroglaidd, peraroglus, arogldr, arogleuber, peroglaidd, persawrus, per ei arogl, per ei sawr, awyrber, safwyrber.

Scentful, *a.* peraroglus, peraroglaidd, arogldr, arogleuber, aroglus, aroglaidd, peroglus, peroglaidd, per ei arogl, per ei sawyr, per ei sawr, persawrus, safwyrber; ffroeallym, ffroen-graff.

Scentless, *a.* diarogl, diawyr, diawr, diafwyr, heb arogl.

Sceptic, *s.* (Gr. *scepticos*) ammheuwr, ammheuydd, un ammheugar, dyn ammheugar, ammheugarwr, mab yr ammheuaeth, mab ammheuaeth; cyngydiwr. [aeth.

Sceptics—ammheuwyr, meibion ammheu-

Sceptic, } *a.* ammheugar, ammhëus, ammheu-
Sceptical, } aethol, anghoelgar.

Scepticalness, *s.* ammheuarwydd, ammheugarwch, anghoelgarwch.

Scepticism, *s.* ammheugarwch, ammheuaeth.

Scepticize, *v. n.* ammheu, petruso; cymmeryd arno ammheu pob peth.

Sceptre, *s.* (Ff.; Ll. *sceptrum;* Gr. *scêptron*) teyrnwialen, teyrnialen, arglwyddwialen, berllysg freninol.

To sway the sceptre, } dwyn y deyrnwia-
To wield the sceptre, } en; rhwyfo y deyrnialen; teyrnasu; bod yn frenin.

Sceptre, *v. a.* rhoi teyrnwialen i; rhoi teyrnialen yn llaw; gwisgo âg awdurdod brenin.

Sceptred, *a.* teyrnwialenog, teyrnialenog; yn dwyn *neu* arwedd teyrnwialen; à fo *neu* y sydd yn dwyn teyrnwialen; â theyrnwialen yn ei law; â'i deyrnwialen yn ei law.

Sceptreless, *a.* heb deyrnwialen.

Schaalstein, } *s.* (Al. *schaalstein*) pilfaen.
Schalestone, }

Schediasm, *s.* (Gr. *schediasmos*) ysgrifeniad brysiog ar ddarn o bapyr.

Schedule, *s.* (Ll. *schedula*) chwaneglen, attodlen, atlen, dibynlen, dibynlain, chwaneglain, attodlain; chwanegiad.

Scheik, } *s.* (Ar.) penaeth Arabaidd; penaeth
Sheik, } mynachdy Mahometaidd; Sheic.
Sheikh, }

Schematism, *s.* (Gr. *schêmatismos*) cyttrem *neu* gyttremiad y ser a'r planedau; ffurf *neu* drefn neilltuol peth.

Schematist, *s.*=*Schemer, Schemist.*

Schematize, *v.* cynllunio, dyfeisio, amcanu.

Scheme, *s.* (Ll. *schema;* Gr. *schêma*) cynllun, dyfais; bwriad, amcan, gofryd; dychymyg; cyttrem; athrylith; llun, darlun, darluniad.

To concert, form, *or* lay schemes—llunio dychymygion, cydlunio dychymygion.

Scheme arch, Skene arch, } bwa à fo yn rhan o gylch.

Scheme, *v.* cynllunio, dyfeisio, llunio, bwriadu, amcanu.

Schemer, Schemist, } *s.* cynlluniwr, cynlluniedydd, dyfeisiwr, dyfeisydd, dychymygwr, lluniwr, lluniedydd.

Scheming, *a.* cynlluniol; cyfrwys, ystrywgar.

Scheming, *s.* cynlluniad, dyfeisiad, &c.

Schene, *s.* (Ll. *schænos;* Gr. *schoinos*) hydfesur Aifftig=o ddeutu 60 ystaden, neu 7½ milltir.

Scherif, *s.* (Ar.) enw à roir yn y Dwyrain i ddisgynyddion Mahomet trwy ei ferch Ffatima a'i ddaw Ali; penaeth, arlwydd.

Schesis, *s.* (Gr.) greddf; athrylith; ansawdd; tuedd, gnawd.

Schirrus, *s.*=*Scirrhus.*

Schism, *s.* (Gr. a Ll. *schisma*) rhwyg, rhwygiad, ymraniad, ymran, ymrwygiad, esgaredd, ymblaid, gwahan, gwahaniaeth, anghydfod; rhwyg eglwysig, eglwysrwyg; sism.

Schisma, *s.* (Gr.) hanner tornod, godornod (mewn cerddoriaeth)

Schismatic, Schismatical, } *a.* ymranol, rhwygiadol, ymbleidgar, ymbleidiol, eglwysrwygiadol, eglwys-ymranol, eglwys-raniadol; yn tueddu at rwyg *neu* ymraniad yn yr eglwys; yn tueddu at beri rhwyg *neu* ymraniad yn yr eglwys; euog o rwyg *neu* ymraniad eglwysig; esgareddol.

Schismatic, *s.* ymranwr, ymranydd, eglwysrwygwr, ymwahanwr, ymrwygwr, esgareddwr: *pl.* ymwahanwyr, meibion rhwyg.

Schismatically, *ad.* yn ymranol, &c.; fel y neb a rwygai eglwys.

Schismaticalness, *s.* ymranoldeb, rhwygiadoldeb, ymbleidgarwch, &c.

Schismatize, *v. a.* gwneuthur *neu* beri rhwyg mewn eglwys; bod yn rhwygiedydd eglwys; bod yn eglwysrwygwr; bod yn euog o eglwysrwyg; ymbleidio, ymranu.

Schismless, *a.* dirwyg; heb rwyg *neu* ymraniad eglwysig.

Schist, Schistus, } *s.* (Gr. *schistos*) llech, elech, llechfaen, llech hyhollt.

Argillaceous schist—cleilech, cleilechfaen.

Schistic, Schistose, Schistous, } *a.* llechaidd, llechog, elechaidd, llechfeinin; hyhollt, hyollt, hyddelt.

Schistous rocks—llechgreigiau, llechidau.

Schœnus, *s.* (Ll.) corsfrwyn, pibfrwyn.

Scholar, *s.* (Ll. *scholaris*, o *schola*) ysgolâig, ysgolor; llenor, llenog, gwr dysgedig: *f.* ysgoleiges.

Scholarity,† *s.*=*Scholarship.*

Scholarlike, Scholarly, } *a.* ysgoleigaidd, ysgolorai ld; fel ysgolâig; tebyg *neu* gyffelyb i ysgolâig; ar wedd ysgolâig.

Scholarship, *s.* ysgoleigdod, ysgoleigdra; dysg, dysgeidiaeth, llên; llenogaeth, ysgoloriaeth, ysgoleigiaeth; ysgolfraint, braint ysgolâig, dogn ysgolâig.

Scholastic, Scholastical, } *a.* (Ll. *scholasticus*) ysgolaidd, ysgolig, ysgoleigiol, ysgolorig; athrofâus; ysgoleigaidd; eiddo yr ysgolion; perthynol i ysgolion y canoloesoedd; rhyfanwl, gorfanwl.

Scholastic divinity, School divinity, } duwinyddiaeth yr ysgolion.

Scholastic, *s.* ymlynwr wrth ddull *neu* orfanylion yr ysgolion; ysgoleiddiwr, ysgoligwr.

Scholastically, *ad.* yn ysgolaidd; yn ol trefn *neu* arfer yr ysgolion.

Scholasticism, *s.* ysgoligaeth, ysgoleiddiaeth, trefn *neu* arfer yr ysgolion; cyfrwys ddadlau yr ysgolion.

Scholiast, *s.* (Gr. *scholiastês*) esboniedydd, esboniwr, eglurhâwr, eglurwr, eglurnodydd, arnodydd, arnodwr, ysgrifenwr eglurnodau.

Scholiastic, *a.* perthynol i esboniedydd; eglurnodol, arnodiadol.

Scholiaze, Scholy, } † *v. n.* ysgrifenu eglurnodau ar waith un arall.

Scholical,† *a.*=*Scholastic.*

Scholium, Scholion, } *s.* (Gr. *scholion;* Ll. *scholium*) eglurnod, arnodiad, esboniad; nod, nodiad, sylw, *neu* sylwad eglurhaol.

Scholy,† *s.*=*Scholium, Scholion.*

School, *s.* (Ll. *schola;* Gr. *scholê*) ysgol; ad lysgfa, dysgle; ysgoldy.

Grammar school—ysgol ramadegol, ysgol ieithadurol, ysgol ramadeg; ieithysgol; ysgol lle dysgir Lladin a Groeg.

Free school—ysgol rydd; ysgol rad.

Charity school—ysgol rad, ysgol elusenol.

High school—arysgol.

Normal school—ysgol athrawol, ysgol athrawon, ysgol hyfforddiadol, ysgol hyfforddawl, ysgol reolig.

Training school—ysgol hyfforddiadol, ysgol hyfforddawl, ysgol hyfforddig.

Primary schools—ysgolion elfenol, ysgolion dechreuol, ysgolion egwyddorol.

National schools—ysgolion gwladwriaethol, ysgolion gwladol, ysgolion cenedlaethol.

Ragged schools—ysgolion carpiog.

Schools of industry—ysgolion diwydrwydd.

Drawing school—darlunfa, ysgol arlunio, ysgol ddarlunio, ysgol dynu.

Preparatory schools—ysgolion darpariadol, ysgolion parotoawl, ysgolion rhagbarotoawl.

Infant school—ysgol babanod, ysgol febai, ysgol febin, mebai ysgol.

Day school—ysgol ddyddiol.

Sunday school—ysgol Sul.

Dancing school—ysgol ddawnsio.

Fencing school—ysgol ymgleddyfu, ysgol gleddyfwyr.

School divine—duwinydd ysgolaidd, ysgol duwinydd, ysgolwr, ysgoleigiwr.

School divinity—duwinyddiaeth yr ysgolion.

To keep school, To keep a school, } cadw ysgol.

School, *v. a.* addysgu, dysgu, ysgoli, ysgoleigio, ysgolori; ceryddu, dwrdio, ysdwrdio, dondio.

School, Scull, } † *s.*=*Shoal.*

Schoolboy, *s.* plentyn ysgol, mab ysgol, ysgolfab, ysgoläig.

Schooldame, *s.* athrawes ysgol, ysgolfeistres.

Schoolday,† *s.* ysgol-ddyd.l; yr oedran yr anfonir plant i'r ysgol.

Schoolery,† *s.* rhywbeth à ddysgwyd.

Schoolfellow, *s.* cydysgoläig, cydysgolor, cydymaith ysgol, cyfaill ysgol, un cydysgol.
My schoolfellow—fy nghydysgol.
Schoolgirl, *s.* ysgolferch, merch ysgol, geneth ysgol, ysgoleiges, ysgolores.
Schoolhouse, *s.* ysgoldy, ysgolfa, ysgol, ty yr ysgol.
Schooling, *s.* ysgoliad, ysgoleigiad, ysgoleigiaeth; addysg, dysg; ysgol-ddysg; tâl am ysgol; dwrdiad, cerydd, rhacanfa.
I paid for his schooling—mi a delais am ei ysgol ef.
Schoolmaid, *s.* merch ysgol, geneth ysgol, ysgolferch.
Schoolman, *s.* ysgolwr, ysgolydd, ysgoleigiwr, ysgolddyn, un o wŷr yr ysgolion, ysgol-dduwinydd, duwinydd ysgolaidd.
Schoolmaster, *s.* ysgolfeistr, meistr ysgol, athraw ysgol.
Schoolmate, *s.*=*Schoolfellow.*
Schoolmistress, *s.* ysgolfeistres, meistres ysgol, dysgodres ysgol.
Schoolroom, *s.* ysgoldy, ysgolfa, ty yr ysgol.
School-teacher, *s.* athraw ysgol, dysgawdwr ysgol.
Schooner, *s.* (Al. *schoner*) ysgwner=math o long ddau hwylbren.
Schorl, } *s.* (Sw. *scorl*) breuem, breufaen=math
Shorl, } ar ddelidfaen.
Schorlite, }
Shorlite, } *s.* clynfaen=math o dopas.
Schorlous, } *a.* perthynol i freuem; breu-
Schorlaceous, } feinin.
Sciagraphical, *a.* orfynegol; cysgodegol; darluniol.
Sciagraphy, *s.* (Gr. *sciagraphia*) darluniaeth; orfynegiaeth; cysgodeg.
Sciatheric, } *a.* (Gr. *scia* a *thêra*) heulfynegol;
Siatherical, } perthynol i heulfynag.
Sciatic, } *s.* (Ll. *sciatica;* Gr. *sciaticos*) clun-
Sciatica, } wst, y glunwst, dolur pen y glun, dolur yn mhen y glun.
Sciatic, } *a.* clunystol; â'r glunwst ar.o;
Sciatical, } perthynol i'r glun.
The sciatic vein—gwythen y glun, gwythen pen y glun.
Science, *s.* (Ff.; Ll. *scientia*) gwyddor, gwybod, gwyddiant, gwybodaeth, gwyddawd, ofyddiaeth, ofyddiant; gwyddoriaeth; athrawiaeth, celfyddyd; dysgeidiaeth; cyfarwyddyd; gwyddyd, gwŷdd, gwyddedigaeth, gwybyddiaeth; -aeth, -iaeth, -eg.
The sciences—y gwybodau, y gwyddorion, y gwyddorau, y gwyddodau; y celfyddydau.
Natural science, } anianyddiaeth, anian-
Physical science, } aeth.
Science of music—peroriaeth, cerddoriaeth.
The science of song—caniadaeth.
Moral science—moesofyddiaeth, moesogaeth, moeseg, moesddysg, moesaddysg, &c.; gwyddoriaeth foesol, gwyddor moes.
The science of astronomy—seryddiaeth, seroniaeth, serofyddiaeth, sywedyddiaeth.
The science of agriculture—amaethyddiaeth.
Arts and sciences—celfyddydau a gwybodau; celfyddydau a gwyddorion; celfyddau a gwyddorau; celfau a gwyddorion; celfau a gwyddorau.
Art and science—celf a gwyddor, &c.; celfyddiaeth a gwyddoriaeth.
The seven liberal sciences—y saith gelfyddyd freiniol.
A man of science, } gwyddon, ofydd,
A scientific person, } gwyddai; un hyddysg mewn gwybodaeth a chelfyddyd; gwr gwybodus, gwr dysgedig.
Philosophy and science—athroniaeth ac ofyddiaeth.
The science of God—gwybodaeth Duw.
A treatise on science—traethawd ar wyddor, &c.; ofyddeb.
Scient,† *a.* (Ll. *scions*) medrus, cyfarwydd.
Sciential, *a.* gwybodawl, gwybodbair, gwyddiadol, gwyddol.
Scientific, } *a.* (Ff. *scientifique*) gwyddorol,
Scientifical, } ofyddol, gwyddiannol, gwyddiadol, gwyddorig, gwyddol, gwyddain, ofyddiannol, ofyddaid, gwybodol, gwybodaethol, gwybodus; celfyddydol, celfyddgar; gwybodbair; â bair wybodaeth.
Scientifically, *ad.* yn wyddorol, &c.; yn ol rheolau gwybodaeth neu gyfarwyddyd; yn y cyfryw fodd ag a baro wybodaeth.
Scilicet, *ad.* (Ll.) sef, hyny yw, sef yw hyny, nid amgen, ys ef.
Scilla, *s.* (Ll.) serenyn.
Scimitar, *s.* (Ff. *cimeterre*) crymgledd, crymgleddyf, cromfidog, camgleddeu, glaif, yatgïen; cleddyf y Tyrciaid a'r Persiaid.
Scink, *s.* (Ll. *scinctus*) llo marw, marwlo, marllo.
Scintillant, *a.* (Ll. *scintillans*) gwreichioaog, gwreichionol, gwreichionllyd.
Scintillate, *v. n.* (Ll. *scintillo*) gwreichioni, bwrw gwreichion; codi yn wreichion.
Scintillation, *s.* gwreichioniad.
Sciography, *s.* (Gr. *scia* a *graphô*) darluniaeth cysgodau; darluniadaeth.
Sciolism, *s.* (Ll. *sciolus*) gwybodaeth arwynebol, lledwybodaeth, gowybod, gowybodaeth, coeg-wybodaeth, goddysg.
Sciolist, *s.* (Ll. *sciolus*) un gowybodus, un lledwybodus; un arwynebol ei wybodaeth; lledwybodyn, gowybodyn, coeg-wybedydd.
Sciolous, *a.* arwynebol ei wybodaeth; arwynebol o ran gwybodaeth; coeg-wybodus, gwybodol.
Sciomachy, *s.* (Gr. *scia* a *machê*) ymladd â'n ymladdfa â chysgod; ymladdfa â gogysgod.
Sciomancy, *s.* (Gr. *scia* a *manteia*) cysgodarmes; dewiniaeth â chysgod neu gysgodau.
Scion, *s.* (Ff.; Ll. *scindo*) impyn, imp, blaguryn, brigyn, ysbrigyn, blaendardd; bywyllyn; cenaw.
Scioptic, *a.* (Gr. *scia* ac *optomai*) gwyllebrol; perthynol i wyllebyr; gwylldremiol.
Scioptic, } *s.* cronen wyllebrol, cronell wyll-
Sciuptric, } ebrol, gwyllebren.
Scioptics, *s.* gwyllebraeth, gwylldremiaeth.
Sciroc, } *s.* (It. *scirocco*) math o boethwynt
Scirocco, } taglyd; y Sirrocco; nychwynt;
Sirroco, } oerwynt yr Alpau.
Scirpus, *s.* (Ll.) clwpfrwyn, cnwpfrwyn.
Scirrhosity, } *s.* (o *scirrhous*) caledrwydd, caled-
Scirrosity, } wch; chwydd caled, chwydd caled; dafadenogrwydd.
Scirrhous, *a.* caled; clymog; caledchwyddog; dafadenog, chwarenog.
Scirrhus, *s.* (Ll.; Gr. *scirrhos*) caledchwydd, chwydd caled, chwaren; cranc.
Sciscitation, *s.* (Ll. *sciscitor*) ymchwiliad, ymofyniad, chwiliad, gofyniad, holiad.

Scissible, } *a.* (Ll. *scissus, scissilis*) à ellir ei
Scissile, } dori âg erfyn awchus; toradwy, rhanadwy.
Scission, *s.* (Ff.; Ll. *scissio*) toriad âg erfyn llym *neu* awchus; toriad, rhaniad.
Scissors, *s. pl.* (Ll. *scissor*) gwelleifyn, gwellaif, miswrn, siswrn, (*pl.* sisyrnau), llaif.
A pair of scissors—gwelleifyn, &c.
Scissure, *s.* (Ll. *scissura*) toriad, trychiad; hollt, hir-drwch, agen, agoriad, rhigol, rhwyg.
Scitamineous, *a.* (Ll. *scitamentum*) deintaidd, moethus.
Sciurnes, *s. pl.* (Ll. *sciurus*) y gwiwerod.
Scleranthus, *s.* (Gr. *sclêros* ac *anthos*) dinodd.
Scleroderms, } *s. pl.* (Gr. *sclêros* a *derma*) pysg
Sclerodermi, } croen-galed, y caledgrwyn.
Sclerotic, *a.* (Gr. *sclêros*) caled; dèl, dèr.
Sclerotic, *s.* caleden y llygad; cyffyr caledu, caledai.
Scoat, *v. a.* (Llyd. *scoazy*; a C. *ysgwyddo*) attal, attal olwyn.
Scobiform, *a.* (Ll. *scobs* a *forma*) ar wedd blawd llif; ar ddull rhatholion *neu* naddion.
Scobs, *s.* (Ll.) rhatholion, durlifion; sorod, rhwtws, rhwtion; mwnws.
Scoff, *v.* (Gr. *scôptô*) gwatwar, gwatwor, gwatwaru, gwawdio, diystyru, difrïo, mocio, dirmygu; trin gyda gwawd a dirmyg.
To scoff at—gwatwar, &c.
Scoff, *s.* gwatwar, gwawd; moc, orn, dirmyg.
By way of scoff—yn watwarus, yn watwarllyd.
Scoffer, *s.* gwatwarwr, gwatwarydd, gwawdiwr, mociwr.
Scoffing, *s.* gwatwariad, gwawdiad, gwatwarediaeth, mociad; ysgorn.
Scoffingly, *ad.* yn watwarus, yn watwarllyd, yn wawdlyd, dàn watwar, dàn wawdio.
Scold, *v.* (Is. *schelden*; Al. *schelten*) ymserthu, ymsenu, ymlefief, ymgecru, ymdaeru, clewtio, clewtian, ymdafodi, ymddanneddu, ymddeintio, ymgeinnio, ymgigo; clocho; croch ddwrdio, dwrdio, ysdwrdio, dondio, tafodi, rhefru, drelio, arthlo.
Scold, *s.* cecren, cecrai, cecres, ymsenwraig, ymdaerwraig, clewtwraig; benyw rymialog, rymialus, ddrwg ei thafod, gecrus, *neu* ymgeingar; hellgre, ysgolpen, rhefren, clewten, tafodes, gwraig anynad, ysgrabi.
Scolder, *s.* à ymsertho, &c.; cecrai; cecryn, tafodwr, clewtyn; cecren, &c.
Scolding, } *s.* clewtiad, clewt, ymserth, ym-
Scold, } serthiad, cecraeth, ymgecraeth, ymsen, ymseniad, ymdaeru, ymdaer, ymlefief; dwrdiad, rhefriad.
Scolding, *a.* ymdaergar, cecrus, cecraethgar, ymgeingar, tafodgar.
Scoldingly, *ad.* yn ymdaergar, &c.; fel un *neu* rai yn ymdaeru; dàn ymdaeru.
Scolecite, *s.* (Gr. *scôlêx*) pryfaen.
Scollop, *s.*=*Scallop.*
Scollop, *v. a.*=*Scallop.*
Scolopax, *s.* (Gr.) adar gylfinhir, hirylfogion; y cyffylogod.
Scolopendra, *s.* (Gr.) math o drychfil gwenwynig; neidr gantroed.
Scolopendrium, *s.* (Gr. *scolopendra*) tafod yr hydd.
Scomber, *s.* (Ll.) y macrell.
Scomberoids, } *s. pl.* y mecryll; pysg o ryw y
Scombridæ, } macrell.
Scomm,† *s.* (Ll. *scomma*) ysgentyn; gwawd, ysgorn, greff.
Sconce, *s.* (Is. *schans*; Al. *schanze*; Sw. *skans*) mur-ganwyllyr, canwyllyr ceinciog; coes *neu* baladr canwyllbren; lleufergainc; pen; ffedon, achwre, gwasgod, cysgod, cysgodfa; murastell; †caer, amddiffynfa.
Sconce, *s.* (Is. *skiônner*) pen, clol; dirwy, camlwrw, fforffed.
I will break his sconce—mi a doraf ei ben.
Sconce, *v. a.* dirwyo, fforffedu.
Sconcheon, *s.* (*esconsoin*) ochr drws *neu* ffenestr wedi ei gweithio â cheryg geirwon.
Scoop, *s.* (Is. *schop*; Al. *schüppe*) ysgeueg, ceueg; lledwadlwy; crafiwy; rhawbal, rhaw yd; cafn glo, hawg glo; ergyd, hwysg, ysgubiad, hwyst.
Scoop, *v. a.* ceuo, ysgeuo, ceuegu, ysgeuegu; cafnu, cafnio; gwaghau, gwallofi.
To scoop out—tynu *neu* ddwyn allan âg ysgeueg; ceuegu, codi, *neu* grafu allan; ysgeuegu.
Scooped, *p. p.* ysgeuedig, &c.; ysgeuol, ysgau.
Scooper, *s.* ceuegydd, ysgeuegydd, ysgeuegwr.
Scoop-net, *s.* ceuegrwyl, rhwyd geueg.
Scope, *s.* (Ll. *scopus*; Gr. *scopos*) lle; bwriad, amcan, cyfeiriad, tuedd, ergyd; nod *neu* y nod y cyrcher *neu* y cyfeirier ato; y tueddnod; ergyd *neu* yr ergyd y cyrch un ato; rhyddid; rhwysg; maint; hyd; helaethrwydd; penawd; trych; †rhysedd, rhuthr.
Full scope, } llawn ryddid, llawn rydd-did;
Free scope, } digon o le; helaethrwydd o le.
Scope, end, and aim—amcan, ergyd, a thueddnod; dyben, ergyd, ac amcan.
The main scope—y pen-ergyd.
Scopiform, *a.* (Ll. *scopa* a *forma*) ar lun ysgubell; ar wedd ysgub; ysgubellaidd.
Scopiped, *s.* (Ll. *scopa* a *pes*) ysgupped=math ar drychfil melddwyn.
Scoppet,† *v. a.* (o *scoop*) gwallofi, allwys, gwaghau, gwagio.
Scoptical,† *a.* (Gr. *scôpticos*) gwatwarus, gwatwarllyd, gwatwargar, gwawdlyd.
Scopulous,† *a.* (Ll. *scopulosus*) creigiog, llawn creigiau, ysgyryd.
Scorbute,† *s.* (Ll. *scorbutus*)=*Scurvy.*
Scorbutic, } *a.* (Ff. *scorbutique*; Ll. *scorbu-*
Scorbutical, } *tus*) llygol, llwg; â'r llwg arno; â'r clefri poeth arno; perthynol i'r llwg; eiddo y clefri poeth; darostyngedig i'r clefri poeth *neu* y llwg; clafrllyd.
Scorbutus, *s.* (Ll.) y llwg, y clefri poeth.
Scorce,† *s.*=*Scorse.*
Scorce,† *v.*=*Scorse.*
Scorch, *v* (Is. *schroeijen, schrooken*) deifio, poethi, crasboethi, llosgi, darlosgi, greidio, cresu, rhostio; rhuddo.
Scorched, *p. p.* deifiedig, &c.; deifiog, greidiog.
Scorching, *p.* deifiol, greidiol, llosg, llosgol, cresol, crasboeth, chwilboeth, cres.
Scorching heat—poethwres, gwres poeth, gwres angerddol, poethder angerddol, llosgwres, gwres llosg, tragwres, gwres dirfawr, gwres chwilboeth, gwres crasboeth, trachwres.
Scorching hot — chwilboeth, crasboeth, poeth angerddol.
The sun is scorching—mae yr haul yn greidio.

Scorching-fennel, *s.* ffenigl deifiol, ffenigl llosg, moron marwol.
Scorchingness, *s.* deifioldeb, greidiolrwydd.
Score, *s.* (S. *scor*; Gw. *scor*, *sgoram*) ugain, ugaint; rhygu, rhwgn, rhio, rhign, rhig, noc, hac; rhygn-bren, cyfrif-bren, rhig-bren, pren rhiciau; cyfrif, cyfrifiant; cyfrifres; dyled, dylyed; ocel; llinell; achos, achlysur; mwyn; cyfnodiad, cyssoddiad.
Scores—ugeiniau.
Six-score—chwech ugain, chwechugain, chweugain, chweugaint.
A song in score—cân gyfnodedig; cân yn nghyd â cherdd-nodau.
Put it on my score—rhoddwch *neu* bwriwch ef at fy nghyfrif i; cyfrifwch ef arnaf fi.
To quit scores—gwastatu *neu* wastatäu cyfrifon; talu yn llawn; talu yn gyflawn.
To quit old scores—talu hen ddyled *neu* ddylyed; talu yr hen; talu.
To quit scores with one—talu i un hen a newydd; talu yr hen chwech i un.
To clear an old score—talu hen ddyled.
He cleared his old score—talodd ei hen ddyled.
On the score of, } ar gyfrif; o ran; o
Upon the score of, } herwydd, o achos, o blegid, o ethryb; er mwyn; er; i.
On the score of doing you a kindness—i wneuthur i chwi gymmwynas; er mwyn gwneuthur i chwi gymmwynas; er gwneuthur i chwi gymmwynas.
I desire this on the score of friendship—dymunaf hyn ar gyfrif cyfeillach; dymunaf hyn o herwydd cyfeilliach.
Upon a new score—ar gyfrif newydd.
Upon what score?—ar ba gyfrif? pa ham?
To run up a score—rhedeg mewn dyled.
To go upon the score—myned mewn dyled; myned ar y llyfr.
He is upon the score with him—y mae efe yn ei lyfr ef; y mae efe mewn dyled iddo ef.
To put on one's score, } rhoddi, bwrw, *neu*
To score upon one, } ddodi at gyfrif un; dodi, gosod, rhoddi, *neu* fwrw ar un i dalu; gosod, rhoi, *neu* fwrw yn ddyled ar un; bwrw ar un; cyfrif i un.
Score, *v. a.* rhygnu, rhicio, rhigio; tori rhygn, tori rhygnau, tori rhwgn; rhoi ar y rhygnbren; gorthori; cerfio; rhoi ar lawr yn nghyfrif; dodi ar *neu* i lawr; cyfrif; cyfnodi.
To score a writing, } is-linellu ysgrif-
To under-score a writing, } en; rhoi *neu* dynu llinell ddu dân air *neu* linell o ysgrifen.
Scorer, *s.* rhygnedydd, rhygnor.
Scoria, *s.* (Gr. a Ll.) sothach, sorod, sinidr, sindw, rhwtws, swrwd, swtrach, sothach mettel, gorferw mettel, anmhuredd.
Scoriæ—lludw llosgfaloedd.
Scoriaceous, *a.* sothachlyd, sothachaidd, sinidrog, swtrachog, rhwtionllyd; tebyg i sothach *neu* sinidr.
Scorification, *s.* sothachiad, sinidrad; troad peth yn sothach, yn sinidr, *neu* yn sindw.
Scoriform, *a.* (*scoria* a *form*) sinidraidd, sothachaidd; ar wedd sinidr *neu* sothach.
Scorify, *v. a.* (Ll. *scoria* a *facio*) sinidro, sothachu, sorodi; troi yn sinidr, yn sindw, yn sothach, *neu* yn orferw.
Scorious, *a.* sothachlyd, llawn sothach, sinidrog, sorodlyd, llawn sinidr; brwnt; anmhur.
Scorn, *s.* (Ysp. *escarnio*; It. *scherno*) dirmyg, tremyg, dïystyrwch; gwatwar, gwatwor, gwawd, gwatwargerdd; ysgorn; sarhad.
To laugh to scorn—chwerthin am ben; gwatwar, gwawdio; chwerthin gwatwar; chwerthin wrth; chwerthin yn.
To think scorn†—dirmygu, dïystyru.
Scorn, *v. a.* dirmygu, tremygu, dïystyru; gwatwar, gwawdio; chwerthin am ben; ysgornio, dïelwi, gothi.
Scorn,† *v. a.* bod yn watwarus.
To scorn at†—gwawdio, gwatwar, dirmygu.
Scorner, *s.* gwatwarwr, gwatwarydd, gwawdiwr, un gwatwarus, dirmygwr, tremygwr.
He scorneth the scorners—efe a watwar y gwatwarus.
Scornful, *a.* gwatwarus, gwatwarllyd, gwatworus, gwatwargar, gwawdus, gwawdgar, gwawdlyd, ysgornllyd, dïystyrllyd, sarhäus.
The seat of the scornful—eisteddfa gwatwarwyr (*Salm* i. 1).
Scornfully, *ad.* yn watwarus, &c.; dân watwar, dân wawdio.
Scornfulness, *s.* gwatwarusrwydd, &c.
Scorning, *s.* gwatwariad, gwawdiad, dirmygiad, ysgorniad.
To delight in scorning—bod yn hoff gân un watwar.
Scorodite, *s.* (Gr. *scorodon*) garllegfaen.
Scorpio, } *s.* (Ll.) y Sarff, arwydd y Sarff.
Scorpius, }
Scorpion, *s.* (Ff.; Ll. *scorpio*; Gr. *scorpios*) ysgorpion, ysgorpiwn, sarth; y Sarff, arwydd y Sarff: *pl.* ysgorpionau, ysgorpiynau.
Scorpion-grass, *s.* ysgorpionllys, llysiau yr ysgorpion.
Mouse-ear scorpion-grass—ysgorpionllys.
Field scorpion-grass—ysgorpionllys y maesydd.
Marsh scorpion-grass — ysgorpionllys y gors.
Scorse,† *s.* (It. *scorsa*) cyfnewid, ffeiriad; trafu, trafn.
Scorse,† *v.* ymlid, erlid; cyfnewid, ffeirio; ymfasnachu; cytuno.
Scortatory, *a.* (Ll. *scortatorius*) anllad, llodinebus, llawd, anniwair, trythyll, puteiniol.
Scorza, *s.* (It.) togfaen.
Scot, *s.* (S. *sceat*, *sceata*; Is. *schot*; D. *skot*, *skat*) cyfrif, gild; rhan o gyfrif; rhan o dâl; rhan, cyfran; tâl, treth, tasg; edrif.
Scot and lot—tâl a threth; treth a dofraeth; rhan a chyfran.
To pay scot and lot—talu tâl a threth; talu pob tâl.
To pay one's scot—talu ei gyfrif; talu ei ild; gildio; talu ei ran o'r cyfrif.
Pay your scot—telwch eich cyfrif.
Scot, } *v. a.* (Llyd. *scoazya*; C. *ysgwyddo*)
Scotch, } attal, attal olwyn; attal olwyn i chareg, &c.
Scotch,† *v. a.* tori trychyn *neu* drychynau yn mheth; hecynu, trychynu, trychu, hacio, mân drychu.
Scotch, *s.* trwch, trychyn, godrwch, godoriad, hac.
Scotch-collops, } *s. pl.* trychynau (o gig eidion), golwythion (o gig).
Scotched-collops, }
Scotch-fiddle, *s.* crwth yr Alban=y crafu.

Scotching, } *s.* trwsiad ceryg.
Scutching, }
Scoter, *s.* y forhwyad ddu.
Scotfree, *a.* rhydd; didal, heb dalu; digosp, digerydd, heb gosp, heb gerydd, heb ei gospi; heb niwed; pensych.
Scotia, *s.* (Gr.) ysgodrwgn.
Scotograph, *s.* (Gr. *scotos* a *graphô*) offeryn i ysgrifenu yn y tywyllwch.
Scotomy, *s.* (Gr. *scotôma*) pendro, penysgafnder, pendrofa, pensyndod, penddaredd, syfrdanedd, syfrdan, y bendro chwibwrn; pendro a phylni golwg.
Scoundrel, *s.* (It. *scondarouole*, o'r Ll. *abscondo*) dyhiryn, dyhirwr, dyhirwas, bawddyn, bawyn, diffeithwr, diffeithwas, anfadyn, drygddyn, milain, chwiredyn, drygwas, adyn, drelgi, chwiwgi, adlawiad, gwr greng.
Scoundrel, *a.* bawaidd, brwnt, gwael, dyhir, diffaith, milain, dïegwyddor.
Scoundrelism, *s.* dyhirwch, diffeithder, diffeithdra, baweiddrwydd.
Scour, *v.* (S. *scur*; Goth. *skauron*; Al. *scheuren*) glanrwbio, glanrathu, dyrwbio, dyrathu, ysgwrio, dirydu; dygaboli; dadfanu; glanweithio; graianu; glanhau, carthu, ysgarthu, arloesi, arlloesi; ysgubo, hwysgo; ysgothi, dysgarthu, cothi, rhygothi; cyfogi *neu* ddysgarthu *y* bol; peri cyfog bol; darymred, traddu, trafu, trafo, ysdiffio; bod â'r tradd *neu* ddarymred arno; rhedeg ar hyd *neu* dros; hedeg ar hyd *neu* dros; rhedeg, brasgamu; myned dân frysio, dân ffrystio, *neu* dân esgutio; gwibio; chwipio.
To scour the sea—ysgubo y môr.
To scour the seas—ysgubo y moroedd.
To scour the seas (as a pirate)—lladrata, ysbeilio, *neu* herwa ar y môr; morherwa, morbreiddio; ysgubo y môr.
To scour a ditch—carthu, ysgarthu, arloesi, *neu* ysgwrio clawdd.
To scour flannel—diseimio gwlanen; ysgwrio gwlanen.
To scour one, } golchi un; rhoi
To give one a scouring, } golchfa, maethgen, *neu* gosfa i un; ystwytho un; dygaboli un.
To scour the plain—rhedeg *neu* hedeg ar hyd y gwastadedd; rhedeg *neu* hedeg dros y gwastadedd; ysgubo y gwastadedd.
To scour about—rhedeg oddi amgylch; rhedegfain, gwibio, darymred.
To scour away—rhedeg ymaith dân frasgamu; rhedeg ymaith ar darf; brysio, ffrystio, *neu* ddyfrysio ymaith; ffoi ymaith ar ffrwst; ffoi ymaith; hwysgo ymaith.
Scourer, *s.* glanrwbiwr, glanrwbiedydd; ysgwriwr, ysgwriedydd; ysgothai, dysgarthai, carthai; brasgamwr.
Scourge, *s.* (*Ff. escorgée*; It. *scoreggia*) ffrewyll ffiangell, chwistring; curfa; cosp.
Scourge, *v. a.* ffrewyllio, ffrewyllu, ffiangellu, chwistringo; gwialenodio; curo â ffrewyll *neu* â gwiail; cospi.
Let them be scourged — bydded iddynt gurfa (*Lef.* xix. 20).
Scourger, *s.* ffrewylliwr, ffrewyllwr, ffrewylldd, ffiangellwr.
Scourging, *s.* ffrewylliad, ffiangelliad.
By scourging—trwy ffiangellau (*Act.* xxii. 24).
Scouring, *s.* (o *scour*) glanrwbiad, ysgwriad, dygaboliad, &c.
Scourse,† *v.*=*Scorse.*
Scourse,† *s.*=*Scorse.*
Scout, *s.* (Ff.) ffloriwr, peithiwr, peithiad, ysbeienddyn, ysbeiennwr, ysbïwr, ysbeiennydd, cyfarchwyliwr, cyfarchwylydd; heilydd, heiliedydd, heilwas; †craig uchel: *pl.* peithi, peithiaid.
Scout-watches, } y gwylwyr nesaf at wer-
Scouts, } syll y gelyn; y wylfa flaen; gwylfa yr ysbeiennyddion.
A female scout—peithes.
Scout-boat—peithlong, peithas, peithfad, bad ysbeienna, ysbeifad, ysbeienfad.
Scout, *v. n.* fforio, peithio, ysbeienna, ysbeiori, ysbïo, ysbeio, ysbeithio; olrhain; chwilena.
To scout about, } myned oddi am-
To scout up and down, } gylch dân ysbeienna *neu* chwilena; myned i fyny ac i waered dân ysbeienna.
To scout about—myned oddi amgylch dân ddydach; myned dân ddydach o le i le.
Scout, *v. a.* (Sw. *skiuta* ?) wfftio, hwtio, hersio; gwrthod gyda dirmyg; chwerthin yn watwarus am ben peth; greffio.
Scovel, *s.* (C. *ysgubell*, *ysgub*; Ll. *scopa*) ysgubell ffwrn, mopa, mop, moppren.
Scow, *s.* (Is. *schouw*) garfwch; cafn enlli.
Scower, *v.*=*Scour.*
Scowl, *v.* (S. *scul*; Al. *schiel*; D. *skieler*) cuchio, cuwchio, gygu, cibo, blynghau; bod yn guchiog, yn guwchdrwm, *neu* yn gipasog; edrych yn guchiog, yn gibog, yn ygus, *neu* yn sarig; duo, caddugo, cymylu, cibdduo.
Scowl, *s.* cuch, cuwch, cuwg, gwg, cilwg, blwng, cipas; caddug, gwyllwch, dûwch.
Scrabble, *v.* (Is. *krabbelen*; Al. *krabbeln*) cripio, ysgrabinio, crabinio, ysgribinio; crafu â bysedd; coeg-ysgrifenu, ysgrafienu; ymbalfalu; ymgribinio, ymgripio.
Scraffle,† *v. n.* ymgiprysu; bod yn ddiwyd; gwneuthur esgusodion.
Scrag, *s.* (cyfathrach i wraidd *rag*, *crag*, Gr. *rhachia*, *rhachis*) ysgrŵd, ysgrud, ysgerbwd, cyhyraeth; dim ond croen ac esgyrn; chwilfwnwg, chwilfwnwgl, chwilfynwg; cul-ddarn.
Scrag of mutton—chwilfwnwg mollt, pillgorn mollt, corn gwddf mollt.
Scragged, } *a.* (o *scrag*) garw; ysgythrog,
Scraggy, } clogyrnog, ysgyryd; esgyrnllwm, esgyrnnoeth, esgyrnllyd; â fo heb ddim ond y croen a'r esgyrn; cul, achul, teneu, truan, digig.
Scraggedness, } *s.* gerwindeb; ysgythrogrwydd;
Scragginess, } esgyrnllymedd; teneuder, culder.
Scraggily, *ad.* yn arw; yn esgyrnllwm.
Scramble, *v. n.* (Is. *schrammen*: neu lygriad o *scrape*, *scrabble*) ymrabinio, grabinio, crabinio, ymgrabinio, ysgrabinio; ymgiprys, ymgiprysu, cipgeisio, cipymgeisio; chwareu ymrabin; dringo gerfydd y dwylaw; rhyforio.
To scramble for—ymgiprys am, &c.; ceisio ar gip; cipgeisio.
To scramble up—dringo i fyny wrth rym dwylaw; dringo i fyny gerfydd ei ddwylaw; ymrabinio i fyny.
Scramble, *s.* ciprys, ymgiprys, cipgais, cais ar gip; ymrabin; dringad gerfydd y dwylaw.
I have no share in the scramble for the good things of the world—nid oes i mi

ran yn yr ymgiprys *neu* yr ymrabin am dda y byd.

Scrambler, *s.* ymrabiniwr, ymrabinwr, ymgrabiniwr, ymrabinydd; cipgeisiwr, cipgeisydd, cipryswr, ymgipryswr.

Scrambling, *s.* ymrabiniad, grabiniad, crabiniad; ciprysiad, cipgeisiad, ciprys.

Scranch, *v. a.* (Is. *schransen*) crasgnoi, grillgnoi, cnoi crasbeth, cnoi crinbeth; grillian, crinellu, rhincian.

Scrannel,† *a* (tras i *cranny?*) gwael, egwan, tlawd; gwichiog, gwichlyd, crygleisiog.

Scrap, *s.* (o *scrape*) dernyn, cerpyn, tameidyn, tamaid, cinyn, dryllyn, dryll, darnen, llerpyn, llarp, tip, yffl, tic, wl.

A little scrap—yfflyn, ticyn, &c.

Scrap-book—llyfr cinynion, llyfr ticynion, llyfr amryddarn.

Scrape, *v.* (S. *screopan;* Al. *schrapen*) crafu, ysgrafu; cripio; crafusgo; cribinawta, cribinio, rhacanu; ysgrafellu.

To scrape one's self—ymgrafu.

To scrape together—cribinio, cribinawta, rhacanu, crynöi, casglu, pentyru.

To scrape up money—crynöi, casglu, tyru, pentyru, *neu* gribinio arian.

To scrape off—crafu ymaith; dilëu, dïoli.

To scrape one's shoes—crafu ei esgidiau; crafu ei esgidiau â'r grafell.

To scrape acquaintance—crafu *neu* bigo cyfeillach âg un; crafu *neu* bigo cydnabyddiaeth âg un; ymlusgo i gydnabyddiaeth un; ymerlyn am gyfeillach âg un.

To scrape, } ymgrymu (i un) dàn
To scrape a leg, } lusgo y troed; plygu glin; ymgrymu yn drwstan.

Scrape, *s.* (D. *scrab;* Sw. *skrap*) craf, crafiad, ysgraf, ysgrafiad; ergyd o ymgrafu; ymgrymiad; dyryswch, astrusi, anhawsdra, cyfyngder, rhwyd, magl.

Scrape-penny, } crafiedydd y geiniog, craf-
Scrape-good, } wr y geiniog, llygad y geiniog, cribiniwr, cybydd.

To bring one into a scrape—dwyn *neu* dywys un i ddyryswch, i'r rhwyd, *neu* i'r fagl.

To bring one of out of a scrape—dwyn *neu* dynu un allan o ddyryswch; tynu un o'r fagl; tynu troed un o'r fagl.

I am quite out of that scrape—nid oes i mi na llaw na throed yn y mater, y peth, *neu* y gorchwyl hwnw; yr wyf fi yn gwbl rydd o hyny o ddyryswch.

Scraper, *s.* crafiedydd; crafell; ysgrafen, ysgrapen; craflusg; craflwy; rhacan; crafiedydd y geiniog, llygad y geiniog, cribiniwr, cybydd; crythoryn, crythor dall, crythor y moch.

Scraper for shoes—crafell esgidiau.

Scraper, } crythoryn, crythor dall,
Catgut-scraper, } crythor y moch, crythor y cwn, crythor bol clawdd, crythor tin perth, ffiloryn, crach grythor.

Scraping, *s.* crafiad, ysgrafiad: *pl.* crafion, creifion.

Scraping iron—haiarn crafu, crafell.

A scraping fiddle — crwth anghywair; crwth dybryd ei sain; crwth bol clawdd; crwth tin perth.

Scrat,† *v.* crafu; cribinio; chwilio.

Scratch, *v.* (Al. *kratzen*) crafu, cripio, cripian, ysgrabinio, craffinio, ysgraffinio, ysgrafu, cosi, ymgrafu.

To scratch one's self—ymgrafu, ymgosi.

Scratch, *s.* craf, crip, crafiad, cripiad, ysgraf, ysgrafiad, ysgraffiniad; ewinawd; penguwch.

Scratcher, *s.* crafwr, crafiedydd, cripiwr, cripiedydd, coswr, cosiedydd; crafadaryn, (*pl.* crafadar), crafedn, (*pl.* crafednod).

Scratches, *s. pl.* llyncoes.

He has the scratches—y mae y llyncoes arno.

Scratch-weed, *s.* cynghafan, gwlydd y perthi; llysiau yr hidl.

Scratch-work, *s.* ysgrafwaith, crafwaith.

Scraw,† *s.* (Gw.) arwyneb, tònen, crawd, hif; mawnen.

Scrawl, *v.* (o *crawl?* Is. *schravellen?*) ysgrifenu yn anfedrus, yn anhyfedr, yn anghelfydd, yn wrthun, yn drwsgl, yn chwithig, neu yn afluniaidd; ysgrifachu, ysgrafienu, ysgrawlenu, hagr-ysgrifo, ysgrafiunio; gwneuthur baglau brain; †ymlusgo.

Scrawl, *s.* ysgrifen hagr, wrthun, drwsgl, chwithig, *neu* afluniaidd; ysgrafiad, ysgrawlen, ysgrifachen, hagr-ysgrif, ysgrafiun.

Scrawls—llythyrenau afluniaidd; ysgrifach, ysgrafienau; baglau brain.

Scrawler, *s.* ysgrifenydd anhyfedr, anfedrus, trwsgl, *neu* anghelfydd; ysgrafienwr, ysgrafienydd, ysgrifachydd, ysgrafluniwr.

Scrawny, } † *a.* gwael, egwan, cul, truan.
Scranny, }

Scray, *s.* ysgräen, ysgräell, ysgretan, morwennol, gwennol y môr.

Screable,† *a.* (Ll. *screabilis*) poeradwy, hyboer.

Screak, *v. n.* (Sw. *skrika*) ysgrechain, ysgrechian, ysgrechio, ysgrïo, dysgrïo, dysgyrian, oergrïo, yngleisio, ynglefain, crechian, ysgrechleisio, oerwaeddi; gwichian, gwichial.

Screak, *s.* ysgrêch, oergri, crech; gwich, ich.

Scream, *v. n.* (S. *reomian, hræmas*) ysgrechain, ysgrechian, ysgrechio, ysgrïo, dysgrïo, crechian, dysgyrian, dysgyrio, crochwaeddi, crochlefain, crygleisio, ysgrechleisio, ysgrechlefain, ysgarmain, ysgarmu, crochleisio, ichian, ichio, beichio, garmio, oergrïo, oerwaeddi, hyllgrïo, ynglefain, yngleisio, rhoi oergri, rhoi oernad, oernadu, llymgrïo, gwneuthur ysgrechlais, rhoi ysgrêch, rhoi ysgrechlef, eugi, diaspedain, ysgego.

Scream, *s.* ysgrêch, oergri, oernad, ysgri, ysgrechlais, ysgrechlef, crochwaedd, crochlef, ynglef, ynglais, oerfloedd, llymgri, gwawch, crech, ich, baich, aich, gryd, dysgyr, gawr, garm, cryglais, hwchw.

A loud scream—gwawch, crochlef.

A horrid scream—erchlais.

A hoarse scream—cryglais, creglais, ysgrêch gryglyd.

Screamer, *s.* ysgrechwr, ysgrechydd, crochlefwr, &c.

Screamer (in ornithology)—yr ysgrechydd, y crechiedydd.

Screaming, *s.* ysgrechiad, oergrïad, &c.

Screaming, *p.* ysgrechol, ysgrechlyd, ysgrechog, ysgriol, oergrïol, crechol, crygleisiog, &c.

Screech, *v. n.*=*Scream, v. n.*

Screech, *s.*=*Scream, s.*

Screech-owl, *s.* aderyn y corff, aderyn y cyrff, dylluan rudd; gwyll (*Esa.* xxxiv. 14).

Screed, *s.* cilffed o galch a blew (wrth blastro).

Screen, *s.* (Ff. *scran*) cysgodlen, gwasgodlen;

cysgodfa, gwasgodfa; ffedon; perging, achwre, ysgiw; gwasgod, cysgod; marchridyll.
Folding screen—gwasgodlen blyg, cysgodlen blyg, ffedon blyg.
Altar screen—ffedon allor, achwre allor.

Screen, *v. a.* gwasgodi, cysgodi; ffedoni, ysgiwio; noddi, amddiffynu, cadw; cuddio; marchridyllio, bwrw drwy farchridyll.
To screen one's self—ymwasgodi, ymgysgodi.
To screen one from danger—sefyll rhwng un a pherygl.

Screening, *s.* marchridylliad.

Screw, *s.* (Ia. *schroef;* Al. *schraube*) sidrwy, cogwrn tro, hoel dro, troellhoel, cogwrn tynu, cogwrn gwryfio, grisdroell, tyndroell, troell dynu, troell wryfio, asgrwy, sidrych; cogwrn, troell, nydd; tynwasg.
Female screw—troellrych, amsidrych, amsidrwy.
Male screw—arsidrwy, arsidrych, troellhoel, sidrych gwryw.
Cork-screw—allwedd costrel, allwydd potel, sidrwy potel, asgrwy costrel.
Where is the screw?—pa le mae yr allwedd?
Press-screw—cogwrn gwryf, troell gwryf, gwerthyd gwryf, gwryf-droell.
Screw-press—troellwasg.
Screw-nail—hoel dro, hoelen dro.

Screw, *v. a.* sidrwyo, asgrwyo, troellwasgu, troellhoelio, troelli; gyru cogwrn tro i; gyru hoel dro i *neu* mewn; rhoi troellhoel yn; nyddu; gyru, gwasgu, dirio; tynwasgu; dirwasgu; tyndröi; gorthrymu, gormeilio; gwyrdröi, camystumio.
To screw up—troellhoelio; hoelio â hoelion tro; hoelio; cau.
To screw down—troellhoelio; hoelio â hoelion tro; hoelio; sidrwyo.
To screw one's self in *or* into—ymdröi *neu* ymnyddu i mewn; ymlithro *neu* ymlusgo i mewn yn ddystaw, yn ddirgel, *neu* yn lladradaidd.
To screw one's self into another's favour—ymerlyn am fodd *neu* ffafr un; ymlusgo i fodd *neu* ffafr un; ennill bodd, ffafr, *neu* gariad un; myned mewn parch *neu* gymmeriad gydag un.
To screw up one's face—mingamu; troi ei fin; wynebgamu, gwepio.
To screw a thing out of one—tynu, mynu, *neu* wasgu peth allan o un.
To screw one, } gwasgu un.
To screw one down, }
To screw one up—annog, annos, cymhell, dirio, cynhyrfu, *neu* symbylu un yn mlaen.

Screwer, *s.* sidrwywr, asgrwywr, troellwasgydd; gwasgwr.

Screw-plate, *s.* llafn o ddur â thyllau troellrychiog ynddo; llafn troellrychiog.

Screw-trees, *s. pl.* troellwydd.

Scribatious, *a.* chwannog *neu* dueddol i ysgrifenu.

Scribble, *v.* (Ll. *scribillo*) coeg-ysgrifo, coeg-ysgrifenu; ysgrifenu yn afluniaidd, yn esgeulus, *neu* ddiofal; ysgrafienu, bras-ysgrifo, bras-ysgrifenu; ysgrifellu.

Scribble, *s.* coeg-ysgrifen, ysgrafien, bras-ysgrifen; ysgrifen afluniaidd, atferw, *neu* annestlus.

Scribbler, *s.* coeg-ysgrifwr, coeg-ysgrifenwr, coeg-awdur, coeg-awdwr, crach-awdur, ysgrafienwr; ysgrifenydd *neu* awdur gwael *neu* dlawd.

Scribe, *s.* (Ff.; Ll. *scriba*) ysgrifenydd, ysgrifenwr, ysgrifwr, ysgrifydd, ysgrifeniedydd, ysgrifenedydd.
Principal scribe, } pen-ysgrifenydd, prif ysChief scribe, } grifenydd.

Scribe, *v. a.* nodi â lluniodr *neu* â chwmpas; nodi fel ag i gymhwyso y naill beth i'r llall; sutio, cyfladd.

Scribing, *s.* sutiad, cyfladdiad.

Scrimer,† *s.* (Ff. *escrimeur*) penoleddyfwr.

Scrine, *s.* (Ll. *scrinium*) cloer, cist, ysgrin; creirfa.

Scringe, *v. n.* = *Cringe.*

Scrip, *s.* (C. *ysgrab, ysgrepan;* Sw. *skräppa*) ysgrepan, sachell, trythgod, cetog, ysgrab, cod.

Sloe, *s.* (S. *slag, sla;* Al. *schlehe;* D. *slaae*) draenen ddu, eirinberth, duddraenen; eirinen ddu fach: *pl.* drain duon.
Sloes—eirin duon bach, eirin perthi, eirin tagu, eirin duon tag, eirin surion.
Sloe-tree—draenen ddu, duddraenen, eirinberth.
Slogan, *s.* (Gael.) cadlef, cadfloedd.
Sloom,† *s.*=*Slumber.*
Sloomy,† *a.* musgrell, swrth, cysglyd.
Sloop, *s.* (Is. *sloep;* Al. *schaluppe*) llong un hwylbren, llong un wernen.
Sloop of war—cadlong un hwylbren.
Slop, *v. a.* (cyfathrach, hwyrach, i *lap*) trafflyncu; llyncu *neu* yfed yn wancus; tagu, taenellu, *neu* golli dwr o amgylch; gwlychu.
Slop, *s.* (cyttras, tybir, i *slabber*) golchan; diod ddiflas; sucan diflas; gwael wlybwr; gwlych; llaca, merydd: *pl.* golchion, golchionach.
Slope, *a.* (anhysbys) osgoawl, lledbai, llechweddol, llechweddog, llethrog, lletaid, lleddf, lleddy.
Slope, *s.* osgo, gosgo; llethr, llechwedd, cryfynydd, gofyny; epynt; gorwasered; llechbeirwydd; gogwydd, goledd; rhiw; ochr; cil.
Slope of a hill—ochr, llethr, neu lechwedd bryn; bron mynydd, bol mynydd.
Along the slope of the hill—ar hyd y gofynydd; ar hyd llethr *neu* lechwedd y bryn; ar hyd ochr y bryn; ar y fron.
A smooth slope—llyarth.
Slope, *v.* lledbeio, goleddfu, goleddu, lledfu, osgöi, gogwyddo; bod ar ŵyr neu osg; llechweddu, llethru; rhoi ar ei ogwydd.
Slopeness, *s.* lle ibeirwydd, llethrogrwydd, llechweddoldeb, gogwydd.
Slopewise, *ad.* ar osgo, ar ledbai, ar ogwydd, ar oledd, ar oleddf, yn lledbai, ar lechwedd, ar ŵyr.
Sloping, *a.* osgoawl, gosgoawl, lledbai, gwyr, agwyr, goleddf, llethrol, llechweddol.
Somewhat sloping—goledd, lled-osgoawl.
Sloppiness, *s.* (o *sloppy*) lleidiogrwydd, lledrwydd, sybyllogrwydd; golchionllydrwydd.
Sloppy, *a.* (o *slop*) golchionllyd, golchaidd; golchionog; lleidiog, lleidlyd, sybyllog, gwlyb, dyfrllyd; bawlyd, budr.
Slops, *s. pl.* golchion, golchionach: *sing.* golchan.
Slops, *s. pl.* llodrau morwyr; dillad morwyr; dillad parod.
Slopseller, *s.* gwerthwr dillad parod.
Slopshop, *s.* gwerthdy dillad parod.
Slosh, *s.*=*Slush.*
Sloshy, *a.*=*Slushy; Sludgy.*
Slot,† *v. a.* (*sluiten*) cau yn chwyrn.
Slot, *s.* (T.; Belgaeg, *sluyt*) bâr, bollt; cleddeu (ar *neu* mewn astell); mortais; rhwyg, gân; ceuedd, ceudod, cilfach.
Slot, *s.* (S. *slætinge*) ol troed danas, ol danas.
Slot, *s.* (Isl. *slodr*) ceudod, pant.
Sloth, *s.* (S. *slæwth*) dïogi, musgrelli, musgrelni, mewyd, mewydedd, mewydrwydd; segurdod, seguredd, seguryd; syrthni; llegeuaidd.
Sloth (in zoology)—y mewydyn, y diogen: *pl.* mewydion, dïogod.
Sloth,† *v. n.* dïogi, mewyduso; bod yn ddiog.
Slothful, *a.* dïog, musgrell, mewydus, mewydol, mewydaidd, dïoglyd, segurllyd, segurllegach, llegus, swrth, llyferthin, llesgaidd, llesgaidd, merydd.
Slothful ones—gorddïogion.
Slothfulness, *s.*=*Sloth.*
Slottery,† *a.* (Al. *schlotterig*) bawlyd, budr, brwnt, swga, swglyd; annhaclus, aflerw.
Slotting, *s.* morteisiad.
Slotting machine—peiriant morteisio.
Slouch, *s.* (cyttras i *lag, slug*) llibundod, llibrwydd; agwedd lipa; gostyngrwydd; llipryn, llibyn; llibinwr.
Slouch-eared—clustlipa; â chlustiau llipa iddo.
Slouch, *v.* llipäu, llipanu, lliprynu, llibino, llipryneiddio; myned yn llipa *neu* yn llibin; gwneuthur yn llibin *neu* yn llipa; crogi yn llipa.

A slouched hat—het lipa; het â'i hymyl yn llipa; het â'i hymyl yn crogi am y clustiau *neu* yr ysgwyddau; het lipanedig.
A slouched ear - clust lipa.

Slouching, *a.* llipa, llibin, lliprynaidd, llipaidd, llibinaidd; à fo *neu* y sydd yn crogi yn llipa.
A slouching hat—het lipa, het ymyl llipa, het lipa ei hymyl.

Slough, *s.* (S. *slog;* C. *yslwch*) merbwll, cors, siglen, yslwch, pydwern, lleidbwll; traęth byw; pwll budreddi.
Slough of despondency—cors anobaith.
Slough of a wild boar—ymdreiglfa, gwâl, *neu* orweddfa baedd gwyllt.

Slough, *s.* croen neidr, hen groen neidr, croen neidr wedi ei fwrw, esgroen; cig marw; budredd; crawn; craith; mabgorn.

Slough, *v. n.* ymwahanu oddi wrth y cnawd iach; ymadael, dyfod ymaith; gosbilio.

Sloughy, *a.* corsog, corslyd, lleidiog, lleidbyllog, lleidlyd, siglenog; llawn corsydd, &c.

Sloughy, *a.* budr, swla; crawnllyd; madreddog; llawn budreddi *neu* fadredd.

Sloven, *s.* (Is. *slof, slaffen*) swlyn, swgyn, llyfïyn, yslyfiyn, un swga, swgai, musgrellyn, llodryn o ddyn, budryn, budrogyn, yslebryn; dyn annyben, annhaclus, aflerw, anghywair, *neu* anghryno ei wisg.

Slovenliness, *s.* annhaclusrwydd, annybendod, aflerwch, anghrynodeb, annestledd; swglydrwydd.

Slovenly, *a.* annhaclus, annyben, aflerw, aflêr, anghryno, annestlus, diddestlus, annhrefnus; swga, (*f.* soga), swglyd, swla, swl, llyfïaidd, llyfïol, yslyfïaidd.
A slovenly girl—geneth soga.
Somewhat slovenly—goswga, gofudr, golyfïaidd.
After his slovenly manner—yn ei ffordd annigrif ef ei hun.

Slovenly, *ad.* yn annhaclus, &c.

Slovenry,† *s.* annhaclusrwydd, annybendod, aflerwch; swglydrwydd.

Slow, *a.* (S. *slaw;* D. *slöv*) araf, difrys, afrys, anesgud, anghyflym, anheinif, chwarian, chwarienus, chwarienaidd, hirdrig, disymmud, disyflyd; hwyrfrydig; hwyr, diweddar, anghynnar; hwyrdrwm; annyben; trwm, trymluog, trymhyrddig; dïog; diawch, dihawnt, dïeidiol; pwl; gohiriog, cyngydiol; pwyllog.
Slow to anger—hwyrfrydig i ddig, i ddigder, i ddigofaint, *neu* i lid; dïog i ddigofaint; hwyrlid.
Slow of heart—hwyrfrydig o galon.
Slow of foot—trwm ar ei droed; troedtrwm; hwyr-droed, araf-gam.
Slow of speech, } safndrwm, geneudrwm,
Slow in speech, } geirllaes; araf ei ymadrodd: *f.* safndrom.
Slow of tongue, } tafottrwm, trwm ei daf-
Of a slow tongue, } od.
Slow and gentle—hwyrwar.
Slow to go—dïog i gerdded; dïog i fyned; hwyrfrydig i fyned.
Slow to speak—dïog i lefaru; hwyrfrydig i lefaru.
Slow and languid—hwyrwan.
Slow fever—twymyn nychlyd, nych-gryd, nych-dwymyn.
Somewhat slow—go araf, lled araf, go hwyrdrwm, &c.
Slow bellies—boliau gorddïog.
To be slow—bod yn araf, &c.; oedi.
To grow slow—myned yn hwyrdrwm, &c.; dïogi, ymddïogi.
The vengeance of heaven is the slowest—hwyraf dïal dïal Duw.

Slow,† *s.* (S. *sliw*) gwyfyn.

Slow,† *v. a.* gohirio, oedi; arafu.

Slow, *v. n.* arafu, chwariena; myned yn arafach.

Slowback, *s.* dïogyn, seguryn.

Slowly, *ad.* yn araf, &c.
Great bodies move slowly — os mawr ys merydd; hwyr y try tarw yn y tres.
To go more slowly—arafu, chwariena; myned yn arafach *neu* yn chwarianach.
To travel slowly—godeithio; teithio yn araf, &c.

Slowness, *s.* arafwch, arafedd, afrysedd, difrysedd, difrysder, anesgudrwydd, anghyflymder, anghyflymdra, anghyflymedd, chwarianrwydd, disymmudedd, disyflydrwydd; hwyredd, hwyrder, diweddarwch; hwyrfrydigrwydd; dïogi, &c.
Slowness of speech—safndrymedd, geirllaesrwydd.

Slow-worm, } *s.* (*sloe* a *worm*) pryf y drain.
Sloe-worm, }

Slow-worm, *s.* (S. *s'aw-wyrm*) dallneidr, pwl dall, pwr dall.

Slub, *s.* rholen laesdro, rholen soga.

Slub, *v. a.* rholio yn llaes *neu* yn llaesdro; gwneuthur rholau soga.

Slubber, *s.* rholiedydd, rholiwr.

Slubber, *v. a.* gwneuthur peth yn fusgrell ac yn annhaclus; gwneuthur peth yn ysgafn ac yn fochynaidd; dwbio, plastro, ystaenio.
To slubber a thing over—gwneuthur peth yn llaw-ysgafn ac yn fochynaidd; myned dros beth yn llaw-ysgafn ac yn fochynaidd.

Slubberdegullion, *s.* (dychymygair) bawddyn budr, bawai brwnt.

Slubbing-billy, } *s.* peiriant rholio, peir-
Slubbing-machine, } iant rholio yn llaes, peiriant rholau soga.

Sludge, *s.* (Is. *slyk;* S. *slog*) llaca, llaid, plwca.

Sludger, *s.* offeryn i dyllu mewn sugndraeth.

Sludgy, *a.* lleidiog, lleidlyd, llaceilyd.

Sluds, *s. pl.* mwn hanner ei grasu.

Slue, *v. a.* troi ar ei echel *neu* ei werthyd; troi yn yr unman; troi.

Slug, *s.* (Is. *slak, slek*) malwen, malwoden, melwïoges; malwoden o ddyn, malwen o ddyn, dïogyn, dïogwas, segurwas; malwoden o long, llyffan o loug, llong hwyrdrom afrys.

Slug, *s.* (S. *sloca?* Is. *slok?* S. *slecg*) pelen anghron, pelen hirgron, llethbel.

Slug,† *v.* chwareu y dïogyn, segura, hafru; peri yn ddïog.

Slugabed,† *s.* (*slug* a *bed*) dïogyn, malwen o ddyn, gwalch y gwely, leuan garu cysgu.

Sluggard, *s.* (o *slug*) dïogyn, dyn dïog, segurwas, seguryn, segurddyn, dïogwas; malwen o ddyn, malwoden o ddyn; cysgadur, leuan garu cysgu, gwalch y gwely.
To play the sluggard—chwareu y dïogyn, &c.; segura.

Sluggard, *a.* dïog, segur, dïoglyd.

Sluggardize, *v. a.* gwneuthur yn ddïog, &c.

Sluggish, *a.* (o *slug*) dïog, dïoglyd, musgrell, mewydus, mewydaidd, segur, segurllyd; anesgud, anheinif, anfywiog, swrth; cysglyd;

llyferthin, llegus, llegach; llusgethain; llesg; marwaidd; araf; anhydwyth; arbwl.

Sluggishness, *s.* diogi, musgrellni, mewyd, syrthni, &c.

Sluggy,† *a* =*Sluggish*.

Slugs, *s. pl.* mwn hanner ei grasu.

Sluice, *s.* (Is. *sluis;* Al. *schleuse*) lliddor, llifddor, argae, dyfrddor.

Sluice, *v. a.* gollwng allan drwy liddor *neu* argae; gollwng cronfa; llifo *neu* ffrydio allan.

Sluicy, *a.* disgyn yn ffrydiau; hidl.

Slumber, *v.* (S. *slumeran;* Al. *schlummern*) hepian, hepio, dargysgu, hep-huno, huno, darhuno, gogysgu; rhoi i gysgu; syfrdanu.

To slumber over a business—dargysgu ar *neu* wrth beth *neu* orchwyl; hepian *neu* ddargysgu uwch ben peth *neu* orchwyl; gogysgu, dïogi, *neu* laesu wrth wneuthur peth; bod yn gysglyd wrth wneuthur peth.

Slumber, *s.* hepian, darhun, hun, hep-hun, dargwsg, hunell, cyntun, amrantun, ysgafn gwsg; gorphwys.

To fall into a slumber—syrthio *neu* fyned yn nargwsg, mewn dargwsg, *neu* mewn darhun; dargysgu, darhuno, hepian.

Slumberer, *s.* dargysgwr, hepianwr, &c.

Slumbering, *s.* dargysgiad, gogysgiad, hepiad, darhunad.

A slumbering old man—hen ddyn cysglyd; hen ddyn cysgadur; hen â fo byth a hefyd yn cysgu ar ei ddyrnau.

Slumberous, } *a.* cysglyd, dargysglyd, hepian-
Slumbery, } llyd, hepiol, hep-hunol, hunol, swrth; cysgol, cysgbair.

Slump, *s.* (Sw.) crynswth.

In the slump—yn y crynswth.

Slump, *v. a.* cymmeryd, rhoi, talu, *neu* wneuthur pethau yn y crynswth.

Slur, *v. a.* (Is. *slordig*) diwyno, llychwino, budreddu; anurddo, gwarthruddo, gwarthäu, meflu; myned yn ysgafn dros; ysgafn lithro dros; golithro dros; cuddio, celu; tywyllu; coegio, twyllo; peri i'r naill beth fyned dân rith *neu* enw peth arall; peri i'r naill beth fyned yn lle peth arall; cuddio y naill beth dân adain *neu* enw y llall.

To slur a note—myned yn ysgafn *neu* yn ysgafn-lyfn dros bwnc; golithro *neu* ysgafn lithro dros bwnc.

He slurred it over dexterously—aeth drosto yn ysgafn hyfedr.

Slur, *s.* gwarthnod, anair, anurddas, mefl, achlod, anghlod, gowarth, lledwarth, goachlod, anaf; llithren.

Slur (in music)—llithren=⁀.

Slurred, *a.* llithrenog; â llithren arno.

Slush, } *s.* llaca, llaid, plwca; eira tawdd,
Slosh, }

Slush, *v. a.* seimio, ireidio, blonegu; golchi yn arw.

Slushy, *a.* lleidiog, lleidlyd, llaceilyd, plwcaog.

Slut, *s.* (Is. *slet;* Al. *schlotterig*) budrog, budrogen, swgan, dwgan, swlen, llyfien, yslyfien, llaesen, bronten; benyw front, fudr, *neu* soga; hafnen, hafnai, hafrog.

An arrant slut, } soga sur ansyber.
A downright slut, }

Slutch, *s.* llaca, llaid, plwca.

Sluttery, *s.* swglydrwydd, budredd, brynti, bawlydrwydd, bawedi, budreddi, llyfleiddrwydd; annhaclusrwydd, annybendod, aflerwch; arferion swgan.

Sluttish, *a.* swglyd, swga, soga, swla, swl, budr, budrog, brwnt, bawlyd, llyfïaidd, yslyfiaidd, aflan, ffiaidd; hafraidd, hafrog; annhaclus, aflerw, anghryno, annyben, annestlus; ansyber.

Sluttishness, *s.* swglydrwydd, budredd, baweddi, brynti, bawlydrwydd, bawedi, llyfleiddrwydd; annhaclus, aflerwch, annybendod.

Sly, *a.* (Al. *schlau;* D. *slue*) cyfrwys, ystrywgar, ystrywus, ffel, celgar, llechwrus, llechwraidd, cadnoaidd, iselgraff, ffalst, ffur, ffetus, chwiredus; cipgar; dichellgar; hoccdus, twyllodrus; cudd, cel, caddiedig, dirgel.

A sly fellow—dyn llechwrus, hocedydd.

A sly old fellow—hen gadnaw; henddyn llechwrus iselgraff.

Sly-boots, *s.* dyn llechwrus, cyfrwys, ass ffalst.

Slyly, } *ad.* yn gyfrwys, yn ystrywgar, &c.
Slily, }

Slyness, } *s.* cyfrwysdra, cyfrwysder, cyfrwys-
Sliness, } edd, ffeldra, ffelder, ystrywgarwch, ffetusrwydd, &c.

Slype,† *s.* (Belgaeg, *slop?*) mynedfa neu agorfa rhwng dau fur.

Smack, *v.* (S. *smæccan;* Al. *schmecken*) gwefusglecian, pocian, pocio; rhoi pocyn *neu* bocan i; cusanu; clecian, ysgortio, crinellu; bod â blas, chwaeth, *neu* adflas arno.

To smack of, } bod â blas, chwaeth,
To have a smack of, } *neu* archwaeth rhywbeth arno.

To smack of a vice—bod wedi ei lygru gân wŷd; bod âg adflas *neu* archwaeth gwŷd arno.

To smack but little of—bod heb fawr flas peth arno; bod heb nemawr o flas peth arno.

To smack the lips, } gwefusglecian;
To smack with the lips, } clecian, crinellu, *neu* ysgortio y gwefusau; pocio.

To smack a whip—clecian, crinellu, *neu* ysgortio ffrewyll.

Well smacking—blasus; â blas, chwaeth, *neu* archwaeth da arno; da ei flas.

Ill smacking—â blas drwg arno; âg adflas, lledchwaeth, *neu* adchwaeth arno; anflasus.

Smack, *s.* poc, pocyn, pocan, poca; gwefusglec; clec; ysgort; cus; blas, chwaeth, archwaeth; adflas, adchwaeth, lledchwaeth; blesyn; crŷn flas at *neu* ar beth; crŷn wybodaeth, crŷn ddeall, *neu* grŷn gyfarwyddyd yn mheth; crŷn fedr *neu* gymmedr ar beth; ychydig.

The smack of the lips—gwefusglec; clec, ysgort, *neu* grinell y gwefusau *neu* y geneu.

The smack of a whip—clec, ysgort, *neu* grinell ffrewyll *neu* ffiangell.

A pretty smack - blas pert, chwaeth pert; blas *neu* chwaeth crŷn beraidd; crŷn flas; gwybodaeth *neu* ddeall pert yn mheth; crŷn wybodaeth, &c.

A smack of one's country-speech—lledisaith ei wlad.

To have but a little smack of learning—bod heb fawr ddysg; bod heb nemawr o ddysg; bod heb fawr wybodaeth mewn

celfyddyd; bod heb nemawr o wybodaeth mewn celfyddyd.
He has but a little smack of learning—ni wnaeth efe ond prin chwaethu *neu* brofi dysgeidiaeth; *neu* nid oes ganddo nemawr o ddysgeidiaeth.
An ill smack—blas drwg, aflias, adchwaeth.

Smack, *s.* (Is. *smakschip;* S. *smaca?*) llongig un hwylbren, llongan un wernen, chwimlong.

Smacker, *s.* cleciwr; chwaethwr; poc, pocyn; gwefusglec; ergyd adref.

Small, *a.* (S. *smæl, smal*) bach, bychan; mân; main; eiddil; disum, disumig; ychydig: -an, -yn, -en, -ig: *f.* bechan: *pl.* bychain.
Very small—bychanig, (*f.* bechanig), bach iawn, bychan iawn, tra bychan, &c.
A small number—ychydig; ychydig o nifer *neu* rifedi; bychodedd, rhynawd.
A small quantity—ychydig; syrnyn; bychodedd.
A small town—cordref, trefîan, llandref; pentref; tref fechan, &c.
A small stone—caregan; careg fach: *pl.* caregos, cerygos.
Small corn—yd mân, manyd.
Small talk—ymgom; siaradach, ymddyddan, clincwm, mân siarad.
Small debts—mân ddyledion, mân ddyled, manddyledion.
Small fish—manbysg, pysg mân.
Small wares—mân nwyddau, mannwyddau, mân bethau, manbethau, mân fasnach.
A dealer in small wares—mannwyddwr, masnachwr mannwyddau, masnachwr mân bethau, masnachwr pethau bychain.
Small tooth comb—crib fân, crib fanddaint, crib ddannedd mân.
A small time—ychydig amser, ennyd bychan, ennyd bach, ychydigyn (o amser).
To make small—gwneuthur *neu* beri yn fân; briwo *neu* dori yn fân; peri *neu* wneuthur yn ychydig; eiddilo; manhau, manu; malurio, briwo.
So small—cyn lleied, cân lleied, mòr fach, mòr fychan.
The smallest thing—y peth lleiaf.
The smallest thing imaginable—y dim lleiaf.
Of small account—salw, gwael, dibarch, sal; o fychan fri, o fychan barch, o fychan gymmeriad; dibris.
It is but a small matter—nid yw hyny ond peth bach *neu* fychan; nid yw hyny ond bychan-beth.
Small characters—llythyrenau bychain, llythyrenau mân, mân lythyrenau.
Small faults—beiau bychain, mân feiau.
He put them in *or* into no small fear—efe a barodd iddynt ofn nid bychan; parodd iddynt fawr ofn; parodd iddynt ddirfawr ofn.
Still small voice—llais dystaw main.
They are of small price—iselbris ydynt.
He needed but small invitation—ni bu raid iddo ond wrth hanner gwahoddiad.
He has but a small rate for teaching—nid oes iddo fawr wobr am ei ddysg; nid oes iddo ond isel dâl am ei ddysg; nid oes iddo ond pris bychan am ei ddysg.
Where appears small hope—lle na weler fawr obaith.
A small round thing, as small as the hoar frost—tipynau crynion, cyn faned a'r llwydrew (*Exc.* xvi. 14).

Small, *s.* main, meinedd; rhan fain peth.
The small of the leg—main y goes, meinedd y goes; mein-goes.
The small of the back—main y cefn, meinedd y cefn; mein-gefn, y main gefn.
Small of an anchor—main angor, meinedd angor.

Small, *ad.* yn fach, yn fychan, &c.

Small,† *v. a.* gwneuthur yn fach *neu* yn llai, &c.; manhau, manu; lleihau.

Smallage, *s.* helogan, perllys y morfa, perllys yr hêl, mers.

Small-arms, *s. pl.* manarfau, mân arfau, arfau mân.

Small-beer, *s.* dîod fain, chwiblen.

Small-clothes, *s. pl.* llodrau, clos.

Small-coal, *s.* manlo, glo mân, mân olosg.

Small-craft, *s.* mân longau, mân lestri môr, llongeusch: *sing.* llongan.

Small-debt Court, *s.* manddyledlys, llys manddyled, llys manddyledion, llys mân ddyledion: *pl.* llysoedd manddyled, llysoedd manddyledion.

Smallish, *a.* go fychan, lled fychan, go fach, lled fach, cryn fychan, trân fychan.

Smallness, *s.* bychander, bychanrwydd, bychandra, bychandod; meinder, meinedd; eiddilwch.

Small-pox, *s.* y frech wèn, y frech folog.

Smally, *ad.* yn fach, yn fychan, &c.

Smalt, *s.* (Is. *smelten;* Al. *schmelz*) llychlas, glaslwch.

Smaltine, *s.* cobalt llwydwyn.

Smaragd, Smaragdus, *s.* (Gr. *smaragdos*) smaragdus, gwerddem.

Smaragdine, *a.* gwerddemaidd; perthynol i werddem *neu* smaragdus.

Smaragdite, *s.* gwerddemfaen, gwahanlawdd gwyrdd.

Smart, *s.* (Is. *smert;* Al. *schmerz*) gwŷn, dolur, gloes, poen, aeth, brwyn, brath, gwyneg, brathiad, brwyniad, poen lem, gwaew, gwew.

Smart, *v. n.* (S. *smeortan;* Al. *schmertzen*) gwynio, gwynegu, saethu (gân wŷn), dolurio, brathu, brwynio, pigo, gloesygu, gloesi; bod â gwŷn ynddo, &c.; llosgi.
He that is surety for a stranger shall smart for it—blinder mawr a gaiff y neb a fachnïo dros ddyeithr-ddyn (*Diar.* xi. 15).

Smart, *a.* llym, tostlym, llymdost, hylym, tost; pigol, brathol, brwyniol, aethol; bywiog, heinif, heini, esgud, esgeiddig, esgaidd, sionc, gweisgi, gwaisg, gwaint; ynïol; dillyn, tlws, (*f.* tlos), pert, pefr, pinc, syw, del, perc, percus, gwymp, taclus, hoew, gwych; cymhen, ffraeth, ffraethlym, arain, prestl, arab; parod; ffel; amwys.
A smart answer, A smart reply, } ateb ffraethlym, ateb parod, ateb ffraeth, ateb ffraeth llym.
A smart repartee—ateb ffraethlym, ateb digriflym.
A smart female—dillynes, perten, pefren, corcen, pincen; benyw ddillyn, &c.
A smart fire—tân bywiog, tân bywiol, tân bywus.

A smart shower—cawod lem, drom, *neu* chwern.
A smart blow—ergyd llym, cras, tost, *neu* galed.
A smart pleader—dadleuwr ffraeth, llym, *neu* ffraethlym.
Smart pain—gwŷn tost; dolur llym, tost, *neu* dostlym; gwaew llym, tost, *neu* dostlym; poen dost.
A smart gale—awel chwai, chwern, fywiog, fywus, hwylus, *neu* hoenus.
He is a smart man—gwr bywiog, heinif, sionc, *neu* bybyr ydyw ef: gwr dillyn, pert, *neu* daclus yw efe.
Smart was the attack—llym oedd y rhuthr; blawdd oedd y rhuthr.
They had a smart engagement—bu ymladd llym *neu* daerddrud rhyngddynt.
No man was more smart in the pursuit than he—nid oedd neb lymach, gyflymach, wresocach, *neu* danbeidiach yn yr ymlid nag ef.

Smart,† *s.* pertyn, pefryn, gwas pert.

Smarten,† *v. a.* gwneuthur yn llym, &c.; pefru, pincio.

Smartle,† *v. n.* ymdreulio.

Smartly, *ad.* yn llym, yn fywiog, &c.

Smartness, *s.* llymder, llymdra, llymedd, llymdoster; bywiogrwydd; dillynder, dillynedd, pertrwydd, pefrineb, pertedd, pincrwydd, delder, dillynni; sywdeb; cyflymder; ffraethder, ffraethedd, &c.
Smartness of pain—llymedd, llymder, tostrwydd, *neu* dostlymder poen.
Smartness of wit—llymedd, llymder, cyflymder, *neu* gyflymdra deall *neu* synwyr; ffraethlymder, arabedd.

Smart-weed, *s.* tinboeth, elinog goch.

Smash, *v. a.* (cyttras, hwyrach, i *mash*) chwilfriwo; tori yn chwilfriw, yn deilchion, yn gyrbibion, yn yfflon, yn ddrefion, yn gandryll, *neu* yn uswydd; talchu.

Smash, } *s.* chwilfriwiad, talchiad; toriad
Smashing, } yn chwilfriw, &c.; talch.

Smasher, *s.* chwilfriwiwr, talchwr, talchydd; rhoddwr arian drwg ar gerdded.

Smashing, *s.* rhoddiad arian drwg ar gerdded; taeniad arian drwg.

Smatch, *s.* (llygriad o *smack*) blas, chwaeth; adflas, adchwaeth, lledchwaeth: math ar aderyn.

Smatter, *v. n.* (D. *smatter?*) siarad, ymadroddi, ymadrodd, *neu* chwedleua yn nghylch peth nas medro un oddi wrtho; siarad, chwedleua, *neu* ymadrodd yn nghylch peth nas byddo un yn hyfedr arno; siarad *neu* chwedleua yn arwynebol; bod gàn un grŷn fias ar *neu* at beth; bod gàn un grŷn wybodaeth, grŷn ddeall, *neu* grŷn gyfarwyddyd yn mheth; bod gàn un grŷn fedr *neu* gymmedr ar beth; bod ond hanner gwybod peth; bod gàn un grap ar beth; bod yn eilun ysgoläig; bod yn eilun o ysgoläig; bod yn grŷn ysgoläig; bod yn hanner ysgoläig; bod gàn un wybodaeth arwynebol o beth.

Smatter, *s.* goddysg, lled-ddysg, hanner dysg, hanner gwybodaeth; crap ar ryw wybodaeth *neu* gelfyddyd.

Smatterer, *s.* un goddysgedig; gwybedyddyn, gowybodyn, lledwybodyn, gowybyddwr; crachathraw, coegathraw, crach-ysgolor, crach-ysgoläig, coegwybedydd; eilun o ysgoläig, &c.; un na fedd ond gwybodaeth arwynebol o beth.
A smatterer in learning—eilun ysgoläig, eilun o ysgoläig, goathraw, crachathraw, coegathraw.
A smatterer in grammar—coeg ramadegwr, coeg ramadegydd, coeg ieithadurwr, crach ramadegwr, gramadegyddyn.
A smatterer in poetry—eilun bardd, eilun o fardd, crachfardd, gofardd, llawrfardd, oferfardd, coeg fardd, pastynfardd.
A smatterer in physic—crachfeddyg, coegfeddyg, eilun meddyg, eilun o feddyg.
A smatterer in philosophy—athronyddyn, eilun athronydd, eilun o athronydd, crach athronydd.

Smattering, *s.*=*Smatter*, *s.*

Smear, *v. a.* (S. *smerian*, *smirian*) dwbio; diwyno, llychwino; plastro; edlynu; taenu ar hyd; iro; iro *neu* ireidio drosto.

Smear, *s.* iraid, enaint, eli; dwb; plastr; dwbiad; edlyniad.

Smeary, *a.* ireidiol, edlynol; llychwinol; glynol, glyd.

Smeath, *s.* moraderyn.

Smectite, *s.* (Gr. *smêctis*) cleibridd, cleidud.

Smeeth,† *v. a.* mygu, ysmygu.

Smegmatic, *a.* (Gr. *smêgma*) sebonllyd, sebonaidd; glanhaol.

Smell, *v.* (anhysbys: o'r Is. *smoel*, yn nhŷb *Skinner*) arogli, sawrio, sawyro, safwyro, gwyntio, arwyntio, rhogleuo, rhogli, ogli, oglio, ogleuo; bod âg arogl *neu* arwynt arno; bod â sawr, sawyr, safwyr, *neu* wynt arno; rhoi *neu* fwrw arwynt *neu* arogl; clywed gwynt, clywed arogl; ffroeni, trwyno; rhoi ei dwyn wrth beth; drewi.
To smell of something—bod âg arogl, archwa, *neu* arwynt rhyw beth arno *neu* ganddo; bod â sawr, sawyr, safwyr, gwynt, *neu* arogl rhyw beth arno *neu* ganddo; arogli, sawrio, sawyro, safwyro, gwyntio, *neu* arwyntio fel rhyw beth *neu* yn debyg i ryw beth.
To smell of the lamp—bod â gwynt y ganwyll ganddo *neu* arno.
To smell of wine—bod â gwynt gwin ganddo *neu* arno.
To smell rank—bod â gwynt cryf ganddo.
To smell out—arogli, adrywweddu, edrywweddu, arwyntio; cael edrywedd, arwynt, sawyr, *neu* gyfod; deall, gwybod.
To smell a rat—drygdybio, drwg dybio; arogli o hirbell, gwyntio allan, cael allan y cynllwyn, deall y ddyfais; deall fod rhyw beth yn y gwynt.

Smell, *s.* arogl, arogledd, arwynt, gwynt, sawyr, sawr, safwyr, archwa, rhogl, ogl, edryw, edrywedd, edrywant, edrywan.
Sweet smell—perarogl, persawr, perwynt, arogl per, &c.
Ill smell—gwynt brwnt, cryf, trwm, *neu* gas; drygsawr, drewsawr.

Smeller, *s.* arogliwr, aroglydd, arogliedydd, arwyntiwr, gwyntiwr, &c.; trwyn.

Smellfeast, *s.* bolerwr, bolerni; Iesuan lygad y bwyd, Siôn lygad y bwyd.

Smelling, *s.* aroglîad, arwyntiad, gwyntiad.
The sense of smelling—yr aroglîad, yr arogl, yr edryw.

Smelt, *s.* (S.) brwyniad, (*pl.* brwyniaid)=math o frithyll môr.

Smelt, *v. a.* (Is. *smelten;* Sw. *smälta*) toddi; toddi mwn, toddi mwyn.
Smelter, *s.* toddwr, toddydd, toddiedydd, toddwr mwn.
Smeltery, *s.* toddfa, toddfa mwn, todd-dy mwyn.
Smelting, *s.* toddiad, toddiant, toddedigaeth; toddi.
Smerk, *v.*=*Smirk.*
Smerk, *s.*=*Smirk.*
Smew, *s.* y lleian wèn=aderyn dwfr.
Smicker, *v. n.* (Sw. *smickra;* D. *smigrer*) cilwenu; edrych ar ei gilwen; edrych yn nwyfus *neu* yn drythyll.
Smickerer, *s.* cilwenwr; edrychwr *neu* edrychydd ar ei gilwen; edrychydd nwyfus.
Smicket,† *s.* (bychanig o *smock*) crys benyw, hefys.
Smift, *s.* gogymmon, dylwyfyn, magdan.
Smight,† *v.*=*Smite.*
Smile, *v.* (Sw. *smila;* D. *smiler*) gwenu, gwneuthur gwên, dywenu; edrych ar ei wên; lloni ei lygad; glaschwerthin.
To smile at one, } gwenu ar un;
To smile upon one, } gwneuthur gwên ar un.
To smile slyly—cilwenu.
Apt to smile—hywen.
Smile, *s.* gwên; arwen, darwen, dywen.
To wear a smile—arwenu, darwenu; bod â gwên ar ei rudd *neu* ei wyneb; gwisgo gwên.
To force a smile — gowenu, glaswenu; gwneuthur gwên ddiffas; coegio gwenu.
Half a smile—gowen, lledwen, glas wên, glaswen, banner gwên.
Flattering smile—cyfarwen.
A scornful smile — gwatwarwen, gwên watwarllyd, gwên ddïystyrllyd, gwên wawdlyd.
Smileful, *a.* gwenog, gwenol, arwenol, llawn gwenau.
Smileless, *a.* diwen, heb wên; heb wên ar ei wyneb.
Smiler, *s.* gwenwr; un â weno.
Smiling, *p.* yn gwenu, gàn wenu, &c.; gwenol, arwenol, darwenol, dywenol.
Smilingly, *ad.* ar ei wên; ar ei wên chwerthin; dàn wenu.
Smilingness, *s.* gwenoldeb, gwenolrwydd.
Smilt,† *v. a.*=*Smelt.*
Smirch, *v. a.* (o *murk, murky*) cymylu, tywyllu, caddugo; llychwino, budrhau.
Smirk, } *v. n.* (S. *smercian*) cilwenu, glaswenu;
Smerk, } edrych ar ei wên; edrych ar ei wên chwerthin; glaschwerthin; gwenu; llygadloni; edrych yn llygadlon.
She kept smirking upon him—hi a barhaodd yn cilwenu *neu* yn glaschwerthin arno; parhaodd yn lloni ei llygaid arno.
Smirk, } *s.* cilwen, glaswen, lledwen, gowen,
Smerk, } arwen.
Smirk, } † *a.* dillyn, destlus, pert, pinc, pefr,
Smerky, } del, nais, gwych.
Smite, *v.* (S. *smîtan;* Is. *smyten*) taraw, taro; curo, pwyo, dulio; ergydio; dryllio; archolli; lladd, dieneidio.
To smite with a scab—clafru (*Esa.* iii. 17); taro â chlafr.
To be smitten with love—cael ergyd *neu* glwyf gàn gariad; cael ei glwyfo *neu* ei daro gàn gariad.
To be smitten with a disease—cael ei daro â chlefyd *neu* glwyf.
Smite, *s.* ergyd.
Smiter, *s.* tarawydd, tarăwr, tarawiedydd; curwr.
Smith, *s.* (S.; Is. *smit*) gof, gofant, gofan: *pl.* gofaid, gofaint, gofain.
Smith's shop=*Smithy.*
Smith's trade—gofaniaeth, crefft gof.
Smith,† *v. a.* morthwylio; llunio.
Smithcraft, *s.* gofaniaeth, crefft gof.
Smithery, *s.* gefail, gefail gof, gofail, gweithdy gof, gweithfa gof; gwaith gof, gofwaith, gofanwaith.
Smithing, *s.* morthwyliad; gwneuthuriad gwaith gof.
Smith's-work, *s.* gwaith gof, gofwaith.
Smithy, *s.* (S. *smiththa*) gefail, gefail gof, gofail, gweithfa gof, gweithdy gof.
Smitt, *s.* nod defaid, cleifwn i nodi defaid.
Smock, *s.* (S. *smoc*) hefys, crys benyw.
Smock (in composition)—benyw.
Smock-treason—bradwriaeth benyw.
Lady's smock, } hydyf, hydwf.
Ladies' smock, }
Hairy lady's smock—hydyf blewog, berwr y maesydd.
Bitter lady's smock—berwy chwerw, berwr chwerw, berw chwerw.
Meadow lady's smock — hydyf y waen, blodau y gog, blodeuyn y gog, blodyn y gwcw.
Smockfaced, *a.* wyneblyfn; rhydeg *neu* ryflyfn ei wyneb; â gwyneb rhydeg *neu* rylyfn iddo; gwyneblwyd, gweplwyd, piglwyd; â gwyneb merch iddo; merchedaidd.
Smockfrock, *s.* ceitlen, uchaflen.
Smockless, *a.* digrys, dihefys.
Smokable, *a.* mygadwy; chwiffiadwy.
Smoke, *s.* (S. *smoca;* Al. *schmauch*) mwg; ysmwcach.
A little smoke—ysmwcan, ysmwcach.
A puff *or* cloud of smoke—mwgan, ysmwcach, ysmwcan.
To emit smoke—mygu; taflu *neu* fwrw mwg; taflu *neu* fwrw allan fwg.
No smoke without some fire—ni bydd mwg oni bo tân; ni bydd mwg heb beth tân; lle bo tân y bydd mwg; lle bo mwg y bydd tân.
Smoke, *v.* mygu; ysmygu; ysmwca, ysmwcio; taflu mwg, bwrw mwg, taflu allan fwg, bwrw allan fwg; chwiffio; tryfygu; mwgsychu; sychu yn y mwg; rhoi mwg i beth; rhoi peth yn y mwg; edryweddu, adryweddu, arogli; llettybio; cael ei gospi.
The chimney smokes—mae yr aelwyd *neu* y sawell yn mygu; mae yr aelwyd *neu* y sawell yn taflu mwg; y mae y sawell yn pallu tynu mwg.
To smoke tobacco—mygu ffwgws, mygu myglys, chwiffio ffwgws, chwiffio myglys, ysmygu ffwgws.
To smoke (tobacco, &c.)—mygu, ysmygu, chwiffio.
To smoke through—tryfygu.
To smoke one (for a fault)—ffusto un nes bo y mwg *neu* y tarth yn codi o hono; tynu drwy y mwg; cospi yn dost *neu* yn drwm.
Smoke, *v. n.* (Gr. *smôchô*) chwerthin am ben un o fiaen ei wyneb *neu* wrth ei drwyn.

Smoke-board, *s.* asgell fwg.
Smokedried, *a.* mwgsych.
Smokedry, *v. a.* mwgsychu; sychu yn y mwg; rhoi i sychu yn y mwg.
Smokeless, *a.* difwg.
Smoker, *s.* mygwr, mygydd, mygiedydd, ysmygwr, chwiffiwr, chwiffiedydd; lloesgwr, lloesgydd, *neu* losgiedydd mygiys; mwgsychwr.
Smokiness, *s.* myglydrwydd.
Smoking, *s.* mygiad, ysmygiad, chwiffiad; yr arfer o fygu, &c.
Smoky, *a.* myglyd.
A smoky house—ty myglyd; ty llawn mwg; ty du gân fwg; ty wedi duo gân fwg.
A smoky chimney—sawell fyglyd; sawell na thyn y mwg.
Smooth, *a.* (S. *smoeth*) llyfn, llathraidd, llathraid, cabol, llathr; gwastad; rhwydd, rhugl, rhedegog, ar redeg; mwyn; teg; blydd, moeth, mwyth, esmwyth; miwail, llaidd; llimp, ewiar, ialus.
Smooth tongue—tafod llyfn, tafod teg.
Having a smooth tongue—tafodlyfn; llyfn ei dafod; meldafod.
Smooth words—geiriau mwynion, geiriau llyfnion.
Smooth stones — cabolfeini, cabolfain, meini llyfnion, ceryg llyfnion: *sing.* cabolfaen, maen llyfn, careg lefn.
Smooth things — pethau teg; gweniaith (*Esa.* xxx. 10).
Smooth without hair—moel.
Smoother than oil—llyfnach nag olew.
Smoother than butter — llyfnach nag ymenyn.
To become smooth—ymlyfnhau; dïerwino; ymwastatäu; myned yn llyfn *neu* yn wastad.
To make smooth—llyfnhau, llyfnu; gwastatäu.
Smooth, *s.* peth llyfn; llyfnder, llyfndra; rhan lefn (o beth).
The smooth of his neck—llyfndra ei wddf (*Gen.* xxvii. 16).
Smooth, *v. a.* llyfnhau, llyfnu; gwastatäu, gwastatu; caboli, llathru, rhathu; gorllyfnu, sidanu, gwenieitho; rhwyddhau; esmwythäu, esmwytho, llonyddu.
To smooth the forehead — digrychu *neu* ddadgrychu y talcen; llyfnhau y talcen.
To smooth the way — llyfnhau, parotöi, hyrwyddo, cyweirio, gwastatäu, palmantu, *neu* arloesi y ffordd.
Smooth-chinned, *a.* llyfn ei en; difarf.
Smooth-elm, *s.* llwyfen lefn, llwyfen lyfnddail, llwyfen â dail llyfnion.
Smoothen, *v. a.* llyfnhau, llathru, caboli.
Smoother, *s.* llyfnhäwr, llyfnwr, llyfniedydd, llyfnhëydd; gwastatäwr; cabolwr, cabolydd.
Smooth-faced, *a.* wyneblyfn, gweplyfn; llyfn ei wyneb.
Smoothing-iron, *s.* haiarn llyfnu, haiarn caboli, cabolfael.
Smoothly, *ad.* yn llyfn, &c.; yn esmwyth; gân bwyll.
Smoothness, *s.* llyfnder, llyfnedd, llyfndra; gwastadrwydd; caboledd; mwynder, tiriondeb, &c.; llarwch.
Smoothness of behaviour — mwynder, mwyneidd-dra, tiriondeb, hynawsedd, *neu* lyfnder moes.
Smooth-tongued, *a.* tafodlyfn; llyfn ei dafod, teg ei dafod; â thafod teg, llyfn, neu sidan iddo.
Smother, *v.* (cyttras, hwyrach, i'r Gw. *smid*, a'r S. *methgian*) mygu, mogi; tagu, ystagu; llethu; cywarsengu, gwasgu; cuddio, celu, argelu; dystewi.
Smother, *s.* tarth tawchlyd, tawch, mygdarth, mwg, yamwcan, ysmwcaoh, ysmwg; †llethiad.
Smotheriness, *s.* taglydrwydd, moglydrwydd.
Smothering, *s.* mygiad, mogiad, tagiad.
Smothery, *a.* myglyd, moglyd, taglyd.
Smouch,† *v. a.* cyfarch, anerch.
Smoulder, *v. n.* (S. *smoran*) llosgi yn fud, mudlosgi, saglosgi, taglosgi.
Smouldering, } *a.* â fo *neu* y sydd yn llosgi yn
Smouldry, } fud; mudlosg, saglosg, mudlosgol, saglosgol.
Smouldering fire—tân mud.
Smudge, *v. a.* (o *smut*) pardduo; llychwino; duo â mwg.
Smug,† *a.* (D. *smuk;* Al. *smuck*) dillyn, tlws, pert, pinc, hoew, twtnais, twt, gwych, perc, percus, taclus, cymhen.
Smug,† *v. a.* pincio, twtneisio, tlysu, addurno; gwisgo yn binc, &c.
To smug one's self†—ymbincio, &c.
Smuggle, *v. a.* (Sw. *smyga;* Is. *smokkva*) rhedeg pethau annholledig, &c.; nwyddredeg, nwyddredu; troeglwyddo rhednwyddau; masnachu mewn rhednwyddau; pryna a gwerthu nwyddau yn annholledig.
Smuggled goods—rhednwyddau, nwyddau rhedeg, nwyddau annholledig.
Smuggler, *s.* rhednwyddwr, nwyddredwr, nwyddredydd; nwyddredlong, llong rhednwyddau.
Smuggling, *s.* nwyddrediaeth, nwyddredyddiaeth, nwyddredwriaeth, rhednwyddwriaeth; nwyddredeg.
Smugness,† *s.* dillynder, tlysni, pertrwydd, pincrwydd.
Smuly,† *a.* mwyn wylaidd.
Smut, *s.* (D. *smuds;* S. *smitta*) pardd, huddygl; düwch, duedd; llosg; rhwd; gwenith penddu; serthedd, serthiaith, bryntiaith, croesanaeth.
Smut, *v.* pardduo; diwyno, llychwino, duo; llosgi; casglu parddu; troi yn barddu.
Smutch, *v. a.* (o *smoks*) duo â mwg, pardd, huddugl, *neu* lo. [edig.
Smutched, *a.* pardduog, huddyglyd, llychwin-
Smuttiness, *s.* huddyglydrwydd, parddu-rwydd, pardduedd; llosgedd; serthedd, serthyd; serthiaith, bryntiaith.
Smutty, *a.* pardduog, huddyglyd, parddmaidd, parddulyd; du; llychwin; llosgedig; â llosg *neu* ddarball arno; serth, serthus, budr, aflan, brwnt, anweddus.
A smutty ear of corn—twysen losg; twysen â llosg, rhwd, *neu* ddarball arni.
Smutty language—serthiaith, bryntiaith; iaith serthus, &c.
Smyrnium, *s.* (Gr. *smurna*) dulys.
Snack, *s.* (o *snatch*, ond odid) rhan, cyfran, rhandwy; byrbryd ysgafn brysiog.
To go snacks with one—bod yn gyfranog gydag un; bod yn hanner un; myned yn rhanog âg un; myned yn gyfranog âg un.
To put in for a snack—sefyll am ran; ymddelw *neu* ymhoni o ran.

Snacket, } *s.* cloigyn ffenestr, cloig ffenestr;
Snecket, } clicied ffenestr.
Snaffle, *s.* (Is. *sneb, snavel;* Al., D., a Sw. *snabel*) genfa, gwenfa, ffroenfa.
Snaffle, *v. a.* ffrwyno.
A snaffled bridle—ffrwyn enfaog; ffrwyn â genfa iddi.
Snag, *s.* (cyttras i *knag*) cwgn; cangen gygnog, cainc gygnog, cygnen; colfen, brigyn; bonyn caine, cangen doc; dant, dant ysgythrog; boncyff pren dros ei ben mewn afon (yn America).
Snag, *v. a.* rhedeg yn erbyn boncyff pren suddedig (yn afonydd America).
Snagged, } *a.* cygnog, llawn cygnau; llawn
Snaggy, } ceincian cygnog; llawn o fyr gangau cygnog; osglog.
Snail, *s.* (S. *snægel*) malwen, malwoden, melwloges, malw, melyen, malaen: *pl.* malwod.
The track of a snail—llys malwen, llŷys malwen, llws malwoden, ol malwoden.
Snail-clover, } *s.* maill y falwen, meillion y
Snail-trefoil, } falwen.
Snail-flower, *s.* blodau y falwen.
Snail-like, *a.* fel malwen, fel malwoden, fel y falwen.
Snail-like, *ad.* fel malwen, &c.
Snake, *s.* (S. *snaca;* Al. *schnake*) neidr, nadr; sarff: *pl.* nadroedd, nadredd.
Water-snake — neidr y dwr, dyfr-neidr, llyfrothen.
Rattle-snake—neidr gynffondrwst.
The common snake—neidr fraith, neidr y tomenydd, neidr y defaid.
A young snake—cyw neidr, neidr ieuanc.
Snake, *v. a.* nydd-droi llinyn o amgylch rhaff.
Snake-root, *s.* gwraidd y neidr, esgorllys America.
Snake's-head, *s.* pen neidr; bàr âg un pen iddo yn rhydd.
Snake's Head, *s.* britheg=planigyn.
Snakestone, *s.* glain neidr, glain nadroedd, maen glain, maen magl.
Snakeweed, *s.* llysiau y neidr, neidrllys.
Snakewood, *s.* gwiberwydd.
Snakish, } *a.* neidraidd, nadraidd; tebyg i
Snakeish, } neidr.
Snaky, *a.* neidraidd, nadraidd; sarffaidd; nadreddog; dolenog; cyfrwys, ystrywgar, ystrywus, twyllodrus, llechwrus.
Snap, *v.* (Is. *snappen*) clecian, crinellu, gwringellu, gwringain; tori yn fyr; tori ar unwaith; tori yn frau; byr-dori; clec dori; tori; grillian *neu* glecian fel peth yn byrdori; cipgnoi, cnoi, brathu; geirfrathu, senu; cecru.
To snap the fingers—clecian, crinellu, *neu* wringellu y bysedd.
To snap asunder, } tori yn ddau; neidio
To snap in two, } yn ddau; tasgu yn ddau.
To snap at—rhoi cais ar gnoi; ceisio cnoi, cynnyg cnoi.
To snap one—senu, cnoi, cipgnoi, brathu, *neu* bigo un; rhoi sen, cno, cipgno, brath, *neu* lymair i un.
To snap up—dàl ar gip; cip-ddala; dàl.
To snap one up, } senu, cnoi, cip-
To snap one up short, } gnoi, dwrdio, ysdwrdio, *neu* ddondio un.
Snap, *s.* clec, crinell, gwring, byrdor, byr-doriad, clec-dor, clec-doriad, grill; clec byr-doriad, grill byr-doriad; gwringelliad, crinelliad, cleciad; tamaid, tameidyn, tamaid cip, cipdamaid, tam, cipgno; clicied, clip; dyn gwancus, gwencyn; caff, cip.
He leaves not a snap in the dish—ni edy damaid rhag ei regu.
He gave her a snap—hi a gas ganddo gipgno; hi a gafodd ganddo sen.
Snap of the fingers, } crinelliad, cleciad,
Snap with the fingers, } clec, *neu* wringelliad y bysedd.
Snapdragon, *s.* (*snap* a *dragon*) trwyn y llo, trwyn llo.
Ivy-leaved snapdragon—trwyn y llo eiddewddail.
Great snapdragon—trwyn y llo mwyaf, safn y llew.
Small snapdragon, } trwyn y llo bychan,
Lesser snapdragon, } trwyn y llo lleiaf.
Snaphance, *s.* math o ddryll, clip-wn.
Snapper, *s.* cleciwr; cipgnöwr, brathwr, cecryn, un cipgar.
Snappish, *a.* brathlyd; hygno, hyfrath; parod *neu* chwannog i gnoi, i gipgnoi, *neu* i frathu; danneddog; â fo â'i ddant *neu* â'i gip ar un; cipgar; pigog, pigoglym; llymeiriog; sor, sorllyd, sarig; cecrus, croes; edliwgar, sengar; corgiaidd, costog, costogaidd.
Snappishness, *s.* brathlydrwydd; cipgarweh; sorllydrwydd; pigogrwydd; sengarweh; [cecri.
Snapsack, *s.*=*Knapsack.*
Snare,† *v. n.*=*Snarl.*
Snare, *s.* (D. *snare, snore*) magl, croglath, telm, yslepan, annel, carfagl, tagfagl, hoenyn, hwynyn, byddagl, byddag, bachell, bagell; rhwyd; rhagodfa; bradbwll.
To go into the snare—ymroddi i'r fagl; myned i'r fagl; dwyn ei hun i'r fagl.
Snare, *v. a.* maglu, rhwydo, byddaglu, byddagu, bachellu, bagellu, carfaglu, telmu.
Snarer, *s.* maglwr, rhwydwr, bachellwr.
Snarl, *v. n.* (Al. *schnarren*) chwyrnu, dysgyrnu, ysgyrnygu, swrnach; gremial, grymial, rhemial, grwytho, grwgnach.
To snarl at—chwyrnu ar, dysgyrnu ar; grwgnach yn erbyn.
Snarl,† *v. a.* dyrysu; cylymu; methlu.
Snarl,† *s.* dyryswch, dyrysni, cinwgl.
Snarling, *s.* chwyrnad, &c.; swrnach, ysgyrnwg, swri; grem; dull o weithio llestri bychain oddi mewn.
Snarling, *p.* yn chwyrnu, &c.; chwyrnllyd, chwyrnog.
A snarling cur—corgi chwyrnllyd.
A snarling fellow—dyn gwrthgas, anynad, anniddig, *neu* anhyfodd; monyn, sarigyn, swr, *neu* sorllyd.
Snary, *a.* (o *snare*) maglog, maglawl, rhwydol; bachellgar, dichellgar, dichellus, cyfrwys.
Snast,† *s.* (Al. *schnautze*) tocion pen canwyll.
Snatch, *v.* (Is. *snakken*) cipio, ysgipio, cipgeisio, crapio, caffio, ysgaffio, haffio, dargipio, dygibo; ysglyfio, ysgylfu, ysgyflu, rheibio; ysgylffo; ciprysu, ymgiprys, ymgipio.
To snatch at—ymgipio *neu* ymgiprys am beth; ceisio crap, craff, *neu* gip ar beth.
To snatch away—cipio ymaith, ysgipio ymaith; cipio, ysgipio, &c.
Snatch, *s.* cip, crap, ysgip, caff; ysgwfl, ysgwlff, cwlff, tamaid cip, tamaid, tameidyn; siâs, chwyl, chwiw; dydach.

A snatch and away—tamaid ac ymaith; tamaid ar gip.
By fits and snatches—ar bangau a rhuthrau; ar chwiwiau a rhuthrau.

Snatch-block, *s.* cip gyff.

Snatcher, *s.* cipiwr, cipydd, cipiedydd, cipiad, ysgipiwr, crapiwr, haffiwr, caffiwr, cipryswr, ciprysydd.

Snatchingly, *ad.* dàn gipio, gàn gipio, &c.; ar gip.

Snath,† *s.* (S. *snæd*) coes pladyr, troed pladyr.

Snathe,† *v. a.* (S. *snidan*) tocio, ysgythru.

Snattock,† *s.* (o *snathe*) ysglodyn; tafell.

Snead,† *s.* (S. *snæd*) coes *neu* droed pladyr; rhwymyn, llinyn.

Sneak, *v. n.* (S. *snican*) ymlusgo yn lladradaidd, yn llechwrus, *neu* yn guddiadan; myned *neu* ddyfod dàn grymu *neu* ostwng ei wàr; myned *neu* ddyfod dàn grogi ei ben; godechu, dydach, dydechu, llechian, cudd-ymlusgo; myned yn ei gwrwm; truthio.
To sneak away—tynu, ymlithro, *neu* fyned ymaith yn lladradaidd, yn llechwraidd, *neu* yn guddiadan.

Sneak,† *v. a.* cuddio, arguddio.

Sneak, Sneaksby, } *s.* bawddyn, bawai; dydechwr, godechwr, cynglwr, llechiannwr, llechgi, techgi, celgi; dyn llechwrus.

Sneaker, *s.* dïodlestr bychan.

Sneaking, *a.* llechwrus, llechwraidd, llechgïaidd, cilaidd, llechiannus; bawaidd; crinwasaidd, cybyddlyd, crintach; gorwaelt.
A sneaking fellow=*Sneak*, *Sneaksby*.
Sneaking fire—tân tlawd.

Sneakingly, *ad.* fel bawddyn, fel bawai, fel anwr, fel dydechwr; dàn grymu *neu* ostwng ei wàr; dàn grogi ei ben; yn llechwrus, &c.

Sneakingness, *s.* llechwrusrwydd; baweiddrwydd, &c.

Sneak-up,† *s.* adyn llechwrus anwraidd.

Sneap, Sneb, } † *v. a.* (D. *smibble;* Al. *schnippe*) ceryddu, dwrdio; attal, rhwystro; brathu; trychu.

Sned, Snead, Sneed, } †*s.* (S. *snæd*) coes pladyr, troed pladyr.

Sneer, *v.* (o wraidd y Ll. *naris*) ffroenwawdio, gwatwarwenu, greffio, gwawdwenu; chwerthin yn watwarllyd am ben peth; chwerthin gwatwar; gwenu yn ddïystyrllyd *neu* wawdlyd.

Sneer, *s.* ffroenwawd, gwatwarwen, gwên watwarllyd, gwên ddïystyrllyd, chwerthin gwatwarllyd, chwerthin dïystyrllyd, golwg watwarllyd, golwg ddïystyrllyd, greff, gwatwar-drem, trem watwarllyd; gwawd, dirmyg.

Sneerer, *s.* ffroenwawdiwr, gwatwarwenwr, chwerthinwr gwatwarllyd, chwerthinydd gwatwarllyd, chwerthinwr dïystyrllyd, gwawdwenwr, greffiwr.

Sneerful,† *a.* gwatwargar, ffroenwawdus.

Sneering, *p.* ffroenwawdus, gwawdwenus, greffiol, gwatwarllyd, dïystyrllyd, dirmygus.

Sneeze, *v. n.* (S. *niesan;* Al. *niesen*) trewi, entrewi, tisio, tisian, ystrewi, dystrewi, taro entrew.

Sneeze, *s.* trew, entrew, tis, ystrew, dystrew.

Sneezewort, *s.* dystrewlys, ystrewlys, tafod yr ŵydd.

Sneezing, *s.* trewiad, entrewiad, ystrewiad, dystrewiad, tisiad, tisian.

Snet, *s.* brasder hydd, gwer danas.

Snicker, Snigger, } *v. n.* chwerthin dàn ei gadach; chwerthin dàn law; chwerthin dàn ei ddannedd; gochwerthin.

Sniff, *v. n.* (o *snuff*) ffroeni, ymffroeni, ffroenwyntio.

Sniff,† *v. a.* tynu ei anadl i fyny drwy ei ffroenau; ffroenio, trwynffychain.

Sniff,† *s.* ffroeniad.

Sniff,† *v. n.* ffroeni, trwynffychain.

Snig, *s.* (S. *snaca*) llyswen.

Sniggle, *v.* (o *snig*) llyswena, dàl llyswod; maglu, rhwydo, dàl.

Snip, *v. a.* (Is. *snippen*) cinynio, ciniachu, trychu, trychynu, trychioni; gwneuthur trychyn *neu* drychion; tori *neu* drychu yn ginynion; tocio; tori ar unwaith *neu* ar un ergyd â gwellaif; gwelleifio; tori.
To snip off—tori *neu* drychu ymaith.

Snip, *s.* cinyn, ciniechyn, trychyn, trwch, tocyn, twc, dernyn, llerpyn; toriad, trychiad; gwnïedydd (mewn digrifiaith); rhan, cyfran: *pl.* trychion, tocion, twcion, llarpiau.
To cut into snips—cinynio, ciniachu, trychu, &c.

Snipe, *s.* (Is. *snip;* Al. *schnepfe*) gïach, ymid, ysniten, mynïar; penbwl, hurtyn.

Sniper, Snip, } *s.* cinyniwr, cinyniedydd, cinichydd, gwelleifiwr; gwnïedydd, dilledydd.
Snippers—gwellaif.

Snippet,† *s.* (o *snip*) rhan, cyfran.

Snite, *v. a.* (S. *snytan*) chwythu y trwyn.

Snivel, *s.* (S. *snofel, snyfling*) llysnafedd, llysnafedd y trwyn, llif y trwyn, llysnafedd y ffroenau, llif y ffroenau, chwyth trwyn, trwynllif, ffroenllif, llyfi.

Snivel, *v. n.* trwynllifo, ffroenllifo, llysnafu, llyfïo, llyfïeiddio; llefain â'i drwyn yn llifo; bod â'i drwyn yn llifo (gàn lysnafedd); Lefain dàn lyncu ei lysnafedd; meflu.

Sniveller, *s.* un trwynllifog, un ffroenllifog, un llysnafeddog, llysnafwr, llysnafeddwr, llyfïyn; un yn llefain â'i drwyn yn llifo, &c.

Snivelling, *s.* trwynllifad, ffroenllifad, llysnafiad, &c.

Snivelly, Snivelling, } *a.* llysnafeddog, trwynllifog, ffroenllifog, llyfïog; llysnafaidd, llyfïaidd; llawn llysnafedd; crestog, crafenog; llefog, crewtiol; tosturus.

Snob, *s.* cryddyn, crydd (mewn digrifiaith); trefwr (yn iaith dremygol rhai prifysgolwyr); ymhonwr gwerinaidd, lleban yr ymfrost, coegleban. [bostfawr.

Snobbish, *a.* gwerinaidd a bostfawr; coegfalch;

Snod, *s.* (Gw. *snaith, snadhim;* C. *ysnoden* penre, ysnoden, ffunen, penrwym.

Snook,† *v. n.* (S. *snoka*) cynllwyn.

Snooze, *s.* cyntun, amrantun, dargwsg, hunell.

Snore, *v. n.* (S. *snora*) chwyrnu, chwyrnoli, chwyrnolad, chwyrnolawd; rhyncio.

Snore, *s.* chwyrnad, chwyrnolad; rhwnc.

Snorer, *s.* chwyrnwr, chwyrnydd, chwyrniedydd, chwyrnolydd, chwyrnolwr.

Snort, *v.* (S. *snora*) ffroeni, ffroenio, chwythu yn y ffroenau, trwynffychain, chwyrnolad, chwyrnoli; rhyncio; ffroenochi.

Snorter, *s.* ffroeniwr, ffroenydd, ffroeniedydd, chwyrnolwr, chwyrnolydd.

Snorting, *s.* ffroeniad, chwyrnolawd, chwyrnolad, trwynffychain; chwyrniad.
A snorting horse—march hyffroen; march ffroenfoll.

Snot, *s.* (Is. a D.; S. *snote*)=*Snivel, s.*
Snot, *v. a.* chwythu y trwyn.
Snot'er, *v. n.* trwynllifo, ffroenllifo, llysnafu, llyfio; igian.
Snotter, *s.* math o raff hwyl.
Snotty, *a.* llysnafeddog, trwynllifog, ffroenllifog, trwyn-fudr, llyfiog; crestog; brwnt.
Snout, *s.* (Is. *snuit;* C. *ysnid;* Al. *schnautze*) trwyn, swch, trwynswch, duryn, turs, tursyn, ysniten, ysnid.
An elephant snout — rhynswch, duryn cawrfil.
Weasel's snout—eurddanadl=llysieuyn.
Snout, *v. a.* rhoi trwyn *neu* swch i; trwyno, tursio.
Snouted, *a.* trwynog; â thrwyn *neu* swch iddo; tursog, durynog.
Snouty, *a.* durynaidd, trwynaidd, tursaidd.
Snow, *s.* (S. *snaw;* Al. *schnee*) eira, eiry, ôd, nyf.
Driven snow—manod, briwod, eira mân, eira lluwch.
Snow, *v.* bwrw eira, bwrw eiry, odi, nyfio.
Snow-ball, *s.* caseg eira, pel eira, pelen eira.
Snow-ball tree — gwifwrnwydd, corswig, corswigen.
Snow-bird, Snow-bunting, Snow-fleck, } *s.* aderyn yr eira, bras yr eira, aderyn bras yr eira: *pl.* adar yr eira.
Snow-broth, *s.* cawl eira, dwfr ac eira.
Snow-drift, *s.* lluwch eira, lluch eira, haif eira.
Snow-drop, *s.* eiriawl, cloch maban, cloch baban.
Snow-flake, *s.* casnodyn eira, clwyden eira, clwyden eiry, fflochen eira.
Snow-flake, Summer snow-flake, } eiryaid, eiryaidd.
Snowless, *a.* dïeira.
Snowlike, *a.* eiryaidd.
Snow-line, *s.* llinell yr eira, llin yr eiry.
Snow-shoe, *s.* esgid eira, llopan eira.
Snow slip, *s.* llithr eira, rhuthr eira, nyflithr.
Snow storm, *s.* tymhestl eira.
Snow-water, *s.* dwfr eira, dwr eiry.
Snow-white, *a.* cyn wyned a'r eira; mòr wŷn a'r eira; odwyn.
Snowy, *a.* eiryaidd, eiryog, eiryol, eirllyd, odlyd; cyn wyned a'r eira; purwyn, gwŷn, pur.
Snub,† *s.* (Is. *sneb*) cwgn, cymmal, ceingen.
Snub, *v. a.* tocio, trychu; rhwystro, attal, ystwyo, ffrwyno, ceryddu, dwrdio, dondio, senu, cystwyo; ystwyo gyda cherydd gwawdlyn; cystwyo yn wawdlym; sychu trwyn un.
Snub,† *v. n.* (Al. *schnauben*) igian gyda dirdyniadau; igio yn ddirdynol.
Snub-nose, *s.* trwyn pwt, trwyn pica.
Snub-nosed, *a.* trwynbwt, trwynbica.
Snudge,† *v. n.* (D. *sniger*) ymgynhesu; ymguddio.
To snudge along †—brysio yn mlaen dàn grogi ei ben.
Snuff, *s.* (Is. *snuf;* Al. *schnuppe*) trewlwch, ystrewlwch, entrewlwch, llwch tisio, llwch trwyn; golosged, golosg, tocion, *neu* ben canwyll; gweddill canwyll; trwynsoriant, trwynsor, digder.
To take a thing in snuff, To take snuff at a thing, } trwynsori wrth beth; ffroeni wrth *neu* ar beth; sori, ymddigio, *neu* ymddoddloni wrth beth.
Snuff, *v.* ffroeni, ffroenio; tynu ei anadl trwy ei drwyn *neu* ei ffroenau; chwythu yn ei ffroenau; arogli, gwyntio, arwyntio; ffroenyfed; trwynsori, sori, ymddigio; tocio *neu* dori pen canwyll; cymmeryd trewlwch, trewlychio; trwynffychain, chwyrnoli.
To snuff a candle—tori pen canwyll; tocio pen canwyll; tocio canwyll; pendori canwyll.
Snuff the candle—tocia y ganwyll; tor ben y ganwyll.
To snuff at—ffroeni ar, ffroeni wrth; tremygu, dirmygu; digio wrth.
To snuff up—tynu i fyny drwy ei drwyn; tynu i fyny drwy ei ffroenau; ffroenyfed.
That snuffeth up the wind at her pleasure—wrth ddymuiad ei chalon yn yfed gwynt (*Ier.* ii. 24).
Snuff-dishes—cafnau llusern.
Snuff-box, *s.* blwch trewlwch.
Snuffer, *s.* un à ffroeno, &c.; ffroenwr, ffroenydd; torwr *neu* dociwr pen canwyll.
Snuffers, *s. pl.* gleiniadyr, glaniadyr, salltring, toriadyr pen canwyll, toriadyr.
A pair of snuffers=*Snuffers.*
Snuffers-pan—cafn y gefeiliau.
Snuffing, *s.* ffroeniad, &c.
Snuffle, *v. n.* (Is. *snuffelen*) trwynffychain; dywedyd, llefaru, *neu* siarad drwy y trwyn; anadl drwy fawr boen drwy y trwyn; anadlu yn drwyn-gaiad.
Snuffler, *s.* dyn trwyn-gauad, un trwyn-gauad; à ddywedo drwy ei drwyn; trwynffychiwr.
Snuffles, *s. pl.* trwyndag, trwynludd.
Snuffling, *s.* llefariad *neu* ddywediad drwy y trwyn; anadliad trwyn-gauad; trwynffychiad, trwynffychain.
A snuffling cold—clefyd yr annwyd trwyngauad; gormwyth.
Snuff-taker, *s.* cymmerwr trewlwch, arferwr trewlwch.
Snuffy, *a.* trewlychog, llawn trewlwch; â threwlwch arno.
Snug, *v. n.* (D. *sniger;* S. *snican*) ymgynhesu yn nghyd; ymwasgu â'u gilydd; ymwasgu, cydymwasgu; glynu, ymlynu.
Snug, *a.* (Sw. *snygg*) cryno, cynnwys; clyd, cynhes, gwresog; cyfannedd; dirgel, cuddiedig; cyfleus; twt, clws, twtnais, dèl; agos.
To lie snug in a bed—ymguddio *neu* ymgynhesu dàn y dillad.
Snuggery, *s.* (o *snug*) annedd gled, annedd gynhes; clydach.
Snuggle, *v. n.* ymgynhesu *neu* ymwasgu yn nghyd; cydymwasgu.
Snugly, *ad.* yn gryno, &c.
Snugness, *s.* crynoder; clydwch, cynhesrwydd; cyfleusrwydd; agosrwydd.
Snying, *s.* planc yn sefyll ar ei ymyl.
So, *ad.* (S. a Goth. *swa;* Al. *so*) felly, efelly, fel hyn, fel hyny, fellyn; yr un modd, yn yr un modd, yn gyffelyb; yn y cyffelyb fodd; mòr, cyn; fel, fàl, màl; tra; cyd ag.
So that, So, } tra, trwy, megys, màl, fàl, fel; fel y, màl y; fel mai, fel taw; felly; os; yn unig os; hyd tra, hyd pan; hyd oni, hyd onid; cyd ag; yn gymmaint ag; am y; fel ag; fel ag i.
So then, So, } felly gàn hyny; felly; am hyny; o herwydd hyny; o herwydd pa ham; o ba achos.
So that if—fel os; am hyny os.

If so be that—os, od, o, or.
So great—cymmaint; o'r maint hyny; mòr fawr.
So great salvation—iachawdwriaeth gymmaint.
So much—cymmaint.
By so much—po; o hyny; o gymmaint a hyny.
So far—cyn belled, càn belled, cybelled, cymhelled, mòr bell; hyd yno, hyd hyny; hyd at hyny; hyd yn hyn; cyn belled a hyny; cyn belled a hyna; cyd a hyny; cyd a hyna.
So little—cyn lleied; càn lleied; mòr fychan, mòr ychydig.
So long—cyhyd, cyd, mòr hir, cyn hired, càn hired, hired.
So many—cynnifer; cymmaint (o nifer *neu* rifedi).
So often—cyn fynyched a hyny; càn fynyched a hyny; mòr fynych a hyny; cynnifer gwaith a hyny.
Why so?—pam hyny? pa ham hyny? pa ham felly? pam felly?
So and so—hyn a hyn; hwn a hwn.
So and so said so and so—hwn a hwn a ddywedodd hyn a hyn.
So so—felly felly; rhwng y ddau; yn ganolig.
Very so so—yn ganolig iawn; yn ddistadl iawn.
Well sorted—iawn-gymmathedig, â iawngymmathwyd, wedi ei iawn-gymmathu.
He sorts his books on the shelves—efe a

gyflea, a drefna, *neu* a ddosbartha ei lyfrau, rhyw yn ei ryw, ar y seldydd.
Sortable, *a.* cymmathadwy; dosbarthadwy.
Sortal,† *a.* cymmathol.
Sortance,† *s.* cyfaddasrwydd.
Sorter, *s.* cymmathwr, cymmathydd; dosbarthwr.
Sortie, *s.* (Ff.) rhuthr, cyrch, ymgyrch, rhysgyr, rhuthrad.
Sortilege, *s.* (Ff.; Ll. *sortilegium*) coelbreniaeth, cytysiaeth, tyniad cytysau, bwriad coelbren.
Sortilegious, *a.* perthynol i goelbreniaeth; cytysol.
Sortilegy,† *s.*=*Sortilege.*
Sortition, *s.* (Ll. *sortitio*) detholiad *neu* benodiad drwy goelbren *neu* gwtws; cytysiad.
Sortment, *s.* (o *sort*) cymmathiad; cydrywiad; dosbarthiad, parthiad; dewis o nwyddau amryfath.
Sorus, *s.* (Gr. *soros*) mân sypiau o hadgibenau bychanigion ar ddail rhedyn.
Sospiro, *s.* (It.) saib, gorphwys.
Soss,† *v. n.* (Al. *sausen*) syrthio yn swrth i'w gadair.
Soss, *s.* dïogyn, seguryn; codwm swrth.
Sostenuto, *a.* (It.) dwys; dïysgog.
Sot, *s.* (Ff.; Llyd. *sodt*) penbwl, pendew, pennlloran; brwysgyn, brwysgwr, meddwyn, dïotwr, dïotai, ymyfwr, llymeitiwr, potiwr, ymddyfoliwr.
To play the sot—chwareu y brwysgyn, &c.; ymddyfoli ar ddïod *neu* gwrw.
Sot, *v.* llymeitian, brwysgo, meddwi, gofeddwi, penfeddwi, ymfrwysgo, dylyn dïota, ymyfed; chwareu y brwysgyn, &c.; syfrdanu, penddaru, pendroni, pensyfrdanu.
To sot away one's time—treulio ei amser mewn brwysgedd a meddwdod; treulio ei amser mewn brwysgedd a meddwaint; meddwi yn ei unswydd; bod heb wneuthur swydd ond meddwi; treulio ei amser yn dylyn meddwdod.
Soteriology, *s.* (Gr. *sôtêrios* a *logos*) traethawd ar iechyd, iachofyddiaeth.
Sottish, *a.* (o *sot*) penfeddw; syfrdan, syn, hurt, lledfeddod, lledfrydig; penbylaidd, penfeddal, anghall; meddw, brwysg.
Sottishness, *s.* penfeddwaint, penfeddwdod, dïotach; syfrdandod, syndod, hurtrwydd, hurtni, penbyledd.
Sou, *s.* (Ff.) ceiniog Ffrainc.
Soubrette, *s.* (Ff.) gweinyddes, llawforwyn.
Souchong, *s.* Swshong=math ar de du.
Sough,† *s.* ffos gudd, gwehynffos.
Sough,† *v. n.* (S. *swegan*) godyrddu, dadyrddu.
Sough,† *s.* godwrdd, godwrf, dadwrdd.
Sought, *p. p.* (o *seek*) ceisiedig, â geisiwyd, &c.
Worthy to be sought—ceiswiw, gwiwgais.
Soul, *s.* (S. *sawel, sawl, saul;* Al. *seele*) enaid; enawr, en; einioes; ysbryd; calon; meddwl; dyn; enaid o ddyn.
A dull soul—hurthgen, hurtyn, pennlloran.
The poor soul—y dyn truan, truan wr, truan gwr, truenyn.
Endued with a soul—eneidiog, eneidiol, perchen enaid; â chanddo enaid.
There is not a soul here—nid oes dyn yma; nid oes enaid o ddyn yma.
All Soul's Day—Dygwyl yr Eneidiau, Gwyl yr Eneidiau, Dygwyl y Meirw=yr ail o Dachwedd.
Soul,† *v. a.* eneidio.
Soul,† *v. n.* (S. *sufl, sufel*) rhoi cynnaliaeth gyfaddas.
Soul-bell,† *s.* cnul.
Souled, *a.* eneidiog, eneidiol, enig.
Soulless, *a.* dïenaid; difywyd, digalon.
Soul-scot, } *s.* offrwm dros enaid y marw.
Soul-shot, }
Sound, *a.* (S. *sund;* Al. *gesund;* Ll. *sonus*) iach, iachus, iachusol; iach ddïanaf; dïasgen, dïen, difeth, difreg, dïanaf, dïanafus, diwall, diogel; cyfan, cyfa, didwn; clwn; caled, fferdd, cadarn, sad, ffêr, gwrdd, agwrdd, sedr, dwys; sicr; anfasw, difaswedd, diwegi; sylweddol; trwm; dwfn; da; gwir; iawn; cywir, cywir ei farn, cywir-farn; uniongred; perffaith; trwyadl; tyn; teithïol.
Sound of mind—yn ei bwyll; yn ei gof; yn ei synwyrau; yn ei iawn bwyll.
Sound sleep—trymgwsg.
A sound scholar—ysgolhaig drwyddo.
To make sound—cyfanu, cyfâu; gwneuthur yn iach, &c.
Sound, *ad.* yn iach, &c.
Sound, *s.* nofiadyr pysg, nawf pysg, awyrgod pysg; ystifflog, morgyllell, morlawes.
Sound, *s.* (S. *sund*) basfor, beisfor, meinfor, culfor.
Sound dues—toll y meinfor=toll â godir ar longau yn myned trwy y meinfor rhwng Denmarc a Sweden.
Sound, *s.* (Ff. *sonde;* Ysp. *sonda*) chwiliedydd y bledren=math ar offeryn llawfeddyg.
Sound, *v. a.* (Ysp. *sondor;* Ff. *sonder*) plymio, beisio; chwilio, profi; chwilio y bledren ag y gareg.
To sound with a plummet—plymio, beisio.
To sound one's mind—chwilio meddwl un; profi un; beisio meddwl un.
Sound, *s.* (S. *son;* Ff. *son;* Ll. *sonus;* C. *swn, sain;* Gw. *soin*) swn; sain; son; llais, llef; trwst; dyar, dâr; adsain; goslef.
Audible sounds—seiniau hyglyw, clywedog, *neu* glywadwy.
Articulate sound—llafarsain, sain lafar; siar: *pl.* llafarseiniau, seiniau llafar.
Vocal sound, } llafarsain, sain lafar, sain
Vowel sound, } lafarog.
Clear sound—llafarlais, llais croew, llais eglur; sain groew, sain eglur, sain ddïfyngial, sain ddifyngus.
Indistinct sound—sain anghroew, sain aneglur, gosain; sain aflafar.
Fine sound — gwiwsain, sain wiw, sain fwyn.
Agreeing in sound—unsain, cydsain, unseiniog, cyfunsain, cydseiniog.
Long sound—hirsain, sain hir; sain ygafn.
Having a long sound—hirsain, hirseiniog; hir ei sain; â sain hir iddo.
Short sound—byrsain, sain fêr; sain drom, tromsain.
Having a short sound—byrsain, byrseiniog; byr ei sain; â sain fêr iddo.
The sound of a trumpet—sain, llais, *neu* floedd udgorn; udgorn-floedd.
Confused sound—dwndwr, dadwrdd.
That giveth seven sounds—seith-seiniog.
Sound, *v. n.* seinio, synio, swnio; lleisio; eichio, dyar, daru; gwneuthur swn.
To sound back, } adseinio, dadseinio.
To sound again, }

To sound like a harp—seinio *neu* leisio fel telyn; rhuo fel telyn (*Esa.* xvi. 11).
To sound a trumpet — udganu, udganu mewn udgorn, udganu âg udgorn, canu udgorn, canu mewn udgorn, canu âg udgorn, lleisio âg udgorn, chwythu mewn udgorn.
To sound forth the praise of one—moli un, moliannu un, clodfori, canu clod un.
To sound an alarm—canu alarm; canu cyrn cychwyn.
To sound diversely, } seinio yn amrywiol,
To sound dissonantly, } yn anghysson, yn annhebyg, yn anghydsain, *neu* yn anghydlais; anghyssoni, anghydseinio, anghydleisio, anghyttoni.
To sound slightly—goseinio, lledseinio.

Soundable, *a.* plymiadwy, beisiadwy.
Sound-board, } *s.* seinfwrdd, sein-glawr.
Sounding-board, }
Sound-boarding, *s.* seinfwrdd (mewn adail).
Sounder, *s.* offeryn plymio, offeryn beisio, beisiedydd.
Sound-headed, *a.* penffer; iach *neu* gadarn ei egwyddorion.
Sounding, *a.* seiniol, seinfawr; soniarus; sonfawr, soniawr; llafar.
Sounding, *s.* seiniad, seiniant, seiniedigaeth; beisiad, plymiad; dyfnder, dyfnedd; chwiliad.
A sounding again—adseiniad; adsain.
Sounding-line, *s.* llinyn plymio, llinyn beisio.
Sounding-post, *s.* seinbost, seinbill.
Sounding-rod, *s.* gwialen blymio; gwialen i fesur dyfnder dwr yn ngwaelod llong.
Soundings, *s. pl.* plymiadau, beisiadau; dyfnderau.
Soundless, *a.* anmhlymiadwy; diwaelod, anoddyn.
Soundless, *a.* disain, diswn, dison.
Soundly, *ad.* yn iach, &c.; yn dda ac yn ddiwall.
To beat soundly—dygaboli; rhoi maeddgen dda i.
Soundness, *s.* (o *sound*) iachusrwydd; dianafedd, difethrwydd; cyfander, cyfanrwydd, cyfanedd; cadernid, sadrwydd, &c.
Sound-post, *s.* seinbost, seinbill.
Soup, *s.* (Ff. *soupe;* Al. *suppe*) isgell, trwyth cig, llymeidfwyd; potes; cawl.
Soup,† *v. a.* cwynosa; anadlu allan.
Soup,† *v. a.* (=*sweep*) ysgubo.
Sour, *a.* (S. *sur, surig;* Al. *sauer;* Ff. *sur*) sur; chwibl, egr, chwig, chwigws; sarig, croes, blwng, dreng; anni ldig; garw.
As sour as a crab—cyn sured a'r chwigws.
To make sour—suro, chwiblo, egru; peri yn sur, &c.
To grow sour—sur, chwiblo, egru; myned yn sur, &c,

Sour, *s.* sur, suryn, peth sur.
Sour, *v.* suro, egru, chwiblo; peri yn sur, yn egr, *neu* yn chwibl; myned yn sur, yn chwibl, *neu* yn egr; sarigo; teneuo.
Source, *s.* (Ff.) ffynnon, ffynnonell, tarddell, tardd, tarddfa, aig, han; gwreiddyn, gwraidd, dechreu; edryf, edryd; ffwn, hadd, henydd; essilling; rhi.
The source of a river—blaen afon, tarddiad afon, tarddiant afon, llygad afon, ffynnonell afon, &c.
The sources of rivers—blaenau afonydd, tarddiadau afonydd, &c.

Sour-crout, } *s.* (Al. *sauer-kraut*) surfresych,
Sour-krout, } surgawl, bresych surion, ilfresych.
Sourdet, *s.* (Ff. *sourdine*) tafod *neu* eneu-bib udgorn.
Sour-dock, *s.* suran.
Sour-eyed,† *a.* llygadsur.
Souring, *s.* suriad; peth â suro; surolyn.
Sourish, *a.* lledsur, gosur, gochwibl, suraidd, surllyd.
Sourness, *s.* surni, suri, surder, surdra, surdeb, suredd, chwibledd, egrwydd, egredd; sarigrwydd.
Sour-sop, *s.* yr afal brithog.
Sous, *s. pl.* (o *sou*) ceiniogau Ffrainc.
Souse, *s.* (Gw. *sousgeach*) cyffaeth hallt; heli; peth â gyffeithiwyd mewn heli; cyffaeth; cyffaeth-gig; rhuthr angerddol.
Souse, *v. a.* cyffeithio mewn heli; helïo.
Souse, *v.* (Al. *sausen*) rhuthro yn angerddol *neu* yn ffyrnig; syrthio yn ddisymmwth ar beth; plyngu, grawthu. [mwth.
Souse, *ad.* gyda rhuthr angerddol *neu* ddisym-
Souse, } *s.* (Ff. *sous*) atteg, gwanas.
Source, }
Souterrain, *s.* (Ff.) ogof, gogof.
South, *s.* (S. *suth;* Al. *sud;* Ff. *sud*) deheu, de, deau; deheudir, deheuparth; †deheuwynt.
The queen of the south—brenines y deheu.

South, *a.* deheuol, deheu, deau, de; deheuberthig, deberthig; eiddo y deheu; yn gorwedd tua'r deheu.
South Wales—Deheubarth Cymru, Deheudir Cymru; y Deheubarth, y Deheudir.
The south wind—y deheuwynt, gwynt y deheu, gwynt y de.
South sea—môr y deheu, môr y de, y môr deheuol, y deheufor.
The south gate—porth y deheu; y porth deheuol; y porth deheu.
The south border—terfyn y deheu; y terfyn deheuol.
The south land—tir y deheu, gwlad y deheu; y deheudir.
On the south side—o'r tu deheu; ar yr ochr dde.

South, *ad.* tua'r de, tua'r deheu.
Southeast, *s.* de-ddwyrain, deheu-ddwyrain.
Southeast, *a.* de-ddwyreiniol, deheu-ddwyreiniol.
The southeast wind—y deheu-ddwyreinwynt, y gwynt de-ddwyreiniol.
Southeastern, *a.* de-ddwyreiniol, deheu-ddwyreiniol; yn gorwedd tua'r deheu-ddwyrain.
Southerly, *a.* deheuol, deheu, deau, de.
Southern, *a.* deheuol, deheu, deau, de; perthynol i'r deheu; deheuberthig.
The southern part of a country—deheudir, deheubarth, debarth.
The southern dialect—deheubartheg, y ddeheubartheg, y ddeheubarthaeg.

Southerner, *s.* deheuwr, un o wŷr y deheu, gwr o'r de: *pl.* deheuwyr.
Southernliness, *s.* deheuoldeb, deheuolrwydd.
Southernly, *ad.* tua'r deheu.
Southernmost, *a.* mwyaf deheuol; pellaf i'r deheu; nesaf i'r de.
Southernwood, *s.* (*southern* a *wood*) llysiau y cyrff, hen wr, henwr, Brytwn.
Southing, *a.* yn myned *neu* yn tynu tu a'r deheu.

Southing, *s.* dyfodiad *neu* fynediad i'r deheu; tyniad tua'r deheu; deheuad.
The southing of the moon—yr amser y bo y lleuad yn y de; deheuad y lleuad.
Southmost, *a.* mwyaf deheuol; nesaf i'r de; pellaf i'r de.
Southsay,† *v. n.*=*Soothsay.*
Southward, *ad.* tua'r deheu, tua'r de.
Southward, *s.* y parthau deheuol; deheubarth.
Southwest, *s.* de-orllewin, deheu-orllewin.
Southwest, *a.* de-orllewinol, deheu-orllewinol.
Southwester, *s.* gwynt de-orllewin cryf.
Southwesterly, *a.* de-orllewinol, deheu-orllewinol.
Southwestern, *a.* de-orllewinol, deheu-orllewinol.
Souvenance,† *s.* (Ff.) coffadwriaeth.
Souvenir, *s.* (Ff.) cofiedydd.
Sovereign, *a.* (Ff. *souverain*; Ll. *supernus*) goruchaf, goruchel, goruch; penaf, pen, prif; arbenig; gwerthefin; penarglwyddol, penarglwyddiaethol, penadurol; breninol; effeithiol, mawr ei rinwedd, rhinfawr, godidog, difeth, diball.
Sovereign lord—penarglwydd, gwerthefin arglwydd, arglwydd gwerthefin; penadur, unben.
Sovereign, *s.* penadur, teyrn, brenin, penarglwydd, penllywydd, goruch-arglwydd, gwerthefin, unben, uchelderyrn, uchdeyrn, goruchdeyrn, goruchlyw, penaeth, peniadur, arben, gwledig, ffelaig, modur, ffaner, alcun, udd, penaig, gwaladr: *pl.* penaduriaid.
The sovereigns of Europe—penaduriaid Ewrop.
Sovereign (a coin)—penadur; punt (20*s.*): *pl.* penaduron.
Sovereignize,† *v. n.* arglwyddiaethu, penaduriaethu.
Sovereignly, *ad.* yn oruchaf, &c.; trwy oruchfraint, trwy oruch-awdurdod; i'r eithaf.
Sovereignty, *s.* penaduriaeth, penarglwyddiaeth, penllywyddiaeth, unbenaeth, arbenaeth, breniniaeth, penafiaeth, uchafiaeth, goruchafiaeth, teyrnedd, teyrnogaeth, gwerthefiniaeth, gwerthefindod, gwledigrwydd, arbenigrwydd; gallu.
To have sovereignty — goruch-arglwyddiaethu, penarglwyddiaethu.
The sovereignty of Britain—unbenaeth, arbenaeth, *neu* benaduriaeth Prydain.
Sow, *s.* (S. *suga*; Al. *sau*) hwch, cunar, llwpai.
An old sow—hen hwch, cunar.
A young sow (that has littered but once)—banwes; hespinhwch.
A young sow (that has not littered)—porchelles.
A wild sow—gwyddhwch, carnen, banhwch, hwch coed, hwch goed.
A little sow, A young sow, } hychig.
A spayed sow—hwch ddysbaidd, hwch ddysbaddedig, hwch ysbaddedig; tyrches.
A sow with pigs—hwch dorog, hwch focha.
A sow to a fiddle—rhoi hwch wrth aradr.
To take the wrong sow by the ear—cymmeryd mail yn lle hidl; cymmeryd y fail yn lle yr hidl.
Sow (an insect)—milred, milcerdd, pryf cantroed.
A sow of lead—hwch blwm, hwch o blwm.
Sow, *v.* (S. *sawan*; Al. *säen*) hau, heu; taenu, gwasgaru, gwasgar.
To sow up and down—taenu ar led; lledaenu.
To sow strife—peri amrafael, anghydfod *neu* anghytundeb rhwng dynion; hau amrafaelion, hau anghydfod.
Sow,† *v.*=*Sew.*
Sow-bane, *s.* troed yr wydd, gwydd-droed.
Sow-bread, *s.* egel, bara yr hwch, llysiau y ddidol, moch-wraidd.
Sow-bug, *s.* pryf cantroed, milcerdd, milred.
Sow-thistle, *s.* mochysgall, llaethysgall, ysgall y moch, ysgall llaethog, llymeidfwyd: *pl.* mochysgallen, &c.
Corn sow-thistle—llaethysgall yr ŷr, mochysgall yr ŷr.
Sowce, *s.*=*Souse.*
Sowens, Sowins, Sowans, } *s.* llymry yr Alban, llymry, llymrwd.
Sower, *s.* hauwr, heuwr, heuedydd, heuydd; taenwr.
Sowing, *s.* heuad, hauad, head.
Sowing time—amser hau, pryd hau, tymor hau.
Sowl,† *v. a.* tynu *neu* lusgo gerfydd y clustiau.
Soy, *s.* taeth *neu* sibr dwyreiniol; soe.
Spa, *s.* (oddi wrth *Spa* neu *Spaa*, yn Belgium, ffynnon feddygol, dwfr meddygol, ffynnon ddelidaidd.
Spaad, *s.* (Ysp. *espato*)=*Spar.*
Space, *s.* (Ll. *spatium*) lle; ysbaid, enedyd, ennyd; cyfwng, cyfrwng; gofod; eangder; meithder lle; lle gwag, gwagle; ysbaid, meityn; tyd; talm; angder, eng, ang, tymhrân; màn; gwers; helaethiant.
A year's space—ysbaid blwyddyn, ysbaid blwyddyn, chwyl blwyddyn, blwyddyn.
The space of man's life — ystod, amser, chwyl, *neu* ysbaid bywyd dyn.
A space of time—ennyd *neu* enedyd o amser; hawg, meityn.
The space of one day—ystod, ysbaid, neu ofod un dydd; un dydd.
A clear space—lle amlwg, gweling, iâl.
An open space — lle agored, peithwg; rhwyl; tranial.
Space,† *v. n.* rhodio yn rhydd; crwydro; ymhelaethu.
Space, *v. a.* cyfryngu, gofodi; gosod gwag rhwng llythyrenau *neu* eiriau.
To space out—rhoi mwy o le rhwng geiriau *neu* linellau.
Spaceful,† *a.* helaeth, eang.
Spaceless, *a.* diofod, heb ennyd, dïencyd.
Spacious, *a.* (Ll. *spatiosus*; Ff. *spacieux*) eang, helaeth, ehelaeth, eng, ang, angdde; llydan, maith.
Spaciousness, *s.* eangder, eangrwydd, helaethrwydd, helaethder, ehelaetharwydd; llydander; meithder.
Spaddle, *s.* (bych. o *spade*) pâl fechan, rhawg.
Spade, *s.* (S. *spad*, *spada*) pâl; rhawbal; rhaw.
To call spade a spade—galw pâl yn bâl a rhaw yn rhaw; galw pob peth gerfydd *neu* wrth ei enw.
Spade, *v. a.* palu.
Spade, Spaid, } *s.* hydd teirblwydd.
Spade, *s.* (Ll. *spado*) anifail dysbaidd.
Spade-bone, *s.* crafell yr ysgwydd, asgwrn y balfais.
Spadeful, *s.* palaid, llonaid pâl: *pl.* paleidiau.

Spadiceous, *a.* (Ll. *spadiceus*) goleugoch, gwineugoch, gwineu; ysbyddogaidd.
Spadicose, *a.* yn tyfu ar yr ysbyddog.
Spadille, *s.* (Ff.) as y palau (yn chware wmbr).
Spading, *s.* paliad.
Spadix, *s.* (Gr. a Ll.) ysbyddog.
Spado, *s.* (Ll.) dysbaidd, un dysbaddedig.
Spadroon,† *s.* cleddyf ysgafn.
Spagyric,† *a.* (Ll. *spagyricus*) fferyllaidd.
Spagyric, } † *s.* fferyll.
Spagyrist, }
Spahi, } *s.* (Tyrc. *sipahi*; Per. *sipahee*) marchSpahee, } filwr Twrci.
Spall,† *s.* (Ff. *espaule*; It. *spalla*) asglodyn; ysgwydd.
Spalt, } *s.* toddfwn, toddfwyn.
Spelt, }
Span, *s.* (S.; Al. *spanne*; D. *spand*) rhychwant.
To measure by the span=*Span*, *v. a.*
Span, *v. a.* rhychwantu, rhychwannu.
To span (in marine language)—rhwymo â rhaffau.
To span the heavens—rhychwantu y nefoedd; mesur y nefoedd â rhychwant.
Spancel, *s.* hual traed ol, llyffethar traed ol.
Spancel, *v. a.* hualu, llyffetheirio, *neu* rwymo y traed ol.
Spancelled, *a.* hualog, gefynog, llyffetheiriog (yn arfau bonedd).
Spandrel, *s.* (It. *spandere*) gwaneg bwa, crymal bwa=y gwagle rhwng camedd bwa a'i rychwant.
Spang,† *s.* (Is. *spange*) gleindlws, boglyn; rhychwant.
Spangle, *s.* (Is. *spange*) boglyn, llefnyn, dernyn, *neu* gasnodyn dysglaer; claer foglyn, llugan, seriglen, claeran, seirienyn; seren: *pl.* ser.
Spangle, *v. a.* seriglo, serenu, seirianu, boglynu, tryfritho, eurfritho, cronellu; rhoi boglynau, cronellau, *neu* ser ar beth; gwynygio.
Spangled, *p. p.* serigledig, &c.; serigl, serig, serog, serenog, llawn ser, seirian; heuedig â ser; boglynog.
The spangled firmament—yr wybren serenog; yr wybren seirian.
Spangler, *s.* serigiwr, serenwr.
Spaniel, *s.* (Ff. *epagneul*; o *Hispaniola*, yn yr India Orllewinol) adargi, ci adar; truthan, truthiwr, gwenieithwr, cynffonlonwr.
Spaniel, *v.* cynffonloni, truthio, gwenieitho; canlyn fel adargi.
Spanish-brown, *s.* llwyd yr Yspaen.
Spanish-fly, *s.* cylionen Yspaen, cylionen paradwys: *pl.* cylion paradwys.
Spanish-white, *s.* gwyn yr Yspaen.
Spank, *v. a.* (C. *panc*) taro â chledr y llaw; pancio, palfodi, llachio.
Spanker, *s.* math ar hwyl fawr; brasgamwr; dyn tâl; peth mwy na chyffredin;† darn pres bychan.
Spanking, *a.* mawr, praff, braisg; hoew.
Span-long, *a.* rhychwant o hyd.
Spanner, *s.* (o *span*) rhychwantwr; clo cyflegr; allwedd sidrwyon; rhwymyn croes.
Span-new, *a.* (Al. *spannen*) newydd tanlli, newydd tanlliw, newydd danlli, newydd danlliw, tanlli, tanlliw, newydd grai.
Span-worm, *s.*=*Canker-worm*.
Spar, *s.* (Is. a D.; Al. *sparren*, *spath*) ysger, crisfaen, canfaen, rhith-grisial; trosol, bâr; colp, colpen, ysgolp, ysgolpen, ysgolpyn, aseth; ceibren, cebr, bollt: *pl.* colpau, cylp, esyth, llymwydd, ceibr.
Spar,† *v. a.* bario, bolltio, prenio.
Spar, *v. n.* (S. *spirian*) dadleu, dadlu, ymddadleu; ymladd o hyd breichiau; ymladd o hyd arfau; ymladd o hirbell; ymladd ac ymgadw; ymladd dân sefyll ar ei amddiffyn.
Sparable, *s.* (llygriad o *sparrow-bill*, oddi wrth ei llun) hoel ddiglopa, hoel esgid ddiglopa, hoel big yr olfan: *pl.* hoelion bychain diglopa.
Sparadrap, *s.* (Ff.) cwyrlïan, sugliân.
Sparage, } † *s.*=*Asparagus*.
Sparagus, }
Spare, *v.* (S. *sparian*; Al. *sparen*) cynnilo, tolio, toli; arbed, arbedu; hebgor, hebgori; ymarbed; attal; bod *neu* fyw yn gynnil; gweddillio; goddef i fyned yn ddigosp; peidio â chospi; tosturio wrth.
That which is to spare—gweddill, gwarged: *pl.* gweddillion.
If God spare my life—os Duw a rydd i mi einioes; os arbed Duw fy mywyd.
Spare me a word—hebgor i mi air; clyw air.
That may not be spared, } anhebgor.
That cannot be spared, }
Enough and to spare—gwala a gweddill.
Spare, *a.* (S. *spær*) prin; cynnil; anaml; hebgorol, hebgoradwy, gweilig; y gellir ei hebgor; â fo yn ngweddill; gweddilledig; â fo dros ben; gormodol, gormod; mwy na rhaid; dros ben digon; cul, teneu, main, culfain; † araf.
Spare horse—march gweilydd, march gweilig; march anrhydedd.
Spare money—arian gweddill.
Spare time—hamdden, ennyd ysgyfala, ennyd, seibiant, oedfa, odfa, ysgyfalhâwch.
At spare time—hamddenol, ysgyfala, didres; yn hamddenol, &c.; pan gaer ennyd, odfa, *neu* seibiant.
Spare,† *s.* cynnildeb, arbed, ymarbed, toliad.
Spareness, *s.* prinder, prindra, prinedd, prinrwydd; culi, culni, teneuder, meinder.
Sparer, *s.* cynnilwr; arbedwr.
Sparerib, *s.* (Is. *spier*, cyhyr, a *rib*; neu *spare* a *rib*) asen y frân; eisglwyd mochyn; culasen, (*pl.* culais).
Sparganium, *s.* (Gr. *sparganos*) cleddyflys, cawen.
Spargefaction,† *s.* (Ll. *spargo*) taenelliad, ysgeintiad.
Spargelstein, *s.* (Al.) merllysfaen.
Sparidæ, } *s. pl.* (Ll. *sparus*) y pysg eurben.
Sparoides, }
Sparing, *a.* (o *spare*) cynnil, arbedus, arbedol; prin; bychan; cyrrith, crintach, anhael, cybyddlyd.
One that is very sparing in his diet—bwytâwr bach iawn.
Sparingly, *ad.* yn gynnil, &c.; dân eiriach; yn gymmedrol; yn ochelgar.
To live sparingly—byw yn gynnil; byw yn gyrrith; byw wrth ychydig luniaeth.
Sparingness, *s.* cynnildeb, cynnilwch; gochelgarwch.
Spark, *s.* (S. *spearc*) gwreichionen, gwreichionyn, tanen, tenyn, clin, gwraich; cariad, cariadfab; †coegyn.
Spark,† *v. n.* gwreichioni.
Sparkful, *a.* bywiog, hoew, hoewych, coegwych.
Sparkish, *a.* hoew, hoewych, coegwych, dillyn-

wych, gwych, hoenus, eirig, pert; ymddangosgar, ymddangosiadus; trwsiadus, nwyfus.

Sparkle, *s.* (o *spark*) gwreichionen, gwreichionyn, tanen, tenyn; llugan: *pl.* gwreichion.

Sparkle, *v. n.* gwreichioni; codi yn wreichion; ymfflamychu; clindarddu, clindarddach; seirianu, sercnu, lluganu, tanbeidio, llewyro; ymgynhyrfu.

Sparkle,† *v. a.* gwasgaru, taflu yma ac acw.

Sparkler, *s.* gwreichionwr, gwreichionydd; tanbeidydd.

Sparklet, *s.* gwreichionen, gwreichionyn, gwreichyn. } hawnt, hoen.

Sparkliness,† *s.* bywiogrwydd, hoenusrwydd,

Sparkling, *a.* gwreichionllyd, gwreichionawl, gwreichionawg; serog, serenog, serig, serigl, asserw, seirianol; llachar; bywiog, hoew.

Sparklingness, *s.* gwreichionogrwydd; serogrwydd, &c.

Sparling, *s.* (o *spar, sparus*) brwyniad.

Sparoid, *a.* (Ll. *sparus,* a Gr. *eidos*) tebyg i'r pysg eurben; perthynol i'r pysg banwes; eurbenaidd.

Sparring, *s.* (o *spar, v. n.*) ymladd o hyd breichiau; dadl, goddadl, dadleu.

Sparrow, *s.* (S. *speara;* Sw. *sparf*) aderyn y to, aderyn to, golfan, trefiad.

Thatch sparrow—aderyn y to.

Hedge-sparrow — brych y cae, gwrach y cae, gwrachell y cae, llwyd y gwrych, gwrychell; gwas y cog, gwichell y gog, gwigyn y gog.

Mountain sparrow—golfan y mynydd.

Reed sparrow—golfan y cyrs, golfan y gors.

Sparrow-bill, *s.*=*Sparable.*

Sparrow-grass, *s.*=*Asparagus.*

Sparrow-hawk, } *s.* (S. *spear-hafoc*) curyll, cud-
Spar-hawk, } yll, llemysten, llymysten, gwipai, gwipia, pilan, gwalches, corwalch, ceinlly goch, cudyll coch.

Sparry, *a.* (o *spar*) crisfeinin, crisfeinig, ysgeraidd; crisialaidd.

Sparry iron, } mwn dur, mwyn dur.
Sparry iron ore, }

Sparse, *a.* (Ll. *sparsus*) gwasgarog, gwasgaredig, gwasgar, ar wasgar; teneu; un yma a'r llall acw; anghyfrestr, anghyfres, anghyfrestrog, anghyferbyniol.

Sparse,† *v. a.* gwasgaru, taenu ar led, chwalu,

Sparsed, *a.* gwasgaredig, gwasgarog, gwasgar.

Sparsedly, *ad.* yn wasgaredig, &c.; ar wasgar; un yma a'r llall acw.

Sparseness, *s.* gwasgarogrwydd, gwasgaroldeb; teneurwydd.

Spartan, *a.* (o *Sparta,* yn Groeg) dewrwych, gwrolwych, dewr, glew, gwrol, gwrdd, calonog.

Spartium, *s.* (Ll.; Gr. *sparton*) banadl, y banadl.

Sparus, *s.* (Ll.) y pysg eurben, banwes.

Spasm, *s.* (Gr. *spasmos;* Ll. *spasmus*) gwrwst, yr wrwst, cwlwm gwythi, cyhyrwst, crebychwst, gwyneg, gwaew; dirdyn, dirdynfa, dirgryn; pigyn, brath.

Spasmodic, } *a.* gwynegol, gwrystaidd; perth-
Spasmodical, } ynol i'r wrwst; dirdynol, dir-
Spasmatical, } grynol; crebychol, gwyniol.

Spasmodic, *s.* cyffyr rhag gwynegau.

Spasmology, *s.* (Gr. *spasmos* a *logos*) traethawd ar wynegau *neu* ddirdyniadau.

Spastic, *a.* (Gr. *spasticos*)=*Spasmodic.*

Spasticity, *s.* gwynegoldeb, dirdynoldeb, dirdynolrwydd.

Spat, *s.* (cyttras â *spit*) grawn cregyn bŷg.

Spatch-cock, *s* (*despatched cock?*) dofednaid ieir ac â drinir mewn brys.

Spatha, } *s.* (Gr. a Ll.) bonwisg, amddalen
Spathe, } blodau; cwpan mawr rhai blodau.

Spathaceous, }
Spathose, } *a.* (o *spatha*) bonwisgog, bon-
Spathous, } wisgol; â bonwisg iddo.

Spathic, *a.* (Al. *spath*) dalenog, deiliar, llafnog, llafonog.

Spathose, *a.* (Al. *spath*) ysgerol, ysgeraidd, crisfeinin, crisfeinig.

Spathulate, *a.*=*Spatulate.*

Spatiate,† *v. n.* (Ll. *spatior*) crwydro, gwibio, treiglo.

Spatter, *v.* (cyttras â *spit*) tasgu; taenellu, ysgeinio, *neu* ysgeintio â llaid, &c.; bwrw llaid *neu* laca ar; diwyno; budreddu; meita; diblo, caglu; athrodi, enllibio, goganu; ysgarogaru, taenu ar led; poeri, dyboeri.

Spatterdashes, *s. pl.* (*spatter* a *dash*) socasau, socys, amgoesau, hosanau botymog, hosanau lledr.

Spattle, *s.* (Ll. *spathula*) crafell, ysbodol; †poer.

Spatula, *s.* (Ll. *spathula*) crafell, ysbodol; mwndill, modbren, llwyarn.

Spatulate, } *a.* (Ll. *spathula*) crafellog, cra-
Spathulate, } ellaidd.

Spavin, *s.* (It. *spavenio, spavano*) llyncos, llyncoes, clefyd y llyncoes.

Spavined, *a.* â'r llyncoes arno.

Spaw, *s.*=*Spa.*

Spawl, *v. n.* (Al. *speichel, speien*) poeri, dybocri; glyfoerio.

Spawl, }
Spawling, } *s.* poeri; poeryn; glyfoer.

Spawn, *s.* (Is. *spene, spenne,* yn ol *Johnson*) grawn pysgod, rhith pysgod; gronell; sil, silod; hil, hiliogaeth.

The spawn of frogs—griffi, egriffi, griffyll, griffyll, chwydredd creiniogod, chwydlyffaint.

A single spawn—silen, silyn, silodyn.

Spawn, *v.* bwrw grawn, bwrw sil; silio, silöi; hilio; deillio fel grawn oddi wrth bysgod; deillio; sildarddu; dyfod allan yn heigiau; claddu (gronell).

The salmons spawn—y mae yr eogiaid yn claddu.

Spawner, *s.* y pysgodyn benyw, hwyfell, hwyddell, gronell-bysg.

Salmon spawner — hwyfell, hwyddell, chwiwell.

Spay, *v.* (Ll. *spado;* C. *ysbaddu, dysbaddu;* Llyd. *spaza, spahein*) ysbaddu benyw, dysbaddu benyw; dysbaddu, ysbaddu; diadrywio.

A spayed bitch—gast ddysbaddedig, gast ddysbaidd.

A spayed sow—hwch ddysbaidd, hwch ddysbaddedig, hwch ysbaddedig; tyrches.

Spayade, *s.* carw teirblwydd (yn arfau bonedd).

Speak, *v.* (S. *spœcan*) llefaru, llafaru, dywedyd, gwedyd, gweyd, dywëyd, doedyd, dweyd, ynganu, siarad, siared, ebu, hebu, ebru, ynad, roddi, parablu, ditio, cynanu, ynganu, crybwyll; traethu; areithio.

To speak in public—llefaru ar gyhoedd.

To speak to one—llefaru *neu* ddywedyd wrth un; cyfarch un; cyfarch i un.

To speak gently—dywedyd yn deg; llefaru yn dirion; gosoni, gosonio, gosoniaf.

To speak gutturally—myngial, mwngial, myngialu; llefaru yn fyngus; llefaru dân fyngial.
To speak through the nose—llefaru *neu* ddywedyd drwy y trwyn; ffroenebu.
To speak distinctly—llefaru yn groew; siared yn groew; llefaru yn eglur, &c.
To speak on the behalf of one — llefaru *neu* ddywedyd yn mhlaid un; llefaru *neu* ddywedyd o ran un; llefaru o blaid un; llefaru dros un.
To speak together—cydymddyddan, cydchwedleua, cydsiarad, cydsiared; ymddyddan â'u gilydd; chwedleua â'u gilydd; chwedleu y naill â'r llall.
To speak with one — ymddyddan *neu* chwedleua âg un.
I would speak with you—y mae i mi air â chwi; y mae i mi â fynwyf â chwi.
To speak nothing—bod heb ddywedyd dim; tewi; bod yn fud; peidio â llefaru.
Not to speak a word—bod heb lefaru gair; bod heb ddywedyd gair; bod heb yngan gair.
To speak out—llefaru *neu* ddywedyd yn groew; llefaru *neu* ddywedyd yn ddifyngus; llefaru *neu* ddywedyd yn eglur; llefaru *neu* ddywedyd mewn geiriau goleu; llefaru *neu* ddywedyd yn ddigryd; llefaru *neu* ddywedyd yn ddiarbed; llefaru *neu* ddywedyd allan ac nid dân ei ddannedd.
To speak unadvisedly—camddywedyd; dywedyd ar gam; llefaru *neu* ddywedyd yn fyrbwyll; llefaru *neu* ddywedyd yn ddigynghor.
That speaks perfectly—diledlef.
To speak of=*Mention, v.*
To speak a ship – llefaru wrth long; cyfarch *neu* anerch llong (ar y môr).
Why speak ye not a word?—pa ham yr ydych heb son (2 *Sam.* xix. 10)?

Speakable, *a.* traethadwy, hydraeth; llefaradwy, llafaradwy; llafarol, llefarol.

Speaker, *s.* llefarwr, llefarydd, llafarwr, llafarydd, ymadroddwr, siaradwr, siaradydd, parablwr, traethwr, dywedwr; areithiwr, areithydd.
Speaker of the house of commons—llefarydd ty y cyffredin; cadeirydd ty y cyffredin; geneu, tafod, llywydd, *neu* flaenor ty y cyffredin.

Speakership, *s.* llefaryddiaeth, cadeiryddiaeth; swydd llefarydd *neu* gadeirydd.

Speaking, *s.* llefariad, llafariad, llafarawd, llafaredigaeth, dywediad, &c.
Low-speaking—llafarfas; grymialus.
Evil-speaking=*Evil-speaking.*
Given to much speaking—siaradgar, dywedgar, chwedleugar; siaradus, llafarus; amleiriog, amlair.
The habit of much speaking, } dywed-
The propensity to much speaking, } garwch, siaradgarwch, siaradusrwydd; llafarwch.
It is not worth speaking of—ni thâl mo'r chwedleua am dano.

Speaking, *a.* llefarol, llafarol, llafaredigol, llafar; bywiog.
Speaking trumpet—llafargorn, corn llafar, udgorn llafar, llafar-udgorn, corn llafaru.

Spear, *s.* (S. *spear, spere;* Is. ac Al. *speer*) ysbêr, ysbâr, bêr, gwaew, gwaewffon, ffonwaew, rhaidd, pâr, rheinen, rhethren, rhethr, saffwy, ysgeth; tryfer: *pl.* rhain.
Fish-spear—tryfer, tryfer bysgota.
Spear-staff — paladr gwaew, bonllost, gwaewlorf.
Spear-head—blaen, dyflaen, pig, *neu* ben gwaew, &c.
King's spear—gwaew y brenin, cilgain.
Spear (of grass)—gwelltyn, blewyn.

Spear, *v. a.* trywanu *neu* wanu â gwaew, &c.;

Spear, *v. n.* twysenu, hedeg. [tryferu.

Spearer, *s.*=*Spearman.*

Spear-foot, *s.* troed ol pellaf ceffyl.

Spear-grass, *s.* gweunwellt anhyblyg.

Spear-hand, *s.* llaw yr ysbâr; llaw dde gwaewor; troed blaen de ceffyl.

Spearman, *s.* ffonwaewr, gwaewor, gwaewawr, gwaewr, rheiniwr, rheinydd, rheiniog, saffwyor, rhethrwr; tryferwr: *pl.* ffynwewyr, gwaewyr, rheinogion.
Rebuke the company of spearmen—cerydda dyrfa y gwaewffyn (*Salm* lxviii. 30).

Spearmint, *s.* ysber-fintys.

Spear-thistle, *s.* marchysgall, ysgall y blaidd, ysgall gwylltion: *sing.* marchysgallen, &c.

Spearwort, *s.* blaen y gwaew, poethffiam.
Lesser spearwort—blaen y gwaew lleiaf.
Greater spearwort—blaen y gwaew mwyaf.

Specht, } †*s.* delor y coed.
Speight, }

Special, *a.* (Ff.; Ll. *specialis*) neilltuol, penodol, enwedigol, enwedig, arbenig, gosbenol, hysbysol; dewisol; anghyffredin; unigol, unig.

Special,† *s.* peth neilltuol, &c.

Specialist, *s.* celfyddolwr, ymarferolwr; un ymarferol yn unig.

Speciality, *s.* neilltuoldeb, neilltuolrwydd; peth neilltuol: *pl.* neilltuolion.

Specialize,† *v. a.* crybwyll yn benodol; manwl nodi.

Specially, *ad.* yn neilltuol, &c.; bob un ac un; bob yn un ac un; yn anad dim; yn bendifaddeu.

Specialty, *s.* neilltuoldeb, neilltuolrwydd, penodoldeb; peth neilltuol, pwnc neilltuol, gwahanred; ammodrwym, ysgrifrwym, rhwymedigaeth.

Specie, *s.* (o *species*) arian bathol, arian bath, da bathol.
To pay in specie – talu arian bathol; talu arian parod.

Species, *s.* (Ll.) rhywogaeth, rhyw, rhywiogaeth; math, bath, sud, sut; rhith, rhithogaeth; hil, epil, cenedl; peth syml; arwydd.
Genus and species—rhyw a rhith; rhywogaeth a rhithogaeth; rhyw a chenedl; rhyw ac adryw; cynryw ac adryw; tylwyth a rhywogaeth; rhyw a math.

Specific, } *a.* (Ff. *spécifique*) rhywogaethol,
Specifical, } rhywiol; priodol, priod, penodol, ysbysol, hysbysol, neilltuol, enwedigol, enwedig, gwahanredol; parthol.
Specific gravity — priodbwys, pwysineb penodol, trymbwys penodol, dymgyrch penodol, llawryd priodol, llawrydiaeth.
Specific difference — rhywiolaeth, rhywiaeth.

Specific, *s.* priod feddyginiaeth, meddyginiaeth ysbysol; rhâl, rhaledd, gwahanred, peth penodol.

Specifically, *ad.* yn benodol, &c.; wrth y rhyw-iau.
Specificalness, *s.* penodoldeb, penodolrwydd, &c.
Specificate, *v. a.* enwi yn ol ei ryw *neu* rywogaeth; rhywogaethu; enwi wrth ei enw; enwi *neu* grybwyll yn benodol; gwahanredoli, penodi, ysbysoli, neilltuoli, penu, nodi.
Specification, *s.* rhywogaethiad; ysbysoliad, hysbysoliad, gwahanredoliad, penodiad, penodiaeth, neilltuoliad; enwad yn benodol; dosbeniad; crybwylliad neilltuol; y peth â grybwyllir *neu* à enwir.
Specificness, *s.* gwahanred, rhagornod; neilltuoldeb, penodoldeb, &c.
Specify, *v. a.* (Ff. *specifier*) enwi yn ol ei ryw; enwi wrth ei enw; enwi yn benodol *neu* yn neilltuol; penodi, ysbysoli, gwahanredu, gwahanredoli, neilltuoli, nodi; enwi, crybwyll, ysbysu.
Specimen, *s.* (Ll.) cynnrych, cynddrych, golygwel, cynllun, golygyn; llun i'w ddylyn; prawf, rhagbrawf; dangosiad; cynnyg; enghraifft, anghraifft; tamaid prawf.
Specious, *a.* (Ll. *speciosus*) golygus, ymddangosiadus, dangosiadus, lliwus; gwych; rhithweddol; wynebol, wynebdeg; teg yr olwg arno; hyfryd i'r olwg.
Speciousness, *s.* golygusrwydd, &c.
Speck, *s.* (S. *specca*) magl, mân, brycheuyn, ysmotyn, dos; gwadn esgid; lleden.
Speck, *v. a.* mànu, brychu, ysmotio; gwadnu esgid.
Speckle, *s.* (o *speck*) mènyn, brychyn, meglyn, ysmotyn bach, dosyn.
Speckle, *v. n.* mènynu, mànogi, brychynu, britho, manfritho, ysbrychu, brychu, ysmotio.
Speckled, *a.* mànog, brith, brych, manfrith, brithedig, dosawg, brycheulyd.
Speckled bird—aderyn brith.
Speckled serpent—sarff fraith.
A speckled one—manogen, un fraith, (*m.* un brith).
Speckledness, *s.* mànogrwydd, brithedd, manfrithedd.
Speckt,† *s.* delor y coed.
Spectacle, *s.* (Ff.; Ll. *spectaculum*) golwg, golygfa, drych, tebed; ysbeithell, gwydr golwg.
A spectacle to the world—drych i'r byd.
A pair of spectacles=*Spectacles.*
Spectacled, *a.* ysbeithellog; yn gwisgo ysbeithell,
Spectacles, *s. pl.* ysbeithell, gwydr golwg, golygwydr, drychwydrau.
Spectacular, *a.* golygfaol; perthynol i olygfèydd.
Spectant, *a.* (Ll. *specto*) ar syll (yr arfau bonedd).
Spectation, *s.* (Ll. *spectatio*) sylw, ystyriaeth, parch.
Spectator, *s.* (Ll.) edrychwr, edrychydd, golygwr, golygiedydd, gweladur, gweledwr, gweledydd, gwelidydd, golygydd, gwelwr, syllwr, syllydd, canfyddwr.
Spectatorial, *a.* perthynol i edrychwr, &c.; gweladurol, arolygol.
Spectatorship, *s.* golygwriaeth, edrychwriaeth; swydd edrychwr; edrychiad.
Spectatress, } *s.* edrychyddes, syllyddes, gwel-
Spectatrix, } adures, golygwraig, golygyddes.
Spectra, *s. pl.* (Ll.) lliwiau damweiniol, rhithwelion, tremrithiau.
Spectral, *a.* (o *spectra, spectrum*) rhithwelawl, tremrithiol.
Spectral, *a.* (o *spectre*) perthynol i ddrychiaeth; drychiolaethus; ysbrydaidd.
Spectre, *s.* (Ff.; Ll. *spectrum*) drychiolaeth, ellyll, ysbryd, anysbryd, gwagysbryd, lledrith, hugwd, tremyniad, aneilun, cyhyraeth.
Spectreology, *s.* drychioleg.
Spectrum, *pl.* Spectra, *s.* (Ll.) ffurf weledig; rhithwel, tremrith, golygrith; rhith, lledrith.
Specular, *a.* (Ll. *specularis*) drychiol; golygol.
Speculate, *v. n.* (Ll. *speculor*) myfyrio, ystyried, ystyrio; golygu, ystyried, *neu* chwilio peth yn dda ac yn ddyfal; rhoi, bwrw, taflu, *neu* droi ei feddyliau; golygiannu; sela, syllu, darsyllu; damcanu, amcanu, bwrw amcan; rhagolygu; chwilio peth yn y meddwl; edrych i mewn i beth; rhagsynied, brysyllu; rhagfasnachu; anturio, ymanturio.
Speculate,† *v. a.* ystyried yn fanwl.
Speculation, *s.* rhagolygiad, rhagolwg, golwg; golwg ar beth yn y meddwl; damcan, damcaniad, damcaniaeth; amcandyb; golygiad, golygiannaeth, golygiannad, rhagdremiad, brydsylliad, rhagolygiad; meddylfryd, myfyrdod, myfyrbwyll, dyfais y meddwl; rhaganturiaeth.
Speculatist, *s.* golygiannwr, golygiannydd, damcanwr.
Speculative, *a.* (Ff. *speculatif*) golygiannol, golygiadol, golygedigol, myfyriedigol; anwneuthuredigol; damcanol, damcaniadol, damcanedigol; edrychgar, tremyngar, selgar; myfyrgar, meddylgar; tybiedigol, tybiannol; anturiol, rhaganturiol; dychymygol.
Speculativeness, *s.* golygiannoldeb; edrychgarwch, &c.
Speculator, *s.* golygiannwr, golygiannydd; damcanwr; myfyriwr; sylwedydd, tremiydd, edrychwr; ysbeiennwr.
Speculatory, *a.* golygedigol, golygiannol, golygiadol; yn ymarfer â golygiannaeth.
Speculum, *s.* (Ll.) drych; adlewyrchydd; lledíadyr llawfeddyg.
Speech, *s.* (S. *spæc*) ymadrodd, iaith, tafodiaith, aeg; lleferydd, llafar, parabl; llafariad; araeth, arawd; traith, traeth, cynan, goddeg; adlais.
A form of speech—dull ymadrodd, dull yr ymadrodd; dull ar ymadrodd; ffurf ymadrodd.
Organs of speech—peiriannau ymadrodd, peiriannau yr ymadrodd, peiriannau llafar, gweinyddion ymadrodd, gweinyddion yr ymadrodd.
Parts of speech—rhanau ymadrodd.
Introductory speech—rhagaraeth, rhagarawd, cynaraeth, cynarawd, araeth ragarweiniol.
Fluent of speech—arodrydd, ffraeth.
To make a speech—areithio.
With much fair speech—â'i hanul eiriateg (*Diar.* vii. 21).
Rude in speech—anghyfarwydd ar ymadrodd.
Slow of speech—safndrwm, tafottrwm.
He has lost his speech—collodd ei leferydd: collodd ei oddeg.
Dark speech—ymadrodd tywyll; dameg.
To beg leave of speech—deisyfu cenad i lefaru.
And had an impediment in his speech—âg attal dywedyd arno (*Marc* vii. 32).

Speech,† *v. n.* areithio, ymadroddi.
Speechify, *v. n.* areithio, ymadroddi, ymadrodd.
Speeching, *s.* areithiad, ymadroddiad.
Speechless, *a.* mud, dilafar, aflafar; wedi y lleferydd; wedi colli ei oddeg; wedi colli ei ddywedyd.
Speechlessness, *s.* mudanrwydd, mudanaeth.
Speed, *v.* (S. *spedian*) brysio, dyfrysio, prysuro, cyflymu, ffrystio, ffullio, ebrwyddo, rhwyddo, ffestu, ffestinio, ffysgio, crysio; llwyddo, ffynnu, llwyddiannu, tycio; talmu; anfon ymaith ar frys; dyfetha, dinystrio.
To speed well—llwyddo, ffynnu; bod yn llwyddiannus; myned rhagddo yn rhwydd.
God speed you well—Duw yn rhwydd iti; hawddammor iti; rhwydd-deb i ti gàn Dduw; rhwydd-deb i chwi gàn Dduw; Duw a'ch llwyddo.
It has sped well—aeth rhagddo yn rhwydd *neu* yn hyrwydd.
Speed, *s.* brys, ffrwst, dyfrys, prysurdeb, ffull, ffysg, dychrys; cyflymder, cyflymdra, buander; llwydd, llwyddiant, ffynniant; chwaen.
On full speed—ar y gyrfäu gwyllt; ar y pedwarcarnau gwyllt; ar y carlam gwyllt; ar garlam gwyllt; ar y cerhynt gwyllt; ar frys gwyllt; yn nerth y carnau.
To put a horse to the speed—rhoi march *neu* geffyl ar y gyrfäu; rhoi march *neu* geffyl ar y pedwarcarnau.
With what speed he could—cynted ag y gallai; cynted byth ag y gallai; gyntaf ag y gallai; yn gyntaf ag y gallai; er cynted ag y gallai; cyn gynted ag y gallai; yn gyttrym ag y gallai; ar ei ysgrûth.
To make speed—brysio, prysuro, &c.
Speedful, *a.* llawn brys, bryslawn, brysiog, ffulliog.
Speediness, *s.* buander, buandra, buanedd, cyflymder, cyflymdra, cyflymedd, ebrwyddedd, &c.; brys, dyfrys, ffull.
Speedless, *a.* difrys, afrys; heb frys arno.
Speedwell, *s.* (*speed* a *well*) rhwyddlwyn, llysiau Llewelyn.
Male speedwell—gwrnerth, rhwyddlwyn meddygol, ieudawdd.
Smooth speedwell, Paul's betony, } rhwyddlwyn gruwddail.
Water speedwell—graianllys y dwr.
Narrow-leaved speedwell — rhwyddlwyn culddail y gors.
Mountain speedwell—rhwyddlwyn mynyddol.
Germander speedwell, Wild germander, } rhwyddlwyn blewynog.
Procumbent speedwell, Germander chickweed, } rhwyddlwyn gorweddol.
Wall speedwell, Speedwell chickweed, } mur-rwyddlwyn, rhwyddlwyn y fagwyr.
Ivy-leaved speedwell, Small henbit, } rhwyddlwyn eiddew-ddail.
Speedy, *a.* (o *speed*) buan, cyflym, ebrwydd, brysiog, brysiol, dyfrysgar, brysgar, prysur, chwimmwth, chwyrn, brys, ffysgiol, ffulliog, chwai, ffest, mwth, pres, prest, clau.
Speet,† *v. a.* (Al. *speeten*) gwanu, trywanu.
Speight,† *s.* delor y coed, cnocell y coed, coblyn y coed.

Speiss, Speise, } *s.* (Al.) math o nicl.
Spelful, *a.* (*spell* a *full*) llawn rhiniau, llawn swynion, swynog, cyfareddog, rhiniawg.
Spelk, *s.* hollten, ysgyren, fflochen.
Spell, *s.* (S. *spel, spell*) swyn, cyfaredd, rhin, swyngyfaredd, swynogl, swyn-gan, hudoliaeth, hud, gorchan; siâs *neu* chwyl o waith; tro; †chwedl.
Spell, *v.* (S. *spellian;* Is. *spellen*) sillio, silliadu, sillebu, sillafu, llythyrenu, llythyru; swyno, rhinio, swynogli; cymmeryd ei dro, ei siâs, *neu* ei chwyl; cyfnewid ar gylch; †adrodd; †dysgu.
Spell-bound, *a.* swynedig; rhwym megys gàn swyn *neu* gyfaredd.
Speller, *s.* sillebydd, sillebwr, silliadwr, silliedydd, sillydd, sillwr, sillafwr.
Spellers (in heraldry)—mân geinciau corn hydd.
Spelling, *s.* silliad, sillebiad, sillafiad, silliedigaeth.
The art of spelling—silliedigaeth, sillyddiaeth, celfyddyd sillafu.
Spelling-book, *s.* silliadur.
Spelt, *s.* (S. *spelte;* Al. *spetz*) gwenith yr Almaen.
Spelt,† *v. a.* (Al. *spalten*) holltì; tori.
Spelter, (Al. ac Is. *spiauter*) afryttel; sinc=math ar ddelid gwŷn.
Spence,† *s.* (hen Ff. *dispense*) bwytty, bwydgell.
Spencer,† *s.* (o *spence*) ceidwad bwytty, bwydgellwr.
Spencer, *s.* (oddi wrth yr Iarll *Spencer*) corbais, corgoban, siaced gota, spenser.
Spend, *v.* (S. *spendan;* Ll. *expendo*) treulio, gwario; gwastraffu, afradu, afradloni; difa; hèla; bwrw; blino.
To spend time—treulio amser, hèla amser.
To spend riotously—gwastraffu, afradu, glythinebu, wttresu.
To spend and be spent—treulio ac ymdreulio.
Ill got, ill spent—à gaegler ar farch Malen, dàn ei dor ydd â.
That cannot (easily) be spent—anhydraul.
Easily spent, Easy to be spent, } hydraul; hawdd ei dreulio.
The night is far spent—y nos a gerddodd yn mhell.
And when the day was now far spent—ac yna wedi ei myned hi yn llawer o'r dydd.
Now when much time was spent—ac wedi i dalm o amser fyned heibio.
Spender, *s.* treuliwr, treulydd, treuliedydd; gwastraffwr, &c.
Spending, *s.* treuliad, gwariad, gwastraffiad, &c.
Spendthrift, *s.* (*spend* a *thrift*) gwastraffwr, afradyn, afradlonwr, un afradlawn, oferddyn.
Sper, Sperr, } † *v. a.* cau i mewn; cynnal, attegu.
Sperable,† *a.* (Ll.) gobeithiadwy.
Sperage, *s.* (Ll. *asparagus*) merllys, gwillon, llysiau y dyfrglwyf.
Sperate,† *a.* (Ll. *speratus*) gobeithiedig; y gobeithiwyd am dano.
Spere, *s.* ffedon *neu* wasgodlen ar ben isaf ciniawgell gynt.
Spergula, *s.* (Ll. *spergo*) troellig.

Sperm, *s.* (Gr. a Ll. *sperma*) had (y cenedlerpeth o hono), anian, rhith, rhid; grawn, grifft. [farch.

Spermaceti, *s.* (Ll. *sperma* a *cetus*) anian mor-Spermaceti whale—y morfil gwŷn.

Spermacose, } *s.* botymlys.
Spermacoce, }

Spermaphore, *s.* (Gr. *sperma* a *phoreô*) hadrithai (mewn planigion).

Spermatic, } *a.* Gr. (*spermaticos*) hadol, hadog,
Spermatical, } rhidiog.

Spermatize,† *v. n.* rhoi had.

Spermatocele, *s.* (Gr. *sperma* a *cêlê*) chwydd yr hadlestri.

Spermatozoa, *s. pl.* (Gr. *sperma* a *zôon*) hadrithion, hadbonos.

Spermidium, *s.* (Gr. *sperma*) hadlestryn.

Spermoderm, *s.* (Gr. *sperma* a *derma*) hadwisg, gwisg had.

Sperm-oil, } *s.* olew morfarch, olew
Spermaceti oil, } morfil.

Spermologist, *s.* (Gr. *sperma* a *logos*) hadofydd.

Spermophaga, *s. pl.* (Gr. *sperma* a *phagô*) hadysolion.

Sperse,† *v. a.*=*Disperse.*

Sperver, *s.* attegwydd ar ben gortho.

Spet,† *v. a.* poeri; cyfogi.

Spet,† *s.* poer.

Spew, *v.* (S. *spiwan*; Is. *spuwen*) chwydu, cyfogi, gloesi, gloesio; dislyncu; bwrw i fyny; ymgyfogi.

Spewer, *s.* chwydwr, cyfogwr.

Spewing, *s.* chwydiad, cyfogiad, gloesiad, cyfog.

Spewy, *a.* gwlyb, gwlyborllyd; niwlog.

Sphacel, } *s.* (Gr. *spacelos*) madredd, braen,
Sphacelus, } eig marw; braeniad asgwrn.

Sphacelate, *v.* braenu, madru, madreddu, pydru.

Sphacelate, *a.* braen, braenedig, madreddog, pwdr.

Sphacelation, *s.* braeniad, madriad, madreddiad, pydriad.

Sphacelism, *s.* braen, braenedd, madredd; fflameg yr ymenydd.

Sphærulite, *s.*=*Spherulite.*

Sphagnous, *a.* (Ll. *sphagnum*) mysoglog, mysoglyd, mysynog.

Spagnum, *s.* (Ll.) migwyn, corsfwsnn.

Spene, *s.* (Gr. *sphên*, cŷn) cynfaen.

Spenoid, *a.* (Gr. *sphên* ac *eidos*) cynaidd, geingaidd; ar lun cŷn; ar ddull gaing.

The sphenoid bone—asgwrn bon yr iad.

Sphere, *s.* (*Ff.*; Ll. *sphæra*; Gr. *sphaira*) cronen, cronell, cron, pel, pellen, pelen, bwl, bwlyn; planed; un o'r bydoedd fry; nen; rhod; troell, troellen; cylch; cyrhaedd, cylch, *neu* gyrhaedd-gylch gwybodaeth un; swydd, swydd-gylch, *neu* swyddogaeth un; y lle *neu* y cylch y bo un yn troi ynddo; maes.

Ethereal sphere—nwyfre, arnwyfre, nwyfreant, cylch y gwynaint.

In one's own sphere—yn ei gylch, ei swyddgylch, ei barthle, ei symmudle, ei droellen, *neu* ei radd ei hun; yn nghylchedd ei le ei hun; o fewn cyrhaedd *neu* gylch ei swydd ei hun.

That affair is out of my sphere—ni pherthyn mo'r peth *neu* y mater hyny i mi; nid yw mo'r mater hwnw o fewn fy swyddgylch i; y mae y mater hwnw uwch mesur fy neall i; y mae y mater hwnw allan o *neu* tu hwnt i gyrhaedd fy neall i.

Sphere, *v. a.* crynhau, crŷnu; gosod mewn rhod *neu* gylch.

Spheric, } *a.* crwn, cynghrwn. cyfrgrwn;
Spherical, } pellenog, pellenaidd, pelenog; cronellaidd, cronenaidd, cronellog; crynaidd; planedol; perthynol i'r bydoedd fry: *f.* crog, cynghron, cyfrgron.

Spherically, *ad.* ar lun cronen; yn grwn, &c.

Sphericalness, } *s.* crynder, cynghrynder, cyfr-
Sphericity, } grynder, crwmach.

Spericle, *s.* cronellen, cronen fechan.

Spherics, *s.* cynghrynaeth.

Spheroid, *s.* (Gr. *sphaira* ac *eidos*) gogronen, gogronell, gobel.

Oblate spheroid—llethgronen, llethgronell, gogronen lethgron, gogronell lethbegynol.

Oblong spheroid, } hirgronen, gogronen
Prolate spheroid, } hirgron, gogronell hirgron.

Spheroidal, }
Spheroidic, } *a.* gogrwn, gogynghrwn, llethgrwn: *f.* gogron, llethgron.
Spheroidical, }

Spheroidity, *s.* llethgrynder, gogrynder.

Spherometer, *s.* (Gr. *sphaira* a *metron*) crynfesur, cronfydrai.

Spheroseiderite, *s.* (Gr. *sphaira* a *sidêros*) llosgwydraidd.

Spherule, *s.* (Ll. *sphærula*) cronellan, cronell fechan, cronen fechan, crynyn, pelen, pelenog.

Spherulite, *s.* pelfaen.

Sphery, *a.* perthynol i'r bydoedd fry; crwn, cyfrgrwn, cynghrwn.

Sphigmometer, } *s.* (Gr. *sphugmos* a *metron*)
Sphygmometer, } offeryn i fesur cur neu redgur y rhydwelïau; curfydrai, curfesur.

Sphincter, *s.* (Gr. *sphiggô*) tyn-gyhyr.

Sphinx, *s.* (Gr. a Ll.) geufil, bunfil; anghenfil: Sphinca=anghenfil dychymygol yr Aifft, ag iddo gorff llew, ac wyneb morwyn, neu ben hwrdd.

Sphragid, *s.* (Gr. *sphragis*) daiar Lemnos.

Sphragistics, *s.* (Gr. *sphragis*) selofyddwaith, athrawiaeth seliau.

Sphygmometer, *s.*=*Sphigmometer.*

Spial,† *s.* (o *spy*) ysbïwr, ysbeienddyn, ysbeiennwr.

Spicate, *a.* (Ll. *spicatus*) twysenog, twysog.

Spica Virginis, *s.* (Ll.) Twysen y Forwyn=arwen gynfaint yn nghydser y Forwyn.

Spice, *s.* (Ff. *epice*; It. *spezie*) perlysiau, cyfrynau per, per gyfferi; llysiau marchnad, llysiau; peraroglau, aroglau, llysogl, llysoglau); perion; chwaethon; peraeth chwaeth; rhogl, ogl; blesyn, cywair; nawsSpices—perlysiau, &c.

Spice of a disease—naws *neu* anian clefyd.

Spice, *v. a.* cyweirio, pereiddio, blasuso, rhoi dymmeru â pherlysiau; perlysieuo, llysieuo, chwaethoni; nawsio; cyweirio, pereiddio; lledneisio.

Spice, *s.* (Ff. *espèce*) cynnrych, cynlluniau, enghraifft.

Spiced, *p. p.* perlysieuog; llysieuog; peraroglus; chwaethog.

Spicer, *s.* perlysieuydd, perlysieuwr, llysegwr; cyweiriwr â pherlysiau; gwerthwr cyfferi persawr.

Spicery, *s.* perlysiau, llysiau per, llysoglau, &c. perlysieufa, ystorfa perlysiau.

Spice-wood, *s.* chwaethonwydd.

Spiciness, *s.* perlysieuogrwydd; perarogledd, perarogl.

Spick and span, *a.* (It. *spicco*) tanlli, tanllyd, dysglaer, llachar.

Spick and span new—newydd tanlli, newydd tanlliw, newydd danlli, newydd danlliw.

Spicknel, *s.*=*Spignel.*

Spicosity,† *s.* (Ll. *spica*) twysogrwydd, twysenogrwydd; pigfeinedd.

Spicular, *a.* (Ll. *spiculum*) picellaidd; ar lun picell *neu* bilwrn; picellog, pilyrnog.

Spiculate, *v. a.* (Ll. *spiculo*) pigfeinio, blaenllymu, piglymu.

Spicule, *s.* (Ll. *spiculum*) twysenig.

Spicy, *a.* (o *spice*) perlysieuog, llysieuog; chwaethog; peraroglus, peraroglaidd, aroglber, sawyrber, safwyrus; gwych, gorwych, golygus, trwsiadus, hardd, tlws.

Spider, *s.* (Is. *spinne;* Sw. *spindel;* Al. *spinner*) pryf copyn, còr, còryn, copyn, cyffiniden, adrop, adargop, cob; trybedd.

Water spider—copyn y dwfr, carw y dwfr, march y dwfr, gafr y dwfr.

Spider's web—gwe y còr, gwe y copyn, gwe y pryf copyn, adargopwe, adropwe, copynwe, cobwe.

Long-legged spider—hirheglyn.

Gossamer spider—còryn y gwawn, copyn y gwawn.

Spiderlike, *a.* tebyg i'r pryf copyn; fel y còryn; copynaidd.

Spiderwort, *s.* brwynddail y mynydd.

Spignel, *s.* ffenigl Elen Lueddog, amranwen Elen Lueddog.

Spigot, *s.* (o'r C. yn ol *Webster*) ysbigod, pin.

Spike, *s.* (C. *ysbig;* Ll. *spica*) cethr, cethren, hoel fawr, hoel hir, hoel; twysen, (*pl.* twys, twysenau); saffar, ysbig, pwyniad; ysgwr; coliant.

Spike, *s.* llafant, lafant.

Spike, *v. a.* cethru; hoelio â chethri; hoelio; blaenllymu, pigfeinio, ysbigo, pwynio.

To spike a cannon, } cethru cyflegr;
To spike up a cannon, } gyru cethr yn nhandwll cyflegr; cethru gŵn rhyfel.

Spikelet, *s.* (bych. o *spike*) twysenig; safferyn.

Spikenard, *s.* (Ll. *spica nardi*) codowydd, yspicnard, nard.

Ploughman's spikenard—codowydd, meddyg Mair, meddyg y bugail.

Spiky, *a.* cethrog, blaenllym, pigfain.

Spill, *s.* (D. *spil;* Al. *spille*) pin, dernyn, dryllyn; †ychydigyn, ysbilyn, ysbil.

A spill of money† — ysbilyn, dryllyn, *neu* ychydigyn o arian.

Spill, *v.* (S. *spillan*) tywallt, colli, dynĕu, dywallaw, tywalltu; niweidio; dyfetha, dinystrio; gwastraffu, dywalltrain, afradu; dyfergolli.

To spill blood — tywallt gwaed, dynĕu gwaed.

Spiller, *s.* tywalltwr, tywalltydd, tywalltiedydd; llinyn pysgota.

Spill-water, *s.* lle i'r dwfr golli drosodd.

Spilth,† *s.* (o *spill*) peth à dywallter.

Spin, *v.* (S. *spinnan*) nyddu; trei yn sidyll, chwildroi, sidellu, ffillio; gohirio, oedi, estyn.

To spin out time — gohirio amser, oedi amser.

To spin out (a discourse, &c.)—nyddu allan, estyn allan.

To spin out (as blood, &c.)—ffreuo allan, ffrydio allan, pistyllio allan; llifo yn fain.

To spin hay—nyddu gwair, rhaffu gwair.

Spina, *s.* (Ll.) draen, dreinen; pig, ysbig, ysbin.

Spinaceous, *a.* (o'r Ll. *spinacia*) perthynol i'r nyddoes *neu* bigoglys.

Spinach, } *s.* (Ll. *spinacia, spinachium*) pigog-
Spinage, } lys, ysbigoglys, pigawglys, pigoga, ysbigawglys, nyddoes.

Spinal, *a.* (Ll. *spinalis*) perthynol i asgwrn y cefn.

Spinal marrow, } madruddyn y cefn, mwyd-
Spinal cord, } yn y cefn, pabwyryn y cefn.

Spindle, *s.* (o *spin;* S. a D. *spindel*) gwerthyd; echel; rhodell; ysbigod; pin; broes; gwaell; canolbost grisiau; gwerthydaid.

Spindle-bone of the leg—gwaell y goes.

Spindle, *v. n.* tyfu yn fain; rhedeg yn fain; bod yn hirfain.

Spindle-legs, } *s.* dyn coesfain, un coeshir,
Spindle-shanks, } un hirfain, hirian.

Spindle-shanked, *a.* coesfain.

Spindle-tree, *s.* piswydden: *pl.* piswydd.

Spindling, *a.* hirfain.

Spine, *s.* (Ll. ac It. *spina*) asgwrn y cefn, glain y cefn, asgwrn cefn, glain cefn; tumon; rhac; ysbin; crimog; draen, pig.

Spinel, }
Spinelle, } *s.* (It. *spinella*) pigruddem.

Spinescent, *a.* (o *spine*) yn tyfu yn galed ac yn bigog.

Spinet, *s.* (It. *spinetta*) organ dannau, cyweirdant.

Synthetical, } *a.* cyfosodol, cydosodol; cyfunol.

Synthetize, *v. a.* cyfosodi, cyfosod, cyfuno.

Syntomy, *s.* (Gr. *suntomia*) byrdeb, byrder, byrdra; crynodeb.

Syntonic, *a.* (Gr. *sun* a *tonos*) cyttonig, cynhonig.

Syphering, *s.* gosod ymyl y naill blanc yn heblaw ar ymyl planc arall.

Syphilis, *s.* (anhysbys) llosglwyf, anlladwst, poethwst, poethglwyf, y frech fawr, haint y frythyllwch.

Syphilitic, *a.* perthynol i'r llosglwyf; llosglwyfus, poethglwyfus.

Syphiloid, *a.* (*syphilis*, a Gr. *eidos*) tebyg i losglwyf; llosglwyfaidd, poethglwyfaidd, poethystaidd.

Syphon, *s.*=*Siphon.*

Syren, *s.*=*Siren.*

Syringa, *s.* (Gr. *surigx*) y pibwydd.

Syringe, *s.* (Gr. *surigx*) chwistrell.

Syringe, *v. a.* chwystrellu, saethu dwr.

Syringotomy, *s.* (Gr. *surigx* a *temnô*) trychiad rhedlynor.

Syrinx, *s.* (Gr.) pibell, pibell Pan; chwistrell; rhedlynor, piblynor.

Syrt, } *s.* (Ll. *syrtis*) sugndraeth, traeth byw,
Syrtis, } traeth sugn, llecyn; cors, mignen.

Syrtic, *a.* perthynol i sugndraeth; corsog; tywodlyd.

Syrup, *s.* (Ff. *syrop*; Ll. *sirupus*)=*Sirup.*

Syruped, *a.*=*Siruped.*

Syrupy, *a.*=*Sirupy.*

Systaltic, *a.* (Gr. *sun* a *staltikos*) yn ymgrebychu ac yn ymledu beb yn ail.

Systasis, *s.* (Gr. *sustasis*) cydsafiad, cyssafiad; cyfansoddiad.

System, *s.* (Gr. *sustêma*; Ff. *système*) cyfundrefn, cyfundraith, trefniant, dosbarth, cyttrefn, cyttrefniant, deseb, trefn; corff; corff cyfan; corff cydsaf; trefn a dosbarth; cyfansoddiad; cydwedd; cyssawd; des.

Feudal system=*Feudal system* (d. g. *Feudal*).

Solar system=*Solar system* (d. g. *Solar*).

Osseous system—cyfundrefn yr esgyrn, y gyfundrefn esgyrnol, y dosbarth esgyrnol, y trefniant esgyrnol.

Muscular system—cyfundrefn y gewynau, y gyfundrefn ewynol.

A system of divinity—corff o dduwinyddiaeth; cyfundrefn o dduwinyddiaeth, &c.; cyfundraith dduwinyddol.

Systematic, }
Systematical, } *a.* cyfundrefnus, cyfundrefnol, cyfundreithiol; rheolaidd, trefnus, cyttrefnol, trefniannol, dosbarthus; yn ol cyfundrefn, &c.; wrth reol a threfn; wrth drefn a dosbarth; trefnwych; cyssodol.

Systematically, *ad.* wrth reol a threfn; wrth drefn a dosbarth; yn gyfundrefnus, &c.

Systematism, *s.* desebiaeth, cyttrefnaeth.

Systematist, }
Systematizer, } *s.* cyfundrefnwr, cyfundrefnydd, trefniawdr, cyttrefniawdr.
Systemizer, }

Systematize, }
Systemize, } *v. a.* trefnu, trefniadu, trefnianu, cyfundrefnu, cyttrefnu, trefnoli, trefnuso; dwyn dân drefn a dosbarth; gwneuthur trefn ar; cydweddu, cydweddiadu.

Systematology, *s.* traethawd ar wahanol gyfundrefnau; dosbartheg.

Systemic, *a.* perthynol i gyfundrefn, &c.; rheolaidd, cyfundrefnol.

Systole, *s.* (Gr. *sustolê*) cywasgiad; crybychiad, cwtogiad; byrhad hirsill; crybychiad *neu* ymgrynoad y galon (i wasgu allan y gwaed i'r prif wythenau).

Systolic, *a.* crybychol; ymgrynoawl.

Sythe, *s.*=*Scythe.*

Systyle, *s.* (Gr. *sun* a *stulos*) adail dew-golofnog.

Syxhendeman, *s.* gwr gwerth 600 swllt (yn amser yr hen Saesoniaid).

Syzygy, *s.* (Gr. *suzugia*; Ll. *syzygia*) cynghyswllt; cyswllt *neu* gyferbyniad dau o'r cyrff wybrenol; cyswlltiad gwahanol gorfanau (mewn mydr Groeg neu Ladin); cydgorfaniad.

T.

Tab, *s.* carai; pwyntl; cwpan; cap.

Tabard, Taberd, Tabert, Tabeld, *s.* (Ll. drosgl, *tabardum*; Ff. *tabarre*; C. *tabar*) tabar; pais arwyddfardd=math o dwyg neu fantell, arferedig yn yr amseroedd gynt.

Tabarder, *s.* tabarwr; un à wisgo dabar.

Tabardeers, *s. pl.* tabarwyr, tabarogion=ysgoleigion yn Rhydychain à wisgent y tabar.

Tabaret, *s.* nwydd sidan llinellog, pali brith.

Tabbinet, *s.* sidan meinwe troellog, tonwe feinwych.

Tabby, *s.* (Ff. *tabis*; Ysp. ac It. *tabi*) sidanwe droellog, droellenog, *neu* dònog; sidanwe â gwaith tònau arni; tonwe; cath; heu ferch, hen lances; cymŕwd Morocco.

Tabby, *a.* troellog, troellenog, tònog; â gwaith tònau arno; â gwaith tònog arno; brith, brych.

A tabby cat—cath lwyd droellog, cath droellenog, cath droell-rengog.

Tabby, *v. a.* troellogi, troelli, troellenu, tonogi; gwau yn droellog.

Tabbying, *s.* troelleniad, troelliad.

Tabefaction, *s.* (Ll. *tabeo* a *facio*) nychdod, darfodedigaeth, darfodiant, llifiant; nychiad, treuliad.

Tabefy, *v. a.* (Ll. *tabeo* a *facio*) nychu, treulio, gwisgo, curio; teneuo; llifo; ysgafnhau; darfod; ysu.

Tabellion, *s.* (Ff.; Ll. *tabellio*) ysgrifeniedydd.

Tabern, *s.* cell, syler.

Tabernacle, *s.* (Ll. *tabernaculum*) pabell; preswylfa; cyfannedd.

The feast of tabernacles—gŵyl y pebyll.

Tabernacle work—pabell-waith.

Tabernacle, *v. n.* pabellu, pebyllio, ymbabellu, ymbebyllio; trigo mewn pebyll; trigo, cyfanneddu, preswylio, anneddu.

Tabernacular, *a.* delltog.

Tabes, *s.* (Ll.) nychdod, darfodedigaeth, nychiant, nych, sychnychdod, sychnych, hirnych.

Tabetic, *a.* â nychdod arno; mewn nychdod; nychlyd.

Tabid, *a.* (Ll. *tabidus*) nychlyd, mewn nychdod, mewn nych; darfodedigol; à fo yn treulio ymaith gàn nychdod.

Tabinet, *s.*=*Tabbinet.*

Tabitude, *s.* (Ll. *tabitudo*) nychlydrwydd; nychdod.

Tablature, *s.* (o *table*) tablun, murdeblun; darlun *neu* baentwaith ar fur, &c.; tafleniad.

Table, *s.* (Ff.; Ll. *tabula*) bwrdd, bord; clawr; llech; llechfaen; tafien, tafwlan; llechres, mynegai, dangoseg; bidran; cledr *neu* dor llaw; bordaid, byrddaid; y gwŷr wrth y ford, y fordaid wŷr; llafn, llafon; tafell; darlun; gwyddbwyll, tabler; tab.

A little table, A small table, bord fechan, bordan, bwrdd bychan.

The upper table (in a hall)—talford, talfwrdd.

Writing-table—ysgrifiech; argraffiech.

Counting-table—cyfrifiech, rhifiech, bwrdd cyfrif, bord gyfrif.

The table of the hand—tor *neu* gledr y llaw.

Gaming table—bwrdd chwareu, chwareufwrdd, bwrdd hapchwareu.

The tables are turned—aeth y chwareu yn ein herbyn; dymchwelwyd y byrddau; trowyd y byrddau.

The table was all in a roar—yr oedd y ford *neu* y bwrdd oll yn un greehwen.

The table (the company sitting at it)—y ford, y fordaid, y byrddaid, y fordaid wŷr, y gwŷr wrth y ford; nifer y gwesteion.

Upon the table of thine heart—ar lech dy galon.

Round table—bwrdd crwn, bord gron.

Twelve tables—y deuddeg llech=cyfreithiau y weriniaeth Rufeinig.

Table, *v.* byrddio, byrddu, bordio; tafleu; cofnodi, llechreu, cofrestru; gosod neu ddodi ar fwrdd.

Tableau, *s.* (Ff.) darlun; darlun byw; darlun i'r bywyd; heiblun.

Tableaux vivants (Ff.)—darluniau byw; heibluniau byw.

Table-bed, *s.* bord-wely, byrdd-wely, gwely ar lun talford.

Table-beer, *s.* bordlyn, byrddlyn, ail ddiod, dïod ail, dïod y ford, dïod fain.

Table-bell, *s.* cloch fwrdd, cloch y ford.

Table-book, *s.* llechlyfr; nodlyfr; coflyfr.

Table-cloth, *s.* llian bwrdd, llian bord, llian bwyd, byrddllïan, bordllïan, bwydllïan.

Table-cover, *s.* gorchudd bwrdd, llèn bwrdd, tudded bwrdd, &c.

Table d'hote, *s.* (Ff.) bwydfa gyffredin, ciniawfa gyffredin, bwrdd cyffredin.

Tableful, *s.* byrddaid, bordaid.

Table-land, *s.* gwastattir uchel, ucheldir gwastad, uchel wastadedd: *pl.* uchel wastadoedd, ucheldiroedd gwastad, &c.

Table-linen, *s.* llian bwrdd, llian bord, llïan bwyd; llieiniau bwrdd.

Table-man, *s.* un o werin yr wyddbwyll, gwr tabler.

Table-money, *s.* arian bwrdd, arian bord.

Tabler, *s.* byrddiwr.

Tables, *s. pl.* byrddau, &c.; gwyddbwyll, tabler.

Table-shore, *s.* traeth isel gwastad.

Table-spar, *s.* llechysgor.

Table-spoon, *s.* llwy fwrdd, llwy ford.

Table-spoonful, *s.* llwyaid llwy fwrdd, llonaid llwy fwrdd, llwyaid fwrdd, llwyaid ford.

Table-sport, † *s.* difyrwch wrth y bwrdd.

Tablet, *s.* (o *table*) tafien; llechen, llech; clawr; tafell; darn petryal, pedroryn; agalen.

Monumental tablet—coflech.

Writing-tablet—ysgrifiech; argraffiech.

Table-talk, *s.* siarad wrth y bwrdd, ymddyddan wrth y ford; siaradach; ymddyddanion.
Tabling, *s.* tafleniad; byrddiad.
Taboo, *s.* gwahardd, gwaharddiad, gwaharddeb (yn ynysoedd y Môr Tawel).
Taboo, *v. a.* gwahardd, gwarafun, gwardd; gwahardd arferu; gwarafun dyfod at *neu* i.
Tabor, } *s.* (hen Ff. *tabour;* Gw. *tabar;* C.
Tabour, } *tabwrdd*) tabwrdd.
Tabor, } *v. n.* tabyrddu; curo *neu* bwyo y tab-
Tabour, } wrdd.
Taborer, }
Tabourer, } *s.* tabyrddwr.
Taboret, }
Tabouret, } *s.* tabyrdden, tabwrdd bychan.
Taborine, } *s.* (Ff. *tabourin*) tabyrddell, rhugl-
Tabourine, } en, tympan.
Tabouret, *s.* (Ff.) eisteddfa heb fraich na chefn iddi.
Tabrere,† *s.* tabyrddwr.
Tabret, *s.* (*o tabor*) tympan, tympanell.
Tabular, *a.* (Ll. *tabularis*) taflenol; llechresol; eiddo taflen *neu* lechres; byrddol; tafellog, dalenog, llafnog; à osodwyd yn betryalau.
Tabulate, *v. a.* taflenu, llechresu.
Tabulation, *s.* tafleniad, llechresiad; byrddiad.
Tace, *a* (It.; Ll. *taceo*) dystaw.
Taces, *s. pl.* (anhysbys) arfwisg y forddwyd, morddwydwisg.
Tach, } *s.* (Gw. *täca;* Llyd. *tach*) bach, bech-
Tache, } yn, gafael; dolen; terch.
Tachometer, *s.* (Gr. *tachus* a *metron*) brysfesur, brysfeidyr.
Tachydidaxy, *s.* (Gr. *tachus* a *didachê*) ffordd fêr i gyfranu addysg.
Tachygraphic, } *a.* (Gr. *tachus* a *graphô*)
Tachygraphical, } brysysgrifol, byrysgrifol; perthynol i fyrysgrifiaeth.
Tachygraphy, *s.* brysysgrifiaeth, byrysgrifiaeth, byrysgrif, berysgrif, llaw fêr.
Tacit, *a.* (Ll. *tacitus*) dystaw, disn, tawedog, termud; a'r ni sonier am dano; dirgel ddystaw; à gesglir oddi wrth amgylchiadau ac nid oddi wrth eiriau.
Tacit consent—cydsyniad dystaw, cydsyniad disn; cydsyniad o ddystawrwydd.
Taciturn, *a.* (Ll. *taciturnus*) tawedog, termud, dystaw, dywedwst, disiarad, ansiaradus, disn.
Taciturnity, *s.* (Ll. *taciturnitas*) tawedogrwydd, termudrwydd, termudedd, dystawrwydd, dibrestledd.
Tack, *v. a.* (Gr. *tassô;* Ff. *attacher;* Ysp. *atacar*) corhoelio, hoelio, brashoelio; cyssylltu, sicrhau; pwytho, brasbwytho; rhoi *neu* ddodi pwyth yn mheth; gogydio.
Tack, } † *s.* (Ff. *tache*) ysmotyn, magl, mân.
Tacke, }
Tack, *s.* (Gw. *taca;* Llyd. *tach*) corhoelen, corhoel; pwyth, brasbwyth; rhaff godre hwyl; godre blaen hwyl; hwyl, plyghwyl; hwyldro, gwyrhynt; hwyldroad llong.
Upon the tack—ar y gwyrhynt.
To hold tack—dàl allan; dàl ati; parhau hyd yr eithaf; parhau hyd y diwedd; dàl y tant.
To hold one tack—dàl wrth un; dàl y tant âg un; dàl yn dyn yn erbyn un; rhoi i un waith i'w wneuthur; rhoi i un ei lawn-waith.
Tack of a flag—rhaff lluman llong.
Tack, *v. n.* hwyldröi; plyghwylio; gwyrhyntio; newid yr hynt.
To tack about—gwyro hynt llong; newid yr hynt; troi yr hwyl *neu* yr hwyliau; newid ei arfaeth, ei fwriad, ei amcan, *neu* ei farn; troi yn y tres.
Tack, *s.* astell i ddàl caws.
Tacker, *s.* corhoeliwr; cyssylltydd, chwanegwr.
Tacket, *s.* corhoelen, hoel fechan.
Tacking, *s.* hwyldroad, plyghwyliad, gwyrhyntiad; newidiad yr hynt.
Tackle, *s.* (C. *tacl;* Is. ac Al. *takel*) tacl; taclau, offer, trec, celfi; saeth.
Tackle-fall—rhaff tacl llong.
Tackle, *v. a.* taclu, trecio; †dàl.
Tackling, *s.* taclau llong; taclau, trec, cêr, celfi, offer.
To look well to one's tackling—edrych yn ofalus ar ei orchwylion *neu* ei faterion; gwylio yn ofalus dros ei orchwylion *neu* ei faterion.
To stand to one's tackling—sefyll *neu* ddàl wrth ei fater; sefyll yn lew dros ei fater *neu* ei achos; sefyll yn lew yn mhlaid ei achos *neu* ei fater.
Tack-wind, *s.* asgellwynt, ystlyswynt; lleddfwynt.
Tact, *s.* (Ll. *tactus*) teimlad, teiml; cyffwrdd, cyffyrddiad.
Tact, *s.* (D. *tagt*) medr, hyfedredd, callder; llaw neilltuol ar *neu* at beth.
Tactable, *a.* teimladwy, hydeiml.
Tactic, } *a.* (Gr. *tacticos*) cadofyddol, cat-
Tactical, } trefnol; perthynol i fyddiniaeth *neu* gadofyddiaeth.
Tactician, *s.* cadofydd, cattrefnwr; triniwr *neu* drefnwr medrus.
Tactics, *s.* cadofyddiaeth, byddiniaeth, cattrefniant; cattrefn.
Military tactics—cadofyddiaeth filwrol.
Naval tactics—cadofyddiaeth lyngesol.
To change one's tactics—newid ei gattrefn; newid trefn ei fyddin; newid ei drefn; newid ei gynllun; newid ei chwareu.
Tactile, *a.* (Ff.; Ll. *tactilis*) teimladwy, hydeiml, hygwrdd; à ellir ei deimlo.
Tactility, *s.* hydeimledd.
Taction, *s.* (Ll. *tactio*) teimlad, teimlawd, teimlediaeth, cyffwrdd, cyhwrdd, cyfhwrdd.
Tactless, *a.* difedr, anhyfedr.
Tactual, *a.* perthynol i deimlad *neu* gyffyrddiad; teimledigol, cyffyrddol.
Tadpole, *s.* (S. *tade* a *pola*) penbwl, penbyliad: *pl.* penbyliaid.
Tædium, *s.* (Ll.)=*Tedium.*
Tael, *s.* darn bath yn China, gwerth o ddeutu 7*s.*; hefyd, pwys 1⅓ unas.
Taenia, } *s.* (Gr. *tainia*) ffunen, rhwymyn;
Tenia, } llyngyren luosben, y llyngyren hir.
Tafelspath, *s.* (Al.) tefinfaen.
Taffeta, } *s.* (It. *taffeta;* Ff. *taffetas*) math
Taffety, } ar sidan o'r enw.
Taffrail, } *s.* (Is. *taferel*) tafrail, tafreilen
Tafferel, } (mewn llong).
Tafia, *s.* (Ff.) math o sugrwy.
Tag, *s.* (Sw. *tagg;* Isl. *tag;* D. *tagger*) pwyntl, pwyntyl, olpai; peth diwerth.
Tag, *v. a.* pwyntlo; rhoi pwyntl ar; pwyntio; cyssylltu, cydio wrth; brasgydio; crogi wrth.
To tag together—cyssylltu; cyssylltu yn nghyd; rhoi y naill beth yn nglŷn wrth y llall.

To tag after—dylyn.
To tag one thing to another—crogi y naill beth wrth y llall; rhoi y naill beth yn nghrog wrth y llall; brasgydio y naill beth wrth y llall.
A tagged lace—carai â phwyntl iddi; carai bwyntlog.

Tag, Teg, } *s.* hespwrn; *pl.* hespyrniaid.
Tag, *s.* (Ll. *tago*; S. *ic teoge*) cia, chwareu cia.
Tagger, *s.* pwyntlwr; brasgydiwr; cyssylltwr.
Tag-rag, *s.* ysgraglach, gwehilion gwlad, adlawiaid, gwehilion, penllymiaid, croenllymiaid.
A tag-rag fellow—cerpyn croenllwm.
Tag-rag and bobtail—gwehilion y bobl; gweddillion neu ysgubion tref a gwlad; pob gwael gardotyn penllwm a thinllwm; ysgraglach, adlawiaid; gohilion, gwehilion; y werinos waelaf.

Tag-sore, Tag-belt, } *s.* clwyf y gynffon (ar ddefaid).
Tag-tail, *s.* pryfyn â'i gynffon o liw arall.
Tail, *s.* (S. *tægl*; Isl. *tagl*) cynffon, llosgwrn, rhonell, llost, cloren, cwt, cwtws, bonllost, llwst, rhon; llyw; penllinyn; godre; pen ol; bon; tin.
The tail of a fish—llyw pysgodyn, cynffon pysgodyn.
The tail of a bird—cynffon aderyn, llyw aderyn.
The tail of a letter—cynffon llythyren.
To wag the tail—cynffonloni; siglo, ysgwyd, neu chwareu ei gynffon.
The tail of a garment—godre dilledyn, llyw dilledyn.
To catch an eel by the tail—dala llysywen erbyn ei llyw; dal llysywen gerfydd ei chynffon.
Having a tail = *Tailed.*
Having a short tail, That has a short tail, } cynffon-fyr, byr ei gynffon; cwta, cynffon-gwta: *f.* cynffon-fer, cota, cynffongota.
To turn tail—troi ei gynffon; cefnu, troi ei gefn; ffoi.

Tail, Fee-tail, } *s.* (Ff. *tailler*) tir hawlrwym, tir ammodrwym, etifeddiaeth ammodol, hawl ammodol, treftadrwym = tir â fyddo dân rwymiad penodol o ran yr etifeddion a'i meddiannant rhag llaw.
Tail, *v. a.* tynu gerfydd y gynffon, cynffoni, llostio, llosgyrnu.
To tail in—sicrhau peth gerfydd un pen iddo (mewn mur).
To tail upon—gorwedd neu bwyso ar (megys pen trawst mewn mur).

Tailage, Talliage, } † *s.* (Ff. *taillier*) cyfrandal; rhan, cyfran; treth, toll.
Tailed, *a.* cynffonog, llosgyrnog, rhonellog, llostog; â chynffon iddo, &c.
Tailing, *s.* y rhan o gareg neu briddfaen â fo allan o'r mur.
Tailings, *s. pl.* tinion, yr ail yd, yr yd ysgafn, godreon.
Taille, *s.* (Ff.) treth, toll, tâl, arian porth.
Taille, *s.* (Ff. *tailer*) hawl doc, tocrwym.
Tailless, *a.* digynffon, heb gynffon, &c; cwta.
Tailloir, *s.* (Ff.) copleth.
Tailor, *s.* (Ff. *tailleur*) dilledydd, dilladwr, gwniedydd, teiliwr; ysgiwydd.
Tailor, *v. a.* teilwrio, teilwra; gwneuthur gwaith dilledydd, &c.
Tailoress, *s.* dilledyddes, teilwres.
Tailoring, *s.* teilwriaeth, dilledyddiaeth.
Tail-piece, *s.* oladdurn, bonaddurn, troiaddurn; troed-flodau.
Head and tail-pieces—tal- a throed-flodau: talflodau a throed-flodau; tal- ac ol-flodau.
Tail-race, *s.* y pynfarch â red oddi wrth felin.
Taint, *v.* (Ff. *teindre*; Ll. *tingo*) llygru, surddo; diwyno, gwenwyno, beintio; bwlcheddu; nawseiddio: † anaddwyno.
Taint, *s.* llwgr, llygriad; llygredigaeth; nod; ysmotyn, magl; ystaen; anair; mawl, pryf copyn.
Taintfree, *a.* dilwgr; rhydd oddi wrth lygr neu lygredigaeth.
Taintless, *a.* dilwgr, dihalog, anhylwg; glân, pur.
Tainture, *s.* (Ll. *tinctura*) llwgr, llygriad; med; ysmotyn, mân du; nawn.
Take, *v.* (S. *tæcan*; Sw. *taga*; D. *tage*) cymmeryd; derbyn; dâl, dala; tybied, ystio; llwyddo, ffynnu; ennill; cael; ymgymeryd; cydio; tynu; cipio, dwyn ymaith; minio; myned.
To take (as a fashion, &c.)—cael cymmeriad; cael derbyniad; myned mewn parch; cymmeryd.
His books take very well—y mae derbyniad mawr i'w lyfrau ef; y mae llawer o bryn neu o brynu ar ei lyfrau ef; y mae mawr bryn ar ei lyfrau ef; y mae mawr brynu ar ei lyfrau ef; y mae ei lyfrau ef yn dra derbyniol.
This will by no means take with me—ni foddha hyn mo bonof fi ddim; ni bydd hyn wrth fy modd i ddim; ni bydd i hyn baroh neu gymmeriad gyda mi—ni na fydd ddim.
To take one at his word—cymmeryd un wrth ei air; dâl un ar ei air.
To take an affection to—hoffi; ymhoffi yn.
To take an affront—tramgwyddo; cymmeryd tramgwydd; anfoddloni wrth; digio.
To take after—dylyn; dynwared, efelychu; myned ar ol; cymmeryd ar ol; tebygu i, ymdebygu i, ymdebygoli i; bod yn debyg i; myned fel.
To take after one's father—tebygu i'w dad; ymdebygu i'w dad.
To take a gate (as a horse)—neidio un lamu dros giwyden neu lidiart; neidio neu gymmeryd clwyd.
To take alarm—cymmeryd braw; brawychu.
To take asunder—tynu neu gymmeryd oddi wrth eu gilydd; gwahanu, dydoli.
To take away—cymmeryd ymaith; dwyn ymaith; dygyd.
To take back again—adgymmeryd; cymmeryd yn ol drachefn neu eilwaith.
To take before *or* beforehand—cymmeryd yn mlaen llaw; rhaggymmeryd.
To take one a box on the ear—rhoi bonclust i un; rhoi i un fonclust; bonclustio un.
To take by—ymaflyd yn; cymmeryd erbyn, cymmeryd gerfydd.
To take care—gofalu, prydera, dofi, gwilio; cymmeryd gofal; dwyn cur a gofal; meddyllio, meddylied; rhoi neu cael y

meddwl ar ; ymorol ; astudio ; bod yn ystig *neu* ddyfal ; prisio ; gochelyd ; gochel.
Take care !—gàn bwyll ! gwilia ! gwiliwch ! gochelwch, &c.
To take one's chance—cymmeryd à ddel, à ddelo, à ddygwyddo, *neu* à ddamweinio ; cymmeryd à ddel o ddygwydd *neu* o ddamwaen.
To take cognizance of an affair—mynu gwybyddiaeth ; cymmeryd edrybedd.
To take compassion—tosturio, trugarhau, gresynu, truanu, truanhau, tirioni, tosturiannu, tosturhau ; bod yn dosturiol *neu* drugarog ; bod yn ddrwg ganddo ; arbed, eiriach ; cydoddef.
To take counsel of—ymgynghori â ; gofyn *neu* geisio cynghor gàn.
To take a course — ymgyrchu at ; cymmeryd ffordd, cymmeryd llwybr ; dylyn ffordd, dylyn llwybr ; arwain buchedd ; rhodio ffordd *neu* lwybr ; profi ffordd *neu* lwybr.
To take one's own course—cymmeryd ei ffordd ei hun, &c.
To take bad courses—arwain *neu* ddylyn buchedd ddrwg ; arwain *neu* ddylyn bywyd drwg ; dylyn ffyrdd *neu* lwybrau drwg ; drygfucheddu.
To take good courses—arwain *neu* ddylyn buchedd dda ; arwain *neu* ddylyn bywyd da ; dylyn ffyrdd *neu* lwybrau da.
To take delight in—ymhyfrydu yn.
To take distress — attalfaelu, attalfaela, cymmeryd attafael.
To take down—tynu *neu* gymmeryd i lawr ; darostwng, gostwng, cystwng ; llyncu.
To take an excuse—derbyn esgusawd.
To take flight—ffoi, cilio ; hedeg, ehedeg ; myned ar ffo, ar gil, *neu* ar encil ; cymmeryd y traed a'r gwadnau ; dïanc.
To take for—cymmeryd yn lle ; tybied, tybio, barnu, meddwl, cyfrif, bwrw ; camgymmeryd.
Whom do you take me for ?—yn lle pwy y'm cymmerwch ? pwy y tybiwch *neu* y dywedwch fy mod ?
Taking them for enemies—gàn eu cymmeryd hwynt yn lle gelynion.
He is not the man you take him for—nid yw efe y gwr y bernwch chwi ei fod ; nid ydyw mo hono y gwr y bernwch ei fod ; nid yr un ydyw ag y bwriwch ei fod ; nid yr un mo hono ag y bwriwch ei fod.
Do you take me for such a fool ?—a fernwch chwi fy mod cyn ynfyted ; a gyfrifwch chwi fi yn gymmaint ffwl a hyny ?
As I take it—i'm tyb i.
To take for granted—cymmeryd yn ganiatäol ; cymmeryd megys wedi ei ganiatäu ; cymmeryd megys yr hyn a ganiatäwyd ; cymmeryd yn lle gwir ; cymmeryd megys peth cyfaddef ; cymmeryd fel peth profedig ; cymmeryd ar fod.
To take from—cymmeryd *neu* dynu oddi wrth ; dwyn oddi ar ; toli ; erthynu.
To take one's weapons *or* arms from him —dïarfu un ; dïarfogi un ; dwyn ei arfau oddi ar un ; dïosg un o'i arfau.
To take the upper hand of one—cymmeryd ei le, ei eisteddfa, *neu* ei eisteddle uwch law i un ; eistedd uwch law i un.
To take heart — cymmeryd calon ; cymmeryd cysur ; gwroli, ymwroli, ymgysuro, ymloni, ymsirioli.
To take heed—ystyried, ystyrio, pwyllo, edrych, malio, gwrandaw, gofalu, &c.
To take to the heels—cymmeryd y gwadnau ; cymmeryd y traed a'r gwadnau ; rhoi y traed yn y tir ; dywadnu ; ffoi ; myned ar ffo.
To take in—dwyn i mewn ; cymmeryd i mewn ; tynu i mewn ; derbyn ; cynnwys ; cau i mewn ; cau ; lleihau, cwtogi ; twyllo, hocedu ; dàl. [meryd â.
To take in with—ymgyrchu at, ymgymTo take in hand—cymmeryd mewn llaw ; cymmeryd yn llaw ; cychwyn peth ; dechreu peth ; ymosod ar beth ; myned yn nghylch gorchwyl ; myned yn nghyd â gorchwyl.
To take hold of—dàl, dala, daly, gafaelyd yn, ymafyd yn, ymafaelu yn, gafaelio yn, cydio yn ; goddiweddyd, dyfod ar ; cael craff *neu* afael ar.
To take a journey—cymmeryd taith ; myned ar daith ; myned i daith.
To take leave of=(d. g. *Leave*).
To take oath, } =(d.g. *Oath*).
To take an oath, }
To take off—cymmeryd, dwyn, *neu* dynu ymaith ; dwyn *neu* gymmeryd oddi wrth ; dwyn oddi ar ; dirymu, diryniio ; llyncu, yfed i fyny ; dynwared, efelychu ; chwareu gwrhewcri â.
To take off an impression—tynu argraff.
To take off one's eyes from—troi ei lygaid oddi wrth ; troi ei lygaid ymaith oddi wrth ; tynu ei lygaid oddi ar.
To take off from—cymmeryd *neu* dynu oddi wrth ; lleihau, bychanu ; tynu ymaith oddi wrth ; tynu ymaith mewn rhan.
To take out—tynu *neu* gymmeryd allan ; pigo allan ; pigo.
To take out spots—dilëu brychau ; golchi ymaith frychau ; tynu allan frychau ; brycheuo.
To take pains=(d. g. *Pains*).
To take part=(d. g. *Part*).
To take patiently—cymmeryd, goddef, dyoddef, dwyn, *neu* dderbyn yn amyneddgar.
To take pity=(d. g. *Pity*).
To take place=(d. g. *Place*).
To take place of one—myned o flaen un ; cymmeryd *neu* ddwyn y blaen ar un ; eistedd o flaen, goruwch, goruch, *neu* uwch law un.
To take one's pleasure—cymmeryd ei ddifyrwch, ei wynfyd, ei hawddfyd, *neu* ei bleser ; ymddigrifo, ymbleseru.
To take pride in a thing — ymogoneddu, balchïo, *neu* ymfalchïo yn mheth.
To take prisoner—dàl *neu* gymmeryd yn garcharor.
To take into one's protection—cymmeryd *neu* dderbyn i'w nawdd ; noddi, achlesu.
To take refuge, } ymnoddi ; cymmeryd
To take sanctuary, } nawdd *neu* noddfa ; ffoi ; llochwyda, llochwyta.
To take side—cymmeryd plaid *neu* ochr ; pleidio *neu* ochri (gyda) ; bod o blaid.
To take root=(d. g. *Root*).
To take one's swing=(d. g. *Swing*).
To take to—ymröi i, ymroddi i ; ymgym-

meryd â; hoffi, ymhyfrydu yn; bod yn hoff o; bod yn hoff ganddo.
To take to a thing—cymmeryd peth ar ei helw; cymmeryd peth ato megys ei eiddo ei hun; cymmeryd at beth; ymrŏi i beth.
To take to the right hand—troi tua'r llaw ddeheu; troi ar y llaw ddeheu.
To take to task—galw i gyfrif; dwyn i'r holfa; cymmeryd mewn llaw; ceryddu.
To take thought — gofalu; meddwl, ystyried; rhagofalu.
To take a tour about the country—myned ar daith o amgylch gwlad; cylchynu gwlad; cymmeryd taith o amgylch gwlad.
To take a town—cymmeryd tref; ennill tref; goresgyn tref.
To take a turn—rhoi tro.
To take one's turn—cymmeryd ei dro *neu* ei gylch; gwneuthur peth yn ei dro *neu* ei gylch.
To take a view, survey, *or* prospect of—bwrw golwg ar beth; taflu golwg ar beth.
To take up—cymmeryd i fyny; codi i fyny; cymmeryd; codi, dyrchafu; dechreu; derbyn; llenwi; rhwymo; dâl, cipio; caniatâu; ceryddu; cymmeryd arno.
To take up arms, } cymmeryd arfau; ym-
To take arms, } arfogi; dechreu rhyfel.
To take up an ill report—derbyn drygair a'i daenu; coelio drygair a'i daenu.
To take up with—ymfoddloni ar; bod yn foddlawn i.
To take up at interest—codi arian yn llog; codi arian er llog.
To take up an opinion—llettya tyb; cymmeryd i'w ben.
To take up by the way=*Intercept.*
To take up a trade—codi crefft.
To take upon one—cymmeryd arno.
To take upon one unawares—dâl un yn ddisymmwth; dâl un heb wybod iddo; dâl un yn ddïarwybod iddo.
To take unto him—cymmeryd ato.
To take water—cymmeryd, llyncu, *neu* sugno dwr; gollwng dwr (i mewn).
To take upon trust—cymmeryd ar goel; cymmeryd *neu* brynu yn eohwyn; ehudgoelio; derbyn ar goel; cymmeryd *neu* dderbyn yn ddibrawf *neu* yn ddiholiad.
To take vengeance upon—dïal ar; bwrw, rhoddi, dyrŏi, *neu* gymmeryd dïal ar.
To take a way, } cymmeryd ffordd; troi i
To take a road, } ffordd; myned ar hyd ffordd.
To take wind — myned ar led; myned allan; myned ar gyhoedd; cymmeryd gwynt; ymledu; myned ar daen; myned o'r mynawyd drwy y cwd.
To take a wife — cymmeryd gwraig, gwreica, priodi gwraig; priodi.
To take with—boddloni, boddhau, boddio.
To take with one—cael derbyniad *neu* gymmeriad gân un; bod wrth fodd un; bod *neu* fyned mewn parch gydag un.
To take one's word—cymmeryd gair un; credu un, coelio un; rhoi coel i *neu* ar un.
To take advantage=(d. g. *Advantage*).
To take aim—annelu; cyfeirio; anelfa.
To take air=(d. g. *Air*).
To take the air=(d. g. *Air*).
To take along with—cymmeryd gyda.
To take breath=(d. g. *Breath*).
To take (as a project, &c.)—ymgymmeryd, cymmeryd; llwyddo, ffynnu.
To take (as apples, &c.)—clymu, rhithio, ymrithio.
To take (as a bud, &c.)—cydio, cymmeryd, ymgymmeryd.
To take (as fire)—cydio, ymgymmeryd, ymaflyd, cipio, myned ar dân.
To take on†—bod yn alarus; bod yn anniddig.
Take (thou) this — hwde, hwre, hwch, hwra; cymmer hwn, &c.
Take (you) this — hwdiwch, hwriwch; hwrëwch; cymmerwch hwn, &c.
Taker, *s.* cymmerwr, cymmerydd, cymmeriadydd; derbyniwr, derbynydd, derbyniadydd; darostyngwr; ennillwr.
Taking, *a.* deniadol, serchus, hudol, enillgar, hyfryd, boddgar, derbyniol; glŷn, glynol, llŷn, heintus.
Taking, *s.* cymmeriad, cymmeriaeth, cymmeredigaeth; derbyniad; daliad; cyfyngder meddwl; cythrwfl.
To be in an ill taking—bod mewn cyflwr drwg; bod mewn anghyflwr; bod yn ddrwg ei gyflwr; bod yn gyfyng ar un.
Takingness, *s.* deniadoldeb, serchusrwydd.
Talbot, *s.* math ar fytheuad cynffon-dorchog.
Talbotype, *s.* (oddi wrth H. F. *Talbot*, a *typo* deindebiaeth, ffoddgraffiaeth Talbot.
Talc, *s.* (Al. *talk, talg;* D. ac Is. *talk*) gwerfaen=math ar ddelidfaen.
Talcite, *s.* gwerfaenith.
Talcose, } *a.* (o *talc*) gwerfeinin; tebyg i wer-
Talcous, } faen; yn cynnwys gwerfaen.
Talcy, }
Talcky, }
Tale, *s.* (S. *tellan;* Is. *telles*) chwedl, chwedl, dychwedl, ystori; hanes; ffughanes; *cyfrif*, nifer, rhifedi, rhif.
Tales — chwedlau, chweddlau, &c.; clep, clap; ystorïau.
An idle tale—oferchwedl, chwedl oferwag, chwedl ofer, coegchwedl, gwagchwedl, chwedl wag, ffiloreg, ofersiarad.
A long tale — hirchwedl, hir chwedl, chwedl faith.
A tale of a tub—chwedl gwrach, chwedl hen-wrach; chwedl heb na dechreu na diwedd; chwedl heb na dybeu na dechreu.
To tell a tale—adrodd chwedl, dywedyd chwedl.
To tell tales, } arwain chwedlau, cario
To carry tales, } chwedlau; clapian, clepian; husting; dywedyd chwedlau.
To give in full tale, } talu eu hun-rif; cwbl
To pay in full tale, } dalu.
Tale,† *v. n.* adrodd chwedlau.
Talebearer, *s.* arweiniwr *neu* arweinydd chwedlau; clapgi, clepgi, clepiwr; hustingwr; athrodwr.
Talebearing, *a.* yn arwain *neu* yn cario chwedlau; hustingol, athrodgar, ystoriengar.
Talebearing, *s.* arweiniad chwedlau; clap, clep; athrawd; husting.
Taled, *s.* math ar wisg luddewig.

Taleful, *a.* llawn chwedlau, llawn o chwedlau, chwedlog.

Talent, *s.* (Ll. *talentum*; Gr. *talanton*) talent, talen; dawn, arddawn, dawn naturiol, arddoniant, gallu, galluedd, cynneddf, rhoddiad, rhodd, menwyd, menwyn.
Talent (a coin)—talent, talen.
A person of good talents — dyn da ei ddoniau.
A person abounding with talents — dyn doniog, dyn arddoniog.
A person of mean talents—dyn gwàn ei ddoniau; dyn synwyrbwl.
He has a talent for lying — y mae iddo rodd i ddywedyd celwydd.

Talented, *a.* doniog, doniol, arddoniog, arddoniol, talentog.

Tales, *s. pl.* (Ll. *talis*, pl. *tales*) rheithwyr llanw.

Talesman, *s.* rheithiwr llanw.

Taleteller, *s.*=*Talebearer*.

Tale-wise, *a.* ar ddull chwedl.

Talion, *s.* (Ll. *talio*) cyfraith tâl pwyth.

Taliped, *s.* (Ll. *talos* a *pes*) troed clwpa; un troedgìwp, un troedglwpa.

Talisman, *s.* (Gr. *telesma*) swyneilun, eilun cyfaredd, hudeilun; gwarchan, swyn, cyfaredd.

Talismanic, } *a.* swyneilunol, hudeilunol;
Talismanical, } swynol, gwarchanol, cyfareddol.

Talk, *v. n.* (D. *tolker*; Sw. *tolka*; Is. *tolken*) siarad, siared, ymddyddan, chwedleua, llefaru, llafaru, son, ymgomio, chwedla, chwedleuo, dywedyd, comio.
To talk backwards and forwards—dywedyd a gwrthddywedyd; dywedyd dàn ymddyrysu.
To talk foolishly=(d. g. *Foolish*).
To talk idly=(d. g. *Idly*).
To talk of—siarad am, siarad yn nghylch, chwedleua am, chwedleua yn nghylch; traethu.
To talk ramblingly—ymleferydd; chwalu; siarad yn annhrefnus, yn annyben, *neu* yn annosbarthus, &c.
To talk at random=(d. g. *Random*).
To talk to one—llefaru wrth un.
To talk together — cydsiarad, ymgomio, ymsiarad, &c.
To talk with—siarad â, chwedleua â; llefaru wrth.
Talked of—a'r y mae son *neu* y son am dano.
He is much talked of—y mae mawr son am dano; y mae llawer o son am dano.
To talk of abroad—cyhoeddi; gwneuthur yn gyhoedd *neu* yn gyffredin; dadgudd'o; gyru *neu* daenu ar led.

Talk, *s.* siarad, son, ymddyddan, chwedl, chweddl, ymadrodd, ymgom.
Town-talk=*Town-talk*.
Common talk—chwedl gwlad, chwedl gyffredin, chwedl gàn bawb, siarad gwlad.
Familiar talk=*Chat*.
Table-talk=*Table-talk*.
Idle talk=*Idle talk* (d. g. *Idle*).
To have talk with—siarad â, chwedleua â; llefaru wrth; ymddyddan â.
I had some talk with them—bu i mi beth ymddyddan â hwynt.
I shall be glad to have a little talk with you—bydd dda genyf gael ychydig o ymddyddan â chwi.
To fall in talk of—syrthio *neu* daro i ymddyddan yn nghylch.
Since we are fallen in talk of the Romans—gàn ddygwydd myned o honom i ymddyddan yn nghylch gwŷr Rhufain.

Talkative, *a.* siaradus, siaradgar, dywedgar, chwedleugar, clebarddus, geiriolus, gwagsiaradus, baldorddus, baldorfus, chwedlgar, ymeirgar, amleiriog, tafodrydd, chwedlog, chwedleuog, llafarus, llefawr; ystorieugar.

Talkativeness, *s.* siaradusrwydd, siaradgarwch, dywedgarwch, &c.

Talker, *s.* siaradwr, siaredydd, chwedleuwr, ymddyddanwr, ymgomiwr.
A great talker, } dyn siaradus, siaradgar, &c.; clebarddwr; siaradwr mawr; un hir ei dafod; clebryn (*f.* clebren).
A talkative person, }
The greatest talkers are not always the greatest doers—nid gnawd chwedleugar yn weithgar; nid y neb â'r tafod hwyaf yw'r gweithiwr goreu yn wastad.
An idle talker, } gwagsiaradwr, un ofer-
A vain talker, } siaradus, ofersiaradwr, clebarddyn.

Talking, *s.* siarad, ymddyddan, son; ymadrodd.
A talking to one's self=*Soliloquy*.

Talky, *a.* siaradus, siaradgar, &c.

Tall, *a.* (C. *tàl*; Ysp. *talla*) tâl; hir; hydwf, hirdwf; ban, uchel.

Tallage, } *s.* (Ff. *tailler*) tallon; treth, tâl,
Talliage, } toll; treth dinesyddion.

Tallage, *v. a.* trethu; gosod treth *neu* doll ar.

Tallier, *s.* (o *tally*) un à geidw gyfrif-bren; ceidwad cyfrif.

Tallness, *s.* (o *tall*) taldra, talder, taledd; hirder, hirdra.

Tallow, *s.* (D. *tælg*; Is. *talk*; Al. a Sw. *talg*) gwer.
Mineral tallow=*Hatchetine*.
Candle-tallow—gwer canwyll.
Tallow-cake—gweren.
Full of tallow—gwerog, llawn gwer, llawn o wer.
To dip in tallow, } gweru; rhoi gwer
To do over with tallow, } ar; trochi mewn gwer.
To collect tallow—gwera.

Tallow, *v. a.* gweru; rhoi gwer ar; trochi mewn gwer.

Tallow-candle, *s.* canwyll wer, gwerganwyll.

Tallow-catch,† *s.* lle i gadw gwer.

Tallow-chandler, *s.* gwerganwyllwr, gwerganwyllydd, canwyllwr gwer.

Tallow-faced, *a.* gwyneblas, gwyneblwyd, piglas, piglwyd; yn edrych fel pe wedi llyncu canwyllau.

Tallow-grease, *s.* gwer; saim gwer.

Tallowish, *a.* gweraidd, gwerllyd; gwerog.

Tallow-tree, *s.* gwerwydden, y pren gwer: *pl.* gwerwydd.

Tallowy, *a.* gwerog; gweraidd, gwerllyd.

Tally, *s.* (Ff. *tailler*) cyfrif-bren, rhig-bren, rhygn-bren, pren rhiciau, cyfrifrint, rhifrint, cyfrifrill; peth à gyfetyb i beth arall.

Tally, *v.* rhoi ar y cyfrif-bren, &c.; rhifrintio, cyfrifrillio; rhicio, rhygnu; peri i beth gyfladd *neu* gyttaro; cyfateb, cyfladd, sutio, cytuno, cyttaro.

Tally,† *ad.* yn bybyr, yn gadarn.

Tallyman, *s.* (*tally* a *man*) coelwerthwr, coelwerthydd (=un â wertho beth yn echwyn i'r neb a dalo bob yn rhan o wythnos i wythnos); ceidwad y cyfrif, torwr y rhiciau.

Tally-shop, *s.* coelwerthfa, coelwerthdy, masnachfa goelwerth, masnachfa goel.

Tally-trade, *s.* coel-fasnach, masnach goelwerth.

Talmud, *s.* (Cal.) llyfr traddodiadau yr Iuddewon; traddodilyfr.

Talmudic, } *a.* perthynol i'r Talmud; Tal-
Talmudical, } mudig, Talmudaidd.

Talmudist, *s.* un hyddysg yn y Talmud, Talmudwr; un cyfarwydd yn nhraddodiadau yr Iuddewon; traddodiedydd.

Talmudistic, *a.* perthynol i'r Talmud; Talmudaidd.

Talon, *s.* (Ff. ac Ysp.) ewin, crafanc, ysbag.

Taloned, *a.* crafangog, ewinog, ysbagog.

Talpa, *s.* (Ll.) gwadd, twrch daiar.

Talus, *s.* (Ll.) migwrn, bigwrn, ffêr; llechwedd, llethr, osgo.

Tamability, } *s.* hyddofedd, hywaredd, hy-
Tamableness, } weddrwydd.

Tamable, *a.* (o *tame*) dofadwy, hyddof, hywar, hywedd; â ellir ei ddofi.

Tamarack, *s.* llarwydd cochion, llarwydd America.

Tamarinds, *s. pl.* (Ysp. *tamarindo;* It. *tamarindi;* Ff. *tamarin*) aeron surber y pren Tamarind.

Tamarisk, *s.* (Ll. *tamarix*, oddi wrth yr afon *Tamaris*, wrth odre y Barwynion) grugwydden, Tamarisc.

Frenoh tamarisk—grugbren.

Tamdac, } *s.* efydd gwŷn China; elywwydd.
Tombac, }

Tambour, *s.* (Ysp. *tambor;* It. *tamburo*) tabwrdd, tabyrdden, rhuglen; tabyrddiaeth, tabyrddwaith.

Tambour, *v. a.* brwydo *neu* frodio â thabyrddwaith; tabyrddu.

Tambourine, *s.* (Ff. *tambourin*) tympan, tympanell, tabyrddell.

Tambourone, *s.* (It.) tabwrdd yr isalaw.

Tambour-work, *s.* tabyrddwaith = math ar frwydwaith.

Tame, *a.* (S. a Sw. *tam;* Al. *zahm*) dof, gwâr, hywedd, gwarddof, anwyllt; digalon, diysbryd, diarial, difywyd, marwaidd; trefig.

Thoroughly tame—tryddof, trywar, llwyr wâr, cwbl ddof.

To become tame—dofi, gwareiddio; myned yn ddof.

Tame, *v. a.* dofi, gwarhau, gwareiddio, hyweddu; peri *neu* wneuthur yn ddof; darostwng.

A tamed animal — anifail dofedig, &c.; lledfegyn.

Tameable, *a.*=*Tamable.*

Tameless, *a.* annof, anwar, annofedig, anwareiddiedig, gwyllt, anhywar.

Tamely, *ad.* yn ddof, &c.; yn ddiwrthsefyll, yn ddiwrthryn.

Tameness, *s.* dofedd, dofaeth, dofrwydd, gwaredd; anysbrydlonedd, diysbrydedd, diarialwch, diarialedd; diwrthrynedd.

Tamer, *s.* dofwr, dofydd, dofiedydd, gwarhâwr.

Tamine, } *s.* (Ff. *tamis*) gogr rhawn; gwlanen
Tamy, } hidlo; gwlanen deneu.

Tamis, *s.* (Ff.) gwlanen hirwlan; hidl wlanen.

Tamkin, *s.* (Ff. *tampon*) ystopell cyflegr.

Tamp, *v. a.* llenwi twll mewn craig er mwyn ei ffrwydro.

Tamper, *v. n.* (anhysbys) ymyryd, ymyru, ymyraeth, amyru, ymhela, ymhel; ymdrin; ymerlyn, ymerlid.

To tamper with—ymyryd â, ymhel â, &c.

To tamper with one—gweithio ar un; rhocais ar ddwyn un i'w ergyd neu annog profi un; erlyn un; ymerlyn ag un; denu un.

To tamper with physic—cymmeryd rhyw feddyginiaeth neu gilydd wrth ias ei hun beunydd; ymerlid â meddyginiaeth heb na medr na meidr; ymerlid â meddyginiaeth heb na rhaid nac achos.

To be tampering with—bod yn ymyru, yn ymhel, neu yn ymerlid â.

Tampering, *s.* ymyraeth, ymyriad, &c.

Tampering, *p.* yn ymyryd, &c.; ymyrus, ymyrol, ymyrgar, ymhelgar.

Tamping, *s.* (Ff. *tampon?*) llenwad twll mewn craig â phylor.

Tampion, } *s.* (Ff. *tampon;* Llyd. *tapun*; yr
Tompion, } topell cyflegr, *topyn cyflegr.*

Tampoon,† *s.* ystopell cyflegr; bung.

Tamtam, } *s.* math o dabwrdd arferedig yn yr
Tomtom, } India Ddwyreiniol ac yn Affrica Orllewinol.

Tamus, *s.* afal Adda, gwinwydden ddu, rhwymyn y coed.

Tan, *v. a.* (Ff. *tanner*) cyffeithio; rhisgyn llosgi *neu* felynu yn yr haul; melynu, melyddu; peri yn felyn *neu* yn felyddu.

To tan leather—cyffeithio lledr, cyffeithio crwyn; rhisgwyo lledr.

Tan, *s.* cyffaith rhisg, trwyth rhisg, rhisgyn, cendrwyth; cyffeithrisg.

Tanacetum, *s.* (Ll.)=*Tansy.*

Tanbed, *s.* gwely rhisgl, gwely rhisg, risgwely.

Tanhouse, *s.* cyffeithdy crwyn, cyffeithdy, barcerdy.

Tanpit, *s.* pwll y crwyn, pwll y barcer, pwll cyffaeth; cyffeith-bwll.

Tandem, *s.* (Ll.) y naill geffyl o flaen y llall (mewn cerbyd).

Tane,† *p. p.*=*Ta'en*=*Taken.*

Tang, *s.* (Gr. *tangê*) blas, chwaeth, archwaeth, addias, adchwaeth; blas *cryf*; nasl (*dr.* seidyn); †sain.

It has some tang—y mae rhyw addias yno.

He had not the least tang of religion—nid oedd ganddo mo'r blas lleiaf ar grefydd; nid oedd mo nawn *neu* anian crefydd ynddo; ai chlywai flas yn y byd ar grefydd.

Tang,† *v. n.* seinio; bod â sain ganddo.

Tangency, *s.* cyffwrdd, cyffyrddiad.

Tangencies—cyffyrddion.

Tangent, *s.* (Ff. *tangente;* Ll. *tangens* o ffyrddlin, cyhyrddlin, cyffyrddell, cyrdell, cyrddell.

Tangential, *a.* perthynol i gyffyrddlin; cyffyrddellawl, cyffyrddellaidd.

Tangentially, *ad.* yn llwrw *neu* wyneb cyffyrddlin.

Tangibility, } *s.* ansawdd cyffyrddadwy peth.
Tangibleness, } cyffyrddadwyedd; hydynedd, hygyrddedd.

Tangible, *a.* (o'r Ll. *tango*) cyffyrddadwy, cyhyrddadwy, hygwrdd; y gellir cyffwrdd â gyhwrdd âg ef; teimladwy, hydeimladwy, maddeiannadwy.

Tangle, *v.* (O. *tagus?* Goth. *tagl?*) dryllio;

cinygla, rhysu, rhysio; maglu; rhwystro; ymddyrysu; myned neu redeg yn ddyrysglwm.
To tangle a lock—dyrysu clo, rhysio clo.
Tangled hair — gwallt dyrysedig, &c.; gwallt cinyglog.
Tangled locks—dyrys gudynau, cudynau cinyglog, cudynau cedenog.

Tangle, *s.* dyrysglwm, dyrysbleth, penbleth, cinwgl, dyrysfa, astrusi, dyrysi, clwm; gwymon.
Tangle comb—crib ddadrys, crib ddaddyrys, crib ddadrysu.

Tangly, *a.* dyrysedig, dyrys, cinyglog, penbleth, clymedig.

Tanist, *s.* (Gael. *tamaiste*) priodor, perchen rhandir; llywydd, penaeth.

Tanistry, *s.* (Gael. *tanaisteachd*) daliad tir (yn yr Iwerddon), yr hwn a ddarfyddai gyda bywyd y perchenog.

Tank, *s.* (Ff. *etang;* Ysp. *estanque;* Port. *tanque*) dyfrgist, dyfriestr; pydew, cronfa, pwnt.

Tankard, *s.* (Gw. *tancaird;* Gael. *tancard*) pacol, tanced, diodlestr cloriog.

Tanke, *s.* cap crwn isel (yn arfau bonedd).

Tanling, *s.* (o *tan*) un à felynwyd gàn wres yr haul; un melynddu, un llosg-felyn, greidlosgyn.

Tannate, *s.* (o *tan*) rhisghalan.

Tanner, *s.* (o *tan*) cyffeithiwr crwyn, cyffeithydd crwyn, barcer, lledrwr, lledrydd, cendrwythwr, rhisgwywr.

Tannery, *s.* cyffeithfa crwyn, cyffeithfa, barcerfa, crwynweithfa, cendrwythfa.

Tannic Acid, } *s.* cyffeithain, rhisgain, sur der-
Tannin, } win.

Tannier, *s.* pidyn y gog bwytadwy.

Tanning, *s.* cyffeithiad crwyn.

Tansy, *s.* (Ff. *tanaisie;* Ll. *tanacetum*) gystlys, gwroeth.
Common tansy—gystlys cyffredin, tanclys, mas.
Wild tansy—tinllwyd, gwŷn y merched, llwyd y din.

Tant, *s.* còryn cooch bach.

Tantalism, *s.* (oddi wrth *Tantalus*, brenin Lydia, yn y chwedl) cosp Tantal, cospedigaeth Tantalus; somiant, seithugiaeth, somyddiaeth.

Tantalite, *s.*=*Columbite.*

Tantalization, *s.* somiad, siomiad, seithugiad, seithugiant, twyllad, &c.

Tantalize, *v. a.* cynnyg peth i un, ac eto ei gadw oddi wrtho; gwneuthur lliw ar roddi peth i un, ac eto ei gadw oddi wrtho; rhoi bwyd wrth fin un, a'i dynu yn ol heb ado ei brofi; peri neu godi blys yn un heb feddylio ei ddigoni; cynnyg a chadw; cynnyg a gomedd; twyllgynnyg, som-gynnyg; twyll-addaw; somi, siomi, seithugio, mocio, twyllo; oferboeni; somi à gau obeithion.

Tantalizer, *s.* seithugiwr, somwr, &c.

Tantalum, *s.*=math ar sawd delid=*Columbium.*

Tantalus's cup, *s.* cwpan Tantal, cwpan Tantalus, cwpan somiant.

Tantamount, *a.* (Ll. *tantus*, ac *amount*) cyfartal, gogyfartal, cystal, cystadl; cyfwerth, cydwerth, cyfrdal; yr un peth o ran gwerth neu ystyr; cymmaint.

Tantivy, *ad.* (Ll. *tanta vi*) ar y pedwar carn, ar bedwar carn, ar y gyrfâu, ar garlam gwyllt ar frys gwyllt, ar ffull, ar fawrfrys, ar ysgrûth, ar ffysg.
To ride tantivy—marchogaeth ar y pedwar carn, &c.

Tantivy,† *s.* breninolwr (yn amser Carl II).

Tantling, *s.* (o *tantalize*) un à'i obaith am hyfrydwch anghyrhaeddadwy.

Tantrums, *s. pl.* ffromder, ucheldrem; nwydau.
To be in the tantrums — ffromi, ucheldremu; rhoi y ffrwyn i'r nwydau; bod o'i hwyl; bod ar y tannau poethion.

Tanyard, *s.* cyffeithfa crwyn, buarth barcer, barcerfa.

Tap, *v.* (Ff. *taper*) cnithio, ffatio, pratio, cisio, ysgafn daro, godaro, rhoi cis, gogyffwrdd à, rhoi cnith.

Tap, *v. a.* (S. *tæpan;* Is. *tappen*) tyllu, dwselu, twselu; ebillio; agor, egori; gollwng; gwneuthur twll yn.
To tap a tree — tyllu pren; dynoethi gwraidd pren.
To tap one in the dropsy—gollwng un yn y dyfrglwyf.

Tap, *s.* cnith, cis, ffat, chwat, prad, ysgafn ergyd, goffyrddiad; twsel, dwsel; pin; diotty, ty cwrw.
Tap and faucet—yspigod a dwsel; pin a chanel.

Tape, *s.* (S. *tæpe*) ysnoden, ffunen, rhwymyn, llinyn, eirionyn, ymylwe, culwe, llinynwe.

Tape-line, *s.* llinyn mesur.

Taper, *s.* (S.) canwyll gŵyr, cwyrganwyll, tampr.
High taper=*High-taper.*

Taper, } *a.* brigfain bonbraff, blaenfain bon-
Tapering, } braff; blaenfain, penfain, brigfain; yn meinhau ar i fyny; pengyrnig, pigyrnol, beraol, ffeiniol; yn meinhau yn raddol; meindwf; main.

Taper, *v.* blaenfeinio, penfeinio, pigfeinio; meinhau yn raddol; meinhau tuag i fyny; meinhau o fesur ychydig ac ychydig; pigyrnu, ffeinio.

Tapemess, *s.* blaenfeindcr, pigfeindra.

Taperwise, *ad.* ar wedd canwyll gŵyr neu dorth sugr.

Tapestry, *s.* (Ff. *tapisserie;* Gr. a Ll. *tapes*) teisban, tapin; tapinwe; crogleni.
To hang (a room) with tapestry—addurno à chrogleni tapin.
Tapestry-maker—teisbanwr, tapinwr, tapin-wëydd.

Tapestry, *v. a.* addurno à theisban neu dapin; teisbanu, tapino.

Tapet, *s.* (Ll. *tapes*) teisban arluniog; tapinwaith.

Tapeworm, *s.* llyngyren luosben, y llyngyren hir.

Tap-house, *s.* diotty, ty cwrw, cyrfdy.

Tapis, *s.* (Ff.) teisban, tapin; llorlen.
To be on the tapis, } bod dàn sylw; bod
To be upon the tapis, } dàn ystyriaeth; bod mewn dadl; bod ger bron y cynghor.

Tapiash, *s.* diod fain, diod wael, sucan o gwrw.

Tappet, *s.* gwifen.

Tapping, *s.* gollyngiad neu ddwseliad dyfrglwyf.

Taproom, *s.* diodgell, cell y cwrw; y gell y gollyngir cwrw.

Tap-root, *s.* sodl-wreiddyn: *pl.* sodl-wreiddiau, sodl-wraidd.

Tap-rooted, *a.* sodl-wreiddieg.

Tapster, *s.* (o *tap*) tynwr, tynydd, *neu* dynfedydd dïod; gollyngwr, gollyngydd, *neu* ollyngiedydd dïod; gwallofiad, gwallofydd.

Tar, *s.* (S. *tare, tyr;* Is. *teer;* Al. *theer*) pyg gwlyb, ulbyg, gwybyg; pygwas, pyglanc, morwr, llongwr.

Tar, *v. a.* rhoddi *neu* ddodi pyg gwlyb ar; ulbygo, gwybygo; trochi mewn ulbyg.

Tar,† *v. a.* (S. *tiran*) blino, cythruddo, aflonyddu.

Tarantula, } *s.* (Ll. o *Tarentum*, yn yr Ital) còr-
Tarentula, } yn Tarentum; dawns Tarentum, corelw Taranto.

Tardation,† *s.*=*Retardation.*

Tardigrade, } *a.* (Ll. *tardigradus*) araf-gam,
Tarigradous, } arafysgogawl, araf-symmudol, chwarian, merydd.

Tardigrades, } *s. pl.* arafysgogiaid, meryddol-
Tardigrada, } ion.

Tardiness, *s.* hwyredd, hwyrder, hwyrdra, diweddaredd, diweddarwch; hwyrfrydedd, hwyrfrydigrwydd; arafwch, afrysedd; hwyrdrymedd, hwyrdrymder; musgrelli, musgrellni.

Tardity,† *s.* (Ll. *tarditas*)=*Tardiness.*

Tardo, *a.* (It.; Ll. *tardus*) chwarian, araf.

Tardy, *a.* (Ll. *tardus*) hwyr, diweddar, anghynnar; araf, afrys; hwyrdrwm; hwyrfrydig; musgrell, llegach, merydd; dïog, dyhair, hair, annyben; † beius.

Tardy,† *v. n.* (Ff. *tarder*) oedi, gohirio.

Tare, *s.* (S. *tiran*) corbysen, pysen y garanod, pysen yr aran, pysen yr adar; ffugbysen, ffacbysen; efr, efryn: *pl.* corbys, efrau.
Tare (Ll. *ervum*)—corbysen, &c.
Smooth tare—corbysen lefn; corbysen lefn bedwar-gronynog.
Hairy tare—corbysen flewog.
Tare (Ll. *vicia*)—ffugbysen, ffacbysen.
Tare (Ll. *lolium;* Gr. *sizanion*) efr, efryn: *pl.* efrau, llèr.

Tare, *s.* (Ff.; Ysp. ac It. *tara*) cynnwysgoll; pwysgoll, pwys y cynnwysydd.
Tare and tret—pwysgoll a thraul; cynnwysgoll a thraul; pwysgoll a threulgoll.

Tare, *v. a.* nodi maint y cynnwysgoll.

Tarentism, } *s.* (Ll. *tarentismus;* oddi wrth
Tarantism, } dref *Tarentum*) corelwst, clefyd y dawns, clwyf y dawns.

Targe,† *s.* (Ff. *targe*)=*Target.*

Target, *s.* (S. *targ, targa;* It. *targa*) tarian, targed, bwccled, bwccledr, aes, cadell, asafar, cadar; parsel, saethnod, nod saeth.

Targeted, *a.* cadellog, tarianog.

Targeteer, } *s.* aesor, asafeiriad, aeswr, aes-
Targetier, } ddyn, cadellwr: *pl.* aesorion, asafeiriaid, cadellogion.

Targum, *s.* (Cal.) aralleiriad Caldaeg ar Bumllyfr Moesen; Targum, Targwm.

Targumist, *s.* ysgrifenydd Targum, ysgrifenwr Targwm: *pl.* Targumiaid, Targymiaid.

Tariff, *s.* (Ff. *tarif;* It. *tarifa;* Ysp. *tarifa*) tollres, tollrestr, cyllidres.

Tariff, *v. a.* tollresu, cyllidresu; cofresu tollau ar nwyddau.

Tarn, *s.* (Isl. *tiorn*) corlyn mynyddig; corlyn, llŷn; cors, mignen, gwern.

Tarnish, *v. a.* (Ff. *ternir*) llychwino, diwyno, maeddu, budrhau; anurddo; colli ei harddwch, ei liw, ei wawr, *neu* ei ddysgleirdeb; adfeilio; pylu; edwi.

Tarnish, *s.* llychwinad, magl, ymotŷn, ymlŷn.

Taroc, *s.* chwareu ar gardiau.

Tarpan, } *s.* y march gwyllt, y ceffyl gwyll.
Tarpany, }

Tarpaulin, }
Tarpawlin, } *s.* (o *tar*) pyglen, cynfasen bŷg-
Tarpawling, } edig; het bygedig; pygwas, gwas y pyg, mab y pyg, morwr.

Tarquinish, *a.* tebyg i Tarcwin Falch (hwnw Rhufain); balch, trahâus.

Tarrace, }
Tarras, } *s.* llosgymrwd, gwyrgymrwd=mâs ar bridd llosgfalaidd arferedig i
Terrass, } wneuthur cymrwd âg ef.
Trass, }

Tarragon, *s.* amgwyn=enw llysieuyn.

Tarre,† *s.* (S. *tiran*) annog; blino, cythruddo.

Tarriance,† *s.* (o *tarry*) arosiad, arosfa, &c.

Tarrier, *s.*=*Terrier.*

Tarrier, *s.* aroswr, arosydd, oedwr, tariwr.

Tarrock, *s.* gwylan Gernyw.

Tarry, *v. n.* (C. *tario;* Gw. a Gael. *tarrin* aros, ymaros, cyfaros, arosi, trigo, gohirio, tario; oedi, gohirio; preswylio, cyfanneddu.

Tarry,† *v. a.* dysgwyl am.

Tarry, *a.* (o *tar*) ulbyglyd, gwybyglyd, ulygaidd, gwybygaidd; pyglyd.

Tarrying, *s.* arosiad, cyfaroaiad, arosfa, gohirio, trigad, &c.
Make no long tarrying—na hir drig.

Tarsal, *a.* (Ll. *tarsus*) perthynol i wâr neu fwrwgl y troed; arsangol.

Tarse, *s.* (Ff.)=*Tarsus.*

Tarsel, *s.* (Ff. *tiers*) yr hebog gwryw, y gwalch gwryw, hwyedydd, hwyedig.

Tarsus, *s.* (Ll.; Gr. *tarsos*) gwâr, mwnwgl, *neu* gefn y troed; arsang, arsangal.

Tart, *a.* (Sw.; S. *teart;* Is. *taart*) llymsur, surllyd, chwibl, egr, llym, chwig, chwigl, chwigws, iddas, egraidd.
To grow tart—suro; troi ar suro; egru, chwiblo; myned yn sur, &c.

Tart, *s.* pastai surber, pastejan surber, pastai aeron, pastai aeron, chwigl.

Tartan, *s.* (Ysp. ac It. *tartana*) math ar long o'r enw.

Tartan, *s.* (Ff. *tiretaine?*) brithwe, breithwe, brychan, brych.

Tartar, *s.* (Ll. *tartarum;* Ff. *tartre;* Ysp. *tartaro*) surgen, cen gwin, gwaddodgen; cen; chwigl, chwerwyn, chwiglyn, (*f.* chwiglen), un llymgyfrwys.
Cream of tartar=*Cream of tartar.*
Tartar of the teeth—cen y dannedd, dêntgen.
Tartar emetic—cyfogai surgenig, cyfogai surgen, cyfoglyn surgen, cyfog surgen.
Salt of tartar—hal surgen.
Acid of tartar=censur, sur surgenig.
To catch a tartar—dâl chwerwyn, chwiglyn, *neu* chwiglen; ymdrecha *neu* ymgyfnfod â'i drech; taro wrth ei drech; taro wrth chwiglen; taro wrth un rhy gryfion i un; cael ei orchfygu wrth geisio gorchfygu; yn ceisio dâl, drygu, *neu* niweidio arall; cael ei ddâl, ei ddrygu, *neu* ei niweidio ei hun.

Tartar,† *s.* (Ll. *tartarus*) uffern, annwn.

Tartarean, } *a.* (Ll. *tartarus*) uffernol, uffer-
Tartareous, } ig.

Tartaric Acid, *s.* sur surgenig, censur.

Tartarin, }
Tartarine, } *s.* surgenain.

Tartarization, *s.* surgeniad.
Tartarize, *v. a.* surgenu; nawsu â surgen.
Tartarous, *a.* surgenaidd; surgenog.
Tartarum, *s.* (Ll.) surgen wedi ymgaregu, maen-surgen.
Tartarus, *s.* (Ll.; Gr. *tartaros*) uffern, annwn.
Tartish, *a.* lledsur, gosur, suraidd, surllyd, egraidd, chwiblaidd.
Tartness, *s.* surni, surdeb, llymsurni, egredd, chwibledd, chwiblni.
Tartralate, } *s.* censurawd.
Tartrelate, }
Tartralic Acid, } *s.* sur censurodig, sur cen-
Tartrelic Acid, } surawd.
Tartische, *s.* tarian y Tyrciaid.
Tartuffe, *s.* (Ff.) rhagrithiwr, ffuantwr, ffugiwr.
Tartuffish,† *a.* rhagrithiol; manwl, ffurfiol.
Tar-water, *s.* dwfr oddi ar ulbyg.
Tasces, *s. pl.*=*Tasses.*
Tasco, *s.* clai y gwneir toddlestri o hono.
Task, *s.* (Ff. *tache;* C., Gw., a Gael. *tasg*) tasg; gwaith, gorchwyl; dogn; chwŷl; ysgâr; swydd a rhan un; yr hyn a rodder ar *neu* a orchymyner i un i'w wneuthur.
To let one a task=*Task, v. a.*
To take to task—galw i gyfrif; dwyn i'r holfa; cymmeryd mewn llaw; ceryddu.
Task, *v. a.* rhoi tasg ar *neu* i; tasgu ar un; gosod gwaith ar un i'w wneuthur; rhoi dogn o waith i un i'w wneuthur; dogni.
Tasker, *s.* tasgwr, tasgydd.
Taskmaster, *s.* meistr gwaith: *pl.* meistriaid gwaith.
Taskwork, *s.* tasg-waith, gwaith tasg, tasg.
Taslet, *s.* morddwydwisg, arfwisg y forddwyd.
Tassel, *s.* (C. *tawl;* It. *tasello*) tasel, tusw, siobyn, siob, twff; tusw o eddi.
Tassel, *s.*=*Teasel.*
Tassel, } *s.* (It. *terzuolo*) hebog gwryw, gwalch
Terzol, } gwryw, hwyedydd, hwyedig.
Tassel, *v. n.* taselu, siobynu.
Tasselled, *a.* taselog, siobynog, siobog.
Tassel-grass, *s.* tuswellt, tusw-ddyfrllys.
Tassel pondweed — tusw-ddyfrllys, dyfrllys tuswog, Rwppia morawl.
Tasses, } *s. pl.* morddwydwisg, arfwisg y
Tassets, } morddwydydd.
Tastable, *a.* chwaethadwy, profadwy, blasadwy; blasus, archwaethus.
Taste, *v.* (Ff. *tâter;* It. *tastare;* Al. ac Is. *tasten*) chwaethu, archwaethu, blasu, blasio; profi; cymmeryd prawf; cymmeryd tamaid prawf; cymmeryd llymaid prawf; clywed *neu* gael blas ar beth; bod â blas, chwaeth, *neu* archwaeth arno; sawyrio.
To taste again—adchwaethu, ail chwaethu; ail brofi; profi *neu* chwaethu eilwaith.
To taste before hand=*Foretaste.*
To taste of—profi, archwaethu, chwaethu; bod â blas *neu* chwaeth arno.
It tastes of the barrel—y mae blas y faril arno.
Taste, *s.* chwaeth, archwaeth, blas, chwaedd, chwaeg, dychwaeth; awen; chwaethiad, blasiad; sawyr; prawf, profiad; tamaid; eulwe.
The taste is one of the five senses—y chwaeth yw un o'r pum synwyr.
Pleasures of taste—hyfrydion chwaeth, plesserau chwaeth, chwaeth-bleserau.
Having a good taste—chwaethus, archwaethus, blasus; da ei flas; da ei chwaeth.
Sweet to the taste—melus i'r chwaeth, &c.; melus i'r geneu.
An ill taste—dryg-flas, dryg-chwaeth; adflas, adchwaeth; lledchwaeth; blas cas.
Having an ill *or* disagreeable taste—drwg, anhyfryd, *neu* anmheraidd ei flas; âg adflas *neu* adchwaeth arno, &c.
The taste of the times—chwaeth *neu* flas yr amseroedd; y chwaeth cyffredin, chwaeth y wlad.
This suits *or* hits the taste of the times—y mae hyn yn cyttaraw â chwaeth yr amseroedd; y mae hyn yn cyttaraw â chwaeth yr oes *neu* y do hon.
Without any taste, } diflas; heb flas (yn y
Having no taste, } byd) arno.
It has no taste whatsoever—nid oes arno flas yn y byd.
To take a light taste of a thing—gochwaethu, gobrofi, *neu* ledbrofi peth; cymmeryd gobrawf *neu* ledbrawf o beth.
To have a taste of something, } bod â blas
To taste of something, } *neu*
chwaeth rhyw beth arno.
A taste for—blas ar.
Tasteful, *a.* blasus, chwaethus, archwaethus, chwaethol, archwaethol; â blas *neu* chwaeth arno; da ei flas, &c.; sawyrus.
Tastefulness, *s.* blasusrwydd, chwaethusrwydd.
Tasteless, *a.* diflas, dichwaeth, diarchwaeth, diesawr, diesawyr; merf, merllyd.
Tastelessness, *s.* diflasrwydd, diflasder, diflasdod, &c.
Taster, *s.* chwaethwr, chwaethydd, chwaethiedydd, archwaethwr; profwr, profydd.
Tasting *s.* chwaethiad, archwaethiad, blasiad; chwaeth, archwaeth.
Tasty, *a.* chwaethus, archwaethus, blasus; chwaethog; âg ol chwaeth arno.
Tatch, *s.*=*Tache.*
Tatch, } † *s.* (Ff. *tache*) cast, dyfais, tro
Tatche, } cyfrwys.
Tatter, *v. a.* (S. *tætera*) rhwygo yn llarpiau; rhwygo yn llaprau; llarpio, cinynio.
Tatter, *s.* cerpyn, carp, llerpyn, llarp, bretyn, brat, brelyn, bral, cyrbibyn: *pl.* carpiau, llarpiau, bratiau, bralau.
To tear to tatters—rhwygo yn llarpiau, yn llaprau, yn gyrbibion, yn yfflon, *neu* yn ginynion.
Tatterdemalion, *s.* brenin y bralau, bretyn bratiog, brelyn bralog, cerpyn carpiog, bralgi, brilwm y bralau.
Tattered, *a.* carpiog, bralog, bratiog.
A tattered sheet—llenlliain frasdoll.
Tattle, *v. n.* (Is. *tateren*) clebran, baldorddi, bragaldian, gwagsiarad, ofersiarad, clebarddu, llolian, llolio, chwaldodi, chwalu chwedlau, pepru, gwersa, cleca, clegyr; chwedleua; clapian, arwain chwedlau.
Tattled of—y bu clebran am dano; yr eisteddwyd arno gân gleeiod; â fu yn chwedl gân gleeiod.
Tattle, *s.* gwagsiarad, siaradach, ofersiarad, baldordd, clebar, llol, chwaldod, chwaldordd, clinewm, pepraeth, ffiloreg, bryddoneg, pregawthen, clec, pebre, dwndwr.
Tattler, *s.* baldorddwr, clebarddyn (*f.* clebardden), clebryn, (*f.* clebren), clebarddwr,

baldorddyn, llolyn, pepryn, gwagsiaradwr; gwagsiaradus, &c.

Tattlery, *s.* ffol eiriau ffiloreg; gwagsiarad, ofersiarad, siaradach.

Tattling, *a.* baldorddus, clebarddus, siaradgar, dywedgar, clapianllyd.

A tattling girl—geneth, hogen, *neu* lodes glapianllyd; clapiast; geneth faldorddus, &c.

Tattoo, *s.* (*Ff. tapoter!*) tabyrddwys; pob un i'w fân.

Tattoo, *v. a.* tabyrddu pob un i'w fân; tabyrddwysio.

Tattoo, *v. a.* (gair perthynol i Ynysoedd y Deheufor) croenbigo, cenfritho; pigo y croen a gwneuthur lluniau ar hyd-ddo.

Tattoo, *s.* croenbigiad, cenfrithiad; lluniau ar y corff wedi eu gwneuthur drwy bigo y croen a'i liwio.

Tattooing, *s.* croenbigiad, cenfrithiad.

Tau, *s.* (enw y llythyren T yn yr Hebraeg a'r Groeg) croes ar lun T, croes Sant Antwn; llyffanbysg Carolina; math ar wibedyn.

Cross-tau—croes ar lun T, T-groes.

Taught, *p. p.* (o *teach*) à ddysgwyd, wedi ei ddysgu, dysgedig, &c.

Better fed than taught—gwell fu ei faeth na'i ddysg; gwell ei maethid nag ei dysgid.

Taught, *a.* (o *tie*) tyn (yn iaith morwyr).

Taunt, *a.* uchel, tâl (yn iaith morwyr).

Taunt, *v. a.* (Ff. *tancer?* C. *tantio?*) gwatwar, gwawdio; dannod i, edliw i, lliwied i; dirmygu, gwarthruddo, gwaradwyddo, difrio, difenwi, senu; sarhau; greffio, cellweirgnoi; deru.

To taunt mutually—ymdderu, ymedliw, ymddyfustlo.

Taunting proverb—gair du, dïareb wawdlem.

Taunt, *s.* gwawdair, gwatwareg, gwawd, gwatwar, gair du, gair brathlyd, brathair; ymadrodd brathlyd, chwerw, *neu* sarhäus; ateb dirmygus; edliwiant; dyfustledd; sen, sarhad, sar.

Bitter taunt=*Sarcasm.*

Taunter, *s.* gwawdiwr, gwarthruddwr, cellweirgnöwr, dyfustlwr, &c.

Tauntingly, *ad.*=*Gibingly; Contemptuously.*

Taura, *s.* (Ll.) buwch hesp, eidion benyw.

Tauricornus, *a.* (Ll. *taurus* a *cornu*) à chanddo gyrn tarw; tarw-gyrnig.

Tauriform, *a.* ar wedd tarw; fel tarw.

Taurine, *a.* (Ll. *taurus*) pethynol i darw; tarwin, tarwaidd.

Taurine, *s.* tarnur=sylwedd à geir mewn geri.

Taurocoll, *s.* (Ll. *taurus*, a Gr. *colla*) glud à wneir o groen tarw.

Tauromachia, *s.* (Gr.) ymladd teirw.

Tauromachian, *a.* perthynol i ymladd teirw.

Taurus, *s.* (Ll.; Gr. *tauros*) y Tarw, arwydd y Tarw=ail arwydd y sidydd.

Taut, *a.* (o *tie*) tyn. [lin.

Tautochrone, *s.* (Gr. *tautos* a *chronos*) cyfadeg-

Tautochronous, *a.* perthynol i gyfadeglin; cyfamserol, cydamserol.

Tautologic, **Tautological,** **Tautologous,** } *a.* adeiriadol, adeiriog; cyfystyr; ailadroddol.

Tautologist, *s.* adeiriwr, adeiriedydd.

Tautologize, *v. n.* adeirio; mynych adrodd yr un peth mewn gwahanol eiriau.

Tautology, *s.* (Gr. *tautologia*) adeiriad, [illegible] adroddiad, mynych ddywediad, ailadroddiad, mynycheb.

Tautophonical, *a.* cyfadseiniol.

Tautophony, *s.* (Gr. *tautos* a *phônê*) cyfadsain, ailadroddiad yr un sain.

Tautousian, **Tautousious,** } *a.* (Gr. *tautos*, ac *ôn*, [illegible] un gwir sylwedd neu hanfod; cydsylweddol.

Tavern, *s.* (Ll. *taberna;* Ff. *taverne*) tafarn; tafarndy, ty tafarn, dïotty, cyrtfdy: *pl.* tafarnau, tefyrn, dïottai.

Taverner,† *s.* tafarnwr, gwr tafarn.

Taverning,† *s.* witrees mewn tafarnau.

Tavernman,† *s.* tafarnwr; dïottwr.

Tavernkeeper, *s.* tafarnwr, gwr tafarn.

Taw, *v. a.* (S. *tawian*) cyffeithio neu gwneud lledr gwŷn; meddal gyweirio lledr; lledru; curo.

Taw, *s.* mynoren, mynorbel; chwarae mynorion.

Tawdriness, *s.* coeg-ddillynedd, coeg-dlysni; coeg-dlysni; gwaelwychder; coegddrygedd, coeg-ddysgleirder.

Tawdry, *a.* (anhysbys) coeg-ddillyn, coeg-dlws; gwaelwych; coeg-ddysglaer; coegwych; [illegible] wych.

Tawdry, *s.* tegan coeg-dlws, coeg-dlysni.

Tawer, *s.* cyffeithiwr lledr gwŷn.

Tawery, *s.* cyffeithfa lledr gwyn.

Tawing, *s.* cyffeithiad lledr gwŷn.

Tawniness, *s.* melynddnedd; melynedd, melynder, melyndra; cibddüwch.

Tawny, *a.* (Ff. *tanné*) melynddu; melyn; cibddu, dwn, gell.

Tax, *s.* (*Ff. taxe;* Ll. *taxo*) treth, tredi; cyfraid; tasg; cais; baich; cerydd; yr hyn y cerhuddir un o hono.

Land tax—y dreth fawr, ardreth y breuin, treth tir, tâl tir, tâl y breuin, y trethmawr.

Property tax—treth ar eiddo; treth ar feddiannau; treth ar feddiant; treth meddiannau; treth elw.

Assessed taxes—treth y breuin, treth wirfoddol, treth amrywion.

Income tax—treth ar gyllid; treth daredog, treth y ddaered; treth derbyniau, treth cyllid, treth gyllid.

Window tax—treth y goleu, treth y goleuni, treth ffenestri.

Excise tax—treth ar nwyddau, treth ddarseth, treth nwyddol, treth treulgedi.

Indirect tax—treth ddigyfrwng; treth ar nwyddau.

Direct tax—treth noeth=treth ar gyllid a meddiannau.

Tax, *v. a.* trethu; codi treth ar; tasgu; pennoi; cyhuddo, beio, ceryddu.

To tax the costs and charges of a suit—cyfwerthyddio hawl.

To tax with—rhoi, bwrw, gosod, *neu* dalu yn erbyn; bwrw ar; cyhuddaw o, arglwyddiaeth o; achwyn ar, cwyno ar, beio ar; edliw i, cyfedliw i, lliwied i, ymliw i; dannod i; rhoi yn maich ar.

Taxability, **Taxableness,** } *s.* hydrethedd; cyfiwr neu [illegible] sawdd trethadwy.

Taxable, *a.* trethadwy, hydreth.

Taxation, *s.* (Ll. *taxatio*) trethiad, ardrethiad; treth; cyhuddiad.

Taxer, *s.* trethwr, trethydd, trethiedydd.

Tax-free, *a.* didreth.
Tax-gatherer, *s.* casglwr trethi, ceisiad, trethgasglwr, trethgeisiwr, ardrethwr.
Taxiarch, *s.* (Gr. *taxiarchês*) penaeth myntai o wyr (yn Athen gynt).
Taxicorns, } *s. pl.* (Gr. *taxis*, a Ll. *cornu*) sud-
Taxicornes, } gyrnogion.
Taxidermic, *a.* croenofyddol.
Taxidermist, *s.* croenofydd.
Taxidermy, *s.* (Gr. *taxis* a *derma*) croenofyddiaeth=celfyddyd darparu a chadw crwyn anifeiliaid, fel ag i arddangos eu dull naturiol.
Taxing, *s.* trethiad, tasgiad.
Taxis, *s.* (Gr.) trefn, trefnid; dosbarth.
Taxonomy, *s.* (Gr. *taxis* a *nomos*) trefnofyddiaeth; dosbarth, dosbarthiad.
Taxor, *s.* trethor, trethwr.
Taxus, *s.* (Ll.) ywen, y pren yw.
Tazel, *s.*=*Teasel.*
Tazza, *s.* (It.) dyfrgist; ymdrochfa.
Tea, *s.* (Cataieg, *tcha* neu *tha*; Ysp. *te*; It. *tè*; Ff. *thè*; R. *tshai*) te; trwyth.
Tea, *v. a.* cymmeryd te, yfed te.
Tea-board, *s.* te-ford, te-fwrdd, heilyn te, heilyr te.
Teach, *v.* (S. *tæcan*; Ll. *doceo*) dysgu, addysgu, hyfforddi, athrawiaethu, athrawu, trawu.
Apt to teach — athrawgar, athrawaidd, athrawus.
To teach one's grandam to suck—dysgu gradd i henfarch; oen yn dysgu i ddafad bori.
Teach, *s.* (Gw. *teagham*) y berwedydd olaf (mewn gwaith sugr).
Teachable, *a.* dysgadwy; hawdd ei ddysgu; parod i ddysgu; hyddysg; hydrin, hywedd, hywaith, hyddof; gwareiddiol.
Teachableness, *s.* hyddysgedd; parodrwydd i ddysgu.
Teacher, *s.* dysgwr, dysgydd, dysgedydd, dysgawdwr, dysgawdr, addysgwr, addysgydd, athraw.
Female teacher—dysgodres, athrawes.
Teaching, *s.* dysgiad, addysgiad; addysg; athrawiaeth.
Teachless, *a.* annysgadwy; anhyddysg.
Tead, } † *s.* (Ll. *tæda*) canwyll gŵyr.
Tede, }
Tea-cup, *s.* cwpan te, te-gib.
Teague, *s.* Gwyddel (mewn dirmyg).
Tea-kettle, *s.* callor te, crochan te, tegell.
Teal, *s.* (Is. *taling*) corhwyad, crach-hwyad.
Team, *s.* (S. *team*) gwedd, adgor; rhes: *pl.* edgyr, adgorau.
Team of horses—gwedd o feirch.
A team of oxen—gwedd o ychain.
A team of four—gwedd pedwar; gwedd pedwar-march, &c.
Teamster, *s.* gyrwr gwedd, gyriedydd gwedd, geilwad.
Tea-pot, *s.* tebot, pot te.
Tear, *s.* (S.; Sw. *tar*; D. *taare*; Gael. *dear*) dagr, deigr, deigryn, daigr, degryn: *pl.* dagrau, deigrau, deigr.
A little tear, } deigryn.
A single tear, }
Abundant tears=hidl ddagrau, dagrau hidl.
To shed tears—tywallt, gollwng, colli, neu fwrw dagrau; wylo, wylofain, deigro.
To shed tears abundantly—wylo yn hidl, yn hidlaidd, neu yn hidlus.
His tears flow incessantly—hidl yw ei ddagrau.
Apt to shed tears—hyddeigr.
To drop like tears, } deigrynu.
To trickle down like tears, }
Shedding tears plentifully, } hidlddeigr;
Shedding tears in abundance, } hidl ei ddagrau.
To flow with tears, } wylo yn hidl neu
To be dissolved in tears, } yn hidlaidd.
Tear, *v.* (S. *tæran*) rhwygo, llarpio, carpio, llapreio, dragio, dryllio, ethrychu, tori, tynu, dirdynu, briwo; ystormio, brochi, ffromi.
To tear one another—ymgigyddio; rhwygo eu gilydd; rhwygo y naill y llall.
To rant and tear—rhegu a rhwygo.
To rant and tear along—myned dàn regu a rhwygo; myned dàn wylltio a brochi.
Tear, *s.* rhwyg, rhwygiad; bradwy.
Tearer, *s.* rhwygwr, rhwygydd, rhwygiedydd, llarpiwr, drylliwr.
Tearful, *a.* llawn dagrau, deigrlawn, deigrol, dagreuol.
Tearless, *a.* diddeigr; dideimlad.
Tea-saucer, *s.* dysgl de, dysglan de.
Tease, *v. a.* (S. *tæsan*) blino, aflonyddu, poeni, trabluddio, plaeo, ystuno; chwalu gwlan, tori gwlan (â chribau cyffredin); cribo, crafu.
Teasel, } *s.* (S. *tæsl*) teilai, ysgall y panwr,
Teazel, } cribau y panwr, llysiau y panwr.
Teazle, }
Fuller's teasel, } cribau y panwr, llysiau y
Fuller's thistle, } panwr, ysgall y panwyr, llysiau y panwyr, llysiau y cribau, teilai mawr.
Wild teasel—teilai gwyllt.
Small teasel—ffon y bugail, gwialen y bugail.
Teasel, } *v. a.* tori a chasglu ysgall y panwr;
Teazle, } tori a chynnull teilai.
Teazle, }
Teaseler, } *s.* arferwr *neu* ddefnyddiwr teilai.
Teazler, }
Teaser, *s.* blinwr, aflonyddwr.
Teat, *s.* (S. *tit*; Is. *tet*; Corn. *titi*; Gw. a Gael. *did*) teth, diden, diten, pitan, diti, didi; bron.
Teated, *a.* tethog, didenog; bronog.
Techiness, *s.* anniddigrwydd, hyddigrwydd, anfoddogrwydd, ffromedd, ffromder, digllonedd, tanllydrwydd, drengder, drygnawsedd.
Technic, } *a.* (Ll. *technicus*; Gr. *technicos*)
Technical, } celfyddydol, celfyddol, celfyddus, celfyddaidd, celfyddodawl, celfig; perthynol i gelfyddyd *neu* i'r celfyddydau.
Technical words, } celfeiriau, geiriau celf-
Technical terms, } yddydol, geiriau celfyddyd, celfenwau: *sing.* celfair, celfenw.
Technical language—iaith gelfyddydol, celfiaith, iaith celfyddyd.
Technically, *ad.* yn ol celfyddyd; yn gelfyddydol, &c.
Technicalness, } *s.* celfyddoldeb, celfyddus-
Technicality, } rwydd.
Technics, *s.* celfyddydeg, celfeg.
Technicological, *a.* celfofyddol; perthynol i'r celfyddydau; celfyddol.
Technologist, *s.* celfyddonydd, celfeiriwr.
Technology, *s.* (Gr. *technê* a *logos*) celfyddoniaeth, celfofyddiaeth; celfeglureg, celfeiriadur.

Techy, *a.* (=*touchy*) anniddig, hyddig, anfoddog, afrywiog, anfwyn, anhynaws, anynad, dreng, drygnaws, ffromus, tanllyd.

Tectibranchiata, *s. pl.* (Ll. *tectus*, a Gr. *bragchia*) celdagellogion.

Tectonic, *a.* (Gr. *tectonicos*) adeilyddol, adeiladol, adeilaidd, saernïol.

Ted, *v. a.* (C. *ted*, *tedd*) gwasgaru, taenu, chwalu.

To ted hay—gwasgaru gwair.

Tedder, *s.* (C. *tid*; Gw. a Gael. *tead*, *teidin*) tidmwy, tidraff; rhaff=rhaff y rhwymir anifail wrthi mewn porfa.

To keep within one's tedder—ymgadw o fewn ei derfynau neu ei gyffiniau; sefyll ar ei dalwrn.

Tedder, *v. a.* tidmwyo, tidraffu, tido, rhaffu; rhoi *neu* rwymo wrth y rhaff.

To tedder a horse—tido *neu* didmwyo ceffyl; rhoi ceffyl wrth didmwy.

Tedding, *s.* gwasgariad, chwaliad, taeniad.

Te Deum, *s.* (Ll.) Cân Sant Ambros, yn dechreu—'*Ti Ddŵw*, a folwn'.

Tedious, *a.* (Ll. *tædium*) maith, hirfaith, hir, dygn, dygn-faith, annyben, diddyben, diddiwedd, diddarfod, dyhair, diorphen; afrys, difrys, hwyrdrwm; blin, blinderus, poenus; meithiw.

This tedious journey—y daith hirfaith hon.

Many a tedious year—llawer blwyddyn hirfaith; llawer blwyddyn ddygn-faith.

A tedious job—gorchwyl annyben, &c.

A tedious mortal—dyn difrys, dyn afrys; dyn hwyr ei dro; dyn hwyr ei orchwyl.

Tediousness, *s.* meithder, meithdra, meithedd, meithni, hirfeithder, hirfeithedd, dygnedd, annybendod, &c.

Tedium, *s.* (Ll. *tædium*) dygnedd; blinder; diflasdod, diflasrwydd.

Tee, *s.* gwlawlen (yn yr India).

Teem, *v.* (S. *tyman*) hilio, epilio, amhilio, esilio; hilio yn aml; heigio; dwyn (allan) yn aml; cnydio yn aml; beichiogi; bod yn feichiog *neu* yn dromfeichiog; bod yn llawn; cynnyrchu; pyngu, pyngo; † tywallt.

To teem with—bod yn llawn o; bod yn llawn; heigiaw o; bod yn frith o; bod yn dryfrith o.

Teemer, *s.* hon à ddwg aml epil; un aml ei hepil; epilwraig, epilyddes, hilyddes.

Teemful, *a.* llawn; beichiog, epiliog; ffrwythlawn, ffrwythig, cnydfawr; cyforiog, cyforawl, cyfor.

Teeming, *a.* epiliog; beichiog; llawn; ffrwythlawn, ffrwythig, cnydlawn; llawn; tryfrith; eigiol; pyngol.

Teemless, *a.* diffrwyth, anffrwythlawn; diepil, anepiliog; afiesol.

Teen,† *v. a.* (S. *tynan*) annog, cythruddo, ystuno.

Teen, † *s.* gofid, blinder.

Teens, *s. pl.* (o *teen*=*ten*, megys yn thir*teen*) arddegau=o 12 ac 20.

The teens—yr arddegau.

She is in her teens—y mae hi wedi cyrhaedd ei harddegau.

Miss in her teens—meistresan yn ei harddegau.

Teeth, *s. pl.* (o *tooth*) dannedd, daint. [gur.

Chattering of the teeth—deintgryd, deint-

In the teeth of—yn nannedd; o flaen ei lygaid.

To stick the teeth in a thing—deintio peth.

To dash out one's teeth—tori dannedd un.

Having (great) teeth—danneddog, deintiog.

Wanting teeth—mantach, diddannedd, deintgoll.

Cutting of teeth=*Dentition*.

Teeth of a wheel—dannedd olwyn, dant olwyn, cocasau rhod, cocos olwyn.

Teeth, *v. n.* magu dannedd, cael dannedd, danneddu.

Teething, *s.* magiad dannedd, magu dannedd, danneddiad.

Teetotal, *a.* (gair arferedig gynt yn mhlith milwyr am *total*, yr hwn yn debygol a fuc-iwyd wrth seinio *total* dân gecian. A wyp am well tarddiad, traethed ei lên) llwyrwrthodol (à diodydd meddwol), llwyrymattaliol; dirwestol.

Teetotalism, *s.* llwyrymwrthodiad (à diodydd meddwol), llwyrymattaliad; dirwestiaeth, dirwest.

Teetotallers, *s. pl.* llwyrymwrthodwyr, llwyrymwrthodiaid, llwyrymattalwyr; dirwestwyr.

Teetotum, *s.* topyn chwarcu, corn tro.

Teg, } *s.* hyddes ddwyflwydd, ewig ddwy-
Tegg, } flwydd; hespin.

Tegmen, *pl.* Tegmina, *s.* (Ll.)=*Tegument*.

Tegument, *s.* (Ll. *tegumentum*) cenog amlen *neu* orchudd deilfagur; tudded.

Tegular, *a.* (Ll. *tegula*) peithynol; perthynol *neu* beithynen; peithynaidd, elechaidd, priddlechaidd; tebyg i beithynen *neu* lech.

Tegment, } *s.* (Ll. *tegumentum*, *tegmen*) gor-
Tegmen, } chudd, tudded, arwisg, arlen, arhulen, gwisg; pilen, croenyn, croenen; gwisg adenydd trychfilod.

Tegumentary, *a.* gorchuddiol, tuddedol, amlenol.

Teil, } *s.* (Ll. *tilia*; Gw. *teile*) gwaglwyfen.
Teiltree, } gwaglwyf, piswydden, pliswyn, pliswyrnen, piagen, eurwernen, palwyf, palwyf: *pl.* piswydd.

Teinds, *s. pl.* (Goth. *tiende*) degymau (yn yr Alban).

Teinoscope, *s.* (Gr. *teinô* a *scopeô*) estynsyllyr.

Teint, *s.* (Ff.; Ll. *tingo*) lliw, gwawr, gorliw; rhith.

Telamones, *s. pl.* (Gr.) attegwyn, dynattegion.

Telary, *a.* (Ll. *tela*) gweol, gwenol, gwenïol; nyddol.

Tehee, *in.* wihi! he he! ha ha!

Tehee, *s.* chwerthin wihi, chwerthin he he.

Tehee, *v. n.* chwerthin wihi, &c.

Telegraph, *s.* (Gr. *têle* a *graphô*) pellfynag, pellebyr, bryafynag, brysebyr, hysbysi.

Electric telegraph=(d. g. *Electric*)

Telegraph, *v. a.* pellfynegu, pellebru, bryfynegu, brysebru; hysbysu gyda'r pellfynag; gyru drwy y pellfynag, &c.

Telegraphic, *a.* pellfynegol, pellebrol, bryfynegol.

Telegraphic art—pellfynegiaeth.

Telegraphy, *s.* pellfynegiaeth, bryafynegiaeth, pellebraeth.

Teleological, *a.* diweddegol.

Teleology, *s.* (Gr. *telos* a *logos*) diweddegathrawiaeth achosion terfynol pethau.

Teleosaurus, *s.* (Gr. *teleios* a *sauros*) cyfrythychwil, cyfrifddfall.

Telephone, *s.* (Ff.; Gr. *têle* a *phônê*) pellseinyr.

Telephonic, *a.* pellseiniol.

Telescope, *s.* (Ff.; Gr. *têle*, *telos*, a *scopeô*) pell-

ddrych, ysbeiadyr, tremiadyr, pellweladyr, pellwelyr, tremwydr, sylldrych, ysbienddrych, ysbeienddrych.

Telescopic, } *a.* pelldrychol, tremiadyrol,
Telescopical, } ysbeiadyrol; à welir yn unig drwy belldrych.

Telescopium, *s.* y Pelldrych=enw cydser, yn cynnwys 9 seren.

Telesia, *s.*=*Sapphire.*

Telesm, *s.* (Ar.) swyneilun, hudeilun, eilun cyfaredd.

Telesmalic, } *a.* swyneilunol, hudeilunol,
Telesmalical, } swynol.

Telestich, *s.* (Gr. *telos* a *stichos*) olenw, olenwad =cân â llythyrenau diweddaf y llinellau yn gwneyd rhyw enw.

Telic, *a.* (Gr. *telos*) perthynol i amcan terfynol pethau.

Tell, *v.* (S. *tellan;* Is. *telle*) dywedyd, gwedyd, gweyd, dyweyd, dweyd, doedyd, llefaru, meddyd; mynegu, adrodd, traethu; hysbysu; rhifo; cyfrif; gwybod, medru; effeithio; cael ei effaith; peri ei glywed.

To tell again—ail adrodd, dywedyd eilwaith.

To tell out—adrodd allan, adrodd, traethu.

To tell off—rhifo, cyfrif; rhannu.

To tell of—mynegu am, dywedyd am, &c.; dywedyd ar.

To tell of a thing—mynegu peth i *neu* wrth un; dywedyd i *neu* wrth un am beth; hysbysu un am beth; dangos i; hysbysu i; adrodd i.

Tell on—dos yn mlaen â'th chwedl; ewch yn mlaen â'ch chwedl.

I can tell—gŵn; mi a ŵn; yr wyf yn gwybod; medraf.

We cannot tell—nis gwyddom.

Who can tell?—pwy a ŵyr?

You can tell how to do it—medrwch chwi ei wneuthur; chwi a fedrwch ei wneuthur.

I will tell him the whole matter—mi a ddywedaf y cwbl wrtho; ni chelaf ddim oddi wrtho.

To tell fortunes—darllen tesni, darllen tynged.

A story never loses by telling—ni chyll chwedl o'i mynych adrodd.

While the money was telling—tra rhifid yr arian.

Teller, *s.* dywedwr, gwedwr, mynegwr, adroddwr, hysbyswr, hysbysydd; rhifwr, rhifydd, cyfrifwr, cyfrifydd; ariandalwr.

Teller of the exchequer—cyfrifwr y sylltty.

Tellership, *s.* cyfrifwriaeth.

Tellinite, *s.* (Gr. *tellinê*) math o faen-gragen.

Telltale, *a.* yn arwain *neu* yn taenu chwedlau; clapiyd, chwedlëig.

Telltale, *s.* arweiniwr chwedlau, clapgi, clepgi, chwedlai, chwedlwr.

Tellural, *a.* (Ll. *tellus*) daiarol, tudol.

Tellurate, *s.* tudhalan.

Telluric, *a.* daiarig, daiarol, tudig.

Telluric Acid, *s.* sur daiarig, sur tudig.

Tellurion, *s.* tudfynag.

Tellurite, *s.* tudhalid.

Tellurium, *s.* (Ll. *tellus*) delid à ddarganfuwyd yn 1782.

Tellurous Acid, *s.* sur tudaidd, sur daiaraidd.

Temeranous, *a.* (Ll. *temerarius*) byrbwyll, chud, chwidr, anystyriol, rhull, anhybwyll, brysgar; cegeulus, diofal; rhyfygus, dibris.

Temerity, *s.* (Ll. *temeritas*) byrbwylldra, chudrwydd, chwidredd, rhulldra; gorhyfder; anystyriaeth; dibrisdod.

Temper, *v. a.* (It. *tempero;* Ff. *temperer*) tymmeru, ardymmeru, tymmyru; cyfnawsu, nawsu, nawsio, nawsoli, nawseiddio; cymmedroli; cyfagweddu; tyneru, meddalhau, llinaru; cymmysgu, mysgu; tylino.

To temper together—cyttymmeru, cyddymmeru.

To temper itself—ymdymmeru.

To temper the passions—cymmedroli yr anwydau.

Temper, *s.* tymmer, ardymmer, tymmyr, naws; credd, creth; ansawdd, cyflwr; natur, anian; cymmedroldeb; rhywiogrwydd, nawseiddrwydd.

Temperament, *s.* (Ff.; Ll. *temperamentum*) tymmeredd, ardymmeredd, cyttymmeredd; tymmer, ardymmer, ardymmyr; crethineb, cyfnaws, naws, nawsineb, anian, nawsiant, dyli, cyfnawsedd; cymmedroldeb; cymhwys gymmysg pethau anghymhwys; cymhwys gymmysgedd anghyfnawsion.

Temperamental, *a.* tymmerol, tymmeraidd, ardymmerol, crethol, creddol, crethus, gnaws.

Temperance, *s.* (Ff.; Ll. *temperentia*) cymmedroldeb, cymmedrolder, cymmedroledd; tymmerusrwydd; dirwest; sobrwydd.

Temperance societies—cymdeithasau cymmedroldeb.

Temperate, *a.* (Ll. *temperatus*) cymmedrol, tymmerus, ardymmerus; cymmesur; tymmyrol; tymmeraidd; tymmoraidd, mwyn, clauar, tawel, nawsaidd; gweddol.

Temperateness, *s.* cymmedroldeb, tymmerusrwydd, &c.

Temperative, *a.* tymmerusol, tymmeredigol.

Temperature, *s.* (Ff.; Ll. *temperatura*) tymmeredd, ardymmeredd, ardymmer, ardymmyr; cymmedrolder, cymmedroledd; nawsoldeb, nawsedd, nawsoledd.

Tempered, *a.* tymmeredig, &c.

Good tempered—da ei dymmer.

Tempering, *s.* tymmeriad, ardymmeriad; cyfnawsiad.

Tempest, *s.* (Ll. *tempestas*) tymhestl, ystorm, rhyferthwy, dyhinedd, arfrochell, brochell, enawel, dryghin, cyrhynt, gyrwynt, cwthwn, cymmlawdd; cynhwrf, cyffro.

Tempest, *v. a.* cynhyrfu, terfysgu, cyffröi, tymhestlu.

Tempest,† *v. n.* ystormio, tymhestlu.

Tempestive,† *a.* tymmoraidd, amserol,

Tempestivity,† *s.* tymmoreiddrwydd, amseroldeb.

Tempestuous, *a.* tymhestlog, tymhestlus, ystormus, dryghinllyd, dryghinog, garw.

To be tempestuous—bod yn dymhestlog, &c.; terfysgu.

Tempestuousness, *s.* tymhestlogrwydd, ystormusrwydd, dryghinedd, rhyferthin.

Templar, *s.* (o *temple*=y Deml yn Ierusalem) Temlydd, Temlwr.

Templars—Temlyddion=Marchogion y Deml.

Templar, *s.* (oddi wrth y *Temple*, ty ger y Tafwys yn Llundain, yr hwn a berthynai ar y cyntaf i Farchogion y Deml) temlwr, temlydd, dysgybl y deml, un o ddysgyblion y deml, myfyriwr y gyfraith, rheith-efrydydd, cyfreithiwr iouanc.

Template, *s.* darn o bren o dàn ben tylath neu ewinbren.

Temple, *s.* (Ff.; Ll. *templum*) teml; addolfan.
Knights of the Temple—Marchogion y Deml=Temlyddion.
Middle Temple—y Deml Ganol (yn Llundain).
Inner Temple—y Deml Fewnol (yn Llundain).

Temple, *s.* (Ll. *tempus, tempora*) arlais, neidrwydd, eneidrwydd, gwyal: *pl.* arleisiau, neidrwyddau.

Temple, *v. a.* adeiladu teml i; temlu.

Templet, *s.* mold, drychiaden (arferedig mewn gwaith saer maen).

Tempo, *s.* (It.) amser, awd.

Temporal, *a.* (Ll. *temporalis*) tymmorol; amserol; à fo dros amser; bydol, lleyg, anghyssegr, anghyssegredig; eiddo yr arlais neu yr arleisiau; arleisiog, arleisiol.
The temporal artery—rhedweli yr arlais.

Temporalities, } *s. pl.* tymmorolion, meddiannau
Temporals, } nau tymmorol.

Temporality, *s.* meddiant tymmorol.

Temporally, *ad.* yn dymmorol, &c.; dros amser.

Temporalness,† *s.* bydolrwydd.

Temporalty, *s.* gwŷr lleyg, y lleygon, lleygwyr; tymmorolion.

Temporaneous, *a.* =*Temporary.*

Temporariness, *s.* amseroldeb.

Temporary, *a.* (Ll. *temporarius*) amserol; à fo dros amser yn unig; à fo dros ryw dalm o amser yn unig; byr ei barhad.
A temporary bridge—pont dros amser.

Temporization, *s.* cydymagweddiad â'r amser.

Temporize, *v. n.* (Ff. *temporiser*) cydymagweddu â'r amser neu yr amseroedd; troi neu ymdröi gyda'r amser; troi neu ymdröi gyda'r amseroedd; canlyn neu ddylyn yr amser; ymlunio at yr amseroedd; oedi, gohirio, ennill amser.

Temporizer, *s.* cydymagweddwr â'r amser; dylynydd neu ganlynydd yr amser; gwas yr amser; nofiwr gyda'r ffrwd.

Temporising, *s.* cydymagweddiad â'r amseroedd, &c.

Tempt, *v. a.* (Ll. *tento*) profi; ceisio neu brofi tynu ar ddidro; ceisio neu brofi tynu i'w ergyd ei hunan; ceisio gwall ar; denu, hudo, llithio, hudbrofi, temtio; annog, cythruddo; cynnyg, anturio.

Temptable, *a.* profadwy, denadwy.

Temptability, *s.* profadwyedd.

Temptation, *s.* profedigaeth; hudiad, deniad, llithiad, hud; profiad, prawf; cythruddiad.

Temptationless, *a.* dibrofedigaeth.

Tempter, *s.* hudwr, hudydd, hudiedydd, hudai, denwr, temtiwr; profwr.

Tempting, *a.* denol, deniadol, hudol, dengar, attynol; profedigaethus.

Temptingness, *s.* denoldeb, hudolrwydd, dengarwch.

Temptress, *s.* hudoles, hudai, llithwraig.

Temse, *s.* (Ff. *tamis*) gogr, rhidyll.

Temse-bread, } *s.* (Ff. *tamus, tamiser;* It.
Temsed-bread, } *tamiso, tamisare*) bara peiniol.

Temulence, } † *s.* (Ll. *temulentia*) meddwdod,
Temulency, } meddwaint, brwysgedd.

Temulent, } † *a.* (Ll. *temulentus*) meddw,
Temulentive, } brwysg, meddwain.

Ten, *a.* (S. *tyn;* Is. *tien;* Al. *zehn*) deg, deng.
Ten men—deg gwr, deg dyn, dengyr, dengnyn, deg o wŷr, deg o ddynion.
A captain of ten men—dengwriad.
The ten commandments—y deg gorchymyn, y dengair deddf.
Ten years old—dengmlwydd oed.
Ten times—dengwaith, deg gwaith, deg o weithiau.
Ten times as much—y deg cymmaint, cymmaint ddengwaith.
Ten thousand—deng mil, myrdd, deg o filoedd.
Ten thousand times ten thousand—myrdd fyrddiwn (*Dan.* vii. 10); myrdd o fyrddiynau.

Ten, *s.* deg; *pl.* degau.

Tenable, *a.* (Ff.; Ll. *teneo*) daliadwy; diffyradwy, cadwadwy; hyddal.

Tenability, } *s.* hyddaledd; anawsdd ô
Tenableness, } ffynadwy.

Tenacious, *a.* (Ll. *tenax*) gwydn, (*f.* gwedn); gafaelus, gafaelgar, glud, gludiog, glynglyn, ymlynol, teng, tengyn; llawgam; cyrrith; cyndyn.

Tenaciousness, } *s.* gwydnedd; gludedd, glyn-
Tenacity, } rwydd, gafaelusrwydd, gafaelgarwch, glynoldeb; ymlyniad; cyndynrwydd; gafael.

Tenaculum, *s.* (Ll.) gafaelor, bachyn llawfeddyg.

Tenacy,† *s.*=*Tenaciousness.*

Tenail, } *s.* (Ff. *tenaille*) corn hwrdd (mewn
Tenaille, } caerwaith): *pl.* cyrn hwrdd.

Tenaillon, *s.* gogorn hwrdd (mewn caerwaith).

Tenancy, *s.* (o *tenant;* Ysp. *tenencia*) deiliadaeth, gafael, daliad.
Tenancy at will—deiliadaeth breswylfoddog, preswylfoddogaeth.

Tenant, *s.* (Ff.; o'r Ll. *teneo*) deiliad, deiliad; daliwr tir, tir-ddeiliad: *pl.* deiliaid, deiliaid.
Tenant at will—deiliad preswylfoddog.
Under tenant—deiliad dàn ddeiliad, is-ddeiliad; ail gymmerwr.

Tenant, *v. a.* meddiannu fel deiliad; dàl.

Tenantable, *a.* addas i ddeiliad; cyfaddas i'w rentu.

Tenantableness, *s.* addasrwydd i ddeiliad.

Tenanted, *a.* tynòedig (yn arfau bonedd).

Tenantless, *a.* diddeiliad, heb ddeiliad.

Tenantry, *s.* deiliaid, deiladon;† deiliadaeth.

Tench, *s.* (Ff. *tenche;* Ll. *tinca;* Ysp. *tenca*) ysgreten, gwrachen.
Sea-tench—gwrachen y môr, mor-wrachen.

Tend, *v. a.* (byrhad o *attend*, Ll. *attendo*) gwyliedd, gwylio, gwarchad, gwarchadw, gwarchod; gweini ar, gweini i, gweinyddu i; heilio; gofalu am; edrych at; areilio, arail; cyfranu.

Tend, *v. n.* (Ll. *tendo;* Ff. *tendre*) tueddu, gogwyddo, cyfeirio, gobwyso; arwain, tywys, tywyso; tynu (at); † dysgwyl.
To tend to—tueddu at, &c.; arwain i, &c.
Whereunto tend all these things—i ba berwyl y mae hyn oll? at ba ddybenion tuedda yr holl bethau hyn?

Tendance,† *s.*=*Attendance.*

Tendency, *s.* (o *tend;* Ll. *tendens*) tuedd, gogwydd, tueddiad, gogwyddiad, tynfa, cyfeiriad; crethyll, göen; wysg.

Tender, *s.* (o *tend*) heilydd, gweinydd, areilad, areilydd; meithrines, mammaeth; heilfad, gweinidlong.
A ship tender—heilfad.

Tender, *s.* (Ff. *tendre*) cynnyg, cynnygiad.
Tender, *v. a.* (Ff. *tendre*) cynnyg, cynnygio, dargynnyg; gosod ger bron; rhoddi.
Tender, *a.* (Ll. *tener*; Ff. *tendre*) tyner, tirion, hynaws, mwyn, caruaidd; meddal; esmwyth; mwyll, plydd, blydd, gwlydd, ir; gwàn; tosturiol; tynerus; ieuanc; awsaidd, mawsaidd.
Tender grapes—grawnwin ieuainc, gwinrawn ieuainc, egin grawnwin, egin gwinrawn, egin grawn.
Tender grass—glaswellt, irwellt, gwellt tyner.
Tender herb—glas lysieuyn gwàn, irwellt, glaswellt.
Tender love—tyner gariad, tirion gariad; caredigol serch.
Tender passion—tynernwyf, tyner nwyf; serch.
Tender mercy—tostur, tirion, *neu* dyner drugaredd.
Of tender mercy—trugarog.
To make tender—tyneru, meddalu, &c.; gwneuthur yn dyner, &c.
To grow tender—tyneru; myned yn dyner.
A tender subject—mater cynnil; peth tyner, &c.
Tender-hearted, *a.* calon-dyner, tyner ei galon, tyner-galon; hynaws, tosturiol; gwàn ei galon; twym-galon.
Tender-heartedness, *s.* tynerwch calon, calon-dynerwch; hynawsedd.
Tender-hefted,† *a.* mawr ei dynerwch.
Tenderling, *s.* anwylyn, anwylyd, anwesyn, maldodyn, plentyn anwes, hoffyn; tynergorn hydd.
Tenderloin, *s.* tyner-lwyn eidion.
Tender-minded,† *a.* tosturiol.
Tender-mouthed, *a.* min-dyner, min-feddal.
Tenderness, *s.* tynerwch, tyneredd; tiriondeb, hynawsedd, &c.; teimladrwydd; gwawa.
Tenders, *s. pl.* cynnygion.
Tending, *s.* areiliad, gwyliad, &c.
Tending, *s.* ysgogiad llong ar ei hangor.
Tendinous, *a.* (Ff. *tendineux*; o'r Ll. *tendines*) gewynog, gawog; gewynol.
Tendment,† *s.* ystyriaeth, gofal.
Tendon, *s.* (Ll. *tendo*) gewyn, gieuyn, gi.
Tendons—gewynau=y giau a'r llinynau sy'n mhenau y cyhyr yn nglŷn wrth yr esgyrn tua'r cymmalau.
Tendril, *s.* (Ff. *tendron*) amdorch, amglwm, amglymydd, amglymiad, tytmwy, llysdorch.
Tendry, *s.* (o *tender*) cynnyg, cynnygiad.
Tendsome, *a.* yn gofyn llawer o ofal am dano.
Tenebrific, *a.* (Ll. *tenebræ* a *fero*) yn dwyn *neu* yn cynnyrchu tywyllwch; tywylledigol.
Tenebrous, **Tenebrious**, *a.* (Ll. *tenebrosus*) tywyll, caddug-lyd, caddugol, gwyll, gwrm, anoleu; du.
Tenebrousness, **Tenebrosity**, *s.* tywyllwch, tywyllwg, tywyllni, caddug, gwyll.
Tenement, *s.* (Ff.; Ll. *tenementum*) tyddyn, syddyn, esyddyn, eisyddyn, gafael, daliad; ty ardrethol, ty.
A small tenement—tyddyn bychan, tyddynyn.
Tenemental, *a.* tyddynol, esyddynol.
Tenementary, *a.* à ddelir gàn ddeiliaid; y sy *neu* à ellir ei osod ar edring; edringol.
Tenerity,† *s.* (Ll. *teneritas*)=*Tenderness*.
Tenesmus, *s.* (Ll.) ymgarthainc, ysgothainc.
Tenet, *s.* (Ll.) daliad, barn, tyb.
Tenfold, *a.* degplyg; degtro, dengnhro; dengnyblyg; ar y *neu* ei ddegfed.
Tenne, *s.* (Ysp. *tanetto*) melynddu (yn arfau bonedd).
Tennis, *s.* (Ll. *teneo*; Ff. *tenir*!) chwareu parled, chwareu pelred, pelred, chwareu pel humog, chwareu pel human.
Tennis, *v. a.* gyru *neu* bwyso pel.
Tennis-ball, *s.* parled, pel humog, pel human, pel humig.
Tennis-court, *s.* cyntedd pel humog, cynteddfa parled.
Tenon, *s.* (Ff.) tafod mortais, tafodyn, tyno.
Tenor, *s.* (Ll.) ystod, hwyl, rhediad, cerddediad, cerhynt, trefn, tuedd, tueddiad, gogwydd; ystyr, amcan; nodwedd; parhad digyfnewid.
Tenor of a discourse—rhediad *neu* gerddediad ymadrodd; swm, defnydd, ystyr, *neu* linyn ymadrodd; y modd y rhed *neu* y cerdd ymadrodd.
The tenor and course of things—hwyl a cherddediad pethau; hwyl a cherhynt pethau.
The tenor of a man's life—ystod bywyd dyn; hwyl a threfn bywyd dyn.
The tenor of his life was free from blame—difeius oedd hwyl a cherhynt ei fuchedd.
According to the tenor of these words—yn ol *neu* ar ol y geiriau hyn; yn ol ystyr *neu* rediad y geiriau hyn.
Tenor, *s.* canolsain, cyfalaw, cynalaw; cantorion y ganolsain; offeryn y cyfalaw.
Counter-tenor—uchalaw, goralaw, gwrthalaw; rhyngalaw; banllais, uchlais.
The tenor bell—y gloch fawr.
Tenotomy, *s.* (Gr. *tenôn* a *tomê*) toriad *neu* raniad gewyn; gewyndor.
Tense, *a.* (Ll. *tensus*) tyn, (*f.* ten), tynedig, estynedig; syth; tent.
Tense, *s.* (Ff. *temps*; Ll. *tempus*) amser: *pl.* amserau.
Tenseness, *s.* tynder, tyndra; sythder, sythdra.
Tensibility, **Tensility**, *s.* athynoldeb, anaswdd estynadwy.
Tensible, **Tensile**, *a.* estynadwy, athynol; à ellir ei estyn; tynadwy.
Tension, *s.* (Ll. *tensio*) estyniad, tyniad, attyniad; annel; tyndra.
Tensive, *a.* tynedigol; sythedigol; anystwyth.
Tensome, *a.*=*Tendsome*.
Tensor, *s.* estyniaden.
Tensure,† *s.*=*Tension*.
Tent, *s.* (Ff. *tent*; Ll. *tentorium*) pabell, tent, lluestty, bwth; goreth, goraeth.
A little tent—pabellig, pabell fechan.
Tent-fastenings—gosglymau.
A tent for a wound—goreth, goraeth.
To pitch tents, pebyllio, pabellu; taenu,
To pitch a tent, lledu, *neu* osod pebyll; gwersyllu.
Tent, *v. a.* pabellu, pabyllio.
Tent, *v. a.* profi, trychwilio; gorethu, goraethu.
To tent a wound—gorethu archoll; rhoi goreth mewn archoll.
Tentacle, **Tentaculum**, *s.* (Ll. *tentaculum*) teimlor, teimlydd.
Tentacular, *a.* teimlorawl.
Tentaculated, *a.* teimlorawg; â theimlorion iddo *neu* ganddo.

Tentaculiferous, *a.* (Ll. *tentaculum* a *fero*) à gynnyrcho deimlorion.
Tentage, *s.* (o *tent*) pabelliad; gwersylliad.
Tentation, *s.* (Ff.; Ll. *tentatio*) prawf, profiad, profediaeth.
Tentative, *a.* profawl, profedigol, ceisiol.
Tentative, *s.* prawf, cais, cynbrawf,
Tent-bed, *s.* tent-wely, gwely tent.
Tented, *a.* pabellog, pebylliog; llawn pebyll; pebylliedig.
Tender, *s.* (Ll. *tento*, *tentus*) deintyr; cetyniedydd; bach deintyr.
To be on the tenters, } bod ar dyn;
To be on the tenter-hooks, } bod ar ddirdynfa; bod mewn cyfyngder, anesmwythder, *neu* betrusdod.
To keep on the tenters—cadw mewn petrusdod *neu* ammheuaeth.
Tenter, *v.* deintyrio; ymestyn.
Tenter-ground, *s.* maes *neu* gadlas deintyr.
Tenter-hook, *s.* bach deintyr.
Tenth, *a.* (o *ten*) degfed.
The tenth—y degfed: *f.* y ddegfed.
The tenth time—y ddegfed waith.
Tenth, *s.* degwm; degfed ran.
To give out tenths—rhoi allan y degwm; rhoi allan y ddegfed; degymu.
To pay tenths—talu y degwm; talu y ddegfed; degymu.
Tenthly, *ad.* yn ddegfed; yn y degfed lle.
Tentiginous,† *a.* (Ll. *tentigo*) anystwyth, syth.
Tentorium, *s.* (Ll. *tentorium*) c sgodlfa pabell.
Tentwort, *s.* duegredyn y muriau, rhuw y muriau.
Tenuate, *v. a.* (Ll. *tenuo*) teneuo.
Tenuifolious, *a.* (Ll. *tenuis* a *folium*) culddeiliog, culddail, teneuddail, meinddeiliog.
Tenuious, *a.* (Ll. *tenuis*) teneu.
Tenuirostral, *a.* gylfinfain, meinylfinog, meinylfog.
Tenuirostres, *s. pl.* (Ll. *tenuis* a *rostrum*) meinylfogion, meinylfiniaid, adar gylfinfain.
Tenuity, *s.* (Ll. *tenuitas*) meindra, meinder, meinedd, meinoledd, eiddiledd, eiddilwch; teneuder, teneudra, teneuedd; †tlodi.
Tenuous, *a.* (Ll. *tenuis*) main, eiddil; bach, bychan; teneu.
Tenure, *s.* (Ff.; o'r Ll. *teneo*) daliad; gafael; tirafael; cylltyd; y dull wrth ba un y delir tir; yr ammod dàn ba un y delir tir.
The tenure of a family—gafael oenedl.
Tepefaction, } *s.* (Ll. *tepefacio*) clauariad, cy-
Tepifaction, } nhesiad, twymiad, gwresogiad.
Tepefy, } *v.* (Ll. *tepefacio*) clauaru, cynheru,
Tepify, } gwresogi, twymo, mwyglo.
Tephramancy, *s.* (Gr. *tephra* a *manteia*) lludarmes; dewiniaeth â lludw llosgaberth.
Tepid, *a.* (Ll. *tepidus*) clauar, cynhes, twym, mwygl, gwygl, mwll, mwrn, llettwym.
Tepidness, } *s.* clauarwch, clauarineb, clauar-
Tepidity, } der, clauaredd, cynhesarwydd, mwygledd.
Tepor, *s.* clauarwch, clauder, mwygledd, llettwymder.
Teraph, *pl.* Teraphim, *s.* (H.) tydduwiau (yn mhlith yr Hebreaid.)
Teratology, *s.* (Gr. *teras* a *logos*) chwyddiaitb; cenfilodiaeth.
Terce, *s.* (Ysp. *tercia*; Ff. *tie s*, *tierce*) traianbib, t aian pib win=baril o 42 galwyn.
Tercel, *s.* (Ff. *tiers*) hebog gwryw, gwalch gwryw, hwyedydd, hwyedig.
Tercentenary, *a.* (Ll. *tercenti* ac *annus* tr. chanmlwyddol; yn cynwys tri chan mlynedd.
Tercet, *s.* trydydd (mewn cerddoriaeth).
Tercine, *s.* gwisg isaf hadrith.
Terebinth, *s.* (Gr. *terebinthos*; Ff. *terebinthe* twrpant, tyrpant, terpentin, turpentia.
Terebinthinate, } *a.* twrpantaidd, tyrpan-
Terebinthine, } aidd.
Terebrate, *v. a.* (Ll. *terebro*) tyllu, trydyllu, ebillio.
Terebration, *s.* tylliad, trydylliad, ebilliad.
Teredo, } *s.* (Ll. *teredo*; Gr. *teredō*) tylliwr;
Teredine, } *pl.* tyllbyrion, ebillyddion—mab o feddalogion creestog â dyllant goed.
Teres, *a.* (Ll.) crwn, cyfrgrwn.
Terete, *a.* (Ll. *teres*) crwn a phigfain; cron.
Tergant, } *a.* (Ll. *tergum*) cefnweèd (yn nrlas
Tergiant, } bonedd).
Tergeminal, } *a.* (Ll. *ter* a *geminus*) tridyblyg
Tergeminate, } triphlyg.
Tergeminous, *a.* triphlyg.
Tergiferous, *a.* (Ll. *tergum* a *fero*) yn dwyn had ar eu cefnau; cefnddwyn.
Tergiversate, *v. n.* (Ll. *tergum* a *verto*) troi y ol ei gefn; troi yn y tres; cilio yn ei gwrs; cilio, ymgilio, ymdröi; chware y fion dwy big; geirlröi.
Tergiversation, *s.* troad cefn; ciliad yn ngefn; troad yn y tres; ciliad mewn cwrs; ciliad, ymgiliad; rhusiad; geirdroad; dyhuddichell, ystryw, ystranc; newidiad; anwadalwch; dlangdwll.
Tergiversator, *s.* tröwr yn y tres; tröwr yn ei dresi; ciliwr yn ei gwyn, &c.
Tergum, *s.* (Ll.) cefn.
Term, *s.* (Gr. *terma*) terfyn; ysbaid, ystod, tymmor, term, tymp, ysbaid neu daim: amser; amser terfynedig; pryd; gair, ow, ymadrodd; ammod, teler; mingiwyf.
The four law terms—pedwar tymmor y gyfraith; pedwar term y gyfraith.
It is to continue but for a term—nid yw barhau ond dros amser.
To be upon good terms with one—bod mewn heddwch neu gymmodlonedd âg un; bod ar delerau da âg un; bod yn gyfeillgar âg un.
To be upon ill terms with one—bod mewn ymrafael, annyegymmod, neu angymmodlonedd âg un.
To come to terms—cytuno.
To bring to terms—dwyn i delerau; dyfod âg un i delerau.
Term, *v. a.* enwi, galw, cyfenwi.
Termagancy *s.* croch ddadwrdd, croch gecraeth; tafod drwg; cythrwfl, terfysg; ymgrechwydd; anynadrwydd.
Termagant, *a.* (S. *tir* a *magan*?) anynad, terfysglyd, afreolus, bloeddgar, bloeddfawr, trystfawr, ysgrechog, brochus, cecrus, ymdaergar, ymgeingar, cynhenllyd, ffromyn, ffromwyllt; tafod-ddrwg, tafodrydd.
Termagant, *s.* ymdaerwraig, ymsenwraig, croch gecren, clewtwraig, hellgre, ysgolpen (ofeinyw), cecren, cecrai, rhefren; gwraig anynad, dorwy ei thafod, gecrus, neu ymgeingar; arthwraig terfysges; gwrforwyn.
Termer, *s.* tymmorwr; un â geidw dymmor llys.
Termer, } *s.* un â thir ganddo dros dymmor.
Termor, }
Terminable, *a.* (o *term*) terfynadwy, gorphenadwy, ffiniadwy; terfynol.

Terminableness, *s.* terfynoldeb.
Terminal, *a.* (Ll. *terminus*) terfynol; à fo ar y terfyn neu y blaen; diweddol.
Terminate, *v.* (Ll. *termino*) terfynu, diweddu, gorphen, dybenu; gosod terfyn neu derfynau i; tachweddu.
Termination, *s.* terfyniad, diweddiad, gorpheniad, dybeniad; gobenyddiad; terfyn, diwedd, dyben, gorphen; cload, cynghload; †gair.
Terminational, *a.* terfynol, gobenyddol.
Terminative, *a.* terfynedigol.
Terminator, *s.* terfynor. terfynydd.
Terminer, *s.* penderfyniad.
Court of oyer and terminer—llys clyw a dosbarth; profiys, prawfiys.
Terminism, *s.* terfynoliaeth.
Terminist, *s.* terfynolwr, terfynolydd.
Terminology, **Termonology**, *s.* (Gr. *termôn* a *logos*) enwadiaeth, ceifeiriaeth, geirgluereg.
Terminus, *s.* (Ll.) terfyn, ffin; terfynfa, terfynfan; penffordd; maen terfyn, ffinfaen; coloflun.
Railway terminus—terfynfa rheilffordd, terfyn rheilffordd, pen rheilffordd.
Termites, **Termitidæ**, *s. pl.* (Ll. *termes*) morgrug gwyn-ion.
Termless, *a.* diderfyn, annherfynol.
Termly, *a.* bob tymmor.
Termly, *ad.* bob tymmor, o dymmor i dymmor.
Termor, *s.* = *Termer*, *Termor*.
Tern, *s.* (Ll. *terna*) morwennol, gwennol y môr, ysgrâen, ysgrâell, ysgretan.
Great tern, Greater tern, y forwennol fawr.
Lesser tern—y forwennol fach.
Black tern—ysgrâen ddu.
Brown tern—gwylan lwyd.
Tern, *a.* (Ll. *ternus*) triphlyg; triol; bob yn dri.
Ternary, *a.* (Ll. *ternarius*) triol; bob yn dri; yn dri; eiddo tri.
Ternary, **Ternion**, *s.* (Ll. *ternarius*, *ternio*) tri, triad; y rhif tri: *pl.* trioedd.
Ternate, *a.* (Ll. *ternus*) trideiliog; yn cynnwys tair deilen ar y coes (megys y meillion, &c.)
Terpodion, *s.* (Gr. *terpô* ac *ôdê*) perodell=math ar beraidd offeryn cerdd.
Terra, *s.* (Ll.) daiar, tir, tud.
Terra firma—cyfandir; tir caled.
Terrace, *s.* (Ff. *terrasse*; It. *terrazzo*) uchrodfa, uchelrawd, uchelrodfa, uchrawd, uchelsarn, uchsarn; rhodfa, rhodle.
Terrace, *v. a.* gwneuthur yn rhodfa; gwneuthur yn rhodfa iach.
Terraqueous, *a.* (Ll. *terra* ac *aqua*) yn cynnwys tir a dwr; yn cynnwys daiar a dwfr; gwydirol, tirddyfrig, tirddyfrol.
Terraqueous globe—gwydirfyd, y byd tirddyfrol, byd tir a dwr.
Terrar,† *s.* (o *terra*) tirlyfr.
Terre,† *v. n.* = *Tarre*.
Terre-blue, *s.* trilas=math o bridd.
Terre-mote,† *s.* (Ll. *terra* a *motus*) daiargryn, daiargryd, daiargrynfa.
Terre-plein, *s.* (Ff.) trillawn (mewn caerwaith).
Terre-tenant, **Ter-tenant**, *s.* (Ff. *terre-tenant*) deiliad tir, tir-ddeiliad.
Terre-verte, *s.* (Ff.) tirwyrdd=math o liw gwyrdd.
Terreen, *s.* (Ff. *terrine*) dysgl gauad.
Terrel, **Terrela**, *s.* (o'r Ll. *terra*) cronen ehedfaen.
Terrene, *a.* (Ll. *terrenus*) daiarol, daiaraidd, deierin, daiarawr.
Terreous, *a.* (Ll. *terreus*) daiaraidd, daiarol, deierin, daiarllyd, priddlyd.
Terrestrial, **Terrestrious**, *a.* (Ll. *terrestris*) daiarol, daiaraidd, daiarllyd, deierin, daiarog; bydol.
Terrestrial world—daiarfyd; y ddaiaren, y ddaiar.
Terrestrify,† *v. a.* daiaroli.
Terrible, *a.* (Ff.; Ll. *terribilis*) dychrynllyd, ofnadwy, arswydus, arswydol, arswydlawn, erchyll, echrydus, brawychus, brawychol, cethin, engur, enguriol, angur, engyrth, anaele, irad, girad, iradus, erch, uthr, echrynol, dychrynadwy.
Terrible, *ad.* yn ddychrynllyd, &c.; dros ben.
Terrible cold—oer dychrynllyd, oer gerwinol.
Terribleness, *s.* arswydusrwydd, arswydolrwydd, dychrynllydrwydd, erchylldod, &c.
Terribly, *ad.* yn ddychrynllyd, &c.
Terrier, *s.* (Ff. o *terra*) daiargi, tudgi; twll (yn y ddaiar); tirlyfr.
Terrier, *s.* (Ll. *tero*) ebill, gwimbled, taradr.
Terrific, *a.* (Ll. *terrificus*) à bair arswyd neu ddychryn; à dery â dychryn; à rydd fraw yn un; dychrynllyd, arswydus, ofnadwy, &c.
Terrify, *v. a.* (Ll. *terror* a *facio*) dychrynu, brawychu; peri braw, ofn, dychryn, neu arswyd; cynirawu, bugadu, bwbachu, arswydo, ergrydio, cilioni. ofnocâu.
Terrigenous, *a.* (Ll. *terrigena*) daiar-anedig, tud-anedig; à anwyd o'r ddaiar; à fagodd y [ddaiar.
Territorial, *a.* tiriogaethol.
Territorialize, *v. a.* tiriogaethu.
Territoried, *a.* tiriogaethog.
Territory, *s.* (Ll. *territorium*) tiriogaeth; ardal, bro, rhandir; tir.
Terror, *s.* (Ll.) dychryn, arswyd, braw, dychryndod, brâwch, ofn, ofnid, arynaig, echryn, dygryn, echrys, hylldraw; dychrynfa, (*pl.* dychrynfëydd).
Reign of terror—teyrnasiad dychryn, teyrnasiad arswyd = ystod amser y Chwyldroad yn Ffrainc, yn benaf o Hydref, 1793, hyd Orphenaf, 1794.
Terrorism, *s.* dychrynoliaeth, dychrynaeth.
Terrorist, *s.* dychrynolwr.
Terrorless, *a.* diarswyd, diddychryn.
Terse, *a.* (Ll. *tersus*) cryno; llyfn; tlws, clws, del, dillyn, destlus, llyfndeg, glân, hardd.
Terseness, *s.* tlysni, clysni, dillynder.
Ter-tendant, *s.* deiliad tir, tir-ddeiliad.
Tertial, *a.* (Ll. *tertius*) trydyddol.
Tertials, *s. pl.* trydyddolion=yr esgyll mawr yn nghydiad aden a chorff aderyn.
Tertian, *a.* (Ll. *tertius*) à ddel neu à ddychwel bob trydydd dydd; tridieuol; triannol.
Tertian ague—cryd tridiau, galldwymyn.
Tertian, *s.* galldwymyn;† mesur o 84 galwyn.
Tertiary, *a.* trydydd, trydy, trydyddol, trydeddol.
Tertiate, *v. a.* (Ll. *tertius*) trydyddu, trydeddu, trioli, triannu; gwneuthur y drydedd waith; profi trwch y delid yn ffroen gŵn; profi trwch a grym cyflegrau.
Terzetto, *s.* (It.) triawd; cyfansoddiad cerddorol i dri llais.

Tesselar, *a.* brithweithiog; à wnaed yn bedrorau.

Tesselate, *v. a.* (Ll. *tessela*) breithweithio, ffristweithio, brithosod, brith-addurno.

Tesselated, *p. p.* brithweithiog, ffristweithiog.
Tesselated work—brithwaith, ffristwaith.
Tesselated leaf—dalen frithwaith; dalen frith (fel clawr gwyddbwyll).

Tesselation, *s.* brithwaith; brithweithiad.

Tesseraic, *a.* (Ll. *tessera*) brithweithiog; à ffristiau ar hyd-ddo.

Tesseral, *a.* brithweithiol; brithweithiog, ffristweithiog.

Tessular, *a.* disiog; ar wedd dis neu ffrist.

Test, *s.* (Ll. *testa, testis*) proflestr, coethlestr; prawf, profiad; holiad; prawfaen, maen prawf; safon; profiw.
To bring to the test—dwyn i'r prawf; dwyn i'r holfa.
To stand the test—goddef prawf, goddef holiad; goddef ei brofi; goddef ei holi.
To put to the test—dwyn i'r prawf; rhoi prawf ar; gwneuthur prawf ar.
Test-act—y weithred brawf, gweithred y profiw.

Test, *v. a.* profi; dwyn i'r prawf; dwyn i'r holfa; dwyn at y maen prawf; gwneuthur prawf ar neu o; cadarnhau a dyddio; gosod llaw ac amser wrth ysgrifen; gwirio, tystio, cadarnhau; profi neu goethi aur neu arian.

Testable, *a.* (Ll. *testor*) cymmynadwy; à ellir ei gymmynu; à ellir ei roi mewn gwyllys; tystiadwy.

Testacea, **Testaceans**, } *s. pl.* (Ll. *testa*) cragenogion, cregynogion, cragenfilod: *sing.* cragenogyn, cragenfil.

Testacean, *s.* cragenogyn.

Testacean, *a.* perthynol i gragenogion; cragenogaidd.

Testaceology, **Testaceography**, **Testalogy**, **Testacology**, } *s.* (*testacea*, a Gr. *logos, graphê*) cragenogaeth, cregynyddiaeth, cregyniaeth = athrawiaeth neu ofyddiaeth cregyn.

Testaceous, *a.* (Ll. *testaceus*) cregynol; cragenaidd; perthynol i gregyn, cragenog; cregynog.
Testaceous animals—cragenfilod.
Testaceous powders—pylor cregyn, llwch cregyn.

Testament, *s.* (Ff.; Ll. *testamentum*) llythyr cymmyn, ewyllys diweddaf, gwyllys diweddaf, gwyllys, ewyllys, cymmyneg, cymmynaeth; testament, tesment; cyfammod.
Old Testament—yr Hen Destament, y Testament Hen; yr Hen Gyfammod.
New Testament—y Testament Newydd; y Cyfammod Newydd.
The Old and New Testaments, The Old and New Testament, } yr Hen Destament a'r Newydd; y Testament Hen a Newydd; y Testament Hen a'r Newydd.

Testamentary, *a.* perthynol i lythyr cymmyn; cymmynedigol, cymmynroddol, cymmynlythyrol; à adwyd mewn gwyllys; gwyllysiol.

Testamentation, *s.* cymmynediga eth, cymmynaeth, cymmynroddiad.

Testamur, *s.* (Ll.) tysteb, tystlythyr, tystysgrifen, tystiadyr.

Testate, *a.* (Ll. *testatus*) cymmynegog, cymmynlythyrog; à wnaeth wyllys; à adawodd lythyr cymmyn; gwyllysiog.
To die testate—marw wedi gwneyd llythyr cymmyn; marw â llythyr cymmyn ganddo.

Testation, *s.* (Ll. *testatio*) tystiad, tystiolaeth, ardystiad, prawf.

Testator, *s.* cymmynai, (*c. g.*), cymmynwr, cymmynegwr; à wnel neu à adawo llythyr cymmyn; gwyllysiwr; testamentwr.

Testatrix, *s.* cymmynai, cymmynes, cymmynwraig.

Teste, *s.* (Ll.) tystiad (mewn gwŷs, &c.)

Tester, *s.* (Ff. *tête*) cysgodlen gwely, pen gwely, gortho gwely.

Tester, **Teston**, } † *s.* (Ff. *tête*, pen) chwecheiniog.

Testern, *s.* chwecheiniog.

Testern, *v. a.* anrhegu à chwecheiniog.

Testes, *s. pl.* (Ll.) eirin gwr.

Testicle, *s.* (Ll. *testiculus*) caill, ceillen, eirinen, careg, pellen gwryw.

Testiculate, *a.* pellenaidd.

Testification, *s.* (Ll. *testificatio*) tystiolaeth, tystiad; tystiolaeth.

Testificator, **Tertifier**, } *s.* tystiolaethwr, tystiolaethyd. tystiwr, ardystiwr.

Testify, *v.* (Ll. *testificor*) tystiolaethu, dwyn tystiolaeth, tystio, ardystu, ardystio.

Testily, *ad.* (o *testy*) yn afrywiog, &c.

Testimonial, *s.* (Ff. o'r Ll. *testimonium*) tystlythyr, llythyr tystiolaeth, tystieb, tystysgrif, tystysgrifen; tystarwydd, cofarwydd, arwyd, arwaesaf.

Testimonial, *a.* tystiolaethol; perthynol i dystiolaeth.

Testimony, *s.* (Ll. *testimonium*) tystiolaeth; tystiad.
Ark of the testimony—arch y dystiolaeth; ysgrin y creiriau.

Testimony, † *v. a.* tystiolaethu.

Testiness, *s.* (o *testy*) afrywiogrwydd, ffromder, drygnawsedd, anynadrwydd.

Testing, *s.* profiad, profediga eth; gwneuthuriad prawf o beth; osiad.

Teston, **Tester**, } † *s.* (Ff. *tête*) chwecheiniog = saw hen ddarn bath.

Test-paper, *s.* papyr prawf.

Testudinate, **Testudinated**, } *a.* (Ll. *testudo*) tebyg i gefn crwban; crwbanog; crwbi, crwbanaidd, nenedig, mydedig, bwaog, mydog, nenfyddog, gorthöedig, töedig.

Testudinal, *a.* (Ll. *testudo*) crwbanol; perthynol i'r crwban; tebyg i grwban.

Testudinata, *s. pl.* (*testudo*) y crwbanod, y llyryod.

Testudineous, *a.* tebyg i gragen crwban.

Testudo, *s.* (Ll.) crwban, llyry.

Testy, *a.* (Ff. *teste, tête*) afrywiog, ffrom, anynad, anfoddog, drygnaws, anhynaws, croes, hyddig, dreng, dig.

Tetanic, *a.* sythwynegol; perthynol i'r ddirdynnol.

Tetanus, *s.* (Ll.; Gr. *tetanos*) dirdynwst, tydynwst, sythwyneg.

Tetchness, *s.* = *Techiness*.

Tetchy, *a.* = *Techy; Touchy*.

Tete, *s.* (Ff.) ffugwallt; pen.

Tete-a-tete, *ad.* (Ff.) penben, taldal, wyneb yn wyneb, trwyn-drwyn, pen yn mhen, bochfoch; mewn cel gyfrinach; yn gyfrinachol, yn ddystaw bach.

Tete-a-tete, *s.* cyfrinach benben, ymddyddan wyneb yn wyneb; cel gyfrinach.

Tete-du-pont, *s.* (Ff.) amddiffynfa pen pont (mewn caerwaith).

Tether, *s.* (C. *tid;* Gw. a Gael. *tead, teidin*) tidmwy, tidraff; rhaff=rhaff y rhwymir anifail wrthi mewn porfa.

Tether, *v. a.* tidmwyo, tidraffu, tido, rhaffu; rhoi *neu* rwymo wrth y rhaff.

To tether a horse—tido *neu* didmwyo ceffyl; rhoi ceffyl wrth didmwy.

Tetrabranchiata, *s. pl.* (Gr. *tetra* a *bragchia*) pedrydagellogion=math ar bysg.

Three-cleft, *a.* triholl‡, triholltog; â thair holl‡ ynddo.

Three-coat work, *s.* gwaith trihaenog, gwaith tair haen.

Three-coloured, *a.* trilliw, trilliwiog; â thri lliw iddo.

Three-cornered, *a.* trichonglog, trichornelog, trionglog, trichongl, triongl, teirongl, teironglog; â thri chornel iddo, &c.; tryfal.

Three-edged, *a.* triminiog, trimin.

Three-flowered, *a.* triblodeuog; yn dwyn tri blodyn yn nghyd.

Three-fold, *a.* triphlyg, tri dyblyg; tri chymmaint, cymmaint deirgwaith; ar ei drydedd, ar y drydedd, ar ei drydydd.

To make threefold—triphlygu; gwneuthur yn driphlyg; gwneyd yn driphlyg.

A threefold cord—rhaff deircainc, rhaff dair cainc.

Three-grained, *a.* tri-gronynog, tri-gronyn.

Three-headed, *a.* triphen, triphenog, triphenog; â thri phen iddo *neu* arno.

Three-leafed, } *a.* teirdalen, teirdeiliog.
Three-leaved, }

Three-leaved grass—meillion tair dalen, meillion teirdalen.

Three-lobed, *a.* trillabedog.

Three-nerved, *a.* tri-gewynog.

Three-parted, *a.* teirran, teirranol, tripharthog, tripharth.

Threepence, *s.* tair ceiniog.

Threepenny, *a.* â fo yn werth tair ceiniog.

Threepenny loaf—torth dair ceiniog, torth dair.

Three-petaled, *a.* tri-blodeuddail.

Three-pile, *s.* melfed cryf.

Three-pile, *a.* cryf; pentyredig.

Threeply, *a.* triphlyg.

Three-pointed, *a.* triblaen, triphig; â thri blaen iddo.

Three-ribbed, *a.* teir-asenog.

Threescore, *a.* (*three* a *score*) trigain, tri ugain, chwedeg=60.

Threescore times—trigeinwaith; tri ugain o weithiau.

Threescore men—trigeinwr, trigain o wŷr.

Three-seeded, *a.* trihadog.

Three-sided, *a.* triochrog, triochr.

Three-stringed, *a.* trithannog.

Three-toed, *a.* tribysiog.

Threetongèd, *a.* tri-thafodiog, tri-thafod; â thri thafod iddo.

Three-valved, *a.* trichaffellog, trichloriog.

Threne,† *s.* (Gr. *thrênos*) galarnad.

Threnetic, *a.* (Gr. *threneticos*) galarus, alaethus.

Threnody, *s.* (Gr. *thrênos* ac *ôdê*) galarnad, galareb, galargan, galargerdd, cerdd allwyn.

Thresh, } *v.* = { *Thrash.*
Thrash, } { *Thresh.*

Threshold, *s.* (S. *thærscwald*) trothwy, trothyn, seilddor; hiniog, gorsing, gorsin; drws, mynedfa.

Thrice, *ad.* (o *three*; Ff. *tiers*) teirgwaith, tair gwaith.

Thrice as much—y tri chymmaint.

Thrice happy—tra dedwydd, dedwydd dros ben, gorddedwydd; dedwydd a dedwydd dros ben; dedwydd a dedwydd heb ei ail; dedwydd a dedwydd digyffelyb.

Third, *v. a.* (C. *treiddio*) llithro trwy, gwanu trwy, rhedeg trwy, treidio.

Thrid,† *s.* = *Thread.*

Thrifallow, *v. a.* (*three* a *fallow*) triaru, trydyfraenaru; aru deirgwaith; braenaru y drydedd waith; aru y drydedd waith.

Thrifallow, *s.* trydydd âr, trydydd braenar.

Thrift, *s.* (o *thrive*) cynnildeb, cynnilder, cynnildra, cynnilwch; yr hyn a ennillo un drwy arbed a chynnilo; dryd; diwydrwydd, dyfalwch, gofal; llwydd, ffynniant; cynnydd, twf gwyrenig.

Thrift (in botany)—archmain, clustog Fair.

Thriftiness, *s.* cynnildeb, cynnilwch, &c.; llwyddiant, cynnydd.

Thriftless, *a.* didoraeth, anghynnil, gwastraffus, afradus; diles; digynnydd.

Thriftlessness, *s.* didoraethrwydd, didoraethwch, anghynnildeb; gwastraff.

Thrifty, *a.* (o *thrift*) cynnil, diwastraff, dryd, drydol; diwyd, gofalus; cynnyddol; toreithus; trefnus, cryno.

Thrill, *s.* (S. *thyrlian*; Is. *drillen*) trul, tyllyr, ebill; teloriad, crychlais, ffryn; awyrdwll, ffynell, agerfa; as, gni, llymias.

Thrill, *v.* tyllu, ebillio, trulio, trydyllu; trywanu, treiddio; menu, menu ar; iasu.

A thrilling shriek—llymwaedd, llymgri, oergri, oerwaedd, treidd-gri.

Thrillingness, *s.* treiddioldeb, trywanoldeb.

Thrillings, *s. pl.* iasau, llymiasau, gnion.

Thring,† *v. a.* gwasgu, pentyru, sechu.

Thrive, *v. n.* (D. *trives*; Sw. *trifwas*) llwyddo, ffynnu, tyeio, cynnyddu, priflo, myned rhagddo, dyfod yn mlaen; gwrygiannu, gwrygio, gwella.

Thriven in the world—cynhes, llwyddiannus, gwrygiannus, *neu* ffynniannus yn y byd; wedi myned yn gefnog yn y byd; cyfoethog.

Thriver, *s.* llwyddwr, ffynnwr.

Thriving, *a.* llwyddiannus, ffynniannus, gwryg-

iannus, ffynniannol, llwyddiannol, llwyddiannog, llwyddol, llwyddog; cynnyddol, prifiol, prifiannol, prifiannus.

Thrivingness, } *s.* llwyddiant, ffyniant, llwydd-
Thriving, } iannusrwydd, cynnydd, prifiant, gwryglant, twf, tyfiant.

Throat, *s.* (S. *throta, throte*) ceg, y geg, cegen, corn y gwddf, goelef, y gwddf; genau; agorfa.
The cover of the throat—cuead y geg, cloch yr ymadrodd.
To cut one's throat—torfynygiu un; tori gwddf *neu* wddwg un; tori corn gwddf un; tori corn breuant un; tori ceg un; tori gwythi gwaed un; tori mwnwgl un.
Having a wide throat—cegrwth, cegog, cegfawr.

Throat-band, *s.* genddal, genrwym, cegrwym, genfa, ffunen gen, gendas.

Throat-latch, *s.* carai ceg, carai gen.

Throat-pipe, *s.* corn y geg, corn gwynt, corn chwyth, breuant, brefant, corn breuant, pibell yr ysgyfaint, pistyll yr ysgyfaint, y bibell wynt.

Throatwort, *s.* (*throat* a *wort*) clychlys llydanddail, clychlys mawr.
Blue throatwort—clychlys danad-ddail.

Throaty,† *a.* cegol, cegaidd.

Throb, *v. n.* (anhysbys) dychlamu, curo, ymguro, tysmwyo, ysboncio, crychneidio, chwyfanu, swyso, dyhëu.

Throb, *s.* dychlam, ysbonc, cur, tysmwy, crychnaid, swys.

Throbbing, *a.* dychlamol, ysbonciol, tysmwyol, swysol, swysog.

Throbbing, *s.* dychlamiad, &c.

Throdden,† *v.* prifio, cynnyddu.

Throe, *s.* (S. *throwian*) gloes, dirboen, pang, gwasew, gwewyr, poen, dolur.
The throes of a woman in labour—gwewyr gwraig yn cegor; gwewyr gwraig wrth cegor; gwewyr cegor.

Throe, *v.* gloesygu, gloesio, dirboeni; bod mewn gloes *neu* ddirboen; gwryddu gân boen.

Thrombolite, *s.* (Gr. *thrombod*) tolchfaen.

Thrombus, *s.* (Ll.) chwydd ar ol gwaedu.

Throne, *s.* (Gr. *thronos;* Ll. *thronus*) gorseddfainc, gorseddfa, gorsedd; teyrnfainc, teyrngadair, breninfainc; gorfainc, trwn, tron.

Throne, *v. a.* gorseddu, gorseddogi; rhoi *neu* osod ar orsedd, &c.

Throneless, *a.* di'orsedd.

Throng, *s.* (S. *thrang;* Al. ac Is. *drang*) torf, tyrfa, llu, lluaws, twr, ymwasg, tewdwr.

Throng, *v.* ymdyru, cydymdyru, ymwasgu, tyru, heidio, ymlenwi, cyttyru, pentyru, ymwthio, ymsengu, ymsecu, torfi, tormi; gwasgu, tynwasgu, gorlenwi, tynlenwi; lluo, lluadu.
To throng one—gwasgu un.

Throng, *a.* prysur.

Thronging, *s.* gwasgol, tyrol, ymdyrol, ymwasgol.

Thronging, *s.* gwasgiad, ymwasgiad.

Throngly,† *ad.* yn heidiau, &c.

Thropple, *s.* corn y geg, y corn chwyth.

Throstle, *s.* (S. *thorstle;* Al. *drossel*) bronfraith, y fronfraith.

Throstling, *s.* y llindagwst (ar wartheg).

Throttle, *s.* (o *throat*) llindag; ceg; brefant, breuant, corn y geg, corn chwyth, corn y gwynt y bibell wynt, pistyll yr ysgyfaint.

Throttle, *v.* llindagu, tagu, ystagu, mygmwrmio, ysgegio.

Through, *prep.* (S. *thurh;* Al. *dor;* Al. *dur*) trwy, drwy; trwy waith, o waith; trw-.
Through me—trwof fi, trwyof fi, trwyddof fi, trwof, trwyof, trwyddof; trwy'r llafur i; trwy fy nghymhorth i.
Through thee—trwot ti, trwyot ti, trwyddot ti; trwot, trwyot, trwyddot; trwy dy annog, dy annogneth, dy gynhorthwy di.
neu dy gynnorthwy di.
It was done through carelessness—de wnaed o esgeulusdra.

Through, *ad.* trwyddo, drwyddo, trwodd, trwyddd, trwyo, try-.
Through and through—trwydde drw, drwyddo draw; trwyddo yn llwyr, yn hollol, yn gwbl, *neu* achlân.
To bore through—trydyllu; tyllu yn trwyddo *neu* drwyddo; tyllu yn trwodd *neu* drwodd.
To shine through—trylewyrchu, trylewychu, llewyrchu drwy.
To dig through—cloddio trwodd; clwdd trwy both.
To pierce through—trywanu, trywanu tyllu drwy, gwanu drwy.
To go through—treiddio; myned drwy.

Through-bred,† *a.*=*Thorough-bred.*

Throughly,† *ad.*=*Thoroughly.*

Throughout, *prep.* trwy, drwy; yn.
Throughout all the land—trwy yr holl fro; trwy yr holl wlad.
Throughout the whole world—trwy yr holl fyd; yn yr holl fyd.

Throughout, *ad.* yn mhob man drwyddo, yndrwy arno, *neu* drosto; trwy *neu* dros bob parth; trwy *neu* dros bob rhan; o ben bwygilydd; o ben i draed; yn gwbl, yn hollol, yn drwyadl; trwyddo oll.
Woven from the top throughout—wedi gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll.

Through-stone, *s.* trwyfaen, rhwymfaen, mur cwlwm.

Throw, *v.* (S. *thrawan*) taflu, bwrw, tawlu, lluchio, ergydio; taflu *neu* fwrw i lawr, dymchwelyd.
To throw down—taflu neu fwrw i lawr; cwympo.
To throw one out—bwrw *neu* dafln allan; gadael un ar ol; gadael un yn mhell ar ol; blaenu ar un.
To throw off—bwrw *neu* dafln ymaith; bwrw; dïosg, dihatru.
To throw over—bwrw neu dafln drosodd; trosglwyddo, trosi.
To throw silk—cyfrodeddu *sidan; cordeddu* sidan.

Throw, *s.* tafl, tafliad, bwrw, tawl, lluch, ergyd, cwth; turn.

Thrower, *s.* taflwr, taflydd, taflydd, bwrwr; cyfrodeddwr, cordeddwr, *neu* ddyrwynwr sidan.

Throwster, *s.* (o *throw*) cyfrodeddwr, cordeddwr, dyrwynwr, *neu* ddyrynwr sidan; parwr sidan i'w wau.

Thrown-silk, *s.* sidan cyfrodeddig, *cyfrodeddig,* cyfrodeddedig, *neu* gordeddedig.

Thrum, *s.* (Isl. *thraum;* Al. *truum*) edi, olbre, pen edafedd.
Thrums—eddi, olbre; edafedd; pennau edafedd; brigerau.

Thrum, *v. a.* gwau; cordeddu, *cyfrodeddu;* eddio; cyttynu, cydwasgu, cynnull.

Thrum, *v. n.* (Is. *trom*) dwrn-bwyaw offeryn cerdd; chwareu â dwrn; dyrnu cerdd; chwareu yn anghelfydd.
Thrummy, *a.* eddïog, llawn eddi; eddïaidd, olbreaidd, edafaidd.
Thrumwort, *s.* llyren, llyriad y dwr, dyfr- [lyriad.
Thrush, *s.* (S. *thrisc;* Al. *drossel*) bronfraith, tresglen, pen y llwyn; mwyalch.
Song-thrush — bronfraith y gân, *y* fronfraith gân.
Thrush, *s.* (*thrust* ?) gân, yr ân=math ar ddolur geneu; a math o chwydd yn nhraed anifeiliaid.
Thrust, *v.* (Ll. *trudo, trusum*) gwthio, cilgwthio, hergydio, hyrddu, hyrddio, gyru, gyrthio; gwanu, brathu, trywanu; gwantu; procio.
To thrust at one—gwthio at un.
Thou hast thrust sore at me—gân wthio y gwthiaist fi.
To thrust (any thing) against (another)—gwthio, gyru, hyrddio, hyrddu, *neu* hwpio yn erbyn.
To thrust one's self against — ymwthio, ymhyrddu, ymhyrddio, ymwrio, *neu* ymhwpio yn erbyn; ymwthio â, &c.
To thrust away—gwthio ymaith, cilgwthio.
To thrust back—gwthio yn ol, &c.
To thrust down—gwthio, gyru, *neu* hyrddio i lawr.
To thrust forward—gwthio yn mlaen, &c.
To thrust one's self forward—ymwthio yn mlaen.
To thrust one's self in—ymwthio i mewn.
To thrust a weapon in—gwthio *neu* yru arf i mewn.
Thrust in thy sickle, and reap—bwrw dy gryman i mewn, a meda (*Dad.* xiv. 15).
To thrust into—gyru, gwthio, *neu* hyrddu i mewn i; dodi yn; brathu yn, gwanu yn.
To thrust into prison—bwrw *neu* dafiu i garchar; taflu yn ngharchar.
To thrust out—gyru, gwthio, hyrddu, *neu* hyrddio allan.
To thrust a weapon through one—brathu, gwanu, gwthio, *neu* yru arf drwy un.
To thrust one through — trywanu un; gwanu un.
To thrust one through with a weapon—trywanu, gwanu, *neu* frathu un âg arf.
To thrust together—gwthio *neu* wasgu yn nghyd; sypio yn nghyd.
To thrust one's self to, } ymwthio at,
To thrust one's self unto, } ymwasgu at.
To thrust upon—gwthio, cymhell, argymhell, dirio, *neu* wasgu peth ar un; gosod, bwrw, *neu* yru peth o drais *neu* lettrais ar.
Thrust, *s.* gwth, cilgwth, hergwd, hergawd, hwrdd; gwân, brath; heng, burth; proc; gyr, gyrth, pwy; cyrch, rhuthr.
Thruster, *s.* gwthiwr, gwthiedydd; brathwr, gwanwr.
Thrusting, *s.* gwthiad, &c.; gwasgu caws *neu* geulfraen.
Thrusting, *s. pl.* gweisgion caws, y maidd gwŷn.
Thrustle, *s.* bronfraith, tresglen.
Thryfallow, *v. a.*=*Thrifallow.*
Thulite, *s.* un o ddelidfain Norwy.
Thumb, *s.* (S. *thuma*) bawd, bodfys, bawdfys, y bys bawd.
To handle with the thumb, } bodio.
To turn over with the } bodio.
thumb,
A thumb's breadth—lled bawd, modfedd.
Thumb, *v.* bodio, bysio; chwareu â'r bysedd.
Thumbband, *s.* tennyn cyn rhefed a bawd.
Thumbed, *a.* bodiog; â bodiau ganddo.
Thumbkin, *s.* bodwasg, gwasg bawd, tyawasg bawd.
Thumb-latch, *s.* clicied â godir â bawd.
Thumb-ring, *s.* bodrwy, modrwy y fawd.
Thumbscrew, *s.* tynwasg â droir â'r fawd; tynwasg bawd a bys.
Thumb-stall, *s.* bawdle, bodwain; gwniadyr, bysedd.
Thumerstone, } *s.* bwyellfaen=delidfaen *Thum*
Thumite, } yn Sassoni.
Thump, *s.* (It. *thombo*) paff, panc, pwmp, dyrnod, cnoc, ergyd, còb, dul, ysbanc.
Thump, *v.* paffio, pancio, ysbancio, pwmpio, cnocio, cobio, pwyo, dulio, ffustio, ffustio, dyrnodio, maeddu, baeddu, curo.
Thumper, *s.* paffiwr, pancwr, pwmpiwr, &c.; un mawr o faint, peth mawr, clamp.
Thumping, *a.* trwm; mawr, cryf, bras, tew.
Thunder, *s.* (S.; Al. *donner*) taran, twrf, trwst wybrol: *pl.* taranau, tyrfau, trystau.
Lightnings and thunders—mellt a tharanau.
Thunder, *v.* taranu, trystio; gwneuthur taranau, tyrfau, *neu* drystau; gwneyd trwst, twrf, neu daran; taranadu, taranoli.
It thunders—mae hi yn taranu; mae hi yn daranau.
The people...said that it thundered — y dyrfa...a ddywedodd mai taran oedd (*Ioan* xii. 29.)
Thunder-bolt, *s.* taranfollt, mellten, lluchedau, tân mellt; maen taran, maen y daran, maen cawod, maen cawad.
Thunder-burst, *s.* tarandor, tor taran, tarandrwst.
Thunder-clap, *s.* twrf taran, tarandwrf, tarandrwst, trwst, (*pl.* trystau), talym, tarangiep.
Thunder-cloud, *s.* cwmwl y daran, tarangwmwl.
Thunderer, *s.* taranwr, taranydd, taranon.
Thunder-house, *s.* tarandy.
Thundering, *s.* taraniad, taranad; taran, twrf, trwst.
Thundering, *p.* yn taranu, &c.; taranllyd, taranol, taranus; bygythiol.
Thunderous, *a.* taranol, taranus, taraneg.
Thunder-proof, *a.* diogel *neu* ddiddos rhag taranau.
Thunder-rod, *s.* taran-lath, llath taran.
Thunder-shower, *s.* taran-wlaw, cawad taran, cawod o wlaw taranau, gwlaw taranau.
Thunder-stone, *s.* maen taran, maen y daran, taranfollt, maen cawad, maen cawod, taranfaen.
Thunder-storm, *s.* tarandrwst, tarandwrf, ystorm daranau, ystorm o fellt a tharanau.
Thunderstrike, *v. a.* taran-daro; taro â tharan; taro â mellten; taro â syndod *neu* â braw; gorsynu.
Thunderstroke,† *s.*=*Thunder-clap.*
Thunderstruck, *a.* taran-darawedig; tarawedig â tharan *neu* â mellten; gorsynedig, synedig, brawychedig, wedi delwi; â darawyd yn fud gân syndod, &c.
Thundery, *a.* taranllyd.
Thunny, *s.* (Ll. *thynnus*) math o forbysg mawr.
Thurible,† *s.* (Ll. *thuribulum*) thuser, padell dân.

Thuriferous, *a.* (Ll. *thurifer*) yn dwyn thus; myg iarthog.
Thurification, *s.* arogldarthiad, mygdarthiad.
Thurls, *s. pl.* cyfryngau byrion ceuffosepan mwnglawdd.
Thursday, *s.* (D. *Torsdag=Thor's day*) dydd Iau, dydd Iou. Difiau, dyw Iau.
Ascension Thursday — Dydd Iau Dyrchafael, Iau Dyrchafael, Iou Dyrchafael.
Maundy Thursday — Dydd Iau Cablyd, Dydd Iou Cablyd.
Thus, *ad.* (S.; Is. *dus*) fel hyn, fâl hyn, mâl hyn, yn llyn, fellyn. [hyn.
Thus far — hyd yma; hyd hyn; hyd yn
Thus long — hyd yn hyn; cyhyd a hyn; cyd a hyn.
Thus much—cymmaint a hyn.
Thus and thus—fel hyn ac fel hyn; fel hyn a'r fel.
Thus, *s.* (Ll.; Gr. *thuó*) thus.
Thwack, *v. a.* (S. *thaccian?*) paffio, llachio, pancio, pwmpio, ffusto.
Thwack, *s.* paff, llach, panc, pwmp.
Thwaite, *s.* gwengyn=math o byeg.
Thwart, *a.* (Is. *dwars;* Sw. *tvart, tvärs;* D. *tvert*) traws, croes, ar draws, ar groes; anghyfieûs; †trofâus.
Thwart, *v.* croesi, gwrthwynebu, rhwystro, attal, gwrthgroesi, gwrthsefyll; seithugio.
Thwart, *s.* mainc groes mewn cwch.
Thwarter, *s.* crydwst (ar ddefaid).
Thwarting, *s.* croesiad, &c.
Thwartingly, *ad.* yn groes, ar groes, ar draws; dân wrthwynebu, dân wrthddywedyd.
Thwartness, *s.* croesder, trawsder.
Thwartships, *ad.* ar draws y llong; ar groes y llong. [chyllell.
Thwite, *v. a.* (S. *thwitan*) tori neu docio â
Thwittle,† *v. a.*=*Whittle.*
Thy, *a.* (talfyriad o *thine*) dy, yth, eith, tau; eiddot, einot.
Thy husband—dy wr, y gwr tau.
Thy wife—dy wraig, y wraig dau.
Show me thy hand—dangos i mi dy law.
Thyine Wood, *s.* (Gr. *thuinos*) coed thynon (*Dad.* xviii. 12).
Thyme, *s.* (Ll. *thymus;* Gr. *thumos*) gruw, gruwlys, teim.
Wild thyme, Mother of thyme, } gruwlys gwyllt.
Thymus, *s.* (Ll.) cefndedyn, cyndedyn.
Thymy, *a.* gruwiog, llawn gruw; peraroglaidd, safwyrber.
Thyroid, **Thyreoid**, } *a.* (Gr. *thureos*) tarianaidd, cadellaidd; ar wedd tarian; ar lun cadell.
Thyrse, **Thyrsus**, } *s.* (Gr. *thyrsos;* Ll. *thyrsus*) tewbanigl.
Thyreoid, *a.* tewbaniglaidd.
Thysanurans, **Thysanura**, } *s. pl.* (Gr. *thusanouros*) siochlostogion=math o drychfilod.
Thyself, *pro.* (*thy* a *self*) dy hun, dy hunan; tithau.
Thou thyself—ti dy hun, ti dy hunan, tydi dy hun, tydi dy hunan.
And thou thyself—a thithau dy hun; tydithau.
Tiara, **Tiar**, } *s.* (Ll. a Gr. *tiara*) talaith, coron, corynrwy; coron driphlyg.
Tiaraed, *a.* taleithiog, coronog.
Tibia, *s.* (Ll.) ysberygl, crimog, asgwrn mwyaf y goes; pedwerydd cymmal coes (trychfilod).
Tibial, *a.* perthynol i'r ysberygl; pibellaidd.
Tic Douloureux, *s.* (Ff.) gwŷn dolurus.
Tice,† *v.*=*Entice.*
Tichorine, *s.* (Gr. *teichos* a *rhis*) rhyddi ffanedig.
Tick, *s.* (o *ticket?* Gael. *doigh;* C. tec; cor. echwyn; dyled.
To buy upon tick—prynu ar goel; prynu ar air; prynu ar ddydd; prynu ar arian parod; prynu heb dalu i law; prynu heb dâl ar law; prynu yn neu a echwyn.
To go on tick—myned mewn dyled; myned ar y llyfr.
Tick, *v. n.* rhedeg neu fyned mewn dyled rhedeg i ddyled; prynu ar goel, &c.; cymeryd neu brynu yn echwyn; cymmeryd neu brynu ar echwyn.
Tick, *s.* (Ff. *tique;* Al. *zecke*) trogen, tarogen, heusleuen, horen, lleuen.
Tick, *s.* (Is. *teek, tyk*) twyglen, twyg gwŷr, twygyn gwely, twygliain, amlen gwely.
Tick, *v. n.* (o'r sain; Is. *tikken*) ticio, ticial, ticial, curo, ffatio.
Tick-bean, *s.* ffäen fechan.
Ticken, **Ticking**, } *s.* (o *tick*) twyglen, twyg gwŷr; twygyn gwely, twygliain, amlen gwely.
Ticket, *s.* (Ff. *étiquette;* C. tocyn) tocyn o wyddyn, cwtysyn, nod, arwydd.
Ticket of leave—tocyn rhydd.
Ticket-of-leave men—gwŷr y tocyn rhydd.
Ticket-of-leave system—cyfundrefn y tocyn rhydd.
Ticket, *v. a.* tocynu; nodi â thocyn.
Ticketing, *a.* tocynol.
The ticketing system—y drefn docynol.
Tickle, *v.* (bychanig o *touch;* neu o *tick;* neu o'r Ll. *titillo*) gogleisio, goglais, dasmal, dasmal.
Tickle,† *a.* serfyll, simsan, ansefydlog.
Tickle-brain,† *s.* gogleisydd.
Tickleness,† *s.* ansefydlogrwydd, serfyllrwydd.
Tickler, *s.* gogleisiwr, gogleisydd.
Tickling, *s.* gogleisiad, dasmaliad.
Ticklish, *a.* (o *tickle*) gogleisiog, byddinawl; llawn goglais; â goglais arno; hawdd o ogleisio; ansafadwy, serfyll, simsan, ar o sigl, ar ei ogwydd, ansefydlog, hygwyng, peryglus, enbydus, dyrys, cynnil.
Ticklishness, *s.* gogleisiogrwydd; serfyllrwydd; anwastadrwydd; peryglusrwydd, &c.
Ticks, *s. pl.* ffa bychain, ffa ceffylau.
Ticktack, *ad.* (o'r sain) tic tac, dic dac.
Tid, *a.* (S. *tydder*) tyner, meddal; mwythus, danteithiol; meddfaeth.
Tidal, *a.* (o *tide*) perthynol i lif ac adlif y môr morlifol.
Tidal harbour—porthladd morlifol, porthladd morlif; porthladd trai a llanw, porthladd â'r môr yn rhedeg iddo.
Tidal river — afon forlifol, afon forlif, afon drai a llanw; afon â llanw y môr yn rhedeg iddi.
Tidbit, **Titbit**, } *s.* (*tid* a *bit*) dewis damaid, melus, danteithyn, moethyn.
Tiddle, **Tidder**,† } *v. a.* maldodi, anwesu, bolliochi, llochi.
Tide, *s.* (S. *tid, tidan;* Al. *zeit;* Is. tyd) amser, pryd; tymp, tymmor; gŵyl: arferedig weithiau mewn cyfansoddiad braidd yn unig.

Whitsuntide—g*yl y Sulgwyn, dyddiau y Sulgwyn; y Sulgwyn.
Tide (among miners)—ysbaid 12 awr.

Tide, *s.* llanw, morlif, y llif, llanwed; llif a gwrthlif y môr; llif ac adlif y môr; rhed a gwrthred y môr; trai a llanw y môr; cerhynt *neu* hytynt y dwr; ffrwd, llif, cerynt, rhedfa.
Spring-tide=*Spring-tide.*
Neap-tide=*Neap tide* (d. g. *Neap*).
Ebb-tide=*Ebb-tide.*
The tide—y llanw, y llif; y morlif.
When the tide was up—ar y llawnfor; pan yr oedd hi yn llawnfor; ar yr uchelfor; ar y llanw.
When the tide was out—ar y trai; ar yr iseldrai; ar y dystyll; ar yr iselfor.
At the going out of the tide—a'r môr yn treio; pan oedd y môr yn treio.
With the tide—gyda'r llif; gyda'r dwr; gyda'r ffrwd.
The tide runs strongly in his favour—mae y llif yn gryf gydag ef.

Tide, *v.* gollwng gyda'r llif, gyda'r dwr, *neu* gyda'r ffrwd; gweithio wrth y trai a'r llanw; dylyn y llanw; dygyfor; ffrydlifo, ffrydio.
To tide it—dylyn y trai a'r llanw; dylyn y môr.
To tide over—hwylio dros.

Tide,† *v. n.* dygwyddo.

Tide-dial, *s.* mynag y morlif.

Tide-gate, *s.* llifddor.

Tide-gauge, *s.* mydrai trai a llanw.

Tideless, *a.* heb drai a llanw, &c.; dilif.

Tidesman, } *s.* porthwylydd, porthwyl-
Tides-waiter, } iwr. [y llanw.

Tide-way, *s.* ffrydle *neu* redle y llanw; ffordd

Tidiness, *s.* (o *tidy*) taclusrwydd, twtneisrwydd, delder; crynoder; tlysrwydd.

Tidingless, *a.* dinewydd, heb newyddion.

Tidings, *s. pl.* (Sw. *tidning*) newyddion, newydd; chwedl, chwedl newydd, y chwedl newydd, gair, y gair, geiriau, y geiriau, son; cenadwri, cenadwriaeth; copinod.
Glad tidings — newyddion da; llawen chwedl, llawenchwedl, llonchwedl.
Good tidings—newyddion da; newydd da; cenadwri dda; llawenchwedl.
Bad tidings—newyddion drwg; newydd drwg; oerchwedl, chwedl ddrwg.
Heavy tidings—newyddion caled.
To bear tidings—dwyn newyddion; bod yn genad *neu* genadwr.

Tidy, *a.* (o *tide*=amser; D. a Sw. *tidig*) taclus, cryno, twtnais, trwsiadus, glanwaith, glanwedd, percus, del, twt, cyweirdebus; deheuig; tymmoraidd.

Tidy, *v. a.* tacluso, twtneisio, trefnuso; gwneyd yn daclus, &c.

Tie, *v. a.* (S. *tian*) rhwymo, cylymu, clymu, tasio, tasgellu, ffunenu, ffasgu.
To tie up—rhwymo *neu* gylymu i fyny; rhwymo, clymu, tido; attal, llestair, lluddias, rhwystro; caethiwo.
We are tied up by the laws of the land—fe'n hattelir gân gyfreithiau y tir.
To tie one's self down to the very words of an oration—cadw *neu* ymgadw yn gaeth at eiriau yr araeth; caeth ymrwymo wrth eiriau yr araeth.
To tie together—cylymu yn nghyd; cydgylymu, cynghlymu.
Ride and tie—marchogaeth bob yn ail.

Tie, *s.* rhwymyn, rhwym, cwlwm, clwm, cwlm, rhwymiad, ffunen, tas, ffas, ffasg, lleg, llegr, creffyn.
Tie-bow of a plough = clust aradr, côb aradr, ceiliog aradr.

Tie-beam, *s.* rhwymbren.

Tier, *s.* (o *tie*) clymwr, clymiedydd, &c.

Tier, *s.* (H. *twr*) rhes, rhestr, rhenc, rheng, tedd.

Tierce, *s.* (Ff.) traianell, traian pib win; traian; trydydd; gwth, arfwth.
Tierce of beef — traianell o gig eidion= 304 pwys, neu i'r India, 336.
Tierce point — blaen, cwnwg, *neu* frig tryfal; tryfalbwnc.

Tiercel, } *s.* (Ff. *tierce, tiers*) hebog gwryw,
Tiercelet, } gwalch gwryw, hwyedydd, hwyedig.

Tiercet, *s.* (o *tierce*) triban, tair llinell, tair llinell unodl.

Tiff, *s.* (*tipple, tope?*) trancell, traflwnc, yf; anfoddlonrwydd, tipyn o sori, tymmer anfoddog.

Tiff, *v. n.* sori, teru, cwerylu.

Tiff,† *v. a.* (Ff. *tiffer*) dilladu, trwsio.

Tiffany, *s.* (It. *taffeta? Ff. tiffer?*) rhwyllwe, rhwydwe, niwlwe sidan deneu.

Tiffin, *s.* (Indaeg) byrbryd, bwyd rhwng prydiau.

Tig, *s.* math o chwareu.

Tige, *s.* (Ff.) paladr colofn.

Tiger, *s.* (Ll. *tigris;* Ff. *tigre;* It. *tigro*) dywalgi, teigr: *pl.* dywalgwn, teigrod.
Tiger-cat—dywalgath.
A young tiger — ceneu dywalgi, cenaw dywalgi.
Tiger-bittern—aderyn y bwn brith=un o adar Amerig Ddeheuol.
Tiger—gwas mewn llifrai yn marchogaeth ar ol un; brithwas.

Tiger-footed, *a.* yn brysio i ddifa; ffyrnig, dywal: †môr gyflym a'r dywalgi.

Tigerish, *a.* dywalgïaidd, teigraidd.

Tiger's-foot, *s.* troed y teigr = math ar lysieuyn.

Tiger-shell, *s.* y gragen fraith, y gragen gochwen.

Tigh, *s.* cae, maes, ceufaes.

Tight, *a.* (Al. *dicht;* Is., Sw., a D. *digt*) tyn, (*f.* ten); dwys, cynnwys; cyfrdo, cryno, taclus; tèl; diddos; dân sang; caled; prin.
A tight bandage—tynrwym.

Tighten, *v. a.* tynhau; telio; diddosi.

Tighter,† *s.* tynydd; peth i dynhau.

Tightness, *s.* tynder, tyndra, tynrwydd; crynoder, crynodeb, taclusrwydd; prinder; tel.

Tights, *s. pl.* dillad tynion.

Tigress, *s.* (o *tiger*) dywalast, teigres, teigr fenyw.

Tigrine, *a.* (o *tiger*) dywalgïaidd, teigraidd.

Tigrish, *a.* dywalgïaidd; ffyrnig, dywal, creulawn.

Tike, *s.* (=*tick*) trogen, torogen, horen, lleuen, heusleuen.

Tike, *s.* (Llyd. *tiec*) gwr gwledig, buach, taiog, delff; ci, corgi.

Tilbury, *s.* (oddi wrth enw y gwneuthurwr) cerbyd dwy olwyn pengauad.

Tile, *s.* (S. *tigel;* Is. *tegel, tichgel;* Al. *ziegel*) priddlech, peithynen, priddell, careg do, elech; peithyn; to priddlech, to priddell, to main: *pl.* peithynau, priddellau.

A tile, } priddlech, priddell, peith-
A tile-stone, } ynen; careg do, elech.
A small tile—priddellan, priddlechen.

Tile, *v. a.* peithynu; toi â pheithynau, &c.; toi â pheithynau pridd; peithyndoi, maendoi; cuddio.
To tile a lodge—peithynu cyfrinfa=sicrhau cyfrinfa Rhinseiri rhag yr anegwyddoredig.
Tiled roof—peithyndo.

Tile-field, *s.* maes priddlechau, priddell-faes.

Tile-kiln, *s.* odyn briddlechau, odyn beithynau.

Tile-ore, *s.* peithynfwn.

Tiler, *s.* peithynwr, peithynydd, töwr peithyn, priddlechwr; maendöwr, llechdöwr, töwr main, töwr to main; drysor cyfrinfa Rhinseiri.

Tilia, *s.* (Ll.)=*Lime-tree; Teil-tree.*

Tiling, *s.* peithyndo, to priddlechau, to peithyn, maendo, llechdo; peithynau, priddlechau; peithyniad, peithyndoad.

Till, *s.* tir cleisg caled.

Till, } *s.* cloer, cilior, clifor.
Tiller, } [dàn, med.

Till, *prep.* (S. *til, tille;* Sw. a D. *til*) hyd, tàn,
Till the day of Christ—hyd ddydd Crist.
Till this year—tàn eleni, hyd eleni.
Till now—hyd yn hyn; hyd y pryd hyn; hyd yr awr hon; hyd yn awr.
Till this day—hyd heddyw; hyd y dydd heddyw; hyd y dydd hwn.
Till this very day—hyd gorff y dydd hwn.
Till then—hyd y pryd, yr amser, *neu* y tro hwnw; hyd y pryd, yr amser, *neu* y tro hyny; hyd hyny; hyd yr awr hòno *neu* hyny; hyd yn hyny; o'r blaen; cyn hyny.
Till when—hyd ba bryd.
Till a while ago—hyd gynneu.

Till, *ad.* hyd oni, hyd onid, hyd onis, oni, hyd na, hyd nes, nes, hyd pan, hyd tra, hyd y, hyni, yni.

Till, *v. a.* (S. *tilian*) llafurio, diwyllio, diwyllu, trin, amaethu, coleddu, gwrteithio.
To till the ground—llafurio y ddaiar, trin y ddaiar, trin tir, diwyllio tir, tirddiwyllio.

Tillable, *a.* llafuriadwy, diwylliadwy.

Tillœa, *s.* anwywig.

Tillage, *s.* diwyllodraeth, diwylliodraeth, diwylliaeth, llafurwriaeth, amaethyddiaeth, amaethwriaeth, amaethiaeth, llafuriaeth, triniaeth tir, cywylliodraeth, cywyll, aredd.
Summer tillage—hafar, âr haf.
Spring tillage—gwanwynar, âr gwanwyn.

Tiller, *s.* llafurwr, diwylliwr, diwyllydd, diwylliawdr, cywylliwr, cywylliawdr, amaethwr, amaethydd, trinwr; oloer, cilior, clifor; llywgoes, llywrwyf; ysgewyllyn, blaguryn; pren ieuanc.
Tiller of the ground—llafurwr y ddaiar, tirddiwylliawdr, tirddiwylliawdwr, trinwr tir, &c.
Tiller of a boat—llywgoes bad, llywrwyf owch; llyw ysgraff.
Tiller of a bow—corn bwa.

Tiller, *v. n.* blaguro, braguro, balannu; ysgewyllu *neu* falannu o'r gwraidd *neu* o'r bon.

Tillering, *s.* blaguriad, braguriad, baldardd, balant.

Tiller-ropes, *s. pl.* rhod-raffau, rhaffau y llywrwyf.

Tilling, *s.* llafuriad, diwylliad, gwrteithiad.

Tillman,† *s.*=*Husbandman.*

Tilmus, *s.* (Ll.; Gr. *till.*)=*Floccillation.*

Tilly-fally, } † *ad* yn ffol ac nid yn ffol.
Tilly-vally, }

Tilt, *s.* (S. *teld;* D. *telt*) cysgodlen, llochesgwarn, diddosgudd, gortho, taled; llen pabell.
Tilt of a boat—gortho cwch.

Tilt, *v. a.* gorthöi; toi â chysgodlen; rhoi ortho; llen-gysgodi, teledu.

Tilt, *s.* (S. *tealtian*) gwth, gwân, ergyr, cyrch; paledgamp; chware paled, gware paledchware argae coed, chware gwŷr Troia; waith; paledyddiaeth; gordd fawr, morwyl mawr; gogwydd, lledogwydd.
He killed him with the tilt of his spear—lladdodd ef âg ergyd neu ergyr e. waew lladdodd ef â'i ergyrwaew.
The barrel is a-tilt—y mae y faril ar ei gogwydd; mae y faril ar ei thalcen.
The beer runs a-tilt—mae y ddiod yn rhedeg neu yn cardded yn isel.

Tilt, *v.* gogwyddo, lledogwyddo; syrthio ar fyned ar ei ogwydd; bod ar ei ogwydd; tilysu; gosod ar ogwydd; morthwylio; nelu, cyfeirio; ymornest, ymornestu, ymhyrddio â gwaewffon; paledu; chware paled, chware argae coed, chware gwŷr Troia; rhethru, rheinio; rhathro, cyrchu, bwhwman.
To tilt a barrel—gostwng neu blygu ben rhoi neu osod baril ar ei gogwydd.
To tilt steel—morthwylio dur.
To run at tilt—ymornest, ymornestu, ymhyrddio â gwaewffon.

Tilt-boat, *s.* bad gorthöedig, pabell-fad, fad god-fad.

Tilter, *s.* paledwr, paledydd, rhethror, rheiniwr; chwareuwr neu chwarëydd argae coed, &c.; ymwanwr, ymladdwr; morthwyliwr.

Tilth, *s.* (S.) y dyfnder yr arir neu y pair e triniaeth, diwylliaeth, diwylliawd, diwylliaeth, cywyll; †llafurdir, tir llafur.
Tilth and ploughing—âr ac aredig.

Tilt-hammer, *s.* gordd fawr.

Tilting, *s.* morthwyliad haiarn.
The tilting of a barrel—gostyngiad neu ogwyddiad baril.

Tilting-match, *s.* chware paled, ornest.

Tilting-spear, *s.* ysbâr paledgamp.

Tilt-yard, *s.* cadlas neu argae paledgampau; paledfaes, paledfa; maes neu chwarens rhethrorion; rhedfa meirch.

Timbal, *s.* tympanell, tabyrdden.

Timber, *s.* (S.; Sw. *timmer*) coed; coed defnydd, defnydd-goed, defnydd-wydd; pren defnydd; pren; defnydd.
Building timber—adeilwydd, adeilgoed, pob coed adail.
Unseasoned timber—irgoed, coed irion.
The timber worm—pryfed y coed.
Split timber—coed hollt.
Timber of furs, } 40 o grwyn (carlyn
Timmer of furs, } baleod, &c.); 120 grwyn ereill).
Timbers (of a ship)—coed esmion llong.

Timber, *v.* coedio, prenio; cleidru, ceibro; nythu, gwneuthur nyth; diogyn ar bren.
To timber a house—coedio pen ty; coedio ty, prenio ty.

Timber-brick, *s.* priddfaen coed.

Timbered, *a.* coedog, coediedig, à goediwyd; cledredig, ceibredig.
Well timbered — à goediwyd yn dda; à chòed da *neu* addas iddo *neu* ynddo.
Timber-head, *s.* blaen un o'r coed ceimion (mewn llong).
Timberling, *s.* pren bychan, coedyn.
Timber-merchant, *s.* masnachwr coed, maelier coed, coed-fasnachwr, coedwerthwr, gwerthwr coed, coed-faelier, porthmon coed.
Timber-sow,† *s.* pryf y coed.
Timber-trade, *s.* masnach coed, coed-fasnach.
Timber-tree, *s.* pren gwaith saer; pren i wneyd gwaith saer âg ef; pren defnydd; coeden: *pl.* coed seiri, coed gwaith.
Timberwork, *s.* gwaith coed, coedwaith.
Timber-yard, *s.* coedfa, cadlas coed, cadlas y coed, argae coed, argae y coed.
Timbrel, *s.* (Ysp. *tamboril;* Ff. *tambourin*) tympan, tympanell, tabyrdden.
Timbrelled, *a.* à ganwyd gyda'r tympan.
Time, *s.* (S. *tim, tima*) amser, (*pl. t.* oedd, au); pryd; tymmor; ennyd, adeg, awd; tymp; gwaith, tro; òed; oedfa, odfa; ysbaid; hamdden; oes, einioes; hoed.
This time—y waith hon; y tro hyn; y tro hwn; hyn o dro.
At this time—yr amser hwn *neu* hyn; y pryd hwn *neu* hyn; yn yr amser hwn *neu* hyn; ar yr amser hwn *neu* hyn; ar y pryd hwn *neu* hyn; y waith hon; ar y waith hon; ar hyn o bryd *neu* amser; y tro hwn, y tro hyn; ar hyn o dro; yn awr; weithian, weithion.
The next time—y tro nesaf; y waith nesaf.
The first time—y tro cyntaf; y waith gyntaf; cynwaith.
One time—unwaith, un waith.
The second time—yr ail waith; yr ail dro; yr eilwaith.
Two times—dwy waith, dwywaith.
These two times—y ddwy waith hon; y ddwy waith hyn.
Ten times—dengwaith, deg o weithiau.
At times—weithiau; ar brydiau, ar amseraau, ar droion; ambell waith.
At all times—bob amser, yn wastad, yn wastadol.
At no time, } nid.....un amser; nid.....
At any time, } erioed; byth ni; ni..... byth; ni.....yn dragywydd; byth.
At any time—un amser, rhyw amser, rhyw bryd, rhyw dro; unrhyw amser; y pryd *neu* yr amser y mynoch; y pryd *neu* yr amser à fyner; pob amser; erioed, byth.
Every time—pob tro, pob amser.
At that time—yr amser hwnw *neu* hyny; y pryd hwnw *neu* hyny; yn yr amser hwnw *neu* hyny; ar yr amser hwnw *neu* hyny; ar y pryd hwnw *neu* hyny; ar hyny o bryd *neu* amser; y waith hòno; ar y waith hòno; y tro hwnw, y tro hyny; ar hyny o dro.
At what time—pa amser, pa bryd; ar ba amser; ar ba bryd; pan, pryd.
At the time—pan, pan y, pryd, pryd y.
At what time soever—pa bryd bynag; pa amser bynag.
At leisure time — pan gaer ennyd, hamdden, *neu* seibiant.
Spare time—hamdden, amser hebgor.
Some times=*Sometimes.*
Some time—ychydig amser, peth amser.
As at this time—ar gyfenw i'r amser yma; ar gyfenw i'r amser hwn.
By this time—erbyn y pryd hyn *neu* hwn; erbyn hyn o bryd *neu* amser; erbyn hyn.
By that time—erbyn hyny; yn mhen hyny; erbyn y pryd hyny *neu* hwnw; erbyn hyny o bryd *neu* amser.
For that time, } wrth yr amser hwnw;
As the times went, } yn ol yr amser hwnw; wrth yr amseroedd hyny; yn ol yr amseroedd hyny; yn ol cerhynt yr amseroedd.
From that time forth—o'r pryd hyny *neu* hwnw allan; o hyny allan.
From this time forth—o'r pryd hwn *neu* hyn allan; o hyn allan; yhag llaw; mwyach.
In time—mewn pryd, mewn amser; yn brydlawn, yn amserol, yn dymmoraidd.
In due time—mewn iawn bryd; yn ei iawn bryd; mewn amser cyfaddas, &c.; yn ei amser; yn ei bryd.
In very good time—mewn amser da iawn; mewn amser da dros ben.
In process of time, } =(d.g. *Process.*)
In tract of time, }
At supper time—ar bryd *neu* amser cwynos *neu* swper.
In a little time, } ar fyr amser; mewn byr
In a short time, } amser; mewn ychydig amser; ar fyr; ar fyrder; yn mhen ychydig amser *neu* ennyd; mewn ennyd *neu* amser byr *neu* fychan; ar frys; yn fuan, yn ebrwydd.
In a minute's time—mewn mynyd; mewn mynyd o amser; yn y dim lleiaf o amser.
In the nick of time=(d.g. *Nick*).
In the day time—wrth oleu y dydd; liw dydd goleu; wrth liw dydd goleu; liw goleu ddydd; yn ngoleu ddydd; liw dydd; wrth liw dydd.
In the night time—y nos; yn y nos; liw nos; wrth liw nos; ar hyd y nos.
In time to come—yr amser à ddaw; yn yr amser à ddaw; yr amser à ddel; yn yr amser à ddel; yn ol hyn; ar ol hyn, &c.
In a year's time—yn oed, chwyl, *neu* hyd blwyddyn; mewn blwyddyn o amser.
In fourteen years' time — mewn pedair blynedd ar ddeg o amser; yn ysbaid pedair blynedd ar ddeg.
In times past, } gynt, cynt; yn yr amser-
In time past, } oedd gynt; yn y cynamseroedd; yn yr oesoedd gynt; yn yr amser gynt.
Of late time—yn ddiweddar; yn hwyr o amser; yn newydd o amser; yn hwyr.
Of old time—er cynt, o'r cynfyd.
One time or other, } rhyw bryd neu gil-
Some time or other, } ydd; rhyw amser neu gilydd; rhywbryd neu gilydd.
Of a long time—er ys hir amser; er ys llawer o amser, &c.; yn hir; am hir amser.
Before this time—cyn hyn; cyn no hyn; cyn y pryd hyn *neu* hwn; cyn yn awr; cyn heddyw; cyn hyn o amser.
Before that time—cyn hyny; cyn no hyny; cyn y pryd hyny *neu* hwnw; cyn hyny o amser.
Time of life—oedran, oed.

Time of meeting—oedfa, odfa, oed.
Many times—llawer gwaith, llawer tro; yn aml, yn fynych; lawer gwaith; lawer tro.
Old time, } yr amser gynt; yr hen amser
Olden time, } gynt; yr hen amser; cynfyd; cynddydd; hynafiaeth.
Fit time—amser cyfaddas, amser addas, egwyl, cyssellt.
Appointed time—cyfnod, oed, addoed; amser penodedig, gosodedig, *neu* nodedig.
A space of time—ysbaid o amser; cyfwng, cyfrwng.
A long time ago—er ys talm; er ys talm o amser; amser maith yn ol; er ys hirfyd o amser; er ys hirfod o amser; er ys meityn.
Much time—llawer o amser.
Convenient time—amser cyfaddas; cyfleusdra, egwyl, adeg.
It is time—mae yn amser; mae yn bryd; mae yn oed; madws yw.
Time is ever on the wing—y mae amser yn ehedeg yn ddiorphwys; y mae amser beunydd â'i adenydd ar daen; ni saif amser tro bo yn ymewyn.
To sell for time—gwerthu ar oed.
To trifle away one's time=(d.g. *Trifle, v.*)
To waste time—afradu amser, gwastraffu amser.
It is time to go—mae yn bryd myned; pryd yw myned; madws yw myned.
It is time for you to come—mae yn bryd *neu* yn oed i ti ddyfod.
To lose time—colli amser; arafu.

Time, *v. a.* amseru; tymmori; rheoleiddio.
To time a thing well—amseru, iawn amseru, prydloni, *neu* dymmori peth; gwneuthur peth yn ei bryd, yn ei iawn bryd, yn ei amser, yn brydlawn, ar yr adeg, *neu* yn ei dymmor.
The visit was well timed—prydlawn fu yr ymweliad.
To time a thing ill—camamseru; gwneuthur yn annhymmoraidd *neu* yn anmhrydlawn; gwneuthur mewn anmhryd; camgymmeryd yr amser i wneuthur peth.
Ill timed—anmhrydlawn, anmhrydol, anamserol, annhymmoraidd; allan o bryd *neu* amser; mewn anmhryd.
Well timed—prydlawn, amserol, cyfamserol, tymmoraidd; yn ei bryd; yn ei amser; mewn pryd, mewn amser; yn brydlawn, &c.

Time-book, *s.* llyfr amser, coflyfr gweithwyr.
Timeful, *a.* amserol, prydlawn, tymmoraidd.
Timeist, *s.* amserwr;† cydymagweddwr â'r amseroedd.
Time keeper, *s.* amseriadyr, awdiadyr, orfynag; oriawr, oriadyr; orlais.
Timeless,† *a.* anamserol, anmhrydlawn; anaddfed.
Timelessness, *s.* anamseroldeb, anmhrydlonedd.
Timely, *a.* amserol, prydlawn, cyfamserol, tymmoraidd, mewn pryd, arfodig, tymmig, prydiol, amser; cynnar.
Timely, *ad.* yn amserol, &c.; mewn pryd, mewn amser, &c.
Timeously, *ad.* yn amserol, yn brydlawn, &c.
Time-piece, *s.* amseriadyr, awdiadyr, orfynag; oriadyr, oriawr; orlais.
Time-pleaser, *s.* cydymagweddwr â'r amseroedd; trōwr gyda'r amser; gwasanaethwr yr amseroedd.
Time-serving, *a.* â dry gyda'r amser, &c.
Time-serving, *s.* cydymagweddiad â'r amseroedd, &c.
Timid, *a.* (Ll. *timidus*) ofnus, ofnog, ofnllwrf, (*f.* llorf), gwangalon, digalon, anaeron, dihyder, anhy; yswil.
Timidity, } *s.* (Ll. *timiditas*) ofnusrwydd,
Timidness, } ogrwydd, &c.; ofnedd, anaeron.
Timist, *s.*=*Timeist.*
Timocracy, *s.* (Gr. *timē* a *cratos*) mygiwraeth (yn Groeg gynt).
Timoneer, *s.* (Ff. *timon;* Ll. *temo*) llywiedydd, llonglywydd.
Timoroso, *ad.* (It.) yn ofnog, gydag ofn.
Timorous, *a.* (It. *timoroso;* o'r Ll. *timor*=*Timid.*
Timorousness, *s.* ofnusrwydd, ofnogrwydd, usedd, &c.
Timothy-Grass, *s.* (oddi wrth un o'r *Tirhonwellt y gath, rhonwellt y gath cyfr*
Timous,† *a.* (*time*) amserol; cynnar.
Tin, *s.* (S., D., ac Is.) alcan, ystaen.
A tin cup—cwpan alcan, cwpan ystaen.
Tin, *v. a.* gorthöi âg ystaen *neu* alcan; âg alcan *neu* ystaen; ystaenio, gorymdrochi alcanu.
Tinct,† *v. a.* (Ll. *tingo, tinctus*) lliwio, arlliwio, ystaenio, llychwino.
Tinct,† *s.* lliw, ystaen, *gwawr, llychwin.*
Tinctorical, *a.* (Ll. *tinctor*) lliwiol, arlliwiol, lliwiannol, tryliwiol.
Tincture, *s.* (Ll. *tinctura*) lliw, arliw, gorliw, gorne; eiliw, adliw; trwyth, ymmwydlyn; ednyfed, ednyw, gordaeth, gwedd; adfias, adchwaeth, lledchwaeth, ohwaeth; nawa; tipyn bach.
Tincture, *v. a.* lliwio, tryliwio, arliwio, liwio; nawsio.
He tinctured him with these vain —efe a'i tryliwiodd ef â'r tybiau gwion yma; efe a fagodd *neu* a feithrynddo y gwag dybiau hyn; efe a barodd reddfu ynddo y gwag dybiau hyn.
Tind,† *v. a.* (S. *tendan*) cynneu, annyn.
Tinder, *s.* (S. *tyndre*) dylwyf, gogyrnen, lliain goloeg, lliain goloeged, magdan, goloeged.
Tinder-box, *s.* blwch y goloeg, blwch y goloeged, tan-flwch.
Tinderlike, *a.* hyloeg; tra fflamychol.
Tine,† *v. a.* (S. *tynan*) lloegi, tanio.
Tine,† *v. a.* (S. *tynan;* Ll. *tenco*) cau; *llerw.*
Tine, *s.* (S. *tinder*) dant oged, dant og; ewin fforch.
Tine of a harrow—dant oged, *dant og.*
Tine of a fork—ewin fforch, pig fforch.
Tine,† *s.* trallod, gofid, cyni.
Tine,† *v. n.* gwynio; cynddeiriogi; ymladd.
Tinea, *s.* (Ll.)=*Porrigo.*
Tined, *a.* deintiog, danneddog; ewinog.
Tineman, *s.* (o *tine*, cau) fforestwr; ceidwad neu od a thyfolion y goedwig.
Tinet, *s.* (o *tine*,) manwydd, prysgwydd, prysg.
Tinfloors, *s. pl.* lloriau alcan; mân wythiennau gwastad o alcan.
Tinfoil, *s.* (*tin*, a Ll. *folium*) dalen alcan, dalen ystaen.
Ting,† *s.* (o'r sain) tinc, ting, meinsain.
Ting,† *v. n.* tincian, tincio.

Tinge, *v. a.* (Ll. *tingo*) goliwio, lledliwio; amliwio; ystaenio; nawsio, nawsu.

Tinge, *s.* goliw, lledliw; amliw; gwawr; lliw, gne; blas, chwaeth.

Tingent, *a.* goliwiol, lledliwiol.

Tin-glass, *s.* alcanwydr, ystaenwydr.

Tingle, *v. n.* (C. *tincial*) merwino; dïaspedain; tincial, tincian, tincio, tingo.

His ears shall tingle—ei glustiau a ferwinant.

The pain tingles up to my elbow—y mae y merwin yn cyrhaedd i'm penelin; y mae y wŷn yn cyrhaedd i'm penelin; y mae fy mraich yn gwynegu *neu* yn merwino hyd at fy mhenelin.

Tingling, *s.* merwinad; merwin; tingiad, tinciad.

Tinker, *s.* (C. *tincerdd*, yn ol *Webster;* o *tink*, yn ol *Johnson*) tincerdd, tincof, gof y dinc; eurych: *pl.* tincerddiaid.

Tinker, *v. a.* tincerddio, tinceirddio; gwneyd gwaith tincerdd; cyweirio, clytio.

Tinkering, *s.* tincerddiad, tinceirddiad; tincerddiaeth, tinceirddiaeth.

Tinkerly, *ad.* megys tincerdd.

Tinkle, } *v.* (C. *tincial*) tincial, tincian, tincio;
Tink, } darysteinio, dïaspedain, daru.

Tinkling, *s.* tinciad, tinc, darystain, darystein iad.

Making a tingling with their feet—gân drystio â'u traed (*Esa.* iii. 16).

Tinman, *s.* (*tin* a *man*) gof alcan, alcanwr, alcanydd, ystaenydd, ystaeniwr, gorystaenydd, alcanof, ystaenof; masnachwr nwyddau alcan.

Tinmine, *s.* (*tin* a *mine*) gwaith alcan, gwaith ystaen, clawdd alcan, alcan-glawdd.

Tinner, *s.* (*tin*) gof alcan, alcanwr, &c.; gweithiwr mewn clawdd alcan.

Tinnient,† *a.* (Ll. *tinnio*) tinciol.

Tinning, *s.* (*tin*) ystaeniad, alcaniad; gorthoad âg alcan.

Tinny, *a.* llawn alcan, llawn ystaen, ystaenog.

Tinpenny, *s.* ceiniog yr alcan, arian codi alcan.

Tin-plate, *s.* llafn alcan, llafon alcan; haiarn gwŷn.

Tinsaw, *s.* llif briddfeini, llif alcan.

Tinsel, *s.* (Ff. *etincelle*) gwaelbeth coegwych, peth coegwych, rhyw waelbeth coeg-ddysglaer, peth ffugwych; ffug-eurwe, coegwe; oferdlws, coeg-addurn.

Tinsel, *a.* coegwych, coeg-ddysglaer, ffugwych, gwaelwych, rhithwych; ymddangosgar, arwynebol.

Tinsel, *v. a.* coegwychu.

Tinstone, *s.* (*tin* a *stone*) alcanfaen, maen alcan, careg alcan.

Tint, *s.* (It. *tinta;* Ll. *tinctus*) lliw, gwawr, arliw, cyfliw, darliw, gne; goliw, lledliw.

A slight tint—goliw, adliw.

A light tint – lliw goleu, gwawr oleu, goleune, goleuliw.

Tint, *v. a.* goliwio, lledliwio; lliwio, arliwio, darliwio, cyfliwio.

Tintamar,† *s.* (Ff. *tintamarre*) twrf, dwndwr, dadwrdd.

Tinting, *s.* lliwiad, goliwiad, &c.

Tintinnabulary, *a.* (Ll. *tintinnabulum*) clochaidd, clochawl, clochseiniol.

Tin-worm, *s.* pryf yr alcan=math ar filcerdd.

Tiny, *a.* (o wraidd *thin*) bychanig, bychan, bach, pitw; eiddil; disumig, disumol.

Tip, *s.* (Is.) blaen; pen; cwr; top, eithaf, pen eithaf; cnith, cis; brigerben, brigell; rhan o chwareu ceilys.

The tip of the nose—pen y trwyn.

The tip of the ear—cwr isaf y glust; tipyn clust, llibyn clust.

The tip of the elbow—pen yr elin.

The tip of a horn—blaen corn.

Tip, *v.* blaenu; ymylu; cnithio, cisio, ffatio; tripio, diwel, dymchwel; taflu, bwrw, *neu* daro i lawr; rhoi, rhoddi.

To tip with gold—blaenu âg aur; ymylu âg aur.

To tip a vessel with gold—ymylu llestr âg aur.

To tip over—troi drosodd.

To tip one's hand, } iro llaw un.
To tip one, }

To tip one the wink—amneidio; bwrw amnaid at un; gwneuthur amnaid i *neu* ar un.

To tip one a box on the ear—rhoi bonclust i un; rhoi i un gernod *neu* fonclust.

To tip off—syrthio ymaith; syrthio bendramwnwgl; marw.

Tippet, *s.* (S. *tæppet*) toryn gwddf, toryn, gwardorch.

A clergyman's tippet—toryn eglwyswr.

Tipping, *s.* blaeniad, &c.; taro y tafod wrth daflod y genau (wrth chwareu pibell).

Tipple, *v.* (o *tope*, Ff. *toper*) dïota, ymyfed, yfetri, llyna, llymeitian, llymeitia, potio; dyfolio.

Tipple, *s.* dïod; ymyfed.

Tippled, *a.* meddw, brwysg.

Tippler, *s.* dïotwr, dïotai, ymyfwr, llymeitiwr, llymeitai, yfwr; cynniweirydd o dafarn i dwlc; potiwr, meddwyn, brwysgyn.

Tippling, *s.* dïota, dïotach, ymyfed, yfetri; meddwdod, brwysgedd.

Tippling-house, *s.* dïotty, (*pl.* dïottai), crach dafarn, coeg dafarn, lletty y llynwyr, llymeitty.

Tipsily, *ad.* yn feddw.

Tipstaff, *s.* (*tip* a *staff*) y rhingyll peneuraid, y rhingyll â'r ffon beneuraid; ffon beneuraid, ffon ben-arian, ffon benddel.

Tipsy, *a.* (o *tipple*) meddw, brwysg; gofeddw, gofrwysg, lledfeddw, crŷn feddw, hanner meddw.

Tiptoe, *s.* (*tip* a *toe*) blaen y troed, blaen y traed; gorewinedd.

A tiptoe, } ar flaen y traed; ar ewinedd
On tiptoe, } y traed; ar flaen ei ewinedd.
To be a tiptoe, } sefyll ar flaen *neu*
To stand a tiptoe, } flaenion ei draed; bod ar flaen *neu* flaenion ei draed; bod ar flaen ei ewinedd.

To be a tiptoe with expectation—bod ar flaenion ei ewinedd gân ddysgwyliad; bod ar eithaf dysgwyliad.

To walk on tiptoe—cerdded ar flaen *neu* flaenion y traed; cerdded ar orewinedd.

Tiptop, *s.* y radd uchaf, y radd eithaf, eithafradd, pen uchaf.

Tipula, *s.* (Ll.) hirheglyn; yr hirheglod.

Tipulary, *a.* perthynol i'r hirheglod.

Tirade, *s.* (Ff.; It. *tirata*) hediaith; croch araeth, bloeddiaith, araeth drystfawr angerddol, traflith, brochlith.

Tirailleur, *s.* (Ff.) saethwr ergydlym, ysgarmeswr.

Tire, *s.* (H. *twr*) rhes, rhestr, rhenc, rheng; penwisg, gwisg pen, cap; dodrefn, offer, trec, cêr, cyfarpar; cant olwyn, baeag, cylch.
Round tires like the moon — lloerawg wisgoedd (*Esa.* iii. 18).

Tire, *v.* (S. *teorian*) blino, diffygio, lluddedu, lluddedigo, llyfferthu, llyferthuso; ymflino; peri blino, &c.; myned yn flinedig.

Tire,† *v.* (=*tear*) rhwygo, llarpio.

Tired, *p. p.* blinedig, lluddedig, &c.; blin, llyferthin.

Tiredness, *s.* lluddedigrwydd, llyferthedd, llyferthrwydd; blinder, blinedd.

Tire-smith, *s.* gof cerbydau.

Tiresome, *a.* blinderus, blinderog, blin, llyferthol, llyferthus, lluddedigol; lluddedbar; â bair flinder *neu* ludded, &c.
Extreme tiresome — gorflin, blin dros ben, &c.

Tiresomeness, *s.* blinderusrwydd, blinderogrwydd, blinder, llyferthedd.

Tirewoman,† *s.* penwisgyddes.

Tiring-house, } *s.* gwisgle chwarëyddion, gwisg-
Tiring-room, } fa chwareudy.

Tiro, *s.*=*Tyro.*

Tirocinium, *s.* (Ll.) cynddysg; newyddianaeth.

Tirra Lirra,† *s.* tôn yr uchedydd.

Tirrit,† *s.* dychryn, ofn.

Tirwit, *s.*=*Lapwing.*

Tisan, *s.*=*Ptisan.*

Tisic, } *a.*= { *Phthisic.*
Tisical, } { *Phthisical.*

Tisic, *s.*=*Phthisic.*

Tissue, *s.* (Ff. *tissu*) cymhlethwe, eurwe, eurbleth, arian-bleth; brethyn *neu* sidan eurbleth, &c.; gwe, pleth; manwedd, meinwe, manwe; rhes, cyfres.
Vegetable tissue—meinwe planigion, manwedd tyfolion, llys-we.
A tissue of falsehood — celwydd o ben bwygilydd; celwydd o'r dechreu i'r diwedd; rhes o gelwyddau.
Tissue paper—papyr sidan.

Tissue, *v. a.* cymhlethu, cydwau, cydblethu, plethu; amrywio.

Tit, *s.* bychanigyn, peth bach; ceffylyn, corfarch; benyw, benywen, llances; sywidw, yswigw, penlöyn.
Tit for tat—cast am gast; tâl pwyth.

Titanian, } *a.* perthynol i dudeinfwn; tudein-
Titanic, } iol.

Titaniate, *s.* tudeinawd, hal tudeinfwn.

Titanic Acid, *s.* sur tudeinig=cynegrid tudeinfwn.

Titaniferous, *a.* (*titan* neu *titanium*, a Ll. *fero*) tudeinddwyn.

Titanite, *s.* cynfaen, tudeinfaen.

Titanium, *s.* (oddi wrth y *Titan*, yn y chwedl) tudeinfwn, tudfwn.

Titbit, *s.*=*Tidbit.*

Tithable, *a.* degymadwy; â dâl ddegwm; â fo rhwym i dalu degwm.

Tithe, *s.* (S. *teotha*) degwm; y ddegfed.
Personal tithes—degwm crefft.
Predial tithes=(d. g. *Predial*).
To pay tithe—talu degwm.

Tithe, *v. a.* degymu, codi degwm, degoli; talu degwm.

Tithe-free, *a.* diddegwm.

Tither, *s.* degymwr, degymydd, degolwr.

Tithing, *s.* (S. *tithinga*) degtref, degoliaeth, tref ddegwm.
Tithing court — degtrefiys, llys degwm.
Tithing-man—degtrefwr, degtrefyddi, pr degtref, pennaeth degtref.

Tithing, *s.* degymiad.
The year of tithing—blwyddyn y degwm (*Deut.* xxvi. 12); blwyddyn y degwm.

Tithymal, *s.* (*Gr. titHumalos*) ffiamgoed, fla good.

Titillate, *v. n.* (Ll. *titillo*) gogleisio, bolfl

Titillation, *s.* gogleisiad; goglais.

Titlark, *s.* corhedydd, coeghedydd, cor ydd, ehedydd y waen.

Title, *s.* (Ll. *titulus*) enw, henw, enwad, e awd, cyfenw, cyfenwad, aenw, arenw, urddenw; urddeb, enweb; argraf, te urdd; hawl, iawn hawl, hawlfraint, bra ysgrifen hawl.
The title of a book—enw llyfr, teit llyfr
Titles of honour — enwau urddas, enwau, enwau urddasol.
To establish a title (in law)—bwrw haw
To investigate a title—dadenhuddo, a anhuddo; olrhain hawl.
To give up one's title—rhoi ei fraint hawl i arall; ymadael â'i hawl; wrthod â'i fraint.
To have a title to—bod i neu gan un hawl i beth.
To give flattering titles—gweniethu (xxxii. 22).

Title, *v. a.* enwi, henwi, galw, cyfenwi; rhoi *neu* enwad; rhoi hawl.

Titled, *a.* urddenwog; âg urddenw iddo; asol, urddol; dyledog.

Title-deed, *s.* hawlysgrif, hawlysgrifen, en hawl, ysgrif hawl; gweithred.

Title-leaf,† *s.* dalen enw llyfr.

Titleless,† *a.* dïenw; dihawl, difraint.

Title-page, *s.* tudalen enw, dalen enw dalen enwol llyfr, dalen y testyn, rhagddalen wyneblen, enwadlen, enwadeb.
The title-page—tudalen yr enw, y testyn *neu* y teitl; y rhagddalen, &c.

Titling, *s.* (o *tit*) clochdar y cerrig, cloch graig, tinwyn y garn.

Titmouse, *pl.* Titmice, *s.* (*tit* a mouse) ysw yswidw, sywidw, penlöyn, y lleian, pe ysbigydd, ysbigydd bach, glas y pared, ey lleian, llygoden y derw, gwas y dryw.
Great titmouse—y penlöyn mwyaf.
Blue titmouse—y lleian, llygoden y derw.
Marsh titmouse—penlöyn y cyrn.
Long-tailed titmouse—y lleiaf gynffonlir.

Titter, *v. n.* (o'r sain) chwerthin dân ddannedd chwerthin yn nghil boch; cilchwerthin, ain; mogi chwerthin.

Titter, *s.* chwerthin dân ddannedd; chwerthiniad dân ddannedd; chwerthin cil boch; chwynyn.

Tittering, *s.* chwerthiniad dân ddannedd chwerthin dân ddannedd.

Tittle, *s.* (o *tit*) pyncyn, mymryn, tipyn, tic tip, tib, timyn, tim; pwynt; nod acen.
He will not part with the least tittle of his right—nid ymedy efe â'r mymryn lleia o'i hawl.
I cannot believe a tittle of what he says nis gallaf gredu gair a'r a ddywed; nis medraf gredu cymmaint a gair a'r a ddywed; nis medraf gredu mo'r gair lleia a'r a ddywed.

Tittle-tattle, *s.* (*tittle* ddwywaith) fol sôn

ffiloreg; baldordd, chwaldordd, chwaldod, ofersiarad, gwagsiarad, llol, clebar, clep, pepraeth; baldorddwyr.

Tittle-tattle, *v. n.* clebran, bragaldian, clebarddu, baldorddi, baldordd, baldorfi, llolian, clolian, chwaldodi, chwaldorddi, chwalu chwedlau, clepian.

Tittle-tattling, *s.* baldorddiad, &c.

Titubate, *v. n.* (Ll. *titubo*) tramgwyddo, tripio; rhoi cam gwag.

Titubation, *s.* tramgwyddiad, tripiad; aflonyddwch, anesmwythder.

Titular, } *a.* (Ff. *titulaire;* o'r Ll. *titulus*)
Titulary, } enwol, henwol; mewn enw; yn dwyn enw *neu* enwad; o ran teitl *neu* enw; mewn enw yn unig.

Titular, }
Tradeswoman, *s.* trafnidwraig, maeleres, masnach-wraig.
Trade-wind, *s.* trafnidwynt, cylchwynt.
Trading, *a.* trafnidiol, masnachol.
Trading, *s.* trafnidiad, masnachiad, maeliera, maeleriad; trafnid, masnach.
Trading in our way is very briak at present—mae ein gwaith *neu* ein marchnat-

waith ni yn cerdded yn heinif ar hyn o bryd; mae mawr werthu ar ein nwyddau ni heddyw; mae ein nwyddau ni yn bywerth iawn heddyw.

Trading is dull now-a-days—nid oes nemawr o fasnach ar nwyddau yn yr oes hon; nid oes nemawr o brynu a gwerthu yn yr oes hon.

Tradition, *s.* (Ff.; Ll. *traditio*) traddodiad; hen-gof.

Oral tradition—traddodiad geneuol; traddodiad o eneu i eneu; traddôdiad o ben i ben; cof clyw.

Traditional, } *a.* traddodiadol; o ryw a natur
Traditionary, } traddodiad.

Traditionally, } *ad.* trwy draddodiad, wrth dra-
Traditionarily, } ddodiad, o draddodiad, yn draddodiadol.

Traditionary, *s.* traddodiedydd Iuddewig.

Traditioner, } *s.* traddodiedydd; glynwr wrth
Traditionist, } draddodiadau.

Traditionists—gwŷr y traddodiadau, traddodiedyddion.

Traditive, *a.* (Ll. *trado*) traddodol, traddodadol; traddodadwy.

Traditor, *s.* (Ll.) traddodwr, traddodydd.

Traduce, *v. a.* (Ll. *traduco*) enllibio, goganu, cablu, athrodi, difenwi, gwaradwyddo, gwarthruddo, hortio, duo, abeenu, difrio, sarhau; collfarnu, beio; †hilio.

Traducement, *s.* enllibiad, difenwad, goganiad, &c.; enllib, gogan, anair, drygair, cabl.

Traducent, *a.* enllibiol, enllibus, difenwol, athrodus, goganawl, gwrthruddol.

Traducer, *s.* athrodwr, athrodydd, enllibiwr, goganwr, difenwydd, &c.

Traducible, *a.* deilliadwy.

Traduct,† *v. a.* (Ll. *traductus*) tynu o, deillio, hanu.

Traduction, *s.* (Ll. *traductio*) trosglwyddiad, trosglwydd, trosiad, traddygiad; traddawd, traddodiad; trofiant; deilliad.

Traductive, *a.* deilliadol, hanedigol; tynadwy.

Traffic, *s.* (Ff. *trafic;* It. *traffico*) trafnid, masnach, maelerïaeth, maelieraeth, maeleri, marchnadaeth, marsiandïaeth, cyfnewid; nwyddau masnachol.

Traffic, *v.* trafnidio, masnachu, marchnata maelera, maeleru, maelerio, maeliera, maelieru; prynu a gwerthu; elwa; cyfnewid.

Trafficable,† *a.* trafnidiadwy; hywerth.

Trafficker, *s.* trafnidiwr, trafnidydd, masnachwr, maeleriwr, maelierwr, maelier.

Trafficless, *a.* didrafnid, difasnach.

Tragacanth, *s.* (Gr. *tragacantha*) draenen yr afr; gwm tragant=math o lysieluyn, a math o wyddlud.

Tragedian, *s.* treisganwr, treisofydd, treiswawdwr, treiswawdwr, treisodwr; cyfansoddwr treisganau; bardd trychni; chwareuwr treisawd, dïen-chwarëydd, chwareuwr trychni.

Tragedy, *s.* (Gr. *tragôdia;* Ff. *tragedie;* It. ac Ysp. *tragedia*) treisgan, treisgerdd, treisawd, treiswawd, chwareugan trychni, pruddawd, trychwawd, dybyrwawd, cellweirfwrn; treischwareu, chwareu dïenydd, dïen-chwareu; erchyllwaith, echryswaith, anfadwaith; galanasdra, trychineb; rhyw ddamwain à bair ddychryn a galar; trychlam.

Tragic, } *a.* (Gr. *tragicos;* Ll. *tragicus*) perth-
Tragical, } ynol i dreisgan, &c.; treisganig, treiswawdiol, treiswawdus, treisodawl, dïenchwareuol; treisig; echryslawn, erchyll, ofnadwy, gresyn, tostur, truenus, irad, girad, dychrynllyd, alaethus, galarus, trwch, trychinebus, prudd, athrist, trwm.

Tragically, *ad.* yn echryslawn, yn irad, &c.

Tragicalness, *s.* echryslonrwydd, gresynoldeb, alaethusrwydd, &c.

Tragicomedy, *s.* (Ff. *tragicomedie; tragedy* a *comedy*) treisgymwawd; chwareu cymmysg o'r digrif a'r dagrau; chwareu cymmysg o'r melus a'r chwerw.

Tragicomic, } *a.* treisgymwawdiol; cymmysg
Tragicomical, } o'r digrif a'r dagrau; dilonddigrif.

Tragopogon, *s.* (Gr.; Ll. *tragopogum*) barf yr afr.

Trail, *v.* (Ysp. *traillar;* Is. *treillen*) llusgo, dylusgo; tynu o hyd; tynu ar hyd; dysgreinio; ymlusgo; olrhain, olrheinio, dylyn ol; llaesu, ymlaesu; gostwng, iselhau.

To trail a pike—arwain gwaew.

To trail along—ymlusgo.

To trail arms—gostwng arfau.

Trail, *s.* ol, brisg, arllwybr; llusg; llinyn; llusgodre, amadrwy, godre gwisg, pwrffil; rheng; rhel, rhelyw, traill; perfedd adar; coluddd, ymysgaroedd.

Trail-boards—addurnwaith ar ben blaen llong.

Trailing, *p.* yn llusgo, gàn ymlusgo, &c.; ymlusgol, ymlusgaidd; edlaes, llaes.

Train, *v. a.* (Ff. *trainer*) llusgo, dylusgo; tynu, denu, llithio, hudo; hyfforddi, hyfforddio, addysgu, dysgu, hyddysgu; magu, meithrin, dwyn i fyny; egwyddori; dofi; arwain; olrhain (gwythen ŵn i'w dechreu).

To train along—llusgo, dylusgo; dysgreinio.

To train on—llusgo, denu, hudo, llithio, *neu* dynu yn mlaen.

To train soldiers—hyfforddi, dysgu, addysgu, *neu* hyddysgu milwyr.

To train up—dwyn i fyny, magu, meithrin, hyfforddi, hyfforddio, addysgu.

Train, *s.* llusg, godre, llusgodre, llyw, llaesodre, amadrwy, pwrffil; cynffon, llwst; gosgordd, cosgordd, cordd, canred, canrain, canlynwyr; llu, tyrfa; rhes, cyfres; llinell, hud, llinyn; trefn; llith, abwyd; cylch; gorymdaith; cludres; olbarth càr cyflegr; †telm; †llithfa.

Train of a gown—llyw gŵn, godre gŵn, &c.

Train of a hawk—llyw hebog, cynffon hebog.

Train of attendants—gosgordd.

King's train—gosgordd brenin, cyweithas brenin.

Railway train—cludres, cerbydres.

Express train=*Express train*, d.g. *Express, a.*

Parliamentary train—cludres seneddol; cludres rad, cerbydres rad.

A train of misfortunes—rhes *neu* dorf o anffodion.

Things are now in train—y mae pethau weithian mewn trefn *neu* ar linyn.

Train of artillery—cyfanrif o gyflegrau *neu* ŷnau rhyfel.

A train of gunpowder—llinell, llinyn, rheng, *neu* rigwm o bylor gŵn.

A train of thoughts—rhes *neu* gyfres o feddyliau; dylyniad meddyliau.

Trainable, *a.* hyfforddadwy, addysgadwy, &c.
Trainband, *s.* cartrefiu, meiawd.
Trainbands — meiwyr, milwyr cartrefol, cartrefiu.
Train-bearer, *s.* dygiawdr godre, amadrwy, *neu* bwrffil.
Trainer, *s.* hyfforddwr, addysgwr, dofwr, &c.
Training, *s.* hyfforddiad, addysgiad, addysgiaeth; dygiad i fyny; dofiad.
Training institution — sefydliad hyfforddiadol, egwyddorfa.
Training school—ysgol hyfforddiadol, ysgol hyfforddawl, ysgol hyfforddig.
A place for the training up of young—addysgfa; ysgol (2 *Mac.* iv. 9).
Train-oil, *s.* (Ff. *trainer*) olew y morfil, ul.
Train-road, *s.* tynffordd, goreilffordd.
Trainy, *a.* perthynol i olew y morfil; ulaidd.
Traipse, *v. n.* cerdded yn anghryno *neu* yn annyben; cerdded dân lusgo ei llodrau; cerdded â'i dillad yn annhaclus.
Trait, *s.* (Ff.; Ll. *tractus*) ergyd, cnith; llinell; gweddnod, nodwedd, llunwedd; cynnawn, cynddawn; cynnod; gosgedd, gwedd; nawd, naws.
Traiteur, *s.* (Ff.) ceidwad bwydfa.
Traitor, *s.* (Ff. *traître*; Ysp. *traïdor*; Ll. *traditor*) bradwr, bradychwr, bradychydd.
A most execrable traitor—carn fradwr.
State traitor—teyrnfradwr.
Traitorly,† *a.* bradwrus.
Traitorous, *a.* bradog, bradwrus, bradwraidd, bradychus, bradychol, bradol, bradus.
Traitorousness, *s.* bradwrusrwydd; bradogrwydd; bradwriaeth.
Traitress, *s.* bradwraig, bradyches.
Traject, *v. a.* (Ll. *trajectus*, *trajicio*) trydaflu, taflu drwy, bwrw drwy, trosglwyddo.
Traject, *s.* (Ff. *trajet*; Ll. *trajectus*) ceubalfa, trosglwyddfa, porth.
Trajection, *s.* trydafliad; trosglwyddiad, traddygiad; tafliad.
Trajectory, *s.* cylchdro gwibseren *neu* blaned; traddygell.
Tralation, *s.* (Ll. *tralatio*) cyfnewidiad gair, trosenwad.
Tralatition, *s.* cyfnewidiad; trawsenwad, trawsenw.
Tralatitious, *a.* trawsenwol, trosenwol; allegol.
Tralineate,† *v. a.* (Ll. *trans* a *linea*) gŵyro.
Tralucent, *a.* (Ll. *tralucens*) tryloew, trybelid.
Tram, *s.* (C. *tram*, *tramwy*?) tram, hirfen lo, pedrolfen.
Trammel, *s.* (Ff. *tramail*) rhwyd hir, crogrwyd, rhwyd; hual rhygyng, cloffrwym, hual; crogedydd, hatrai, bachau crochan; attalfa, lludd.
Trammels — hirgylchyr, hirgylchedydd, cwmpas hirgylch; cloffrwymau, hualau, llyffetheiriau, &c.
Trammel, *v. a.* llyffetheirio, loffrwymo, hualu; caethiwo; dâl, dala, attal, lluddio, lledgaethu.
Trammelled, *p.* llyffetheiriog, hualog; â manau *neu* leiniau gwynion ar draed blaen ac ol ar y naill ochr (i geffyl).
Tramontane, *a.* (It. *tramontana*; Ll. *trans* a *mens*) tramynydd, tramynyddol; y tu draw i'r mynydd *neu* i'r mynyddoedd; estron, estronol; anghyfiaith.
Tramontane, *s.* tramynyddwr; estron, dyeithryn, barbariad.
Tramp, *s.* (C. *tramp*?) tramp, gwib, gwibiaeth, crwydr.
Tramp, } *s.* trampiwr, crwydrya, crwydrai,
Tramper, } crwydriad, gwibiwr, gwibiaeth, gwibiawdr.
Tramp, *v.* trampio, crwydro, gwibio, tramwy; teithio ar draed; sathru, mathru.
Trample, *v.* (Al. *trampeln*, *trampen*; D. *trampen*; Sw. *trampa*) mathru, sathru, darostwng, damsangu, mysangu, maesgyng, sarnu, sangu, sengu, dysathru; damsangu yn fân; yn aml gân drystio â'r traed; ystablu, ystablad.
To trample upon—mathru ar, sathru ar, darfathru, damsang, sangu ar, &c.
To trample down—mathru i lawr, sathru lawr, &c.
To trample under foot—sathru tan fân dân draed, &c.
To make a trampling noise with the feet—trystio â'r traed; gwneuthur trwst â'r traed.
Trample, *s.* mathr, sathr, damsang, sang, sarfa; mathriad, &c.
Trampler, *s.* mathrwr, sathrwr, damsangwr.
Tramroad, } *s.* tramrawd, tramffordd, rheilffordd pedrolfeni glo.
Tramway, }
Tranation,† *s.* (Ll. *trano*) tranofiad, trosfiad.
Trance, *s.* (Ff. *transe*) llewyg, llesmair, marwhun.
To fall into a trance—syrthio mewn llewyg.
He fell into a trance—syrthiodd mewn llewyg; syrthiodd arno lewyg; bu arno lewyg.
Tranced, *a.* mewn llewyg; llesmeiriog.
Trangram,† *s.* dyrysbeth, peth astrus cyfrain.
Trannel, *s.* (*tree* a *nail*) hoel bren, coedhoelen llong.
Tranquil, *a.* (Ll. *tranquillus*) tawel, llonydd, digyffro, digynhwrf, heddychol, tangnefus, tangnefeddus, tangnefig, tangnefol, tangweddus, tangweddog, heddol, heddus, dyngaw, esmwyth, chwarienus.
Tranquility, *s.* (Ll. *tranquillitas*) tawelwch, llonyddwch, taweledd, taweli, heddwch, tangnefedd, tangnef, tanc, hedd, tangnefusrwydd, tangnefusedd, tangnefeddusrwydd, tangnefeddusder, &c.
Tranquilization, *s.* taweliad, taweliant, llonyddiad, taweledigaeth, tangnefiad, tangnefeddiad, heddychiad, tangweddiad.
Tranquilize, *v. a.* tawelu, llonyddu, tangnefu, tangnefuso, tangnefeddu, heddychu, tangnefoli, heddu, taweliannu, tangweddu, tangnefu.
Tranquilizer, *s.* cadair dangnefu, tangnefydd.
Tranquilness, *s.*=*Tranquility*.
Trans, arddawd Lladin, yn dynodi *tros*, *tra-*, *trag-*, *try-*, *trwy*; *traw*; *tu hwnt i*; *o y tu draw*; *ar y làn draw*.
Transact, *v. a.* (Ll. *transactus*, *transigo*) gwneuthur, gwneyd; cyflawnu; trin; trefnu; dwyn i ben; dwyn yn mlaen; hwylio; negeua; gweithredu; gorugo; trafod.
To transact business — trin, trefnu, gwneuthur, *neu* hwylio gorchwyl *neu* neges; cyflawnu gorchwyl.
Transaction, *s.* (Ll. *transactio*) gwneuthuriad; cyflawniad; trefniad, triniad, triniaeth; gorchwyl à wneir *neu* à wnaed; gorchwyl, gweithred, neges, perwyl; negeswriaeth, gorchwyliaeth, trafodiaeth; cytundeb.

The transaction of this world—trafodiaeth y byd hwn; gorchwyl y byd hwn.
Philosophical transactions—gweithrediadau athronyddol, gweithredoedd athronyddol, gorchwylion athronyddol.

Transactor, *s.* (Ll.) trinwr, gweithredwr, gweithredydd, cyflawnwr, gorchwylydd, gorchwyliwr.

Transanimate, *v. a.* (*trans* ac *animate*) trawseneidio.

Transanimation, *s.* trawseneidiad.

Transcalency, *s.* (Ll. *transcaleo*) bod yn hydraidd i wres.

Transcalent, *a.* hydraidd i wres; y gall gwres dreiddio drwyddo.

Transcend, *v. a.* (Ll. *transcendo*) codi yn uwch na; myned dros; myned tu hwnt i; rhagori ar, tragoroli ar, tragori ar, blaenori ar; tragori, tragoroli.

Transcend,† *v. n.* dringo; ymgodi.

Transcendence, } tragoroldeb, tragorolrwydd,
Transcendency, } tragorolder, tragoroldra, tragoroledd, tragoriaeth, tragoriant, rhagoroldeb, rhagoriaeth, goruchragoriaeth, blaenoriaeth, tra-rhagoriaeth; codiad peth yn uwch na'r gwir; gormodiaith.

Transcendent, *a.* tragorol, tra-rhagorol, goruchragorol, tragodidog, ardderchog, goruchel; tragoriannol; à fo uwch law gwybodaeth *neu* ymbrawf dyn.

Transcendental, *a.* tragoriannol, tragorol, goruchragorol; à fo uwch law gwybodaeth *neu* ymbrawf dyn.
Transcendental philosophy — athroniaeth dragoriannol, athroniaeth dragorol.

Transcendentalism, *s.* tragoroliaeth, tragoriannaeth, tragoriannoliaeth.

Transcendentalist, *s.* tragoriannwr, tragoriannydd, tragoriannolwr, tragorolwr.

Transcendentality, *s.* tragoriannoldeb.

Transcendentness, *s.* tragoroldeb, tragorolrwydd, rhagoroldeb, goruchelrwydd.

Transcension,† *s.* codiad goruwch peth.

Transcolate, *v. a.* (Ll. *trans* a *colo*) hidlo.

Transcorporate,† *v. n.* myned o'r naill gorff i'r llall.

Transcribbler, *s.* adysgrifenwr, coeg adysgrifwr; llenysbeiliwr.

Transcribe, *v. a.* (Ll. *transcribo*) adysgrifenu, adysgrifo, ail ysgrifenu, ysgrifenu allan.

Transcriber, *s.* adysgrifenwr, adysgrifenydd, adysgrifwr, adysgrifydd.

Transcript, *s.* (Ll. *transcriptum*) adysgrifen, adysgrif, tynysgrifen, tynysgrif, dadysgrif; cyfysgrif.

Transcription, *s.* (Ff.) adysgrifeniad, adysgrifiad, ysgrifeniad allan.

Transcriptively, *ad.* ar wedd adysgrifen; megys adysgrif.

Transcur,† *v. n.* (Ll. *transcurro*) rhedeg yma ac acw, darymred, trawsredeg.

Transcurrence,† *s.* rhediad yma ac acw.

Transcursion, *s.* rhediad *neu* fynediad drosodd; rhediad *neu* fynediad ar draws; trosfyniediad; tragwyriad.

Transduction, *s.* (Ll. *transduco*) traddygiad, troeddygiad, trosglwyddiad, trosiad, trosgludiad.

Transe, *s.* (Ff.)=*Trance*.

Transelementation, *s.* trawselfeniad, trawselfyddiad; trawsylweddiad.

Transept, *s.* (Ll. *trans* a *septum*) croes (adail), croesfa.

Transexion,† *s.* (*trans* a *sexus*) trawsrywiad.

Transfer, *v. a.* (Ll. *transfero*) trosglwyddo, trosi, trosgludo, symmud, traddygyd, dwyn drosodd, dwyn; arallu; trosi hawl; gwerthu.

Transfer, *s.* trosglwydd, trosglwyddiad, trosiad, traddygiad, symmudiad, dygiad drosodd; aralliad.

Transferability, *s.* trosadwyedd.

Transferable, } *a.* trosglwyddadwy, trosadwy;
Transferrible, } à ellir ei drosglwyddo.

Transferee, *s.* yr un y trosglwyddir iddo; trosai, trosglwyddai.

Transference, *s.* trosglwyddiad, trosiad, trosglwyddiaeth, trosglwyddedigaeth, traddygiad, symmudiad.

Transferer, *s.* trosglwyddwr, troswr.

Transferribility, *s.* trosadwyedd.

Transferring, *s.* trosiad, trosglwyddiad, traddygiad.

Transfiguration, *s.* (Ff.; Ll. *transfiguratio*) gweddnewidiad, dullnewidiad, gweddgyfnewid, ffurfnewidiad; ymrithiad.

Transfigure, *v. a.* (Ll. *transfiguro*) gweddnewidio, dullnewidio, newid gwedd.

Transfix, *v. a.* (Ll. *transfixus*) trywanu, gwanu drwyddo, brathu drwyddo, gwanu.

Transfixion, *s.* trywaniad.

Transfluent, *a.* (Ll. *transfluo*) trawslifol, trylifol.

Transforate, *v. a.* (Ll. *transforo*) trydyllu, tyllu.

Transform, *v.* (Ll. *transformo*) gweddnewidio, dullnewidio, dullnewid, ffurfnewidio; newid gwedd, dull, ffurf, llun, *neu* ddrych; troi o'r naill lun i'r llall; ymrithio; lledrithio; trawsffurfio; trawsymffurfio; trawsylweddu; cyfnewidio.

Transformation, *s.* gweddnewidiad, dullnewidiad, ffurfnewidiad; trawsymffurfiad; trawsylweddiad; cyfnewidiad.

Transformative, *a.* gweddnewidiol, dullnewidiol; trawsylweddol.

Transformed, *a.* gweddnewidiog, dullnewidiog; gweddnewidiedig, &c.; meddysg.

Transforming, *a.* gweddnewidiol, dullnewidiol.

Transfreight,† *v. n.* (Ll. *transfreto*) myned dros y môr, mordwyo drosodd.

Transfretation, *s.* (Ll. *trans* a *fretum*) mynediad dros gulfor; trosforiad.

Transfund,† *v. a.* (Ll. *transfundo*) tywallt o'r naill i'r llall.

Transfuse, *v. a.* (Ll. *transfusus*) tywallt o'r naill i'r llall; symmud o'r naill i'r llall; symmud; traws-wallofi.

Transfusible, *a.* à ellir ei dywallt o'r naill i'r llall.

Transfusion, *s.* tywalltiad o'r naill i'r llall; traws-wallofiad.

Transgress, *v.* (Ll. *transgressus*) myned dros; myned y tu hwnt i; myned drosodd; troseddu, camweddu, camfucheddu, camweithredu, gwyro, cyfeiliorni, pechu, meiliorni.
To transgress the bounds—myned dros y terfynau.
To transgress the law—troseddu y gyfraith; tori y gyfraith; gwneuthur anghyfraith.
He often transgresses the bounds of decency—mynych yr â efe dros derfynau gweddusrwydd.

Transgression, *s.* (Ll. *transgressio*) troseddiad; mynediad dros *neu* y tu hwnt i; trosedd, camwedd, anwiredd, camweithred, camfuch-

edd, bai, pechod, cyfeiliornad, meiliornad, meiliorn, efrad.
Transgression of a law—troseddiad cyfraith; toriad cyfraith; anghyfraith.
Transgression of the bounds of virtue—mynediad dros derfynau rhinwedd.
To fall by transgression—cyfeiliorni (*Act.* i. 25).

Transgressional, *a.* troseddol, troseddiadol.

Transgressive, *a.* troseddedigol, troseddol.

Transgressor, *s.* troseddwr, troseddiedydd, camweithredwr, camweddwr.
Thou art become a transgressor of the law—yr wyt ti yn troseddu y gyfraith (*Iago* ii. 11).

Transhipp, *v. a.* (*trans* a *ship*) symmud neu droseglwyddaw o'r naill long i'r llall.

Transhipment, *s.* symmudiad o'r naill long i'r llall.

Transiency, *s.*=*Transientness.*

Transient, *a.* (Ll. *transiens*) yn myned drwodd neu drosodd yn ebrwydd; à llithro yn fuan neu yn ebrwydd; anmharhäus, dibara, dibarhaol, difianol, difianedig, difianus, difflan, difflanol, difflanedig, ffoawl, fföedig, ansefydlog, däiaros, anaroscl; anmherffaith; brysiog; pilus.

Transiently, *ad.* yn ddibara, &c.; wrth fyned heibio; wrth fyned drosodd.

Transientness, *s.* anmharhausrwydd, difianoldeb, difianedigrwydd, &c.

Transilience, } *s.* (Ll. *transiliens*) trawsneidiad;
Transiliency, } neidiad o'r naill beth i'r llall.

Transire, *s.* (Ll.) trwydded, trwyddeb.

Transit, *s.* (Ll. *transitus*) mynediad heibio, mynediad drosodd; trosfynediad; trawsfynediad; gorfynediad; tramwy; tramwyfa, mynedfa; trawsfud; trawdd, trawd, trawf; trosiad, trofiad.
Transit instrument—trofiadyr, offeryn trosfynediad.

Transit, *v. a.* myned dros (wyneb corff wybrenol); trodi, troddi.

Transition, *s.* (Ll. *transitio*) mynediad drosodd o'r naill beth neu le i'r llall; trofiad, trofiant, troddiad, erchwyniad; trofedigaeth, erchwynedigaeth; trosfynediad; cyfnewidiad, cyfnewid, troad, symmudiad.
Transitions of music—trofiadau caniadaeth.
Transition rocks—creigiau trofiannol, creigiau trawf, creigiau trofiant.

Transitional, } *a.* trofiadol, trofiannol, trof-
Transitionary, } iannus, trofus.

Transitive, *a.* trofiannol, trofiannus, trofiadol, trofedigol, trofus, trofawl, trawsfynedigol, erchwynedig, archyfenedig, erchwyniol, symmudedigol.
Transitive verb—perwyddiad trofiannol, &c.

Transitiveness, *s.* trofiannusrwydd, trofiannoldeb, trofusder.

Transitoriness, *s.*=*Transientness.*

Transitory, *a.* (Ll. *transitorius*)=*Transient.*

Translatable, *a.* cyfeithadwy.

Translate, *v. a.* (Ll. *translatus*, o *transfero*) troseglwyddo, trosi; symmud, mudo; mudaw o'r naill le i'r llall; troi; cyfeithu; troi o'r naill iaith i'r llall.
Enoch was translated—symmudwyd Enoch.

Translated, *a.* cyfeithedig, &c.

Translation, *s.* (Ff.; Ll. *translatio*) troseglwyddiad, trosiad; symmudiad, mudiad, symmud; troad; cyfeithad, cyfeithiad; troad o'r naill iaith i'r llall.
Translations—cyfeithadau, cyfeithiau, cyfeithion.
Literal translation—cyfeithiad llythyrenol, cyfeithiad yn ôl y gair, cyfeithiad cacth.

Translatitious, *a.* symmudedigol; trawsgyfnewidedig, trawsddodedig.

Translative, *a.* troseglwyddedigol; cyfeithiadol, cyfeithedig.

Translator, *s.* (Ll.) cyfeithwr, cyfieithydd, trowr, tróydd, neu dröedydd o'r naill iaith i'r llall.

Translatory, *a.* troseglwyddedigol, trosiadol, symmudedigol, traddygol.

Translatress, *s.* cyfeithwraig, cyfieithyddes.

Translocation, *s.* (Ll. *trans* a *locatio*) trawslead, trawslead.

Translucence, } *s.* (Ll. *translucens*) tryloewder,
Translucency, } tryloewedd.

Translucent, } *a.* tryloew, tryddygiaer, trychol,
Translucid, } wychol, dygiaer drwy—gloew, ffloew, yablan.

Translunary,† *a.* (Ll. *trans* a *luna*) y tu hwnt i'r lloer.

Transmarine, *a.* (Ll. *transmarinus*) cyfr—tramorawl, trawsforol, allmyr; o'r tu hwnt i'r mor; tramoredig.
Transmarine things—tramoredigion, pethau morolion, pethau tramor.

Transmeate, *v. a.* (Ll. *transmeo*) myned trwodd, trosfyned.

Transmew,† *v. a.* (Ff. *transmuer*) trawsgyfnewid, trawsgyfnewid, dullnewid.

Transmigrant, *a.* trawsfudol, erchwynol; erchwynol, symmudol.

Transmigrant, *s.* trawsfudwr, mudwr.

Transmigrate, *v. n.* (Ll. *transmigro*) trawsymmud, symmudo, mudo, trawsgyfnewid, symmud trigias, symmud trigfan, newid trigfa; myned drosodd o'r naill i'r llall i drigo; erchywynu, abredu.

Transmigration, *s.* (Ll. *transmigratio*) trawsfudiad, symmudiad, trawsfud, mudiad, trawsgerddedd, trawsgerddediad; symmudiad trigfa; erchywynedigaeth; erchywyniad, abrediad, trawsymmudiad.
Transmigration of souls—trawsmudiad erchywynedigaeth eneidiau, trawsfudiad eneidiau, trawsfud eneidiau.

Transmigrator, *s.* trawsfudwr.

Transmigratory, *a.* trawsfudol, erchywynol, symmudol.

Transmissibility, *s.* trosadwyedd.

Transmissible, *a.* troseglwyddadwy, *trosadwy.*

Transmission, *s.* (Ff.; Ll. *transmissio*) troseglwyddiad, troseglwydd, trawseglwydd, trosdargyweiniad; anfoniad drosodd, o'r naill i'r llall, neu oddi wrth y naill at y llall; hynt, trwodd, bwriad trosodd, tafliad trwodd, taliad trosodd, tryfwriad.

Transmissive, *a.* troseglwyddol, *troseglyddol*; trosedigol; troseglwyddedig.

Transmit, *v. a.* (Ll. *transmitto*) troseglwyddo, trosi, dargywain; anfon drosodd; *anfon* neu ddanfon oddi wrth y naill at y llall; hwyrhau neu dafu drwodd neu drosodd; anfon, danfon, gyru; tryfwrw.
To transmit to memory—rhoi neu fwrw i gof; rhoi mewn coffadwriaeth; rhoi mewn ysgrifen.

Transmittal, *s.*=*Transmission.*

Transmitter, *s.* trosglwyddwr.
Transmittible,† *a.* trosglwyddadwy.
Transmogrification, *s.* dullnewidiad, trawsffurfiad.
Transmogrify, *v. a.* trawsffurfio, dullnewidio.
Transmutability, } *s.* bod yn drawsnewidiad-
Transmutableness, } wy.
Transmutable, *a.* trawsnewidiadwy, cyfnewidiadwy.
Transmutation, *s.* (Ll. *transmutatio*) trawsnewidiad, trawsgyfnewidiad; newidiad o'r naill natur *neu* sylwedd i'r llall; trynewidiad.
Transmutationist, *s.* un â gred yn nhrawsnewidiad metteloedd.
Transmute, *v. a.* (Ll. *transmuto*) trawsnewid, trawsgyfnewid; newid natur *neu* sylwedd peth; newid peth o'r naill natur *neu* sylwedd i'r llall.
Transmuter, *s.* trawsnewidiwr.
Transmutual, *a.* trawsgyfnewidiol; perthynol i'r ddwy blaid.
Transnatation,† *s.* (Ll. *transnato*) nofiad trosodd, trawsnofiad.
Transom, *s.* (Ll. *transenna*) trawslath, croeslath, croesdrawst.
Transom window—ffenestr groeslathog.
Transparence, } *s.* tryloewder, tryloewedd, try-
Transparency, } loewdeb, tryloewdra, tryleinder; gloewder, ysblander.
Transparent, *a.* (Ff.; Ll. *trans* a *spareo*) tryloew; gloew, ffloew, trylain, glain, ysblan, têr.
Transparentness, *s.* tryloewder.
Transpass,† *v.* (*trans* a *pass*) myned drosodd *neu* heibio; croesi.
Transpassable,† *a.* à ellir myned drosto; croesadwy.
Transpicuous, *a.* (Ll. *trans* a *specio*) tryloew.
Transpierce, *v. a.* (Ff. *transpercer*) trywanu; treiddio; myned drwy.
Transpirable, *a.* trydarthadwy.
Transpiration, *s.* (Ff.) anadliad trwodd, tarthiad trwodd, trydarthiad, dynoddiant; tarthiad *neu* anadliad trwy y croen.
Transpire, *v.* (Ll. *transpiro*) trydarthu, dynoddi, anadlu trwodd, tarthu trwodd; dïanc allan (megys gyda'r chwyth a'r anadl); dyfod *neu* fyned allan nas gwyddys pa fodd; dyfod *neu* fyned allan yn lladradaidd *neu* yn ddirgeldd ystaw; llithro allan; dïanc ar led; dyfod i glyw; myned o'r mynawyd drwy y cwd; dygwydd, dygwyddo, damweinio.
Transplace, *v. a.* (*trans* a *place*) symmud o'r naill le i le arall; newid lle; trawsgyflëu, trawslehau; rhoi y naill beth yn lle y llall.
Transplant, *v. a.* (Ff. *transplanter; trans* a *plant*) trawsblanu, trosblanu, symmud (plantigion), adblanu, mudblanu; symmud, mudo.
Transplantation, *s.* trawsblaniad; adblaniad, adblan; symmudiad.
Transplanter, *s.* trawsblanwr, adblanwr, trawsblanydd.
Transplanting, *s.* trawsblaniad, &c.
Transplendency, *s.* gorddysgleirdeb, gorysblander.
Transplendent, *a.* gorddysglaer, tryddysglaer, gorysblenydd.
Transport, *v. a.* (Ll. *transporto*) trosglwyddo, trosi, trosgludo, trawsgludo, dargludo; alltudo, alltudio, deol, alltrodio, allwladu, aethwladu; symmud; peri mewn llewyg *neu* lesmair (gàn lawenydd); peri llewygu *neu* lesmeirio (gàn lawenydd); llanw â llesmair; lloniasu, perfasu, gorlloni; tafiu i berlewyg *neu* wyniasedd.
To transport a felon—alltudio drwg weithredwr.
To transport with joy—peri mewn llewyg gàn lawenydd; peri llewygu *neu* lesmeirio gàn lawenydd *neu* orfoledd; lloniasu.
To transport with anger—peri yn wyniasgàn ddigofaint; gwyniasu *neu* ryferthwyo gàn ddigofaint.
Transported with joy=*Ecstasied.*
Transported with anger—yn gwyniasu, yn poethi, ar dân, *neu* yn waened gàn ddigofaint.
Transport, *s.* trosglwydd, trawsglwydd, trosglwyddiad, trosiad, trosglud; llong drosglwydd, (*pl.* llongau trosglwydd), trosgludlong, cludlong, cludlestr, trosgludai; gorawen, perlewyg, llon lesmair, perfas, hyfrydias, llonias, gorllonder, gwynias; gwylltias; lleidr deol, deolyn, (*pl.* deolion, deoliaid), deol-ddyn, drygddyn alltud, cyflafanog deol, alltud, alltrawd.
Transport ship—llong drosglwydd, &c.
Transportability, *s.* bod yn drosglwyddadwy.
Transportable, *a.* trosglwyddadwy; alltudadwy, alltudiadwy.
Transportance,† *s.* trosglwydd, trosglwyddiad.
Transportation, *s.* trosglwyddiad, trosgludiad, trawsgludiad, trawsglwyddiad, dargludiad, trawsddwyn, trawsddygiad, trosiad; symmudiad; alltudiad, deoliad, allwladiad, aethwladiad; alltudaeth, alltudiaeth, alltrodiaeth.
Transportedness, *s.* perlewygoldeb, lloniasedd.
Transporter, *s.* trosglwyddwr.
Transporting, *a.* perlewygol, perlesmeiriol, gorawenus, gwyniasol.
A transporting passion—gwŷn angerddol.
Transportment, *s.* trosglwyddiad, trosgludiad, trawsgludiad, &c.
Transposal, *s.* (o *transpose*) trawsddodiad, trawsgyflead.
Transpose, *v. a.* (Ff. *transposer; Ll. trans* a *pono*) trawsddodi, trawsgyflëu, trawsosod, trawsosodi; gosod y naill yn lle y llall; newid lleoedd *neu* drefn pethau.
Transposition, *s.* trawsddodiad, trawsddodiant, trawsgyflead; trawsnewidiad; gosodiad y naill yn lle y llall; newidiad lleoedd *neu* drefn pethau; trawssymudiad.
Transpositional, *a.* trawsddodiadol.
Transpositive, *a.* trawsddodiadol, trawsgyfleadol, trawsgyfleol.
Transprint, *v. a.* camargraffu; trawsddodi, trawsgyflëu, trawssymmud.
Transprose,† *v. a.* troi ar fesur cerdd; troi o ryddiaith i fydriaith.
Transshape,† *v. a.* trawsffurfio.
Trans-ship, *v. a.*=*Tranship.*
Transubstantiate, *v. a.* (Ff. *transubstantier; trans* a *substance*) trawssylweddu; trawselfenu, trawselfyddu, newid sylwedd peth.
Transubstantiation, *s.* trawssylweddiad; trawselfyddiad, trawselfeniad.
Transubstantiator, *s.* trawssylweddwr.
Transudation, *s.* trychwysiad, chwysiad trwodd, lluchwysiad, trynawsiad.
Transudatory, *a.* trychwysol.
Transude, *v. n.* (Ll. *trans* a *sudo*) trychwysu; chwysu trwodd, trynawsio; sïo allan yn lluchwys.

Transume, *v. a.* (Ll. *transumo*) cymmeryd oddi wrth y naill at y llall; cymmeryd o'r naill i'r llall; adysgrifenu.

Transumpt,† *s.* adysgrifen.

Transumption, *s.* (Ll. *transumptio*) cymmeriad o'r naill le i'r llall; cymmeriad oddi wrth y naill at y llall; trosgymmeriad, trawsgymmeriad.

Transumptive, *a.* trosgymmerol.

Transvection, *s.* (Ll. *transvectio*) trosglwyddiad, dygiad drosodd, traddygiad.

Transversal, *a.* (Ff.; Ll. *trans* a *versus*) à fo ar draws neu ar groes; croes, traws.

Transversal, *s.* troeslin, trawslin, trawslinell.

Transverse, *a.* (Ll. *transversus*) traws, croes; croesymgroes.

Transverse, *s.* peth croes, peth traws; gwerthyd groes.

Transverse, *v. a.* dymchwelyd.

Transversely, *ad.* ar draws, ar groes; yn groes.

Transvolation,† *s.* (Ll. *transvolo*) hediad trosodd, ehediad tu hwnt.

Tranter, *s.* cariwr; gwerthwr pysgod, pysgwerthwr.

Trap, *s.* (S. *trapp, trepp*) carfagl, telm, magl, tagfagl, yslepau, byddagl, byddag; gwanas; cynllwyn; tramgwydd; methl.

Mouse trap—telm lygod, cath lygod.

Trap, *s.* (Sw. *trappa;* D. *trappe*) grisgraig= math ar bilergraig.

Trap-rocks—grisgreigiau.

Trap, *v.* maglu, carfaglu, telmu, byddaglu; rhwydo; methlu; dàl mewn magl, &c.; gosod carfaglau; addurno.

To trap a horse—addurno march, trwsio march; gwisgo march â'i addurn; rhoi seirch am farch.

Trapan, *v. a.* (S. *treppan*) maglu, rhwydo, carfaglu, byddaglu; methlu; llithio, twyllo.

Trapan, *s.* magl, telm, byddagl; dichell.

Trapanner, *s.* maglwr, rhwydwr.

Trap-door, *s.* brad-ddrws, cibglawr, drws codi, brad-ddor.

Trape, *v. n.* cerdded yn anghryno neu yn annyben; cerdded dàn lusgo ei llodrau; cerdded â'i dillad yn annhaclus.

Trapes, *s.* yslebren, llaesen, dwgan, dïogen, swgan, budrog, torlla.

Trapeze, *s.*=*Trapezium.*

Trapezian, *a.* anghyfochrasaidd.

Trapeziform, *a.* ar lun anghyfochras.

Trapezium, *s.* (Ll.; Gr. *trapezion*) anghyfochras, corff pedrongl anghyfochrog.

Trapezoid, *s.* (Gr. *trapezion* ac *eidos*) gogyfochras.

Trapezoidal, *a.* ar lun gogyfochras.

Trappean, *a.* (o *trap*) grisgreigaidd; grisgreigiol; grisgreigiog.

Trappings, *s. pl.* addurn meirch, seirch; addurnau, addurniadau; gwisg.

Trap-pit, *s.* bradbwll.

Trappous, *a.* (o *trap*) grisgreigiol; grisgreigaidd; grisgreigiog.

Traps, *s. pl.* addurn; nwyddau, moddion, dodrefn; cêr.

Trap-stick, *s.* pren chwareu yslepan; coes fain.

Trap-tufa, **Trap-tuff**, } *s.* gris-dywodfaen.

Trash, *s.* (S. *dros;* Al. *drusen*) sothach; ffwlbri; ysbwrial; sorod, swrwd, rhytion, llwrwg, swtrach; mwnws; gwehilion, gohilion; swpws; baw-beth; gwaelbeth; bawai; rhwystr, lludd; ffril.

Trash, *v.* ysgythru, tocio; diddisilio; gwasgu, cywarsangu; rhwystro, atal; io; canlyn gàn dreisio a mathru.

Trashy, *a.* ffwlbriaidd; sothachlyd; gorwael, bawlyd, bawaidd.

Traulism,† *s.* (Ll. *traulus*) attal dywedyd.

Traumate, *s.* (o'r Gr. *thradsma*) llwrdwm.

Traumatic, *a.* (Gr. *trauma*) perthyn i chollion; da i wella clwyfau neu archiachaol.

Traumatic, *s.* cyffyr à wellhao clwyfau archollion.

Travail, *v. n.* (Ff. *travailler*) bod yn nwyn esgor; bod yn ngloesion esgor; bod yn gwewyr; clefychu; bod mewn llafur.

Travail,† *v. a.* blino, poeni.

Travail, *s.* gwewyr esgor, gwewyr; aeth, esgorfa, esgor; trafael, poen, l

Trave, } *s.* (Ysp. *traba*) pedolfa, ystran

Travis, } attegwydd pedoli; trawst, a

Travel, *v.* (Ff. *travailler*) teithio, ymdaith, trafaelio, trafaelu; cerdded llawer; hyntio; tramwy; pe

To travel with some one—cydymdaith gydymdeithio â rhyw un; gydag un; myned gydag un.

To travel on foot — teithio ar cerdded; pedestru.

Travel, *s.* taith; ymdaith, gorymdaith, tramwy; siwrnai.

Travelled, *a.* teithiog.

Traveller, *s.* teithiwr, teithydd; ymdeithydd, ymdeithiedydd; trafaelwr, tramwywr, cerddwr, f

A traveller into foreign countries— neu ymdeithiwr i'r gwledydd pell enig, dyeithr, neu dramor; pere

Foot-traveller—pedestr, pedestrydd estr, teithiwr ar draed, cerddwr; estres, peddestres.

Old men and travellers may lie by ity — hen-oed a hir-daith a gw unwaith.

Travellers' Joy, *s.* cudd y coed, barf hen, dringiedydd.

Travelling, *a.* teithiol, ymdeithiol.

Travelling expenses — traul taith teithio, traul y ffordd, treulion

To be travelling — bod yn teithio bod ar daith neu ymdaith.

Whither are you travelling?—i ba l ewch? i ba le yr ych yn myned? mae eich taith?

Travelling companion—cyd-deithiwr, ymdeithiwr, cydymdaith, cyfaill ar daith.

Weary with travelling — *blin, diffy* neu luddedig gàn daith.

Traversable, *a.* tramwyadwy, croesadwy.

Traverse,† *ad.* (Ff.) ar groes, ar draws.

Traverse, *ad.* ar groes, ar draws.

Traverse, *prep.* ar groes, ar draws, trwy.

Traverse, *a.* (Ff.) traws, croes; croesymgroes.

Traverse, *s.* peth croes, peth traws; trawsineb; rhagiad cwyn neu hawl; dro, croesdro, tro, cast; hwyl draws traws; mynediad yn ol ac *yn mlaen dro* lettraws; trosiad a lled-drosiad.

Traverses of fortune—anffodau, croesau; cyfnewidiadau a dam

y bywyd hwn; troion a gwrthdroion bywyd dyn.
To sail by traverse—hwylio dàn groesi a gwthgroesi; hwylio drwy groesi a gwrthgroesi.

Traverse, *v.* croesi, trawsu; tramwy, tramwyo; gwibio *neu* grwydro dros *neu* drwy; myned drwy; crwydro ar hyd; crwydro, gwibio; trawsymdeithio, trawsdeithio; myned *neu* hwylio hwnt ac yma draws lettraws; trawshwylio; hwntian, trawsfyned; troi; gwrthgroesi; rhagial, rhagu; troi a chyfeirio; canwyro gyda llinon pren.
To traverse (in law) — rhagu, rhagial; gwadu.
To traverse an indictment—rhagu cwyn, rhagial cwyn.
To traverse (in going *or* sailing)—myned *neu* hwylio hwnt ac yma draws lettraws; trawsfyned, hwntian; myned draws lettraws; myned o ochr i ochr *neu* o ystlys i ystlys; myned dàn ledgroesi; trawshwylio; hwylio dàn ledgroesi; hwylio dàn groesi a gwrthgroesi; trosi a lleddrosi.
To traverse a place—gwibio *neu* grwydro dros *neu* drwy le; myned dàn wibio *neu* grwydro dros *neu* drwy le; gwibio *neu* grwydro lle drosto; myned, ymdaith, tramwy, *neu* basio drwy le; cerdded ar groes *neu* ar draws lle; myned dros le.
To traverse a person's designs—croesi *neu* wrthwynebu amcanion un.

Traverser, *s.* rhagwr cwyn.

Traverse-road, *s.* croesffordd, trawsffordd.

Traverse-table, *s.* tafien trawshwyliad, tafien trawshwylio.

Travesty, *a.* (*Ff. travestir*) dyeithredig; lledrithiog, dàn orchudd; mewn dyeithr-wisg, mewn gwisg ysgentyn; wedi ei droi yn watwar; wedi ei wneuthur yn watwargerdd.

Travesty, *s.* gwawdgan, gwawdgerdd, gwatwargerdd, digrifeg, gogerdd, ysmalgan, lledrithgan; digrifaith.
Virgil travesty — Vyrsil ysgentyn, Virgil ysgentyn; Vyrsil yn ngwisg ysgentyn.

Travesty, *v. a.* troi yn wawd *neu* ddifyrwch; troi yn wawdgan *neu* ddigrifaith; cyfleithu

Travis, *s.* = *Trave.* [i ddigrifaith.

Trawl, *v. n.* pysgota â llusgrwyd.

Trawler, *s.* llestr pysgota â llusgrwyd; pysgotwr â llusgrwyd.

Trawling, *s.* llusgo rhwyd am bysgod; pysgota â llusgrwyd.

Tray, *s.* (Sw. *trag;* S. *trog*) noe; ceulor, ciler; mail; bwydiar; heilyr, heilyn.
Milk tray—ceulor.
Butter tray—ciler.

Tray, *s.* gwylgi.

Tray-trip, *s.* hen chwareu ar gardiau.

Treacher, **Treachetour**, **Treachour**, † *s.* (*Ff. tricheur*) bradwr, bradychwr, bradychydd.

Treacherous, *a.* (o *treacher*) bradog, bradwrus, bradychus, bradwraidd, bradus, bradgar, bradychaidd, darfradus; anffyddlawn.
To deal treacherously — bradu; anffyddloni; ymddwyn yn fradog, &c.
Very treacherously—yn dra bradwrus; o'r fath anffyddlonaf.

Treacherousness, *s.* bradwrusrwydd, bradogrwydd, bradgarwch, bradoldeb.

Treachery, *s.* (*Ff. tricherie*) bradwriaeth, brad, bredych, bradwch, darfrad; anffyddlondeb.

Treacle, *s.* (*Ff. theriaque; Ll. theriaca;* Gr. *thêriacé*) triagl.

Treacle-mustard, *s.* triagl-arfog.

Tread, *v.* (S. *trædan*) sengu, sangu, sathru, mathru, damsang, mysangu, maesyng, arsangu, arsathru, dansial, dansang, damsathru; cerdded, myned; troedio; rhoi ar lawr; rhoi sang ar lawr; coewyo, ceiliogi.
To tread (as fowls)—coewyo, sathru, ceiliogi.
To tread along — cerdded, rhodio; rhoi camrau; myned o hyd; myned yn mlaen.
To tread lightly—cerdded yn ysgafndroed *neu* yn droedysgafn; cerdded ar flaen traed; cerdded ar flaen bysedd traed; cerdded ar flaenion traed; cerdded ar flaenion bysedd traed; cerdded yn ysgafn, &c.
To tread gingerly† = *To tread lightly.*
To tread out— damsang allan, dansial allan.
To tread awry—sengu ar gam; camsengu; sengu ar naill ochr; seilgamu.
To tread on another's heels—sengu ar sodlau un; dansial *neu* ddamsang sodlau un.
Tread on a worm, and it will turn—sang ar amwydyn, ac efe a winga.

Tread, *s.* sang, sathr, mathr; sangiad, sengiad; cam *neu* droed ar lawr; trawd; camre; sangfa; llwybr, ffordd, ol; cerddediad; cocwyad, rhith, gorllydd.

Treader, *s.* sangwr, sengwr, sathrwr, mathrwr, &c.

Treading, *s.* sangiad, sangad, sengiad, sathriad, mathriad, sangawd, sathrawd; sang, damsang, sathr; sangedigaeth.
Treading place—sathrfa, sangfa.

Treadle, **Treddle**, *s.* (o *tread*) troedlath, troedlas; rhith wy, gorllydd wy.

Tread-mill, *s.* melin arsang, melin sang, sangfelin.

Tread-wheel, *s.* olwyn arsang, rhod arsang, &c.

Treague, *s.* (It. *tregua;* Goth. *triggwa*) cadymbaid, byr gynghrair.

Treason, *s.* (*Ff. trahison*) brad, bradwriaeth, bredych, cydfradwriaeth.
High treason — teyrnfradwriaeth, teyrnfrad, uchelfradwriaeth, uchelfrad, carnfradwriaeth; brad yn erbyn brenin *neu* frenines.
Petit treason—iselfrad, lledfrad.

Treasonable, *a.* bradwriaethol, bradol, bradus, bradwrus, bradaidd; teyrnfradol.

Treasonableness, *s.* bradoldeb, bradwrusrwydd.

Treasonally, *ad.* yn fradwriaethol, &c.; fel bradwr.

Treasonous,† *a.* = *Treasonable.*

Treasure, *s.* (*Ff. tresor; Ll. thesaurus*) trysor; swllt; eurgrawn; amguedd; rheufedd, anlloedd, cyfoeth, golud.
Golden treasure—eurgrawn, eurged.

Treasure, *v. a.* trysori; croni; alafu.
To treasure up—trysori.

Treasure-house, *s.* trysordy, syllty.

Treasurer, *s.* trysorwr, trysorydd.
Lord treasurer—arglwydd drysorydd, penceidwad y syllty.
Lord chief treasurer—yr arglwydd uchel drysorydd, yr arglwydd ben-trysorwr.

Treasurership, *s.* trysoryddiaeth, swydd trysorwr.

Treasuress, *s.* trysorwraig, trysoryddes.
Treasure-trove, *s.* (*Ff. trouvé*) trysor â gaed yn y ddaiar, &c.; trysor cael.
Treasury, *s.* trysorfa; trysordy; trysorgell; trysorlys; syllŷty.
First lord of the treasury—prif arglwydd y drysorfa; prif arglwydd y drysorgell.
Treat, *v.* (*Ff. traiter*) trin, trinio, ymdrin â; trafod; ymddwyn tuag at; traethu, traethu ar, treithio; ymddyddan; cylafareddu; cytuno, cyfammodi; rhoi gwledd i; gwledda; digestio, dwyn traul; arfolli, croesawu; anrhegu, cymmediwo.
To treat one well—bod yn dda wrth un; trin un yn dda.
To treat one—rhoi gwledd, rhydd-wledd, *neu* rad-wledd i un; dwyn traul un; digestio un; talu cost un; talu y cyfrif dros un; gildio dros un; dwyn un yn ddigost *neu* yn ddidraul; rhoi ammeuthyn i; anrhegu un, cymmediwo un.
To treat with—cylafareddu â, cyflafareddu â, cynnadlu â; ymddyddan â.
To treat of, } traethu, rhesymu, lle-
To treat about, } aru, chwedleua, cynnadlu, *neu* gynnadla yn nghylch; traethu ar, ymdrin â.
Treat, *s.* gwledd, arfoll, arfolliad, croesaw; gwledd rydd, rodd, *neu* ddigost; rhyddwledd, rhad-wledd; gwledd ddanteithiol; ammeuthyn, ammoethyn; gwestrodd; anrheg, cymmediw.
Treatable,† *a.* cymmedrol.
Treater, *s.* trinwr, triniwr, triniedydd, &c.
Treating, *s.* triniad, triniaeth, &c.
Treatise, *s.* (*Ll. tractatus*) traethawd, treithawd, traith.
Treatiser,† *s.* ysgrifenwr traethawd.
Treatment, *s.* triniaeth, triniad, triniedigaeth; arfolliad, croesawiad; arfer, defod.
Treaty, *s.* (*Ff. traité*) cyflafaredd, cylafaredd, cynnadl, cynnadledd; cytundeb, cyfammod, ammod, cynghrair; †ymbil.
Treaties—cytundebau, cyfammodau.
To enter into a treaty, } myned mewn
To commence a treaty, } cylafaredd; dechreu *neu* gychwyn cylafaredd; myned mewn cynnadl; dechreu cynnadl.
Treble, *a.* (*Ff. triple; Ll. triplex*) triphlyg, tri dyblyg.
Treble, *s.* meinllais, y llais main, uchalaw.
Treble-string—cildant: *pl.* cildannau.
Treble, *v.* triphlygu; gwneyd yn driphlyg; myned yn driphlyg.
Treble-cross-staff, *s.* croesffon driphlyg.
Trebleness, *s.* triphlygedd, triphlygrwydd.
Treblet, } *s.* chwibrolen.
Triblet, }
Trebuchet, *s.* (*Ff.*) lluchermig.
Trebucket, } *s.* trochgader, cader drochi, ystôl
Trebuchet, } drochi.
Treckschuyt, *s.* (*Is.*) badgorthöedig (ar gamlasau Holand).
Treddles, *s. pl.* caglau defaid, cagl defaid, tom defaid; caglau ysgyfarnogod, cagl ysgyfarnog.
Tree, *s.* (*S. treo, treow; D. træ; S. trä*) pren; coeden, gwydden: *pl.* prenau, preniau, coed, gwŷdd.
A little tree—prenyn, pren bychan.
A planted tree—pren plan, pren planedig: *pl.* coed plan, planwydd.
A wild tree—pren gwyllt, pren anmhlan.
A dwarf tree—corbren.
Young trees — irgoed, irwydd, glasgoed, coed ieuainc, coed gleision: *sing.* irlas, glas.
Green trees — glasgoed, irgoed, irwydd, glaswydd, coed gleision, coed irion.
Trees in foliage—deilwydd, coed dail, deilgoed.
The tree of a saddle—pren cyfrwy, pren ystarn.
The tree of a cross-bow—palmdar arfog.
Nursery for trees — cymhlanfa, planfa, planfa goed, gwinllan goed.
Tree, *v. a.* gyru i ben pren *neu* goeden.
Tree-ferns, *s. pl.* coedredyn.
Tree-frog, } *s.* llyffant coed, llyffant dringo,
Tree-toad, } coed-lyffant.
Tree-germander, *s.* derlys y goedwig, chwerwlys y twyn, chwerwlys yr eithin, llwyd yr eithin, ceidwad wyllt, triagl y Cymro.
Treeless, *a.* digoed, anghoedog, heb goed.
Tree-louse, *s.* gwrach y coed.
Tree-mallow, *s.* hocyswydden, marhocys: *pl.* hocyswydd.
Sea tree-mallow—hocyswydden, marhocysen, hocysen y môr.
Tree-moss, *s.* barfau y derw, rhedegog y derw, coden y coed.
Treen,† *a.* (o *tree*) o goed, o bren.
Treen,† *s. pl.* coed, prenau.
Treenails, } *s. pl.* (*tree* a *nails*) coedhoelion;
Trenails, } hoelion coed; coedhoelion hirion;
Trunels, } coedhoelion llongau; pinbrenni;
Trannels, } *sing.* coedhoelen, coedhoel.
Tree-of-life, *s.* pren y bywyd.
Trefallow, *v. a.* = *Trifallow.*
Treflée, *a.* (*Ff.*) meillionog, meilliog.
Cross treflée—croes feilliog.
Trefoil, *s.* (*Ff. trêfle; Ll. trifolium*) meillionen; meillionen deirdalen, meillionen dair ddalen, meillionen teirdalen: *pl.* meillion, meillion tair ddail.
Bird's-foot trefoil (*trifolium ornithopodioides*)—corfeillionen wèn.
Bird's-foot trefoil (*lotus*)—pysen y ceirw.
Gibbons bird's-foot trefoil—pysen y ceirw grythog.
Hairy bird's-foot trefoil—pysen y ceirw flewog.
White trefoil, } millfeillionen, meillionen
Dutch trefoil, } Olwen, meillionen wèn; meillionen wèn y waen; maill gwynion, maill gwynion; meillion gwynion, meillion feillion, meillion rhedegog.
Subterraneous trefoil — meillionen wen, ymgudd.
Common purple trefoil, } marchfeillion;
Honeysuckle trefoil, } meillionen gooch.
Zigzag trefoil—meillionen wyrgam.
Hare's-foot trefoil — meillionen gedenog, troed yr ysgyfarnog.
Soft knotted trefoil—meillionen rychog.
Suffocated trefoil—meillionen fygedig.
Strawberry-headed trefoil — meillionen fefusaidd.
Hop trefoil—meillionen hopysaidd.
Yellow trefoil—meillionen felen.
Lesser yellow trefoil — meillionen felen fechan, gwe felen.
Slender yellow trefoil — meillionen felen eiddil.

Spanish trefoil—meillionen gorniog, meillionen Yspaen.
White-flowered meadow trefoil—meillion gwynion, maill gwŷn, meillion Olwen.
Red trefoil—meillion cochion.
Marsh trefoil—meillion y gors, ffa y gors.
Cultivated trefoil—marchfeillion.
Bean trefoil—euron, pyswydden.
Stinking bean trefoil—drewgoed, y ddrewgoed.

'reillage, *s.* (Ff.) delltwaith i ddâl coed gweinion; attegrail, dalbolion, rheilbolion.

'reille, } *s.* (Ff.) dellt (yn arfau bonedd).
'rillise, }

'rellis, *s.* (Ff.) delltwaith, rheilwaith, cledrwaith, gwaith dellt, pared gwiail; coed-attegion.

'rellis, *v. a.* attegu â delltwaith.

'rellised, *a.* delltog.

'remble, *v. n.* (Ff. *trembler;* Ll. *tremo*) crynu, dychrynu, ergrynu, ergrydu, crydu, crydio, echrynu, argrynu, echrysu; cysgogi, dysgogi; gwegian.

'remblement, *s.* crŷn, ffryn.

'rembler, *s.* crynwr, crynydd, dychrynwr.

'rembling, *s.* cryniad, &c.; cryndod, crŷn, ergryn, ergryd, dychryn, ysgryn, ysgryd; tysmwy; creth, achreth; rhyni, rhyn.

Trembling poplar—aethnen, crydaethnen, aethwydden.

Tremella, *s.* (Ll. *tremulus*) hygrynydd=math o ffwng.

Tremendous, *a.* (Ll. *tremendus*) dychrynllyd, ofnadwy, arswydus, echrydus, erchyll, echryslawn, echrys, irad, girad, anaele, cethin.

Tremendousness, *s.* dychrynllydrwydd, echrydusrwydd, erchylldod.

Tremolite, *s.* delidfaen Tremola (yn yr Alpau).

Tremor, *s* (Ll.) cryndod, crynfa, dychryn, ysgryn, ysgryd, asgri, echryn, echryd, ergryd.

Tremulous, *a.* (Ll. *tremulus*) hygryn, crŷn, crynol, echrynol, crynachol, crydus, crydiol, crydiog, rhynaig, rhyn, ysgrynol; yn crynu, &c.; crynedig.

Tremulousness, *s.* hygrynedd, hygrynrwydd; cryndod, crydusrwydd, &c.

Tren, *s.* tryfer pysg.

Trench, *v.* (Ff. *trancher*) cloddio, ffosi, rhychu, rhigoli, rhillio; gwneuthur ffos *neu* glawdd; amgloddio.

Trenched on *or* about—amgloddiedig, amglawdd; amgylchedig â chlawdd *neu* ffos.

To trench in *or* upon—cyfyngu, gwasgu, pwyso, *neu* ormesu ar.

Trench, *s.* ffos, clawdd, ffoesglawdd, camlas, rhigol, rhych, gwyth, rhewyn.

Sea-trench—pil, morgamlas.

Trenchant, } *a.* (Ff. *tranchant*) llym, miniog,
Trenchand, } pigoglym, pica.

Trencher, *s.* (Ff. *tranchior*) dysgl bren, plad pren, pren-ddysgl; dysgl; y bwrdd; ymborth.

Trencher-cap, *s.* cap ysgwâr *neu* bedronglog=y fath â wisgir gân golegwyr Rhydychain, Caergrawnt, Llanbedr, &c.

Trencher-fly, *s.* bolerwr, truth folerwr; gwenieithwr, truthan.

Trencher-friend, *s.* bolerwr, bolerai, bolgarwr; Ieuan lygad y bwyd; truth-ymlynwr.

Trencher-man, *s.* dyn bwytëig, bwytäwr diwala, glwth, bolrythwr, bolgi; †cogydd.

Trencher-mate, *s.* cydfwytäwr; gwenieithwr, truthan.

Trenching, *s.* ffosiad, cloddiad, &c.

Trend, *v.* (cyfathrach i *trundel*, neu *rust*) rhedeg; ymestyn; estyn; gogwyddo, tueddu; glanhau gwlan.

Trend, *s.* gogwydd, tuedd; rhediad; ymestyniad.

Trend, *s.* trifed angor, traian paladr angor.

Trender, *s.* glanhäwr gwlan.

Trending, *s.* gogwyddiad, tueddiad; rhediad; ymestyniad; tuedd, gogwydd; glanhâd gwlan.

Trendle, *s.* (S.; Sw. *trind*) paladr; troell, troellen.

Trental, *s.* } (Ff. *trente;* It. *trenta;* Ll.
Trentals, *s. pl.* } *triginta*) deg gwasanaeth *neu* offeren ar ugain dros y meirw (yn Eglwys Rhufain); tridegolion.

Trepan, *s.* (Ff.; It. *trapano*) cylchlif llawfeddyg, llifebill, taredryn.

Trepan, *v. a.* cylchlifio, taredrynu.

Trepan, *s.*=*Trapan, s.*

Trepan, *v. a.*=*Trapan, v. a.*

Trepang, }
Tripang, } *s.* morfalwen, malwoden y môr.

Trepanner, *s.*=*Trapanner.*

Trepanning, *s.* tylliad asgwrn y pen, tylliad y greuan.

Trephine, *s.* (o *trepan*) iadlif llawfeddyg; llifebill.

Trephine, *v. a.* iadlifio; llifio yr iad *neu* y greuan.

Trepid,† *a.* (Ll. *trepidus*) hygryn, crŷn, crynedig, crydus.

Trepidation, *s.* (Ll. *trepidatio*) cryndod, crynfa, crydfa, ergrynawd, gwesgryn, ergryd, echryn, echryd; dychryndod, dychryn, argyswrw; mantoliad; brys, ffwndwr.

Trespass, *v. n.* (Norm. *trespasser*) troseddu; camweithredu, camweddu, gwneuthur camwedd; pechu; gorddwyo, gormesu, gwasgu.

To trespass against—troseddu yn erbyn, &c.

To trespass upon — pwyso, gwasgu, gormesu, gormeilio, goreilidio, gormeddu, cyfyngu, *neu* ddywasgu ar; rhuthro, ymwthio, ymlithro, *neu* ymlusgo i mewn i gyffiniau un arall, &c.; myned *neu* ruthro i dir *neu* dyddyn un yn anghyfarch; tori i dir un; peri llwgr i un.

To trespass upon one's patience—gwasgu ar amynedd un; gormesu *neu* droseddu ar amynedd un.

As we forgive them that trespass against us—fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr.

Trespass, *s.* trosedd; camwedd, pechod; gorddwy, gormes, goreilid; trais ar feddiant un arall; mynediad yn anghyfarch i dir un arall; sarhad, sarhâed; llwgr, niwed, eniwed, colled.

An action of trespass—cwyn sarhad.

He shall pay for the trespass committed—efe a dâl am y llwgr â wnaed.

Trespasser, *s.* troseddwr; camweddwr; gorddwywr.

Trespass-offering, *s.* offrwm dros gamwedd.

Tress, *s.* (Sw.; Ff. *tresse*) cudyn o wallt, caing o wallt, cudyn modrwyog, modrwy o wallt, llofn, llofyn, cudyn, cudynau pleth.

Plaited tresses—pleth-gudynau, pleth-geingiau, cudynau pleth.

Having golden tresses—eur-gudynog, eurwallt, eurwalltog.

Tressed, *a.* cudynog, llofynog; crych.

Tressel, Trestle, Trussel, } *s.* (C. *trestl;* Ff. *trêteau*) trestl; atteg bwrdd.

Tressure, *s.* (Ff. *tressur*) ffasgudyn (yn arfau bonedd).

Tressured, *a.* ffasgudynog.

Tret, *s.* (o'r Ll. *tritus*, meddylir) traul; cynnwysgoll; coll.

Trethings,† *s. pl.* (C. *treth*) trethi.

Trevet, *s.* (=*three-feet, tripod;* S. *thriefet*) trybedd, trybed, tribed, amdan.

Trey, *s.* (Ll. *tres;* Ff. *trois*) tri (ar y disiau).

Triable, *a.* (o *try*) profadwy, hybrawf; holadwy.

Triableness, *s.* hybrofedd.

Triacontahedral, *a.* (Gr. *tridconta* a *hedra*) tridegochr, tridegochrog; âg iddo ddeg ochr ar ugain.

Triaconter, *s* (Gr. *triacontêrês*) trideg-rwyfan, llong drideg rhwyf.

Triad, *s.* (Gr. a Ll. *trias*) triad, triant, triawd, tri: *pl.* trioedd.

Triads of the Welsh Bards—Trioedd Beirdd Ynys Prydain.

Trial, *s.* (o *try*) prawf, praw; profiad; profedigaeth; hawl, holiad, holedigaeth; cynghawsa.

A trial before hand—rhagbrawf; ergyd prawf.

The day of trial—dydd hawl, dydd dosbarth; dydd coll neu gaffael; dydd prawf.

Trial of one's skill—ymbrawf, ymbrofiad.

To put to the trial—rhoi *neu* fwrw ar brawf; rhoi yn mbrawf; dwyn i'w brofi; dwyn i'r prawf; profi.

To make a trial of a thing—profi peth.

Triality, *s.* (o'r Ll. *trias, tres*) trioldeb; triawd.

Trialogue, *s.* (Gr. *treis* a *logos*) ymddyddan rhwng tri; ymson rhwng tri; trison.

Triander, *s.* (Gr. *treis* ac *anêr*) trigwryw, planigyn trigwryw.

Triandria, *s.* Trigwryw=y drydedd genedl o blanigion yn nghyfundrefn Linnæus.

Triandrian, Triandrous, } *a.* trigwryw, trigwrywaidd.

Triangle, *s.* (Ff.; Ll. *triangulum*) tryfal, triongl, teirongl.

Equilateral triangle—tryfal cyfochrog, tryfal cyfochr, triongl cyfochrog.

Right-angled triangle—tryfal cyfonglog, tryfal cywironglog, tryfal cynglon.

Spherical triangle—tryfal gwyrgrwm, tryfal cynghrwn.

Isosceles triangle, Equicrural triangle, } tryfal deugyfochrog, tryfal deugyfochr.

Scalene triangle, Scalenous triangle, } tryfal anghyfochrog.

Oblique-angular triangle—tryfal lleddf.

Obtuse-angled triangle, Amblygonous triangle, } tryfal pylonglog, tryfal pylongl.

Acute-angled triangle, Oxygonous triangle, } tryfal llymonglog, tryfal llymongl.

Plane triangle, Rectilinear triangle, } tryfal unionlin, tryfal cyflinog, tryfal gwastad.

Curvilinear triangle—tryfal cyrflinellog, tryfal crymlinellog.

Triangled, *a.* trionglog, triongl.

Triangular, *a.* trionglog, triongl, teironglog, teirongl.

Triangularity, *s.* triongledd, teirongledd.

Triangulate, *v. a.* triongli, tryfalu.

Triangulated, *a.* ar ddull trionglog.

Triangulating, *s.* trionglíad. tryfaliad.

Triangulation, *s.* trionglíad, tryfaliad.

edge, *v. a.* cynio, geingio; gyru *neu* roi cŷn *neu* aing yn; llettemu, llettemio; gwrthgeingio, gwrthgynio; gwrth-hoelio; rhoi *neu* yru gwrthaing yn; hollti; cyngwasgu.
To wedge one's self in—ymwthio *neu* ymeingio i mewn.
edge-shaped, *a.* ar lun cŷn *neu* aing; geingaidd, cynffurf.
Wedlock, *s.* (*wed* a *lock* ?) priodas.
Wedlock, *v. a.* priodi.
Wednesday, *s.* (S. *Wodensdæg;* Sw. *Odensdag, Onsdag: Woden* neu *Odin* a *day*) dydd Mercher, dydd Merchur, dyw Mercher, dyw Merchur.
Wee, *a.* (o'r Al. *wenig*) bach, bychan, pitw.
Weech-elm, *s.*=*Witch-elm; Wych Elm.*
Weed, *s.* (S. *weod*) chwynyn: *pl.* chwŷn.
Bishop's weed—esgoblys, llysiau yr esgob.
Dyer's weed—melengu, cynffon titw.
Sorrow weeds grow apace, } methed y
Ill weeds grow apace, } gwenith, e dyf y chwŷn; methed à fetho, e dyf y chwŷn.
Weed, *s.* (S. *wæd, wæda*) gwisg.
Widow's weed—galarwisg gweddw, galarwisg gwraig weddw, gwisg gweddw, gwisgoedd gweddw.
Weed, *v. a.* (S. *weodian*) chwynu; tynu ymaith y chwŷn; tori y chwŷn; tynu chwŷn; chwynogli.
Weeder, *s.* chwynwr, chwynydd, chwyniedydd; chwynogl.
Weedery, *s.* chwynfa; †chwŷn.
Weeding, *s.* chwyniad, chwynogliad.
Weeding-tool, *s.* chwynogl.
Weedless, *a.* diehwyn, heb chwyn.
Weedy, *a.* chwynog, llawn chwŷn.
Week, *s.* (S. *weoc;* Is. *week;* Al. *wocke*) wythnos.
Rogation week—wythnos y gweddïau.
This day week—wythnos i heddyw.
Weekday, *s.* dïwrnod gwaith, dydd gwaith; dydd o'r wythnos (heb y Sul).
Sunday, holiday, and weekday—Sul, gŵyl, a gwaith.
Weekly, [illegible]ythnosol; à ddel *neu* à ddygwydd bob wythnos.
Weekly, *ad.* bob wythnos, yn wythnosol.
Weel,† *s.* (S. *wæl*) pwll tro, llyn tro.
Weel, } *s.* telm wiail (i ddàl pysgod).
Weely, }
Ween, *v. n.* (S. *wenan*) tybio, tybygu, tybied, meddwl. [in
Weep, *v.* (S. *wepan*) wylo, wylofa, wylofi; llefain, crio; dagru, dagreuo; alaethu, galaru; arwylo.
To weep together—cydwylo, &c.
Weeper, *s.* wylwr, wylydd, wyledydd; arwylwr; rhimyn gwyn ar alarwisg.
Weeping, *s.* wylofain, wylofaeth, wylad, llefain; galar, alaeth.
Weeping-birch, *s.* bedwen wylofus, bedwen ymlaesol.
Weeping-crosses, *s. pl.* croesau wylofain, croesau wylo, croesau wylofus.
Weeping-willow, *s.* helygen ymlaesol, helygen
Weerish,† *a.* diflas, merf; surllyd. [wylofus.
Weet, *v. n.* (S. *witan*) gwybod; tybied.
Weetless,† *a.* anwybodus.
Weever, *s.* morwiber, colbysg.
Weevil, *s.* (S. *weft;* Al. *wibel*) gwyfyn yr yd, meisgyn, ydys.
Weevily, *a.* meisgynog.
Weezel, *a.* teneu, cul, llym.
Weft, *s.* (o *weave*) y bwrw, y ddylif, arwe, anwe; gwe; y peth à weuer.
Weft,† *s.* (o *waive*) peth à dafler heibio; peth dïarddel.
Weftage,† *s.* gwead, gweawd.
Wegotism, } *s.* (o *we*) nyniaeth=mynych arfer
Weism, } y gair *ni* neu *nyni*.
Wehrgeld, *s.*=*Weregild.*
Weigh, *v.* (S. *wæg, waegan;* Al. *wägen*) pwyso; clorianu, tafoli; rhoi mewn clorian *neu* dafol; bod o bwys; codi; ystyried, pwyllo; barnu; profi wrth.
To weigh anchor—codi angor.
To weigh down—gorbwyso, traphwyso; pwyso i lawr.
To weigh equally—cydbwyso, cydfantoli.
Weigh, *s.*=*Wey.*
Weighable, *a.* pwysadwy.
Weighage, *s.* pwysdal, pwysdoll; tâl am bwyso.
Weigh-bridge, *s.* pont bwyso.
Weighed, *a.* profedig; pwysedig.
Weigher, *s.* pwysiwr, pwysydd, pwysedydd.
Weigh-house, *s.* pwysdy, ty pwyso.
Weighing, *s.* pwysad, pwysawd.
Weighing-house, *s.* pwysdy, ty pwyso.
Weight, *s.* (o *weigh;* S. *wight;* D. *vigt*) pwys, pwysi; trymder; pwysiant; llwyth, pwn, baich; pwysigrwydd.
Even *or* equal weight—cydbwys, cydbwysedd, cydbwysi.
Of great weight—pwysfawr, pwysig; mawr ei bwys.
Of the same quantity and weight—cymmaint cymhwys.
Weightiness, *s.* pwysigrwydd, pwysfawredd, pwysgarwch, pwysineb; trymder, athrymedd; dwysder; grym.
Weightless, *a.* dibwys; ysgafn.
Weighty, *a.* pwysig, pwysfawr, pwysgar; trwm, athrwm; sylweddol; grymus; †llym.
Somewhat weighty—gobwysig, lledbwysig, go drwm, lled drwm.
Weir, } *s.* (S. *wær, wer*) cored; argae; pyn-
Wear, } farch; trosfa.
Weird,† *a.*=hyddysg mewn swynion.
Weism, *s.* (o *we*) nyniaeth=mynych arfer y gair *ni* neu *nyni*.

Weird,† *s.* swyn, swyngyfaredd; tynged.
Weive,† *v. a.* = *Waive.*
Welaway,† *in.* (S. *wa, la, wa*) och! ow! gwae fi!
Welcome, *s.* (*well* a *come*; S. *wellcume*) croesaw, gresaw, arfoll, hawddammor.
Cold welcome, } glas resaw, croesaw gwàn,
Half-welcome, } croesaw oeraidd.
Welcome is the best cheer—nid gwledd ond croesaw.
Welcome, *a.* â chroesaw iddo new wrtho; croesawedig; arfollog; derbyniol, cymmeradwy.
He is heartily welcome—y mae croesaw calon iddo; y mae iddo resaw calon; y mae croesaw iddo o'm calon i; y mae iddo groesaw o'm calon.
A welcome present—anrheg dderbyniol.
Welcome, *v. a.* croesawu, gresawu, croesaw, arfolli, hawddammori, hawddammor, gogyfarch, derbyn yn groesawgar new yn resawus.
Welcomeness, *s.* croesawgarwch, croesawusrwydd; derbyniad croesawgar; diolchgarwch.
Welcomer, *s.* croesawydd, gresawydd, gresäwr, arfollwr, gwr croesawgar, croesawus, gresawgar, new resawus.
Weld, } *s.* melengu, cynffon titw.
Wold, }
Weld, *v. a.* (Sw. *välla*; Al. *wellen*) asio; iasu.
Weld,† *v. a.* = *Wield.*
Welding, *s.* asiad.
Welfare, *s.* (*well* a *fare*; Al. *wohlfahrt*) llwyddiant, ffyniant, dedwyddwch, hawddfyd, llwydd, hwyl dda; lles, daioni; iechyd.
Welk,† *v. n.* (Al. ac Is. *welken*) adfeilio, edwino, gwanychu, gwanhau, nychu, pallu, methu; byrhau.
Welked, *a.* rhychog; crych.
Welkin, *s.* (S. *wolc, wolcen*) ffurfafen, entrych, wybr.
Welkin eyes—llygaid gleision (yn ol *Johnson*): llygaid gwibiog (yn ol *Todd*).
Well, *s.* (S.; Al. *quelle*) ffynnon, ffynnonell; pydew; tarddiadell, tardden.
A little well—ffynnonig, ffynnonell; pydewyn.
Well, *v.* tarddu, ffynnoni.
Well, *a.* (S.; Al. *wohl*; Ll. *valeo*) iach; llwyddiannus, ffynniannus, ffynniannol, ffynnedig, hylwydd; da; dedwydd; gwych; iawn.
All is well—y mae pob peth yn dda.
All is well that ends well—ys dedwydd diwedd dedwydd; da pob peth da ei derfyn.
Is all well? — a ydyw pob peth fel y dymunech.
Perfectly well—holliach, olliach.
Well, *ad.* da, yn dda, yn iawn; iawn, yn wych, yn fawr; purion, o'r goreu, wel.
As well, } cystal, cystadl, yn gystal, dâed,
So well, } mòr dda, cystled, cyn gystled.
As well as—cystal a, cystal ag, &c.
Very well—da iawn; yn dda iawn; da dros ben; yn dda dros ben; yn hydda; o'r goreu; purion; yn wych iawn.
Exceedingly well—da iawn; da dros ben.
Full well, } da iawn; yn dda iawn, &c.,
Right well, } yn eithaf da.
Well begun is half done—deuparth gwaith ei ddechreu; llaw ar y gorchwyl yw hanner y gwaith.
It shall not be well with the wicked—ni bydd daioni i'r drygionus; nid da hyd i'r drygionus.
Well, *in.* da! wel! wele! wela! idde.
Well then—wel ynte, wele ynte, yna yn iddo ynte.
Well, come on—wel, dyre yn mlaen wele, tyred yn mlaen.
Welladay, *in.* (S. *wa la wa*) ia! och! och! O! A! wb! wbwb! iwb.
Well-advised, *a.* pwyllog, hybwyll, synwyr, gwastadbwyll, call, doeth, ystyriol, gwyliadwrus, ymogelgar, darbodus.
With the well-advised is wisdom—gyda'r pwyllog y mae doethineb.
Well-affected, *a.* da ei ewyllys; yn dra ewyllys da, yn ewyllysio yn dda; plaidiol.
Well-behaved, *a.* moesog, moesgar, moesmoddus, gweddus, gweddaidd; da ei fodd da ei ymddygiad; boneddigaidd.
Well-being, *s.* llwyddiant, ffynniant, llwyddiant, lles, lleshâd, daioni, dedwyddwch.
Well-beloved, *a.* anwyl garedig, anwyl gennus; anwyl, hoff.
Well-born, *a.* = *Well-born* (d. g. *Born*).
Well-bred, *a.* = *Well-bred* (d. g. *Bred*).
Well-descended, *a.* = (d. g. *Descended*).
Well-doing, *s.* cyflawniad dyledswyddau gwneuthur da, gwneuthur daioni.
Well-done, *a.* digon, yn ddigon; à digon ddigon; à gogiwyd yn ddigonol.
Well-done, *in.* da! da iawn! purion! o'r gore da'r gwaith! teg.
Well-favoured, *a.* = (d. g. *Favoured*).
Well-handled, *a.* iawn-driniedig; à thrinwyd yn iawn new yn hyfedr; wedi ei drin yn iawn new yn hyfedr.
Well-hole, } *s.* gwagle mewn grisia
Well, }
Well-informed, *a.* gwybodus, arwyddhyddysg.
Well-intended, *a.* = *Well-meant* (d. g. *Meant*).
Well-known, *a.* = *Well-known* (d. g. *Known*).
Well-mannered, *a.* moesog, moesgar, moeswych, hyfoesg; da ei foes; boneddig, neu eddigaidd.
Well-met, *in.* da y cyfarfod; mae yn dda gen eich gweled; gwych gyfarfod.
Well-minded, *a.* da ei fryd; da ei feddwl.
Well-natured, *a.* = *Good-natured.*
Well-nigh, *ad.* prin na, braidd na; yn agos bron, yn mron; o fewn ychydig; bron, braidd; braidd.
Well-pleased, *a.* llwyr foddlawn, cwbl foddlawn.
Well-pleasing, *a.* cymmeradwy, boddlonga.
Well-room, *s.* cell y dwr (mewn cwch).
Well-set, *a.* cydnerth; cadarn-gyfi, and; wedi ei iawn osod.
Well-spent, *a.* iawn-dreuliedig, à iawn-dreuliwyd; iawn-draul.
Well-spoken, *a.* da ei dafod; da ei ymadrodd; â thafod da iddo; hyawdl, fluentb.
Wellspring, *s.* ffynnon; ffynnes anhysbyddadwy.
Well-water, *s.* dwfr ffynnon.
Well-willer, *s.* ewyllysiwr da.
Well-wish, *s.* dymuniad da.
Well-wisher, *s.* ewyllysiwr da, dymuniwr da.
Welsh, *a.* (S. *wealliac*, o *weal*, *wall*, wal) Cymreig, Cymrëig; perthynol i'r Gymraeg; perthynol i'r Cymry; perthynol i Gymru.

Welsh language, } Cymraeg, Cymräeg, yr
Welsh tongue, } iaith Gymraeg, yr
Welsh, } iaith Gymreig, iaith y Cymry, iaith Cymru, iaith Gymru.
The Welsh Bible—y Beibl Cymraeg, y Beibl Cymreig.
The Welsh Laws—y Cyfreithiau Cymreig, Cyfreithiau Cymru.
The Welsh borders, } cyffiniau Cymru.
The Welsh marches, }
The Welsh bishops—Esgobion Cymru.
The Welsh people—y Cymry, pobl Cymru.
The Welsh nation—cenedl y Cymry, y genedl Gymreig.
Welsh idiom—Cymreigiaeth; priodwedd Gymreig; dull ymadrodd priodol i'r Gymraeg.
A Welsh critic—Cymreigydd, Cymreigwr.
A Welsh translator—Cymreigiwr, cyfieithydd Cymreig; cyfieithwr i'r Gymraeg.
Welsh lumps—priddfeini Cymreig.

Welsh, *s.* Cymraeg, Cymräeg, yr iaith Gymraeg, &c.
To render into Welsh, } Cymreigio; troi
To translate into Welsh, } neu gyfieithu i'r Gymraeg, Cymreigeiddio.
One skilled in Welsh—Cymreigydd, Cymreigwr; un hyfedr yn y Gymraeg: *f.* Cymreiges, Cymreigyddes.
Here nothing is heard but Welsh—ni chlywir yma ond Cymraeg.
The Welsh is the only language here—y Gymraeg yw yr unig iaith yma.
Welsh and English, } Cymraeg a Seison-
Welsh-English, } eg.

Welsh, *s. pl.* Cymry, y Cymry: *sing.* Cymro.

Welshman, *s.* Cymro.
Welshmen—Cymry.

Welshwoman, *s.* Cymraes, Cymräes: *pl.* Cymraesau.

Welshy, } *a.* Cymreigaidd, Cymreigiol.
Welshlike, }

Welt, *s.* (C. *gwald*) gwaldas, gwaltes, gwald, ymyl, ymylgylch, eirionyn; gwrym.

Welt, *v. a.* gwaldasu, gwaldysu, gwaldu, gwalteisio, ymylu.

Welt, *v. n.* = *Wilt.*

Welted, *a.* gwalteisiog, gwaldasog.

Welter, *v. n.* (S. *wæltan;* Al. *walzen;* D. *vatter*) ymdrybaeddu, ymdreiglo, ymdroi, ymdrochi, dysgreinio, ymgreinio.

Welting, *s.* gwaldas, ymyl.

Wem,† *s.* (S.) craith, mân, brycheuyn.

Wem,† *v. a.* (S. *wemman*) llygru.

Wen, *s.* (S. *wenn; wen*) crangen, llyngrang = math o chwydd *neu* oddfyn tyner.
Full of wens—crangenog.

Wench, *s.* (S. *wencle*) llances, hogen; herlodres, hocrell; mwyglen, anlladferch: *pl.* merchetach.
Saucy wench—coegen.
Strapping wench—llabïen, llabïes.
Wanton wench—mwyglen, anllades, anlladferch, putain, cyffoden.
A wench (in America)—dynes ddu, duanes.

Wench, *v. n.* merchetа; dylyn, erlyn, erlid, *neu* hela mwyglenod; gwragedda; puteinia.

Wencher, *s.* merchetwr; hocrellwr; dylynwr, erlynwr, *neu* heliwr mwyglenod; gwragedd-wr.

Wench-like, *a.* llancesaidd, hocrellaidd.

Wend, *v. n.* (S. *wendan*) myned, cerdded, troi.

Wennel,† *s.* = *Weanel.*

Wennish, } *a.* (o *wen*) crangenaidd.
Wenny, }

Went, *v.* (o *wend*) aethym; aeth, &c.
I went—aethym.
He went—aeth.
They went—aethant.

Wept, *v.* (o *weep*) wylais; wylodd; wylant, &c.
I wept abundantly—wylais yn hidl *neu* yn hidlaidd.

Wept, *p. p.* wyledig, &c.
To be wept for—i wylo drosto *neu* am dano; à haeddai wylo drosto; gwiwgwyn.

Were, *s.* = *Wear, Weir.*

Were, *v.* (D. *vœrer;* Sw. *vara*) oeddym, oeddem; oeddynt, &c.
We were—oeddym, oeddem, oem; buom.
You were—oeddych, oeddech, oech; buoch.
They were—oeddynt, oeddent, oent; buont, buant.
Were it not, that—oni bai, bod.

Weregild, } *s.* (S. *wer*, a *gild, geld*) gwrwerth
Weregeld, } (yn mhlith yr hen Sacsoniaid).
Wehrgeld, }

Werst, } *s.* milltir Rwsia = 3500 troedfedd, neu
Verst, } o ddeutu tri chwarter milltir Lloegr.

Wervels, *s. pl.* = *Vervels.*

Weasand, *s.* = *Weasand.*

Wesil,† *s.* = *Weasand.*

West, *s.* (S., Is., ac Al.) gorllewin, gorllewydd, llewenydd, llewynydd, llywyn, llewyn, llywynydd; machlud haul, machludiad haul.

West, } *a.* gorllewinol, llewin, llewinol, llyw-
Western, } ynol, gorllewyddol, llewenyddol.

West, *ad.* tua'r gorllewin.

West,† *v. n.* machludo; llewino; tynu tua'r gorllewin.

Westering, *a.* gorllewinol, llewin; yn troi *neu* yn tueddu tua'r gorllewin.

Westerly, *a.* gorllewinol, llewinol, llewin, gorllewyddol.

Westerly, *ad.* tua'r gorllewin.

Western, *a.* (*west*, a S. *ærn*) = *West, a.*

Westernmost, } *a.* pellaf i'r gorllewin; llew-
Westmost, } inaf.

Westing, *s.* pellder tua'r gorllewin; llewiniad, gorllewiniad.

Westward, } *ad.* (S. *westward*) tua'r gor-
Westwardly, } llewin.

Wet, *a.* (S. *wæt;* D. *væde*) gwlyb, (*f.* gwleb); llaith, gwlybyrog, gwlyborllyd; gwlawog; ynwst, wst.
Cold and wet—oerwlyb, gwlyboer.
Soaking wet—gwlyb soegyn, gwlyb sopas.
Thoroughly wet—gwlyb drwyddo; gwlyb soegyn, gwlyb sopas; wedi ei wlychu yn gwbl.
Wet season—gwlybhin; gwlybaniaeth.

Wet, *s.* gwlyb; gwlybaniaeth; gwlybwr; gwlych; gwlybhin; dwr; gwlaw; lleithder.

Wet, *v. a.* gwlychu, gwlybhau, gwlybio, gwlybu; peri *neu* wneyd yn wlyb, &c.; lleithio; mwydo; ynystäu; trochi; sicio.

Wether, *s.* (S. *wether, wedder*) mollt, myharen, maharen: *pl.* myllt, myheryn, meheryn.

Wetness, *s.* gwlybrwydd, gwlybyrwch, gwlybyrogrwydd; gwlybaniaeth; gwlyb; lleithder.

Wet-nurse, *s.* mammaeth wlyb, mammaeth wlyb, llaeth-fammaeth, llaethfam, gwlebfammaeth.

Wetshod, *a.* troedwlyb.
Wettish, *a.* gwlybaidd, lledwlyb, gwlyborllyd, gwlybyraidd.
Wex, *v.* = *Wax.*
Wey, *s.* (o *weigh*) telbwys=pwys neu fesur neilldnol.
A wey of corn—40 pwysel o yd.
A wey of cheese—o 2 i 3 chanpwys o gaws.
A wey of butter—o 2 i 3 chanpwys o ymenyn.
A wey of wool—182 pwys o wlan.
Weasand, *s.* = *Weasand.*
Whack, *v. a.* pwmpio, curo, dulio, taro.
Whack, *s.* pwmp, dul, ergyd.
Whacker, *s.* peth amrosgo; celwydd goleu.
Whale, *s.* (S. *hwal*, *hwæl*) morfil, morfarch, moran.
Whalebone, *s.* asgwrn morfil, asgwrn moran.
Whale-fishery, *s.* pysgodfa morfilod; pysgodwriaeth morfilod.
Whale-fishing, *s.* pysgodwriaeth morfilod; pysgota morfilod.
Whaleman, *s.* pysgotwr morfilod, morfil-wr.
Whaler, *s.* pysgotwr morfilod, morfil-wr, moranwr; pysgodlong, pysgodlong morfilod, llong bysgota morfilod, llong forfilod.
Whaling, *s.* pysgota morfilod.
Whall, } *s.* llygadfrithedd=math o anhwyldeb
Whaull, } llygaid.
Whally, *a.* llygadfrith.
Whame, *s.* cacynen y merich, cethreor.
Whammel, } *v. a.* dymchwel, dymchwelyd,
Whemmel, } diwel.
Whang,† *s.* carai ledr; llain.
Whang,† *v. a.* curo, pwyo, dulio, llaehio.
Whap,† *s.* pwmp, ergyd.
Whapper, *s.* peth mawr amrosgo; celwydd goleu.
Wharf, *s.* (S. *hwarf*, *hweorf*; Is. *werf*; D. *werf*) porth dwyn, twyn y borthfa, porthfa, glanfa, llwythfa, gwarthdwyn.
Wharfage, *s.* porthdal, toll porthdwyn, tâl porthdwyn.
Wharfing, *s.* porthdwynan.
Wharfinger, *s.* ceidwad neu olygydd porthdwyn, porthdwynwr.
What, *pro.* (S. *hwæt*; Is. *wat*; Al. *was*) pa; beth, pa beth; yr hyn; à; py; pwy; y fath, peth, rhyw ran, rhyw.
What about—pa ham, pam, am beth, am ba beth.
What quantity—pa faint, pa gymmaint, pa dwysg.
What of that?—beth am hyny?
What is the matter with you?—pa beth sydd arnoch?
What countryman—gwr o ba wlad.
At what time—pa amser, pa bryd; ar ba amser; ar ba bryd; pan, pryd.
At what time soever—pa bryd bynag, pa amser bynag.
From what?—pa rag? rhag pa beth? rhag peth?
What though?—beth er?
Mind what you are about—dâl ar yr hyn sy genyt mewn llaw; rho dy fryd ar dy orchwyl.
I will do what I can—gwnaf a allwyf.
They act contrary to what they promise—gwnânt yn wrthwyneb i'w haddewid.
What, *ad.* o ran; weithiau; rhwng; peth.
What,† *s.* pethau; nwyddau.
Whatever, } *a.* (*what*, *so*, ac *ever*) pa bynag
Whatsoever, } pa beth bynag, beth bynag.
What-not, *s.* astell ar fur, &c.; astell lân.
Whatso,† *a.* = *Whatsoever.*
Wheal, *s.* (=*weal*) llymoryn, pendduryn, pl. ploryn, crugyn, pothell, ffothell.
A little wheal—pothell.
Full of wheals—llynorog, crugynog, pothellynog; llawn llynorod, &c.
Wheat, *s.* (S. *hwæte*; Al. *weitzen*; Is. *hveiti*) gwenith; gwenithyd.
A grain of wheat—gwenithen, gwenithyn, gronyn gwenith, gronyn o wenith.
Bearded wheat—gwenith barfog, gwenith coliog.
Wheat-land—gwenithdir, tir gwenith.
Wheat-country—gwlad wenithog, cwr lawn o wenith.
Wheat-flour—cân gwenith, peillied.
Wheatear, *s.* (*wheat* ac *ear*) twysen wen, twysen o wenith: *pl.* twys, twysenau, dwyseni gwenith.
Wheatear, *s.* y gynffonwen, tinwen y cerrig, tinwyn y cerrig).
Wheaten, *a.* o wenith; gwenithaidd.
Wheat-grass, *s.* gwenithwellt.
Creeping wheat-grass—gwenithwellt cropiog, daenol, gwenithwellt ymdaen, gwenithwellt y cwn, gwenithwellt rhedegog, cribau ci, triagl y cwn.
Sea rushy wheat-grass—gwenithwellt brwynaidd y morlan.
Dwarf sea wheat-grass—corweinwellt y morfin.
Fibrous wheat-grass, } gwenithwellt ffi-
Bearded wheat-grass, } wraidd hir, gwenithwellt coliog.
Wheat-plum, *s.* eirinen wenith.
Wheedle, *v.* (Gr. *φοίτεω*? *cdtdll*?) hudo geiriau teg; hudo, denu, llithio; trin gwenieitho, cocri, llarach, gorllyfnu, sidanu.
Wheedler, *s.* hudwr, llithiwr, truthar, twyllwr, ieithydd, &c.
Wheedling, *s.* hudiad â geiriau teg, ymadrawdeg; hudiad, llithiad, &c.
Wheel, *s.* (S. *hweol*; Is. *hvél*; Sw. *hiul*) olwyn, troell; sidell, sidyll, cant; amdro, amdroad.
Spinning wheel—rhod nyddu, troell nyddu.
The ring of a wheel } cant, baeg, nêf.
The hoop of a wheel } *neu ambren olwyn.*
The hoop of a (spinning) wheel—sidell rhod, sidyll rhod.
Nave of a wheel—both olwyn, bogel olwyn, bogel troell.
Cog-wheel—deintrod, rhod gocsau, rhod gocos.
Turner's wheel—turnen, *troell tarn.*
Fly-wheel—sidell, chwynan, chwyrlbedd, chwyf-olwyn, chwyrn-rod, chwyf-drosol.
The wheel of a pulley—*troell chwerfan*, troell chwerfan dro.
Mill-wheel—rhod melin, olwyn melin.
Potter's wheel—troell crochenydd.
A little wheel } rhodig, rhodan; troellan.
A small wheel } troellan; olwynig, olwynan.
Wheel and axle—olwyn ac echel; olwyn a gwerthyd; y rhod ac echel.
Wheel, *v.* olwyno, troelli; chwylo; dwyn neu gludo mewn berfa; troi yn grwn; troi yn

dyll; troi ar begwn; troi ar ei begwn; troi gwmpas; troi o amgylch; troi; treiglo; ngylchu; myned o amgylch.

To wheel about—troi o amgylch, o gwmpas, yn ol, *neu* yn ei wrthol; chwyldroi, amdroi.

To wheel off } chwylo, *neu* olwyno ym-
To wheel away } aith; troelli, dwyn, cludo, *neu* gario ymaith mewn berfa.

eel-animal, } *s.* rhodfilionyn, rhodfilyn:
eel-animalcule, } *pl.* rhodfilionos.

eel-barrow, *s.* berfa olwyn, berfa olwynog, erfa drol, berfa droell.

eel-bird, *s.* aderyn y droell, y rhodor, y hodwr.

eel-boat, *s.* rhodfad.

eel-carriage, *s.* cludai olwynog, cludai troellg, rhodog, troell-gludai; cerbyd olwynog, ;c.

eeled, *a.* olwynog, rhodog, troellog, rhodellg; âg iddo droellau, olwynion, *neu* rodau; r olwynion.

Four-wheeled carriage—cerbyd pedrrodog, pedrrod, pedrolwyn, *neu* bedrolwynog; cerbyd pedair olwyn; pedr-rod, pedrrodog.

eeler, *s.* olwynwr, olwynydd, trolsaer, hodwr; saer olwynion, saer troellau, saer hodau; chwylwr, tröwr.

eeling, *s.* olwyniad, troelliad; chwylad; road, &c.

eel-race, *s.* pwll rhod ddwr, pwll y rhod, wll yr olwyn.

eel-tire, *s.* cant olwyn, baesg; sidell, sidyll.

eelwork, *s.* troellwaith, rhodwaith.

eelwright, *s.* saer olwynion, saer troellau, aer rhodau, olwynwr, rhodwr.

eely, *a.* troellog, olwynog, rhodog; crwn.

eeze, *v. n.* (Sw. *hveesan;* Sw. *hvása*) cegwichio, cegwichian, cegleisio; gwichio (gân gaethder anadl).

eezing, *s.* cegwichiad; cegwich.

heezy, *a.* cegwichlyd; gwichlyd; moglyd.

elk, *s.* crychyn; oddfyn, cnwc; crugdardd, goryn, llynoryn; gwichiad, gwichiedyn.

helky, *a.* oddfog, oddfynog; boglynog.

elm, *v. a.* (S. *ahwylfan*) gorchuddio, enuddo, claddu, cluddio; dymchwelyd; suddo iros ei ben; gorlwytho, gorwasgu.

help, *s.* (D. *kvalp;* Sw. *valp;* Is. *welp*) enaw, ceneu, colwyn, pothan, pothon: *pl.* enawon: *f.* cenawes.

Lion's whelp—cenaw llew, ceneu llew.

An old dog will not play with a whelp—ni chwery hen gi â cholwyn.

help, *v. n.* dyfod â chenawon; bwrw cenawon, bwrw ceneu, bwrw cenaw.

hen, *ad.* (S. *hwanne;* Al. *wann*) pan, pan y, ban, pryd, pa bryd, pryd y; pa amser, yr amser y; tra.

When? (=at what time?)—pa bryd? pa amser?

Just when—ar y mynyd pan; ar y fynyd pan; cyn gynted ag; yn y mân ag.

Let him come when he will—deued pan fyno.

hence, *ad.* (S. *hwanon*) o ba le; o ba fân; pa le; o ba un; o'r hyn; oddi wrth yr hyn.

Whence art thou—o ba le y'th henyw?

hencesoever, } *ad.* (*whence, so,* ac *ever*) o ba
hencever, } le bynag; o ba fân bynag; o ba un bynag; o ba beth bynag.

Whenever, } *ad.* (*when, so,* ac *ever*) pa bryd
Whensoever, } bynag; pa amser bynag; pryd bynag.

Where, *ad.* (S. *hwær;* Is. *waar*) pa le, pa fân, lle, y lle, y mân, y fân; yn mha le; yn mha fân; yn yr hwn; yn mha un.

Whereabout, *ad.* yn nghylch pa le; yn nghylch pa fân; am ba le *neu* fân; yn nghylch pa un; yn nghylch yr hwn, &c.

Whereabout, } † *s.* y lle y mae un ynddo.
Whereabouts, }

Whereas, *ad.* (*where* ac *as*) gân, cân; cyd; yn gymmaint a; o herwydd; ond yn y gwrthwyneb; tra yn y gwrthwyneb; tra o'r tu arall; pan mewn gwirionedd; †yn yr hwn.

Whereat, *ad.* (*where* ac *at*) wrth yr hyn; wrth ba beth; wrtho, &c.; wrth ba beth? wrth beth?

Whereby, *ad.* (*where* a *by*) trwy yr hyn; trwy yr hwn, &c.; trwy ba beth; pa fodd.

Wherefore, *ad.* am hyny; o herwydd pa ham; am ba achos; o ba herwydd; pa ham? pam? i ba beth? am ba beth; pynag?

Wherein, *ad.* (*where* ac *in*) yn yr hyn, yr hwn, *neu* yr hon; ynddo, &c.; yn mha beth; yn mheth.

Whereinto, *ad.* i'r hyn; i'r hwn; i ba le.

Whereness,† *s.* lleoldeb.

Whereof, *ad.* o'r hyn; am yr hyn; o ba beth.

Whereon, } *ad.* ar yr hyn; ar yr hwn; ar
Whereupon, } hyny; ar ba beth.

The ground whereon we tread—y ddaiar y sathrwn arni; y tir y sengwn arno.

Whereso,† *ad.* = *Wheresoever.*

Wheresoever, *ad.* (*where, so,* ac *ever*) = *Wherever.*

Wherethrough,† *ad.* trwy yr hyn.

Whereto, } *ad.* i'r hyn; i'r hwn; at yr hyn;
Whereunto, } at yr hwn; i ba beth; at ba beth; ato, &c.

Wherever, } *ad.* pa le bynag; pa fân bynag;
Wheresoever, } yn mha le bynag; yn mha fân bynag.

Wherewith, } *ad.* â'r hyn, â'r hwn; trwy yr
Wherewithal, } hyn, trwy yr hwn; â pha beth; trwy ba beth; pa fodd.

Wherret,† *v. a.* (Al. *wirren*) blino, aflonyddu, ystuno; bonclustio, cernodio.

Wherret,† *s.* bonclust, cernod.

Wherry, *s.* (yr un a *ferry*) ceubal; cwch, bad, bad ysgafn; cwch pysgota; badlong; osai afalau surion, chwerwy.

Whet, *v. a.* (S. *hwettan*) hogi; awchlymu, awchu, minio, llymhau, llifo; cythruddo, cyffröi.

Whet, *s.* hogi, hogiad, llymedr.

Whether, *pro.* (S. *hwæther*) pa un.

Whether of the two—pa un o'r ddau.

Whether, *ad.* ai; pa un ai; pa un bynag; pa un; os; a.

Whether it be good or bad—pa un bynag ai da ai drwg.

You shall do it, whether you will or not—chwi a'i gwnewch, na bodd nac anfodd genych.

Whethering, *s.* daliad *neu* gadwad y brych (mewn buchod).

Whetstone, *s.* hogfaen, maen hogi, careg hogi, hogalen, hogal, agalen, galen, calen hogi, llymedras.

Whetslate, } *s.* hoglech, llech hogi,
Whet-slate-stone, } ellynfaen.

Whetter, *s.* hogwr, hogydd, hogiedydd.
Whew, *int.* chwew!
Whewer, *s.* chwiwell, chwiwiad: *pl.* chwiwa.
Whey, *s.* (S. *hwæg;* Ia. *væi, hvæi*) maidd; meiddlyn.
First whey from the cheese—maidd symi.
Second whey from the curds—maidd glas.
Whey-drink—meiddlyn; chwigwa, chwig.
Curds and whey—meiddlon, maidd; llaeth sopen llithrig; cawa a llaeth; cawa a maidd.
Whey, *a.* meiddlyd; glaswyn.
Wheyey, } *a.* meiddlyd, meiddaidd.
Wheyish, }
Wheyishness, *s.* meiddlydrwydd.
Which, *pro.* (S. *hwilc, hwylc;* Ia. *welke;* Al. *welche*) pa un; pwy; pa rai; pa; yr hyn, yr hwn, yr hon; à; y rhai.
Which of them—pa un o honynt; pwy o honynt; pa rai o honynt.
Which of these—pa un o'r rhai hyn; pwy o'r rhai hyn; pa rai o'r rhai hyny.
Which is which—pa un yw pa un; p'un yw p'un; pwy yw pwy.
Which of you—pwy o honoch; pa un o honoch.
I know not which to choose—ni wn pa un à ddewisaf.
Take which you will—cymmerwch yr un à fynoch.
Whichever, } *a.* pa un bynag, pa bynag,
Whichsoever, } bynag pa.
Whiff, *s.* (C. *chwiff, chwyth*) chwiff, pwff, piff, chwa, chwyth; awelyn.
A whiff of tobacco—chwiff neu fygyn o ffwgws; tyn, tyniad, neu dynfa o fwg mygiys.
Whiff, *v. a.* chwiffio, piffio, pyffio, mygu.
Whiffle, *v.* (D. *weifelen, zweeven*) troi gyda phob awel; bod mor anwadal a cheiliog gwynt; troi yn y tresi; bwhwman, anwadalu; chwythu'r chwib; chwareu y ffon ddwybig; †chwalu.
Whiffle, *s.* chwib, chwibanogl.
Whiffler, *s.* un anwadal, anwastad, neu benchwiban; un à dry gyda phob awel; anwadalyn, ysgoewan; chwibanwr, chwibanoglwr; rhagflaenor.
Whiffling, *s.* troad gyda phob awel, &c.; anwadalwch, anwastadrwydd, penchwibandod.
A whiffling fellow—un à dry gyda phob awel; un anwastad, anwadal, neu benchwiban.
Whiffle-tree, } *s.* tinbren, cambren, bonbren,
Whipple-tree, } ysgilbren.
Whig, *s.* (S. *hwæg*) maidd sur, surfaidd, chwig, chwigws; llaeth glas.
Whig, *s.* (oddi wrth *whig*=maidd sur, medd rhai: yn ol ereill, talfyriad o *whiggamores* (a hwnw o *whiggam*), gair arferedig mewn rhai parthau o'r Alban am *yrwyr* neu *cilwaid ceffylau*. Arferid y gair ar y cyntaf am y Cyfammodwyr yn yr Alban) Chwigiad, Chwig: *pl.* Chwigiaid, Chwigwys.
Whigs and Tories—y Chwigiaid a'r Toriaid.
Whig, } *a.* perthynol i'r Chwigiaid; Chwig-
Whiggish, } aidd.
Whiggarchy, *s.* (*Whig*, a Gr. *archê*) llywodraeth y Chwigiaid, Chwig-lywiaeth.
Whiggery, } *s.* Chwigiaeth, egwyddorion y
Whiggism, } Chwigiaid.
Whiggishly, *ad.* yn ol dull neu arfer y Chwigiaid.
Whigling, *s.* (o *whig*) Chwigyn, Chwigiad.
While, *s.* (S. *hwile;* Al. *weil;* Ia. *vy chwyl*) ennyd neu enyd o amser; enyd; amsaer; talm o amser; tro, ysbaid, chwyl, gwers, haeg, plve, rhyw ychydig.
A little while after—ychydig wedi hyn hyny; ychydig wedi, ychydig wedyn.
Some while after—rhyw ennyd o amser wedi hyn neu hyny; rhyw enyd wedi hyn neu hyny; rhyw ennyd wedyn.
All the while—yr holl amser; trwy yr amser; yr holl ddyddiau; tra.
After a while—yn ol ennyd, enyd, awd, neu dalm o amser.
It is worth while, } o ddal am ei wneu-
It is worth the while, } ur; o ddal ei
boen; y mae yn werth ei wneuthur mae yn werth y boen.
While, } *ad.* tra; hyd, hyd oni, tan; cyn.
Whilst, } a, cyhyd a; cyhyd, cyd.
While he lived—tra y bu byw; tra bu
While I have my being—tra byddwy.
While, *v. a.* oferdreulio, treulio yn wagdreulio; ofera, gwastraffu; gwan. gohirio.
Whilere,† *ad.* (*while* ac *ere*) ychydig yn ol; yn ennyd; hanmercyn yn ol.
Whiles,† *ad.*=*While, Whilst.*
Whilk, *s.* (=*which*) gwichiad, gwichiaid; gwichiaid.
Whilom,† *ad.* (S. *hwilon*) gynt, cynt; cyn; unwaith; yn gyntaf.
Whim, *s.* (Isl. *hvima;* C. *chwim*) gofreg, asbri, gwyn anwadal, chwa, nwyth, nwyd, prane, gwamalle, hepynt, ymaldod, breuddwyd chwimplath.
Idle whim—coegdyb, gwagdyb.
Whimbrel, *s.* coegyl finhir.
Whimper, *v.* (Al. *wimmern*) golefain, geran, pipian.
Whimperer, *s.* golefwr, gereinwr, gerei gereinllyd, un geranllyd.
Whimpering, *s.* geran, golefain.
Whimpled,† *a.* gereinllyd.
Whimsey, *s.* (o *whim*) mympwy, gofreg, nwyth, gwyn anwadal, *chwim, &c.*
Whimsey,† *v. a.* llenwi à mympwyon.
Whimsical, *a.* (o *whimsey*) mympwyol, wyog, gofregus, ymmala, nwythus, nwythog, nwythol, arnwythus, asbrig, asbri; digrif, hyntiog; penchwibanol ffol.
Whimsicalness, } *s.* nwythusrwydd,
Whimsicality, } rwydd, nwythgrwydd, nwythua, mympwyoldeb, nwydedd, gofregedd, ymaldod, &c.
Whimwham, *s.* chwedl gwrach; coegdrwd, gwagchwedl; coegbeth, tegan, dafodrol; gofreg.
Whin, *s.* (C. *chwyn*) eithin, alth: *sing.* eithinen.
Petty whin — eithin, eithin yr ia, eithin mân.
Common whin — eithin ffrenig, eithin Ffrengig.
Whin-axe *s.* bwyell eithin, cymmyni eithin.
Whin-chat, *s.* clochdar yr eithin, ceic yr eithin.
Whine, *v. n.* (S. *wænian, cwanian;* Isl. *kvæna*) cwynofain, cwynfan, cwynfana, cwyno, cerngwyno; dywedyd yn gwynfanus, yn gwyn

nllyd, *neu* yn bipianllyd; gwneuthur llais -fain; clafleisio; cwynleisio, cwynlleisio, rgrïo, oerleisio, pipian, crewtio, peuferu; ain, wbain, uban, wban, udo, cwynnadu.
ine, *s.* llais llefain, clafiais, cwynlais, cwyn-ais, llais cwynfanllyd, cwynfan; peufer; ban, wban; crewt.
iner, *s.* cwynfanwr, clafleisiwr, cwynlleisiwr, ewtyn, un cwynfanllyd, un à wnelo lais efain.
ining, *p.* yn cwynofain, gàn gwynofain, dàn wynofain, &c.; cwynfanus, cwynfanllyd, pianllyd, crewtiol.
inny, *a.* (o *whin*) eithinog, llawn eithin.
inny, *v. n.* (Ll. *hinnio*, cyfathrach i *whine*) weryru, gweryrad, gwilrin.
instone, } *s.* eithfaen=math ar bilergraig.
in, }
inyard, *s.* cleddyf (mewn dirmyg).
ip, *v.* (S. *hweopan*; Is. *wippen*) ffrewyllio, frewyllu, ffiangellu; cipio, ysgipio, brysio, rysio, chwipio; bancawio; gewnio; yseifio; dyrnu; llachio.
ip, *s.* ffrewyll, ffiangell; rhoden; gyrwr erbyd; bancaw.
Whip and spur—ar frys gwyllt; gyda'r brys mwyaf; yn wyllt ac yn chwipyn.
hipcord, *s.* llinyn *neu* gortyn blaen ffrewyll; llinyn ysleifiau, cordyn ysleifiau.
hipgraft, *v. a.* bancaw-impio.
hip-hand, *s.* llaw y ffrewyll; y llaw uchaf, y llaw drechaf; y goreu, y trechaf; mantais.
hip-lash, *s.* ysleifyn, ysleifen, *neu* garai ffrewyll; blaen ffrewyll.
hipper, *s.* ffrewyllydd, ffrewyllwr, ffiangellwr.
Whipper-in—helwas y ffrewyll; gwesyn y ffrewyll, gwas y ffrewyll, ffrewyll-was; ffrewyll y cwn.
Whipper-snapper, *s.* gwas heini, gwas chwipyn, gwesyn gwisgi, chwipwesyn.
Whipping, *s.* ffrewylliad, ffrewyllawd, ffiangelliad.
Whipping-post, *s.* post ffrewyllu, post y ffrewyll, post y ffiangell.
Whipple-tree, } *s.* cambren, tinbren, bonbren,
Whiffle-tree, } ysgilbren.
Whippo-wil, } *s.* (oddi wrth y swn à wna) y
Whippoor-will, } rhodor seinfawr=un o adar Amerig.
Whipsaw, *s.* (*whip* a *saw*) hesglif, llif hir, llif bwll, rhygnell, chwiplif.
Whipstaff, *s.* braich y llyw, llywgoes, llywrwyf.
Whipster, *s.* gwas heini, gwas chwipyn, gwesyn gwisgi, chwipwas, cyflymwas; hudleidr,
Whipstick, *s.* coes ffrewyll. [hocedwr.
Whipstitch, *s.* chwipyn y pwyth (=enw o ddirmyg ar wniedydd); ceibrad (wrth aredig).
Whipstock, *s.* coes ffrewyll, troed ffrewyll.
Whir, *v.* (o'r sain) chwyrnellu, chwyrnu, chwyrio, chwyrian, chwyrn-drystio; chwyldröi, chwefru; troi dàn chwyrnu; sïo; brysio, dyfrysio.
Whirl, *v.* (S. *hwyrfan*; Al. *wirbeln*; Sw. *hwirfla*) chwildroi, chwyldroi, cyldroi, chwyrnellu, dystroi, amdroi, troi; troi yn chwyrn; troi yn sidyll; rhodellu, chwerfu, troelli, tarnio, sitio, sidellu, sitallu, troellenu.
To whirl about—chwyldröi, cylchdröi, amdröi; troi yn sidyll; troi *neu* fyned oddi amgylch.
To whirl round—troi yn sidell, troi yn sidyll; chwyldröi, &c.

Whirl, *s.* chwyldro, chwildro, cylchdro, amdro, tro, dystro, chwyrn-dro; chwerfan, troellen, troell, sidyll, sidell, rhodell, chwarf, turnen; chwif, chwiw, gwid, sid, chwip.
Whirlbat, *s.* maneg dyrnodiwr, dyrnfol.
Whirlblast, *s.* trochwyth, trowynt.
Whirlbone, *s.* padelleg, padell penlîn, padell pen y glin, pellen pen glin, padell y glin.
Whirler, *s.* chwyldröwr, chwyldröedydd, chwyrnellwr.
Whirlicote, *s.* hen gerbyd penagored.
Whirligig, *s.* (*whirl* a *gig*) chwyrnell, chwirligwgon, chwirligwgan.
Whirling, *a.* yn chwyldroi, &c.; chwyrnol; dystroawl; serfol, serf.
Whirlpit, † *s.*=*Whirlpool.*
Whirlpool, *s.* llyn tro, pwll tro, trobwll, llynclyn, claig, sugnbwll.
Whirlwind, *s.* corwynt, trowynt, awel dro, gwynt ffalm, toredwynt.
Whirring, *s.* (o *whir*) chwyrnelliad, chwyrnad, chwyrniad; siad.
Whisk, *s.* (Al. ac Is. *wisch*; C. *hwysg*) tusw, tuswy, tasgell, ffasgell; ysgubellig, ysgubellan, ysgubell, sitell; llamdro, crychnaid; hwysg, cwthwn.
The whisk of a switch—clec, ysgort, *neu* grinell gwialen.
A whisk of straw—tusw o wellt, tasgell o wellt.
Whisk, *v.* ysgubo, ysgubellu, ysgubelligo, hwysgo, ysgudo, ysgutho, dysgubo; sitellu, chwipio; gweithio *neu* gynhyrfu âg ysgubellig; tasgellu; llamdroi; crychneidio: myned ar lamdro *neu* ar grychnaid; myned yn chwimmwth, ar redeg, ar hedeg, ar ehedeg, *neu* ar nawf.
Whisker, *s.* (o *whisk*) trawswch, (*pl.* trawsych), trawgern, cern-flew, cern-gudynau, barf y foch, cernfarf.
Whiskered, *a.* trawsychog.
Whisket, *s.* basged.
Whisky, } *s.* (Gw. *wisge beatha*=dwfr bywyd)
Whiskey, } pwtwn, gweisgwy, wysg y byw.
Whisky, } *s.* (o *whisk*, tebygol) math o gerbyd.
Whiskey, } an unmarch.
Whisper, *v.* (S. *whisprian*; Sw. *wiska*; Al. *flispern*) sisial, husting, hustyng, sibrwd, sisialu, sisiala, siffrwd, syganu, sistrain, siffro, eddrin, eddrino, ymhusting, suo, *sisyfwl*; dywedyd yn nghlust un.
To whisper together—cydsisial, &c.
Whisper, *s.* sisial, husting, hustyng, sibrwd, sygan, siffr, eddrin, sis, goheb.
Whisperer, *s.* hustingwr, sisialwr, sisialydd, sibrydwr, sibrydydd.
Whispering, *a.* sisialog, hustingol, syganol, eddrinol, sibrydol.
Whispering gallery — oriel sisialog, sisoriel.
Whispering, *s.* sisialiad, hustingiad, syganiad, eddriniad; sisial, husting, sygan, eddrin.
Whist, *a.* (Cern. *huist*; C. *ust*) dystaw, tawedog; tawel, llonydd; mud.
Whist, † *v.* ustio, dystewi, gostegu.
Whist, *in.* ust! taw! ystaw!
Whist, *s.* (o *whist*, *a.*) chwaren ar gardiau, chwarau ust.
Whistle, *v.* (S. *hwistlan*) chwiban, chwibanu; chwiban ar; chwibanogli, chwythellu.
Whistle, *s.* (S. *hwistle*; Ll. *fistula*) chwythell, chwib, chwibanogl, chwythen; chwiban.

Whistle-bish, *s.* chwippyag, barfwyniad y môr.
Whistler, *s.* chwibanwr, chwibanydd.
Whistling, *p.* yn chwibian, &c.; chwibanol, chwibanog, chwibanllyd.
Whistling wind—gwynt chwibanog, gwynt chwibanllyd.
With a whistling sound—yn chwibanllyd, dan chwiban; gyda swn chwibanllyd.
Whistly,† *ad.* (o *whist*) yn ddystaw, &c.
Whit, *s.* (S. *wiht*) mymryn, tipyn, chwythryn, gronyn, y dim lleiaf, eflyn, efnyn.
White, *a.* (S. *hwit*; Sw. *hvit*; Is. *wit*; Al. *weiss*) gwŷn, (*f.* gwèn); càn, canaid; pur.
Yellowish white—melynwyn, melyngan.
Reddish white—cochwyn.
Bluish white—glaswyn.
Variegated white—brithwyn.
Pale white—gwŷn gwàn, gwelwyn, gwelwgan, lledwyn, gowyn.
Greyish white—llwydwyn.
Delicately white—meinwyn, ceinwyn.
Very white — gorwyn, tra gwŷn, gwŷn iawn, gorgan.
White bread—bara càn, bara gwŷn.
White, *s.* gwŷn; gwyni; dyddon.
White, *v. a.* gwynu, gwynhau, cànu, arwynu; gwyngalchu; calchwynu.
White-ash, *s.* yr onen wèn=onen America.
White-bait, *s.* gwynbysg, yr abwyd gwŷn.
White-beam, } *s.* cerddinen wèn, criaf-
White-beam-tree, } allen wèn.
White-bottle, *s.*=oodrwth, llysiau y poer, menyg y gog.
White-boy, *s.* Bachgen Gwŷn=un o'r terfysgwyr Gwyddelig cylch y flwyddyn 1762.
White-boyism, *s.* egwyddorion *neu* ymddygiad y Bechgyn Gwŷnion.
White-braut, *s.* yr hwyad wèn, hwyad y gogledd.
White-campion, *s.* lluglys gwŷn.
White-cap, *s.* penwyn, golfa y mynydd.
White-car, *s.* y gynffonwen, tinwyn y ceryg (*f.* tinwen y ceryg), y rhonwyn, (*f.* rhonwen).
White-centaury, *s.* canri wèn.
White-crop, *s.* cnwd gwŷn=cnwd o wenith, haidd, rhyg, ceirch, &c.
White-ear, } *s.* y gynffonwen, y rhonwen,
White-tail, } tinwyn y ceryg.
White-face, } *s.* bali=llain wèn yn nhalcen
White-blaze, } ceffyl.
White-faced, *a.* wynebwyn, (*f.* wynebwen); bal.
White-foot, *s.* troed gwŷn.
White-foot, } *a.* troedwyn, (*f.* troedwen).
White-footed, }
White-friars, *s. pl.* Brodyr Gwynion, Brodyr Gwisgwyn, Mynachod Gwynion.
White-headed, *a.* penwyn, (*f.* penwen); brigwyn, (*f.* brigwen).
White-heat, *s.* gwyniad.
White-land, *s.* tir gwyn.
White-leg, *s.* coes wèn=math o ddolur coes.
White-legged, *a.* coeswyn, (*f.* coeswen).
Whitelight, *s.* goleuni gwŷn, goleu gwŷn.
Whitelimed, *a.* calchwyn, gwyngalchedig.
White-line, *s.* llinell wèn, llinell wag, llinell ddyddon.
White-livered, *a.*=d. g. *Livered.*
Whitely, *ad.* yn wŷn.
White-meat, *s.* gwynfwyd; gwynawd, gwynod; llaethfwyd, bwyd llaeth; cig adar, ewningod, &c.
White-money, *s.* arian gwynion, arian gleiniog.
Whiten, *v.* gwynu, gwynhau; cànu, arwynu; gwneuthur yn wyned; myned yn wyn; gorwynu.
Whitener, *s.* gwynwr, gwynhâwr, cànwr; arwynwr.
Whiteness, *s.* gwyndeb, gwyndra, gwynwyd, gwyni, gwyndeb, canaidrwydd.
Whitening, *a.* gwynhaol.
Whitening, *s.*=*Whitening.*
White-nun, *s.* y lleian wèn.
White-pot, *s.* gwynod, gwynawd, potaid gwyn
White-pyrites, *s.* taenfaen gwyn.
White-rent, *s.* ardreth wen.
White-rot, *s.* amrain, toddaid wèn, toddaid wèn, cron y gwaerydd, llysiau y gwiwig.
Floating white-rot—amrain dyfrdrig.
Whites, *s. pl.* y gwynion, gwynred.
White-shark, *s.* morgi gwŷn.
Whitester, *s.* cànwr, gwynwr.
Whitestone, *s.* gwŷnfaen, y gareg wèn.
White-swelling, *s.* chwydd gwŷn.
White-tail, *s.* y gynffonwen, y rhonwen, tinwyn y ceryg (*f.* tinwen y ceryg).
White-thorn, *s.*=*White thorn* (d. g. *Thorn*
White-throat, *s.* y gwddf gwŷn, y cegyrn, y gegwen).
Whitewash, *s.* gwynolch; calchlyn.
Whitewash, *v. a.* gwynolchi; golchi yn wyn; calchwynu, gwyngalchu.
Whitewasher, *s.* gwynolchwr; calchwyr calchwynydd, gwyngalchwr.
White-water, *s.* dwfr gwŷn, dwr gwŷn: hwyldeb ar ddefaid.
White-wax, *s.* cwyr gwŷn.
White-willow, *s.* helygen wèn.
White-wine, *s.* gwin gwŷn, gwyn-win.
White-wood, *s.* y coed gwynion; eleurys
Whitewort, *s.* amranwen, bronwen.
Whither, *ad.* (S. *hwyder*) i ba le; i'r lle fân; lle; i ba le? pa le?
Let him go whither he will—aed le myno; aed i'r lle y myno.
Whithersoever, *ad.* (*whither* a *soever*) i ba bynag; i ba fân bynag; pa le bynag, pa fân bynag; tua pha le bynag.
Whitherward, *ad.* tua pha le.
Whiting, *s.* (o *white*) gwyniad, gwyniad y môr morwyniad; gwynfwn, gwynfwyn, lledfer.
Whitish, *a.* gwynaidd, lledwyn, gowyn, gwynwyn, ar y gwŷn.
Whitishness, *s.* gwyneiddrwydd, lledwyndeb gowyndra.
Whitleather, *s.* (*white* a *leather*) lledr gwyn.
Whitlow, *s.* (S. *hwit* a *low*) ewinor, ewinrug gwlithen, bystwn.
Whitlow-grass, *s.* llysiau y bystwn, llysiau y ewinor.
Whit-Monday, } *s.* dydd Llun Sulgwyn.
Whitsun-Monday, } Llun y Sulgwyn.
Whitret, *s.* (*white rat?*) y fronwen, *y wenci*
Whitster, *s.*=*Whitener.*
Whitsun, *a.* perthynol i'r Sulgwyn; sulgwyn
Sulgwyn.
The Whitsun-holidays — gwyliau y Sulgwyn, gwyliau Sulgwyn.
Whitsunday, *s.* (*white* a *Sunday*) Sulgwyn, Sulgwyn, dydd Sulgwyn.
Whitsuntide, *s.* y Sulgwyn, gwyl y Sulgwyn, gwyliau y Sulgwyn, dyddiau y Sulgwyn, amser y Sulgwyn.
Whitsun-week, *s.* wythnos y Sulgwyn.

ıitten, *s.* y llwyfen fanddail, ysgawen y dwr.
ıittle, *s.* (S. *hwitel*) cyllellan; gwlanen wàr, warwisg, mantell wàr, twygrwymyn, hugwymyn.
ıittle, *v. a.* cyllellu; tori à chyllell; †hogi, wchlymu.
ıitybrown, *a.* gwynllwyd; llwydwyn.
ıiz, *v. n.* (o'r sain: cyttras à *hiss*) sïo; hwibanu, chwiban; chwyrnellu, chwyrnogli.
ıiz, *s.* si, chwiban.
ıizzing, *p.* yn sïo, gàn sïo, &c.; sïol; chwibanol, chwibanllyd, chwyrnain.
ıo, *pro.* (S. *hwa*; Is. *wie*; Ll. *qui*; Ff. *que*) yr hwn, yr hon, y sawl, y neb, yr un, à; y 'hai; pa un; pwy?
Who is this?—pwy yw hwn? *f.* pwy yw hon?
Who owns this?—pwy bïau hwn? eiddo pwy yw hwn? pïau hwn?
ho, } *in.* wo! aros! saf!=gair arferedig wrth
o, } geffylau.
hoever, *pro.* (*who* ac *ever*) pwy bynag.
hole, *a.* (S. *walg*, *onwalg*) holl, oll; cyfan, cwbl, cydol, hollol, hollus, llwyr, cyflwyr, cyfa, cyfan-gwbl, cyffred, cyffredol; iach.
The whole country—yr holl wlad; y wlad oll.
To make whole—cyfanu, cyfàu; gwneuthur yn gyfan, &c.; iachau; gwneuthur yn iach; cyweirio, diwygio.
To make whole again—cyweirio, adgyweirio.
'hole, *s.* y cwbl, y cyfan, yr oll, y cyfoll, y cwbl, y crynswth, y swm; cyfanwaith; cyfander; corffolaeth.
On the whole—ar y cyfan.
Vhole-hoofed, *a.* carn-gyfan.
Vhole-length, *a.* cyfanhyd; o hyd cyflawn; o ben bwygilydd.
Whole-length portrait — darlun cyflawn hyd, ardeb cyfanhyd.
Vholeness, *s.* cyfander, cyfanedd, cyfanrwydd; iachusrwydd, iechyd.
Vholesale, *s.* cyfanwerth, gwerth dàn swmp; y crynswth.
Vholesale, *a.* cyfanwerthol, cyfanwerth.
Wholesale dealer—cyfanwerthwr, cyfanwerthydd, masnachydd cyfanwerth.
Wholesome, *a.* (*whole* a *some*; Al. *heilsam*) iachus, iach, iachusol, iachol; da; hyfryd.
Wholesomeness, *s.* iachusrwydd.
Wholly, *ad.* yn gyfan, yn gwbl, yn hollol, yn llwyr, &c.; achlân.
Wholly and entirely—yn gyfan ac yn gwbl.
Whom, *pro.* (gwrthryohai *who*: Ll. *quem*, *quam*) yr hwn, yr hon; y rhai, y sawl, y neb; à; pwy?
Whomsoever, *pro.* pwy bynag; pa rai bynag; cynag pwy, bynag pwy.
Whoobub,† *s.*=*Hubbub*.
Whoop, *s.* (=*hoop*: Goth. *wopyan*; S. *hwcopan*) bloedd, gwaedd, garm, gryd, gawr; dolef, iewan; cadlef, cadfloedd; gawr rhyfel a chad.
Whoop (in ornithology)—y gopog.
Whoop, *v.* bloeddio, gwaeddi, gawrl, garmio, grydian, grydio, iewan.
Whooping-cough, *s.*=*Hooping-cough*.
Whoot, *v. n.*=*Hoot*.
Whop,† *s.* ergyd trwm.
Whop, *v. a.* taro, curo.
Whopper, *s.* peth amrosgo neu anferthol ei faint; celwydd mwy na chyffredin.

Whore, *s.* (S. *horcwen*; Al. *hure*; Is. *hoer*; C. *huran*) putain, huran, huren, dyhiren, dyhirog, mwyglen, budrog, budrogen, cyffoden, cymmones, anlladferch, gwraig llwyn a pherth.
Whore, *v.* puteinio, chwarau y butain; llygru à phuteindra.
Whoredom, *s.* puteindra, puteinigrwydd; puteiniaeth; llodineb.
Whoremaster, } *s.* puteiniwr; godinebwr.
Whoremonger, }
Whoremasterly, *a.* puteinllyd, anllad, puteiniol, fel puteiniwr.
Whoreson, *s.* mab y butain, puteinfab, basdardd, basderddyn.
Whoreson,† *a.* basdarddaidd; bawaidd, gwael.
Whorish, *a.* puteinllyd, puteinig, puteinaidd, puteiniol, budrogaidd, anllad, godinebus.
Whorishness, *s.* puteinigrwydd, puteinioldeb.
Whorl, *s.* (=*whirl*) troellen (blodau), blodrwy.
Whorled, *a.* troellenog, blodrwyog.
Whort, } *s.* (S. *heort*) llus, llusi, llusi duon bach,
Whurt, } llus duon bach, mwyar y brain; lluswydd.
Whortleberry, *s.* (S. *heort-berg*) llusen, llusïen; lluswydden: *pl.* llus, llusi, lluswydd, &c.
Whose, *pro.* (o *who*) eiddo pwy? pwy biau? pwy? yr hwn, yr hon; y rhai.
Whose is this?—eiddo pwy yw hwn? pwy biau hwn? pïau hwn?
Whose art thou? i bwy y perthyni di; pwy a'th biau? eiddo pwy wyt ti?
Whose shall it be—eiddo pwy fydd hi neu ef.
Whosesoever, *pro.* eiddo pwy bynag; eiddo pa rai bynag.
Whoso,† *pro.* pwy bynag.
Whosoever, *pro.* (*who*, *so*, ac *ever*) pwy bynag.
Whosoever he be— pwy bynag fyddo.
Whur, *v. n.* (o'r sain) chwyrnu; seinio y llythyren r yn rhy gryf.
Whur, *s.* chwyrnad.
Whurt, *s.*=*Whort*.
Why, *ad.* (S. *hwi*) pa ham, pam, am ba achos, am ba beth; py; ys; wel.
Why not—pa ham na? pam na? beth ynte? pa ham nad e? pa ham lai?
Why so?—pa ham hyny? pam hyny? pa ham felly? pam felly? py felly?
Why, *s.* anner, treisiad.
Why-not, *s.* peth heb reswm drosto; peth heb bam drosto.
With a why-not—yn ddïarbed; yn ddïergryn, yn ddigyngyd; yn ddi ba ham.
Wick, *s.* (S. *weoc*; Sw. *veke*) pabwyryn, (*f.* pabwyren): *pl.* pabwyr.
Wicked, *a.* (Sw. *vika*; S. *wican*) drwg, drygionus, anfad, anfadus, diriaid, drygus, ysgeler, mall, barus, dyhir, diras, anwarus.
The wicked one—y drwg, yr un drwg, y fall, y gwr drwg.
Wickedly, *ad.* yn ddrwg, yn ddrygionus, &c.
Wickedness, *s.* drygioni, drygedd, drygionusrwydd, drwg, anfadrwydd; anwiredd; annuwioldeb.
Wicken, } *s.* cerddinen, cerdinen, criafolen,
Wicken-tree, } criafallen, cyrafolen, pren cyrawol, pren cyrawel: *pl.* cerddin, cerdin.
Wicker, *s.* (*D. vien*; Al. *sweig*; Is. *twig*) merhelygen; gwialen eilio.
Wicker, } *a.* à wnaed o ferhelyg gwialog.
Wickered, }

Wicker basket—basged ferhelyg, basged wiail.
Wicker-work, *s.* pleth wiail, plethwaith gwiail, basg, basgwaith, gwialwaith, gwaith gwail.
Wicket, *s.* (Ff. *guichet*) gorddrwa, gorddor, dryssan, gwiced, rhagddor, rhagddrwa.
Wide, *a.* (S. *wid, wide;* Is. *wyd;* Al. *weit*) llydan; eang, helaeth, ehelaeth; rhwth, (*f.* rhoth); ang, eng, angol; pell.
As wide as—cyfled a, cyfled ag; cyn lleted a; mòr llydan a.
Wide, *ad.* yn llydan; yn mhell; ar led.
Far and wide—yn mhell ac ar led, yn mhell ac yn agos.
Wide open—llawn agored, rhwth agored, penegored, penagored, agored led y pen.
Wide-branched, *a.* llydanfrig, briglydan.
Widely, *ad.* yn llydan, &c.
Wide-mouthed, *a.* safnrwth, cegrwth, safnog, cegog, ceglydan; â genau rhwth iddo; â cheg roth iddo.
Widen, *v.* llydanu, lledu, helaethu, eangu; agor, agoryd, egor; rhythu; llydu; ymledu, ymlydanu, ymagor.
Wideness, *s.* llydander, llydanrwydd, llydandra, helaethrwydd, eangder; lled, llyd.
Widgeon, } *s.* chwiwell, chwiwiad: *pl.* chwiws,
Wigeon, } chwiwiaid.
Widow, *s.* (S. *widew;* Al. *wittwe*; Ll. *vidua*) gweddw, gwraig wedd, dynes weddw.
Widow, *v. a.* gweddwi; peri yn weddw; amddifadu.
Widowed, *p. p.* gweddwedig; gweddw; amddifad.
A widowed person—dyn gweddw.
Widower, *s.* gwr gweddw, gweddw; gwr wedi claddu ei wraig.
Widowerhood, *s.* gweddwdod gwr.
Widowhood, *s.* gweddwdod.
Widow-wail, *s.* wylaeth y weddw=math o loaglys.
Width, *s.* (o *wide;* Al. *weite;* Is. *wydte*) lled, llydander, llyd, eangder.
Of equal with width—cyfled, gogyfled, unlled, cyfledol.
To make of equal width—cyfledu, gogyfledu.
Wield, *v. a.* (S. *wealdan*) trin, trino, trinio; llywio, rheoli, rhwyfo, llofi, dylofi, llofio; trafod; defnyddio, arferu, ymarfer â; dwyn.
Wieldable, *a.* trinadwy, &c.
Wieldless, *a.* annhrinadwy, anhydrin, anrhwyfadwy.
Wieldy, *a.* trinadwy, llofiadwy, dylofiadwy, rhwyfadwy, rheoladwy, llywiadwy.
Wiery,† *a.*=*Wiry.*
Wiery, *a.* (S. *wær*) gwlyb, llaith, corsog.
Wife, *pl. Wives, s.* (S. *wif;* Is. *wyf;* Al. *weib*) gwraig, gwraig briod, gwraig weddog, cyddwedd, gwraig wriog, cywely, cywelyes, cywestach: *pl.* gwragedd.
The wife's grandmother — rhagchwegr, nain y wraig, nain yn y gyfraith, nain yn nghyfraith.
The wife's grandfather — rhagchwegrwn, taid y wraig, taid yn y gyfraith, taid yn nghyfraith.
Wifehood, *s.* gwreigdod.
Wifeless, *a.* diwraig, anwreigiog, anmhriod, anweddog.
Wifely, *ad.* gwreigaidd, gwreigiol.
Wifely, *ad.* fel y gweddai i wraig; yn wreigaidd.
Wig, *s.* (Al. *wreck*) ffugwallt, gwallt gwallt dodi, gwalltwe, peagawch.
Wig, *s.* chwiogen.
Wigeon, *s.*=*Widgeon.*
Wigged, *a.* â ffugwallt ar ei ben; peagawg
Wight, *s.* (S. *wight;* Al. *wicht*) dyn, dynyn, person.
Wight, } † *a.* (S. *áwest*) buan, cyflym, ar
Wicht, } heini.
Wig-maker, *s.*=*Periwig-maker.*
Wigwam, } *s.* burthyn Indiaidd, bwth,
Wigwaum, } bwth, caban.
Weekwam, }
Wig-weaver, *s.* gwalltwëydd.
Wild, *a.* (S., Al., ac Is.) gwyllt; annaf anial, anwyllyniog, anniwyll, anialog ffaeth; gŵydd; bwyst; allaidd; dwy annhrefnus, didrefn; gwylltiog.
A wild man—dyn gwyllt, dyn anwa
A wild young man } dyn ieuanc gw
A wild youth } dyn ieuanc chwi
A wild ass—asyn gwyllt: *f.* asen wyl
A wild beast—bwystfil, gwyllt gwyllt, gwyddfil, bwystfera, coed, anifail y maes, gwyddlwdn.
A wild country—gwlad anial, gwlad gwlad anniwyll.
To grow wild—myned yn wyllt gwyddo; tyfu yn wyllt; tyfu yn wyddelig; rhedeg yn wyllt: gw
Very wild—gorwyllt, hywyllt, nadd enwyllt.
Wild, *s.* anial, anialwch, anialfan, ffaeth, diffaethdir, gwyllt, diderf, annedd.
Wild-boar, *s.* baedd gwyllt, gwyddfaedd
Wild-duck, *s.* hwyadwyllt.
Wilder, *v. a.* (Is. *vilder*) dyrysu, colli y ffordd.
Wilderness, *s.* (o *wild*) anialwch, anialfan, anialdir, diffaeth, diffaethwch, gwyllt, diderf; †annhrefn.
Wild-eyed, *a.* tremwyllt; gwyllt ei olwg.
Wild-fire, *s.* tân gwyllt; tandde (ar ddafad
Wild-fowl, *s.* adar gwyllt ion, ednain gwyllt ednod gwyllt ion: *sing.* aderyn gwyllt.
Wild-goose, *s.* gŵydd wyllt, elcyan: gwyddan gwyllt ion, elcya.
Wild-goose chase—hela gŵydd wyllt; gŵydd wyllt.
To lead one a wild-goose chase—rhe helfa dwyllodrus; denu yn mlaen ô gwy addewidion.
Wild-honey, *s.* mêl gwyllt, mêl gwenyn gwyll ion.
Wilding, *s.* peth gwyllt, gwylltyn: *pl.* gw ion.
Wilding, *s.* afal sur, grobosyn, surafal, afal pren gwyllt, prên anniwyll; *adallen,* wydden.
Wild-land, *s.* tir gwyllt, tir gŵydd, gwyllt
Wildly, *ad.* yn wyllt, &c.
To look wildly—hylldremio, hylldremu; edrych yn wyllt.
Wildness, *s.* gwylltineb, gwylltedd, gwyllt annofrwydd; chwidredd; anahrefn; anwy yniogrwydd.
Wild-oat, *s.* gwylltgeirch, ceirch gwyllt, ffe
